THE UNIVERSITY
OF ILLINOIS
LIBRARY
220.7
J71b

L. W. John's book
Fish Creek
Wis.

THE LIBRARY
OF THE
UNIVERSITY OF ILLINOIS




HUGHES & SON, WREXHAM.

# Y BEIBL A'I DDEHONGLIAD:

NEU

## ARWEINIAD I'R YSGRYTHYRAU SANTAIDD.

GYDA MAPIAU, DARLUNIAU YN EGLURO ARFERION DWYREINWYR A GWASANAETH Y CYSSEGR, DANGOSEG, A THAFLEN O YSGRYTHYRAU.

GAN Y

PARCH. HUGH JONES, D.D.,

LLANGOLLEN.

(ARGRAFFIAD NEWYDD DIWYGIEDIG).

THE LIBRARY OF THE

MAR 25 1930

UNIVERSITY OF ILLINOIS.

WREXHAM:

CYHOEDDEDIG GAN HUGHES AND SON, HOPE STREET.

220.7
J71b

12 Mr 31 Hew

# RHAGYMADRODD.

---

Wrth ddwyn allan argraffiad newydd o'r "Beibl a'i Ddehongliad," dymuna yr Awdwr ddadgan ei ddiolchgarwch didwyll am y derbyniad croesawus a roddwyd i'r gwaith ar ei ymddangosiad cyntaf. Cafodd ei gymmeradwyo yn wresog gan wahanol gylchgronau y Wasg Gymreig; a dichon y gellir edrych ar hyn, yn nghyda'r ffaith fod yr argraffiad cyntaf wedi cael ei werthu mewn amser byr, fel arddangosiad fod y llyfr, i ryw fesur, yn llenwi yr hyn a deimlid yn fwlch yn ein Llenyddiaeth Feiblaidd.

Gwnaed amryw o ychwanegiadau o bwys at y gyfrol yn yr argraffiad presennol, yn enwedig yn y Pennodau ar y Canon, Dwyfoldeb y Beibl, ac Anhawsderau y Beibl. Mewn gair, ymdrechwyd gwneyd "Y Beibl a'i Ddehongliad" yn Arweiniad cryno, cynnwysfawr, a chredadwy *(reliable)* i efrydiaeth yr Ysgrythyrau;—digon syml ac eglur, ar un llaw, i'r gwanaf ei amgyffredion a'r isaf ei gyrhaeddiadau allu ei ddeall; a digon manwl a beirniadol, ar y llaw arall, fel ag i fod o wir gymhorth i ieuenctyd ein heglwysi, aelodau ein Dosbarthiadau Beiblaidd, a deiliaid ein Hysgolion Sabbothol.

Er nad yw y gwaith hwn ond bychan, mewn cymhariaeth, eto yr oedd llafur mawr i'w barotoi. Yr oedd *pwysigrwydd* y testyn y fath ag i hawlio y gofal mwyaf i'w ddeall yn gywir; yr oedd ei *natur* y fath ag i alw am efrydiaeth ddwys, darlleniad ëang a manwl, nid ychydig o allu beirniadol, a doethineb a phwyll, er ei drafod yn effeithiol; ac yr oedd yr *amcan mewn golwg*, sef cynnorthwyo eneidiau anfarwol i ddeall Oraclau y Bywyd, yn gyfryw ag i deilyngu ymroddiad trylwyr er ei gyrhaedd. Gwnaeth yr Awdwr ei oreu o dan yr amgylchiadau.

720668

Cyfeirir yn nghorph y gwaith at wahanol awdwyr. Cydnabyddir pob cymhorth neillduol a gafwyd ganddynt: bryd arall, cyfeirir atynt yn niwedd pennodau fel rhai yn trafod y pynciau dan sylw mewn modd cyffredinol, ac, yn fynych, mewn modd helaethach, nag y caniatâi terfynau y llyfr hwn. Dichon ein bod (fel y sylwai Dr. Wayland am weithiau yr esgob Butler), yn fwy dyledus i rai o honynt, o herwydd adnabyddiaeth blynyddoedd â hwynt, nag yr ydym yn ymwybodol. Mae'n bossibl, o herwydd hir arferiad â "*Llaw-lyfr y Beibl*," gan y Parch. J. Angus, D.D., ein bod yn fwy dyledus i'r gwaith rhagorol hwnw, nag yr ydym yn ystyried; modd bynag, anfynych y defnyddiem ef cyn cyfansoddi y gwahanol bennodau, rhag ofn i ni yn ddiarwybod syrthio i'w arddull, neu fabwysiadu ei gynllun; pan y gwneir defnydd o hono, cydnabyddir hyny yn ddieithriad. Gwnaeth y bardd medrus, a'r pregethwr hyawdl, y Parch. J. R. Morgan, D.D., wasanaeth pwysig i Gymru trwy gyfieithu y "*Bible Hand-Book*" i'r Gymraeg. Mae y pennodau ynddo ar "Ddilysrwydd ac Awdurdod yr Ysgrythyr,"—"Neillduolrwydd y Beibl fel Dadguddiad oddiwrth Dduw,"—ac ar "Ddehongliad yr Ysgrythyr," yn dra rhagorol; a'r "Rhagarweiniad i Lyfrau y Beibl," yn anmhrisiadwy. Mae'r Meistri Hughes a'i Fab, Wrexham, wedi gosod Cymru o dan rwymau adnewyddol iddynt, trwy gyhoeddi argraffiad newydd mor rhagorol o'r gwaith gwerthfawr hwn yn Gymraeg.

Teithia y rhan liosocaf o ysgrifenwyr ar Ddehongliad y Beibl bron yr un llwybr. Mae "*Elements of Biblical Criticism and Interpretation*," wedi eu casglu gan Moses Stuart o weithiau Ernesti, Keil, Beck, a Morus, yn cynnwys llawer o awgrymiadau gwerthfawr a phwysig; felly hefyd *Pareau's* "*Interpretation of the Old Testament;*" "*Planck's Introduction to Sacred Philology and Interpretation*" (ond ei fod, ar y cyfan, yn rhy gyffredinol); *W. Carpenter's* "*Popular Lectures on Biblical Criticism and Interpretation;*" a *Horne's* "*Introduction to the Critical Study and Knowledge of the Holy Scriptures.*" Gwaith gwerthfawr ydyw *Barrows's Introduction to the Study of the Bible*," cyhoeddedig gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol. Mae y gwaith hwn bron cymmaint a'r "*Bible Hand-Book*," gan Dr. Angus, ond nid ydyw yn ymgymmeryd â thrafod cynnifer o bethau, ac oblegyd hyny y mae yr ymdriniaeth â'r pynciau dan sylw ynddo yn dra eglur a boddhaol. Nid yw *Dr. Dœdes's* "*Manual of Hermeneutics for the New Testament*," yn cyfateb i'r dysgwyliad a gyfoda yn meddwl y darllenydd. Mae *Fairbairn's* "*Hermeneutical Manual*,"

yn waith pwysig, ac yn gyfarwyddyd gwerthfawr, gan un cadarn yn yr Ysgrythyrau. Erthygl ragorol hefyd ar Ddehonglaeth Ysgrythyrol yw eiddo yr esgob Ellicott, yn y llyfr a elwir "*Aids to Faith.*" Llyfr gwerthfawr a galluog ydyw *Seiler's* "*Biblical Hermeneutics,*" yn cynnwys llawer o gyfarwyddiadau pwysig gyda golwg ar Ddehonglaeth y Beibl; ei brif ddiffyg yw, nad ydyw yn egluro ei reolau âg engreifftiau, ond anfynych; mae ei olygiadau hefyd ar rai rhanau o'r Beibl yn rhy rydd, ac yn bradychu syniadau rhy isel am ysbrydoliaeth ei ysgrifenwyr a'i gynnwysiad. Mae dylanwad niweidiol y rhai hyn, modd bynag, yn cael ei gymmeryd ymaith i raddau helaeth gan nodiadau ac ychwanegiadau Dr. Heringa a Dr. Wright. Mae gwaith Dr. Carson, yr hwn a elwir, "*Examination of the Principles of Biblical Interpretation of Ernesti, Ammon, Stuart, and other Philologists,*" yn cael ei nodweddu yn fwy gan ymdrech i ddinystrio cyfundraethau dysgedigion ereill, nag i gyflwyno un fwy rhagorol o flaen y darllenydd. Gwaith godidog yw eiddo Dr. Samuel Davidson, yr hwn a elwir, "*Sacred Hermeneutics.*" Cyhoeddwyd hwn yn 1843. Nid oedd yr awdwr y pryd hyny wedi syrthio i gorsydd amheuaeth a rhesymoliaeth; galara yn ddwys yn y gwaith crybwylledig fod dysgedigion Germani yn afiach yn y ffydd; ond och! fe dywyllodd yr aur coeth, ac yn ei henaint aeth Dr. Davidson yn ddysgybl addfwyn i resymolwyr gwylltaf yr Almaen! Cafodd yr awdwr awgrymiadau gwerthfawr hefyd yn Narlithiau ysblenydd Dr. Trench, archesgob Dublin, y rhai a elwir yr "*Hulsean Lectures,*" am 1845.

Mae y mwyafrif o'r awdwyr uchod yn cytuno o ran sylwedd gyda golwg ar Reolau Dehonglaeth Ysgrythyrol. Nis gellir honi llawer o wreiddioldeb gyda'r hyn y mae cynnifer wedi traethu arno; hydera yr awdwr, er hyny, y cenfydd y darllenydd lawer o awgrymiadau yn y gwaith canlynol o barthed dehongli gair Duw, ag nad ydynt i'w cael mewn gweithiau ereill, a'i fod, ar y cyfan, yn gyflawnach ar y gangben hon nag amryw weithiau ereill helaethach ar y pwnc.

Traethwyd yn helaeth ar "Arferion Dwyreiniol," y "Gwyliau a'r Aberthau Iuddewig," y "Sectau" y cyfeirir atynt yn y Beibl, &c., gan fod adnabyddiaeth â hwynt yn hanfodol er iawn ddeall y Beibl. Ymdrechwyd hefyd symmud yr anhawsdra a deimla llawer gyda'r "Dyfyniadau o'r Hen Destament yn y Newydd," heb draethu syniadau ag sydd yn annghysson âg urddas a Dwyfoldeb y Beibl.

Bu Prophwydoliaeth yn destyn myfyrdod dwys i'r awdwr am amser maith. Darllenodd amryw weithiau ar y pwnc; cafodd hyfrydwch,

hyfforddiant, ac adeiladaeth, yn amryw o honynt; tra yr ystyriai ereill yn dysgu syniadau gwylltion, anaddfed, annghysson âg efengyl Crist, a chroes i reolau safadwy Dehonglaeth Feiblaidd. Wrth barotoi y bennod ar Brophwydoliaeth, cafodd lawer o gymhorth yn *Dr. Hengstenberg's "Christology," Dr. Jahn's "Introduction to the Old Testament," Dr. Payne Smith's "Bampton Lectures on Prophecy,"* ac yn *Dr. Fairbairn's "Prophecy."* Gweithiau cyfoethog a dysgedig ydyw eiddo Hengstenberg a Jahn. Cyfrol werthfawr a dyddorol iawn yw eiddo Dr. Payne Smith; mae ei nodiadau ar "Ysgolion y Prophwydi" yn rhagori ar ddim a welsom, er y credwn ei fod weithiau yn dwyn ei olygiadau i eithafoedd ar y pwnc dyddorol hwn. Mae ei sylwadau hefyd ar Ddwyfoldeb hanfodol, a dyben ac amcan prophwydoliaeth, yn anmhrisiadwy. Ystyriwn gyfrol Dr. Fairbairn ar Brophwydoliaeth, y gwaith goreu, ar y cyfan, a ddarllenasom ar y pwnc. Er ei bod wedi ei hysgrifenu mewn arddull drymaidd, a chryn lawer o ail adroddiadau ynddi, eto eglura y pwnc mewn modd eglur ac argyhoeddiadol, a gesyd i lawr egwyddorion safadwy, yn ol pa rai yr ydym i edrych ar brophwydoliaeth. Cyfrol fechan ddyddorol yw eiddo Dr. S. H. Turner, America, o dan yr enw, "*Thoughts on the Origin, Character, and Interpretation of Scriptural Prophecy.*" Cynnwysa saith o Ddarlithiau ar Brophwydoliaeth o dan ei gwahanol agweddau, y rhai a draddododd Dr. Turner i fyfyrwyr yr Athrofa Esgobyddol yn New York, yn 1851. Fel math o bregethau, maent mewn arddull boblogaidd yn hytrach na beirniadol; cynnwysant, er hyny, amryw awgrymiadau gwerthfawr yn nghylch prophwydoliaeth a'i dehongliad. Mae Darlith Dr. Pye Smith ar Ddehongliad Prophwydoliaeth yn lyfryn gwerthfawr a dyddorol; mae y sylwadau ar y prophwydi a'u hamseroedd, a'r nodiadau beirniadol ac eglurhaol, yn dra rhagorol, fel holl gynnyrchion ysgrifell y duwinydd enwog hwnw; ond yr oedd ei ddeuddeg rheol i ddehongli prophwydoliaeth yn rhy gyffredinol i fod o unrhyw wasanaeth i ni wrth gyfansoddi y bennod ar Brophwydoliaeth. Golygai yr awdwr unwaith roddi yn niwedd y bennod ar Brophwydoliaeth fraslun o brophwydoliaeth annghyflawnedig, mewn ffordd o ddosraniad o Lyfr y Dadguddiad, gyda nodiadau agoriadol ac eglurhaol; ond gwelodd y buasai hyny yn chwyddo y gyfrol yn ormodol, a theimlai hefyd nad oedd ei olygiadau yn ddigon sefydlog, na'i farn yn ddigon addfed, ar gynnwysiad y llyfr rhyfedd hwnw i ymgymmeryd â'r gorchwyl. Dymuna gyfeirio y darllenydd at nodiadau galluog Dr. Fairbairn ar Lyfr y Dadguddiad yn ei gyfrol ar Brophwydoliaeth, ac at Esboniad y Parch. Hugh Williams, Amlwch. Ofnwn fod gwaith y diweddar Barch. H. Williams, fel perl mewn llwch, heb gael y sylw a haedda. Yr oedd yn

rhaid cael dyn o allu annghyffredin, a barn annibynol, a gwybodaeth ëang, i allu cyfansoddi y fath gyfrol ag Esboniad Williams ar y Dadguddiad.

Yn y flwyddyn 1728, pan nad oedd ond 31 mlwydd oed, cyhoeddodd John Gill (ar ol hyny Dr. Gill), gyfrol ar Brophwydoliaeth o'r enw "*The Prophecies of the Old Testament, respecting the Messiah, considered; and proved to be literally fulfilled in Jesus. Containing an Answer to the Objections of the Author of The Scheme of Literal Prophecy.*" Er nad oes nodiadau neillduol ar natur prophwydoliaeth, na chyfarwyddiadau neillduol i'w dehongli yn y gyfrol hon, eto, y mae yn un o'r gweithiau goreu ar Dystiolaeth yr Hen Destament am Grist. Egyr gynnwysiad y prophwydoliaethau mewn modd beirniadol a galluog, dengys yn mha ystyr y deallai hen awdwyr Iuddewig hwynt, cymmer i fyny wrthddadleuon awdwyr Iuddewig diweddarach ac ereill, y rhai a esboniant y rhagfynegiadau am Grist fel yn cyfeirio at Dafydd, Hezecïah, Josiah, Zorobabel, Judas Maccabeus, neu ryw berson enwog arall, yn hytrach na'u cymhwyso at y Messiah, fel y mae yr ymadroddion eu hunain, y cyssylltiadau, a'r Testament Newydd yn gofyn; a dynoetha eu gwendid a'u gwrthuni i'r fath raddau, fel yr ydym yn synu eu bod yn cael eu hadgyfodi gyda'r fath hyder gan resymolwyr y dyddiau hyn. Ceir ynddi nodiadau beirniadol ar frawddegau, y rhai a ystyrir fel wedi cael eu gwneyd gyntaf yn Saesonaeg gan awdwyr diweddarach; er engraifft, yn tudal. 92, cyfieitha Gen. iv. 1, "*Cefais ddyn,* את־יהוה *yr Arglwydd,*" gan nodi fod Efa yn tybied ei bod hi y pryd hwnw wedi cael yr Had addavedig. Mae Dr. Pye Smith, yn mhen can' mlynedd ar ei ol, yn rhoddi yr un cyfieithiad, gan awgrymu ei fod yn gwahaniaethu oddiwrth awdwyr Seis'nig blaenorol wrth wneyd hyn, er fod awdwyr tramor yn cyfieithu yr un fath âg yntau. (*Scripture Testimony to the Messiah*, vol. i. pp. 153—155.) Mae Dr. Gill yn y gyfrol fechan hon, wedi cerdded yr un tir, defnyddio yr un rhesymau, a dynoethi yr un cyfeiliornadau, mewn modd syml a chryno, ag a wna Hengstenberg a Pye Smith yn eu cyfrolau dysgedig ac anmhrisiadwy hwy; ond yn Gill ni cheir, gan mwyaf, ond ffrwyth beirniadaeth, tra yn Hengstenberg a Pye Smith, yn neillduol y blaenaf, ceir gwahanol ranau yr ymchwiliad ei hun *(the process)*, a'r canlyniad *(the result)*. Yr oedd Dr. Gill yn un o'r duwinyddion galluocaf, ac yn un o'r ysgolheigion Rabbinaidd enwocaf a gynnyrchodd Prydain erioed; a bydd ei weithiau yn gronfa gyfoethog o drysorau am genedlaethau lawer.

Ni oddefai terfynau y gyfrol hon i ni ddarparu Rhagarweiniad neillduol i bob un o Lyfrau y Beibl. Hyderwn yr etyb y Tafleni ar Amserydd-

IAETH A CHYNNWYSIAD LLYFRAU Y BEIBL, tudal. 60—63, yr un dyben. Ymdrechwyd eu gwneyd mor gynnwysfawr ac awgrymiadol ag y gellid, fel y byddai iddynt wasanaethu, mewn gwirionedd, yn lle Rhagarweiniad i'r gwahanol Lyfrau.

Ymddangosodd "Y BEIBL A'I DDEHONGLIAD" ar y dechreu fel y gyfrol gyntaf o "GYFRES Y BEDYDDWYR." Gan nad ydyw y llyfr yn cynnwys dim ag sydd yn enwadol, a chan y bwriedir i'r argraffiad hwn gael cylchrediad cyffredinol, gadewir y penawd uchod allan.

Wedi'r cwbl, cofied y darllenydd nad ydyw cyrhaedd deall goleuedig yn ewyllys Duw, yn ddigon er bod yn gadwedig. Rhaid iddo hefyd feddu "edifeirwch tuag at Dduw," y Deddfroddwr santaidd a chyfiawn; a "ffydd tuag at yr Arglwydd Iesu Grist," y Gwaredwr bendigedig (Act. xx. 21). "*A hyn yw y bywyd tragywyddol; iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw, a'r hwn a anfonaist ti, Iesu Grist*" (Ioan xvii. 3.)

Boed i Dduw pob gras fendithio yr ymdrech hon i rwyddhau efrydiaeth ei eiriau santaidd.

HUGH JONES.

*Llangollen, Medi*, 1878.

# Y CYNNWYSIAD.

## RHAN I.—Y BEIBL.


TUDAL.

Rhagymadrodd .. .. .. .. .. .. .. .. iii.

Rhestr o'r Darluniau yn y Gyfrol .. .. .. .. .. .. xi.

Dangoseg .. .. .. .. .. .. .. .. .. xii.

RHAGDRAETH.

Pwysigrwydd y Pwnc .. .. .. .. .. .. .. 17

PENNOD I.

Y Dymunoldeb o gael Dadguddiad Goruwchnaturiol, a'r Anghenrheidrwydd am dano. .. .. .. .. .. .. .. 19

PENNOD II.

Y Canon, neu Lyfrau y Beibl .. .. .. .. .. .. 31

PENNOD III.

Dwyfoldeb y Beibl,—Y Prawf Mewnol yn y Beibl ei hun .. .. 64

PENNOD IV.

Dwyfoldeb y Beibl,—Y Prawf Allanol .. .. .. .. .. 88

PENNOD V.

Y Gwahanol Ffyrdd trwy ba rai yr amlygai Duw ei Ewyllys i'r byd .. 135

PENNOD VI.

Ysbrydoliaeth y Beibl .. .. .. .. .. .. .. 147

PENNOD VII.

Ysbrydoliaeth y Beibl,—Gwrthddadleuon ac Anhawsderau .. .. 168

PENNOD VIII.

Apocrypha yr Hen Destament .. .. .. .. .. .. 184

PENNOD IX.

Braslun hanesyddol o'r Prif Gyfieithiadau o'r Beibl .. .. .. 196

PENNOD X.

Nodweddau Gwahaniaethol ac Arbenigol y Beibl .. .. .. 209

PENNOD XI.

Y Fantais o gael Ewyllys Duw yn Ysgrifenedig .. .. .. 216

## RHAN II.—DEHONGLIAD Y BEIBL.

TUDAL.

PENNOD I.

Swydd a Therfynau Rheswm yn Nehongliad y Beibl .. .. .. 222

PENNOD II.

Y Cymhwysderau Gofynol mewn Dehonglwr .. .. .. .. 227

PENNOD III.

Daearyddiaeth, Arferion, Gwyliau, Defodau, a Sectau y Beibl .. 232

PENNOD IV.

Ieithwedd, Ffugyrau Ymadrodd, a Barddoniaeth y Beibl .. .. 329

PENNOD V.

Rheolau Dehongliad y Beibl .. .. .. .. .. .. 361

PENNOD VI.

Ffugyrau ac Arwyddluniau y Beibl, a'u Dehongliad .. .. .. 388

PENNOD VII.

Dammegion y Beibl, a'u Dehongliad .. .. .. .. .. 404

PENNOD VIII.

Anhawsderau y Beibl, a'u Dehongliad .. .. .. .. .. 418

PENNOD IX.

Dyfyniadau o'r Hen Destament yn y Testament Newydd, a'u Dehongliad .. .. .. .. .. .. .. .. .. 460

PENNOD X.

Prophwydoliaeth, a'i Dehongliad .. .. .. .. .. .. 479

ATTODIAD.

I. Apocrypha y Testament Newydd .. .. .. .. .. 528

II. Gau Wyrthiau .. .. .. .. .. .. .. .. 534

III. Angel Jehofah .. .. .. .. .. .. .. .. 545

IV. Eilunaddoliaeth y Beibl, a'r Gau-Dduwiau y cyfeirir atynt yndddo .. .. .. .. .. .. .. .. .. 554

Taflen o Ysgrythyrau .. .. .. .. .. .. .. 564

# RHESTR O'R DARLUNIAU YN Y GYFROL.

| | TUDAL. |
|---|---|
| Mynydd Libanus a'r Cedrwydd .. .. .. .. .. .. | 237 |
| Sathru y Grawnwin .. .. .. .. .. .. .. .. | 241 |
| Y Balmwydden .. .. .. .. .. .. .. .. | 243 |
| Y Locust .. .. .. .. .. .. .. .. .. | 251 |
| Mèn Ddyrnu .. .. .. .. .. .. .. .. .. | 253 |
| Llawr Dyrnu Dwyreiniol .. .. .. .. .. .. .. | 254 |
| Aifftiaid yn Nithio .. .. .. .. .. .. .. .. | 254 |
| Gwisgoedd a Moesgyfarchiadau Dwyreinwyr .. .. .. .. | 257 |
| Costrel Win .. .. .. .. .. .. .. .. .. | 263 |
| Costrel Ddwfr .. .. .. .. .. .. .. .. | 263 |
| Tai Dwyreiniol â Nenau Gwastad.. .. .. .. .. .. | 272 |
| Cyntedd Agored o fewn Palas Dwyreiniol .. .. .. .. | 272 |
| Pebyll Arabaidd .. .. .. .. .. .. .. .. | 276 |
| Agwedd Dwyreinwyr wrth Fwyta .. .. .. .. .. | 280 |
| Gwraig yn Malu gyda Melin Ddwyreiniol .. .. .. .. | 281 |
| Y Tabernacl yn yr Anialwch .. .. .. .. .. .. | 297 |
| Y Canwyllbren Aur .. .. .. .. .. .. .. .. | 299 |
| Allor yr Arogl-darth.. .. .. .. .. .. .. .. | 300 |
| Bwrdd y Bara Gosod .. .. .. .. .. .. .. | 300 |
| Yr Archoffeiriad gyda'r Ddwyfroneg .. .. .. .. .. | 303 |
| Arch y Cyfammod a'r Cerubiaid .. .. .. .. .. .. | 303 |
| Allor y Poeth-offrwm .. .. .. .. .. .. .. | 306 |

RHESTR O'R MAPIAU :—

Canaan fel y Rhanwyd hi rhwng y Llwythau.

Canaan yn Nyddiau Crist.

Teithiau yr Apostol Paul.

# DANGOSEG.


Aberthau, eu dechreuad, 119, 428.
,, Iuddewig, 296, 304—311.
,, ,, eu dybenion, 311, 312.
Achau Crist, 435—438.
Adgyfodiad Crist, ei hanes, 438—440.
,, ,, yn foddion ailenedigaeth, 435.
Adgyfodiad cyntaf, yr, 395.
Adnodau, cyfanrif yn y Beibl, 63.
Afonydd y Beibl, 247—249, 448.
Aifft, yr, arosiad meibion Israel yn, 424.
,, ,, arwyddluniol, 395, 514—516.
Allor, 300, 306, 396, 516.
Amser, 284, 456, 507—509, 519, 520.
Amseryddiaeth Llyfrau y Beibl, 60—63.
Amseryddiaeth Aifftaidd, &c., 422, 423.
Angel Jehofah, 143—145, 545—554.
Anhawsderau y Beibl, 168—183, 418—459.
Annghyssonderau ymddangosiadol.—Gwel Anhawsderau.
Annghrist, 324, 393.
Antilegomena, 41.
Antiochus Epiphanes, 132, 191, 316, 508.
Apocrypha, 59, 184—195.
Arch Duw, 42, 303, 434, 435.
,, ,, ei dygiad i Seion, 474, 475.
Arch Noah, 450.
Archoffeiriaid, amryw o'r un enw yr un pryd, 317.
Aredig, 252.
Arian Iuddewig, 312, 313.
Arogl Libanus, 237.
Arogldarth, ei ddyben, 433.
Arwyddluniau y Beibl, 388—403.
Assyria, 515, 523.
Assyria, y deg llwyth yn, 523.
Athronwyr y Cenedloedd yn hiraethu am ddadguddiad Dwyfol, 24—26.
Awdurdod, ar ben gwraig, 427.

Babilon, 107—109, 396, 511, 514, 519.
Balaam, 182, 396.
Bara Gosod, ystyr a dyben, 300, 432.
Barachias, 428.
Barddoniaeth y Beibl, 347—360.
Bartimeus, agoryd ei lygaid, 340, 341.
Bedd Crist gyda'r rhai anwir, 424.
Beddau Dwyreiniol, 260—262.
Benthyca oddiar yr Aifftiaid, 175—177.
Breninoedd Israel a Judah, 494—496.
Breuddwydion, 137, 138, 497.
Bugeilio defaid, 254—257.
Bydwragedd Hebreig, 174.

Cabbala, 322.
Cadwraeth y Beibl, 42—44, 132—134.
Caethgludiad y deg llwyth, 494, 502, 523.
Caethgludiad Judah, 495. 501, 514.
Caethiwed yr Aifft, 421, 515.
Cain, y nôd ar, 425.
Canaaneaid, dinystr y, 170—173
Caniad y Graddau, 279.
Canon, y, 31.
Cedrwydd, 237.
Cenllysg, 246, 247.
Cerddoriaeth yn Israel, 348, 489.
Chemos, 128, 556, 561.
Cibau, 240.
Cilddant yn yr ên, 425.
Cittim, llongau o, 498.
Clust, agor, 463, 464.
Coedydd y Beibl, 237.
Cofrestri boreuol o Lyfrau y Beibl, 47—49, 58.
Corwyntoedd, 249.
Costrel, 263, 264.
Coziba, y gau Fessiah, 76.
Creadigaeth a Dadblygiad, 446, 447.
Cydgordiad y Beibl, 82, 83.
Cyfaddasiad *(accommodation)*, 468, 469, 476.
Cyfarchiadau, 257, 258.
Cyfieithiadau o'r Beibl, 196—208.
Cyfoeth Dwyreinwyr, 264.
Cymhwyso i golledigaeth, 379, 380.
Cymmeriad Crist, 74—79.
Cynhauaf yn Nghanaan, 245.
Cysgodau o Grist, 345, 346.

Dadblygiad, 446, 447.
Daeareg, 442—447.
Daearyddiaeth y Beibl, 232—235, 448.—Yr un enwau ar wahanol bersonau a lleoedd, a gwahanol enwau ar yr un lleoedd a phersonau, 335—337.
Dammegion, 344, 404—417.
Daniel yn drydydd yn y deyrnas, 129.
Darganfyddiadau diweddar, 127—130.
Deddf Moses, rhesymoldeb ei defodau, 169, 432, 433.
Defodau Dwyreinwyr, 252.
Degwm, 307, 308.
Dehongliad y Beibl, 222—226, 361—387.
Dehongli y Beibl, cymhwysderau i, 227—231.
Dewines Endor, 146.
Dewiniaeth, 480—483.

Dieflig, y ddau ddyn, 340.
Dillad, taenu ar y ffordd, 258.
Diluw, traddodiadau am y, 118 -120.
,, terfynau y, 449 -451
Dodrefn, &c., 262.
Duwdod Crist, 373, 377, 382, 434.
Duwiau gau y Beibl, 560—563
Duwinyddiaeth Paul a Ioan, 375.
Dychweliad yr Iuddewon, 382. 521—525.
Dyfyniadau o'r Hen Destament, 164.
Dynolryw, unoliaeth, 430.
Dyrnu, 253, 254.

Ebal a Gerazim, 451, 452.
Edifeirwch, yn cael ei briodoli i Dduw, 371, 434.
Edom, 267, 511, 512, 514.
Efengyl, yr, ei llwyddiant, 125, 126, 130, 131.
Efengylau, yr, eu dybenion gwahanol, 62, 374.
Eilunaddoliaeth, 26 - 29, 68, 69, 554—563.
Enfys, yr, 424.
Enwau y Beibl, 337, 338.
Epicureaid, yr, 321.
Erlidigaeth, 51, 125, 126.
Esgid, diosg a gwisgo, 266, 267.
Esseniaid, yr, 319.
Esther, llyfr, 33, 48, 49, 295.

Ffigysbren, y, 238 - 240.
Ffrwynau'r meirch, santeiddrwydd i'r Arglwydd ar, 276.
Ffugyrau y Beibl, 388—403.
Ffugyrau ymadrodd, 341 - 347.
Ffyrdd yn Nghanaan, 277.

Gafell, y, 136.
Galar, 262.
Galileaid, y, 319.
Gau Gristiau, 76.
Gemara, 32.
Genedigaeth Crist, adeg, 254, 255.
Glaswellt pen tai, 273.
Gnosticiaid, y, 322.
Gorchymynion moesol a phendant, 363, 383.
Gweledigaethau, 137, 138, 167, 497—499, 509.
Gwaed, bwyta, 431, 432.
Gwasgariad cyntaf y teulu dynol, 429, 430.
Gwely, 262, 263.
Gwinwydd, sathru y, 241, 242.
Gwisgoedd, 257, 264 - 266.
Gwisg priodas, 270, 271.
Gwlaw, cynnar a diweddar, 244, 245.
Gwlith, 249, 250.
Gwraig yn gadwedig wrth ddwyn plant, 426, 427.
Gwreiddioldeb dysgeidiaeth y Beibl, 71, 72.
Gwyliau Iuddewig, 286—296.

Gwyrthiau y Beibl, 88—104.
Dosbarthiad o honynt, 104.
Darfyddiad, 99.
Arwyddocâd, 90, 100.
Ffug-wyrthiau, 91 - 94, 534—544.

Hadadrimmon, galar, 262.
Halen, 250.
Hanesiaeth gyffredin, ei thystiolaeth i'r Beibl, 120 127.
Hau ar wyneb y dyfroedd, 249.
Herodau y Testament Newydd, 336.
Herodianiaid, yr, 318.
Hinsawdd Canaan, 244 250.
Homer, ei arucheledd, 65—67.
Hud-ddwfr *(mirage)*, 278, 279.
Hume, ei wrthebion i wyrthiau, 94—97.
Hynafiaeth y ddaear, 445, 446.

Iaith y Beibl, 72—74.
Iawn, yr annuwiol yn, 382, 383.
Ieithwedd Hebreig, 329—341.
Ieithwedd prophwydoliaeth,
Impio yn y wir olewydden, 380 - 382.
Iorddonen, gorlifiad yr, 247, 248.
Irving ar adferiad Iuddewiaeth, 521.
Iuddewon, yr, eu dychweliad, 382, 521 - 526.

Jazer, llyfr, 37, 38, 453.
Jephtha, ei adduned, 453—456.
Jerusalem, ei dinystr, 109—111.
yn fathrfa y Cenedloedd, 525, 526.
am yr hen oruchwyliaeth, 400.
am yr eglwys Gristionogol, 400.
Jeroboam yn gwneyd i Israel bechu, 289, 558.
Jonah yn cael ei daflu i'r môr, 366.
Josephus, ei hanes, 120.
ei ymddiffyniad i'r Hen Dest., 120, 121.
ei dystiolaeth am lyfrau yr Hen Dest., 47.
,, ,, yr Apocrypha, 47, 192.
Josua, yn attal yr haul, 452, 453.
Judea, hanes, 315 - 317.

Libertiniaid, y, 321.
Locustiaid, 250—252.
Lletygarwch Dwyreinwyr, 267 - 269.
Llifddyfroedd, 247—249, 401.
Lloer, tarawiad y, 247, 248.
Llyfrau y Beibl, 31—33.
Amseryddiaeth a Chynnwysiad, 60—63.
Dosraniadau Iuddewig, 31 - 33.
Trefn yn y Beibl Hebraeg, 33, 34.
Trefn yn y Testament Newydd, 35.
Llyfrau amheuedig, ar y cyntaf, 41.
Llyfrau wedi colli, 37—41.

Maccabeaid, y, 191, 192, 316, 520.
Maes, terfynau y, 279.
Marw, y, defodau claddu, 258–262.
Marwolaeth cyn y cwymp, 429.
Masora, y, 36.
Meirch, 352, 401, 556.
Melin, 281.
Memrwn, y, 170.
Mesurau Iuddewig, 313—315.
Mishna, y, 32.
Misoedd Iuddewig, 285.
Misoedd prophwydol, 508.
Moab, 128, 129 514.
Moesoldeb y Beibl, 68–72, 170–181, 210.
Morter, 280.
Mur, tai ar y, 274.
Mwstard, y pren, 243, 244.
Mynydd, Pregeth Crist ar, 159, 440, 441.

Nebuchodonosor, yn pori gwellt, 456, 457.
Nero, 125.
Nicolaiaid, y, 328.
Ninefeh, 106, 127, 128.
Noddfa, y dinasoedd, 234.

Oen y pasg, 308, 309.
Offrymau, gwel Aberthau.
Olewydden, 242.
Oraclau y Paganiaid, 111–115.

Pabyddiaeth, cyfodiad, 393.
Palmwydd, 242, 243.
Parotoi y ffordd, 277, 278.
Paul, troedigaeth, 433.
Pebyll, 275, 276.
,, Gwyl y. 287, 513.
Pentateuch Samaritaidd, y, 166.
Peraroglau, llosgi er anrhydedd y marw, 259.
Perarogli y meirw, 258, 259.
Pestl, 281.
Pharaoh, caledu calon, 369, 440.
Phariseaid, y 317.
Phylacterau, 266.
Pliny, 125.
Poblogiad cyntaf ynysoedd, 429, 430.
Priodas, 269.
Prophwyd, ystyr y gair, 479, 480.
Mawr addawedig, y, 484.
Prophwydi, y, eu galwad, 486.
Cofrestr o honynt, 491—495.
Eu cymmeriad, 490, 491.
Eu gweithredoedd arwyddluniol, 481.
Eu gweledigaethau, 137, 138, 497.
Eu hysgolion, 488–490.
Eu hysbrydoliaeth, 145, 149–152, 161.
Y Llwyni, 560.
Prophwydesau, 493.
Prophwydoliaeth, 104—116.
Cyfnodau, 509.
Dawn yn Israel. 480.
Dehongliad, 502—527.
Pwysau, 312, 313.
Proselytiaid, 320.
Purdan, y, 377, 378.

Reguel, 337.
Rhifnodau, 419–422.
Rhyddhau a rhwymo, 389.

Sabbath, y, 289, 290.
Newidiad, 290.
Rhwymedigaeth i'w gadw, 290, 291.
Y Llywodraeth Wladol a'r, 292.
Taith diwrnod Sabbath, 314.
Saduceaid, y, 318.
Salmau, y, iaith ddialgar, 178–181.
Samariaid, y, 320, 321.
Selah, 348, 349.
Seryddiaeth, 363, 423, 424, 446.
Septuagint, y, 196–199.
Stoiciaid, y, 321.
Swmbwl yn y cnawd, 373.
Swynion yr Aifft, 91–94.

Tabernacl, y, 296–301.
Tacitus, 124, 125.
"Tad" a "brawd," yn mhlith Dwyreinwyr, 330, 331.
Tai, 271–274.
Talmud, y, 32.
Teithio, 274–279.
Teml Jerusalem, 301—303.
Temtiad Crist, 448, 449.
Teraphim, 481, 557.
Teyrnasu gyda Christ, 395.
Teyrnged, Crist yn talu 282.
Traddodiadau Cenedlig, o blaid gwirionedd y Beibl, 117–120.
Tri diau a theirnos, 339.
Thummim, yr Urim a'r, 138—143.
Tyrus, 106, 107.
Tystiolaeth, pwysigrwydd, 95.
Tywyllwch yr Aifft, 249.

Unoliaeth y teulu dynol, 430.

Vulgate, y, 199.
,, Ei annghywirdeb, 202.

Ymborthi, dull Dwyreinwyr o, 280.
Ynysoedd, poblogiad cyntaf, 429, 430.
"Ysbrydion yn ngharchar," yr, 377.
Ysbrydoliaeth, 145—183.
Ysgrifenu, y gelfyddyd o, 216, 217.
Ysgrifenwyr y Beibl, 79–82, 166.
Ystormydd, 238, 246—250.

# Y

# BEIBL A'I DDEHONGLIAD.

# Y BEIBL A'I DDEHONGLIAD.

## RHAN I.—Y BEIBL.

### RHAGDRAETH.

PWYSIGRWYDD Y PWNC.

Dyn ydyw y creadur rhyfeddaf ac ardderchocaf ar y ddaear; ac wrth ystyried ei alluoedd meddyliol, a'i awydd am ddedwyddwch, a'i ddychryn rhag syrthio i ddiddymdra, y mae yn ymddangos yn anhygoel ei fod ef i ddarfod ei yrfa yn y byd hwn fel anifeiliaid y maes. Y mae o'r pwys mwyaf iddo gael gwybodaeth sicr beth yw ei sefyllfa a'i ragolygon. Nis gall dim fod yn fwy pwysig i ddyn na chael sicrwydd pa un a ydyw yn anfarwol, ac yn gyfrifol i Dduw—pa un a ydyw i gael myned yn mlaen yn ol ei duedd ei hun, ai ynte a ydyw Duw wedi ymostwng i'w ddysgu—a oes a fyno ei ymddygiad yma â'i gyflwr mewn byd i ddyfod—a ydyw y Goruchaf yn dewis iddo ymddwyn mewn unrhyw ffordd neillduol—ac os oes perthynas rhyngddo a Bôd uwch nag ef ei hun, beth ydyw natur y berthynas hòno, a chyflwr presennol pethau rhyngddynt. Gan nad beth fyddo golygiadau dyn, a'i amgylchiadau, a'i gyssylltiadau cymdeithasol, y mae yr ystyriaethau hyn yn teilyngu ei sylw difrifolaf; ac y mae yr hwn sydd yn treulio ei amser yn y byd heb eu hystyried, yr annoethaf yn mhlith dynion.

Mae y Beibl yn proffesu ei fod yn taflu goleuni ar y pethau hyn, ac yn hòni ei fod ei hun yn ddadguddiad anffaeledig oddiwrth Dduw; y mae o'r pwys mwyaf i ni wybod, gan hyny, a ydyw y Beibl yr hyn a broffesa,—ac ar ba sail y mae

ei Ddwyfoldeb yn orphwysedig—a beth ydyw ei gynnwysiad, a pha fodd yr ydym i'w ddeall; ac os canfyddwn, ar ol ymchwiliad manwl a diragfarn ei fod yn leferydd y Duw byw, fe ymddengys fod rhwymedigaeth arbenig ar bob dyn i wrando arno fel gair y bywyd, ac ufyddhau iddo fel arweinydd digyfeiliorn i anfarwoldeb.

Dylai ystyriaeth o'r fantais o gael dadguddiad eglur ac awdurdodedig oddiwrth Dduw ein cymhell i ddilyn ein hymchwiliad i'r pwnc, a dwyn yn mlaen ein hefrydiaeth o hono, gyda dyddordeb brwdfrydig. Os nad ydyw y Beibl yn ddadguddiad oddiwrth Dduw, y mae yn ffaith gydnabyddedig nad oes yr un arall i'w gael. Nid yw anffyddwyr yn cynnyg yr un yn ei le, ond am gymmeryd hwn ymaith fel peth afreidiol, a gadael y byd i ymbalfalu yn y tywyllwch.* Nid oedd gan y doethion paganaidd yr un i'w drosglwyddo i oesoedd dyfodol, fel yr addefai Socrates a Cicero,† ond hiraethent am gael un, yn lle bod mewn amheuon a phryder. Os oes dadguddiad oddiwrth Dduw yn bod, y Beibl yn unig yw hwnw. Heb hwn, byddai y byd moesol fel pe buasai y nefoedd naturiol heb haul; a byddai dyn ar y ddaear fel ymdeithydd annghyfarwydd mewn gwlad ddyeithr, heb wybod yn mha le y mae, nac i ba le y mae yn myned.

Ond y mae y Beibl genym. Y mae bodolaeth y fath lyfr yn ffaith, yr hon nis gellir ei gwadu; ac nis gellir rhoddi cyfrif boddhaol am ei fodolaeth, a'i gadwraeth, a'i ddylanwad yn y byd, ond ar dir ei Ddwyfoldeb, fel yr ymdrechwn ddangos wrth fyned rhagom. Yn y grediniaeth ddiysgog o'i Ddwyfol awdurdod, awn yn mlaen i sylwi arno o ran yr anghenrheidrwydd am dano, ei gynnwysiad, y profion dros ei Ddwyfoldeb, a'r hyn sydd anghenrheidiol er ei iawn ddeall.

* Cydnabyddai yr anffyddiwr Byron, fod Cristionogion yn ddoethach nag anffyddwyr, hyd yn nod pe buasai amheuaeth am Ddwyfol awdurdod y Beibl; os ydyw yn Ddwyfol, y maent hwy ar dir diogel; os nad ydyw, y maent hyd yn nod er hyny gystal a'r anffyddiwr erbyn y byd a ddaw, a gwell nag ef yn y byd hwn. Wele ei eiriau:—"Y mae yn ddiammeu fod gan gredinwyr diysgog yr efengyl fantais fawr ar bawb ereill—oblegyd y rheswm hwn yn unig, *os ydyw yn wirionedd*, cânt hwy eu gwobr rhagllaw; ac os nad oes byd ar ol hwn, ni allant ond bod gyda'r anffyddiwr yn ei dragywyddol gwsg, wedi cael cynnorthwy gobaith uchel drwy eu bywyd."—*Dr. Dick ar y Sefyllfa Ddyfodol, cyfieithiedig gan R. Parry, tudal.* 283, 284.

† Gwel y Bennod i.

# PENNOD I.

## Y DYMUNOLDEB O GAEL DADGUDDIAD GORUWCHNATURIOL, A'R ANGHENRHEIDRWYDD AM DANO.

---

## Y CYNNWYSIAD.

*Possibilrwydd Dadguddiad Dwyfol—Y Tebygolrwydd y rhoddai Duw un i'r Byd—Yr anghenrheidrwydd a'r Dymunoldeb o'i gael.*

CYN sylwi ar y dymunoldeb a'r anghenrheidrwydd o gael dadguddiad goruwchnaturiol o ewyllys Duw, dichon y dylid nodi,

I. FOD RHODDIAD DADGUDDIAD GORUWCHNATURIOL I DDYN YN BOSSIBL. Gwadir y ffaith o roddiad dadguddiad yn hollol gan anffyddwyr, ac o dan ffug o barch i'r Goruchaf, dadleua rhai deistiaid fod yr Anfeidrol yn rhy fawr a dyrchafedig i allu dadguddio ei hun i'r fath greadur distadl a dyn.* Ond ni all neb ag sydd yn cydnabod bodolaeth Duw, gydag un cyssondeb wadu y possibilrwydd o roddiad dadguddiad Dwyfol i'r byd. "Gyda Duw bob peth sydd bossibl." Mae y Duw a wnaeth bob peth yn alluog i ddysgu dyn yn nghylch ei ewyllys. Er ei fod yn anfeidrol berffaith, ac yn anamgyffredadwy i fôd meidrol, eto nid yw ei berffeithrwydd yn ei analluogi i ddadguddio ei hun i ddyn; ac er nas gellir ei "gael allan hyd berffeithrwydd" (Job xi. 7), eto fe ellir deall "rhanau o'i

* Er mwyn yr annghyfarwydd, nodwn, (1,) Fod *Atheist* yn golygu y dyn nad ydyw yn credu yn y bôd o Dduw, nac mewn Rhagluniaeth. (2,) Fod *Deist* yn golygu yr hwn sydd yn cydnabod y bôd o Dduw, ond yn gwadu bodolaeth unrhyw ddadguddiad o hono, heblaw yr hyn a geir yn ei weithredoedd yn y greadigaeth. (3,) Fod y ddau gymmeriad uchod yn fynych yn myned o dan yr enwad *Anffyddwyr* (infidels), gan fod y ddau yn cyduno i wrthod y Beibl, ac i ystyried Cristionogaeth yn fwy o ddrwg nag o dda i blant dynion. (4,) Fod yr enwad *Rhesymolwyr* (rationalists) yn golygu y rhai sydd yn gwneyd defnydd o'r Beibl, ond yn ei esbonio yn ol eu harchwaeth eu hunain, gan wadu y goruwchnaturiol a'r Dwyfol ynddo, gwrthod yr athrawiaeth am Dduwdod Crist a'i Iawn ef, ac ymresymu ymaith yr athrawiaeth am gyfiawnhad trwy ffydd, a phrif hanfodion Crefydd Ddadguddiedig. Gwel y *Pantalogia*, ac *Eadie's Ecclesiastical Cyclopædia* ar y gwahanol eiriau.

ffyrdd," ac adnabod ei gymmeriad "o ran" (1 Cor. xiii. 12), a'r adnabyddiaeth hòno yn ddigon i wneyd dyn yn etifedd hyfrydwch annhraethadwy a gogoneddus. Nis gallwn dybied fod dim yn anmhossibl i'r Anfeidrol. Os gallodd yn y dechreuad ysgrifenu cyfrol fawreddog y cread âg ysgrifell ei hollalluogrwydd, wedi ei throchi yn ngair ei nerth, gallai hefyd mewn adeg ddiweddarach ysgrifenu cyfrol rasol dadguddiad âg ysgrifell ei drugaredd, wedi ei throchi yn nghostrel ei gariad. Yn y gyntaf, canfyddir ei allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni yn creu a chynnal y cyfanfyd; ac yn yr olaf, dadguddir ei gariad, ei drugaredd, a'i ddoethineb yn achub ei elynion rhag distryw, gan ennill eu calonau i'w garu ac ymhyfrydu ynddo yn dragywydd.

Gan fod pob gallu yn ei law, a phob doethineb yn ei feddiant, y mae yn iawn i ni gasglu y gallai hefyd roddi ei ewyllys i ddyn *yn y modd a'r ffurf a ddewisai.* Y mae dynion yn trosglwyddo eu meddyliau i'w gilydd trwy *eiriau* ac *arwyddion;* gall y Goruchaf hefyd, os gwel yn dda, drosglwyddo ei ewyllys i'w greaduriaid yn yr un modd, trwy oleuo ei weision am ei fwriadau, a'u cyfarwyddo pa fodd i'w gwisgo yn iaith eu cyd-ddynion, fel ag i gyfleu i ereill ei feddwl Dwyfol ei hun mewn modd cywir ac eglur.

Mae yn debygol hefyd, os eglura Duw ei ewyllys o gwbl i'r byd, yr eglura hi yn y *ffordd fwyaf manteisiol i'r byd,* fel ag i fod yn *ddealladwy* ac *ar gael* tra y byddo y byd yn bod. Y ffordd a ddewisodd Duw oedd amlygu ei ewyllys i ddyn yn iaith dyn, ac, mewn rhan, trwy arwyddluniau, megys trwy yr aberthau a'r defodau gynt, a'r ordinhadau yn awr; ac y mae ei ewyllys wedi cael ei hysgrifenu yn y gyfrol fendigedig a elwir y BEIBL neu yr YSGRYTHYRAU: ac y mae y gyfrol hon i fod ar gael fel haul y ffurfafen, hyd ddiwedd amser, i roddi goleuni i breswylwyr y byd hwn i deithio y ffordd i fywyd ac anfarwoldeb gogoneddus.

Mae *cymhwysder* hefyd mewn dyn i dderbyn y fath ddadguddiad o Dduw. Y mae Anfeidrol Ddoethineb wedi ei gynnysgaethu â galluoedd deallol i amgyffred gwahanol wrthddrychau, ac â syched am fwy o oleuni ar bethau Dwyfol; y mae rhyw anesmwythder parhaus yn ei enaid am wybodaeth a dedwyddwch, ac nid oes gorphwysfa iddo yn un man hyd nes yr ymlonydda yn ffafr y Goruchaf, ac yn ngoleuni gwybodaeth gogoniant Duw yn ngwyneb Iesu Grist. Fel y mae y

llygad naturiol wedi ei gyfaddasu i dderbyn goleuni, a'r glust i dderbyn gwahanol seiniau, felly y mae yr enaid wedi ei gyfaddasu i dderbyn gwybodaeth grefyddol, ac i gael ei addysgu gan y Duw byw. Ac er fod yn y Beibl wirioneddau ag nad oes neb ond Awdwr y Beibl a all eu cyflawn amgyffred, eto y mae y rhan fwyaf o'i gynnwysiad wedi ei fwriadu er ein haddysg ni, ac yn ddigon syml ac eglur i'r werin ei ddeall; ac o herwydd hyny, gelwir ar bawb i chwilio yr Ysgrythyrau, a gwrando ar eu lleferydd, fel y byddo byw yr enaid.

## II. Fod Dadguddiad goruwchnaturiol o Ewyllys Duw yn debygol.

1. *Gellid casglu oddiwrth ddaioni Duw y buasai yn cynnorthwyo ymchwiliadau rheswm dyn, trwy roddi iddo ddadguddiad eglur ac awdurdodol o'i ewyllys.* Nis gellir tybied fod Duw yn hoffi edrych ar ddynion yn ymbalfalu mewn tywyllwch, ac yn cael eu dyrysu gan eu hamheuon; ond o'r ochr arall, y mae yn debygol y gwnelai dosturio wrthynt, a pheri i oleuni dadguddiad dywynu arnynt, yn hytrach na'u gadael mewn anwybodaeth, ac yn ddarostyngedig i bob ofnau a dychrynfeydd.

2. *Gellid casglu oddiwrth gariad Duw at wirionedd, y buasai yn rhoddi dadguddiad o'i ewyllys i ddyn, er ymlid ymaith gyfeiliornadau, y rhai o anghenrheidrwydd a fodolent yn absennoldeb y cyfryw ddadguddiad.* Fel Duw'r gwirionedd, y mae o anghenrheidrwydd yn cashau cyfeiliornadau ac ofergoeledd; ac y mae yn hollol resymol i gasglu ei fod yn unol â'i ewyllys ef i roddi dadguddiad i ddynion er hyfforddi eu deall ac unioni eu barn, a gwrthweithio cyfeiliornad yn y byd.

3. *Gan fod Duw wedi darparu gogyfer ag anghenion corph dyn, y mae yn debygol y gwelai yn dda hefyd ddarparu gogyfer ag anghenion ysbrydol dyn.* Y mae wedi darparu gogyfer âg anghenion naturiol dyn, trwy ei gynnysgaethu âg ymborth a gwisgoedd; y mae darpariadau mewn natur i iachâu afiechyd corphorol; a ydyw yn debygol y buasai y Duw a drefnodd fel hyn yn esgeuluso anghenion uwch a phwysicach? Y tebygolrwydd yw, y byddai i'r Duw a drefnodd oleuni i lygad, ac ymborth i gylla, a meddyginiaeth i glwyfau naturiol dyn, drefnu hefyd i roddi goleuni dadguddiad i oleuo llygad ei feddwl, a bendithion ysbrydol i ddiwallu anghenion ei enaid, a meddyginiaeth anffaeledig i'w iachâu oddiwrth glwyfau diafol a phechod.

4. *Nis gall Duw lai na chael ei foddhau yn ufydd-dod ei greaduriaid; y mae yn debygol gan hyny y gwnelai amlygu i ddynion y modd y carai gael ei anrhydeddu.* Nis gellid tybied y byddai unrhyw wasanaeth yn ol dychymmyg dyn yn dderbyniol gan y Goruchaf; gallai dyn fabwysiadu ffordd i'w wasanaethu yr hon a fyddai yn berffaith groes i'w ewyllys; er mwyn cael anrhydedd a gwasanaeth derbyniol gan ddyn, y mae yn debygol y gwnelai Duw amlygu, yn ei amser da ei hun, beth a ddysgwylia oddiar law ei greaduriaid.*

III. Yr Angenrheidrwydd a'r Dymunoldeb o gael Dadguddiad Goruwchnaturiol. Ymddengys hyn pan ystyriom,

1. *Fod amryw bethau ag y mae'n ddymunol i ddyn gael gwybodaeth sicr yn eu cylch, yr hyn nas gall byth ei gael trwy oleuni natur yn unig.*

*a,) Bodolaeth a phriodoliaethau Duw.*—Heb ddadguddiad y mae dyn i raddau helaeth mewn anwybodaeth am Dduw a'i gymmeriad. Y "Duw nid adwaenir" ydyw i'r paganiaid. Y mae natur a rhagluniaeth yn dangos *gallu*, *doethineb*, a *daioni* Duw, ond nid ydynt yn dadblygu ei gymmeriad yn gyflawn; ac nid yw yr hyn a ddadguddiant ond anfynych os byth yn cael eu hamgyffred yn absennoldeb y Beibl. Pan ofynodd Hiero, llywydd Syracuse, i'r bardd Simonides, tua 500 mlynedd cyn Crist, "Beth yw Duw?" yr attebiad ar ol hir ddysgwyl oedd, "Mai po fwyaf y meddyliai am Dduw, anhawddaf yn y byd oedd rhoddi desgrifiad o hono."†

*b,) Anfarwoldeb yr enaid.*—Ymresymai Socrates a Cicero yn feistrolaidd ar anfarwoldeb yr enaid, a dygent amryw ystyriaethau yn mlaen i ddangos ei debygolrwydd; ond nid oedd eu holl resymau yn *cynnwys mwy na thebygolrwydd!* Dyfyna Dr. Dick, yn "Anianyddiaeth Sefyllfa Ddyfodol," dystiolaethau hyderus Socrates ac eraill am eu hyder yn anfarwoldeb yr enaid; ond yr oedd yr hyder mwyaf diysgog yn cael ei siglo, os nad ei ddymchwelyd, gan yr ansicrwydd poenus a fodolai yn eu meddyliau. Dywedai Socrates ychydig cyn marw, "Yr wyf yn gobeithio fy mod yn myned at ddynion da, eto *ni fynwn haeru hyn yn hollol benderfynol;* fy mod yn myned at y meistriaid goreu, sef y duwiau, yr wyf yn ei sicrhau os gallaf

* Gwel *Doddridge's Works*, Lect. cv. *Pye Smith's First Lines of Christian Theology*, Book I. Chap. iii.

† *Wardlaw's Systematic Theology*, vol. i. pp. 705, 706.

*sicrhau unrhyw beth o'r fath.*" (*Plato's Phœdo, chap.* viii.) Dywedai Cicero ar ol traethu yn y modd mwyaf hyawdl fel yr oedd gobaith am anfarwoldeb yn ei dyddanu yn ei henaint:—"*Ac os twyllo fy hun* yr ydwyf fod eneidiau dynion yn anfarwol, yr wyf yn foddlon ar fy nghamgymmeriad; ac nid wyf yn chwennych i'r camgymmeriad hwn, trwy yr hwn y dyddenir fi, gael ei gymmeryd ymaith oddi wrthyf tra byddwyf byw; ond *os na fyddaf* yn ymwybodol ar ol marw (fel y tybia rhai athronwyr llwfr), nid oes arnaf ofn y bydd i athronwyr meirw chwerthin am ben fy ofergoeledd; ac *os nad ydym wedi ein bwriadu* i fod yn anfarwol, y mae, er hyny, yn ddymunol i ddyn gael ei gymmeryd ymaith yn yr adeg briodol." (*Cicero on Old Age, chap.* xxiii). Yn ngwyneb hyn, dywedai Seneca, mai "*Ei addaw*, yn hytrach *na'i brofi*, a gafodd anfarwoldeb gan y dynion enwog hyny, gan nad pa mor ddymunol ydyw." (*Horne's Introd. vol.* i. *p.* 9, *Ed.* 1856.) Beia yr hanesydd Polybius athronwyr Groeg am gefnogi dynion i annghredu mewn sefyllfa ddyfodol o gosb, gan fod dysgu dynion i gredu hyny yn *ddyfais fuddiol*. Wedi'r cyfan, nid oedd y sefyllfa ddyfodol yn ei olwg yntau ond *dyfais!* (*Gregory's Letters on the Christian Religion.* *Letter* iii.)

c,) *Sefyllfa ddyfodol o wobr* a *chosp.—Awgrymir* hyn trwy ddeddfau natur a threfn rhagluniaeth. Cosbir y dyn a drosedda ddeddfau natur. Os trosedda ddeddfau iechyd, fe deimla mewn canlyniad. Os na edrych ar ol ei amgylchiadau, ac os camdreulia ei amser, fe ddaw tlodi arno fel gŵr arfog. Os na wna y defnydd priodol o dymhor ieuengtyd i gasglu gwybodaeth, bydd rhagolygon ei fywyd yn dywyll o'i flaen. Awgrymir trwy hyn y bydd tynged dyn yn y sefyllfa ddyfodol yn ymddibynu ar ei ymddygiad yn y byd hwn; ond y mae yn anmhossibl cael *sicrwydd* am hyn oddi eithr i Dduw ei amlygu o'r nef. Yr oedd Cicero yn diystyru y syniad am sefyllfa ddyfodol o gosb i'r drygionus. Dywedai Plutarch fod ofn cosb yn y sefyllfa ddyfodol yn beth ofer a phlentynaidd. Dywedai Seneca nad oedd yr un dyn yn ei synwyr yn ofni y duwiau, a diystyrai y syniad am gosb yn y sefyllfa ddyfodol fel dychrynfeydd diles a ddyfeisiwyd gan y beirdd. (*Dr. Gregory's Letters. Letter* iii. *Dr. Angus's Bible Hand-Book, p.* 373.) Mae o bwys i ddyn gael *sicrwydd* am y pethau hyn; ac nis gellir cael hyny oddi eithr i Dduw weled bod yn dda i roddi i ddyn ddadguddiad goruwchnaturiol.

*d,) Y mae o bwys cael gwybodaeth sicr pa un a oes trefn i adferu dyn o'i drueni ai peidio.* Yr ydym yn canfod meddyginiaeth mewn natur at anhwylderau y corph; yr ydym yn canfod cyfryngwyr yn mhlith dynion yn gallu cymmodi gelynion â'u gilydd; yr ydym yn canfod fod dyn afradlon trwy ddiwygio yn gochelyd dinystr; yr ymholiad annhraethol bwysig ydyw, A oes meddyginiaeth gyfaddas i'r enaid mewn bod? A oes cyfryngwr rhwng Duw a dyn? A wna Duw faddeu i ddyn ar ei ymostyngiad a'i edifeirwch? Os ydyw rheswm yn gallu awgrymu gofyniadau fel hyn, nid oes ond dadguddiad oddiwrth Dduw a all eu hateb i foddlonrwydd.

*e,) Y mae yn ddymunol ac yn anghenrheidiol cael gwybodaeth sicr am y byd hwn a'i dynged.*

(1,) Creadigaeth y byd. Nis gallwn byth gael sicrwydd pa fodd y dygwyd y byd i fôd heb ddadguddiad. Nid oedd dyn mewn bôd y pryd hyny i allu trosglwyddo yr hanes i'w hiliogaeth. Dysgai rhai athronwyr fod y byd yn bodoli er tragywyddoldeb; tybiai Democritus a'i ganlynwyr ei fod wedi cael ei ffurfio trwy gydgyfarfyddiad damweiniol gronynau; haerai yr Epicureaid ei fod wedi cael ei ddwyn i fôd trwy ddamwain; tra y cyffesai ereill nas gallent gyfrif am ei fodolaeth. Oni buasai y Beibl, buasem ninnau mewn penbleth gyffelyb; ond y mae brawddeg gyntaf y Beibl yn egluro y dirgelwch,—"Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear."

(2,) Bodolaeth drygioni yn y byd. Teimlai y paganiaid fod natur foesol dyn wedi cael ei dyrysu, a bod dynion mor ynfyd a mynu dilyn llwybrau dinystriol, tra y mae creaduriaid afresymol yn ymdrechu gochelyd yr hyn sydd niweidiol iddynt hwy; ond nis gallent gyfrif am ddechreuad y drygedd sydd yn y byd, na'r achos o drueni plant dynion.

(3,) Diwedd y byd. Heb ddadguddiad y mae y dyfodol yn dywyll. Ni wyddis pa un a ydyw cwrs natur i fyned rhagddo yn y drefn bresennol yn dragywydd, ai ynte a oes cyfnewidiad i fod; ac os oes, pa bryd. Ni wyddis pa un a ydyw y meirw a gleddir yn y llwch i aros yno byth, ai nad ydynt. Y mae adgyfodiad y meirw, a rhyfeddodau ofnadwy y dydd diweddaf, yn guddiedig oddiwrth y rhai sydd yn amddifad o ddadguddiad Dwyfol. Nid oes dim goleuni i'w gael ar y pethau hyn, oddi eithr i'r Goruchaf ei ganiatâu.

2. *Yr oedd yr athronwyr doethaf yn mhlith y paganiaid yn*

*cydnabod yr anghenrheidrwydd am ddadguddiad uwch a rhagorach na goleuni natur.* Terfynai Socrates ei amddiffyniad yn y geiriau hyn :—"Ond yn awr y mae yn amser ymadael,—i mi i farw, ac i chwithau i fyw. Ond pa un o honom sydd yn myned i'r sefyllfa oreu, ni ŵyr neb ond Duw." (*Apology, end.*) Yn y gwaith a elwir y "Phædo," yr hwn a ysgrifenwyd gan Plato, y mae dernyn hynod, yn yr hwn y canfyddir hiraeth ac awydd Plato am oleuni rhagorach na goleuni natur ar y pethau mawrion cysylltiedig â dedwyddwch y creadur o ddyn. Ar ffurf o ymddyddan (*dialogue*) y mae y cyfansoddiad, a chawn un Simmias, yr hwn a ystyrir yn cyfleu syniad Plato ei hun, yn llefaru fel y canlyn :—"Yr ydwyt yn dweyd yn iawn, a minau a draethaf i ti beth yw fy amheuon, a cha yntau ddangos pa mor bell y maent yn annghytuno â'r hyn a lefarwyd. *Oblegyd ymddengys i mi,* Socrates, fel y mae'n debygol yr ymddengys i tithau gyda golwg ar y pethau hyn, *fod cael gwybodaeth eglur am danynt, yn y byd hwn, yn anmhossibl,* neu *yn dra anhawdd*; o'r ochr arall, y mae peidio profi yr hyn a ddywedwyd am danynt yn mhob modd dichonadwy, fel ag i roddi i fyny heb eu chwilio o dan bob agwedd, yn ymddygiad llwfrddyn. Oblegyd ni a ddylem gyda golwg ar y pethau hyn, naill ai dysgu oddiwrth ereill pa fodd y maent, neu eu dargan-fod i ni ein hunain; neu, os bydd y ddwy ffordd hyn yn anmhossibl, yna, gan gymmeryd yr athrawiaethau dynol goreu ac anhawddaf eu gwrthbrofi, ac anturio arnynt, fel yr anturia un ei fywyd ar glwydfad, i forio trwy fordaith bywyd; oddi eithr i un allu mordeithio mewn modd mwy diogel a llai peryglus ar lestr cadarnach, neu ar ryw ATHRAWIAETH DDWYFOL. (ἐπὶ βεβαιοτέρου ὀχήματος ἢ λόγου θείου τινός. *Plato's Phædo, Chap.* xxxv.)

Cofnoda Plato hefyd yr ymddyddan canlynol rhwng Socrates ac Alcibiades, yn yr hwn y cyfaddefir yr anghenrheidrwydd i gael dadguddiad o'r nef :—

"*Socrates.*—Mae yn ymddangos i mi mai y peth goreu ydyw bod yn amyneddgar. Mae'n ofynol dysgwyl hyd nes y dysgi pa fodd y dylit ymddwyn tuag at y duwiau a thuag at ddynion.

*Alcibiades.*—Pa bryd, O Socrates, y bydd yr amser hwnw? A phwy a wna fy nysgu? O herwydd boddlon iawn a fyddaf i weled y person hwn, pwy bynag ydyw.

*Socrates.*—Un ydyw ag sydd yn gofalu am danat; ond, fel y

gwna Homer osod allan Minerva, fel yn tynu ymaith dywyllwch o lygaid Diomedes, fel y gallai wahaniaethu rhwng Duw a dyn; felly y mae yn ofynol iddo yn gyntaf gymmeryd ymaith y tywyllwch o'th feddwl; ac yna ddwyn yn agos y pethau trwy y rhai y dealli dda a drwg.

*Alcibiades.*—Boed iddo gymmeryd ymaith y tywyllwch, neu unrhyw beth arall, os ewyllysia; o herwydd pwy bynag ydyw y dyn hwn, nid wyf yn barod i wrthod dim o'r pethau a orchymyna, os caf fy ngwneuthur yn well." (*Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth*, Pen. xv.)

Nid rhyfedd i'r athronydd enwog, Xenophanes, wneyd y cyfaddefiad gonest canlynol:—"Nid oes neb wedi cael allan sicrwydd, ac ni chaiff neb, am y duwiau, ac yn nghylch yr hyn a ddywedwyf am y cyfanfyd. Oblegyd pe dywedai un yr hyn sydd hollol gywir, eto nid ydyw yn gwybod hyny, ond y mae amheuaeth yn crogi uwch ben y cyfan."

Mae yr engreifftiau blaenorol yn ddigon i brofi ein gosodaeth. Oedd, yr oedd rhai o honynt yn hiraethu am doriad gwawr dadguddiad arnynt. Y mae ein calon yn teimlo wrth eu canfod yn ceisio cael allan y gwirionedd, ac yna yn ymddyrysu yn yr ymchwiliad, a bron a rhoddi i fyny mewn anobaith; ond yn ymgysuro drachefn yn y gobaith y caent ryw bryd oleuni ar destynau eu hymofyniad.

3. *Yr oedd, ac y mae sefyllfa y byd paganaidd, yn dangos yr anghenrheidrwydd am oleuni rhagorach na goleuni natur.* Nid yw y byd paganaidd yn myned rhagddo at berffeithrwydd, ac yn ymddyrchafu yn ngraddfa moesoldeb a rhinwedd. Cawn gyfeiriadau yn y Testament Newydd at fywyd annuwiol y paganiaid. Yr oeddynt yn rhodio yn oferedd eu meddwl, ac wedi myned yn* ddideimlad trwy bechu, yn gwerthu eu hunain i gyflawni pob aflendid (Eph. iv. 17—19); yr oedd yr hyn a gyflawnent yn y dirgel yn rhy warthus i'w adrodd (Eph. v. 12; Rhuf. i. 21—23); yr oedd eu bryd ar yr hyn oedd bechadurus ac aflan (1 Cor. vi. 9—11; 1 Pedr iv. 3. 4). Os trown i hanesiaeth Groeg a Rhufain, ni a gawn gadarnhad i dystiolaeth yr Ysgrythyr. Dysgai eu horaclau greulondeb ac aflendid i'r bobl. Appwyntient aberthau dynol; gadawai y bobl y rhai oedranus i farw yn ddiymgeledd; yr oedd llofruddiaeth yn beth cyffredin yn eu plith; yr oedd rhieni

* Απηλγηκότες "diddarbodi," bod yn ddifater, dideimlad.

at eu rhyddid i werthu eu plant i gaethiwed neu eu dinystrio, yn ol eu hewyllys; amheuid eu hathronwyr dysgleiriaf o fod yn euog o droseddau annaturiol ac aflan; yr oedd puteindra a phob aflendid yn cael eu cyflawni hyd y nod yn nghyssegrleoedd eu duwiau; nid oedd y fath beth a sefydliadau dyngarol, megys *hospitals*, *asylums*, *orphanhouses*, &c., i'w canfod yn eu plith; a pha ryfedd? gan mai creulondeb ac aflendid oedd nodweddau eu duwiau, nid oedd dim amgen i'w ddysgwyl oddiwrth eu haddolwyr.*

Dichon y dywedir, nad felly y mae pethau mewn gwledydd paganaidd yn y dyddiau hyn. Gadewch i ni weled. Y mae heddgeidwaid Pekin, prif ddinas ymerodraeth China (yn ol tystiolaeth *Barron*, teithiwr diweddar yn yr ymerodraeth hono), yn defnyddio personau i fyned o amgylch yr heolydd bob boreu i'r dyben o gasglu y plant a fyddai wedi cael eu taflu allan i'r heol yn ystod y noson flaenorol. Cludir y cyrph i bwll o'r tu allan i'r muriau, i'r hwn y bwrir hwynt pa un bynag fyddant ai byw ai marw! Ymddengys, yn ol yr awdurdodau goreu, ebe y teithiwr uchod, fod tua naw mil o fabanod yn cael eu llofruddio fel hyn bob blwyddyn gan eu rhieni eu hunain yn ninas Pekin yn unig; ac mae'n debygol fod nifer gyffelyb, yn ol rhif y trigolion, yn cael eu dinystrio mewn dinasoedd ereill yn China.

Gwyddis yn dda fod maban-laddiad yn beth arferol yn India, cyn i'r llywodraeth Brydeinig ei attal. Dywed Syr William Jones a Dr. Buchanan y byddai y llwythau Hindwaidd a elwir Rajekoomariaid a'r Rajpootiaid yn arfer a dinystrio eu babanod benywaidd trwy beri i'w mamau eu newynu. Gwel *Dr. Jesse Appleton's Theological Lectures*, ar yr Anghenrheidrwydd am Ddadguddiad Dwyfol, yn mha rai y ceir engreifftiau dirif o drueni dyn heb Dduw a'i efengyl.

Os trown ein gwyneb i barthau ereill o'r byd, yr ydym yn canfod profion o'r un truenusrwydd moesol, yn absennoldeb yr efengyl. Dywed John Williams, y Cenadwr, y gellid clywed pennaeth gwybodus yn Samoa, yn gweddïo ar wybedyn. Pan laddwyd neidr yn un o'r ynysoedd, cyfodai y trigolion yn erbyn y rhai oedd gyda'r Cenadwr, gan floeddio eu bod wedi lladd eu duw! Yn ynysoedd Tahiti a'r rhai cymmydogaethol, offrymid aberthau dynol; yn un o'u gwyliau, byddid yn

* *M'Ilvaine's Evidences of Christianity*, Lect. x.

wastad yn offrymu *saith* o'r fath aberthau! Yn ynysoedd Fiji, dinystrid gweddwon pennaethiaid ar adeg claddedigaeth eu gwyr, a chleddid hwy yn yr un bedd, er mwyn i'r gŵr gael cyfeillach ar ei daith i'r byd anweledig. Arferai mamau ddinystrio eu babanod; cyfaddefai un wrth Mr. Williams ei bod wedi dinystrio *un-ar-bymtheg* o'i phlant ei hun.*

Os meddyliwn am *ofergoeledd* y byd paganaidd, cawn ein hargyhoeddi am yr anghenrheidrwydd o ddadguddiad Dwyfol i oleuo a dysgu y byd. Dywed y Cenadwr William Ward, fod gan baganiaid India dros dri chan' miliwn o dduwiau, a'u bod yn addoli gwahanol greaduriaid, megys yr epa a'r sarph, ac yn ymostwng i ddelwau mudion o bren a maen, ac o aur ac arian.

Dysga llyfrau yr Hindwaid fod un Duw goruchaf yn bodoli, yr hwn a alwant *Eshar*, yr hwn a greodd bob peth. Dywedant i hwn greu duwies, o'r enw *Bawaney*, yr hon oedd fam y tri prif dduw israddol, y rhai a elwir *Bramha*, creawdwr y pethau sydd yn y byd hwn;—*Fishnw*, cynnaliwr a meithrinydd pethau y byd hwn;—a *Sheefah*, yr hwn sydd yn meddu gallu ac awdurdod i'w llywodraethu, eu dysgyblu, a'u dinystrio. Dywedant mai y Bramha uchod a greodd ddyn, a'i fod wedi creu pedwar o wahanol raddau neu *castes* o hono: sef y *Brahminiaid*, y rhai a ddaethant allan o'i enau, a'r rhai sydd i fod yn ddysgawdwyr y bobl;—y *Kshatriyaid*, y rhai a ddaethant allan o'i freichiau, a'r rhai sydd i fod yn filwyr ac amddiffynwyr y bobl;—y *Faishyaid*, y rhai a ddaethant allan o'i gluniau, a'r rhai sydd i gadw anifeiliaid, llafurio y tir, a dwyn masnach yn mlaen, &c.;—a'r *Swdraid*, y rhai a ddaethant allan o'i draed, a'r rhai sydd i wasanaethu y dosbarthiadau ereill heb eu diystyru. Er fod Brahma, Fishnw, a Sheefah yn frodyr, eto darlunia llyfrau crefyddol yr Hindwaid hwynt fel rhai yn ymladd â'u gilydd, ac yn gwrthweithio amcanion eu gilydd; ac yn ystod un frwydr rhyngddynt fod y ddaear wedi crynu, a'r sêr wedi syrthio o'r ffurfafen. O herwydd ystyriaethau fel hyn, a rhifedi aruthrol eu duwiau, ni ŵyr y bobl druain i bwy i blygu nac yn mhwy i ymddiried. Yn Thibet, yr hon sydd wlad i'r Gorllewin o China, addolir y creadur o ddyn a elwir y *Lama Mawr*. Yn ngwlad Mahratta, heb fod yn

* *Williams' Missionary Enterprises in the South Sea Islands*, Chap. xxxi.

mhell o Bombay, addolir bachgenyn deuddeg oed, yn yr hwn y credir fod Ganesa (duw callineb), yn trigo. Addolir y Ganges gan yr Hindwaid fel duwies. Arferai cannoedd o famau mewn gwyl grefyddol yn Ionawr a thaflu eu babanod i'w dyfroedd gerllaw yr ynys a elwir Gunga Saugor, a wylent os na anfonai y dduwies fôrgwn (*sharks*) i'w difetha! Cael marw yn ngolwg y Ganges, a'r rhan isaf o'r corph yn suddedig yn ei dyfroedd, a pherson dyn wedi ei fritho â'i llaid, yw y ffordd sicraf i gyrhaedd dedwyddwch, yn ol dysgeidiaeth Hindwaeth! Er eu bod yn proffesu parch i'w heilunod, ac yn eu moli pan y maent mewn hawddfyd; eto, pan y maent mewn adfyd, y maent yn eu beio am oddef iddynt gael eu cystuddio, ac yn edliw eu mynych offrymau iddynt. Weithiau melldithiant eu duwiau, gan droedio y delwau o amgylch, a'u dinystrio! (*Dr. Cox's Hist. of The Baptist Mission, vol. i. p.* 154.) Cawn hanes cyffelyb am eilunaddolwyr gwledydd ereill, yn ngwaith Dr. Appleton, tud. 36. Nid oes gan baganiaid y byd dduwiau y rhai y gallant eu parchu; nis gall eu crefyddau eu cynnal mewn adfyd; crefydd y Beibl yn unig sydd yn dysgu dyn i fod yn dduwiol—i goleddu gwir barch i'r gwir Dduw, ac i fod yn ddyoddefgar mewn cystudd, yn llawen mewn gobaith, a dyfalbarhau mewn gweddi. Oferedd yw dysgwyl diwygiad yn y byd paganaidd cyn i'r Beibl yn y darlleniad a'r pregethiad o hono ei effeithio.

Y mae tywyll-leoedd y ddaear, gan hyny, yn awr yn llawn o drigfanau trawsder fel cynt; ond y mae arwyddion yr amserau yn dangos fod cyfnod dedwyddach yn dechreu, a chwymp teyrnas y tywyllwch yn agoshau. Mae India yn dechreu sirioli o dan ddylanwad efengyl gras; y mae y cyfnewidiad yn Ynysoedd y Môr Tawelog wedi bod o'r braidd yn wyrthiol, fel pe buasai cenedl wedi ei geni mewn un dydd; fel y mae yr ynysoedd, o ba rai y dyrchafai gwaedd creulondeb a thrueni eilunaddoliaeth gyda thwrf tònau y môr, yn awr yn anfon eu hodlau o fawl i'r Goruchaf, a sain eu clodforedd yn esgyn i fyny yn gymmeradwy i glustiau yr hwn "sydd yn cyfaneddu yn moliant Israel." Salm xxii. 3.) Yr efengyl sydd wedi effeithio y cyfnewidiad. "O'r Arglwydd y daeth hyn, a rhyfedd yw yn ein golwg ni."

4. *Y mae dadguddiad oddiwrth Dduw yn anghenrheidiol hefyd er sicrhau ymostyngiad cydwybod.* Nid yw cydwybod yn cydnabod yr un awdurdod ond eiddo Duw. Gan nad pa mor

rhagorol y gallai addysgiadau a gwersi yr athronydd neu y diwygiwr fod, nid allent byth ddwyn oddi amgylch ymostyngiad cydwybod; i sicrhau ymostyngiad cydwybod, rhaid i'r addysg ddeilliaw oddiwrth Dduw, a chael ei grymusoli gan addewidion a bygythion Duw. Y mae Tertullian yn nodi hyn yn ei *Apology I. Chap.* xlv:—"Pa le y mae y ddoethineb ddynol ag sydd yn dangos yn eglur yr hyn sydd ddaioni gwirioneddol? A pha awdurdod ddynol sydd alluog i gyrhaedd y gydwybod, a dwyn y syniad i ymarferiad? Y mae doethineb ddynol mor agored i gyfeiliorni, ag yw gallu dynol i gael ei ddiystyru. . . . Beth ydyw awdurdod cyfreithiau dynol, pan y mae yn ngallu dyn i'w gochelyd (gan nad ydyw y rhan fynychaf yn cael ei ganfod pan yn cyflawni ei weithredoedd drwg), ac weithiau i'w diystyru, fel un yn pechu yn ddamweiniol, neu o anghenrheidrwydd? Ystyriwch hefyd fyrder y gosbedigaeth, yr hon, gan nad beth ydyw, ni pharha ar ol angeu. Felly y mae Epicurus yn diystyru pob math o gosbedigaeth a phoen, gan ddweyd fod rhai ysgafn i'w dibrisio, ac nad yw rhai mawrion ond o fyr barhad."*

Nid oes yr un gyfundrefn ddynol, gan hyny, a etyb y dyben i ddyrchafu yr hil ddynol, hyd y nod pe byddai oll yn wirionedd, a'i dysgeidiaeth yn gosod allan y moesoldeb puraf, ac yn galw am y rhinweddau ardderchocaf; byddai y cyfan yn syrthio yn ddieffaith i'r llawr, am na byddai ganddi awdurdod wrth gefn yr hon a gydnabyddai cydwybod, ac am na byddai ganddi gymhellion digon grymus i ddylanwadu ar ddyn i gydymffurfio â hi. Ni achubir y byd, heb i'r Anfeidrol ymostwng i'w ddysgu, a dadguddio iachawdwriaeth iddo.

"Lle ni byddo gweledigaeth (gan hyny) methu a wna y bobl;" (Diar. xxix. 18), "methu" mewn modd deallol a moesol, heb yr un arweinydd o ymddiried yn y byd hwn, na gobaith ansigledig am ddedwyddwch yn y byd a ddaw.

* Gwel hefyd *Ail Lythyr Dr. Gregory,* a *Gweithiau Doddridge,* Lect. ciii.

## PENNOD II.

### Y CANON, NEU LYFRAU Y BEIBL.

## Y CYNNWYSIAD.

*Ystyr y gair Canon—Y Llyfrau a gyfansoddant y Canon—Dosraniadau o'r Hen Destament—Y Talmud—Trefn Llyfrau y Beibl Hebraeg—Dosbarthiad y Beibl i Bennodau ac Adnodau—Llyfrau yr Hen Destament ag sydd wedi myned ar goll—Yr Antilegomena, neu y Llyfrau a amheuid—Awdurdod a gorpheniad y Canon—Canon yr Hen Destament—Cadwraeth Llyfrau, a gorpheniad Canon yr Hen Destament—Canon y Testament Newydd—Yr ystyriaethau a alwent am ddealltwriaeth yn mhlith yr eglwysi o barthed i'r Llyfrau Canonaidd—Tystiolaeth hanesyddol i Ysgrythyrau y Testament Newydd—Llyfrau Apocryphaidd y Testament Newydd yn annheilwng o dderbyniad—Amseryddiaeth a Chynnwysiad Llyfrau y Beibl.*

YSTYR lythyrenol y gair *canon* (*κανών*) ydyw *corsen*, neu *ffon*; yna *corsen* neu *ffon fesur*; o hyn y deilliodd ei ystyr ffugyrol, *safon* neu *reol*; er engraifft, rheol bywyd a safon athrawiaeth: "Cynnifer ag a rodiant yn ol y rheol (Groeg, *canon*) hon," &c. (Gal. vi. 16.) Defnyddia y rhai a elwir y Tadau Groegaidd ef yn fynych yn yr ystyr yma. Gan mai ewyllys ddadguddiedig Duw, fel y dadguddir hi yn yr Ysgrythyrau, oedd y safon at ba un yr appelient yn holl bwyntiau ffydd a dyledswydd, daeth yr ysgrifenwyr Cristionogol boreuol yn ddiarwybod iddynt eu hunain i sôn am y gyfrol santaidd a'i hadnabod fel y CANON, neu y RHEOL. Y canon, gan hyny, yw holl air Duw, yr hwn a dderbyniwn fel safon anffaeledig ffydd ac ymarweddiad.

I. Y LLYFRAU A GYFANSODDANT Y CANON. Y rhai hyn yw y rhai sydd yn ein Beiblau Cymreig a Seis'nig, pan y mae yr Apocrypha yn cael ei adael allan; sef 39 o lyfrau yr Hen Destament, a 27 o lyfrau y Testament Newydd. Dosberthid yr Hen Destament gan yr Iuddewon ar y cyntaf ar ol gorpheniad Canon yr Hen Destament, i dair rhan: sef y *Gyfraith*, y *Prophwydi*, a'r *Hagiographa*, neu yr *Ysgrifeniadau Santaidd*. Yn y rhagymadrodd i lyfr Sirach, yn yr Apocrypha, gelwir Ysgrythyrau yr Hen Destament, "Y *Gyfraith*, a'r *Prophwydi*,

a'r *llyfrau ereill ag sydd o'r un ysbryd.*" Defnyddia Philo Judæus (A.D. 40,) wrth ddesgrifio hanes yr Esseniaid, eiriau cyffelyb: "Ni dderbyniant (eb efe) ond y *cyfreithiau*, a'r oraclau a lefarwyd trwy y *prophwydi*, a'r *hymnau a'r llyfrau ereill.*" Felly hefyd y Testament Newydd: "Dyma y geiriau a ddywedais i wrthych, pan oeddwn eto gyda chwi, bod yn rhaid cyflawni pob peth a ysgrifenwyd yn *Nghyfraith Moses*, a'r *Prophwydi*, a'r *Salmau*, am danaf fi" (Luc xxiv. 24.) Mae'n debyg mai yr un peth a olygai Philo wrth *hymnau*, ag olygai yr Iesu wrth *Salmau*, yn y geiriau uchod. Dywedai Josephus hefyd fod y Gyfraith a'r Prophwydi yn gwneyd i fyny y ddwy ran gyntaf o'r Ysgrythyrau Iuddewig, a bod y llyfrau ereill yn cynnwys hymnau i Dduw a gwersi bywyd i ddyn. Yn y rhan o'r Talmud* Babilonaidd, a elwir y Gemara, cawn y frawddeg ganlynol, yr hon sydd yn dangos fod yr un dosbarthiad yn cael ei gydnabod gan yr Iuddewon hyd yr adeg hono;—"Y mae ein dynion doethion yn dweyd fod y cyfan yn un, a phob rhan yn gyflawn ar ei phen ei hun; ac y maent wedi trosglwyddo i ni y *Gyfraith*, y *Prophwydi*, a'r *Ysgrifeniadau* (cethwbim,) yn unedig â'u gilydd megys un cyfangorph."† Cynnwysai y *Gyfraith*, bum' llyfr Moses; y *Prophwydi*, Josua, y Barnwyr, 1 a'r 2 Samuel fel un llyfr, 1 a'r 2 Brenhinoedd fel un llyfr, Jeremiah, Ezeciel, Esaiah, a'r Deuddeg Prophwydi Bychain megys un llyfr: y cyfan o'r ail ddosparth yn gwneyd *wyth* llyfr (yn ol rhai trefniadau): a chynnwysai y trydydd dosbarth, sef yr *Hagiographa*, neu yr *Ysgrifeniadau Santaidd*, y Salmau, y Diarhebion, Caniadau Solomon, a'r Pregethwr, neu Ecclesiastes; (ac yn ol trefniant diweddarach, y rhai canlynol hefyd) Job, Ruth, Galarnad Jeremiah, Esther, Daniel, Ezra, Nehemiah, a'r Chroniclau. Mae dau neu dri o bethau i sylwi arnynt er deall y pwnc hwn:—

* Talmud (למד=*to learn*), the great repository of Jewish law and learning, containing the Mishna or text, and the Gemara or commentary. There are two works of this name, one named the Talmud of Jerusalem, and the other the Talmud of Babylon. The Mishna was the work of Rabbi Jehudah the Holy, the famed doctor of Tiberias, about the end of the second century. Rabbi Jochanan Ben Eliezer compiled a Gemara about the sixth century, and this, with the Mishna, is called the Talmud of Jerusalem. About the same period the doctors in Babylon did a similar work, and theirs is the more highly prized. Maimonides made an abridgment of it in the twelfth century. The Talmud of Babylon was printed at Amsterdam in twelve volumes, folio.—*Eadie's Ecclesiastical Cyclopædia.*

† *Stuart on the Canon*, Section xi.

1. Fe welir fod llyfrau hanesyddol yn yr adran a elwir y *Prophwydi*, megys Josua, y Barnwyr, &c. Er cyfrif am hyn, nid oes eisieu ond cofio fod yr Iuddewon yn galw pawb a gredid eu bod yn *ysbrydoledig* yn *brophwydi*. Cymharer Mat. xi. 13.

2. Fe welir hefyd fod yr *Hagiographa*, neu yr *Ysgrifeniadau Santaidd*, weithiau yn myned o dan yr enw *Salmau*. Y rheswm dros hyn ydyw am mai y *Salmau* oedd y llyfr cyntaf yn yr adran hon, a'i fod yn un o'r prif adraniadau o honi; neu yn ol rhai awduron, am fod y rhan fwyaf o honi yn *farddoniaeth*. Weithiau hefyd ceir dau brif enw yr adraniadau Iuddewig o'r Beibl gyda'u gilydd, sef y *Gyfraith a'r Prophwydi* (Mat. xi. 13, xxii. 40. Luc xvi. 16. Ioan i. 45), neu *Moses a'r Prophwydi* (Luc xvi. 29, 31, xxiv. 27). Bryd arall ceir y gair *Ysgrythyrau* yn dynodi yr holl ysgrifeniadau ysbrydoledig (Mat. xxi. 42. Luc xxiv. 42. Rhuf. xv. 4.)

3. Wrth ddarllen y gwahanol lechresi o lyfrau yr Hen Destament yn ysgrifeniadau yr Iuddewon, Jerome, a phenderfyniadau cynghorfeydd yr eglwys foreuol, yr ydym yn canfod gwahaniaeth yn y rhif.

Cyfrifa ysgrifenwyr y Talmud lyfrau yr *Hagiographa* yn *un ar ddeg*, a Jerome yn *naw*; y rheswm am y gwahaniaeth yw, fod Jerome yn cyfrif Josua a Ruth fel un llyfr, a'r un modd brophwydoliaethau a Galarnad Jeremiah, tra y mae y Talmud iaid yn eu cyfrif ar wahan. Cyfrifa Melito, esgob Sardis, yn A.D. 170, lyfrau Samuel a Brenhinoedd fel un llyfr, o dan yr enw, "Pedwar llyfr y brenhinoedd." Cyfrifid Ezra a Nehemiah hefyd weithiau fel un llyfr, bryd arall fel dau. Weithiau corphorid Nehemiah ac Esther yn Ezra.* Gwel yn mhellach yn niwedd yr adran ar Ganon yr Hen Destament.

Gyda golwg ar drefniant llyfrau yr Hen Destament, nid ydyw yn wastad yr un peth. Yr oedd rhai o'r Iuddewon yn dewis un trefniant, ac ereill un arall gwahanol. Y drefn ganlynol yw yr un yn yr hon y saif y llyfrau yn yr argraffiadau o'r Beibl Hebraeg, a ddefnyddir yn gyffredin:—

PUM' LLYFR MOSES.

Genesis.
Exodus.
Lefiticus.
Numeri.
Deuteronomium.

* *Stuart on the Old Test. Canon*, Sections xi. xii. *Kitto's Cycl. Art. "Canon."*

Y PROPHWYDI BLAENAF.

Josua.
Barnwyr.
1 Samuel.
2 Samuel.
1 Brenhinoedd.
2 Brenhinoedd.

Y PROPHWYDI DIWEDDARAF.

Esaiah.
Jeremiah.
Eseciel.
Hosea.
Joel.
Amos.
Obadiah.
Jonah.
Michah.
Nahum.
Habacuc.
Sephaniah.
Haggai.
Sechariah.
Malachi.

YR YSGRIFENIADAU SANTAIDD.

Y Salmau.
Y Diarhebion.
Job.
Caniadau Solomon.
Ruth.
Galarnad.
Y Pregethwr.
Esther.
Daniel.
Ezra.
Nehemiah.
1 Chronicl.
2 Chronicl.

Nis gall y trefniant hwn fod yn un cywir. Gwelir fod y Salmau ar ol Malachi, yr hyn nas gall fod yn iawn, gan fod y mwyafrif o honynt wedi cael eu cyfansoddi gan Dafydd, dros bum' can' mlynedd o flaen Malachi. Cyfansoddwyd y Diarhebion gan Solomon, eto dodir llyfr y Diarhebion yn y gyfres, fel pe buasai wedi ei ysgrifenu ar ol y caethiwed Babilonaidd. Fe fernir nad oedd Josephus yn cynnwys yn y Drydedd Ran unrhyw lyfrau heblaw y Salmau, y Diarhebion, y Pregethwr, a'r Caniadau, gan ei fod yn ei darlunio fel yn gynnwysedig o "*hymnau i Dduw, a gwersi bywyd i ddyn*;"* ac mae yn amlwg nad ydym i farnu amseriad llyfr oddiwrth ei le yn y Beibl Hebraeg, fel yr argreffir ef fynychaf yn bresennol. Ymddengys fod ysgrifenwyr y Talmud yn sylfaenu eu dosbarthiad o'r llyfrau santaidd ar eu tyb gyfeiliornus eu hunain am *raddau ysbrydoliaeth* yr ysgrifenwyr; dodasant Moses yn gyntaf, am y credent na ysbrydolwyd neb i'r fath raddau ag ef; yna y prophwydi, fel y rhai agosaf ato mewn ysbrydoliaeth; yna ysgrifenwyr yr Hagiographa neu y Drydedd Ran, fel yn meddu y gradd isaf o ysbrydoliaeth. Ni raid i ni

* *Stuart on the Canon*, p. 249, London, 1849.

ddweyd mai dychymmyg disail y Rabbiaid yw y dyb hon am ysbrydoliaeth ysgrifenwyr y Beibl, a'i bod yn berffaith gyfeiliornus. Y ffaith yw, nid oedd unffurfiaeth yn nhrefniad llyfrau yr Hen Destament yn mhlith yr Iuddewon, nac yn mhlith Cristionogion y canrifoedd cyntaf. Mae y Masoritiaid a'r Talmudiaid yn gwahaniaethu; felly Jerome ac Origen; a gwahanol gynghorau yr eglwys gyntefig.*

Ystyriwn y nodiadau hyn o bwys, gan fod awdwyr hanner anffyddol yn gwadu dilysrwydd (*authenticity*) ac yn dysgu diweddarwch awduriaeth llyfrau y Chronicl a Daniel, am eu bod wedi eu dodi yn mhlith yr Hagiographa, fel pe buasai hyny yn brawf fod y llyfrau wedi cael eu hysgrifenu mewn adegau diweddarach nag a broffesant. Fe wel y darllenydd mor ddisail yw y fath dyb.

Nid oedd unffurfiaeth ychwaith yn nhrefniant lleol llyfrau y Testament Newydd. Saif yr efengylau a'r Actau yn wastad yn mlaenaf yn yr ysgriflyfrau (*manuscripts*); ond y mae lleoliad yr epistolau yn amrywio; yn ol ysgriflyfrau Alexandria, y Vatican, ac Ephraim y Syriad, yr hyn hefyd a gadarnheir gan Gynghor Laodicea (A.D. 361), Cyril o Jerusalem (yr hwn a fu farw A.D. 386), ac Athanasius (yr hwn a fu farw A.D. 373), yr Epistolau Cyffredinol yw y rhai blaenaf; ac ymddengys mai hyn oedd eu trefn yn yr eglwysi Dwyreiniol. Fel hyn hefyd y mae Lachmann yn lleoli yr Epistolau. O'r ochr arall, cawn yr eglwysi Gorllewinol yn rhoddi y flaenoriaeth i Epistolau Paul, gan eu trefnu yn ol pwysigrwydd cymharol yr eglwysi a'r personau at ba rai yr ysgrifenasid hwynt;† yr hyn a rydd gyfrif paham y mae y llythyr at y Rhufeiniaid wedi cael ei osod yn mlaenaf, tra y dengys y lleoedd canlynol ei fod o ddyddiad diweddarach na'r llythyrau at y Corinthiaid. (1 Cor. xvi. 1. 2 Cor. ix. 1—4. Rhuf. xv. 25, 26.)

Nid ydym yn gwybod yn iawn pa bryd, na chan bwy y trefnwyd llyfrau y Beibl yn y drefn yn yr hon y ceir hwynt yn ein Beiblau Cymraeg; fe ddichon fod trefn y llyfrau, fel y maent yn nghyfieithiad Lladinaidd y Pabyddion, yn ol penderfyniad Cynghor Trent yn 1546 (yr hyn sydd yn debyg i'r drefn yn y Beibl Cymraeg a Saesonaeg, oddi eithr fod yr Apocrypha yn Meibl y Pabyddion), wedi dylanwadu

* *Stuart on the Canon*, p. 258. *Henderson's Inspiration*, pp. 404—406, London, 1847.

† *Dr. W. Smith's Dict. of the Bible, Art.* "*Bible.*"

ar drefniad y llyfrau yn nghyfieithiadau Protestaniaid y deyrnas hon. Nid oes llawer o bwys yn hyn.

Fe briodolir dosbarthiad llyfrau y Beibl i bennodau weithiau i Lanfranc, archesgob Caergaint, yn yr unfed ganrif ar ddeg; a phryd arall i Langton, archesgob Caergaint, yn y drydedd ganrif ar ddeg; ond ymddengys mai gwir awdwr y dosbarthiad dan sylw oedd Cardinal Hugo de Sancto Caro, yr hwn a flodeuodd tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg, ac a ysgrifenodd esboniad enwog ar yr Ysgrythyrau. Gwnaeth fynegair i'r Beibl Lladinaidd, a dosbarthodd ef i bennodau fel y maent genym ni yn awr, a dosbarthodd y pennodau drachefn i adraniadau llai, gan eu gwahaniaethu â'r llythyrenau, A, B, C, D, E, F, gan leoli y llythyrenau oddiwrth eu gilydd ar fin y ddalen yn ol hyd y bennod. Gwnaeth Rabbi Mordecai Nathan, yn y bymthegfed ganrif, wasanaeth cyffelyb i efrydwyr y Beibl Hebraeg, yr hwn a ddilynodd adraniadau Hugo gyda golwg ar y pennodau, ac a nododd adraniadau ereill â llythyrenau minddalenol, y rhai a welir yn awr yn y Beibl Hebraeg bob pummed adnod.* Yn 1661, yr *argraffwyd* y Beibl Hebraeg gyntaf gydag adnodau gan un Athias, Iuddew o Amsterdam; a Robert Stephens oedd y cyntaf i argraffu y Testament Newydd Groeg gydag adnodau, yn 1551. Dywed Dr. W. Wright, yn *Kitto's Cyclopædia*, fod Sanctes Pagninus wedi gwneyd hyn yn 1528 â'r Beibl Lladin. Y Testament Newydd Seis'nig cyntaf gydag adnodau oedd yr un a argraffwyd yn Geneva, yn 1557. Yn Geneva hefyd, yn 1560, yr argraffwyd y Beibl cyflawn cyntaf wedi ei ddosbarthu i bennodau ac adnodau.†

* *Eadie's Ecclest. Cyc. Art. "Bible."* *Wheeler's Analysis of Old Test. History*, p. xxix. *Pareau on the Interpretation of the Old Testament*, vol. i. chap. iii. § 5. (*Biblical Cabinet*, vol. viii.)

† Ymddengys mai y *Masorites* a ddosranodd lyfrau y Beibl Hebraeg gyntaf i adnodau. Math o Ysgrifenyddion oeddynt yn mhlith yr Iuddewon, y rhai a ysgrifenent gopiau o'r Ysgrythyrau Hebraeg, ac a broffesent ddysgu y ffordd gywir i'w darllen a'u beirniadu. Gelwir eu gwaith *Masora=traddodiad*, o'r ferf Hebreig מסר *masar*, *traddodi* (yn ol ystyr y Talmud i'r ferf), am y rheswm, meddant, fod Duw wedi dysgu Moses i ddarllen ac egluro y gyfraith, a'i fod ef wedi trosglwyddo y ddysgeidiaeth i'w olafiaid, a hwythau drachefn i'w hiliogaeth, o genedlaeth i genedlaeth, hyd nes y darfu i'r doctoriaid hyn ei hysgrifenu. Ymddangosasant ar wahanol adegau o'r bummed ganrif yn mlaen i'r unfed ganrif ar ddeg; oblegyd fe geir dau tra enwog o honynt oddeutu A.D. 1030, sef Ben-Asher a Ben-Naphtali. Y ddau hyn oedd y rhai diweddaf i wneyd unrhyw gyfnewidiad yn y nodau llafar,

*Llyfrau wedi myned ar goll, y rhai y cyfeirir atynt yn yr Hen Destament.*

Dichon mai yn y fan yma y dylid cyfeirio at amryw lyfrau y crybwyllir am danynt yn yr Hen Destament, ond y rhai sydd yn awr ar goll. Mae pob efrydydd wedi sylwi yn fynych ar y cyfeiriadau atynt, ac yn methu cyfrif am danynt, ac yn synu eu bod wedi myned ar goll, a'r fath sylw parchus yn cael ei dalu iddynt yn y Beibl. Mae yn debygol, fel y sylwa Moses Stuart, fod rhai o honynt yn cael eu hystyried yn lyfrau *cyssegredig* ac *awdurdodol*, megys y rhai a elwir *llyfrau y prophwydi.* Nid ydyw yn ofynol i ni gredu fod yr ysgrifenwyr o dan ysbrydoliaeth Duw wrth ysgrifenu eu holl gynnyrchion; er engraifft, Solomon, pan yn ysgrifenu ei weithiau ar lysieuaeth a mildraeth (1 Bren. iv. 32, 33); ni sonir am y rhai hyn fel cynnyrchion Dwyfol ysbrydoliaeth, ond fel prawf o'r talentau a'r athrylith â'r rhai yr oedd Duw wedi ei gynnysgaethu. Cyfeirir at lyfrau ereill, y rhai y mae yn anhawdd penderfynu pa un a ydym i'w hystyried fel cynnyrchion ysbrydoliaeth, ai ynte fel cofnodion cywir o ffeithiau hanesyddol gan haneswyr heb gymhorth goruwchnaturiol. Dodwn yma gyfres o honynt fel y dygwyddant yn ein Beiblau Cymraeg, gan ddodi sylwedd nodiadau Moses Stuart arnynt, ac ychwanegu ereill o'r eiddom ein hunain atynt:

(1,) Yn Numeri xxi. 14, mae yr ysgrifenydd yn appelio am gadarnhad o'r hyn a ysgrifenai at *Lyfr Rhyfeloedd yr Arglwydd.* "Am hyny dywedir yn llyfr rhyfeloedd yr Arglwydd, Y peth a wnaeth efe yn y Môr Coch, ac yn afonydd Arnon." Nis gellir penderfynu oddiwrth hyn pa un a ystyrid y llyfr hwn yn gyssegredig ai peidio; ond y mae yn amlwg yr ystyrid ef o awdurdod hanesyddol ddiamheuol.

(2,) Cyfeirir yn Jos. x. 12, 13, a'r 2 Sam. i. 18, at *Llyfr Jazer*. Golyga hyn *Llyfr* yr *Uniawn*, a gall fod yn lyfr am bersonau a ystyrid yn rhai uniawn, neu yn waith un o'r enw *Jasher*. Golyga Moses Stuart, Lowth, Gesenius,

---

ac i ysgrifenu nodiadau beirniadol ar ymyl y ddalen, yn y Beibl Hebraeg. Dywedir eu bod wedi cyfrif adnodau y Beibl Hebraeg, a chael 5,245 o honynt yn mhum' llyfr Moses, a 23,206 yn yr holl Feibl.—*Jennings's Jewish Antiquities*, pp. 273–275.

ac ereill, mai casgliad o ganiadau cenedlaethol yr Iuddewon ydoedd, yn mha rai yr oedd clod enwogion y genedl yn cael ei ddadgan. Yn Josua apelir ato am gadarnhad o'r hyn a ddywedir am y wyrth dan sylw yno; ac yn Samuel am brawf o alar Dafydd am Saul a Jonathan. Nis gellir casglu oddiwrth yr apeliadau hyn pa un a ystyrid ef yn ysbrydoledig ai peidio; ond am ei awdurdod hanesyddol, nid oes amheuaeth, neu ni fuasai ysgrifenwyr y Beibl yn cyferio ato. Am wahanol olygiadau arno, gwel Eiriaduron Kitto a Dr. W. Smith.

(3,) Llyfr di-enw yn nyddiau Samuel. "Yna Samuel a draethodd gyfraith y deyrnas wrth y bobl, ac a'i hysgrifenodd mewn llyfr, ac a'i gosododd ger bron yr Arglwydd" (1 Sam. x. 25). Mae'n debyg fod y llyfr hwn yn fath o grynhodeb o gyfansoddiad y deyrnas, ac, mae'n ddiamheuol, o awdurdod ar y pwnc; ond ni cheir cyfeiriad arall ato yn y Beibl.

(4,) Yn 1 Bren. iv. 32, 33, cyfeirir at dair mil o ddiarhebion Solomon, a'i bymtheg cant o ganiadau, a'i weithiau ar lysieuaeth a mildraeth. Dichon eu bod mewn rhan yn ysbrydoledig. Mae'n bossibl fod llyfr y Diarhebion yn gynnwysedig yn y tair mil diarhebion; dichon hefyd fod rhai o'r caniadau y cyfeirir atynt uchod yn gyssegredig, ac fod llyfr Caniadau Solomon yn perthyn i'r cyfryw. Mae'n ymddangos yn dra thebygol na ystyriai yr Iuddewon fod ei holl gynnyrchion yn ysbrydoledig, ac mai dyma a rydd gyfrif am na chadwyd hwynt oll rhag myned ar goll.

(5,) Yn 1 Bren. xi. 41, sonir am "*Lyfr Gweithredoedd Solomon.*" Mae'n debyg mai hanes cyflawn a chywir am deyrnasiad a gorchestion Solomon ydoedd, yr hwn a ystyrid yn safon ar y pwnc hwn. Nis gellir casglu oddiwrth hyn ei fod yn ysbrydoledig; gall fod neu gall beidio bod; yr hyn a ddysgir yw ei fod yn hanes cywir a ffyddlawn.

(6,) Yn 1 Bren. xiv. 19, sonir am "*Lyfr Chronicl Breninoedd Israel.*" Llyfrau hanesyddol am freninoedd Israel oedd y rhai hyn, ond heb gynnwys, mae'n debyg, hanes breninoedd Judah hefyd.

(7,) Yn 1 Bren. xv. 7, sonir o'r ochr arall am "*Lyfr Chronicl Breninoedd Judah,*" fel yn cynnwys hanes breninoedd Judah, yn wrthgyferbyniol i frenhinoedd Israel.

(8,) Yn 1 Chron. xxix. 29, dywedir fod gweithredoedd cyntaf a diweddaf y brenin Dafydd, yn ysgrifenedig *yn ngeiriau* (Saesonaeg, *in the book*, yr hyn a olyga yr Hebraeg a'r Cymraeg)

*Samuel y gweledydd, ac yn ngeiriau Nathan y prophwyd,* ac *yn ngeiriau Gad y gweledydd.*" Ymddengys fod tri phrophwyd y rhai oeddynt yn gydoeswyr wedi ysgrifenu hanes Dafydd. Dichon mai y llyfr a feddwn yn awr o eiddo Samuel yw un o honynt, neu fe allai ei fod yn sylwedd a thalfyriad o'r tri.

(9,) Yn 2 Chron. ix. 29, cawn hanes cyffelyb am *Nathan, Ahiah*, ac *Ido*, yn ysgrifenu hanes Solomon.

(10,) Yn 2 Chron. xii. 15, dywedir fod Semeiah y prophwyd, ac Ido y gweledydd, wedi ysgrifenu hanes Rehoboam.

(11,) Yn 2 Chron. xxvi. 22, dywedir fod "Esaiah y prophwyd, mab Amos," wedi ysgrifenu hanes Uzziah.

(12,) Yn 2 Chron. xxviii. 26, sonir am "*Lyfr breninoedd Judah ac Israel.*" Dichon mai llyfr y Breninoedd, fel y mae genym ni yn awr a olygir, er na ellir bod yn sicr.

(13,) Sonir yn 2 Chron. xx. 34, am "eiriau (Saes. *llyfr*) Jehu, mab Hanani" (1 Bren. xvi. 1, 7), fel yn cynnwys hanes Jehosaphat.

(14,) Yn 2 Chron. xxxii. 32, crybwyllir am hanes bywyd Hezeciah, wedi ei ysgrifenu gan Esaiah y prophwyd, yr hyn, mae'n bossibl, sydd i'w gael yn Esaiah xxxvi.—xxxix.: a'r llyfrau ereill a grybwyllir, mae'n debygol, yw llyfrau y Breninoedd yn ein Beiblau ni yn bresennol.

(15,) Yn 2 Chron. xxxiii. 18, dywedir fod hanes Manasseh yn ysgrifenedig yn "ngeiriau (Saes. *llyfr*) breninoedd Israel," yr hyn a olyga, fe ddichon, lyfr y Breninoedd.

(16,) Yn 2 Chron. xxxv. 25, sonir am "*Alarnad Jeremiah ar ol Josiah.*" Yr oedd hon, mae'n amlwg, yn wahanol i'r hon a gawn yn y llyfr a elwir "Galarnad Jeremiah."

Mae yn ymddangos fod yr uchod yn cynnwys cyfres gyflawn o'r llyfrau y cyfeirir atynt, fel yn meddu bodolaeth annibynol ar yr Ysgrythyr, oddi eithr fod rhai o honynt, fel yr awgrymwyd, yn rhanau o'r Beibl ei hun. Sonir, mae'n wir, am lyfrau yn Exod. xvii. 14, xxiv. 7, ond mae'n debyg fod y rhai hyny wedi eu corphori yn mhum' llyfr Moses. Yn Esaiah xxxiv. 16, golyga "*Llyfr yr Arglwydd,*" mae yn dra thebygol, yr Ysgrythyrau y rhai oeddynt y pryd hwnw yn bodoli.

Mae y nodiadau canlynol yn cynnyg eu hunain i'n sylw ar y gyfres flaenorol:—

1. Ymddengys nad ydyw llyfrau Hanesyddol yr Hen Destament amgen na *thalfyriadau o hanes y genedl Israelaidd a'i*

*hamgylchiadau;* ac oblegyd hyny cyfeirir ynddynt yn fynych at ysgrifeniadau ereill cyflawnach am gadarnhad ac eglurhad manylach ar yr hyn a grybwyllir.

2. O herwydd prinder a drudaniaeth copiau, mae yn debyg i'r hanesion helaethaf gael eu hesgeuluso, a'r talfyriadau gael eu defnyddio yn fwy mynych fel rheol; nes o'r diwedd i'r hanesion cyflawn fyned ar goll.

3. Nid yw amcanion Dadguddiad yn galw am i ni gael yr hyn oll a amlygodd Duw erioed i'r byd. Dywed yr apostol Ioan, na roddodd efe ond crynhodeb o hanes Mab Duw; ni fuasai dynion yn cael hamdden i ddarllen a myfyrio y cyfan. (Ioan xxi. 25.) Yr un modd gyda golwg ar lyfrau yr Hen Destament. Pe buasai y cofnodion helaeth, manwl, a chyflawn, wedi cael eu trosglwyddo i lawr i ni, buasent yn gwneyd y Beibl i raddau helaeth yn annefnyddiol, o herwydd ei helaethder a'i ddrudaniaeth. Yr oeddynt o bwys pan ysgrifenwyd hwynt, ond ni fyddent felly yn awr. Nid yw eu colli yn ein hymddifadu o un gwirionedd o bwys: pe amgen, ni oddefasai Duw iddynt fyned ar goll.*

Nid ydyw, gan hyny, o gymmaint pwys i ni, pa un a oeddynt yn ysbrydoledig ai peidio; mae Rhagluniaeth wedi gofalu cadw i ni yr hyn sydd anghenrheidiol; y mae genym ddigon o lyfrau yr Hen Destament i egluro meddwl a goruchwyliaethau Duw; ac y mae y Testament Newydd genym yn ei gyflawnder, yr hwn sydd yn dadguddio Duw i ddyn fel Duw y cariad, yr hwn a anfonodd ei uniganedig Fab i'r byd i achub y colledig.

NODIAD.—

Barna rhai fod cyfeiriad yn y Testament Newydd at ddau epistol o eiddo Paul, y rhai sydd wedi myned ar goll.

(1.) *Epistol Paul at y Laodiceaid.* "Ac wedi darllen yr epistol hwn gyda chwi, perwch ei ddarllen hefyd yn eglwys y Laodiceaid; a darllen o honoch chwithau yr un o Laodicea." (Col. iv. 16.) Y farn gyffredin yn awr yn mhlith y dysgedigion goreu yw mai yr Epistol at yr Ephesiaid a olygir yn yr adnod uchod, yr hwn oedd yn fath o gylch-lythyr at eglwysi Asia; oblegyd nid ydyw yn cael ei gyfeirio at "yr esgobion a'r diaconiaid" yn Ephesus, ac y mae y geiriau "yn Ephesus" (Eph. i. 1,) yn cael eu gadael allan mewn rhai hen ysgrif-lyfrau.

(2,) *Epistol Paul at y Corinthiaid.* "Mi a ysgrifenais atoch mewn llythyr, na chydymgymmysgech â godinebwyr." (1 Cor. v. 9.) Cesglir

* *Stuart on the Canon,* Sect. vii.

oddiwrth y geiriau hyn fod Paul wedi ysgrifenu llythyr at y Corinthiaid o flaen y ddau sydd genym yn dwyn ei enw; ond nid oes eisieu tynu y fath gasgliad oddi wrthynt. Cyfeirio mae yr apostol at yr hyn a ysgrifenodd yn barod yn yr epistol hwn (adn. 2, a'r 7). Nid "mewn llythyr" yw y cyfieithiad priodol, gan fod y fannod yn y testyn gwreiddiol, ond "yn y llythyr" *(en tê epistolê)*, neu "yn y llythyr *hwn*." Gwel Rhuf. xvi. 22. Col. iv. 16. 1 Thes. v. 27. 2 Thes. iii. 14.

Defnyddir yr amser anmhenodol *(aorist)* yn fynych am yr hyn a ysgrifenwyd yn y llythyr lle y defnyddir ef, yr hwn a elwir y pryd hyny gan y Grammadegwyr yn "*epistolary aorist*:" gwel Rhuf. xvi. 22. 1 Pedr v. 12. Gal. vi. 11. 1 Cor. ix. 15. 2 Cor. ii. 3. Philem. 19, 21. 1 Ioan ii. 14, 21, 26.

Mae pob rhan o'r Ysgrythyr santaidd a fwriadodd Duw i ddysgu y byd ac adeiladu y saint ar gael yn y Beibl cyssegr-lân, ac nid â ar ddifancoll yn dragywydd.

Darfu i gywreinrwydd rhai o'r Cristionogion cyntefig gynnyrchu dau ffug-lythyr, y rhai a geir yn y Testament Newydd Apocryphaidd, o dan yr enwau "Epistol Paul yr Apostol at y Laodiceaid," ac "Epistol Paul yr Apostol at y Corinthiaid;" ond ni dderbyniwyd mo honynt erioed i'r Canon, gan fod y profion mewnol ac allanol yn erbyn iddynt gael eu hystyried yn gynnyrchion ysbrydoliaeth Duw.

## *Yr Antilegomena, neu y Llyfrau Annghydnabyddedig ar y cyntaf.*

Dosberthid llyfrau y Testament Newydd ar y cyntaf i ddau ddosbarth, sef y rhai Cydnabyddedig a'r rhai Annghydnabyddedig. Yr oedd y pedair Efengyl, yr Actau, ac Epistolau Paul (oddi eithr y llythyr at yr Hebreaid), yn cael eu galw yr HOMOLOGOUMENA=y rhai *Cydnabyddedig*, am fod yr holl eglwysi yn eu derbyn fel ysgrifau gwirioneddol ac ysbrydoledig; ac Epistolau Iago a Judas, Ail Epistol Pedr, Ail a Thrydydd Epistol Ioan, yr Epistol at yr Hebreaid, a Llyfr y Dadguddiad, yn cael eu galw yr ANTILEGOMENA=y rhai *Annghydnabyddedig*, gan fod yr eglwysi ar y cyntaf yn petruso eu derbyn i'r Canon. Yr achos o'r amheuaeth oedd, yr ansicrwydd ar y cyntaf eu bod yn gynnyrchion yr apostolion. Nid oeddynt wedi cael eu hanfon at bersonau nac eglwysi neillduol ac adnabyddus, ac oblegyd hyny nid oedd neb yn neillduol yn cymmeryd y fath ofal o honynt ag o'r llythyrau ereill; ac felly i amheuaeth mewn amser gyfodi yn nghylch eu dilysrwydd *(authenticity.)* Ond wedi chwilio i'r achos, ac ystyried y prawf mewnol ac allanol o'u tarddiad apostolaidd, fe'u derbyniwyd i'r Canon. Yr oeddynt yn cael eu cydnabod

fel ysgrifeniadau ysbrydoledig gan y rhan fwyaf o'r eglwysi yn nechreu y bedwaredd ganrif, a chan yr holl eglwysi erbyn ei diwedd.* Anwybodaeth am danynt, ac o'u cynnwysiad, a achosodd unrhyw amheuaeth yn eu cylch ar y cyntaf; ond pan ddeallwyd eu gwir gymmeriad, derbyniwyd hwynt gyda llawenydd fel cynnyrchion ysbrydoliaeth Duw. Nid ydym i synu fod amheuaeth yn cymmeryd lle yn eu cylch. Ar y cyntaf, nid oedd ond ychydig eglwysi, mae'n debygol, yn gwybod dim am danynt. Yr oedd llawer o ysgrifeniadau ffugiol yn cael eu lledaenu, fel cynnyrchion yr apostolion. Yr oedd pwysigrwydd annhraethol yn y pwynt, ac yr oedd yr apostolion wedi rhoddi yr eglwysi ar eu gocheliad rhag cael eu twyllo (2 Thes. ii. 1, 2. 1 Ioan iv. 1.) Erbyn heddyw mae yr amheuaeth hwn yn gadarnhad i'n ffydd ni; oblegyd dengys *gyda pha fath ofal y derbynid llyfrau i'r Canon, ac nad ystyrid yr un llyfr yn gyssegredig, heb brawf boddhaol o'i ysbrydolrwydd.* Fe sylwa y darllenydd hefyd, pe buasai y llyfrau hyn wedi cael eu gwrthod, na fuasai hyny yn cyfnewid yr un athrawiaeth ysgrythyrol, nac yn effeithio dim ar gynnwysiad y Testament Newydd, o ran ei sylwedd a'i egwyddorion.

## II. Awdurdod a Gorpheniad y Canon.

1. *Canon yr Hen Destament.*

(1,) Cadwraeth llyfrau yr Hen Destament, a gorpheniad y Canon. Ymddengys fod y llyfrau cyssegredig yn cael eu dodi yn y tabernacl, ac wedi hyny yn y deml, o dan ofal yr offeiriaid, i'w cadw rhag myned ar goll, a rhag cael eu llygru âg ychwanegiadau anysbrydoledig. Pan orphenasai Moses ysgrifenu y gyfraith, efe a'i rhoddodd i'r offeiriaid, meibion Levi, ac i henuriaid Israel (Deut. xxxi. 9), gan orchymyn i'r Lefiaid i gymmeryd y llyfr a'i osod *ar ystlys* (Heb. מצד, *wrth ochr*, neu *ar ochr*), arch cyfammod yr Arglwydd eu Duw (Deut. xxxi. 24—26.) Nid ydyw 1 Bren. viii. 9, a'r 2 Chron. v. 10, lle y dywedir "*nad oedd dim yn yr arch ond y ddwy lech faen a osodasai Moses yno yn Horeb*," pan y symmudwyd hi i deml Solomon, yn gwrthddweyd hyn, oblegyd nid yr un modd y gosodir y syniad diweddaf allan a'r llall. *Yn yr arch* (Heb. בארון, *baaron*) yw y darlleniad yn y lleoedd

* *Angus's Bible Hand-Book*, p. 77. *Kitto's Cycl. Art. Antilegomena.*

hyn, tra mai *ar ystlys* neu *wrth ochr yr arch* (Heb. מִצַּד אָרוֹן, *mitstsadd aron*) yw y darlleniad yn Deut. xxxi. 26. Ymddengys oddiwrth hyn fod rhyw fath o gell fechan wedi ei gwneyd yn ochr yr arch, neu yn ei hymyl yn y man y cedwid hi, lle y byddid yn arfer cadw gair yr Arglwydd. Yn Jos. xxiv. 26, dywedir fod Josua wedi ysgrifenu ei eiriau yn llyfr cyfraith yr Arglwydd; yr hyn a ddengys fod llyfrau Moses ar gael, a bod Josua wedi ychwanegu ei ysgrifeniadau ei hun at eiddo Moses. Dywedir hefyd fod Samuel wedi ysgrifenu cyfraith y deyrnas mewn llyfr (Heb. בַּסֵּפֶר, *bassepher*=yn y llyfr), a'i osod ger bron yr Arglwydd, (1 Sam. x. 25); yr hyn a olyga, fe ddichon, fod Samuel wedi ychwanegu ei ysgrif ei hun at yr hyn a ystyrid yn barod fel yr Ysgrythyrau ysbrydoledig, fel rhan o'r llyfr Dwyfol; beth bynag am hyny, mae yn amlwg oddiwrth hyn mai o "flaen yr Arglwydd," neu ar ystlys yr arch, yr arferid â chadw cynnyrchion gweision yr Arglwydd, a lleferydd ysbrydoliaeth Duw. Dywedir hefyd fod Hilcïah yr archoffeiriad wedi cael "llyfr y gyfraith yn nhŷ yr Arglwydd" (2 Bren. xxii. 8.) Mae'n dra thebygol nad yn ochr yr arch y cafwyd hwn; yr oedd Manasseh wedi dinystrio yr oll y cawsai afael arnynt o'r ysgrifeniadau Dwyfol, yn ei sêl ynfyd ar ol eilunod; mae'n debyg i ryw offeiriad duwiol symmud y copi hwn o'i le priodol yn y deml, a'i guddio mewn rhyw guddfa ddirgel yn rhai o ystafelloedd y cyssegr, ac yn amser Josiah iddo yn rhagluniaethol ddyfod i'r golwg, ac achosi cyffro neillduol yn mhlith y bobl.* Canfyddwn oddiwrth Dan. ix. 2, fod llyfrau yr Hen Destament oedd wedi eu hysgrifenu yn flaenorol i'r amser hwnw, ac yn eu plith brophwydoliaethau Jeremiah am barhad y caethiwed, wedi cael eu cadw rhag dinystr gan Ragluniaeth Duw, a'u casglu yn nghyd fel un llyfr neu gasgliad o lyfrau, ac o fewn cyrhaedd efrydwyr ewyllys Duw. Mae y darlleniad a'r attalnodau yn y cyfieithiad Cymreig yn gwneyd y synwyr yn aneglur; mae y cyfieithiad canlynol yn eglurach a chywirach :—"Yn y flwyddyn gyntaf o'i deyrnasiad ef, myfi Daniel, a ddeallais drwy gyfrwng y llyfrau, rifedi y blynyddoedd am y rhai y daethai gair Jehofah at Jeremiah y prophwyd, y cyflawnai efe gyda golwg ar adfeilion Jerusalem, drigain mlynedd."

* *Stuart on the Canon*, pp. 70—72, 189

Nid llyfrau rhifedi y blynyddoedd oedd y llyfrau hyn; ond yr hyn a ddysgir yw, fod Daniel wedi deall rhifedi y blynyddoedd trwy gyfrwng y llyfrau, yn mhlith pa rai y ceir prophwydoliaeth Jeremiah. Nis gallantol ygu dim yma ond *Yr Ysgrythyrau*, yr ysgrifeniadau santaidd ag oedd Duw trwy ei weision wedi eu rhoddi i ddynion. Ni fuasai Daniel yn defnyddio y gair yn y rhif liosog, pe na fuasai yn cyfeirio ond at Jeremiah yn unig. Dengys hyn na ddinystriwyd y llyfrau cyssegredig yn y deml pan y dinystriwyd hi gan Nebuchodonosor a'i fyddin; neu, os dinystriwyd y rhai oedd yn y deml, mae'n amlwg oddiwrth hyn, fod amryw o gopau o honynt yr adeg hòno yn meddiant yr Iuddewon; oblegyd ar eu dychweliad o'r caethiwed hefyd, fe geir Ezra yn ail sefydlu gwasanaeth Duw "yn ol ysgrifen llyfr Moses" (Ezra vi. 18), ac yn darllen ac egluro cyfraith Moses i'r bobl (Nehem. viii.) Wedi ail-adeiladiad y deml, mae'n ymddangos i'r Ysgrythyrau gael eu cadw yn y deml megys cynt. Dywed Josephus, wrth son am Moses yn dwyn dwfr o'r graig i Israel,—"Fod yn eglur oddiwrth yr Ysgrythyr a gedwid yn y deml, fod Duw wedi rhagfynegi hyny" (Antiq. iii. 1, 7.) Wrth son am barhad y dydd yn ystod brwydr Josua, dywed, "Dangosir hyn drwy yr ysgrifeniadau a gedwid yn y deml" (Antiq. v. i. 17.) Dengys hyn y cedwid Ysgrythyrau ereill yn y deml heblaw cyfraith Moses, oblegyd cyfeirir yma at lyfr Josua. Wrth ddarlunio y Rhufeiniaid yn cludo ymaith yr ysbail ar ol cwymp Jerusalem, ac yn myned i mewn i ddinas Rhufain mewn gorymdaith fuddygoliaethus, dywed fod cyhoeddusrwydd neillduol yn cael ei roddi i ysbail y deml, ac yn mhlith y pethau diweddaf o ysbail y deml yr oedd "*Cyfraith yr Iuddewon*" (*Jewish Wars*, *B*. vii. 5. 5.)

Yr oedd yr offeiriaid, fel hyn, yn fath o wylwyr yr Oraclau Dwyfol; yr oeddynt yn eu cadw rhag myned ar goll, a rhag i neb eu llygru mewn un modd; ac nid oes genym yr un sail i gredu na ddarfu iddynt fod yn ffyddlon i'r ymddiriedaeth a roddodd Duw ynddynt.

Gyda golwg ar *orpheniad y Canon*, y traddodiad Iuddewig yw mai Ezra, a'r hyn a elwir y Synagog Fawr, ar ol adeiladaeth yr ail deml, a gasglasant yn nghyd y llyfrau santaidd; ac i un a elwid Simon y cyfiawn ac ereill ychwanegu ysgrifeniadau Ezra ei hun a Nehemiah, ac felly orphen a chloi i fyny Ganon yr Hen Destament. Dengys y dyfyniad canlynol

o erthygl Dr. W. L. Alexander, ar y Canon, yn *Kitto's Cyclopædia of Biblical Literature* (1856), resymoldeb y dyb hon:—

"Mae yn naturiol i feddwl y byddai yr Iuddewon ar eu dychweliad o'r caethiwed, yn dymuno cael casgliad awdurdodol o'u llyfrau cyssegredig. Yr ydym yn gwybod eu bod, ar un achlysur, yn cael eu llenwi âg awydd pryderus i wybod ewyllys Duw, o herwydd i'w tadau esgeuluso pa un, ŷ darfuasai iddynt ddyoddef mor chwerw; ac er mwyn cyfarfod â'r dymuniad hwn, i Ezra ac offeiriaid a Lefiaid ereill ddarllen ac esbonio gair Duw i'r bobl. (Neh. viii. 1—8, ix. 1—3.) Gan fod eu tadau hefyd wedi cael eu camarwain gan brophwydi *twyllodrus*, mae yn naturiol i ni feddwl y byddent yn dymuno yn ddifrifol cael rhyw sicrwydd gyda golwg ar yr ysgrifenwyr y rhai na byddai perygl iddynt ddilyn eu hymadroddion. Yr oedd y deml yn awr yn amddifad o'i thrysorau cyssegredig. Yn ystod y caethiwed, a'r amseroedd poenus blaenorol iddo, yr oedd amryw brophwydi wedi ysgrifenu eu horaclau, ac yr oedd yn ofynol ychwanegu y rhai hyn at y Canon; a chan fod y rhan fwyaf o'r bobl heb ddeall yr Hebraeg, yr oedd cyfieithiad o'u llyfrau santaidd yn anghenrheidiol. Yr oedd y pethau hyn oll yn ei wneyd yn anghenrheidiol i ryw awdurdod gyfaddas, yn amser yr ail deml, ffurfio a sefydlu deddflyfr gwirionedd cyssegredig. Amser Ezra a Nehemiah oedd yr adeg olaf yn yr hon y gellid gwneyd hyn. Gan nad penderfynu dilysrwydd rhai llyfrau yn unig oedd y ddyledswydd i'w chyflawni, ond nodi allan y rhai hyny ag oedd wedi eu Dwyfol drefnu fel rheol ffydd a moesau i'r Eglwys, yr oedd yn gyfryw nas gallasai neb ond prophwyd ei chyflawni. Yn awr yr oedd amryw brophwydi yn byw yn amser Nehemiah ac Ezra, yn mhlith pa rai yr ydym yn gwybod enwau Haggai, Zechariah, a Malachi; ond gyda'r oes hòno fe ddarfyddodd llinell y prophwydi, y rhai oedd Duw wedi eu happwyntio "i gysuro Jacob, a'u gwaredu hwy â gobaith sicr." Ar y pen hwn y mae tystiolaeth Josephus, llyfrau yr Apocrypha, a thraddodiad Iuddewig yn cydgordio. Gan mai aelodau y Synagog Fawr fel hyn oedd y rhai diweddaf o'r prophwydi, os na sefydlwyd y Canon ganddynt hwy, fe aeth yr adeg heibio pryd y gellid ei sefydlu o gwbl. Ei fod wedi cael ei benderfynu y pryd hyny a ymddengys oddiwrth y ffaith, fod yr holl gyfeiriadau at yr ysgrifeniadau santaidd *ar ol hyny* yn rhagdybied bodolaeth Canon cyflawn; yn gystal ag oddiwrth y ffaith, na wneir cymmaint ag awgrymu, na chan yr awdwr nac unrhyw ysgrifenydd Iuddewig arall, fod dim un yn mhlith llyfrau yr Apocrypha, yn deilwng o le yn mhlith y llyfrau cyssegredig, er fod honiadau rhai o honynt mewn ystyriaethau ereill yn ddigon dyrchafedig (er engraifft, Ecclus. xxxiii. 16—18, 1, 28.) Mae Josephus, yn wir, yn cadarnhau yn eglur, na feiddiodd neb, yn ystod y tymhor hir rhwng gorpheniad y Canon a'i amser ef, nac ychwanegu at, na thynu oddiwrth, na chyfnewid dim yn y llyfrau santaidd. Dengys hyn yn amlwg mai yn amser Artaxerxes, yr adeg y cyfeiria Josephus ati, a'r pryd yr oedd Ezra a Nehemiah yn byw, y gorphenwyd casgliad y llyfrau santaidd gan awdurdod yr hon a ddarfyddodd o'r adeg hòno allan."

Ymddengys fod ychwanegiadau achlysurol wedi eu dwyn i mewn i rai o'r llyfrau santaidd; rhai o honynt, fe ddichon, wedi eu dwyn i mewn gan ryw ysgrifenydd ysbrydoledig, er rhoddi goleuni mwy cyflawn ar bethau, megys hanes marwolaeth a chladdedigaeth Moses, yn Deut. xxxiv., wedi ei ysgrifenu, mae'n debyg, gan Josua, ac fe allai ei fod ar y cyntaf yn rhagymadrodd i lyfr Josua; hanes marwolaeth a chladdedigaeth Josua (xxiv. 29, 30), yr hwn a ychwanegwyd gan ryw ysgrifenydd ysbrydoledig diweddarach, os na ellir ystyried hyn hefyd fel dechreuad llyfr y Barnwyr. Dichon nad oedd rhai o honynt ar y cyntaf ond gair neu frawddeg eglurhaol rhyw adysgrifenydd ar fin y ddalen, megys Exod. xvi. 36, "A'r omer ydoedd ddegfed ran ephah," ac yn cael ei ddwyn i mewn i'r testyn mewn amser. Felly hefyd hanes duciaid Edom yn Gen. xxxvi. 31—43.* Nid ydyw hyn ond yr hyn a ellid ddysgwyl, gan fod yr ysgrifeniadau Dwyfol i fyned trwy ddwylaw dynion am gynnifer o oesau; mae yr un modd gyda'r ysgrifeniadau clasurol; ond nid yw gwahanol ddarlleniadau yr Ysgrythyr ond ychydig o rifedi wrth eu cymharu â'r gwahanol ddarlleniadau yn yr awdwyr clasurol; ac *nid oes yr un cyfnewidiad nac ychwanegiad yn y testyn yn gwneyd cymmaint ag un cyfnewidiad mewn un athrawiaeth na dyledswydd grefyddol o un math.*

(2,) Dygai yr Arglwydd Iesu a'i apostolion dystiolaeth i gywirdeb Canon yr Hen Destament, fel y bodolai yr amser hwnw.

*a*,) Yr oedd Crist yn dyfynu o hono, ac yn cyfeirio ato, fel gair anffaeledig Duw. "Rhaid yw cyflawni yr Ysgrythyrau" (Marc xiv. 49). "Chwiliwch yr Ysgrythyrau" (Ioan v. 39).

*b*,) Cyfeiriai yr apostolion ato fel llyfr Dwyfol, gan ddyfynu o hono fel yr awdurdod uchaf. "Yr oedd yn rhaid cyflawni yr Ysgrythyr yma a ragddywedodd yr Ysbryd Glân" (Act. i. 16). "Beth a ddywed yr Ysgrythyr?" (Rhuf. iv. 3). Gwel hefyd 1 Cor. xv. 3, 4. 2 Tim. iii. 15, 16.

*c*,) Ceryddai yr Iesu yr Iuddewon yn fynych am anufyddhau i'r Ysgrythyrau, a beia y Saduceaid o herwydd eu hanwybodaeth o honynt (Mat. xxii. 29), ond ni wnaeth erioed eu ceryddu am eu llygru; ac nid ydyw Paul, pan yn dweyd mai i'r

* *Stuart on the Canon*, p. 45; *Horne's Introd.* vol. i. pp. 57—61. (1856).

Iuddewon "yr ymddiriedwyd am ymadroddion Duw," yn achwyn eu bod wedi bod yn anffyddlon i'r ymddiried a roddasid ynddynt. (Rhuf. iii. 2).

(3,) Nodwn mai llyfrau yr Hen Destament, fel y defnyddiwn ni hwynt yn awr, oedd y rhai a ddefnyddiai Crist a'i apostolion.

*a*,) Y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn dyfynu braidd o bob llyfr o'r Hen Destament, y rhai a dderbyniwn ni fel rhai ysbrydoledig, ac nid ydynt yn dyfynu o unrhyw lyfrau ereill fel gair Duw.

*b*,) Y mae cyfieithiad y Deg a Thrigain *(Septuagint)* yn cynnwys yr holl lyfrau ag sydd yn perthyn i'r Hen Destament, fel y mae yn awr genym ni.

*c*,) Y mae Josephus yn ei atebiad i Apion yn rhifo llyfrau yr Hen Destament yn ol eu dosbarthiadau, gan gynnwys yr un llyfrau ag sydd yn awr yn ein meddiant ni. Nyni a ddodwn ger bron y darllenydd ei dystiolaeth bwysig :—

"Nid oes genym lu aneirif o lyfrau, annghysson a gwrthwynebol i'w gilydd ; ond *dau ar hugain o lyfrau* yn unig yn cynnwys hanes pob oes, y rhai yn briodol a ystyrir yn Ddwyfol ; ac o'r rhai hyn y mae pump yn perthyn i Moses, y rhai sydd yn cynnwys y cyfreithiau a hanes hiliogaeth dyn hyd ei farwolaeth ef. Y mae y cyfnod hwn yn cynnwys yn agos i dair mil o flynyddoedd. Ond o amser marwolaeth Moses, hyd deyrnasiad Artaxerxes, brenin Persia ar ol Xerxes, darfu i'r prophwydi y rhai a ddaethant ar ol Moses ddesgrifio y pethau a wnaed yn oes pob un o honynt, mewn *tri ar ddeg* o lyfrau. Mae y pedwar llyfr arall yn cynnwys hymnau i Dduw, a rheolau bywyd i ddyn. Fe ysgrifenwyd, mae'n wir, ein hanes o amser Artaxerxes i'n hamser ni, *ond ni ystyrir ef o'r un awdurdod a'r rhai blaenorol, gan na fu olyniaeth sicr o brophwydi o'r adeg hono.* Y mae ffeithiau yn dangos ein hyder yn ein Hysgrythyrau; oblegyd er y fath nifer o oesoedd ag sydd wedi myned heibio, ni feiddiodd neb ychwanegu atynt, na thynu dim oddi wrthynt, na chyfnewid dim arnynt. Y mae yn naturiol i'r holl Iuddewon, hyd y nod o'u mhebyd, i'w hystyried fel dysgeidiaeth Duw (θεοῦ δόγματα), a glynu yn ddiysgog wrthynt, ac os yn anghenrheidiol, i farw yn llawen drostynt." *Joseph. Against Apion*, B. i. 8.)

*d*,) Profa tystiolaeth unfrydol ysgrifenwyr Cristionogol boreuol yr un peth :—

*Melito*, esgob Sardis yn Asia Leiaf, tua'r flwyddyn A.D. 170, a gymmerodd daith i Palestina i'r dyben o gael allan rifedi a threfn llyfrau yr Hen Destament; mewn llythyr at Onesimus ei gyfaill, efe a grybwylla y cyfan oddi eithr Esther, ac ni enwa o gwbl yr un o'r llyfrau Apocryphaidd.

*Origen*, o Alexandria, tua'r flwyddyn A.D. 230, wrth esbonio y Salm gyntaf, a ysgrifena gofrestr o lyfrau yr Hen Destament, ac a enwa yr oll o honynt.

*Athanasius*, o Alexandria, tua'r flwyddyn A.D. 326, wrth ysgrifenu cofrestr o lyfrau cyssegredig yr Hen Destament, a enwa y cyfan.

*Cyril*, esgob Jerusalem, tua'r flwyddyn A.D. 350, a enwa holl lyfrau yr Hen Destament, yn ei gofrestr o'r llyfrau canonaidd.

*Cynghor Laodicea*, yr hwn a gynnaliwyd rhwng A.D. 360 a 364, a enwa yr holl lyfrau canonaidd o'r Hen Destament, fel y maent genym ni.

*Epiphanius*, brodor o Palestina, yr hwn a flodeuodd tua'r flwyddyn A.D. 368, a grybwylla holl lyfrau yr Hen Destament, fel y maent yn ein meddiant ni yn awr.

Gellid dwyn tystiolaethau cyffelyb o weithiau ysgrifenwyr ereill. Mae'n wir nad ydyw llyfrau yr Hen Destament yn cael eu lleoli yn yr un drefn ganddynt oll yn y gyfrol sanctaidd, ac nad ydynt oll yn uno gyda golwg ar eu rhifedi; ond gellir cyfrif yn hawdd am y gwahaniaeth yn nifer y llyfrau, pan gofiom fod llyfr Esther ac Ezra weithiau yn cael eu cyfrif gyda Nehemiah fel rhan o hono, a'u bod bryd arall yn cael eu henwi fel llyfrau gwahanol; a bod llyfr Galarnad Jeremiah weithiau yn cael ei gyfrif fel rhan o lyfr Jeremiah, tra ar adegau ereill enwir y ddau fel llyfrau neillduol a gwahanol. A'r un modd gyda golwg ar Barnwyr a Ruth.

NODIAD.—

Ymddibynir ar Hanesiaeth Eglwysig Eusebius, yr hwn a ysgrifenwyd tua'r flwyddyn A.D. 315, am y cofrestri boreuol hyn o lyfrau y Beibl. Ymddengys ei fod ef weithiau yn annghofio, neu fod rhyw adysgrifenydd o'i weithiau yn gadael allan, rhyw air yn achlysurol o'r cofrestri. Dyna yr achos mae yn ddiamheu, fod llyfr Esther wedi cael ei adael allan yn nghofrestr Melito, a'r Deuddeg Prophwydi Bychain mewn un llyfr (fel yr arferid eu cyfrif gynt) yn nghofrestr Origen. Wrth gofnodi rhestr Origen o lyfrau yr Hen Destament, dywed Eusebius fod Origen yn enwi dau ar hugain o honynt; ac â yn mlaen i'w hysgrifenu. Ond ni cheir ond 21 yn ei gofrestr. Gan ei fod yn nodi 22, ac yn enwi dim ond 21, mae yn amlwg ei fod ef, neu rhyw adysgrifenydd diweddarach o'i waith, yn gadael un llyfr allan. Y Deuddeg Prophwydi Bychain mewn un llyfr (τῶν δώδεκα ἐν μονοβίβλῳ, ys dywed Melito), a raid fod hwnw, gan fod Rufinus, yn ei gyfieithiad o weithiau Origen i'r Lladin, yn eu cynnwys yn nghofrestr Origen. Gwel *Stuart on the Old Testament Canon*, § 12: Appendix No. v.

Dywedir yn nechreu y bennod hon fod llyfrau yr Hen Destament yn 39 mewn rhifedi; ond yn ol Josephus, Origen, Cynghor Laodicea, Cyril o Jerusalem, Gregory Nazianzen, ac Epiphanius, 22 ydynt. Cyfyd y gwahaniaeth hwn o'r gwahanol ddulliau o gyfrif Wrth i ni ddeall fod Jeremiah yn cynnwys y Galarnad, ac Ezra yn cynnwys Nehemiah, fe wna cofrestr Melito 39, yn ol ein dull ni o gyfrif. Dodwn yma lechresi *(catalogues)* o lyfrau yr Hen Destament gan Melito, Origen, a Chynghor Laodicea, mewn colofnau cyfochrog, er egluro y pwynt dan sylw. Fe

welir mai 39 yw rhifedi y llyfrau yn ol pob un o honynt, yn ol ein dull ni o'u rhifo, a 22 yn ol eu dull hwynt:—

COFRESTRAU HENAFOL O LYFRAU YR HEN DESTAMENT.

| MELITO, A.D. 170. | ORIGEN, A.D. 230. | CYNGHOR LAODICEA, A.D. 360. |
|---|---|---|
| 1 Genesis. | 1 Genesis. | 1 Genesis. |
| 2 Exodus. | 2 Exodus. | 2 Exodus. |
| 3 Lefiticus. | 3 Lefiticus. | 3 Lefiticus. |
| 4 Numeri. | 4 Numeri. | 4 Numeri. |
| 5 Deuteronomium. | 5 Deuteronomium. | 5 Deuteronomium. |
| 6 Josua. | 6 Josua. | 6 Josua. |
| 7 Barnwyr. | 7 Barnwyr a Ruth mewn un llyfr. | 7 Barnwyr a Ruth yn un llyfr. |
| 8 Ruth. | 8 I. a'r II. Breninoedd yn un, o dan yr enw Samuel. | 8 Esther. |
| 9 Pedwar Llyfr Breninoedd. | 9 III. a'r IV. Breninoedd yn un, o dan yr enw Teyrnasiad Dafydd. | 9 I. Breninoedd (I. a'r II. Samuel). |
| 10 Dau Lyfr Chronicl. | 10 Dau Lyfr Chronicl. | 10 II. Breninoedd (1 a'r 2il). |
| 11 Salmau Dafydd. | 11 Ezra I. a'r II. (h.y. Ezra a Nehemiah) yn un. | 11 Chronicl (1 a'r 2il). |
| 12 Diarhebion. | 12 Salmau. | 12 Ezra, I. a'r II., (h.y. Ezra a Nehemiah). |
| 13 Ecclesiastes. | 13 Diarhebion. | 13 Salmau, 150. |
| 14 Caniadau. | 14 Ecclesiastes. | 14 Diarhebion. |
| 15 Job. | 15 Caniadau. | 15 Ecclesiastes. |
| 16 Esaiah. | 16 Esaiah. | 16 Caniadau. |
| 17 Jeremiah. | 17 Jeremiah, gyda'r Galarnad a'r Epistol, mewn un. | 17 Job. |
| 18 Y Deuddeg mewn un. | 18 Daniel. | 18 Deuddeg Prophwyd |
| 19 Daniel. | 19 Ezeciel. | 19 Esaiah. |
| 20 Ezeciel. | 20 Job. | 20 Jeremiah a Baruch, y Galarnad a'r Epistolau. |
| 21 Ezra. | 21 Esther. | 21 Ezeciel. |
| 22 (Esther). | 22 (Y Deuddeg mewn un). | 22 Daniel. |

Dywedir mai rheswm yr Iuddewon dros gyfrif llyfrau yr Hen Destament yn 22 yw, am mai 22 o lythyrenau sydd yn yr egwyddor *(alphabet)* Hebraeg. Wrth yr Epistol neu yr Epistolau ag y cyfeirir atynt yn nglyn â llyfr Jeremiah, yr ydym i ddeall, mae'n debygol, y llythyrau a ysgrifenodd Jeremiah at y caethion yn Babilon; Jer. xxix. xxxvi. Defnyddiodd Baruch i ysgrifenu rhai o'i brophwydoliaethau (Jer. xxxvi). Yn amser Origen a Chynghor Laodicea, mae yn ymddangos fod yr ysgrifau hyn yn ffurfio math o attodiad i lyfr Jeremiah, yn hytrach na bod wedi eu corphori ynddo fel y maent genym ni. Gwel *Stuart ar Ganon yr Hen Destament.* Attodiad.

2. *Canon y Testament Newydd.* Gellir casglu fod yr ystyriaethau canlynol yn gymhellion grymus, er dwyn y Cristionogion cyntefig i edrych allan ac i benderfynu pa lyfrau a dderbynid fel cynnyrchion anffaeledig ysbrydoliaeth Duw, a rheol annghyfeiliorn yr eglwys:—

(1,) Tueddai ffeithiau rhyfeddol ymddarostyngiad, bywyd, marwolaeth, ac adgyfodiad Crist, lawer i ymgymmeryd â'r gwaith o ysgrifenu ei hanes; o ganlyniad, fe ddaeth yn anghenrheidiol i wahaniaethu rhwng ysgrifeniadau ysbrydoledig a rhai ffugiol a thwyllodrus. (Luc i. 1.)

(2,) Yr oedd llygriadau gau athrawon yn galw am i'r eglwysi gael safon anffaeledig y ffydd yn eu meddiant.

Nis gallai yr apostolion fod yn mhob man i gyfarwyddo y dysgyblion, a dystewi ymosodwyr; yr oedd yn ofynol iddynt ysgrifenu eu cyfarwyddiadau a chofnodi eu dysgeidiaeth, fel y byddent wrth law y dysgyblion, ac ar gael am holl oesoedd y ddaear. Yr oedd o bwys dirfawr i'r eglwysi oll feddu cynnyrchion ysbrydoledig yr apostolion, a bod yn alluog i'w gwahaniaethu oddiwrth bob ffug ysgrifeniadau.

(3,) Ar ol yr oes apostolaidd, nid oedd gan yr eglwysi mwyach yr un cyfarwyddyd anffaeledig ond ysgrifeniadau y Testament Newydd.

Pan oedd yr apostolion yn fyw, yr oeddynt yn gallu edrych atynt hwy am gyfarwyddyd; ar ol iddynt farw, nid oedd ganddynt ond chwilio eu hepistolau a rhanau ereill y Testament Newydd. Yr oedd yn ofynol, gan hyny, i'r eglwysi gael dealltwriaeth yn eu plith eu hunain pa hanesion oedd i gael eu hystyried fel cofnodion cywir o hanes bywyd yr Arglwydd Iesu a'i apostolion, a pha rai oedd ysgrifeniadau yr apostolion eu hunain.

Cafodd hyn ei ddwyn oddiamgylch mewn ffordd debyg i'r un ganlynol:—(1,) Casglodd yr eglwysi apostolaidd yn nghyd gynnifer ag a allent o'r ysgrifeniadau hyny, ag y gellid trwy dystiolaeth briodol gredu eu bod yn gynnyrchion dynion ysbrydoledig. (2,) Fel cymdeithasau yn caru llwyddiant eu gilydd, yr oedd yr eglwysi cyntefig yn anfon yr ysgrifeniadau apostolaidd a ymddiriedasid iddynt i'w chwaer-eglwysi, er eu hyfforddiant, eu cysur, a'u hadeiladaeth ysbrydol; ac fel hyn yr oeddynt yn dyfod i gydweled pa ysgrifeniadau a ystyrid ganddynt yn ysbrydoledig, a pha rai nad ystyrid felly (Col. iv. 16. 1 Cor. i. 2. 2 Cor. i. 1. Gal. i. 2. 1 Pedr i. 1). Mae yr enwau *Homologoumena* ac *Antilegomena*, sef *Cydnabyddedig* ac *Adnghydnabyddedig*, y rhai a roddid yn foreu ar wahanol lyfrau y Testament Newydd, yn dangos fod yr eglwysi cyntefig yn talu ystyriaeth ddifrifol i'r mater, a bod pob eglwys yn honi hawl i foddloni ei hun gyda golwg arno,—eu bod yn petruso derbyn dim fel gair Duw heb brofion boddhaol o'i Ddwyfoldeb,—ac yn meddu dealltwriaeth yn eu plith eu hunain pa lyfrau a ystyrid yn cyfansoddi y Canon, a pha rai na pherthynent iddo.

Nid oedd anhawsdra gyda golwg ar yr Epistolau a anfonasid at bersonau ac eglwysi neillduol. O ganlyniad yr ydym yn canfod mai y rhai y lleferid yn eu herbyn oedd rhai o'r *Epistolau Cyffredinol* a'r *Dadguddiad;* a hyny ar y cyntaf, mae'n ddiau, o herwydd anwybodaeth o'u gwir gymmeriad a'u hanes; ond ar ol ymchwiliad priodol, fe'u derbyniwyd hwythau i'r Canon. (Gwel tudal. 41, 42).

(4,) Darfu i erlidigaeth Diocletian yn y bedwaredd ganrif, wasanaethu i ddwyn y llyfrau cyssegredig i fwy o sylw, ac i wahaniaethu y rhai twyllodrus oddiwrth gynnyrchion yr efengylwyr a'r apostolion.

Trwy ystrywiau yr offeiriaid paganaidd, denwyd yr ymerawdwr Rhufeinig Diocletian, yn A.D. 303, i anfon cyhoeddiad allan, i orchymyn bwrw i lawr addoldai y Cristionogion, a llosgi eu holl lyfrau crefyddol, a'u hamddifadu o'u holl hawliau a'u rhagorfreintiau fel dinesyddion.* Yr oedd y rhai a wrthodent roddi i fyny eu llyfrau cyssegredig, yn gorfod dyoddef yn ddirfawr. Yr oedd yn naturiol i'r erlidigaeth hon ddwyn y Cristionogion i wahaniaethu yn drwyadl rhwng

* *Mosheim's Eccl. Hist.* Cent. iv. Part i. Chap. 1, 2.

ysgrifeniadau dynol a'r rhai ysbrydoledig; rhoddent rai dynol i fyny gyda rhwyddineb mewn cymhariaeth i'r lleill; ni roddid y rhai hyny i fyny os oedd modd yn y byd eu cadw; ac yn fynych cadwent hwy, er gorfod marw trwy wneyd hyny.

Pa fodd bynag, neu pa bryd bynag, y penderfynwyd Canon y Testament Newydd, mae yn amlwg fod hyny wedi cael ei wneyd yn foreu; yr oedd llwyddiant y gwirionedd, a heddwch ac adeiladaeth yr eglwysi yn gwneyd hyny yn anghenrheidiol; ac y mae genym brofion hanesyddol fod yr eglwysi wedi dyfod i ddealltwriaeth ar hyn yn dra boreu yn hanes Cristionogaeth.

3. *Tystiolaeth hanesyddol i Ysgrythyrau y Testament Newydd, fel ag y maent yn ein meddiant ni.* Gwnaeth yr enwog a'r dysgedig Ddr. Lardner, yn ei waith gorchestol ar "*The Credibility of the Gospel History*," ddyfynu tystiolaethau dirif dros hynafiaeth yr Ysgrythyrau Cristionogol, a'r parch a delid iddynt gan Gristionogion; a'r hwn y sylfaenodd Dr. Paley ranau helaeth o'i "*Evidences of Christianity*;" gwnawn ninnau fyned i'r un ystorfa am dystiolaethau i egluro yr adran hon. Dilynwn drefn Dr. Paley yn Pen. ix. o'i *Evidences*, Rhan Gyntaf, i osod allan yr ymresymiad, ond ein bod yn myned heibio i adraniadau 4, 7, a'r 8, gan nad ydynt o ran sylwedd ond ail-adroddiad o'r lleill. Cawn esgob M'Ilvaine hefyd* yn dilyn yr un llwybr, gan gyfleu o flaen ei ddarllenwyr y trysorau a gasglasai Lardner.

(1,) Fod ysgrifenwyr Cristionogol o'r dechreuad yn dyfynu o lyfrau hanesyddol y Testament Newydd, sef yr efengylau a'r Actau.

Dyfyna *Barnabas* (os ydym i gredu dilysrwydd y llythyr), yr hwn ydoedd gydymaith Paul, Mat. xx. 16.

Dyfyna *Clement* (y cyfeirir ato yn Phil. iv. 3). Mat. v. 7, vii. 1, 2. Luc vi. 37.

Dyfyna *Ignatius*, esgob Antiochia yn y ganrif gyntaf, Mat. iii. 15, x. 16, ac amryw ranau ereill.

Dyfyna *Polycarp*, yr hwn a fu farw A.D. 166, Mat. vii. 1, 2, ac amryw adnodau ereill.

Dyfyna *Justin Ferthyr*, yn yr ail ganrif, laweroedd o weithiau o'r holl Efengylau a'r Actau.

Gwna *Hegesippus*, tua chanol yr ail ganrif, gyfeiriadau

* *Evidences of Christianity*, Lect. ii.

mynych at yr Efengylau a'r Actau. Tua'r flwyddyn 170, anfonodd eglwysi Lyons a Vienne yn Ffrainc, hanes eu dyoddefiadau at eglwysi Asia a Phrygia, yn yr hwn y dyfynant Ioan xvi. 2, ac y cyfeiriant at efengyl Luc a'r Actau. Yr oedd eu gweinidog *Pothinus* ar y pryd yn 90 mlwydd oed. Y mae eu llythyr i'w ganfod yn ngwaith Eusebius. Olynydd Pothinus oedd *Irenæus*, yr hwn a fu farw A.D. 202. Yr oedd efe yn ei ieuengtyd wedi bod yn ddysgybl i Polycarp, megys ag y buasai Polycarp i'r apostol Ioan. Fel hyn y llefara Irenæus am yr efengylau :—" Nid ydym (eb efe) wedi derbyn y wybodaeth am drefn ein hiachawdwriaeth gan neb ond y rhai a ddygasant yr efengyl i ni; yr hon efengyl a bregethwyd ar y cyntaf, ac wedi hyny, yn ol ewyllys Duw, a ysgrifenwyd, fel y byddai am amser i ddyfod yn sylfaen a cholofn ein ffydd. Oblegyd ar ol i'n Harglwydd gyfodi oddiwrth y meirw, ac i'r apostolion gael eu gwisgo â nerth yr Ysbryd Glân yr hwn oedd yn dyfod arnynt, hwy a dderbyniasant wybodaeth berffaith am bob peth. Aethant allan i holl derfynau y ddaear, gan gyhoeddi i ddynion fendithion heddwch nefol, gan fod ganddynt oll, a'r naill fel y llall, efengyl Duw. Darfu i Matthew gan hyny, yn mhlith yr Iuddewon, ysgrifenu Efengyl yn eu hiaith* hwy, tra yr oedd Pedr a Phaul yn pregethu yr efengyl yn Rhufain, ac yn sefydlu eglwys yno; ac ar ol eu marwolaeth, darfu i Marc hefyd, dysgybl a dehonglwr Pedr, draddodi i ni mewn ysgrifen y pethau a bregethasai Pedr; a darfu i Luc, cydymaith Paul, ddodi mewn llyfr yr efengyl a bregethai Paul. Wedi hyny, gwnaeth Ioan, dysgybl yr Arglwydd, yr hwn hefyd a bwysodd ar ei fynwes, gyhoeddi Efengyl pan y preswyliai yn Ephesus yn Asia."

Dyg *Clement o Alexandria*, yr hwn a fu farw A.D. 217, y dystiolaeth ganlynol i'r Efengylau :—" Yr Efengylau sydd yn cynnwys yr achau (achau Crist) a ysgrifenwyd gyntaf; yna eiddo Marc, yn ol dymuniad canlynwyr Pedr; ac Efengyl Ioan yn ddiweddaf; a dywed ei fod wedi derbyn yr hanes hwn oddiwrth henuriaid yr amser gynt."

Y mae eiddo *Tertullian*, yr hwn a fu farw A.D. 220, yn gyffelyb :—" Yn mhlith yr *apostolion*, y mae Ioan a Matthew,

* Credid gynt, ac eto gan rai, fod Matthew wedi ysgrifenu ei Efengyl yn Hebraeg: ond ymddengys i'r awdwr nad oes prawf boddhaol o hyny.

yn dysgu y ffydd i ni: yn mhlith *dynion apostolaidd,* y mae Luc a Marc yn ei hadfywio." "Yr wyf yn dweyd, gan hyny, fod Efengyl Luc, yr hon a amddiffynwn ni mor selog, yn cael ei derbyn ganddynt hwy o adeg ei chyhoeddiad cyntaf, ac nid ganddynt hwy yn unig y rhai ydynt (eglwysi) apostolaidd, ond gan bawb ag sydd yn meddu cymdeithas â hwynt yn yr un ffydd. Y mae awdurdod yr eglwysi apostolaidd hefyd, yn amddiffyn yr Efengylau ereill, y rhai ydym wedi eu derbyn oddi wrthynt, yr wyf yn golygu Efengylau Ioan a Matthew; er y gellir priodoli yr un modd yr hon a gyhoedd-odd Marc i Pedr, i'r hwn yr oedd Marc yn ddehonglwr." Dyfyna Tertullian hefyd o lyfr yr Actau, o dan ei enw, gan ei alw, "Esboniad Luc," a sylwa fel y mae epistolau Paul yn ei gadarnhau.

Ysgrifena yr enwog *Origen*, o Alexandria, tua'r flwyddyn A.D. 230, am yr Efengylau fel y canlyn:—"Ac megys y dysgais trwy draddodiad yn nghylch y pedair Efengyl, y rhai yn unig a dderbynir yn ddiwrthwynebiad yn eglwys Dduw trwy yr holl fyd. Y gyntaf a ysgrifenwyd yw yr un yn ol Matthew, yr hwn a fuasai unwaith yn bublican, ond ar ol hyny yn apostol i Iesu Grist. Yr ail yw yr un yn ol Marc, yr hwn a'i cyfansoddodd yn ol fel yr eglurodd Pedr iddo, yr hwn y mae Pedr hefyd yn ei gydnabod fel mab iddo ei hun yn ei Epistol cyffredinol. A'r drydedd yw yr un yn ol Luc, yr efengyl a gymmeradwywyd gan Paul, a'r hon a ysgrifenwyd at wasanaeth y dychweledigion o blith y Cenedloedd. A'r ddiweddaf yw yr un yn ol Ioan." Ceir y dyfyniad hwn, yn nghyda rhanau helaeth o Esboniadau Origen ar wahanol lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, yn *Eusebius's Eccles. History, B.* vi. *ch.* 25. Fe welir fod Irenæus a Chlement, Tertullian ac Origen, yn nodi *pedair o Efengylau, a dim ond pedair*, gan eu priodoli i Matthew, Marc, Luc, a Ioan; y rhai, yn ol y ddau ddiweddaf, a dderbyniai eglwys Dduw trwy yr holl fyd.

Nid yw y tystiolaethau hyn ond engraifft o lu ereill a allesid eu dwyn yn mlaen o waith ysgrifenwyr y canrifoedd cyntaf, fel y gellir gweled yn nghyfrolau cyfoethog Lardner a Paley.

(2,) Dyfynant o honynt fel llyfrau *Dwyfol a chyssegredig.*

*Theophilus*, esgob Antiochia, tua chanol yr ail ganrif, a ddywed:—"Y mae yr *Ysgrythyrau Santaidd* yn dysgu y pethau

hyn i ni, a phawb a *gynhyrfwyd gan yr Ysbryd Glan*, yn mhlith pa rai y dywed Ioan,—"Yn y dechreuad yr oedd y Gair, a'r Gair oedd gyda Duw." Eto, "Gyda golwg ar y cyfiawnder yr hwn y mae y gyfraith yn ei ddysgu, y mae pethau cyffelyb i'w canfod yn y Prophwydi a'r Efengylau, gan fod pawb, o herwydd eu bod yn ysbrydoledig, yn llefaru trwy yr un a'r unrhyw Ysbryd Dwyfol."

"Y mae ein haeriadau a'n darlithoedd *ni* (ebe *Origen*), yn annheilwng o grediniaeth; rhaid i ni dderbyn yr *Ysgrythyrau* fel tystion." "Gellir profi yr hyn a ddywedasom o'r *Ysgrythyrau Dwyfol.*" "Dangosir o'r hen Ysgrythyrau Iuddewig, y rhai hefyd a ddefnyddiwn ninnau, ac o'r rhai a ysgrifenwyd er amser Iesu, y rhai ydynt yn *Ddwyfol* yn ol cred yr eglwysi, fod ein crefydd yn ein dysgu i geisio doethineb."

Cawn *Hippolytus*, yr hwn a fu farw A.D. 250, wrth ysgrifenu at gyfaill iddo er ei gyfarwyddo yn ffordd y bywyd, yn dweyd, —"Ei fod yn dwyn allan o'r *ffynnon sanctaidd*, ac yn gosod o'i flaen o'r *Ysgrythyrau Sanctaidd* yr hyn a roddai foddlonrwydd iddo."

Cynghora *Cyprian*, esgob Carthage, A.D. 200—258, bregethwyr yr efengyl pan gyda phethau amheus, "i fyned yn ol i'r *ffynnon;* ac os byddai y gwirionedd wedi cael ei siglo mewn unrhyw amgylchiad, i ddychwelyd at yr Efengylau a'r Ysgrifeniadau Apostolaidd." "Nid yw addysgiadau yr Efengyl (eb efe drachefn), yn ddim amgen na gwersi Dwyfol awdurdodol, y rhai ydynt sylfeini ein gobaith, colofnau ein ffydd, arweinyddion ein ffordd, a diogelwch ein gyrfa i'r nef."

Dywedai *Anatolius*, esgob Laodicea yn y rhan olaf o'r drydedd ganrif, pan yn dadleu yn nghylch y drefn briodol i gadw'r Pasg:—"Ni allant mewn un modd brofi eu pwynt trwy awdurdod yr *Ysgrythyrau Dwyfol.*"

(3,) Fod yr Ysgrythyrau *wedi eu casglu yn nghyd yn gyfrol neillduol*, er yn foreu.

Cawn gyfeiriadau at hyn yn ngwaith *Ignatius*, yr hwn a flodeuodd yn niwedd y ganrif gyntaf:—"Gan ffoi at yr Efengyl, megys at gnawd Iesu, ac at yr Apostolion megys at henaduriaeth yr eglwys." Ystyrir mai yr Efengylau a'r Epistolau a ddealla efe yma. "Dylech wrando ar y Prophwydi (eb efe), ond yn neillduol ar yr Efengyl, yn yr

hon y dangoswyd dyoddefiadau Crist i ni, ac y perffeithiwyd yr adgyfodiad."

Dywed Eusebius, fod *Quadratus*, A.D. 122, ac ereill gydag ef, wedi myned oddi amgylch gan bregethu Crist, a dosbarthu copïau o'r Efengylau:—" Yna gan deithio oddi amgylch, hwy a wnaethant waith efengylwyr, gan fod yn awyddus i bregethu Crist, a gwasgaru *Ysgrythyr yr Efengylau Dwyfol.*"

Sonia *Melito*, esgob Sardis, A.D. 170, yn ei lythyr at ei gyfaill am yr *Hen* Destament:—" Gan deithio i'r Dwyrain (Palestina), ac ar ol dyfod i'r lleoedd lle y cyhoeddwyd ac y cyflawnwyd y pethau hyn (hyny yw, dygwyddiadau ysgrythyrol), mi a ddysgais yno yn gywir pa rai ydyw llyfrau yr *Hen* Destament." Mae son am gasgliad llyfrau yr *Hen* Destament, yn rhagdybied bodolaeth casgliad cyffelyb o lyfrau y Testament *Newydd.*

Dywed *Clement* o *Alexandria*, " Y mae cydgordiad a chyssondeb rhwng y gyfraith a'r Prophwydi, yr Apostolion a'r Efengyl."

Geilw *Tertullian* yr Efengylau, yn " Ysgrifen Efengylaidd" *(Evangelic Instrument)*; yr holl Ysgrythyrau Cristionogol, " Y Testament Newydd," a'r ddwy ran, " Yr Efengylau a'r Apostolion."

Ymddengys oddiwrth ysgrifeniadau *Cyprian*, yn nghanol y drydedd ganrif, fod yr Ysgrythyrau wedi eu dosbarthu i ddwy ran neu ddwy gyfrol; gelwid un yr " Efengylau, neu Ysgrythyrau yr Arglwydd;" a'r llall, yr " Apostolion, neu Epistolau yr Apostolion."

(4,) Fod Ysgrythyrau y Testament Newydd yn cael eu darllen yn gyhoeddus, a'u hesbonio yn nghynnulleidfaoedd y Cristionogion boreuol.

Dywed *Justin Ferthyr*, A.D 140:—" Ac ar y dydd a elwir Dydd Sul, y mae cynnulliad yn yr un man o'r holl rai sydd yn byw mewn dinasoedd, neu yn y wlad: ac fe ddarllenir Cofnodion yr Apostolion, neu Ysgrifeniadau y Prophwydi, cyhyd ag y caniatâ amser; ac ar ol i'r darllenydd ddarfod, mae y llywydd yn traddodi annerchiad, gan annog i efelychiad o bethau mor rhagorol." (*Apol.* I. 67). Ymddengys oddiwrth ranau ereill o ysgrifeniadau Justin, mai yr Efengylau a olyga wrth " Gofnodion yr Apostolion." " Yr ydym yn dyfod yn

nghyd (ebe *Tertullian*), i adgofio yr Ysgrythyrau Dwyfol: yr ydym yn meithrin ein ffydd, yn gwroli ein gobaith, ac yn cadarnhau ein hyder, trwy y gair sanctaidd."

Dywed *Eusebius* am Origen, pan aeth efe i Palestina, tua'r flwyddyn 216, i esgobion y wlad geisio ganddo esbonio yr Ysgrythyrau yn gyhoeddus yn yr eglwys, pryd nad oedd eto wedi ei ordeinio yn henadur. Dengys hyn beth oedd arferiad yr eglwys ar y pryd. Defnyddia Origen ei hun ymadroddion cyffelyb:—"Yr ydym yn gwneyd hyn (eb efe), pan y darllenir yr Ysgrythyrau yn yr eglwys, a phan y traddodir yr annerchiad eglurhaol i'r bobl."

(5,) Fod esboniadau ar yr Ysgrythyrau, a chyssondebau a chyfieithiadau o honynt, wedi cael eu gwneyd yn foreu.

Yn A.D. 170, darfu i *Tatian* ysgrifenu cyssondeb y pedair efengyl.

Yn A.D. 190, ysgrifenodd *Pantænus* esboniadau ar yr Ysgrythyrau.

Yn A.D. 217, ysgrifenodd *Clement* o *Alexandria*, nodiadau ar amryw o lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd.

Yn A.D. 220, appeliai *Tertullian* oddiwrth awdurdod rhyw gyfieithiad ag oedd yn cael ei ddefnyddio ar y pryd, at y Groeg gwreiddiol.

Darfu i Origen, A.D. 230, ysgrifenu esboniadau ar y rhan fwyaf o lyfrau y Testament Newydd.

Yn A.D. 300, sonia *Eusebius* am ysgrifenwyr a alwai efe y pryd hyny yn "hen ysgrifenwyr," y rhai nas gallai gael allan eu henwau, ond oeddynt ddynion uniongred, fel y profai eu "dehongliadau o'r Ysgrythyrau Sanctaidd" ag oeddynt y pryd hyny ar gael.

Mae y tystiolaethau hyn o bwys, oblegyd ni fuasent yn myned i gyssoni ond yr hyn a ystyrient yn *bwysig*, nac yn ysgrifenu esboniadau ond ar *lyfrau henafol*.

(6,) Fod gwrthwynebwyr Cristionogaeth yn sylfaenu eu hymosodiadau ar Ysgrythyrau y Testament Newydd.

Dywed *Celsus* yn yr ail ganrif:—"Yr ydym wedi nodi y pethau hyn i chwi *allan o'ch ysgrifeniadau chwi eich hunain*, heb fod mewn anghen unrhyw arfau ereill." Ei fod yn golygu yr Efengylau sydd eglur oddiwrth ei waith yn cyfeirio at

*achau* Crist, a gwaith Crist yn dweyd am beidio gwrthwynebu drwg, ac yn cyhoeddi gwaeau, &c.

Yn y drydedd ganrif, ysgrifenodd *Porphyry* yn erbyn Cristionogaeth. Seiliau ei wrthddadleuon ar yr achau fel y maent yn Matthew, ar hanes galwad Matthew, ar waith yr efengylwyr yn galw llyn Tiberias yn fôr, ar fod Matthew yn dyfynu "Llef un yn llefain," o Esaiah, a Marc o'r Prophwydi, ar farnedigaeth Ananias a Sapphira, &c. Dengys hyn oll ei fod yn cydnabod awdurdod yr Efengylau a'r Actau yn mhlith y Cristionogion.

Ymosodiad o natur gyffelyb oedd eiddo yr ymerawdwr Julian, yn y bedwaredd ganrif.

(7,) Fod cofrestri *(catalogues)* boreu wedi cael eu gwneyd, y rhai a gynnwysent lyfrau y Testament Newydd.

Cyfeiriwyd atynt eisioes mewn rhan. Ceir cyfres gyflawn o honynt yn y Groeg a'r Lladin am yr wyth ganrif gyntaf, yn yr Attodiad i waith *Westcott on the Canon of the New Testament.* Ni chawn yma ond cyfeirio yn fyr at rai o honynt.

Ymddengys oddiwrth weithiau Origen, a thystiolaeth Eusebius, fod *Origen* yn derbyn y llyfrau ag sydd yn cyfansoddi y Canon yn awr, ond fod pryder yn ei feddwl gyda golwg ar rai o honynt, o herwydd diffyg hysbysiaeth yn eu cylch.*

Cawn *Athanasius* yn nechreu y bedwaredd ganrif, yn cyhoeddi cofrestr o lyfrau y Testament Newydd, fel y maent genym ni.

Yn yr un ganrif, cawn *Cyril*, esgob Jerusalem, yn anfon cofrestr allan, yr un peth a'n cofrestr ninnau, oddi eithr fod y Dadguddiad wedi ei adael allan.

Yn yr un ganrif hefyd, anfonodd cynghor Laodicea allan gofrestr yr un fath ag un Cyril.

Oddeutu yr un amser, cyhoeddodd *Jerome* gyfres o lyfrau y Testament Newydd, yr hon oedd yr un a'n heiddo ninnau, gyda'r eithriad ei bod yn amlygu amheuaeth yn nghylch y llythyr at yr Hebreaid.

Dichon y dylid dweyd gair yn nghylch y llyfrau a elwir Llyfrau Apocryphaidd y Testament Newydd. Yn yr ail a'r drydedd ganrif, ac yn ddiweddarach na hyny, lledaenid

* *Westcott on the Canon*, pp. 312—318.

ysgrifeniadau ffugiol, fel cynnyrchion ysbrydoledig. Gelwir y rhai hyn fynychaf "Y TESTAMENT NEWYDD APOCRYPHAIDD." Ymwnant â gwag-bethau er cyfarfod â chywreinrwydd y darllenydd; y maent yn gwrthddywedyd yr Ysgrythyrau Santaidd a hanesiaeth gyffredin; efelychant ieithwedd yr Ysgrythyr er twyllo y darllenydd, ond mae y fath wahaniaeth rhyngddynt a Thestament Newydd ein Harglwydd Iesu Grist ag sydd rhwng ynfydrwydd dyn a doethineb Duw.* Darfu i dduwinydd dysgedig yn Hamburg, o'r enw John Albert Fabricius, eu casglu oll yn nghyd, a'u cyhoeddi yn dair cyfrol yn 1713—1722. Yn eu plith y mae 24 o Efengylau; 12 o wahanol fathau o Actau; 6 o Epistolau neu Ohebiaethau, yn cynnwys llythyrau (meddir) rhwng Paul a Seneca, Epistol Paul at y Laodiceaid, un oddiwrth y Corinthiaid at Paul a'i atebiad yntau, &c.; 9 o fathau o Lyfr y Dadguddiad. (Gwel "*Calmet*" gan Robinson, a'r "Apocryphal Gospels, Acts, and Revelations," cyhoeddedig gan T. a T. Clark). Gwna Dr. Paley y nodiadau canlynol o barthed iddynt:—

1. "Nid oes brawf eu bod ar gael yn y ganrif gyntaf, yr hon y proffwyd fod llyfrau hanesiol y Testament Newydd ar gael ynddi. Nid oes dyfyniadau o'r fath lyfrau yn y Tadau Apostolaidd, sef yn Barnabas, Clement o Rufain, Hermas, Ignatius, a Polycarp, ysgrifeniadau pa rai sydd yn cyrhaedd o tua'r flwyddyn A.D. 70 i'r flwyddyn A.D. 108; tra mae rhai o honynt wedi dyfynu o bob un o lyfrau hanesiol y Testament Newydd.

2. Ni ddarllenid hwy yn eglwysi y Cristionogion.

3. Nid ymddangosasant yn eu cofrestri (*catalogues*).

4. Ni sylwid arnynt gan eu gelynion.

5. Ni appelid atynt fel awdurdod gan wahanol bleidiau yn eu dadleuon.

6. Ni chyfansoddid esboniadau arnynt, ac ni chyfieithid hwynt i ieithoedd ereill, &c.

Yn ddiweddaf, yr oeddynt, gyda chydsyniad cyffredinol o'r bron, yn cael eu gwrthod gan ysgrifenwyr Cristionogol yr oesoedd dilynol."†

Y mae genym y profion cadarnaf, gan hyny, o ddilysrwydd (*authenticity*) a gwirionedd llyfrau y Beibl; y maent yr hyn a broffesant; nid dyfais ddiweddar ydynt; maent ar gael o'r dechreuad; ac yn eu goleuni, mae miloedd yn mhob oes wedi myned i mewn i'r bywyd.

* Gwel yr Attodiad.

† Gwel *Paley's Evidences, Lardner's Works, Westcott on the Canon, Grotius on the Truth of the Christian Religion, Horne's Introduction, Doddridge's Works, Bible Hand Book, Kitto & Smith's Dictionaries, &c.*

## AMSERYDDIAETH, &c., LLYFRAU Y BEIBL.—HEN DESTAMENT.

| Enwau. | Ysgrifenwyr. | Pennodau. | Dyddiad Tebygol. (Bl. Cyn Crist). | CYNNWYSIAD, AMCAN, &c. |
|---|---|---|---|---|
| Genesis | Moses | 50 | 4004—1635 | Hanes creadigaeth nef a daear, a chofnodion am yr hil ddynol hyd ddyddiau Joseph. |
| Exodus | ,, | 40 | 1706—1491 | Cynnydd Israel yn yr Aifft, eu hadfyd, a'u gwaredigaeth ; rhoddiad y ddeddf, &c. |
| Lefiticus | ,, | 27 | 1490 | Defodau perthynol i'r Lefiaid a'r offeiriaid, a gwasanaeth y cyssegr. |
| Numeri | ,, | 36 | 1451 | Hanes rhifo yr Israeliaid, y daith o Seinai i derfyn Canaan, a'u dychweliad i'r anialwch am 38 mlynedd, &c. |
| Deuteronomium | ,, | 34 | 1451 | Adgofion am y daith yn yr anialwch a gofal Duw am y bobl, ail-adroddiad y gyfraith, annogaethau i ufydd-dod, &c. |
| Josua | Josua | 24 | 1427 | Darostyngiad Canaan, a'i dosraniad rhwng meibion Israel. |
| Barnwyr | Samuel (?) | 21 | 1403 | Hanes amgylchiadau Israel am tua 300 mlynedd, o dan lywodraeth y Barnwyr. |
| Ruth | ,, (?) | 4 | 1312 | Hanes ymdaith Elimelech a'i deulu yn Moab, a dygiad Ruth y Foabes i linach y Messiah. |
| 1 Samuel | ,, (?) Pennodau i.—xxiv. | 31 | 1055 | Dechreuad y freniniaeth, a'i sefydliad yn nheulu Dafydd. Cyfnod prophwydol newydd, Act. iii. 24. |
| 2 Samuel | Nathan a Gad (?) (1 Chron. xxix. 29) | 24 | 1018 | Buddygoliaethau a thrallodion Dafydd. |
| 1 Brenhinoedd | Jeremiah y prophwyd (?) | 22 | 1002—897 | Henaint a marwolaeth Dafydd, teyrnasiad Solomon, a rhwygiad y freniniaeth. |
| 2 Brenhinoedd | ,, ,, | 25 | 590 | Hanes Israel a Judah, hyd gaethgludiad y deg llwyth a chaethiwed Babilon. |
| 1 Chronicl | Ezra | 29 | 1015 | Llinachau yr Israeliaid, a hanes teyrnasiad Dafydd. |
| 2 Chronicl | ,, | 36 | 1004—623 | Hanes Israel o dan deyrnasiad Solomon, a theyrnas Judah ar ol yr ymraniad. |
| Ezra | ,, | 10 | 457 | Hanes dychweliad y fintai gyntaf o gaethiwed Babilon, ail-adeiladiad y deml, ac ymroddiad Ezra i ddiwygio drwg-arferion y bobl, &c. |
| Nehemiah | Nehemiah | 13 | 434 | Ymdrechion Nehemiah i ail-adeiladu Jerusalem, ac adferu llwyddiant y caethion dychweledig. |
| Esther | Rhyw Iuddew Gwladgarol | 10 | 509 | Dyfyniad o gofnodion ymerodraeth Persia, er dangos gofal Rhagluniaeth Duw am yr Iuddewon, y rhai na ddychwelasant i'w gwlad ar ol caethiwed Babilon. |
| Job | Moses (?) | 42 | 1490 (?) | Hanes Job, tua 1640—1520 ml. cyn Crist, yn ngwlad Us, ychydig i'r deheu o Damascus. Amcan—dysgu amynedd a dwyn gobaith gwaredigaeth i Israel yn nghaethiwed yr Aifft, trwy esiampl a hanes Job. |
| Salmau | Dafydd ac ereill | 150 | 1060—450 | Mawl-ganiadau, cyffesiadau, gweddiau, prophwydoliaethau, &c. |

## AMSERYDDIAETH, &c., LLYFRAU Y BEIBL.—Hen Destament—*parhad.*

| Enwau. | Ysgrifenwyr. | Pennodau. | Dyddiad Tebygol. (Bl. Cyn Crist). | CYNNWYSIAD, AMCAN, &c. |
|---|---|---|---|---|
| Diarhebion | Solomon | 31 | 1000 | Doetheiriau cynnwysfawr ar brydferthwch moesau da ac ardderchowgrwydd duwioldeb. |
| Pregethwr | ,, | 12 | 975 | Dysgu ymostyngiad amyneddgar a duwiol i Ragluniaeth yn amser adfyd,—dangos annigonolrwydd gwrthddrychau daearol i ddedwyddoli dyn,—a dwyn y darllenydd i ofni Duw a chadw ei orchymynion ef. |
| Caniad Solomon | ,, | 8 | 1013 | Cân ysbrydol, er dangos ymhyfrydiad Crist a'i eglwys yn eu gilydd. |
| Esaiah | Y prophwyd ei hun | 66 | 773—725 | Prophwydoliaethau am Judah a'r gwledydd cylchynol, ac am Grist a'i deyrnas. |
| Jeremiah | ,, ,, | 52 | 611—580 | Gwahanol brophwydoliaethau, a hanes y prophwyd a chwymp Jerusalem. |
| Galarnad Jeremiah | ,, ,, | 5 | 611—580 | Dadganiad o ofid dwys y prophwyd o herwydd dinystr Jerusalem a'r deml, a chaethgludiad y bobl. |
| Ezeciel | ,, ,, | 48 | 594—572 | Neillduad Ezeciel i'r swydd brophwydol, rhybuddion yn nghylch dinystr Jerusalem, prophwydoliaethau am wahanol genedloedd, ac am deyrnas Crist. |
| Daniel | ,, ,, | 12 | 606—536 | Hanes Daniel a'i gyfeillion yn Babilon, eu profedigaethau a'u gwaredigaethau, a'u dyrchafiad. Hanes breninoedd Babilon, gweledigaethau, &c. |
| Hosea | ,, ,, | 14 | 784—744 | Dewisiad yr Arglwydd o Israel, a'u hanffyddlondeb; eu cosb, a'u derbyniad ar eu hedifeirwch. |
| Joel | ,, ,, | 3 | 810 | Prophwydoliaethau am farnedigaethau ar Judah, ac am dywalltiad yr Ysbryd Glân o dan yr efengyl. |
| Amos | ,, ,, | 9 | 811 | Bygythion o farnedigaethau Duw ar Israel, ac addewid am eu hadferiad yn y dyddiau diweddaf trwy y Messiah. |
| Obadiah | ,, ,, | 1 | 585 | Prophwydoliaeth yn erbyn Edom, ac am adferiad Israel. |
| Jonah | ,, ,, | 4 | 825 | Anufydd-dod Jonah, ei waredigaeth wyrthiol, a'i ymweliad â Ninefeh. |
| Michah | ,, ,, | 7 | 759—719 | Prophwydoliaethau yn erbyn Israel a Judah, addewid o adferiad, a genedigaeth y Messiah. |
| Nahum | ,, ,, | 3 | 728 | Prophwydoliaeth am gwymp Ninefeh, a dinystr Assyria. |
| Habacuc | ,, ,, | 3 | 600 | Pechodau Judah, a goresgyniad y wlad gan y Caldeaid; cân yn gosod allan ogoniant a thrugaredd Duw. |
| Sephaniah | ,, ,, | 3 | 642 | Rhagfynegiadau am gaethiwed Judah, dinystr cenedloedd cylchynol, ac adferiad yr Iuddewon. |
| Haggai | ,, ,, | 2 | 521 | Cymhellion i fyned yn mlaen gyda'r gwaith o ail-adeiladu y deml. |
| Zechariah | ,, ,, | 14 | 521 | Gweledigaethau yn nghylch yr hyn oedd i gymeryd lle ar fyrder, a rhagfynegiadau am y Messiah, a dychweliad yr Iuddewon, &c. |
| Malachi | ,, ,, | 4 | 430 | Achwyniadau o herwydd annuwioldeb yr Iuddewon, y bobl a'r offeiriaid, a rhagfynegiadau am ddyfodiad y Messiah a Ioan Fedyddiwr, &c. |

## AMSERYDDIAETH, &c., LLYFRAU Y BEIBL.—Y TESTAMENT NEWYDD.

| Enwau. | Ysgrifenwyr. | Pennod-au. | Dyddiad Tebygol. (Bl. O. C., A.D.) | CYNNWYSIAD, AMCAN, &c. |
|---|---|---|---|---|
| Matthew ........ | Matthew .. .. .. | 28 | 38 | Prawf mai Iesu o Nazareth yw y Messiah addawedig yn yr Hen Desta-ment. |
| Marc .......... | Marc .. .. .. | 16 | 65 | Hanes Iesu Grist er hyfforddiant dychweledigion Rhufeinig. |
| Luc ............ | Luc .. .. .. .. | 24 | 63 | Hanes Iesu Grist i'r Cenedloedd, er dangos mai efe yw Iachawdwr y byd. |
| Ioan ............ | Ioan yr Apostol .. | 21 | 97 | Gogoniant Crist fel Person Dwyfol, a Dadguddiwr y Tad. |
| Actau .......... | Luc .. .. .. .. | 28 | 64 | Lledaeniad Cristionogaeth yn y byd, a'r rhwystrau ar ei ffordd adeg ei chychwyniad. |
| Rhufeiniaid...... | Paul .. .. .. .. | 16 | 58 | Cyfiawnhad trwy ffydd, ei effeithiau a'i ragorfreintiau, &c. |
| 1 Corinthiaid .... | ,, .. .. .. | 16 | 56 | Tawelu annghydfod, symmud anfoesoldeb, attal annhrefn, a chadarnhau y ffydd. |
| 2 Corinthiaid .... | ,, .. .. .. | 13 | 57 | Gwahanol gyfarchiadau ac annogaethau, ac amddiffyniad i apostoliaeth Paul. |
| Galatiaid ...... | ,, .. .. .. | 6 | 52 | Dwyfoldeb apostoliaeth Paul, a chyfiawnhad trwy ffydd, &c. |
| Ephesiaid ...... | ,, .. .. .. | 6 | 61 | Godidowgrwydd gras Duw yn iachawdwriaeth y Cenedloedd, &c. |
| Philippiaid .... | ,, .. .. .. | 4 | 62 | Annogaeth i santeiddrwydd a llawenydd ysbrydol, cyfarchiadau a chynghorion arbenig. |
| Colossiaid ...... | ,, .. .. .. | 4 | 62 | Gwrthweithio gwenwyn Gnosticiaeth, a chadarnhau y Colossiaid yn ffydd yr efengyl. |
| 1 Thessaloniaid.. | ,, .. .. .. | 5 | 52 | Cyfarchiadau brawdol, ac amryw gynghorion ymarferol. |
| 2 Thessaloniaid.. | ,, .. .. .. | 3 | 52 | Symmud ymaith gamgymmeriad y Thessaloniaid o barthed amser ail-ddyfodiad Crist, &c. |
| 1 Timotheus .... | ,, .. .. .. | 6 | 64 | Cyfarwyddiadau i wrthweithio cyfeiliornadau, llywodraethu yr eglwys, neillduo swyddogion, &c. |
| 2 Timotheus .... | ,, .. .. .. | 4 | 65 | Annogaethau i ffyddlondeb yn y weinidogaeth, cais at Timotheus i dalu ymweliad â'r apostol yn ei gaethiwed, &c. |
| Titus........... | ,, .. .. .. | 3 | 64 | Cymhwysderau mewn ymgeiswyr am y weinidogaeth, ac annogaethau i ddysgu santeiddrwydd ymarferol, &c. |

AMSERYDDIAETH, &c., LLYFRAU Y BEIBL.—Y TESTAMENT NEWYDD—*parhad.*

| Enwau. | Ysgrifenwyr. | Pennod-au. | Dyddiad Tebygol. (Bl. O. C., A.D.) | CYNNWYSIAD, AMCAN, &c. |
|---|---|---|---|---|
| Philemon ...... | Paul .. .. .. .. | 1 | 62 | Eiriolaeth Paul dros Onesimus, er iddo gael derbyniad yn ol i dŷ ei hen feistr Philemon. |
| Hebreaid ...... | ,, .. .. .. | 13 | 63 | Annogaethau i ffyddlondeb gyda'r efengyl, yn ymgodi oddiar ei rhagoriaeth ar yr hen oruchwyliaeth, &c. |
| Iago ........... | Iago .. .. .. .. | 5 | 61 | Yr angenrheidrwydd am santeiddrwydd ymarferol, &c. |
| 1 Pedr ......... | Pedr .. .. .. .. | 5 | 64 | Cymhellion i gariad a santeiddrwydd, ac i ddyledswyddau cymdeithasol, yn nghyda chalondid iddynt mewn erlidigaethau. |
| 2 Pedr ......... | ,, .. .. .. | 3 | 65 | Annogaeth i gynnyddu mewn gras, ac i wylio rhag gau athrawon. |
| 1 Ioan ......... | Ioan yr Apostol .. | 5 | 69 | Annerchiad at Gristionogion Asia Leiaf o barthed tuedd santaidd efengyl Crist, ac yn erbyn cyfeiliornadau yr oes hono am berson Crist, &c. |
| 2 Ioan ........ | ,, .. .. | 1 | 69 | Annogaeth i foneddiges Gristionogol a'i phlant i barhau yn y ffydd, ac i beidio cefnogi twyllwyr. |
| 3 Ioan ......... | ,, .. .. | 1 | 69 | Dadganiad o lawenydd o herwydd duwioldeb Gaius, a chyfarwyddiadau yn nghylch Diotrephes a Demetrius. |
| Judas .......... | Judas yr Apostol .. | 1 | 70 | Annogaeth i ochelyd cyfeiliornadau, ac i ymdrechu yn mhlaid y ffydd. |
| Dadguddiad .... | Ioan yr Apostol .. | 22 | 96 | Llythyrau at yr eglwysi, a gweledigaethau yn nghylch dyoddefiadau a buddygoliaethau yr eglwys, &c. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynnwysa yr Hen Destament | 39 | o Lyfrau ; | 929 | o Bennodau ; | 23,214 | o Adnodau. |
| ,, y Testament Newydd | 27 | ,, | 260 | ,, | 7.959 | ,, |
| Cyfanrif *(total)* .. .. | 66 | ,, | 1,189 | ,, | 31,173 | ,, |

Gwel *Dr. Jahn's Introduction to the Old Testament ; Horne's Introduction ; Llawlyfr y Beibl, gan Dr. Angus ; Rhaglithiau i'r Annotated Paragraph Bible ;* a'r *Geiriaduron Duwinyddol.*

## PENNOD III.

### DWYFOLDEB Y BEIBL,—Y PRAWF MEWNOL YN Y BEIBL EI HUN.

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Dau fath o brawf o Ddwyfoldeb y Beibl*—Y PRAWF MEWNOL—I. *Natur Cynnwysiad y Beibl.* II. *Ei fod yn anmhossibl i Ysgrifenwyr y Testament Newydd ysgrifenu y fath lyfr heb gyfarwyddyd Ysbryd Duw.* III. *Cymmeriad Crist yn brawf o'i Ddwyfoldeb.* IV. *Cymmeriad Ysgrifenwyr y Testament Newydd y fath ag i'n hargyhoeddi o Wirionedd eu Tystiolaeth.* V. *Cyssondeb a Chyddarawiad anfwriadol y Beibl.* VI. *Cyfaddasrwydd y Feddyginiaeth a ddadguddia i Anghenion ysbrydol dyn, a'i Ddylanwad ar gredinwyr.*

MAE y prawf o Ddwyfoldeb y Beibl yn ddeublyg, yn cynnwys amryw ystyriaethau cyssylltiedig â chyfansoddiad a chynnwysiad y Beibl, y rhai a gyfansoddant yr hyn a elwir y prawf mewnol *(internal evidence)*; ac amryw ystyriaethau ereill, ar ryw olwg o'r tu allan iddo, megys gwyrthiau, cyflawniad prophwydoliaeth, tystiolaeth hanesiaeth gyffredin i ffeithiau y Beibl, a llwyddiant crefydd y Beibl, &c., y rhai gyda'u gilydd a gyfansoddant y prawf allanol *(external evidence)*. Yn y bennod hon, edrychwn ar y prawf mewnol yn y Beibl ei hun, dros ei Ddwyfoldeb.

I. NATUR CYNNWYSIAD Y BEIBL.

I. *Ei ddesgrifiad o Dduw.* Mor fawreddog ydyw ei ddesgrifiad o Dduw a'i weithrediadau! Darlunia ef fel Bôd anfeidrol, tragywyddol, santaidd, cyfiawn, annghyfnewidiol, a thrugarog, yr hwn a greodd bob peth â'i air, a'r hwn sydd yn cynnal pob peth â'i leferydd; yr hwn sydd yn rheoli peiriant dyrys Rhagluniaeth, ac yn peri i bob peth gydweithio er dwyn oddi amgylch ei amcanion Dwyfol ei hun: yr hwn a anfonodd ei uniganedig Fab i'r byd i'w achub, a'r hwn yn y diwedd a fywhâ y meirw, a farna bawb yn ol eu gweithredoedd, ac a losga y byd!

Mor ogoneddus yw hyn wrth ei gymharu â'r desgrifiad a ddyry ysgrifenwyr paganaidd o'u duwiau hwynt! Y maent hwy yn gwisgo eu duwiau â'r nodweddau gwaethaf a berthyn i ddyn; darluniant hwynt fel rhai nwydog, ymrysongar, a thwyllodrus, yn gwrthweithio dylanwad, ac yn dyrysu cynlluniau eu gilydd; ac y mae chediadau mwyaf goruchel Homer a Virgil, wrth ddarlunio eu symmudiadau, yn farwaidd hollol wrth eu cymharu â lleferydd ysbrydoledig Job, Dafydd, Ezeciel, Ioan, ac ereill o'r ysgrifenwyr santaidd wrth osod allan ogoniant a Mawrhydi y Duw byw. Er mwyn i'r darllenydd ganfod y gwirionedd o hyn, ni a ddodwn yma engraifft neu ddwy o'r hyn a ystyrir yn mhlith chediadau mwyaf aruchel ysgrifenwyr paganaidd. Ystyrir y desgrifiad a roddir o ymddangosiad Neptune, duw y dyfnder, yn Llyfr XIII. o'r Iliad, yn un o orchestion mwyaf arddunol athrylith Homer. Dodwn yma gyfieithiad o hono mewn rhyddiaeth:—

"Ac ni chadwodd y brenin Neptune wyliadwriaeth ofer; oblegyd efe a eisteddodd ar glogwyn uchaf Samothracia goediog, gan ryfeddu at y rhyfel a'r frwydr. Oddi yno yr oedd holl Ida, a dinas Priam, a llongau y Groegiaid, yn weledig. Yna wedi dyfod allan o'r môr, efe a eisteddodd i lawr, ac a dosturiodd wrth y Groegiaid, y rhai a orchfygid gan breswylwyr Troia, ac yr oedd yn ddigllon iawn wrth Jupiter. Ond yn ddioed fe ddaeth i lawr o'r mynydd clogwynog, gan lamu yn gyflym yn mlaen, ac yr oedd y mynyddau uchel a'r coedwigoedd yn crynu o dan draed anfarwol Neptune, wrth iddo fyned rhagddo. Teirgwaith y llamodd wrth fyned yn mlaen, a chyda'r pedwerydd cam, efe a gyrhaeddodd Ægæ, ei gartref. Yno yn nyfnderoedd y môr, yr oedd palas ardderchog, euraidd, dysglaer, ac anllygredig, wedi cael ei ddarparu iddo. Wedi cyrhaedd yno, efe a ieuodd ei feirch traed-euraidd, cyflym, gydag euraidd-fwng, yn ei gerbyd. Yna wedi amwisgo ei hun âg aur, a chymmeryd ei chwip euraidd o gywrain-wneuthuriad yn ei law, efe a esgynodd i'w gerbyd. Gyrodd yn mlaen dros y tònau, ac yr oedd anghenfilod y dyfnder wedi dyfod allan o'u dirgelfanau yn chwareu o dano ar bob llaw, gan fod yn ymwybodol o bresennoldeb eu brenin. Ymwahanodd y môr gan lawenydd; ac yr oeddynt yn rhedeg yn gyflym dros ben; ac ni wlychid yr echel bres o danodd; a chyflym-ddygodd ei feirch cyrchlamol ef at longau y Groegiaid. Yn awr, y mae ogof fawr yn nghelfanau y môr dwfn, rhwng Tenedos ac Imbrus glogwynog. Yno y dododd y daear-ysgytiwr Neptune ei geffylau, gan eu tynu o'r cerbyd, a bwrw atynt borthiant anfarwol i'w fwyta. O amgylch eu traed fe ddododd lyffetheiriau aur, annhoradwy, annatodadwy, fel y gallent yno aros dychweliad eu brenin; ond efe a aeth ymaith tuag at fyddin y Groegiaid."

Mae arucheledd yn y desgrifiad o'r mynyddoedd a'r coed-wigoedd yn crynu, ond y mae y bardd yma yn ysbeilio y gwir Dduw o'i fawredd. er addurno ei dduwiau twyllodrus ei hun. Twyll yw y desgrifiad, oblegyd nid yw duwiau y bardd ond ffug. Ond y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng arucheledd desgrifiad Homer ac eiddo y Beibl. Yn y Beibl, effaith gallu anfeidrol yr hwn sydd Ysbryd hollbresennol yw daeargryn; ond yn Homer, pwys camrau anghenfil anferth, sylweddol, ar ffurf dyn, sydd yn ei achosi. Er fod Homer yn ysbeilio y Duw byw o'i anrhydedd er coroni Neptune, eto fe welir yn y dyfyniad uchod ei fod yn druenus o ddiffygiol yn mherffeith-derau y Duwdod, hyd y nod yn ol molawd tywysog y beirdd. Gwelir fod yn rhaid iddo esgyn i ben clogwyn yn Samothracia er cael golwg ar y frwydr; nis gall roddi un cymhorth heb fyned i'r lle; a chyn y gall fyned yno, rhaid iddo fyned gartref i gyrchu ei feirch, er mwyn iddo allu marchogaeth yn gyflym i'r ymdrechfa; wedi cyrhaedd, rhaid iddo eu llyffetheirio, rhag iddynt fyned ar goll! Gallai hanner y fyddin fyned i ddistryw cyn y gallasai y duw hwn estyn ymwared i neb. Buasai yr *Irish Mail* wedi myned o Lundain i Gaergybi tra byddai Neptune yn parotoi ei gerbyd! Eto fe ystyrir y dernyn hwn yn un o'r rhai goreu fel engraifft o arucheledd Homer.

Cawn ddesgrifiad cyffelyb mewn lleoedd ereill. Duwiau mewn braw ac ofn yn ymdrechu yn erbyn eu gilydd, yn oer-nadu ar eu gilydd fel gwallgofiaid,* ac yn noddwyr i nwydau a drygau plant dynion ydyw duwiau Homer a Virgil. Desgrifia Homer Jupiter fel hen batriarch mawreddog, a gwallt mod-rwyog ganddo; a phan y gogwyddai ei ben wrth ddangos cydsyniad â'r hyn a ddeisyfid ganddo, byddai mynydd Olympus bron a throi ar ei ochr. Ystyrir y darluniad hwn o'i eiddo yn engraifft nodedig o arucheledd:—

> "He ceased, and under his dark brows, the nod
> Vouchsafed of confirmation. All around
> The sovereign's everlasting head his curls
> Ambrosial shook, and the large mountain reeled."—*Cowper.*

Mae son am ei wallt, yn dangos nad oedd gan Homer amgyff-

* *Iliad*, B, xx.

rediad am ysbrydolrwydd Duw, ond ei fod yn edrych ar y duwiau fel dynion wedi eu mwyhau, a phryd arall fel rhyw anghenfilod anferth, o'r fath bwysau nes y crynai y ddaear wrth iddynt ymsymmud. Dywed Dr. Carson y buasai darlun o Neptune Homer yn dychrynu Beelzebub ei hun. Gyda golwg ar fod y mynydd yn ysgwyd pan y gogwyddai Jupiter ei ben i ddangos boddlonrwydd, awgrymwyd eisioes fod Homer yn ysbeilio Jehofah o'i urddas, pan yn priodoli anrhydedd o'r fath i'w dduwiau. Nid yw eilunaddoliaeth pob oes ond twyll a rhagrith. Cymharer y modd y gesyd y Beibl allan urddas, mawredd, ysbrydolrwydd, a pherffeithderau y Duw byw, â'r hyn a ddywed Homer:—

"Yr Arglwydd sydd ryfelwr: yr Arglwydd yw ei enw. Efe a daflodd gerbydau Pharaoh a'i fyddin yn y môr: ei gapteniaid dewisol a foddwyd yn y môr coch. Y dyfnderau a'u toisant hwy: disgynasant i'r gwaelod fel careg. Dy ddeheulaw, Arglwydd, sydd ardderchog o nerth: a'th ddeheulaw, Arglwydd, a ddrylliodd y gelyn. Yn mawredd dy ardderchawgrwydd y tynaist i lawr y rhai a gyfodasant i'th erbyn: dy ddigofaint a anfonaist allan, *ac* efe a'u hysodd hwynt fel sofl. Trwy chwythiad dy ffroenau y casglwyd y dyfroedd yn nghyd: y ffrydiau a safasant fel pentwr; y dyfnderau a geulasant yn nghanol y môr. Y gelyn a ddywedodd, Mi a erlidiaf, mi a oddiweddaf, mi a ranaf yr ysbail: caf fy ngwynfyd arnynt; tynaf fy nghleddyf, fy llaw a'u difetha hwynt. Ti a chwythaist â'th wynt: y môr a'u todd hwynt: soddasant fel plwm yn y dyfroedd cryfion. Pwy *sydd* debyg i ti, O Arglwydd, yn mhlith y duwiau? pwy fel tydi yn ogoneddus mewn santeiddrwydd, yn ofnadwy mewn moliant, yn gwneuthur rhyfeddodau? Estynaist dy ddeheulaw; llyncodd y ddaear hwynt. Arweiniaist yn dy drugaredd y bobl y rhai a waredaist: yn dy nerth y tywysaist *hwynt* i anneddle dy santeiddrwydd." (Exod. xv. 3—13.)

"Safodd, a mesurodd y ddaear; edrychodd, a gwasgarodd y Cenedl oedd: y mynyddoedd tragywyddol hefyd a ddrylliwyd, a'r bryniau oesol a grymasant: llwybrau tragywyddol *sydd* iddo." (Hab. iii. 6.)

"Y mae uffern yn noeth ger ei fron ef: ac nid oes dô ar ddistryw." (Job xxvi. 6.)

"Pwy a fesurodd y dyfroedd yn ei ddwrn, ac a fesurodd y nefoedd â'i rychwant, ac a gymhwysodd bridd y ddaear mewn mesur, ac a bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau? Pwy a gyfarwyddodd ysbryd yr Arglwydd, ac yn ŵr o'i gynghor a'i cyfarwyddodd ef? A phwy yr ymgynghorodd efe, ïe, *pwy* a'i cyfarwyddodd, ac a'i dysgodd yn llwybr barn, ac a ddysgodd iddo wybodaeth, ac a ddangosodd iddo ffordd dealltwriaeth? Wele, y Cenedloedd a gyfrifwyd fel defnyn o gelwrn, ac fel mân lwch y clorianau; wele, fel brycheuyn y cymmer efe yr ynysoedd i fyny. Ac nid digon Libanus i gynheu *tân;* nid digon ei

fwystfilod chwaith yn boethoffrwm. Yr holl Genedloedd *ydynt* megys diddym ger ei fron ef; yn llai na dim, ac *na* gwagedd, y cyfrifwyd hwynt ganddo. I bwy gan hyny y cyffelybwch Dduw? a pha ddelw a osodwch iddo? Dyrchefwch eich llygaid i fyny, ac edrychwch pwy a greodd *y rhai* hyn, a ddwg eu llu hwynt allan mewn rhifedi: efe a'u geilw hwynt oll wrth eu henwau; gan amlder *ei* rym *ef*, a'i gadarn allu, ni phalla un. Oni wyddost, oni chlywaist, na ddiffygia ac na flina Duw tragywyddoldeb, yr Arglwydd, Creawdwr cyrau y ddaear? ni ellir chwilio allan ei synwyr ef. Yr hwn a rydd nerth i'r diffygiol, ac a amlha gryfder i'r dirym." (Esai. xl. 12—18, 26, 28, 29.)

"Ac mi a welais orseddfainc wen fawr, a'r hwn oedd yn eistedd arni, oddiwrth wyneb yr hwn y ffodd y ddaear a'r nef: a lle ni chafwyd iddynt." (Dad. xx. 11; gwel hefyd Salm xviii. 6—11, cxxxix. 1—10, Esai. xvi. 9, 10.)

Ond nid oedd gan Homer ac ysgrifenwyr paganaidd ereill, wybodaeth ac amgyffrediad cywir am y Duw byw a'i berffeithderau, ac felly ni allasent gyfodi yn uwch na'u dychymmyg llygredig eu hunain; mae'n amlwg, gan hyny, fod arucheledd desgrifiad yr Ysgrythyrau o Dduw yn brawf o'u Dwyfoldeb. Ni allasai yr ysgrifenwyr santaidd ysgrifenu mor ardderchog ag y gwnaethant am yr Anfeidrol, oni buasai eu bod wedi cael gwybodaeth gywir am dano, a chael eu cynnorthwyo a'u cyfarwyddo mewn modd gwyrthiol, pan yn traethu am ei ogoniant digyffelyb ef. (Gwel feirniadaeth alluog Dr. Carson, *Carson's Works*, vol. iii. pp. 1—63.)

2. *Rhagoroldeb y Moesoldeb a ddysga*

(1,) Y mae cymmeriad Duw, yr hyn yw safon moesoldeb, yn berffaith, ac yn gyfryw ag a ddyrchafa rinwedd yn mhob agwedd arni. Y mae hyn o'r pwys mwyaf, oblegyd y mae pob addolwr am ymdebygu i'w dduw, ac nid ydyw yn meddwl ymddyrchafu uwchlaw y rhinweddau a briodolir iddo ef. Yr oedd duwiau y paganiaid yn noddwyr pob math o bechodau a chreulondeb. Offrymid aberthau dynol i Moloch a Baal (2 Bren. xvi. 3, Ezec. xvi. 21, Deut. xii. 31, Jer. vii. 31, xix. 5, Salm cvi. 37, 38); yn mhlith duwiau y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yr oedd *Bacchus* yn noddwr i feddwdod; *Momus* i wawdiaith ac athrod; *Mercury* i ladrad a thwyll masnachol; *Venus* i buteindra, yn nheml yr hon yn Corinth yr oedd mil o buteiniaid wedi eu cyssegru iddi. Yr un yw dylanwad eilunaddoliaeth yn mhob oes a gwlad. Desgrifia Herodotus demlau

Babilon fel trythylldai. Ysgrifenai W. Ward yn ddiweddar am India fel y canlyn :—

"Mae anmhurdeb yn taflu ymaith ei gochl yn y caniadau a'r dawnsiadau o flaen yr eilunod yn y gwahanol gylchwyliau. Y mae y brodorion cyfrifol eu hunain yn cywilyddio bod yn bresennol yn y temlau. Cyfaddefodd Gopal, Brahmin, wrth gyfaill i mi, na ddarfu iddo ef erioed fod yn bresennol ar yr adegau hyn, heb guddio ei hun o'r tu ol i un o golofnau y deml. Y mae y golygfeydd a welir yn y cychod ar y Ganges bob blwyddyn ar adeg cylchwyl y dduwies Doorga, yn mhresennoldeb cannoedd o edrychwyr, yn gyfryw ag i beri i mi grynu rhag ofn i fy mhlant edrych drwy y ffenestr pan fyddai yr orymdaith yn myned heibio i fy nhŷ. Yn nghylchwyl flynyddol duwies dysgeidiaeth, y mae ymddygiad yr addolwyr yn anmhraethol ffiaidd. Mae y darluniau lliwiedig ar gerbyd Jugunnat'h, yr hwn a ddangosir i'r cyhoedd ar y cylchwyliau er anrhydedd y duw hwn, yr un mor aflan. Ac, fel y gellid dysgwyl, o dan y gyfundrefn lygredig hon, yr offeiriaid a'r cardotwyr crefyddol, yw y blaenoriaid mewn drwg. Yn wir, y mae yr holl wlad wedi cael ei rhoddi i fyny i ffieidd-dra i'r fath raddau, fel, yn ol barn un o breswylwyr hynaf a mwyaf cyfrifol India, yr hon a glywais fwy nag unwaith, nad oes braidd un fenyw ddiwair i'w chanfod yn mhlith holl fyrddiynau India."*

Ond "Goleuni" a "Chariad" yw Duw y Beibl; y mae efe yn lanach ei lygad nag y gall edrych ar ddrwg; y mae efe yn ffieiddio pob pechod: y mae yn gwahardd a chondemnio creulondeb; y mae ei galon yn llawn o haelfrydedd ac ewyllys da at bawb, oblegyd, "Duw, cariad yw." Mae ei burdeb yn ennyn mawl ysbrydoedd santaidd y nef, y rhai a lefant, "Sant, sant, sant, yw Arglwydd Dduw y lluoedd;" ac yn cael ei osod allan yn safon ymddygiad i blant dynion, canys ysgrifenedig yw, "Byddwch santaidd, canys santaidd ydwyf fi."

(2,) Cynnwysir cyfundraeth ei foesoldeb yn y geiriau hyn :— 'Ti a geri yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon, a'th gymmydog fel ti dy hun." "Pa bethau bynag a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy; canys hyn yw y gyfraith a'r prophwydi." Dysga ni i faddeu i ddynion eu camweddau yn ein herbyn, i wneyd da i'n gelynion a'u caru; cymmeradwya ostyngeiddrwydd, a chondemnia bechod a rhagrith yn mhob dull ac agwedd; ac y mae yn gofyn am i'r egwyddor gymhellol i'n gweithredoedd i fod yn bur ac anhunanol, mewn trefn i'w gwneyd yn rhinweddol ac i sicrhau eu derbyniad gyda Duw. Dengys fod yn anghen-

* *Ward's Letters*, pp. 103—105.

rheidiol i gariad at Dduw deyrnasu yn y galon, a llywodraethu ei gweithrediadau.

Mor wahanol i hyn oedd dysgeidiaeth yr athronwyr pagànaidd, fel y dengys y tystiolaethau canlynol, y rhai a gymmerwn o Esboniad Dr. Whitby ar Eph. iv. 25 :—

"Y mae celwydd yn well na'r gwir a wna niwaid."—*Menander.*

"Y mae daioni yn well na gwirionedd."—*Proclus.*

"Pan y mae dweyd celwydd yn fanteisiol, dyweder ef."—*Darius* yn Herod. B. iii. ch. lxii.

"Gall dyn sydd yn gwybod pa fodd, ddweyd celwydd mewn amser priodol."—*Plato.*

"Nid oes dim yn brydferth mewn gwirionedd, ond pan y mae yn fanteisiol."—*Maximus Tyrius.*

Cawn y sylw canlynol hefyd yn Dr. Gregory's *Letters on the Christian Religion* :—

"Cyhoeddai rhai o'u hathronwyr drachefn yn hyf (ebe Dr. Gregory), fel y dywed Laertius am Theodorus, 'y gallai dyn doeth, ar adeg briodol, ladrata, godinebu, a chyssegr-ysbeilio , gan nad oes yr un o'r pethau hyn yn anweddaidd ynddynt eu hunain, os bydd i'r syniad hwnw am danynt gael ei gymmeryd ymaith, yr hwn y cytunwyd arno er mwyn attal ffyliaid.' "*

Nid oeddynt, gan hyny, yn condemnio pechod, fel *pechod ;* cymmeradwyent y pechodau mwyaf ysgeler o dan amgylchiadau neillduol ; os gallai dyn dwyllo ei gymmydog heb iddo ddeall hyny, ystyrid y twyll yn rhinwedd ; os gallai un ddweyd celwydd wrth ei gyfaill, heb i'r celwydd ddyfod i'r golwg, ystyrid hyny yn gywreinrwydd canmoladwy ; os gallai un ymdroi mewn trythyllwch, a chadw ymddangosiad lled ddiargyhoedd o flaen y byd, ystyrid ef yn gwneyd y goreu i fwynhau bywyd ! Ond am y Beibl, y mae dysgeidiaeth hwn mor bur, a'i foesoldeb mor oruchel, fel y mae yn condemnio pob pechod, yn mhawb, ac o dan bob amgylchiad ; ac nid yn unig yn y cyflawniad o hono, ond yn y bwriad a'r tueddiad gwanaf ato, "gan farnu meddyliau a bwriadau y galon." (Heb. iv. 12. Mat. v. 21—32.)

Addefir yn rhwydd fod rhai gwersi rhagorol i'w cael yn ysgrifeniadau Plato, ac yn areithiau a chyfarwyddiadau Socrates, ac ereill yn mhlith y paganiaid : ond y mae yn

* Letter iii.

ymddangos oddiwrth y pethau canlynol nad yw moeswersi goreu athronwyr Groeg, ond pelydrau o haul dadguddiad Dwyfol y Beibl:—

*a*,) Y mae yn ffaith fod trafodiaeth yn cymmeryd lle er's amser boreu, rhwng Palestina a Groeg. Sonir am ffoedigaeth Jonah i Tarsis, sef, fel y tybir yn gyffredin, i Cadiz, yn Spaen; yr oedd llong oddi yno yn Joppa, un o borthladdoedd Palestina, ac ar ei mordaith, yr oedd yn gorfod myned heibio gwlad Groeg, fel y gwel y darllenydd, ond edrych ar y map; a ydyw yn naturiol i ni dybied nad oedd trafnidiaeth rhwng Palestina a Groeg, pan y canfyddwn fod rhyngddi a Spaen? Ond y mae Joel iii. 6, yn gosod hyn allan yn bendant, trwy ddweyd fod y Groegiaid yn prynu pobl ieuainc Palestina fel caethion iddynt eu hunain:—"Gwerthasoch hefyd feibion Judah a meibion Jerusalem i'r Groegiaid, i'w pellhau oddiwrth eu hardaloedd." Diau fod y Groegiaid wedi dysgu llawer am y Duw byw a'i ewyllys, trwy y caethion hyn, fel y dysgasai Naaman y Syriad gynt trwy y gaethes fach o Israel yr hon oedd yn ei wasanaeth ef.

*b*,) Ond y mae hanesiaeth Roegaidd hefyd yn taflu goleuni pellach ar y pwynt hwn:—

"Gwyddis yn dda mai Pythagoras a Thales, sylfaenwyr y sectau athronyddol Ioniaidd ac Italaidd, oedd rhiaint holl athroniaeth y Groegiaid. Y mae mor adnabyddus a hyny, fod y ddau ddyn yma wedi sylfaenu eu hathrawiaethau, yn nghylch gwrthddrychau o'r fath hyn, yn benaf ar draddodiadau, y rhai a gasglasant oddiwrth wahanol genedloedd gyda diwydrwydd angherddol. Darfu i Pythagoras yn neillduol deithio i gasglu gwybodaeth mewn Duwinyddiaeth a Moesoldeb i'r Aifft, Judea, Babilon, Persia, a Hindostan. Hysbysir ni o hyn mewn modd pendant gan Jamblichus, Diogenes, Lærtius, a Porphyry; a hefyd, gan gofnodion Hindwaidd, y rhai sydd yn awr ar gael. Dywed Porphyry yn bendant ei fod wedi preswylio am saith mlynedd ar ben mynydd Carmel. Teithiodd Thales hefyd (mam yr hwn oedd wraig o Phœnicia), i Syria, Phœnicia, ac, mae'n debygol, i Judea."*

Tystia Justin Ferthyr a Tertullian hefyd fod yr athronwyr paganaidd yn ddyledus i'r Beibl, ac mai adlewyrchiad o'i oleuni ef yw y pethau goreu a ddysgasant. Dywed Justin, yr hwn a ddygasid i fyny yn athronydd Platonaidd, fel y canlyn:—

* *Dwight's Theo.* Serm. iv.

"Ac fel y dysgoch fod Plato wedi benthyca oddiwrth ein dysgawdwyr ni (yr wyf yn golygu yr hanes a roddir gan y Prophwydi), pan y dywed fod Duw wedi cyfnewid y defnydd diffurf, a chreu y byd, gwrandewch fel y mae yr un pethau yn cael eu dysgu mewn modd eglur gan Moses, yr hwn a grybwyllwyd o'r blaen fel y prophwyd cyntaf, ac yn hynach na'r ysgrifenwyr Groegaidd; trwy yr hwn y darfu i Ysbryd Prophwydoliaeth, wrth ddangos pa fodd, ac o ba beth, y darfu i Dduw yn y dechreuad greu y byd, lefaru fel hyn:—'Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear; a'r ddaear oedd anolygus,* ac annodrefnedig, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder; ac Ysbryd Duw a symmudodd uwch ben y dyfroedd. A dywedodd Duw, Bydded goleuni, ac felly y bu.'"† Yn gyffelyb hefyd y dywed Tertullian. ‡

Nid ffrwyth rheswm ei hunan, yn annibynol ar lewyrch dadguddiad Dwyfol, yw y moeswersi rhagorol y cyfarfyddir â hwynt yn achlysurol yn ysgrifeniadau y paganiaid; gellir eu holrhain y naill ffordd neu y llall i ffynnonell dadguddiad; ond er y cyfan yr oedd eu moes-addysg yn annhraethol islaw dysgeidiaeth y Beibl. Nid oeddynt yn condemnio pechod fel *pechod*, ac yn cymmeradwyo rhinwedd fel *rhinwedd*, ond gwnaent hunan-les yn safon ymddygiad a moesau. Cymmeradwyent y pechodau mwyaf ysgeler o dan amgylchiadau neillduol.

3. *Eglurder ei Ddadguddiadau.*

Darlunia i ni hanes creadigaeth a diwedd y byd, a'r sefyllfa ddyfodol, yn y fath fodd ag i beri i ni deimlo fod Duw yn llefaru wrthym drwyddo; tra o'r ochr arall, nad oedd athronwyr paganaidd ond dychymmygu am y cyfryw bethau, a'u lleferydd yn cael eu nodweddu gan amheuaeth a dyryswch.

4. *Nodweddau neillduol iaith y Beibl.* Mae yn naturiol i ni ddysgwyl fod nodweddau neillduol yn perthyn i iaith a ieithwedd ysgrifenwyr y Beibl. Yr oedd rhai o honynt, fel Jeremiah, yn byw mewn oes pan oedd cyfathrach yn cymmeryd lle rhwng yr Iuddewon a'r Caldeaid; mae yn naturiol i ni, gan hyny, ddysgwyl ambell i air neu lafarddull Caldeaidd yn ei ysgrifeniadau, fel y mae ambell i air neu lygriad Seis'nig i'w ganfod yn ngwaith ysgrifenwyr Cymru yn yr oes hon. Felly yr ydym yn cael pethau. Mae Jer. x. 11, yn Galdeaeg, yn nghanol Hebraeg y prophwyd, ac y mae olion y dylanwad

* Dilyna Justin gyfieithiad y LXX.
† Apol. I. § 59.
‡ *De Test. An.* II. 6.

Caldeaidd yn fynych ar ei ymadroddion.* Dywedir hefyd yn yr hanes ysgrythyrol fod yr Iuddewon wedi cael eu dwyn yn gaethion i Babilon, a'u bod wedi bod yno am dymhor hir; a bod rhai o'r rhai fuasent yn y caethiwed, megys Daniel ac Ezra, wedi cyfansoddi rhai o lyfrau y Beibl; y mae yn naturiol i ni ddysgwyl, gan hyny, fod rhywbeth yn ieithwedd y llyfrau hyn ag sydd yn brawf eu bod wedi bod yn Babilon; pe byddai eu harddull yn Hebraeg pur, fe ddywedai anffyddwyr nas gellid credu eu bod wedi bod yn Babilon; a pho buasai o'r ochr arall, yn Galdeaeg pur i gyd, fe haerent mai Caldeaid oeddynt, ac nid Iuddewon, fel y dywed y Beibl. Mae cyfansoddiad neillduol y llyfrau yn symmud ymaith bob anhawsder. Mae llyfr Daniel o pen. ii. 4. i pen. vii. 28, yn Galdeaeg, a'r gweddill yn Hebraeg: a llyfr Ezra o pen. iv. 8, i pen. vi. 18, ac yn y seithfed bennod o adnod 12 i adnod 26, yn Galdeaeg, a'r gweddill yn Hebraeg.

Mae y Testament Newydd wedi ei ysgrifenu yn y Groeg; ond Iuddewon oedd yr ysgrifenwyr; yr oeddynt wedi arfer meddwl a llefaru fel Hebreaid, ac nid fel Groegwyr. Defnyddiasant yr iaith Roeg hefyd i osod allan wahanol bethau, y rhai nad oedd yr un Groegwr erioed wedi ysgrifenu arnynt. Nid oedd yr un Groegwr erioed wedi ysgrifenu ar y deddfau Iuddewig, a duwinyddiaeth Feiblaidd. Mae'n naturiol i ni, gan hyny, ddysgwyl fod nodwedd neillduol yn perthyn i Roeg y Testament Newydd, a'i fod yn dwyn llafarddull Iuddewig yn fynych. Felly y mae; Groeg Hebreig ydyw. Defnyddir geiriau yn y Testament Newydd mewn ystyron gwahanol i'r hyn a feddant yn ysgrifeniadau Groegwyr. er engraifft, defnyddir y gair *eulogeo*, yr hyn a olyga mewn ysgrifeniadau clasurol *canmol*, neu *ddweyd yn dda am* un, yn y Testament Newydd i olygu *bendithio*, yn ol yr Hebraeg *barac*. Hefyd, gan eu bod yn rhoddi dadguddiad a goruchwyliaeth newydd i'r byd, yr oedd yn rhaid iddynt ddefnyddio geiriau arferedig mewn ystyr eangach nag ysgrifenwyr blaenorol;

* Teg yw nodi fod rhai beirniaid, fel Dr. S. Davidson (*Horne's Introd.* vol. ii.) a Dr. Gotch, Bristol (*Kitto's Cyclop. Art. Jeremiah*), yn barnu mai llygriad wedi llusgo i mewn yw yr adnod uchod. Ond pe byddent yn synied yn gywir am yr adnod hon, mae y llafarddull Caldeaidd i'w ganfod yn fynych yn Jeremiah, fel y gwel yr efrydydd ond iddo edrych i'r lleoedd canlynol yn ei Feibl Hebraeg:– Jer. ii. 20, xxxi. 21, Galarn. i. 4. 8, iii. 12: gwel *Gesenius's Hebrew Grammar*, Edition 1869, § 44, Rem. 4; § 72, Rem. 9; § 80, Rem. 2. c.; § 87, 1, a.

er engraifft, *dikaiosune*,=*cyfiawnder, uniondeb;* ond yn y Testament Newydd, a olyga yn fynych *gyfiawnhad pechadur* ger bron Duw trwy haeddiant Iesu Grist: *apostolos*,=*cenad*, ond yn y Testament Newydd y rhan fynychaf a olyga *genad awdurdodedig Crist, i ddysgu ei ewyllys a sefydlu ei achos ar y ddaear.** Ceir hefyd yn y Testament Newydd rai geiriau yn y Syro-Caldeaeg, megys *talitha cwmi*, *eli*, *lama sabachthani*, *abba*, *raka*, *maran atha* (*mae yr Arglwydd yn dyfod* i farn), fel y gellid dysgwyl; a hefyd amryw eiriau Lladin, fel y gellid yn naturiol ddysgwyl o herwydd cyssylltiad Rhufain â Judea; megys "*ffyrling*," Mat. x. 29. (Gr. *assarion*, o'r Lladin *assarius*,=darn o arian llai ei werth na ffyrling); "treth," Mat. xvii. 25. (Gr. *kensos*, o'r Lladin *census*); "canwriad," Marc xv. 39. (Gr. *kenturion*, o'r Lladin *centurio*); a llawer ereill.

Ystyriwn y ffeithiau hyn yn dystiolaeth gref i wirionedd y Beibl.—

"Ond ni a awn yn mhellach. Ni allasai Groeg y Testament Newydd gael ei ysgrifenu gan ddynion y rhai a ddysgasent eu hiaith ar ol oes yr apostolion. Fe ddarfyddodd y cymmysgedd hwn o Roeg ac Aramaeg, fel y cawn ef yn y Testament Newydd, a bod yn iaith arferol Cristionogion yn Palestina cyn marwolaeth Ioan. Pan y llwyr ddinystriwyd Jerusalem, gyda holl lywodraeth wladol a chrefyddol yr Iuddewon, yn y flwyddyn 70 o'r cyfnod Cristionogol, ac y diwreiddiwyd hiliogaeth Abraham o'r tir, ac y daeth dyeithriaid o bob parth i gymmeryd eu lle, fe aeth iaith y wlad o dan y fath gyfnewidiad, fel (gyda'r eithriad o fod yn iaith ychydig o wasgaredigion y rhai a fuant fyw ar ol cwymp eu gwlad), y peidiodd Groeg y Testament Newydd a bod yn iaith lafaredig. Pan y bu farw Ioan, mae'n debyg nad oedd yr un dyn yn fyw a allasai siarad neu ysgrifenu yr iaith yna yn gywir. Buasai cynnyg yn yr ail ganrif i gyfansoddi llyfr yn enw yr apostolion, ac mewn efelychiad o'u Groeg hwy, yn cael ei ganfod mor rhwydd a phe buasai Ffrancwr, heb fod erioed o Ffrainc, yn cynnyg cyfansoddi llyfr mewn tafodiaith Seis'nig, a cheisio ei ledaenu fel gwaith dyn syml, synhwyrol, ond diaddurn, o swydd Efrog."†

II. CYMMERIAD CRIST.

Y mae cymmeriad Crist yn ran o'r prawf o wirionedd Cristionogaeth.

1. *Edrycher arno fel dysgawdwr.*

"Yr oedd ei ddull yn dysgu o'r fath mwyaf ardderchog ac ennillgar. 'Ni lefarodd dyn erioed fel y dyn hwn.' Dysgai trwy ddammegion, trwy

* Gwel y Rhagymadrodd i Eiriadur Groeg a Saesonaeg Dr. E. Robinson, a *Dr. Tregelles in Horne's Introd.* vol. iv. ch. iii. Edition, 1856.

† *M'Ilvaine's Evidences of Christianity*, pp. 77, 78.

weithredu *(by action)*, a thrwy lefaru yn eglur. Tynai yr addysg fwyaf hyfryd a defnyddiol oddiwrth y golygfeydd mwyaf adnabyddus, ac oddiwrth y gwrthddrychau a'i hamgylchynai, ac o arferion cymdeithasol. Troai yn ol ymosodiadau y gelynion gyda mwyneidd-dra ag oedd yn diarfogi, a doethineb ag oedd yn dyrysu eu malais. Yr oedd eglurder ac eto ddyfnder yn ei holl ddywediadau. Yr oedd yn dyner, yn ddeniadol, neu yn llym, yn ol amgylchiadau: ac fe geir fod yr annerchiad, yr hwn a ymddangosai fel wedi cael ei awgrymu iddo gan yr achlysur yn unig, yn cynnwys addysg werthfawr a pharhaol i oesau dilynol."

2. *Edrycher arno fel dyn, ac fel y Messiah addawedig.*

"Addefir fod ei gymmeriad fel dyn y perffeithiaf a welodd y byd erioed. Yr oedd yr holl rinweddau am y rhai y gallwn ni ffurfio dirnadaeth yn cydgyfarfod ynddo ef gyda chydgordiad mwy cywir, ac yn llewyrchu gyda goleuni mwy dysglaer a naturiol, nag yn neb o feibion dynion. Yr oedd ei waith yn ymddarostwng o ogoniannau y nef, yn cymmeryd arno wendid y natur ddynol, ac yn dyfod yn wirfoddol i'r holl drallodion a ddyoddefodd er mwyn dynion, yn arddangos y fath haelfrydedd, mawrfrydigrwydd, ac amynedd, ag sydd yn mhell uwchlaw y ddirnadaeth a ffurfiodd Plato am y rhinwedd mwyaf profedig a pherffaith. Y mae mawrhydi ei natur Ddwyfol wedi cael ei gydgylymu â'r cydymdeimlad a'r ymddarostyngiad gofynol yn ei swydd; ac er nad oedd hanes dynoliaeth wedi rhoddi unrhyw gynllun a ellid ei ddilyn, eto y mae y cymmeriad neillduol hwn yr un o hyd; ac nid oes yr un o'r geiriau na'r gweithredoedd a briodolir iddo ef yn ymddangos i'r chwaeth fwyaf cywir i fod yn anweddus i'r dyn Crist Iesu. *Y mae yn anmhossibl fod dull o ddysgu mor annhraethol uwchlaw eiddo yr Ysgrifenyddion a'r Phariseaid, neu gymmeriad mor anarferol, mor Ddwyfol, mor gysson, wedi cael ei ddyfeisio gan bysgotwyr Galilea.*" *(Dr. Hill's Lectures in Divinity*, vol. i. pp. 43, 44).

"Y mae yn rhaid fod yr hanes yn wir (ebe Dr. Edwards), oblegyd pwy fuasai yn medru ei ddyfeisio? Y mae yn haws dychymygu am ddyn yn creu haul, na'i fod yn creu y fath arlun o berffeithrwydd moesol ag a welir yn hanes y dyn Crist Iesu. Os yw yn anhawdd credu fod un mor santaidd wedi bod yn ein byd ni, y mae yn fwy anhawdd credu fod neb wedi gallu ei ddysgrifio heb iddo fod. Y mae bod un mor lân wedi dyfod o beth aflan yn ffaith uwchlaw rheswm; ond mae tybied fod syniadau mor ysbrydol am ansawdd crefydd wedi tarddu yn naturiol o blith yr Iuddewon mewn cyfnod mor ddirywiedig—fod y dysgrifiad o Fessiah yn byw a marw mewn cyflwr mor dlawd a dirmygedig wedi ei ddyfeisio gan rai oeddynt yn ei ddysgwyl i fod yn frenin daearol—y mae hyn, meddaf, nid uwchlaw rheswm, ond yn groes i reswm. Na: fe fu Un ar y ddaear unwaith, yr hwn oedd 'ddiddrwg, a dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid.' Cafodd ei 'demtio yn mhob peth yr un ffunyd a ninnau, eto heb bechod.' "—(*Athrawiaeth yr Iawn*, gan y Parch. L. Edwards, D.D., tud. 42).

Pe buasai Iesu Grist yn *dwyllwr*, fe fuasai yn gwenieithio i'r Iuddewon, gan broffesu mabwysiadu eu golygiadau a choleddu eu gobeithion,

er mwyn sicrhau ei ddyrchafiad ei hun. Ni fu adeg erioed fwy manteisiol i dwyllwr wneyd ei ymddangosiad yn mhlith yr Iuddewon, nag yn nyddiau Crist. Yr oedd yr Iuddewon, gan eu bod yn ystyried eu hunain yn bobl arbenig yr Arglwydd, yn teimlo anfoddlonrwydd angerddol o dan iau y Rhufeiniaid. Yr oeddynt wedi deall oddiwrth y prophwydoliaethau fod adeg ymddangosiad Arwr y prophwydi oddeutu gwawrio (Daniel ix. 24—27), fel yr oedd, nid yn unig y duwiolion "yn dysgwyl ymwared" yn Israel (Luc ii. 26, 38), ond yr Iuddewon yn gyffredinol trwy yr holl Ddwyrain. (Gwel *Suetonius's Life of Vespasian*, chaps. iv.—viii.: *Tacitus's History*, Book v., chap. ix.—xiii.: a *Josephus's Wars of the Jews*, Book vi., chap. vi. § 4). Buasai twyllwr yn cymmeryd mantais ar y dysgwyliad hwn, ac ar anesmwythder yr Iuddewon o dan iau Cæsar, ac yn cyhoeddi ei hun yn eneiniog Duw ac yn waredwr y genedl. Ni allasai yr un anturiaethwr ddysgwyl llwyddo heb gydymffurfio â gobeithion y genedl. Yn unol â hyn y cawn fod twyllwyr yn wastad yn gweithredu. "Yr oeddynt," ebe Josephus, "yn hòni Dwyfol ysbrydoliaeth," ac yn addaw "newid y llywodraeth," a dwyn "rhyddid" i'r bobl trwy gyfryngiad uniongyrchol Duw: ac yr oeddynt yn llwyddo, ebe efe, trwy honiadau o'r fath hyn, i hudo miloedd ar eu hol. Cymharer Actau v. 36, 37. Yr oedd y rhaglaw Ffelix yn dal a lladd rhai o'r twyllwyr a'r terfysgwyr hyn bron bob dydd. (*Josephus's Antiquities of the Jews*, Book xx., chap. viii., § § 5, 6 10: *Wars of the Jews*, Book ii., chap. xiii.)

Y twyllwr mwyaf nodedig oedd Coziba, yr hwn a wnaeth ei ymddangosiad tua'r flwyddyn A.D. 130. Yr oedd yr Iuddewon ar y pryd mewn caledi dirfawr. Yr oedd Jerusalem yn ei hadfeilion, a threfedigaeth o dramorwyr wedi eu gosod i fyw yn y lle; yr oedd deddf wedi ei chyhoeddi nad oedd yr Iuddewon i enwaedu eu plant, na darllen y gyfraith, na chadw y Sabbath; a theml i Jupiter wedi cael ei sylfaenu ar hen safle teml y Duw byw. Pan oedd yr Iuddewon mewn braw a dychryn o herwydd y pethau hyn, dyma gyhoeddiad yn cael ei roddi allan FOD Y MESSIAH WEDI YMDDANGOS! Galwai ei hun yn BAR-COCHAB=*Mab y Seren*, mewn cyfeiriad at brophwydoliaeth Balaam (Num. xxiv. 17). Amgylchid ef â rhyfeddodau; dywedid ei fod yn anadlu fflamau o dân allan o'i enau, y rhai oeddynt i ddifa y gorthrymwyr. Derbyniwyd ef gan y genedl gyda brwdfrydedd; ymunodd y Rabbi Akiba (yr enwocaf o'r Rabbiniaid), â'r mudiaid, yr hwn a eneiniodd Coziba fel Messiah Duw, ac a'i coronodd yn frenin yr Iuddewon. Ymgymmerodd Coziba â rhyddhau yr Iuddewon odditan iau y Rhufeiniaid, a galwodd ar holl had Abraham i gymmeryd rhan yn y rhyfel; a chyn hir, yr oedd ganddo fyddin yn rhifo dau can' mil o wŷr (200,000). Ymneillduodd Coziba a'i fyddin i ddinas yn agos i Jerusalem o'r enw Bither, yr hon a ddewisasai Coziba i fod yn brif-ddinas y deyrnas newydd. Cymmerwyd Bither trwy ruthr gan y Rhufeiniaid, lladdwyd Coziba, a chludwyd ei ben gyda rhwysg i wersyll y Rhufeiniaid. Yn eu siomedigaeth chwerw, newidiodd yr Iuddewon enw Coziba o Bar-cochab (*Mab y Seren*) i Bar-cozba (*Mab y Celwydd*)! (Gwel *Milman's History of the Jews*, Book xviii.: *Dr. Jahn's History of the Hebrew Commonwealth*, Appendix, Book ii.)

Yn awr, pe buasai Crist yn dwyllwr, fe fuasai yn ymddwyn yn debyg

Coziba. Ond yn lle ceisio cael ei gydnabod yn ben daearol y genedl, cawn ef yn gwrthod yr anrhydedd; "Yr Iesu gan hyny, pan wybu eu bod hwy ar fedr dyfod, a'i gipio ef i'w wneuthur yn frenin, a giliodd drachefn i'r mynydd ei hunan yn unig" (Ioan vi. 15). Yn lle codi dysgwyliadau yn ei ganlynwyr am ddyrchafiad bydol, dywedai wrthynt mai gorthrymderau ac erlidigaethau oedd yn eu haros: (Matt. x. 22: xvi. 21: xx. 26—28). Yn lle gweniaithio i benaethiaid y genedl, fel y buasai twyllwr yn gwneyd, condemniai yr Iesu eu rhagrith a'u ffurfioldeb, gan ragfynegi disgyniad barn Duw arnynt (Matt. xv. 1—14: xxi. 43: xxiii.) Yr oedd yr addoliad a ddysgai ef yn addoliad syml ac ysbrydol, yn lle bod fel eiddo y deml yn llawn o rwysg a defodau cnawdol. Yr oedd yr oruchwyliaeth a sefydlai efe i fod yn un gyffredinol, ac nid yn un leol a chenedlaethol, fel yr hen oruchwyliaeth. Collfarnai draddodiadau a llygriadau y Phariseaid, ac ni wnai efe na'i ganlynwyr gydffurfio â'r un o honynt. Pe buasai Iesu Grist yn dwyllwr, fe fuasai yn ceisio clod gan ddynion, ac felly yn ymdrechu eu boddhau, ac nid yn ymddwyn fel y gwnaeth; ond os oedd yr hyn a broffesai, ni allasai ymddwyn yn wahanol. Yr oedd ei ymddygiad bob amser yn gysson â'i ddadganiad o flaen Pilat—*nad oedd ei freniniaeth ef o'r byd hwn* (Ioan xviii. 36).

Nis gallwn ychwaith ganfod dim yn ei ymddygiad a barai i neb feddwl ei fod yn frwdfrydwr *(enthusiast)*, yn llafurio o dan effaith dallineb a rhyfyg, ac heb awdurdod oddiwrth Dduw. Mae penboethiaid wedi bod yn y byd, y rhai a lafurient o dan ddylanwad menydd llygredig, neu gynneddfau meddyliol gweiniaid neu annghyfartal, ac a gredent eu bod yn ysbrydoledig; ond tra yr honent hwy y gallu i gyflawni gweithredoedd Dwyfol yn enw y Goruchaf, ystyriai eu cymmydogion mai y gwallgofdŷ fyddai y lle priodol iddynt. Dangosent yn eu hymddygiad fod rheswm wedi cael ei ddiorseddu, os buont yn wir erioed yn feddiannol arno. Ond nid oedd un arwydd o benboethder o'r fath yma yn nodweddu symmudiadau Crist. Ni ddysgwyd Moeseg mor bur a dyrchafedig erioed a'r hyn a geir yn y Bregeth ar y Mynydd. Pan y gofynwyd iddo yn nghylch cyfreithlondeb talu teyrnged i Cæsar, yr oedd ei ateb yn rhagori ar eiddo doethion y ddaear (Matt. xxi. 15—22). Pan y ceisiai y Saduceaid ei rwydo yn nghylch yr adgyfodiad o feirw, dyrysai efe hwynt gyda gogoniant ei atebiad (Matt. xx. 23—32). Pan yr ymosododd Satan arno yn yr anialwch, ni amlygodd wendidau brwdfrydwr, ond fe ddaliodd ef y cyfrwys yn ei gyfrwysdra. Yr oedd y demtasiwn bob tro wedi cael ei gosod allan mor fedrus, fel ag y buasai brwdfrydedd ac uchelgais penboethyn di-Dduw yn ei lithio i gydffurfio â hi, a thrwy hyny i ddangos gwagder a thwyll ei honiadau; ond gan ei fod ef yn Fab Duw mewn gwirionedd, nid oedd yr un gwendid ynddo i'r gelyn weithio arno (Ioan xiv. 30); ond yr oedd ei atebion yn dallu a dyrysu yr arch-dwyllwr ei hun. Yr oeddynt mor annhraethol briodol, mor gyrhaeddbell, mor derfynol, ac mor gynnwysfawr o ran eu cyssylltiad ag urddas Duw, dyledswydd dyn, a chyssondeb gwirionedd, fel nas gallai Satan sefyll yn eu gwyneb. Yr oedd goleuni doethineb Ddwyfol, a nerth awdurdod Ddwyfol, yn cyd-fyned â hwynt, fel y ciliodd y gelyn ymaith yn archolledig.

Mae penboethiaid yn arfer dangos ysbryd ymladdgar yn ngwyneb

gwrthwynebiad; ond nid felly yr ymddygai Crist. Pan yr anfonai efe ei ddysgyblion allan i bregethu, dysgai hwynt i ymddwyn fel ŵyn o ran diniweidrwydd, ac i iachau clefydau yn rhad (Matt. x. 7, 8, 16). Pan y teimlai dau o'i ddysgyblion awydd i gael tân o'r nef i ddial ar y Samariaid o herwydd eu culni, ceryddodd yr Iesu hwynt yn llym, gan awgrymu na wyddent o dan lywodraeth pa ysbryd yr oeddynt, ac y byddai y fath farn yn hollol groes i'w neges ef yn y byd: "Canys ni ddaeth Mab y dyn i ddystrywio eneidiau dynion, ond i'w cadw" (Luc ix. 51—56). Pan y rhuthrodd y milwyr i ardd Gethsemane, ni adawai efe i'w ganlynwyr ymladd drosto (Matt. xxvi. 51—54). Nid oedd dim yn holl ymddygiad yr Iesu a dueddai neb i feddwl am eiliad ei fod yn cael ei gludo ymaith gan lifeiriant brwdfrydedd dall a llygredig; ond y mae ei holl hanes yn dangos mai y Duw-ddyn ac Eneiniog y Tad ydoedd, ac Esiamplydd perffaith yr holl hil ddynol.*

3. Mae yr holl Efengylwyr *yn cyduno yn eu tystiolaeth i'w gymmeriad.*

Y maent yn ysgrifenu am yr un Crist, yn holl deithi meddwl, teimlad, ymadroddion, ac ymddygiad, yr hyn a ddengys fod yn rhaid eu bod wedi tynu eu darlun oddiwrth berson gwirioneddol. Darluniant ef fel un llawn o gydymdeimlad â'r rhai gorthrymedig; un addfwyn a llariaidd tuag at y rhai diddichell, ond llym a cheryddol tuag at dwyllwyr a rhagrithwyr; un cymmwynasgar a hunanymwadol, yr hwn a elai o amgylch gan wneuthur daioni; ac yn un ag oedd yn feddiannol ar y tynerwch mwyaf a'r tosturi dyfnaf tuag at blant dynion. Desgrifiant ef fel un gwrol ac amyneddgar yn yr amgylchiadau mwyaf profedigaethus, ac yn nghanol y dyoddefiadau mwyaf llymion a chwerwon. Mae'n wir iddo dywallt dagrau wrth fedd Lazarus, ond dagrau cydymdeimlad oeddynt. Mae'n wir iddo wylo wrth edrych ar Jerusalem o ddisgynfa mynydd yr Olewydd, ond wylo fel dyngarwr yn y rhagolwg ar ei dinystr yr oedd,—ac fel gwladgarwr yn y rhagolwg ar oresgyniad ei wlad,—ac fel y Gwaredwr tosturiol, yn y rhagolwg ar golledigaeth eneidiau, y rhai a ddibrisient ddydd yr iachawdwriaeth! Yr oedd ei ddoethineb yn mhob peth yn synu nef a daear. Ni allodd ei elynion mewn un engraifft ei faglu, ond dyrysai efe eu holl gynllwynion trwy uniondeb ei ymddygiad a doethder ei ymadroddion. Ni

* Napoleon, on the Rock of St. Helena, addressing General Bertrand, said:—"I know men, and I tell you Christ was not a man. Everything about Christ astonishes me. His spirit overwhelms and confounds me. There is no comparison between him and any other being. He stands single and alone. Alexander, Cæsar, Charlemagne, and I have founded empires. But on what rest the creations of our genius? On force. Jesus alone founded his kingdom on love; and at this hour millions of men would die for him."

Yes; millions of the most enlightned, the noblest and the best of men, have freely died, and millions are now ready to die for the name of Jesus; while hardly one would lay down his life for Alexander, or Cæsar, or Napoleon, for Socrates or Plato.—*History of the Christian Church, from the Birth of Christ to the Reign of Constantine.* By P. Schaff, D.D., pp. 57, 58.

wnaeth yr un camgymmeriad erioed. Cyflawnodd ei wyrthiau, a chyhoeddodd ei Fessiayddiaeth, a dysgodd ei athrawiaethau yn ngwydd digon o dystion i gadarnhau y gwirionedd, ond cadwodd hwynt o'r ochr arall yn ddigon annghyhoedd, i beidio cyffroi y bobl a chynnyrchu drwgdybiaeth y llywodraeth Rhufeinig. Yr oedd ei dduwioldeb yn berffaith, a'i santeiddrwydd mor bur ag eiddo Duw ei hun. Nid oedd ganddo bechod i'w gyffesu, nac anwiredd i ofyn maddeuant o hono. Ni allodd neb arall wrthsefyll temtasiynau Satan; ond ni lwyddodd y diafol yn ei ymosodiadau arno ef. "Yr hwn ni wnaeth gam, ac ni chaed twyll yn ei enau." Cyflawnodd weithredoedd y rhai na allai neb ond y Duw-ddyn eu cyflawni. Mae y fath eithafoedd gwrthgyferbyniol yn ei hanes,—llarieidd-dra yr Oen, a llymdra brawychus y Barnwr cyfiawn; lludded a gwendid, a nerth hollalluogrwydd; newyn a thlodi, a chyfoeth Dwyfol;—y rhai nas gellir eu deall na'u hesbonio ond ar dir gwirionedd y Beibl, ac yn ol yr athrawiaeth fod Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Rhaid fod y person rhyfeddol hwn wedi bodoli a phreswylio ar y ddaear megys ag y desgrifir ef gan yr Efengylwyr. Buasai ysgrifenu y fath hanes yn anmhossibl i ddyn heb fod y gwrthddrych gwirioneddol o flaen y meddwl, fel yr addefa hyd y nod yr anffyddiwr Rousseau ei hun. Os ymddangosodd Crist fel y desgrifir ef, rhaid ei fod yr hyn a broffesai, ac o ganlyniad fod yr holl Ysgrythyr wedi cael ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw.*

## III. Yr oedd cyflwr a chymmeriad Ysgrifenwyr y Testament Newydd y fath ag i argraffu ar ein meddyliau argyhoeddiad o wirionedd eu tystiolaeth, a Dwyfoldeb eu cenadwri.

1. *Yr oedd amgylchiadau eu dygiad i fyny yn eu hannghymhwyso i gynnyrchu y fath lyfr a'r Testament Newydd.*

Yr oeddynt yn ddynion anllythyrenog (oddieithr Luc a Phaul), heb gael manteision athrofaol yr Iuddewon, ac yn meddu rhagfarn cenedlaethol cryf. Cydnabyddai eu gelynion mai rhai anllythyrenog oeddynt. (Act. iv. 13.) Galwai Celsus (A.D. 161—180), y Cristionogion yn "sect o ffyliaid anwybodus." Eto, fe ysgrifenodd y dynion hyn yr hyn sydd yn annhraethol ragori ar holl gynnyrchion athroniaeth baganaidd; nid yw doethion Groeg a Rhufain yn ymddangos ond fel plant anwybodus yn ymyl pysgotwyr Galilea.

Yr oedd y grefydd a ddysgent yn bur ac ysbrydol, ac nid fel eiddo y Phariseaid yn beichio dynion â thraddodiadau ffol a llygredig, a'u llwytho â defodau cnawdol a diles.

* *Dr. Barrows's Introduction to the Study of the Bible,* part i. chap. iv. § S. *Paley's Evid.* Part ii. chap. v. *Dr. Dewar's Divine Revelation. Faber's Difficulties of Infidelity,* Sect. vi.

Yr oedd ei gwahoddiadau grasol yn cael eu cyfeirio at bawb, a'r iachawdwriaeth a ddadguddiai yn cael ei chynnyg yn rhad i'r holl genedloedd, heb i ddim o ragfarn na dall-bleidiaeth yr Iuddew yn erbyn pawb ond ei genedl ei hun ddyfod i'r golwg; ac er hyrwyddo amcan mawr yr efengyl, yr ydym yn cael fod yr apostolion yn barod i ddyoddef a marw, yn hytrach na bradychu eu Blaenor, a gwadu eu tystiolaeth.

Nid oes modd cyfrif yn foddhaol am y ffeithiau hyn ond trwy dderbyn eglurhad ysgrifenwyr y Testament Newydd eu hunain, sef *fod y grefydd a ddysgent i'r byd yn Ddwyfol, a'u hysgrifeniadau yn cael eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw.*

2. *Nid ydym yn canfod un tebygolrwydd eu bod yn cael eu cludo ymaith gan ddallineb penboethni.*

Ni orchfygwyd eu rhagfarn ar y cyntaf, ond trwy argyhoeddiad trwyadl o ogoniant Crist, fel y canfyddwn yn hanes Nathanael. (Ioan i. 46.)

Buont am dair blynedd o dan ddysgeidiaeth Crist, yn cael eu hegwyddori a'u cyfarwyddo yn ei athrawiaethau a deddfau ei deyrnas.

Ni chredent adgyfodiad yr Iesu hyd nes y gorchfygwyd hwynt gan lu o brofion sicr a diymwad. (Marc xvi.)

Hyd y nod ar ol ei adgyfodiad, yr ydym yn cael eu bod yn anfoddlon i gredu yn *ysbrydolrwydd* (Act. i. 6.) a *chyffredinolrwydd* ei deyrnas. (Act. x. 13, 14, 28; xi. 2, 19.)

Nid ymddygiad penboethiaid yw ymddygiad fel hyn, ond ymddygiad dynion gofalus i beidio derbyn na chredu dim ond gwirionedd.

3. *Nid oeddynt yn celu eu gwendidau eu hunain, nac eiddo eu brodyr.*

Weithiau yr ydym yn eu clywed yn dadgan eu *siomedigaeth.* "Yr oeddym ni yn gobeithio mai efe oedd yr hwn a waredai yr Israel." (Luc xxiv. 21.) Cyffesant fod un o honynt wedi *gwadu* ei Feistr (Mat. xxvi. 69, 70); fod dau o honynt—Paul a Barnabas, wedi *annghytuno* (Act. xv. 39); a bod Pedr wedi *rhagrithio.* (Gal. ii. 10—14.) Felly hefyd yr ymddygai ysgrifenwyr yr Hen Destament. Cofnoda Moses ei fyrbwylldra pan y tarawodd y graig yn Meribah. (Num. xx. 7—12.) Cyffesa Dafydd ei bechodau gyda dagrau heilltion a gofid chwerw. (Salm xxxii. 3—5: li. 3, 4: 2 Sam. xii. 13.) Traetha Jonah am ei anufydd-dod ei hun i Dduw, a'i rwgnachrwydd yn

erbyn ei drefn. (Jonah i. 2, 3, iv.) Dysgant nad oedd Abraham, tad y ffyddloniaid, a gwreiddyn y genedl Iuddewig, yn yr hwn yr ymffrostiai yr Israeliaid, yn rhydd oddiwrth ei wendidau. (Gen. xx. 2, 9—13.) Mae yr engreifftiau hyn yn dwyn yr argyhoeddiad gyda hwynt, mai unig amcan yr ysrifenwyr oedd gosod allan y gwirionedd.

4. *Gosodent bethau allan mewn modd anffafriol iddynt eu hunain, ac mewn dull ag oedd yn agored i wrthwynebiad gelynion.*

Dywedent mai i'r *dysgyblion yn unig* yr ymddangosodd Crist ar ol ei adgyfodiad; yn awr, ni fuasent yn traethu hyn, pe buasai rhywbeth heblaw gwirionedd mewn golwg ganddynt. Sylwer hefyd ar yr adroddiadau canlynol :—

"O hyny allan llawer o'i ddysgyblion ef a aethant yn eu hol, ac n rodiasant mwyach gydag ef." (Ioan vi. 66.) "Ac ni allai efe yno wneuthur dim gwyrthiau, ond rhoi ei ddwylaw ar ychydig gleifion, a'u hiachâu hwynt." (Marc vi. 5.) "Ac efe a ddywedodd wrth un arall, Dilyn fi. Ac yntau a ddywedodd, Arglwydd, gad i mi yn gyntaf fyned a chladdu fy nhad. Eithr yr Iesu a ddywedodd wrtho, Gad i'r meirw gladdu eu meirw; ond dos di a phregetha deyrnas Dduw." (Luc ix. 59, 60.)

Mae yr hanes hwn am Grist, a'r geiriau hyn o'i eiddo, yn ymddangos ar yr olwg gyntaf, megys yn gosod Crist allan mewn goleu anffafriol, fel pe buasai yn colli ei afael ar y bobl, ac yn analluog bob amser i ddefnyddio ei allu gwyrthiol i'r dybenion goreu, ac yn rhoddi ateb caled i ddyn ag oedd yn teimlo yn dyner tuag at ei dad ymadawedig.

Mae y fath engreifftiau yn brawf o onestrwydd yr ysgrifenwyr; ni fuasent yn cofnodi y pethau hyn pe buasai ganddynt unrhyw amcan mewn golwg heblaw cofnodi y gwirionedd.

4. *Er eu bod yn cael eu herlid, eto annogent y credinwyr i ymostwng i'r awdurdodau gwladol.*

Yr oedd Paul yn dysgu y Rhufeiniaid i ymostwng i'r awdurdodau gwladol, a Phedr yn annog y Cristionogion erlidiedig yn Asia Leiaf i anrhydeddu y llywodraeth. (Rhuf. xiii. 1. 1 Pedr ii. 13, 14). Yr oeddynt yn gyfeillion trefn a heddwch, ac yn cael eu llywodraethu gan ysbryd maddeugar tuag at eu gelynion.

5. *Yr oeddynt yn hunanymwadu yn mhob peth, ac yn dyoddef erlidigaeth yn llawen er mwyn Crist.*

"Goddef yr ydym bob peth, fel na roddem ddim rhwystr i efengyl Crist." "Mi a ymwneuthum yn bob peth i bawb, fel y gallwn yn hollol gadw rhai ('fel, drwy bob modd, y gallwn achub rhai.'—J. W)." "A hwy a aethant allan o olwg y cynghor yn llawen, am eu cyfrif hwynt yn deilwng i ddyoddef anmharch o achos ei enw ef." (1 Cor. ix. 12, 22. Act. v. 41).

Nid oedd eu hymddygiad ond ffrwyth eu ffydd yn y gyfundrefn a ddysgent i'r byd: dengys onestrwydd eu dybenion, tegwch a chywirdeb eu hysgrifeniadau, a'u bod yn cael eu llywodraethu gan y gwirionedd yn unig, ac mai y gwirionedd yn unig a ddysgent i ereill.

IV. Cyssondeb a chyd-darawiad anfwriadol y Beibl.

Mae y Beibl yn berffaith gysson âg ef ei hun yn ei arddangosiad o ffeithiau, o gymmeriad Duw, o'r prophwydoliaethau am y Messiah a'i hanes, o gymmeriad dyn, o ddrwg pechod, o athrawiaeth yr Iawn, o'r anghenrheidrwydd am ailenedigaeth a santeiddiad y galon, ac o angeu, barn, a sefyllfa ddyfodol.

Yn awr, y mae hyn yn brawf o wirionedd y Beibl fel gair Duw. Gwneir ef i fyny o ysgrifeniadau gwahanol ddynion, wedi cael eu hysgrifenu mewn gwahanol wledydd, a'r ysgrifenwyr yn perthyn i bob dosbarth o gymdeithas, ac o wahanol gyrhaeddiadau a galluoedd naturiol, ac yn byw mewn gwahanol oesoedd trwy gyfnod o yn agos i ddwy fil o flynyddoedd, a'r cyfan yn cydgordio yn eu tystiolaeth hanesyddol, a'u dysgeidiaeth athrawiaethol! Y mae yr un argraff o Ddwyfol ddoethineb ac awdurdod ar y cwbl.

Ni oddef ein terfynau i ni ddwyn yn mlaen engreifftiau er egluro yr hyn a ddywedir uchod am gydgordiad hanesyddol ac athrawiaethol y Beibl; chwilied y darllenydd y Beibl ar y pethau a ddywedir, a chaiff weled eu gwirionedd; ac ni fyddai yn anfuddiol iddo weithio yr awgrymiadau uchod allan, a threfnu (*classify*) dysgeidiaeth y Beibl ar wahanol bynciau er ei gyfarwyddyd a'i adeiladaeth ei hun. Gall gael cymhorth at hyny yn *Dr. Angus's Bible Hand-Book*, part 1, chap. iii. § 4, ac yn *Birks's Bible and Modern Thought*, chaps. xvii., xviii. Ni chawn yma ond nodi ychydig o bethau neillduol, a'r rhai hyny yn benaf yn ymwneyd â'r Testament Newydd.

1. *Engreifftiau o gyssondeb yr Efengylwyr yn eu desgrifiad o gymmeriad Crist.*

Desgrifia yr Efengylwyr ef fel yn *tynu ei athrawiaeth oddiwrth yr achlysur.*

Mat. xii. 47—50. Pan yr oedd ei fam a'i frodyr yn ei geisio, dywedai mai *ei fam a'i frodyr ef oedd y rhai a wnaent ewyllys Duw.*

Mat. xvi. 5, 6. Pan yr annghofiasai ei ddysgyblion gymmeryd bara, dywedodd, "*Ymogelwch rhag surdoes y Phariseaid a'r Saduceaid.*"

Marc x. 13—15. Pan y dygasai rhai blant bychain ato, dywedodd, "*Pwy bynag ni dderbynio deyrnas Dduw fel dyn bach, nid a efe i mewn iddi.*"

Luc xi. 27, 28. Pan y cyhoeddasai gwraig yn y dorf ddedwyddwch ei fam ef, dywedodd, "*Yn hytrach gwyn fyd y rhai sydd yn gwrandaw gair Duw, ac yn ei gadw.*"

Ioan vi. 27. Pan yr oedd y tyrfaoedd yn ei ganlyn o herwydd ei fod yn eu porthi hwynt â'i allu gwyrthiol, dywedai wrthynt, "*Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, eithr am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol.*"*

2. *Cydunant hefyd y neu desgrifiad o neillduolion ereill perthynol i'r Arglwydd Iesu :* megys,—

*a*,) Ei waith yn *dysgu trwy ei ymddygiad* (*by action*). Er engraifft, yn ei waith yn gosod bachgenyn yn nghanol y dysgyblion, ac yn golchi traed ei ddysgyblion, er dysgu gostyngeiddrwydd iddynt. (Mat. xviii. 1. Ioan xii. 3).

*b*,) Ei waith yn *ymneillduo o'r dorf pan oedd perygl terfysg.* (Mat. xiv. 22. Luc v. 15, 16. Ioan v. 13, vi. 15).

*c*,) Ac yn ei waith yn *arddangos yr un dystawrwydd* (*reserve*) *gyda golwg ar ei gymmeriad ei hun*, gan adael i ddynion gasglu oddiwrth hi weithredoedd beth oedd ei gymmeriad, yn hytrach nag oddiwrth ei waith ef yn cyhoeddi hyny. (Mat. xvi. 20. Marc iii. 11. Luc iv. 41. Ioan x. 24, 25.)

3. *Engreifftiau o gyd-darawiadau anfwriadol yn yr Ysgrythyr.*

Mat. viii. 14: "A phan ddaeth yr Iesu i dŷ Pedr, efe a welodd *ei chwegr ef* yn gorwedd, ac yn glaf o'r cryd."

Mat. viii. 16: "Ac wedi *ei hwyrhau* hi, hwy a ddygasant ato lawer o rai cythreulig," &c.

1 Cor. ix. 5: "Onid oes i ni awdurdod i arwain o amgylch *wraig*—megys ag —*i Cephas.*"

Marc i. 21, 32: "A hwy a aethant i mewn i Capernaum ; ac yn ebrwydd *ar y dydd Sabbath* wedi iddo fyned i mewn i'r Synagog, efe a athrawiaethodd. Ac wedi iddi *hwyrhau*, pan fachludodd yr haul, hwy a ddygasant ato yr holl rai drwg eu hwyl," &c.

Mae Marc, trwy ein hysbysu mai *y dydd Sabbath* ydoedd, yn

* *Paley's Evidences*, part ii. chap. iv.

egluro paham y mae Matthew yn son am yr hwyr, gan fod parch i'r Sabbath yn eu hattal i fyned yn gynt. Darfyddai y Sabbath gyda machludiad yr haul. (Lef. xxiii. 32).

| | |
|---|---|
| Mat. xxvi. 67, 68: "Ereill a'i tarawasant ef â gwiail, gan ddywedyd, Prophwyda i ni, O Grist, pwy yw yr hwn a'th darawodd?" | Luc xxii. 64: "Ac *wedi iddynt guddio ei lygaid ef*, hwy a'i tarawasant ef ar ei wyneb, ac a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Prophwyda, pwy yw yr hwn a'th darawodd di." |

Nid yw Matthew yn rhoddi rheswm dros y cais i Grist brophwydo, ond y mae Luc yn ei egluro, trwy ddweyd eu bod wedi rhoddi gorchudd ar ei lygaid ef.

| | |
|---|---|
| Marc xv. 43: "Daeth Joseph o Arimathea, cynghorwr pendefigaidd, yr hwn oedd ei hun hefyd yn dysgwyl am deyrnas Dduw; ac wedi *cymmeryd calon*, efe a aeth i mewn (τολμήσας εἰσῆλθε) at Pilat, ac a ddeisyfodd gorph yr Iesu." | Ioan xix. 38: "Ac ar ol hyn, Joseph o Arimathea (yr hwn oedd ddysgybl i'r Iesu, *eithr yn guddiedig, rhag ofn yr Iuddewon*), a ddeisyfodd ar Pilat gael tynu i lawr gorph yr Iesu." |

Buasai yn ymddangos yn aneglur i ni oddiwrth yr hyn a ddywed Marc, paham y darlunia waith Joseph yn ceisio corph yr Iesu, fel prawf o *wroldeb* ynddo, gan nas gellid tybied y buasai Pilat yn gomedd, ac yntau wedi bod yn anewyllysgar i gondemnio yr Iesu; ond y mae Ioan yn taflu goleu ar leferydd Marc, pan y dywed mai dysgybl ofnus oedd Joseph wedi bod.

| | |
|---|---|
| Ioan xviii. 10: "Simon Pedr gan hyny a chanddo gleddyf, a'i tynodd ef ac a darawodd was yr archoffeiriad, ac a dorodd ymaith ei glust ddehau ef; ac enw y gwas oedd Malchus." | Ioan xviii. 36: "Pe o'r byd hwn y byddai fy mreniniaeth i, fy ngweision i a ymdrechent fel na'm rhoddid i'r Iuddewon: ond yr awr hon nid yw fy mreniniaeth i oddi yma." |

Mae y ddwy adnod hyn, ar yr olwg gyntaf, yn ymddangos yn wrth-darawol; Pedr yn ymladd, a'r Iesu yn dweyd mai teyrnas ysbrydol oedd ei deyrnas ef, ac oblegyd hyny nad oedd ei ganlynwyr ef yn ymladd. Paham na fuasai Malchus yn ei ateb, eu bod wedi ymladd? Yr oedd yn well tewi am hyny, o herwydd y wyrth a gyflawnasid (Luc xxii. 51), rhag ofn i hono argyhoeddi y llys am ardderchowgrwydd gallu a chymmeriad yr Iesu; ond y mae yr Iesu yn cydnabod fod y dysgyblion wedi dechreu ymladd, ac mai efe a'u hattaliodd, fel y dengys y cyfieithiad canlynol o Ioan xviii. 36, yr hwn sydd yn dwyn allan rym (*force*) yr *imperfect tense*;*—"Pe o'r byd hwn

* *Kuhner's Greek Grammar*, § 256. 3. *Rem.* 2. *Winer*, Part iii. § xi. 3. *b.* *T. S. Green's Grammar of the New Testament Dialect*, pp. 13, 14.

y buasai fy mreniniaeth i, fe fuasai fy ngweision i yn parhau i ymdrechu (ἂν ἠγωνίζοντο) fel na fuaswn yn cael fy nhraddodi i'r Iuddewon."

Rhuf. xv. 25, 26: "Ac yr awr hon *yr wyf fi yn myned i Jerusalem, i weini i'r saint.* Canys rhyngodd bodd i'r rhai o Macedonia ac Achaia wneuthur rhyw gymhorth i'r rhai tlodion o'r saint sydd yn Jerusalem."

Act. xx. 3: "Ac wedi aros dri mis, a gwneuthur o'r Iuddewon gynllwyn iddo, *fel yr oedd ar fedr morio i Syria*, efe a arfaethodd ddychwelyd trwy Macedonia."

Act. xxiv. 17: "Ac ar ol llawer o flynyddoedd y daethum i *wneyd elusenau i'm cenedl, ac offrymau.*"

Fe welir oddiwrth Rhuf. xv. 25, 26, a'r Act. xx. 1—3, fod Paul yn *bwriadu* myned i Jerusalem; ond ni sonir dim yn Act. xx., am y casgliad i'r saint tlodion yn Jerusalem; ond yn Act. xxiv. 17, fe geir cyfeiriad at amcan ei ymweliad â Jerusalem, yr hyn sydd yn hollol gyd-daraw â'i eiriau yn y llythyr at y Rhufeiniaid; ond y mae y cyd-darawiad yn ymddangos yn hollol *anfwriadol*, ac felly yn cryfhau ein ffydd yn ngwirionedd yr Ysgrythyr.

2 Tim. iii. 15: "Ac i ti *er yn fachgen wybod yr Ysgrythyr lan*, yr hon sydd abl i'th wneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu."

Act. xvi. 1: "Yna y daeth efe i Derbe ac i Lystra. Ac wele, yr oedd yno rhyw ddysgybl a'i enw Timotheus, *mab i ryw wraig yr hon oedd Iuddewes*, ac yn credu; a'i dad oedd Roegwr."

Mae yr adnod uchod o'r Actau yn taflu goleuni ar yr hyn a ddywed yr apostol am Timotheus; pa fodd y gallasai efe gael ei ddwyn i fyny o'i febyd yn y wybodaeth o Ysgrythyrau yr Hen Destament, oddi eithr fod ei rieni, o un ochr beth bynag, yn Iuddewon, neu yn broselytiaid i'r grefydd hono? Dywed yr Actau mai felly yr oedd; ac eto, y mae y cyd-darawiad rhyngddynt yn ymddangos yn hollol anfwriadol.

2 Bren. xviii. 12—16: "Ac yn y bedwaredd flwyddyn ar ddeg i'r brenin Hezecïah, y daeth Senacherib brenin Assyria i fyny yn erbyn holl ddinasoedd caerog Judah, ac a'u hynnillodd hwynt. A Hezecïah brenin Judah a anfonodd at frenin Assyria i Lachis, gan ddywedyd, Pechais, dychwel oddi wrthyf: dygaf yr hyn a roddych arnaf. A brenin Assyria a osododd ar Hezecïah brenin Judah, dri chant o dalentau arian, a deg ar hugain o dalentau aur. A Hezecïah a roddodd *iddo* yr holl arian a gafwyd yn nhŷ yr Arglwydd, ac yn nhrysorau tŷ y brenin. Yn yr amser hwnw y torodd Hezecïah *yr aur oddiar* ddrysau teml yr Arglwydd, ac *oddiar* y colofnau a orchuddiasai Hezecïah brenin Judah, ac a'u rhoddes hwynt i frenin Assyria."

Esai. xxxi. 1, 2: "Yn yr amser hwnw Merodoch-baladan, mab Baladan, brenin Babilon, a anfonodd lythyrau ac anrheg at Hezecïah: canys efe a glywsai ei fod ef yn glaf, a'i fyned yn iach. A Hezecïah a lawenychodd o'u herwydd hwynt, ac a ddangosodd iddynt dŷ ei drysorau, yr arian, a'r aur, a'r llysieuau, a'r olew gwerthfawr, a holl dŷ ei arfau, a'r hyn oll a gafwyd yn ei drysorau ef: nid oedd dim yn ei dŷ ef, nac yn ei holl gyfoeth ef, a'r nas dangosodd Hezecïah iddynt."

Yn awr, y mae yma wrthddywediad ymddangosiadol; ceir llyfr y Breninoedd yn desgrifio Hezecïah wedi myned yn dlawd, trwy geisio boddloni gwanc Senacherib, a'i anfon i ffwrdd; ond y mae Esaiah yn fuan iawn ar ol hyn (cymharer 2 Bren. xviii. 13, 14, âg Esaiah xxxviii. 1—6, er gweled fod afiechyd Hezecïah yn cymmeryd lle ychydig cyn rhyfelgyrch Senacherib), yn dangos fod gan Hezecïah drysorau yn y fath gyflawnder nes peri iddo ymffrostio ynddynt, a'u dangos gyda chalon falch i genadau brenin Babilon: yr anhawsdra yw cael gwybod pa fodd y gallai feddu y cyfoeth a'r trysorau hyn mor fuan ar ol i'w olud gael ei ddihysbyddu? Y mae brawddeg yn 2 Chron. xxxii. 22, 23, yr hon ni ymddengys ond fel adroddiad damweiniol o'r ffaith, yn symud ymaith yr holl anhawsdra, ac yn egluro y cyfan:—"Felly y gwaredodd yr Arglwydd Hezecïah a thrigolion Jerusalem o law Senacherib brenin Assyria, ac o law pawb ereill, ac a'u cadwodd hwynt oddi amgylch. *A llawer a ddygasant roddion i'r Arglwydd i Jerusalem, a phethau gwerthfawr i Hezecïah brenin Judah; fel y dyrchafwyd ef o hyny allan yn ngwydd yr holl genedloedd.*" Barna Dr. Pye Smith, modd bynag, fod Hezecïah wedi adfeddiannu yr aur a'r arian oddiar Senacherib, mewn canlyniad i'r dinystr yn ei fyddin.—*Discourse on the Interpretation of Prophecy*, p. 20.*

V. Y MAE CYFADDASRWYDD Y FEDDYGINIAETH A DDADGUDDIA Y BEIBL I ANGHENION YSBRYDOL DYN, A'I DDYLANWAD AR Y RHAI A GOFLEIDIANT EI ATHRAWIAETHAU, YN PROFI EI DDWYFOLDEB.

Y mae Cristionogaeth i'r dyn sydd yn bryderus am ei dynged ei hun yn y byd a ddaw, ac yn teimlo ei drueni fel pechadur, yn rhwym o fod yn newydd da o lawenydd mawr, ac yn genadwri y bywyd.

Y mae ei *dadguddiadau* yn rhoddi terfyn ar bob dychymmygion, ac yn rhoddi goleuni eglur ar y dyfodol, ac ar ganlyniadau ymddygiad dyn yn y fuchedd hon; y mae yn cyfarfod â'r teimlad o *euogrwydd* sydd mewn dyn, trwy ei gyfeirio at

* Gwel *Paley's Horæ Paulinæ*, *Birks's Appendix to Paley's Evidences*, and *Professor Blunt's Undesigned Coincidences*, &c., i ba rai yr ydym yn ddyledus am y rhan fwyaf o'r engreifftiau uchod.

*aberth* o anfeidrol deilyngdod, er mwyn yr hwn y mae Duw yn maddeu i bechadur, ac yn gwenu arno; ac i gyfarfod â *hiraeth dyn am anfarwoldeb*, y mae yn addaw bywyd tragywyddol i bob un a gredo yn y Cyfryngwr.

Trwy gredu yr efengyl, y mae dyn yn teimlo ei euogrwydd yn cael ei symmud ymaith; y mae yn cael ei hun yn caru yr hyn a gashâi o'r blaen, ac yn ymhyfrydu yn ewyllys Duw. Y mae yn profi llawenydd ag nas gwyddai am dano o'r blaen; y mae yn canfod fod yr addewidion Dwyfol yn gywir a ffyddlon; gall edrych yn mlaen heb ddychrynu, a chwennych cael bod gyda Christ yn y byd arall; y mae yn teimlo fod gwanc ei enaid am dangnefedd a dedwyddwch yn cael ei foddloni, a llawenycha yn Nuw ei iachawdwriaeth.

Nid yw dyn yn teimlo fel hyn wrth ddarllen unrhyw lyfr, neu gofleidio unrhyw gyfundrefn arall; ac onid yw hyn yn profi fod y feddyginiaeth a osodir allan yn y Beibl yn Ddwyfol, wedi ei bwriadu a'i haddasu gan Greawdwr dyn i iachâu ei glwyfau, adnewyddu ei natur, a'i adferu i ffafr Duw, ac i fwynhau dedwyddwch a gogoniant tragywyddol? *

* Gwel *Dr. Pye Smith's First Lines of Christian Theology*, p. 71.; *Hodge's Outlines of Theology; Dr. Hill's Lectures in Divinity*, vol. i. chap. iii.; *Paley's Evid.* Part. i. chaps. ii.--v. vii.; *Fuller's Gospel its own Witness; Horne's Introd.* vol. i. chap. v.

# PENNOD IV.

## DWYFOLDEB Y BEIBL,-Y PRAWF ALLANOL.

---

## Y CYNNWYSIAD.

I. *Gwyrthiau.—Natur gwyrthiau—Nodweddau gwyrthiau y Beibl—Gwahanol enwau ar wyrthiau—Swynion yr Aipht—Ymosodiad Hume ar wyrthiau.* II. *Prophwydoliaeth—Natur prophwydoliaeth—Neillduolrwydd rhagfynegiadau y Beibl—Amwysedd a thwyll yr Oraclau Paganaidd.* III. *Cadarnhad Cyfieithiadau Henafol a Hanesiaeth Gyffredin o Ffeithiau y Beibl—Y Samaritan Pentateuch—Y Septuagint—Y Cyfieithiad Syriaidd—Tystiolaeth Josephus, Tacitus, Pliny, a Justin Ferthyr.* IV. *Cadarnhad Darganfyddiadau diweddar yn Ninefeh, Moab, a Babilon, o Ffeithiau y Beibl.* V. *Llwyddiant Cristionogaeth yn ngwyneb pob gwrthwynebiad.* VI. *Cadwraeth Llyfrau y Beibl, yn amser Manasseh, Antiochus Epiphanes, a Diocletian, rhag dinystr.*

Mae amrywiol ystyriaethau gyda'u gilydd yn cyfansoddi yr hyn a elwir y Prawf Allanol (*external evidence*) dros Ddwyfoldeb y Beibl; sylwn ar y prif bethau sydd yn gwneyd i fyny yr adran hon o'r prawf dros darddiad Dwyfol Cristionogaeth.

I. Gwyrthiau.

Os honai unrhyw ddyn fod ganddo genadwri oddiwrth Dduw at y byd, fe ddysgwylid yn rhesymol y byddai i ryw arwyddion gael eu gwneuthur er profi hyny, a'r arwyddion hyny yn gyfryw ag nas gellid cyfrif am danynt yn ol trefn naturiol pethau, ond y rhai fyddent uwchlaw pob amheuaeth yn weithredoedd anarferol a goruwchnaturiol Duw, yn cael eu cyflawni er prawf o Ddwyfoldeb cenadwri ei negesydd neillduol at blant dynion.

Pe buasai i berson ymddangos yn mhlith dynion fel dysgawdwr gwirionedd, yr hwn a honai ei fod yn feddiannol ar natur Ddwyfol, fe ddysgwylid yn naturiol y byddai iddo ef

wneuthur gwyrthiau trwy ei nerth cynhenid ei hun, ac nid fel offeryn yn unig yn llaw Duw.

Fel hyn yr ydym yn cael yn y Beibl fod pethau wedi cymmeryd lle. Cenadau Duw at ddynion oedd y prophwydi a'r apostolion; fe brofodd Duw mai efe a'u hanfonasai trwy y gwyrthiau rhyfeddol a gyflawnodd trwy eu hofferynoliaeth. Daeth yr Arglwydd Iesu Grist i'r byd, a phroffesai ei fod yn Fab Duw, ac yn gydradd â'r Tad; ac er prawf o hyny, cyflawnodd wyrthiau yn ei enw a thrwy ei allu neillduol ei hun.

Yr oedd gwyrthiau y Beibl yn dwyn y nodweddau canlynol, yr hyn sydd yn eu gwahaniaethu oddiwrth bob ffug-wyrthiau:—

1. Yr oeddynt *yn agored i ymchwiliad y cyhoedd*, ac nid yn cael eu cyflawni o dan amgylchiadau amheus ac anhawdd cael y gwirionedd o barthed iddynt. (Exod. ix.—xi., Mat. iv. 23—25, viii. 14—16, Ioan ix.—xi. 43—47, Act. iii. iv.)

2. Yr oeddynt *o effaith barhaol.*

Dysgir hyn yn y fath ymadroddion â'r rhai canlynol:—"A'r wraig a iachâwyd o'r awr hono." (Mat. ix. 22.) "A'i merch a iachâwyd o'r awr hono allan." (Mat. xv. 28.) "Mair Magdalen, o'r hon y bwriasai efe allan saith o gythreuliaid." (Marc xvi. 9, Luc viii. 2.) "A'i law ef a wnaed yn iach fel y llall." (Mat. xii. 13.) A'r hyn a ddywedir am waith mam gwraig Pedr yn gwasanaethu ar y gwyddfodolion (Marc i. 31). ac am yr un a fuasai yn wahanglwyfus a'r hwn a fuasai gythreulig yn myned ymaith dan ganmol yr Iesu (Marc i. 45, Luc viii. 39); a'r cyffroad a gymmerodd le ar ol i'r Iesu agor llygaid un a anesid yn ddall, ac adgyfodi Lazarus o feirw (Ioan ix.—xi. 44—57, xii. 1—10), yn nghyda'r sôn a aeth am dano ef yn mhob man. (Mat. iv. 24, xiv. 35, 36. Gwel hefyd Act. ii. 22. iii. 7—9, iv. 14, viii. 33—35, xxviii. 8—10.) Pe na fuasai ei wyrthiau o effaith barhaol, buasai y gwarth cyssylltiedig â hwynt yn rhoddi terfyn buan ar ddylanwad Crist a'i apostolion ar y bobl, ac ar fodolaeth ei achos yn y byd.

Yr oedd rhai o wyrthiau y Beibl o anghenrheidrwydd o fyr barhad o ran eu heffeithiau ar natur, megys agoriad y Môr Coch, toriad ymaith ddyfroedd yr Iorddonen, a'r cyffelyb; ond yr oedd eu heffaith ar feddyliau dynion yn parhau, ac yr

oedd yr adgof am danynt yn cynnyrchu ffydd yn Nuw a diolchgarwch iddo. (Exod. xv. 11—13: Esai. li. 9, 10: Salm lxxviii. 12, 13: lxxxix. 10.

3. Yr oeddynt yn gyfryw ag *nas gallasai y gelynion eu gwrthbrofi.*

Yr oedd rhai o honynt wedi eu rhagfynegi, ac ni allai y gelynion eu hattal; ac ar ol eu cyflawniad, yr oeddynt yn gorfod eu cydnabod fel gweithredoedd goruwchnaturiol o eiddo Duw, gan ofyn iddo ef eu symmud. (Exod. ix. 3—6, 18—24, 28: viii. 19.) Pe buasai modd gwrthbrofi gwyrthiau Crist, buasai yn dda gan ei elynion gael gwneyd hyny; ond nis gallent eu gwadu. (Mat. xii. 24: Ioan ix. 18: xi. 47: Act. iv. 16.)

4. Yr oeddynt *yn cael eu cyflawni i ateb dybenion pwysig;* megys i brofi Dwyfol anfoniad Moses (Exod. iv. 1—8, 30, 31, vii. 9), ac i ddangos fod gan Fab Duw awdurdod i faddeu pechodau (Mat. ix. 6), a'i fod yn anfonedig y Tad (Act. ii. 22. Ioan v. 36, x. 38), ac mai ei genadon ef oedd yr Apostolion (Act. iv. 29, 30. 2 Cor. xii. 12. Heb. ii. 4). Yr oedd y gwyrthiau yn fynych yn ateb dybenion uniongyrchol pwysig, megys agoriad y Môr Coch i waredu Israel, a gwaith Crist yn porthi y miloedd rhag i'w natur lewygu; ond yr amcan mawr yn y cyfan oedd cadarnhau Dwyfoldeb y ddwy oruchwyliaeth. Ni chyflawnid mo honynt i foddhau cywreinrwydd neb, nac i ateb dybenion dibwys, fel y dengys yr ysgrythyrau canlynol:—Mat. xii. 38, 39. Marc viii. 11, 12. Luc xxiii. 8, 9. Ioan ii. 18, 19. 1 Cor. i. 22.

Defnyddir tri o ymadroddion yn y Beibl am wyrthiau, y rhai nid ydynt ond arddangosiad o'u gwahanol agweddau; sef, NERTHOEDD (δυναμεις), am fod nerth Dwyfol goruwchnaturiol yn cael ei amlygu trwyddynt; RHYFEDDODAU (τερατα), am eu bod yn wahanol i redfa naturiol pethau, ac felly yn cynnyrchu syndod yn yr edrychwyr; ac ARWYDDION (σημεια), er gosod allan eu dyben moesol, gan eu bod yn arwydd i ddynion fod bys Duw yn gweithio yn eu plith, a'i fod yn llefaru wrthynt trwy ei genadon. Gelwir gwyrthiau hefyd mewn modd arbenig yn WEITHREDOEDD (Gr. ἔργα—Mat. xi. 2: Ioan vii. 3, 21; xiv. 11, 12: Heb. *poolim*—Salm xcv. 9), fel pe buasai y goruwchnaturiol a'r rhyfeddol yn elfen naturiol i Grist weithio ynddi. Un o'i enwau ef oedd y Rhyfeddol; yr oedd cyfansoddiad ei Berson ef yn ddirgelwch a rhyfeddod; ac yr oedd ei holl

symmudiadau yn cael eu nodweddu gan weithredoedd goruwchnaturiol a chymhwynasau Dwyfol.

Ceir y geiriau "arwyddion a rhyfeddodau" gyda'u gilydd yn y lleoedd canlynol:—Act. ii. 43, iv. 30, v. 12, vi. 8, vii. 36, xiv. 3, xv. 12. Rhuf. xv. 19. Ceir y geiriau "arwyddion a nerthoedd" gyda'u gilydd yn Act. viii. 13. Yn y lleoedd canlynol, cawn y tri gair blaenorol, "nerthoedd, arwyddion, a rhyfeddodau" gyda'u gilydd, y rhai a osodant allan wahanol agweddau gwyrthiau y Beibl, sef fel y maent ynddynt eu hunain (*nerthoedd*), fel yr ymddangosent i ddynion (*rhyfeddodau*), a'r hyn ydynt o ran eu hamcan pwysig (*arwyddion*), gan eu bod yn attegion i'n crefydd, ac yn brawf o'i Dwyfoldeb. (Act. ii. 22. 2 Cor. xii. 12. Heb. ii. 4). Yr oeddynt, ebe John Foster, yn seinio cloch fawr y bydysawd er galw sylw dynion at grefydd y Beibl, a rhoddi prawf o bresennoldeb Duw gyda'i weision, a'i awdurdod i'r athrawiaeth a gyhoeddent. Dangosent awdurdod Crist ar natur, ar ddyn, ar angeu a bywyd, ac ar fodau ysbrydol a bro marwolaeth; gan egluro yr un pryd dynerwch ei galon tuag at blant dynion, a'i ymhyfrydiad yn eu dedwyddwch.

Ceisiwyd diddymu y prawf oddiwrth wyrthiau lawer gwaith. Y cais cyntaf y cawn hanes am dano, oedd eiddo swynwyr yr Aifft. Nid oedd rhyfeddodau y swynwyr ond twyll a ffug, oblegyd fe ddywedir mai "trwy eu swynion" yr oeddynt yn gweithredu, ac ni allent fyned rhagddynt gyda'u rhyfeddodau ond am ychydig. Nis gallwn gredu fod y swynwyr wedi cyflawni un math o wyrth, na'u bod wedi cynnyrchu y rhyfeddodau a briodolir iddynt *mewn modd gwirioneddol*, ond mai ffug a thwyll oeddynt, er eu bod yn ymddangos yn wahanol. Nid yw Exod. vii. 11, lle y dywedir fod "y swynwyr *wedi gwneyd felly* trwy eu swynion," yn cynnwys eu bod wedi troi eu gwiail yn seirph, megys ag y troisid gwialen Moses yn sarph, ond eu bod wedi cynnyrchu yr hyn a debygai i hyny. Cawn yn viii. 18:—"A'r swynwyr a wnaethant felly trwy eu swynion, i ddwyn llau allan, ond ni allasant," lle na olygir mwy na'u bod wedi ceisio gwneyd yr un fath a Moses. Dywed yr hanes yn bendant mai "*trwy eu swynion*" yr oedd y swynwyr yn gweithredu, yr hyn sydd yn dangos nad oedd eu gwaith hwy ond twyll o'r dechreu i'r diwedd. Deillia yr enw a ddefnyddia Moses am swynion (Heb. *lehatim*) o'r ferf להט (*lahat*), yr hon a olyga 1. *llosgi, fflamio;* 2. *plygu i*

*fyny, gorchuddio;* ac yna *dirgel-weithredu er swyno;* ac felly golyga y gair "swynion" eu gwaith yn cynnyrchu rhyw fath o lewyrch er serenu llygaid yr edrychwyr tra fyddent hwy yn dwyn eu hystrywiau yn mlaen, fel na chanfyddid y twyll; a diau eu bod yn yr adeg hon yn dodi seirph yn lle gwialenod.* Edrycher i'r hanes eto. Y mae Moses yn bwrw ei wialen ger bron Pharaoh, a hithau yn myned yn sarph. Y mae Pharaoh yn anfon am y doethion a'r hudolion, ac ar yr un pryd, mae yn ddiamheuol, yn eu hysbysu i ba beth yr oedd eu heisieu, a pha beth a gyflawnasai Moses; yr oedd hyn yn eu gosod ar eu gwyliadwriaeth, ac yn rhoddi amser iddynt i barotoi eu swynion er gwrthweithio dylanwad y wyrth. Dywedir mai trwy eu swynion yr oeddynt hwy yn gweithredu. Nid oedd gan Moses na swynyddiaeth na thwyll. Hawdd y gallasai y swynwyr, mewn amrantiad o'r bron, newid y gwiail am seirph.

"Mae ffeithiau mor hynod, neu yn wir yn fwy felly, yn cael eu cyflawni yn fynych gyda seirph, ac mewn ffyrdd ereill, gan hudolwyr Indiaidd hyd y dydd heddyw. Ië, y mae pethau mwy anhawdd yn cael eu harddangos gan broffeswyr rhodreswaith (*legerdemain*), neu ddewiniaeth yn ein gwlad ein hunain. Diau y byddai yn haws iddynt hwy (y swynwyr) beri i'r Aifftiaid dybied eu bod yn troi eu gwiail yn seirph, nag i hudolwyr yn ein plith ni beri i'r edrychwyr dybied eu bod yn gallu bwyta neu boeri tân, neu lyncu cyllell a chleddyfau, neu droi ŵy yn aderyn prydferth, yn canu yn y modd mwyaf peraidd, ac yna ei drawsnewid drachefn i ŵy; neu eu bod yn gallu dyoddef eu saethu gyda dryll â phelen ynddo, heb dderbyn niwaid. Rhaid i mi dystio, fod rhai o'r pethau hyn yn gofyn llawer mwy o fedr a deheuder nag a fuasai yn anghenrheidiol i alluogi y swynwyr Aifftaidd i dros-osod sarph yn lle ffon yn y fath fodd ag i ddwyn edrychwyr anwybodus ac ofergoelus i feddwl fod y ffon wedi cael ei throi yn sarph."†

Mae y gelfyddyd o ddofi seirph yn cael ei deall mor berffaith yn yr Aifft hyd heddyw, fel yr ânt, ar orchymyn y sarph-swynwyr, yn anystwyth fel ffon, ac yna yn ol i'w ffurf arferol. "Yr ymlusgiad a elwir y sarph Haje yw yr un y mae swynwyr Cairo yn gwybod oreu pa fodd i'w llywodraethu; y maent yn ei dofi, ac yn dysgu iddi lawer o gampau rhyfedd; gallant, fel y dywedant, *droi yr Haje yn ffon*, a pheri iddi ymddangos megys pe buasai wedi marw." Mae y gelfyddyd o swyno seirph yn arosol mewn rhai teuluoedd. Mae y seirph-

* Gwel Eiriaduron Hebraeg Gesenius a Parkhurst.

† Y Parch. Walter Scott, yn y *Congreg. Lect. on the Existence and Agency of Evil Spirits*, p.p. 219, 220.

swynwyr yn teithio, yn niferi lliosog, drwy drefi a phentrefi, gan hudo, trwy wahanol ffyrdd, y seirph ag ydynt yn llochesu yn nirgel-leoedd y tai, a'u dal trwy wahanol ddichellion. Y maent mor ddiogel rhag eu brathiad, fel y maent nid yn unig yn gadael iddynt ymlusgo o amgylch eu cyrph, ond hyd y nod yn eu cynhyrfu i ddigllonedd. Pryd nad ydynt yn eu canfod â'u llygaid, y maent yn eu harogli, trwy fod y seirph yn anfon allan sawyr mor gryf. Dilyna y seirph hefyd y seiniau a ddefnyddia y swynwyr i'w hudo.

"Gan fod y sarph yn ceisio y lle tywyllaf i ymguddio ynddo, rhaid i'r sarph-swynwr, y rhan fynychaf, arfer ei fedrusrwydd mewn ystafell dywell, lle y gall yn hawdd dynu sarph o'i fynwes, ei dwyn allan i'r bobl o'r tu allan i'r drws, a sicrhau ei fod wedi ei chanfod yn yr ystafell; oblegyd nid â neb i mewn i'w ganlyn ar ol iddo ef sicrhau fod un o'r creaduriaid hyn tu mewn. Ond rhaid iddo yn fynych weithredu yn nghanol goleuni dydd, yn amgylchynedig gan edrychwyr; a llawer gwaith y darfu i bersonau amheus ei chwilio yn mlaen llaw, ac hyd yn nod ei ddiosg yn noeth, ond eto, byddai ei lwyddiant yn gyflawn. Cymmer arno ei fod yn ymwneyd â dirgeledigaethau; tarawa y mur gyda ffon fechan; chwibana, gwna glwcian â'i lais, a phoera ar lawr, ac yn gyffredin dywed: 'Yr wyf yn dy dynghedu, trwy Dduw, os wyt i fyny, neu os i lawr yr wyt, ar i ti ddyfod allan: yr wyf yn dy dynghedu trwy yr enw mwyaf goruchel, os wyt yn ufydd, ar i ti ddyfod allan; os wyt yn anufydd, bydd farw! bydd farw! bydd farw!' Mae y sarph, yn gyffredin, yn cael ei thynu ganddo â'i ffon o agen yn y mur, neu yn syrthio o nenfwd (*ceiling*) yr ystafell. Clywais ef yn cael ei haeru lawer gwaith (ebe Lane, o waith yr hwn, *Modern Egypt*, ii. p. 230, y dyfynir), fod y sarph-swynwr, cyn yr â i mewn i dŷ yn yr hwn y mae i arfer ei fedrusrwydd, bob amser yn defnyddio gwas y tŷ hwnw i ddwyn un neu ychwaneg o seirph i mewn; ond yr wyf yn gwybod am amgylchiadau, pryd na allasai hyn fod; a thueddir fi i gredu fod y derwysiaid (*darweeshes*) crybwylledig yn gyffredin, yn adnabyddus â rhyw foddion naturiol i wybod am bresennoldeb seirph, er nad ydynt yn eu gweled, ac i'w swyno o'u hamguddfeydd."*

Dyfynwn y tystiolaethau hanesyddol hyn i ddangos nad oes dim yn afresymol yn y golygiad a roddwn ar orchestion y swynwyr.

Yr un modd y gallent trwy eu swynion serenu llygaid yr edrychwyr, a newid lliw y dwfr, neu newid y dwfr a droisid yn waed am ddwfr arall a gawsid trwy gloddio yn y ddaear (Exod. vii. 24), oblegyd fe ddywedir yn bendant mai "*trwy eu swyn-*

* *Dr. Kalisch's Historical and Critical Commentary on the Old Testament.* (Exod. vii. 12).

*ion*" y gwnaethant (Exod. vii. 22). Felly hefyd y gallent yn hawdd ddwyn llyffaint, gan fod y wlad yn orlawn o honynt eisioes (Exod. viii. 6); ac yr oedd Pharaoh yn rhoddi yr esboniad mwyaf ffafriol ar yr hyn oll a broffesai y swynwyr ei gyflawni.

O'r diwedd, mae trysorfa eu swynion yn darfod, ac ni allant efelychu Moses mwyach (Exod. viii. 18, 19). Dichon eu bod yn blino ar y gwaith o wrthwynebu Moses, gan fod gwyrth ar ol gwyrth yn dilyn; ac mae yn ymddangos hefyd, fod eu cyfrwysdra wedi cael ei ddihysbyddu, ac nad oes ganddynt ond rhoddi yr ymdrech i fyny, a chydnabod fod Duw yn gweithio trwy Moses, yr hyn, gyda llaw, sydd yn *cynnwys cyfaddefiad mai trwy eu swynion eu hunain yr oeddynt hwy yn ceisio ei efelychu.**

Tua chanol y ganrif ddiweddaf, gwnaed ymosodiad egniol ar wyrthiau y Beibl gan David Hume, yr hanesydd a'r anffyddiwr. Gellir crynhoi gwrthddadl Hume i'r hyn a ganlyn:—"Mae ein holl ymresymiad ni yn nghylch ffeithiau yn sylfaenedig ar gyssylltiad achos ac effaith; y modd yr ydym i ddyfod i wybod beth yw y cyssylltiad sydd rhwng achos ac effaith yw trwy brofiad; ni all rheswm yn annibynol ar gymhorth profiad dynu gwir gasgliad gyda golwg ar fodolaeth ffaith; mae ein crediniaeth yn ngwirionedd tystiolaeth arall yn ymddibynu ar ein profiad, neu y sylw a gymmerwn o wirionedd tystiolaeth ddynol; os tystiolaetha un i ni am bethau rhyfedd a gwyrthiol, y rhai na welwyd eu bath yn y wlad neu o fewn yr oes yn yr hon yr ydym yn byw, y mae ein profiad o bethau yn llefaru yn erbyn y cyfryw dystiolaeth ac yn ei dirymu. Mae gwyrth yn drais ar ddeddfau natur; mae profiad yn dangos fod y deddfau hyn yn sefydlog a digyfnewid; mae hyn yn brawf o'r fath gadarnaf yn erbyn gwyrth, ac ni all un prawf oddiwrth unrhyw fath o dystiolaeth byth wneyd gwyrth yn gredadwy." Adgrynhoa Dr. Paley ei wrthddadl i'r frawddeg ganlynol,—"Mae yn groes i brofiad i wyrth fod yn wirioneddol; ond nid yw yn groes i brofiad i dystiolaeth fod yn dwyllodrus."

Gwna yr ystyriaethau canlynol symmud yr anhawsdra a geisia Hume daflu ar ein ffordd, a dangos gwrthuni a gwendid ei ymosodiad ar wyrthiau y Beibl.

1. *Y mae ei ddarnodiad o wyrth yn annghywir.*

Nid trais ar ddeddfau natur ydyw gwyrth, ond gwaith Rhoddwr y deddfau hyn yn attal eu gweithrediad dros amser, neu yn gweithredu yn annibynol arnynt neu uwchlaw iddynt, er ateb ei amcanion neillduol ei hun.

2. *Mae ei ymresymiad yn sylfaenedig ar y dyb fod y byd o dan lywodraeth tynged.*

* Gwel nodiadau rhagorol *Dr. Wardlaw, Systematic Theology*, vol i., pp. 331–338.

A yn mlaen gan gymmeryd yn ganiatâol na all neu na wna y Creawdwr gyfnewid dim ar y deddfau a sefydlodd efe ei hun. Ni all neb ag sydd yn credu yn modolaeth Duw, fel y Duw byw a Llywydd y byd, goleddu y fath syniad. Awgryma rheswm y gall ac y gwna y Duw hwn newid ei ddull arferol o weithredu, pan y bydd amcanion mwy pwysig yn cael eu hateb trwy hyny, na thrwy adael pethau yn y drefn arferol.

3. *Nid yw pob tystiolaeth yn annheilwng o dderbyniad.*

Os oes twyll yn y byd, mae cywirdeb hefyd. Tuedd naturiol dyn yw dweyd y gwir, os na fydd ei natur wedi ei llygru yn alaethus, a rhyw beth yn cael ei ennill ganddo wrth ddweyd anwiredd.

Yr oedd Crist yn beio rhai o'r dysgyblion am annghredu tystiolaeth y lleill o barthed ei adgyfodiad ef. (Marc xvi. 14.) Yr oedd Paul yn edrych ar dystiolaeth canlynwyr Crist fel cadarnhad o'r efengyl. (Heb. ii. 3), a seiliai wirioneddolrwydd adgyfodiad Crist ar dystiolaeth y dysgyblion. (1 Cor. xv. 5–8.) Ar dystiolaeth tystion y gweinyddir barn. (Deut. xix. 15. Heb. x. 28.)

Ni ellir meddwl fod ysgrifenwyr y Beibl a'r Cristionogion cyntefig yn twyllo wrth gofnodi a chyhoeddi y gwyrthiau; mae pob peth yn eu hanes yn ein hargyhoeddi eu bod yn onest a diduedd yn eu tystiolaeth. Ni chelent eu colliadau eu hunain a diffygion eu gilydd; yr oeddynt yn colli eu hawddfyd daearol, a llawer o honynt yn cael eu rhoddi i farwolaeth, o herwydd eu bod yn glynu wrth eu tystiolaeth. Nid marw dros dybiau a dderbyniasent oddiwrth eu hynafiaid yr oeddynt, ond *dros ffeithiau o ba rai yr oeddynt yn llygad-dystion*, yr hyn sydd yn hollol wahanol i bagan, neu Fahometaniad, neu Babydd, yn dyoddef o herwydd ei grefydd yn yr hon y dygwyd ef i fyny.

4. *Yr oedd gelynion Cristionogaeth yn cydnabod bodolaeth gwyrthiau y Beibl.*

Nid oeddynt yn gwadu cywirdeb tystiolaeth y Testament Newydd o barthed iddynt, ond ceisient ddirymu y prawf oddi wrthynt trwy eu priodoli i swynyddiaeth. Dywed y Rabbiniaid Iuddewig, yn y llyfr o'r Talmud a elwir Avoda Zara, mai yr achos fod Iesu yn gallu gwneyd gwyrthiau oedd, am ei fod wedi lladrata yr enw cyssegredig Jehofah o'r deml. Dywed ereill o honynt mai trwy ddewiniaeth yr oedd yn cyflawni ei wyrthiau. Cyfaddefant wirionedd yr hanes efengylaidd, ond priodolant wyrthiau yr Iesu i deyrnas y tywyllwch fel eu hynafiaid. Gwel amryw dystiolaethau o'r eiddynt yn *Paley's Evidences*. Attodiad gan Birks, tudal. 395, 396. Haerai Celsus yn yr ail ganrif fod Crist yn gwneyd gwyrthiau trwy swynion, a'i fod wedi dysgu hyny pan oedd yn yr Aifft. Addefai Porphyry tua chanol y drydedd ganrif, fod canlynwyr Crist yn gwneyd gwyrthiau o herwydd eu tlodi; ond ychwanega nad oedd gwneyd gwyrthiau yn fawr o orchest, gan fod swynwyr yr Aifft yn gallu eu cyflawni yn erbyn Moses. Cwynai Hierocles yn niwedd y drydedd ganrif fod Cristionogion yn ystyried Crist yn Dduw am ei fod yn gallu gwneyd ychydig o wyrthiau, tra nad oedd y paganiaid yn

ystyried Apollonius o Tyana yn dduw er ei fod yn gwneuthur rhyfeddodau.* Dywedai Julian y gwrthgiliwr, Ymerawdwr Rhufain yn y bedwaredd ganrif, nad oedd gwyrthiau Crist yn werth sylw, oddi eithr i un ystyried fod iachâu cloffion a'r rhai cythreulig yn deilwng o gael ei ystyried yn mhlith y gorchestion mwyaf.† Sonia am Paul fel y swynwr a'r twyllwr mwyaf o bawb yn mhob oes.

Yn awr, ni fuasai y rhai hyn yn cydnabod gwyrthiau Crist fel ffeithiau, oni buasai eu bod yn cael eu gorfodi i hyny trwy gydsyniad cyffredinol eu cydoeswyr; ac nid oeddynt hwy mor amheus o dystiolaeth dynion a Hume. Addefent y gwyrthiau, ond ceisient gyfrif am danynt yn eu ffordd eu hunain.

5. *Mae sylw a phrofiad unigolion yn rhy gyfyng i'w cyfiawnhau i wrthod tystiolaeth gredadwy.*

Gall amgylchiad fod yn hysbys i un, pryd na wyr y llall ddim am dano. Mae'n groes i brofiad Indiad i weled dyfroedd Bengal yn rhewi; ni fyddai hyny yn ddigon i'w gyfiawnhau am wrthod tystiolaeth ereill a welsant ddyfroedd Lloegr wedi rhewi. Pan y dechreuodd y gerbydres redeg, yr oedd yn groes i brofiad pob oes a gwlad er dechreu y byd fod y fath deithio cyflym ar y fath egwyddor yn cymmeryd lle. Mae darganfyddiadau diweddar fferylliaeth yn groes i brofiad holl oesoedd y byd; mae y prawfiadau *(experiments)* a wneir a'r canlyniad, yn anamgyffredadwy i'r werin; eto, rhaid credu yr hyn a gymmer le ar sail tystiolaeth ereill.

6. *Mae tystiolaeth gredadwy yn gryfach na'r prawf oddiwrth debygolrwydd.*

Pan y traethir wrthym am ffaith yr hon nad ydyw braidd byth yn dygwydd yn ein golwg ni, a'n bod ninnau yn gwybod trwy sylwi ar lu o ffeithiau ereill gwahanol iddi wedi cymmeryd lle o fewn cylch ein profiad ein hunain, gan fod mewn amgylchiad fel hyn ddau brofiad yn gwrthdaro yn erbyn eu gilydd, dywed Hume y dylem gredu yr hyn y mae mwyaf o brofiad o hono. Ond y mae yn hawdd dychymmygu am ddygwyddiadau, pryd y mae un dystiolaeth gredadwy yn gryfach na mil o dybiau oddiwrth yr hyn a eilw efe profiad.

Mae y gerbydres yn rhedeg trwy y dref er's amser maith; y mae yn dyfod a myned yn rheolaidd a diogel bob dydd trwy'r blynyddau; pe dywedai tystion cyfrifol a chredadwy, fod y gerbydres wedi rhedeg dros linnell y gledrffordd,—fod rhai o'r teithwyr wedi cael eu clwyfo a'u lladd, a'u bod hwy yn llygad-dystion o'r trychineb, fe fyddai tystiolaeth y cyfryw yn gryfach na'r prawf oddiwrth debygolrwydd neu brofiad trwy'r blynyddau.

Dywed Hume y byddai y prawf oddiwrth brofiad yn gryfach na'r prawf oddiwrth dystiolaeth, ac yn ei ddinystrio; hyny yw, gan ein bod yn

* Gwel Attodiad II.

† Gwel *Douglas's Criterion*, tudal 296, 297 (Edition 1757).

gwybod yn sicr fod y *train* wedi rhedeg yn ddiogel filoedd o weithiau, yna fod y tebygolrwydd yn filoedd o weithiau i un yn grytach na thystiolaeth llygad-dystion! Mae llawer llong ar ol ugeiniau o fordeithiau llwyddiannus yn suddo, a dim ond dau neu dri o'r dwylaw yn llwyddo i ddianc; byddai yn ynfydrwydd i annghredu tystiolaeth y tystion hyn o barthed i'w suddiad, os ceid eu bod yn ddynion credadwy, yn unig am fod ugeiniau o engreifftiau o ddychweliad diogel y llong i'w cael yn erbyn un dystiolaeth! Eto, ymresymiad o'r un natur a hwn sydd gan Hume yn erbyn gwyrthiau y Beibl.

7. *Mae Hume yn addef gwirionedd tystiolaeth mewn rhai amgylchiadau (hyd y nod pan yn groes i brofiad), ac felly yn tynu i lawr ei adeilad ei hun.*

"Tybiwch fel hyn (eb efe), fod pob awdwr, yn mhob iaith, yn cytuno fod tywyllwch dros yr holl ddaear am wyth niwrnod, gan ddechreu o'r cyntaf o Ionawr, 1600; tybiwch fod traddodiad o'r dygwyddiad yn parhau yn gryf a bywiog yn mhlith y bobl; fod pob teithiwr ar ei ddychweliad o wledydd ereill, yn dwyn gydag ef hanesion am y cyfryw draddodiad, heb ddim gwahaniaeth nac annghyssondeb; mae'n amlwg y dylai ein hathronyddion presennol, yn hytrach nag amheu y ffaith ei derbyn fel peth diamheuol, a cheisio cael allan yr achosion o honi."

Ond pa ddyben chwilio am yr achosion o honi, gan mai profiad yn unig, eb efe, sydd yn dangos y cyssylltiad sydd rhwng achos ac effaith, ac ni fyddai ganddynt brofiad o beth fel hyn! Yn yr un Traethawd, dywed "Na ddichon un dystiolaeth dros unrhyw fath o wyrth, byth ddangos fod ei bodolaeth yn debygol, llawer llai brofi ei bod wedi cymmeryd lle:—mai profiad yn unig sydd yn rhoddi awdurdod i dystiolaeth dyn:—ac fod gwyrth, yr hon sydd yn cael ei hattegu â thystiolaeth dyn, yn fwy o destyn gwawd nag o ymresymiad!" Ond daw y gwenwyn allan yn y cyssylltiad, er yr addefiad crybwylledig: "Yr wyf yn dymuno sylw at y cyfyngiad hwn (eb efe, sef), pan y dywedaf na ellir profi unrhyw wyrth fel ag i fod yn sail i gyfundrefn newydd o grefydd." "Pe priodolid y wyrth yma i unrhyw gyfundrefn newydd o grefydd, gan fod dynion yn mhob oes wedi cael eu twyllo â chwedlau ynfyd cyffelyb, fe fyddai hyny ei hun yn brawf cyflawn o dwyll, ac yn ddigon gyda phob dyn synwyrol, nid yn unig i beri iddynt wrthod y ffaith, ond ei gwrthod heb ymholi ychwaneg yn ei chylch." Mae crefydd Crist felly i gael ei throi draw gyda *silent contempt*, heb yr un ymchwiliad i'w nhatur a'i phrofion, o herwydd ei bod yn sylfaenedig ar wyrthiau! Swm yr wrthddadl uchod yw hyn,—Gan fod rhai crefyddau yn gyfeiliornus, rhaid fod pob un felly; gan fod rhai dynion celwyddog yn y byd, nid oes neb geirwir i'w gael: gan fod llawer o dduwiau gau yn y byd, nid oes yr un gwir Dduw yn bodoli; a chan fod dynion wedi proffesu cyflawni gwyrthiau, y rhai nad oeddynt ond ffug, yna nid oedd gwyrthiau Moses a'r prophwydi, Crist a'i apostolion, ond ffug hefyd!

Ond nid yw ymosodiadau o'r fath yma ar wyrthiau y Beibl, ond engraifft adnewyddol o falchder doethineb y byd hwn yn ymgodi yn

erbyn awdurdod Dwyfol ddadguddiad, ac yn ceisio diffoddi y goleuni o'r nef â niwl ofergoeledd ac ynfydrwydd. (1 Cor. i. 18—25.)

Credir yn ngwirionedd a Dwyfoldeb gwyrthiau y Beibl o ddechreuad y ddwy oruchwyliaeth, ac ar sail y gwyrthiau y derbyniwyd hwynt gan ddynion fel cyfundraethau Dwyfol. Nid dychymmygion a thwyll fel ffug-wyrthiau y paganiaid a'r Pabyddion,* y rhai na chlywyd am danynt am ugeiniau o flynyddoedd ar ol eu cyflawniad, yw gwyrthiau y Beibl, ond ffeithiau adnabyddus, y rhai yr appelid atynt ger bron y rhai oedd wedi bod yn llygad dystion o honynt. "*Chwi a welsoch yr hyn a wnaethym i'r Aifftiaid;* y modd y codais chwi ar adenydd eryrod, ac a'ch dygais ataf fi fy hun." (Exod. xix. 4.) "*Chwi a welsoch yr hyn oll a wnaeth yr Arglwydd* o flaen eich llygaid chwi yn nhir yr Aifft, i Pharaoh, ac i'w holl weision, ac i'w holl dir; y profedigaethau mawrion a welodd eich llygaid, yr arwyddion a'r rhyfeddodau mawrion hyny. Arweiniais chwi hefyd yn yr anialwch ddeugain mlynedd: ni heneiddiodd eich dillad am danoch, ac ni heneiddiodd dy esgid am dy droed. Bara ni fwytasoch, a gwin neu ddiod gref nid yfasoch: fel y gwybyddech mai myfi yw yr Arglwydd eich Duw chwi," &c. (Deut. xxix. 2, 3, 5, 6.) "A'i enw ef, trwy ffydd yn ei enw ef, a nerthodd y dyn yma, a *welwch ac a adwaenwch chwi;* a'r ffydd yr hon sydd trwyddo ef, a roes iddo ef yr holl iechyd hwn *yn eich gwydd chwi oll.*" (Act. iii. 16.) "Ha wŷr Israel, clywch y geiriau hyn: Iesu o Nazareth, gŵr profedig gan Dduw *yn eich plith chwi*, trwy nerthoedd a rhyfeddodau, ac arwyddion, *y rhai a wnaeth Duw trwyddo ef yn eich canol chwi, megys ag y gwyddoch chwithau,*" &c. (Act. ii. 22). "A gwelodd Israel y grymusder mawr a wnaeth yr Arglwydd yn erbyn yr Aifftiaid: a'r bobl a ofnasant yr Arglwydd, ac a gredasant i'r Arglwydd, ac i'w was ef Moses" (Exod. xiv. 31). "Yna y gwybu y tad mai yr awr hòno *oedd*, yn yr hon y dywedasai Iesu wrtho ef, Y mae dy fab yn fyw. Ac efe a gredodd, a'i holl dŷ" (Ioan iv. 53). "Yna llawer o'r Iuddewon, y rhai a ddaethant at Mair, ac a welsant y pethau a wnaethai yr Iesu, a gredasant ynddo ef" (Ioan xi. 45). Yr oedd Moses, Crist, a'r apostolion, yn appelio at y bobl yn nghylch gwirioneddolrwydd y gwyrthiau, ac yn dweyd wrthynt nas gallent eu gwadu, ac ar eu sail yn galw arnynt i

* Gwel Attodiad II.

dderbyn eu hymadroddion, fel geiriau Duw (Num. xvi. 28—30. Ioan x. 37, 38. Act. iii. 6, 16, 19, iv. 10, xiv. 3).

Mae pob ystyriaeth briodol, pob ymchwiliad diduedd, pob beirniadaeth dêg ac ysgolheigdod safadwy, yn ein harwain i roddi crediniaeth ddiysgog yn ngwyrthiau y Beibl, ac i dderbyn y gyfundrefn a gadarnhant fel darpariaeth rasol a goruwchnaturiol yr Anfeidrol i adferu a dedwyddoli y byd.

Meddylier am yr anhawsderau i'r rhai y mae anffyddiaeth yn taflu dynion wrth wadu gwyrthiau. Os na waredwyd Israel wrth y Môr Coch yn ol yr hanes ysgrythyrol, pa fodd y cyfrifir am eu diangfa rhag cynddaredd eu gelynion arfog? Os na phorthodd Duw ei bobl â manna o'r nef, pa fodd y gellir cyfrif am gynnaliaeth dros ddwy filiwn o ddynion mewn anialwch erchyll am gynnifer o flynyddau? Nid oedd yr anialwch yn cynnyrchu ymborth iddynt, ac ni allasent ei brynu gan ereill o herwydd diffyg moddion, a'r ffaith fod y mwyafrif o'r cenedloedd amgylchynol yn elynion iddynt. Os nad yw yr hanes ysgrythyrol yn wirionedd, pa fodd y darfu i'r Israeliaid o ddyddiau Moses hyd heddyw ei dderbyn fel y cyfryw? Ai ynfydion rheibiedig ydynt oll wedi bod? A oedd modd i'r miloedd yn yr anialwch gredu eu bod wedi cael eu porthi gan yr Arglwydd Iesu, pan nad oedd hyny yn wirionedd? A oedd modd i feirwon gredu eu bod wedi cael eu bywhau, a deillion gredu eu bod wedi cael golwg, a chleifion ac anafusion gredu eu bod wedi cael iachâd, pryd nad oedd hyny wedi cymmeryd lle? Rhaid i ni gredu possibilrwydd hyn oll, os awn i anghredu y Beibl! Ond wrth dderbyn y Beibl fel gair Duw, y mae yr anhawsderau yn diflanu, a phob peth yn ymddangos yn uniawn a phrydferth, yn gysson a gogoneddus, o dan reolaeth Llywydd a Phrynwr y byd.*

Nodiad I.—*Darfyddiad Gwyrthiau.*

Mae'n canlyn oddiwrth ddybenion gwyrthiau, nad oeddynt i fod yn barhaol yn yr eglwys. Eu dyben mawr oedd profi Dwyfoldeb crefydd y Beibl, am hyny gelwir hwy *arwyddion*; wedi i grefydd y Beibl gael ei sefydlu yn mhlith dynion, nid oedd eu hanghen mwyach. Mae'n wir eu bod yn cael eu cyflawni ar wahanol adegau o dan yr hen oruchwyliaeth; ond yr oedd eu heisieu y pryd hyny yn awr ac eilwaith, gan nad oedd Canon yr Hen Destament wedi ei gwblhau, er dangos nad oedd Duw wedi

* Gwel *Dr. George Campbell on Miracles; Douglas's Criterion; Dr. Chalmers's Christian Evidences; Paley's Evidences; Dr. Wardlaw's Systematic Theology*, vol. I; a *Butler's Analogy* gan Dr. Angus, Part ii., Chap. vii.

gadael ei bobl; ond yr oedd Canon y Testament Newydd wedi cael ei orphen cyn marwolaeth yr apostol Ioan, a'r grefydd Gristionogol wedi cael ei sefydlu yn ddiogel yn y byd, fel na ddeilliai yn awr yr un lles o'u parhad.

Gwrthgyferbyna Paul y gwyrthiau â ffydd, gobaith, cariad, y rhai sydd yn aros ac i barhau yn yr eglwys, tra yr oedd yr holl ddoniau gwyrthiol i ddiflanu fel esgynloriau (*scaffoldings*) adeilad ar ol i'r gwaith gael ei orphen, neu attegion planhigyn wedi iddo dyfu yn bren cadarngryf. (1 Cor. xiii.)

Mae yr ystyriaeth hefyd mai trwy arddodiad dwylaw yr apostolion y trosglwyddid y ddawn wyrthiol i ereill, yn dangos eu bod i ddarfod ar ol yr oes apostolaidd. Darfu i'r apostolion eu hunain, dderbyn y ddawn wyrthiol oddiwrth Grist (Mat. x. 1, 8), ac wedi hyny o'r nef (Act. ii. 3, 4), a Chornelius a'r rhai oedd gydag ef a dderbyniasant yr Ysbryd yn ddigyfrwng oddiwrth Dduw (Act. x. 44—46); ond gyda golwg ar bawb ereill, y mae yn ymddangos mai trefn y nefoedd ydoedd trosglwyddo y ddawn yma trwy arddodiad dwylaw yr apostolion (Act. viii. 17, 18).

Wedi i'r apostolion farw, ynte, nid oedd y ddawn i barhau yn hwy nag oes y rhai a'i derbyniasant oddi wrthynt. Cesglir, mae'n wir, oddiwrth ysgrifau Justin Ferthyr, Irenæus, Tertullian, ac Origen, fod ambell i wyrth—fel adsain y nerthoedd yn yr oes apostolaidd, yn cymmeryd lle yn eu dyddiau hwy; ond y mae y casgliad a dynir oddiwrth ysgrifau Irenæus yn seiliedig ar olygiad annghywir ar ei eiriau; ac nid yw y prawf o fodolaeth gwir wyrthiau yn yr engreifftiau ereill yn foddhaol. Gwel *Douglas's Criterion*, tudal. 376—385.

NODIAD II.—*Arwyddocâd neillduol Gwyrthiau.*

Er fod pob gwyrth yn "arwydd" o Ddwyfol-gyfryngiad, eto ymddengys fod rhai gwyrthiau yn arwyddion uniongyrchol hefyd o ryw bethau neillduol. Rhag-gysgodai helfa lwyddiannus Pedr wrth bysgota, ei lwyddiant wrth bregethu yr efengyl (Luc v. 1—11). Dangosai iachâd y claf o'r parlys o flaen llygaid yr Iuddewon, awdurdod anweledig Mab Duw fel Cyfryngwr i faddeu pechodau (Mat. ix. 1—7). Rhagarwyddai y farn a ddisgynodd ar y ffigysbren ddiffrwyth, y dinystr a oddiweddai y genedl Iuddewig o herwydd ei rhagrith a'i hannuwioldeb (Mat. xxi. 19, 20: Marc xi. 13—22. Cymharer Esai. v. 1—7: Jer. ii. 21: Ioan xv. 6). Yn wir, yr oedd holl wyrthiau Crist yn pregethu gwirioneddau ysbrydol. Agorai lygaid y dall, er awgrymu mai efe oedd Goleuni y byd (Ioan ix. 5, 6). Bwriai allan gythreuliaid, er dangos ei fod ef wedi dyfod i ddymchwelyd teyrnas y tywyllwch (Luc x. 17—20). Porthai y bobl â bara, er cael mantais i'w dysgu mai efe oedd Bara y bywyd (Ioan vi. 35). Iachäai glefydau, er egluro ei allu i iachau enaid oddiwrth afiechyd pechod, ac i achub hyd yr eithaf (Mat. viii. 16, 17). Gwyrth Duw oedd yr Iesu ei hun (1 Cor. xv. 24). Yr oedd ei bresennoldeb ef yn bregeth o Ddwyfol ras, a'i weithredoedd, yn gystal a'i eiriau, yn egluro grasol fwriadau Duw tuag at y byd.

NODIAD III.—*Tuedd yr Athrawiaeth yn profi Natur y Wyrth.*

Sylwyd fod gwyrthiau yn profi Dwyfol anfoniad y prophwydi a'r apos-

tolion, ac o ganlyniad Ddwyfoldeb a gwirionedd eu cenadwri. Ymddengys hefyd fod natur a thuedd yr athrawiaeth a ddysgid, yn profi pa un a oedd yr arwyddion a gyflawnid yn wyrthiau gwirioneddol ai peidio. Gan fod gynt, a chan y bydd eto, wyrthiau gau, y rhai y mae y werin yn analluog i ganfod eu twyll, y mae dynion i ystyried natur yr athrawiaeth a broffesant attegu, er gweled pa un ai gwir ai gau ydynt. Appelia y Beibl yn fynych at synwyr a chydwybod dyn yn nghylch da a drwg moesol (Mat. xvi. 26: Act. iv. 19, v. 29: 1 Cor. iii. 3, vi. 19), a'r hyn sydd debygol neu annhebygol (Mat. vi. 25–30, vii. 16: xxi. 40: Marc ii. 9: Rhuf. v. 17). Pe dysgid athrawiaeth annghysson â gogoniant Duw, neu â hawliau Crist fel Pen yr eglwys ac Arglwydd pawb oll, neu â pherffeithrwydd a digonolrwydd y Beibl, neu â santeiddrwydd personol dyn,—*byddai y wyrth a broffesid ei gwneuthur i gadarnhau y fath athrawiaeth yn ffug, a'r dysgawdwr yn dwyllwr* (Deut. xiii. 1–3: Gal. i. 8: 2 Thess. ii. 9: Dad. xiii. 3, 13, 14: Mat. xxiv. 24). O'r ochr arall, pan y dysgwyd yr athrawiaeth ysgrythyrol, yr hon sydd yn tueddu i ogoneddu Duw, anrhydeddu y Cyfryngwr, dyrchafu y gair ysbrydoledig, a santeiddio dyn, ac y cyflawnwyd gwyrthiau yn enw yr Arglwydd er ei chadarnhau—a'r rhai hyny yn weithredoedd ag nas gellid cyfrif am danynt ond ar dir cyfryngiad Duw—rhaid fod yr arwyddion yn wyrthiau gwirioneddol, a'r athrawiaeth ei hun yn ddysgeidiaeth Ddwyfol (Marc ix. 39, xvi. 20: 1 Cor. xii. 3: Heb. ii. 3, 4).

NODIAD IV.—*Dosbarthiad o Wyrthiau y Beibl.*

Mae gwyrthiau y Beibl yn rhy liosog i ni sylwi arnynt oll; ni chawn ond gwneyd math o ddosbarthiad (*classification*) byr o honynt.

## I. GWYRTHIAU YR HEN DESTAMENT.

Gallwn edrych arnynt o dan dair o wahanol agweddau:—

1. *Dygwyddiadau Gwyrthiol.*

Cymmysgiad yr Ieithoedd. (Gen. xi. 7–9.)
Troad gwialen Aaron yn sarph (Exod. vii. 10, 12).
Blodeuad gwialen Aaron (Num. xvii. 8).
Parhad dilwgr y Manna (Exod. xvi. 23, 24, 32, 34).
Asen Balaam yn llefaru (Num. xxii. 23—30).
Cwymp Jericho (Jos. vi. 20).
Arosiad yr haul a'r lleuad (Jos. x. 12—14).
Y gwlith a chnu gwlan Gideon (Barn. vi. 37—40).
Disychediad Samson (Barn. xv. 19).
Cadwraeth Jonah yn y môr (Jonah i.)
Dychweliad y cysgod ar ddeial Ahaz (2 Bren. xx. 9–11).

2. *Barnedigaethau Gwyrthiol.*

Y diluw (Gen. vii. viii.)
Dallineb y Sodomiaid (Gen. xix. 11).
Dinystr Sodom a Gomorrah (Gen. xix.)

Pläau yr Aifft (Exod. v.—x.)
Cosb Nadab ac Abihu (Lef. x. 1, 2).
Y tân yn Taberah (Num. xi. 1–3).
Gwywiad llaw Jeroboam (1 Bren. xiii. 3—6).
Llosgiad milwyr Ahaziah (2 Bren. i. 9–12).
Dinystr byddin Senacherib (2 Bren. xix. 35).

3. *Bendithion Gwyrthiol.*

Y golofn niwl a thân (Exod. xiii. 20, 21).
Agoriad y Môr Coch (Exod. xiv. 21, 21.)
Rhoddiad y Manna ac anfoniad y soflieir (Exod. xvi. 12—15).
Dwfr o'r graig (Num. xxii. 11).
Hollti yr Iorddonen (Jos. iii. 11, 17).
Iachâd Hezeciah (Esai. xxxviii. 21).
Gwaredigaeth y llanciau o'r ffwrn dân, a Daniel o ffau y llewod (Dan. iii. 23—27, vi. 22).

Gall y darllenydd ei hun ychwanegu at y gwahanol ddosraniadau hyn, gan na olygir i'r rhai hyn fod yn gyflawn. Fe welir fod y dosraniadau hyn yn llithro i'w gilydd, oblegyd yr oeddynt oll yn ddygwyddiadau gwyrthiol, ac yr oedd y barnedigaethau ar elynion Duw yn fynych yn troi yn fendith i'w bobl, a bendithion ei bobl yn fynych yn profi yn farnedigaethau i'w wrthwynebwyr. Yr ydym wedi nodi eu hagweddau mwyaf arbenig, heb olygu annghydnabod y lleill.

## II. Gwyrthiau y Testament Newydd.

Y rhai mwyaf nodedig o dan y Testament Newydd yw gwyrthiau yr Arglwydd Iesu; ac o'r rhai hyn ni chofnodir ond 35. Darllenwn am dyrfaoedd yn cael eu hiachau ganddo, ond nid yw y manylion genym. Gallwn ddosbarthu y rhai a gofnodir i ddau ddosbarth :—

### 1. Gwyrthiau Crist ar Natur.

| Rhif. | Y Wyrth. | Y Lle. | Yr Hanes. |
|---|---|---|---|
| 1 | Troi y dwfr yn win .. | Yn Cana .. .. .. | Ioan ii. 1—11. |
| 2 | Dalfa wyrthiol o bysgod .. .. .. .. .. | „ Môr Galilea.. .. | Luc v. 1—11. |
| 3 | Etto .. .. .. .. | „ „ .. .. | Ioan xxi. 1–14. |
| 4 | Tawelu y dymhestl .. | „ „ .. .. | Mat. viii. 23–37. |
| 5 a 6 | Porthi y tyrfaoedd .. | „ Decapolis .. .. | Mat. xiv. 15–21, xv. 32—39. |
| 7 | Rhodio ar y Môr .. | „ Môr Galilea .. | Mat. xiv. 22—33. |
| 8 | Canfod y darn arian yn ngenau y pysgodyn | „ „ .. .. | Mat. xvii. 27. |
| 9 | Melldithio y ffigysbren diffrwyth .. | Mynydd yr Olewydd | Mat. xxi. 17–22. |

## 2. Gwyrthiau ar Ddyn.

*a,) Iachau y cleifion.*

| Rhif. | Y Wyrth. | Y Lle. | Yr Hanes. |
|---|---|---|---|
| 1 | Iachau mab y pendefig | Yn Cana .. .. .. | Ioan iv. 46—54. |
| 2 | Iachau y wraig â'r diferlif gwaed .. | ,, Capernaum .. | Mat. ix. 20—22. |
| 3—6 | Agor llygaid y deillion | | |
| | (*a*) Dau mewn tŷ .. | ,, ,, .. .. | Mat. ix. 27—31. |
| | (*b*) Un yn Bethsaida | ,, Bethsaida .. .. | Marc viii. 22—26. |
| | (*c*) Un yn Jerusalem | ,, Jerusalem .. .. | Ioan ix. |
| | (*d*) Dau yn agos i Jericho .. .. .. | ,, Jericho .. .. | Mat. xx. 29—34. |
| 7 | Iachau y claf o'r parlys .. .. .. .. | ,, Capernaum .. | Mat. ix. 1—8. |
| 8 | Iachau y llaw wywedig | ,, Judea .. .. .. | Mat. xii. 9—13. |
| 9 | Glanhau un gwahanglwyfus .. .. .. | ,, Capernaum .. | Marc i. 40—45. |
| 10 | Glanhau deg o wahangleifion .. .. .. | ,, Samaria .. .. | Luc xvii. 11—19. |
| 11 | Iachau gwas y canwriad .. .. .. .. | ,, Capernaum .. | Mat. viii. 5—13. |
| 12 | Iachau mam gwraig Pedr .. .. .. | ,, ,, .. .. | Marc i. 30, 31. |
| 13 | Iachau y dyn gwywedig .. .. .. | ,, Jerusalem .. .. | Ioan v. 1—16. |
| 14 | Iachau y wraig gydgrymedig .. .. | ,, Galilea.. .. .. | Luc xiii. 10—17. |
| 15 | Iachau y claf o'r dyfrglwyf .. .. | ,, ,, .. .. .. | Luc xiv. 1—4. |
| 16 | Iachau y mud a'r byddar .. .. .. | ,, Decapolis .. .. | Marc vii. 31—37. |
| 17 | Iachau clust Malchus | ,, Gethsemane .. | Luc xxii. 49—51. |

*b,) Iachad a gwaredigaeth y rhai cythreulig.*

| Rhif. | Y Wyrth. | Y Lle. | Yr Hanes. |
|---|---|---|---|
| 18 | Iachau y ddau gythreulig yn Gadara .. | Yn Gadara.. .. .. | Mat. viii. 28—34. |
| 19 | Iachau y dyn cythreulig yn y Synagog | ,, Capernaum.. .. | Marc i. 23. |
| 20 | Iachau merch y wraig o Canaan .. .. | ,, agos i Tyrus .. | Mat. xv. 21—28. |
| 21 | Iachau y plentyn lloerig .. .. .. | ,, agos i Tabor .. | Mat. xvii. 14—21. |
| 22 | Iachau y dyn mud cythreulig .. .. | ,, Capernaum .. .. | Mat. ix. 32, 33. |
| 23 | Iachau y dyn dall a byddar .. .. .. | ,, ,, .. .. | Mat. xii. 22, 23. |

c,) *Adgyfodi y meirw.*

| Rhif. | Y Wyrth. | Y Lle. | Yr Hanes. |
|---|---|---|---|
| 24 | Adgyfodiad merch Jairus .. .. .. | Yn Capernaum.. .. | Mat. ix. 18–26. |
| 25 | Adgyfodiad mab y weddw .. .. .. | „ Nain .. .. .. | Luc vii. 11—16. |
| 26 | Adgyfodiad Lazarus | „ Bethania .. .. | Ioan xi. |

*Ac i goroni y cyfan ei* ADGYFODIAD EF EI HUN!
(Rhuf. i. 4.)

Darllenwn yn y Testament Newydd am wyrthiau wedi cael eu cyflawni gan y 70 dysgyblion, Stephan, Pedr a Phaul, &c., y rhai nas gallwn sylwi arnynt. Gwel Archesgob Trench ar *The Miracles of our Lord; Westcott's Characteristics of the Gospel Miracles; Our Lord's Miracles of Healing*, by T. W. Belcher, M.D., M.A.

II. PROPHWYDOLIAETH.

Gellir edrych ar brophwydoliaeth fel *gwyrth gwybodaeth*, fel y sylwai yr esgob Douglas yn ei "*Criterion*," a Dr. Angus ar ol hyny yn "*Llawlyfr y Beibl*," fel y mae adgyfodi y marw yn *wyrth o allu*. Er fod ystyr lled ëang i'r geiriau prophwyd a phrophwydo yn y Beibl (gwel Pen. X. Rhan II.), eto defnyddir y gair prophwydoliaeth fynychaf i olygu *rhagfynegiad o ddygwyddiadau yr amser dyfodol*, y rhai na allasai dyn trwy ei graffder, na'i ddysgeidiaeth, na'i brofiad ei hun, byth allu eu darganfod yn mlaen llaw. Rhaid i brophwydoliaeth wirioneddol fod wedi cael ei gwneyd yn hysbys fel y cyfryw o'r amser y dadguddiwyd hi gan Dduw; rhaid iddi fod yn ddigon eglur fel ag i alluogi dynion diduedd i'w chymhwyso at yr amgylchiadau ar ol iddi gael ei chyflawni,—a rhaid iddi beidio bod yn rhy eglur fel ag i hunan-achosi ei chyflawniad, na rhoddi lle cyfreithlon i neb dybied hyny;* a rhaid i'r

* "Yr oedd yn ofynol fod rhyw orchudd yn crogi uwchben prophwydoliaeth, hyd yr amser y byddai i'w rhagfynegiadau gael eu sylweddoli; pe amgen buasai lle i'r haeriad, fod eglurdeb digamsyniad y brophwydoliaeth wedi cynhyrchu yr ymdrechion y rhai a ddygasant ei chyflawniad o amgylch. Mae yr haeriad, mewn gwirionedd, *wedi* cael ei wneyd, gyda golwg ar rai o'r rhanau mwyaf pwysig o'r Ysgrythyrau prophwydol. Ni phetrusodd Arglwydd Bolingbroke haeru, fod Iesu Grist wedi dwyn ei farwolaeth ei hun oddi amgylch trwy gyfres o fesurau rhagdrefnedig, yn unig er mwyn rhoddi mantais i'w ddysgyblion gael appelio at

cyflawniad gweithredol (pan fydd natur y rhagfynegiad yn caniatâu) gymmeryd lle mewn amser priodol.

Yr oedd prophwydoliaethau y Beibl yn wahanol iawn i ragfynegiadau gwleidiadwyr am y dyfodol. Gall y gwleidiadwr craffus ragfynegi llawer o bethau gyda gradd helaeth o gywirdeb. Gall ragfynegi am wledydd y rhai sydd a'u hiawnderau o dan draed, y bydd i wrthryfel dori allan ynddynt cyn hir, ac i'w breninoedd ffoi am noddfa i wledydd estronol; a gall raghysbysu am wledydd ereill, lle mae rhyddid a chyfiawnder yn cael eu harfer, a manteision addysg a masnach rydd yn cael eu mwynhau,—y bydd eu llwyddiant yn sicr. Ond nid rhagfynegiadau cyffredinol fel hyn yw prophwydoliaethau y Beibl. Mae y rhai hyn, o'r ochr arall, yn cynnwys manylion lawer, ac i gael eu cyflawni yn fynych yn mhen oesoedd ar ol i'r brophwydoliaeth gael ei gwneyd yn hysbys. Cawn ynddynt ragfynegiadau yn erbyn dinasoedd a theyrnasoedd pan oeddynt yn uchder eu rhwysg a'u llwyddiant, yn cynnwys manylion lawer, y rhai na allasai neb ond dynion yn cael goleuni goruwchnaturiol gan Dduw eu darganfod; megys yn nghylch yr Aifft. (Jer. xlvi. 13. Ezec. xxx. 10): Ninefeh (Nahum. i. 8, 10. Zeph. ii. 13); Tyrus (Ezec. xxvi. 7—14, xxviii. 5. Amos i. 10); a Babilon (Jer. l. 17, 18.)

Mae y Beibl yn ein dysgu mai o Dduw y deilliai y ddawn brophwydol, ac na allai neb brophwydo ond y rhai a gynhyrfid gan ei Ysbryd ef. (2 Pedr i. 21.) Am hyny gelwir y prophwyd "y gŵr ysbrydol" (Hos ix. 7); a "chenad" yr Arglwydd (2 Chron. xxvi. 16. Esai. xliv. 26); a "gŵr Duw"

---

yr hen brophwydoliaethau. 'Yr oedd hyn yn wrthun ddigon (ebe Dr. Chalmers); ond gwasanaetha i ddangos, gyda'r fath rwyddineb y gallai anffyddiwr osgoi yr holl ymresymiad, pe buasai y prophwydoliaethau hyn yn rhydd oddiwrth yr holl dywyllwch ag y cwynir yn awr o'i herwydd. Y ffurf oreu (ychwanega Dr. Chalmers) i ateb dybenion prawf *(argument)*, yn yr hon y gellir cyhoeddi prophwydoliaeth, yw iddi fod mor dywyll, fel ag i adael y dygwyddiad, neu yn hytrach ei brif amgylchiadau, yn annealladwy cyn y cyflawniad, ac mor eglur fel ag i fod yn ddealladwy ar ol hyny.' "—*Fairbairn on Prophecy*, pp. 97, 98.

Awgrymir mai un o ddybenion aneglurdeb rhanol prophwydoliaeth oedd profi dyn, pa un a oedd ei galon yn uniawn ger bron Duw (Dan. xii. 10); yr oedd y brophwydoliaeth am y Messiah yn ddigon eglur i lygad ffydd, ond ni ddeallai y rhai drygionus hi, ac felly yn eu dallineb ymwrthodasant ag ef. (Act. iii. 17, xiii. 27. 1 Cor. ii. 8.) Dichon, modd bynag, na ellir dweyd hyn am danynt oll. (Ioan ix. 41, xv. 22, 24.) Cymharer yr hyn a ddywedir am y Dammegion, Pen. vii. Rhan. II.

(Deut. xxxiii. 1. 1 Bren. xii. 22. 2 Bren. v. 14.) Gorphwysiad Ysbryd Duw ar ddyn oedd yn ei alluogi i brophwydo, a Duw ei hun oedd yn cyfranu yr Ysbryd yn ei ddoniau prophwydol. (Num. xi. 25; cymharer Ioan xi. 51, vii. 16—18). Desgrifir y gau brophwydi fel rhai amddifad o Ysbryd Duw, ac felly yn analluog i brophwydo. (Jer. xiv. 14, xxiii. 16, 31, 32. Ezec. xiii. 2—9.) Gosodir y gwaith o ragfynegi y dyfodol allan yn y Beibl fel hawlfraint arbenig Jehofah, a dysgir ni y byddai efe yn arfer â dadguddio ei gyfrinach i'r prophwydi cyn i'w fwriadau gael eu cyflawni (Esai. xlvi. 9, 10. Amos iii. 7); a nodir y ffaith o anallu eilunaddolwyr i ragfynegi y dyfodol fel prawf o wagedd eu delwau. (Esai. xli. 21—23, 28, 29. Deut. xviii. 21, 22.) Edrycha y Beibl ar gyflawniad geiriau y prophwydi fel prawf sicr o'u Dwyfol anfoniad, ac mai Jehofah yn unig yw y gwir Dduw. (Esai. xliv. 26. Jer. xxviii. 9. Ioan xiv. 29.)

Ceir amryw brophwydoliaethau a'u cyflawniad wedi eu cofnodi yn yr Hen Destament, megys rhagfynegiadau Duw am y diluw (Gen. vi. 17, vii. 10); ac arosiad plant Israel yn yr Aifft a'u gwaredigaeth (Gen. xv 13, 14. Exod. xii. 35, 36, 40, 41); rhagfynegiadau Joseph wrth ddehongli breuddwydion Pharaoh (Gen. xli. 25—28); rhagfynegiad Micheah am orchfygiad byddinoedd Israel a Judah (1 Bren. xxii. 28); rhagfynegiad Elias am y sychder barnol (1 Bren. xvii. 2, 7); ac eiddo rhyw brophwyd anadnabyddus am orchfygiad y Syriaid (1 Bren. xx.); a llawer o rai cyffelyb.

Ysgrifenodd Nahum, yr hwn oedd yn byw yn Elcos, yn Galilea, ei brophwydoliaeth yn erbyn Ninefeh tua'r flwyddyn 712 cyn Crist; ond ni ddymchwelwyd Ninefeh hyd y flwyddyn 612 cyn Crist. Er fod Nahum yn prophwydo tuag adeg dinystr 185, 000 o filwyr Senacherib yn nyddiau Hezecïah (2 Bren. xix. 35); eto, er y galanasdra ofnadwy yna, Assyria oedd y gallu cryfaf yn y Dwyrain a'r holl fyd ar y pryd; nid oedd Babilon ond egwan a distadl yn ei hymyl; ac nid oedd unrhyw arwyddion allanol yn cyfiawnhau rhagfynegiad y prophwyd, yr hwn a gyflawnwyd i'r llythyren, a hyny mor llwyr, fel na welodd Herodotus a Xenophon, rhyw ddau can' mlynedd ar ol ei chwymp, yr un arwydd o'i mawredd cyntefig, er iddynt deithio yn agos i'r man y safasai, os nad dros y lle ei hun. (Nah. iii. 7, 14, 15. *Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible.*)

Cawn Esaiah, tua'r flwyddyn 715 cyn Crist, a hyny rhyw gan' mlynedd cyn i'r rhagfynegiad gael ei gyflawni, yn prophwydo am gwymp Tyrus yn y geiriau canlynol:—"Wele dir y Caldeaid: nid oedd y bobl hyn, *nes* i Assur ei sylfaenu hi i drigolion yr anialwch: dyrchafasant ei thyrau, cyfodasant ei phalasau; *ac* efe a'i tynodd hi i lawr." (Esai. xxiii. 13.) Dysga y geiriau hyn mai dinystrwyr Tyrus a fyddai y Caldeaid, y rhai nad oeddynt hyd yn ddiweddar ond preswylwyr y diffaethwch, a'r rhai

a gawsant y wlad i'w phreswylio gyntaf erioed gan yr Assyriaid, a thrwy hyny a ddaethant i gael eu hystyried yn genedl o bobl yn mhlith cenedloedd y byd. Yn unol â hyn, cawn Nebuchodonosor yn gwarchae ar Tyrus am dair blynedd ar ddeg, ac yn ei darostwng. (Ezec. xxvi. 7—14, xxvii., xxviii. *Josephus's Antiq.*, Book X. chap. xi; *Against Apion*, B. I. chap. xxi.)

Wedi cwymp Babilon, cafodd Tyrus adferiad rhanol dros amser, cyn ei llwyr ddinystr gan Alexander Fawr. (Esai. xxiii. 17, 18.) Er nad yw yr Hen Destament yn taflu goleuni ar gyssylltiad Tyrus â Jerusalem ar ol yr adferiad o Babilon, mae yn ymddangos fod teimlad da yn bodoli rhyngddynt, a bod preswylwyr Tyrus wedi offrymu offrymau gwerthfawr yn y deml, fel yr oedd "ei marchnad a'i helw yn santeiddrwydd i'r Arglwydd." Ar ol hyny, syrthiodd Tyrus yn hollol, fel y mae, er's canrifoedd lawer bellach, "yn gopa craig, ac yn daenfa rhwydau." (Ezec. xxvi. 14.)

Gellid meddwl ar yr olwg gyntaf am ambell brophwydoliaeth na chafodd ei chyflawni; ond y mae ail ystyriaeth o'r cyfryw yn dangos nad ydyw Duw yn gadael i'r un o'i eiriau syrthio i'r ddaear. Yn Jer. xxxvi. 30, dywedir,—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd am Jehoiacim brenin Judah; Ni bydd iddo ef a eisteddo ar freninfainc Dafydd:" ond yn 2 Bren. xxiv. 6, dywedir,—"A Joacim (Jehoiacim) a hunodd gyda'i dadau; a Joachin ei fab a deyrnasodd yn ei le ef." Ond nid yw yr adnod olaf a ddyfynwyd yn gwrthddweyd y llall, oblegyd ni theyrnasodd Joachin ond *tri mis* yn Jerusalem (2 Bren. xxiv. 8); ac felly nid oedd gan Jehoiacim fab yr hwn a *eisteddodd yn sefydlog* (canys dyma ystyr y ferf ישב *(iashab)* yma ac mewn amryw leoedd ereill, Salm ii. 4, ix. 7. Jer. xxx. 18), ar orseddfainc Dafydd.

Ceir llawer o brophwydoliaethau pendant ac eglur am Babilon, a chaethiwed yr Iuddewon ynddi, a'i chwymp. Prophwydodd Michah am gaethgludiad Israel i Babilon a'u gwaredigaeth oddi yno, tua dau can' mlynedd cyn eu dychweliad. (Michah iv. 10.) Prophwydodd Esaiah am gwymp Babilon tua chant a hanner o flynyddau cyn iddi syrthio (Esai. xiii. 19, 20, xiv. 23); a rhagfynegodd Jeremiah am barhad caethiwed meibion Israel yn Babilon flynyddau cyn iddo ddechreu. (Jer. xxv. 12; xxix. 10.) Nid rhagfynegiadau cyffredinol am ei chwymp oedd prophwydoliaethau gweision yr Arglwydd, ond cynnwysent fanylion lawer, yr hyn a ddengys mai yr Hollwybodol yn unig oedd yn eu rhoddi trwyddynt. Dywedent fod Babilon i gael ei dinystrio gan y *Mediaid* (Esai. xiii. 17. Jer. li. 11); a theyrnasoedd ereill (Jer. l. 27); y rhai oeddynt i fyned o'i *hamgylch* (Jer. l. 14, 29); pryd y *sychid ei hafon* hi (Jer. l. 38, li. 36. Esai. xliv. 27); ac y byddai ei *phyrth yn agored* (Esai. lv. 1); ac yr oedd *lwynau y brenin i gael eu datod* (Esai. xlv. 1); a'r ddinas i syrthio yn nghanol *gloddest a meddwdod* (Jer. li. 39); a'r cyfan yn ddial Jehofah oblegyd ei *deml* ef. (Jer. li. 11.) Dywedid hefyd y gollyngai Cyrus y carcharorion yn rhydd heb *bridwerth*, ac yr *adeiladai ddinas Duw*. (Esai. xlv. 13.) Yn awr, y mae yma amryw neillduolion

yn y brophwydoliaeth am Babilon (yr hon a gymmerwn fel engraifft o'r manylwch sydd mewn amryw o'r prophwydoliaethau ereill), ag y byddai yn anmhossibl i un dyn eu darganfod trwy ei graffder meddyliol yn unig; ond yr ydym yn cael fod pob peth wedi cael ei gyflawni yn hanes Babilon i'r llythyren. Cawn mewn hanesiaeth baganaidd fod tad Cyrus, blaenor y fyddin a oresgynodd Babilon, yn Bersiad, a'i fam yn Fediad, a'i fod ef wedi dyfod yn frenin ar y Mediaid a'r Persiaid ar ol eu huno yn un leyrnas; a'i fod wedi cael ei gynnorthwyo gan y Mediaid a'r Armeniaid oedd dan deyrnged iddynt, yn y rhyfel yn erbyn Babilon; a dengys y dyfyniadau canlynol o weithiau Herodotus a Xenophon, yn nghyda llyfr Daniel, fod y manylion prophwydoliaethol ereill wedi cael eu cyflawni:—

"Darfu iddo (sef Cyrus), ar ol gosod y rhan fwyaf o'i fyddin yn ymyl yr afon lle y mae hi yn myned i mewn i'r ddinas, a hefyd gorph arall o filwyr lle y mae hi yn dyfod allan o'r ddinas, gyfarwyddo ei fyddin, pan y gwelent wely yr afon yn ddigon bas, i fyned ar hyd ei gwely i mewn i'r ddinas. Wedi rhoddi y gorchymmynion hyn, a phob annogaeth anghenrheidiol, aeth ei hun gyda dosbarth o weithwyr at y llyn, ac fe gyflawnodd waith cyffelyb i'r hwn a gyflawnasai y Babiloniaid eu hunain o'r blaen, oblegyd fe sychodd yr afon trwy ddwyn ei dyfroedd ar hyd ddyfrffos i'r llyn a'r corsdir yn y gymmydogaeth, ac felly fe wnaeth wely yr afon yn dramwyadwy. Fel hyn, darfu i'r Persiaid, y rhai a leolasid ger llaw yr Euphrates er mwyn hyn, fyned i mewn i Babilon, a'r dwfr heb fod yn uwch na chanol dyn. Ond hyd y nod y pryd hyny, pe gwybuasai y Babiloniaid beth oedd Cyrus wedi ei wneyd, a phe buasent yn peidio esgeuluso y Persiaid y rhai oeddynt eisioes yn myned i mewn i'r ddinas, gallasent eu dinystrio; oblegyd trwy gau y pyrth oedd yn arwain i'r afon, a dringo ar hyd y gwrthgloddiau oedd yn ymestyn hyd y nod i lanau yr afon, gallasent gymmeryd y Persiaid mewn rhwyd: ond trwy ddyfod ar eu gwarthaf heb yn wybod iddynt, aeth y Persiaid i mewn. O herwydd ëangder y ddinas, fel y dywed y rhai oeddynt yn byw yno, ni wyddai preswylwyr canol y ddinas, am y ffaith fod preswylwyr un terfyn iddi wedi eu cymmeryd yn garcharorion (oblegyd dygwyddodd ar amser gwledd), ond yr oeddynt yn dawnsio a gloddesta ar yr adeg. Ac fel yna y cymmerwyd Babilon y tro cyntaf."*

Cawn Xenophon hefyd yn rhoddi tystiolaeth gyffelyb am gymmeriad y ddinas. Noda y Beibl mai yn y nos y lladdwyd Belsassar (Dan. v. 30); a sylwa Xenophon mai yn y nos y cymmerwyd y lle. Ni fuasai y ddyfais o sychu yr afon yn ateb y dyben pe buasid yn ei gweithio allan yn y dydd, gan y buasai y Babiloniaid wrth sylwi ar ostyngiad yr afon yn cau y pyrth; ond yn y nos nid oeddynt yn gallu canfod hyn, ac yn nigrifwch eu gloddest, annghofiasant fod y ddinas mewn perygl, ac esgeulusasant ofalu am ei diogelwch.

Wedi myned i'r ddinas, daeth milwyr Cyrus, ebe Xenophon, at balas y brenin. "Canfyddodd y rhai oedd gyda Gadatas a Gobryas fod dorau y

*_Herodotus_, B. i. chap. 191.

palas yn gauad; darfu i'r rhai oedd wedi eu neillduo i ymosod ar y gwylwyr syrthio arnynt, fel yr oeddynt yn yfed wrth dân mawr, a'u gorchfygu. Gan i waedd a sŵn mawr ddilyn, clywodd y rhai oedd o fewn y cynhwrf; a chan i'r brenin orchymyn iddynt edrych beth oedd yn bod, darfu i rai o honynt agor y drysau, a rhuthro allan. Pan welodd y rhai oedd gyda Gadatas y drysau wedi eu hagor, rhuthrasant i mewn, a chan ddilyn y rhai oedd yn ffoi, ac ymosod arnynt, daethant at y brenin, a chawsant ef yn sefyll â'i gleddyf noeth yn ei law. Darfu i'r rhai oedd gyda Gadatas a Gobryas, gan eu bod yn lliosog, ei orchfygu; a lladdwyd y rhai oedd gydag ef."* Cawn rai manylion ereill yn llyfr Daniel; megys am fraw y brenin, pan yr ymollyngodd ei natur yn nghanol ei ofn a'i euogrwydd; a'i waith yn diystyru achos a theml y Goruchaf, pan y defnyddiodd lestri y deml er anrhydedd ei ddelwau (Dan. v. 2—6); ond ni oddefodd Brenin y breninoedd iddo ryfygu fel hyn, a dialodd arno oblegyd ei gyssegr,—"Canys dial yr Arglwydd *oedd* hyn, dial ei deml ef" (Jer. li. 11). Gyda golwg ar ollwng yr Iuddewon yn *rhydd heb wobr*, cawn yn Ezra i. 4, brawf o hyny, yn unol â'r desgrifiad a rydd Xenophon o duedd haelfrydig Cyrus;† a dengys 2 Chron. xxxvi. 22, 23, ei fod wedi hyrwyddo y ffordd i adeiladu teml Dduw (Ezra vi. 1—13), a Jerusalem hefyd, fel yr awgryma achwyniad y gelynion (Ezra iv. 12).

Mae pob darllenydd craffus wedi sylwi hefyd y fath lu o ragfynegiadau a geir yn yr Hen Destament am y Cyfryngwr, ac mor gywir a manwl y cyflawnwyd hwynt yn ei hanes fel y ceir ef yn y Testament Newydd. Ymhyfrydai duwiolion yr Hen Destament ynddo yn ngoleuni prophwydoliaeth; ymffrostiwn ninnau ynddo yn ngoleuni ei chyflawniad, fel yr hwn a wisgodd ein natur, a orchfygodd ein gelynion, ac a brynodd ein bywyd; ac fel Brenin Seion, Llywydd y cyfanfyd, ac Achubydd y byd.

Un o brif brophwydoliaethau y Testament Newydd yw eiddo yr Arglwydd Iesu am ddinystr Jerusalem. "Canys daw y dyddiau arnat, a'th elynion a fwriant glawdd o'th amgylch, ac a'th amgylchant, ac a'th warchaeant o bob parth; ac a'th wnant yn gyd-wastad â'r llawr, a'th blant o'th fewn; ac ni adawant ynot faen ar faen: o herwydd nad adnabuost amser dy ymweliad." (Luc xix. 43, 44: Mat. xxiv. 24: Marc xiii. 2.) Dywedir fod yr olygfa ar y deml o Fynydd yr Olewydd yn gorchfygu yr edrychydd, o herwydd ei mawredd a'i phrydferthwch. Desgrifir hi fel "mynydd o eira," neu balas o ifori, wedi ei britho â phinaclau aur. Ymddangosai mor gadarn a phe buasai wedi ei hadeiladu erbyn tragywyddoldeb; ond pan ydoedd yn wrthddrych edmygedd y byd ac ymffrost y genedl, cyhoedda y Gwaredwr fod yr adeg yn agos pan y byddai hi a Jerusalem wedi cael eu gwneyd yn gyd-wastad â'r llawr!

Sonia Josephus am feini yn y deml ag oeddynt yn 40 cufydd o hyd. Yr oedd y meini yn y sylfeini yn 25 cufydd o hyd, 12 cufydd o led, ac wyth o drwch. (*Jewish War*, B. v. 5, 2: vi. 4, 1.)

* *Xenophon's Cyropædia*, B. vii. ch. v. 15—30. Gwel hefyd *Keith's Evidence of Prophecy*; *Lectures on Prophecy*, by C. N. Davies; *Drych Prophwydoliaeth*, gan y diweddar Barch. J. Hughes, Lerpwl; ac Erthygl Dr. McCaul ar Brophwydoliaeth, yn "*Aids to Faith.*"

† *Cyrop.* B. viii. ch. ii. 15—23.

Ymddengys fod geiriau Iesu Grist o barthed cwymp Jerusalem, wedi cael eu cyflawni yn llythyrenol. Penderfynodd Titus warchae ar y ddinas, er gorfodi yr Iuddewon i roddi eu hunain i fyny o herwydd newyn. Ymosododd yr holl fyddin ar y gwaith o gloddio ffos a chyfodi gwrthglawdd o amgylch y ddinas, yr hyn a wnaed mewn tri diwrnod o amser. Ni oddefid i neb fyned allan o'r ddinas, ac yr oedd miloedd ar filoedd yn marw yn barhaus ynddi o newyn. Er holl ddewrder a chynddaredd dialgar yr Iuddewon, yr oedd y Rhufeiniaid yn ennill rhan ar ol rhan o'r ddinas. Yr oedd y gwaith o gymmeryd y deml yn un o'r gorchestion mwyaf i filwyr Cæsar. Curasant furiau y deml â'u cadhyrddiaduron *(battering rams)* am chwe' diwrnod heb effeithio dim arnynt, o herwydd maintioli anferth y meini ynddynt, a chadernid y gwaith. O'r diwedd gorchymynodd Titus iddynt danio y drysau, a thrwy hyn ymwthiasant yn mlaen i gyntedd yr Israeliaid. Yr oedd yr Iuddewon yn y canol, yn nghyntedd yr offeiriaid ac o amgylch adeilad y cyssegr, a'r muriau a'r ystafelloedd yn ffamiau o amgylch y cynteddau. Rhoddodd Titus orchymyn lawer gwaith fod y deml i gael ei harbed; ond y cwbl yn ofer. Rhuthrai yr Iuddewon ar yr ymosodwyr, syrthiai yr ymosodwyr ar yr Iuddewon, ac ni fu y fath gyflafan, mae'n debyg, yn holl hanes dynolryw! Lladdwyd y bobl ddiamddiffyn wrth y miloedd; gorweddent yn bentyrau o amgylch yr allor; llifai gwaed dynol dros risiau y deml yn ffrydiau, gan gludo cyrff meirwon gydag ef! Yn y cyffro annesgrifiadwy, taflodd un o'r milwyr ffaglen i ddrws y cyssegr, ac mewn ychydig eiliadau yr oedd tŷ yr Arglwydd yn cael ei ysu gan dân. Cymmerodd hyn le ar y 10fed o Awst, A.D. 70. Cyn hir, yr oedd yr holl ddinas wedi ei chymmeryd, a gorchymynodd Titus ar iddi gael ei gwneyd yn gyd-wastad â'r llawr, oddieithr tri o dyrau, y rhai oeddynt i gael eu gadael fel cofarwyddion o'r fuddygoliaeth.

Rhydd y ffigyrau canlynol rhyw feddylddrych am nifer y lladdedigion yn mhlith yr Iuddewon, yn eu hymrafaelion lleol a'u brwydau â'r Rhufeiniaid, cyn ac ar adeg cwymp Jerusalem:—

### Cyn y Rhyfel o dan Vespasian.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn Jerusalem, gan Florus .. | 3,600 | Yn Joppa .. .. .. | 8,400 |
| Yn Cesarea .. .. .. | 20,000 | Ar fynydd Asamon .. .. | 2,000 |
| Yn Scythopolis .. .. | 13,000 | Mewn brwydr ger Ascalon.. | 10,000 |
| Yn Ascalon .. .. .. | 2,500 | Trwy gynllwynion .. .. | 8,000 |
| Yn Ptolemais.. .. .. | 2,000 | | |
| Yn Alexandria .. .. | 50,000 | | 129,500 |
| Yn Damascus .. .. | 10,000 | | |

### Yn ystod y Rhyfel yn Galilea a Judea.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn Japha .. .. .. | 15,000 | Yn Idumea .. .. .. | 10,000 |
| Ar Gerizim .. .. .. | 11,600 | Yn Gerasa .. .. .. | 1,000 |
| Yn Iotapata .. .. .. | 40,000 | Gerllaw yr Iorddonen .. | 15,000 |
| Yn Joppa .. .. .. | 4,200 | | |
| Yn Tarichea .. .. .. | 6,500 | | 118,300 |
| Yn Gamala .. .. .. | 9,000 | | |
| Yn Gischala .. .. .. | 6,000 | Yn Jerusalem.. .. | 1,100,000 |

Ar ol Dinystr Jerusalem.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn Machærus .. .. .. | 1,700 | Yn Cyrene .. .. .. | 3,000 |
| Yn Jardes .. .. .. | 3,000 | | |
| Yn Masada .. .. .. | 960 | | 8,660 |

Cyfanrif y rhai a laddwyd .. .. .. 1,356,460.

Carcharorion.

| | |
|---|---|
| Yn Gischala .. .. .. .. .. .. | 2,200 |
| Yn agos i'r Iorddonen .. .. .. .. | 2,500 |
| Yn Jerusalem .. .. .. .. .. | 97,000 |
| Cyfanrif y carcharorion .. .. .. | 101,700 |

Nis gellir rhoddi cyfrif am y lluoedd a laddwyd mewn mân frwydrau ar hyd a lled y wlad; a'r lluoedd a fuont farw o haint, a newyn, a thrwy lofruddiaeth, &c. Fe welir hefyd nad yw yr uchod yn cynnwys rhifedi carcharorion ond dau le heblaw Jerusalem; diau fod miloedd lawer o garcharorion wedi eu cymmeryd mewn brwydrau a gwarchaeadau ereill. O garcharorion Jerusalem, condemniwyd y rhai oedd uwchlaw 17 oed o honynt naill i weithio fel caethion yn mwngloddiau yr Aifft, neu i ymladd â chleddyfau, neu ymryson â bwystfilod, yn y chwareufeydd cyhoeddus. Yn ddiau, fe ddaeth digofaint Duw hyd yr eithaf ar y bobl hyn yn ol rhagfynegiad yr Iachawdwr! (Gwel *Josephus*, a *Milman's History of the Jews*, pp. 345, 346. Edition, 1876.)

Ni all neb ragfynegi y gwirionedd am ddirgelion y dyfodol, ond y Bôd hollalluog hwnw, yr hwn a all lywodraethu amgylchiadau y dyfodol i ddwyn oddi amgylch ei amcanion ei hun. Gan mai Duw yn unig a allai wneyd hyn, a chan nas gellir credu am funyd y buasai efe yn cynnysgaethu twyllwyr â'r ddawn brophwydol, mae'n canlyn fod prophwydi y Beibl yn genadon gwirioneddol iddo ef.

Nis gallwn ystyried rhagfynegiadau sydd yn cynnwys y fath fanylion â'r rhai a nodwyd, amgen na llefervdd yr Hollwybodol trwy ei weision; ac y mae cyflawniad y fath brophwydoliaethau yn brawf o Ddwyfol anfoniad y prophwydi, ac o Ddwyfoldeb y gyfrol santaidd.

Dywedwyd fod y rhai hyn yn eglur, ac nid yn amwysol fel oraclau y paganiaid. Yr oedd yr awydd cryf sydd mewn dynion i dreiddio i'r dyfodol, yn peri i lawer fyned at eu delwau i geisio gwybodaeth am ddirgelion y dyfodiant. Honai offeiriaid y rhai hyn eu bod yn cael dadguddiadau. Yr engraifft fwyaf nodedig ag sydd ar gael o'r twyll hwn, yw yr hyn a gymmerai le yn Delphi, tref fechan yn Phocis,

Groeg, lle yr oedd teml ac oracl Apollo. Yn nghanol y deml yr oedd twll bychan yn y llawr, o'r hwn yr esgynai o bryd i bryd, rhyw fath o darth meddwol. Uwch ben y twll yr oedd ystôl drithroed (*tripod*) wedi ei gosod, ar yr hon yr eisteddai yr offeiriades, yr hon a elwid Pythia, pryd bynag y byddai eisieu ymofyn â'r oracl. Ystyrid fod y geiriau a ddywedai ar ol anadlu y tarth meddwol yn cynnwys dadguddiadau Apollo, y rhai a ysgrifenid yn ofalus, ac a droid i linellau barddonol, ac yna a roddid i'r ymofynwyr am leferydd yr oracl.* Wele engraifft neu ddwy o'r rhagfynegiadau hyn :—Pan y gorfodwyd yr offeiriades i roddi atebiad i Alexander, dywedai, "*Anorchfygol wyt.*" Gallai hyn olygu ei fod ef yn ei gorchfygu hi trwy ei gorfodi i roddi atebiad, neu y byddai yn drech na'i elynion. Pan y gofynodd Crœsus, brenin Lydia, cyn Crist tua 550 o flynyddau, am lwyddiant ei ryfel yn erbyn y Persiaid, atebodd yr oracl, "*Os ai i ryfel yn erbyn y Persiaid, y dinystriai deyrnas gref;*"† hyny yw, y dinystriai Persia, yr hon oedd yn freniniaeth gref; neu y dinystriai ei deyrnas ei hun, trwy ei ryfyg, fel y dygwyddodd. Yr oedd yr ateb y fath, fel y gwnelai y tro, pa fodd bynag y terfynai y rhyfel. Pan ofynodd Pyrrhus, brenin y rhan hòno o Groeg a elwid Epirus, tua'r flwyddyn 280 cyn Crist, a wnai efe orchfygu y Rhufeiniaid, yr ateb oedd, yn ol fel y cyfieithiwyd ef i'r Lladin,—

> "Aio te Æacida Romanos vincere posse,
> Ibis redibis nunquam in bello peribis.'

Fe wel efrydydd yr ieithoedd clasurol, fod y cystrawiad yr hyn a elwir "*the accusative with the infinitive,*" ac y gall olygu, naill ai,—

> "Yr wyf yn dweyd y gelli di, fab Æacus, orchfygu y Rhufeiniaid,
> Ti a ei, ti a ddychweli, ni wnei byth farw mewn rhyfel,"

neu,—

> "Yr wyf yn dweyd y gall y Rhufeiniaid dy orchfygu di, mab Æacus,
> Ti a ei, ni ddychweli byth, ti a drengi mewn rhyfel."‡

Nid oedd berygl i'r oracl golli ei bri, wrth chwareu y ffon ddwybig fel hyn. Cyhuddai Demosthenes fod yr oracl yn cymmeryd ei llygru; a bod yr offeiriades yn defnyddio ei

* *Dr. William Smith's Classical Dictionary* o dan y gair "*Delphi.*"
† *Herod.* B. i. 53.
‡ *Horne's Introd.* vol. i. chap. iv. § iii. *Rollin's Ancient History*, Preface.

hysbrydoliaeth i fradychu y Groegiaid, ac i chwareu i ddwylaw Philip o Macedonia,* a thystiai na ddylid gwrandaw ar ei thwyll, ond ymgynghori â rheswm er gweithio allan fesurau gwladyddol.

O'r dosbarth yma o ragfynegiadau hefyd oedd eiddo y gau brophwydi yn Israel (1 Bren. xxii. 6). Ni ddywedent pa un a wnelai Duw ai rhoddi Ramoth Gilead yn llaw Ahab, ai Israel yn llaw brenin Syria (nid oes dim yn yr Hebraeg am y rhagenw "hi" yn y Beibl Cymraeg); ni wyddent ganlyniad y rhyfel, felly yr oedd eisieu gwneyd yr ateb yn amwysog, fel y gallent hwy ddianc. Nid "chwedlau cyfrwys" (2 Pedr i. 16), fel hyn yw rhagfynegiadau y Beibl, ond profion mai y Duw hollwybodol, i'r hwn yr oedd holl ddygwyddiadau y dyfodiant yn noeth ac yn agored, oedd yn llefaru, ac mai y gwir a'r bywiol Dduw yw Duw y Beibl.

Mae yr engreifftiau uchod yn arddangosiad cywir o natur atebion yr oraclau paganaidd, *fel rheol;* ond dywedir fod rhai engreifftiau i'w cael, pryd yr oedd atebion yr oracl yn eglur. Dyna farn Tertullian (*Apol. i.* 22) ac ereill o'r Tadau, ac yn ddiweddarach Rollin (*Ancient History*, Preface); a'r modd y cyfrifent am yr eglurder ydoedd trwy briodoli yr atebion i oruchwyliaeth cythreuliaid yn eu cynnorthwyo, ac yn dadlenu dirgelion iddynt; ond y rhai a ddystawyd, meddant, ar ol marwolaeth Crist. Cyflwyna Rollin ddwy engraifft i sylw ei ddarllenwyr, y rhai a eilw efe yn engreifftiau eglur o leferydd yr oracl; pa un a ydynt felly ai peidio, caiff y darllenydd farnu drosto ei hun. Un o honynt yw yr hyn a ddywedir am yr ymerawdwr Trajan yn anfon llythyr seliedig at yr oracl yn Heliopolis, gan hawlio atebiad iddo. Nid oedd dim yn y llythyr ond papyr gwyn, a'r atebiad oedd papyr du, heb yr un ysgrifen arno. Synai yr ymerawdwr at gyfaddasrwydd y fath atebiad! Ond gallai ateb fel yna olygu llawer o bethau; naill ai nad oedd efe i gael goleuni ar yr hyn a geisiai, neu fod y rhai a ymgynghorent â'r oracl mewn gwawd, i gael eu hateb gyda dirmyg, neu'r cyffelyb. Y llall yw yr hyn a ddywedir am Crœsus yn anfon i brofi gwahanol oraclau, mewn gwahanol wledydd, er gweled a allent draethu dirgelion ai peidio; a'r prawf oedd iddynt ddweyd pa *beth a fyddai efe yn ei wneuthur ar y canfed diwrnod ar ol iddynt gychwyn.* Nid oedd yr un o'r atebion wrth ei fodd, ond eiddo yr oracl yn Delphi. Ar y canfed diwrnod, aeth ati hi i ddarnio crwban (*tortoise*) ac oen, gan eu berwi yn nghyd mewn berwedydd pres, a dodi gorchudd o

* *Plutarch's Life of Demosthenes.* Y gair a ddefnyddia Demosthenes ydyw φιλιππίζω (philippizô), *to be on Philip's side or party, to Philippize, to favour the interest of Philip.*

bres arnynt. Cafwyd ateb mewn math o farddoniaeth, o ran ystyr yn debyg i'r hyn a ganlyn :—

"Y môr ei fesur gallaf wneyd,
Y tywod mân ei rif gwnaf ddweyd;
Y mud yn siarad deall wnaf,
A chlywed y dilafar gaf:
Yr oen a'r crwban dan eu clwyf,
Yn y noe bres arogli'r wyf."*

Y cythreuliaid oedd wedi cludo yr hanes am yr hyn oedd Crœsus yn ei wneyd i swyddogion teml Apollo yn Delphi, mewn eiliad, ebe Tertullian, â'r hwn y cytuna Rollin; ond credwn na raid i ni fyned at weinidogaeth cythreuliaid, er darganfod y dirgelwch.

1. Nid yw Herodotus yn proffesu cofnodi yn ei hanes ond yr hyn a glywsai gan ereill. Teithiodd lawer er casglu defnyddiau ei hanes. Yr oedd yn byw tua chan' mlynedd ar ol Crœsus (cyn Crist 440) ; yn y cyfnod hwnw gallasai lluoedd lawer o chwedlau gael bodolaeth, yn neillduol yr hyn a adlewyrchai anrhydedd ar y duw a'r deml y rhai oeddynt yn y fath fri, gwirionedd pa rai nas gellid yn hawdd ei gael allan, i'r hwn hefyd nid oedd neb yn prisio cymmeryd y drafferth i chwilio i mewn.

2. A thybied fod y fath atebiad wedi ei roddi, nid oes dim yn yr amgylchiadau ag sydd yn dangos fod yr oracl yn cael unrhyw wybodaeth oruwchnaturiol. Fe sylwir nad dadguddiad o ddirgelion y dyfodiant ydyw. Mae yn sicr mai dynion yn y rhai yr oedd yn meddu ymddiried mawr a anfonai Crœsus ar y fath neges ; mae'n bossibl gan hyny, ac yn debygol, fod ganddynt rhyw ddirnadaeth am yr hyn a fwriadai y brenin ei wneuthur ar ddydd prawf yr oracl. Dichon ei fod wedi eu hysbysu y byddai efe yn difyru ei hun ar y pryd yn nghylch ëangder y cefnfor, neu liosogrwydd y tywod, neu barotoi ciniaw iddo ei hun o bysgodyn o'r hwn yr oedd yn dra hoff. Yr oedd y cenadon hyn yn meddu cydwybodau ystwyth, ac yn agored i gymmeryd eu llwgrwobrwyo; digon tebyg fod offeiriaid Apollo wedi eu holi yn fanwl am arferion, difyrwch, a bwriadau y brenin, gan fygwth llid y duw arnynt os celent; buasai awgrymiad am y pethau hyn yn ddigon o allwedd i'r oracl i ddadlenu y dirgelwch.

Am ffyddlondeb cenadau ar y fath neges, gwel 2 Bren. viii. 10, 14; ac y mae cyhuddiad Demosthenes y cyfeiriwyd ato yn flaenorol, yn dangos i ni pa fath gydwybod oedd gan yr oracl.

3. Atebiad cyffredinol yw eiddo yr oracl. Darllener ef eto. Gwnelsai y tro pe buasai Crœsus yn ceisio mesur y môr, neu gyfrif y tywod, neu geisio deall seiniau dyn mud, neu yn parotoi ciniaw iddo ei hun; neu fel atebiad i un yn amheu hollwybodaeth Apollo, heb gyfeirio yn uniongyrchol at orchwyl Crœsus ar y pryd. Wedi'r cyfan, y mae yn amwysol a dibwynt.

* Gwel atebiad yr oracl yn y Groeg, yn *Herod.* I. 47.

4. Yr ydym yn cael Crœsus ar ol hyn yn achwyn ei fod wedi cael ei dwyllo gan yr oracl.

Pan ofynodd Cyrus i Crœsus, ar ol cwymp y diweddaf, pa ffafr a ewyllysiai gael, atebai,—"Y ffafr fwyaf a ellwch ei dangos i mi yw, caniatâu i mi anfon fy nghadwynau i dduw y Groegiaid, a gofyn iddo, a ydyw yn arfer twyllo y rhai sydd yn ymddwyn yn deilwng tuag ato." Wedi cael caniatâd, anfonodd genadau i Delphi, i ddodi y cadwynau yn y deml, ac i ofyn i'r duw, "a oedd arno ddim cywilydd am ei fod wedi annog Crœsus trwy ei oracl i ryfela â'r Persiaid, gan ei sicrhau y dinystriai efe allu Cyrus; gan ymholi yn mhellach a oedd duwiau y Groegiaid yn arfer â bod yn anniolchgar." * Mae yn wir i'r oracl geisio cyfiawnhau ei hun, ond nid yw ei hamddiffyniad ond yr hyn a ellid ei ddysgwyl gan y fath ymgorpholiad o dwyll a chelwydd.†

Dywedwyd yn flaenorol nad oedd prophwydoliaeth i fod mor eglur fel ag i ddinystrio ei hamcan, ac i fod yn hunan-achosydd ei chyflawniad. Gellid tybied ar yr olwg gyntaf, fod y brophwydoliaeth am Cyrus wrth ei *enw*, yr hon a ragfynegwyd tua 150 o flynyddau cyn ei enedigaeth (Esai. xliv. 28, xlv. 1), yn groes i'r hyn a ddywedir uchod, fel un o wir nodweddau prophwydoliaeth. Ond y mae lle i gredu, nad yw yr enw *Cyrus* ond math o deitl anrhydeddus, cyffelyb i Pharaoh, yn golygu *yr haul*, ac nad ydyw y brophwydoliaeth yn golygu

* *Herodotus* I. 90.

† Dyfais offeiriadol i dwyllo y byd oedd yr oraclau hyn. Gwneid y delwau yn wag *(hollow)* o fewn, a byddai yr offeiriaid, neu ryw bersonau o dan eu cyfarwyddyd, yn myned i mewn iddynt er rhoddi atebion i'r addolwyr; a dysgid y werin mai y duwiau oedd yn llefaru trwy y delwau. Gwelodd yr awdwr ddwy o'r delwau oraclaidd hyn pan oedd yn Itali yn y flwyddyn 1877. Mae un o honynt yn mhalas y Vatican, yn Ystafell y Rotonda; mae hi yn ddeuddeg troedfedd o uchder, ac o herwydd ei maintioli gelwir hi Hercules. Rhoddodd y Pab Pius IX. £10,000 am dani. Preswaith goreuredig ydyw. Darganfyddwyd hi yn 1864, yn sylfeini palas y Righetti. Y mae twll yn y tu ol i'r pen, ddigon o'i faint i ddyn lled fychan fyned i mewn trwyddo i gorph y ddelw. Gwelsai ein harweinydd ar y pryd (sef Mr. Shakspere Wood, llenor ac ysgolhaig), fachgenyn dros bymtheg oed yn cael ei ddodi i mewn trwyddo, fel yr aeth yn hollol guddiedig yn y ddelw. Barnai Mr. Wood fod yr offeiriaid paganaidd yn foreu yn y cyfnod Cristionogol, pan oedd y dadleuon yn frwd rhyngddynt a'r Cristionogion, wedi cymmeryd y ddelw i ffwrdd o un o'u temlau a'i chladdu liw nos, rhag ofn i dwyll eu horaclau gael ei ddynoethi.

Yn yr Amgueddfa Genedlaethol yn Naples, mae delw bres o Diana, yr hon a gludwyd yno o Deml Isis, yn Pompeii. Y mae hon hefyd yn wag o fewn. Mae twll yn y tu ol i'r pen gyferbyn â'r genau, trwy yr hwn y byddai yr offeiriad yn rhoddi atebion i'r addolwyr trwy gyfrwng math o bibell *(tube)*. Pan oeddym yn Pompeii, dangoswyd i ni y twll yn ochr yr allor oddiar ba un y cymmerasid y ddelw, trwy yr hwn yr arferai yr offeiriad fyned, fel ag i fod o dan y ddelw ac allan o olwg y bobl.

mwy na *brenin Persia*. Ymddengys mai enw priodol Cyrus ydoedd *Agradates*, ac iddo gymmeryd arno yr enw Kouros neu Khouresh, pan yr esgynodd i'r orsedd. (*Strabo*, xv. 3.) Dyna farn yr enwog Moses Stuart (*On the Old Test. Canon*, p. 100): gwel hefyd Eiriadur Dr. Kitto, a Geirlyfr Hebraeg Gesenius, ar y gair. Gwna cofio y sylw hwn symmud ymaith rai anhawsderau ereill o gyffelyb natur.

III. Cadarnhad Cyfieithiadau Henafol, Traddodiadau Cenedlig, a Hanesiaeth Gyffredin o Ffeithiau y Beibl.

1. *Bodolaeth Pum' Llyfr Moses yn mhlith y Samariaid* (Samaritan Pentateuch), *a chyfieithiadau henafol.*

*a*,) Y Pum' Llyfr Samaritaidd. Defnyddiai y Samariaid bum' llyfr Moses, y rhai a dderbyniasent, mae'n dra thebygol, oddiwrth y deg llwyth, i wlad pa rai yr aethant yn y seithfed ganrif cyn Crist. Ysgrifenwyd ef yn yr hen lythyrenau Hebreig. Yr oedd yn nheyrnas Israel, yn ogystal ag yn nheyrnas Judah, o amser Rehoboam yn mlaen, gopiau o ddeddf Moses, oblegyd nid ydym yn cael y prophwydi yn cyhuddo Israel o fod yn amddifad o gyfraith Duw, ac yn anwybodus o honi, ond o anufydd-dod iddi (2 Bren. xvii. 13); a phan y caethgludwyd y deg llwyth i Assyria, y mae yn beth hollol annhebygol eu bod wedi myned â *phob copi* o gyfraith Moses gyda hwynt, fel nad oedd yr un yn y wlad. Diau hefyd fod gan yr offeiriad a anfonodd brenin Assyria i'w dysgu yn ewyllys Duw Israel gopi o ddeddf Moses (2 Bren. xvii. 27, 28), pe amgen ni allasai eu dysgu i wasanaethu Duw, yn ol yr hyn a ddywedir am dano. Mae bodolaeth y llyfr hwn yn brawf pwysig o wirionedd y Beibl. Crybwylla Eusebius (A.D. 320), Cyril o Alexandria (A.D. 420), Jerome (A.D. 400), Procopius o Gaza (A.D. 500), ac ereill am dano; aeth o'r golwg ar ol hyny am tua mil o flynyddoedd; o'r diwedd yn y flwyddyn 1616 cafodd un o'r enw Peter Della Valle, afael ar gopi o hono, yr hwn a anfonwyd i Paris yn 1623. Yn mhen ychydig ar ol hyny, llwyddodd Archesgob Usher i gael chwe' chopi o'r Dwyrain; a daethant mor lliosog ar ol hyn, fel y cymharai Kennicott 16 o honynt pan yn parotoi argraffiad newydd o'r Beibl Hebraeg, yr hwn a gyhoeddwyd yn 1776—1780.

*b*,) Cyfieithiad y Deg a Thrigain *(Septuagint)*. Cyfieithwyd yr Hen Destament i'r Groeg yn Alexandria, yr Aifft, yn agos i dri chan' mlynedd cyn Crist. Y mae y cyfieithiad hwn ar gael hyd yn awr, a gwneir defnydd helaeth o hono gan ysgolheigion a beirniaid Beiblaidd.

*c*,) Y Cyfieithiad Syriaidd *(The Peshito)*. Cyfieithwyd y Beibl i'r iaith Syriaeg yn niwedd y ganrif gyntaf, neu yn gynnar yn yr ail ganrif. Sonia Ephrem y Syriad, yr hwn a flodeuodd yn y bedwaredd ganrif, am dano fel cyfieithiad ag oedd yn cael cylchrediad cyffredinol yn mhlith y Cristionogion Syriaidd yn ei amser ef, gan ei alw EIN CYFIEITHIAD NI, yr hyn na wnelsai, oni buasai ei fod o awdurdod a pharch mawr yn eu plith.

Y mae y ffeithiau hyn o'r pwys mwyaf. Dengys y Pumllyfr Samaritaidd fod pum' llyfr Moses yn cael eu derbyn yn foreu yn Palestina, fel cynnyrch ysbrydoliaeth Duw; dengys cyfieithiad y Deg a Thrigain fod yr Hen Destament yn bodoli ac yn cael ei dderbyn fel gair Duw, o leiaf dri chan' mlynedd cyn Crist. Ni allasai yr Iuddewon lygru y Beibl Hebraeg pe buasent yn ewyllysio hyny, heb i'r llygriad gael ei ddarganfod trwy y Pumllyfr Samaritaidd a chyfieithiad y Deg a Thrigain; ac ni allasai y Samariaid a'r Iuddewon a siaradent yr iaith Roeg lygru eu Hysgrythyrau hwythau, heb i hyny gael ei ddynoethi trwy gyfrwng y Beibl Hebraeg. Felly hefyd yr oedd y cyfieithiad Syriaeg yn rhwystr i ysgriflyfrau y Testament Newydd gael eu llygru, heb i hyny gael ei ddarganfod; ac yn brawf ei fod yn cael ei dderbyn fel llyfr ysbrydoledig yn niwedd y ganrif gyntaf.

2. *Cadarnhad Traddodiadau Cenedlig.*

Gellir edrych ar draddodiadau yn nghylch ffeithiau yr hanesiaeth gyssegredig, yn mhlith cenedloedd henafol gynt ac mewn gwledydd paganaidd yn awr, fel math o adsain yn aros ar ol i'r llef nefol ei hun ddistewi, neu fel pelydrau yr haul yn ymlewyrchu yn egwan ar ol i'r haul ei hun fachludo.

Hawdd y gallesid trosglwyddo gwybodaeth am hanesiaeth foreuol y byd, am gwymp dyn a'r addewid am ei adferiad, y diluw, &c., i'r ol-ddiluwiaid. Yr oedd pedair oes yn ddigon i gyrhaedd o greadigaeth dyn hyd ddyddiau Abraham, cyfnod o dros ddwy fil o flynyddoedd. Bu Methuselah yn cydoesi a'r

Adda am 243 mlynedd, ac â Noah am 600 mlynedd; a bu Noah drachefn yn cydoesi ag Abraham am 58 mlynedd (*Dr. Jahn's Introduction to the Old Testament*, pp. 208, 209).

Diau fod Methuselah wedi cael ei ddysgu gan Adda, ac Enoch ei dad yr hwn oedd brophwyd i'r Arglwydd, am hanes creadigaeth dyn, a'i brawf, a'r canlyniadau; a'i fod wedi trosglwyddo y wybodaeth a gasglodd i Noah a'i gydoeswyr; a Noah drachefn i'w blant a'i olynwyr. Yr oedd Noah ei hun hefyd yn brophwyd, ac yn cael dadguddiad uniongyrchol oddiwrth Dduw. Mae'n ddiamheuol fod gwas mor ffyddlawn i Dduw wedi dysgu ei blant a'i gydoeswyr yn ofalus a manwl yn egwyddorion crefydd, a hanes goruchwyliaethau Duw tuag at y byd. Yn eu crwydriadau coleddai hiliogaeth Noah ei addysgiadau; ac er y dichon iddynt annghofio llawer o wirioneddau, a chymmysgu llawer o ddychymmygion â'r hyn a gadwasant, eto ni allent annghofio y cyfan, na llygru hanfodion yr oll a dderbyniasent. Cymharer hanes Job, Abimelech, (Gen. xx.) Abraham, ac ereill, er gweled fod y wybodaeth am y gwir Dduw yn cael ei chadw yn y byd cyn rhoddiad y ddeddf.

Gwna yr ystyriaethau hyn ein parotoi i ddysgwyl cael ar ddeall fod traddodiadau i'w cael yn mhlith cenedloedd paganaidd, yn nghylch cynnwysiad hanesiaeth foreuol y Beibl. Ac nid dysgwyliad ofer fydd hwn. Ceir traddodiadau yn mysg y paganiaid am gyflwr afluniaidd y belen ddaearol o'r hon y deilliodd y byd yn ei ffurf bresennol—am urddas gwreiddiol a chwymp dyn—am y sarff fel y temtiwr—am hir-hoedledd plant dynion, a maintioli cawraidd rhai o honynt yn oesoedd boreuol y byd —ac am y diluw; a cheir fod dosraniad amser i wythnosau yn arferedig yn mhlith gwahanol genedloedd o'r oesoedd boreuaf. Mae y traddodiadau hyn yn fath o adsain lleferydd y gwirionedd Dwyfol yn nechreu y byd. Pa reswm a ellid ei roddi dros fodolaeth y traddodiad am gyflwr cymmysglyd ac afluniaidd y belen ddaearol ar y dechreu, a hyny cyn bod son am Ddaeareg, heblaw mai fel yna y dysgasid ein cyn-dadau ar y cyntaf am dani? Ni allasai y chwedl am "yr oes euraidd" gael bodolaeth yn mhlith gwahanol genedloedd, pe na fuasai yr hanes am gyflwr dyn yn ei ddiniweidrwydd, ei gwymp, a'r addewid am ei adferiad, wedi cael ei ledaenu yn mhlith y teulu dynol. Nis gellir cyfrif am y traddodiad fod y sarff, yn hytrach na rhyw ymlusgiad neu anifail arall, wedi temtio dyn, ond ar yr ystyriaeth fod hanes y cwymp fel y ceir ef yn Genesis wedi cael ei drosglwyddo oddiwrth un oes i'r llall. Mae yn anmhossibl rhoddi cyfrif boddhaol am ddosraniad amser i gofnodau wythnosol, ond ar dir ei darddiad Dwyfol ar y dechreu. Yr oedd yr hyn a elwir cylchdroadau dyddiol a blynyddol y ddaear, yn cyfrif am ddosraniadau amser i ddyddiau

a blynyddoedd, a chyfnewidiadau y lleuad yn awgrymu ei ddosraniad i fisoedd (Gen. i. 14—16); ond nid oes dim o'r fath yna yn awgrymu ei ddosraniad i wythnosau, ac ni chlywsom son am ei ddosraniad cyffredinol i wythnosau oni buasai i Dduw santeiddio y seithfed dydd ar y cyntaf. Ceir yr arferiad o aberthu yn mhlith gwahanol genedloedd; ond nid oes eglurhad boddhaol i'w roddi ar hyn ond y dyb o sefydliad Dwyfol aberthau ar ol cwymp dyn; er fod y traddodiad wedi cael ei lygru, ac arwyddocâd y weithred o aberthu wedi cael ei golli ganddynt i raddau pell, os nad yn hollol.

Cawn grybwyllion helaeth mewn hanesiaeth henafol am draddodiad yn nghylch y diluw yn mhlith gwahanol genedloedd. Cofnoda yr hanesydd Berosus (C.C. 261—246), y traddodiad Caldeaidd yn ei gylch. Dywed "fod diluw mawr wedi cymmeryd lle yn nyddiau y brenin Xisuthrus. Yr oedd y Duw Cronos wedi ei rybuddio y byddai diluw, trwy yr hwn y dinystrid plant dynion. Gorchymynodd iddo gan hyny i ysgrifenu hanes pob peth, ac adeiladu llong, a myned iddi gyda'i gyfeillion a'i berthynasau; a dodi ar ei bwrdd fwyd a diod, yn nghyda gwahanol anifeiliaid, adar, a chreaduriaid pedwar-troediog, ac yna gollwng ei hun i'r dyfnder. Ar ol peth amser anfonai adar allan o'r llong ar wahanol adegau; fe ddychwelodd y ddau gyntaf, ond ni ddychwelodd y trydydd, oddiwrth yr hyn y casglodd fod y diluw wedi cilio. Fe orphwysodd y llong ar y tir yn Armenia." "Dywedir fod eto ranau o'r llong yma yn Armenia, yn mynydd y Cordyaiaid (Kurdistan); ac mae pobl y wlad yn crafu ymaith y pŷg oddiarni a'i gymmeryd ymaith, gan ei ddefnyddio fel swyn-gyfaredd er gochelyd damweiniau."

"Mae gan Nicolaus o Damascus [cydoeswr â Herod Fawr tuag adeg genedigaeth Crist] yn llyfr 96 o'i hanes (ebe Josephus), yr adroddiad canlynol o barthed iddo:—'Yn nhalaeth Minyas yn Armenia, mae mynydd uchel, yr hwn a elwir Baris, ar yr hwn y dywedir fod llawer a ffoisant yno yn amser y diluw wedi cael eu hachub. Mae traddodiad hefyd fod llong â dyn ynddi wedi gorphwys ar y mynydd uchod, a bod peth o'r coed wedi parhau am amser hir. Mae'n debyg mai hwn yw y dyn y crybwyllodd Moses am dano.'" (*Josephus's Antiq. of the Jews*, B. I. c. 3.)

Ystyria y Chiniaid fod y diluw wedi cymmeryd lle tua 4,000 o flynyddoedd cyn Crist. Dywed eu traddodiad "fod Fah-he, awdwr gwareiddiad China, wedi dianc o ddyfroedd y diluw. Efe oedd y dyn cyntaf i adnewyddu y byd; ac yr oedd gydag ef saith o gymdeithion, sef ei wraig, ei dri mab, a'i dair merch; trwy uniad priodasol pa rai yn eu plith eu hunain y poblogwyd yr holl fyd."

Yr oedd traddodiadau cyffelyb yn mhlith yn Indiaid a'r Persiaid; a chadwyd crybwyllion yn nghylch y diluw yn mysg Indiaid Gogledd America, trigolion Mexico, a phreswylwyr Ynysoedd Fiji. Dysga y traddodiad Groegaidd, yn ol Lucian, "fod drygioni dynion wedi gwneyd y diluw yn angenrheidiol, a bod y ddaear wedi ymagor ac anfon dyfroedd allan i'w llyncu hwynt, a bod gwlaw dirfawr wedi disgyn arnynt. Darfu i Deucalion, fel yr unig ddyn cyfiawn, ddianc gyda'i wraig a'i blant, a'r anifeiliaid a roddasai yn y llong; a thiriodd yn mhen naw diwrnod ar

ben Parnassus, tra yr oedd y rhan fwyaf o wlad Groeg o dan ddwfr, ac y trengodd braidd yr holl bobl, oddieithr ychydig nifer a ffoisent i benau y mynyddoedd uchaf." Crybwylla Plutarch am y golomen yr hon a anfonai Deucalion allan, er gweled pa un a oedd y diluw wedi lleihau ai peidio.

Fe welir fod y traddodiad Groegaidd yma wedi cael ei lygru yn fwy na'r un Caldeaidd a Chiniaidd mewn rhyw bethau, tra y noda yn fwy eglur beth oedd yr achos moesol o'r diluw, sef drygioni plant dynion; ond mae yn amlwg mai cyfeirio at ddiluw Noah y mae y naill fel y llall, ac ni fuasai y fath draddodiadau yn bossibl oni buasai fod y diluw yn ffaith.* (Gwel *Horne's Introduction*, vol. I. Edition 1856, pp. 144–162: *Grotius's Truth of the Christian Religion*, Book I, Sections, xv., xv. : a *Dr. Perowne's Article on Noah, in Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible.*)

3. *Tystiolaeth Hanesiaeth Gyffredin i wirionedd y Beibl.*

*a,) Tystiolaeth Josephus.*

Fe anwyd Josephus yn Jerusalem, yn y flwyddyn 37 A.D. Ysgrifenodd aralleiriad o'r Hen Destament, a Hanes yr Iuddewon o amser yr Hen Destament hyd Ddinystr Jerusalem, ac Amddiffyniad i'w Hynafiaethau yn ngwyneb ymosodiadau Apion ac ereill. Wedi cyhoeddiad ei Hynafiaethau, darfu i rai gelynion i'r Iuddewon daflu dirmyg ar eu hanes, gan awgrymu mai ffug oedd yr hynafiaeth mawr a'r hanes anrhydeddus a hawlient iddynt eu hunain, am nad oedd haneswyr Groegaidd yn cyfeirio atynt. Yn ei amddiffyniad dywed Josephus fod safle gwlad Canaan, a neillduolrwydd bywyd ac arferion yr Israeliaid, yn eu cadw i raddau helaeth ar eu penau eu hunain. Ond ychwanega nad ydyw *dystawrwydd* haneswyr mewn un modd yn annghysson â bodolaeth a safle anrhydeddus gwahanol genedloedd, gan nad ydyw Herodotus na Thucydides yn crybwyll gair am allu a buddygoliaethau y Rhufeiniaid; tra y maent, o'r ochr arall, yn fynych yn rhoddi cofnodion hollol annghywir am bethau a lleoedd, megys Ephorus, un o haneswyr enwocaf Groeg, yn desgrifio Yspaen fel yn gynnwysedig o un ddinas yn unig!

* Yr oedd traddodiad am y diluw yn mhlith y Cymry hefyd, fel yr ymddengys oddiwrth y *Trioedd Cymreig*. "Un o dair engir ddichwain Ynys Prydain ; toriad Llyn Llion, a myned bawdd hyd wyneb yr holl diroedd, oni foddes yr holl ddynion, namyn Dwyfan a Dwyfach, a ddiangasant mewn llong foel, ac o honynt hwy yr adeppiliwyd Ynys Prydain."—*Trioedd.* "Llong Nefydd naf Neifion, a ddug wrryw a benyw o bob byw pan dorres Llyn Llion : ac ychain bannog Hu Gadarn, a lusgasant afanc y llyn i dir, ac ni thorres y llyn mwyach."—*Trioedd.*

Er attegu ei Hynafiaethau, a phrofi gwirionedd hanesiaeth y Beibl, dyfyna Josephus o weithiau hanes paganaidd.

Manetho, awdwr Aifftaidd, yr hwn a flodeuodd C.C. 323 - 285, o ysgrifeniadau pa un y gwna Josephus ddyfyniadau helaeth, a brofa allan o gofnodion Aifftaidd fod "llwythau dwyreiniol wedi goresgyn yr Aifft, a bod yr Aifftiaid ar ol hir amser wedi ymlid y rhan fwyaf o honynt ymaith; ond eu bod wedi gwneyd cyfammod â'r gweddill, yn ol yr hwn yr oeddynt i adael yr Aifft, a myned i'r lle y gwelent yn dda; a'u bod wedi myned i Judea, ac adeiladu Jerusalem." Ymddengys fod Manetho yn cymmysgu hanes Israel â hanes yr Hyksos neu y Breninoedd Bugeiliol, y rhai a oresgynasent yr Aifft rhywbryd rhwng dyddiau Abraham a gweinyddiaeth Joseph. Fe gyfododd yr Aifftiaid yn erbyn y goresgynwyr hyn, ac ar ol rhyfel o ddeng mlynedd ar hugain o barhad, hwy a lwyddasant i'w gyrru o'r wlad. Dywedir eu bod wedi myned i Ganaan, ac ymsefydlu gyda glan môr y wlad hono, ac i'r wlad gael yr enw *Palestina*, sef Tir y Bugeiliaid, oddiwrth natur eu gorchwylion hwynt. Dyma Philistiaid y Beibl. Dywed Josephus fod yr Aifftiaid yn fwriadol yn ceisio taflu anfri ar hanes yr Israeliaid o herwydd eu cynnydd rhyfeddol yn yr Aifft, a natur eu haddoliad. Haerent fod Moses a Joseph yn gydoeswyr, a'u bod wedi cael eu gyrru allan o'r Aifft yr un pryd, yn nghydag amryw gamgymmeriadau ereill. Mae tystiolaeth Manetho, modd bynag, yn cynnwys dau sylw pwysig yn ffafr yr hanesiaeth Iuddewig, ebe Josephus, sef (1.) fod hynafiaid Israel wedi myned i'r Aifft ar y cyntaf o ryw wlad arall; ac (2.) eu bod wedi gadael yr Aifft yn agos i fil o flynyddoedd o flaen cwymp Caerdroia.

Ar ol dyfynu i'r un pwrpas o weithiau *Dius*, hanesydd Phœniciaidd, *Menander*, o Ephesus, a *Berosus*, yr hanesydd Caldeaidd, cyfeiria Josephus at lu o awduron Groegaidd, y rhai a gadarnhant yr hanesiaeth Feiblaidd mewn gwahanol ystyriaethau; megys Hycataeus, C.C. 500; Pythagoras, C.C. 540 – 510; Herodotus, C.C. 440; Clearchus, C.C. 350; ac amryw ereill. Gyda chyfiawnder perffaith, gan hyny, yr ychwanega:— "Gyda golwg ar hynafiaeth, mae ein deddfroddwr ni yn meddu blaenoriaeth ddiamheuol ar bawb ereill; oblegyd nid oedd Lycurgus (C.C. 884), Solon (C.C. 594), Zaleucus o Locris (C.C. 663), a Groegiaid ereill ag yr ymffrostir cymmaint ynddynt, ond cymmeriadau diweddar mewn cymhariaeth i Moses." (Gwel *Josephus Against Apion*, Books I. & II.) Mae yr holl ysgrifenwyr hyn, yn y naill ffordd neu y llall, yn cadarnhau hanesiaeth y Beibl.

Gallwn ninau wneyd defnydd yn awr o waith Josephus ei hun i gadarnhau hanesiaeth y Testament Newydd, megys ag y gwnai yntau o weithiau paganiaid i brofi gwirionedd yr Hen Destament. Mae ei ysgrifeniadau ef yn rhoddi eglurhad anfwriadol ar amryw o ymadroddion a chyfeiriadau yn y

Testament Newydd, o'r hyn ni a roddwn ychydig o engreifftiau :—

"Yna Herod, pan weles ei siomi gan y doethion, a ffromodd yn aruthr, ac a ddanfonodd, ac a laddodd yr holl fechgyn oedd yn Bethlehem, ac yn ei holl gyffiniau, o ddwyflwydd oed a than hyny, wrth yr amser yr ymofynasai efe yn fanwl â'r doethion." (Mat. ii. 16.)

Mae hanes Herod yn dangos yn eglur fod yr hyn a ddywedir am dano yma yn hollol gredadwy. Yr oedd ei natur yn ymferwi o gynddaredd ynddo, ac yn ei annog yn mlaen i ryw farbareiddiwch neu gilydd yn barhaus; yr oedd ei lwybr i'r orsedd, a'i orsedd hefyd, wedi eu llychwino â gwaed; nid oedd dinystr ei deyrnfradwyr yn ddigonol ganddo, heb ddinystrio eu holl deuluoedd hefyd; syrthiodd ei briod ei hun, Mariamne, a'i dri mab, Alexander, Aristobulus, ac Antipater, yn ysglyfaeth i'w gynddaredd; ac yr oedd wedi rhoddi gorchymyn (yr hyn ni fuwyd mor rhyfygus a'i gyflawni), fod pendefigion penaf Judea i gael eu llofruddio y munyd y byddai efe ei hun farw! (*Josephus's Antiq.* B. xv. 7, 4; viii. 4; *Wars of the Jews*, B. i. 27, 6; i. xxxiii. 6, 7. *Neander's Life of Christ*, § 20.)

"Eithr pan glybu efe fod Archelaus yn teyrnasu ar Judea yn lle ei dad Herod, efe a ofnodd fyned yno. Ac wedi ei rybuddio gan Dduw mewn breuddwyd, efe a giliodd i barthau Galilea." (Mat. ii. 22.)

"Ac yn awr Herod a gyfnewidiodd ei ewyllys ar ôl iddo newid ei feddwl; oblegyd efe a appwyntiodd Antipas, i'r hwn yr oedd o'r blaen wedi gadael y deyrnas, i fod yn detrarch Galilea a Berea, ac a roddodd y deyrnas (Judea) i Archelaus." (*Joseph. Antiq.* B. xvii. ch. viii. § 1.)

"Yn y ddegfed flwyddyn o lywodraethiad Archelaus, gwnaeth ei frodyr a phrif ddynion Judea a Samaria, gan na allent oddef ei greulondeb a'i orthrwm, achwyn arno wrth Cæsar," yr hyn a arweiniodd i'w alltudiad i Vienne, yn Ffrainc. (*Antiq.* B. xvii. ch. xiii. § 2.)

Cawn yn y dyfyniadau uchod o Josephus gadarnhad i'r ffaith a awgrymir gan Matthew, sef *appwyntiad Archelaus i deyrnasu ar Judea yn lle ei dad*, a'i *greulondeb annyoddefol*, yr hyn a barai i Joseph arswydo myned i'w derfynau.

"Canys yr Herod hwn a ddanfonasai, ac a ddaliasai Ioan, ac a'i rhwymasai ef yn y carchar, o achos Herodias gwraig Phylip ei frawd; am iddo ei phriodi hi." (Marc vi. 17.)

"Priodasai Herod y tetrarch ferch Aretas, a buasai fyw gyda hi am dymhor hir; ond pan oedd yn Rhufain, lletyodd gyda Herod (hyny yw Herod Philip), yr hwn yn wir oedd yn frawd iddo, ond nid o'r un fam. Modd bynag, syrthiodd mewn cariad â Herodias, gwraig i'r Herod diweddaf. Beiddiodd y dyn hwn son wrthi am briodi; â'r hyn y cydsyniodd," &c. (*Antiq.* B. xviii. ch. v. § 1.)

"Ac wedi i ferch Herodias hono ddyfod i mewn, a dawnsio, a boddhau Herod, a'r rhai oedd yn eistedd gydag ef, y brenin a ddywedodd wrth y llances, Gofyn i mi y peth a fynech, ac mi a'i rhoddaf i ti." (Marc vi. 22.

"Ond yr oedd Herodias eu chwaer wedi priodi Herod (Philip), mab Herod Fawr; i'r hon yr oedd *merch o'r enw Salome*, ar ol genedigaeth pa un, darfu i Herodias ddiystyru cyfreithiau ein gwlad, ac ysgaru ei hun oddiwrth ei gŵr, tra yr oedd efe yn fyw, a phriodi Herod (Antipas), brawd i'w gŵr o du ei dad." (*Antiq.* B. xviii. ch. v. § 4.)

"Eithr Herod, pan ei ceisiodd ef, ac heb ei gael, a holodd y cedwaid, ac a orchymynodd *eu* cymmeryd *hwy* ymaith. Yntau a aeth i waered o Judea i Cesarea, ac a arosodd *yno*. Eithr Herod oedd yn llidiog iawn yn erbyn gwŷr Tyrus a Sidon: a hwy a ddaethant yn gytun ato; ac wedi ennill Blastus, yr hwn oedd ystafellydd y brenin, hwy a ddeisyfasant dangnefedd; am fod eu gwlad hwynt yn cael ei chynnaliaeth o wlad y brenin. Ac ar ddydd nodedig, Herod, wedi gwisgo dillad breninol, a eisteddodd ar orseddfainc, ac a areithiodd wrthynt. A'r bobl a roes floedd, Lleferydd Duw, ac nid dyn *ydyw*. Ac allan o law y tarawodd angel yr Arglwydd ef, am na roisai y gogoniant i Dduw: a chan bryfed yn ei ysu, efe a drengodd." (Act. xii. 19—23.)

"Yn awr, ar ol i Agrippa deyrnasu am dair blynedd dros holl Judea, efe a ddaeth i ddinas Cæsarea, yr hon o'r blaen a elwid, Tŵr Strato; ac yno efe a wnaeth arddangosiadau er anrhydedd i Cæsar. Ar yr ail ddiwrnod o'r arddangosiadau, efe a roddodd am dano amwisg wedi ei gwneyd yn gyfangwbl o arian, ac o'r gwneuthuriad mwyaf cywrain, ac a aeth i'r chwareufa yn gynnar yn y boreu: y pryd hyny gan fod pelydrau yr haul yn cael eu hadlewyrchu gan arian ei wisg, fe ddysgleiriodd ei wisg mewn modd rhyfedd dros ben, ac aeth mor ddysglaer nes brawychu y rhai a edrychent yn graff arni; ac yn fuan llefodd ei wenieithwyr allan, un o un lle, a'r llall o le arall, mai Duw ydoedd; ac ychwanegasant, 'Bydd drugarog wrthym; oblegyd er i ni dy barchu hyd y ..a ond yn unig fel dyn, eto o hyn allan ni a'th gydnabyddwn uwchlaw un marwol.' Ni wnaeth y brenin ar hyn na'u ceryddu na gwrthod eu gweniaith. Yn ddioed ar ol hyn, ymaflodd poen mawr yn ei goluddion, a chludwyd ef ar frys i'r palas. Gan fod y poenau hyn yn ei ddirdynu yn barhaus, efe a fu farw yn mhen pum' niwrnod." (*Antiq. Book,* xix. ch. viii. § 2.)

"A'r sefyllwyr a ddywedasant wrtho, A ddifenwi di archoffeiriad Duw?" (Act. xxiii. 4.)

"Yn awr (ebe Paley, *Evidences*, p. 265), ymddengys wrth chwilio i hanes yr oes, nad oedd Ananias, am yr hwn y dywedir hyn, mewn gwirionedd yn archoffeiriad, er ei fod yn eistedd mewn barn fel un yn y cymmeriad hwnw. Yr oedd yr amgylchiad fel hyn; yr oedd efe unwaith wedi bod yn dal y swydd, ond ar ol hyny wedi cael ei ddiswyddo; yr oedd ei olynydd wedi cael ei lofruddio; nid oedd yr un arall eto wedi cael ei appwyntio i'r swydd; ac yn y cyfwng, yr oedd Ananias, o'i awdurdod ei hun, wedi cymmeryd arno i gyflawni y swydd."

"A'r archoffeiriad a gyfododd, a'r holl rai oedd gydag ef, yr hon yw heresi y Saduceaid, ac a lanwyd o genfigen." (Act. v. 17.)

Awgrymir yma fod yr archoffeiriad yn Saducead; er fod hyn yn ymddangos yn ddyeithr, eto cawn engreifftiau ereill o'r un peth:—

"Darfu i John Hyrcanus, archoffeiriad yr Iuddewon, adael y Phariseaid mewn dirmyg, ac *ymuno â phlaid y Saduceaid*." (*Antiq.* B. xiii., chap. x. § § 6, 7.) Yr oedd hyn dros gan' mlynedd cyn Crist.

Wele engraifft arall. "Yr oedd yr Ananias ieuengaf hwn, pa un, fel y dywedasom eisioes, oedd wedi derbyn yr archoffeiriadaeth, yn greulon a thrahaus yn ei ymddygiad, ac yn fwy hyf a rhyfygus na phawb, ac *yr oedd hefyd o sect y Saduceaid.*" (*Antiq.* B. xx. ch. viii. § 1.) Yr oedd hyn tua chanol y ganrif gyntaf.

| | |
|---|---|
| "Gwna gan hyny yr hyn a ddywedwn wrthyt; y mae genym ni bedwar gwŷr a chanddynt adduned arnynt." (Act. xxi. 23.) | "Y mae yn arferol i'r rhai fyddant wedi cael eu cystuddio â rhyw afiechyd, neu wedi bod yn ymladd âg unrhyw anhawsderau ereill, i wneuthur *adduned,* ddeg niwrnod ar hugain cyn iddynt offrymu aberthau, i ymattal oddiwrth win, *ac i eillio gwallt eu penau.*" (*Wars of the Jews,* Book ii. ch. xv. § 1.) |
| "Cymmer y rhai hyn, a glanhaer di gyda hwynt, a gwna draul arnynt, fel yr eilliont *eu* penau; ac y gwypo pawb am y pethau a glywsant am danat ti, nad ydynt ddim, ond dy fod di dy hun hefyd yn rhodio, ac yn cadw y ddeddf." (Act. xxi. 24.) | "Efe (Herod Agrippa) a ddaeth i Jerusalem, ac a offrymodd aberthau diolch, ac ni adawodd heibio ddim a orchymynir yn y ddeddf: o herwydd hyn efe a orchymynodd *i lawer o'r Nazareaid i gael eillio eu penau.*" (*Antiq.* Book xix. ch. vi. § 1.) |

Ystyrid yn mhlith yr Iuddewon ei bod yn weithred dduwiol i dalu treulion eillio gwallt y rhai oeddynt o dan adduned i wneuthur hyny. Gwel *Dr. Paley's Evidences of Christianity,* Part II. ch. vi., lle y cyfeirir at y tystiolaethau uchod, ac at ddegau ereill o rai cyffelyb.

*b.*) *Tystiolaeth Tacitus.* Ganwyd Tacitus yn y flwyddyn 61, A.D., a bu farw tua'r flwyddyn 120, A.D. Yn y fl. 78, A.D., priododd ferch i Agricola, y rhaglaw Rhufeinig yn Mhrydain. Yr oedd yn hanesydd Lladinaidd o fri, ac y mae ei weithiau yn meddu safle uchel yn marn ysgolheigion pob gwlad. Yn Llyfr V. o'i Hanes, cyn rhoddi y manylion yn nghylch cwymp Jerusalem, dyry grynhodeb o hanes yr Iuddewon, yr hyn a ddengys fod yr Hen Destament yn cael ei ystyried gan genedloedd ereill fel cofnodiad credadwy o hanes plant Israel. Ceir y manylion canlynol yn y crynodeb a rydd Tacitus o hanes boreuol y genedl Iuddewig:—

Dywed eu bod wedi myned i'r Aifft, ar y cyntaf, naill ai o Creta, neu Ethiopia, neu Assyria—eu bod wedi dyfod allan o'r Aifft o dan arweiniad Moses—eu bod wedi myned trwy gyfyngderau mawrion ar eu taith o'r Aifft i Ganaan—eu bod wedi ymlid y trigolion o'r wlad, ac adeiladu Jerusalem a'r deml—ac mai Moses oedd eu deddfroddwr. Noda amryw o'u defodau crefyddol, a thystia na addolent ond un Duw, ac nad oedd ganddynt yr un ddelw o hono. Crybwylla fod y Môr Marw yn y man lle y safai dinasoedd poblog gynt, y rhai a ddinystriwyd gan ystormydd o fellt a tharanau. Yna â rhagddo i roddi desgrifiad o Judea, a braslun o hanes yr Iuddewon hyd gwymp Jerusalem.

Er fod Tacitus yn annghywir mewn amryw bethau, megys

fod Israel wedi myned i mewn i Ganaan ar y seithfed dydd ar ol iddynt adael yr Aifft, a'r cyffelyb, eto, fe welir yn eglur fod ei dystiolaeth yn cyd-gordio yn sylweddol â'r hanesiaeth ysgrythyrol.

Mae ei ysgrifeniadau hefyd yn cadarnhau cynnwysiad y Testament Newydd. Cyhuddid yr ymerawdwr Nero o fod wedi rhoddi Rhufain ar dân. Er ceisio glanhau ei hun oddiwrth yr amheuaeth, rhoddodd y bai ar y Cristionogion. Fel y canlyn y sylwa Tacitus ar yr amgylchiad hwn:—

"Er rhoddi terfyn, gan hyny, i'r amheuaeth hwn, efe a gyhuddodd ac a gosbodd yn y modd mwyaf creulon, ddosbarth o bobl, y rhai a ffieiddiodd o herwydd eu troseddau,* ac a elwid gan y cyffredin *Cristionogion*. Eu sylfaenydd oedd Crist, yr hwn a oddefodd farwolaeth yn nheyrnasiad Tiberius, o dan ei raglaw Pontius Pilat. Darfu i'r ofergoeledd dinystriol hwn, pa un a attaliwyd fel hyn am dymhor, dori allan eilwaith; a lledaenodd nid yn unig dros Judea, lle y dechreuodd y drwg, ond trwy Rufain hefyd, i ba le y mae pob peth drwg ar y ddaear yn gweithio ei ffordd, a'r lle mae yn cael ei arfer. Daliwyd rhai personau ar y cyntaf, y rhai oeddynt yn perthyn i'r sect hon, ac ar ol hyny, trwy hysbysiad y rhai hyn, daliwyd tyrfa fawr, y rhai a gondemniwyd, nid yn gymmaint am losgi Rhufain, ag am gasineb at ddynolryw," &c. (*The Annals*, B. xv chap. 44.)

Gwelir fod tystiolaeth Tacitus yn profi prif ffeithiau Cristionogaeth, megys (1,) dechreuad Cristionogaeth yn Judea, (2,) mai Crist oedd ei sylfaenydd, (3,) ei fod wedi marw o dan raglawiaeth Pontius Pilat, ac (4,) fod Cristionogaeth er hyny wedi llwyddo cymmaint nes cyrhaedd Rhufain, lle yr oedd llu mawr o gredinwyr yn yr Arglwydd Iesu yn amser Nero, yr hwn a fu farw A.D. 68.

c,) *Tystiolaeth Pliny.* Yr oedd Pliny, yr ieuengaf, yn lywodraethwr Bithynia, o dan yr ymerawdwr Trajan, yn A.D. 103, 104. Yr oedd yr ymerawdwr wedi ei gyfarwyddo i wrthwynebu pob math o gymdeithasau dirgelaidd; dygodd hyn ef i wrthwynebu mewn modd llym ac egniol gynnulliadau cymdeithasol y Cristionogion. Wrth anfon hanes ei weithrediadau i'r ymerawdwr, y mae yn son am y Cristionogion fel y canlyn:—

"Gan adael heibio ar hyn o bryd bob mesurau yn eu herbyn, yr wyf yn appelio atoch chwi am gyfarwyddyd; oblegyd ymddengys i mi ei fod yn

* Fel hyn y gwawdiai eilunaddolwyr y rhai wrthodent gydffurfio âg ofergoeledd yr oes.

bwnc ag sydd yn mawr deilyngu ystyriaeth, yn neillduol o herwydd y rhifedi mawr o bobl sydd yn agored i ddyoddef; oblegyd y mae llawer o bob oedran, ac o bob sefyllfa, yn feibion a merched, yn cael eu cyhuddo. Ac nid i'r dinasoedd yn unig y mae haint yr ofergoeledd yma wedi cyrhaedd, ond i'r trefi llai, ac i'r wlad. Er hyny, ymddangosai i mi, y gellid ei attal. Y mae yn sicr fod y temlau, y rhai oeddynt bron wedi eu gadael, yn dechreu cael eu mynychu yn well; ac y mae y defodau cyssegredig, ar ol oediad hir, yn cael eu hadfywio. Y mae aberthau hefyd yn cael eu prynu, tra am dymhor, nid oedd ond ychydig brynwyr. Gan hyny, mae'n hawdd dychymmygu y gellid adferu llawer, os caniateir maddeuant i'r rhai edifeiriol." *

Cyfeirir at lythyr Pliny er dangos fel y mae yn profi gwirionedd hanesiaeth y Testament Newydd. Mewn rhanau ereill o'i lythyr, geilw y credinwyr yn Gristionogion, a dywed eu bod yn addoli Crist fel Duw, ac yn ymgyfammodi â'u gilydd i ymattal rhag llwon, lladrad, celwydd, godineb, a phob drygioni; ac yn y dyfyniad uchod, ceir fod yr efengyl wedi llwyddo i ennill lluoedd o bob oed a sefyllfa i'w phroffesu er pob erlidigaeth, ac i ddinystrio eilunaddoliaeth, o'r bron, o'r wlad; a'i bod wedi bod yn dylanwadu fel hyn am amser maith, oblegyd dywed Pliny fod y defodau eilunaddolgar, "*ar ol* HIR OEDIAD, *yn cael eu hadfywio.*"

*d,*) *Tystiolaeth Justin Ferthyr.* Dywed Justin Ferthyr, yr hwn oedd frodor o Palestina, ac a anwyd tua diwedd y ganrif gyntaf, fel y canlyn am lwyddiant yr efengyl:—

"Nid oes un genedl, na Groegwyr na barbariaid, nac unrhyw enw arall, hyd y nod y rhai hyny ag sydd yn crwydro yn llwythau ac yn byw mewn pabelli, yn mhlith pa rai nid oes gweddïau a diolchiadau yn cael eu hoffrymu i'r Tad a Chreawdwr y bydysawd, yn enw yr Iesu croeshoeliedig." (*Dialogue with Trypho,* § 117.)

Afreidiol yw ychwanegu tystiolaethau o'r fath hyn. Y maent o'r bron yn ddirif. Brithant weithiau Tertullian, yr hwn a ddywed fod "Mooriaid a Gaetuliaid Affrica, gororau Yspaen, amryw o genedloedd Ffrainc, rhanau o Brydain anhygyrch i'r Rhufeiniaid, y Samariaid, y Daciaid, y Germaniaid, a'r Scythiaid," yn perthyn i Grist; a thystiai Clement o Alexandria, tra yr oedd "yr athronwyr yn cael eu cyfyngu i wlad Groeg, a chyda'u dysgyblion eu hunain, na wnaeth athrawiaeth Meistr Cristionogaeth aros yn Judea, megys ag y gwnaethai athroniaeth yn Groeg, ond ei bod wedi cael ei gwasgaru trwy yr holl fyd, yn mhlith pob cenedl, yn mhob

* *Coleman's Christian Antiquities,* pp. 18, 19.

dinas a phentref, perthynol i'r Groegiaid a'r barbariaid, gan ddychwelyd teuluoedd ac unigolion, a dwyn nid ychydig o'r athronwyr eu hunain i gofleidio'r gwirionedd."

Mae y gwahanol ystyriaethau hyn gyda'u gilydd yn arddangosiad eglur ac anwrthwynebadwy fod crefydd y Beibl yn sylfaenedig ar ffeithiau hanesyddol,—yn wirionedd diysgog, ac "yn haeddu pob derbyniad."

IV. Cadarnhad Darganfyddiadau Diweddar o Ffeithiau y Beibl.

Ni chawn yma ond cyfeirio at engraifft neu ddwy, er dangos gwirionedd a chywirdeb yr Ysgrythyrau.

I. *Darganfyddiad Adfeilion Ninefeh.* Ystyrir fod Ninefeh wedi syrthio a chael ei dinystrio tua 612 mlynedd cyn Crist. Ni chyfododd mwy. Ni wyddai Herodotus (cyn Crist tua 440), ddim mwy yn ei chylch, na bod y fath ddinas wedi bodoli unwaith ar làn y Tigris, er ei fod mae'n debyg, wedi sangu ar y man y safasai cyn pen dau gan' mlynedd ar ol ei dinystr. Nid yw Xenophon (cyn Crist 400), yn crybwyll am ei henw, er ei fod wedi gwersyllu gyda'i ddeng mil Groegiaid ar, neu gerllaw y man y safasai. Aeth o'r golwg fel hyn yn fuan ac yn llwyr, nes o'r diwedd y dechreuodd anffyddiaeth ymhyfhau, fel pe na buasai y fath le wedi bodoli erioed mewn gwirionedd. Ond yr oedd pentyrau o wahanol ddefnyddiau, megys gweddillion priddfeini, a llestri priddion, i'w canfod yma a thraw yn y parthau lle y credid y safasai Ninefeh enwog unwaith. Y teithiwr cyntaf, yn y blynyddoedd diweddaf hyn, yr hwn a ddarganfyddodd rai o adfeilion cyffiniau Ninefeh, oedd Mr. Rich, y pryd hyny, goruchwyliwr Cwmpeini yr India Ddwyreiniol yn Baghdad, tua'r flwyddyn 1820. Yn 1843, appwyntiwyd Mr. Botta i fod yn swyddog *(consul)* Ffrengig yn Mosul, yr hwn a ddygodd yn mlaen y gwaith o glodddio yn Khorsabad, gerllaw hen safle Ninefeh, os nad yw yn rhan o honi. Darganfyddodd Mr. Botta ystafelloedd ëang o dan y pentwr adfeilion, gyda llechau mawrion ynddynt, ac ar y rhai hyn luniau teirw adeiniog cerfiedig â phenau dynol ganddynt. Rhwng y blynyddoedd 1845 a 1850, yr oedd Mr. Layard yn dwyn yn mlaen y cloddiadau yn y parthau dan sylw, a daeth o hyd i weddillion ystafelloedd ëang, a phalasau gorwych, a cherfluniau o'r fath mwyaf cywrain, ac ysgrifeniadau a chofnodiadau o'r fath

mwyaf pwysig. Pan y deallir ac y darllenir y cofnodiadau oll, y rhai a geir ar lechau o farmor a cheryg, ac wedi eu hargraffu ar briddfeini, fe geir darganfyddiadau pwysig eto, y rhai a gadarnhant hanesiaeth yr Hen Destament. Y mae cyfres faith o enwau Beiblaidd yn dygwydd yn y cofnodion hyn. Yr ydys wedi gallu darllen enwau tri o freninoedd Iuddewig yn yr ysgrifeniadau Assyriaidd: sef eiddo JEHU, mab Khumri (Omri); MENAHEM; a HEZECIAH. (Gwel *Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible*. Art. NINEVEH; a *Layard's* "*Nineveh and its Remains*," a "*Nineveh and Babylon*.")

2. *Darganfyddiadau ereill yn nghylch Moab a Babilon.* Yn mis Awst, 1868, gwnaeth y Parch. F. Klein, Cenadwr i Eglwys Loegr, ond Prwssiad o genedl, ddarganfyddiad pwysig yn Moab. Y gwrthddrych oedd ddarn mawr o golof-graig (*a black basalt stone*), a darganfyddwyd ef yn ymyl Dibon (Esai. xv. 2), ar yr ochr Ddwyreiniol i'r Môr Marw. Yr oedd y maen yn 3 troedfedd a 10 modfedd o uchder, 2 droedfedd o lêd, a 14 modfedd o drwch; ac yn hanner gylchog yn y pen uchaf a'r pen isaf, gydag ysgrifen Hebreig mewn llythyrenau Phœniciaidd wedi ei cherfio arno. Cynnwysai 34 o linellau uniawn ar draws y gareg, tua modfedd a hanner y naill oddiwrth y llall. Dechreua gyda'r geiriau,—"MYFI MESA WYF FAB I CHEMOSHGAD, BRENIN MOAB, Y DIBONIAD." Gosododd Mesa y gof-golofn i fyny fel arwydd o'i ddiolchgarwch i Chemos am ryddhau ei wlad oddiwrth ei goresgynwyr. Crybwyllir am Mesa yn y Beibl (2 Bren. i. 2, iii. 4, 5), ac yr oedd yn gydoeswr â'r prophwyd Eliseus, a Jehosaphat, brenin Juda, ac Ahab, Ochozias, a Joram, breninoedd Israel. Y mae y drydedd a'r bedwaredd bennod yn yr Ail Breninoedd, yn rhoddi hanes manwl am ryfelgyrch unol Joram a Jehosaphat yn erbyn Mesa, brenin Moab. Y mae yr ysgrifen ar y gareg hefyd yn cyfeirio at ymdrech Mesa yn erbyn brenin Israel, ac yn enwi y trefi a'r temlau a adeiladasid gan Mesa, ac a gyssegrasid ganddo ef i Chemos, duw cenedlaethol y Moabiaid. Y mae yr oes i'r hon y perthyn y gof-golofn hon yn cael ei phenderfynu trwy gydgordiad yr hyn a ysgrifenwyd arni â hanesiaeth Iuddewig; dyddia naw canrif cyn y cyfnod Cristionogol, ac y mae yn agos i gan' mlynedd yn ddiweddarach na theyrnasiad Solomon. Y mae y llythyrenau Phœniciaidd yn arddangos rhyw neillduolion henafol nad ydynt i'w canfod i'r un graddau

mewn unrhyw gof-golofn Phœniciaidd ag sydd eto yn adnabyddus. Y mae yr ysgrifen, modd bynag, yn ddarllenadwy gyda sicrwydd annherfynol o'r braidd, gân fod pob gair yn cael ei wahaniaethu gydag attalnod, ac y mae yr holl frawddegau yn cael eu dosbarthu gyda llinellau unionsyth *(vertical lines)*. Y mae yr iaith, gydag ychydig o wahaniaeth llythyrenol, yn Hebraeg bur. (Gwel y *Bibliotheca Sacra*, 1870; y *B. & F. Ev. Review*, 1871; *Dr. Ginsburg's Moabite Stone;* a'r *Traethodydd*, 1876.)

Cawn engraifft arall o gywirdeb hanesyddol y Beibl yn narganfyddiad Syr Henry Rawlinson, yn 1854, yn nghylch llywodraethwyr Babilon yn amser ei chwymp :—

"Yr ydym yn darllen yn Daniel v. 30, pan gymmerodd Darius Babilon, fod Belsassar, ei brenin, yn y ddinas, ac mai 'y noson hono y lladdwyd Belsassar, brenin y Caldeaid.' Ond y mae Herodotus, yr hanesydd Groegaidd, yn ein hysbysu mai enw brenin Babilon oedd Labynetus; ei fod ef yn absennol pan gymmerwyd y ddinas; ei fod wedi ceisio noddfa yn Borsippa; fod Cyrus wedi ymosod arno yno, ei ddal, a'i ddiosg o'i urddas breninol, ond ei fod wedi caniatâu iddo ymneillduo a threulio gweddill ei fywyd mewn heddwch mewn rhyw le arall. Y mae y ddwy dystiolaeth yn ymddangos yn gwrthddweyd eu gilydd, ac y mae yn ymddangos fod yn rhaid gwadu anrhydedd gwirionedd hanesyddol, naill ai i Daniel neu i Herodotus.

"Fel hyn y safai y pwnc hyd 1854, pan y darfu i Syr Henry Rawlinson, yr ysgolhaig Dwyreiniol enwog, ddarganfod yn ei ymchwiliadau Dwyreiniol, un o'r rholfeini *(cylinders)* hyny, ar y rhai yr arferid ysgrifenu cofnodion hanesyddol mewn llythyrenau saeth-ffurf *(cuneiform character)* gan yr hynafiaid. Wedi darllen yr ysgrifen ar y gweddillyn henafol hwn, canfyddwyd fod yn amser cwymp Babilon, y cyfeirir ato gan Daniel a Herodotus, *ddau* frenin ar yr ymerodraeth, tad a mab; ac fel hyn gallwn ddeall fod Herodotus yn son am y tad, yr hwn a ddiangodd, a Daniel am y mab, yr hwn a laddwyd.

"Y mae y ffaith hon, pa un oedd o'r blaen yn anadnabyddus, nid yn unig yn cyssoni y prophwyd a'r hanesydd, ond y mae hefyd yn egluro yr hyn pe amgen a fuasai yn annegluradwy, sef addewid Belsassar i'r prophwyd, os gallai efe egluro yr ysgrifen ar y mur, y gwnelai efe ef yn *drydydd* llywodraethwr yn y deyrnas. (Dan. v. 16.) Yn awr, paham na wnaed ef yn *ail* lywodraethwr, megys y gwnaethid Joseph o dan amgylchiadau cyffelyb yn yr Aifft? (Gen. xli. 40–43.) Y mae y rholfaen yn ateb y gofyniad. Yr oedd dau frenin yn Babilon, ac felly ni allai y lle agosaf i'r orsedd fod ond y *drydedd* lywodraeth yn y deyrnas. Ychydig amser cyn y darganfyddiad hwn, pa un sydd mewn modd mor fuddygoliaethus yn cyssoni y gwrthddywediad ymddangosiadol, yr hyn i rai

personau a daflai amheuaeth ar gywirdeb Daniel, yr ysgrifenasai Mr. F. W. Newman y geiriau hyn yn Ngeirlyfr Kitto: 'Ni wna un dybiaeth gyssoni yr hanes hwn â'r llall.' Y mae hon yn wers addysgiadol, yn ein dysgu i roddi ymddiried yn yr ysgrifenwyr santaidd am gywirdeb, hyd y nod pe byddem yn analluog i esbonio ffeithiau a ymddangosent fel pe byddent yn gwadu ei gywirdeb." *

### V. LLWYDDIANT CRISTIONOGAETH YN NGWYNEB POB GWRTHWYNEBIAD.

Y mae tystiolaeth y Testament Newydd i lwyddiant cyflym a synfawr yr efengyl, yn cael ei chadarnhau gan dystiolaethau Tacitus, Pliny, Justin Ferthyr, ac ereill, y rhai y cyfeiriwyd atynt yn flaenorol. Fe lwyddodd Cristionogaeth heb gyfoeth nac awdurdod ddaearol, heb nawdd y llywodraeth wladol na ffafr dysgedigion y byd, heb wenieithio i falchder yr oes nac addaw hawddfyd bydol i'w chofleidwyr; ond hi a lwyddodd er ei bod yn gwrthwynebu pechod yn mhob agwedd o hono, ac yn mhawb,—er ei bod yn hawlio derbyniad fel yr unig wir grefydd,—er iddi gyfarfod â phob gwrthwynebiad a allai uffern ddyfeisio, neu y ddaear ei ddangos,—er y rhwystrau hyn oll hi a aeth rhagddi yn fuddygoliaethus, gan droi erlidwyr yn gyfeillion, a'u dwyn yn weision ufydd i Grist Iesu.

O dan yr amgylchiadau, yr oedd llwyddiant Cristionogaeth yn brawf o'i Dwyfoldeb. Y mae yn hawdd cyfrif am lwyddiant crefyddau ereill ar dir gwahanol. Nid ydyw paganiaeth amgen na dyfais Satan a chalon ddrwg dyn er cadw'r byd yn dawel yn ei bechod. Yr oedd Mahometaniaeth wedi ei chyfaddasu i ddyn yn ei gyflwr annychweledig. Nid oes eisieu i ddyn gael ei aileni, a hunanymwadu, a marwhau gweithredoedd y cnawd, i fod yn Fahometaniad. Yr oedd Mahomet wedi trefnu ei grefydd i ateb i natur lygredig trigolion Asia. Defnyddiai y cleddyf hefyd pan allai i orfodi dynion i droi yn Fahometaniaid; ac addawai nefoedd o drythyllwch a chnawdolrwydd i'w holl ganlynwyr. Y mae Pabyddiaeth hefyd wedi ei chyfaddasu i ateb dyn yn ei lygredd. Cristionogaeth wedi ei llygru ydyw, er arwain

* Gwel gyfrol fechan nodedig o werthfawr a dyddorol, yr hon a elwir "*Historical Illustrations of the Old Testament*, by the Rev. G. Rawlinson, M.A.," yn yr hon y ceir amryw o engreifftiau cyffelyb, a lluoedd o brofion o hanesiaeth baganaidd yn cadarnhau ac yn egluro hanesyddiaeth yr Hen Destament: "*The Freeman*," am Chwefror 25ain, 1870, tudal. 159: "*Kitto's Cyclopædia*," gan Alexander, a "*Dr. William Smith's Dictionary of the Bible*," o dan y gwahanol eiriau.

eneidiau i gaethiwed. Ond nid felly yr oedd gydag efengyl ein Harglwydd Iesu Grist. Darfu i ychydig Iuddewon tlodion dinod, y rhai a erlidid o wlad i wlad, ac a ddirmygid fel canlynwyr drwgweithredwr croeshoeliedig, trwy gyhoeddi hanes y person rhyfeddol hwnw a arddelent fel eu Blaenor, aflonyddu a thrawsnewid y byd. Yr oedd eilunaddoliaeth Groeg a Rhufain yn syrthio o flaen grym eu cenadwri. Yr oedd rhyw swyn yn eu geiriau fel na allai dynion eu gwrthsefyll; yr oedd goleuni a grym yn perthyn iddynt, fel yr oedd dynion yn teimlo wrth eu gwrando fod gwawr o'r uchelder wedi tori arnynt, a llyffetheiriau eu rhagfarn yn cael eu dryllio, a baich eu heuogrwydd yn cael ei symmud. Yr oedd eu hymadroddion yn aileni eu gwrandawyr, a'u dwyn i arddel Crist croeshoeliedig, ac i geisio gwlad well a dedwyddwch tragywyddol yn y nef.

Pan gofiom am yr amgylchiadau o dan ba rai y llafuriai yr apostolion a phregethwyr cyntaf yr efengyl, y rhai oeddynt heb gyfoeth i lwgrwobrwyo, nac awdurdod i ddychrynu, na godidowgrwydd ymadrodd i ddenu eu gwrandawyr (pe buasai eu crefydd yn caniatâu y fath arfau); yn erbyn llwyddiant pa rai yr oedd gallu yr awdurdod wladol, a dylanwad crefyddau sefydledig y byd, a rhagfarn a llygredd eu gwrandawyr yn mhob gwlad; pan gofiom y pethau hyn, meddwn, yn nghyda chymmeriad a dyoddefiadau y tystion, rhaid i ni gredu fod y fath genadwri o Dduw.

Mae'n wir nad oedd ganddynt lawer o gyfoeth daearol i ymadael ag ef er mwyn eu crefydd, eto yr oedd ganddynt lawer i'w golli. Yr oeddynt yn gallu colli hawddfyd bywyd, a hoffder perthynasau, a mwyniant cartref, er mwyn achos Crist; yr oeddynt yn gallu dyoddef arteithiau a fflangellau, a chaethiwed carcharau, a gwaedu o dan ddwylaw y dienyddwr; yr oeddynt yn gallu marw yn ewyllysgar, er hyrwyddo llwyddiant yr efengyl a bregethent yn y byd. Nis gellir rhoddi cyfrif boddhaol am lwyddiant Cristionogaeth o dan y fath amgylchiadau, ond ar dir ei gwirionedd a'i Dwyfoldeb.

### VI. Gellir Profi fod Llyfrau y Beibl ar gael o'r Dechreuad.

Nid llyfr wedi cael ei ddwyn i fôd yn ddiweddar yw y Beibl, ond gellir profi fod ei ysgrifeniadau ar gael o'r amser y proffesant fod wedi cael eu hysgrifenu. Cyfeiriwyd yn barod

at fodolaeth pum' llyfr Moses yn nhafodiaith y Samariaid, at y Septuagint, ac at dystiolaeth Josephus i lyfrau yr Hen Destament; ac am lyfrau y Testament Newydd, dangoswyd fod y rhai hyn yn cael eu dyfynu fel gair Duw gan yr ysgrifenwyr Cristionogol cyntaf—eu bod wedi cael eu casglu yn gyfrol er yn foreu—eu bod yn cael eu darllen a'u hegluro yn nghynnulliadau y Cristionogion—fod rhifrestrau o honynt, ac esboniadau arnynt yn cael eu cyhoeddi yn dra boreu—a bod gwrthwynebwyr Cristionogaeth yn cydnabod fod y pedair efengyl sydd yn awr yn ein meddiant ni, yn cynnwys y ffeithiau ar ba rai y mae Cristionogaeth wedi cael ei sylfaenu. (Gwel Pen. II. Y Canon, neu Lyfrau y Beibl.)

Mae rhywbeth ag sydd yn ymddangos megys yn wyrthiol yn nghadwraeth y Beibl yn y byd. Mae'n debyg i Manasseh yn nechreuad ei deyrnasiad, pan oedd yn ceisio diddymu addoliad y Jehofah a sefydlu eilunaddoliaeth, ddinystrio yr holl gopiau o'r ddeddf ag y gallai gael gafael arnynt. Er iddo gael ei ddychwelyd at Dduw cyn marw, eto ni allai yn ngweddill ei einioes ddadwneyd y drwg a gyflawnasai. Ar ei ol, cawn Amon yn esgyn i'r orsedd, yr hwn oedd mor greulawn a thrahaus fel y lladdwyd ef gan ei weision ei hun, yn mhen y ddwy flynedd ar ol iddo ddechreu teyrnasu. (2 Bren. xxi.) Yr oedd hefyd yn eilunaddolwr selog, ac yn wrthwynebwr i gyfraith y Duw byw. Erbyn hyn, y mae gair Duw wedi myned yn brin yn y wlad, oblegyd pan ddarganfyddodd yr archoffeiriad Hilcïah, yn nheyrnasiad Josiah fab Amon, lyfr y gyfraith yn nhŷ yr Arglwydd, fe achosodd gyffro annhraethol, a bu yn foddion i ddwyn oddi amgylch ddiwygiad pwysig. (2 Bren. xxii. xxiii. 2 Chron. xxxiv.) Yn nghanol y difrod ar air yr Arglwydd, yr hwn a gymmerasai le yn nheyrnasiad Manasseh ac Amon, gogwyddodd Ysbryd Duw ryw offeiriad duwiol i guddio copi o lyfr y gyfraith mewn rhyw ddirgelfa yn y deml, yr hwn yn awr a ddygwyd i'r goleu.

Yn yr adeg a gymmerodd le rhwng Malachi a Ioan Fedyddiwr, tua'r flwyddyn 170 cyn Crist, yr ydym yn cael Antiochus Epiphanes, brenin Syria, yn amcanu dinystrio Ysgrythyrau yr Hen Destament, a difodi crefydd y Duw byw o blith yr Iuddewon. Gorfododd lawer o'r Iuddewon i gydffurfio â defodau eilunaddolgar. Darfu i'w genadon beri i aberthau i eilunod gael eu hoffrymu yn y deml; "Ac a arogldarthasant yn nrysau y tai, ac yn yr heolydd: ac a rwygasant lyfrau y

gyfraith, y rhai a gawsant hwy, ac a'u llosgasant â thân. A pha le bynag y ceid llyfr y cyfammod gyda neb, neu os cytunai neb â'r gyfraith, efe a leddid wrth orchymyn y brenin." (*Apocrypha*. 1 *Maccabeaid*, i. 55—57.) Ond ni allai hwn, er ei holl greulondeb, ddinystrio gair y bywyd; yr oedd Brenin y breninoedd yn gwylied symmudiadau Antiochus, ac yn diogelu ei air er mwyn iachawdwriaeth y byd.

Yn nechreu y bedwaredd ganrif o'r cyfnod Cristionogol, cawn Diocletian, yr ymerawdwr Rhufeinig, yn gwneyd cynnyg beiddiol i ddinystrio Cristionogaeth, trwy ddifodi yr Ysgrythyrau. Yn Chwefror, A.D. 303, cyhoeddwyd y gyfraith ganlynol:—"Y mae cynnulliadau y Cristionogion i addoli Duw i gael eu gwahardd, yr addoldai Cristionogol i gael eu bwrw i lawr, a phob copi o'r Beibl i gael ei losgi; y mae y Cristionogion sydd mewn swyddi o anrhydedd ac urddas i'w colli, oddi eithr iddynt wadu eu ffydd. Mewn ymchwiliadau cyfreithiol, gellir defnyddio yr artaith (*torture*) yn erbyn yr holl Gristionogion o bob gradd; a bydd i Gristionogion o sefyllfaoedd îs, golli eu hawliau fel dinesyddion a gwŷr rhyddion; a bydd caethion Cristionogol, tra y parhaont yn Gristionogion, yn analluog i dderbyn eu rhyddid."*

Achosodd y ddeddf hon erlid ofnadwy, a dyoddefiadau annhraethol i blant Duw; a dinystriwyd llu dirif o gopiau o'r Ysgrythyrau; ac yn wir, pe llwyddasai Diocletian i ddinystrio yr holl ysgrifeniadau cyssegredig, mae'n anhawdd canfod pa fodd y gallasai Cristionogaeth gadw ei hun mewn bodolaeth. Ond yr oedd Diocletian yn annghofio fod eisieu caniatâd a chydsyniad y Goruchaf, cyn y gallasai ddifodi ei air ef; buasai mor hawdd iddo attal yr haul rhag gwasgaru ei belydrau, a diddymu amcanion grasol Duw gyda golwg ar y byd.

Nid ydyw y Beibl wedi derbyn y gefnogaeth a ddylasai gan y rhai a broffesent eu bod yn gredinwyr ynddo. Mae yr eglwys Babaidd wedi ymddwyn tuag ato, fel pe buasai yn beryglus i'r werin ymwneyd âg ef, ac wedi ymdrechu attal ei ddylanwad iachus a santaidd.

Yn ngwyneb y ffeithiau hyn, y mae bodolaeth y Beibl heddyw yn syndod i ni, ac yn awgrymu ei Ddwyfoldeb, a'i fod o werth anmhrisiadwy yn ngolwg Duw, gan ei fod wedi ei gadw a'i ddiogelu yn mhob ystorm. Y mae llyfrau santaidd

* *Neander's Church Hist.*, *Rose's Transl.* vol. i. p. 150.

yr Aifftiaid a'r Caldeaid, a chenedloedd henafol ereill, wedi myned ar goll, er na cheisiwyd erioed eu dyfetha fel y gwnaed â llyfrau y Beibl. Y mae mwy na thair mil o flynyddoedd er pan ysgrifenwyd y cyntaf o lyfrau y Beibl, ac yn agos i ddwy fil er pan ysgrifenwyd y diweddaf o honynt; ac eto, nid oes yr un o honynt, os oes yn wir gymmaint a brawddeg o un o honynt, wedi myned ar goll! Ni fuasai Duw yn diogelu cadwraeth y fath lyfr, oni buasai mai ei air ef ydyw, yr hwn sydd i achub a santeiddio y byd.

Yn ngwyneb yr ystyriaethau hyn, yr ydym yn casglu—NA ELLIR CYFRIF YN FODDHAOL AM FODOLAETH A DYLANWAD CREFYDD Y BEIBL YN Y BYD, OND AR DIR EI DWYFOLDEB.

1. *Nis gallwn gyfrif am y ffaith o'i bodolaeth, ond ar yr ystyriaeth o'i gwirionedd hanesyddol.*

Rhaid cyfrif am ei bodolaeth ryw fodd; gallwn olrhain yn ol ei chofnodion am yn agos i dair mil o flynyddoedd; y mae yr Iuddewon wedi arfer cydnabod yn mhob oes mai yr Hen Destament a roddodd fodolaeth i'w defodau neillduol, fel y gwna Cristionogion gyda golwg ar y Testament Newydd; a pha fodd y gallwn gyfrif am ddefodau y ddeddf ac ordinhadau yr efengyl, am gadwraeth y Sabbath gan yr Iuddewon, a dydd yr Arglwydd gan Gristionogion, heb gydnabod gwirionedd hanesyddol y Beibl?

2. *Nis gallwn gyfrif am y Beibl fel dadguddiad gogoneddus, ond ar dir ei Ddwyfoldeb.*

Pa fodd y gallasai dynion ysgrifenu yr hyn a gofnodir yn y Beibl am Dduw a dyn, y byd hwn a'r byd a ddaw, yr hyn sydd yn annhraethol ragorach na dim a lefarwyd neu a ysgrifenwyd erioed gan yr athronyddion doethaf, os na dderbyniasant gymhorth a chyfarwyddyd uwch a rhagorach nag a dderbynia dyn wrth ysgrifenu ei gynnyrchion ei hun?

3. *Nis gallwn gyfrif am ddylanwad a llwyddiant crefydd y Beibl, ond ar yr ystyriaeth o'i Dwyfoldeb.*

Yr oedd ei llwyddiant yn ngwyneb pob rhwystr yn dangos fod ei hawdwr yn gryfach na daear ac uffern, ac nas gellir diddymu ei amcanion grasol ef.*

* Gwel *Dr. Pye Smith's First Lines*; *Hodge's Outlines of Theology*; *Dr. Hill's Lectures*, vol. i.; *Paley's Evidences*; *Horne's Introduction*, vol. i.; *Doddridge's Lectures*, 111—129; *Dr. Angus's Bible Hand-Book*; *Butler's Analogy*, Part II. chap. vii.: *An Essay on the Inspiration of the Holy Scriptures*, by John Dick, A.M.; *Rawlinson's Historical Evidence of the Truth of the Scripture Records, being the Bampton Lecture for* 1859.

# PENNOD V.

## Y GWAHANOL FFYRDD TRWY BA RAI YR AMLYGAI DUW EI EWYLLYS I'R BYD.

---

## Y CYNNWYSIAD.

I. *Weithiau trwy seiniau geiriol a hyglyw.* II. *Trwy Angylion.* III. *Trwy Freuddwydion a Gweledigaethau.* IV. *Trwy yr Urim a'r Thummim—Gwahanol dybiau am yr Urim a'r Thummim.* V. *Trwy ei Fab.* VI. *Trwy Ysbrydoli ei Weision—Nodiad yn nghylch Saul a'r Ddewines.*

DYWEDIR wrthym yn Hebreaid, pen. i. adn. 1, 2, fod Duw wedi amlygu ei ewyllys i'r byd ar wahanol adegau, mewn amrywiol ranau a gwahanol ffyrdd: "Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn, a lefarodd wrthym ni yn ei Fab; yr hwn a wnaeth efe yn etifedd pob peth, trwy yr hwn hefyd y gwnaeth efe y bydoedd."

Yn awr, sylwn yn fyr ar y gwahanol ffyrdd trwy ba rai y dysgai Duw ei greaduriaid rhesymol:—

I. WEITHIAU GWNAI HYN TRWY SEINIAU LLEFAROL A CHLYWADWY.

Nid ydym yn gwybod pa fodd y cynnyrchid y seiniau, ond nid oes dim yn anmhossibl i'r Creawdwr.

1. *Fe alwodd Duw ar Adda, ac fe lefarodd wrtho.*

"A'r Arglwydd Dduw a *alwodd* ar Adda, ac a *ddywedodd* wrtho, Pa le yr wyt ti?" (Gen. iii. 9–19.)

2. *Dywedir i'r Arglwydd lefaru wrth Moses oddiar y drugareddfa.*

"Ac fel yr oedd Moses yn myned i babell y cyfarfod i lefaru wrth Dduw; yna efe a glywai lais yn llefaru wrtho oddiar y drugareddfa, yr hon oedd ar arch y dystiolaeth, oddi rhwng y ddau gerub, ac efe a ddywedodd wrtho." (Num. vii. 89.)

O herwydd yr atebion a roddai Duw oddiar y drugareddfa, gelwid y Cyssegr santeiddiolaf (*Debir*—דביר), YR ORACL; gwel 1 Bren. vi. 5, 16, 19—22, xiii. 6. 2 Chron. iv. 20. "Y Gafell," sef hyfrydgell, a geir am dano yn y Beibl Cymraeg, a'r "*oracle*" yn y Beibl Seis'nig. Tybia Dr. Henderson, Dr. S. Lee, a beirniaid ereill, mai ei ystyr yw, *y lle o'r hwn y llefarai Duw ei oraclau*, neu YR ORACLFA, gan ei fod yn deillio o'r ferf *dabar* (דבר)=llefaru.

3. *Fe alwodd Duw ar Samuel mewn llais.*

"Yna y galwodd yr Arglwydd ar Samuel, dywedodd yntau, Wele fi: A'r Arglwydd a alwodd eilwaith, Samuel. A Samuel a gyfododd, ac a aeth at Eli, ac a ddywedodd, Wele fi: canys gelwaist arnaf. Yntau a ddywedodd, Na elwais, fy mab; dychwel a gorwedd. A'r Arglwydd a alwodd Samuel drachefn, y drydedd waith, ac efe a gyfododd ac a aeth at Eli, ac a ddywedodd, Wele fi: canys gelwaist arnaf. A deallodd Eli mai yr Arglwydd a alwasai ar y bachgen. A daeth yr Arglwydd, ac a safodd, ac a alwodd megys o'r blaen, Samuel, Samuel. A dywedodd Samuel, Llefara: canys y mae dy was yn clywed. A dywedodd yr Arglwydd wrth Samuel, Wele fi yn gwneuthur peth yn Israel, yr hwn, pwy bynag a'i clywo, fe a ferwina ei ddwy glust ef." (1 Sam. iii. 4, 6, 8, 10, 11.)

4. *Anrhydeddodd y Tad ei Fab hefyd trwy lefaru o'r nef.*

"Ac wele lef o'r nefoedd yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd. Ac efe eto yn llefaru, wele, cwmmwl goleu a'u cysgododd hwynt; ac wele, lef o'r cwmmwl yn dywedyd, Hwn yw fy anwyl Fab, yn yr hwn y'm boddlonwyd; gwrandewch arno ef. O Dad, gogonedda dy enw. Yna y daeth llef o'r nef, Mi a'i gogoneddais, ac a'i gogoneddaf drachefn." (Mat. iii. 17, xvii. 5. Ioan xii. 28.)

## II. WEITHIAU TRWY GYFRWNG CENADON NEFOL.

Gynt byddai angylion yn ymddangos i ddynion. Ymddangososent ar ffurf ddynol; rai prydiau nid oedd dim neillduol i'w ganfod yn eu hymddangosiad; pe amgen, ni allasai dynion eu lletya *yn ddiarwybod*. (Heb. xiii. 2.) Pa un a ydyw angylion yn feddiannol ar gyrph sylweddol, tebyg i ddefnydd goleuni, fel yr oedd Dr. Doddridge a Dr. Pye Smith yn cael eu tueddu i gredu, neu a oedd cynnyrchiad eu cyrph neu y cyfryngau trwy ba rai y cymdeithasent â dynion yn hollol wyrthiol, nis gallwn benderfynu; mae rhywbeth yn ymddangos yn wyrthiol yn eu symmudiadau, gan y sonir am danynt yn ymddangos fel dynion, yn bwyta, yn esgyn i'r nef mewn fflam dân, &c.

Ymddangosasant i Abraham a Lot (Gen. xviii. 2, 10, xix. 1,

13.) Addawsant fab i Abraham, a rhagfynegasant i Lot ddinystr Sodom. Cawn Gabriel yn egluro ewyllys Duw i Daniel (Dan. viii. 15—27, ix. 22—27): i Zacharias (Luc i. 11—17); a Mair (Luc i. 30—38.)

### III. Dysgai ddynion hefyd trwy Freuddwydion a Gweledigaethau.

Mae'n amlwg oddiwrth eiriau Duw ei hun, ei fod yn amlygu ei ewyllys trwy freuddwydion a gweledigaethau:—

"Ac efe a ddywedodd, Gwrandewch yr awr hon fy ngeiriau. Os bydd prophwyd yr Arglwydd yn eich mysg, mewn gweledigaeth yr ymhysbysaf iddo, *neu* mewn breuddwyd y llefaraf wrtho." (Num. xii. 6.)

1. *Breuddwydion goruwchnaturiol.*

"Yr oedd breuddwydion goruwchnaturiol," ebe Dr. Henderson, "o ddau fath; y rhai Rhybuddiol, a'r rhai Arwyddluniol. Mewn breuddwydion *rhybuddiol*, yr oedd gocheliadau eglur yn cael eu trosglwyddo yn ddigyfrwng i ddealltwriaeth y rhai oeddynt yn eu cael, ag oeddynt yn dwyn gyda hwynt y fath amlygiadau eglur a phennodol o Ddwyfol darddiad, fel y cymhellid hwynt yn y fan, heb yr un amheuaeth, i gydffurfio â hwynt. Breuddwydion o'r fath yma oedd eiddo Abimelech (Gen. xx. 3); Laban (Gen. xxxi. 24); a'r Doethion (Mat. ii. 12.) Yr oedd a fynai yr amlygiadau hyn o ewyllys Duw â rhyw bwyntiau o ddyledswydd ag oeddynt i'w cyflawni yn ddiymaros, ac yr oeddynt o ganlyniad mewn iaith syml, bendant, a dealladwy.

Yr oedd breuddwydion *arwyddluniol*, o'r ochr arall, yn gysgodol ac aneglur; yn gynnwysedig o ddelweddau wedi eu cymmeryd, gan mwyaf, o blith gwrthddrychau naturiol, ond weithiau hefyd o rai ag oeddynt o gymmeriad aruthr ac annaturiol. Yr oedd arwyddluniau yr ysgubau yn mreuddwyd cyntaf Joseph, a'r haul, y lloer, a'r sêr yn yr ail, yn perthyn i'r gwrthddrychau naturiol; a'r winwydden, gyda'i changhenau, ei blagur, a'i blodau, a'i grawnwin, y cwpan a'r gwin, yn llaw pentrulliad Pharaoh. Ac yr oedd delw orfawr Nebuchodonosor yn engraifft deg o ddosbarth arall." (*Divine Inspiration*, pp. 131, 132. Edition 1847.)

2. *Gweledigaethau a Breuddwydion.*

Yr oedd *gweledigaethau* a breuddwydion weithiau yn cymmeryd lle yr un pryd:

"Yn y flwyddyn gyntaf i Belsassar, brenin Babilon, y gwelodd Daniel freuddwyd, a gweledigaethau ei ben ar ei wely. Yna efe a ysgrifenodd y breuddwyd, *ac* a draethodd swm y geiriau." (Dan. vii. 1.)

Yr oedd y rhai a ffefrid â *gweledigaethau* yn gweled ynddynt

arddangosiadau neu ddelweddau o bethau y rhai nas gallasent byth eu darganfod pe hebddynt. Yr oeddynt ar y pryd mewn math o lesmair neu lewyg, ac weithiau wedi eu gorchfygu gan bwysfawredd yr hyn a ddadguddid iddynt. Canfyddodd Daniel yn ei weledigaethau arwyddluniau chwyldroadau amser a gogoniant Duw (Dan. vii. 1—14); cafodd Paul weledigaethau o ogoniant paradwys (2 Cor. xii. 1—4); Ezeciel o ogoniant Duw (Ezec. i.); a Zechariah am wahanol wrthddrychau a dygwyddiadau yn nhrefniadau y Goruchaf. Weithiau byddai angylion Duw yn cael eu hanfon i egluro y gweledigaethau i'r prophwydi, fel y gwelwn yn llyfrau Daniel a Zechariah.

Ymddengys fod gweledigaethau a breuddwydion yn *gwahaniaethu* yn yr hyn a ganlyn. Yr oedd *breuddwydion* o angenrheidrwydd yn cymmeryd lle pan y byddai dyn yn cysgu, pan na fyddai y synwyrau mewn gweithrediad priodol; tra nad oedd *gweledigaethau* yn attal gweithrediad priodol y galluoedd meddyliol, ac fe'u rhoddid i ddynion hyd y nod pan fyddent yn effro.* Barna rhai, gyda Hengstenberg,† fod y prophwydi yn colli eu hymwybodaeth pan oeddynt yn derbyn y gweledigaethau; ond y mae ystyried eu bod felly bob amser yn annghysson â'r hanes a gawn am danynt, oblegyd fe gafodd Daniel weledigaeth pan oedd yn effro, yr hon a'i cyffrôdd (Dan. x. 4—8), a chawn ef yn ymholi yn nghylch yr hyn a welsai. (xii. 8.) Yr oedd Esaiah yn ymwybodol o'r hyn oedd yn cymmeryd lle yn y weledigaeth. (Esai. vi.) Yr oedd Jeremiah yn canfod gweledigaethau tra y llefarai Duw wrtho. (Jer. i. 11—16.) Yr oedd Ioan yn ymwybodol o'r hyn a welai yn Patmos, ac yn gallu gwahaniaethu gwrthddrychau, er nas gallai ei hun ddirnad eu harwyddocâd.

### IV. Trwy yr Urim a'r Thummim.

Geiriau Hebraeg ydyw y rhai hyn, *Urim* (אורים) yn golygu *goleuni*, yma yn y rhif liosog; a *Thummim* (תמים) yn golygu *perffeithrwydd*, hwn hefyd yn y rhif liosog; y ddau gyda'u gilydd, fe ddichon, trwy undeueb *(by hendiadys)* yn golygu *goleuni* neu *ddadguddiad perffaith*. Gan fod y gair Thummim yn deilliaw o'r ferf Hebreig *tamam* (תמם) yr hon a olyga

* *Henderson's Insp.* p. 135.
† *American Biblical Repository*, vol. ii. p. 141.

*gorphen*, *cyflawni*, *gwneyd diffyg i fyny*, dichon fod y gair yn cyfeirio at y ffordd hon o roddi dadguddiad i ddynion fel rhyw beth *eithriadol* ac *ychwanegol* at y drefn arferol; ac felly gall Urim a Thummim olygu *y Goleuni Cyflawn*, neu *y Goleuni Cyflenwadol*, yr hwn nad oedd i'w gael trwy yr un ffordd arall. Cyfieitha y Deg a Thrigain y geiriau â "*dadguddiad a gwirionedd*" (δήλωσις καὶ ἀλήθεια), neu, fe ddichon, trwy undeueb, "*dadguddiad gwirioneddol.*"

Cyssylltid yr Urim a'r Thummim â dwyfroneg yr arch-offeiriad:—

"A dod ar ddwyfroneg y farnedigaeth, yr Urim a'r Thummim; a byddant ar galon Aaron pan elo i mewn ger bron yr Arglwydd: ac Aaron a ddwg farnedigaeth meibion Israel ar ei galon, ger bron yr Arglwydd yn wastadol." (Exod. xxviii. 30.) "Ac efe a osododd y ddwyfroneg arno, ac a roddes yr Urim a'r Thummim yn y ddwyfroneg." (Lef. viii. 8.)

Yr oedd yr Arglwydd ar adegau ac achosion neillduol yn amlygu ei ewyllys trwy y pethau hyn. Beth oeddynt, a pha fodd yr oedd Duw yn amlygu ei feddwl trwyddynt, sydd anhawdd ei benderfynu, ac ni ellir cael sicrwydd hollol bellach yn nghylch y pwnc. Dodwn o flaen y darllenydd y gwahanol olygiadau ag sydd wedi cael eu coleddu arno, yn nghyda'r hyn sydd yn ymddangos i'r awdwr debycaf i fod yn gywir.

1. Ystyriai Josephus (*Antiq.* B. iii. 8, 9) a rhai Iuddewon ereill mai y *meini gwerthfawr yn nwyfroneg yr archoffeiriad oeddynt*, a'u bod wedi cael yr enw hwn oddiwrth y dysgleirdeb a gynnyrchid ganddynt, yr hwn oedd yn *oleu* o flaen budd-ygoliaeth neu pan y cymmeradwyid yr aberth, a *thywyll* pan oedd unrhyw berygl yn agoshau. O'r braidd y gall y golygiad hwn fod yn hollol gywir, gan y crybwyllir am yr Urim a'r Thummim fel pethau ar *wahan* i'r ddwyfroneg, ac *ychwanegol* ati. (Exod. xxviii. 30. Lef. viii. 8.) Mae tybiaeth arall, bron yr un peth a'r un uchod, yr hon a esyd allan yr Urim a'r Thummim fel yn gynnwysedig yn rhoddiad adamant (*diamond*) unigol yn nghanol y ddwyfroneg, yr hwn a fyddai yn *oleu* pan yr arwyddai heddwch, ac yn *goch* pan yr arwyddai ryfel, ac yn *ddarllwyd* pan yn rhagddangos marwolaeth.

Barn y rhan fwyaf o'r Rabbiniaid Iuddewig o barthed iddynt

oedd, fod yr Urim a'r Thummim yn golygu *fflachiad goleuni allan o'r llythyrenau hyny yn unig ar y meini gwerthfawr* yn nwyfroneg yr archoffeiriad, *ag fyddai yn anghenrheidiol i ffurfio geiriau yr atebiad.*

2. Tybiaeth arall oedd, mai *dwy ddelw fechan oeddynt, neu un o'r fath, ar ffurff dyn, trwy ba un neu ba rai y byddai Duw, neu angel wedi ei awdurdodi ganddo, yn rhoddi atebion clywadwy i'r archoffeiriad o berthynas i'r anhawsderau yr appeliai at Dduw am ei ddedfryd yn eu cylch.*

Mae Gesenius yn ei Eiriadur Hebraeg yn dysgu tybiaeth gyffelyb i hon, sef mai dwy ddelw fechan oedd yr Urim a'r Thummim wedi eu dodi rhwng plygiadau y ddwyfroneg, un o ba rai a arwyddai *wirionedd*, a'r llall *ddadguddiad;* ac fod yn ymddangos fod yr Hebreaid yn hyn wedi efelychu arferiad cyffelyb yn mhlith yr Aifftiaid, yn mhlith pa rai yr oedd y barnwr yn arfer â gwisgo delw fechan o saphir, yn grogedig wrth ei wddf, fel arwyddlun o *wirionedd.* Ond y mae yn anfri ar y Beibl i son am yr Hebreaid yn efelychu yr Aifftiaid yn hyn, tra y gosoda efe hyn allan fel *gorchymyn uniongyrchol oddiwrth Dduw.* Dichon fod peth fel hyn yn mhlith yr Aifftiaid mewn oesau diweddarach na Moses; ond y mae yn debygach o lawer i'r Aifftiaid efelychu yr Hebreaid yn hyn, nag iddynt hwy fenthyca arferion Aifftaidd.

3. Barna rhai dysgedigion mai y *coelbren santaidd yn mhlith yr Hebreaid oeddynt*, yn gynnwysedig o dri o feini gwerthfawr ar un o ba rai yr oedd yn gerfiedig *Ie* (כֵּן); ar y llall *Nage* (לֹא); a'r trydydd heb ddim ysgrifen arno. Ystyria Dr. Jahn, yr hwn a goledda y dyb hon, fod gwrthlain neu ranau tu fewnol y ddwyfroneg yn ffurfio math o gôd, yn yr hon y cludid y meini gwerthfawr hyn; fod yr ymofyniad â Duw drwyddynt yn gyfryw ag y byddai yr ateb yn wastad yn *Ie* neu *Nage*, os rhoddid atebiad o gwbl; ac os tynai yr archoffeiriad y maen gwerthfawr allan ar yr hwn y byddai *Ie*, byddai yr ateb yn gadarnhaol; os tynai allan y maen gyda *Nage* arno, byddai yr ateb yn nacâol; os y llall, ystyrid nad oedd Duw yn myned i ganiatâu atebiad. (Gwel *Jahn's Biblical Antiq.* § 369. *Michælis's Commentaries on the Laws of Moses*, Article 304.)

4. Barnai Dr. Henderson a Pharkhurst (awdwr y Geiriadur Hebraeg), fod atebiad Duw trwy yr Urim a'r Thummim *mewn*

*geiriau llefarol a chlywadwy.* Y rhesymau dros y dyb hon yw y rhai canlynol:—

(1,) Beïir Israel am beidio ymgynghori "â *genau* yr Arglwydd," gyda golwg ar eu hymddygiad tuag at y Gibeoniaid. (Jos. ix. 14.)

(2,) Fod yr atebiad yn cael ei osod allan, "Yr Arglwydd a *ddywedodd.*" (1 Sam. xxiii. 2, 11.)

(3,) Fod amryw o'r atebion o gryn feithder, ac yn cynnwys manylion, y rhai na ellid eu nodi allan ond trwy lefariad geiriol.

Mae mwy o rym yn y rheswm diweddaf na'r ddau flaenaf, oblegyd yr ydym yn cael amryw *fanylion* yn rhai o'r atebion trwy yr Urim a'r Thummim.

"Ac wedi marw Josua, meibion Israel a ymofynasant â'r Arglwydd, gan ddywedyd, Pwy a â i fyny drosom ni yn erbyn y Canaaneaid yn flaenaf, i ymladd â hwynt? A dywedodd yr Arglwydd, Judah a â i fyny; wele, rhoddais y wlad yn ei law ef." (Barn. i. 1, 2.) "Am hyny y gofynodd Dafydd i'r Arglwydd, gan ddywedyd, A af fi a tharo y Philistiaid hyn? A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Dafydd, Dos, a tharo y Philistiaid, ac achub Ceilah." (1 Sam. xxiii. 2.) Cymharer Num. xxvii. 21.

Nid yw y rhesymau hyn, modd bynag, yn ymddangos yn argyhoeddiadol i'r awdwr; oblegyd

(1,) Y mae yr ymadroddion, "Yr Arglwydd a lefarodd," neu "Yr Arglwydd a ddywedodd," &c., yn cael eu defnyddio yn fynych yn iaith y Beibl, am *waith Duw yn amlygu ei ewyllys*, heb osod allan y dull neillduol. (Gen. i. 3.) A dichon mai yn yr ystyr yna yr ydys i'w cymmeryd yn 2 Sam. xxiii. 2, 11.

(2,) Cawn Hiram, brenin Tyrus, yn ateb, yn ol yr Hebraeg yn *llefaru* (y ferf yw *amar*—אמר, yr hon y cyfeiria Dr. Henderson a Pharkhurst ati fel prawf y byddai Duw yn ateb mewn *seiniau geiriol*) *mewn ysgrifen* (2 Chron. ii. 11. Hebraeg); os gallai Hiram lefaru mewn ysgrifen, paham na allai Duw lefaru trwy arwydd yr Urim a'r Thummim, beth bynag oedd hwnw?

(3,) Sonir am ddodi yr Urim a'r Thummim yn y ddwyfroneg, yr hyn a awgryma mai rhyw arwyddion trwy gyfrwng y rhai hyn oedd yr atebiad. (Exod. xxviii. 30.)

(4,) Gellid cael y manylion hefyd, y cyfeiria Dr. Henderson

atynt, trwy ychwanegu rhifedi y gofyniadau, ac i'r ateb o hyd fod ond *Ie* neu *Nâge*, neu rywbeth cyfystyr â hyny, dealledig gan yr archoffeiriad. Er engraifft, cymmerwn y manylion y cyfeiriwyd atynt, Barn. i. 1, 2, a 1 Sam. xxiii. 2. Buasai gofyniadau o'r natur a ganlyn yn dwyn allan y wybodaeth a geir yn yr adnodau yn eu ffurf bresennol:—

"Pwy a â i fyny yn mlaenaf i ymladd drosom yn erbyn y Canaaneaid, ai Judah?"
"Ië." (Yr ateb cadarnhaol, pan yr enwid y llwyth ag oedd i fyned.)
"A fydd efe yn llwyddiannus yn y frwydr?" (Barn. i. 1, 2.)
"Bydd."
"A af fi a tharo y Philistiaid hyn?"
"Ei."
"A ydwyf fi i achub Ceilah?"
"Wyt." (1 Sam. xxiii. 2.)
"A ddaw Saul i waered, megys y clybu dy was?"
"Daw."
"A ddyry Arglwyddi Ceilah fyfi a'm gwŷr yn llaw Saul?"
"Gwnant." (1 Sam. xxiii. 11, 12.)

Fe wnelai y gair Saesonaeg *Yes*, a'r gair Hebraeg *Cên* (כן), yn lle yr holl atebion uchod; a dichon fod yr holl ymofyniadau â Duw trwy yr Urim a'r Thummim wedi eu trefnu y fath, fel ag yr oedd yr *un gair* neu yr *un arwydd* yn rhoddi yr ateb cadarnhaol, ac un arall yr ateb o natur wahanol, neu nacâol. Mae yr hanes yn tueddu yr awdwr i gredu mai fel yna y rhoddid yr atebion.

Gyda golwg ar y manylion, er iddynt gael eu rhoddi mewn atebiad i ofyniadau unigol, gallai yr ysgrifenydd daflu y wybodaeth a dderbyniwyd i ffurf adroddiad hanesyddol; cymharer y gwahanol ddulliau o gofnodi yr un hanesion, yn Act. x. 28, ac Act. x. 9—20; Marc xvi. 9, a Ioan xx. 14—17, &c.

Wrth ystyried arwyddocâd y geiriau Urim a Thummim, a'r hanes ysgrythyrol am danynt, ymddengys y rhaid eu bod yn sylweddol naill ai yr hyn a noda Josephus a'i frodyr, neu yr hyn a awgryma Dr. Jahn. Mae ystyr y gair Urim, a'r ffaith fod yr Urim a'r Thummim yn cael eu dodi yn y ddwyfroneg (Exod. xxviii. 30: Lef. viii. 8), yn tueddu yr awdwr i feddwl *mai rhyw fath o feini gwerthfawr oeddynt, y rhai a ddysgleirient yn oleu pan fyddai Duw yn foddlawn, neu pan fyddai yr ateb yn gadarnhaol; ond a flachient allan oleuni o liw arall, pan y byddai efe yn anfoddlawn, neu yr ateb yn nacaol; ac a fyddent yn dywyll, pan y gwrthodai roddi atebiad o gwbl.*

Pa olygiad bynag a fabwysiedir, mae y ffaith yn aros, fod Duw

yn ei drugaredd, wedi gweled yn dda i roddi goleuni i'w bobl trwy yr Urim a'r Thummim, pan y byddent mewn cyfyng-gynghor. Yn ol Josephus, darfyddodd yr Arglwydd ag ateb ei bobl yn y dull hwn tua'r flwyddyn 112 cyn Crist; ond barna Dr. Jahn nad ymgynghorwyd â'r Arglwydd o gwbl trwy yr Urim a'r Thummim, ar ol dyddiau Dafydd. Cymharer Ezra ii. 63. Neh. viii. 9.

Gyda golwg ar briodoldeb defnyddiad y rhai hyn, gellir dweyd fod gan Dduw hawl i roddi ei atebion a'i oleuni yn ei ffordd ei hun, ac ar ei delerau ei hun; yr oedd llawer o bethau cyssylltiedig â'i wasanaeth ag nas gallwn ni gyfrif am danynt, ond yr oeddynt er hyny yn gwasanaethu i brofi ufydd-dod dyn, ac i ddangos pa un a oedd efe yn cydnabod Duw fel Arglwydd crefydd yn y pethau lleiaf yn ogystal ag yn yr hyn a ymddangosai yn ddyledswyddau uwch, a gosodiadau mwy urddasol a phwysig.

V. Trwy ei Fab.

Fe amlygodd Duw ei ewyllys trwy ei Fab o dan yr Hen Destament. Mae yn amlwg fod Mab Duw wedi ymddangos o dan yr Hen Destament, o dan yr enw "Angel Jehofah." Gelwir y person a lefarodd wrth Agar yn "Angel Jehofah," ac yna "Jehofah" a "Duw." (Gen. xvi. 7, 13.) Yr oedd un o'r tri angel a ymddangosasant i Abraham yn uwch na'r ddau arall. Y mae hyd y nod yr Iuddewon, y rhai oeddynt mor selog dros unoliaeth Duw, yn cydnabod fod un o honynt yn berson Dwyfol, o herwydd,—

1. Y parch dirfawr a delid iddo gan Abraham.

2. Ei waith yn addaw cyflawni gwyrth, trwy adferu nerth cyntefig Sarah.

3. Ei fod yn cael ei alw mewn modd pennodol Jehofah. (Gen. xviii. 13, 17, 20, 22.)

4. A bod Abraham yn anfon deisyfiad a gweddi ato. (Gen. xviii. 23—32.)

Gelwir yr "Angel" a ymddangosodd i Jacob yn "Dduw" (Gen. xxxi. 11, 13); a sonir am ymdrech Jacob â'r "Angel" yn Peniel fel ymdrech â Duw (Gen. xxxii. 24—30. Hosea xii. 4, 5.) Yr ydym yn cael Jacob hefyd wrth farw yn son am "yr Angel" ag oedd wedi ei waredu oddiwrth bob drwg, ac yn dadgan ei ddymuniad ar iddo fendithio meibion Joseph, gan gyfeirio ato fel un cydradd â Duw; rhaid ei fod yn ei ystyried

fel person Dwyfol, gan ei fod yn son am dano yr un modd ag am Dduw Abraham, fel ffynnonell bendithion, ac yn cyfeirio ei weddi ato. (Gen. xlviii. 15, 16.)

Yn ngoleuni y Testament Newydd, yr ydym yn canfod mai Iesu Grist oedd yr hwn a lefarai ar Sinai, yn amser rhoddiad y gyfraith. Dysga Stephan mai *yr angel* oedd gydag Israel yn yr anialwch oedd yr hwn a lefarodd wrth Moses yn mynydd Sinai, ac a ymddangosasai yn y berth, fel Duw Abraham, Isaac, a Jacob. (Act. vii. 30—38. Exod. iii. 1—6.) Dywed Paul, wrth osod allan ragoriaeth Crist ar Moses, "Llef *yr hwn* y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear" (Heb. xii. 26),—geiriau ag ydynt yn ol yr esbonwyr goreu yn gosod allan mai yr un person yw y Gwaredwr a Jehofah, Duw Israel, llef yr hwn a siglodd Sinai, ac a lanwodd y bobl â dychryn. Cymharer hefyd Heb. i. 8—12, â Salm cii. 24—28, a Ioan xii. 41, âg Esai. vi. 9, 10.*

Dichon y dywedir *fod hyn yn dinystrio yr wrthgyferbyniaeth a dŷn yr apostol rhwng y gyfraith a'r efengyl, yn mha un y gesyd y gyfraith allan fel wedi ei rhoddi trwy angylion, a'r efengyl trwy yr Arglwydd Iesu, Mab Duw.* Mae hyn yn anhawsdra ar yr olwg gyntaf, ond fe wna yr ystyriaethau canlynol ei symmud i raddau:—

1. Gellid dwyn yr un wrthddadl yn erbyn y ffaith fod rhoddiad y ddwy oruchwyliaeth yn cael ei briodoli i Dduw.

Pan y dywedir mai Duw yw pen y ddwy, ac mai ei leferydd ef yw y ddwy, mae yna gydraddoldeb rhyngddynt, mor bell ag mae y ffaith yna yn myned. (Heb. i. 1.) Nis gellir rhoddi un esboniad ar weinidogaeth angylion ag sydd yn cau Duw allan o'r gwaith o roddi y ddeddf. (Exod. xx. 1, 19, 22. Deut. v. 4, viii. 16.)

2. Dywed Paul mai yr Iesu yr hwn sydd yn llefaru yn awr o'r nef trwy yr efengyl, a lefarodd wrth Israel oddiar Sinai.

"Llef yr hwn y pryd hwnw a ysgydwodd y ddaear." (Heb. xii. 25, 26.) Rhwng y ddaear a'r nefoedd y mae y gwrthgyferbyniad, ebe Dr. Owen, ac nid rhwng y personau sydd yn llefaru, oblegyd yr un ydynt.

3. Nid yw yr ysgrifenwyr Santaidd wrth nodi gwenidogaeth angylion, yn golygu cau allan weinyddiaeth Tywysog yr angylion, y Duw-Ddadguddiwr yn holl oesau y byd.

Dichon na olygir mwy na bod yr angylion yn bresennol yn anrhydeddu yr amgylchiad (Deut. xxxii. 2. Salm lxviii. 17), ac yn trosglwyddo y ddeddf oddiwrth Dduw i Moses (Act. vii. 5, 7. Gal. iii. 19.) Mae'n bossibl fod yr Arglwydd wedi defnyddio eu lleisiau hwy i draddodi y gyfraith yn nghlyw y bobl, fel yr awgryma rhai esbonwyr. Pa fodd y deallir yr wrthgyferbyniaeth ynte? Credwn fod y sylw canlynol o eiddo Doddridge yn gosod allan y syniad cywir:—

* Gwel Attodiad III.

"Yr oedd ei ymddangosiad yn y natur ddynol, i bregethu yr efengyl â'i enau ei hun, a'i selio â'i waed ei hun, yn ymddarostyngiad gymmaint mwy na'i waith yn gwersyllu yn mhlith llengoedd o angylion, y rhai a ddefnyddiai fel ei gyhoeddwyr i draethu ei ewyllys, fel y mae yn dangos fod yr efengyl yn gorwedd yn llawer agosach at ei galon na'r gyfraith; ac o ganlyniad fod y perygl o ddiystyru yr efengyl yn fwy nag o ddirmygu y gyfraith." (*Doddridge's Lectures*, clvii. *Schol.* 1.)

4. Pan y gwrthgyferbynir dau gyfryngwr y ddwy oruchwyliaeth, Moses a Christ a wrthgyferbynir, yn hytrach na Christ a'r angylion: gwel Deut. xviii. 15. Heb. iii. 3, 5, 6, x. 28, 29, xii. 25.

O herwydd syniadau uchel yr Hebreaid am yr angylion, a'u barn uchel am yr hen oruchwyliaeth oblegyd ei bod yn cael ei hanrhydeddu â gwasanaeth y fath fodau urddasol, yr oedd yn ofynol i'r apostol ddangos fod Crist yn rhagori ar yr angylion, a bod yr oruchwyliaeth Gristionogol yn rhagori ar yr oruchwyliaeth a gawsai y fath anrhydedd gynt. Cafodd hon ei sefydlu trwy ymgnawdoliad, llafur personol, ing, a gwaed Emmanuel, tra na roddasid y llall ond yn swn taranau ei gadernid ef, ac yn nghanol dychrynfeydd presennoldeb ei Fawrhydi Dwyfol. Nid rhyfedd, gan hyny, i'r apostol dynu yr wrthgyferbyniaeth, gan fod y gwahaniaeth yn cynnwys ymgnawdoliad Mab Duw a'i farwolaeth ar y groes!

Yn nghyflawnder yr amser, fe ymddangosodd Mab Duw yn y natur ddynol, i ddadguddio ewyllys Duw i ni, a rhoddi ei einioes yn bridwerth drosom. Fel "Goleuni y byd" (Ioan viii. 12), efe a ddaeth i egluro y Tad i ddynion (Ioan i. 18), i dystiolaethu i'r gwirionedd (Ioan xviii. 37), ac i wneyd yn hysbys ewyllys yr hwn a'i hanfonodd (Ioan iii. 34, viii. 28, xii. 49, 50, xvii. 8, 26); ac oblegyd ei gymmeriad prophwydol, gelwir ef y Gwirionedd (Ioan xiv. 6), y Goleuni, a'r Gair (Ioan i. 1, 4, 9), y Prophwyd (Deut. xviii. 15. Act. iii. 23. Luc xiii. 33), a'r Tyst ffyddlawn a chywir (Esai. lv. 4. Dad. i. 5, iii. 14, &c.)

VI. Trwy ysbrydoli ei weision.

Hon oedd y ffordd fwyaf arferol a ddewisai Duw i drosglwyddo ei ewyllys i'r byd. Yr oedd ar adegau neillduol yn cynhyrfu ei weision â dylanwadau ei Ysbryd, ac yn dadguddio iddynt bethau y rhai nas gallasent byth eu darganfod trwy eu deall a'u dirnadaeth eu hunain, ac yn eu tywys trwy arweiniad annghyfeiliorn ei Ysbryd i drosglwyddo y cyfryw bethau mewn modd cywir i ddynion.

Dywedai Dafydd, "Ysbryd yr Arglwydd a lefarodd ynof fi, a'i ymadrodd ef oedd ar fy nhafod." (2 Sam. xxiii. 2.)

Yr oedd y prophwydi yn "chwilio pa bryd, neu pa ryw amser, yr oedd Ysbryd Crist, yr hwn oedd ynddynt yn ei hysbysu, pan oedd efe yn rhagdystiolaethu dyoddefaint Crist,

a'r gogoniant ar ol hyny." (1 Pedr i. 11.) "Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; ond dynion santaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân." (2 Pedr i. 21.)

Anrhydeddwyd yr apostolion hefyd âg Ysbryd Duw mewn modd goruwchnaturiol, yr hwn a'u harweiniai i bob gwirionedd (Ioan xvi. 13); a ddygai ar gof iddynt ddysgeidiaeth Crist (Ioan xiv. 26); ac a roddai awdurdod Ddwyfol i'w hathrawiaeth. (Ioan xx. 23. Act. iv. 8, 31. 1 Cor. ii. 4, 5, 13, vii. 40. Eph. iii. 5. 1 Thes. iv. 8. 1 Tim. iv. 1. 1 Pedr i. 12.)

NODIAD.—

Dichon y dylid sylwi gair ar ymofyniad a all ymgodi yn meddwl rhai darllenwyr, sef, *A fyddai Duw weithiau yn amlygu ei ewyllys i ddynion trwy gyfrwng y meirw? Ai Duw a anfonodd Samuel i hysbysu Saul am ei farwolaeth, ai ynte twyll o eiddo y ddewines ydoedd y cwbl?* (1 Sam. xxviii.)

Dywed Dr. Henderson ar hyn fel y canlyn:—"Y mae yn ffaith hanesyddol mor syml ag unrhyw ffaith a gofnodir yn llyfr Duw, fod Samuel wedi ymddangos mewn modd gwirioneddol, ac o ganlyniad fod ei ymddangosiad yn effaith cyfryngiad Dwyfol." (*On Inspiration*, p. 143.)

Yn gyffelyb y dywed Dr. Wardlaw:—"Yr wyf fi yn argyhoeddedig (eb efe), na achoswyd ymddangosiad Samuel mewn un modd trwy unrhyw gywreinrwydd neu swyngyfaredd o eiddo y ddewines, ond trwy gyfryngiad uniongyrchol gallu Duw. Ymddengys i mi oddiwrth yr hanes, pan ofynodd Saul iddi, 'Dwg i mi Samuel i fyny,' na chafodd y wraig amser i ddefnyddio yr un o'i swynion, a'i defodau dewinol, a'i chyfareddion; fod Samuel wedi ymddangos yn ddiatreg cyn y gallasai hi fyned yn nghylch y rhai hyn; fod ei ymddangosiad yn annysgwyliadwy ganddi hi ei hun, gan iddi gael ei goddiweddyd â syndod dirfawr, a'i llenwi â'r fath fraw fel y llefodd allan o dan rym gwirioneddol ac anorchfygol y cyffroad." (*Syst. Theol.* vol. i. pp. 339, 340.)

Dyma olygiad Keil a Delitzsch hefyd. Y mae beirniaid ereill, modd bynag, yn mabwysiadu golygiad gwahanol.

Mae ymddangosiad Samuel mewn ufydd-dod i orchymyn Duw, yn cael ei egluro fel amgylchiad possibl a chredadwy, trwy ymddangosiad Moses ac Elias ar fynydd y gweddnewidiad; ond eu bod hwy yn ymddangos mewn gogoniant, a Samuel yn ngwisg arferol y prophwyd.

Ar y cyfan, ymddengys mai y golygiad uchod yw yr hyn ag mae lleiaf o anhawsderau yn perthyn iddo.*

* Gwel ar gynnwysiad y bennod hon, *Henderson's Divine Inspiration*, Lectures ii. & iii. *Doddridge's Lectures*, clvii. *Jennings's Jewish Antiquities. Geiriaduron Dr. W. Smith. a Dr. Kitto. Jahn's Biblical Antiquities*, &c

## PENNOD VI.

### YSBRYDOLIAETH Y BEIBL.

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Y Beibl yn hawlio derbyniad fel llyfr Dwyfol-ysbrydoledig—Ysbrydoliaeth yn gysson â gwahanol arddulliau ac ymchwiliad yr Ysgrifenwyr Santaidd—Yr hyn a olygir wrth Ysbrydoliaeth y Beibl—Gwahanol farnau ar hyn—Ymchwiliad i'w gwirionedd—Rhesymau dros yr hyn a elwir "Ysbrydoliaeth Eiriol"—Ymwybyddiaeth yr ysgrifenwyr eu bod o dan Ysbrydoliaeth Duw.*

Un o brif nodweddau y Beibl yw ei waith yn honi ei Ddwyfoldeb ei hun. Proffesa fod yn air Duw, ac yn arweinydd anffaeledig i'r byd. Hawlia wrandawiad fel yr awdurdod uchaf ar bethau crefyddol, a dysga nad oes neb yn ddoeth i iachawdwriaeth ond y rhai sydd yn gwrando ar ei leferydd ef.

Cawn yr apostolion yn cyhoeddi ysbrydoliaeth yr Hen Destament. "Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion santaidd Duw a lefarasant *megys* y cynhyrfwyd *hwy* gan yr Ysbryd Glân." (2 Pedr i. 21.) Mae Pedr yma yn cyhoeddi fod yr hyn a ysgrifenwyd o dan yr Hen Destament am y Gwaredwr, yn ffrwyth cynhyrfiad goruwchnaturiol yr Ysbryd Glân. Nid ydym i gymmeryd tystiolaeth Pedr yma fel pe byddai yn awgrymu na roddasid rhanau ereill yr Hen Destament trwy ddylanwad yr un Ysbryd; at y rhanau prophwydol y mae yn cyfeirio yma, ac am y rhai hyny y mae yn traethu; pa bryd bynag y cyfeiria at ranau ereill o'r Beibl, y mae yn edrych ar y cyfan fel ysgrifeniadau cyssegredig y Duw mawr.

Y mae Paul yn dwyn ei dystiolaeth i Ddwyfoldeb yr holl Ysgrythyr ag oedd y pryd hwnw mewn bod, sef yr Hen

Destament i gyd, a rhanau o'r Testament Newydd, mae yn debyg, y rhai oeddynt yr adeg hono wedi cael eu hysgrifenu:—"Yr holl Ysgrythyr *sydd* wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac *sydd* fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder." (2 Tim. iii. 16.) Defnyddia yr apostol ddau ansoddair i osod allan nodweddau yr Ysgrythyr; dywed ei bod yn *Ddwyfol-ysbrydoledig* (θεόπνευστος) ac yn *fuddiol;* ac am ei bod wedi ei rhoddi drwy ysbrydoliaeth Duw, y mae yn fuddiol, yn wasanaethgar, a chyfaddas, i ddwyn oddi amgylch y pethau pwysig a briodolir iddi.

Y mae yr Arglwydd Iesu a'i apostolion yn cyfeirio at yr Hen Destament fel gair Duw, a'r Ysgrythyrau, y rhai a feddent awdurdod Ddwyfol (Mat. xix. 4, xxii. 29, 31. Ioan x. 34, 35. Rhuf. iii. 2, iv. 3. 1 Cor. xv. 27); ac y mae yr un awdurdod Ddwyfol yn cael ei hawlio i'r hyn a ddysgai yr apostolion yn eu pregethau a'u hysgrifeniadau (Gal. i. 11, 12. 1 Cor. ii. 10—13, xiv. 37. 1 Thes. ii. 13, iv. 8. 1 Ioan iv. 6. 1 Pedr iii. 2, 15, 16.) Yn y cyfeiriadau olaf, fe welir fod Pedr yn hawlio yr un awdurdod i eiriau yr apostolion ag i eiriau y prophwydi, a'r un safle i ysgrifeniadau Paul ag i Ysgrythyrau yr Hen Destament.

Nid yw y ffaith nad oedd Marc a Luc yn apostolion yn gwanychu yr ymresymiad hwn, nac yn dirymu y dystiolaeth fod yr holl Ysgrythyr wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw. Nid oedd doniau goruwchnaturiol yr Ysbryd yn cael eu cyfyngu i'r apostolion, a dichon fod Marc a Luc wedi cael eu hanrhydeddu â hwynt. Yr oeddynt yn gymdeithion yr apostolion, ac yn ddefnyddiol yn ngwaith yr Arglwydd Iesu, ac y mae hyny yn ei wneyd yn debygol eu bod yn gyfranog o'r doniau gwyrthiol a gyfrenid yn helaeth yn yr oes apostolaidd. Cyfeiriwyd yn y bennod ar "Y Canon," fod rhai yn yr eglwys foreuol yn priodoli y gwaith o arolygu ysgrifeniadau Marc a Luc i Pedr a Phaul. Dywedai Irenæus a Tertullian fod Pedr wedi cymmeradwyo efengyl Marc, a Phaul efengyl Luc. Nid oes dim yn annaturiol yn hyn, gan y cawn Pedr (2 Pedr iii. 15, 16) yn cadarnhau awdurdod ysgrifeniadau Paul, a'r apostolion ereill. (2 Pedr iii. 2.) Yr oedd yn naturiol i'r eglwysi ar ymddangosiad cyntaf ysgrifeniadau Marc a Luc ymofyn â'r apostolion yn nghylch eu hawdurdod; ac y mae yn ffaith fod ysgrifeniadau Marc a Luc wedi cael eu

derbyn o'r dechreuad gan y Cristionogion fel cynnyrchion ysbrydoliaeth Duw.

Dylid, fe ddichon, nodi rhai pethau ag nad ydym i'w hystyried yn annghysson âg ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau.

Nid ydyw ysbrydoliaeth y Beibl yn annghysson â defnyddiad ysgrifeniadau credadwy y rhai oeddynt ar y cyntaf yn annghyssegredig, fel y gwelwn yn Num. xxi. 14, lle y cyfeirir at "lyfr rhyfeloedd yr Arglwydd," ac yn Jos. x. 13, lle y sonir am "lyfr Jaser;" ac yn Ezra i. 1—4, lle y ceir cyhoeddiad Cyrus i'r Iuddewon gael rhyddid i adeiladu y deml; ac yn Ezra iv. 11—16, lle y ceir llythyr gwrthwynebwyr yr Iuddewon at Artaxerxes. Yr oedd Ysbryd Duw yn cyfarwyddo ei weision i gofnodi pethau o'r natur hyn, gan fod hyny yn unol âg amcan rhoddiad dadguddiad Dwyfol i'r byd, yr hwn sydd mewn rhan yn gronicl hanesyddol o helyntion pobl Dduw a chwyldroadau Rhagluniaeth. Dengys manylion fel hyn fod ffeithiau hanesyddol y Beibl i ymddibynu arnynt, ac nad oes dim ond gwirionedd yn ei gofnodion.

Nid ydyw ei ysbrydoliaeth yn annghysson â gwaith yr ysgrifenwyr yn chwilio yn ddyfal i gywirdeb y ffeithiau a chyssylltiadau yr amgylchiadau a gofnodent, fel y gwelwn oddiwrth Luc i. 3,—"Minnau a welais yn dda, wedi i mi ddilyn pob peth yn ddyfal o'r dechreuad, ysgrifenu mewn trefn atat, O ardderchocaf Theophilus." Ond ni adawai yr Ysbryd Glân, er hyny, yr ysgrifenydd iddo ei hun, ond cyfarwyddai ef *beth i'w gofnodi*, a *beth i'w adael allan* (Ioan xx. 30, xxi. 25), a *pha fodd i* ysgrifenu yr hyn oedd i fod ar gael hyd ddiwedd amser.

Nid ydyw ysbrydoliaeth ychwaith yn annghysson â'u gwaith yn gosod yr un meddyliau allan mewn gwahanol ffyrdd, ac yn ysgrifenu mewn gwahanol arddulliau. Mewn llys barn fe ystyrir amrywiaeth yn nhystiolaeth tystion, os ceir ei bod yr un o ran sylwedd, yn amgylchiad ffafriol, gan fod hyny yn dangos nad oes cynghrair i dwyllo wedi bod. Gellir dweyd yr un peth am y gwahaniaeth sydd i'w ganfod rhwng ysgrifenwyr y Beibl, ac hyd y nod yr hyn a ymddengys, ar yr olwg gyntaf, yn wrthdarawiad ynddynt; y mae y cyfan yn ffafr gwirionedd eu tystiolaeth. Y mae yn brawf o ddoethineb yn Nuw ei fod wedi rhoddi yr Ysgrythyrau i ni, fel y gwnaeth. Gallasai roddi ei ewyllys i'r byd heb ysbrydoli dynion i'w

hysgrifenu, fel y gwnaeth wrth roddi y ddeddf ar Sinai; gallasai roddi yr holl Feibl i ni yn ddigyfrwng fel hyn, a'r oll o hono yn yr un arddull; neu gallasai roddi dadguddiad goruwchnaturiol i bob dyn ar ei ben ei hun. Ond gwelodd ei ddoethineb anfeidrol y buasai defnyddio dynion i drosglwyddo ei ewyllys i ddynion, a hyny yn arddull dynion, yn fwy o fendith i'r byd a gogoniant i'w enw Dwyfol ei hun; ac felly y gwnaeth—"Dynion santaidd Duw a lefarasant (pob un yn ol ei arddull neillduol ei hun) megys ag y cynhyrfwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân."

Mae'r darllenydd bellach yn barod i ofyn,—BETH A OLYGIR WRTH YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU? Gan mai yn ol ein barn ar y pwnc hwn y bydd ein parch i'r Beibl, y mae o bwys i ni goleddu barn gywir am dano. Cawn un dosbarth (Maurice, Morell, ac ereill) yn dysgu nad oedd ysbrydoliaeth yr ysgrifenwyr santaidd yn ddim amgen na goleuni ac adnewyddiad mewnol yr Ysbryd Glân, yr hyn a fwynheir i ryw raddau gan bob credadyn, a'r hyn a alluogai blant Duw i amgyffred gwirioneddau ysbrydol mewn modd eglur a chywir. Yn ol y dyb hon, purdeb calon neu santeiddrwydd yw sail ysbrydoliaeth, ac mae graddau ysbrydoliaeth yn ymddibynu ar raddau santeiddrwydd dyn; a phe ceid Cristion yn rhywle mwy duwiolfrydig na'r apostolion, byddai ei ysbrydoliaeth o gymmaint a hyny yn uwch, a'i amgyffrediad o bethau Duw yn eglurach. Pe byddai y dyb hon yn gywir, gan fod yr apostolion fel duwiolion ereill yn cynnyddu mewn gras, gellid dysgwyl y buasent cyn diwedd eu hoes yn cael goleuni cywirach ar bethau ysbrydol, ac yn dysgu pethau i raddau yn wahanol i'r hyn a bregethent yn nechreu eu gweinidogaeth; ond nid ydym yn cael eu bod mewn blynyddau diweddarach yn gwahaniaethu dim yn eu hathrawiaeth, ond yn hytrach yn ei hailgadarnhau gyda difrifoldeb cyffrous. (Gal. i. 8. 2 Ioan 10.) Ni ellid cyfrif ychwaith am ysbrydoliaeth Balaam a Chaiaphas pan y prophwydasant, os nad oedd ysbrydoliaeth yn wahanol i burdeb calon, neu arweiniad arferol Ysbryd Duw i'w bobl. (Gwel yr erthygl alluog ar "Ysbrydoliaeth" yn "*Aids to Faith.*")

Cawn ddosbarth arall yn cyfyngu cyfarwyddyd yr Ysbryd Glân i ysgrifeniad rhanau prophwydol y Beibl, ac ereill i'r rhanau athrawiaethol; ereill drachefn i wirioneddau sylfaenol crefydd; ac ereill i'r rhanau hyny o hono ag sydd o duedd

foesol dda; ond nis gall y syniadau hyn fod yn gywir, gan fod y Beibl yn honi yr un ysbrydoliaeth i'w holl gynnwysiad, ac nad ydyw dyn yn alluog i farnu beth yw gwirioneddau hanfodol crefydd, a'r rhai sydd o duedd dda, fel ag i ddewis y rhai hyny, a gwrthod y lleill. Ei ddyledswydd resymol ef ydyw derbyn y cyfan fel lleferydd awdurdodol Duw, a chyfarwyddyd anffaeledig yr Ysbryd Glân.*

Wrth ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau y golygwn—DROSGLWYDDIAD GORUWCHNATURIOL GWIRIONEDD ODDIWRTH DDUW I YSGRIFENWYR Y BEIBL, A CHYMHORTH A CHYFARWYDDYD GORUWCHNATURIOL A GWYRTHIOL YR YSBRYD GLAN IDDYNT, I DROSGLWYDDO Y GWIRIONEDD HWNW MEWN MODD ANFFAELEDIG I EREILL: FEL AG Y MAE YR HOLL YSGRYTHYR WEDI EI RHODDI TRWY YSBRYDOLIAETH DUW, AC YN DYFOD AT DDYN GYDA DWYFOL AWDURDOD. Wrth ddarllen y Beibl, yr ydym yn cael fod yr ysgrifenwyr santaidd yn dysgu eu bod hwy yn cael eu harwain gan yr Ysbryd Glân yn y fath fodd, fel yr oeddynt yn cael eu gwneyd yn anffaeledig yn yr hyn a ysgrifenent, ac yn ysgrifenu yr hyn oedd yn unol âg ewyllys Duw, a hyny yn unig; fel y mae yr holl Feibl, o ran ei ffurf a'i sylwedd, yr hyn ag sydd yn ol ei feddwl Dwyfol ef.

Nis gellir byth egluro *modd ysbrydoliaeth*, gan ei fod yn oruwchnaturiol, a chan nad oes y fath beth yn cymmeryd lle yn mhlith dynion yn awr; ond y mae yn weddus i ni gasglu cymmaint o oleuni ag a gawn arno oddiwrth y geiriau a ddefnyddir i'w osod allan.

Dywed Paul fod yr holl Ysgrythyr yn *Ddwyfol-ysbrydoledig* (θεόπνευστος), yr hyn a olyga ei bod oll wedi ei rhoddi i ddyn trwy ddylanwad goruwchnaturiol yr Ysbryd. (2 Tim. iii. 16.) Geilw efe ysgrifeniadau y Beibl τὰ ἱερὰ γράμματα=Yr Ysgrythyrau Santaidd, am eu bod yn *gyssegredig*, wedi eu rhoddi gan Dduw, er dwyn oddi amgylch ei fwriadau grasol a Dwyfol ef ei hun. (2 Tim. iii. 15.)

Dysga Pedr nad cynnyrch athrylith, na ffrwyth dealltwriaeth a myfyrdod dyn oedd prophwydoliaeth o dan yr Hen Destament, "eithr dynion santaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glan" (φερόμενοι ὑπὸ πνεύματος ἁγίου—2 Pedr i. 21.)

Y ferf Hebreig a ddefnyddir i osod hyn allan yw *naba* (נבא),

* *Knapp's Theology*, p. 62: *Bible Hand-Book*, pp. 72, 73. *Gaussen's Theopneustia*, chap. i. § 3.

yr hon a olyga *berwi i fyny*, *berwi allan*, fel ffynnon; yna *tywallt allan eiriau*, fel rhai yn siarad gyda gwresogrwydd meddyliol, neu o dan ysbrydoliaeth Ddwyfol. Yn y ffurfiau goddefol (*passive forms*) defnyddir hi i osod allan *un yn llefaru o dan ddylanwad Dwyfol*, *un yn prophwydo*, *un yn moliannu Duw o dan ddylanwad Dwyfol.* Mewn ystyr ail raddol, daeth i olygu *ynfydu*, *bod* neu *ddyfod yn ynfyd*, oblegyd fod y prophwydi, pan o dan ddylanwad ysbrydoliaeth, yn ymddangos fel rhai wedi eu cyffroi yn fawr, a'u cyrph yn cael eu dirdynu fel eiddo dynion gwallgofus: am hyny y gelwir un o feibion y prophwydi mewn gwawd yn ddyn *ynfyd*. (2 Bren. ix. 11.)

Oddiwrth y nodiadau blaenorol, y mae y pethau canlynol yn amlwg:—

1. *Fod holl air Duw wedi ei roddi trwy Ddwyfol-ysbrydoliaeth.* Mae yn wir fod Paul a Phedr yn y lleoedd crybwylledig (2 Tim. iii. 16; 2 Pedr i. 21), yn cyfeirio yn benaf at yr Hen Destament, ond y mae yr hyn a briodolir i'r Hen Destament, yn cael ei hawlio gan y Testament Newydd, a'i briodoli iddo yntau.

2. *Gosodir yr holl ysgrifenwyr allan fel o dan yr un arweiniad a'r un ysbrydoliaeth Ddwyfol.* Dywedir fod "yr *holl* Ysgrythyr" yn Ddwyfol-ysbrydoledig; a bod "dynion santaidd Duw" fel dosbarth, pawb o honynt, y naill fel y llall, yn llefaru megys ag y cynhyrfwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân. Mae y ffurfiau goddefol o'r ferf Hebraeg (Niphal a Hithpael*), ac o'r rhangymmeriad Groeg (φερόμενοι yr hwn a ddefnyddia Pedr, 2 Pedr i. 21), yn dysgu mai o dan ddylanwad gwyrthiol Ysbryd

* Un o ystyron y ferf Hebreig yn ffurf Hithpael, *yw proffesu bod yn rhyw beth, gosod ei hun allan* fel rhyw un, ac o herwydd hyny ystyria Dr. R. Payne Smith (*Prophecy, A Preparation for Christ*, pp. 54—57), fod y ferf yn golygu yn Hithpael *gweithredu fel prophwyd, honi bod yn brophwyd.* (Num. xi. 25—27. 1 Sam. x. 5, 6, 10, 13. 1 Bren. xviii. 22. Jer. xiv. 14, xxiii. 13.)

Dealla efe y ferf yn 1 Sam. x. 5, yn gosod allan waith meibion y prophwydi yn moli a dawnsio, ac yn 1 Sam. x. 6, 10, 13, waith Saul yn cyfranogi yn eu hymarferiadau crefyddol. Yn 2 Chron. xx. 37, ceir Eliezer yn ymddwyn fel prophwyd trwy gyhoeddi drylliad llongau Jehosaphat; ond ystyria y Dr. fod ffurf y ferf yn awgrymu na wnaeth Eliezer fwy na chludo cenadwri brophwydol i Jehosaphat. Yn Ezec. xxxvii. 4, 9, 10, 12, gorchymynir i'r prophwyd—nid i brophwydo, ond *i ymddwyn fel prophwyd.* Gweledigaeth ydoedd, ac ymddangosai y prophwyd iddo ei hun fel yn ymddwyn yn y cymmeriad o brophwyd ynddi. Oddi eithr yr engreifftiau diweddaf, y mae y gwahaniaeth rhwng y wir ddawn brophwydol (yr hon a osodir allan trwy Niphal), a gweithredu fel prophwyd neu broffesu bod yn brophwyd (yr hyn a osodir allan trwy Hithpael), eb efe, yn hollol eglur.

Gesenius, modd bynag, a ystria fod y ferf yn Hithpael yn cael ei defnyddio weithiau yn gyfystyr â'r ffurf yn Niphal.

Duw yr oedd dynion santaidd Duw yn llefaru, ac nid o honynt eu hunain. Weithiau yr ydym yn cael eu bod yn cael eu gorfodi i brophwydo a llefaru dros Dduw gan y dylanwad Dwyfol, hyd y nod pan y carent gael bod yn ddystaw. (Jer. xx. 9.) Pa fodd bynag yr esboniwn hyn, y mae y ffaith yn aros yr un, fod y Beibl yn hawlio iddo ei hun ysbrydoliaeth Ddwyfol a chyflawn, a bod ei ysgrifenwyr o dan gyfarwyddyd ac arolygiaeth wyrthiol yr Ysbryd Glân pan yn ei gyfansoddi.

Sylwasom yn barod ar rai o'r syniadau a goleddir am yr hyn ydym i'w olygu wrth ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau, y rhai a farnem yn gyfeiliornus: a rhoddasom fath o ddarnodiad o'r hyn a olygwn ni sydd yn cynnwys dysgeidiaeth y Beibl ar y pwnc hwn. Ond y mae dwy farn yn mhlith y rhai a ystyrir yn Gristionogion uniongred ar hyn eto, er y gall y ddwy blaid gytuno â'r darnodiad blaenorol; un ydyw—"*Fod Duw wedi cynnysgaethu yr ysgrifenwyr santaidd â'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddiasant, yn ogystal ag â'r sylwedd.*" Y llall ydyw—"*Fod yr ysgrifenwyr at eu rhyddid i ysgrifenu yn eu harddull a'u ffyrdd eu hunain, ond eu bod er hyny o dan arweiniad anffaeledig yr Ysbryd Glân.*" Fe welir fod y ddwy dybiaeth yn arwain, o ran y sylwedd, bron i'r un peth; pa un bynag a roddai neu a awgrymai yr Ysbryd Glân iddynt y geiriau a'r ymadroddion ai peidio, honir fod y canlyniad yr un yn ol y ddwy farn—GAIR DUW YW Y BEIBL. Er fod y ddwy dyb yn arwain bron i'r un peth, mae yr ysgrifenydd, modd bynag, ar ol ystyriaeth ddwys, wedi cael ei argyhoeddi, *fod yr Ysgrythyrau yn honi eu bod wedi cael eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw, o ran y geiriau a'r ymadroddion, yn ogystal ag o ran y cynnwysiad;* ac fod tuedd yn y ddamcaniaeth (*theory*) arall i iselhau urddas yr Ysgrythyrau santaidd.

I. SYLWN AR Y DYB WRTH-EIRIOL AM YSBRYDOLIAETH YR YSGRYTHYRAU, YN NGHYDA'R RHESYMAU DROSTI, AC YN ERBYN Y LLALL.

Swm hon, fel y nodwyd, yw, "*Fod yr ysgrifenwyr at eu rhyddid i ysgrifenu yn eu harddull a'u ffordd eu hunain, ond eu bod,—pa un bynag a fyddent yn ysgrifenu yr hyn oedd adnabyddus iddynt o'r blaen, neu ddefnyddio ysgrifeniadau annghyssegredig, neu gofnodi yr hyn a ddadguddid iddynt yn uniongyrchol oddiwrth Dduw—o dan arweiniad anffaeledig yr Ysbryd Glân.*"

Ystyria coleddwyr y dyb hon, yn mhlith pa rai y rhifir

Dr. Doddridge, Dr. Pye Smith, a Dr. Henderson, fod gwahanol raddau o ysbrydoliaeth; megys *Cymhelliad Dwyfol* i ysgrifenu; *Dyrchafiad y meddwl*, fel ag i allu derbyn dadguddiad Dwyfol; *Arolygiaeth*, fel ag i sicrhau cynnyrchion gwirioneddol a chywir; *Arweiniad*, i bob gwirionedd; a *Dadguddiad uniongyrchol*, o bethau Dwyfol a chuddiedig.* Yn ffafr y golygiad hwn, ac yn erbyn ysbrydoliaeth eiriol, cawn Dr. Pye Smith a Dr. Henderson, bron yn yr un geiriau, yn dwyn yn mlaen amryw resymau; dodwn hwy ger bron y darllenydd, gan wneyd ychydig nodiadau arnynt wrth fyned rhagom:—

1. Dywedir nad yw y Beibl yn unman yn honi fod *ei holl eiriau wedi cael eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw.* Esbonia Dr. Henderson yr adnodau canlynol i olygu y *sylwedd* yn hytrach na'r geiriau:—

"Yr holl Ysgrythyr *sydd* wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac *sydd* fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder." (2 Tim. iii. 16.) "Y rhai yr ydym yn eu llefaru hefyd, nid â'r geiriau a ddysgir gan ddoethineb ddynol, ond a ddysgir gan yr Ysbryd Glân; gan gydfarnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol." (1 Cor. ii. 13.) "Eithr pan y'ch rhoddant chwi i fyny, na ofelwch pa fodd neu pa beth a lefaroch: canys rhoddir i chwi yn yr awr hono pa beth a lefaroch. Canys nid chwychwi yw y rhai sydd yn llefaru, ond Ysbryd eich Tad yr hwn sydd yn llefaru ynoch." (Mat. x. 19, 20.)

Credwn fod Dr. Henderson yn y gosodiad hwn yn cymmeryd yn ganiatâol y pwynt mewn dadl. Nid ydym ychwaith mewn un modd yn barod i dderbyn ei esboniad ef ar yr adnodau dan sylw, fel un cywir; oblegyd y mae Crist yn addaw y cyfarwyddai yr Ysbryd yr apostolion "pa fodd" yn ogystal a "pha beth" i lefaru (Mat. x. 19); ac os ydyw geiriau yr apostol yn 1 Cor. ii. 13, yn golygu unrhyw beth, y maent yn cyfeirio at y *pethau* a bregethai yr apostolion, a'r *dull* neu y *modd* y pregethent hwynt. Ac am 2 Tim. iii. 16, y mae Paul yma yn dysgu fod yr *holl Ysgrythyr* wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw, mor bendant ag y dysga 2 Pedr i. 21, fod y prophwydi o dan ddylanwad Ysbryd Duw pan y llefarent dros y Goruchaf. Priodola Paul ysbrydoliaeth

* *Henderson's Inspiration*, Lect. vii. *Doddridge's Works*, Lect. cxxxvii. *Knapp's Theology*, p. 62. *Pye Smith's Scripture Testimony*, vol. i. pp. 24, 25, 61 (sixth edition.)

Ddwyfol i'r ysgrifeniadau santaidd y rhai sydd yn cynnwys y meddyliau, ac nid i'r meddyliau ar wahan i'r ymadroddion ysgrifenedig. Rhoddwyd y corph a'r wisg gan Ysbryd Duw.

2. Honir *nad oedd eisieu i'r Ysbryd Glân roddi y geiriau i'r ysgrifenwyr.*

Dywedir fod yr ysgrifenwyr yn alluog i gofnodi llawer o bethau eu hunain, ac nad yw Duw yn gwastraffu ei ddoniau gwyrthiol lle nad oes eu heisieu. Addefir, modd bynag, fod yr Ysbryd Glân yn rhoddi y geiriau i'r ysgrifenwyr, pryd nad allent amgyffred yr hyn a ddadguddid iddynt.

Y mae amryw wrthebion i'r gosodiad hwn yn cynnyg eu hunain i'n sylw:—

(1,) Y mae yn cymmeryd yn ganiatâol y pwynt mewn dadl. Pwy sydd gymhwys i ddweyd beth oedd anghenrheidiol yn yr amgylchiad? Gall peth fod yn anghenrheidiol yn ngolwg Duw yr hyn nad ydyw yn ymddangos felly i ddyn.

(2,) Nid ydyw y Beibl yn cydnabod gwahaniaeth graddau ysbrydoliaeth. Ac edrych ar bethau o safle ddynol, y mae yn ddigon naturiol i ni gasglu fod eisieu graddau mwy angerddol o ddylanwadau Ysbryd Duw i'r ysgrifenwyr santaidd pan y cofnodent hanes dechreuad y byd, chwyldroadau Rhagluniaeth yn y dyfodiant pell, golygfeydd diwedd y byd, a rhyfeddodau y byd anweledig, na phan y cofnodent helyntion eu hoes eu hunain, â pha rai yr oeddynt yn gyfarwydd; *ond yn y Beibl y mae yr un ysbrydoliaeth yn cael ei briodoli i'r holl Ysgrythyr.* Credwn nad yw yn weddus i ni fyned yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd gyda golwg ar y pwnc hwn, a gwahaniaethu lle nad yw y Beibl yn dweyd fod gwahaniaeth. Os eir i wahaniaethu, pwy sydd i nodi y terfynau, a'n dysgu pa ranau a ysgrifenwyd gan ddyn yn ol ei ddoethineb ei hun, a pha ranau a roddwyd trwy raddau uwch o ysbrydoliaeth?

(3,) Cofnodai yr ysgrifenwyr santaidd yr hyn a wyddent, yn ogystal a'r hyn ni wyddent, trwy gyfarwyddyd uniongyrchol Ysbryd Duw.

Os na wnaent hyn, nid ydyw yr holl Feibl wedi ei roddi trwy ysbrydoliaeth Duw. Os oedd yr ysgrifenwyr yn cael arfer eu doethineb eu hunain wrth ysgrifenu, gyda golwg ar drefnu y pethau ag oeddynt o'r blaen yn hysbys iddynt,

ond fod yr Ysbryd Glân yn arolygu eu gwaith, fel na chaniateid iddynt ysgrifenu yn gamsyniol neu yn annghywir; mae'n canlyn nad oedd yr hyn oll a ysgrifenent yn Air Duw. Gallai fod yn gredadwy ac yn bwysig (y mae gwaith Josephus, a llyfrau ereill yn gredadwy, er nad ydynt yn ysbrydoledig), ond nis gallai fod yn *Ddwyfol-ysbrydoledig.** I barchu y Beibl fel llyfr Duw, rhaid i ni gredu ei fod oll wedi ei roddi trwy ysbrydoliaeth Duw. Nid oedd fod yr ysgrifenwyr yn gwybod o'r blaen am yr hyn a ysgrifenent yn rhwystr i hyn; gallai Duw orchymyn iddynt gofnodi yr hyn a wyddent, a'u cyfarwyddo pa fodd i wneyd. Cawn ei fod yn gorchymyn i Moses gofnodi hanes ymosodiad Amalec ar Israel (Exod. xvii. 14), a hanes teithiau Israel (Num. xxxiii. 2), er fod Moses yn eu gwybod o'r blaen. Gwyddai dysgyblion Ioan Fedyddiwr pa fath wyrthiau a gyflawnai Crist; ond ni fuasai eu gwaith hwy o honynt eu hunain yn dweyd hyny wrth Ioan yn *genadwri Crist ato, heb i Grist roddi gorchymyn iddynt i ddweyd.* (Mat. xi. 4, 5.) Gallai dyn ddweyd wrth ei was, "Ewch, a dywedwch wrth fy mrawd fod y plant wedi dyfod adref o'r ysgol heddyw, a bod un o honynt yn glaf;" byddai hyn yn genadwri oddiwrth y meistr i'w was, o ran y sylwedd a'r ffurf, er fod y gwas yn gwybod ei sylwedd o'r blaen.

"Nid oedd a fynai gwybodaeth flaenorol ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau â'r gorchymynion Dwyfol a roddid iddynt i'w cofnodi. Yr oeddynt hwy yn ysgrifenu, nid yn ol fel yr oeddynt yn gwybod o'r blaen, ond fel y gorchymynid iddynt gan yr Ysbryd. Y mae ein hyder yn yr hyn a draethant, nid o herwydd ein hargyhoeddiad o'u gwybodaeth flaenorol o'r pwnc, a'u gallu i osod eu meddwl eu hunain allan, ond o herwydd ein hargyhoeddiad eu bod yn llefaru megys ag y

* "Superintendence by God might entitle a human work to the character of infallibility; but it could not entitle such work to be called the work of God. So far as the Scriptures were merely superintended by God, they are a human work with the divine sanction. But they cannot be said to be inspired by God, nor to be the book of God. This scheme makes the Bible neither human nor divine, but partly human and partly divine. It is a partnership of production, in which man's share of the work is as independent of God, as God's share of the work is independent of man......

According to this, when Dr. Henderson superintends and corrects the sermons of his students, their sermons are all inspired by the learned Doctor. If human superintendence is not inspiration, neither can divine superintendence be inspiration."—*Dr. Carson's Works*, vol. iii. pp. 297, 298.

rhoddodd yr Ysbryd Glân iddynt ymadrodd."* Y ffordd fwyaf ysgrythyrol i'w ystyried fod yr holl ysgrifenwyr wedi ysgrifenu—wedi trefnu eu defnyddiau, dodi i mewn a gadael allan, mabwysiadu rhanau o ysgrifau credadwy annghyssegredig, yn gystal a dyfynu o ranau cyssegredig (Esai ii. 2, 3; Michah iv. 1, 2), pob un yn ei arddull briodol ei hun—yn hollol fel ag y cynhyrfwyd ac y cyfarwyddwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân.

Meddylier am y dyb a wrthwynebwn yn ei chyssylltiad â'r epistolau. Pan ysgrifenai yr apostolion eu llythyrau at yr eglwysi, yr oedd pynciau mawrion crefydd yn hysbys iddynt; felly yr oeddynt yn cofnodi yr hyn a wyddent; ac yn ol y dyb dan sylw, yr oeddynt yn cael eu gadael "i ymarferyd eu galluoedd meddyliol eu hunain mewn modd rhydd a rhesymol," ond fod yr Ysbryd yn eu diogelu rhag iddynt wneyd camgymmeriadau. Y mae hyn yn darostwng yr epistolau yn agos iawn i safle cynnyrchion dynol. Nis gallwn lai nag edrych ar y farn a wrthwynebir fel yn tueddu i iselhau urddas y Beibl fel llyfr Dwyfol, a chredwn ei bod yn gyfeiliornus.

3. Dywedir fod y dyb o ysbrydoliaeth eiriol yn *cael ei dirymu gan y ffaith* fod *gwahanol ddarlleniadau o'r Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol.*

Y mae yn syndod i'r ysgrifenydd fod y fath ddynion a Dr. Pye Smith a Dr. Henderson yn dyfod â'r wrthddadl hon yn mlaen. Nid yw y rhai a wrthwynebant yn honi fod pob copïwr o'r Ysgrythyrau yn mhlith Iuddewon a Chenedloedd trwy yr oesau, o dan ofal gwarcheidwadol ac anffaeledig yr Ysbryd Glân, fel na wnelai yr un o honynt byth gamgymmeryd mewn dim. Byddai yr un grym yn yr wrthddadl nad yw Cristionogaeth o Dduw, am fod pregethwyr wedi camesbonio yr Ysgrythyrau, a Christionogion wedi eu camddeall, ag sydd yn hon yn erbyn ysbrydoliaeth eiriol, o herwydd fod copïwyr wedi gwneyd camgymmeriadau.

4. Dywedir hefyd fod y farn am ysbrydoliaeth eiriol *yn iselhau awdurdod cyfieithiadau ffyddlon.*

Nid oes dim grym yn yr wrthddadl hon ychwaith. Pan y mae y cyfieithiad yn ffyddlon, y mae Duw yn llefaru trwyddo; ond gwyr pawb mai y testyn gwreiddiol, mor bell ag y gellir

* *Carson's Works*, vol. iii. p. 283.

cael un cywir, ydyw yr awdurdod derfynol sydd i benderfynu pob pwnc Beiblaidd.

Awgryma yr wrthddadl fod ar gyfieithwyr yr Ysgrythyrau santaidd yr un angen am gyfarwyddyd ysbrydoliaeth Duw, ag oedd ar ysgrifenwyr y testyn gwreiddiol, os oedd ysbrydoliaeth eiriol yn anghenrheidiol o gwbl; ond nid yw hyny yn canlyn. Yr oedd y testyn gwreiddiol i gael ei ysgrifenu ar adegau neillduol, a chan bersonau unigol; yr oedd yr ysgrifenwyr i gofnodi pethau ysbrydol, Dwyfol, a newyddion, ag na ddaeth i galon dyn i ddychymmygu am eu cyffelyb; ac os nad oedd Duw yn eu cyfarwyddo pa fodd i drefnu eu defnyddiau a'u gwisgo yn iaith y ddaear, ni allasai neb arall wneyd. Ond y mae gan gyfieithwyr y Beibl ysgolheigion a beirniaid gwahanol oesau a gwledydd, i'w cynnorthwyo yn eu gorchwyl cyssegredig o wisgo gwirioneddau Duw yn ieithoedd dynion. Yr oedd o'r pwys mwyaf i oesau y byd i ysgrifenwyr y testyn gwreiddiol ysgrifenu fel yr awgrymai Duw iddynt, gyda golwg ar iaith a chynnwysiad; tra na fyddai dylanwad cyfieithiad, mewn cymhariaeth, ond lleol ac o fyr-barhâd.

5. Honir hefyd fod y ffaith fod *yr un pethau yn cael eu gosod allan yn y Beibl mewn gwahanol ffyrdd, yn angeuol i'r dyb fod Ysbryd Duw wedi rhoddi y geiriau a'r ymadroddion i'r ysgrifenwyr.*

Noda Dr. Henderson y lleoedd canlynol fel profion o hyn:—

| | | |
|---|---|---|
| Exod. xx. | cymharer â | Deut. v. |
| 2 Sam. vii. 4—17. | ,, | 1 Chron. xvii. 3—15. |
| Mat. xxvi. 26—29. | ,, | Marc xiv. 22—25. Luc xx. 19, 20. |

Gyda golwg ar y rhai hyn, rhaid cydnabod y ffaith o'r gwahaniaeth rhyngddynt; ond gellir tybied fod yr Ysbryd Glân wedi cyfarwyddo yr ysgrifenwyr santaidd i amrywio y geiriad i ateb dybenion pwysig. Mae y sylwedd yr un, er fod y geiriad yn amrywio. Ystyrir hyn, fel y nodwyd, yn ffafriol i dystiolaeth mewn llys barn. Mae yn fanteisiol hefyd yn y Beibl, ac yn achlysur i ddyn ddangos gwagedd ei galon, a llygredd ei natur, gan ei fod yn tramgwyddo wrth beth o'r fath, yn lle derbyn y ddysgeidiaeth Ddwyfol gyda symledd a didwylledd baban. Ond atolwg, ai nid oes gan awdwr hawl i amrywio ei arddull, a newid ei ymadroddion, pan yn ail adrodd yr un pethau? Paham y gwaherddir i Awdwr y Beibl yr hyn a ganiateir i bob awdwr arall?

Ond y mae ffordd arall i gyfrif am wahaniaeth geiriad amryw ranau o'r Beibl, y rhai a ystyrir fel gwahanol hanesion am yr un pethau. Er engraifft, hanes sefydliad Swper yr Arglwydd. Dywed Dr. Pye Smith, "Fod y gwahanol ymadroddion a briodolir i'n Harglwydd yn hanesion Matthew, Marc, Luc, a Phaul, i gael eu hegluro â'r ffaith fod ein Harglwydd wedi llefaru y geiriau ar wahanol adegau, yn ystod y gweinyddiad."*

Cawn y nodiadau canlynol hefyd yn ngwaith Dr. Seiler, awdwr o fri, yr hwn a gymmeradwyir yn fawr gan Dr. Pye Smith, er nad ydyw mor uniongred ag y dymunid ar rai pwyntiau:—"Mae yn dra thebygol fod llawer o bregethau yr Iesu wedi cael eu traddodi mewn amryw leoedd. Rhaid ei fod wedi cyhoeddi a llefaru yr un pethau mewn gwahanol ddinasoedd a chymmydogaethau. Gallai Luc, gan hyny, ysgrifenu y bregeth ar y mynydd i raddau yn wahanol i Matthew. Gallai gwyrthiau a gweithredoedd ereill *o'r un a'r cyffelyb natur*, gael eu cyflawni fwy nag unwaith. Yr oedd yr amgylchiadau dilynol, gan hyny, yn wahanol."†

Y mae Dr. Henderson, modd bynag, yn gwrthddweyd ei hun, ac yn gosod ei hun yn yr un anhawsdra, ag y ceisia ddodi ereill ynddo. Yn nechreu Darlith viii., dywed, "Wrth ysgrifenu y pethau a lefarasid ar y pryd gan lais clywadwy Jehofah, neu gan ei angel-ddehonglydd, &c., rhoddid y geiriau yn ogystal a'r sylwedd i'r ysgrifenwyr" (tudal. 335). Gan hyny, fe roddwyd y *geiriau* yn ogystal a'r *gorchymynion*, pan y rhoddwyd y ddeddf ar Sinai; ac eto, y mae geiriad y ddeddf yn cael ei ddwyn yn mlaen yn erbyn ysbrydoliaeth ymadroddion y Beibl!

Wrth ddweyd fod gwahaniaeth arddull yn milwrio yn erbyn ysbrydoliaeth eiriol, awgryma Dr. Henderson y dylai fod unrhywiaeth yn nylanwadau yr Ysbryd; ond nid ydym yn cael hyny. Barna yr awdwr hwn, mai at y *pynciau* a *sylwedd* ymresymiad yr apostolion ar y pryd y cyfeirir yn Mat. x. 19, 20; ond os felly, yr ydym yn cael amrywiaeth yn hyn hefyd, oblegyd nid yr un modd yr amddiffynai yr apostolion eu hunain bob amser: gwel Act. iv. 8—12, v. 29—32, xxiv. 1—21, xxvi. 1—23. Ond y mae bron a chaniatâu y gall fod yma ysbrydoliaeth eiriol; ond dengys y cyfeiriadau uchod fod yma

* *First Lines of Christian Theology*, p. 686.

† *Biblical Hermeneutics*, pp. 603, 604.

wahaniaeth arddull er hyny, os felly yr oedd. Ac os oedd yr Ysbryd yn rhoddi ymadroddion iddynt, ystyria Dr. Henderson nad allwn gasglu ei fod yn gwneyd hyny, pan ysgrifenai yr apostolion eu Hysgrythyrau. Mewn difrif, onid yw hyn yn ymddangos yn chwithig dros ben, os felly yr oedd? Yr oedd Crist wedi addaw yr Ysbryd Glân iddynt, yr hwn oedd i fod gyda hwynt *yn dragywydd*, ac i'w *tywys i bob gwirionedd* (Ioan xiv. 16, 17, xvi. 13); gellid dysgwyl, gan hyny, ei fod gyda hwynt fel Arweinydd anffaeledig yn nghyflawniadau eu swydd, pa un bynag a fyddent ai pregethu ai ysgrifenu. Yr oedd yr hyn a ysgrifenent i fod ar gael am holl oesau y byd, ac o'r pwys mwyaf i'r holl genedloedd ac eglwys y Duw byw, tra nad oedd eu gwaith yn amddiffyn eu hunain a'u crefydd mewn llys barn, ond o bwys am dymhor, a hyny o fewn terfynau neillduol; ai tybed fod yr ysbryd yn eu gadael iddynt eu hunain i osod eu meddylddrychau a'u syniadau allan goreu y gallent, pan oedd fwyaf o angen arnynt am dano? "Os nad oedd yr addewid hon o eiddo ein Gwaredwr yn cyfeirio at gymhorth wrth ysgrifenu, yn ogystal ag wrth lefaru, nid oedd yn cyrhaedd ond at hanner eu gwaith, ac yn eu gadael iddynt eu hunain, gyda golwg ar yr hanner arall; yr hyn, os ystyrir achos yr holl oesoedd dyfodol, yw y pwysicaf o'r ddau. Os ydyw yr addewid yn cymmeryd i mewn eu hysgrifeniadau, yna yr oeddynt o dan arweiniad anffaeledig, oblegyd nid ydys i dybied y byddai i'r cymhorth addawedig er budd yr holl oesau dilynol, eu gadael yn agored i gamsyniadau yn eu hysgrifeniadau. Sylwedd yr addewid ydoedd, cymhorth yn eu holl apostoliaeth trwy bresennoldeb ei Ysbryd."* "Yn awr (ebe Dr. Knapp), os oedd yr apostolion yn cael eu cynnorthwyo yn eu pregethau, y rhai nad oeddynt ond lleferydd eu genau, ac felly ond o fantais amserol a chyfyngedig; pa faint mwy anghenrheidiol oedd iddynt gael eu cynnorthwyo yn eu dysgeidiaeth ysgrifenedig, yr hon a fwriedid i ddylanwadu mewn modd mwy cyffredinol a pharhaus."†

II. Y DYB FOD DUW WEDI CYNNYSGAETHU YSGRIFENWYR Y BEIBL A'R GEIRIAU A'R YMADRODDION, YN OGYSTAL AG A CHYNNWYSIAD EU HYSGRIFENIADAU.

Gesyd Dr. Stock, Devonport, yn ei Law-lyfr o Dduwinydd-

* *Dr. Calamy, quoted in Wood's Lectures on Inspiration*, p. 55.

† *Knapp's Theology*, p. 57.

iaeth Ddadguddiedig, y rhesymau dros y farn hon allan yn y drefn ganlynol:

"1. Tystiolaeth, Pedr—'Ac y mae genym air sicrach y prophwydi; yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio y dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonau chwi: gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr o ddehongliad priod. Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion santaidd Duw a lefarasant megys y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân.' (2 Pedr i. 19—21.)

2. Geiriau Paul,—'Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder.' (2 Tim. iii. 16.)

Priodolir ysbrydoliaeth Duw i'r *holl Ysgrythyr*, yn eiriau a brawddegau, fel y rhoddwyd hwynt ar y cyntaf.

3. Y ffaith nad ydym byth yn cyfarfod â dim yn y Beibl ag sydd yn debyg i wahaniaeth rhwng ysbrydoliaeth y syniadau a drosglwyddid, a'r geiriau yn mha rai y gosodir hwynt allan.

4. Os yw y Beibl yn lyfr ysbrydoledig, y mae yn rhaid fod ei ysbrydoliaeth yn cymmeryd i mewn ei eiriau.

5. Fod cywirdeb ymadrodd yn anghenrheidiol, fel y byddai i'r dadguddiad Dwyfol gael ei drosglwyddo i ereill mewn modd gwirioneddol a chywir. Os na awgrymwyd y geiriau gan yr Awdwr Dwyfol, nid oes genym sicrwydd fod y gwirionedd mewn modd cywir yn ein meddiant.

6. Fod rhanau helaeth o'r Ysgrythyrau yn dywyll, ac annealladwy i'r ysgrifenwyr ar adeg eu hysgrifeniad. (1 Pedr i. 10—12. Dan. xii. 8—13.) Gan fod y meddyliau uwchlaw eu hamgyffrediad, yr oedd yn rhaid iddynt gael geiriau ac ymadroddion i'w gosod allan yn briodol."

Mae ystyriaethau o'r natur yma yn tueddu yr awdwr i gredu fod *Duw wedi cyfarwyddo ysgrifenwyr y Beibl yn newisiad eu hiaith a'u hymadroddion, ac yn nhrefniad eu defnyddiau, pa un bynag fyddent ai pethau adnabyddus ai anadnabyddus iddynt.*

Nid oes yr un ddamcaniaeth arall yn ymddangos iddo ef yn rhoddi teyrnged briodol i Ddwyfoldeb trwyadl yr holl Feibl. Mae'n wir fod anhawsderau yn nglyn â'r farn hon; ond nid rhai mor wrthwynebol i urddas a thystiolaeth y Beibl a'r anhawsderau perthynol i dybiau gwahanol. Ac yn wir, onid oes anhawsderau yn gyssylltiedig â phob peth? Dywedai Pascal,* fod digon o anhawsderau yn y Beibl i ddallu yr hwn na fynai weled, a digon o bethau eglur a chedyrn i addysgu

* *Pascal's Thoughts*, chap. xviii

a dwyn i ogoniant tragywyddol yr hwn sydd ddigon gostyngedig a hunanymwadol i ddysgu. Mae anhawsderau dadguddiad yn ogystal a themtasiynau y byd, wedi eu bwriadu i brofi uniondeb ein calonau.

Yn ychwanegol at yr ystyriaethau blaenorol, yr oedd y rhai canlynol yn cael dylanwad cryf ar feddwl yr awdwr, er ei dueddu i fabwysiadu y farn a amddiffynir:—

1. *Fod ymresymiad ac athrawiaeth Crist a'r apostolion yn fynych yn ymddibynu ar eiriad yr Ysgrythyr.*

Nid yw ysgrifenwyr y Testament Newydd yn gwneyd gwahaniaeth rhwng geiriau a meddyliau yr ysgrifeniadau santaidd, ond y maent yn rhoddi pwys ar *eiriad* ymadrodd mor fynych ag ar ei *ystyr*.

Ioan x. 34, 35. "Yr Iesu a atebodd iddynt, Onid yw yn ysgrifenedig yn eich cyfraith chwi, Mi a ddywedais, Duwiau ydych? Os galwodd efe hwy yn dduwiau, at y rhai y daeth gair Duw (a'r Ysgrythyr nis gellir ei thori)."

Mae yr ymresymiad yma yn troi ar *air* a ddefnyddir—"duwiau." Os gelwid hwy mewn ffordd ffugyrol yn dduwiau, pa faint mwy priodol oedd i Fab Duw, yr hwn oedd yn Dduw mewn gwirionedd, honi Dwyfoldeb iddo ei hun?

Gal. iii. 16. "I Abraham y gwnaethpwyd yr addewidion, ac i'w had ef. Nid yw yn dywedyd, Ac i'w hadau, megys am lawer; ond megys am un, Ac i'th had di, yr hwn yw Crist."

Gwelir fod ymresymiad yr apostol yn troi ar y ffurf unigol o'r gair "had."

Heb. i. 5, 8. "Canys wrth bwy o'r angylion y dywedodd efe un amser, Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genedlais di? A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab? Ond wrth y Mab, Dy orseddfainc di, O Dduw, *sydd* yn oes oesoedd: teyrnwialen uniondeb *yw* teyrnwialen dy deyrnas di."

Y mae urddas Crist, a'i uwchafiaeth ar angylion yn cael ei brofi trwy yr ymadroddion a ddefnyddir am dano yn y Salmau; "Fy *Mab* ydwyt ti," a "Dy orseddfainc di, O *Dduw*."

Heb. ii. 11, 13. "Canys yr hwn sydd yn santeiddio, a'r rhai a santeiddir, o'r un *y maent* oll. Am ba achos nid yw gywilyddus ganddo eu galw hwy yn frodyr. A thrachefn, Myfi a fyddaf yn ymddiried ynddo. A thrachefn, Wele fi a'r plant a roddes Duw i mi."

Y mae ymresymiad yr apostol yn ymddibynu ar y geiriau "brodyr" a "phlant," y rhai a ddefnyddir yn yr Hen Destament.

Heb. iii. 7. 13. Yn yr adnodau hyn, rhoddir pwys ar y gair "heddyw."

1 Cor. xv. 45. "Y dyn cyntaf Adda a wnaed yn *enaid byw*."

Cyfeirir at eiriad neillduol Gen. ii. 7, er dangos y gwahaniaeth rhwng yr Adda cyntaf, yr hwn oedd yn *derbyn* bywyd, a'r Adda diweddaf, yr hwn sydd yn ei *roddi*.

Rhuf. x. 13. "Canys pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd."

Dyfyna Paul y geiriau hyn o Joel i brofi hawl y Cenedloedd i freintiau yr iachawdwriaeth. Ymddibyna ei ymresymiad ar y geiriad "pwy bynag."

Nis gallwn dybied y buasai yr apostolion, o dan arweiniad yr Ysbryd Glân, yn adeiladu eu hathrawiaethau ar *eiriau* ac *ymadroddion** yr Ysgrythyr, pe buasent wedi cael eu gadael at ddewisiad dynion.

* Mae athrawiaethau y Beibl yn ymddibynu i raddau helaeth ar ei iaith a'i gystrawiad. Dysga ni, er engraifft, yn ol rheolau mwyaf caeth a sefydlog yr iaith Roeg, nad oes rhinwedd haeddiannol mewn ffydd, ond rhinwedd neu effeithiolldeb offerynol, fel yr agwedd hono ar y meddwl, a'r teimlad hwnw yn yr enaid, trwy gyfrwng yr hyn y mae dyn yn gwerthfawrogi yr efengyl, ac yn derbyn y cymmod trwy Grist. Am hyny dywedir fod dyn yn cael ei gyfiawnhau *trwy gyfrwng ffydd*, διὰ τῆς πίστεως (Rhuf. iii.), a bod y saint yn dangos eu hymlyniad wrth Dduw *trwy gyfrwng* neu *offerynoliaeth ffydd*, πίστει (Heb. xi.); ond ni ddywedir yn y Beibl fod dyn yn cael ei gyfiawnhau, neu y saint yn cael eu bendithio, o *herwydd eu ffydd* neu *er mwyn eu ffydd*, διὰ τὴν πίστιν, fel pe buasai unrhyw haeddiant yn perthyn i'n cyflawniadau ni. Buasai iaith felly yn rhoddi lle i ddyn ymffrostio. Defnyddir y ddau gystrawiad gyda golwg ar Grist, gan mai trwyddo ef fel cyfrwng, ac er ei fwyn fel ffynnonell pob haeddiant, yr ydym ni yn cael ein bendithio.

Wrth i ni droi, er engraifft, o'r Testament Newydd i Epistolau Clement o Rhufain at y Corinthiaid (y person y cyfeirir ato, fel y tybir, yn Phil. iv. 3), yr ydym yn cael pethau yn wahanol. Mae efe wrth son am ffydd yn defnyddio yn fynych διὰ πίστιν, *er mwyn ffydd*, fel pe buasai ffydd yn ffynnonell yr haeddiant er mwyn yr hyn yr oedd Duw yn bendithio, ac nid y gras offerynol trwy gyfrwng yr hwn yr oedd yr enaid yn derbyn ffafrau y nef. Gwel Llythyr Cyntaf Clement at y Corinthiaid, §§ x., xi., xii. Yr oedd hyn, mae'n ddiamheuol, yn groes i ysbryd y Beibl. Os nad oedd Clement yn golygu hyn, yna nid oes ymddiried i'w roddi yn ei iaith a'i rammadeg; os oedd, yna nid oes ymddiried i'w roddi yn ei dduwinyddiaeth. Pe buasai yr apostolion, y rhai

2. *Y dull yn mha un y dyfynir o'r Hen Destament.*

(1,) Weithiau mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn *cyfyngu* ystyr iaith wreiddiol yr Hen Destament. Yn Hebreaid i. 6, cawn "angylion" yn lle "duwiau," Salm xcvii. 7; mae y gair angylion o ystyr gyfyngach nag Elohim, yr hwn a ddefnyddir yn y Salm.

(2,) Ymddangosant weithiau yn dilyn yr Hebraeg, a phryd arall y LXX, gyda golwg ar yr un lle. Wrth ddyfynu Esaiah liii. 4, y mae Matthew (viii. 17), wrth ddilyn yr Hebraeg yn dweyd, "Efe a gymmerodd ein gwendid ni, ac a ddug ein clefydau;" tra mae Pedr, gan gyfeirio mae'n debyg at yr un geiriau, yn ymddangos yn dilyn y LXX, "Yr hwn ei hun a ddug ein pechodau ni yn ei gorph ar y pren; ........ trwy gleisiau yr hwn yr iachâwyd chwi." (1 Pedr ii. 24.) Y mae yr Hebraeg yn goddef y ddwy ystyr, "Efe a gymherth ein gwendid ni, ac a ddug ein doluriau;" ac yn y Beibl y mae gofidiau corph a meddwl yn cael eu priodoli, yn y naill ffordd neu y llall, i ganlyniadau pechod.

Rhaid fod ysgrifenwyr y Testament Newydd, wrth ddyfynu a chymhwyso Ysgrythyrau yr Hen Destament fel y gwnaent, yn gwneyd hyny trwy awdurdod a chyfarwyddyd Ysbryd Duw, a rhaid fod ysbrydoliaeth yn cymmeryd i mewn y geiriau. Ni feiddiasent gymmeryd y fath ryddid gyda geiriau ac ymadroddion yr Ysgrythyr, heb awdurdod ac arweiniad Dwyfol.

3. *Y mae y cyflawnder anfeidrol ac anhysbyddadwy o ystyron ag sydd yn ngeiriau yr Ysgrythyr, yn ein rhwymo i fabwysiadu y dyb eu bod wedi cael eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw.*

Nid yw ysgrifeniadau y Tadau Apostolaidd, y rhai oeddynt yn byw yn yr un oes a'r apostolion, pan yn trafod yr un pynciau ag a geir yn yr epistolau, yn haeddu eu cyffelybu am eiliad i'r oraclau Dwyfol. Y mae cyflawnder annherfynol o ystyron yn ngeiriau a brawddegau y Beibl, y rhai nad

---

oeddynt yn byw yn yr un oes a Chlement, yn cael eu gadael fel yntau i ofalu am eu hiaith goreu y gallent, oni allasent hwythau wneyd camgymmeriad gyda threigliadau geiriau, y rhai a fuasent yn ddigon i ddymchwelyd athrawiaeth ogoneddus rhad ras? Ond ni wnaethant hwy hyny gymmaint ag unwaith.

all beirniaid ac esbonwyr oesau y ddaear ei ddihysbyddu. Goddefant eu cyfieithu i ieithoedd ereill heb golli eu gallu bywiol, na chael eu hymddifadu o'u gwerth anmhrisiadwy. Rhaid gan hyny fod yr Ysbryd Glân yn cyfarwyddo yr ysgrifenwyr yn eu dewisiad o eiriau ac ymadroddion priodol, er gosod allan fawrion bethau Duw.

4. *Ymddengys fod yr amcan mawr er mwyn pa un y rhoddwyd y Beibl, yn galw am hyn.*

Oraclau y bywyd tragywyddol, ac arweinydd anffaeledig yr eglwys ydyw; a dadguddiad awdurdodol, cyflawn, a pherffaith, o ewyllys y Jehofah hyd ddiwedd y byd. Y mae tynged dynoliaeth, ac anrhydedd y Duwdod, wedi eu cyssylltu yn anwahanadwy âg ef; rhaid fod gwaith o'r fath bwys aruthrol wedi cael ei ysgrifenu o dan arweiniad annghyfeiliorn Ysbryd Duw, gyda golwg ar ei ffurf allanol a'i gynnwysiad mewnol. Y mae yn drais ar ein teimladau a'n hargyhoeddiadau anwylaf i feddwl fod yr ysgrifenwyr at eu rhyddid i ddewis, yn ol eu gallu naturiol eu hunain, eu hymadroddion mewn gwaith o'r fath bwys anfeidrol. Gwell genym gredu fod y Beibl wedi ei roddi oll trwy ysbrydoliaeth Duw, y ffurf a'r sylwedd, ac ymffrostio ynddo fel llusern Duw yn y byd tywyll hwn.*

Os na roddwyd ymadroddion y Beibl trwy ysbrydoliaeth Duw, y mae yn anhawdd cyfrif am waith Crist a'i apostolion yn sylfaenu eu hymresymiad a'u dysgeidiaeth ar eiriau a chystrawen yr Ysgrythyrau;—am y gwahaniaeth hanfodol sydd rhyngddynt a phob ysgrifeniadau ereill, a'r cyflawnder didrai o ystyr sydd yn perthyn iddynt; ac am y pwys a roddir ar efrydiaeth drwyadl a pharhaus o honynt. Os yw y dyb wrtheiriol yn gywir, y mae llafur dyfnddysg beirniaid (*exegetes*) i geisio dwyn allan ystyr gywir ac arbenigol geiriau yr Ysgrythyr, i raddau yn ddibwys; gan nad ydynt, yn ol y

* "How can we know that the words express the thoughts of the author if they are not the words of the author? Had the inspired writers been left to themselves, as to the choice of words in any part of their writings, they might have made a bad choice, and inadequately or erroneously represented the mind of the Spirit. The best writer that ever moved a quill may often fail in expressing his own sentiments. Instances might be given in which the most learned writers mis-state their own meaning, and sometimes convey no meaning at all. Shall the fishermen of Galilee, then, be supposed equal to express themselves with unerring correctness, if left to their own phraseology?"—*Dr. Carson's Works*, vol. iii. p. 174.

ddamcaniaeth hon, ond detholion yr ysgrifenwyr eu hunain, ac nid traethiadau bywiol a santeiddiol Ysbryd y Goruchaf. Ond os rhoddwyd y geiriau yn ogystal a'r sylwedd, fel y credwn yn ddiamheuol, y mae ymchwiliad i'w hystyr o'r pwys mwyaf, a'r efrydiaeth o honynt yn sicr o fod yn ffynnonell addysg, cysur, ac adeiladaeth i blant yr Arglwydd holl ddyddiau y ddaear.

Fel y sylwyd eisioes, nid oes a fyno gwahanol ddarlleniadau a chyfieithiadau â'r pwnc. Nid yw gwahaniaeth arddull yn effeithio arno. Y mae amrywiaeth yn holl weithredoedd Duw. Gallai yr Ysbryd Glân gyfarwyddo yr ysgrifenwyr i fabwysiadu ymadroddion priodol, heb iddynt golli eu dull-wedd neillduol eu hunain. Gallai beri i un ysgrifenydd roddi mynegiad cyflawn o'r hyn a gofnoda, a gorchymyn i'r llall ysgrifenu ond crynhodeb byr o'r un peth. Ceir y cyfunedd mwyaf prydferth yn y Beibl, yn gymhlethedig â'r amrywiaeth mwyaf arddunol; a lleferydd yr un Ysbryd trwy leisiau ac ymadroddion llu o wahanol ysgrifenwyr.

Y mae gan ysgrifenwyr y Beibl eu dull neillduol eu hunain, nid yn unig gyda golwg ar eiriau a brawddegau, ond hefyd gyda golwg ar eu ffordd o drafod pethau mawrion Duw. Y mae gan Paul ei resymau a'i egluriadau ei hun, yn ogystal a'i arddull ei hun; ac mae yr wrthddadl yn erbyn ysbrydoliaeth ieithwedd Paul, am ei bod yn wahanol i eiddo yr apostolion ereill, yr un mor gref yn erbyn efengyl Paul, ac o ran ei thuedd yn gwadu Dwyfoldeb y Beibl, oddi eithr fod unffurfiaeth berffaith ynddo yn mhob peth.

Nid oes dir diogel i ni sefyll arno, hyd nes y deuwn i fabwysiadu iaith yr apostol gyda meddwl agored, ac argyhoeddiad trwyadl: "YR HOLL YSGRYTHYR SYDD WEDI EI RHODDI GAN YSBRYDOLIAETH DUW."

NODIAD.—

Dichon fod un ymofyniad eto yn ymgynnyg i feddwl y darllenydd, sef, *Pa fodd y gwyddai ysgrifenwyr y Beibl pan oeddynt o dan ysbrydoliaeth, fod yr ysbrydoliaeth o Dduw?*

Rhaid fod, y rhan fynychaf, rhyw amgyffrediad uniongyrchol ac argyhoeddiad anorchfygol yn eu meddyliau mai Ysbryd Duw oedd yn eu cynhyrfu. Pan oedd tywysogion Juda yn son am ladd Jeremiah fel gau brophwyd, gan ei fod yn ymwybodol o'i Ddwyfol alwad, efe a

lefarodd wrthynt fel hyn:—"*Gwybyddwch yn sicr*, os chwi a'm lladd, eich bod yn dwyn gwaed gwirion arnoch eich hunain, ac ar y ddinas hon, ac ar ei thrigolion; *canys mewn gwirionedd* yr Arglwydd a'm hanfonodd atoch i lefaru, lle y clywech yr holl eiriau hyn." (Jer. xxvi. 15.) Pan y gorchymynwyd i Abraham aberthu ei fab, yr oedd argyhoeddiad anorchfygol yn ei feddwl mai Duw a lefarasai wrtho. Felly gyda golwg ar yr holl brophwydi a'r apostolion.

Pan y petrusent yn nghylch ffynnonell y weledigaeth, caent arwydd sicr i osod eu meddwl yn dawel. "Fel yr oedd Pedr yn meddwl am y weledigaeth, dywedodd yr Ysbryd wrtho, Wele dri wŷr yn dy geisio di." (Act. x. 19.) Pan oedd Jeremiah yn meddwl am air yr Arglwydd ato, cafodd arwydd sicr mae ei air ef ydoedd:—*Yna y gwybum* (eb efe) mai gair yr Arglwydd *oedd hwn*." (Jer. xxx ii.6–8.) Gwel hefyd hanes Gideon.

Nid ydym i gasglu oddiwrth eiriau Paul, 1 Cor. vii. 40, fod amheuaeth yn ei feddwl pa un a oedd efe yn ysbrydoledig ai peidio ar y pryd: "Eithr dedwyddach yw hi, os erys hi felly, yn fy marn i; ac yr wyf finau yn tybied fod Ysbryd Duw genyf." Dengys yr apostol yma ei fod yn dysgwyl i'r Corinthiaid dderbyn ei gynghor, gan ei fod yn ei roddi, nid fel ffrwyth ei farn bersonol, ond fel yr hyn a draethai o dan gyfarwyddyd a dylanwad Ysbryd Duw. Rhydd yr adnod hon i ni, ebe Deon Alford, wir ystyr y dywediad yn adn. 25, "*ond barn yr ydwyf yn ei roddi*," sef nid ei fod yn llefaru heb ysbrydoliaeth, ond yn yr ymwybodolrwydd ei fod yn ysbrydoledig ei fod yn rhoddi y cyfarwyddyd yr hwn a ddylai benderfynu y pwynt. Nid yw y geiriau,—"Yr ydwyf finau yn tybied fod—genyf,"—yn cynnwys *amheuaeth*, ond i'w deall yn gyfystyr ag "*y mae genyf finau*." Cymharer Luc viii. 18, â Mat. xiii. 12. Gwel Pen. vii. v, Rhan I. Nis gallai yr apostol Paul amheu ei ysbrydoliaeth ei hun, fel y gwelwn oddiwrth ei iaith mewn lleoedd ereill (1 Cor. xiv. 37. 2 Cor. xiii. 3. 1 Thess. iv. 8.)*

* Gwel yn mhellach y gwahanol weithiau y cyfeiriwyd atynt ar waelod y ddalen, a *The Inspiration of Holy Scripture*, by W. Lee, D.D.; *Dr. Whitby's General Preface to his Commentary on the New Testament; Storr & Flatt's Biblical Theology; Inspiration of the Holy Scriptures*, by J. Bannerman, D.D., &c.

# PENNOD VII.

## YSBRYDOLIAETH Y BEIBL.—GWRTHDDADLEUON AC ANHAWSDERAU.

---

## Y CYNNWYSIAD.

*Ymadroddion a ystyrir yn Anweddaidd—Cyfarwyddiadau a ystyrir yn ddibwys, megys yn nghylch cochl Paul, &c.—Gorchymynion o duedd anfoesol, megys i offrymu Isaac, i ddinystrio y Canaaneaid, a chosbi eilunaddoliaeth â marwolaeth—Anfoesoldeb yn cael ei gymmeradwyo, yn yr hyn a ddywedir am y bydwragedd Hebreig, yr Israeliaid yn benthyca oddiar yr Aifftiaid, a Rahab y butain—Iaith ddialgar y Salmau—Iaith Paul yn 1 Cor. vii. 25.—Ysbrydoliaeth dynion annuwiol—Ysgrifenwyr y Beibl yn ffaeledig mewn pethau ereill.*

Yr anhawsderau y bwriadwn sylwi arnynt yn y bennod hon, ydyw y rhai a ddygir yn mlaen weithiau fel gwrthddadleuon yn erbyn Dwyfoldeb y Beibl, yn hytrach nag anhawsderau gyda golwg ar ei Ddehongliad; daw y rhai hyny o dan sylw yn Rhan II. Mae a fyno yr anhawsderau hyn hefyd â Dehongliad y Beibl; gan hyny tra yn amddiffyn ei Ddwyfoldeb, byddwn yn ymdrechu taflu goleuni ar rai rhanau dyrys o hono, ac egluro rhai pethau anhawdd.

Tybir fod amryw bethau yn y Beibl ag sydd yn annghysson â'r grediniaeth yn ei Ddwyfoldeb; ac ystyrir na ddylasent fod i'w cael mewn llyfr a broffesa fod wedi cael ei roddi trwy ysbrydoliaeth Duw. Nodwn rai o honynt.

### I. Bodolaeth ymadroddion a ystyrir yn anweddaidd.

I'r darllenydd ystyriol, modd bynag, y mae bodolaeth y cyfryw ymadroddion yn awgrymu ei Ddwyfoldeb, oblegyd pe buasai wedi ei ysgrifenu yn ol chwaeth dyn, mae'n debyg y buasai y rhai hyn wedi eu gadael allan.

Fe gyfeirir yn fwyaf uniongyrchol, mae'n debygol, at ymadroddion a ddygwyddant yn llyfrau Moses; ond pa ranau bynag o'r Ysgrythyr a olygir, cofier,

1. Fod sefyllfa foreuol yr Israeliaid yn gyfryw ag oedd yn gofyn am y cyfarwyddiadau a osodir i lawr yn mhum' llyfr Moses. Tosturiodd Duw wrthynt, ac ymostyngodd i'w dysgu fel y dysga tad ei blant, ac y cyfarwydda meddyg y cleifion, ac yr hyfforddia brenin ei ddeiliaid, er sicrhau eu llwyddiant a'u cysur dyfodol. Yr oedd amryw bethau ag y boïir arnynt o bwys annhraethol i iechyd a llwyddiant y genedl, ac yn y goleu hwn y maent yn dangos gofal Tad y Trugareddau am danynt.

2. Gyda golwg ar ranau ereill o'r Ysgrythyr, ymddengys yr ystyriai Ysbryd Duw fod ffyddlondeb hanesyddol yn galw am eu cofnodiad, gan nad faint a wawdia dirmygwyr arnynt.

## II. Bodolaeth cyfarwyddiadau a ystyrir yn ddibwys.

Ystyrir fod cyfarwyddiadau yn y Beibl am bethau bychain, y rhai ydynt yn annheilwng o urddas ysbrydoliaeth Duw; ac yn eu plith sonir am y cyfarwyddyd i Timotheus i beidio yfed dwfr, ac i ddwyn cochl Paul o Troas, yn enwedig y memrwn.

Un ydyw 1 Tim. v. 23: "Nac ŷf ddwfr yn hwy, eithr arfer ychydig win, er mwyn dy gylla a'th fynych wendid."

Yr oedd Timotheus yn llafurio yn y weinidogaeth, ac felly yn ymwneyd â'r gwaith pwysicaf ar y ddaear; yr oedd o bwys mawr iddo, gan hyny, i beidio esgeuluso ei iechyd, rhag rhwystro ei waith. Mae y cyfarwyddyd hefyd yn dystiolaeth i gymmeriad sobr a diargyhoedd Timotheus. Er ei fod yn byw yn y Dwyrain, lle yr oedd cyflawnder o win, nid oedd yn arfer ei yfed; a phan y mae yr apostol yn ei annog i'w arfer, fe sylwir mai *ychydig* y mae yn gymmeradwyo, a hyny fel *meddyginiaeth*. Mae y geiriau hyn, ynte, yn dra gwerthfawr a dyddorol, er dangos (1,) y pwys y mae yr Ysbryd Glân yn ei roddi ar lafur gweinidogion yr efengyl, gan y dylent ofalu am eu hiechyd, rhag attal eu gwaith: (2,) y dylem werthfawrogi y fendith werthfawr o iechyd; (3,) fod gan Timotheus gymmeriad dysglaer a diargyhoedd; (4,) a beth yw cyfarwyddyd yr apostol Paul gyda golwg ar yr amgylchiadau, o dan ba rai y cymmeradwya i bregethwyr yfed gwin, ac i ba raddau. Diau nad oedd pethau o'r fath yma yn annheilwng o ysbrydoliaeth Duw.

Un arall ydyw 2 Tim. iv. 13: "Y cochl a adewais i yn Troas

gyda Carpus, pan ddelych, dwg *gyda thi*, a'r llyfrau, yn enwedig y memrwn."

Os ei gochl a olygir, yr oedd o bwys i'r byd ac eglwys Dduw iddo ei chael yn brydlon, gan fod ei iechyd a'i gysur, ac felly ei ddefnyddioldeb, yn ymddibynu ar hyny; neu os yn ol rhai darlleniadau, mai math o gôd-lyfrau *(a case of books)* yr ydym i'w ddeall, yr ydym yn canfod fod pwys mawr yn y cais. Pwy a wyr beth oedd yn y gôd, a pha lyfrau a olygir, a beth oedd ar y memrwn? Dichon eu bod yn cynnwys copi o'i epistolau; neu dichon mai Ysgrythyrau yr Hen Destament oeddynt; neu dichon mai copi o amddiffyniad iddo ei hun a ddarparasai o'r blaen, neu rhyw brawf-ysgrifau (*documents*) pwysig erbyn dydd ei brawf, yr hwn oedd yn awr yn agoshau, oedd y pethau yr oedd mor bryderus am eu cael. Pwy all amheu y priodoldeb o anfon gorchymyn yn nghylch pethau fel hyn?

Ond y mae yr wrthddadl hon, a'r un flaenorol, yn hawlio yr hyn nad yw y Beibl yn ei ganiatâu, sef awdurdod dyn i *eistedd mewn barn arno.* Mae gan ddyn hawl i farnu y profion o'i Ddwyfoldeb, ond nid o briodoldeb, neu anmhriodoldeb ei gynnwysiad, neu pa ranau sydd yn deilwng o gael lle ynddo, a pha ranau sydd yn annheilwng o'i dudalenau; os ceir ei fod yn llyfr Duw, rhaid ei dderbyn fel y mae, a gadael y cyfrifoldeb am ei gynnwysiad i Dduw ei hun.

### III. Gorchymynion ag y byddai eu cyflawniad yn tueddu i anfoesoli dynion.

Yn mhlith y rhai hyn gellir nodi y rhai canlynol:—

1. *Y gorchymyn i aberthu Isaac.*

Gyda golwg ar y gorchymyn hwn, mae yr ystyriaethau canlynol o bwys:—

(1,) Mae gan Roddwr bywyd hawl i'w gymmeryd ymaith.

(2,) Tra byddai offrymu bôd dynol heb orchymyn Duw yn *llofruddiaeth*, byddai gwneyd hyny yn ol ei orchymyn pennodol yn *weithred o ufydd-dod.*

(3,) Dywedir yn bendant mai amcan Duw oedd *profi* Abraham; pan wnaed hyny, fe dynwyd y gorchymyn yn ol, ac fe arbedwyd Isaac.

2. *Y gorchymyn i ddiwreiddio y Canaaneaid.*

Ystyria rhai fod y gorchymyn i yru y cenedloedd o Ganaan, yn annheilwng o Dduw y Beibl; gan ei fod yn ymddangos

yn greulon, ac yn tueddu i farbareiddio yr Israeliaid. Ond y mae amryw ystyriaethau ag sydd yn cymmeryd ymaith rym yr wrthddadl hon :—

(1,) Ymddengys yn debygol fod y Canaaneaid wedi cael y cynnyg a'r cyfleusdra i ochelyd dinystr.

Gallasent wneyd hyn trwy ffoi ymaith, neu ddyfod i heddwch âg Israel trwy ymwrthod âg eilunaddoliaeth ac ymfudo. Cymharer Deut. xx. 10—18, â Josua xiii. 6, 13, xv. 63, xvi. 10, xvii. 12, 13.

Y mae gwahaniaeth barn yn mhlith esbonwyr am Deut. xx. 10 ("Pan neshaech at ddinas i ryfela yn ei herbyn, cyhoedda iddi heddwch"); pa un oedd hyn i gael ei gynnyg i drefi Canaan, yn gystal ag i ddinasoedd ereill. (xx. 15.) Barna Dr. Graves fod hyn yn cymmeryd i mewn ddinasoedd Canaan; a dwg yn mlaen engreifftiau i ddangos fod yr Iuddewon yn eu deall yn y goleu yna.

"Yn hen esboniadau yr Iuddewon, dywedir fod Josua, cyn iddo ymosod ar yr un o'r saith genedl, yn anfon wrth ddadgan rhyfel yn eu herbyn, gyhoeddiad arall yn cynnwys tri o bethau, yr hyn a ddyfynir o Rabbi Samuel Ben Nachman, yr hwn a ddywed, 'Anfonodd Josua dri o lythyrau i wlad y Canaaneaid, cyn i'r Israeliaid ei goresgyn, neu yn hytrach fe gynnygiodd dri o bethau:—Boed i'r rhai a ewyllysiant ffoi, ffoi; boed i'r rhai sydd yn dewis heddwch, wneuthur cyfammod; boed i'r rhai sydd yn dewis rhyfel, ymarfogi. Mewn canlyniad i hyn, darfu i'r Girgesiaid, gan eu bod yn credu gallu Duw, ffoi ymaith, gan gilio i Affrica; darfu i'r Gibeoniaid fyned i gyfammod, a thrwy hyny, arosasant yn breswylwyr tir Israel; darfu i'r un ar ddeg ar hugain brenin fyned i ryfel, a syrthio.' Mae yr hyn a ddywedir yma am y ffoedigaeth i Affrica. yn cytuno yn hynod â'r hanes yn y Talmud, yn ol yr hwn y darfu i'r Affricaniaid appelio at Alexander Fawr, a hawlio y rhan hon o dir Israel, fel tiriogaeth eu tadau, o herwydd y rheswm hwn; a chytuna hefyd â'r hen ysgrifiyfr hwnw yn Mauritania Tingitana, yn meddiant Procopius, yn yr hwn y dywedir fod yr hen breswylwyr wedi ffoi yno oddiwrth Josua mab Nun. Ond dichon nad oedd yr ymfudiad hwn o eiddo y Girgesiaid yn gyffredinol, gan fod eu henw yn dygwydd yn nghyfres y cenedloedd a ymladdasant yn erbyn Israel." *

Ymddengys fod y fath ymadroddion a "gyru ymaith o flaen meibion Israel" (Jos. xiii. 6), "gyru allan o'ch blaen chwi"

* *Graves on the Pentateuch*, Part iii. Lect. i. Gwel hefyd *Dr. Jahn's History of the Heb. Commonwealth*, § 10 : a *Rawlinson's Historical Illustrations of the Old Testament*, p. 86.

(Lef. xviii. 24), "gyrwch ymaith holl drigolion y tir o'ch blaen" (Num. xxxiii. 52. Deut. ix. 4, xi. 23), yn dysgu fod yn bossibl i'r cenedloedd ffoi, os ewyllysient, yn hytrach nag ymladd yn erbyn Israel, i ba rai yr oedd Meddiannydd a Pherchenog gwreiddiol y tir wedi rhoddi y wlad. Crybwyllwyd eisioes am draddodiad yn mhlith preswylwyr Gogledd Affrica, yr hwn a ddywedai eu bod yn ffoaduriaid o Ganaan yn amser gorchfygiad y wlad gan Josua; a dywed Reland yn ei waith ar Palestina fod amryw lwythau o'r Canaaneaid, yn yr adegau boreuaf o hanes yr Iuddewon, wedi ymneillduo i'r Gogledd o flaen meibion Israel; ac mai olynwyr y rhai hyn oedd y Phœniciaid.

(2,) Yr oedd eu pechodau yn haeddu cosbedigaeth.

"Gwylia arnat rhag ymfaglu o honot ar eu hol hwynt, wedi eu dinystrio hwynt o'th flaen di: a rhag ymorol am eu duwiau hwynt, gan ddywedyd, Pa fodd y gwasanaethodd y Cenedloedd hyn eu duwiau? myfi a wnaf felly hefyd. Na wna di felly i'r Arglwydd dy Dduw: canys pob ffieidd-dra yr hwn oedd gâs gan yr Arglwydd, a wnaethant hwy i'w duwiau: canys eu meibion hefyd a'u merched a losgasant yn tân i'w duwiau." (Deut. xii. 30, 31.)

(3,) Yr oeddynt yn anniwygiadwy. Ni wnaeth dychrynfeydd y diluw, na dinystr Sodom a Gomorrah, nac esiampl y patriarchiaid, na'r gwyrthiau a gyflawnasid yn yr Aifft, na dinystr Pharaoh a'i fyddin yn y Môr Coch, na chroesiad gwyrthiol yr Iorddonen, na chwymp Jericho, eu dwyn i ymostwng i Dduw y nefoedd.

(4,) Y mae dygwyddiadau cyffelyb yn cymmeryd lle yn ngweithrediadau Rhagluniaeth. Goddefir i genedloedd gael eu dinystrio, a'u gwledydd gael eu meddiannu gan eu gelynion buddygoliaethus. Mae'r newyn, a'r pla, a'r ddaeargryn, yn dinystrio dinasoedd a gwledydd.

(5,) Dywedir weithiau, os oedd y Canaaneaid eu hunain yn haeddu eu dinystrio, nad oedd eu babanod felly; fod y rhai hyny beth bynag yn ddieuog a diniwaid, a gofynir ar ba dir y gellir cyfiawnhau eu dinystr hwy? Ar un olwg, yr oedd eu dinystrio hwy yn drugaredd. Pe cawsent eu harbed ar ol eu rhieni euog, buasent yn cael eu gadael yn ddiymgeledd, ac yn marw o newyn yn mhen ychydig iawn o amser. Cofier hefyd

fod marwolaeth iddynt hwy yn ddiangfa i wlad o dragywyddol a pherffaith ddedwyddwch.

(6,) Nid oedd yr Israeliaid amgen na gweinyddwyr cyfiawnder Dwyfol mewn ufydd-dod i orchymyn Dwyfol.

"Yr oedd mor bossibl iddynt weithredu yn hyn heb gymhellion anmhriodol ag ydyw i farnwr, oddiar gariad at gyfiawnder, a sel dros ddaioni y wladwriaeth, orchymyn dienyddiad drwgweithredwr, yr hwn y tosturia wrtho fel dyn. Os ystyrir fod yr Israeliaid yn cael eu cynhyrfu gan ddigter personol, neu syched am waed, yr oedd y bai i'w briodoli yn hollol iddynt eu hunain. Nid y gorchymyn Dwyfol oedd yr achos o'u malais a'u creulondeb, ond yn unig yr achlysur iddynt ddangos y tueddiadau drwg ag oedd o'r blaen yn llechu yn eu mynwesau." *

(7,) Y mae gorchymyn i gyflawni gweithred allanol yn berffaith wahanol i orchymyn i goleddu *egwyddor* anfoesol.

"Pe gorchymynasid coleddu egwyddorion a gweithredu oddiar ysbryd bradwrus, anniolchgar, a chreulon; ni fuasai y gorchymyn yn cyfnewid natur yr amgylchiad, neu y weithred, yn un o'r engreifftiau hyn. Ond y mae yn hollol wahanol mewn gorchymynion ag nad ydynt yn gofyn mwy na chyflawni y weithred allanol; megys cymmeryd ymaith fywyd neu feddiannau un. Ac er o anghenrheidrwydd y gwnelai amryw *(a course of)* o weithredoedd allanol gyda'u gilydd, y rhai heb orchymyn a fyddent yn anfoesol, arferiad anfoesol; eto, ni fyddai gan ychydig o orchymynion rhoddedig ar wahanol adegau y fath duedd naturiol." (*Butler's Analogy*, Part. ii. Chap. iii.)

(8,) Yr oedd gan Dduw hawl i roddi eu tir i Israel. "Yn awr, gan hyny, os gan wrando y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod; chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloedd: canys eiddo fi yr holl ddaear." (Exod. xix. 5.)

3. *Fod y gorchymyn i gosbi eilunaddoliaeth â marwolaeth yn ffafrio erlidigaeth grefyddol.*

Yr oedd cosbi eilunaddoliaeth â marwolaeth yn Israel o dan y ddeddf, yn berffaith wahanol i erlid dynion am ddilyn y grefydd a ddewisant yn y dyddiau hyn, oblegyd,

(1,) Yr oedd llywodraeth Israel yr hyn a elwir Dwyflywodraeth *(Theocracy)*. Yr oedd Duw iddynt hwy yn Frenin daearol yn ogystal a Gwrthddrych addoliad a Deddfroddwr crefyddol; nid oedd barnwyr a breninoedd Israel amgen

* *Dick's Essays on Inspiration*, p. 274.

na rhaglawiaid o dano ef; yr oedd eilunaddoliaeth gan hyny yn deyrnfradwriaeth yn ei erbyn ef, ac yn gosbadwy â marwolaeth.

(2,) Dylid hefyd ystyried cymmeriad yr oruchwyliaeth, a sefyllfa cymdeithas o dani. Nodweddid yr hen oruchwyliaeth gan gyfiawnder tuag at ddrwg-weithredwyr. Yr oedd eisieu dysgu cymdeithas trwy gysgodau ac arwyddion gweledig o foddlonrwydd ac anfoddlonrwydd Duw. Yn awr, y mae yr oruchwyliaeth yn fwy ysbrydol, y mae dyn wedi myned rhagddo mewn gwybodaeth am wirioneddau crefyddol, ac y mae yn awr i gael ei lywodraethu yn benaf gan gymhellion a godant o ffydd yn yr hyn sydd anweledig, ac o grediniaeth yn modolaeth y sefyllfa ddyfodol.

## IV. Anfoesoldeb ac ysbryd dial fel pe byddent yn cael eu cymmeradwyo.

Nodir dwy neu dair o engreifftiau, y rhai a dybir sydd yn cymmeradwyo anfoesoldeb:—

1. *Ymddygiad y bydwragedd Hebreig.*

Exod. i. 15—21. "A brenin yr Aifft a lefarodd wrth fydwragedd yr Hebrëesau; o ba rai enw un *oedd* Siprah, ac enw yr ail Puah: ac efe a ddywedodd, Pan fyddoch fydwragedd i'r Hebrëesau, a gweled o honoch hwynt yn esgor; os mab fydd, lleddwch ef; ond os merch, bydded fyw. Er hyny y bydwragedd a ofnasant Dduw, ac ni wnaethant yn ol yr hyn a ddywedasai brenin yr Aifft wrthynt; eithr cadwasant y bechgyn yn fyw. Am hyny brenin yr Aifft a alwodd am y bydwragedd, ac a ddywedodd wrthynt, Paham y gwnaethoch y peth hyn, ac y cadwasoch y bechgyn yn fyw? A'r bydwragedd a ddywedasant wrth Pharaoh, Am nad *yw* yr Hebrëesau fel yr Aifftiesau; oblegyd y maent hwy yn fywiog, ac yn esgor cyn dyfod bydwraig atynt. Am hyny y bu Duw dda wrth y bydwragedd: a'r bobl a amlhaodd, ac a aeth yn gryf iawn. Ac o herwydd i'r bydwragedd ofni Duw, yntau a wnaeth dai iddynt hwythau."

Ni ddywedir fod Duw wedi gobrwyo y gwragedd o herwydd eu hanwiredd, ond yn hytrach o herwydd eu *bod yn ofni Duw* (adn. 17, 21), ac yn dewis yn hytrach ufyddhau i ddeddf y nefoedd trwy arbed y plant, nag i orchymyn Pharaoh trwy eu dinystrio. Diau hefyd fod yr hyn a ddywedent yn wirionedd mewn llawer amgylchiad (adn. 19.) Er eu holl ddiffygion ac anmherffeithrwydd, darfu i Dduw eu bendithio,

o herwydd eu bod yn ei ofni ef, ac o herwydd eu caredigrwydd i'w bobl ef.

2. *Gwaith yr Hebreaid yn benthyca oddiar yr Aifftiaid, pryd na fwriadent dalu yn ol.*

Exod. xi. 2, 3. "Dywed yn awr lle y clywo y bobl; a benthycced pob gŵr gan ei gymmydog, a phob gwraig gan ei chymmydoges, ddodrefn arian, a dodrefn aur. A'r Arglwydd a roddodd i'r bobl ffafr yn ngolwg yr Aifftiaid: ac *yr oedd* Moses yn ŵr mawr iawn yn ngwlad yr Aifft, yn ngolwg gweision Pharaoh, ac yn ngolwg y bobl."

Exod. xii. 35, 36. "A meibion Israel a wnaethant yn ol gair Moses; ac a fenthycasant gan yr Aifftiaid dlysau arian, a thlysau aur, a gwisgoedd. A'r Arglwydd a roddasai i'r bobl hawddgarwch yn ngolwg yr Aifftiaid, fel yr echwynasant iddynt: a hwy a ysbeiliasant yr Aifftiaid."

Gwna yr ystyriaethau canlynol symmud yr anhawsderau cyssylltiedig â'r ymadroddion hyn:—

(1,) Golyga y gair "benthyca" yn y lleoedd uchod *gofyn, hawlio*, neu *geisio fel ffafr.*

Dygwydda y ferf *shaal* (שאל), yr hon a gyfieithir "benthyca" ac "echwyna" (canys yr un ydyw mewn gwahanol ffurfiau) yn yr adnodau crybwylledig, yn y lleoedd canlynol; yn mha rai y golyga gofyn mewn ffordd o hawlio unrhyw beth, neu ei ddeisyfu:—"A Samuel a fynegodd holl eiriau yr ARGLWYDD wrth y bobl, y rhai oedd yn ceisio (*shaal*) brenin ganddo." (1 Sam. viii. 10.) "Yr hwn a ddymunasoch (*shaal*)." (1 Sam. xii. 13.) "A'r haul a darawodd ar ben Jonah, fel y llewygodd, ac y deisyfodd (*shaal*) farw o'i einioes." (Jonah iv. 8.) "Dymunwch (*shaal*) heddwch Jerusalem." (Salm cxxii. 6.) "Gofyn (*shaal*) i mi, a rhoddaf y cenedloedd yn etifeddiaeth i ti." (Salm ii. 8.) Fe welir nad yw y gair o anghenrheidrwydd yn golygu *benthyca*, ond gofyn unrhyw beth gyda gwyneb agored, naill ai trwy ei hawlio, neu ei ddeisyfu fel ffafr. Berf arall (*ganab*) a ddefnyddir am ladrata drwy dwyllo a dweyd anwiredd. (Exod. xx. 15, xxii. 6, 12, 2 Sam. xxi. 12. Jer. xxiii. 30.)

Mae'n debyg fod Israel wedi myned at yr Aifftiaid i ofyn rhyw gydnabyddiaeth ganddynt am eu llafur hirfaith iddynt yn yr Aifft; yr oedd yr enwogrwydd a ennillasai Moses trwy y gwyrthiau yn tueddu i'w dwyn i ffafrio plant Israel, fel yr awgryma Exod. xi. 3; ac yr oedd Duw hefyd yn gogwyddo eu calonau yn yr un cyfeiriad.

(2,) Ni fuasai yr Arglwydd yn dysgu ei bobl i dwyllo yr Aifftiaid.

Pe buasent yn benthyca oddiar yr Aifftiaid, ac yn addaw talu yn ol tra heb olygu gwneyd hyny, buasent yn pechu yn erbyn yr Arglwydd; ni fuasai efe yn cymmeradwyo y fath beth mewn un modd. Ni allasai cariad Duw at wirionedd adael iddo ddysgu yr Israeliaid i dwyllo yr Aifftiaid yn fwriadol; buasai hyny yn dinystrio eu diniweidrwydd moesol, ac yn cynnyrchu annghrediniaeth ynddynt yn Nuw ei hun, gan beri iddynt ofni, os oedd efe yn eu dysgu hwy i dwyllo yr Aifftiaid, fod yn bossibl iddo ef ei hun dwyllo Israel!

Mae tystiolaeth yr holl Feibl i burdeb a santeiddrwydd Duw, yn gwahardd i ni dybied am eiliad ei fod yn dysgu annghyfiawnder a thwyll i ddyn.

(3,) Nid yw yn debygol fod yr Aifftiaid yn dysgwyl cael yr hyn a roddent yn ol. Dywedir fod Duw wedi rhoddi hawddgarwch i'r bobl yn ngolwg yr Aifftiaid, hyny yw, gwneyd yr Aifftiaid yn ffafriol iddynt; mae'n debyg eu bod yn teimlo cyfiawnder appeliad yr Israeliaid am aur ac arian, ac yn eu rhoddi, heb byth ddysgwyl eu cael yn ol. Yr oedd yr Israeliaid wedi llesoli yr holl boblogaeth trwy eu gwasanaeth caled yn ystod y caethiwed; yr oedd Jehofah, gan hyny, yn trefnu i'r holl boblogaeth eu cynnorthwyo hwythau ar adeg eu hymadawiad, fel gweithred o gyfiawnder tuag at y gorthrymedig.

Mae'n debygol na allasai yr Aifftiaid ddysgwyl dychweliad Israel yn ol, ar ol y fath farnau dychrynllyd a phläau yr Aifft, y rhai a gymmerasent le er eu mwyn hwy. Ni ddadblygodd Duw ei holl gynllun ar y dechreu; gofynodd Moses am ollyngdod y bobl fel y gwasanaethent Dduw yn yr anialwch (Exod. vii. 16); nid oedd hyn ond peth bychan mewn ufydd-dod i Lywydd y bydoedd, ac ni ddylasai Pharaoh wrthod. Ond yr oedd Duw wedi rhagweled y gwrthodiad, a hawliodd ychwaneg oddiar ei law; "Taith tridiau yr awn i'r anialwch, a ni a aberthwn i'r Arglwydd ein Duw, *megys y dywedo efe wrthym ni.*" (Exod. viii. 27.) Yr oedd yr ychwanegiad, "megys y dywedo efe wrthym," yn awgrymu fod gan Dduw amcanion pellach mewn golwg na'u cael i'r anialwch daith tridiau; pe buasai Pharaoh wedi caniatâu cais Moses yn y peth lleiaf, fe fuasai yn cael nerth i wneyd ewyllys Duw yn y

peth mwyaf, sef yn rhyddhad cyflawn yr holl genedl; gan ei fod yn ymladd yn erbyn Duw, a'r nefoedd yn ei gosbi y naill ddydd ar ol y llall, mae yn dra annhebygol fod neb yn yr Aifft yn coleddu y dysgwyliad lleiaf y buasai Israel yn dychwelyd. Mae'n wir y dywedir fod y gair yn yr Aifft "fod y bobl yn ffoi" (Exod. xiv. 5); ond nid oedd hyny amgen nag awgrymiad disymmwth o eiddo Satan er ail-gynhyrfu creulondeb yr Aifftiaid, yn hytrach nag arddangosiad fod un dysgwyliad rhesymol yn eu plith am ddychweliad Israel ar ol y pläau ofnadwy y rhai oeddynt wedi cymmeryd lle. Gwel Keil a Delitzsch ar Exodus.

4. *Gwaith Rahab yn twyllo trigolion Jericho.*

Josua ii. 2—6. "A mynegwyd i frenin Jericho, gan ddywedyd, Wele, gwŷr a ddaethant yma heno o feibion Israel, i chwilio y wlad. A brenin Jericho a anfonodd at Rahab, gan ddywedyd, Dwg allan y gwŷr a ddaeth atat, y rhai a ddaeth i'th dŷ di: canys i chwilio yr holl wlad y daethant. Ond y wraig a gymmerasai y ddau ŵr, ac a'u cuddiasai hwynt, ac a ddywedodd fel hyn: Gwŷr a ddaeth ataf fi, ond ni wyddwn i o ba le *y daethent* hwy. A phan gauwyd y porth yn y tywyllwch, y gwŷr a aeth allan; ond ni wyddwn i ba le yr aeth y gwŷr: canlynwch yn fuan ar eu hol hwynt; canys chwi a'u goddiweddwch hwynt. Ond hi a barasai iddynt esgyn i nen y tŷ, ac a'u cuddiasai hwynt mewn bolldeidiau llin, y rhai oedd ganddi wedi eu hysgafnu ar nen y tŷ."

Gyda golwg ar hyn, sylwer,

(1,) Fod cofnodiad hyn yn profi gwirionedd yr hanes. Pe buasai gan ysgrifenwyr y Beibl rywbeth heblaw gwirionedd mewn golwg, ni fuasent yn cofnodi hyn, yr hyn ar yr olwg gyntaf sydd yn ymddangos yn anmhriodol.

(2,) Nid yw y Beibl yn canmol ei gwaith yn dywedyd anwiredd. Celwydd yw celwydd yn mhob amgylchiad; ni ŵyr y Beibl am y fath athrawiaeth a "bod yr amcan yn cyfiawnhau y moddion."

(3,) Fe gredodd Rahab mai Duw Israel oedd y gwir Dduw—credodd fod Duw wedi agor y Môr Coch o flaen ei bobl, ac wedi rhoddi breninoedd yr Amoriaid yn eu llaw; a chredodd hefyd y gwnelai Duw gyflawni ei addewidion a rhoddi Canaan iddynt; a gweithredodd ar y grediniaeth hon, a chynlluniodd i sicrhau ei diogelwch ei hun a'i theulu yn y dyfodol. (Jos. ii. 8—14.) Fel hyn, *o herwydd ei ffydd*, er ei diffygion a'i thwyll, hi a arbedwyd ac a fendithiwyd. (Heb. xi. 32.)

5. *Iaith ddialgar amryw o'r Salmau.*

Mae ieithwedd ddialeddol amryw o'r Salmau wedi cael ei deimlo yn anhawsdra pwysig gan lawer. Os oedd y Salmydd yn llefaru o dan ysbrydoliaeth Duw, ystyrir fod yn anhawdd cyfrif am yr ymadroddion bygythiol a'r dymuniadau dialgar sydd yn y Salmau. Dichon y bydd yr awgrymiadau canlynol yn gymhorth i symmud yr anhawsdra i raddau:—

(1,) Dylid cofio natur yr oruchwyliaeth o dan ba un y traethwyd hwynt.

Nodweddid hi yn fynych, fel y sylwyd eisioes, gan lymder cyfiawnder, yn hytrach na chan dynerwch trugaredd.

(2,) Mae y dymuniadau dan sylw wedi cael eu gosod allan mewn iaith farddonol, yr hon a nodweddir gan angerddolrwydd teimlad a bywiogrwydd desgrifiad.

Mynych y ceir gormodiaith mewn cyfansoddiad o'r fath: cymharer Esai. xiii. 10—13; xxxiv. 9, 10; Ezec. xxxv. 7. Gwel Pennod X. Rheol II, 4. Rhan II.

(3,) Mae amryw o'r dymuniadau i'w deall fel rhagfynegiadau am ddisgyniad barn Duw ar ddynion, oddieithr iddynt edifarhau.

Gwel Salm xxviii. 4, 5, lxxix. 6, 7: felly hefyd Deut. xxvii. 15—26. Jer. x. 25. Cymharer Ioan iii. 36. Rhuf. i. 18. 2 Thess. i. 7—9. 1 Cor. xvi. 22. 1 Tim. iv. 14.

Mewn iaith brophwydol, mae rhagfynegiadau yn cael eu gosod allan yn fynych fel gorchymynion neu ddymuniadau: megys Esai vi. 10. Jer. i. 10, xxv. 15—17, xxvii. 2, 3.

Weithiau byddai y cyfieithiad yn fwy cywir pe troid y berfau i'r amser dyfodol, modd mynegol, fel y maent yn yr Hebraeg; megys Salm xxxv. 4—8, xl. 14—16.

(4,) Mae yn debygol mai barnedigaethau tymhorol yw y melldithion trymaf a ddeisyfir.

O dan y ddeddf nid oedd y sefyllfa ddyfodol wedi cael ei dadguddio mor eglur ag y mae o dan yr efengyl, ac ychydig o gymhellion yn tarddu oddiar ystyriaeth o gyflwr dyn yn y byd arall a ddefnyddid er dylanwadu arno; ac yn absennoldeb dadguddiad cyflawn am y gwahaniaeth rhwng y cyfiawn a'r drygionus yn y byd a ddaw, yr oedd yn ofynol i gyfiawnder Duw gael ei ddangos yn achlysurol trwy i'w Ragluniaeth gosbi neu wobrwyo dynion yn y byd hwn. Dymunai y Salmydd i Dduw weithio allan egwyddorion ei lywodraeth foesol, trwy amddiffyn y cyfiawn a chosbi y drygionus, ac

felly i ddangos ei fod yn caru rhinwedd a santeiddrwydd, ac yn cashau pechod a llygredd.

Yn Salmau lii. 5, lxix. 28, dinystr y bywyd naturiol yw yr hyn a ddeisyfir. Dyna oedd ffordd Duw i gosbi dynion gynt, pan y deuai allan yn angerdd ei ddig yn eu herbyn, fel y dengys hanes ei ymddygiad tuag at y cynddiluwiaid, trigolion Sodom a Gomorrah, yr Aifftiaid, Israeliaid gwrthryfelgar, &c. Yn awr, mae yr oruchwyliaeth wedi newid; mae genym ni ddadguddiad helaethach am Dduw a'i drefn, ac am ddyn a'i dynged; a byddai yn bechod mewn Cristionogion i weddio am ddinystr eu gelynion, gan y byddai hyny yn cynnwys dymuniad fod i'r amser cymmeradwy gael ei fyrhau iddynt, ac i gyfryngau yr iachawdwriaeth gael eu cymmeryd oddiwrthynt!

(5,) Amcan mawr y Salmydd yn y cyfan oedd dyrchafu gogoniant Duw, ac amddiffyn urddas ei ddeddf santaidd.

Nid oes lle i feddwl fod un teimlad o ddial personol yn ei lywodraethu o gwbl. Yr oedd Dafydd yn swyddog o dan Dduw, ac yr oedd yn gyfreithlon iddo weddio am ddymchweliad gelynion y Ddwyf-lywodraeth; a gallai efe ac ereill o'r un meddwl weddio am hyn heb goleddu yr un malais personol o gwbl. Yr amcan mewn golwg ydoedd cael dynion i gydnabod awdurdod Duw ac edifarhau. Salm lix. 13, lxxxiii. 16—18.

(6,) Mae lle i gredu mai iaith y gelyn yw yr hyn a briodolir yn fynych i'r Salmydd.

Er engraifft, ceir dymuniadau bygythiol yn Salm cix., y rhai sydd yn peri i ni frawychu wrth eu darllen; ond os rhenir y Salm i dair rhan, fel yr awgryma ysgrifenydd galluog yn yr *Expositor* am Rhagfyr, 1875, bydd yr anhawsdra yn diflanu. Cawn y rhan gyntaf, adnodau 1—5, yn cynnwys cwyn Dafydd: yr ail ran, adnodau 6—19, yn adroddiad o ddymuniadau ei elynion yn ei erbyn yn ol ei gŵyn yn adnod 2, ond ein bod i ddeall fod yr ychwanegiad o'r ymadrodd "*gan ddywedyd*" i fod yn nechreu y chweched adnod; a'r drydedd ran, adnodau 20—31, yn cynnwys iaith y Salmydd ei hunan.

Mae llawer adran o'r Salmau yn dywyll oddieithr i ni ddeall fod rhyw ymadrodd cyffelyb i "*gan ddywedyd*," neu "*meddant*" i'w ychwanegu atynt. Gwel Salm ii. 2, xxii. 7, xxvii. 8, xli. 8, &c. Yn Salm cxviii. 13, mae y geiriau "O fy ngelyn" yn ddealladwy, er gwneyd yr ystyr yn eglur.

(7,) Nid yw cofnodiad y Salmau dialeddol yn y Beibl yn cynnwys cymmeradwyaeth Ddwyfol i'r oll a gynnwysant.

Yn nechreuad y Bennod ddiweddaf, dywedasom nad oedd defnyddio ysgrifeniadau credadwy y rhai oeddynt ar y cyntaf yn annghyssegredig, yn annghysson ag ysbrydoliaeth y Beibl. Cofnodion gwladol llywodraeth Persia, mae yn debygol, oedd Llyfr Esther ar y cyntaf, y rhai a gorpholwyd yn y Beibl er egluro troadau Rhagluniaeth yn ngwaredigaethau yr Iuddewon. Cofnodir areithiau cyfeillion Job, er fod rhai syniadau ynddynt yn cael eu collfarnu (Job xlii. 7, 8); ond yr oedd yn gysson ag amcan y Beibl i'w cofnodi. Cofnodir colliadau Noah, Abraham, a Dafydd; nid yw y ffaith eu bod wedi cael eu cofnodi yn y Beibl, yn cynnwys fod y Beibl yn eu hesgusodi. Maent ynddo yn hytrach er rhybudd i ni. Felly gyda'r Salmau. Cyfansoddwyd hwynt gan wahanol bersonau, ar adegau ac o dan amgylchiadau tra gwahanol. Wrth gyfansoddi rhai o honynt, mae y Salmydd yn dadgan ei ofid blin pan yn cael ei erlid o fan i fan; bryd arall, traetha ei ddiolchgarwch i Dduw am iddo ei amgylchu â chaniadau ymwared. Ysgrifenodd rai o honynt pan oedd mewn rhyfel â'i elynion; rhai ereill pan oedd mewn cyfyngder enaid o herwydd iddo bechu yn erbyn Duw; ac ereill, pan oedd yn llawenychu yn nghymdeithas felus y Goruchaf. Yn awr, wyla o herwydd fod achos Duw yn destyn gwawd i'w elynion; drachefn, ymorfoledda yn y rhagolwg ar ymostyngiad yr holl ddaear i awdurdod Creawdwr y byd. Mae y gwahanol Salmau yn cynnwys tystiolaeth gywir o'r hyn a gymmerodd le yn meddwl y Salmydd yn y gwahanol amgylchiadau crybwylledig, ac yn arddangosiad o'r hyn ydyw y natur ddynol wedi ei santeiddio ond yn rhanol. Dichon i deimladau cyffelyb i'r rhai y cwynir o'u herwydd, ymgyfodi yn achlysurol yn meddyliau plant yr Arglwydd o dan yr efengyl, pan yn cael eu cablu, eu herlid, a'u niweidio gan eu gelynion creulon a gwaedlyd, nes peri iddynt weithiau ofni na allai y rhai a goleddent y fath deimladau feddu cariad gwirioneddol at Dduw; ond wrth droi i'r Salmau hyn, eu bod yn cael eu cadw rhag anobeithio, gan eu bod yn gweled fod plant Duw yn mhlith yr Israeliaid yn syrthio i deimladau cyffelyb, y rhai er hyny a lechent yn nghysgod yr Hollalluog. Gallant yma gymharu eu profiadau eu hunain â phrofiadau pobl Dduw gynt. Gallant dywallt eu gofidiau eu hunain yn eu cyffesion hwy, ac offrymu

eu diolchgarwch eu hunain yn eu mawl-ganiadau hwy. Dysgant oddiwrthynt hefyd, er mor ddwfn oedd diolch awdwyr y Salmau, ac er mor ddwys oedd eu teimladau crefyddol, eto nad oedd eu calonau wedi cael eu llwyr-buro, nac effeithiau pechod wedi cael eu llwyr-symmud ymaith o'u nhatur. Ac er na all, fe ddichon, fyned i ysbryd pob syniad ynddynt, eto fe deimla pob Cristion fod myfyrio y Salmau yn tueddu i farw-eiddio ei lygredd, i ddwyseiddio ei brofiad crefyddol, i sant-eiddio ei serchiadau, i enyn ei zêl gydag achos Duw a dyfnhau ei barch i'w air, ac felly i'w ddwyn i gymdeithasu mwy gyda'r Arglwydd, ac i ddyfod yn fwy tebyg iddo.

Un o amcanion yr Ysbryd Glân wrth gorphori y Salmau hyn yn y Canon, ydoedd, dangos y gall dyn fod yn ysbrydoledig pan nad ydyw wedi ei berffeithio; ac er rhoddi desgrifiad cywir i holl oesau y ddaear o wahanol deimladau ac agweddau profiad dyn duwiol yn holl amgylchiadau bywyd. Nid yw hyn yn cynnwys cymmeradwyaeth Ysbryd yr Arglwydd i'r un anmherffeithrwydd mewn dyn, tra y mae yn profi perffeith-rwydd y Beibl, a'i addasrwydd fel llyfr i'r holl fyd ac i bob oes. (Gwel Rhaglithiau Tholuck a Barnes i'r Salmau, *Dr. Jahn's Introd. to the Old Testament*, *Dr. Hessey's Moral Difficulties of the Bible*, &c.)

## V. Cydnabyddiaeth yr Apostol Paul.

1 Cor. vii. 25. "Eithr am wyryfon, nid oes genyf orchymyn yr Arglwydd: ond barn yr ydwyf yn ei roi, fel un a gafodd drugaredd gan yr Arglwydd i fod yn ffyddlawn."

Am fod Paul yn dweyd, "Nid oes genyf orchymyn yr Arglwydd, ond barn yr wyf yn ei roddi," barnodd rhai fod Paul yn awgrymu yma nad oedd o dan ysbrydoliaeth Duw pan yn ysgrifenu ar y pwnc dan sylw. Ond nid oes grym yn yr wrthddadl hon, o herwydd ei bod yn cymmeryd yn ganiatâol mai wrth *orchymyn yr Arglwydd* y golygir cyfarwyddyd yr Ysbryd Glân i'r apostol i ysgrifenu; tra mae y cyssylltiadau yn gofyn i ni ei ddeall am *gyfarwyddyd o eiddo yr Arglwydd Iesu yn ystod ei yrfa ddaearol.*

1. Yr achos cyntaf a drafodir ydyw *cyfraith priodas.* Gyda golwg ar hyn dywed yr apostol nad oedd arnynt eisieu ei gyfar-wyddyd ysbrydoledig ef, am fod ganddynt yn barod orchymyn pendant yr Arglwydd Iesu ar y pwnc. "Ac i'r rhai a briod-wyd yr ydwyf yn gorchymyn, nid myfi *chwaith*, ond yr

Arglwydd, Nad ymadawo gwraig oddiwrth *ei* gŵr." (1 Cor. vii. 10.) Gwel Mat. v. 32, xix. 6, 9. Marc x. 11, 12.

Cawn Paul ar achlysuron ereill yn cyfeirio at yr hyn a ddysgasai Crist yn bersonol ar y pwynt fyddai o dan ei ystyriaeth. (Act. xx. 35. 1 Cor. ix. 14. Mat. x. 10. Luc x. 7.)

2. Yr oedd y pwyntiau ereill yn *nghylch Cristionogion ag oeddynt wedi priodi eilunaddolwyr*, ac yn *nghylch gwyryfon.*

Gyda golwg ar wyryfon, dywed Paul nad oedd yr Arglwydd Iesu wedi gadael yr un cyfarwyddyd neillduol, ac am hyny y mae efe yn myned rhagddo i roddi ei farn ei hun ar y pwnc, o dan gyfarwyddyd yr Ysbryd Glân. Sylwer,

(1,) Ei fod yn penderfynu y pwnc hwn trwy yr un awdurdod ag yr oedd yn penderfynu pethau ereill. "Fel hyn yr wyf yn ordeinio yn yr eglwysi oll." (1 Cor. vii. 17.)

(2,) Y mae yn dweyd yn bennodol fod Ysbryd Duw ganddo: (1 Cor. vii. 40), ac yr oedd Crist wedi dweyd y byddai yr Ysbryd yn arwain yr apostolion i bob gwirionedd. (Ioan xvi. 13.)

(3,) Yn hytrach na pheidio hòni Dwyfol-ysbrydoliaeth iddo ei hun yn y bennod, y mae Paul mewn gwirionedd yn gosod ei benderfyniad ysbrydoledig ei hun yn gydradd â gorchymyn Crist, gan mai yn ol cyfarwyddyd Ysbryd Duw yr oedd yn ysgrifenu.*

## VI. Ysbrydoliaeth dynion annuwiol, megys Balaam.

Yr oedd hyn yn cymmeryd lle yn achlysurol; gallai yr Arglwydd ysbrydoli ei elynion weithiau i ddwyn oddi amgylch amcanion neillduol, fel y defnyddia offerynoliaeth dynion drwg i ddwyn oddi amgylch fwriadau ei Ragluniaeth. Pan bechai Israel, defnyddiai y cenedloedd cymmydogaethol i'w ceryddu. Yr oedd gwaith Duw yn ysbrydoli Balaam yn fwy o gerydd i Balac na phe buasai yn anfon prophwyd o fysg meibion Israel i'w rybuddio. (Num. xxii.—xxiv.) "Dynion santaidd" oedd y prophwydi, fel rheol; dichon fod rhesymau dros yr eithriadau ag nas gwyddom ni ddim am danynt. Cawn grybwylliad am engreifftiau cyffelyb i'r un uchod yn Mat. vii. 22. Ioan xi. 51.

Nodiad.

Dichon i ryw un ofyn, *Pa fodd y gellir cyfrif am anffaeledigrwydd ysgrifenwyr y Beibl, pan y cawn hwynt yn agored i gamgymmeriadau mewn pethau ereill ?*

* *Dr. Wm. Lee on the Inspiration of Holy Scriptures*, pp. 296—304. *Henderson's Insp.*, Lect. vi.

Mae yr anhawsdra gyda hyn yn diflanu pan yr ystyriom nad ydyw y Beibl yn rhoddi ar ddeall i ni fod y prophwydi a'r apostolion o dan gynhyrfiad Ysbryd Duw yn barhaus; o'r ochr arall awgryma nad oeddynt. Cawn fod Moses yn methu a rhoddi ateb i'r bobl gyda golwg ar rai pethau, hyd nes y cafodd ddadguddiad neillduol oddiwrth yr Arglwydd yn eu cylch. (Lef. xxiv. 11–13. Num. xv. 34, 35.) Yr oedd Dafydd yn brophwyd, ond nid oedd yn wastad yn gallu rhagweled y dyfodol. (1 Sam. xxx. 8.) Ar adegau neillduol yn unig yr oedd llaw yr Arglwydd yn dyfod ar Ezeciel, ac yn ei alluogi i brophwydo. (Ezec. viii. 1, xx. 1, 2, xxiv. 1.) Cawn Jeremiah yn dysgwyl am ddeg niwrnod am air yr Arglwydd cyn iddo ei gael. (Jer. xlii. 4—7.) Dywed Crist y byddai yr Ysbryd Glân yn enau a doethineb i'r dysgyblion pan yr amddiffynent eu crefydd o flaen yr awdurdodau gwladol, yr hyn a awgryma nad oeddynt yn wastadol o dan arweiniad yr un Ysbryd anffaeledig. (Mat. x. 19, 20. Marc xiii. 11.) Mae yr addewid am yr Ysbryd Glân yn ei ddoniau goruwchnaturiol fel arweinydd yr apostolion, yn cael ei chyfyngu iddynt pan yn ymwneyd â gwirionedd yr efengyl. (Ioan xiv. 26, xvi. 13.) Wrth ymwneyd â gorchwylion cyffredin, nid oedd y prophwydi a'r apostolion yn wahanol i ddynion duwiol ereill; nid oedd Amos wrth fugeilio defaid, na Phaul wrth wneuthur pebyll, yn wahanol i'w brodyr yn yr un galwedigaethau; gallasent wneyd camsyniad mewn pethau cyffredin, a syrthio i bechod, fel ereill o blant Duw; fe droseddodd Moses trwy ei fyrbwylldra, Dafydd trwy ei gnawdolrwydd, a Jonah trwy ei ragfarn; ond pan y trosglwyddent feddwl Duw i'r byd, yr oeddynt yn rhodio yr uchelderau, a sicrheir ni yn bendant eu bod yn cael eu cadw uwchlaw camgymmeriad, a bod Ysbryd Duw yn eu tywys i bob gwirionedd. (Esai. lxiv. 26. Ioan xvi. 13. 2 Pedr. i. 21.)

Mae'n debyg hefyd nad oedd yr Ysbryd yn ei ddoniau gwyrthiol yn cael ei roddi i'r apostolion ar bob adeg; diau na fuasai Paul yn gadael Trophimus yn glaf yn Miletum (2 Tim. iv. 20), ac yn defnyddio yr iaith a wna yn nghylch Epaphroditus (Philip. ii. 27), pe buasai yn gallu iachâu dynion yn ol ei ewyllys. Yr oedd Duw yn gweithredu yn benarglwyddiaethol ac yn ol ei ddoethineb ei hun yn hyn, fel yn mhob peth arall.

Nid ysbrydoliaeth ddidor y dynion yw athrawiaeth y Beibl am ysbrydoliaeth, ond ysbrydoliaeth gyflawn a thrylwyr y *gair* (2 Tim. iii. 16); ac ni all ymddygiad yr ysgrifenwyr ar adegau ereill effeithio dim ar anffaeledigrwydd y gyfrol santaidd.*

* Gwel yn mhellach *Horne's Introduction*, vol. I; *Dr. Hessey's Boyle Lectures*, am 1871—3; a Phennod viii. Rhan II. o'r gwaith hwn.

# PENNOD VIII.

## APOCRYPHA YR HEN DESTAMENT.

## Y CYNNWYSIAD.

*Hanes yr Apocrypha—Y Llyfrau a'i cyfansoddant, a'u Cynnwysiad—Profion na roddwyd hwynt trwy Ysbrydoliaeth Duw—Eu Defnyddioldeb.*

Yr wyf wedi barnu yn ddoeth i ysgrifenu pennod fer ar yr Apocrypha, gan ei fod i'w gael yn fynych mewn hen Feiblau Cymreig, a rhai, fe ddichon, yn methu a phenderfynu yn iawn beth i'w wneyd âg ef, a pha farn i ffurfio am dano. Cyfeirir ato yma, nid er ceisio profi ei fod i'w dderbyn fel cyfran o'r Ysgrythyrau cyssegredig, ond er dangos paham yr ydym i wrthod yr anrhydedd hono iddo, ac i awgrymu yn mha beth y mae ei ddefnyddioldeb yn gynnwysedig.

I. Ei hanes.

Yn y cyfnod rhwng Malachi a dechreuad hanesiaeth y Testament Newydd, yr ydym yn cael fod amryw lyfrau wedi cael eu hysgrifenu yn mhlith yr Iuddewon, rhai o honynt yn athrawaidd, ereill yn hanesyddol, ac ereill yn ddychymmygol, i'r dyben i gyfranu addysg grefyddol. Y maent oll o duedd grefyddol, ac yn nullwedd dynion tra chyfarwydd â'r Ysgrythyrau santaidd. Galwai y Tadau y llyfrau hyn yn Apocrypha, pa air a ddeillia naill ai o'r geiriau *apo tes kruptes*, am fod y llyfrau dan sylw wedi cael eu symmud o'r *crypt*, y gist, yr arch, neu y gelfa, lle y cedwid y llyfrau santaidd, awdurdod pa rai na amheuwyd erioed; neu o'r ferf *apokrupto*, yr hon a olyga *cuddio* neu *ddirgelu*, am eu bod yn cael eu cuddio rhag y mwyafrif o ddarllenwyr, gan na chydnabyddid

eu hawdurdod gan yr eglwys gyffredinol, ac am eu bod yn llyfrau na wyddis ond ychydig am eu hawdwyr a'u hysgrifeniad.

Mae yn anhawdd penderfynu yr adeg yn mha un yr ysgrifenwyd hwynt; y farn gyffredin yw fod y rhan fwyaf o honynt wedi cael eu hysgrifenu yn yr ail a'r drydedd ganrif cyn Crist; ond ymddengys hefyd fod rhai o honynt wedi eu hysgrifenu ar ol ei ymddangosiad.

## II. Crynhodeb o'i gynnwysiad.

1. *Y Llyfrau a'i cyfansoddant.* Pennodau.

| | | |
|---|---|---|
| I. | 1 Esdras | 9 |
| II. | 2 Esdras | 16 |
| III. | Tobit | 14 |
| IV. | Judith | 16 |
| V. | Gweddill Pennodau Llyfr Esther, heb fod yn yr Hebraeg na'r Caldeaeg | 7 |
| VI. | Doethineb Solomon | 19 |
| VII. | Doethineb Iesu Mab Sirach, neu Ecclesiasticus | 51 |
| VIII. | Baruch | 6 |
| IX. | Cân y Tri Llanc | 1 |
| X. | Ystori Susanna | 1 |
| XI. | Ystori Dinystr Bel a'r Ddraig | 1 |
| XII. | Gweddi Manasseh, Brenin Juda | 1 |
| XIII. | 1 Maccabeaid | 16 |
| XIV. | 2 Maccabeaid | 15 |

2. *Dosraniad byr o'u cynnwysiad.*

### (1,) Esdras I.

Pen. I. Hanes y Pasg mawr a gynnaliodd Josiah (2 Chron. xxxv. a xxxvi.), yn nghyda pharhad o hanes yr Iuddewon hyd gaethiwed Babilon.

Pen. II. Hanes dychweliad y bobl trwy ganiatâd Cyrus (adn. 1—15), yr un o ran sylwedd ag Ezra i., a hanes gwaharddiad adeiladiad y deml gan Artaxerxes (adn. 16—30).

Pen. III.—V. 6. Hanes tri o wŷr ieuainc y rhai a wylient gorph y brenin, yn ymryson areithio am y goreu o flaen y brenin Darius a'i dywysogion, un wedi dewis ei destyn, "Trechaf yw gwin;" y llall, "Trechaf yw brenin;" a'r trydydd, "Trechaf yw gwragedd; ond

uwchlaw pob peth, gwirionedd a orchfyga." Y trydydd oedd Zorobabel, yr hwn a ystyrid y goreu, ac addawodd y brenin ei wobrwyo trwy ganiatâu iddo yr hyn a geisiai; y mae yn cael rhyddid gan y brenin i'r Iuddewon ddychwelyd i'w gwlad i ail adeiladu Jerusalem a'r deml.

Pen. V.—IX. Hanes tebyg i hanes Ezra a Nehemiah am ddychweliad yr Iuddewon gyda Zorobabel ac Ezra, a helyntion ail adeiladiad y deml.

### (2,) Esdras II.

Mae y llyfr hwn yn rhy faith i ni sylwi arno yn fanwl, y naill bennod ar ol y llall; ond rhydd y bras-linelliad canlynol rhyw feddylddrych am ei gynnwysiad. Proffesa y llyfr hwn fod yn waith Ezra; dywed fod Duw wedi ei anfon at y genedl Iuddewig, a chawn ef yn llefaru wrthynt yn enw Duw y nefoedd. Y mae yn cael ei ffafrio â gwahanol weledigaethau, a'r angel Uriel yn eu hegluro iddo. Efelycha yr ysgrifenydd ieithwedd y Beibl; ond y mae ymgais i foddhau cywreinrwydd dyn am bethau dibwys i'w ganfod ynddo fel ag sydd yn mhob ysgrifau ffugysbrydoledig, yr hyn sydd yn peri i ni deimlo nad lleferydd Duw sydd yma. Y mae y rhyfyg cableddus hefyd o honi llefaru yn enw Duw, a thrwy hyny geisio twyllo dynion, yn peri i ni arswydo, a theimlo yn annedwydd wrth ei ddarllen.

Er yr hòna fod yn waith Ezra, credwn ein bod yn canfod cyfeiriadau ynddo at y Testament Newydd, yr hyn a awgryma mai ar ol dyddiau yr apostolion yr ysgrifenwyd ef.

Cymharer pen. ii. 42—48 â Dad. vii. 9—17; iv. 4.
,, ,, viii. 3 â Mat. xx. 16.
,, ,, ix. 1—3 â ,, xxiv. 3—7.
,, ,, xiii. 29—37 â ,, xxiv. 7; Dad. xvi. 14;
,, xvii. 14.
,, ,, xvi. 41—44 â 1 Cor. vii. 29—31.

Tybia rhai, modd bynag, fod llygriadau diweddarach wedi cael eu llusgo i mewn i'r llyfr gwreiddiol.

### (3,) Tobit.

Dywed Tobit am dano ei hun ei fod yn perthyn i lwyth Naphtali, ac yn ddyn duwiol a chymhwynasgar; dywed iddo gael ei gaethgludo i Ninefeh, a chael ei wneyd yn oruchwyliwr i Enemessar y brenin. Sonia am ei rinweddau yn claddu yr Iuddewon a lofruddid, ac y bwrid eu cyrph i ochr y ffordd; ac i hyn ddigio Senacherib mab Enemessar, nes ceisio ei ladd ef. Ar ol llofruddiad Senacherib, y mae yn cael rhyddid i ddychwelyd i Ninefeh, lle y mae yn ymarfer yr un rhinweddau ag o'r blaen. Ar ol claddu un Iuddew ag oedd wedi ei dagu a'i fwrw i'r heol,

efe a gysgodd wrth fur â'i lygaid yn agored; yno y mae adar y tô yn "bwrw tail twym" i'w lygaid, yr hyn a achosodd y fath ddolur fel na allai y meddygon ei iachâu. Yn ngwyneb hyn y mae ei wraig yn myned i nyddu, er cael cynnaliaeth. Y mae efe yn dweyd ei gŵyn wrth Dduw; a'r angel Raphael yn cael ei anfon i iachâu ei lygaid. Addysg a phriodas Tobias mab Tobit. Yr angel Raphael yn myned yn gydymaith i Tobias, gan ddweyd mai Azarias mab Ananias, cyfaill Tobit ydoedd. Priodas Tobias, a'r angel yn ei ddysgu i fwrw ymaith y cythraul oedd mewn serch â'i wraig, yr hwn a alltudiwyd i eithafoedd yr Aifft, ac a rwymwyd yno gan yr angel. Yr angel yn dadguddio ei hun. Tobit yn diolch i Dduw, yn hyfforddi ei fab, ac yn marw.

Mae y rhan fwyaf o'r llyfr hwn yn debycach i ffugchwedl er difyrwch yr Iuddewon, nag i hanesiaeth wirioneddol, heb son am oraclau Dwyfol yr Ysbryd Glân.

(4,) JUDITH.

Sylwedd yr hanes yn y llyfr hwn yw a ganlyn. Pan yr ymosododd Nebuchodonosor ar Ecbatane, galwodd ar yr Iuddewon i ddyfod i'w gynnorthwyo i ddwyn y rhyfel yn mlaen; hwythau yn gwrthod cydsynio; yntau ar hyny yn digio yn aruthr, ac ar ol gorchfygu Ecbatane, yn anfon byddin i gosbi yr Iuddewon, gan osod Olophernes yn benaeth arni. Y mae y fyddin o'r diwedd yn cyrhaedd gwlad Israel, ac yn gwarchae ar Bethulia. Trwy fod y dwfr yn darfod yn Bethulia, mae yr Israeliaid yn cael eu darostwng i gyfyngder mawr, ac yn son am roddi y ddinas i fyny i Olophernes; ond y mae gwraig weddw rinweddol o'r enw Judith, yn eu hannog i beidio ymollwng, ond ymddiried yn Nuw, gan addaw gwneyd rhywbeth er eu gwaredu. Cawn hi yn gweddio ar Dduw am iddo fod gyda hi, ac yn myned at yr Assyriaid, gan gynnyg arwain Olophernes, fel ag i gael buddygoliaeth rwydd ar Israel. Dygir hi ger bron penaeth y llu, yr hwn a'i derbynia yn barchus. Y mae Olophernes yn ei hoffi, ac o lawenydd yn ei chyfeillach yn yfed gwin nes meddwi; a Judith ar ol gweddio, yn tori ymaith ei ben ef. Anrhydedd, cân, offrwm, a marwolaeth Judith.

Mae y llyfr hwn wedi ei ysgrifenu mewn modd darllenadwy, a chyda llawer o fedr; ond ymddengys mai math o ffugchwedl hanesyddol ydyw, a ysgrifenodd rhyw Iuddew gwladgarol, ac nid gwir hanes. Fe welir ei fod yn gwrthddweyd hanesiaeth gredadwy. Gesyd allan Nebuchodonosor fel brenin Assyria, yn teyrnasu yn Ninefeh, tra mai brenin Babilon oedd ef, a Ninefeh wedi cael ei dinystrio gan ei dad. Yn ol y llyfr hwn yr oedd yr Iuddewon wedi dychwelyd o gaethiwed yn amser Nebuchodonosor (v. 19), ond yn ol y Beibl, Nebuchod-

onosor a'u cludodd i gaethiwed. Nid oes ychwaith son yn un lle arall am Bethulia.

### (5,) Gweddill Pennodau Llyfr Esther.

Proffesa y rhai hyn fod yn barhad o lyfr Esther, gan ddechreu lle y terfyna y llyfr hwnw. Y maent wedi eu rhifnodi i gyfateb hyny, gan ddechreu fel hyn:—Pen. x. 4; yna pen. xi.—xvi. Cynnwysa y pennodau hyn hanes breuddwyd Mordecai, a'i ddehongliad; gwaith Mordecai yn dadguddio bradwriaeth yn erbyn y brenin, a'i wobrwyad; copi o lythyr y brenin Artaxerxes i ddinystrio yr Iuddewon, a gweddi Mordecai drostynt; gweddi Esther; Esther yn ymddangos o flaen y brenin, ac yn llewygu am ei fod yn edrych yn llidiog arni; y brenin ar ol hyny yn dyfod yn ffafriol iddi; llythyr Artaxerxes yn adrodd beiau Haman, ac yn diddymu y gorchymyn i ddinystrio yr Iuddewon.

Nid ydyw y llyfr hwn i ymddibynu arno fel hanes gwirioneddol, am ei fod i raddau yn gwrthddweyd yr hanes ysgrythyrol; ond i'w ystyried fel cynnyrch dychymmyg ffrwythlon rhyw Iuddew gwladgarol, mwy awyddus am anrhydedd ei genedl nag am gywirdeb diwyrni gwirionedd.

### (6,) Doethineb Solomon.

Efelychiad ydyw y llyfr hwn o Ddiarhebion Solomon, gan mwyaf, wedi ei ysgrifenu, mae'n debygol, gan Iuddew Aifftaidd, tua chan' mlynedd cyn Crist. Cynghora yr awdwr ei ddarllenwyr i chwilio am ddoethineb, a gochelyd pob peth croes iddi; dysga fod eisieu ei hoffi, a gwerthfawrogi addysg, a gweddio ar Dduw mewn trefn i'w chael; dengys ei gwerth a'i phwysigrwydd i bob dosbarth; a phrofa trwy engreifftiau ysgrythyrol y dedwyddwch sydd yn canlyn ei pherchenogiad, a chanlyniadau dinystriol ynfydrwydd ac eilunaddoliaeth.

Y mae llawer o wersi buddiol yn y llyfr, gan eu bod gan mwyaf wedi eu cymmeryd o'r Ysgrythyrau; ond gallai unrhyw ddyn talentog ei gyfansoddi, heb unrhyw gymhorth goruwchnaturiol. Mae ei brif werth yn gynnwysedig yn y goleuni a deifl ar syniadau crefyddol ac athroniaeth yr Iuddewon yn y cyfnod yr ysgrifenwyd ef.

### (7,) Ecclesiasticus.

Gelwir Doethineb Iesu, Mab Sirach, *Ecclesiasticus*, neu *lyfr i'w ddarllen yn yr eglwys neu'r gynnulleidfa*, am y darllenid ef yn yr eglwysi Cristionogol boreuol er hyfforddiant y bobl, er nad fel llyfr o Ddwyfol awdurdod i gadarnhau pynciau athrawiaethol. Mae y llyfr yn dra thebyg

o ran ei gynnwysiad a'i ffurf i Lyfr y Diarhebion, er nad yw y nerth a'r eneiniad sydd yn hwnw i'w teimlo wrth ei ddarllen. "Dechreua y llyfr gyda desgrifiad o ddechreuad a gwerth doethineb, a'r ffordd trwy yr hon y gellir ei chael (pen. i. ii.) Yn y bedwaredd bennod ar hugain y mae doethineb yn cael ei phersonoli, megys ag yn yr wythfed bennod o'r Diarhebion, a dadgana ei molawd ei hun. Cynnwysa y pennodau diweddaf adolygiad ar y dynion enwocaf, perthynol i'r genedl Hebreaidd, yn ol trefn yr Ysgrythyrau (pen. xliv.—l.) Yn y rhanau canol dygwydda amrywiol fathau o ddiarhebion cyffredinol a neillduol, yn nghylch llawer o ddyledswyddau yn mha rai y mae yr awdwr yn cymhell, calonogi, rhybuddio, a desgrifio."*

Mae yn debyg iddo gael ei ysgrifenu tua 180 mlynedd cyn Crist, ac y mae yn werthfawr fel cyfansoddiad ag sydd yn taflu goleuni ar hanesiaeth Iuddewig yn y cyfnod uchod.

(8,) Baruch.

Dysga y llyfr hwn fod Baruch, yn y bummed flwyddyn ar ol dinystr Jerusalem gan y Caldeaid, wedi ysgrifenu llyfr yn Babilon, a'i ddarllen yn nghlyw yr Iuddewon oedd yn Babilon, ar y rhai y cafodd ddylanwad mawr; y maent hwythau mewn canlyniad yn gwneyd casgliad yn eu plith a'i anfon i gynnorthwyo yr Iuddewon yn Jerusalem, gan ddeisyfu arnynt brynu aberthau â hwynt, a'u hoffrymu i'r Arglwydd yn Jerusalem, a gweddio dros Nebuchodonosor a hwythau. Cawn ynddo gyffes a gweddi yr Iuddewon yn Babilon; annerchiad i'r Iuddewon, ac annogaeth i Jerusalem ymgysuro. Anfonwyd y llyfr o Babilon i Iuddewon Jerusalem i'w ddarllen yn nhŷ yr Arglwydd ar eu huchel-ŵyliau. Proffesa hefyd roddi copi o lythyr y prophwyd Jeremiah at y caethion yn Babilon.

Nid ydyw y llyfr i ymddibynu arno, gan mai ffug ydyw, wedi ei ysgrifenu gan ryw Iuddew awyddus i ddadlenu dirgelion, a boddhau cywreinrwydd ei gyd-genedl.

(9,) Can y tri llanc.

Math o folawd i Dduw, a chyffes o bechod, a gweddi gan y tri llanc a fwriasid i'r ffwrn dân, yw y rhan flaenaf o'r ysgrif hon, pa un sydd i ddilyn Dan. iii. 23; yna ceir hanes y waredigaeth a dinystr y rhai oedd yn porthi y ffwrn dân; ac wedi hyny cân o foliant i Dduw gan y tri am iddo eu gwaredu rhag angerdd y tân.

Ffug ydyw y cyfansoddiad hwn, mae'n ddiau, ond wedi ei ysgrifenu yn nullwedd a brawddegau yr Ysgrythyr, ac o duedd grefyddol.

* *Horne's Introd.*, vol. ii., p. 1025

### (10,) Ystori Susanna.

Susanna oedd wraig i Joacim, Iuddew cyfrifol yn Babilon. Byddai ei wraig yn arfer â myned i rodio i'r ardd gerllaw y tŷ ganol dydd, ac weithiau yn ymdrochi ynddi. Ymgynnullai llawer o Iuddewon i dŷ Joacim, ac yn eu plith ddau farnwr neu henuriaid, y rhai a benderfynent achosion y bobl yn ei dŷ ef. Syrthiodd y ddau mewn trachwant at Susanna, a cheisiasant ei hudo yn ddirgel yn yr ardd un canol dydd; gan iddi wrthsefyll eu hudoliaeth, cyhuddodd y ddau hyn hi o odineb gyda rhyw ddyn ieuanc. Condemniwyd hi i farwolaeth. Pan arweinid hi i'w dienyddio, cyffrowyd ysbryd Daniel o dosturi tuag ati, a hawliai ail brawf arni. Holodd Daniel y cyhuddwyr ar benau eu hunain; dywedai un mai o dan fastigen (σχινος = *the mastich tree*), y daliesid hi yn godinebu; ond y llall, mai o dan brinwydden. Dangosodd hyn nad oedd sail i'w cyhuddiad, a chondemniwyd hwy i farwolaeth, a rhyddhawyd Susanna. Dyna sylwedd "Ystori Susanna."

Dychymmyg yw y 'stori, er annog yr Iuddewon i burdeb ymarweddiad yn mhlith y Cenedloedd, ac i ddangos fod drygioni yn dwyn ei gosb a'i drueni gydag ef yn y diwedd.

### (11,) Ystori dinystr Bel a'r Ddraig.

Hanes disail yw hwn, wedi ei gyfansoddi er gwenieithio i falchder yr Iuddew, a gwawdio duwiau y cenedloedd. Dywed fod Cyrus yn eilunaddolwr, ac yn cymhell Daniel i addoli y duw Babilonaidd Bel, a'r sarph oedd yn ei deml; a Daniel ar hyny yn dangos twyll yr offeiriaid, ac yn cael cenad i ddinystrio y sarph. Y bobl wed'yn yn gorfodi y brenin i roddi Daniel i fyny iddynt hwy; hwythau yn ei fwrw i ffau y llewod; angel yn cymmeryd Habbacuc y prophwyd o Judea wrth wallt ei ben i borthi Daniel yn y ffau â'r ciniaw a fwriadasai i'w fedelwyr ei hun; ar y seithfed dydd, ceir fod y brenin yn gwaredu Daniel o'r ffau, ac yn dinystrio ei elynion.

Dywedasom mai hanes *disail* yw hwn, oblegyd,

1. Nid oedd Cyrus yn eilunaddolwr. (Ezra i. 3.)
2. Nid oes sail i'r fath chwedlau ag sydd yn yr hanes.
3. Y mae yn gwrthddweyd llyfr Daniel.

### (12,) Gweddi Manasseh.

Proffesa hon fod yn "Weddi Manasseh, brenin Juda, pan oeddid yn ei ddal ef yn garcharor yn Babilon." Y mae yn weddi ragorol, yn cynnwys syniadau gweddus, a dymuniadau priodol i'r amgylchiad; ond nid oes sail i gredu mai gwir weddi Manasseh ydyw.

## (13,) Maccabeaid I.

Cymhwysir yr enw *Maccabeaid* yn gyffredin at deulu ac olynwyr yr offeiriad Iuddewig Mattathias, y rhai y naill ar ol y llall a ymdrechasant sefydlu ac amddiffyn annibyniaeth yr Iuddewon. Mae yr enw *Asmonœaid* yn fwy cyffredin yn llênyddiaeth yr Iuddewon, oddiwrth *Asamonaios*, taid Mattathias. Blodeuodd Mattathias tua'r flwyddyn 175 cyn Crist, a chyrhaedda hanes y llyfr hwn hyd y flwyddyn 135 cyn Crist. Y cyntaf a alwyd yn Faccabead oedd Judas mab Mattathias. Bernid yn gyffredin fod y gair wedi cael ei ffurfio o lythyrenau cyntaf y geiriau yn y frawddeg Hebreig, Mi Camocha Baelim Iehofah, *pwy sydd debyg i ti yn mhlith y duwiau, O Jehofah*, yr hon, meddir, oedd yn arwyddair ar y banerau Iuddewig yn y rhyfeloedd yn erbyn y gelynion. Ond ystyria Dr. Samuel Davidson, mai y gair Hebraeg *makkabah* (מקבה,=*a hammer—morthwyl*), yw gwreiddyn yr enw, yr hwn a ddefnyddid er gosod allan wroldeb anwrthwynebol Judas, pa un a ddrylliai y gelynion o'i flaen.

Y mae y llyfr hwn yn cynnwys hanes yr Iuddewon o deyrnasiad Antiochus Epiphanes, hyd farwolaeth yr offeiriad Simon, o'r flwyddyn C.C. 175 hyd 135 C.C. Rhydd y llinnellau canlynol rhyw feddylddrych am natur ei gynnwysiad :—

Wedi marwolaeth Alexander Fawr, cafodd ei freniniaeth ei rhanu rhwng ei dywysogion; o'r rhai hyny yr hanodd Antiochus Epiphanes, yr oedd hwn yn elyn creulon i'r Iuddewon; ymosododd ar Jerusalem a gorchfygodd hi; ysbeiliodd a halogodd y deml; ac ymdrechodd sefydlu eilunaddoliaeth yn ngwlad Israel, gan gosbi â marwolaeth yr Iuddewon na chydsynient â'i ewyllys. Yn ngwyneb hyn, y mae Mattathias, offeiriad duwiol, yn cwyno a galaru o herwydd aflwydd Jerusalem a thrueni y bobl; a'i feibion hefyd yn cyfranogi o'i alar a'i eiddigedd santaidd. Y mae Mattathias yn gwrthod bradychu ei grefydd yn ol cais swyddog y brenin eilunaddolgar, ac yn lladd y swyddog; efe a'i feibion yn ffoi i'r mynyddoedd, gan alw ar bawb ag oedd yn parchu cyfraith Duw i'w canlyn. Lliaws yn dyfod ato. Efe a'i ganlynwyr yn dinystrio allorau yr eilunod; a chyn marw yn annog ei feibion i geisio gwaredu y wlad o law y gelyn, ac yn appwytio Judas i fod yn gadben arnynt. Ar ol hyn, cawn Judas yn nerth Duw yn gorchfygu y gelynion ddwy waith; byddinoedd cryfion ereill yn myned yn ei erbyn, a hwythau hefyd yn cael eu gorchfygu a'u hysbeilio, a'r deml yn cael ei phuro a'i hadgyweirio. Yna ceir hanes helyntion yr Iuddewon wrth ymdrechu sefydlu ac amddiffyn eu hannibyniaeth; Judas yn cael ei ladd, a'i frawd Jonathan yn dyfod yn ei le ef; ei hanes, ei garchariad, a'i lofruddiad; Simon ei frawd yn dyfod yn ei le yntau.

Gweinyddiaeth ragorol Simon; yn ei henaint y mae yn rhoi ei feibion, Judas a Ioan, i ymladd yn erbyn gelynion Israel. Simon yn cael ei ladd trwy frad, a Ioan ei fab yn dyfod yn archoffeiriad a llywydd yn lle ei dad.

Tybir fod y llyfr hwn wedi cael ei ysgrifenu gan Ioan, mab Simon, yr hwn a elwir Ioan Hyrcanus, neu o dan ei gyfarwyddyd. Y mae yn waith hanesyddol credadwy a thra gwerthfawr, mor deilwng o ymddiried a gwaith Josephus.

(14,) MACCABEAID II.

Mae y llyfr hwn yn cynnwys dau lythyr oddiwrth Iuddewon Judea at yr Iuddewon yn yr Aifft, yn gosod allan hanes cyssegriad y deml; yna ceir talfyriad o hanes y Maccabeaid gan un Jason o Cyrene; a hanes cais i ysbeilio y deml, &c.

Mae y llyfr hwn yn son am bethau anhygoel, megys adferiad y tân santaidd, gweledigaethau o ryfelwyr yn yr awyr, amddiffynwr nefol ar farch gydag arfogaeth o aur yn ymddangos yn arweinydd i'r Iuddewon, &c., yr hyn sydd yn dangos ofergoeledd yr awdwr. Y mae gwallau amseryddol a hanesyddol hefyd ynddo. Nid ydyw ei werth ond ychydig, mewn cymhariaeth i'r llyfr cyntaf; ac nid yw ei gynnwysiad ond mewn rhan yn deilwng o grediniaeth.

III. Y RHESYMAU DROS WRTHOD YR APOCRYPHA, FEL LLYFR YSBRYDOLEDIG.

1. Nid yw ei lyfrau yn cael eu cynnwys mewn unrhyw restr (*catalogue*) o lyfrau ysbrydoledig, a wnaed yn ystod y pedair canrif gyntaf ar ol Crist.

2. Nid ydyw yr Iuddew Philo o Alexandria, cydoeswr â'r apostolion (yr hwn a ysgrifenodd er ceisio cyssoni yr Ysgrythyrau âg athroniaeth y Groegiaid), byth yn dyfynu o honynt, ac y mae Josephus yn bendant yn eu cau allan o'r Canon Iuddewig. Ar ol dwyn ei dystiolaeth i Ysgrythyrau yr Hen Destament, fel y dangoswyd yn y bennod ar "Y Canon," tudal. 47, dywed fel hyn:—

"O amser Artaxerxes, hyd yr adeg bresennol, y mae yr holl ddygwyddiadau wedi cael eu hysgrifenu i lawr; *ond nid yw yr (hanesion) hyn yn cael eu hystyried yn hawlio y fath grediniaeth a'r rhai blaenorol, am nad oedd olyniaeth reolaidd o brophwydi.* Y mae ffeithiau yn dangos y fath hyder sydd genym yn ein Hysgrythyrau priodol; oblegyd er fod tymhor

mor hir wedi myned heibio, ni feiddiodd neb ychwanegu dim atynt, na thynu dim oddi wrthynt. Y mae wedi ei blanu yn mhob Iuddew, o'i febyd, i'w hystyried hwy (yr Ysgrythyrau) fel deddfau Duw, glynu wrthynt, ac (os bydd yn anghenrheidiol), i farw yn ewyllysgar drostynt." *

3. Ni dderbyniodd yr Iuddewon erioed hwynt fel rhan o'r Ysgrythyrau santaidd, ac ni ddyfynwyd hwynt o gwbl gan ein Harglwydd na'i apostolion; "yr hyn (ebe Dr. Angus), sydd yn ffaith fwy hynod, gan fod Paul yn dyfynu beirdd paganaidd deirgwaith."

4. Fe derfynodd Malachi ei ragfynegiadau, trwy gymmeradwyo i'w gydwladwyr gyfraith Moses, ac awgrymu nad oedd yr un cenad awdurdodedig oddiwrth Dduw i'w ddysgwyl drachefn, hyd oni ddeuai yr ail Elias.

5. Y mae amryw o'r ysgrifenwyr yn gwrthod hawlio ysbrydoliaeth. Crefant amynedd y darllenydd, gan erfyn arno esgusodi eu diffygion, gan eu bod wedi gwneyd eu gwaith oreu y gallent:—

1 Macc. iv. 46. "Ac a osodasant y ceryg ar fynydd y tŷ mewn lle cyfaddas, hyd oni ddelai prophwyd i fynegi beth a wneid â hwynt."

1 Macc. ix. 27. "A chystudd mawr a ddygwyddodd yn Israel, y fath ni bu, er pan ni welwyd prophwyd yn eu plith hwy." (xiv. 41.)

2 Macc. ii. 27, 28. "Y pethau hyn a fynegodd Jason Cyreneus mewn pum' llyfr, ni a geisiwn eu talfyru mewn un llyfr. Gan adael bod yn fanwl am bob peth i'r awdwr, ni a geisiwn grynhoi y cwbl ar fyr eiriau.

2 Macc. xv. 38. "Ac os da y gwnaethum, ac megys y gweddai i'r 'stori, hyny yw'r peth a ewyllysiais; ond os yn llesg ac annoeth, hyny yw yr hyn a allwn ei ddwyn i ben."

6. Y mae y llyfr yn gwrthddweyd ei hun, ac yn groes i'r Beibl.

(1,) Mae 'Stori Bel a'r ddraig yn groes i lyfr Daniel, yn nghylch yr *achos* o dafliad Daniel i'r ffau, ac *ystod* ei arosiad ynddi.

(2,) Y mae yn cefnogi a dysgu drygau ac ofergoeledd: megys *gweddïo dros y meirw* (2 Maccab. xii. 43—45); *eiriolaeth angylion* (Tobit xii. 15); *cyfiawnhad trwy weithredoedd* (Tobit xii. 8, 9: 2 Esdras viii. 33); *celwydd* (Tobit v. 12); *hunan-*

* *Josephus Against Apion*, B. I. § 8.

*laddiad* (2 Maccab. xiv. 42); *llofruddiaeth* (Judith ix.); *defodau dewinol* (Tobit v. 16, 17); a *thrawsfudiad eneidiol* (Doethineb Solomon viii. 19, 20.)

Nid ydyw y fath lyfr, gan hyny, i'w gystadlu â'r Ysgrythyrau santaidd; ac ni ddylid mewn un modd ei dderbyn fel gair Duw, ond fel gair dyn, gyda llawer iawn o wallau a chyfeiliornadau pwysig ynddo.

## IV. Yn mha beth y mae ei werth yn gynnwysedig.

Y mae y llyfrau yn werthfawr, mor bell ag y maent yn taflu goleuni ar hanes yr Iuddewon yn y cyfnod rhwng Malachi a Ioan Fedyddiwr, ac ar eu syniadau ar wahanol bynciau. Maent hefyd o werth mewn ystyr *ieithyddol*, er egluro ieithwedd y Testament Newydd. Yn y nodiadau blaenorol, yr ydym wedi sylwi ar ansawdd y cyfansoddiadau, a pha rai a ellir eu hystyried fel yn cynnwys hanesion credadwy. Yr unig lyfr o wir werth hanesyddol, fel yr ymddengys i'r awdwr, yw llyfr cyntaf y Maccabeaid. Yr oedd pethau da yn y lleill, er rhoddi *addysg* mewn moesau a chrefydd, ond yr oeddynt yn hollol amddifad o *awdurdod;* ac y mae y dôn gableddus yn rhai o honynt o lefaru yn enw a thros Dduw, a'r ynfydrwydd disail a ddysgir mewn gwahanol fanau ynddynt, yn tueddu i wenwyno a chamarwain y meddwl; ac felly, yr ydym yn ei ystyried yn amgylchiad ffafriol nad oes ond ychydig o ddarllen arno. Apocrypha (llyfr cuddiedig) a ddylai fod.

Yn erthygl VI. o Gredo Eglwys Loegr, dywedir fel y canlyn am lyfrau yr Apocrypha:—"A'r Llyfrau ereill (fel y dywed Hierom) y mae yr eglwys yn eu darllen er esiampl buchedd, ac addysg moesau; eto nid yw yn eu gosod i sicrhau un athrawiaeth." Yn unol â hyn, y mae yn y Llyfr Gweddi Cyffredin 132 o wersi wedi eu cymmeryd o'r Apocrypha, i'w darllen yn ngwasanaeth yr Eglwys Sefydledig yn ystod y flwyddyn. Y mae symmudiad ar droed i newid y ffurfwasanaeth, ac i leihau y rhif hwn.

Yn Nghynghorfa Trent, A.D. 1546, darfu i'r Pabyddion dderbyn yr Apocrypha i blith y llyfrau canonaidd, gyda'r eithriad o ddau lyfr Esdras, a gweddi Manasseh. (*Dr. Cramp's Text Book of Popery*, pp. 78—99.

NODIAD.—

Cyn Cynghor Trent, ni edrychai y Pabyddion ar lyfrau yr Apocrypha fel rhai canonaidd, ond defnyddient hwy yn debyg fel y gwna Eglwys Loegr yn awr, *er adeiladaeth*. Dywedai Gregory I., Esgob Rhufain o'r flwyddyn A.D. 590 i 604, nad oedd llyfrau y Maccabeaid yn ganonaidd, er eu bod yn eu darllen er adeiladaeth yr eglwys. Yn gyffelyb y traetha John o Damascus, yn y flwyddyn A.D. 730. Gosyd Bede, A.D. 730, hwy ar yr un tir ag ysgrifau Josephus. Cydnebydd Cardinal Ximenes, yn A.D. 1502, a Cardinal Bellarmine yn A.D. 1600, nad ystyrid llyfrau yr Apocrypha yn ysbrydoledig gan yr eglwys gyntefig. Yn Nghynghorfa Trent, darfu i'r Pabyddion ddarostwng gair Duw i safle y cynnyrchion ffaeledig a dirmygus hyn, a chyhoeddi eu bod hwy o hyny allan i gael yr un parch ag ysgrifeniadau Moses, y prophwydi, a'r apostolion! Dyma engraifft arall o gyssondeb diwyrni ac anffaeledigrwydd digyfeiliorn yr Eglwys Babaidd! *

* Gwel yn mhellach ar gynnwysiad y bennod hon, *Dr. Angus's Bible Hand-Book*: *Horne's Introduction*, vol. ii.; *Kitto's Cyclopædia*; *Doddridge's Works*, Lect. 153: *Dr. Pye Smith's First Lines of Christian Theology*, B. v. ch. iii.; *Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible*.

# PENNOD IX.

## BRASLUN HANESYDDOL O'R PRIF GYFIEITHIADAU O'R BEIBL.

---

## Y CYNNWYSIAD.

*Cyfieithiad y Deg a Thrigain—Y Cyfieithiadau Lladinaidd—Y Cyfieithiad Syriaeg—Cyfieithiad Luther—Y Gwahanol Gyfieithiadau Seis'nig—Y Cyfieithiadau Cymreig—Yr Oraclau Bywiol—Cyfieithiadau i Ieithoedd Diweddar Ewrop, Asia, Affrica, ac America.*

Ni chawn ond crybwyll yn fyr am y *prif* gyfieithiadau o'r Beibl, yn hytrach na rhoddi cyfrif am bob cyfieithiad adnabyddus.

I. Y Septuagint, neu Gyfieithiad y Deg a Thrigain.

"Derbyniodd y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament, yr hwn a elwir y Septuagint, ei enw, naill ai oddiwrth yr hanes a roddir am 72 o bersonau a roddasid ar waith i'w ddwyn oddi amgylch; neu oblegyd ei fod wedi cael ei gymmeradwyo gan y Sanhedrim Iuddewig, yr hon oedd yn gyfansoddedig o 70 neu yn hytrach 72 o bersonau. Hwn ydyw y cyfieithiad hynaf a phwysicaf o'r holl gyfieithiadau o'r Beibl, ac efe yw sail llawer o gyfieithiadau ereill.

"Y mae ei hanes wedi cael ei guddio mewn tywyllwch. O herwydd hyny y mae amryw dybiaethau wedi cael eu crybwyll gyda golwg ar y modd y cynnyrchwyd ef.

"Yr hanes hynaf ydyw, ei fod wedi cael ei wneyd yn unol â chais a chynghor Demetrius Phalereus, arolygydd llyfrgell fawr Alexandria, o dan Ptolemy Philadelphus. Yr oedd casgliad cyffredinol o gyfreithiau wedi cael ei wneyd er mwyn y llyfrgell genedlaethol yna; a phan y canfyddwyd fod y cyfreithiau Iuddewig yn absennol, yr oedd yn naturiol i'r llyfrgellydd ddymuno eu cael hwythau hefyd. Gan hyny ymdrechodd eu cael. Anfonodd y brenin Andreas ac Aristeas, dau o wŷr ei lys, at Eleazar yr hwn oedd y pryd hyny yn

archoffeiriad yn Jerusalem, gyda dymuniad fod i gopi o'r Ysgrythyrau Hebraeg gael ei ganiatâu iddo, a chydag ef ddeuddeg a thrigain o bersonau cyfarwydd yn yr Hebraeg a'r Groeg i'w esbonio. Yn unol â'r dymuniad hwn o eiddo brenin yr Aifft, anfonwyd 72 o ddynion dysgedig, gyda chopi o'r gyfraith i'r Aifft, a chauwyd hwynt i fyny mewn ynys, yr hon mae'n debygol oedd Pharos, lle ar ol ymddyddan â'u gilydd yn nghylch yr ystyr a'r geiriad, hwy a draethasant (*dictated*) y cyfieithiad i Demetrius. Dyna sylwedd hanes a ysgrifenwyd gan Aristeas i'w frawd Philocrates, mewn llythyr Groeg ag sydd eto ar gael." (*Horne's Introd.* vol. ii. p. 47.)

Ymddengys nas gall yr hanes uchod fod yn wirionedd, yn neillduol o ran y manylion. Os fel y dywedir uchod y gwnaed y cyfieithiad, fe ddylasai fod drwyddo o deilyngdod cyffelyb; ond nid ydyw. Mae ei deilyngdod yn amrywio yn fawr. Ystyrir mai cyfieithiad Pum' Llyfr Moses yw y goreu ynddo, a'r Diarhebion yn ail. Mae iaith llyfr Job yn goeth, ond nid ydyw yn fynych yn gosod allan ystyr yr Hebraeg, tra mae rhai rhanau anhawdd wedi eu gadael heb eu cyfieithu. Anmherffaith iawn yr ystyrir y cyfieithiad o'r Salmau. Y goreu o'r prophwydi yw Jeremiah, a'r gwaelaf yw Esaiah. Yr oedd y cyfieithiad o lyfr Daniel mor wallus, fel y mabwysiadwyd cyfieithiad Theodotion yn ei le gan yr eglwys gyntefig.

Tybia ereill mai angen crefyddol y genedl Iuddewig a roddodd fodolaeth i'r cyfieithiad. Gan fod yr iaith Roeg wedi ennill tir ar ol buddygoliaethau Alexander Fawr, a'r Hebraeg wedi peidio a bod yn iaith lafaredig fel cynt, yr oedd o bwys i'r Iuddewon gael eu Hysgrythyrau yn yr iaith a ddeallent oreu ac a arferent yn feunyddiol; a chreda rhai beirniaid mai hyn a barodd i'r cyfieithiad gael ei wneyd. Dichon ei fod wedi cael ei wneyd ar wahanol adegau, Pum' Llyfr Moses yn flaenaf, a'r rhanau ereill ychydig yn ddiweddarach.

Nis gellir cael sicrwydd yn awr am yr *adeg* pan wnaed y cyfieithiad hwn, na *pha le* y gwnaed ef; y tebygolrwydd yw ei fod wedi cael ei wneyd yn Alexandria, yn yr Aifft, yn y drydedd ganrif cyn Crist. Bernir fod rhai o'r ymadroddion a ddefnyddia, ac o'r syniadau a gyflea, yn brawf eglur mai yn yr Aifft y gwnaed ef. Defnyddia eiriau o darddiad Aifftaidd, megys *oiphi* am *ephah* (Barn. vi. 19. Ruth ii. 17), a *Remphan*, yr enw Aifftaidd am y blaned Sadwrn. (Amos v. 26.) Cyfieitha y gair Thummim (*perffeithrwydd*) â'r gair Alêtheia (*gwirionedd*),

er cyfleu y syniad (yn ol rhai beirniaid) mai yr un peth oedd yr Urim a'r Thummim yn mhlith yr Hebreaid a'r Saphir cerfiedig, yr hwn a wisgai y prif offeiriad Aifftiaidd am ei wddf, ac a elwid Alêtheia (*gwirionedd*).

Ennillodd y cyfieithiad hwn yn fuan anrhydedd fawr ac awdurdod yn mhlith yr Iuddewon a siaradent yr iaith Roeg. Credai Philo ei fod wedi cael ei gynnyrchu trwy ysbrydoliaeth; defnyddia Josephus ef yn amlach na'r Hebraeg. Ymddengys fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn dyfynu yn fynych o hono. Nid oedd gan lawer o'r Tadau Cristionogol yr un cyfrwng arall i ddyfod yn adnabyddus â'r Hen Destament, gan nad oedd ond Origen a Jerome yn unig o'r Tadau, yn alluog i ddarllen Hebraeg.

Mae y cyfieithiad hwn yn ddyddorol, er dangos i ni y modd y deallai yr Iuddewon y testyn Hebraeg yn y dyddiau hyny; ond yr oeddynt yn cymmeryd gormod o ryddid wrth gyfieithu, megys diosg meddyliau y Beibl o'r iaith ffugyrol yn mha un y gwisgasai yr Ysbryd Glân hwynt; er engraifft, Esaiah i. 25:—"A dychwelaf fy llaw arnat, a phuraf di yn hollol; a mi a ddinystriaf y rhai gwrthryfelgar, a chymmeraf ymaith oddi wrthyt y troseddwyr."

Gwnaed cyfieithiadau ereill o'r Hen Destament i'r Groeg, o ba rai nid oes ond rhanau ar gael; megys eiddo *Aquila*, *Theodotion*, *Symmachus*, a dau neu dri ereill gan bersonau anadnabyddus.

Brodor o Sinope, yn Pontus, ar lan y Môr Du, oedd *Aquila*, a bernir ei fod wedi cyfieithu yr Hen Destament i'r iaith Roeg tua'r flwyddyn A.D. 30. Cyfieithodd ef, fel y tybir, er cynnorthwyo yr Iuddewon yn eu dadleuon yn erbyn y Cristionogion, pa rai a ddefnyddient y LXX, yn erbyn yr Iuddewon. Yn Esaiah vii. 14, yn lle defnyddio y gair "morwyn" (*parthenos*) fel y LXX, defnyddia "dynes ieuanc" (*neanis*). Mae Aquila yn dilyn yr Hebraeg mor gaeth, fel y mae ei gyfieithiad yn fynych nid yn unig yn annaturiol, ond yn annealladwy.

Tybir fod *Theodotion* yn frodor o Ephesus, ac yn un o'r Hereticiaid Ebionitaidd, y rhai a garent, mae'n debyg, gael cyfieithiad o'r eiddynt eu hunain o'r Hen Destament. Gwnaed y cyfieithiad hwn rhwng y blynyddoedd A.D. 150 a 180. Ystyrir cyfieithiad Theodotion, modd bynag, yn fath o ddiwygiad o'r LXX, yn hytrach na chyfieithiad newydd trwyadl; a mabwysiadwyd ei eiddo ef o lyfr Daniel yn lle eiddo y LXX. Cyhuddir ef, yn ogystal ag Aquila, o gamgyfieithu neu wyro rhai ymadroddion a gyfeiriant at y Messiah.

Bernir mai brodor o Samaria oedd *Symmachus*, a'i fod yn perthyn i

rai o'r pleidiau Gnosticaidd. Tybir ei fod wedi gwneyd y cyfieithiad dan sylw tua'r flwyddyn A.D. 200, neu yn gynnar yn y drydedd ganrif. Dywedir fod y cyfieithiad hwn ar y cyfan yn fwy eglur a deallus, ac yn gywirach o ran ieithwedd, nag eiddo Aquila a Theodotion.

## II. Y Cyfieithiadau Lladinaidd.

Yn mhlith y cyfieithiadau hynaf sylfaenedig ar y LXX, yr oedd un a elwir yr *Italic*. Yn nyddiau Awstin (yr hwn a fu farw A.D. 430), yr oedd amryw gyfieithiadau Lladinaidd o'r Beibl, o ba rai yr *Italic* a ystyrid y goreu. Y mae Jerome hefyd yn dwyn tystiolaeth i'w ragoroldeb. Gwnaed ef, fel y gellir casglu oddiwrth ranau o hono ag sydd eto ar gael, o'r Ysgriflyfr Alexandriaidd, ac ystyria Eichhorn ei fod yn perthyn i'r ganrif gyntaf. (*Bible Hand-Book*, p. 32).

Dywed Dr. Davidson, modd bynag, nad oes sail i gredu fod amryw gyfieithiadau Lladinaidd o'r Beibl mewn cylchrediad yn amser Awstin, ond fod ysgrif-gopïau o'r un cyfieithiad yn gwahaniaethu cryn lawer, ac mai yn erbyn yr amrywiaeth hwn yn yr ysgrif-gopïau y llefarai Awstin mor gryf. Lledaenid y cyfieithiad mewn rhanau, y rhai a gyfnewidiai pob un, ebe Dr. Davidson, yn ol ei fympwy ei hun.

*Y Vulgate*, A.D. 382—405.

Er diwygio y testyn ag oedd wedi cael ei lygru i'r fath raddau, ymgymmerodd Jerome â'r gwaith o'i arolygu a'i wellhau mewn modd beirniadol, tua'r flwyddyn 382. I'r dyben hwn, defnyddiodd waith chwe' cholofnog (*hexapla**) Origen, a diwygiodd yn ofalus yr Hen Destament oll, er nad oes ond rhanau o'i waith diwygiadol ar gael. "Fel yr oedd Jerome yn agoshau at ddarfod â'r llafur hwn, yr oedd y LXX, er ei fod cyn hyn am amser hir wedi cael ei dderbyn yn ffafriol gan yr Iuddewon, yn dechreu cael ei ddibrisio ganddynt, o herwydd, mae'n debygol, fod Cristionogion yn arfer appelio ato. Er cyfarfod â'r teimlad hwn ymgymmerodd Jerome â'r gwaith o barotoi cyfieithiad o'r Hen Destament i'r Lladin, yn uniongyrchol o'r Hebraeg. Treuliodd y rhan fwyaf o ugain mlynedd gyda'r gwaith hwn, a gorphenwyd ef yn y flwyddyn 405."

* Gwaith oedd hwn yr ymgymmerodd Origen â'i gyflawni, er diwygio y LXX. Yr oedd yn gynnwysedig o chwech o golofnau, fel y canlyn:—

| Hebraeg, *mewn llythyrenau Hebreig.* | Hebraeg, *mewn llythyrenau Groeg.* | Cyfieithiad Aquila. | Cyfieithiad Symmachus | Y LXX. | Cyfieithiad Theodotion. |
|---|---|---|---|---|---|

Yn amser Gregori Fawr, tua'r flwyddyn 604, anrhydeddwyd cyfieithiad Jerome o'r Beibl â'r enw VULGATE (o'r Lladin *vulgatus*=cyffredin), am ei fod yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol yn nghyfundeb eglwys Rhufain.

Darfu i bersonau anwybodus ac anllythyrenog ymyraeth â'r cyfieithiad rhagorol hwn yn foreu, a'i lygru trwy ei gyfnewid ac ychwanegu ato; fel y teimlai llawer fod eisieu ei ddiwygio a'i buro oddiwrth y brychau hyn. Yn A.D. 802, darfu i Charelmagne, ymerawdwr Ffrainc, ddymuno ar yr enwog Alcuin o Efrog ei gywiro; a thua'r flwyddyn 1089, cawn Lanfranc, archesgob Caergaint, yn ymaflyd yn yr un gwaith; a'r Cardinal Nicolaus yn y ddeuddegfed ganrif. Mae yr argraffiad presennol o'r Vulgate, yr hwn a gyhoeddir o dan awdurdod y Pab, yn cynnwys gwallau pwysig, y rhai y dylid eu hadgyweirio er mwyn gwirionedd Duw.

### III. Y PESHITO, NEU Y CYFIEITHIAD SYRIAEG.

Gelwir y cyfieithiad Syriaeg yn *Peshito*, yr hyn a olyga *llythyrenol*, o herwydd ei fod yn gyfieithiad llythyrenol o'r testyn gwreiddiol. Gyda golwg ar yr amser y gwnaed ef, nid yw traddodiadau y Syriaid eu hunain yn cytuno. Dywed rhai fod rhanau o'r Hen Destament wedi cael eu cyfieithu yn amser Solomon a Hiram; priodola ereill y gwaith i Asa yr offeiriad, pan yr anfonwyd ef o Assyria i Samaria (2 Bren. xvii. 28); a barna ereill drachefn fod y cyfieithiad wedi cael ei wneyd yn amser yr apostol Thaddeus a'r brenin Abgarus, pryd y tybir i'r Testament Newydd hefyd gael ei gyfieithu. Ystyrir mai y peth tebycaf i wirionedd yw, ei fod wedi cael ei wneyd tua chanol yr ail ganrif, yn Edessa. Y mae Ephrem, yr hwn a fu farw A.D. 378, yn son am dano fel cyfieithiad adnabyddus ac mewn cylchrediad cyffredinol yn ei amser ef yn mhlith y Syriaid, gan ei alw "*ein cyfieithiad ni.*"

Cynnwysa y Peshito holl lyfrau canonaidd yr Hen Destament, a dim ond y rhai hyny, gan ei fod yn cau allan lyfrau yr Apocrypha. Y mae yn cynnwys hefyd holl lyfrau canonaidd y Testament Newydd, gyda'r eithriad o *ail Epistol Pedr*, *ail a thrydydd Epistol Ioan*, *Epistol Judas*, a'r *Dadguddiad;* hyny yw holl Ysgrythyrau Cydnabyddedig (γραφαὶ ὁμολογούμεναι) Eusebius, yn nghydag un o'r rhai y dywedid yn eu herbyn (yr *antilegomenai*), sef *Epistol Iago*. Gellir ystyried hyn

yn brawf o hynafiaeth mawr y cyfieithiad, gan ei fod wedi cael ei wneyd cyn i Ganon y Testament Newydd gael ei benderfynu.

Gwnaed cyfieithiad Syriaeg arall yn y chwechod ganrif a elwir y *Cyfieithiad Philoxenaidd*, gan ei fod wedi cael ei wneuthur gan Philoxenus, esgob Hierapolis yn Syria, neu o dan ei arolygiaeth ef.

## IV. Cyfieithiadau Germanaidd Luther.

"Yn mhlith y cyfieithiadau Germanaidd, y mae eiddo Luther bob amser yn sefyll yn dra uchel. Hwn yw y cyfieithiad hynaf a mwyaf enwog o'r holl gyfieithiadau Protestanaidd, a sail llawer o rai ereill. Dechreuwyd ef yn 1517, a chyhoeddwyd ef yn rhanau, o'r flwyddyn hono hyd 1534, pryd y gorphenwyd yr holl waith, yr hwn a gynnwysai yr Hen Destament a'r Newydd, a'r Apocrypha. Ymddangosodd argraffiad newydd a chyflawn o hono yn 1534. Cyhoeddwyd yr ail argraffiad yn 1541, 1542. Addurnid y ddau argraffiad âg amryw ddarluniau, ond nid oedd yr un o honynt wedi cael ei ddosranu i adnodau." *Horne's Introd.* vol. ii. p. 247.

## V. Y Cyfieithiadau Seis'nig.

Gan fod Dr. Angus wedi crynhoi hanes y rhai hyn i gylch bychan, dodwn ef yma fel y mae yn Llaw-lyfr y Beibl, gydag ychydig o ychwanegiadau :—

*Cyfieithiad Wickliff.*—Y cyfieithiad cyflawn cyntaf o'r Beibl i'r iaith Seis'nig a wnaed gan Wickliff, tua'r flwyddyn 1380. Nid oedd i'w gael ond mewn ysgrifen am lawer o flynyddau, ond y mae oll yn awr wedi cael ei argraffu. Edrychid ar y gwaith gyda drwgdybiaeth; a dygwyd ysgrif yn mlaen i Dŷ yr Arglwyddi i'w ddifetha; ond gwrthodwyd hyn trwy ddylanwad John O'Gaunt. Modd bynag, yn 1408, mewn cymmanfa a gynnaliwyd yn Rhydychain, penderfynwyd nad oedd neb i gyfieithu unrhyw ran o'r Ysgrythyr i'r Saesonaeg, fel llyfr neu draethawd, ac nad oedd unrhyw lyfr o'r fath i gael ei ddarllen. Arweiniodd y penderfyniad hwn i erlidigaeth chwerw; mae sail i gredu er hyny fod llawer o ysgrif-gopïau o'r Ysgrythyr ar yr adeg hono yn cael cylchrediad helaeth trwy Loegr.

*Cyfieithiad Tyndal.*—Yr argraffiad *printiedig* cyntaf o'r Beibl yn Saesonaeg a gyhoeddwyd gan Tyndal, y Testament Newydd, yn y flwyddyn 1526, a rhanau o'r Hen Destament yn 1532. Aethai Tyndal i Hamburg, ac oddi yno i Cologne, er mwyn cael heddwch i weithio allan ei fwriad o gyfieithu gair Duw. Cymmerodd Tonstall, esgob Llundain, a Syr

Thomas Moore, lawer o boen i brynu yr holl gopïau, a llosgi yr argraffiad, er attal ei gylchrediad; ond y canlyniad oedd galluogi y cyfieithydd i gyhoeddi argraffiad helaethach a pherffeithiach.

*Beibl Coverdale.*—Daliwyd a charcharwyd Tyndal yn Antwerp yn 1531, ac ar ol caethiwed hir, dodwyd ef i farwolaeth yn 1536, yn Villevorde, yn agos i Brussels, o dan y cyhuddiad o heresi. Wedi marwolaeth Tyndal, darfu i Miles Coverdale, yr hwn ar ol hyny a ddyrchafwyd gan Edward VI. i esgobaeth Exeter, arolygu yr holl Feibl, a'i gyflwyno i Harri VIII., A.D. 1535; ac yn 1537, ail gyhoeddodd John Rogers, yr hwn a gynnorthwyasai Tyndal, a'r hwn oedd y pryd hwnw yn aros yn Antwerp, argraffiad wedi ei gymmeryd o Feibl Tyndal a Coverdale, gyda rhai cyfnewidiadau, ac o dan yr enw mabwysiedig Thomas Matthews.

*Beibl Cranmer.*—Ymddangosodd yr hyn a elwir y Beibl Mawr, yn 1539. Beibl Coverdale ydoedd wedi ei ddiwygio ganddo ef a Cranmer, a'i argraffu ar dudalen unplyg mawr *(folio)*, ac o herwydd ei faintioli a elwid y *Beibl Mawr*. Ysgrifenodd Cranmer ragymadrodd i argraffiad 1540, ac am hyny gelwir ef Beibl Cranmer.

*Beibl Genefa.*—Yn ystod teyrnasiad Mari, yn 1557—1560, cyhoeddwyd Beibl Genefa. Cyhoeddodd Coverdale, John Knox, Christopher Goodman, a ffoaduriaid ereill y rhai a ddaethent i Genefa am noddfa, yr holl Feibl, gyda chrynhodeb o'r cynnwysiad, nodiadau minddalenol, mapiau, ac esboniadau byrion. Oddiwrth y lle y cyhoeddwyd ef, gelwir ef yn gyffredin *Beibl Genefa.*

*Beibl yr Esgobion.*—Derbyniodd yr archesgob Parker awdurdod oddiwrth y frenines Elizabeth, i arolygu y cyfieithiadau ag oeddynt y pryd hwnw ar gael: a thrwy gynnorthwy amryw o esgobion, ac ereill, cyhoeddodd yn 1568, yr hyn a elwir *Beibl yr Esgobion.*

*Beibl y Pabyddion.*—Gwneir i fyny y Beibl Seis'nig a ddefnyddir gan y Pabyddion yn y deyrnas hon, o'r Testament Newydd, yr hwn a gyhoeddwyd yn Rheims, Ffrainc, yn 1582, ac o'r Hen Destament, yr hwn a gyhoeddwyd yn Douay, Ffrainc, yn 1609, 1610. Mae gwahaniaeth mawr rhyngddo a'r cyfieithiad awdurdodedig, a chamgyfieithiadau o bwys mewn rhai lleoedd; er engraifft:—

Gen. iii. 16. "Hi a ysiga dy ben di, a thithau a orweddi mewn dysgwyliad am ei sawdl hithau."

Diar. xviii. 22. "Mae yr hwn sydd wedi cael gwraig dda, wedi cael peth daionus, ac efe a gaiff bleser oddiwrth yr Arglwydd. Mae yr hwn sydd yn bwrw ymaith wraig dda, yn bwrw ymaith beth daionus; ond y mae yr hwn sydd yn cadw godinebwraig, yn ynfyd a drygionus."

Mat. iii. 2. "Gwnewch benyd; oblegyd y mae teyrnas nefoedd yn ymyl."

Luc xv. 10. "Felly meddaf i chwi y bydd llawenydd o flaen angylion Duw am un pechadur a wnelo benyd."

Heb. xi. 21. "Trwy ffydd Jacob wrth farw a fendithiodd bob un o feibion Joseph, ac a addolodd ben ei ffon."

O'r Vulgate y gwnaed y cyfieithiad hwn, ac nid o'r testyn gwreiddiol yn y Groeg a'r Hebraeg.

Fe ganfyddir fod y cyfieithiad uchod yn gwyro gair Duw i bleidio Pabyddiaeth. Yn Gen. iii. 16, dodir "*hi*" yn lle "*efe*," er dyrchafu Mair yn fwy na'r Iesu; yn Mat. iii. 2, a Luc xv. 10, ceir "*gwneyd penyd*" am "*edifarhau*," er cefnogi penydiau yr Eglwys Babaidd; yn Heb. xi. 21, dywedir fod Jacob wedi "*addoli pen ei ffon*," er cyfiawnhau addoliad delwau. Mae y cyfieithwyr wedi rhoddi y gair "*da*" i mewn yn Diar. xviii. 22, mewn cyssylltiad â gwraig, yn nghydag ychwanegu eu hesboniad eu hunain, er gwneyd i fyny yr hyn a ystyrient yn ddiffygiol yn lleferydd yr Ysbryd, a rhoddi eu barn eu hunain ar y pwnc. Pwy ond llygrwyr y gwirionedd a feiddient gymmeryd y fath hyfdra!

*Y Cyfieithiad Awdurdodedig.*—Yn 1603, penderfynodd y brenin Iago, fod i'r cyfieithiad Seis'nig o'r Beibl gael ei arolygu o newydd, ac appwyntiodd 54 o ddynion dysgedig a duwiol at y gorchwyl. Nid ymaflodd ond 47 yn y gwaith, ac mewn pedair blynedd yr oedd wedi ei orphen. Y testyn a barotowyd fel hyn, ac a argraffwyd yn 1611, yw yr hyn a elwir y *Cyfieithiad Awdurdodedig.* (*Bible Hand-Book*, pp. 62, 63.)

Yr oedd y pethau canlynol yn mhlith CYFARWYDDIADAU Y BRENIN IAGO I'R CYFIEITHWYR:—

1. "Fod Beibl yr Esgobion i gael ei ddilyn a pheidio ei gyfnewid mor bell ag y caniatâ y iaith wreiddiol.

2. Fod enwau y prophwydi a'r ysgrifenwyr santaidd, yn nghydag enwau ereill yn y testyn, i gael eu gadael mor agos ag y gellir fel y defnyddir hwynt yn gyffredin.

3. Fod yr hen eiriau eglwysig i gael eu cadw, megys y gair *eglwys* i beidio cael ei gyfieithu *cynnulleidfa*,* &c.

4. Pan y bydd unrhyw air yn meddu gwahanol ystyron, fod yr ystyr hono i gael ei mabwysiadu yr hon a ddefnyddid fynychaf gan y Tadau enwocaf, os bydd yn gweddu i'r lle, ac yn ol cyssondeb y ffydd.

5. Nad oes nodiadau minddalenol i gael eu hychwanegu, ond yn unig er eglurhad y geiriau Hebraeg a Groeg, y rhai nas gellir gosod allan eu hystyr yn fyr a phriodol yn y testyn." †

*Diwygiad y Cyfieithiad Awdurdodedig.*—Pan yr ydym yn dwyn allan y gwaith hwn, y mae Pwyllgor yn eistedd i arolygu a diwygio y cyfieithiad Awdurdodedig Seis'nig. Gan fod hon yn ffaith bwysig a dyddorol, ni a ddodwn yma hanes y symmudiad hwn, wedi ei ddyfynu o'r *Manchester Examiner*, am Mehefin 1af, 1870.

* Yn Meiblau Tyndal, Coverdale, Cranmer, a Genefa, cyfieithir y gair *eglwys* yn *gynnulleidfa*, ond yn Meibl yr Esgobion, *church* a geir. Gwel engreifftiau yn *Conant's Hist.* tudal. 462, 463.

† *Conant's History of the English Bible*, pp. 432, 433.

## THE REVISION OF THE SCRIPTURES.

At the first meeting of the committee appointed by the Convocation of Canterbury, May 6th, 1870, the following resolutions and rules were agreed to, as the fundamental principles on which the revision is to be conducted:—

I. That the Committee appointed by the Convocation of Canterbury at its last session separate itself into two companies, the one for the revision of the authorised version of the Old Testament, the other for the revision of the authorised version of the New Testament.

II. That the company for the revision of the authorised version of the Old Testament consist of the Bishops of St. Davids, Llandaff, Ely, Lincoln, and Bath and Wells, and the following members from the Lower House; Archdeacon Rose, Canon Selwyn, Dr. Jebb, and Dr. Kay.

III. That the company for the revision of the authorised version of the New Testament consist of the Bishops of Winchester, Gloucester and Bristol, and Salisbury, and of the following members from the Lower House:—The Prolocutor, the Deans of Canterbury and Westminster, and Canon Blakesley.

IV. That the first portion of the work to be undertaken by the Old Testament Company be the revision of the authorised version of the Pentateuch.

V. That the first portion of the work to be undertaken by the New Testament Company be the revision of the authorised version of the Synoptical Gospels.

VI. That the following scholars and divines be invited to join the Old Testament Company:—Dr. W. L. Alexander, Professor Chinnery, Canon Cook, Professor A. B. Davidson, Dr. B. Davies, Professor Fairbairn, the Rev. F. Field, Dr. Ginsburg, Dr. Gotch, Archdeacon Harrison, Professor Leathes, Professor M'Gill, Canon Payne Smith, Professor J. H. Perowne, Professor Plumptre, Canon Pusey, Dr. Wright (British Museum), W. A. Wright (Cambridge).

VII. That the following scholars and divines be invited to join the New Testament Company:—Dr. Angus, the Archbishop of Dublin, Dr. Eadie, the Rev. F. J. A. Hort, the Rev. W. G. Humphry, Canon Kennedy, Archdeacon Lee, Dr. Lightfoot, Professor Milligan, Professor Moulton, Dr. J. H. Newman, Professor Newth, Dr. A. Roberts, the Rev. G. Vance Smith, Dr. Scott (Balliol College), the Rev. F. Scrivener, Dr. Vaughan, and Canon Westcott.

VIII. That the general principles to be followed by both companies be as follow:—

1. To introduce as few alterations as possible into the text of the authorised version consistently with faithfulness.
2. To limit, as far as possible, the expression of such alterations to the language of the authorised and earlier English versions.
3. Each company to go twice over the portion to be revised, once provisionally, the second time finally, and on principles of voting as hereinafter is provided.
4. That the text to be adopted be that for which the evidence is decidedly preponderating, and that when the text so adopted differs from that from which the authorised version was made, the alteration be indicated in the margin.

5. To make or retain no change in the text on the second final revision by each company, except two-thirds of those present approve of the same, but on the first revision to decide by simple majorities.

6. In every case of proposed alteration that may have given rise to discussion, to defer the voting thereupon till the next meeting, whensoever the same shall be required by one third of those present at the meeting, such intended vote to be announced in the notice for the next meeting.

7. To revise the headings of chapters, pages, paragraphs, italics, and punctuation.

8. To refer, on the part of each company, when considered desirable, to divines, scholars, an literary men, whether at home or abroad, for their opinions.

IX. That the work of each company be communicated to the other as it is completed, in order that there may be as little deviation from uniformity in language as possible.

X. That the special or by-rules for each company be as follow :—

1. To make all corrections in writing previous to the meeting.

2. To place all the corrections due to textual considerations on the left hand margin, and all other corrections on the right hand margin.

3. To transmit to the chairman, in case of being unable to attend, the corrections proposed in the portion agreed upon for consideration.

May 25, 1870. S. WINTON, Chairman.

The New Testament Company will meet at 12 o'clock, on June 22nd and 23rd, at the Jerusalem Chamber Cloisters, Westminster.

---

Mae y dysgedigion uchod yn cynnwys Annibynwyr (Dr. W. L. Alexander, Dr. Ginsburg, Proffeswr Newth); Wesleyad (Proffeswr Moulton); Undodwr (Y Parch. G. Vance Smith); Pabydd (Dr. J. H. Newman); Bedyddwyr (Dr. Angus, Dr. Gotch, a Dr. B. Davies); a Phresbyteriaid ac Eglwyswyr. Gwrthododd Dr. Newman ac un neu ddau arall a gweithredu. Ni olygir gwneyd cyfieithiad newydd, ond diwygio yr hen, a hyny mor gynnil ag y bydd sefyllfa bresennol dysgeidiaeth gyssegredig yn caniatâu. Gellir gwneyd gwelliannau pwysig ynddo (a'r un modd yn y Beibl Cymraeg) trwy ail-gyfieithu rhai brawddegau, a rhoddi grym y gwahanol amserau (megys yr *aorist*, yr *imperfect*, a'r *perfect*, yr hyn a gollir yn y cyfieithiad awdurdodedig presennol), neb newid ei nodweddau cyffredinol fel cyfieithiad.

Mae yr UNDEB BEIBLAIDD AMERICANAIDD hefyd yn nglyn â'r un gwaith. Ffurfiwyd yr Undeb hwn yn Ebrill, 1837, o dan yr enw, "*Y Gymdeithas Feiblaidd Americanaidd a Thramor*," gyda Dr. S. H. Cone yn llywydd arni. Newidiwyd yr enw yna yn 1850, a galwyd y Gymdeithas, "Yr Undeb Beiblaidd Americanaidd." Achlysur ei sefydliad ydoedd yr anghydweledlad rhwng y Bedyddwyr a'r Cymdeithasau Beiblaidd yn y wlad hon ac America yn nghylch cyfieithiadau Cenadon y Bedyddwyr yn India; a Bedyddwyr sydd yn ei gyfansoddi o'r dechreu, er eu bod yn gwahodd dysgedigion o bob enwad a gwlad i'w cynnorthwyo yn yr anturiaeth. Amcan proffesedig yr Undeb ydyw, yn ol y cyfarwyddiadau i'r cyfieithwyr,—"Rhoddi ystyr gywir y testyn ysbrydoledig, fel y cyfleai y testyn hwnw ef i'r rhai a ddeallent yr Ysgrythyrau gwreiddiol yn yr amser yr ysgrifenwyd hwynt, mewn geiriau a brawddegau cyfatebol, mor bell ag y gellir eu cael, yn iaith frodorol y rhai y bwriedir y cyfieithiad

iddynt, a hyny mor eglur a phendant ag y byddo yn bossibl." Lle y mae cyfieithiad mewn arferiad, mae hwnw i gael ei ddefnyddio fel sylfaen cyfieithiad diwygiedig; a phob ymyraeth afreidiol â'i ieithwedd sefydlog i gael ei ochelyd. Y Testyn Derbyniedig o'r Testament Groeg, wedi ei ail olygu a'i ddiwygio, ydyw sail pob cyfieithiad newydd o'r Testament Newydd. Cyhoeddodd yr Undeb o bryd i bryd amryw o lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, yn cynnwys Rhaglithiau, y Testyn Gwreiddiol, a Chyfieithiad Diwygiedig, gyda Nodiadau Beirniadol ac Eglurhaol fel rhesymau dros y cyfnewidiadau a wneir. Mae argraffiad diwygiedig rhad o'r Testament Newydd wedi cael ei gyhoeddi yn yr iaith Saesonaeg, yr hwn a ellir ei gael trwy unrhyw lyfrwerthwr. Y mae yn welliant pwysig ar yr hen gyfieithiad mewn llawer o engreifftiau; ond y mae swyn ac ystwythder annghymharol y cyfieithiad awdurdodedig yn cael eu colli ynddo i raddau helaeth. Bydd yn gaffaeliad gwerthfawr i'r efrydydd ac i athrawon yr Ysgolion Sabbathol, gan ei fod yn cynnwys ffrwyth dysgeidiaeth Feiblaidd addfetaf y ganrif bresennol.

## VI. Y Beibl Cymraeg.

Rhaid fod gair Duw gan y Cymry, yn flaenorol i'r un cyfieithiad ag y gwyddom ni am dano yn awr. Casglwn hyn oddiwrth gymmeriad crefyddol y bobl. Dodwn yma fraslun byr o hanes y cyfieithiadau diweddar, gan fod yn debygol fod hen Feibl Cymraeg y Cymry wedi cael ei ddinystrio gan eu gelynion, cyn i'r un ysgrifell gofnodi ei ragoriaethau; oddi eithr, yn wir, i'w hanes hefyd fyned ar goll.

Dywed Dr. Richard Davies, yn ei lythyr rhagarweiniol i Destament William Salisbury, ei fod ef wedi gweled, pan yn fachgenyn, yn nhŷ ewythr iddo, gyfieithiad Cymraeg o Bum' Llyfr Moses, yr hyn oedd oddeutu y flwyddyn 1527, a rhaid ei fod wedi cael ei wneuthur, ac yn cael ei ddefnyddio cyn yr adeg hòno.

Cyfieithwyd rhanau o'r Beibl i'r iaith Gymraeg yn ystod teyrnasiad Edward VI., A.D. 1547—1553.

Yn 1551, cyhoeddodd William Salisbury lyfryn a elwid "Rhanau o'r Ysgrythyr, appwyntiedig i'w ddarllen mewn eglwysi yn amser y cymmun, a gwasanaeth cyhoeddus, &c., gan W. S." Yr oedd hwn yn cynnwys yr Efengylau a'r Epistolau.

Yn 1563, cyhoeddwyd deddf seneddol, yn gorchymyn fod yr Hen Destament a'r Newydd, yn nghyda'r Llyfr Gweddi Cyffredin, i gael eu cyfieithu i'r Iaith Gymraeg, a bod esgobion Llanelwy, Bangor, Tŷ Ddewi, Llandaf, a Henffordd, i ofalu am y gwaith. Yr oedd y cyfieithiad i fod yn barod erbyn Mawrth 1af, 1566, a dirwy o 40p. i'w thalu gan bob un o'r esgobion uchod, os na fyddai y gwaith wedi ei wneyd.

Yn 1567, ymddangosodd cyfieithiad Cymraeg o'r Testament Newydd gan William Salisbury. Ymddengys fod rhanau o hono wedi cael eu cyfieithu gan ereill; sef y Datguddiad, gan T. H., C. M. (Thomas Huet, Cantor Menyw, sef Tŷ Ddewi, fel y bernir); ail Epistol Paul at Timotheus, yr Epistol at yr Hebreaid, Epistol Iago, ac Epistolau Pedr, gan D. R. D. M. (hyny yw, Dr. Richard Davies, Menevensis, neu esgob Tŷ Ddewi);

ond y gweddill gan W. S., sef William Salisbury, Cae Du, Llansannan, sir Ddinbych.

Er y ddeddf seneddol, bu y Cymry yn hir cyn cael Beibl cyflawn. Nid ymddangosodd yr Hen Destament hyd 1588. Cyfieithwyd ef gan Dr. William Morgan, vicar Llanrhaiadr yn Mochnant, yr hwn a wnaed yn esgob Llandaf yn 1595, ac esgob Llanelwy yn 1601, ac a fu farw yno yn 1604. Arolygodd hefyd y cyfieithiad blaenorol o'r Testament Newydd Yn ystod teyrnasiad Iago I., arolygwyd a diwygiwyd y cyfieithiad Cymraeg yn mhellach gan Dr. Richard Parry, yr hwn a ganlynodd y Dr. Morgan fel esgob Llanelwy. Argraffwyd y cyfieithiad diwygiedig hwn yn Llundain yn 1620, ac efe yw sail yr holl argraffiadau diweddarach o'r Beibl Cymraeg.

*Yr Oraclau Bywiol.*—Ni fyddai yr adran hon yn gyflawn pe na chrybwyllem am gyfieithiad gwerthfawr y diweddar Barch. John Williams, Drefnewydd, o'r Testament Newydd. Gorphenwyd y cyfieithiad, ac argraffwyd ef yn 1842. Rhagflaenir ef gan "Nodiadau Rhaglithiol" gwerthfawr ar y gwahanol ysgriflyfrau ac ansawdd y testyn gwreiddiol, gan y Cyfieithydd; a chan Raglithiau pwrpasol i lyfrau y Testament Newydd, gan Alexander Campbell; a dilynir ef gan Attodiad, yn cynnwys math o Eiriadur Beirniadol a Duwinyddol ar wahanol eiriau ac ymadroddion, yn nghyda Nodiadau Beirniadol, gan Alexander Campbell a'r Cyfieithydd dysgedig.

Mae y Rhaglithiau a'r Attodiad yn dra gwerthfawr, yn neillduol felly y Rhaglithiau. Credwn pe buasai y Cyfieithydd wedi cyfansoddi yr Attodiad ei hun, na fuasai y darllenydd ar ei golled. Nid yw A. Campbell yn feirniad diogel i'w ddilyn; yr oedd yn ymddiried gormod yn ei gof wrth gyfansoddi, ac felly nid ydyw yn wastad yn gywir *(accurate)*. Ceir un engraifft o'r anniofalwch hwn yn A. Campbell wedi llusgo i mewn i'r *Oraclau Bywiol*, tudal. 474, lle y dywedir fod "genêthê anôthen" yn dygwydd yn 1 Pedr i. 23, tra mai "anagennaô" a geir yno.

Tra y credwn fod cyfieithiad Mr. Williams o lawer o adnodau yn rhagori ar y cyfieithiad awdurdodedig, megys Ioan i. 9. Act. iii. 19. Rhuf. v. 18, vi. 17, viii. 33, 34. 1 Thess. v. 23. Ephes. v. 26: a lleoedd ereill; eto, ymddengys cyfieithiad ambell i adnod yn fwy o arall-eiriad nag o gyfieithiad, megys Mat. iii. 10, xvi. 28: a rhoddir cyfeiriad amheus i ystyr rhai ereill, megys Act. ix. 11; Rhuf. v. 12; a Heb. ix. 16, 17.

Buasai yn dda hefyd mewn gwaith a broffesa fod yn gyfieithiad diwygiedig yn yr oes hon, pe buasai grym y gwahanol amserau, yn neillduol yr amser anorphenol (*imperfect*), yn cael ei ddwyn allan yn fwy cyflawn ac eglur.

Er y pethau hyn oll, ystyriwn fod yr *Oraclau Bywiol* yn un o'r trysorau gwerthfawrocaf a all y darllenydd Cymreig ei ddodi yn ei lyfrgell; y mae yn adlewyrchu dysgeidiaeth ddofn a galluoedd beirniadol dysglaer y cyfieithydd; y mae y goleuni newydd a deifl yn fynych ar lawer o ranau o air y bywyd yn anmhrisiadwy: a thra byddo blas ar efrydu gair Duw yn yr iaith Gymraeg, bydd coffadwriaeth Williams y Rhos yn fendigedig, a'r *Oraclau Bywiol* yn gof-golofn anllygredig i'w ddysgeidiaeth a'i dduwioldeb.

## VII. CYFIEITHIADAU DIWEDDAR.

Yn ol *Dr. Eadie's Ecclesiastical Cyclopædia*, yr oedd y Beibl wedi cael ei gyfieithu, yn gyflawn neu yn rhanol, i 131 o ieithoedd diweddar Ewrop, Asia, Affrica, ac America, erbyn y flwyddyn 1861. Erbyn y flwyddyn 1877, yr oedd wedi cael ei gyfieithu, yn gyflawn neu yn rhanol, i 210 o ieithoedd y byd. Yr oedd 36 o'r ieithoedd hyn heb feddu ffurfiau llythyrenol nes i'r Cenadon greu rhai iddynt. Mae yr ieithoedd hyn yn cael eu llefaru gan bedair rhan o bump o'r holl deulu dynol, fel y mae yn eglur fod yr amser yn agos, pan y caiff pob llwyth o ddynion o dan y nef ddarllen "yn eu hiaith eu hunain, yn yr hon y ganed hwynt, fawrion weithredoedd Duw." Tua diwedd y ganrif ddiweddaf, bernir *nad oedd pum' miliwn o gopïau o'r Beibl, yn gyflawn nac yn rhanol, yn yr holl fyd;* ac nad oedd y rhai hyny o fewn cyrhaedd mwy na hanner can' miliwn o ddynion, i allu eu darllen a'u myfyrio. Yr oedd llawer o ardaloedd y pryd hyny yn Lloegr ac Ysgotland, yn mha rai nas gellid gweled copi o'r Beibl yn un lle ond yn eglwys y plwyf. Yn y flwyddyn 1804, ffurfiwyd y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaidd a Thramor. Darfu i'r Gymdeithas hon, yn nghyda Chymdeithasau ereill cyffelyb iddi yn Ewrop ac America, erbyn y flwyddyn 1877, argraffu uwchlaw CAN MILIWN o gopïau o'r Beibl, yn gyflawn neu yn rhanol; ac arllwysant allan filiynau o gopïau yn adnewyddol bob blwyddyn. "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd, i ddynion ewyllys da!" Luc ii. 14. (*The Annual Report of the Baptist Missionary Society*, 1877, pp. 9, 10: *The Annual Report of the British & Foreign Bible Society*, 1877.)*

* Gwel ar gynnwysiad y bennod hon: *Horne's Introduction*, vol. ii.; *Dr. Angus's Bible Hand-Book; Kitto's Cyclopædia; Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible; Eadie's Ecclesiastical Cyclopædia; Conant's History of the English Bible; Anderson's Annals of the English Bible; Geiriadur Duwinyddol* y Parch. John Jones (*Mathetes*); *Y Gwyddoniadur Cymreig*: a *Geiriadur Ysgrythyrol* Charles.




HUGHES & SON, WREXHAM.

## PENNOD X.

### NODWEDDAU GWAHANIAETHOL AC ARBENIGOL Y BEIBL.

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Y Beibl, y Llyfr hynaf a mwyaf ei amrywiaeth—Yr unig Lyfr Dwyfol—Y Llyfr puraf—Y Llyfr â'r amcan pwysicaf ac ardderchocaf ganddo—Yr unig Ddadguddiad cywir, eglur, ac awdurdodol o Dduw a'i bethau—Yr unig Lyfr ag sydd yn galw sylw parhaus ato ei hun—Yr Awdurdod uchaf a therfynol mewn crefydd, a'r unig Lyfr perffaith ac anniwygiadwy.*

YN y pennodau blaenorol, yr ydym wedi nodi amryw bethau cyssylltiedig â chynnwysiad, Dwyfoldeb, a chymmeriad y Beibl; yn y bennod hon gwnawn rai nodiadau ychwanegol ac adolygiadol ar y gyfrol santaidd, gan geisio nodi allan ar fyr eiriau ei nhodweddau arbenigol.

I. Y BEIBL YW Y LLYFR HYNAF A MWYAF EI AMRYWIAETH YN Y BYD.

Yr oedd Moses yn ysgrifenu tua chwe' chant a hanner o flynyddoedd o flaen dyddiau Homer, y bardd Groegaidd; a thua naw can' mlynedd cyn Confucius, yr athronydd Chiniaidd.

Yr hanesydd hynaf yn mhlith y Groegiaid oedd Herodotus, yr hwn a flodeuodd tua phedwar can' mlynedd cyn Crist, a thros fil o flynyddoedd ar ol dyddiau Moses.

Cafodd Rhufain ei sylfaenu tua'r flwyddyn 753 cyn Crist; ond nid oes gan Livy, ac ereill o'r haneswyr Lladinaidd, ond traddodiadau disail a dychymmygion gwylltion am hanes ei dechreuad.

Mor wahanol i hyn yw hanesiaeth y Beibl. Cawn yma hanes dechreuad y byd, a chreadigaeth a chynnydd y teulu dynol ar y ddaear; a chawn oleuni ynddo ar eu holl helyntion a'u trallodion, yn y dadguddiad mai pechod yw ffynnonell pob trueni.

Mae y Beibl o ran ei deithi llênyddol y llyfr rhyfeddaf ac ardderchocaf ar y ddaear. Cawn yr *hanesiaeth* fwyaf eglur a syml ynddo; y *farddoniaeth* fwyaf hedegog ac ysbrydoledig; yr *arucheledd* mwyaf diledryw ac enaid-cynhyrfiol; y *moliant* uchaf a mwyaf nefolaidd; y *gweddiau* mwyaf gafaelgar a ffyddiog; y *cyffesiadau* mwyaf dwys a thoddedig, i'r rhai y gall yr enaid edifeiriol ymdywallt yn naturiol; yr *athrawiaethau* godidocaf am ddyfnion bethau Duw ac anchwiliadwy olud gras. Cynnwysa *ddammegion*, *diarhebion*, *addewidion*, *dyledswyddau*, a *chyfarwyddiadau* ag sydd yn agor y deall, coethi y chwaeth, goleuo y meddwl, puro y galon, gwroli y gobaith, a nerthu y ffydd, nes peri i ddyn gynnyddu ar gynnydd Duw, ac adlewyrchu rhinweddau yr Hwn yw ffynnonell pob pherffeithrwydd.

## II. Y Beibl yw yr unig Lyfr Dwyfol.

Hwn yn unig a gafodd ei roddi trwy ysbrydoliaeth Duw, a hwn yn unig sydd yn meddu awdurdod ag mae cydwybod yn gydnabod.

Mae llawer o lyfrau dynol yn fuddiol a gwasanaethgar iawn. Ceir rhai o honynt yn darlunio gwahanol wledydd, ereill yn cofnodi gweithrediadau Rhagluniaeth, ereill yn egluro deddfau anian, y meddwl, a iechyd; ond y Beibl yw yr unig lyfr Dwyfol, ac oblegyd hyny, yr unig lyfr a wna'r tro i ddyn fel deddf-lyfr crefydd, gan nad ydyw cydwybod dyn yn cydnabod yr un awdurdod ond eiddo Duw.

## III. Y Beibl yw y Llyfr puraf yn y byd.

"Santeiddrwydd" yw arwyddair hwn. Y mae yn condemnio pechod yn mhawb, yn mhob ffurf ac agwedd arno, yn y bwriad yn ogystal ag yn y cyflawniad, ac o dan bob amgylchiad.

Gwelsom yn Pennod III., tudal. 70, fod y doethion paganaidd yn cyfiawnhau y pechodau mwyaf ysgeler o dan amgylchiadau neillduol; dysgai Hume, yr anffyddiwr, nad oedd bywyd yn cael ei fwynhau yn y modd mwyaf manteisiol heb droseddu y seithfed gorchymyn; a cheisiai Robert Dale Owen argyhoeddi y byd fod i feibion a merched fyw gyda'u gilydd mewn puteindra heb briodi, gyda rhyddid i ymadael â'u gilydd ar ddiwrnod o rybydd, yn well na thrwy briodi yn ol gosodiad

Duw!* Ond nid yw y Beibl yn rhoddi y gefnogaeth leiaf i bechod o un math; y mae yn gwahardd pob pechod yn y modd mwyaf llwyr a phenderfynol: y mae yn gosod allan gymmeriad y Jehofah, yr hwn sydd lanach ei lygaid fel nas gall edrych ar ddrwg, yn safon perffeithrwydd; "Byddwch santaidd; canys santaidd ydwyf fi." (1 Pedr i. 16.)

IV. Gan y Beibl y mae yr amcan pwysicaf ac ardderchocaf o bob llyfr.

Llyfr Duw i ddysgu *crefydd* i'r byd ydyw, ac nid i ddysgu gwybodaethau israddol, nac i foddhau *cywreinrwydd* neb.

Mae yn wir ei fod yn dysgu llawer o bethau ereill pwysig a dyddorol. Dysga ni yr hanesiaeth henaf a rhyfeddaf yn y byd; teifl oleuni ar ddaearyddiaeth cyfandiroedd a gwledydd, ac ar arferion gwahanol oesau a chenedloedd; ond ei brif amcan yw dysgu crefydd i'r byd. Nid yw yn cofnodi hanesiaeth ond mor bell ag mae yn egluro gweithrediadau Duw yn amgylchiadau dynion. Cofnoda farnedigaethau Duw, er dangos ei atgasrwydd at bechod; dadguddia ei ymweliadau grasol â'i bobl, er dangos fod yn hoff ganddo drugaredd; desgrifia hanes codiad a chadwraeth y genedl Israelaidd, er dangos cyflawniad yr addewid am y Gwaredwr; a gesyd allan hanes y Messiah mor bell ag sydd yn anghenrheidiol, er dangos ei wir gymmeriad fel y Duw-ddyn, y Prophwyd, yr Offeiriad, y Brenin, a'r Ceidwad gogoneddus. Dysga ni am athrawiaethau gras a bwriadau y Duwdod, i'r graddau ag mae'n anghenrheidiol eu gwybod er cael iachawdwriaeth; cyfoda y llèn oddiar ryfeddodau y byd arall, mor bell ag sydd yn ofynol er ein dysgu am eu bodolaeth a'u difrifoldeb; ond nid yw ei ddyben yn gofyn iddo ddysgu pethau ereill, na boddhau cywreinrwydd dyn—hyd y nod am y pethau a ddadguddia. Ac wrth sylwi arno, yr ydym yn cael nad ydyw yn ymostwng i foddhau ein cywreinrwydd. Mor ychydig a wyddom am angeu, ac am y sefyllfa ddyfodol! Mor ychydig a wyddom am hanes ieuenctyd Crist, am agwedd ei wynebpryd, a ffurf ei gorph! Ni chofnodir dim am deimlad Lazarus wrth farw, ac ar ei fynediad i'r byd arall! Ni allai Paul ddweyd dim am ryfeddodau y drydedd nef! Pe buasai y Beibl o ddyn, cawsem yr holl bethau hyn gyda manylwch. Mae llyfrau

* *Discussion on the Authenticity of the Bible, between Origen Bacheler and Robert Dale Owen*, pp. 220–223.

Apocryphaidd yr Hen Destament a'r Newydd, yn proffesu cyfarfod â'r ysfa aflonydd sydd yn meddwl dyn am gael treiddio i ddirgelion pethau, a thrwy hyny yn dangos ar unwaith eu dynol darddiad; tra mai anrhydedd Duw yw celu peth, gan adael dirgelion hyd adeg ein preswyliad yn nhragywyddoldeb heb eu hesbonio. Mae cynnildeb dadguddiadau y Beibl, yn ogystal a'u nhatur, yn dangos eu bod wedi eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw.

V. Y BEIBL YW YR UNIG LYFR AG SYDD YN RHODDI DADGUDDIAD CYWIR, EGLUR, AC AWDURDODOL O DDUW, EI GYMMERIAD, A'I WEITHREDIADAU.

Heb y Beibl, nid oes gan ddyn ond rheswm ansicr, a dychymmyg dilywodraeth i'w arwain yn ei ymchwiliadau am Dduw, ei gymmeriad, a'i weithrediadau mewn creadigaeth a Rhagluniaeth, yn awr ac yn y dyfodol. Mewn rhai engreifftiau, gall fod dyn yn ymresymu yn gywir am Dduw a'i waith; ond yn absennoldeb y Beibl, nis gall byth gael *sicrwydd* o hyny. Yn y mwyafrif o engreifftiau, y mae plant dynion yn mhob oes wedi cyfeiliorni yn ddybryd gyda'r pwnc pwysig hwn; y mae cynnifer o syniadau wedi cael eu coleddu am Dduw, ag sydd o ymchwilwyr wedi bod i'w natur a'i gymmeriad. "Y byd trwy ddoethineb nid adnabu mo Dduw." (1 Cor. i. 21.) Pe buasai y byd heb gael ei freintio â dadguddiad goruwchnaturiol am Dduw, buasem ninau hyd heddyw yn yr un tywyllwch ac ansicrwydd am dano, fel y dengys hanes y paganiaid hyd y dydd hwn.

Ond y mae Duw wedi rhoddi dadguddiad helaethach, eglurach, a sicrach o hono ei hun na'r hyn a geir mewn natur; y mae wedi rhoddi i ni ei air santaidd i'n dysgu am dano ei hun a'i ewyllys; a'r Beibl yw yr unig ddadguddiad cywir, eglur, ac awdurdodol ar y pwnc. Nid yw dysgeidiaeth athronwyr Groeg a Rhufain ond casgliadau anmherffaith rheswm tywyll a llygredig; nid yw syniadau ffug-barchus deistiaid ond rhyw arddangosiad hannerog ac unochrog o'r Duw byw a'i gymmeriad; ac nid yw y dadguddiad o'i allu a'i berffeithderau yn y cread yn cael ei amgyffred gan ddyn ar ol y cwymp, gan fod ei olygon wedi cael eu dallu gan bechod; yn y Beibl yn unig y ceir golwg gywir ar Dduw, a dadguddiad cyflawn ac eglur o hono. Gesyd hwn ef allan fel Ysbryd pur a santaidd; Creawdwr a Llywydd y bydoedd;

y Duw cyfiawn a da, yr hwn sydd yn cosbi pechod, ond yn cyfiawnhau y neb sydd o ffydd Iesu; yr hwn sydd yn hirymarhous tuag at ei elynion; a'r hwn yn y diwedd a farna y byd mewn cyfiawnder, trwy y Gŵr a ordeiniodd efe.

### VI. Y BEIBL YW YR UNIG LYFR AG SYDD YN GALW SYLW MYNYCH ATO EI HUN.

Mae llyfrau ereill wedi eu cyfansoddi er dysgu dynion am wahanol ganghenau gwybodaeth; cyfeiriant sylw y darllenydd yn barhaus at y pwnc ag y maent yn proffesu ei egluro. Ond y mae y Beibl yn fynych yn galw sylw ato ei hun, at Ddwyfoldeb ei gyfansoddiad, at gyfoeth ei ymadroddion, at felusder a gwerth ei wirioneddau, ac at ei ffyddlondeb diwyrni a'i barhad gwastadol. Dywed fod ei gynnwysiad yn wirionedd; yn werthfawrocach na'r aur, ac yn felusach na'r mêl; yn foddion adnewyddiad dyn, ac yn parhau yn dragywydd. Gesyd ei wersi Dwyfol allan fel pethau na ddychymmygodd calon dyn am eu bath erioed, ac nad yw doethineb y byd ond ffolineb yn eu hymyl. Dysga eu bod yn foddion santeiddiad dyn, a geilw ar y darllenydd i fyfyrio arnynt beunydd, a'u trysori yn ei gof a'i galon, er mwyn iddo gynnyddu ar gynnydd Duw: gwel Deut. xxii. 1, 2. Salm cxix. Diar. viii. 6—11. Mat. vii. 21—27. Rhuf. vii. 12. Col. iii. 16. 1 Tim. iv. 15, 16. 2 Tim. iii. 15—17. Heb. iv. 12. 1 Pedr i. 25, ii. 2. 2 Pedr i. 19.

Nid oes un llyfr arall yn teilyngu y sylw parhaus y mae'r Beibl yn ei hawlio. Y mae dyddordeb llyfrau ereill yn diflanu wrth eu harfer yn fynych; ond y mae yr addysg a gyfrana y Beibl, a'r adeiladaeth a'r cysur a weinydda, yn anhysbyddadwy. Pa fwyaf a ddarllenir ac a fyfyrir arno, mwyaf oll o ogoniant ei wirioneddau a ddaw i'r golwg, a mwyaf oll o'i gysur a fwynheir. Y mae fel ffynnon ddihysbydd yn arllwys ei ffrydiau grisialaidd ddydd a nos, er lloni ac adfywio pererinion Seion. Mae ei gynnwysiad mor newydd ac adfywiol i'r enaid crediniol a phe buasai yr inc â'r hwn yr ysgrifenwyd ef gyntaf eto heb sychu. Hwn yw yr arweinydd diogelaf i ddyn mewn hawddfyd a llwyddiant, a'r cydymaith mwyaf ffyddlon a dyddanol mewn adfyd a chyfyngder. Ac ni flinir ar ei addysg gan bobl Dduw; dyma eu cân yn nhŷ eu pererindod, a'u hyfrydwch penaf ar eu taith i'r wlad well.

Mae cyfoeth dihysbydd ei ymadroddion, a gogoniant hanfodol ei gynnwysiad, yn cyfrif am ei waith yn galw sylw parhaus ato ei hun.

VII. Y BEIBL YW YR AWDURDOD UCHAF A THERFYNOL MEWN CREFYDD.

Nid oes appelio i fod oddiwrth ddedfryd hwn. Mae y prophwydi yn cyfeirio at ei leferydd fel yr awdurdod uchaf; "At y gyfraith, ac at y dystiolaeth." (Esai. viii. 20.) Yr un modd y mae Crist a'i apostolion; "Chwiliwch yr Ysgrythyrau" (Ioan v. 39); "A'r Ysgrythyr nis gellir ei thori" (Ioan x. 35); Pa beth a ddywed yr Ysgrythyr?" (Rhuf. iv. 3); "Mi a draddodais i chwi ar y cyntaf yr hyn hefyd a dderbyniais, farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr Ysgrythyrau." (1 Cor. xv. 3, 4.) Gwel hefyd Act. xiii. 33—35, 47, xv. 15—17, xvii. 11, xviii. 28. Rhuf. iii. 10. Heb. i. ii.

Nid oes dim yn meddu awdurdod deddf yn eglwys Dduw, ond y Beibl; a hwn sydd i roddi terfyn ar bob dadl grefyddol yn mhlith dynion. Gresyn na ystyrid hyn yn ddifrifol. Yn ol fel y mae pethau yn awr, y mae eisieu troi crefyddwyr at y Beibl, yn ogystal a throi y byd at Dduw.

Y Beibl yw unig ddeddflyfr Seion, a'r awdurdod uchaf a therfynol mewn pethau crefyddol.

VIII. Y BEIBL YW YR UNIG LYFR PERFFAITH AC ANNIWYGIADWY.

Nid oes ychwanegu ato, na diwygio arno i fod. Y mae wedi ei orphen a'i berffeithio, a sêl Duw wedi ei rhoddi arno, a gwae y neb a gyfnewidio ddim arno yn dragywydd. Yn wir, nid oes eisieu ei gyfnewid, gan ei fod yn deilwng o Dduw, ac yn ateb i anghenion dyn. Nid yw ei ddysgeidiaeth na'i gyfarwyddiadau byth yn myned yn anamserol a diwerth, ond y mae eu cyfaddasrwydd yn dyfod yn fwy i'r golwg yn mhob oes, a gwir gynnydd dynoliaeth i'w fesur yn ol y graddau y daw i fyny â dysgeidiaeth Ddwyfol y Beibl.

Mae llyfrau a chyfundraethau dynol yn myned heibio, a rhai perffeithiach yn cymmeryd eu lle; ond "Gair yr Arglwydd sydd yn aros yn dragywydd." Fe ddiflana y gau

grefyddau o'r byd, ac fe gilia Cristionogaeth lygredig o'r golwg; ond fe ddaw y Beibl i fri yn mhob gwlad, ac ni all yr un ddefod nac athrawiaeth groes iddo fodoli. Ni dderbynir dim ond yr hyn a ddysgir ganddo ef. Y pryd hyny fe fydd y Beibl a syniadau dynion yn cydgordio, a dysgeidiaeth bur y gair Dwyfol yn cael ei gweithio allan yn mywyd santaidd preswylwyr y ddaear. Yna fe glywir llef tyrfa fawr yn dywedyd, "Aleluia: oblegyd teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog." (Dad. xix. 6.)

Bydded i'r gyfrol fendigedig hon fod yn hyfrydwch i ni dros ein holl fywyd, ac i'r iachawdwriaeth a amlyga fod yn etifeddiaeth i ni byth!

## PENNOD XI.

### Y FANTAIS O GAEL EWYLLYS DUW YN YSGRIFENEDIG.

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Y gelfyddyd o Ysgrifenu, a'i hynafiaeth—Ysgrifeniad Ewyllys Duw yn bwysig er ei chadwraeth yn y byd—Er ei diogelu rhag cael ei llygru—Er i ddyn allu barnu drosto ei hun—Ac er adeiladaeth a chynnydd y Cristion.*

Y MAE y gelfyddyd o ysgrifenu yn un o'r bendithion gwerthfawrocaf a fedd y teulu dynol. Trwy hon a'i llawforwyn, y gelfyddyd o argraffu, y mae preswylwyr un wlad yn gallu cymdeithasu â phreswylwyr gwledydd ereill; meddiannau ac etifeddiaethau yn cael eu sicrhau i'w gwir berchenogion; a dysgeidiaeth, darganfyddiadau, a doethineb un oes, yn cael eu trosglwyddo i oesoedd dilynol.

Ni sonir am *ddarganfyddiad* y gelfyddyd o ysgrifenu, mwy nag am ddechreuad iaith. Dichon fod Duw wedi dysgu dyn ar y cyntaf i drosi ei feddwl trwy ysgrifenu, megys ag y rhoddasai allu i ddyn i drosglwyddo ei feddwl trwy eiriau llafaredig; ac er cadarnhad o hyn, dywedir nad oes hanes am neb wedi dyfeisio llythyrenau oddi eithr ei fod yn gyntaf wedi gweled rhai, neu glywed am danynt; a bod pob cenedl a allai ysgrifenu yn proffesu ei bod wedi derbyn y wybodaeth am y gelfyddyd oddiwrth rhyw dduw neu gilydd.

Bernir yn gyffredin mai Duw, trwy ysgrifenu y Deg Gorchymyn ar Sinai, a ddysgodd ddynion gyntaf am y gelfyddyd o ysgrifenu; mae'n ymddangos, modd bynag, nad yw hyn yn gywir, o herwydd y pethau canlynol:—

(1,) Os mai y pryd hwnw y dadguddiwyd y wybodaeth hon i'r byd, mae'n debyg y cofnodasid hyny gyda'r pethau ereill a gofnodir am roddiad y ddeddf.

(2,) Mae'n ymddangos yn anhygoel fod celfyddyd mor werthfawr ac anghenrheidiol wedi cael ei chuddio oddiwrth y byd am ddwy fil a hanner o flynyddoedd.

(3,) Sonir am *ddechreuad* gweithio mewn haiarn ac efydd, a dechreuad chwareu ar y delyn a'r organ, tra na wneir am ddechreuad ysgrifenu; yr hyn a awgryma fod dynion yn gallu gwneyd cofnodion o'r dechreuad.

(4,) Ceir manylion oesau boreuol y byd yn llyfr Genesis, megys hanes ac achau y patriarchiaid, maintioli yr arch, &c.; mae'n bossibl fod Moses wedi gwneyd defnydd o gofnodion ysgrifenedig am y pethau hyn, a'u corphori yn ei ysgrif ei hun.

(5,) Dichon fod "*llyfr* cenedlaethau Adda" yn Gen. v. 1, yn cyfeirio at gofrestr ysgrifenedig o honynt, yn debyg i Mat. i. 1.

(6,) Mae'n debyg fod Job yn blodeuo cyn rhoddiad y ddeddf ar Sinai; sonir yn hwnw fwy nag unwaith am y gelfyddyd o ysgrifenu. (Job xix. 23, 24, xxi. 35.)

(7,) Gorchymynwyd i Moses ysgrifenu hanes gorchfygiad Amalec *cyn rhoddiad y gyfraith* ar Sinai. (Exod. xvii. 14.)

(8,) Yn mhlith y dinasoedd a gymmerodd Israel oddiar y Canaaneaid, yr oedd un o'r enw Debir, enw gwreiddiol yr hon oedd Ciriath-sannath, sef *Dinas Llythyrenau*, neu Ciriath-sepher, sef *Dinas Llyfrau*. (Jos. xv. 49. Barn. i. 11.) Diau na ddarfu i'r Canaaneaid dderbyn eu gwybodaeth am lythyrenau a llyfrau oddiwrth yr Hebreaid, y rhai a ystyrient fel gelynion eu cenedl, a thrawsfeddiannwyr eu gwlad.

Ymddengys, gan hyny, fod y gelfyddyd o ysgrifenu yn adnabyddus i ddynion cyn rhoddiad y ddeddf ar Sinai.*

Defnyddiodd y Duw mawr y gelfyddyd hon fel moddion trosglwyddiad ei ewyllys i'r byd, a'i chadwraeth yn y byd; ystyriwn ei fod o'r pwys mwyaf, ac yn fraint ddirfawr, i ni gael ewyllys y Goruchaf yn *ysgrifenedig* yn iaith plant dynion; a gwnawn rai nodiadau er dangos doethineb Duw yn rhoddi ei air i ni mewn ysgrifen, a'r pwysigrwydd i ni ei gael yn y ffurf yna.

* Gwel *Dr. Kitto's Cyclop.*, a *Dr. W. Smith's Dict. of the Bible*, Art. "Writing."

I. HEB Y GAIR YSGRIFENEDIG, MAE YN DEBYGOL Y COLLASID EWYLLYS DUW O'R BYD.

Mae dwy neu dair o ystyriaethau yn dangos hyn :—

1. *Llygredd y natur ddynol.*

Nid yw dyn llygredig yn chwennych cadw y wybodaeth am Dduw yn ei gof. (Rhuf. i. 28. Job xxi. 24.) Collodd hiliogaeth Noah y wybodaeth am ysbrydolrwydd, unoliaeth, a pherffeithderau y Goruchaf, a syrthiasant i eilunaddoliaeth.

2. *Yr anmhossibilrwydd o'i chadw drwy draddodiad.*

Gallesid trosglwyddo *ychydig* o wirioneddau *syml* o un oes i'r llall trwy draddodiad; ond ni allesid trosglwyddo deddfau a chyfarwyddiadau yr hen gyfammod yn eu cyfanrwydd, y prophwydoliaethau yn eu helaethder a'u manylwch, y Salmau yn swynder eu moliant a thaerineb eu gweddiau, a'r Testament Newydd yn nghyfoeth grasol ei athrawiaethau, ei gyfarwyddiadau, a'i addewidion. Buasai y fath gyflawnder o bethau Dwyfol yn sicr o lethu dyn wrth feddwl am eu cofio a'u hymarfer.

Byddai anmhossibilrwydd naturiol i gadw y fath ddadguddiad yn y byd, heblaw fod llygredd calon dyn yn dangos nad oes awydd arno i gadw ewyllys Duw rhag myned ar goll.

Mae hanes y byd yn dangos fod dynion yn argyhoeddedig nad ellir cadw ffeithiau hanesyddol rhag ebargofiant, ond trwy eu hysgrifenu. Yn unol â'r syniad hwn, yr ydym yn cael Herodotus yn dweyd yn y frawddeg gyntaf o'i hanesiaeth, ei fod yn ei gyhoeddi "rhag i weithredoedd dynion gael eu hannghofio yn nghwrs amser;" ac felly hefyd yr ydym yn cael haneswyr yn mhlith pob cenedl yn cofnodi gorchestion eu henwogion, a chyfnewidiadau eu gwlad.

3. *Lle nad oedd gair Duw wedi ei gyfieithu i iaith y bobl, yr oedd Cristionogaeth yn diflanu ar gyfodiad erlidigaeth.*

Meddylier am y Nestoriaid yn China, a'r Jesuitiaid yn Japan. Yr ydym yn cael fod y Nestoriaid yn llafurio yn foreu yn China, ac yn dra llwyddiannus. Yr oedd ganddynt yn yr wythfed ganrif ddeg a thrigain o Genadon yn China, ac addoldai yn y rhan fwyaf o'r prif ddinasoedd.* Cawn hefyd i'r Jesuitiaid lwyddo i ennill rhifedi dirfawr o'r Japaniaid i broffesu Cristionogaeth, yn yr ail ganrif ar bymtheg.† Ond

* *The Nestorians*, by Asahel Grant, M.D., pp. 327—333. *Mosheim's Eccles. Hist.* cent. xi. Part. i. chap. i. § 1.

† *Mosheim's Eccles. Hist.* cent. xvii. sect. i. § 15.

nid oeddynt yn gwasgaru yr Ysgrythyrau yn iaith y bobl; ac o ganlyniad, yr oedd Cristionogaeth yn diflanu pan y lleddid ei chofleidwyr.

Mor wahanol oedd pethau yn Madagascar. Yno yr oedd Cristionogaeth yn llwyddo er gwaethaf yr holl erlidigaeth; er i'r holl Genadon gael eu hanfon o'r wlad, ac i filoedd o'r Cristionogion gael eu hyspeilio, eu herlid, a'u lladd yn y modd creulonaf, eto yr oedd canlynwyr yr Oen yn amlhau. Yr achos o'r gwahaniaeth rhwng Madagascar a Japan, ydyw, *fod y Beibl wedi ei gyfieithu i iaith pobl Madagascar, ac yn cael ei ledaenu yn eu plith.* Ar doriad yr erlidigaeth allan yn Madagascar yn 1835, ymgynnullai y Cristionogion at eu gilydd i'r coedwigoedd, a phenau y mynyddoedd, neu i dai unigol ganol nos, i ddarllen a myfyrio y Beibl, i gadarnhau ffydd eu gilydd, a gweddio dros eu gilydd. Yr oedd ganddynt tua 70 o Feiblau, a lliaws o gopïau o Destamentau a Salmau; a mawr fel y gofidient ychydig flynyddau ar ol hyn, gan fod eu Beiblau yn treulio ymaith wrth eu mynych-ddarllen.* Myfyrient y rhai hyn ddydd a nos, a thrwy hyny goleuid eu deall yn mhethau Duw, a phorthid y fflam nefol o gariad at Grist yn eu mynwes, fel yr daethant yn gryfion mewn gras; nid oedd erlidigaeth yn effeithio dim ond i ddangos nerth eu ffydd, a dwyn ereill i gofleidio Cristionogaeth. Pan aeth y nos dymhestlog heibio, ac i'r Cristionogion yn 1861 edrych dros eu nhifer, canfyddent eu bod yn rhifo dros ddwy fil o aelodau, a thua phum' mil o wrandawyr.

"Gair y bywyd" oedd y Beibl wedi bod yn erlidigaeth Madagascar, yr hwn a gynnaliai fywyd y Cristionogion, ac a gynnyrchai fywyd ysbrydol yn ereill, fel yr oedd y llwydd yn fwy na'r dinystr, er holl gynddaredd uffern.

Yn wir, yr ydym yn cael fod y gair yn mhob oes a gwlad, yn foddion adfywiad crefyddol.

Pan y darganfyddwyd copi o'r gyfraith yn amser Josiah, fe achosodd y darlleniad o hono adfywiad grymus yn Judah a Jerusalem. (2 Bren. xxiii.) Ni buasai y Diwygiad Protestanaidd ond o fyr barhad, oni buasai i Luther gyfieithu yr Ysgrythyrau i'r Germanaeg, i fytholi yr argraffiadau a adawsai ei bregethau ar feddyliau dynion, ac i wneyd adferiad yr Eglwys Babaidd i'w rhwysg a'i thraha blaenorol yn anmhossibl yn dragywydd.

* *Ecclesia, Article,* "*Modern Missions,*" by Dr. Mullens, pp. 564—578.

II. Heb y gair ysgrifenedig, byddai yn anmhossibl cadw ewyllys Duw yn ddilwgr yn y byd.

Pe buasai modd cadw ewyllys Duw yn y byd heb fyned ar goll, buasai yn sicr o gael ei chymmysgu â thraddodiadau a chyfeiliornadau, fel y buasai yn anmhossibl gwahaniaethu y gau oddiwrth y gwir. Cawn arddangosiad o hyn yn y Beibl ei hun. Pan ddywedodd yr Iesu wrth Pedr am Ioan, "Os mynaf iddo aros hyd oni ddelwyf, beth yw hyny i ti?" dyna'r gair allan yn y fan, na fyddai Ioan farw! (Ioan xxi. 22, 23.) Pan y dywedodd yr Iesu am dano ei hun, gan gyfeirio at ei gorph, "Dinystriwch y deml hon, ac mewn tridiau y cyfodaf hi" (Ioan ii. 19), dirdynwyd ei eiriau gan ei elynion, er cael esgus i'w gondemnio; "Ni a'i clywsom ef yn dywedyd, Mi a ddinystriaf y deml hon o waith dwylaw, ac mewn tridiau yr adeiladaf arall heb fod o waith llaw." (Marc xiv. 58.)

Hyd y nod er cael y gair yn ysgrifenedig, y mae gwir grefydd wedi dyoddef oddiwrth ymyraeth dynion. Yr oedd y Phariseaid yn llygru y ddeddf, a'i gwneyd yn ddirym trwy eu traddodiadau eu hunain. Y mae y Pabyddion wedi colli golwg ar athrawiaethau mawrion gras, megys unig gyfryngdod Crist, a chyfiawnhad trwy ffydd; y maent wedi darostwng awdurdod oruchel ac annghyfranogol y Beibl i raddfa traddodiad dynol, a chyfodi yr Apocrypha ac ordeiniadau dynion i'r un awdurdod a lleferydd yr Anfeidrol. Os gwnaed hyn yn ngwyneb gwrthdystiad y Beibl yn erbyn pob llygriad dynol, beth allwn dybied fuasai cyflwr ewyllys Duw, pe buasai wedi ei hymddiried i gadwraeth dynion heb gael ei hysgrifenu? Erbyn hyn, buasai y goleuni nefol wedi ei ddiffodd gan niwl tywyllwch llygredd a thraddodiadau dynol, a buasai dyn yn ysglyfaeth i ofnau, amheuon, a dychrynfeydd, heb fodd i'w symmud ymaith!

III. Y mae cael gair Duw mewn ysgrifen yn bwysig, er i ddyn allu ymarfer ei hawlfraint gynhenid i farnu drosto ei hun.

Gyda golwg ar bethau crefyddol, y mae pob dyn yn gydradd; nid yw un dosbarth yn meddu uwchafiaeth ar y llall fel ceidwaid ewyllys Duw, a dysgawdwyr awdurdodedig o honi i ereill. Mae dyn i farnu drosto ei hun *beth* y mae Duw yn ddweyd wrtho, a *pha fodd* y mae yn ei gyfarwyddo i'w

anrhydeddu ef; ac er mwyn hyn, y mae y Goruchaf wedi rhoddi y Beibl i ni, ac wedi trefnu fod pob dyn i'w feddiannu, fel y gallo farnu drosto ei hun beth y mae Duw yn ddysgwyl oddiar ei law. Byddai yn anmhossibl i ddyn ymarfer ei hawlfraint i farnu drosto ei hun, a phrofi pob peth wrth y safon Ddwyfol, heb i air Duw gael ei roddi i ni mewn ffurf ysgrifenedig.

IV. Y MAE CAEL Y GAIR YN YSGRIFENEDIG YN BWYSIG ER ADEILADAETH A CHYNNYDD Y CRISTION.

Yn ol hwn y mae i rodio, o hwn y mae i dynu ei gysuron, a thrwy hwn y mae i gael ei addfedu i'r nef; y mae o bwys annhraethol iddo, gan hyny, gael hwn yn wastad yn ei ymyl, fel y gallo ymgynghori âg ef ar bob achlysur, myfyrio arno yn barhaus, a chael ei draws-newid gan ei ddysgeidiaeth. Y mae i'w drysori yn ei galon er gwrthweithio ei lygredd, a phuro ffynnonell ei fywyd, fel yr adferer ef ar ddelw Duw. Mor wahanol y buasai ei gynnydd mewn gras, a'i gysur crefyddol, pe buasai ei holl addysg grefyddol yn deilliaw trwy redfa lygredig traddodiad, a thrwy weinidogaeth anmherffaith ac achlysurol ei gyd-ddyn!

Mawrygwn ddoethineb a daioni Duw yn rhoddi i ni ei ewyllys Ddwyfol yn ysgrifenedig yn iaith dyn, a cymmerwn ei air santaidd yn llusern i'n traed, ac yn llewyrch i'n llwybrau.

# RHAN II.

---

# DEHONGLIAD Y BEIBL.

---

## PENNOD I.

### SWYDD A THERFYNAU RHESWM YN NEHONGLIAD Y BEIBL

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Rheswm i farnu Natur a Digonolrwydd y Profion o'i Ddwyfoldeb—Cywirdeb y Testyn—Ei Nodweddau Llenyddol—A'i ddefnyddio fel Safon Athrawiaeth a Buchedd.*

GAN fod camsyniad ar y pwnc hwn wedi arwain i ganlyniadau alaethus, y mae o'r pwys mwyaf i ni feddu syniadau priodol a chywir am dano; oblegyd yn ol ein barn ar hyn y bydd ein hymddygiad at y gyfrol santaidd, a'n parch iddi.

Mae'n amlwg fod rheswm i farnu rhai pethau cyssylltiedig â'r Beibl; mae'n eglur hefyd fod rheswm i ddystewi yn ngwyneb pethau ereill, a dyn i'w derbyn ar sail Dwyfoldeb y Beibl. Gelwir ar ddyn i ymarfer ei reswm gyda'r pethau canlynol:—

I. MAE I FARNU NATUR A DIGONOLRWYDD Y PROFION O DDWYFOLDEB Y BEIBL.

Appeliad at reswm a chydwybod dyn oedd y *gwyrthiau* er dangos Dwyfoldeb crefydd y Beibl, am hyny gelwir hwy

*arwyddion.* Y mae dyn i farnu a oeddynt yn rhai *gwirioneddol*, ac nid ffug-ryfeddodau penboethiaid a thwyllwyr. Yr oedd Crist yn cyhoeddi ei wyrthiau fel gwir ryfeddodau a gwir brofion o'i Ddwyfol anfoniad, ac yn annog ymchwiliad i'w nhatur a'u hawliau fel y cyfryw: "Onid wyf fi yn gwneuthur gweithredoedd fy Nhad, na chredwch i mi." (Ioan x. 37.)

Mae dyn i farnu y prawf oddiwrth *brophwydoliaeth;* pa un a oes sail i gredu fod y rhagfynegiad wedi cael ei wneyd cyn i'r dygwyddiad a ystyrir yn gyflawniad iddo gymmeryd lle, a pha un a oedd y rhagfynegiad yn cynnwys manylion ag na allasai dyn trwy ei reswm a'i ddeall ei hun eu rhagdraethu; ac a oedd y cyflawniad yn cydgordio â'r rhagfynegiad i'r fath raddau ag i ddangos mewn modd diamheuol fod y naill yn cyfateb i'r llall.

Mae i farnu *dylanwad crefydd y Beibl* ar y byd, er gweled a ydyw yn rhagori ar grefyddau ereill, ac a oes prawf yn hyn ei bod o Dduw, ac yn gallu troi dyn o bechod i gyfiawnder, ac yn gryfach na phob gallu gwrthwynebol o eiddo daear ac uffern.

Mae dyn i farnu profion Dwyfoldeb y Beibl; ac os gwna gyfiawnder â'r profion ac â'i ddeall a'i gydwybod ei hun, fe ddaw i deimlo ac i gydnabod mai gair y bendigedig Dduw ydyw y gyfrol santaidd.

## II. Mae i farnu cywirdeb testyn y Beibl.

Wedi i'r prophwydi a'r apostolion ysgrifenu eu cynnychion ysbrydoledig, yr oeddynt yn eu gadael i ofal ereill, er addysg a hyfforddiant i oesau y ddaear. Wrth eu mynych arfer yr oeddynt yn treulio yn eu dwylaw, fel yr oedd yn ofynol eu hadysgrifenu. Yr oedd angen achos Duw a'r gymdeithas ddynol yn galw hefyd am i gopïau o'u hysgrifeniadau gael eu hamlhau. Yr oedd yn naturiol i gamgymmeriadau gymmeryd lle weithiau wrth ail ysgrifenu y rhai hyn, er holl ofal yr ysgrifenwyr. Ail ysgrifened y darllenydd lythyr, neu copïed bennod o'r llyfr hwn, a cha weled mai peth hawdd iawn, er pob gofal, yw gadael gair allan, neu ddodi gair i mewn lle ni ddylai fod. Yn nghwrs oesau hefyd,

dichon i ambell adysgrifenydd pleidiol a rhagfarnllyd, newid yn fwriadol ambell air, neu gyfnewid ambell frawddeg, er ffafrio ei olygiadau neillduol ei hun.

Trwy y gwahanol ffyrdd hyn, daeth cyfnewidiadau i mewn i ysgriflyfrau *(manuscripts)* y Beibl. Er nad ydynt yn effeithio ar un athrawiaeth efengylaidd, eto y mae yn ffaith fod amryw o gyfnewidiadau a rhai llygriadau wedi llusgo i mewn i'r testyn. Mae dyn i chwilio am y testyn cywiraf. Y mae i osod dysgeidiaeth ac ymchwiliad yr oes dan dreth er cael allan y testyn puraf dichonadwy.

## III. Mae i chwilio beth yw nodweddau llenyddol yr Ysgrythyrau.

Mae i edrych *beth yw arddull gwahanol ysgrifenwyr.* Mae i chwilio allan beth yw nodweddau neillduol cyfansoddiadau Esaiah, Ezeciel, Jeremiah, Luc, Ioan, Paul, Pedr, &c., ac yn mha bethau y maent yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd.

Mae i sylwi *beth yw nodweddau gwahanol ranau y Beibl.* Mae i edrych pa un a ydyw yr iaith yn llythyrenol ai yn ffugyrol; pa un a ydyw yn ddesgrifiadol ai yn brophwydoliaethol; pa un a ydyw yn dysgu dyledswyddau ag sydd yn awr mewn grym ai rhai ag oedd felly o dan y ddeddf yn unig; pa un ai wrth elynion Duw ai wrth ei blant ef y mae yn llefaru; pa un ai Iuddewon ai Cenedloedd a olyga, &c. Mae dyn i ddefnyddio ei reswm a'i alluoedd i gael y pethau hyn allan.

Mae i chwilio allan *ystyron geiriau y Beibl*, ac i ymdrechu *deall y deddfau neu y rheolau priodol i'w ddehongli a'i amgyffred.* Nid ydyw dyn i briodoli i'w eiriau a'i ymadroddion unrhyw ystyr a ddygwydd ei ddychymmyg awgrymu iddo; ond yr ystyr ag mae natur, cyfansoddiad, a chynnwysiad arbenigol y Beibl ei hun yn hawlio iddynt.

Yn wir, y mae natur cyfansoddiad y Beibl, a'i amrywiaeth a'i gyfoeth diderfyn, yn dangos fod eisieu y gofal a'r ymroddiad mwyaf trwyadl er ei ddeall yn iawn a'i fyfyrio yn llwyddiannus.

IV. MAE I DDEFNYDDIO Y BEIBL FEL SAFON I BROFI ATHRAWIAETHAU AC ORDINHADAU CREFYDDOL WRTHI.

Ar yr ystyriaeth o Ddwyfol awdurdod y Beibl, y mae amryw bethau yn cymmeradwyo eu hunain i ddeall a chydwybod dyn fel gwirebau *(axioms)* o barthed iddo; megys, (1,) os ydyw yn dyfod oll oddiwrth yr un Duw, *rhaid ei fod oll yn hollol gysson ag ef hun*, ac nas gall wrthddweyd ei hun: (2,) fod *yr hyn a ddysga fel dyledswyddau yn eglur a dealladwy i'r cyffredin o blant dynion;* (3,) fod *rhwymau ar ddyn i ymostwng iddo fel deddf ei Greawdwr;* (4,) gan mai deddflyfr crefydd ydyw, *y dylai dyn brofi yr hyn a glyw fel dysgeidiaeth grefyddol wrth ei ddysgeidiaeth ef.*

Gorchymynir i ddyn ddefnyddio ei reswm yn nglyn â'r Ysgrythyrau er profi yr hyn a ddysgir iddo. "Profwch bob peth." "Chwiliwch yr Ysgrythyrau." "Bernwch chwi yr hyn wyf fi yn ei ddywedyd." Yr oedd y Bereaid yn chwilio yr Ysgrythyrau er gweled a oedd pregeth Paul yn iawn; yr oedd Paul ac Apolos yn profi trwy yr Ysgrythyrau mai Iesu yw y Crist; yr hyn a ddengys fod dyn i ddefnyddio y Beibl fel safon i farnu yr hyn a draethir iddo, ac nad ydyw Cristionogaeth yn galw arno i gredu gosodiadau disail.

Mae dyn, gan hyny, i farnu a chwilio y profion o Ddwyfoldeb y Beibl i berffeithrwydd: y mae i ymofyn am y testyn puraf; y mae i fyfyrio nodweddau y Beibl fel cyfansoddiad, a meistroli rheolau ei ddehongliad, a pheidio derbyn dim ond ag sydd yn gydunol â'i reswm. Ond y mae gwasanaeth rheswm yn darfod yn y fan yma; nid ydyw i farnu *cynnwysiad* y Beibl. Nid ydyw ffolineb dyn i eistedd mewn barn ar ddoethineb Duw; nid ydyw pryfyn y llwch i eistedd mewn barn ar y Duw tragywyddol. Dysgybl ydyw dyn i fod yma, ac nid athraw; nid gwrthddadleu yn erbyn dadguddiad o herwydd ei fod yn wahanol i'r hyn y buasai efe yn ei ddysgwyl neu yn ewyllysio a ddylai, ond yn hytrach ymostwng gyda diolchgarwch a pharch o flaen y Goruchaf am iddo ef, yr hwn ydyw ffynnonell pob doethineb a pherffeithrwydd, weled bod yn dda i'w ddysgu yn ffordd crefydd a rhinwedd, a dangos iddo y llwybr ag sydd yn arwain i ddedwyddwch diderfyn yn ngwlad y bywyd yn oes oesoedd.

Mae y profion o'i Ddwyfoldeb yn agored i'r ymchwiliad manylaf a all cyfeillion gwirionedd a thegwch ei ddymuno; chwilier a phrofer yr attegion i'r eithaf; y mae yn iawn edrych pa un ai Duw ai dyn sydd yn llefaru yma; ond ar ol cael sicrwydd mai Duw sydd yn llefaru yn y Beibl, o hyny allan dyledswydd dyn ydyw gwrando gyda gostyngeiddrwydd ar yr hyn a ddysga, a derbyn y ddysgeidiaeth yn ffyddiog a diolchgar, gan nad pa mor wrthwynebol ac ynfyd yr ymddengys i gig a gwaed.*

* *Butler's Analogy,* Part II., Chap. iii.

# PENNOD II.

## Y CYMHWYSDERAU GOFYNOL MEWN DEHONGLWR.

## Y CYNNWYSIAD.

*Gallu Beirniadol—Adnabyddiaeth âg Arferion Dwyreiniol a Nodweddau y Beibl fel Cyfansoddiad—Cydymdeimlad â'i Duedd Santaidd—Ffydd a Gostyngeiddrwydd—Ysbryd Gweddigar.*

MAE amryw bethau yn ofynol i gydgyfarfod mewn dyn cyn y gall fod yn ddehonglwr llwyddianus; nodwn y prif bethau.

I. GALLU BEIRNIADOL.

Mae yn ofynol fod gan ddyn feddwl craffus, calon dyner, a deall cyflym, fel y gallo gael allan ystyr yr ymadroddion Dwyfol. Weithiau y mae i air amryw ystyron, megys i'r geiriau *gwaed* a *ffydd;* y mae gwahanol olygiadau yn cael eu coleddu ar yr un adnod neu adran o'r Beibl, a llawer i'w ddweyd dros y naill a'r llall o honynt; y mae yn ofynol i'r esboniwr allu ffurfio barn ar y naill a'r llall, cymmeryd golwg arnynt o dan eu gwahanol agweddau, a chanfod pa ystyr neu olygiad sydd yn ateb oreu i'r lle a'r cyssylltiadau.

Byddai yn dra dymunol hefyd, iddo feddu gwybodaeth o'r ieithoedd yn mha rai yr ysgrifenwyd y Beibl. Gwaredai gwybodaeth feirniadol o'r Groeg a'r Hebraeg ef rhag llawer o gamgymmeriadau ag y syrthiodd llawer esboniwr iddynt, a rhoddai hyfrydwch annhraethol hefyd iddo ef ei hun; nerthai ef i ganfod prydferthwch, a theimlo grym llawer o ymadroddion y Beibl, ag nas gallai eu canfod na'u teimlo os yn amddifad o'r wybodaeth hon. Boed i'n darllenwyr ag na allant ymgynghori â'r oraclau Dwyfol yn yr ieithoedd gwreiddiol, ymgynghori â'r esboniadau goreu o fewn eu cyrhaedd, a myfyrio yn fanwl a dyfal ewyllys Duw yn ngwisg odidog y Beibl Cymraeg, a thrwy hyny fe ddeuant yn "gadarn yn yr Ysgrythyrau."

II. ADNABYDDIAETH AG ARFERION DWYREINIOL, A GWAHANOL NODWEDDAU Y BEIBL FEL CYFANSODDIAD.

Ysgrifenwyd y Beibl gan ddynion perthynol i wahanol genedloedd, ac mewn gwahanol oesau. Ysgrifenwyd rhai rhanau o hono yn moreu oes y byd ac yn mabandod cymdeithas, ysgrifenwyd rhanau ereill yn oes euraidd llênyddiaeth Groeg a Rhufain; ysgrifenwyd rhai rhanau o hono yn anialwch Arabia, ereill yn nyffrynoedd ac ar lechweddau Canaan; rhai yn y palas breninol, ereill mewn cadwyn yn y carchardŷ; rhai yn Babilon yn y Dwyrain, ereill yn Rhufain yn y Gorllewin; rhai gan Iuddewon, ereill gan Roegwyr; rhai mewn rhyddiaith ddiaddurn, y lleill yn y farddoniaeth fwyaf coeth ac aruchel, yr arwyddluniau mwyaf rhyfedd a chyffrous, y gweddiau mwyaf drylliog a gafaelgar, a'r moliant mwyaf tanllyd a nefol. Sonia hefyd am sectau ag nad ydynt yn bodoli yn awr, a gesyd ei egwyddorion allan mewn iaith a dull ag sydd i raddau helaeth yn aneglur ac anhawdd i genedloedd ereill; cyfeiria at arferion ag sydd yn hollol ddyeithr i ni yn y wlad hon; cyhoedda fwriadau gogoneddus y Duwdod yn nhrefn yr iachawdwriaeth; dadguddia chwyldroadau y dyfodiant, rhyfeddodau a dychrynfeydd y farn, a sefyllfaoedd tragywyddol dynion yn y byd a ddaw.

Rhaid i'r dehonglwr gan hyny ddeall y ffordd i egluro y gwahanol bethau hyn yn y modd y golygai yr Ysbryd Glân iddynt gael eu deall: rhaid iddo egluro y Beibl yn ol rhediad ac ysbryd y Beibl, yn ol deddfau iaith a chystrawen y Beibl, mewn cydgordiad â hanesiaeth ac arferion gwledydd y Beibl, ac yn unol a'i ddysgeidiaeth santaidd a'i athrawiaethau nefol a Dwyfol.

III. CYDYMDEIMLAD A'I DUEDD SANTAIDD.

Y mae dyn i brofi ei ddylanwad achubol ar ei enaid ei hun o flaen pob peth; rhaid i ddyn gael ei eni drachefn cyn y gall amgyffred ysbrydolrwydd, na mwynhau bendithion teyrnas Dduw; rhaid i'r tywyllwch gael ei gymmeryd ymaith oddiar ei olygon, cyn y gall ganfod gogoniant trefn gras; rhaid i'r galon gael ei thyneru â dylanwad Ysbryd Duw, cyn y gall gydymdeimlo â thuedd ac amcan santaidd y Beibl. Mae yr hwn sydd wedi myned trwodd o farwolaeth i fywyd yn meddu

cymhwysder i ddeall yr Ysgrythyrau ag nas gall y beirniad mwyaf dysgedig, os yn annychweledig, ei feddu. Mae rhywbeth yn nghalon y credadyn ag sydd yn ateb i ddysgeidiaeth santaidd y Beibl; mae efe yn gweled rhediad y Beibl, ac yn teimlo ei ddylanwad ardderchogol (*ennobling*) yn y lleoedd a'r gwersi, y rhai nas gall y dyn annychweledig weled fod un prydferthwch nac amcan yn perthyn iddynt. "Eithr dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw: canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac nis gall *eu* gwybod, oblegyd yn ysbrydol y bernir hwynt." (1 Cor. ii. 14.) "Yr amser hwnw yr atebodd yr Iesu, ac y dywedodd, I ti yr ydwyf yn diolch, O Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio y pethau hyn rhag y doethion a'r rhai deallus, a'u dadguddio o honot i rai bychain." (Mat. xi. 25.)

Ac nid ydyw hyn ond yr un peth ag a ganfyddwn gydag efrydiaeth canghenau ereill. Rhaid cael chwaeth at gerddoriaeth, mewn trefn i ragori ynddi; felly gyda cherfluniaeth, barddoniaeth, athroniaeth, a phob canghen arall; ond y mae cael calon newydd yn *hanfodol* i efrydiaeth a dehongliad llwyddiannus o'r Beibl. Mae llawer o ymadroddion ynddo ag nad oes modd eu deall ond trwy eu profi; megys y rhai sydd yn son am ffydd, hyder yn Nuw, cariad at Dduw, tangnefedd trwy groes Crist, llawenydd yn yr Ysbryd Glân, &c. Pwy all ddweyd am y pethau hyn ond plentyn Duw? Pwy allai ddweyd am barodrwydd y Tad i dderbyn yr afradlon yn ol yn debyg i'r mab afradlon ei hun? Pwy am barodrwydd Duw i faddeu i gablwyr ac erlidwyr yn debyg i Paul? "Os ewyllysia neb wneuthur ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am y ddysgeidiaeth, pa un ai o Dduw y mae hi, ai myfi o honof fy hun sydd yn llefaru." (Ioan vii. 17. Salm xxv. 11.)

### IV. Ffydd a Gostyngeiddrwydd.

Gan fod y Beibl yn ymwneyd â phethau uwchlaw dirnadaeth dyn, ac allan o gyrhaedd ei ymchwiliad, rhaid iddo gredu yn ei Ddwyfoldeb, a derbyn ei addysgiadau, i ba le bynag yr arweiniant. Rhaid i'r athronydd ymddiosg oddiwrth ei duedd feirniadol, a derbyn teyrnas Dduw fel dyn bach; rhaid iddo ymostwng i ddysgu yn ysgol Dadguddiad, heb groesholi nac ymddadleu. Fe gaiff chwilio i mewn i'r *profion* o Ddwyfoldeb y Beibl; ond gyda golwg ar ei gynnwysiad,

rhaid iddo ei dderbyn fel y gwelodd Duw yn dda ei roddi, yn lle ceisio dangos i'r Goruchaf pa fodd y dylasai efe ddysgu dyn.

Mae yn naturiol dysgwyl y buasai Dadguddiad oddiwrth Dduw yn cynnwys gwirioneddau ag nad yw natur yn eu dysgu, a gwirioneddau hefyd uwchlaw dirnadaeth dyn i allu eu hamgyffred yn drwyadl yn eu holl gyssylltiadau; a dyledswydd dyn ydyw cydnabod hyn yn ostyngedig a diolchgar, ac ymhyfrydu yn ngoleuni hyfryd y Beibl.

Wrth fyfyrio a dehongli yr Ysgrythyrau, y prif bwnc y dylid ymgyrhaedd ato yw *cael allan y gwirionedd;* dylai dyn garu y gwirionedd o herwydd ei werth a'i ogoniant Dwyfol ei hun, ac ymdrechu cael gafael arno ef yn unig yn ei ymchwiliadau. Os â dyn i chwilio y Beibl i'r dyben i gadarnhau ei ddaliadau ei hun, ac nid er cael allan y gwirionedd, y mae yn dilyn llwybr hollol annheilwng o urddas y Beibl; ac nid rhai o'r fath yna sydd yn cael bendith gan Dduw. Rhaid cael ysbryd hunanymwadol a gostyngedig, a pherffaith ddiragfarn, wrth chwilio y Beibl, mewn trefn i gael gafael ar y gwirionedd, a bod yn ddehonglwr llwyddiannus.

## V. Ysbryd gweddigar am Ddwyfol arweiniad.

Mae eisieu gwneyd defnydd priodol o bob moddion cyfaddas; eisieu ymgydnabyddu â llênyddiaeth Feiblaidd, efrydu y Beibl fel cyfansoddiad, a phob gwybodaeth arall fuddiol i daflu goleuni arno; ond er y pethau hyn oll, dylai yr efrydydd deimlo ei angen hefyd am oleuni a chyfarwyddyd Ysbryd y Duw byw. Gall ei Ysbryd ef agor ein deall, a goleuo ein meddwl, fel y canfyddom ogoniant a phwysigrwydd cynnwysiad y Beibl. Mae'n wir nad ydym i ddysgwyl yr un dadguddiad newydd ychwanegol i'r hyn a geir yn y Beibl; ond yr ydym i ddysgwyl ei oleuni a'i gyfarwyddyd ef i ganfod gogoniant y Beibl, a godidogrwydd yr hyn a gynnwysa. Gall efe dynu ymaith y gorchudd oddiar ein llygaid a'n calon; gall egluro gwirioneddau yr efengyl i ni mewn agweddau newyddion a gogoniant uwch nag a welsom o'r blaen; gall ddangos i ni gyfoeth dihysbydd ymadroddion y Beibl, a thrwyddynt ardderchogrwydd gogoneddus y cymmeriad Dwyfol, nes ein llenwi â llawenydd annhraethadwy, a rhoddi blaen-

brawf i ni o ddedwyddwch pur a digymmysg y nefoedd. (Iago i. 5. 1 Ioan ii. 20, 27.)

Yr ydym wedi nodi y prif bethau ag sydd yn ofynol yn yr efrydydd a'r dehonglwr llwyddiannus; ymdreched y darllenydd ddyfod yn feddiannol arnynt: os nad yw ei alluoedd a'i amgylchiadau yn ei alluogi i ddyfod i fyny â'r cyfan, gwnaed ei oreu; llyfr i bawb ydyw y Beibl, a dylai pawb ei efrydu mor ofalus ag y byddo yn ddichonadwy, er dyfod yn ddoeth i iachawdwriaeth, a bod yn ddefnyddiol gydag achos yr Arglwydd Iesu.

# PENNOD III.

## DAEARYDDIAETH, ARFERION, GWYLIAU, DEFODAU, A SECTAU Y BEIBL.

---

## Y CYNNWYSIAD.

I. DAEARYDDIAETH Y BEIBL.—*Canaan—ei Maintioli, Safle Ddaearyddol, Cynnyrchion, Hinsawdd, &c.* II. ARFERION DWYREINWYR.—*Amaethyddiaeth, Bugeiliaeth, Cyfarchiadau, Claddu y Marw a Chladdfeydd, Dodrefn, Gwisgoedd ac Addurniadau, Lletygarwch, Priodas, Tai, Teithio, Ymborthi, &c.* III. GWYLIAU A DEFODAU Y GREFYDD IUDDEWIG, A SECTAU Y BEIBL.—*Amser a'i raniadau, Gwyliau, Aberthau, Arian, Pwysau a Mesurau—Hanes yr Iuddewon o Malachi hyd Enedigaeth Crist—Y Phariseaid—Y Saduceaid—Yr Herodianiaid—Y Galileaid—Yr Esseniaid—Yr Ysgrifenyddion, y Cyfreithwyr, a'r Proselytiaid—Y Samariaid—Y Libertiniaid—Y Stoiciaid—Yr Epicureaid—Y Gnosticiaid—Y Cabbaliaid—Y Nicolaiaid.*

MAE adnabyddiaeth â sefyllfa ddaearyddol Canaan, ei hinsawdd, ei ffrwythau, a'i thymhorau, yn nghydag arferion cymdeithasol a golygiadau crefyddol Iuddewon a Chenedloedd yn ofynol, er deall llawer o ymadroddion a chyfeiriadau a geir yn y Beibl. Yn y bennod hon, nyni a wnawn rai nodiadau ar y pethau hyn, er taflu goleuni ar y gyfrol santaidd.

I. DAEARYDDIAETH Y BEIBL.

Wedi y diluw, yr ydym yn cael Noah a'i hiliogaeth yn poblogi y gwastad-diroedd a orweddant wrth odreu mynyddau Armenia, rhwng yr afonydd Tigris a'r Euphrates. Ar ol eu cais i rwystro cyflawniad bwriadau yr Arglwydd trwy adeiladu Tŵr Babel, cawsant eu gwasgaru i wahanol barthau y byd; darfu i hiliogaeth Sem gyfaneddu y wlad a gorynys mawr Arabia o'r Môr Du i'r Môr Indiaidd; hiliogaeth Cham a breswyliasant Affrica; a hiliogaeth Japheth ranau arfordirol Môr y Canoldir yn Asia Leiaf ac Ewrop, o ba leoedd yr ymdaenasant dros holl gyfandir Ewrop a rhan helaeth o Asia.

Ond Canaan ydyw prif ganolbwynt cyfeiriadau daearyddol y Beibl; dyma y wlad a ddewisodd Duw i addysgu dyn yn ei ewyllys; hon oedd cartref ei bobl, mangre ei wasanaeth

neillduol, maes llafur ei brophwydi, ac esgynlawr cyflawniad gweithredoedd mawreddog a Dwyfol y Duw-ddyn. Cyfyngwn ein nodiadau daearyddol gan hyny, gan mwyaf, i wlad yr addewid.

§ 1. *Canaan, ei maintioli, a'i safle ddaearyddol.*

Nid ydyw Canaan, o ran ëangder ei therfynau, ond gwlad fechan; tua 158 o filltiroedd o hyd, a rhyw 80 neu 90 milltir o led yn y Deheu, ac yn culhau i tuag ugain milltir o led yn y Gogledd.* Yr oedd ei therfynau yn gwahaniaethu ar wahanol adegau; ond gellir dweyd mewn modd cyffredinol ei bod yn cael ei hamgylchu gan fynyddau Libanus i'r Gogledd, Môr y Canoldir i'r Gorllewin, Arabia i'r Dwyrain, ac Anialwch Sin i'r Deheu. Mae y wlad ar y cyfan yn fynyddig. Mae gwastadedd mawr tua 50 milltir o hyd ac 20 o led, a elwir gwastadedd Esdraelon, neu ddyffryn Megidon (Zech. xii. 10), yn gorwedd rhwng yr Iorddonen a Môr y Canoldir, ychydig i'r Deheu o Fôr Tiberias. Ceir gwastad-diroedd ffrwythlawn hefyd yn gorwedd ar lanau Môr y Canoldir. Sonir hefyd am wastadedd yr Iorddonen. (Gen. xiii. 11.) Ond ar y cyfan mynyddig ydyw y wlad, ond yr oedd gynt er hyny yn dra ffrwythlawn.

Yn amser Solomon, yr oedd teyrnas Israel yn cyrhaedd o fynydd Libanus i'r Môr Coch, ac o Fôr y Canoldir i'r Euphrates (1 Bren. iv. 21, ix. 26), ac yn cynnwys poblogaeth o tua phum' miliwn.†

Yr oedd rhoddiad Canaan i Israel yn *ammodol;* os nad ymwrolent, a'i chymmeryd oddiar y Canaaneaid, yr oeddynt yn colli eu hawl iddi; beïid hwynt gan Josua oblegyd eu llwfrdra (Jos. xviii. 3); ac o herwydd gwendid eu ffydd, ni feddiannasant erioed yr holl wlad, fel yr oedd Duw wedi bwriadu iddynt. Gadawsant Jerusalem hyd amser Dafydd heb ei chymmeryd, a Philistia, Phœnicia, neu Tyrus a Sidon, heb erioed eu meddiannu. (Deut. xi. 22—24. Jos. xiii.)

Rhanwyd y wlad rhwng y llwythau gan Moses a Josua. Yr oedd etifeddiaeth rhai o'r llwythau i'r Dwyrain o'r Iorddonen, sef eiddo hanner llwyth Manasseh, yn y Gogledd; llwyth Reuben, yn y Deheu; a llwyth Gad yn y canol rhwng

* *Dr. Robinson's Physical Geography of the Holy Land*, p. 16.

† *Dr. Angus's Christ our Life*, p. 28: *New Biblical Atlas* (R. T. S.) pp. 30 35.

y ddau. Yr oedd etifeddiaeth y llwythau ereill yn Nghanaan, rhwng yr Iorddonen a Môr y Canoldir; sef eiddo Aser, Naphtali, a Zabulon, yn y Gogledd; Judah a Simeon, yn y Deheu; a hanner llwyth Manasseh, Issachar, Ephraim, Dan, a Benjamin, yn nghanolbarth y wlad.

Ni threfnwyd etifeddiaeth dirol i lwyth Lefi, megys ag i'r llwythau ereill; ond yr oedd pob llwyth, yn ol ei faintioli, yn rhoddi i'r Lefiaid rai o'i ddinasoedd, yn nghyda thir gerllaw y dinasoedd i anifeiliaid y Lefiaid gael pori ynddynt. Yr oedd y dinasoedd a roddwyd i'r Lefiaid oll yn wyth dinas a deugain, chwech o ba rai oeddynt yn ddinasoedd noddfa. (Num. xxxv. 2—7. Jos. xiv. 3, 4.) Enwau y dinasoedd noddfa oeddynt *Bezer* yn llwyth Reuben, *Ramoth Gilead* yn llwyth Gad, *Golan* yn hanner llwyth Manasseh,—y tair hyn i'r Dwyrain o'r Iorddonen; a *Cedes* yn llwyth Naphtali, *Sichem* yn mynydd Ephraim, a *Hebron* yn Judah. (Jos. xxi. 7—9.) Byddai y llofrudd yn rhwym o fod o fewn rhyw ddeugain neu hanner can' milltir i'r naill neu'r llall o honynt, yn mha le bynag y byddai. Yr oedd yn drefniant grasol o eiddo Duw, mae'n ddiau, i neillduo dinasoedd y Lefiaid i fod yn ddinasoedd noddfa, er mwyn addysgu y ffoaduriaid yn ewyllys yr Arglwydd. Gwel y deddfau perthynol iddynt yn Num. xxxv.

Yn nyddiau Rehoboam, fe ranwyd y wlad yn ddwy deyrnas; pan wnaeth yr Arglwydd Iesu ei ymddangosiad, yr oedd wedi cael ei ddosbarthu i bedair o detrarchaethau neu dywysogaethau, sef Judea, Samaria, Galilea, a Pherea. Yr oedd rhan o Idumea, i'r Deheu i Ganaan, yn perthyn i Judea yn amser genedigaeth Crist. (Marc iii. 8: *Kitto's Cycl.* Art.—"Idumea.")

Yr oedd Canaan, yn amser sefydliad Israel ynddi, ac am fil o flynyddoedd ar ol hyny, yn sefyll yn nghanolbarth y byd adnabyddus, ac mewn man manteisiol i wasgaru pelydrau y goleuni Dwyfol ag oedd ynddi i blith cenedloedd gwareiddiedig y byd. Dywed Duw ei fod wedi gosod Jerusalem "yn nghanol y Cenedloedd, a'r tiroedd o'i hamgylch." (Ezec. v. 5.) Yr oedd yn gorwedd tua hanner y ffordd rhwng ymerodraethau ëangaf a chryfaf yr hen amseroedd,—rhwng yr Aifft ac Ethiopia, ar un llaw, a Babilon, Assyria, Persia, ac India, ar y llaw arall. Yr oedd llongau o Groeg, Itali, Yspaen, yr Aifft, ac ynysoedd y môr, yn mynychu ei phorthladdoedd; i'r De-Orllewin yr oedd yr Aifft yn ymylu arni, ac yn gyfrwng trosglwyddiad ei goleuni i Affrica dywyll; i'r De-ddwyrain,

yr oedd Arabia a'i miliynau trigolion; i'r Dwyrain iddi yr oedd ymerodraethau Babilonia, Assyria, a Phersia; i'r Gogledd iddi, yr oedd, ar un llaw, Damascus, yr hon a alwai un o ymerawdwyr Rhufain, *Llygad y Dwyrain*, cynniweirfa y teithluoedd (*caravans*) o'r Aifft a gwledydd ereill i bellafoedd Asia,—ac ar y llaw arall, Asia Leiaf a'i gwahanol lwythau. Nid oedd gwlad dan y nef mor fanteisiol a Chanaan i lefeinio Ewrop, Asia, ac Affrica, Gogledd, De, Dwyrain, a Gorllewin, â gwirionedd Dwyfol y Beibl; yr oedd i'r byd meddyliol fel haul yn nghanol y ffurfafen, yn gwasgar ei phelydrau o amgylch, ac yn cywiro barn gwahanol wledydd am y cread a'r Creawdwr. Nid oedd fflachiadau dysgleiriaf dysgeidiaeth Pythagoras a Phlato ond adlewyrchiad o belydrau haul y dadguddiad Dwyfol yn Nghanaan. Trwy wasgariad ei phreswylwyr yn yr Aifft, Babilon, Persia, Asia Leiaf, Groeg, ac Itali, yr oedd y Cenedloedd yn dyfod i wybod, i raddau helaethach nag a dybir yn fynych, am y ddysgeidiaeth o'r nef, a'r Gwaredwr Dwyfol ag oedd ar ddyfod i'r byd: gwel Deut. iv. 6. Salm ix. 11, lix. 13, lxvii. 1, 2, 7, lxviii. 29, 31. Mat. ii. 1.

Mae ysgrifenwyr y Beibl yn son am wledydd a lleoedd ereill yn ol eu cyssylltiad daearyddol â Chanaan: Canaan yw y canolbwynt, ac ystyrir lleoedd ereill yn y Deheu, y Gorllewin, y Gogledd, neu y Dwyrain, os byddant felly o Ganaan. Gelwir Môr y Canoldir *y môr eithaf*, neu *fôr y Gorllewin* (Deut. xi. 24. Joel ii. 20); a'r Môr Marw, *môr y Dwyrain* (Joel ii. 20), am mai felly yr oedd eu cyssylltiad daearyddol â Chanaan. Dywed Matthew (ii. 1), fod doethion wedi dyfod o'r Dwyrain i Jerusalem ar adeg genedigaeth Crist, sef o'r Dwyrain i Ganaan, o Arabia, neu Persia, neu rai o'r gwledydd a orweddant i'r dwyrain o Palestina. Yr oedd Job yn un o feibion y Dwyrain, am fod Uz i'r Dwyrain o Ganaan. (Job i. 1, 3.)

Sonir am derfynau Israel fel terfynau y ddaear: "Ac efe a lywodraetha o fôr hyd fôr, ac o'r afon hyd derfynau y ddaear"* (Salm lxxii. 8), hyny yw, o Fôr y Canoldir hyd y Môr Coch, ac o'r Euphrates hyd lanau Môr y Canoldir. Yr oedd llywodraeth Solomon yn cyrhaedd dros y diriogaeth uchod, ond bydd y geiriau yn cael eu gwireddu yn llythyrenol, heb yr un cyfyngiad, yn nheyrnasiad Gwaredwr y byd, o'r hwn yr oedd Solomon yn gysgod.

Gelwir brenines Seba yn frenines y Deheu (1 Bren, x. 1.

Mat. xii. 42), am fod Seba yn Arabia Ffelix, i'r Deheu o Ganaan.

§ 2. *Cynnyrchion, hinsawdd, a thymhorau Canaan.*

Bellach, gwnawn nodiadau mwy neillduol ar arwynebedd, cynnyrchion, hinsawdd, a thymhorau Canaan, mor bell ag y mae hyn yn angheurheidiol er galluogi y darllenydd i ddeall a dehongli y Beibl.

(1.) *Ystyr y gair "Anialwch" yn y Beibl.*

Y meddylddrych a gyssylltir yn gyffredin â'r gair hwn yw *lle diffrwyth, llychlyd, llwm*, heb ymborth i ddyn nac anifail ynddo, a thrigfa bwystfilod rheibus ac ymlusgiaid gwenwynig. Golyga y gair hyn weithiau yn y Beibl; yr oedd rhanau o'r anialwch yn yr hwn y treuliodd Israel ddeugain mlynedd yn "anialwch mawr ac ofnadwy, lle yr ydoedd seirph tanllyd ac ysgorpionau" (Deut. viii. 15). Lle anial a gwyllt hefyd oedd y man lle y temtiwyd yr Arglwydd Iesu, oblegyd dywedir ei fod gyda'r gwylltfilod. (Marc i. 13.) Ond nid yw y geiriau "anialwch" a "diffaethwch" yn wastadol yn golygu hyn; golygant y rhan fynychaf *dir porfa* yn wrthgyferbyniol i *dir wedi ei lafurio*, neu *wlad deneu o breswylwyr* yn wrthgyferbyniol i *leoedd mwy poblog*. Sonir am "borfeydd yr anialwch" (Salm lxv. 12. Jer. ix. 9, xiii. 10. Joel i. 19, ii. 22); arferai dynion fugeilio eu defaid "yn yr anialwch" (Luc xv. 4); pan ranwyd Canaan rhwng meibion Israel, yr oedd chwech o ddinasoedd yn y lle a elwid "yr anialwch." (Jos. xv. 61, 62.) Mewn gwlad fel hyn y pregethai ac y bedyddiai Ioan Fedyddiwr, lle y cyrchai tyrfaoedd lliosog i'w wrando. (Marc i. 3, 4.)

Gwna cofio yr ystyriaethau hyn symmud ymaith yr anhawsdra a deimlai yr esgob Colenso gyda golwg ar gynnaliaeth diadelloedd meibion Israel yn yr anialwch. Yr oedd ynddo rai lleoedd digon ffrwythlon i gynnal eu hanifeiliaid, fel y profa y tyrfaoedd Arabiaid ag sydd i'w canfod ynddo y dyddiau hyn gyda'u camelod a'u diadelloedd; gwyddai Moses am y lleoedd hyn ar ol bod am ddeugain mlynedd yn bugeilio ynddo. (Exod. iii. 1.)

Awgrymir hefyd fod Duw wedi gofalu am angen anifeiliaid Israel trwy wlawio ar yr anialwch, fel y cynnyrchai borfa iddynt, yn ogystal ag am ddyn trwy wlawio manna iddo ef.

"Pan aethost, O Dduw, o flaen dy bobl, pan gerddaist trwy yr anialwch; Selah: y ddaear a grynodd, a'r nefoedd a ddiferasant o flaen Duw: Sinai yntau *a grynodd* o flaen Duw, *sef* Duw Israel. Dyhidlaist wlaw graslawn, O Dduw, *ar* dy etifeddiaeth: ti a'i gwrteithiaist wedi ei blino." (Salm lxviii. 7—9.)

(2,) *Coedydd a ffrwythau.*

Y *cedrwydd* yw y coed mwyaf mawreddog a gwerthfawr y cyfeirir atynt yn y Beibl. Yr oedd mynydd Libanus, yn Syria, yn enwog o herwydd ei gedrwydd. Tyfa y gedrwydden i'r uchder o 70 neu 80 troedfedd; ac y mae amgylchedd ei boncyff weithiau yn 30 neu 40 troedfedd. Lleda ei changhenau i bellder mawr oddi wrthi, ac y mae ei dail bob amser yn wyrddion. Y mae y gedrwydden yn bren caled, ac nid yw trychfilod yn ei fwyta na'i niweidio; a dywed haneswyr ei fod yn parhau am dros ddwy fil o flynyddoedd. Mae gan y cedrwydd *arogl* neillduol o hyfryd. Tardda sudd balmaidd allan o honynt; ac o herwydd hyn mae arogl peraidd adfywiol yn y goedwig lle y tyfant, fel y mae yn bleser rhodio ynddi. Dyma "arogl Libanus," mae yn debygol, y sonir am dano yn Caniadau iv. 11; a Hosea xiv. 6.



MYNYDD LIBANUS A'R CEDRWYDD.

Gwneir cyfeiriadau mynych at y gedrwydden yn y Beibl, a gwneir defnydd o honi er egluro gwahanol bethau. (Salm xcii. 12. Ezec. xxxi. 3—5. Esai. ii. 13, xli. 19.)

Ceir desgrifiad mawreddog o ystorm o fellt a tharanau yn nghoedwig Libanus, ac yna yn ymrolio oddi yno tua'r gwastadedd i'r Deheu, yn nghyda'i dylanwad ar y cedrwydd, yr anialwch, ac anifeiliaid y maes, yn Salm xxix. 3—9.

3. Llef Jehofah (y daran) sydd ar y dyfroedd:
Duw y gogoniant a darana:
Jehofah sydd uwchlaw dyfroedd mawrion.

4. Llef Jehofah sydd mewn grym;
Llef Jehofah sydd mewn mawrhydi.

5. Llef Jehofah sydd yn dryllio y cedrwydd,
Ië, dryllia Jehofah gedrwydd Libanus yn ysgyrion!

6. Gwna iddynt hefyd lammu fel llo,
Libanus a Sirion* fel bualod ieuainc *(young buffaloes)*.

7. Llef Jehofah a wasgara y fflamau tân.

8. Llef Jehofah a ysgydwa yr anialwch;
Ysgydwa Jehofah anialwch Cadesh.

9. Llef Jehofah a wna i'r ewigod (mewn braw) erthylu,
Ac a ddirisgla y coedwigoedd:
Ac yn ei deml dywed pob un, "Gogoniant!"

Sonir yn yr efengylau droiau am y *ffigysbren*. Yr oedd y ffigysbren gynt yn dra chyffredin yn Judea, ac y mae i'w ganfod yno yn awr. Dyrchafa ei ganghenau yn uchel, a lleda hwynt o amgylch, ac y mae ei ddail yn dra mawrion; mae dail un math o ffigysbren yn bedair neu bump troedfedd o hyd, a thair troedfedd o led, a defnyddir hwy yn y Dwyrain i sypio i fyny feichiau, ac fel bwrddlieiniau, matiau, &c. Dywedir fod ein rhieni wedi gwnïo dail y ffigysbren yn nghyd, er cuddio eu noethni. (Gen. iii. 7.) Mae yn arferiad yn y Dwyrain yn awr i wnïo neu binio dail y ffigysbren, er gwneyd basgedi, gwlawleni, &c. O herwydd ei ddail ëang, yr oedd y ffigysbren yn bren tra chysgodol rhag gwres tanbaid yr haul a gwlith y nos; a sonir am "eistedd o dan y winwydden, a than y ffigysbren," fel arwyddlun o heddwch a llwyddiant. (1 Bren. iv. 25. Michah iv. 4. Zech. iii. 10. Ioan i. 48.)

* Wrth Sirion y golygir mynydd Hermon, neu y rhan Dde-Ddwyreiniol o'r gadwyn fynyddig a elwir Anti-Libanus. Gelwir ef hefyd Seuir (Deut. iii. 9), a Sion. (Deut. iv. 48.)

Dywed Josephus fod y ffigysbren yn nghymmydogaeth Llyn Gennesaret yn dwyn ffrwyth am ddeng mis o'r flwyddyn, ond ar wahanol adegau. Gelwir ffigys y gwahanol dymhorau hyn fel y canlyn :—

1. *Ffigys cynnar.* Addfeda y rhai hyn tua diwedd Mehefin, ac y maent yn dra pheraidd eu blas. (Jer. xxiv. 2. Hos. ix. 10.) Syrth y ffigys cynnar oddiar y pren yn ddioed, pan ysgydwir ef. (Nah. iii. 12.)

2. *Ffigys haf.* Ymddengys y rhai hyn yn Mehefin, ac addfedant yn Awst.

3. *Ffigys gauaf.* Ymddengys y rhai hyn yn Awst, ac addfedant yn Tachwedd, ac arosant ar y pren hyd y nod ar ol iddo golli ei ddail ; ac os na fydd y gauaf yn oer iawn, erys rhai o honynt arno hyd y gwanwyn. Bwyteir y gwahanol fathau hyn o ffigys fel yr addfedant; a sychir hwynt hefyd er eu cadw, fel yr awgrymir yn ngwaith Abigail yn dwyn dau gant o deisenau o ffigys i Dafydd. (1 Sam. xxv. 18.)

Yr oedd ffigys hefyd yn feddiannol ar rinwedd meddygol, canys cawn Esaiah yn gorchymyn dodi meddalai *(poultice)* o honynt ar gornwyd Hezecïah. (2 Bren. xx. 7.) Yr oedd ffrwythiad y ffigysbren yn arddangos dynesiad buan yr haf (Can. ii. 13. Mat. xxiv. 32. Luc xxi. 20); ac o herwydd defnyddioldeb y pren, ystyrir methiant ei ffrwyth yn galedi dirfawr. (Jer. v. 17, viii. 13. Joel i. 7, 12. Hab. iii. 17, 18.)

Mae un nodwedd neillduol yn perthyn i'r ffigysbren ag sydd yn egluro Marc xi. 13:—"Ac wedi iddo ganfod o hirbell ffigysbren âg arno ddail, efe a aeth *i edrych* a gaffai ddim arno. A phan ddaeth ato, ni chafodd efe ddim ond y dail: canys nid oedd amser ffigys." Ymddengys fod y geiriau yn fyr-ieithog, ac mai yr ystyr yw a ganlyn:—"A phan ddaeth ato, ni chafodd efe ddim ond y dail: (yr hyn oedd yn hynod), canys nid oedd amser (casglu) ffigys (wedi cymmeryd lle)." Cymharer Mat. xxi. 34, lle y ceir "amser ffrwythau" am *amser casglu ffrwythau.* Ymddengys fod y ffigysbren hwn wedi tynu sylw yr Iesu, gan ei fod wedi deilio yn gynarach nag arferol ar y flwyddyn; oblegyd mis Nisan (Mawrth neu Ebrill) oedd yr adeg hon. Mae ffrwyth y ffigysbren yn ymddangos o flaen y blodau, ac yn gyffredin cyn toriad y dail allan; o ganlyniad,

yr oedd yn naturiol i'r Iesu ddysgwyl ffrwyth ar ffigysbren deiliog, yn neillduol gan nad oedd adeg casglu ffigys wedi dyfod. Yr oedd y ffigysbren hwn, gan hyny, heb ffigys, am yr unig reswm ei fod yn ddiffrwyth. Tarawyd ef â barn, fel y gwywodd, yn rhybudd i'r disgyblion nad ydyw ymddangosiad allanol o ddwyn ffrwyth i Dduw yn ddigon, oddi eithr fod hyny yn wirioneddol; ac yn arwyddlun hefyd o'r farn ag oedd i oddiweddyd yr Iuddewon o herwydd eu diffrwythder i Dduw, er eu holl rodres a'u trwst allanol.

Ymborthai y mab afradlon ar ffrwyth y *garobwydden (the carobtree)*. Mae y pren hwn yn dra chyffredin yn Syria, Palestina, a Deheubarth Ewrop, a thyfa weithiau i faintioli mawr iawn. Ymddengys o bell yn debyg i bren afalau, ond y mae ei ganghenau yn fwy tewfrig, a'i ddail yn hirach a duach. Y mae yn bren bythol-wyrdd, a châ y teithiwr blin gysgod hyfryd a gorphwysdra adfywiol o dan ei ganghenau deiliog. Cynnyrcha hâdgodau tuag wyth modfedd o hyd, ac oddeutu modfedd o lêd, ac yn cynnwys hadau cyffelyb i ffâ bychain ynddynt. Yn Ynysoedd Groeg ac Asia Leiaf, gellir gweled aml un o'r coed hyn â hanner tunell o hâdgodau yn crogi wrtho. "Cibau" yw y gair a geir yn y Beibl Cymraeg am yr hâdgodau hyn. Buasai "plisgrawn y garobwydden" yn cyfleu y syniad yn gywirach. Ymborthir arnynt yn awr gan dlodion y Dwyrain, a defnyddir hwynt i borthi anifeiliaid. Ni olyga yr Arglwydd Iesu ddysgu mai ymborth cymhwys i foch yn unig a fwytäai y mab afradlon, ond fod yr hwn a ddygasid i fyny yn nghanol cyfoeth a llawnder y palas wedi cael ei ddarostwng i fyw ar yr ymborth mwyaf cyffredin, a bod mab i Abraham wedi ei wneyd yn arolygwr creaduriaid aflan o dan y ddeddf! (Luc xv. 16.)

Cyfeirir sylw darllenydd y Beibl yn fynych at y *winwydden*, a'r *modd y sethrir y grawnwin*. Ystyrir ei fod yn gyfarwydd â'r modd y gwneid hyn. Desgrifia Dr. Hackett* y gorchwyl o sathru y gwinwydd fel y canlyn:—"Gwneir cafn gwag, yn gyffredin mewn craig, yn ddyfnach i raddau helaeth yn un pen na'r llall. Dodir y gwinwydd *(grapes)* yn y cafn hwn, ac yna â dau neu ragor o bersonau gyda'u traed a'u coesau yn noethion i mewn iddo, lle y neidiant i fyny ac i lawr, ac ar yr

* *Illustrations of Scripture*, pp. 157—159. Gwel hefyd *Dr. Robinson's Later Biblical Researches*, p. 137.

un pryd byddant yn fynych, er bywiogi eu hunain gyda'u gorchwyl, yn canu. (Esai. xvi. 10. Jer. xxv. 30.) Llifa y sudd i'r rhan ddyfnaf o'r cafn. Wrth i'r sathrwyr fyned yn mlaen gyda'u gwaith, gwna y gwinwydd weithiau rwygo gyda thwrf, a'u llychwino â'r sudd rhudd-goch o'u pen i'w traed. Bydd eisieu gwasgu ychwaneg ar rai o'r gwinwydd ar ol hyn. Er mwyn hyn dodir ystyllen arnynt, a chareg drom yn bwysau ar hono."

Weithiau, gwesgir y gwin allan o'r gwinwydd mewn math o ddyfrgist, yn agos i waelod pa un y bydd twll, trwy yr hwn y llifa y sudd i lestr darparedig i'w dderbyn.

Sicrha y sathrwyr weithiau raffau wrth bren cadarn uwchben y gwingafn, er eu cynnorthwyo i ymgodi a neidio ar y gwinwydd.



SATHRU Y GRAWNWIN.

Cyfeirir at y defodau a'r dygwyddiadau cyssylltiedig â sathru y grawnwin mewn gwahanol ranau o'r Ysgrythyrau, megys yn Esai. lxiii. 1—3 :—

"Pwy yw hwn sydd yn dyfod o Edom,
Yn goch ei ddillad o Bosrah?
Yr hwn sydd hardd yn ei wisg,
Yn ymdaith yn amlder ei rym?"

Yr ateb yw,

"Myfi, yr hwn a lefaraf mewn cyfiawnder,
Ac wyf gadarn i iachâu."

Gofynir drachefn,

"Paham yr wyt yn goch dy ddillad,
A'th wisg fel yr hwn a sathrai mewn gwinwryf?'

Ac atebir,

"Sethrais y gwinwryf fy hunan,
Ac o'r bobl nid oedd un gyda mi;
A mi a'u sethrais* hwynt yn fy nig,
Ac a'u methrais yn fy llidiowgrwydd;
A'u gwaed hwynt a daenellwyd ar fy nillad,
A'm holl wisgoedd a lychwinais."

Yr oedd gwinllanoedd gwerthfawr ar fynydd Libanus, ac ystyrid eu gwin y goreu a gynnyrchid. Bydd Israel, pan gredant yn Nghrist, mor enwog am eu rhinweddau ag oedd gwinllanoedd Libanus am eu gwin. (Hosea xiv. 7.) Gwel hefyd Esai. xvi. 10. Jer. xxv. 30. Mat. xxi. 33.

Mae yr *olewydden* hefyd yn bren ag y gwneir cyfeiriadau mynych ato yn y Beibl. Nid oblegyd ei faintioli y cyfeirir ato; ychydig o olewydd sydd yn tyfu i fwy o uchder na 30 troedfedd; ond cyfeirir ato o herwydd ei brydferthwch, ac o herwydd yr olew a ddyry ei ffrwyth, yr hwn sydd yn nwydd masnachol pwysig (Ezec. xxvii. 17); a dywedir fod pren ffrwythlawn yn ei gyflawn faintioli yn dwyn mil o bwysau o olew. Mae yr olewydden yn bren bythol-wyrdd, yn parhau tua 200 mlynedd cyn dechreu gwywo, ac yn hyfryd i'r llygad i edrych arno, ac oblegyd hyny defnyddir ef fel cymhariaeth i egluro tynerwch profiad, a harddwch ymddygiad y dyn duwiol. "Ond myfi sydd fel olewydden werdd yn nhŷ Dduw." (Salm lii. 8.) "Bydd ei degwch fel yr olewydden." (Hos. xiv. 6.)

Nid yw y *balmwydden* mor liosog yn awr yn Mhalestina ag yn yr amser gynt. Nid oes i'r pren hwn ganghenau, ond tyfa i'r uchder o 60 i 100 troedfedd, ac yn ei frig y mae o ddeugain i bedwar ugain o frigau deiliog; o dan y brigddail hyn y tardda y ffrwyth. Dywedir fod y balmwydden yn yr Aifft yn dwyn o 15 i 20 o sypynau o balmaeron, a phob un o honynt yn pwyso o 15 i 20 pwys yr un. Mae y balmwydden hefyd yn bren bythol-wyrdd, ac yn byw am dros 200 mlynedd. Mae y balmwydden yn un o'r ffrwythbrenau mwyaf defnydd-

* Dylid darllen y berfau hyn yn yr amser gorphenol.

iol; mae preswylwyr yr Aifft, Arabia, a Phersia, yn ymddibynu llawer arno am eu cynnaliaeth; nid ydyw Arabiaid y diffaethwch yn aml yn cymmeryd dim ymborth gyda hwynt ond y palmaeron *(dates)*. Mae y trethi a delir dros y palmwydd yn unig yn yr Aifft yn cyrhaedd y swm o gan' mil o bunnau yn flynyddol.*



Y BALMWYDDEN.

Dywedir fod y cyfiawn yn blodeuo fel y balmwydden, ac yn dirf ac iraidd yn ei henaint, fel y mae y pren hwn yn dwyn ffrwyth am oesoedd. (Salm xcii. 12—14.) Arferai yr Iuddewon â cludo canghau o'r palmwydd yn eu dwylaw ar adeg gŵyl y pebyll, a'u taenu ar hyd y ffyrdd yn eu gorymdeithiau buddygoliaethus. (Ioan xii. 12, 13.) Yr oedd gorchfygwyr yn y campau Groegaidd yn cael coronau o balmwydd ar eu penau, a dychwelent i'w cartrefi fel buddygoliaethwyr â changhenau o balmwydd yn eu dwylaw, at yr hyn y cyfeirir, mae'n debyg, yn Dad. vii. 9.

Cymhara yr Arglwydd Iesu ddechreuad bychan a chynnydd rhyfeddol ei deyrnas i *bren mwstard.* "Dammeg arall a osododd efe iddynt, gan ddywedyd, Cyffelyb yw teyrnas nefoedd i ronyn o had mwstard, yr hwn a gymmerodd dyn ac a'*i* hauodd yn ei faes. Yr hwn yn wir sydd leiaf o'r holl hadau; ond

* *Anderson's Bible Light from Bible Lands*, pp. 298, 299.

wedi iddo dyfu, mwyaf un o'r llysiau ydyw, ac y mae efe yn myned yn bren; fel y mae adar y nef yn dyfod, ac yn nythu yn ei ganghau ef." (Mat. xiii. 31, 32.) "Nid ydym," ebe Dr. Thomson, y Cenadwr enwog yn Mhalestina, "i feddwl mai yr hedyn mwstard yw yr hedyn lleiaf o'r holl hadau *yn y byd;* ond hwn oedd yr hedyn lleiaf a arferai yr amaethwr ei *hau;* ac yr oedd y 'pren' ar ol cyflawn dyfu yn fwy na'r llysiau ereill yn ei ardd." Tybia Dr. Thomson y gallai fod y pren mwstard yn cael ei feithrin gyda mwy o ofal gynt nag yn awr, gan fod traddodiadau yn y wlad am rai mor fawr o hono fel y gallai dyn ddringo ar hyd-ddynt. Dywed ei fod ef wedi gweled pren mwstard wedi tyfu mor uchel a phen dyn pan yn marchogaeth ei anifail. Pan oedd Dr. Hackett, America, yn nghymmydogaeth mynydd Carmel, yn 1852, canfyddai yr hyn a ymddangosai yn debyg i blanhigfa fechan o goed; wedi myned ati, cafodd ar ddeall mai maes ëang o lysiau mwstard ydoedd. Yr oeddynt y pryd hyny yn eu blodau, a'u llawn faintioli, ac yn amrywio o ran eu huchder o chwech i naw troedfedd, a'u boncyff yn fodfedd neu ychwaneg o drwch, ac yn taflu allan eu canghenau o bob tu. A thra yr oedd yn syllu gyda hyfrydwch arnynt, dyna un o adar y nefoedd yn disgyn ar ganghen un o honynt, ac yn telori mawl i'r Creawdwr yn y modd mwyaf pêroriaethus. Mewn cymhariaeth i lysiau ereill (ac un o'r "*llysiau*" y gelwir ef gan yr efengylwyr) gellid ei alw yn "bren;" yn wir yr oedd rhai o'r llysiau-brenau hyn yn tyfu am flynyddau, ac yn dyfod i ymddangos fel "prenau." Yr oedd gormodiaith fel hyn yn dra chyffredin yn mhlith y bobl, ac yr oedd iaith Crist yn berffaith ddealladwy iddynt. (*Hackett's Illustrations of Scripture*, p. 124; *Thomson's Land and the Book*, pp. 414—416.)

(3,) *Hinsawdd, tymhorau, afonydd, &c.*

Mae hinsawdd Canaan yn amrywio mewn gwahanol leoedd. Mae yn gynhesach ar y gwastadedd a'r dyffrynoedd nag yn y mynydd-dir. Ar y cyfan, mae yr hinsawdd yn dyner a iachus. Disgyna, yr hyn a eilw y Beibl, y *cynnar wlaw*, yn Hydref neu ddechreu Tachwedd, er parotoi y ddaear i gael ei llafurio. Yn y gauaf, o ddechreu Rhagfyr i Chwefror, mae yr oerni yn fawr yn yr uchel-diroedd, ac ystormydd o genllysg yn cymmeryd lle. Disgyna y *diweddar wlaw* yn Ebrill, ychydig o

flaen y cynhauaf.* Yr oedd attal y nefoedd i wlawio yn rhwystro i'r ddaear ddwyn ffrwyth, fel y byddai newyn a chaledi dirfawr yn dilyn. (1 Bren. xvii. xviii. Joel i. 20. Amos iv. 7, 8.)

Mae adeg y cynhauaf yn cyrhaedd o ganol Ebrill hyd fis Mehefin. Cymmer yr haf le o Mehefin i Awst; ac o Awst i Hydref, y mae yr hyn a elwir yr *hot season*, pryd y mae y gwres yn fawr iawn.

Fe gyfeirir yn y Beibl at effaith niweidiol gwres yr haul, a dylanwad y lleuad ar ddyn, oddiwrth ba rai yr oedd y duwiol yn edrych at Dduw am ymwared. "Ni'th dery'r haul y dydd, na'r lleuad y nos." (Salm cxxi. 6.) . Gŵyr pawb am darawiadau yr haul; ymddengys fod pelydrau y lleuad hefyd yn niweidiol a pheryglus yn y Dwyrain. "Y mae effaith goleuni y lleuad ar lygaid dynion yn y wlad hon," ebe'r teithiwr John Carne wrth ddesgrifio hanes yr Aifft, "yn dra niweidiol; mae'r brodorion yn gorchymyn i chwi, fel y canfyddais ar ol hyny eu bod yn gwneyd yn Arabia hefyd, i orchuddio eich llygaid bob amser pan y byddwch yn cysgu yn yr awyr agored. Mae y lloer yma mewn gwirionedd yn taro ar y golwg, ac yn effeithio arno yn fwy nag mae'r haul pan y cysgwch yn ei belydrau ef. Yn wir, byddai i olwg yr hwn a gysgai heb orchudd ar ei wyneb yn y nos gael ei lwyr ddinystrio cyn hir." (*Letters from the East*, vol. i. p. 88, Ed. 1827.)

Dywed Cenadwr o India fel y canlyn:—"Mae y tymhor poeth yn India yn parhau hyd ddiwedd Mehefin. Mae yr haul yr holl amser hyn yn dra niweidiol, a'r lleuad hefyd. Yn ystod y tymhor poeth, mae y bobl yn gyffredin yn cysgu yn yr awyr agored. Gwnawn ninau yr un modd; ond yr oeddwn

* Ymddemgys Joel ii. 23 ar yr olwg gyntaf, fel yn gwrthddweyd hyn:—"Canys efe a roddes i chwi y cynnar wlaw yn gymmedrol, ac a wna i'r cynnar wlaw a'r diweddar wlaw ddisgyn i chwi yn y *mis* cyntaf." Yr oedd hyn yn anmhossibl. Gwelir fod y cyfieithwyr wedi dodi y gair "mis" i mewn, ac felly yn rhoddi ystyr gyfeiliornus i'r geiriau. Defnyddir בראשון yn gyfystyr â rhagferf amserol, gydag ב yn ddealladwy, *megys ar y cyntaf, fel cynt.* "Y cynnar wlaw a'r diweddar wlaw fel o'r blaen."—HENDERSON. "Y cynnar wlaw a'r diweddar wlaw fel yn yr amser gynt."—NEWCOME. Rhydd Keil a Delitzsch ystyr arall i'r geiriau:—"Y mae efe yn peri i ddisgyniad gwlaw ddyfod arnoch, y cynnar wlaw a'r diweddar wlaw, yn gyntaf oll." Gwlaw naturiol, yn arwyddo cyflawnder o fendithion daearol *yn gyntaf oll;* yna *ar ol hyny*, y gwlaw ysbrydol. (Joel ii. 28.) Pa olygiad bynag a fabwysiedir, rhaid ymwrthod â'r ystyr yn y cyfieithiad cyffredin.

yn wastad yn ofni effeithiau pelydrau y lleuad; a chymmerwn gymmaint o ofal i'w cadw o fy ngwely ag a gymmerwn i ddiogelu fy hun rhag nadroedd. Ystyrir gan y brodorion a'r Ewropiaid fod y lleuad yn dylanwadu yn niweidiol ar y cyfansoddiad dynol."

Dywed y Salmydd y gwnai Duw daflu ei aden dros Israel, ac na chaent hwy eu cystuddio fel hyn; ïe, amlyga ei hyder y gwnai Duw eu cadw rhag pob drwg, ac fel bendith yr holl fendithion, y gwnai gadw yr enaid anfarwol, yr hyn hefyd a wna i'r Israel ysbrydol. "Yr Arglwydd *yw* dy geidwad: yr Arglwydd *yw* dy gysgod ar dy ddeheulaw. Ni'th dery yr haul y dydd, na'r lleuad y nos. Yr Arglwydd a'th geidw rhag pob drwg: efe a geidw dy enaid" (Salm cxxi. 5—7.) Er fod y Salm fel hyn yn cyfeirio at ffeithiau adnabyddus mewn natur, dichon mai meddwl y Salmydd yw, y gwna Duw ofalu am ei bobl yn mhob man, a phob amser, nos a dydd, ac yn mhob cyfyngder; a'i fod yn gofalu, nid yn unig am anghenion y corph, ond hefyd am ddiogelwch yr enaid: gwel Eiriaduron *Eadie*, *Kitto*, a *Smith*.

Mae Canaan, o herwydd ei dyffrynoedd isel a'i mynyddoedd serth, yn agored i ystormydd ffyrnig ac annysgwyliadwy; disgynant ar y dyffrynoedd yn fynych pan y bydd yr awyr yn glaer a digwmmwl; cawn un o honynt wedi goddiweddyd Crist a'i ddysgyblion ar ol iddynt gychwyn croesi môr Tiberias. Dywed Dr. Thomson eu bod yn fynych yn peri i'r môr hwn ymderfysgu fel crochan berwedig anferth, ac yn dra pheryglus. (Mat. viii. 23 - 26. Luc viii. 23. *The Land and the Book*, p. 374.)

Ymweliadau difrifol yw *ystormydd o genllysg* yn y Dwyrain, i ba rai y mae Canaan yn ddarostyngedig. Ni wiw i ni, wrth ddarllen am genllysg yn y Beibl, feddwl am y rhai a fwrir yn ein gwlad ni, ond yn hytrach fel yr ymddangosant i'r Dwyreinwyr. Cawn fod y cenllysg yn yr Aifft yn lladd dynion ac anifeiliaid, ac yn dryllio y coedydd. (Exod. ix. 19, 25.)

Dywed Dr. Robinson fod cenllysg yn fynych yn disgyn yn gymmysgedig â'r gwlaw yn Nghanaan, a'u bod ar rai achlysuron gymmaint a phys neu ffa, ac weithiau yn llawer mwy. Pan oedd Scholz yn Nazareth, yn 1821, cymmerodd ystormydd geirwon o genllysg le amryw droiau, pryd y disgynai rhai o honynt gymmaint ag wyau colomenod. (*Dr. Robinson's Physical Geography of the Holy Land*, p. 265.)

Blinid y milwyr Prydeinig yn y Rhyfelgyrch i Abyssinia, yn 1868, â chenllysg mawrion a pheryglus; fel hyn y darlunir hwy yn y *Morning Star* am Gorphenaf 2fed, 1868:—"Mae yr ystormydd hyn yn rhwystrau mawrion i'r fyddin fyned yn mlaen; *mae y cenllysg ag sydd yn disgyn mor fawr ag wyau colomenod*, yn clwyfo trwy yr amwisg, ac yn gwneyd y ceffylau yn aflywodraethus." Dywed gohebydd y *Freeman* hefyd, wrth ddarlunio ystorm yn East London, Kaffraria, *fod y cenllysg a ddisgynai yn gymmaint ag wyau ieir*. (*Freeman*, *December* 11*th*, 1868.) Hyd y nod yn Madrid, prif ddinas Yspaen, yr oedd *cenllysg yn disgyn* yn Awst, 1869, ag *oeddynt mor fawr ag wyau ieir*, ac *yn pwyso tair wns yr un*. (*Morning Star*, *August* 13*th*, 1869.) Melldith ofnadwy oedd y cenllysg pan yn cael eu gyru o flaen rhuthrwynt digter yr Anfeidrol!

Mae y gwlawogydd trymion ac ystormus ag sydd yn disgyn yn Palestina, yn peri i'r ffrydleoedd sychion ar ochrau y mynyddau lenwi yn ddisymmwth, ac i lifogydd nerthol ruthro tua'r gwastadedd, gan gludo pob peth o'u blaen. At y llifddyfroedd o'r natur yma, ar ol gwlawogydd trymion, y cyfeiria Iesu Grist yn niwedd ei bregeth ar y mynydd (Mat. vii. 24—27), lle y cymharir y gwrandawr anufydd i ddyn wedi adeiladu ei dŷ ar y pridd, neu y graian, ar yr hwn y rhuthrodd y rhyferthwy, ac yntau a syrthiodd. Dywed W. Ward, y Cenhadwr, fod pysgotwyr Bengal yn adeiladu eu bythod yn y tymhor poeth ar welyau o dywod, oddiar ba rai y bydd yr afon yn cilio. Pan y disgyna y gwlawogydd, fel y gwnant weithiau yn dra annysgwyliadwy, llifa y dyfroedd yn wyllt-ffrydiau mawrion o'r mynyddau, a chludir ymaith mewn un noswaith luoedd lawer o'r bythod hyn, ac nis gellir gwybod y dydd canlynol yn mha le y safasent.

Pâr y gwlawogydd trymion hyn, ac yn neillduol toddiad yr eira ar y mynyddau, i afonydd y Dwyrain chwyddo a gorlifo eu glanau. Pan y todda yr eira ar fynyddau Libanus a Hermon, yn Mawrth ac Ebrill, llifa yr Iorddonen dros ei glanau.* (Jos. iii. 15. Jer. xviii. 14.) Gorlifa yr Euphrates

* Dyna y desgrifiad arferol; barna Dr. Robinson, modd bynag, mai yn amser hanes boreuol Israel y gorlifai yr Iorddonen dros ei glanau, os oedd yn gorlifo drostynt hefyd. Ystyria efe nad yw yr Hebraeg (Jos. iii. 15), yn golygu mwy na bod yr Iorddonen "yn llawn i fyny i'w holl ymylon;" ond os oedd gorlifiad yn perthyn iddi gynt, dywed efe nad oes ond ychydig o hyny yn yr oes hon, naill ai o herwydd fod gwely yr afon yn gwisgo yn ddyfnach, neu fod y dyfroedd yn cael eu dwyn i gyfeiriad arall, neu fod llai o wlaw yn disgyn yn Mhalestina yn awr na

ei glanau yr un adeg, o herwydd toddiad yr eira ar fynyddau Armenia. Mae gorlifiad blynyddol afon yr Aifft, sef y Nilus, i'w briodoli i'r gwlawogydd rheolaidd a gymmerant le rhwng y trofanau, yn nhiriogaeth tarddle y Nilus, ac i'r llifogydd aruthrol a lifant iddi yn agos i'w tharddle yn ystod y tymhor gwlawog.

Fe gyfeirir at gyfodiad dyfroedd yr afonydd hyn, a'u grym anwrthwynebol mewn canlyniad yn Esai. lix. 19—"Pan ddelo y gelyn i mewn fel afon, Ysbryd yr Arglwydd a'i hymlid ef ymaith." Llifa yr Iorddonen yn nerthol a chyflym yn adeg ei gorlifiad, a chyfeirir at ei hymchwydd fel arwyddlun o nerth anorchfygol. (Jer. xii. 5, xlix. 19.) Dywedir fod y Nilus yn cyfodi bob blwyddyn tua 96 troedfedd, a bod y wlad oddi amgylch yn ymddangos fel môr wedi ei fritho âg ynysoedd. Cawn engraifft nodedig hefyd o godiad cyflym a nerth anorchfygol afonydd yn y Dwyrain, yn hanes ymchwiliadau Syr Samuel Baker am yr afonydd a lifant i'r Nilus. Dywed ei fod un diwrnod ar lan yr afon Atbara, yn Affrica, ac nad oedd diferyn o ddwfr ynddi; ar ddiwedd y dydd, trefnodd ei hun i gysgu ar y lan gerllaw gwely yr afon, tra yr oedd amryw o'i ganlynwyr yn cysgu yn y tywod sych ar wely yr afon; pan yn ceisio cysgu, tybiai ei fod yn clywed sŵn fel sŵn taran o bell; ond yr oedd y sŵn yn parhau ac yn agoshau o hyd; pan y cyfododd ei ben i fyny er gwrando yn fwy astud, dyna'r Arabiaid yn rhuthro i'r gwersyll ato, gan floeddio, "*El bahr! el bahr!*" (Yr afon! yr afon!) pan y deallodd Syr S. Baker mai rhuad dyfroedd yr afon a lifai yn mlaen oedd y sŵn a glywsai fel sŵn taran o bell. O'r braidd y llwyddodd ei ganlynwyr i achub eu meddiannau o'r afon, cyn i'r dyfroedd gyrhaedd y lle. Erbyn boreu drannoeth, yr oedd yno afon o tua 500 o latheni o led, ac o bymtheg i ugain troedfedd o ddyfnder.* Ond pe deuai y gelyn fel hyn, fel ffrwd gref anwrth-

---

chynt, o herwydd fod y coedwigoedd wedi cael eu dinystrio ynddi. Ystyria Keil, er y gall y geiriau oddef cyfieithiad Robinson, mai y cyfieithiad cyffredin sydd yn gosod y meddwl allan gywiraf. Cawn Dr. Thomson, y Cenhadwr, hefyd yn tystiolaethu ei bod yn y dyddiau hyn yn llifo dros ei glanau yn Ebrill; ond i ddeall y cyfeiriad yn gywir, dywed Dr. Thomson fod yn ofynol cofio fod dau fath o geulanau yn perthyn i'r Iorddonen, ac mai y rhai isaf yn unig a orchuddir ar adeg codiad dwfr yr afon. (*Robinson's Bible Researches*, vol. ii., pp. 261—263: *Thomson's Land and the Book*, pp. 618—621.)

* *Baker's Explorations of the Nile Tributaries.*

wynebol, ar warthaf pobl Dduw, eto ni allai eu dinystrio; y mae Duw yn noddwr iddynt hwy rhag pob drwg. (Dad. xii. 15, 16.)

Wedi gorlifiad y Nilus, ni raid i'r amaethwr ond hau ei hâd ar enciliad y dyfroedd er mwyn cael digonedd; bernir fod cyfeiriad at hyn yn Preg. xi., "Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd; canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau."

Mae gwledydd Dwyreiniol yn ddarostyngedig i ystormydd ofnadwy o wyntoedd a thywod; un o'r rhai hyn a darawodd ar bedair congl tŷ Job, ac a laddodd ei blant. (Job i. 19.) Sonia Bruce yn hanes ei deithiau am un o'r corwyntoedd hyn, yr hwn a gyfododd gamel yn ei gorpholaeth i fyny oddiar y ddaear, ac a'i taflodd i gryn bellder o ffordd, gan dori amryw o'i asenau; a chafodd Bruce ei hun ei gyfodi ganddo oddiar ei draed, a'i daflu ar ei wyneb, nes yr oedd y gwaed yn ffrydio o'i ffroenau. Mae colofnau mawrion o dywod yn cael eu chwythu o flaen y gwynt, y rhai sydd bron a chladdu pob peth mewn llwch, a'r rhai sydd mor boeth a gwres y ffwrn pan yr agorir hi. Mae y colofnau hyn weithiau mor dewion ac ëang, fel y maent yn tywyllu yr haul, a throi canol dydd fel canol nos: ni fydd ond rhyw lwch mân i'w deimlo yn ystod parhad y corwynt. Barna rhai mai peth fel hyn oedd y tywyllwch "y gellid ei deimlo"* yn yr Aifft gynt. (Exod. x. 21: gwel *Burder's Oriental Customs*, pp. 395—397, 455: *Dr. Shaw's Travels*, p. 378: *Kalisch on Exod.* x. 21.)

O herwydd poethder yr hin yn ngwledydd y Beibl, y mae gwlith y nos yn disgyn mewn cyflawnder mawr. Cawn Gideon yn Nghanaan yn gwasgu "*llonaid phiol o ddwfr*" o gnu gwlan, ar ol iddo fod yn ngwlith y nos. (Barn. vi. 38.) Cymhara y Salmydd fanteision a dymunoldeb cariad brawdol i "*wlith Hermon*" (Salm cxxxiii. 3.) "Nis gallwn ni, trigolion tiriogaethau lleithion," ebe Volney, "ddeall yn hawdd pa fodd y gall gwlad fod yn ffrwythlon heb wlaw; ond yn yr Aifft, mae'r gwlith yn disgyn mewn cyflawnder yn y nos, ac yn gwneyd yn lle gwlaw." (*Travels*, vol. i., p. 55.) "Cawsom ein dysgu trwy brofiad (ebe Maundrell, *Journey*, *March 22nd*), beth a olygai y Salmydd santaidd wrth 'wlith Hermon,' oblegyd

* Ymddengys, modd bynag, mai y cyfieithiad cywiraf o Exod. x. 21, yw:—"Estyn dy law tua'r nefoedd, fel y byddo tywyllwch ar dir yr Aifft, fel y byddont yn ymbalfalu yn y tywyllwch," וימש חשך. Ceir yr un cystrawiad yn Job xii. 25.

yr oedd ein pebyll mor wlybion oddi wrtho, a phe buasai wedi gwlawio trwy'r nos." Dywed Dr. Shaw hefyd, wrth son am y niwl a'r gwlith yn Arabia Petrea, fel y canlyn:—" I'r un achos hefyd (sef gwres angerddol y dydd), yn cael ei ddilyn gan oerni y nos, yr ydym i briodoli y cyflawnder o wlith, a'r tarth tew annymunol hyny, o un o ba rai yr oeddym bob nos yn cael prawf rhy boenus. Yr oedd y gwlith yn neillduol, gan nad oedd genym ond y nef yn orchudd, yn aml yn ein gwlychu yn wlyb hyd at y croen." (*Dr. Shaw's Travels*, p. 379.)

Rhaid cofio cyflawnder gwlith y Dwyrain, a'i ddylanwad adfywiol ar y ddaear, mewn trefn i deimlo grym a gweled gwerth yr addewid Ddwyfol, y bydd Duw "fel gwlith i Israel." (Hos. xiv. 5.)

Gwna ansawdd yr awyrgylch, a natur yr *halen* a ddefnyddir yn Syria a Phalestina, egluro Mat. v. 13. "Chwi yw halen y ddaear: eithr o diflasodd yr halen, a pha beth yn helltir ef? ni thal efe mwy ddim, ond i'w fwrw allan, a'i sathru gan ddynion."

Yn ein gwlad ni, nid yw halen yn yr awyr agored, neu wedi ei doddi, yn myned yn ddiflas, gan ei fod bron i gyd yn gyfansoddedig o *chloride of sodium;* ond y mae halen Syria yn gyfansoddedig o *chloride of sodium*, gyda llawer o *sulphate of lime*, ac nid ydyw yn toddi drwyddo mewn dwfr, heb i'r dwfr fod wyth gant o weithiau yn drymach na'r halen. Gan hyny, os bydd i halen Palestina gael ei ddodi yn y gwlith neu y gwlaw, mae yr halen pur yn toddi a'r halltrwydd yn diflanu, a'r elfen galchol ddiflas yn parhau; wedi'r cyfnewidiad hwn, nid yw yr halen mwyach yn ddefnyddiol i ateb ei ddyben neillduol ei hun; nid yw yn gymhwys ychwaith fel gwrtaith; yn hytrach na hyny, llwyr ddinystria ffrwythlondeb y tir; ac am hyny bwrir ef ar y ffordd neu'r llwybrau lle y sethrir ef gan ddynion.*

Mae Canaan yn un o'r gwledydd ag sydd yn dyoddef yn fynych oddiwrth *locustiaid*. Un o'r melldithion mwyaf ofnadwy ydyw ymweliad dinystriol y locustiaid. Yr oedd ymweliad y rhai hyn yn un o'r pläau â pha rhai y cosbid Pharaoh. Darllener yn ofalus Exod. x. 4—15, er gweled y

* *Horne's Introduction*, vol. ii. Ed. 1856, p. 409. *Thomson's Land and the Book*, pp. 381, 382. *Maundrell's Journey*, pp. 138, 139.

difrod a wnant. Bygythid hwynt ar Israel fel barn. (Deut. xxviii. 38—42. Joel i. 4, ii. 1—11.) Barna rhai fod amrywiol fathau o honynt. Nid yw y geiriau yn Joel i. 4, ond cyfeirio at yr un math ar wahanol adegau eu hoed, o adeg deoriad yr wyau hyd amser eu cyflawn faintioli. O'r braidd y gall dychymmyg dyn amgyffred eu lliosogrwydd, a'r difrod a achosant. Dywed y Beibl eu bod yn tywyllu y nefoedd (Joel ii. 10); yr un modd y dywed hanesiaeth gyffredin, a thystiolaeth preswylwyr y gwledydd Dwyreiniol. Yn y flwyddyn 873, yr oedd cymmylau o locustiaid o'r Dwyrain, yn tywyllu yr awyr yn Germany am ddau fis o amser; ac mewn awr o amser, difrodent ranau ëang o'r wlad; a phan y chwythwyd hwynt yn ol i'r môr, cymmerodd pla dinystriol le. "O'r holl lwythau trychfilaidd," ebe Dr. Robinson, "y locustiaid yw y fflangell drymaf i'r wlad (Syria), a'r hon a arswydir fwyaf gan yr amaethwr. Mae pobl y wlad yn ymladd yn eu herbyn â dwfr a thân; ond nid oes un moddion o amddiffyniad yn ymddangos yn effeithiol yn erbyn eu rhifedi aruthrol. Ysgubant dros wlad, ac mewn ychydig ddyddiau dinystriant bob peth gwyrddlas. Deuant yn heidiau anferth, gan dywyllu yr awyr, ac weithiau disgynant yn bentyrau troedfedd o ddyfnder ar wyneb y maes. Ar un adeg pan oedd y wlad o dan lywodraeth yr Aifft, defnyddiwyd byddin Ibrahim Pasha i geisio eu dinystrio; a chasglasant o honynt dros dri chan' mil o fwyseleidiau *(bushels)*. Eto nid ymddengys fod un ymdrech yn lleihau dim ar eu rhifedi. Nid yw y fath heidiau dinystriol yn arfer ymweled â Syria ond ar derfyn cyfnodau o amryw flynyddoedd, er mai ychydig o flynyddoedd sydd yn myned heibio heb eu bod yn gwneyd niwaid mewn rhyw ran neu gilydd o'r wlad. Eu gelyn mwyaf nerthol a dyfalbarhaol yw aderyn y locust." *Dr. E. Robinson's Physical Geography of the Holy Land*, p. 351. *Dr. Thomson's Land and the Book*, pp. 416—418.



Y LOCUST.

Yr oedd y locust yn cael ei ystyried yn greadur glân o dan y gyfraith. (Lef. xi. 22.) Ymborthai Ioan Fedyddiwr arnynt. (Mat. iii. 4.) Ymborthir arnynt hyd heddyw yn y Dwyrain. Wedi eu diosg o'u traed a'u hadenydd, a'u rhanau tu mewnol, rhostir hwynt o flaen y tân, a bwyteir hwynt gyda hyfrydwch. Hallta yr Arabiaid hwynt, a chludant hwynt mewn sachau lledr yn ymborth iddynt ar eu teithiau. Mae gwahanol ffyrdd i'w parotoi fel ymborth, ond am y ffaith, nid oes yr un petrusder i fod.

## II. Arferion Dwyreinwyr.

Rhaid i ni ymdrechu edrych ar y Beibl o safle Dwyreinwyr, a deall ei ymadroddion pan yn cyfeirio at arferion Canaan a gwledydd cylchynol yn y goleuni yr edrychent hwy arnynt. Yr oedd eu harferion yn dra gwahanol i eiddo trigolion Prydain, fel y cawn weled wrth i ni fyned rhagom.

(1,) *Amaethyddiaeth.*

Ag ychain y byddai yr Iuddewon a Dwyreinwyr ereill yn arfer aredig (1 Bren. xix. 19. Job i. 14), ac âg anneri. (Barn. xiv. 18.) Yr oedd Duw yn gwahardd i Israel gadw llawer o feirch, rhag iddynt fyned i gysylltiad anmhriodol â chenedloedd eilunaddolgar (Deut. xvii. 16. Jos. xi. 6); a choleddu tuedd i ymosod ar genedloedd ereill (Esai. xxxi. 1, 3); ac, fe ddichon hefyd, am eu bod yn cael eu defnyddio yn ngwasanaeth eilunaddoliaeth. (2 Bren. xxiii. 11.)

Offeryn syml iawn yw aradr y Dwyrain. Mae yn cael ei wneyd i fyny, y rhan fynychaf, o ddau bren neu bolion yn croesi eu gilydd yn agos i'r penau nesaf i'r llawr. Rhwymir y pawl a droir at yr ychain wrth yr iau; mae un pen i'r pawl arall yn gwasanaethu fel aradr, a'r pen arall fel dyrnddolen. Dywed Dr. Hackett ei fod wedi gweled y math yma o aradr yn cael ei defnyddio droiau yn Mhalestina, ac mai un âg *un llaw* y byddai y bobl yn wastad yn ei ddefnyddio. "*Nid oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr*, ac yn edrych ar y pethau sydd o'i ol, yn gymhwys i deyrnas Dduw." (Luc ix. 62.) Gan fod y pridd yn gyffredin yn deneu, a'r aradr mor ysgafn, y mae yn ofynol i'r aradwr gadw ei lygad yn sefydlog

arno, a phwyso arno hefyd, mewn trefn iddo ddryllio arwynebedd y tir. Ni wiw iddo "edrych ar y pethau sydd o'i ol," Felly hefyd gyda'r Cristion: rhaid iddo wylio, cadw ei olwg ar brif nod ei alwedigaeth, a dyfalbarhau, cyn yr â i mewn i deyrnas Dduw.

Yr oeddynt yn *dyrnu* hefyd mewn modd gwahanol i ni. Byddai yr Iuddewon a Dwyreinwyr ereill yn dewis maesydd agored uchel yn lloriau dyrnu, y rhai a fyddent yn agored i'r awel o bob tu; yna gwnaent hwynt yn wastad, esmwyth, a chaled fel llawr tŷ. Wedi hyny taflent yr ysgubau arnynt, o ba rai y deolid y grawn trwy gyfrwng y fen ddyrnu, neu waith yr ychain yn ei fathru. (Deut. xxv. 4. Esai. xxviii. 27, 28.) Yr oedd y fen ddyrnu yn debyg i'r car llusg *(sledge)*, ac ynddi dair o olwynion coed llydain, gyda chylchau haiarn danneddog am danynt. Yr oedd lle i'r gyrwr i eistedd arni; a thynid hi dros yr ŷd gan ddau o ychain.



MEN DDYRNU.

Yr oedd y fen ddyrnu ddanneddog yn cael ei defnyddio i osod allan greulondeb a dinystr. (Amos i. 3. Hab. iii. 12. Esai. xli. 15.)

Defnyddid ffustau neu ffyn pan nad oedd ond ychydig o ŷd neu hadau ysgafnach i'w dyrnu. (Ruth ii. 17. Esai. xxviii. 27.)

Y dull arall y cyfeiriwyd ato ydyw yr un canlynol:—Wedi taenu yr ysgubau ar hyd y llawr dyrnu, gyrid ychain a gwartheg, pump wedi eu hieuo yn nghyd wrth ochrau eu gilydd, i gerdded drosto o amgylch pawl cryf, ac yn mhob cyfeiriad; a

phan elai yr ychain o amgylch, yr oeddynt i gael bwyta o'r ŷd gymmaint ag a ewyllysient. (Deut. xxv. 4.)



LLAWR-DYRNU DWYREINIOL. (DEUT. XXV. 4.)

Pan y dyrnid yn y gwahanol ffyrdd hyn, troid yr ŷd i fyny â math o nithraw; ac ar ol hyny, teflid ef â'r un nithraw i fyny yn erbyn y gwynt, er ysgaru y grawn oddiwrth y gwellt a'r ûs. At y nithraw hon y cyfeiria Ioan Fedyddiwr. (Mat. iii. 12.).



AIFFTIAID YN NITHIO.

(2,) *Bugeiliaeth defaid.*

Yr oedd yr Hebreaid yn nechreuad eu hanes yn ymdeithio yma a thraw, gan yru eu hanifeiliaid i'w canlyn. Wedi ymsefydlu yn Nghanaan, nid oeddynt yn ymwneyd cymmaint â bugeilio eu diadelloedd, ond ymroddent i arwain bywyd sefydlog trwy lafurio'r tir. Yr oedd llawer o honynt, modd bynag, yn feddiannol ar ddiadelloedd ëang, y rhai a anfonent allan o dan ofal bugeiliaid i'r anialwch, neu y tiroedd agored, yn y Dwyrain a'r Deheu i'r wlad, lle ceid cyflawnder o borfeydd am amryw fisoedd o'r flwyddyn. (1 Sam. xvii. 28.) Er mwyn galluogi y bugeiliaid i ganfod dynesiad ysbeilwyr, adeiladent dyrau, oddiar ba rai y gallent weled yn mhell. (Michah iv. 8. 2 Chron. xxvi. 10. Gen. xxxv. 31.) Ystyr Migdal Edar yn y lle diweddaf yw *Tŵr y Praidd*, yr hyn a gyfieithir felly yn Michah iv. 8.

Yn yr haf poeth, pan y mae porfeydd yr anialwch yn cael eu llosgi i fyny gan y gwres angerddol, gyrir y praidd i'r mynydd-dir neu at lanau afonydd. Cawn fod bugeiliaid yn gwylio eu praidd ar lechweddau bryniog Bethlehem pan y ganwyd Gwaredwr y byd. Ni arferid gadael y praidd allan yn y maesydd y nos rhwng gwlawogydd Hydref a'r Pasg yn Mawrth neu Ebrill, ond cesglid hwynt yn nghyd i'r corlanau; ac o herwydd hyny fe farna llawer o ddysgedigion fod genedigaeth Crist wedi cymmeryd lle rhwng Mawrth a Hydref. Yn ol Dr. Lardner, fe'i ganwyd rhwng canol Awst a chanol Tachwedd; yn ol yr archesgob Newcome, fe'i ganwyd Hydref 1af; ac yn ol Greswell, Ebrill 5ed.

Ond i ddychwelyd. Gwneir cyfeiriadau mynych at fugeilio defaid yn y Beibl. Ymgysura y Salmydd yn ei Dduw fel ei fugail (Salm xxiii.); cymhara Esaiah ofal Duw am ei bobl i dynerwch bugail da at ei braidd (Esai. xl. 11); a dysga yr Arglwydd Iesu amryw o wirioneddau pwysig trwy ddammeg y bugail da. (Ioan x. 1—18.)

Yn Nghanaan, mae y bugail yn *myned o flaen* y praidd, a hwythau yn *dilyn;* geilw y bugail arnynt yn awr ac eilwaith wrth eu henwau, a gwrandawant ar ei lais, a rhedant ato;* os geilw dyeithrddyn arnynt, safant a chodant eu penau mewn braw; os geilw eilwaith, troant a ffoant ymaith. Mae gan y bugail gi i'w gynnorthwyo (Job xxx. 1), ond bydd efe yn cadw ar ol y ddiadell, er rhoddi rhybudd os bydd perygl yn agoshau. Mae y bugail yn arfogi ei hun er cyfarfod âg unrhyw elyn a all ei gyfarfod. Weithiau ymosodir ar y praidd gan fleiddiaid a bwystfilod ereill (1 Sam. xvii. 34—36), a chan ladron ac yspeilwyr, ac mae y bugail da yn ymladd dros ei braidd hyd y nod pe colla ei fywyd yn yr ymdrech.

Mae gwahaniaeth yn mhlith defaid, fel yn mhlith dynion. Mae rhai defaid yn cadw yn agos at y bugail yn wastad;

* "Gofynais i'r dyn oedd gyda mi," ebe Hartley yn ei *Researches in Greece and the Levant*, "a oeddid yn arfer rhoddi enwau ar ddefaid yn Groeg. Dywedodd ei fod yn arferiad, a bod y defaid yn ufyddhau i'r bugail pan y galwai arnynt wrth eu henwau. Boreu heddyw cefais gyfleusdra i brofi gwirionedd yr hyn a ddywedai. Pan yn myned heibio i ddiadell o ddefaid, gofynais i'r bugail yr un peth ag a ofynaswn i'r gwas, a rhoddodd yntau i mi yr un atebiad. Gofynais iddo wed'yn alw ar un o'i ddefaid. Gwnaeth hyny, ac yn y fan fe adawodd y ddafad y borfa a'i chymdeithion, a rhedodd i ddwylaw y bugail, gydag arwyddion o bleser, a chydag ufydd-dod parod, yr hyn na welswn erioed mewn un anifail arall. Y mae yn wir hefyd na wnant yn y wlad hon ganlyn dyeithrddyn, ond ffoant oddi wrtho." —*Lewis's Trades and Industrial Occupations of the Bible* (R. T. S.) p. 22.

llamant mewn llawenydd o'i amgylch; mae ganddo enwau neillduol ar y rhai hyn, a phan elwir arnynt wrth eu henwau, ufyddhant gyda'r parodrwydd mwyaf. Y mae ereill o honynt yn rhai aflonydd a blysig; maent yn wastad ar ddrwg, ac yn fynych yn myned i afael peryglon, ac yn cael eu clwyfo, ac weithiau eu lladd.

Weithiau, gwna y bugail *borthi* ei ddefaid. Yn gyffredin nid yw ond yn eu harwain i borfa, ond y mae amgylchiadau yn y rhai y rhaid iddo eu porthi. Ar ol i'r borfa ddarfod, a phan y gorchuddir y ddaear âg eira, rhaid i'r bugail chwilio am fwyd iddynt, neu byddant farw. Y pryd hyny, casgla y bugail ei braidd i'r coedwigoedd, a thyr ganghenau deiliog, ar ddail a brigau tyner pa rai yr ymborthant. Cedwir coedwigoedd ëang yn bwrpasol at hyn yn Mhalestina a Syria.

Rhaid i'r bugail arfer tynerwch mawr gyda'r ŵyn a'r mamogiaid, yr hyn a wna mewn modd teimladwy iawn. (Esai. xl. 11. Gen. xxxiii. 13, 17.)

Sonir yn fynych am "ffon" y bugail. Dwg hon yn wastad gydag ef er arwain ac amddiffyn y defaid, a'u cosbi hefyd yn achlysurol pan fyddant yn anufydd. Mae pen bwäog a bachog y ffon, neu y faglan, yn dra defnyddiol er codi y defaid o byllau i'r rhai y dygwyddant syrthio, a'u rhyddhau o'r dyryslwyn (*thicket*). Cluda y bugail hefyd ei ffon-dafl gydag ef, er ei alluogi i luchio ceryg yn mhell i rybuddio y defaid crwydrol i beidio myned o'r terfynau priodol.* (1 Sam. xvii. 49, 50.)

Mae y bugail ffyddlon gyda'i braidd ddydd a nos (Gen. xxxi. 40), a gwna ymdrechion mawrion i adferu y rhai crwydrol. (Luc xv. 4—7.)

Cymharir gweinidogion yr efengyl i fugeiliaid, y rhai sydd i fugeilio eglwys Dduw a phorthi ei braidd ef. (Act. xx. 28. 1 Pedr v. 4.)

Yn Gen. xxix. 9, dywedir wrthym fod Rahel yn bugeilio praidd ei thad. Nid ydym i synu at hyn: yn y Dwyrain ni ystyrir ei fod yn iselhad i ferched fugeilio defaid; dywed Dr. Hackett (*Illustrations of Scripture*, p. 105), "Gwelsom ychydig tu hwnt i El-Arish, y dref olaf yn yr Aifft cyn myned i Ganaan, yn agos i'n llwybr, ddiadell o ddefaid mor aruthrol liosg fel y rhyfeddem. Yr oedd tair o ferched yn ei gwylio."

Dywedir yn Gen. xlvi. 34, fod pob bugail yn ffieidd-dra

* *The Land and the Book*, pp. 201–205.

yn ngolwg yr Aifftiaid. Ymddengys oddiwrth haneswyr henafol fod llwythau crwydrol o fugeiliaid o'r Gogledd-Ddwyrain wedi darostwng yr Aifft a'i gorthrymu yn chwerw am rai canrifoedd; o herwydd creulonderau y rhai hyn, yr oedd hyd y nod yr enw "bugail" crwydrol yn ffieiddbeth yn ngolwg yr Aifftiaid.

(3,) *Cyfarchiadau.*

Wrth gyfarch eu gilydd, mae Dwyreinwyr yn myned trwy amryw o seremonïau; annerchant eu gilydd â'r fath ymadroddion â'r rhai canlynol:—"Heddwch i ti," "Bydd lwyddiannus," "Yr Arglwydd fyddo gyda thi," "Bydded fy arglwydd fyw," "Yr wyf yn dy longyfarch ar dy ddiogelwch," "Gobeithio dy fod yn iach," &c.: ac ânt trwy wahanol ddulliau o foesgyfarch ac ymostwng i'w gilydd, yn ol safle ac urddas y person a gyferchir, fel y dengys y darlun canlynol. Dyry yr hwn a gyfarcha ei gydradd ei law ar ei fron, ac yna ar ei dalcen neu ei benwisg; neu plyga ychydig, gan ddodi ei law ddeheu ar ei fron aswy. Dangosir parch i berson o urddas trwy ymgrymu




GWISGOEDD A MOESGYFARCHIADAU DWYREINWYR.

hyd lawr, ac yna trwy gyffwrdd â'r gwefusau neu y talcen â'r llaw. Cusenir cefn llaw person o fri; cusana meibion ddwylaw eu tad, a chusana gwraig law ei gŵr. Bydd cyfeillion ar ol hir ysgariad yn cusanu barfau eu gilydd, y person a fyddo yn rhoddi y gusan yn ymaflyd yn marf y llall â'i law ddeheu. (2 Sam. xx. 9.) Cusanant hefyd ar y gwefusau a'r gruddiau. (Gen. xxxiii. 4, xlviii. 10, 12. Exod. iv. 27, xviii. 7.)

Pan yr anfonodd Iesu Grist ei ddysgyblion allan i bregethu, dywedodd, "Na chyferchwch well i neb ar y ffordd." (Luc x. 4.) Gellid meddwl ar yr olwg gyntaf fod hyn yn orchymyn caled, ac yn groes i arferion cymdeithas, ac y buasai yn rhwystr i'r dysgyblion gael derbyniad priodol. Yr oedd dau neu dri o bethau yn peri i'r Iesu roddi y gorchymyn hwn:—

(1,) Yr oeddynt ar neges bwysig, ac nid oedd pethau dibwys i ymyryd â'u gwaith. (Cymharer 2 Bren. iv. 29.)

(2,) Mae cyfarchiadau yn y Dwyrain yn cymmeryd llawer o amser. Gofynir cyfres o holiadau, ac atebir mewn modd amgylchog a hirfaith. Pryd arall ymgrymir, fel y crybwyllwyd, ac eir drwy wahanol seremonïau, fel y buasai talu sylw i'r cyfan yn myned a gormod o amser.

(3,) Awgryma Dr. Thomson, y Cenadwr, fod yr Iesu yn rhoddi y gorchymyn hwn hefyd, er ceryddu tuedd ymyrgar angerddol y Dwyreiniwr, yr hwn nad all byth o'r bron ymattal heb "ymyraeth â materion rhai ereill;" a hefyd am nad yw y cyfarchiadau hyn, gydag ychydig o eithriadau, ond gweniaith, ac nas gallai Crist, y Gwirionedd ei hun a'r Tyst ffyddlawn, lai nag annghefnogi peth o'r fath yn ei ganlynwyr.

Un ffordd o longyfarch a chroesawu oedd *taenu dillad ar y ffordd* lle y teithiai un, yn debyg i osod *carpet* i lawr ar adegau neillduol yn ein gwlad ni. Dywed Dr. Robinson (*Bibl. Researches in Palestine*, vol. ii. p. 162), fod trigolion Bethlehem yn taenu eu dillad ar y ffordd o flaen Mr. Farran, y Consul Seis'nig o Damascus, yr hwn oedd ar ymweliad â'r lle, pan oedd arnynt eisiau ei gymhorth iddynt a'i eiriolaeth ar eu rhan. Pan y marchogai Mab Duw i Jerusalem, fe gafodd y dyrfa olwg ar ei urddas a'i fawrhydi fel y Messiah, fel y taenasant eu dillad a changhenau tyner y coed ar y ffordd, er dangos eu parch iddo, a llefasant, "Hosanna i fab Dafydd! Bendigedig yw yr hwn sydd yn dyfod yn enw yr Arglwydd: Hosanna yn y goruchafion!" (Mat. xxi. 8.)

(4,) *Claddu y marw, a'r defodau cyssylltiedig â hyny.*

Arferid claddu yn y Dwyrain, oddi eithr pan y byddid yn perarogli y corph, o fewn pedair awr ar hugain ar ol i farwolaeth gymmeryd lle. Cawn yn Act. v. 6, 10, hanes am gladdedigaeth personau yn uniongyrchol ar ol iddynt farw. I ochelyd yr amryfusedd o gladdu neb yn anamserol, neu pan mewn llesmair, golchid yr holl gorph â dwfr claiar (Act. ix. 37).

Yr oedd yr Aifftiaid yn enwog am berarogli y meirw (Gen. l. 2, 26). Dywed Herodotus eu bod yn tynu yr ymenydd allan o'r pen trwy y ffroenau â bach haiarn; ac wedi agor y corph â chareg finiog o gallestr, eu bod yn cymmeryd ymaith y rhanau tufewnol allan o hono; ac yna yn golchi y gwagle o fewn â gwin y balm-wydden, a'i rwbio a'i bwyo â pherarogiau. Llenwid ef ar ol hyn â myrr, cassia, a pherarogiau ereill, a gwnïid ef i fyny; wedi hyn mwydid ef am 70 niwrnod mewn nitr (*salt petre*). Ar ol y 70 niwrnod, golchai y peraroglwyr y corph â gwlybyron peraroglus a chadwedyddol (*preservative*), rhwyment ef â rhwymynau llian, a rhoddent ef i berthynasau y marw; y rhai, ar ol ei ddodi mewn arch o bren, a'i gosodent ef i sefyll ar fur ystafell y beddrod (Gen. l. 2, 25, 26. Exod. xiii. 19. Jos. xxiv. 32). Dywedir fod yr Aifftiaid mor fedrus gyda'r gelfyddyd hon, fel ag i allu cadw pryd ac agwedd y gwyneb heb wywo am dymhor maith, a'r corph heb lygru am oesau lawer.

Dichon fod yr Hebreaid hefyd, ar y cyntaf, yn perarogli cyrph tywysogion a chyfoethogion yn gyffelyb i'r Aifftiaid; mewn oesoedd diweddarach, modd bynag, ymddengys mai eu dull arferol oedd rhwymo y corph o amgylch lawer gwaith gyda rhwymynau llian, a'i eneinio yn helaeth â chyffyriau peraroglus, yn gynnwysedig, gan mwyaf, o fyrr ac alöes. (Mat. xxvii. 59: Marc xv. 40, xvi. 1: Luc xxiii. 53—56, xxiv. 1: Ioan xix. 39, 40).

Llosgid peraroglau weithiau ar yr achlysur o gladdu breninoedd, er anrhydedd i'w coffadwriaeth (1 Chron. xvi. 14: Jer. xxxiv. 5). Mae yn ymddangos y byddid yn llosgi rhan o'r peraroglau yn y bedd, cyn dodi y corph ynddo, a'r gweddill o amgylch neu gerllaw iddo, nes llenwi ystafelloedd y beddrod, a'r awyrgylch yn y lle, ag arogl peraidd a hyfryd. Ni thelid yr anrhydedd hon i freninoedd drygionus (2 Chron. xxi. 19).

Ni arferai yr Iuddewon losgi y meirw, ond o dan amgylchiadau tra neillduol. Llosgwyd gweddillion Saul, rhag iddynt gael eu hanmharchu yn mhellach gan y Philistiaid (1 Sam. xxxi. 11, 12); a dichon fod Amos vi. 10, yn cyfeirio at losgi cyrph y meirw yn amser rhyfel, er attal pla i dori allan. *

Mae o bwys deall trefn y Dwyreinwyr yn claddu eu meirw, a ffurf eu beddau, er gallu amgyffred amryw ranau o'r Beibl.

* Gwel *Kitto's Cyclopædia*, *Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible*, *Henderson on Jeremiah and the Minor Prophets.*

Yn mhlith y bobl gyffredin, ni ddodid y marw mewn arch, ond rhwymid ef i fyny mewn llian, neu dodid ei wisgoedd arferol am dano, a chludid ef i'r bedd ar yr elor, gyda gorchudd drosto. Byddai y galarwyr weithiau yn codi y gorchudd ac yn dynoethi y corph, er ail gyffroi galar y gwyddfodolion. Mewn cyflwr fel hyn yr oedd corph mab y wraig weddw o Nain, pan y rhyddhawyd ef o afaelion angau. (Luc vii. 14.) Nid oedd Lazarus na'n Harglwydd wedi eu dodi mewn eirch, pan y cleddid hwynt. (Ioan xi. 44. Marc xv. 46.) Cleddid breninoedd a mawrion y ddaear mewn eirch yn yr Aifft, ac yn Mhalestina hefyd, mae'n debygol. (Gen. l. 26.)

Weithiau defnyddid ogofeydd, ar ol cyfaddasu ychydig arnynt, yn feddrodau (Gen. xlix. 29); pryd arall cloddid beddleoedd yn y graig, weithiau o dan y ddaear, ac ar adegau ereill yn uchelfanau y mynyddoedd. (Esai. xxii. 16. 2 Bren. xxiii. 16.) Mae llawer o honynt i'w canfod yn awr yn yr ochr Orllewinol i fynydd yr Olewydd Gwneid y rhai hyn yn aml yn ystafelloedd ëang, gyda chelloedd yn eu hochrau, yn mha rai y dodid y meirw; neu gyda math o ochrfeinciau (*shelves*) y naill uwch ben y llall, ar y rhai y dodid y cyrph i orphwys. Mae rhai o'r bedd-ystafelloedd hyn yn y creigiau, yn ddigon uchel, fel y darganfyddwyd yn ddiweddar, i ddyn allu sefyll yn unionsyth ynddynt, ac yn cynnwys dros ddeugain o gelloedd, yn mha rai y dodid y meirw i gysgu hyd yr adgyfodiad mawr. Mae y porth i feddrod y Barnwyr yn ymyl Jerusalem, yn 13 troedfedd wrth 9, a'r brif ystafell tuag 20 troedfedd ysgwar ac 8 troedfedd o uchder. Mae celloedd yn ochrau yr ystafell hon, a mynedfa o honi i ystafelloedd ereill cyssylltiedig â hi, a lle i lu mawr o feirw ynddynt oll. Ceir desgrifiad cyffelyb hefyd o feddrod y Prophwydi.

Yn y tŷ tywyll hwn yr oedd yr Iuddew yn cael yr olwg ddiweddaf ar ddyn; nis gallai ei ddilyn yn mhellach; gan nad oedd goleuni eglur fel o dan yr efengyl (2 Tim. i. 10) wedi ei roddi ar sefyllfa dyn ar ol marw yn yr Hen Destament, mae y meirw weithiau yn cael eu gosod allan yn marddoniaeth yr Hebreaid fel pe byddent yn trigiannu y fangre dywell hon. Gosodir hi allan fel "y pwll" (Job xxxiii. 18), a dynion wrth fyned i mewn yn dyfod "i byrth y bedd" (Heb. *Sheol*, Esai. xxxviii. 10), ac yn "disgyn i uffern" (Heb. *Sheol*, Num. xvi. 30), neu "i'r bedd" (Heb. *Sheol*, Job vii. 9). Desgrifir hi fel y

lle dyfnaf ( "dyfnach nag uffern yw," Heb. na *Sheol*, Job xi. 8), a llawn o dywyllwch dudew. (Job x. 21, 22.)

Mae Esaiah yn desgrifio golygfa gyffrous yn y tywyllfyd hwn ar ddyfodiad brenin Babilon i mewn; mae preswylwyr bro ëangfawr marwolaeth, breninoedd cenedloedd cryfion, a'u deiliaid lliosog, yn annerch penadur balch Caldea, ar derfyniad ei yrfa ddaearol. "Uffern (*Sheol** oddi tanodd a gynhyrfodd o'th achos, i gyfarfod *â thi* wrth dy ddyfodiad: hi a gyfododd y meirw i ti, *sef* holl dywysogion y ddaear; cyfododd holl freninoedd y cenedloedd o'u gorseddfaoedd. Y rhai hyny oll a lefarant, ac a ddywedant wrthyt, A wanhawyd tithau fel ninau? a aethost ti yn gyffelyb i ni? Disgynwyd dy falchder i'r bedd, *a* thrwst dy nablau: tanat y taenir pryf, pryfed hefyd a'th dôant. Pa fodd y syrthiaist o'r nefoedd, Lusiffer, mab y wawrddydd! *pa fodd* y'th dorwyd ti i lawr, yr hwn a wanheaist y cenedloedd! Canys ti a ddywedaist yn dy galon, Mi a ddringaf i'r nefoedd; oddiar ser Duw y dyrchafaf fy ngorseddfa; a mi a eisteddaf yn mynydd y gynnulleidfa, yn ystlysau y Gogledd. Dringaf yn uwch na'r cymmylau; tebyg fyddaf i'r Goruchaf. Er hyny i uffern y'th ddisgynir, i ystlysau y ffos. Y rhai a'th welant a edrychant arnat yn graff, *ac* a'th ystyriant, *gan ddywedyd*, Ai dyma y gŵr a wnaeth i'r ddaear grynu, ac a gynhyrfodd deyrnasoedd? A osododd y byd fel anialwch, ac a ddinystriodd ei ddinasoedd, heb ollwng ei garcharorion yn rhydd tuag adref?" (Esai. xiv. 9—17. Gwel hefyd Esec. xxxii. 18—32.)

Eglura y cyfeiriadau blaenorol at feddau Canaan y geiriau a geir yn Marc v. 2—5, yn nghylch y dyn cythreulig, yr hwn a drigai yn mhlith y beddau. Hawdd y gallasai wneyd, gan fod y beddau mor fawrion ac o'r fath wneuthuriad. Mae pentref bychan Arabaidd y dydd heddyw with droed mynydd yr Olewydd, o'r enw Silwan, lle mae rhai o'r trigolion yn byw mewn beddau wedi eu nhaddu yn y graig, yn mha rai yr arferai preswylwyr Jerusalem gynt gladdu eu meirw.

* שאול (Sheol) *the lower world, the Hades of the Hebrews.*—GESENIUS.

(*a*,) *A grave*, generally a large subterraneous chamber or vault in which niches were hewn out to receive separate coffins.

(*b*,) Hence, *the state of the dead*, or *a state of death, the grave.*—DR. S. LEE.

Y mae Sheol, modd bynag, mewn rhai engreifftiau yn golygu *uffern*, neu drigfa boenus y colledigion. Gwel Moses Stuart ar y gair, *Biblical Cabinet*, vol. xxxvii.

Yr oedd rhai beddau yn eiddo personol, y rhai a barotoid gan unigolion fel beddrodau iddynt eu hunain a'u teuluoedd. Adeiledid weithiau fath o adeilad bychan neu nendwr (*cupola*) uwch ben y lle. Yn un o'r rhai hyn yr ydym, mae'n debyg, i ddeall fod Samuel wedi cael ei gladdu. "A bu farw Samuel; a holl Israel a ymgynnullasant, ac a alarasant am dano ef, ac a'i claddasant ef yn ei dŷ yn Ramah." * (1 Sam. xxv. 1.)

Pan y byddai y marw yn y tŷ, arddangosid arwyddion cyffrous o alar a gofid; cyflogid dynion i ganu pibellau i gyffroi galar y teulu, a gwragedd i ruddfan am y marw; a byddai y pibellwyr trwy eu seiniau dolefus, a'r gwragedd trwy eu hymddangosiad cyffrous, a'u gwallt dyryslyd, a'u lleisiau tristlawn, yn effeithio ar y teimladau, ac yn angerddoli y galar. Dywed Dr. Gill y byddai gan y dyn tlotaf yn Israel, ar yr achlysur o farwolaeth ei wraig, ddau bibellwr, ac un wraig, i alaru. At y rhai hyn y cyfeirir yn Mat. ix. 23: gwel hefyd 2 Chron. xxxv. 25. Jer. ix. 17, 18.

Galar am y marw oedd "*galar Hadadrimmon yn nyffryn Megidon*." (Zech. xii. 11.) Yn nyffryn Megidon neu ddyffryn Jezreel, mewn lle o'r enw Hadadrimmon, y clwyfwyd Josiah, brenin Judah, yn angeuol, pan yn rhyfela yn erbyn Necho, brenin yr Aifft. (2 Chron. xxxv. 20—24. 2 Bren. xxiii. 29, 30.) Yr oedd Josiah yn ddiwygiwr gwladol a chrefyddol, ac wedi dyrchafu y genedl i anrhydedd a llwyddiant; pan y bu farw, yr oedd ei galar yn angerddol. (2 Chron. xxxv. 24, 25.)

Galar cyffelyb i hwnw o ran ei ddwysder a'i gyffredinolrwydd, fydd galar yr Iuddewon ar adeg eu hargyhoeddiad, o herwydd eu dirmyg o Fab Duw trwy yr oesau.

(5,) *Dodrefn.*

Mae yn ofynol deall fod gwahaniaeth rhwng dodrefn y Dwyreinwyr a'r eiddom ni, neu nis gallwn weled rhesymoldeb rhai rhanau o'r Beibl. Dywedodd Crist wrth y claf o'r parlys, "Cyfod, cymmer dy wely i fyny, a rhodia." (Mat. ix. 6.) Mae y tlodion yn y Dwyrain, ebe Dr. Robinson, yn cysgu ar fatiau, neu ar lawr, wedi rhwymo eu hunain yn eu cochl

* Gwel *Eiriadur Kitto. Thomson's Land and the Book. Hackett's Illustrations of Scripture. Lowth's Lectures on Hebrew Poetry*, Lect. vii. *Robinson's Later Biblical Researches in Palestine*, p. 253.

(cymharer Exod. xxii. 26, 27); a'r rhai cyfoethocach ar gwrlidau, neu fatrasau, wedi eu llenwi i fyny â chotwn, y rhai a daenant ar lawr neu ar esmwythfeinciau isel o amgylch yr ystafell. Mae'n debyg mai cwrlid, neu fatras ysgafn, oedd y gwely ar yr hwn y gorweddai y claf o'r parlys, yr hwn y gallai yn hawdd ei gludo ar ol cael adferiad nerth. Pan y dygwyd y claf o'r parlys at yr Iesu, mae'n debyg fod y cwrlid, neu y matras crybwylledig, ar fath o *frame* ysgafn, ar yr hon y cludid y claf.

Dywedir yn Marc vii. 4, eu bod yn trochi eu gwelyau, neu eu "byrddau," sef yr esmwythfeinciau ar ba rai y lled-orweddent wrth y bwrdd pan yn bwyta, ac y cysgent, er eu glanhau. (Lef. xi. 32.) Dichon mai at y gorchudd drostynt y cyfeirir, fel y barna Webster a Wilkinson; ond yr oedd yr Iuddewon yn myned yn mhellach na hyn, fel y sylwir yn yr *Annotated Paragraph Bible*, ac yn cyfarwyddo fod hyd y nod i atteg-waith (*frame-work*) eu gorweddfeinciau gael eu tynu yn ddarnau a'u trochi, er mwyn eu puro.

Yr oedd y costrelau a ddefnyddient yn wahanol i eiddo



COSTREL WIN.



COSTEL DDWFR.

ein gwlad ni, fel yr awgrymir yn Mat. ix. 17, "Ac ni ddodant win newydd mewn costrelau hen; os amgen, y costrelau a dyr, a'r gwin a red allan, a'r costrelau a gollir: eithr gwin newydd a ddodant mewn costrelau newyddion, ac *felly* y cedwir y ddau." Pe meddyliai darllenydd y Beibl am gostrelau gwydr wrth ddarllen yr adnod hon, nis gallai ddeall yr angen

am gostrelau newyddion er dodi gwin newydd ynddynt; ond pan gofir mai *croen anifail* (yr hwn yn fynych a ddefnyddid gynt, ac a ddefnyddir hyd heddyw, yn gyfan fel y gwisgid ef gan yr anifail), oedd y costrelau hyn, mae y geiriau yn eglur. Os dodid gwin newydd mewn hen gostrelau croen, neu ledr anystwyth a brau, wrth i'r gwin newydd weithio a chwyddo, ni ymëangai yr hen groen, ond fe rwygai, ac fe redai y gwin ymaith, ac felly collid y ddau; tra, o'r ochr arall, fe gedwid y ddau, os dodid y gwin newydd mewn costrelau newyddion. Buasai annghyssondeb ac annghyd-darawiad cyffelyb, pe buasai dysgyblion Crist yn ymprydio, ac yntau gyda hwynt.

(6,) *Gwisgoedd ac addurniadau.*

Mae merched y Dwyrain yn llwythog o addurniadau; gwisgant rai ar eu penau, yn eu ffroenau a'u clustiau, am eu gyddfau, eu breichiau, a'u fferau: gwel Gen. xxiv. 22, xxix. 47. Esai iii. Gwisga dynion hefyd amryw fathau o addurniadau. (Gen. xxxviii. 18, xli. 42. Num. xxxi. 50. Luc xv. 22. Iago ii. 2.)*

Ond at wisgoedd llaesion a helaeth y Dwyreinwyr y cyfeirir fynychaf yn y Beibl. Nid oedd gan y tlodion yn gyffredin ond dau ddilledyn am danynt, un oedd yr hwn a wisgent yn nesaf at y croen, a elwid y *chiton*, ac yn cyrhaedd at y

* Dywedir fod yr Arabiaid a Dwyreinwyr ereill yn beichio eu hunain ag addurniadau o aur ac arian hyd y dydd hwn. Yn Barn. viii. 24—26, cawn hanes y tlysau a gymmerasai Israel oddiar weddill byddin y Midianiaid. Yr oedd y clustdlysau aur a roddasant i Gideon yn pwyso tua 50 pwys, ac yn werth o'n harian ni tua £3,113, heb son am yr addurniadau ereill.

Mae yr ysplander a'r cyfoeth sydd yn amgylchu pendefigion Dwyreiniol yn taro Ewropiaid â syndod. Dywedai Arglwydd Clive fod ystafelloedd ëang yn cael eu taflu yn agored o'i flaen ef yn India, gyda charneddau anferth o aur ac arian ynddynt; a'i fod ef yn rhodio rhwng tyrau o aur ac arian a gemau, gyda rhyddid iddo i gymmeryd faint a fynai o honynt; ac er iddo gymmeryd iddo ei hun rhwng dau a thri chan' mil o bunnau, tystiai o flaen Tŷ y Cyffredin ei fod yn rhyfeddu ei fod wedi gallu bod mor gymmedrol yn nghanol y fath lawnder!

Yn y *London Daily News*, am Mehefin 7, 1877, mae llythyr dyddorol oddiwrth ohebydd y newyddiadur hwnw yr hwn oedd yn llygad-dyst o'r amgylchiad, yn rhoddi hanes dychweliad adran o'r fyddin Rwssiaidd o brif ddinas Khokand, yn 1876, gyda hen dywysog y lle, yr hwn oedd wedi ei ddiorseddu. Wrth gychwyn llanwodd y tywysog bedwar ugain o fenau (*carts*) ag arian a thrysorau; ac er na lwyddodd i ddwyn gydag ef i Rwssia, o herwydd ymosodiad y gwrthryfelwyr, ond ugain o'r menau hyn, eto dywed y gohebydd ei fod yn 1877 yn byw fel tywysog yn Orenburg ar y gweddill o'r trysor a achubwyd; ac, er ei holl golledion, yn dra chyfoethog.

Mae'n debyg mai yr hyn sydd yn cyfrif am gyfoeth anhygoel penaduriaid Asia yw, adnoddau dihysbydd y gwledydd Dwyreiniol, a'r gorthrwm mawr a arfera y tywysogion, fel rheol, tuag at eu deiliaid.

gliniau, ac weithiau at y fferau. Yn y wisg yma yn unig y treulia'r bobl eu hamser yn y tŷ, ac y dilynant eu gorchwylion; ond nid ystyrir dyn yn gwisgo yn weddus os bydd iddo droi mewn cymdeithas, a derbyn a thalu ymweliadau, yn y wisg yma yn unig; am hyny, dywedir fod dyn yn "noeth," pryd na fydd ganddo ei amwisg. (Esai. xx. 2. Ioan xxi. 7.*) Y dilledyn arall yw yr amwisg neu y fantell uchaf (*ependutês*), yr hon hefyd a wasanaetha fel cwsg-wisg i huno ynddi. Byddai dwy o îs-wisgoedd yn cael eu defnyddio weithiau gan bersonau o amgylchiadau gwell na'r cyffredin, yr uchaf, fel rheol, o ddefnyddiau gwell a harddach na'r isaf. Yr oedd gan yr archoffeiriad ddwy o'r fath hyn: "Yna yr archoffeiriad gan rwygo ei ddillad," Groeg, ei îs-wisgoedd (*chitonas*, Marc xiv. 63.)

Am yr îs-wisg, byddai gwregys yn nghylch y lwynau. Mae gwregysau y tlodion yn fynych wedi eu gwneyd o ledr; ond gwisga y cyfoethogion fath o *shawl* amliwiog, neu fwslin gwyn addurnedig yn wregys. Mae o bwys defnyddio y gwregys pan y byddis yn parotoi i daith neu at ryw orchwyl, gan ei fod yn attal y dillad i fod yn rhwystr i ddyn, ac yn nerth a chryfhad mawr i'r corph pan y bydd dyn yn gweithio yn galed, neu yn dilyn ei deithiau meithion a blinion. Cyfeirir at hyn yn aml pan yr annogir Cristionogion i fod yn wastad yn effro, ac yn barod i ymosod gyda brwdfrydedd a phenderfyniad ar waith yr Arglwydd. (Luc xii. 35. Eph. vi. 14. 1 Pedr i. 13.)

Y gwregysau oedd y "pyrsau" y cyfeiriai Crist atynt. (Marc vi. 8.) Gan eu bod yn fath o ddilledyn hir, ac un pen yn agored iddo, defnyddir ef fel pwrs i gludo gwahanol bethau, megys *arian* (Marc vi. 8), cyllell-gledd (2 Sam. xx. 8), a'r corn inc (Ezec. ix. 3).

Gan mai am y lwynau y dodid y gwregys, yr oedd yr îs-wisg yn agored ar y fynwes; ac fe arferai y Dwyreinwyr â chelu nwyddau a chludo meddiannau gwerthfawr yn eu mynwesau; yr hyn yw ein llogellau i ni, oedd mynwes eu hîswisgoedd a'u gwregys iddynt hwy. Cyfeirir at hyn yn y

* Mae rhai yn edrych ar yr hyn a ddywedir am Pedr yma yn beth dyeithr, ac yn methu deall paham y gwisgai ei amwisg fel hyn, ac yntau yn myned i nofio i'r lan. Ond nid yw y geiriau yn dweyd ei fod wedi *nofio* i'r lan, na'i fod yn golygu gwneyd. Yr oeddynt yn agos i'r lan (o fewn tua chan' llath, adn. 8), ac yr oedd Pedr yn hollol gyfarwydd â bâs-leoedd y llyn, ac mae'n debyg mai cerdded i'r lan trwy y dwfr a wnaeth: gwel *Webster & Wilkinson's Greek Test.*

lleoedd canlynol:—"Yr annuwiol a dderbyn rodd o'r fynwes, i gam droi llwybrau barn." "Rhodd yn y dirgel a dyr ddigofaint; a gwobr yn y fynwes, lid cryf." (Diar. xvii. 23, xxi. 14.)

Pan y mae y Dwyreinwyr yn ymaflyd mewn gorchwyl o bwys, y maent yn codi i fyny y llewys mawrion amgylchog perthynol i'w gwisgoedd, neu yr hyn a wasanaetha fel y cyfryw, ac yn dynoethi eu breichiau; at hyn y cyfeirir pan y sonir am Dduw yn dynoethi ei fraich yn Esai. lii. 10. Golyga yr ymadrodd yn ei gyssylltiad â Duw ei fod yn rhoddi profion eglur a grymus o'i bresennoldeb.

Yn y rhedegfeydd, pan yn ymdrechu am y gamp, yr oedd y rhedegwyr yn dodi eu gwisgoedd, a phob peth a allai fod yn rhwystr iddynt, o'r neilldu, er mwyn iddynt allu rhedeg yn y modd mwyaf manteisiol: annoga Paul yr Hebreaid i wneyd yr un modd gyda'r yrfa Gristionogol. (Heb. xii. 2.)

Yr oedd y Phariseaid yn gwneuthur ymylwaith eu gwisgoedd yn helaeth, er mwyn tynu sylw dynion (Num. xv. 37—41), a'u *phylacterau* yn llydain. (Mat. xxiii. 5.) Ystyr y gair *phylactêrion* ydyw *amddiffyniad, diogelydd;* golyga y gair y darnau culion o ysgrif-groen, gyda Deut. vi. 4—9, xi. 13—21. Exod. xiii. 2—16, wedi eu hysgrifenu arnynt, y rhai a wisgai yr Iuddewon ar ol caethiwed Babilon, pan yn gweddio, ar y talcen a'r fraich aswy (gan ddilyn Exod. xiii. 9, yn llythyrenol), naill ai er eu hadgofio i gadw y ddeddf, neu fel math o swyngyfaredd (*charm*) i'w cadw hwy eu hunain rhag drwg. Yr oedd y Phariseaid yn gwneyd y rhai hyn hefyd yn lletach na phobl ereill, er ceisio argyhoeddi y werin fod y Phariseaid yn rhagori ar bawb mewn duwioldeb; tra mae Crist yn priodoli y cwbl i'w rhagrith. Defnyddir phylacterau hyd heddyw gan yr Iuddewon, y rhai a elwir yn ol yr enw Hebraeg, *tephilin*=gweddiau.

Yr esgidiau a ddefnyddiai yr Iuddewon oedd *sandalau.* Math o wadn, yn cael ei rhwymo wrth y troed â charaiau oedd y sandal; nid oedd yn gorchuddio cefn y troed, ac felly nid oedd modd gochelyd y llwch a'r llaid wrth deithio; yn ngwyneb hyn, un o ddyledswyddau cyntaf cyfeillgarwch oedd darparu dwfr i'r teithiwr i olchi ei draed. (Gen. xxiv. 32. Luc vii. 44.)

Mae diosg esgidiau yn cael ei ystyried yn y Dwyrain yn weithred o barch i un mwy urddasol; ar yr egwyddor hon y diosgai Moses a Josua eu hesgidiau, gan fod presennoldeb y

Goruchaf yn cyssegru y man y safent arno. (Exod. iii. 5. Jos. v. 15.) Gwneir hyn yn wastad yn y Dwyrain pan yr eir i leoedd cyssegredig; ac yn wir, mae dull y tai a'r drefn o eistedd yn y Dwyrain, yn galw am iddynt gael eu diosg yn wastad wrth fyned i mewn i'r tai, er mwyn glendid a chysur.

Yr oedd rhodio yn droednoeth yn arwydd o ymddarostyngiad (2 Sam. xv. 30. Esai. xx. 2—4; a phan drosglwyddid hawliau neu dir o un i'r llall, trosai un ei esgid yr un pryd. (Ruth iv. 7, 8.) Pan y gwrthodai dyn briodi gweddw ei frawd, yr oedd hi i ddatod ei esgid oddiam ei droed yn ngŵydd henuriaid Israel, a phoeri yn ei wyneb, er arwyddo ei bod yn ei ddiosg ef o'i hawl a'r berthynas a ddaliai tuag ati hi a'i frawd ymadawedig, neu eu hynafiaid. (Deut. xxv. 5—10.)

Defnyddir yr ymadrodd *bwrw esgid* am gymmeryd meddiant o le. Amlygai Dafydd ei fwriad i ddarostwng a meddiannu Edom, trwy ddweyd, "Dros Edom y bwriaf fy esgid" (Salm lx. 8). Golygai gymmeryd meddiant o'r wlad naill ai trwy fyned iddi, ac felly dodi ei droed arni, neu drwy y weithred arwyddluniol o fwrw ei esgid ar y tir.

Yr oedd Dafydd wedi ennill llawer o fuddygoliaethau, fel yr awgryma y Salm, ac fel y darllenwn yn 2 Sam. viii. Yr oedd wedi gorchfygu Syria, Moab, a meibion Ammon, a'r Philistiaid, a'r Amaleciaid, a Hadadezer, brenin Zobah; ond ymddengys fod Edom eto heb ei darostwng, a bod gorchfygiad Edom yn anghenrheidiol er diogelwch Israel. Yn y geiriau dan sylw, mae Dafydd yn dadgan ei fwriad i ddarostwng Edom, a chymmeryd Petra, ei phrif-ddinas gadarn (Salm lx. 9); ac ni siomwyd ef yn ei ddisgwyliad. Gwel y penawd i'r Salm, a 2 Sam. viii. 14, ac esboniad Barnes ar y Salm.

Dichon fod rhoddi esgidiau am draed yr afradlon ar ei ddychweliad yn arwyddo ei fod yn cael ail-feddiannu yr etifeddiaeth a adawsai ac a gollasai trwy fyned i'r wlad bell. (Luc xv. 22.—Gwel *The Expositor*, November, 1875, p. 164.)

(7,) *Lletygarwch.*

Cyfeirir yn fynych yn y Beibl at letygarwch Dwyreinwyr: "Ni letyodd dyeithrddyn yn yr heol: agorais fy nrysau i'r fforddolion." (Job xxxi. 32.) "A bu ar ryw ddiwrnod i Eliseus dramwyo i Sunem: ac yno yr oedd gwraig oludog, yr hon a'i cymhellodd ef i fwyta bara. A chynnifer gwaith ag y tramwyai efe heibio, efe a droai yno i fwyta bara" (2 Bren. iv. 8. Gwel hefyd Gen. xviii. 2—8.)

Mae y Dwyreinwyr yn cael eu nhodweddu gan hyn hyd y dydd heddyw, yn neillduol yr Arabiaid. Dywed Burckhardt, wrth son am dref o'r enw Kerek, yr hon a saif ar yr ochr Ddeheu-Ddwyreiniol i'r Môr Marw, fel y canlyn :—"Y mae ganddi wyth o 'Fenzelau' neu letyfanau i ddyeithriaid. Ni ddygir eu treulion o unrhyw drysorfa gyffredinol, ond pa bryd bynag y bydd dyn dyeithr yn cymmeryd ei lety yn un o honynt, gwna un o'r bobl ag fydd yn bresennol amlygu ei fwriad i roddi yr hyn fydd yn anghenrheidiol am y dydd hwnw; ac yna bydd yn ddyledswydd arno i barotoi ciniaw neu swper, yr hwn a anfona i lety y dyeithriaid, a'r hwn hefyd a fydd yn ddigon i rifedi mawr. Yn gyffredin lleddir gafr neu oen ar yr achlysur, a rhoddir ebran i geffyl yr ymwelydd." Yn gyffelyb y dywed Dr. Shaw :—"Mae tŷ yn cael ei neillduo yn y rhan fwyaf o drefi a phentrefi yn y wlad er derbyn dyeithriaid, lle y lletyir ac y croesawir hwynt am un noswaith, ar draul y trigolion."

Lle cyffelyb i hwn oedd y "llety" y cyfeirir ato yn Luc ii. 7, yr hwn oedd ar y pryd yn rhy lawn i gael ei anrhydeddu â phresennoldeb Gwaredwr y byd.

Darfu i Dr. Hackett a'i gymdeithion golli eu ffordd pan yn gadael Samaria un prydnawn, a bu raid iddynt yn yr hwyr fyned i bentref Arabaidd i chwilio am lety. Wrth fyned yno, hysbysai ei arweinydd ef fod tŷ i dderbyn dyeithriaid yn cael ei neillduo yn mhob pentref, ac nad oedd raid iddo betruso am dderbyniad. Wedi cyrhaedd y pentref, holai yr arweinydd am y Menzel neu dŷ y dyeithriaid, yr hwn a ddangoswyd iddynt ar unwaith, lle y cawsant bob ymgeledd anghenrheidiol yn rhad.

Fe eglura y ffeithiau hyn Luc ix. 52, 53 :—"Ac efe a anfonodd genadau o flaen ei wyneb: a hwy wedi myned, a aethant i mewn i dref y Samariaid, i barotoi iddo ef. Ac nis derbyniasant hwy ef, oblegyd fod ei wyneb ef yn tueddu tua Jerusalem." Diau fod yr Iesu, pan oedd y dydd yn darfod, yn anfon o'i flaen er cael y llety yn barod, a'r Samariaid, o herwydd eu dadl â'r Iuddewon yn nghylch Jerusalem a mynydd Gerazim, yn tramgwyddo wrth yr Iesu am ei fod ef yn ffafrio Jerusalem, ac mewn canlyniad yn troseddu deddfau lletygarwch a gydnabyddid trwy yr holl wlad. Yr oedd gan Grist a'i ddysgyblion, yn ol arferiad y wlad, hawl i ddysgwyl llety ac ymgeledd mewn rhyw dŷ yn y pentref; a gwaith y

Samariaid yn gwrthod y caredigrwydd arferol hwn a chwerwodd Iago a Ioan mor fawr. (*Dr. Hackett's Illustrations*, pp. 64—66. *Anderson's Bible Light from Bible Lands*, pp. 215—219.)

(8,) *Priodas.*

Mae dau beth cyssylltiedig â phriodas yn y Dwyrain, ag sydd i raddau yn dywyll i ni yn y wlad hon, sef yr hyn a ddywedir am waith cyfeillion yn myned allan yn y nos i gyfarfod y priodfab (Mat. xxv.), a'r hyn a ddywedir am y wisg briodas. (Mat. xxii. 11.)

Mae y desgrifiad yn nammeg y deng morwyn yn hollol fel yr oedd pethau gynt yn Nghanaan, ac fel y maent eto mewn amryw o wledydd y Dwyrain. Yn hwyr dydd y briodas, byddai y priodfab gyda'r gwŷr ieuainc yn ei ganlyn fel ewyllyswyr da (Barn. xiv. 11), yn dwyn y briodferch adref o dŷ ei thad. Byddai y merched ieuainc, y rhai oeddynt yn gyfeillesau i'r priodfab a'r briodferch, yn gwylied eu dyfodiad ac yn dysgwyl am danynt yn agos i'r tŷ; pan ddeallid eu bod yn agoshau, goleuent eu lampau, ac yna ymunent â'r dorf, a chyda bloeddiadau calonog elai pawb yn llawen gyda'u gilydd i'r wledd briodasol; ac ar ol eu mynediad i mewn, ceuid y drws. Parhäai y wledd yn gyffredin tua saith niwrnod (Barn. xiv. 17), i'r hon y gwahoddid llawer o gyfeillion. (Ioan ii. 8, 9.)

Yr oedd yn arferiad yn mhlith y Groegiaid i arwain y teulu ieuanc adref gyda lampau a ffaglenau (*torches*) (Iliad, B. 18. l. 569), ac yr oedd boneddigesau Rhufain hefyd yn cael eu harwain i dai eu gwŷr yn hwyr dydd y briodas wrth oleuni ffaglenau. Rhydd un hanesydd y desgrifiad canlynol o briodas yn India:—"Ar ddydd eu priodas, y mae y gŵr a'r wraig yn myned allan gyda'u gilydd yn yr un cludiedydd (*palanquin*), rhwng saith ac wyth yn yr hwyr, a'u holl berthynasau a'u cyfeillion yn eu canlyn; mae yr udgyrn a'r tabyrddau yn myned o'u blaen, a goleuir iddynt gan nifer o *fassals*, y rhai sydd fath o ffaglenau. Mae y pâr ieuanc priodasol yn myned o amgylch yn y dull hwn am rai oriau, ac yna dychwelant i'w tŷ eu hunain, lle mae y gwragedd a'r gwasanaethyddion yn dysgwyl am danynt." Yr oedd y Parch. W. Ward, diweddar Genhadwr i'r Bedyddwyr yn India, yn llygad-dyst o'r olygfa ganlynol yn y wlad hòno:—"Mewn priodas, gorymdaith pa un a welais rai blynyddau yn ol, yr oedd y

priodfab wedi dyfod o bell, a'r briodasferch yn byw yn Serampore, i ba le yr oedd y priodfab i ddyfod mewn cwch. Wedi dysgwyl dwy neu dair awr, o'r diwedd, yn agos i ganol nos, cyhoeddwyd, yn ngeiriau y frawddeg yn y Beibl, 'Wele, mae y priodfab yn dyfod, ewch allan i gyfarfod ag ef.' Darfu i'r holl bersonau ag oeddynt i fod yn perthyn i'r dorf yn awr barotoi eu lampau, a rhedeg gyda hwynt yn eu dwylaw i gymmeryd eu lle yn yr orymdaith; yr oedd rhai o honynt wedi colli eu goleuadau, ac yn anmharod, ond yr oedd y pryd hyny yn rhy ddiweddar i chwilio am danynt, ac aeth yr orymdaith yn mlaen i dŷ y briodferch, wrth ba un y darfu i'r gwyddfodolion fyned i lanerch ëang wedi ei goleuo yn ysblenydd, ac yn orchuddiedig â chysgodlen, lle yr oedd llu mawr o gyfeillion wedi eu gwisgo yn eu gwisgoedd gwychaf, yn eistedd ar fatiau. Cludid y priodfab yn mreichiau cyfaill, a dodid ef ar eisteddfa ardderchog yn nghanol y cynnulliad, lle yr eisteddodd am ychydig o amser, ac yna efe a aeth i'r tŷ, drws yr hwn a gauwyd yn y fan, ac a wyliwyd gan y milwyr. Nid oedd fy ngwaith i ac ereill yn ymhwedd â'r rhai a wylient y drws, ond ofer. Ni theimlais erioed gymmaint oddiwrth ddammeg brydferth ein Harglwydd ag yn awr, 'A chauwyd y drws.'" (*Ward's View of the Hindoos*, vol. iii. p. 171.)

Pan y byddai brenin neu dywysog, neu rai o bendefigion cymdeithas yn priodi, yr oeddynt yn darparu gwisg gyfaddas i'r amgylchiad, a dysgwylid i'r rhai a wahoddasid ei dodi am danynt dros eu dillad eu hunain. Mae yn naturiol i ni gasglu hyn oddiwrth y ddammeg. (Mat. xxii. 11, 12.) Anrhegid y gwahoddedigion â gwisg y briodas o barch iddynt, a dysgwylid iddynt hwythau ei gwisgo o barch i'r anrhegwr. Yr oedd yn arferiad gynt yn mhlith Dwyreinwyr, ac mae yr arferiad yn parhau hyd heddyw, i'r breninoedd anrhegu eu swyddogion mwyaf mynwesol, llysgenadwyr oddiwrth deyrnasoedd ereill, a dynion ereill o enwogrwydd fel ysgolheigion neu athronwyr, â gwisgoedd ysblenydd. (Gen. xlv. 22, 23. 2 Chron. ix. 24. Esther vi. 8, viii. 15.) Yr oedd ganddynt ystafelloedd neillduol i gadw y fath wisgoedd. (2 Bren. x. 22.) Yn y Dwyrain hyd y dydd heddyw, dysgwylir i bob un a dderbynia anrheg o wisg oddiwrth frenin i ymwisgo ynddi, ac ymddangos ger ei fron; os amgen, cyffroir ei ddigllonedd. Dyry Olearius, gweinidog Duc Holstein, ac ysgrifenydd y llysgenadaeth a anfonodd y Duc i Persia yn

1633, yr hanes canlynol am dano ei hun a'r llysgenadwyr ag oeddynt gydag ef, pan y gwahoddasid hwynt i giniawa gyda brenin Persia:—

"Y dydd canlynol, Rhagfyr 3ydd, anfonodd y brenin i wahodd y llysgenadwyr i giniawa gydag ef unwaith yn ychwaneg. Dywedodd y Mehemander wrthynt, fod arferiad yn galw am iddynt i wisgo dros eu dillad eu hunain y dillad ysblenydd a anfonasai y brenin iddynt, ac ymddangos felly ger ei fron. Darfu i'r llysgenadwyr ar y dechreu ddangos anfoddlonrwydd i gydsynio; ond pan yr hysbyswyd hwynt fod pob llysgenadwr yn arfer ymddwyn felly, ac y byddai i'r brenin yn ddiamheuol ei gymmeryd yn dra anngharedig os deuent o'i flaen heb yr arwyddion o'i haelfrydedd, hwy a benderfynasant o'r diwedd wneyd fel y ceisid; a gwnaeth eu holl ganlynwyr yr un modd." (*Ambassador's Travels*, p. 188. *Burder's Oriental Customs*, p. 39. *Trench on the Parables.*)

Diau mai at arferiad tebyg i'r uchod y cyfeirir yn yr ymddyddan yn nghylch y wisg briodas; priodas yn y teulu breninol oedd y briodas, a'r arferion yn eu plith hwy a osodir allan. Gan fod gwisg i'w chael, a dysgwyliad i bawb ei gwisgo, a gweision y brenin yn hysbysu pawb o hyny, nid rhyfedd i'r dyn ag oedd hebddi fyned yn fud!

(9,) *Tai.*

Mae y tai yn y Dwyrain yn awr, fel yn yr hen amseroedd, yn wastad yn eu penau, ac yn gyffredin o'r un nodwedd a'u gilydd. Gorchuddir y nen gyda cheryg llydain, neu â morter o galch, ac weithiau o glai, ac amgylchir ef â chanllaw yr ochr allanol a'r ochr fewnol uwch ben y cyntedd. (Deut. xxii. 8.) Barna Dr. Shaw mai trwy bwyso ar y diweddaf, yr hwn oedd ddelltwaith, y syrthiodd Ahaziah. (2 Bren. i. 2.) Mynychir y nen yn gymmaint ag un ran o'r tŷ. Ar hwn bydd y trigolion yn rhodiana (2 Sam. xi. 2. Dan. iv. 29), bwyta, cysgu, trafod eu gorchwylion (1 Sam. ix. 25), a myned trwy eu defosiynau (Act. x. 9), a'u hofergoeledd eilunaddolgar. (Zeph. i. 5.) Sychent lieiniau, parotoent ffigys a ffrwythau ereill, ac adeiladent fythod yn gysgod rhag gwres y dydd ac oerni y nos, ar benau y tai. (Jos. ii. 6. 2 Sam. xvi. 22. Neh. vi. 16.) Er deall beth fyddai yn myned yn mlaen yn yr heol, rhedai y bobl i benau y tai; a phen y tŷ oedd y lle mwyaf manteisiol i roddi

cyhoeddusrwydd i bethau. (Mat. x. 27.) Pan adeiledir dinas ar le gwastad, gellir myned o un pen i'r llall iddi ar hyd penau y tai heb ddisgyn i'r heol, gan nad yw y muriau rhyngddynt yn uchel. (*Dr. Shaw's Travels, Edition* 1738, p. 277.)



TAI DWYREINIOL GYDA PHENAU GWASTAD.

Mae cyntedd agored yn nghanol y tai yn y Dwyrain; mae ffenestri y tai gan mwyaf yn gwynebu y lle agored hwn yn nghanol y tŷ; mae y ffenestri a wynebant yr heol wedi eu cau i fyny â delltwaith fel nad ellir gweled ond ychydig trwyddynt. Mae y fynedfa i dai Dwyreiniol yn un gongl iddynt, yr hon sydd yn agor i fath o gyntedd (*porch*) bychan; trwy hwn mae



CYNTEDD TUFEWNOL PALAS DWYREINIOL.

y ffordd i'r cyntedd agored yn nghanol y tŷ, ac i'r grisiau sydd yn arwain i ben y tŷ, Gellir myned i ben y tŷ, a dyfod i lawr oddi yno, heb fyned i'r tŷ, nac aflonyddu ar y teulu, fel yr awgrymir yn Mat. xxiv. 17. Mae yr ystafelloedd o amgylch y cyntedd hwn, ac yn gwynebu arno. Mae y cyntedd yn aml yn cael ei addurno â marmor, ac yn fynych fe geir ymdrochle ynddo (2 Sam. xvii. 18), a phlanhigion a llysiau peraroglus. (Salm lxxxii. 13. cxxviii. 3.) Uwch ben y cyntedd agored hwn, y mae cysgodlen (*awning*) yn cael ei dodi; ac y mae hefyd, ebe Dr. Shaw, fath o *verandah*, naw neu ddeg troedfedd o ddyfnder, pan y mae uwch-ystafelloedd mewn tai, yr hwn sydd yn amgylchu rhanau os nad y cyfan o'r cyntedd. Er deall hanes y wyrth y cyfeirir ati yn Marc ii. 4, a Luc v. 19, rhaid i ni dybied fod Iesu Grist yn y cyntedd crybwylledig a thorf fawr yn ei amgylchynu; a chan na allai y bobl ddwyn y claf at yr Iesu trwy y dorf, hwy a aethant i fyny y grisiau i ben y tŷ, ac yna darfu iddynt symmud rhai o'r coed a gyfansoddai y *verandah*, a gollwng y claf i lawr trwyddo, neu symmud ymaith y gysgodlen, a'i ollwng felly i'r canol. Gall fod y naill neu y llall, ac nid ydyw yr hanes yn ein galluogi i benderfynu pa un; ond nid ydyw yn ein gadael yn y tywyllwch am y wyrth ogoneddus a ganlynodd, a'r prawf a roddai y wyrth o awdurdod Crist i faddeu pechodau.

Gan fod penau tai y bobl gyffredin wedi cael eu toi â morter neu bridd yn gymmysgedig â chlai, y mae glaswellt weithiau yn tyfu arnynt; ond gan nad oes ar benau y tai ddigon o drwch o bridd i'r glaswellt wreiddio, y mae yn gwywo yn ngwres tanbaid yr haul cyn casglu ond ychydig nerth; o herwydd hyn cyfeirir yn y Beibl at laswellt pen tai fel arwyddlun o freuolder, gwendid, a dinystr sicr a buan. (2 Bren. xix. 26. Salm cxxvi. 6, 7.)

Mae llawer o dai y Dwyreinwyr wedi eu hadeiladu o glai cymmysgedig â chrynfeini (*pebbles*), wedi eu sychu yn yr haul. Mae y gwlawogydd yn eu niweidio yn fawr, o dan ddylanwad pa rai y maent yn fynych yn dadfeilio ac yn ymollwng. Dywed y teithiwr Elliott, fod gwlaw un gauaf wedi niweidio yn fawr dair mil o dai Damascus, ac wedi chwilfriwio chwe' chant o honynt.* Yn yr haf mae y tai hyn drachefn yn agored i agenu ac ymollwng o dan ddylanwad y gwres. Yn yr agenau

* *Dr. Hackett's Illustrations of Scripture,* p. 94.

hyn mae seirph weithiau yn llochesu. (Amos v. 19.) Gan eu bod wedi eu hadeiladu o'r fath ddefnydd, mae lladron yn gallu cloddio trwyddynt gyda rhwyddineb a dystawrwydd, heb yn wybod i'r preswylwyr. (Mat. vi. 19, xxiv. 14. Job iv. 19, xxiv. 16.)

Mae yr Arabiaid ar lanau y Nilus yn adeiladu tai o'r fath yma; pan y cyfoda llif yr afon yn fwy nag arferol, y mae galanasdra ofnadwy yn cymmeryd lle. Fel hyn y desgrifia y teithiwr Belzoni y trychineb:—"Yr oedd eu bythod, gan eu bod wedi eu hadeiladu o bridd, yn analluog i wrthsefyll y llif; ac mor fuan ag y cyrhaeddodd y dwfr hwynt, hwy a wnaethpwyd yn gydwastad â'r llawr. Cludai y ffrwd wyllt bob peth o'i blaen: ysgubwyd y dynion, y gwragedd, y plant, y gwartheg, yr ŷd, a phob peth arall ymaith mewn amrantiad, a gadawodd y lle ar yr hwn y safai y ddinas heb yr un arwydd fod tŷ erioed wedi bod yno." *

Byddai tai weithiau ar furiau dinasoedd; yr oedd tŷ Rahab ar fur dinas Jericho (Jos. ii. 15); a thrwy gyfrwng tŷ ar fur Damascus y gwaredwyd Paul rhag ei elynion. (Act. ix. 25. 2 Cor. xi. 23.) Y fath fendith fod un o'r dysgyblion yn byw mewn tŷ felly er mwyn achub bywyd Paul! Ond nid oes diffyg yn nhrefniadau Rhagluniaeth. Mae tai i'w canfod heddyw ar fur dinas Damascus, fel y tystiolaetha Dr. Hackett, a'r Parch. J. Anderson, y rhai a'u gwelsant.

Yn adeg cwymp Jericho, mae'n debygol na chwympodd y mur oll yn mhob rhan o'r ddinas, ond yn unig cymmaint o hono ag oedd yn anghenrheidiol er galluogi Israel i'w chymmeryd a'i dinystrio, ac felly na chwympodd tŷ Rahab; a thrwy hyny fe'i hachubwyd hi a'i theulu.

(10.) *Teithio yn y Dwyrain.*

Yn y Dwyrain, nid ydyw unigolion yn dewis teithio wrthynt eu hunain, gan ei bod yn fwy dedwydd ac yn fwy diogel i deithio gyda mintai; a phan nas gall teithwyr gasglu digon o bersonau o'u hamgylch eu hunain, y maent yn aros nes daw y teithlu (*caravan*) cyntaf, â'r hwn yr ymunant. Yna ânt yn mlaen ar eu taith yn ol tua thair milltir yn yr awr, a theithiant o chwech i wyth awr yn y dydd. Y diwrnod cyntaf, modd bynag, nid yw y fintai yn myned mwy na rhyw chwech neu

* *Burder's Oriental Customs*, pp. 27, 28.

wyth milltir cyn aros dros y noswaith, er mwyn iddynt weled a fydd ganddynt bob peth anghenrheidiol gogyfer â'r daith. Felly y dywed Maundrell:—"Ymadawsom âg Aleppo ar ddydd Gwener, Chwefror 26ain, 1696, am dri yn y prydnawn, heb fwriadu myned ond ychydig o ffordd y prydnawn hwnw, er gweled pa fodd yr oeddym wedi parotoi gyda'r pethau anghenrheidiol i'n taith. Gorphwysasom y noson gyntaf yn Honey-kane, tuag awr a hanner i'r Gorllewin o Aleppo." (*Journal*, p. 1.) Yr un modd y tystiolaetha Dr. Hackett:—"Yr oedd yr haul yn tynu at fachlud pan oeddym yn gadael Cairo, ar y 15fed o Fawrth (1852), er croesi yr anialwch i Syria; ac ar ol taith o ddwy awr a hanner, gwersyllasom yn agos i'r golofn a noda allan safle Heliopolis, sef On yr Ysgrythyr. (Gen. xli. 45.) Yr unig reswm a glywais dros gychwyn yn hwyr fel hyn, ac aros mor fuan, oedd, ei fod yn rhoddi cyfleusdra, pe buasai rhywbeth wedi ei annghofio, i ddychwelyd i'r ddinas, a gwneyd y diffyg i fyny." (*Illustrations of Scripture*, p. 12.)

Dichon mai yr arferiad yma a rydd gyfrif am yr hyn a ddywedir am Joseph a Mair yn colli y bachgen Iesu pan oeddynt yn dychwelyd o Jerusalem. (Luc ii. 41—45.) Mae rhai yn cymmeryd yr amgylchiad yma yn achlysur i godi amheuaeth yn nghylch gwirionedd yr hanes, gan nad oedd yn debyg y buasai Joseph a Mair yn teithio diwrnod cyfan heb ganfod colli yr Iesu. Yn hytrach na bod felly, mae yr amgylchiad yn brawf o wirionedd yr hanes, gan ei fod yn un o'r dygwyddiadau a allent yn naturiol gymmeryd lle yn ystod yr orymdaith gyntaf tua chartref, yr hon ni pharhäai ond rhyw awr neu ddwy o amser. Yr oedd Iesu yn awr tua deuddeg oed; diau ei fod gyda'r fintai pan oedd yn parotoi i ddychwelyd; nid oedd dim yn annaturiol, gan hyny, i'w rieni ei adael am ychydig gyda'u perthynasau a'u cymmydogion yn y dorf, fel yr oeddynt hwy yn tybied, ar y daith yn ol i Galilea; pan y gorphwysasant ar ol taith fer y diwrnod cyntaf, ac heb ei ganfod gyda'r perthynasau a'r cymmydogion, cawn eu bod yn y pryder a'r gofid mwyaf yn myned i chwilio am dano nes ei gael. Pa hanes a welwyd erioed yn fwy tebyg i wirionedd na hwn? *

Mae symmudiadau pabellau ymdeithwyr yn cael sylw

* *Dr. Hackett's Illustrations of Scripture*, pp. 13—16. *Anderson's Bible Light from Bible Lands*, p. 254.

mynych yn y Beibl. Ni adewir y babell ond ychydig yn yr un man. Dodir hi i fyny am y noswaith, tynir hi i lawr y dydd canlynol, a theithir yn mlaen. Felly y gwna y bugeiliaid hefyd. Gan fod y ffrydiau yn sychu, a'r borfa yn darfod, symmudant i orsaf newydd. Mae y symmudiadau mynych hyn o un fan i'r llall, heb un lle sefydlog i aros, heb allu canfod yn mlaenllaw yn mha lanerch y bydd trigfa un y diwrnod nesaf, yn arwyddlun effeithiol o fywyd dyn:—"Fy nhrigfa a aeth," ebe Hezeciah, "ac a symmudwyd oddi wrthyf fel lluest bugail." (Esai. xxxviii. 12.) Cyfeiria Jacob at yr un arferiad:—"A Jacob a ddywedodd wrth Pharaoh, Dyddiau blynyddoedd fy ymdaith *ydynt* ddeg ar hugain a chan' mlynedd: ychydig a drwg fu dyddiau blynyddoedd fy einioes, ac ni chyrhaeddasant ddyddiau blynyddoedd einioes fy nhadau yn nyddiau eu hymdaith hwynt." (Gen. xlvii. 9.)

Ychydig o funydau y bydd yr ymdeithwyr yn tynu y babell i lawr; yn hyn y mae y corph dynol yn debyg i babell, gan mai ychydig iawn sydd yn ofynol er ei ddwyn i'r llwch, a pheri i'r preswylydd fyned i drigfa arall i fyd yr ysbrydoedd. (2 Cor. v. 1. 2 Pedr i. 13.)



PEBYLL ARABAIDD.

Er adfywio y teithwyr ar eu hymdaith, ac er cadw yr anifeiliaid rhag myned ar goll, a'r teithwyr rhag ymwasgaru fel ag i golli eu gilydd, dodir clychau yn fynych am yddfau yr asynod, y ceffylau, a'r camelod; at hyn y cyfeirir yn Zech. xiv. 20:—"Y dydd hwnw y bydd ar ffrwynau (Heb. מצלות *metsilloth*=clychau) y meirch, 'SANTEIDDRWYDD I'R ARGLWYDD.'" Bydd pob peth wedi ei gyssegru i wasanaeth Duw y pryd hwnw, a dylanwad crefydd wedi puro holl drafodaethau masnach.

Cyfeirir yn fynych yn yr Ysgrythyr at helyntion ac arferion yr Iuddewon wrth deithio o'r naill fan i'r llall. O'r braidd y

byddai yn briodol i ddweyd fod *ffyrdd* yn Nghanaan; y mae cerbydau hyd heddyw yn bethau dyeithr i'r wlad: ac nid yw y ffyrdd amgen na llwybrau wedi eu gwisgo gan draed yr anifeiliaid. Gan fod y wlad, gyda'r eithriad o ychydig o wastad-diroedd ëang, yn fryniog, a phenau y bryniau yn aml yn greigle noeth, mae y ffyrdd neu y llwybrau, yn fynych yn gulion, geirwon, ac anwastad; ac oddi eithr fod yr anifeil-iaid wedi arfer llawer â'r fath lwybrau, ac yn dra sicr o'u traed, ni allent byth eu teithio. Mae y llwybrau yn fynych, nid yn unig yn disgyn i'r dyfnder, ac yn esgyn dros leoedd sythion ac uchel, ond hefyd yn rhedeg gydag ymylon clogwyni ac agenau dychrynllyd a pheryglus; mewn lle fel hyn, byddai rhoddi cam i gyfeiriad anmhriodol, neu naid ddisymmwth o eiddo yr anifail, yn ddigon i hyrddio dyn dros y clogwyni i ddinystr. Dywed Dr. Hackett (*Illustrations of Scripture*, p. 21), ei fod ef unwaith yn myned o Tecoa i Khureitun, a bod y ffordd wedi culhau i lwybr cul rhwng clogwyn uchel ar un llaw, a cheunant enfawr, gannoedd o droedfeddi o ddyfnder, ar y llaw arall. Yr oedd edrych i'r gwagle brawychus yn ddigon i beri i ben y cadarnaf ddechreu troi. Yr oedd peryglon o'r fath yma o flaen meddwl yr Iuddew pan yn adrodd ac yn darllen y fath eiriau a'r rhai canlynol:—"Yr hwn sydd yn gosod ein henaid mewn bywyd, ac ni âd i'n troed lithro." (Salm lxvi. 9.) "Yna y cei rodio dy ffordd yn ddiofal, a'th droed ni thramgwydda." (Diar. iii. 23.) "I mi *y perthyn* dial, a thalu y pwyth; mewn pryd y llithir eu troed hwynt: canys agos *yw* dydd eu trychineb, a phrysuro y mae yr hyn a barotowyd iddynt." (Deut. xxxii. 35.) "Ni âd efe i'th droed lithro: ac ni huna dy geidwad." (Salm cxxi. 3.)

Sonir am "*barotoi y ffordd*" o flaen personau urddasol. (Esai. lxii. 10. Mat. iii. 3.) Pan y bydd ymerawdwr Twrci yn talu ymweliad â Syria, anfona y llywodraethwyr lleol gyhoeddiad allan yn galw ar yr holl drigolion i ymgasglu ar hyd y ffordd y bydd ei fawrhydi yn myned, ac i'w pharotoi o'i flaen. Cesglir y ceryg i ffwrdd, unionir y lleoedd ceimion, a gwastadheir y lleoedd anwastad. Ymddengys fod priodoldeb neillduol yn y gwaith o symmud ymaith y ceryg o'r ffordd pan y bydd y brenin yn agoshau, gan fod y ffermwyr yn Syria yn arfer casglu y ceryg o'u meusydd a'u bwrw i'r ffordd, yr hyn sydd yn gwneyd teithio yn flinderus a pheryglus. (Gwel *Thomson's Land and the Book*, p. 77.) Cyfeiria Dr.

Harvey, America, mewn llythyr o Cairo, yr hwn a ymddangosodd yn y *New York Examiner and Chronicle*, Mawrth 19, 1874, at ddull arall o "barotoi y ffordd." Dywed fod heolydd y ddinas yn gulion, a bod un neu ddau redegydd yn perthyn i bob cerbyd, y rhai a redent o'i flaen i barotoi y ffordd, rhag i'r cerbydau redeg i'w gilydd neu ar draws y tramwywyr. Arddangosir urddas neu sefyllfa y rhai fydd yn y cerbydau, trwy nifer y dynion ag fydd yn rhedeg o'u blaen. Yr oedd Dr. Harvey wedi gweled cynnifer a chwech yn rhedeg o flaen un cerbyd, er symmud y rhwystrau, a pharotoi y ffordd.

Cyfeiria Esai. lxii. 10, at droedigaeth yr Iuddewon at Dduw, o dan y gymhariaeth o ddychweliad i Jerusalem; a gelwir ar breswylwyr y dinasoedd ar eu llwybr i fyned allan i'w cynnorthwyo, a symmud pob rhwystr o'u ffordd,—er dangos y dylai credinwyr yn mhob gwlad wneyd eu goreu i sicrhau dychweliad y genedl Israelaidd at Dduw eu tadau a'i Eneiniog ef. Yr oedd Ioan Fedyddiwr yn parotoi y ffordd o flaen Crist, trwy godi dysgwyliad am dano, a gwrthweithio rhagfarn, a phregethu barn Duw ar yr anedifeiriol; yn nghyda thrwy ddysgu a bedyddio dynion, fel ag i fod yn barod i waith yn nheyrnas nefoedd pan y byddai ar Grist eu heisieu. Yr oedd "i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod" (Luc i. 17).

Mae un peth tra hynod yn cyfarfod teithwyr yn y Dwyrain, yn neillduol yn Arabia, sef yr hyn a elwir MIRAGE, sef *twyll-weledìad* neu *hud-ddwfr*. Wrth i'r teithwyr fyned rhagddynt trwy yr anialwch crasboeth, pan bron trengu gan syched, yn rhagluniaethol y maent yn cael eu hunain yn dyfod i olwg llyn mawr prydferth; wrth iddynt agoshau ato, y mae yn ymddangos yn barhaus yn fwy eglur, y coed yn addurno ei ymylon, adeiladau tref gyfagos yn cael eu delweddu ar ei arwynebedd, a'r camelod i'w canfod yn rhuthro iddo er ymadfywio yn ei ddyfroedd oerion, a hwythau eu hunain yn ymnerthu yn y dysgwyliad hyfryd, am dori eu syched angerddol yn mhen ychydig eiliadau yn mhellach; ond och! y mae y llyn dysglaer o'r dyfroedd grisialaidd yn cilio ymaith o'u blaen, ac o hyd yn cadw rhyw chwarter milltir oddi wrthynt, neu yn diflanu o'u golwg, ac erbyn myned i'r lle, nid yw ond *twyll-weledìad* neu *hud-ddwfr*—dim ond effaith gwres angerddol yr haul yn sugno y gwlybwr a'r lleithder o'r ddaear dywodlyd, ac yn ymddangos i lygad yr edrychydd fel

llyn o ddwfr! Mor debyg i hyn yw hoff bethau bywyd: yr ydym yn crwydro ar eu hol, ac yn hiraethu am eu goddiweddyd, ond y maent fel ein cysgod yn rhedeg o'n blaen o hyd, neu yn diflanu fel niwl o'n gafael!

Barna Lowth a Henderson, ac amryw o ddysgedigion ereill, mai yr hud-ddwfr yma yw y "crasdir" y cyfeiria Esaiah ato yn pen. xxxv. 7, "Y crasdir* hefyd fydd yn llyn." Yn lle yr hud-ddwfr siomedig hwn, fe fydd llyn o ddwfr gwirioneddol, hyny yw, fe fydd gwir ddedwyddwch i wrthddrychau y ffafr Ddwyfol.

Wrth deithio i'r gŵyliau blynyddol, byddai yr Israeliaid yn tori allan mewn llais clodforedd i ganmol Ceidwad Israel, ac i osod allan ardderchogrwydd y deml, a phrydferthwch dinas y Brenin Mawr, i'r hon yr esgynai y llwythau. Cawn engraifft o'u caniadau, mae yn dra thebygol yn y Salmau a elwir "CANIAD Y GRADDAU," neu yn fwy cywir, CANIAD YR ESGYNIADAU, am y byddai y bobl yn eu defnyddio fel caniadau cenedlaethol, a'u canu wrth fyned i fyny i Jerusalem i'w huchel-ŵyliau: gwel Salmau cxx.—cxxiv.

### (11,) *Terfynau y Maes.*

"Na symmud derfyn dy gymmydog, yr hwn a derfynodd y rhai a fu o'r blaen, o fewn dy etifeddiaeth yr hon a feddienni, yn y tir y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei roddi i ti i'w feddiannu." (Deut. xix. 14.)

"Melldigedig *yw* yr hwn a symmudo derfyn ei gymmydog. A dyweded yr holl bobl, Amen." (Deut. xxvii. 17.)

"Na symmud mo'r hen derfyn, yr hwn a osododd dy dadau." (Diar. xxii. 28.)

Nid yw gwahanol berchenogion tiroedd yn Nghanaan, yn awr mwy na chynt, yn amgylchu eu meddiannau â chloddiau neu wrychoedd; gwneir hyn, mae'n wir, â gerddi a gwinllanoedd, ond ni amgylchir y maesydd ŷd felly. Yr unig

* Y gair Hebraeg yw שרב, *Sharab*: "An undulous motion of the sands in the deserts of Arabia, occasioned by the rays of the sun."—*Gesenius's Hebrew Lexicon.*

"And the mirage (the mere semblance of water) shall become a pool (of real water)." (Is. xxxv. 7.) *Dr. Benjamin Davies's Hebrew Lexicon.*

Yr un gair a geir yn yr Arabaeg ag yn yr Hebraeg, ac y mae Mahomet yn pen. 24 o'r Koran yn cyfeirio ato fel y canlyn :—"Ond gyda golwg ar yr annghredinwyr, y mae eu gweithredoedd hwynt fel *serab* yn y gwastadedd ; yr hwn a gymmera y teithiwr sychedig am ddwfr, hyd nes y daw ato, pan y canfydda nad ydyw yn ddim." Gwel Nodiadau Lowth a Henderson, a Theithiau Dr. Shaw, tudal. 378, 379.

derfyn rhyngddynt hwy ydyw ychydig o geryg bychain yn bentyrau, neu geryg unigol uniounsyth, bob rhyw bump neu chwe' llath oddiwrth eu gilydd. Dyma y terfyn y cyfeirir ato yn yr Hen Destament.

Hawdd y gallai dyn anonest symmud ychydig ar y terfyn heb i'w gymmydog ganfod hyny, rhag yr hyn y mae y Beibl yn rhybuddio y bobl mor bendant.

(12,) *Ymborthi.*

Yn y Dwyrain, mae y trigolion wrth fwyta yn rhyw hanner gorwedd ar yr esmwythfainc, gan orphwyso ar eu penelin aswy, a'u traed wedi eu dodi o'r tu ol iddynt, a defnyddiant y llaw ddeheu i godi bwyd i'w genau. Dengys hyn i ni y modd y gallai y wraig hono ddyfod o'r tu ol i'r Iesu pan oedd efe yn eistedd wrth y bwrdd, a golchi ei draed ef â dagrau, a'u henneinio â'r ennaint (Luc vii. 36—38): a dengys beth a olygir wrth yr ymadrodd, "pwyso ar fynwes un wrth y bwrdd." (Ioan xiii. 23.)



AGWEDD DWYREINWYR WRTH FWYTA.

Nid yw y Dwyreinwyr yn defnyddio cyllyll a chigffyrch a llwyau wrth fwyta, ond eu bysedd a'u dwylaw; trochant eu tamaid â'u dwylaw yn y cawl ar y bwrdd. Os bydd rhyw damaid neillduol o dda o'u blaen, weithiau dyry llywydd y wledd hwnw â'i law ei hun yn ngenau yr hwn a fydd yn talu ymweliad âg ef. (Mat. xxvi. 23. Ioan xiii. 26. Ruth ii. 14.) Gan eu bod yn defnyddio eu dwylaw fel hyn wrth ymborthi, yr oedd y Phariseaid yn orofalus am eu golchi, rhag ofn iddynt halogi eu hunain. (Marc vii. 2, 3.)

Melid ŷd i wneyd bara mewn gwahanol ffyrdd. Un ffordd ydoedd trwy ei ddodi mewn careg fawr, gyda thwll neu gafn priodol wedi cael ei wneyd ynddi, yr hon a elwir yn y Beibl, "morter." (Num. xi. 8. Diar. xxvii. 22), yr hwn wed'yn a

gurid â chareg arall, neu ddarn o bren neu fetl, yr hwn a elwir "pestl." (Diar. xxvii. 22.) Dywed Solomon yn ei ddull cyrhaeddgar ei hun, pe buasid wedi taflu dyn ffol i blith y grawn ar waelod y ceudwll yn y gareg dan sylw, a phe buasid yn curo arno yr un modd ag ar yr ŷd, na buasai yn ddoethach! (Diar. xxvii. 22.)

Ni fyddai y blawd a geid yn y dull yma wedi ei falu ond yn anmherffaith; defnyddid melinau bychain er cael blawd mwy teg a phur. Troid y melinau hyn yn gyffredin gan ferched gyda'u dwylaw, weithiau gan un, ond yn fynych byddai dwy gyda'u gilydd, y naill i gynnorthwyo y llall. Yr oeddynt yn gynnwysedig o ddwy gareg gron, pob un o honynt tua chwe' modfedd o drwch, a dwy droedfedd o led o un ymyl i'r llall. Yr oedd y gareg isaf wedi ei gwneyd yn ansymmudol, a'i chanol yn uwch i fyny na'r ymylon, hyny yw, yn meddu ychydig o argrymedd *(convexity)*, tra yr oedd yr uchaf yn meddu ychydig o gafnedd *(concavity)* yr ochr isaf iddi, yn ol graddau argrymedd y gareg arall. Yr oedd twll yn nghanol yr uchaf, i'r hwn y gollyngid yr ŷd wrth y dyrnaid yn awr ac eilwaith, yr hwn a ddeuai allan yn flawd oddi rhwng y ddwy gareg ar ystyllen ddarparedig i'w dderbyn. Byddai twll yn ochr y gareg uchaf, yn mha un y dodid darn o bren, yr hwn a ddefnyddir fel dyrnddolen *(handle)*.



GWRAIG YN MALU GYDA MELIN DDWYREINIOL.

Er mai gwenith a ddefnyddid yn gyffredin yn ymborth, eto byddai y tlodion yn byw i raddau helaeth ar haidd. Mae bara haidd yn y Dwyrain yn dra blasus pan newydd ei bobi; ond y mae yn myned yn ddiflas yn mhen rhai oriau ar ol ei grasu, o

herwydd poethder yr hinsawdd; am hyny, rhaid iddynt bobi bob dydd, ac ni felir mwy na digon am y diwrnod. Gan hyny gorchymynodd Duw, "Na chymmered *neb* faen isaf nac uchaf i felin ar wystl: canys y mae yn cymmeryd bywyd *dyn* yn ngwystl." (Deut. xxiv. 6.) Byddai sŵn y melinau yma yn y tai i'w glywed yn y boreu o'r heol. (Jer. xxv. 10. Dad. xviii. 22.) Gan fod hwn yn waith caled a diraddiol, dodid caethion a charcharorion rhyfel i'w wneuthur. (Exod. xi. 5. Barn xvi. 21. Galar. v. 13.)

## III. Gwyliau a Defodau y Grefydd Iuddewig, a Sectau y Beibl.

Sonia yr Hen Destament am ddefodau yr hen oruchwyliaeth, a ffeithiau yn hanesyddiaeth foreuol y genedl Israelaidd, fel pethau hollol adnabyddus i'r bobl; mae rhai o lyfrau y Testament Newydd hefyd, gan eu bod wedi eu hysgrifenu er hyfforddiant credinwyr Iuddewig, neu eglwysi yn mha rai yr oedd Iuddewon yn aelodau, yn rhagdybied yr un peth, fel y dengys y lleoedd canlynol:—

Mat xvii. 24, "Onid yw eich athraw chwi yn talu teyrnged?"

Nid yw yr ysgrifenydd yn egluro pa deyrnged a olygir, oblegyd ei fod yn ysgrifenu ei efengyl er adeiladaeth Iuddewon credinol, gan ei fod yn hollol adnabyddus iddynt hwy mai yr *hanner sicl* (=1s. 3c.) dyledus yn flynyddol oddiwrth bob Iuddew at wasanaeth y deml a olygir. (Exod. xxx. 12—14. 2 Chron. xxiv. 6.) Mae tri o bethau yn profi mai yr hanner sicl a olygir yma, ac nid treth at lywodraeth Cæsar:—

(1,) Nid publicanod oedd yn casglu hon, ond ereill o dan arolygiaeth swyddogion y deml.

(2,) Awgryma y gofyniad mai math o rwymedigaeth foesol yr ystyrid y dreth, ac nid yr hyn yr oedd rhwymau cyfreithiol i'w thalu. Yr oedd gorfodaeth yn gyssylltiedig â'r trethi a osodasai Cæsar.

(3,) Nid yw ymddyddan Crist â Phedr yn ddealladwy, ond ar yr ystyriaeth mai treth at wasanaeth teml ei Dad ef ydoedd. (adn. 25—27.)

"Onid yw eich athraw chwi yn talu yr hanner sicl?" yw cyfieithiad Dr. G. R. Noyes, ac eiddo yr Undeb Beiblaidd

Americanaidd, o'r geiriau. Wrth adael y fannod allan, mae y Cyfieithiad Awdurdodedig yn gwneyd yr ystyr yn aneglur.

Ioan x. 22, "Ac yr oedd y gyssegr-wyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi."

Nid ydyw Ioan yn aros i egluro mai gŵyl i gofio am waith Judas Maccabeus yn ail-gyssegru y deml a olygir, gan fod hyny yn ddealladwy i'r rhai hyddysg yn hanes yr Iuddewon.

Heb. ix. 12—14, "Nid chwaith trwy waed geifr a lloi, eithr trwy ei waed ei hun, a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr, gan gael *i ni* dragywyddol ryddhad. Oblegid os ydyw gwaed teirw a geifr, a lludw anner wedi ei daenellu ar y rhai a halogwyd, yn santeiddio i bureiddiad y cnawd; pa faint mwy y bydd i waed Crist, yr hwn trwy yr Yspryd tragywyddol a'i hoffrymodd ei hun yn ddifai i Dduw, buro eich cydwybod chwi oddiwrth weithredoedd meirwon, i wasanaethu y Duw byw."

Ystyrir wrth ddefnyddio yr ymadroddion hyn fod y darllenydd yn adnabyddus â defodau y ddeddf o barthed i halogrwydd dyn trwy bechod, a'r ddarpariaeth i wneyd cymmod dros y pechod, ac i symmud ymaith yr halogrwydd, trwy dywalltiad a thaenelliad y gwaed; a'i fod yn deall fod marwolaeth a haeddiant Iesu Grist yn dwyn gwaredigaeth gyffelyb i ninau oddiwrth euogrwydd a halogrwydd pechod, ond fod ein gwaredigaeth ni trwy aberth Crist yn annhraethol ragorach, ac yn un ysbrydol, a gwirioneddol, a thragywyddol, ac nid seremonïol, a chysgodol, ac amserol, fel y gwaredigaethau trwy waed aberthau y ddeddf.

Weithiau fe geir eglurhad ar rai pethau. Yr oedd Marc yn darparu ei efengyl er hyfforddiant y dychweledigion Rhufeinig, a Luc yn ysgrifenu yr Actau er addysg eglwysi y Cenedloedd; oblegyd hyny yr ydym yn eu cael hwy yn egluro arferion a golygiadau yr Iuddewon. "Canys y Phariseaid, a'r holl Iuddewon, oni bydd iddynt olchi *eu* dwylaw yn fynych, ni fwytânt; gan ddal traddodiad yr hynafiaid. A *phan ddelont* o'r farchnad, oni bydd iddynt ymolchi, ni fwytânt. A llawer o bethau ereill y sydd, y rhai a gymmerasant i'w cadw; *megys* golchi cwpanau, ac ystenau, ac efyddynau, a byrddau." (Marc vii. 3, 4.) "Canys y Saduceaid yn wir a ddywedant nad oes nac adgyfodiad, nac angel, nac ysbryd: eithr y Phariseaid sydd yn addef pob un o'r ddau." (Act. xxiii. 8.) Ond sonia Matthew am y Phariseaid a'r Saduceaid, a chyfeiria Paul a Ioan at olygiadau y Gnosticiaid, fel pleidiau a golygiadau adnabyddus i'w darllenwyr; a dangoswyd yn barod fod y

Testament Newydd yn rhagdybied adnabyddiaeth y darllenydd â'r hen oruchwyliaeth a'i defodau, ac â hanesiaeth y genedl Iuddewig; fel y mae yn ymddangos yn anghenrheidiol i'r darllenydd Cymreig ymgydnabyddu â'r holl wrthddrychau hyn er mwyn bod yn y safle a ddysgwylia yr ysgrifenwyr santaidd iddo ei mheddu pan yn ymwneyd â'r gyfrol Ddwyfol.

## I. *Hanes Amserau, Gwyliau, Aberthau, Arian, Pwysau, a Mesurau y Beibl.*

### 1. Amser a'i Raniadau.

Rhenid y dydd ar y cyntaf i'r hwyr a'r boreu (Gen. i. 5), wedi hyny i'r hwyr, y boreu, a chanol dydd (Salm lv. 17); a'r nos i'r wyliadwriaeth gyntaf (Galar. ii. 19); y wyliadwriaeth ganol (Barn. vii. 19); a'r wyliadwriaeth foreu. (Exod. xiv. 24.) Pan ddaeth Judea yn dalaeth Rufeinaidd, mabwysiadwyd y drefn Rufeinaidd o ranu y nos i bedair gwyliadwriaeth. (Luc xii. 38. Mat. xiv. 25. Marc xiii. 35.) Dechreuai y rhai hyn am chwech o'r gloch o'n hamser ni yn yr hwyr, a pharhäai pob un o honynt am dair awr. Cyfeirir hefyd at ddosraniad y nos i oriau. (Mat. xxv. 13. Act. xxiii. 23. Dad. iii. 3.)

Yn amser Iesu Grist, rhenid y dydd i ddeuddeg awr, yr awr gyntaf yn dechreu am chwech o'r gloch yn y boreu, yn ol ein hamser ni (Ioan xi. 9); ystyrid y drydedd awr, a'r chweched, a'r nawfed, ebe'r doctoriaid Iuddewig, yn oriau neillduol i weddïo. (Act. iii. 1.)

Rhenid y flwyddyn gan yr Iuddewon i ddeuddeg mis (1 Bren. iv. 7); ond yr oedd ganddynt ddau fath o enwau arnynt, un yn ol eu rhif, a'r llall yn enw priodol, ond fe ddichon yn cyfeirio hefyd at amgylchiadau, megys mis Abib, yr hyn a olyga mis *twysenau ŷd;* cymharer mis Medi gyda ni. Weithiau defnyddir y ddwy ffordd i osod allan y misoedd a olygir; megys, "Ac yn y bedwar ugeinfed a phedwar cant o flynyddoedd wedi dyfod meibion Israel allan o'r Aifft, yn y bedwaredd flwyddyn o deyrnasiad Solomon ar Israel, yn y mis Ziff, hwnw *yw* yr ail mis, y dechreuodd efe adeiladu tŷ yr Arglwydd." (1 Bren. vi. 1.) "Yna y galwyd ysgrifenyddion y brenin yr amser hwnw yn y trydydd mis (hwnw *yw* y mis Sifan) ar y trydydd *dydd* ar hugain o hono, ac ysgrifenwyd (yn ol yr hyn

oll a orchymynodd Mordecai) at yr Iuddewon, ac at y rhaglawiaid, y penaduriaid hefyd, a thywysogion y taleithiau, y rhai *oedd* o India hyd Ethiopia, *sef* cant a saith ar hugain o daleithiau, i bob talaeth wrth ei ysgrifen, ac *at* bob pobl yn ol eu tafodiaith: at yr Iuddewon hefyd yn ol eu hysgrifen hwynt, ac yn ol eu tafodiaith." (Esther viii. 9.)

Yr oedd yr Iuddewon yn ystyried eu blwyddyn wladol yn dechreu gyda'r lleuad newydd yn Hydref, a'u blwyddyn gyssegredig yn dechreu gyda'r lloer newydd yn Ebrill, am mai ar y pymthegfed o'r mis hwnw y gadawsant yr Aifft. (Exod. xii., xiii. 4. Deut. xvi. 1.)

Wele daflen o'r misoedd Iuddewig, a'u henwau, yn ol fel yr ymddangosant yn y Beibl, ac yn y Talmud a gweithiau Iuddewig ereill. Dechreuai y mis gyda'r newydd-loer, ac felly weithiau safai am y naill neu'r llall o'r misoedd cyferbyniol o'r eiddom ni, ac weithiau rhedai dros ranau o ddau fis. Gwel Eiriaduron Eadie, Smith, a Kitto, a gweithiau Jahn, Horne, &c.

| Yn ol y flwyddyn Wladol. | Yn ol y flwyddyn Gyssegredig. | Yn dechreu gyda'r Newydd-loer. |
|---|---|---|
| VII. | I. Nisan, neu Abib. | Mawrth, neu Ebrill. (Neh. ii. 1.) |
| VIII. | II. Ziff. | Ebrill, neu Fai. (1 Bren. vi. 1.) |
| IX. | III. Sifan. | Mai, neu Mehefin. (Esther viii. 9.) |
| X. | IV. Tammuz. | Mehefin, neu Orphenaf. |
| XI. | V. Ab. | Gorphenaf, neu Awst. |
| XII. | VI. Elul. | Awst, neu Fedi. (Neh. vi. 15.) |
| I. | VII. Tishri, neu Ethanim. | Medi, neu Hydref. (1 Bren. viii. 2.) |
| II. | VIII. Bul. | Hydref, neu Dachwedd. (1 Bren. vi. 38.) |
| III. | IX. Cisleu. | Tachwedd, neu Ragfyr. (Neh. i. 1.) |
| IV. | X. Tebeth. | Rhagfyr, neu Ionawr. (Esther ii. 16.) |
| V. | XI. Sebat. | Ionawr, neu Chwefror. (Zech. i. 7.) |
| VI. | XII. Adar. | Chwefror, neu Fawrth. (Esther iii. 7.) |

## 2. Y Gwyliau Iuddewig.

Perthynai i'r Hen Gyfammod amryw wyliau, rhai o osodiad Dwyfol, a rhai o osodiad dynol, er bytholi dygwyddiadau pwysig yn hanesiaeth y genedl.

### § 1. *Gwyliau o Osodiad Dwyfol.*

1. Y prif Gylchwyliau Blynyddol.

(1,) Y Pasg, a Gwyl y Bara Croyw.

Deillia y gair Pasg o'r ferf Hebraeg, PASACH, yr hon a olyga *myned heibio*, *neidio dros beth*, yna *arbed*. Sefydlwyd aberth a gwyl y Pasg, er coffadwriaeth am waith yr angel dinystriol yn myned heibio tai meibion Israel, ac arbed y cyntafanedig, pan oedd yn dinystrio cyntafanedig yr Aifftiaid. (Exod. xii. 27.) Yr oedd gwyl y Pasg i ddechreu ar y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis cyntaf, neu Nisan (Mawrth, neu Ebrill), yn yr hwyr, pryd yr oedd oen y Pasg i gael ei ladd a'i fwyta, ac i barhau am saith niwrnod. (Exod. xii. 6—15, xxiii. 15, 16.) Yr oedd aberthau i gael eu hoffrymu bob dydd ar hyd yr wyl, yn neillduol ar y pymthegfed a'r unfed ar hugain. (Exod. xii. 16. Lef. xxiii. 7, 8.)

Nid oedd y Pasg, yn yr ystyr gyfyngaf, yn cael ei gadw ond yn unig yn hwyr y pedwerydd dydd ar ddeg o fis Nisan, a'r saith diwrnod canlynol oedd "gwyl y bara croyw," pryd na oddefid i Israel fwyta un math arall o fara. (2 Chron. xxxv. 17. Ezra vi. 19, 22.)

Yr oedd y Pasg yn un o'r cylchwyliau blynyddol, yn yr hon yr oedd holl wrywiaid Israel i ymddangos gerbron Duw yn y man a ddewisodd efe i osod ei enw ynddo, ar y cyntaf yn Siloh, wedi hyny yn Jerusalem (Exod. xxiii. 14, 17, xxxiv. 22, 23. Deut. xvi. 16); ac nid oedd neb i ymddangos yn waglaw. (Deut. xvi. 16, 17.) Ar y dydd cyntaf o wyl y bara croyw, offrymid ysgub y blaenffrwyth i Dduw, sef dyrnaid o haidd, yr hwn oedd yr ŷd cyntaf a dynasid o'r ddaear, neu a fedasid y flwyddyn hono. Codai yr offeiriad yr ysgub â'i law tua'r nefoedd, gan ei hysgwyd hefyd, fe ddichon, yn ol ac yn mlaen,

yr hyn a gyfieithir "cyhwfanu" yn y Beibl Cymraeg (Lef. xxiii. 10, 11), er arwyddo mai oddiwrth Dduw y deillia pob bendith, ac mai iddo ef yr ydym yn ddyledus am bob daioni.

Bwytâodd yr Iesu y Pasg gyda'i ddysgyblion yn hwyr y 14eg o fis Nisan, ac offrymwyd ef fel Oen Duw yn aberth dros bechod, ar y dydd cyntaf o wyl y bara croyw.

(2,) Y PENTECOST.

Yr oedd hon hefyd yn un o'r gwyliau blynyddol, yn yr hon yr oedd gwrywiaid Israel i ymddangos gerbron Duw yn y tabernacl, neu y deml. Gelwir hi y *Pentecost* yn y Testament Newydd, am ei bod yn dygwydd ar yr hanner canfed dydd ar ol yr unfed ar bymtheg o Nisan, neu yr ail ddydd o wyl y bara croyw. (Lef. xxiii. 15, 16. Deut. xvi. 9.)

Gelwir hi, "*gwyl yr wythnosau*" (Exod. xxxiv. 22. Deut. xvi. 10), am ei bod yn cael ei chadw yn mhen saith wythnos, neu wythnos o wythnosau, ar ol y Pasg.

Gelwir hi hefyd, "*dydd y blaenffrwyth*," am fod y bobl yn offrymu blaenffrwyth y bara a wnelsid o'r gwenith newydd i Dduw. (Num. xxviii. 26. Lef. xxiii. 16, 17.) Yr oedd yn fath o wyl diolchgarwch am y cynhauaf, yr hwn a ddechreuid yn ddioed ar ol y Pasg. (Deut. xvi. 9.) Dechreuid y cynhauaf haidd tua'r Pasg, a'r cynhauaf gwenith tua'r Sulgwyn. Yr oedd y cynhauaf haidd o flaen y cynhauaf gwenith, yr hyn a gyssona offrymu y blaenffrwyth y Pasg, a'r blaenffrwyth drachefn y Sulgwyn, gan fod y cyntaf yn ysgub o haidd, a'r llall yn fara peillied.* (Exod. xxxiv. 22. Lef. xxiii. 17.) Un diwrnod y parhäai yr wyl hon.

(3,) GWYL Y PEBYLL.

Dyma y drydedd gylchwyl flynyddol, ag yr oedd gwrywiaid Israel i'w chadw, yn y lle y dygid gwasanaeth Duw yn mlaen. Dechreuai ar y pymthegfed o'r seithfed mis, sef mis Tishri (Medi neu Hydref), a pharhäai am wyth niwrnod. (Deut. xvi. 16.) Gelwir hi, "*gwyl y pebyll*," am y byddai y bobl yn ystod yr wyl yn trigo mewn bythod neu bebyll wedi eu gwneyd o ddail a changhenau coed, ar benau y tai, mewn cynteddau, ac

* *Jennings's Jewish Antiquities*, pp. 481, 487.

yn yr heolydd; mewn rhan, er cof am waith Israel yn trigo mewn bythod yn yr anialwch (Lef. xxiii. 39—43. Neh. viii. 15, 16), ac mewn rhan fel gŵyl o ddiolchgarwch am gasgliad y cynhauaf grawnwin a holl ffrwythau y ddaear i ddiogelwch, o herwydd yr hyn y gelwir hi "gŵyl y cynnull." (Exod. xxiii. 16, xxxiv. 22.)

Yr oedd yn adeg o fwyniant a llawenydd neillduol; offrymid aberthau arbenig ar y pryd; a phob saith mlynedd, yn mlwyddyn y Jubili, yr oedd y gwragedd a'r plant i fod yn bresennol gyda'r gwrywiaid, pan y darllenid rhanau o'r ddeddf yn nghlyw yr holl gynnulleidfa. (Deut. xxxi. 10—13. Neh. viii. 16.)

Y cyntaf a'r diweddaf oedd prif ddyddiau yr ŵyl. (Lef. xxiii. 35, 36, 39. Num. xxix. 12, 35.) Dywed y Rabbiniaid y byddid ar y dydd diweddaf o'r ŵyl yn cyrchu dwfr o lyn Siloam i'r deml, ac y byddai yr offeiriad ar ol ei gymmysgu â gwin, yn ei dywallt ar yr aberth boreuol ar yr allor, yn nghanol arwyddion o'r llawenydd mwyaf, gan gyfeirio at Esai. xii. 3. Bernir fod Crist yn cyfeirio at y ddefod hon pan y dywedai, "Od oes ar neb syched, deued ataf fi, ac yfed. Yr hwn sydd yn credu ynof fi, megys y dywedodd yr Ysgrythyr, afonydd o ddwfr bywiol a ddylifant o'i groth ef." (Ioan vii. 37, 38.)

NODIAD I.—*Absennoldeb y menywod o'r gŵyliau.*

Nid oedd y gyfraith yn gofyn ond am ymddangosiad y gwrywod yn y cylchŵyliau hyn. (Exod. xxiii. 14, 17, xxxiv. 22, 23. Deut. xvi. 16.) Ymddengys, modd bynag, nad oedd gwaharddiad i fenywod fyned iddynt, pan y tueddid hwynt, ac y caniatâi amgylchiadau, fel y gwelwn yn ngwaith Hannah yn ymddangos yn flynyddol yn Siloh (1 Sam. i. 3, 7), a Mair yn Jerusalem. (Luc ii. 41.)

Bernir fod y merched yn cael eu hesgusodi, o herwydd y rhesymau canlynol:—

1. Gwendid corphorol a thynerwch cyfansoddiad y rhyw fenywaidd, i ymgymmeryd â theithiau meithion a blinion.

2. Buasai y fath orymdeithiau gyda minteioedd o ddynion yn peryglu eu rhinwedd.

3. Yr anghenrheidrwydd i ofalu am y plant, ac amgylchiadau teuluaidd, yn absennoldeb y dynion.

4. Yr aflendid seremonïol i'r hwn y byddent yn agored mewn teithiau meithion.*

Yr oedd eithriad i'r drefn arferol ar adeg gŵyl y pebyll, yn mlwyddyn y Jubili, fel y sylwyd: gwel "Gŵyl y Pebyll."

* *Jennings's Jewish Antiquities*, p. 449.

NODIAD II.—*Diogelwch anneddau y bobl yn eu habsennoldeb yn y cylchŵyliau.*

Diau nad oedd pob dyn yn myned i Jerusalem ar y pryd; yr oedd yr ieuenctyd a'r hen bobl gartref; ond dysgwylid i gorph y genedl, o ugain i hanner cant neu drigain mlwydd oed, efallai, y rhai a allent ymgymmeryd â'r teithiau, i fyned i ymddangos ger bron Duw yn y tabernacl neu y deml. Beth am ddiogelwch y merched, a'r plant, a'r hen bobl, a'r meddiannau? Beth pe buasai yr Arabiaid crwydrol, neu y Midianiaid creulon, yn cymmeryd mantais ar absennoldeb y gwrywod, a lladrata eu heiddo, a llofruddio neu gaethgludo y rhai a adawsid gartref? Mae Duw yn ateb y gofyniadau hyn:—"Ni chwennych neb dy dir di, pan elych i fyny i ymddangos ger bron yr Arglwydd dy Dduw, dair gwaith yn y flwyddyn." (Exod. xxxiv. 24.)

NODIAD III.—*Y cylchŵyliau hyn oedd achlysur eilunaddoliaeth Jeroboam.*

Yr oedd y llwythau yn y gŵyliau hyn yn ymgymmysgu â'u gilydd, ac yn dyfod i gydymdeimlo â'u gilydd; ofnai Jeroboam, pe buasai y deg llwyth yn myned i'r gŵyliau fel cynt, y buasai yr hen serch cynhes a brawdol rhyngddynt a Judah yn ail gynheu, ac y buasent o'r diwedd yn dewis bod yn un deyrnas fel o'r blaen. Er mai Duw y nefoedd a roddasai freniniaeth y deg llwyth iddo, eto annghofiodd y cyfan, cymmerodd ei dwyllo gan Satan, a'i hudo gan ei galon lygredig, i newid deddfau y nef, a pheri i Israel eilunaddoli, er mwyn ceisio cadw ei goron ar ei ben! (1 Bren. xii. 25—33.)

## 2. Y Gŵyliau ereill.

### (1,) Y SABBATH.

Ystyr y gair Sabbath ydyw *seibiant*, neu *orphwysfa.* Neillduwyd y seithfed dydd i fod yn ddydd o orphwysfa i Israel er cof am waith Duw ei hun yn gorphwyso ar ol gorpheniad y greadigaeth (Exod. xx. 11), ac er coffadwriaeth am waredigaeth Israel o gaethiwed yr Aifft, i ryddid a gorphwysfa pobl Dduw (Deut. v. 15), ac i fod yn arwydd o gyfammod Duw âg Israel (Exod. xxxi. 12, 18), ac yn adeg iddynt mewn modd neillduol i addoli y Goruchaf. (Lef. xxiii. 3.) Ymddengys ei fod yn cael ei gadw cyn rhoddiad y ddeddf ar Seinai. (Gen. iv. 3, vii. 4—10, viii. 10, 12, l. 10. Exod. xvi. 22—30.) Gan fod y fath gyssylltiad rhyngddo a'r hen gyfammod, yr oedd, mewn un ystyr, i gael ei ddiddymu fel rhan o hono, ac nid yw Cristionogion o dan rwymau i'w gadw. (Col. ii. 16.) Sabbath y Cristionogion yw "Dydd yr Arglwydd," neu y "dydd cyntaf o'r wythnos," er coffadwriaeth am fuddygoliaeth Crist ar yr olaf o'i elynion, a

gorpheniad yr iachawdwriaeth, yr hyn oedd yn fawrwaith mwy gogoneddus na chreu, addurno, a llywodraethu y bydoedd. (Ioan xx. 26. Act. xx. 7. 1 Cor. xvi. 1, 2. Dad. i. 10.)

Gan fod yn anmhossibl cadw Sabbath neu Ddydd yr Arglwydd ar yr un oriau yn mhob man trwy yr holl fyd, o herwydd gwahaniaeth hydred a lledred gwahanol barthau, ac oblegyd amrywiol ddulliau gwahanol genedloedd yn cyfrif amser (trwy fod rhai yn cyfrif eu dyddiau o hwyr i hwyr, ac ereill o ganol nos hyd ganol nos, &c,),—ymddengys nad yw y Beibl yn gofyn mwy na gorphwyso ar y seithfed dydd, ar ol chwe' diwrnod o lafur; ond gan fod addoliad *cyhoeddus* a *chymdeithasol* i gael ei gynnal arno, mae yn anghenrheidiol iddo gael ei gadw ar yr un pryd, a hyny trwy yr holl ddaear, mor bell ag y bydd hyny yn ymarferol.

Ystyrid cadw y Sabbath yn ddyledswydd bwysig iawn o dan y ddeddf (Exod. xx. 8—11. Deut. v. 12—15).

Addawid bendithio y rhai a'i cadwent ef (Esai. lvi. 2, 4—7. lviii. 13, 14).

Bygythid y rhai a'i torent âg anfoddlonrwydd Duw (Exod. xxxi. 14, 15, xxxv. 2. Num. xv. 32—36. Jer. xvii. 27. Ezec. xx. 13—24, &c.)

Cosbwyd yr Iuddewon â barnedigaethau gwladol am ei halogi (Neh. xiii. 15—18. Ezec. xx. 15, 16, xxiii. 38, 47.)

Er ei fod yn ddydd o orphwysdra oddiwrth lafur, eto yr oedd gweithredoedd o anghenrheidrwydd ac o drugaredd yn gyfreithlon ac yn rhwymedig arno (Mat. xii. 1—13. Marc ii. 23, 27, iii. 2, 4. Luc vi. 9, xiii. 15, 16, xiv. 3, 5. Ioan v. 8—10, 18, vii. 22, ix. 14).

Yn ngwyneb yr ystyriaethau hyn, yn nghyda'r ffaith fod Sabbath wedi cael ei neillduo gan Dduw i ddybenion santaidd er dechreuad y byd (Gen. ii. 2, 3),—yr hyn a brawf nad gyda'r hen oruchwyliaeth y dechreuodd, ac nad yw neillduad y seithfed ran o'n hamser i wasanaethu Duw i ddarfod gyda diddymiad yr oruchwyliaeth hono—nid gormod yw dweyd fod yr Arglwydd yn awr yn cael ei fawr foddhau gan y rhai a anrhydeddant ei Ddydd ef, ac mai nid dieuog ganddo a fydd y rhai a ddibrisiant ac a halogant ei Ddydd santaidd.

NODIAD I.—*Newidiad y Sabbath i Ddydd yr Arglwydd.*

Dywed yr Arglwydd Iesu fod y Sabbath wedi cael ei wneyd er mwyn dyn yn gyffredinol (Marc ii. 17), ac nid er mwyn yr Iuddew yn unig. Pa

le bynag y ceir dyn, ystyria ei Greawdwr fod gorphwysdra y Sabbath yn anghenrheidiol a bendithiol iddo.

1. Mae rheswm a phrofiad yn dangos fod dyn ac anifail yn sefyll mewn angen adegau i orphwyso.

2. Mae y Creawdwr wedi appwyntio y cyfartaledd o un dydd o saith, yn ychwanegol at y nosweithiau, fel adeg gorphwysdra i ddyn.

3. O dan yr hen oruchwyliaeth y seithfed dydd oedd y Sabbath.

4. Dydd gorphwysdra o dan yr oruchwyliaeth Gristionogol yw y dydd cyntaf o'r wythnos.

(1,) Ar hwn yr adgyfododd yr Arglwydd Iesu oddi wrth y meirw (Marc xvi. 9).

(2,) Ar y dydd hwn yr ymddangosai ar ol ei adgyfodiad i'r dysgyblion (Ioan xx. 19, 26).

(3,) Ar y dydd hwn y cymmerodd gŵyl y Pentecost le, pryd y tywalltwyd yr Ysbryd Glân ar yr apostolion, ac y gwisgwyd hwynt â nerth o'r uchelder. (Lef. xxiii. 15, 16. Act. ii. 1—4.)

(4,) Ar y dydd hwn yr ymgynnullai yr eglwysi apostolaidd yn nghyd er cynnal addoliad cymdeithasol. (Act. xx. 7. 1 Cor. xvi. 1, 2. Dad. i. 10.)

O herwydd rhagfarn yr Iuddewon, ac er mwyn cael y cyfleusdra i bregethu iddynt, byddai yr apostolion yn fynych yn cadw y seithfed dydd yn santaidd, yn ogystal a'r dydd cyntaf o'r wythnos. Ymddengys hefyd fod credinwyr o blith yr Iuddewon yn cadw y seithfed dydd a'r dydd cyntaf o'r wythnos, ar y dechreu; ond nid oedd y credinwyr o blith y Cenedloedd yn cadw, nac i gadw ond y dydd cyntaf o'r wythnos yn unig (Gal. iv. 10, 11. Col. ii. 16, 17.)

Goddefid i frodyr gweiniaid o'r Iuddewon lynu wrth rai gosodiadau Iuddewig, hyd nes y deuent i amgyffred eu nhatur ddiflanol yn eglurach a chywirach (Rhuf. xiv., xv. 1—7).

(5,) Arferai yr eglwys Gristionogol o'r dechreuad â chadw y dydd cyntaf o'r wythnos.

Yr ydym wedi dangos o'r Testament Newydd beth oedd arferiad yr eglwysi apostolaidd. Cawn ysgrifenwyr boreuol yn dwyn tystiolaeth i'r un peth. Dywed Barnabas, cydoeswr â'r apostolion, "Eu bod hwy yn cadw yr wythfed dydd gyda llawenydd, ar yr hwn y cyfododd yr Iesu o feirw." Dywed Pliny, yn nechreu yr ail ganrif, "Fod y Cristionogion yn arfer ymgynnull ar ddiwrnod neillduol, ac yn canu emynau i Grist megys ag i Dduw." Tua'r un adeg dywed Justin Ferthyr nad oedd y Cristionogion yn cadw defodau yr Iuddewon, na'u Sabbathau, nac yn arfer y ddefod o enwaediad; ond eu bod yn ymgynnull ar y dydd a elwir Dydd Sul, i ddarllen yr Ysgrythyrau, i weddio, cynghori, cymmuno, &c. Gellid dyfynu tystiolaethau cyffelyb o weithiau Ignatius, Tertullian, Clement o Alexandria, Cyprian, ac ereill, y rhai a brofant fod cadwraeth Dydd yr Arglwydd fel y Sabbath Cristionogol wedi dyfod yn arferiad cyffredinol yn mhlith Cristionogion yn yr ail ganrif. Gwel *Coleman's Christian Antiquities*, pp. 187, 188.

(6,) Yr oedd yr Arglwydd Iesu yn hawlio awdurdod ar y Sabbath Iuddewig i amrywio y dull o'i gadw, i'w ddiddymu, neu ei newid, yn ol ei

ewyllys da ei hun (Mat. xii. 7, 8. Marc ii. 27, 28.) Ymddengys oddiwrth yr urddas a roddodd efe ei hun ar y dydd cyntaf o'r wythnos, esiampl yr apostolion, a hanes yr eglwysi cyntefig, ei fod wedi cymmeryd ymaith yr hen Sabbath, a sefydlu y dydd cyntaf o'r wythnos yn ei le (Heb. viii. 7—13).

NODIAD II.—*Cadwraeth Dydd yr Arglwydd a'r Llywodraeth Wladol.*

Mae peidio cadw Dydd yr Arglwydd yn un o'r rhwystrau mwyaf ar ffordd llwyddiant teyrnas Crist. Mae sylwi ar y dull y treulir y dydd hwn ar Gyfandir Ewrop, yn rhoddi archoll ddofn i fynwes pob Cristion goleuedig. Tra byddo y bobl yn dilyn eu gorchwylion ar y Sabbath, neu ddwyn etholiadau yn mlaen, neu gyrchu i'r chwareudai, nis gellir eu cael i wrando yr efengyl, nac i ddarllen y Beibl. Pan gofiom am y modd y treulir Dydd yr Arglwydd ar y Cyfandir, nis gallwn beidio dadgan ein gobaith na fydd i'n Hamguddfeydd, ein Horielau Darluniadol, a'n Harddangosiadau Celfyddydol, &c., byth gael eu hagor yn y wlad hon ar y dydd santaidd.

Mae yn groes i ysbryd y Testament Newydd i'r llywodraeth orfodi ei deiliaid i wasanaethu Duw, ac felly i gadw y Sabbath mewn modd crefyddol. Pe cymmerai ei safle ar gyfraith Moses i orfodi dynion i gadw y Sabbath mewn modd santaidd, ar yr un tir y dylai roddi torwyr Sabbathau ac eilunaddolwyr i farwolaeth (Exod. xxxi. 14. Deut. xiii 9.) Ond y mae Sabbath yn bwysig i ddyn mewn ystyr gymdeithasol a iechydol; a beth, gan hyny, a ddylai y llywodraeth wneyd? a pha mor bell y mae yn iawn iddi gyfryngu? Mae gan y llywodraeth wladol hawl i neillduo dydd o orphwysdra oddiwrth lafur, ac i orfodi y deiliaid i'w gadw fel y cyfryw, ar yr un egwyddor ag y mae hi yn cyfyngu oriau gwaith i blant mewn llaw-weithfeydd, ac y gorfoda fuchfrechiad *(vaccination)*, ac ymostyngiad i ddeddfau iechydol; ac er cyfleusdra y wlad yn gyffredinol, mae ganddi awdurdod i bennodi yr un diwrnod fel dydd o orphwysdra i bawb; *ond nid oes ganddi hawl i orfodi dynion i dreulio'r dydd mewn modd crefyddol.* Dylai adael y gwaith o grefyddoli y deiliaid i eglwys Dduw. Gwaith yr eglwys, trwy bregethu'r gwirionedd ac ymresymu â dynion, yw dwyn y trigolion i dreulio y dydd er budd amserol a thragywyddol iddynt eu hunain, ac er mawl a gogoniant i'r Goruchaf. Dylai y llywodraeth, modd bynag, sicrhau perffaith ryddid, diogelwch, ac amddiffyniad i bob un o'i deiliaid i addoli Duw ar Ddydd yr Arglwydd, yn ol ei argyhoeddiad a'i ddewisiad ei hun. Gwel *Dr. Wayland's Moral Science*, *Dr. Dwight's Theology*, a *Dr. Pye Smith's First Lines of Christian Theology.*

(2,) GWYL YR UDGYRN.

Yr oedd y dydd cyntaf o fis Tishri (Medi neu Hydref), yr hwn a elwir, "y seithfed mis," i gael ei gadw yn ddydd gŵyl, ac i fod yn orphwysfa heb ddim caledwaith, gyda mwy o aberthau nag ar y newydd-loerau ereill, ac udganu âg udgyrn. (Num. xxix. 1—7. Lef. xxiii. 24, 25.) Nid ymddengys fod

y ddeddf yn galw am i'r dyddiau cyntaf o'r misoedd ereill i gael eu cadw fel Sabbathau, er y gellir casglu oddiwrth yr hanes ysgrythyrol, fod y bobl yn eu hystyried yn fwy cyssegredig na dyddiau ereill, ac yn fynych yn ymattal oddiwrth waith, ac yn ymwneyd â phethau crefyddol, megys gwrando ar y prophwydi, &c. Yr oedd aberthau neillduol i gael eu hoffrymu ar y newydd-loerau oll, pan yr udgenid mewn udgyrn. (Num. x. 10, xxviii. 11—15. Amos viii. 5. 2 Bren. iv. 23.)

Nid yw y Beibl yn hysbysu beth oedd amcan sefydliad yr ŵyl hon, a'r udganu âg udgyrn pan offrymid yr aberthau ar y newydd-loerau: barna Dr. Jahn mai yr amcan oedd er rhwystro Israel i fyned ar ol ofergoeledd y Cenedloedd, y rhai a aberthent i'r lloer.

(3,) Gwyl y Cymmod.

Yr oedd dydd mawr y cymmod yn cymmeryd lle ar y degfed dydd o'r seithfed mis, sef Tishri (Medi, neu Hydref), ac i gael ei gadw fel Sabbath (Lef. xvi. 31), ond fod y bobl i ymprydio neu "gystuddio eu heneidiau,"* ac aberthau dros bechod mwy nodedig nag arferol i gael eu hoffrymu, a'r archoffeiriad i fyned i mewn i'r cyssegr santeiddiolaf dros y bobl. (Lef. xvi., xxiii. 27—32. Act. xxvii. 9.)

(4,) Jubili y Seithfed Flwyddyn.

Gorchymynodd Duw i Israel adael i'r tir gael gorphwyso ar y seithfed flwyddyn, pryd yr oedd y bobl i ymattal heb ei lafurio,† gan fyw ar gynnyrch hanner gwyrthiol y flwyddyn flaenorol, ac ar yr hyn a dyfai o hono ei hun. (Lef. xxv. 1—7, 21, 22.) Yr oedd trigolion y wlad yn ddiwahaniaeth i gael cyfranogi o ffrwyth blwyddyn y Jubili, yn ogystal a'r perchenogion. (Exod. xxiii. 11. Lef. xxv. 6, 7.) Yr oedd pob dyledion i gael eu maddeu gan Israeliaid i'w gilydd (Deut. xv. 1—3); a chaethion i gael eu rhyddhau, os byddent wedi gwasanaethu chwe' blynedd. (Deut. xv. 12, 18. Jer. xxxiv. 14.) Yn y flwyddyn hon hefyd, yr oedd y ddeddf i gael ei darllen i'r bobl ar ŵyl y pebyll, gan y byddai meddyliau y bobl, ar ol iddynt gael maddeuant o'u dyledion, a rhyddhad oddiwrth yr anghenrheidrwydd i lafurio y tir, yn llai pryderus,

* Yn Salm xxxv. 13, ceir y frawddeg yn llawnach :—"Gostyngais (Heb. ANAH= *cystuddiais*) fy enaid âg ympryd." Golyga "enaid" yma eisteddle teimlad.

† "This prohibition, however, did not extend to other labours or trades, which were still carried on."—*Kitto's Cyclopædia.*

ac mewn gwell cyflwr i dderbyn argraffiad oddiwrth gyfraith yr Arglwydd. (Deut. xxxi. 10, 11.)

(5,) Jubili yr Hanner-canfed Flwyddyn.

Cymmerai hon le bob naw mlynedd a deugain, ar yr hanner-canfed flwyddyn, pryd y maddeuid pob dyled, y rhyddheid pob caethwas, ac yr adferid tiroedd a thai (y rhai a werthasid, neu y rhai y codasid arian arnynt), i'w perchenogion gwreiddiol. (Lef. xxv. 8—17, 27, 28.) Dechreuai y Jubili yn hwyr dydd mawr y cymmod, ar y degfed o fis Tishri (Medi neu Hydref), wedi i'r aberthau gael eu hoffrymu, a'r nef gael ei boddhau, a chyhoeddid ei dechreuad trwy udganu âg udgyrn yn yr holl wlad, nes gwefreiddio'r genedl â llawenydd o Dan i Beerseba! Trwy y drefn hon adgofid y bobl mai Duw ydoedd Meddiannydd gwreiddiol y wlad, ac mai yn unol â'i delerau ef yr oeddynt i gael ei mwynhau: ac achubid teuluoedd rhag tlodi dinystriol a pharhaus, a gwaredid y tlodion o grafangau eu gorthrymwyr.

## § 2. *Gŵyliau o Osodiad Dynol.*

Yr ydym wedi sylwi ar yr holl ŵyliau gosodedig yn neddf Moses; yn nghwrs amser, modd bynag, sefydlodd yr Iuddewon chwech o ŵyliau ereill, er coffadwriaeth am ddygwyddiadau pwysig yn hanes y genedl.

(1,) Gwyliau a sefydlwyd yn ystod Caethiwed Babilon.

Yr oedd pedair o'r rhai hyn :—

(1,) Dydd i ymprydio ar yr 17eg o'r pedwerydd mis, Tammuz (Mehefin, neu Orphenaf), er cof am gwymp Jerusalem. (Jer. lii. 6, 7. Zech. viii. 19.)

(2,) Dydd i ymprydio ar y nawfed o'r pummed mis, Ab (Gorphenaf, neu Awst), er coffadwriaeth am losgiad Jerusalem. (Jer. lii. 12, 13. Zech. vii. 3, viii. 19.)

(3,) Dydd i ymprydio yn y seithfed mis, Tishri (Medi, neu Hydref), er coffadwriaeth am farwolaeth Gedaliah. (Jer. xli. 1—4. Zech. vii. 5, viii. 19.)

(4,) Dydd i ymprydio ar y degfed dydd o'r degfed mis, Tebeth (Rhagfyr, neu Ionawr), er coffadwriaeth am ddechreuad yr ymosodiad a'r gwarchae ar Jerusalem. (Jer. lii. 4. Zech. viii. 19.) Cyfeirir at y pedair yn Zech. viii. 19.

## (2,) Gwyliau a sefydlwyd ar ol y Caethiwed.

### (1,) *Gŵyl y Pwrim.*

Ceir hanes hon yn Esther ix. 17—32. Ystyr y gair Pwr, ydyw *coelbren*, a'r ffurf liosog o hono ydyw Pwrim, *coelbrenau*. Cedwid gŵyl y coelbrenau, er cof am waredigaeth yr Iuddewon yn Persia rhag y dinystr a fwriadasai Haman iddynt. Sefydlwyd hi ar y 14eg a'r 15fed o fis Adar (Chwefror, neu Fawrth), tua 450 mlynedd cyn Crist, a pharhêir i'w chadw gan yr Iuddewon hyd y dydd hwn.

Nodiad.—

Teimla rhai anhawsdra gyda hanes yr Iuddewon yn dinystrio eu gelynion, gyda golwg ar *foesoldeb* a *phossibilrwydd* y weithred, gan fod 500 wedi cael eu dinystrio ar un adeg yn Susan (Esther ix. 6); 300 drachefn (ix. 15); a 75, 000 yn y taleithiau. (ix. 16.) Sylwer,

1. Nad oedd yr hyn a geisiodd Mordecai gan y brenin ond cenad i'r Iuddewon arfogi eu hunain erbyn y dydd y bwriadasai Haman eu dinystrio, ac amddiffyn eu hunain yn erbyn eu gelynion. (Esther viii. 11.) Wedi i'r brenin roddi ei air i Haman fod yr Iuddewon i gael eu dinystrio (Esther iii. 7—15), nis gallesid ei alw yn ol ar unrhyw ystyriaeth (Esther viii. 8), ac yr oedd ei gyflawni yn gyfreithlon (Esther ix. 1): yn ngwyneb hyn nid oedd gan y brenin ond caniatâu i Mordecai ysgrifenu cyhoeddiad i'w wrthweithio, yn ol ei ddoethineb (Esther viii. 8); a'r hyn a wnaeth Mordecai oedd anfon cyhoeddiad allan fod rhyddid i'r Iuddewon amddiffyn eu hunain pan yr ymosodid arnynt. (Esther viii. 11.) Nid oeddynt i ddifetha einioes neb ond y rhai "*a ymosodai arnynt*" (Esther viii. 11); ac ymddengys na estynasant law yn erbyn neb ond "*y rhai oedd yn ceisio niwaid iddynt.*" (Esther ix. 2.) Mesur o hunanamddiffyniad hollol oedd eu gwaith yn "sefyll am eu heinioes" (Esther viii. 11), yn erbyn llofruddwyr gwirfoddol, y rhai a geisient eu dinystr er gweled fod y brenin wedi canfod ei gamsyniad, ac heb ddim ond cenfigen yn eu cynhyrfu.

2. Dywedir fod "llawer o bobl y wlad wedi myned yn Iuddewon" (Esther viii. 17), a "thywysogion y taleithiau, a'r pendefigion, a'r dugiaid, a'r rhai oedd yn gwneuthur y gwaith oedd eiddo y brenin, yn cynnorthwyo yr Iuddewon" (Esther ix. 3), fel, mae'n ddiau, fod y rhai hyn yn cynnorthwyo yr Iuddewon i wrthsefyll eu gelynion, a dial arnynt.

3. Ni ddywedir na chafodd rhai o'r Iuddewon eu hunain eu lladd ar y pryd. Y peth tebycaf yw fod amryw, ond nad oeddynt ond ychydig mewn cymhariaeth, ac nad ydoedd amcan yr ysgrifenydd yn galw am iddo gofnodi y nifer a syrthiasent o Israel.

(2,) *Gŵyl y Cyssegriad.*

Cyfeirir at hon yn Ioan x. 22 :—"Ac yr oedd y gyssegrŵyl yn Jerusalem, a'r gauaf oedd hi." Nid gŵyl i gofio am gyssegriad y deml gan Solomon, neu gyssegriad yr ail deml ar ol caethiwed Babilon (Ezra vi. 16), a olygir, ond er cof am ai gyssegriad y deml gan Judas Maccabeus, ac adnewyddiad gwasanaeth Duw ynddi, ar ol tair blynedd o halogiad gan Antiochus Epiphanes, brenin Syria. Cymmerodd hyn le tua 165 cyn Crist. Cynnelid yr ŵyl am wyth niwrnod, a dechreuai ar y 25ain o fis Cisleu, yr hwn a ddechreuai gyda'r newydd-loer yn Tachwedd, neu Ragfyr. Geilw Josephus hi, φῶτα= *goleuadau*, am yr arferid cadw goleuadau a lanternau i losgi tra y parhäai. (1 Macc. iv. 52—59. 2 Macc. x. 5—8. *Josephus's Antiq. Book* xii. Chap. vii. § 7.)

3. Yr Aberthau a'r Offrymau.

Yr oedd yn gyfreithlon aberthu pump math o greaduriaid byw o dan y ddeddf, tri o honynt yn anifeiliaid, sef *ychain*, *defaid*, a *geifr*, a dau yn adar, sef y *ddurtur*, a'r *golomen*. Offrymid yr anifeiliaid, gan mwyaf, yn aberthau cyhoeddus, a'r adar yn offrymau annghyhoedd, a hyny yn benaf gan y tlodion. Yr oedd yr holl aberthau i gael eu hoffrymu yn y tabernacl neu y deml (Deut. xii. 13, 14); weithiau, modd bynag, trwy ganiatâd neu orchymyn Duw, aberthai rhai duwiolion mewn lleoedd ereill. (1 Chron. xxi. 18. Barn. vi. 24, xiii. 16—20. 1 Sam. xvi. 5. 1 Bren. xviii. 30.)

Cyn myned yn mlaen i sylwi ar y gwahanol aberthau, gwnawn rai crybwyllion am y tabernacl a'i ddodrefn, ac am y deml a'i chynteddau. Sonir yn y Beibl am dri thabernacl cyn adeiladiad teml Solomon :—

1. Yr hwn a osododd Moses i fyny iddo ei hun (Exod. xxxiii. 7), yn yr hwn y gwrandawai ar y bobl, ac, ar y cyntaf, yr ymofynai â Duw drostynt.

2. Yr hwn a osododd Moses i fyny i Dduw, i fod yn drigfa ei bresennoldeb fel Brenin Israel, a'r fan lle yr oedd y bobl i ddangos eu parch addoliadol iddo fel Arglwydd crefydd. (Exod. xl.)

3. Yr un a wnaeth Dafydd er derbyn arch Duw, pan y derbyniodd hi o dŷ Obed-Edom. (2 Sam. vi. 17. 1 Chron. xvi. 1.)

Darlun o'r ail yw yr un canlynol. Yr oedd hwn tua 55



Y TABERNACL YN YR ANIALWCH.

troedfedd o hyd, 18 troedfedd o led, a 18 troedfedd o uchder. Safai y tabernacl yn gyffredin mewn cyntedd amgauedig tua 150 troedfedd o hyd a 75 troedfedd o led, yn y pen Gorllewinol iddo. Gelwid y cyntedd yma, "cynteddfa y tabernacl." (Exod. xxvii. 9, 18, xl. 8, 33.) Yr oedd ugain o golofnau yn mhob ochr i'r cyntedd, a deg yn mhob pen iddo, a chrogleni *(hangings)* o'r naill golofn i'r llall (Exod. xxvii. 10, 12); yr oedd y fynedfa iddo yn yr ochr Ddwyreiniol, lle yr oedd crogleni rhagorach. (Exod. xxvii. 16.)

Yr oedd y tabernacl ei hun wedi ei wneyd o goed, yn agored yn y pen Dwyreiniol, ac yn ei nen, ond fod gorchudd o lian a chrwyn, ac addurniadau yn cael eu dodi drosto. Rhenid y tabernacl i ddwy ystafell: y gyntaf, yr hon oedd y nesaf i'r drws, tua chwe' llath o led, a deuddeg llath o hyd; a'r ail, tua chwe' llath bob ffordd. Gelwid y gyntaf, "y cyssegr;" a'r ail, "y cyssegr santeiddiolaf." Bernir fod yr aur a'r arian a'r meteloedd a ddefnyddid yn ngwneuthuriad y tabernacl a'i ddodrefn yn werth o'n harian ni, yn ol Dr. Jennings, tua £182,568, ac yn ol Dr. Eadie dros £200,000. O amgylch y tabernacl a'r gynteddfa, fe wersyllai plant Israel. (Num. ii.) Yn nghanol y gynteddfa yr oedd allor y poethoffrwm; a rhwng yr allor a'r tabernacl, yr oedd y "noe bres," yn yr hon yr oedd Aaron a'i feibion i ymolchi cyn myned i'r tabernacl. (Exod. xxx. 18—21.)



Y CANWYLLBREN AUR.

Yn y tabernacl ei hun, yn yr ystafell gyntaf, yr oedd allor yr arogl-darth, wedi ei gwneyd o goed Sittim, a'i gwisgo âg aur, ar yr hon yr arogldarthid foreu a hwyr (Exod. xxx. 1—10. Lef. iv. 7, 18); a'r canwyllbren aur (Exod. xxv. 31); a bwrdd y bara gosod (Exod. xxv. 23—30, yr hwn oedd i gael ei newid bob dydd Sabboth gan yr offeiriaid (Lef. xxiv. 1—9).



ALLOR YR AROGL DARTH.



BWRDD Y BARA GOSOD.

Yn yr ail ystafell, "y cyssegr santeiddiolaf," yr oedd "arch y cyfammod," yn yr hon y cedwid llechau y ddeddf. (Exod. xxv. 16.) Gelwid cauad yr arch yn "drugareddfa," ar yr hwn yr oedd arwyddluniau o'r cerubiaid (Exod. xxv. 17—23), rhwng pa rai yr ymddysgleiriai y Sechinah, yr arwyddlun o'r presennoldeb Dwyfol. (Lef. xvi. 2. Salm lxxx. 1, xcix. 1.) Unwaith yn y flwyddyn yn unig, ar ddydd mawr y cymmod, yr elai yr archoffeiriad i mewn i'r ystafell olaf a grybwyllwyd, ac i'r ystafell gyferbyniol yn y deml. (Lef. xvi. 1—14. Heb. ix. 7.)

Wedi i Israel fyned i Ganaan, gosodwyd y tabernacl i fyny yn Gilgal (Jos. iv. 19, v. 10); wedi darostyngiad y wlad, symmudwyd ef oddi yno i Siloh (Jos. xviii. 1. 1 Sam. i. 3), lle y bu am dros dri chant o flynyddau; ar ol hyny symmudwyd ef i Nob, dinas yr offeiriaid yn nhiriogaeth Benjamin (1 Sam. xxi. 1—9, xxii. 19), ac oddi yno i Gibeon, yn nheyrnasiad Dafydd, lle yr ydoedd hefyd yn amser dechreuad breniniaeth Solomon. (1 Chron. xxi. 29. 2 Chron. i. 1—13.) Wedi gorpheniad y deml, mae yn debygol iddo gael ei dynu i lawr, a chael ei gadw, yn nghyda'r dodrefn santaidd a gynnwysai, yn y deml.

Defnyddid rhai o'r dodrefn, heblaw yr arch, mae yn bossibl, yn ngwasanaeth y deml (1 Bren. viii. 1—10); tra y trysorid ereill ynddi i fod yn goffadwriaeth am deithiau y genedl, a gwaredigaethau Duw iddi, yn yr oesoedd gynt.

Ymddengys fod teml Solomon yn dwyn tebygolrwydd i'r tabernacl o ran yr ystafelloedd, y dodrefn, y llestri, a'r gwisgoedd, &c., ond fod y deml yn helaethach, a'i chyfleusderau yn lliosocach. Ni oddef ein terfynau i ni roddi desgrifiad o honi. At y deml fel yr oedd wedi cael ei hadnewyddu gan Herod Fawr y cyfeirir yn y Testament Newydd. Adeiladwyd y deml ar greigle uchel, a elwid bryn neu fynydd Moriah, ac yr oedd hi yn weledig o bob parth i'r ddinas. Gwnaed pedryal *(square)*, ebe Josephus, o dros ddau can' llath bob ffordd, i fod yn safle iddi hi a'i chynteddau. Nid oedd y deml yn hollol yn nghanol y pedryal, ond yn hytrach yn y gongl ogledd-orllewinol o hono, a'r cynteddau o'i hamgylch yn ymddangos fel uchrodfeydd *(terraces)* islaw iddi. O amgylch y pedryal dan sylw, yr oedd muriau cedyrn ac uchel; o fewn y muriau hyn ac yn nglyn â hwynt, yr oedd ystafelloedd töedig, agored tuag at ganol y lle, a'r tô yn gorphwys ar restr o golofnau ac ar y mur. Yma yr oedd ystafelloedd y Lefiaid; ac yma y cyfarfyddai y doctoriaid i ateb gofyniadau y werin, ac i'w dysgu mewn gwahanol bynciau (Luc ii. 46.) Arferai llawer o'r bobl ymgynnull i'r ystafelloedd ac i'r rhodfeydd cysgodol hyn, er cyfeillachu â'u gilydd ac ymddyddan am bethau crefyddol; yr oedd yn gyfreithlon i broselytiaid hefyd o blith y Cenedloedd ymgynnull yma, am ba achos gelwir y cyntedd yn yr hwn y mae yr ystafelloedd hyn *Cyntedd y Cenedloedd.* Gwerthid anifeiliaid a phethau anghenrheidiol at wasanaeth y deml yn y lle hwn (Mat. xxi. 12: Luc xix. 45). O fewn y muriau hyn, yn agos i ganol y lle, yr oedd pedryal arall, yn cael ei amgylchu â mur isel neu ganllaw llathen a hanner o uchder fel math o derfyn iddo. Yma a thraw ar y canllaw, yr oedd rhybudd yn y Groeg a'r Lladin, nad oedd yr un cenedl-ddyn i fyned dros y terfyn o dan boen marwolaeth. At y terfyn hwn, mae yn debygol, y cyfeiriai Paul, pan y soniai am ganol-fur y gwahaniaeth (Ephes. ii. 14); a dros hwn yr haerid fod Paul wedi dwyn Trophimus yr Ephesiad (Act. xxi. 28—30). O fewn i'r terfyn crybwylledig, yr oedd mur o ddeugain cufydd (tuag un llath ar ddeg) o uchder oddiallan, ond oddifewn ni ymddangosai

ond tua 25 cufydd (oddeutu saith llath) o uchder. Yr oedd lle gwastad o wyth i naw llath o led o'r tufewn i'r mur hwn, ac esgynfa iddo o 14 o risiau oddiallan. Gelwir y lle hwn *Cyntedd yr Israeliaid,* a neillduid rhan o hono i fod yn Gyntedd y Gwragedd. Yr oedd cyntedd arall eto o fewn yr ail gyntedd a grybwyllwyd, sef *Cyntedd yr Offeiriaid;* ac yn hwn yr oedd y deml briodol, yn yr hon yr oedd y cyssegr a'r cyssegr santeiddiolaf. Nid oedd yn gyfreithlon i neb fyned i'r cyntedd hwn ond yr offeiriaid, oddi eithr pan y deuai yr aberthwr yn mlaen i ddodi ei ddwylaw ar ben ei aberth a chyfaddef ei bechodau, neu i ddyrchafu rhan o'i offrwm i fyny tua'r nefoedd. (Luc i. 9, 10.)

Rhenid y deml briodol—y NAOS—i ddwy ystafell; sef yr un agosaf i'r drws, yr hon a elwir y *cyssegr,* yn yr hon yr oedd y canwyllbren aur, allor yr arogl-darth, a bwrdd y bara gosod; a'r ail ystafell, yr hon a elwir y *cyssegr sancteiddiolaf,* yr hon a guddid oddiwrth y gyntaf gan y llen, ac yn yr hon yr oedd arch cyfammod yr Arglwydd (Exod. xxv., xxvi., xl.; a Heb. ix). Yr oedd yr offeiriaid yn myned i mewn i'r ystafell gyntaf neu y cyssegr bob dydd (Luc i. 9: Heb. ix. 9), tra nad elai ond yr archoffeiriad yn unig i'r ail ystafell, a hyny ond unwaith yn y flwyddyn,—hyny yw, mae yn debygol, ar un diwrnod yn y flwyddyn, er ei fod yn myned i mewn iddi amryw weithiau yn ystod y diwrnod hwnw, sef dydd mawr y cymmod (Lef. xvi. 12—16. Heb. ix. 7).

Yr oedd cyntedd yr offeiriaid yn amgylchu yr holl deml. Yn ei ochrau yr oedd ystafelloedd i gadw halen, tanwydd, dwfr, &c. Yn hwn, yn y lle agored o flaen drws y cyssegr, yr oedd yr ymolch-lestr ac allor y poeth-offrwm (Exod. xxx. 18.) Amgylchid ef â chanllaw isel, fel ag i ganiatau i'r bobl allu gweled yr offeiriaid yn myned trwy eu gorchwylion beunyddiol. Yn yr ochr ddeheuol i hwn y cyfarfyddai y Sanhedrim (Mat. xxvii. 5). Mae'n debyg fod Judas yn ymddyddan â'r cynghor pan o fewn y cyntedd hwn, gan sefyll ei hun oddiallan iddo, a thaflu yr arian i'r tufewn iddo.

I'r gogledd-orllewin i'r deml a'i chynteddau, yr oedd Amddiffynfa Antonia, ag y cyfeirir ati yn Act. xxi. 34.

Ceir dau air yn y Testament Newydd (Groeg) am y deml, sef yr HIERON=*y lle santaidd,* yr hwn a gynnwysai y deml briodol a'i holl gynteddau; a'r NAOS=*cyssegrfa Duw,* sef yr

adeilad yn y cyntedd canol, yn yr hwn yr oedd y cyssegr a'r cyssegr santeiddiolaf. Mae y gwahaniaeth rhwng y ddau air hyn yn cael ei golli yn y Beïbl Cymraeg a'r Beibl Saesonaeg.

Pan y dywedir fod Crist a'r apostolion yn athrawiaethu yn y deml (Mat. xxi. 23: Act. v. 20—42), naill ai Cyntedd y Cenedloedd neu Gyntedd yr Israeliaid a olygir, gan na oddefid iddynt fyned i'r un o'r ddau gyssegr nac i Gyntedd yr Offeiriaid. Pan oedd Zacharias yn y cyssegr yn arogldarthu, yr oedd y dorf allan yn Nghyntedd yr Israeliaid yn gweddïo, ond eto yn y deml yn yr ystyr ëangaf (Luc i. 9, 10.)

Yn nammeg y Pharisead a'r publican, awgrymir fod y Pharisead wedi myned yn mlaen trwy y cynteddau nesaf allan, hyd at Gyntedd yr Offeiriaid; tra y desgrifir y pnblican, o dan deimlad o'i annheilyngdod, yn "sefyll o hirbell" oddiwrth gyssegr Duw, yn Nghyntedd y Cenedloedd, fe ddichon, neu y cŵr pellaf oddiwrth y deml yn Nghyntedd yr Israeliaid (Luc xviii. 10—14).

Desgrifia Crist ei gorph fel NAOS neu drigfa gyssegredig ei Dduwdod (Ioan ii. 19); a gesyd Paul gyrph y saint allan o dan yr un gymhariaeth, er dangos na ddylent, o ganlyniad, gael eu halogi ag aflendid pechod (1 Cor. iii. 16, 17).

Awn rhagom yn awr i wneyd rhai nodiadau ar yr offrymau lliosog a gyflwynid i'r Arglwydd o bryd i bryd.



YR ARCHOFFEIRIAD GYDA'R DDWYFRONEG.



ARCH Y CYFAMMOD A'R CERUBIAID.

1. *Y gwahanol enwau ar yr aberthau a'r offrymau.*

Defnyddir gwahanol enwau i osod y rhai hyn allan yn y Beibl.

ZEBACH (o זבח *zabach*, lladd, lladd yn aberth), *aberth*. Dyma yr enw a ddefnyddir fynychaf am aberth gwaedlyd, pan y rhoddid creadur i farwolaeth. Groeg, *thusia*. (Esai. i. 11.)

MINCHAH (o מנח *manach*, gwahanu, rhanu, rhoddi), *rhodd, anrheg, offrwm*. Dyma'r gair a ddefnyddir fynychaf am offrymau nad oeddynt yn rhai gwaedlyd, megys blawd, olew, &c. Groeg, *prosphora*. (Lef. ii. 1.)

CORBAN (o קרב *karab*, agoshau), *offrwm*, *aberth*, gwaedlyd neu heb fod yn waedlyd, i'w losgi yn hollol neu yn rhanol. Groeg, *doron*. (Exod. xx. 28. Lef. i. 2, 3, 10, 14, ii. 1, 4, 12.)

Y termau uchod yw y prif rai, ac y maent yn cynnwys y lleill; ond defnyddir yr enwau canlynol hefyd i ddynodi y rhai uchod yn fwy manwl.

OLAH (o עלה *alah*, myned i fyny), *yr hyn a â i fyny; poeth-offrwm*, am y codid ef i fyny ar yr allor i'w lwyr losgi yno. (Lef. i. 3—17.)

CHATTATH (o חטא *chata*, methu, pechu), *aberth dros bechod*. (Lef. vi. 25, 30.)

ASHAM (o אשם *asham*, troseddu), *offrwm dros gamwedd*. (Lef. v. 6.)

ISHEH, *aberth*, *offrwm*, *aberth tanllyd*, a elwir Isheh oddiwrth *esh* (אש) *tân*, yr hwn a'i difäai. Defnyddir y gair hwn am bob math o aberth ac offrwm, ac unwaith am y rhai na losgid. (Lef. xxiv. 7, 9.)

NESEC (o נסך *nasac*, tywallt), *diod-offrwm*. (Deut. xxxii. 38.)

2. *Gwahanol ddosbarthiadau o honynt.*

Gellir dosbarthu offrymau ac aberthau yr Hebreaid i ddau ddosbarth cyffredinol, fel y canlyn:—*Offrymau Gwaedlyd* ac *Anwaedlyd*, neu *Offrymau Iawnol* a *Diolchiadol*, neu *Offrymau Cyhoeddus* ac *Annghyhoedd*.

*Y Dosbarthiad Cyntaf—Gwaedlyd ac Anwaedlyd.*

(1,) *Offrymau Gwaedlyd.* Gelwid y rhai hyn,

(*a*,) *Poeth-offrymau;* ac yr oeddynt yn gynnwysedig o eidion, neu hwrdd o blith y defaid neu'r geifr, neu aderyn, yn ol amgylchiadau yr aberthwr (Lef. i 3, 10, 14); ac os na allai aberthu nac anifail nac aderyn, gwnelai Minchah—bwyd-offrwm y tro. (Lef. ii. 2, v. 11.)

(*b*,) *Aberth dros bechod.* (Lef. iv.)

(*c*,) *Offrwm dros gamwedd.** (Lef. v. 6, vi. 6.)

(*d*,) *Aberth diolch.* (Lef. vii. 13, 15.)

(2,) *Offrymau Anwaedlyd.*

Yr oedd y rhai hyn yn gynnwysedig o *flawd*, *teisenau*, *tywysenau o ŷd*, *ŷd wedi ei ddyrnu*, *olew*, a *thus*. (Lef. ii.) Nid oedd y rhai hyn i gael eu hoffrymu yn aberth dros bechod, oddi eithr pan y byddai dyn yn rhy dlawd i gyrhaedd anifail neu ddau gyw colomen i'w haberthu. (Lef. v. 11, xii. 8.) Yr oedd *halen* i gael ei gyflwyno gyda'r cyfan. (Lef. ii. 13.) Tywelltid gwin yn ddiod-offrwm ar yr aberthau er eu cyssegru i Dduw. Exod. xxx. 9. Num. xxviii. 7.

*Yr Ail Ddosbarthiad—Iawnol a Diolchiadol.*

(1,) *Aberthau Iawnol.*

(*a*,) *Poeth-offrymau.* Offrymid hwy o wirfodd y bobl, yn ol eu hamgylchiadau, mewn ffordd o ddiolchgarwch i Dduw am ei drugareddau, o gyffes ac edifeirwch am bechod, ac er sicrhau ei ffafr yn y dyfodol; pan yr offrymid hwy mewn modd gostyngedig a ffyddiog, yr oeddynt yn gwneyd cymmod dros yr offrymwyr. (Lef. i. 4.) Gan na offrymid y rhai hyn dros bechodau neillduol, ymddengys eu bod yn cyfeirio at *bechadurusrwydd cyffredinol* bywyd dyn.

I'r dosbarth yma y perthynai yr aberth dyddiol o ddau oen, un yn y boreu am naw o'r gloch, a'r llall yn y prydnawn am dri; llwyr losgid y rhai hyn, ac yr oeddynt i gael eu hoffrymu

* Yr oedd y ddeddf yn gwneyd gwahaniaeth rhwng y ddau aberth uchod, a defnyddir geiriau gwahanol i'w gosod allan, fel y gwelir uchod o dan y gwahanol enwau am aberthau; beth oedd y gwahaniaeth, y mae yn dra anhawdd penderfynu. Nid oes odid ddau feirniad o'r un farn yn ei gylch.

yn wastadol hyd nes yr ymddangosai y Messiah. (Exod. xxix. 38—40. Num. xxviii. 1—8. Dan. ix. 27.)



ALLOR Y POETH-OFFRWM. (EXOD. XXVII. 1—8. 2 CHRON. IV. 1.)

(*b*,) *Aberthau dros bechod.*

Yr oedd y rhai hyn yn mhob ystyr yn aberthau iawnol, ac i gael eu hoffrymu dros *droseddau neillduol.* Ceir hanes am danynt yn Lef. iv. Yr oedd yr aberthau yn gwahaniaethu yn ol cymmeriad a safle yr offrymwr.

(*c*,) *Offrymau dros gamwedd.*

Yr oedd y rhai hyn yn rhai iawnol, ac i'w hoffrymu dros bechodau neillduol. (Lef. v., vi. 1—7.

(2,) *Aberthau ac Offrymau Diolchiadol.*

Yr oedd y rhai hyn yn gynnwysedig o ychain, annerod, geifr, hyrddod, a defaid, y rhai a offrymid yn wirfoddol o barch i'r Goruchaf, ac a elwid, "*ebyrth hedd*," "*ebyrth diolch*," ac "*offrwm wirfodd*." (Lef. iii., vii. 11, 12, 16.) Yr oedd rhai ebyrth hedd i gael eu hoffrymu ar achlysuron neillduol; megys ar ŵyl y Pentecost (Lef. xxiii. 19); gan Nazaread, ar adeg cyflawniad ei adduned (Num. vi. 14); ac ar gyssegriad yr offeiriad. (Exod. xxix. 28.) Ond yn gyffredin, cynnyrch calon wirfoddol oeddynt. Yn mhlith yr offrymau diolch yr ydys i gyfrif y bwyd-offrwm a'r diod-offrwm, y rhai a offrymid fel arwydd o ddiolchgarwch i Dduw. (Lef. xi.) Felly hefyd, ebe Winer,

yn yr ystyr ëangaf, yr ydym i edrych ar gyflwyniad y cyntafanedig i Dduw, a'r blaenffrwyth, yr ail ddegwm, ac oen y Pasg.

*Y blaenffrwyth.*—Offrymid ysgub y blaenffrwyth ar yr ail ddydd o wyl y Pasg, fel offrwm diolch i Dduw dros yr holl genedl. Ond yr oedd yn ofynol i unigolion hefyd bob blwyddyn offrymu i Dduw flaenffrwyth y grawnwin, y llawr dyrnu, y gwin a'r olew, y mel, y toes, a'r gwlan (Exod. xxiii. 19. Num. xv. 19—21); yr hwn a drefnodd Duw i fod at wasanaeth yr offeiriaid. (Num. xviii. 11—13.)

*Y cyntafanedig.*—Ar y noswaith pan y gwaredwyd Israel o'r Aifft, lladdwyd cyntafanedig yr Aifftiaid yn ddyn ac anifail, ond arbedwyd cyntafanedig Israel; er cof am hyny, a chydnabyddiaeth o drugaredd Duw, cyssegrwyd holl wrywiaid cyntafanedig Israel i fod yn eiddo neillduol yr Arglwydd. (Exod. xiii. 2, 12—17.) O ganlyniad, pan neillduwyd y Lefiaid i wasanaeth Duw, appwyntiwyd hwynt mor bell ag y cyrhaeddai eu rhif, i fod yn eiddo Duw yn lle cyntafanedig Israel o'r genedlaeth hono, a'u hanifeiliaid hwynt yn lle cyntafanedig o anifeiliaid Israel. Ond yr oedd gwrywiaid cyntafanedig y genedl yn fwy lliosog o 273 na'r Lefiaid; prynwyd y rhai hyn âg arian, pum' sicl, neu tua deg swllt a chwe' cheiniog dros bob dyn, y rhai a dalwyd i Aaron a'i feibion. (Num. iii. 12, 13, 40—51.) Bŷth wedi hyny, yr oedd gwrywiaid cyntafanedig Israel i gael eu prynu yn yr un modd, â'r un swm, a'r arian i fyned at wasanaeth y cyssegr er cynnaliaeth yr offeiriaid. (Num. xviii. 15, 16.)

Yr oedd gwrywiaid cyntafanedig yr anifeiliaid hefyd i fod yn eiddo yr Arglwydd; y creaduriaid glân i gael eu hoffrymu iddo ef, y rhai aflan, naill ai i gael eu rhoddi i farwolaeth, neu eu gwerthu, a'r gwerth i gael ei gyflwyno i'r offeiriaid, neu eu prynu trwy offrymu oen yn eu lle. (Exod. xiii. 2, 12, 13. Lef. xxvii. 27. Num. xviii. 15—17.)

*Degwm.*—Ordeiniodd Duw fod i amaethwyr Israel dalu degwm o'u holl anifeiliaid, ac o ffrwyth y ddaear, er cynnaliaeth y grefydd genedlaethol. Y degwm oedd *cyflog* y Lefiaid: "Ac wele, mi a roddais i feibion Lefi bob degwm yn Israel yn etifeddiaeth, am eu gwasanaeth y maent yn ei wasanaethu, sef gwasanaeth pabell y cyfarfod." (Num. xviii. 21.) Yr oedd y Lefiaid eu hunain i dalu degwm i'r offeiriaid. (Num. xviii. 25—28.) Gwel y gwahanol fanylion yn Num. xviii. Lef. xxvii. 30—33. Neh. x. 37.

*Ail Ddegwm.*—Yr oedd y degwm y crybwyllwyd eisioes am dano yn fath o ardreth i Dduw am y tir; ond wedi talu y degwm uchod i'r Lefiaid, yr oedd yr Israeliaid i *ddegymu y gweddill o'u meddiannau, ac o'r ail ddegwm yma i aberthu ebyrth gwirfoddol, a gwneuthur gwleddoedd yn Jerusalem, ar adegau cylchwyliau y Pasg* (Lef. xxiii. 4—9. Num. xxviii. 16—26), *y Pentecost* (Lef. xxiii. 18—20. Num. xxviii. 27—31), *a Gŵyl y Pebyll* (Num. xxix. 13—19. Lef. xxiii. 33—38.) Gwel Deut. xii. 17, 18, xiv. 22—28, xxvi. 12—15. Lef. xxvii. 31.

NODIAD.—

Teimla beirniaid anhawsdra gyda golwg ar yr hyn a ddywedir am y *drydedd flwyddyn* (Deut. xiv. 28, 29, xxvi. 12–14), pa un a oedd *degwm ychwanegol* yn cael ei dalu yn y drydedd flwyddyn, fel y barna Josephus (*Antiq*. B. iv. ch. 8. § 22), a Dr. Jennings (*Jewish Antiq*. p. 204); ai fod rhyddid i'r bobl wneyd gwleddoedd gartref o'r degwm bob tair blynedd i'r gweision, y Lefiaid, a'r tlodion, yn hytrach nag yn Jerusalem, fel y tybia Dr. Jahn (*Bibl. Antiq*. § 389); ai am nad allent wario neu ddefnyddio yr holl ddegwm yn Jerusalem, eu bod bob tair blynedd yn cyfrif pa faint oeddynt heb ei ddefnyddio, ac yna yn gwneyd gwleddoedd yn eu cartrefi tra y parhäai yr hyn oedd yn weddill, fel y dealla Michælis. (*Com. on the Laws of Moses*, Art. 192.) Barned y darllenydd drosto ei hun.

*Oen y Pasg*.—Yr oedd oen y Pasg yn fath o *aberth* a *gwledd*. Yr oedd y Pasg i gael ei gadw ar ol sefydliad Israel yn Nghanaan, yn y lle a ddewisai yr Arglwydd i drigo o'i enw ynddo (Deut. xvi. 2); lladdai cynnrychiolydd pob teulu ei oen ei hun; derbyniai un o'r offeiriaid y gwaed i lestr, ac anfonid y llestr yn mlaen o un offeiriad i'r llall hyd nes y deuai i law yr hwn a safai gerllaw yr allor, yr hwn a daenellai y gwaed wrth waelod yr allor (Lef. i. 5. 2 Chron. xxx. 16, xxxv. 11); ar ol taenellu y gwaed, crogid yr oen i fyny, a bliugid ef gan un o'r offeiriaid neu y Lefiaid (2 Chron. xxix. 34, xxxv. 11): tynid y brasder o hono, a llosgid ef ar yr allor; ar ol hyn cymmerai yr offrymwr yr oen ymaith i'w dŷ ei hun. Yna yr oedd yr oen i gael ei rostio yn gyfan, a'i fwyta oll y noswaith hono; os byddai mwy o hono nag a allai y teulu fwyta, yr oedd i gael ei losgi. Yr oedd gwaith yr hwn oedd yn myned i fwyta y Pasg yn dwyn yr oen i'r deml a'i gyflwyno felly i Dduw, a gwaith yr offeiriaid yn taenellu y gwaed o flaen ac o amgylch yr allor, ac yn llosgi y brasder a'r rhanau tu mewnol ar yr allor, a'r ffaith fod oen y Pasg yn cael ei alw yn aberth, yn dangos ei fod yn *aberth* yn yr ystyr briodol; ac wedi'r cyflwyniad yma i Dduw, yr oedd yr oen yn cael ei ddychwelyd i'r aberthwr, i fod yn ddefnydd gwledd iddo ef a'i deulu. Yr oedd Crist ein Pasg ni yn aberth i Dduw, ac y mae ei aberth nid yn unig wedi boddloni y nefoedd, ond wedi dyfod yn ddefnydd gwledd a llawenydd i'r ddaear. (1 Cor. v. 7, 8.)

Yr oedd yr Israeliaid i fwyta y Pasg gyda "bara croyw," neu fara dilefain, er eu hadgofio am eu hadfyd yn yr Aifft, gan fod bara dilefain yn drymach a mwy gwrthwynebol i'r archwaeth, ac anhawddach ei dreulio na bara lefeinllyd, am yr hyn y gelwir ef, "bara cystudd" (Deut. xvi. 3), ac er eu hadgofio hefyd am sydynrwydd eu hymadawiad, pryd na chawsent amser i lefeinio eu toes. (Exod. xii. 39.)

Gan eu bod i lanhau eu tai cyn bwyta y Pasg oddiwrth fara lefeinllyd, mae'n debyg y golygid dysgu y bobl trwy hyn fod gwaredigion yr Arglwydd i ymlanhau oddiwrth bob malais, a chenfigen, ac halogrwydd, a gwasanaethu Duw mewn newydd-deb buchedd. (1 Cor. v. 7, 8.)

Yr oedd yr Israeliaid i fwyta "dail surion" hefyd gyda'r Pasg, er cofio am chwerwder eu henaid yn nhŷ y caethiwed. Ymddengys nad oedd y cyfarwyddiadau yn Exod. xii. 11, i gael eu cadw ond ar adeg y Pasg cyntaf: gwel Gill ar y lle. Gwel Exod. xii., xxiii. 18, xxxiv. 25. Deut. xvi.

*Y Trydydd Dosbarthiad—Cyhoedd ac Annghyhoedd.*

(1,) *Offrymau Cyhoedd.*

Offrymid y rhai hyn dros holl bobl Israel; megys y ddau oen yn boeth-offrwm dyddiol (Exod. xxix. 42); a'r ddau oen ychwanegol ar y Sabbath (Num. xxviii. 9, 10); yr aberthau ar y newydd-loer (Num. xxviii. 11, 15), ac ar y gŵyliau ereill, megys ag y sylwyd eisioes. Offrymid aberthau cyhoeddus hefyd weithiau ar achosion ac adegau neillduol; megys pan y pechai yr holl gynnulleidfa yn eu hanwybodaeth (Lef. iv. 13, 14); ar adeg y rhyfel â Benjamin (Barn. xx. 26); ac ar gyssegriad y deml. (1 Bren. viii. 62—64.)

(2,) *Offrymau Annghyhoedd.*

Offrymid y rhai hyn dros bersonau neillduol, naill ai yn achlysurol neu ar adegau gosodedig. Yr aberthau annghyhoedd achlysurol oedd y rhai a offrymid o herwydd unrhyw drosedd a gyflawnasid yn erbyn y gyfraith, neu o herwydd unrhyw aflendid â'r hwn yr ymhalogasai yr addolwr, neu mewn canlyniad i adduned, neu mewn ffordd o ddiolchgarwch i Dduw y nefoedd.

Yr aberthau annghyhoedd gosodedig a rheolaidd oedd oen y Pasg, yr hwn a offrymid yn flynyddol dros bob teulu; ac aberth yr archoffeiriad drosto ei hun, ar ddydd mawr y cymmod, pan yr elai i'r cyssegr santeiddiolaf i eiriol dros y bobl.

3. *Adegau offrymiad yr aberthau.*

Yr oedd amryw aberthau yn rhai achlysurol, yn cael eu hoffrymu gan unigolion, mewn canlyniad i bechodau neillduol, neu er diolchgarwch am ffafrau neillduol; ond yr oedd ereill o honynt yn sefydlog, yn cael eu hoffrymu yn *ddyddiol*, *wythnosol*, *misol*, a *blynyddol*.

(1,) *Yr aberth dyddiol.*

Yr hwn oedd yn boeth-offrwm, ac yn gynnwysedig o ddau oen, ac yn cael ei offrymu ar y drydedd a'r nawfed awr. (Exod. xxix. 38—40. Lef. vi. 9—18. Num. xxviii. 1—8.) Nid oedd appwyntiad aberthau ereill yn ymyraeth dim âg offrymiad yr aberth dyddiol; ychwanegiadau at hwn oeddynt: yr oedd hwn i gael ei offrymu bob dydd yn offrwm gwastadol tra y parhäai yr hen gyfammod.

(2,) *Yr aberth wythnosol.*

Yr hwn a aberthid bob dydd Sabbath oedd yr un peth a'r un dyddiol, ond fod dau oen ychwanegol yn cael eu haberthu. (Num. xxviii. 9, 10.)

(3,) *Yr aberth misol.*

Yr hwn a offrymid ar y dydd cyntaf o bob mis, ac yn gynnwysedig o ddau eidion, un hwrdd, saith o ŵyn, ac un afr, gyda bwyd a diod-offrwm. (Num. xxviii. 11—14.

(4,) *Aberthau blynyddol.*

(1,) Y rhai a offrymid ar ŵyl y Pasg. Ar bob un o saith niwrnod gŵyl y bara croyw, offrymid dau fustach ieuainc, un hwrdd, saith o ŵyn, ac un bwch neu afr (Num. xxviii. 19—25); heblaw un oen ychwanegol ar yr ail ddydd pan offrymid ysgub blaenffrwyth y cynhauaf haidd. (Lef. xxiii. 12.)

(2,) Y rhai a offrymid ar ŵyl y Pentecost. Dau fustach, un hwrdd, saith o ŵyn, un bwch gafr, gyda bwyd-offrwm a diod-offrwm. (Num. xxviii. 26—31.) Gyda hyn, offrymid "dwy dorth gyhwfan,"* fel blaenffrwyth, saith o ŵyn, un bustach, dau hwrdd, ac un bwch gafr, a dau oen blwyddiaid yn aberth hedd. (Lef. xxiii. 17—19.)

(3,) Y rhai a offrymid ar ŵyl yr udgyrn. Ar y dydd cyntaf o'r seithfed mis, Tishri, yn ychwanegol at yr aberthau a offrymid ar bob dydd cyntaf o'r mis, un bustach, un hwrdd, saith o ŵyn, ac un bwch gafr. (Lef. xxiii. 24, 25. Num. xxix. 1—6.)

(4,) Y rhai a offrymid ar ŵyl y cymmod. Un bustach, un hwrdd, saith o ŵyn, ac un bwch gafr (Num. xxix. 7—11);

* Yn Exod. xxix. 27, sonir am "offrwm cyhwfan," ac "offrwm dyrchafael." Golyga y cyntaf offrwm a godid i fyny ac a ysgydwid o ochr i ochr; a'r ail offrwm a ysgydwid trwy ei godi i fyny ac i lawr.—Gwel *Gesenius's Hebrew Lexicon* ar y gwahanol eiriau.

heblaw un hwrdd ac un bwch gafr, pan yr elai yr archoffeiriad i mewn i'r cyssegr santeiddiolaf. (Lef. xvi. 5.)

(5,) Aberthau ar ŵyl y pebyll. Yn ystod wyth niwrnod parhad yr ŵyl hon, aberthid 71 o ychain, 15 o hyrddod, 105 o ŵyn, ac 8 o fychod geifr. (Num. xxix. 12—38.)

Aberthau rheolaidd a chysson oedd y rhai hyn; yn ystod y flwyddyn, offrymid miloedd o aberthau ereill. Wedi eu crynhoi yn nghyd, saif y cyfrifon fel y canlyn:—

| | | *Ychain* | *Hyrdd.* | *Wyn* | *Geifr* |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Yr aberthau dyddiol am 365 o ddyddiau .. | .... | .... | 730 | .... |
| 2 | Aberthau am 52 o Sabbathau ............ | .... | ... | 104 | .... |
| 3 | Aberthau am 12 o Newydd-loerau ........ | 24 | 12 | 84 | 12 |
| 4 | Aberthau y Pasg ........................ | 14 | 7 | 50 | 7 |
| 5 | Aberthau y Pentecost.................... | 3 | 3 | 16 | 2 |
| 6 | Aberthau Gŵyl yr Udgyrn .............. | 1 | 1 | 7 | 1 |
| 7 | Aberthau Dydd y Cymmod .............. | 1 | 2 | 7 | 2 |
| 8 | Aberthau Gŵyl y Pebyll ................ | 71 | 15 | 105 | 8 |
| | Cyfanrif ............................ | 114 | 40 | 1103 | 32 |

(*Dr. Nevin's Bibl. Antiq.* Part ii. chap. v. § 1: *Dr. Jennings's Jewish Antiquities,* Book i. chap. v.)

4. *Dybenion yr aberthau a'r offrymau.*

Offrymid hwy,

1. Er cydnabod mai o law Duw y derbynir pob daioni, ac fod ganddo hawl i holl feddiannau dyn.

2. Er cynnyrchu edifeirwch am bechod yn yr offrymwr, a'i gyfeirio at aberth Crist.

3. Gellir ystyried amryw o honynt fel math o dreth i Dduw, tuag at gynnaliaeth ei weision.

Yr oedd Jehofah yn frenin, yn ogystal a Duw Israel; y deml oedd ei balas, ac yr oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid yn weinidogion y llywodraeth wladol, yn ogystal a gwasanaethwyr y cyssegr, â'r rhai yr ymgynghorai y bobl ar bethau gwladol a chrefyddol. Yr oedd rhan yr offeiriaid o'r aberthau

fel math o gyflog iddynt yn y cymmeriad o weinidogion Brenin Israel.

4. Gellir ystyried rhai o honynt fel math o ddirwy am drosedd yn erbyn Duw, fel Llywydd y wlad.

Yn yr ystyr yma gellir dweyd am danynt eu bod yn gwneyd iawn. Fel hyn cawn yn Lef. v. 15, 16, fod y troseddwr trwy amryfusedd yn dwyn aberth dros ei gamwedd, ac yn talu am y niwaid a wnaethai, ac felly yn cael maddeuant.

Ond os pechid yn rhyfygus yn erbyn Duw, yr oedd hyny yn drosedd yn ei erbyn, nid yn unig fel Llywydd gwladol, ond fel Arglwydd cydwybod, a Brenin y nefoedd; yr oedd yr hwn a bechai felly i gael ei "dori ymaith o blith y bobl." (Num. xv. 30.) Gyda golwg ar bechodau fel hyn y dywedai Paul mai "anmhossibl yw i waed teirw a geifr dynu ymaith bechodau." (Heb. x. 4.)

## 4. Arian, Pwysau, a Mesurau y Beibl.

### 1. *Arian treigl.*

Wrth y *pwysau* y bernid gwerth arian yn yr hen amseroedd :—"A phwysodd Abraham i Ephron yr arian, a ddywedasai efe lle y clybu meibion Heth; pedwar can' sicl o *arian* cymmeradwy yn mhlith marchnadwyr." (Gen. xxiii. 16.)

*Arian Iuddewig cyn y Caethiwed Babilonaidd.*

| | | | | | | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gerah. (Exod. xxx. 13) .....................Gwerth tua.. | | | | | | 0 | 0 | 1½ |
| 10 | Becah. (Exod. xxxviii. 26) .......... „ „ .. | | | | | 0 | 1 | 1½ |
| 20 | 2 | Sicl. (Exod. xxx. 13) ........ „ „ .. | | | | 0 | 2 | 3 |
| 2,000 | 200 | 100 | Maneh. (Punt, 1 Bren. x. 17) „ „ .. | | | 10 | 0 | 0 |
| 60,000 | 6,000 | 3,000 | 30 | Talent. (Exod. xxxviii. 25) .. | | 342 | 3 | 9 |

Ystyrir fod sicl o aur yn werth £1 16s. 6c.; a thalent o aur yn werth agos i chwe' mil o bunau, sef £5,475.

### *Arian Iuddewig ar ol y Caethiwed.*

| | £ | s. | d. |
|---|---|---|---|
| SWLLT (1 Chron. xxix. 7) neu Ddracmon* (Ezra ii. 69) ...... | 1 | 3 | 0 |
| DRYLL O ARIAN (Groeg, *drachmê*, Luc xv. 8) ................ | 0 | 0 | 7½ |
| DARN ARIAN (Groeg, *statêr*, Mat. xvii. 27) .................. | 0 | 2 | 6 |
| CEINIOG (Groeg, *denarion*, Mat. xxii. 19)..................... | 0 | 0 | 7 |
| FFYRLING ( „ *assarion*, Mat. x. 29) ...................... | 0 | 0 | 0½ |
| FFYRLING ( „ *kordantês*, Marc xii. 42. Mat. v. 26) ........ | 0 | 0 | 0⅛ |
| HATLING ( „ *lepton*, Mat. xii. 42), hanner *kordantês* ...... | 0 | 0 | 0 |
| PUNT (Groeg, *mnâ*, Lladin, *mina*, Luc xix. 13) .............. | 3 | 2 | 6 |
| TEYRNGED (Groeg, *didrachmon*, Mat. xvii. 24. Gwel tudal 282) | 0 | 1 | 3 |

### 2. *Pwysau.*

| | *English Troy Weight.* | | | |
|---|---|---|---|---|
| | lbs. | oz. | pen. | gr. |
| GERAH *(gronyn)*. Y pwysau lleiaf oedd gan yr Israeliaid ................................ | 0 | 0 | 0 | 12 |
| BECAH.......................................... | 0 | 0 | 5 | 0 |
| SICL ............................................ | 0 | 0 | 9 | 2½ |
| MANEH, ychydig dros .......................... | 2 | 3 | 6 | 10 |
| TALENT ........................................ | 125 | 0 | 0 | 0 |

### 3. *Mesurau.*

#### (1,) *Hyd-fesurau.*

| | Mesur Seis'nig. | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Milltir. | Llath. | Troed. | Mod. |
| MODFEDD, Hebraeg, *etsba*, lled bys. (Jer. lii. 21) | 0 | 0 | 0 | 0¾ |
| LLED LLAW a DYRNFEDD, Hebraeg, *tophach*, (Exod. xxv. 25. 1 Bren. vii. 26) yn agos i.. | 0 | 0 | 0 | 4 |
| RHYCHWANT, Hebraeg, *zereth*, hyd llaw (Exod. xxviii. 16) ychydig dros .................. | 0 | 0 | 0 | 10 |
| CUFYDD, Hebraeg, *ammah*, hyd y fraich o'r penelin i flaen y bys hwyaf. (Deut. iii. 11).. | 0 | 0 | 0 | 18 |
| GWRHYD, Groeg, *orguia*, yr hyd rhwng dwylaw dyn ar ol iddo eu hestyn. (Act. xxvii. 28).. | 0 | 0 | 7 | 3 |

* Yr un gair mewn gwahanol ffurfiau a geir am y ddau. Dernyn o aur treigl Persiaidd ydoedd mewn cylchrediad yn Judea pan ydoedd o dan lywodraeth Persia. Ymddengys i ysgrifenydd Llyfr y Chronicl ddefnyddio y gair *adarcon* (swllt), am mai hwnw oedd y mwyaf dealladwy i'w gydoeswyr ef.

| | Mesur Seis'nig. | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Milltir. | Llath. | Troed. | Mod. |
| YSTAD, Groeg, *stadion*. (Luc xxiv. 13) ...... | 0 | 202¼ | 0 | 0 |
| TAITH DIWRNOD SABBATH, 6 ystad, neu 750 o gamrau, tua saith rhan o wyth o filltir. Yn ol Dr. Burton, modd bynag, yr oedd yn agos i ddwy filltir, gan mai o Bethania yr esgynodd yr Iesu, yr hon oedd 15 ystad o Jerusalem. (Luc xxiv. 50. Ioan xi. 18.) Wrth i Josephus ddweyd mai pump ystad oedd o'r Olewydd i Jerusalem, yr oedd yn golygu, eb efe, o'r ochr agosaf i'r ddinas. Dywedir fod hyd "taith diwrnod Sabbath" wedi cael ei phenderfynu gan y pellder o'r tabernacl yn yr anialwch i'r cwr pellaf o'r gwersyll, ac ar ol hyny o'r deml i barthau pellaf Jerusalem. | | | | |
| TAITH DIWRNOD, yn y Dwyrain yn gyffredin oedd tuag ................................ | 20 | 0 | 0 | 0 |

(2,) *Mesur-lestri.*

Dwfr-fesurau.

| | Galwyn. | Peint. |
|---|---|---|
| CAB, gair Hebraeg. (2 Bren. vi. 25) .................. | 0 | 3½ |
| LOG, gair Hebraeg. (Lef. xiv. 10) agos i .............. | 0 | 1 |
| HIN, gair Hebraeg. (Exod. xxx. 24) .................. | 1 | 2 |
| BATH, gair Hebraeg. (1 Bren. vii. 26, 38).............. | 7 | 4 |
| MESUR, Groeg, *batos*. Hebraeg, *bath*. (Luc xvi. 6) .... | 8⅝ | 0 |
| HOMER, gair Hebraeg. (Lef. xxvii. 16. Ezec. xlv. 14).. | 75 | 5 |
| FFYRCIN, Groeg *metrêtês*, mesurydd (Ioan ii. 6) ........ | 8⅝ | 0 |

Yd-fesurau. Yr un geiriau, gan mwyaf, a ddefnyddir ag am y mesurau uchod.

| | Phiol *(Peck.)* | Gal. | Peint. |
|---|---|---|---|
| LLESTR, Groeg, *modius*, ŷd-fesurydd. (Mat. v. 15. Marc iv. 21. Luc xi. 33) agos i .................. | 1 | 0 | 0 |
| CAB (2 Bren. vi. 25), ychydig dros.................. | 0 | 0 | 2 |
| MESUR, Groeg, *koros* (Luc xvi. 7) .................. | 0 | 88 | 0 |
| MESUR, Groeg, *choinix*. (Dad. vi. 6) .............. | 0 | 0 | 2 |
| OMER, gair Hebraeg. (Exod. xvi. 36), ychydig dros .. | 0 | 0 | 5 |
| DEGFED RAN, Heb, *isron*, ŷd-fesurydd o faintioli *omer*. (Lef. xiv. 21. Num. xxix. 4, 9, 10), ychydig dros .. | 0 | 0 | 5 |

| | Phiol (Peck.) | Gal. | Peint |
|---|---|---|---|
| SAT, Hebraeg, *seah* (2 Bren. vii. 1, 16, Groeg, *saton* Mat. xiii. 33) ŷd-fesurydd........................ | 1 | 0 | 1 |
| Y gair hwn a geir am "phiolaid" yn Gen. xviii. 6, ac am "hobaid" yn 1 Sam. xxv. 18. | | | |
| EPHAH, gair Hebraeg. (Exod. xvi. 36) ............ | 3 | 0 | 3 |
| HANNER HOMER, Hebraeg, *lethec* (Hos. iii. 2) ...... | 16 | 0 | 0 |
| HOMER, neu CORUS, Hebraeg am y diweddaf yw *cor*, Groeg, *koros*. (1 Bren. iv. 22, v. 11. 2 Chron. ii. 10, xxvii. 5. Ezec. xlv. 14)...................... | 32 | 0 | 0 |

Cofier mai dau enw gwahanol ydyw *Omer* (עמר) a *Homer* (חמר). Mae dysgedigion yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd yn nghylch maintioli y mesurau a'r pwysau, a gwerth yr arian uchod; yr ydym wedi rhoddi y manylion yn ol fel y mae y mwyafrif yn eu deall.

II. *Hanes Judea yn ystod y cyfnod rhwng yr Hen Destament a'r Newydd, a'r gwahanol Sectau a Phleidiau yn mhlith Iuddewon a Chenedloedd ag y cyfeirir atynt yn y Testament Newydd.*

Cyfododd y sectau Iuddewig yn y cyfwng rhwng yr Hen Destament a'r Newydd. Yr oedd cyfnod o tua phedwar can' mlynedd o ddyddiau Malachi hyd adeg genedigaeth Iesu Grist. Cyn manylu ar hanes y sectau dan sylw, dodwn yma grynhodeb byr o hanes y genedl Iuddewig yn Nghanaan yn y cyfnod hwn.

1. Mae yr hanesiaeth ysgrythyrol yn gadael yr Iuddewon o dan lywodraeth y Persiaid, a Nehemiah yn llywydd arnynt. Yr oedd hyn tua 440 cyn Crist. Parhaodd Judea o dan lywodraeth Persia am tua chan' mlynedd ar ol dyddiau Nehemiah. Yn ystod yr adeg yma nid oedd Judea yn lywodraeth neillduol ar ei phen ei hun, ond yn gyssylltiedig â thalaeth Syria, ac yn cael ei llywodraethu gan archoffeiriad o dan reolaeth rhaglaw Syria.

2. Pan orchfygodd Alexander Fawr y fyddin Bersiaidd tua'r flwyddyn 330 cyn Crist, daeth Syria yn ddarostyngedig i'w awdurdod. Wedi hir warchae, llwyddodd Alexander i ddarostwng Tyrus; yr oedd yr Iuddewon ar y cyntaf yn anfoddlon i ymostwng iddo o herwydd eu llw i Darius; ar hyn aeth

Alexander yn mlaen tua Jerusalem er cosbi yr Iuddewon, ond fe drodd Duw ei galon i ddangos ffafr iddynt, ac i arfer tynerwch tuag atynt.

3. Wedi marwolaeth Alexander Fawr, fe ranwyd ei ymerodraeth ëang rhwng ei gadfridogion, ac fe syrthiodd Judea i ran Ptolemy Lagus, llywodraethwr yr Aifft, a ffurfiodd ran o deyrnas yr Aifft. Yr oedd Simon y Cyfiawn, yr archoffeiriad, yn arolygu amgylchiadau mewnol Judea o dan Ptolemy Lagus, a'r wlad yn llwyddo o dan ei arolygiaeth.

4. Tua'r flwyddyn 198 cyn Crist, yn nheyrnasiad Antiochus Fawr, fe ddaeth Judea yn ddarostyngedig i freninoedd Syria. Dosbarthasant hwy wlad yr Iuddewon i bump o daleithiau, sef, *Galilea*, *Samaria*, *Judea*, ar yr ochr Orllewinol i'r Iorddonen, a *Trachonitis* a *Perea*, yr ochr Ddwyreiniol i'r Iorddonen; ond gadawsant i'r Iuddewon lywodraethu y wlad yn ol eu cyfreithiau eu hunain, o dan lywyddiaeth yr archoffeiriad a'r Sanhedrim. Darfu i un o freninoedd Syria, Antiochus Epiphanes, ormesu yr Iuddewon yn greulon iawn. Lladdodd a chaethiwodd liaws mawr o honynt, a cheisiodd ddiddymu addoliad y gwir Dduw o'u plith, gan wahardd ei wasanaeth, dinystrio yr Ysgrythyrau, erlid y rhai oedd yn ofni yr Arglwydd, a chyssegru y deml i Jupiter.

5. Parodd creulondeb Antiochus Epiphanes i'r Iuddewon gyfodi mewn gwrthryfel, yr hwn a ddygid yn mlaen yn llwyddiannus o dan y tywysogion Maccabeaidd: gwel tudal. 132, 133, 191. Ar ol i Judas lwyr orchfygu y Syriaid, cyssegrodd y deml o newydd i Dduw Israel, er cof am yr hyn y sefydlwyd gŵyl y cyssegriad. (Ioan x. 22.) Cymmerodd y cyssegriad yma le Rhagfyr 25ain, 163 o flynyddoedd cyn Crist.

6. Daeth Judea yn annibynnol o dan y tywysogion Maccabeaidd; ond yn y flwyddyn 63 cyn Crist darfu i Pompey, y cadfridog Rhufeinig, ei darostwng o dan awdurdod y Rhufeiniaid, er y caniateid iddi gael ei llywodraethu gan y tywysogion Maccabeaidd. Yn y flwyddyn 37 cyn Crist, darfu i Herod Fawr (Idumead o waed, ond yn proffesu Iuddewiaeth er boddhau yr Iuddewon), wedi cael ei gyhoeddi yn Rhufain yn frenin Judea gymmeryd Jerusalem a diswyddo yr olaf o'r tywysogion hyn, a theyrnasu ei hunan yn ei le. Yn hytrach

na gadael i'r archoffeiriadaeth fod yn nheulu Aaron, a chaniatau i'r archoffeiriad aros yn ei swydd hyd ddiwedd ei oes yn ol trefn Duw, yr oedd Herod yn appwyntio i'r swydd y neb a fynai, a'u diswyddo drachefn pan y gwelai yn dda; yn yr hyn y dilynwyd ei esiampl gan y Rhufeiniaid (*Josephus's Antiquities of the Jews*, Book xv. chap. iii. § 1: Book xx. chap. x. § 1. 2 Macc. iv. 7). O herwydd hyn yr oedd yn fynych amryw bersonau yn Jerusalem y rhai a fuasent unwaith yn archoffeiriaid, a'r rhai a elwid felly o barch iddynt pryd nad oeddynt mwyach yn y swydd. Felly, mae'n debygol, y gelwir Annas yn archoffeiriad (Luc iii. 2. Ioan xviii. 13. Act. iv. 6.) Gelwid aelodau y Sanhedrim hefyd wrth yr enw hwn. (Mat. ii. 4, xvi. 21, &c.) Er cadw yr Iuddewon yn dawel o dan ei deyrnasiad gorthrymus, darfu i Herod ymgymmeryd âg adgyweirio, helaethu, ac addurno y deml yn Jerusalem, nes ei gwneyd yn wrthddrych ymffrost y genedl ac edmygedd y gwledydd. Yn y flwyddyn 36 o deyrnasiad yr Herod hwn y ganwyd yr Arglwydd Iesu.

Ar wahanol adegau yn ystod y cyfnod terfysglyd hwn y cyfododd y Phariseaid, y Saduceaid, a'r Esseniaid.

Y PHARISEAID.—Deillia y gair Pharisead o'r ferf Hebraeg פרש PARASH=*gwahaniaethu*, *gwahanu*, a golyga yr enw Phariseaid y *Rhai Gwahanedig*. Bernir eu bod wedi cael yr enw ar y gyntaf am eu bod yn ymwahanu, neu ymneillduo oddiwrth annuwiolion, er ffurfio math o gyfundeb mwy pur, a gwasanaethu Duw mewn modd mwy ffyddlawn a chywir. Yr hanes cyntaf a geir am danynt a'u desgrifia yn sect enwog o dan y tywysog Maccabeaidd, John Hyrcanus, tua'r flwyddyn 130 cyn Crist. (*Joseph. Antiq.* B. xiii. chap. x. §§ 5, 6.) Ymddengys eu bod wedi dirywio yn fawr erbyn ymddangosiad Crist, ac yn gyffredin yn rhagrithwyr haerllug, yn ymroddi i ddefodau a ffug santeiddrwydd. Proffesent dderbyn yr Ysgrythyrau fel gair Duw, ond yr oeddynt yn priodoli awdurdod gyfartal i draddodiadau y tadau, neu y cyfarwyddiadau anysgrifenedig, y rhai, meddent hwy, a dderbyniasai eu henuriaid oddiwrth Moses a'r tadau: gwel tudal. 36, 322. Credent yn anfarwoldeb yr enaid a sefyllfa ddyfodol, ac mewn tynged; dichon fod cyfeiriad yn Iago i. 13, at dynged (yr hyn mewn gwirionedd sydd yn gwneyd Duw yn awdwr pechod, a dyn yn ddiesgus), a bod rhai o'r brodyr at y rhai yr ysgrifenai Iago yn methu ymryddhau oddiwrth y syniadau a goleddent ar hyn cyn eu dychweliad. Disgwylient ffafrau neillduol oddiwrth Dduw, o herwydd eu cyssylltiad cenedlaethol âg Abraham: gwel Mat. iii. 9, v. 20, ix. 11—14, xxiii. 2, 3, 13—33. Marc vii. 3. Luc xvi. 14, 15, xviii. 11—14. Act. xxiii. 8, &c. Yr oedd rhai dynion rhinweddol a chywir yn eu plith yn adeg eu dirywiad mwyaf,

megys Gamaliel (Act. v. 34); Joseph o Arimathea (Luc xxiii. 51); Nicodemus (Ioan vii. 50, xix. 39); a Saul, o Tarsus. (Phil. iii. 4—6.)

Y SADUCEAID. — Barna rhai fod yr enw yma wedi deilliaw o'r ferf Hebraeg צדק TSADDAC=*bod yn gyfiawn*, a'i fod yn golygu y *Rhai Cyfiawn*. Olrheinia ysgrifenwyr y Talmud ef i un *Tsadoc*, *Sadoc*, yr hwn a flodeuodd tua thri chan' mlynedd cyn Crist, ac a sylfaenodd y sect. Yr oedd y Saduceaid yn ymwrthod â'r holl draddodiadau, ac yn ystyried mai yr Ysgrythyrau oedd unig reol crefydd. Gwadent fodolaeth angylion ac ysbrydion, ac arolygiad rhagluniaethol Duw, a dysgent fod enaid dyn yn marw gyda'i gorph, ac nad oes nac adgyfodiad na sefyllfa ddyfodol yn ei aros. Ymddengys nad oes sail ddigonol i'r dyb gyffredin eu bod yn gwrthod yr holl Hen Destament oddi eithr pum' llyfr Moses.*

Yr oedd pendefigion yr Iuddewon yn fwy ffafriol i'w golygiadau na'r bobl gyffredin: gwel Mat. xxii. 23. Act. xxiii. 8.

YR HERODIANIAID.—Pleidwyr *Herod Antipas* (yr hwn a elwir hefyd *Herod y Tetrarch*, Mat. xiv. 1. Luc iii. 1, a'r hwn a appwyntiwyd gan Augustus Cæsar yn bennaeth ar Galilea a Perea), a chefnogwyr llywodraeth Rhufain yn Mhalestina, oedd y rhai hyn; ac o ganlyniad, plaid wladol yn hytrach na sect grefyddol oeddynt. Ymddengys fod llawer o Saduceaid yn perthyn iddynt: cymharer Marc viii. 15, â Mat. xvi. 6. "Gwyliwch, ymogelwch rhag surdoes y Phariseaid a surdoes Herod" (Marc viii. 15); rhag "ffurfioldeb, ofergoeledd, a rhagrith fel eiddo y Phariseaid; rhydd-dybiaeth mewn ffydd fel eiddo y Saduceaid; penrhyddid mewn ymarferiad, bydolrwydd, a hunanfoddiant fel eiddo Herod a'r Herodianiaid." (*Webster & Wilkinson's Greek Testament.*)

* Dywedir hyn ar sail y sylw canlynol o eiddo Josephus:—"Yr hyn y dymunwn yn awr ei egluro yw hyn, fod y Phariseaid wedi traddodi i'r bobl lawer iawn o ddefodau y naill oes ar ol y llall oddiwrth eu tadau, y rhai nad ydynt ysgrifenedig yn neddf Moses; a dyna y rheswm paham y mae y Saduceaid yn eu gwrthod, a dweyd mai y defodau sydd yn y gair ysgrifenedig yr ydym i'w hystyried yn rhwymedig, ond nad ydym i gadw yr hyn a dderbyniwyd trwy draddodiad oddiwrth y tadau; ac oblegyd y pethau hyn y mae ymrysonau a dadleuon mawrion wedi cyfodi rhyngddynt."—*Antiq.* B. xiii. ch. x. 6. B. xviii. 1, 4.

Fe welir nad ydyw hyn yn cynnwys eu bod yn gwrthod yr oll o'r Hen Destament oddi eithr pum' llyfr Moses; y mae yn enwi "*deddf Moses*," am mai yn hono yr oedd y defodau yn cael eu dysgu; ond nid ydyw ei fod yn dweyd "deddf Moses" yn cynnwys ei fod yn golygu eu bod hwy yn gwrthod yr Ysgrythyrau, fwy nag y mae iaith Malachi (iv. 4), "Cofiwch gyfraith Moses," yn cynnwys fod yr Iuddewon i ddibrisio gweinidogaeth y prophwydi. Deddf Moses oedd yr awdurdod gyda'r defodau a'r gwasanaeth; galwai y prophwydi am ufydd-dod i hono, a rhagfynegant am oruchwyliaeth ragorach. Gwrthgyferbynu "*deddf Moses*" a "*thraddodiadau dynol*" y mae Josephus yn y dyfyniad dan sylw, ac nid *deddf Moses* a'r *Ysgrythyrau ereill.*

Ymddengys hefyd oddiwrth y Talmud, ebe Dr. Jahn, fod y Saduceaid yn dyfynu o lyfrau ereill yr Hen Destament yn eu dadleuon, yn ogystal ag o lyfrau Moses.—*Jahn's Bibl. Antiq.* § 322.

Y GALILEAID.—Ni sonir am y rhai hyn yn hollol wrth yr enw hwn, ond cyfeirir yn Act. v. 37, at eu blaenor neu sylfaenydd y sect, sef *Judas y Galilead*, yr hwn a wnaeth ei ymddangosiad yn y flwyddyn 14, A.D. Darfu i hwn berswadio llawer o'r Iuddewon i wrthwynebu y trethiad o dan Cyrenius, trwy ddweyd wrthynt nad oedd eu trethu amgen na'u gwneyd yn gaethion,—na wnelai Duw eu cynnorthwyo os na wrthwynebent y dreth,—na ddylent alw yr un dyn yn arglwydd, nac aberthu dros yr ymerawdwr,—ac mai Duw oedd eu hunig Arglwydd a Rheolwr. Ymunodd llawer o'r Iuddewon âg ef mewn gwrthwynebiad i'r awdurdodau; ond darfu i Cyrenius, rhaglaw Syria a Judea, ei ddinystrio ef, a darostwng a gwasgaru ei ganlynwyr. Er hyny, coleddwyd ei egwyddorion gan amryw o'r Iuddewon, y rhai a ddesgrifia Josephus fel sect, i ba un yr oedd Judas yn sylfaenydd. (*Josephus's Antiq.* B. xviii. chap. i. 1, 6. *Wars of the Jews*, B. ii. chap. viii. 1.)

Dichon mai canlynwyr hwn a olygir wrth y Galileaid yn Luc xiii. 2. Gan eu bod yn erbyn talu trethi y llywodraeth, ac aberthu dros ymerawdwr Rhufain, ac yn achosi chwerwedd a chyffroadau yn mhlith y bobl, mae'n debyg i Pilat ddyfod ar warthaf rhai o honynt ar un adeg pan oeddynt yn aberthu, a'u lladd; mae'n bossibl hefyd mai hyn a achosodd yr elyniaeth rhwng Pilat a Herod.

Dichon fod cyhuddwyr yr Iesu, trwy ddweyd ei fod ef "yn gwahardd rhoddi teyrnged i Cæsar" (Luc xxiii. 2), am awgrymu fod Iesu Grist, yr hwn hefyd yn nghyda'i ganlynwyr oedd o Galilea, yn perthyn i'r blaid dan sylw.

YR ESSENIAID.—Un arall o'r sectau Iuddewig oedd yr Esseniaid. Gan nad oes cyfeiriad eglur at y rhai hyn yn y Testament Newydd, nid ydynt yn galw ond am ychydig o sylw. Ymddengys mai math o Phariseaid diwygiedig oeddynt, y rhai a ymarferent â defodau y Phariseaid, ond a adawsent heibio eu rhagrith; ond gyda golwg ar bethau ereill, ni wahaniaethent ond ychydig oddiwrth yr Iuddewon yn gyffredin. Dosberthid hwy i ddwy ran, neu ddau ddosbarth, sef y rhai ymarferol *(practical)*, a'r rhai myfyrgar *(contemplative)*. Nid oedd ond tua phedair mil o'r rhai ymarferol yn amser Crist, y rhai a breswylient y pentrefi a'r wlad, ac a ochelent y trefi mawrion, ac felly ni ddaeth yr Iesu i gyfarfyddiad â hwynt. Yr oedd y rhai myfyrgar yn dra lliosog, ac wedi ymwasgaru mewn gwahanol wledydd, yn neillduol yn yr Aifft. Math o fonachod Iuddewig oedd y dosbarth myfyrgar o honynt, y rhai a elwir gan Philo (yr Iuddew o Alexandria, yr hwn a flodeuodd tua chanol y ganrif gyntaf), *Therapeutæ*, yr hyn a olyga *meddygon*, neu *wasanaethwyr*, ac *addolwyr*. Gelwir hwy fel hyn, nid am eu bod yn myfyrio physigwriaeth, ond am eu bod yn proffesu meddyginiaethu yr enaid oddiwrth glwyfau nwydau a drygau, neu am eu bod yn proffesu addoli a gwasanaethu y Goruchaf. Barna Dr. Jennings fod cyfeiriad at y rhai hyn yn Col. ii. 18, 23. Nid oes sicrwydd pa bryd y dechreuasant, na pha fodd y cawsant yr enw Esseniaid.

YR YSGRIFENYDDION, Y CYFREITHWYR, A'R PROSELYTIAID.—Nid ydym i ystyried yr *Ysgrifenyddion* a'r *Cyfreithwyr* fel sectau, ond yn hytrach fel adysgrifenwyr ac esbonwyr y ddeddf a'r Ysgrythyrau ereill. Felly hefyd gyda golwg ar y *Proselytiaid ;* dychweledigion oddiwrth eilunaddoliaeth at Iuddewiaeth oedd y rhai hyn. (Mat. xxiii. 15. Act. ii. 10, vi. 5, xiii. 43.) Sonia y Rabbiniaid am ddau fath o Broselytiaid, sef,

1. *Proselytiaid Cyfiawnder*, y rhai a dderbynient y grefydd Iuddewig yn yr oll o honi, ac a fwynhaent holl ragorfreintiau dinesydd Iuddewig. (Exod. xii. 48. *Joseph. Antiq.* xx. ch. ii. 5.)

2. *Proselytiaid y Porth*, sef ymdeithwyr estronol yn Jerusalem, y rhai, tra heb gael eu henwaedu a gydffurfient i raddau â'r cyfreithiau Iuddewig, trwy beidio cablu Duw, nac eilunaddoli, na llofruddio, na godinebu, na lladrata, nac anufyddhau i swyddogion gwladol, na bwyta gwaed neu gig creaduriaid wedi eu tagu.

Nid yw y Testament Newydd yn gwneyd y gwahaniaeth yma rhwng Proselytiaid.

Y SAMARIAID.—Ar un olwg gellir edrych ar y Samariaid fel plaid grefyddol. Yr oedd y Samariaid yn ddisgynyddion o'r trefedigwyr a gludasai brenin Assyria i wlad Israel, ar ol caethgludiad y deg llwyth i Assyria. (2 Bren. xvii. 23—41.) Er iddynt gael offeiriad i'w dysgu yn neddf Moses, eto parhausant i gyflawni eu defodau eilunaddolgar. Gan na dderbyniai yr Iuddewon ar ol caethiwed Babilon eu cynnyg i gyd-adeiladu y deml, troisant i achwyn arnynt wrth frenin Persia. (Ezra iv. 1. Neh. iv. 1.) Ar ol hyn adeiladasant deml ar fynydd Gerazim, mewn cyfeiriad at Deut. xxvii. 11, a sefydlasant wasanaeth crefyddol yn ol deddf Moses. Yn y flwyddyn 167 cyn Crist, pan oedd Antiochus Epiphanes yn frenin Syria, darfu i'r Samariaid gyssegru eu teml i Jupiter; ond dychwelasant ar ol hyny at grefydd Moses.

Yn y flwyddyn 129 cyn Crist, darfu i John Hyrcanus ddinystrio eu teml; er hyny parhäai y Samariaid i ystyried mynydd Gerazim fel lle santaidd, ac eisteddle gwasanaeth Duw. (Ioan iv. 20, 21.) Gwnai y Samariaid, o'r ochr arall, eu gwaethaf i boeni a drygu yr Iuddewon. O herwydd y pethau hyn, yr oedd teimlad drwg rhyngddynt a'r Iuddewon; ac nid oedd yn ddiogel i Iuddewon wrth fyned o Galilea i Jerusalem i deithio trwy Samaria. Nid oedd y Samariaid yn derbyn o'r Ysgrythyrau ond pum' llyfr Moses. Yr oeddynt hwy, fel yr Iuddewon, yn dysgwyl y Messiah (Ioan iv. 25), a daeth llawer o honynt yn ganlynwyr i Fab Duw. (Ioan iv. 39. Act. ix. 31, xv. 3.)

Ymddengys oddiwrth Ioan iv. 12, fod y Samariaid yn amser Crist yn awyddus i gael eu hystyried fel disgynyddion o Jacob; diau fod rhai o honynt wedi ymgymmysgu â'r Iuddewon trwy briodas (Ezra x. 2, 4. Neh. xiii. 23. Mal. ii. 11); er hyny, nid yw y Beibl yn eu cydnabod fel rhai o'r un gwaed â'r Iuddewon. Awgryma y bygythiad yn 2 Bren. xxi. 13, fod yr Israeliaid wedi cael eu cludo ymaith yn llwyr o Samaria, fel nad oedd yn y wlad ond ychydig o bobl i'r Samariaid gyfathrachu â hwynt

trwy briodas. Nid oeddynt yn honi gwaedoliaeth Israelaidd pan yn ceisio cael cydadeiladu y deml, ond yn hytrach yn cydnabod mai Cenedloedd oeddynt. (Ezra iv. 2.) Gelwir hwynt yn genedl estronol *(allogenês)* yn y Testament Newydd (Luc xvii. 18), a chan Josephus (*Antiq.* B. ix. ch. xiv. 3. B. xi. ch. viii. 6); a dywed Robinson (yn y *Biblical Researches in Palestine*, vol. iii. p. 106) nad yw eu gweddeg *(physiognomy)* yn yr oes hon yn un Iuddewig.

Y Libertiniaid.—Gair Lladin yw hwn (Act. vi. 9), yn golygu y *Rhai Rhyddedig (Freed-men)*, a chyfeiria, mae'n ymddangos, at Iuddewon, y rhai a gaethgludasid i Rufain yn y flwyddyn 63 cyn Crist, gan Pompey, y cadfridog Rhufeinig, ond a gawsant eu rhyddhau gan eu meistriaid, ac a sefydlasant yn Rhufain fel Rhufeiniaid *rhyddedig;* a daeth yr enw y *Rhai Rhyddedig* yn enw gwahaniaethol arnynt gan Iuddewon Jerusalem. Dywed Philo fod rhan helaeth o ddinas Rhufain yn cael ei chyfaneddu gan Iuddewon o'r nodwedd yma; a chofnoda Tacitus fod pedair mil o Iuddewon rhyddedig wedi cael eu halltudio ar unwaith i Sardinia. Os cyfeiriad sydd yn y lle uchod at Iuddewon rhyddedig a breswylient Rhufain, rhaid mai ar ymweliad â Jerusalem yr oedd y rhai hyn ar yr adeg dan sylw. Tybia ereill, modd bynag, mai Iuddewon rhyddedig wedi dychwelyd i fyw i Jerusalem a olygir yn y lle uchod, y rhai, yn nghydag Iuddewon o'r lleoedd ereill a enwir, a feddent synagog neillduol cydrhyngddynt.

Y Stoiciaid.—Sylfaenydd y sect hon oedd Zeno, brodor o Citium, Cyprus, yr hwn a flodeuodd tua thri chan' mlynedd cyn Crist. Pan tua deg ar hugain oed, aeth Zeno i Athen, lle yr ymroddodd i fyfyrio athroniaeth. Wedi myfyrio am ugain mlynedd, agorodd ysgol mewn rhyw gyntedd *(porch)* lle yr arferasai y beirdd ag ymgynnull yn flaenorol. Y gair Groeg am borth neu gyntedd yw *stoa*, am hyny gelwid dysgyblion Zeno *hoi Stoikoi*=GWYR Y PORTH, neu y Stoiciaid. Dysgai y Stoiciaid y dylai dyn fawrygu rhinwedd er ei mwyn ei hun, a darostwng ei nwydau o dan lywodraeth ei reswm, a dyfod yn annibynol ar ffynnonellau arferol gofid a llawenydd, ac nad ydyw i ofidio yn ngwyneb trallodau, na llawenychu mewn llwyddiant a chysur. Yr oedd tuedd y gyfundrefn hon i wneyd ei phroffeswyr yn rhagrithwyr, gan nas gallent fod mor annibynol ar yr hyn sydd yn dylanwadu ar ddyn ag y mynent i ereill gredu; nid oedd gallu ynddi i droi y galon at santeiddrwydd: ac mor bell ag y dylanwadai ar ddynion, yr oedd yn tueddu i sychu ymaith bob cydymdeimlad o'r byd, a gwneyd dynion yn fath o ddelwau symmudol difywyd. Yr oeddynt yn credu mewn tynged, ac felly yn gwadu Rhagluniaeth Duw, a chyfrifoldeb dyn. Nid rhyfedd i'r blaid hon wawdio Paul a'i genadwri. (Act. xvii. 18.)

Yr Epicureaid. — Ganwyd Epicurus, sylfaenydd y sect hon, yn Samos, ynys yn y Môr Ægeaidd, cyn Crist, 342. Yn 306 cyn Crist ymsefydlodd yn Athen. Swm a sylwedd ei gyfundrefn oedd mai *dedwyddwch yw y daioni mwyaf.* Y dedwyddwch a gymmeradwyai efe ydoedd *tawelwch meddwl fel canlyniad meithriniad rhinwedd.* Yr oedd ei gyfundrefn

ef ei hun yn llawer purach na'r hon a ddysgai ei ganlynwyr mewn adegau diweddarach. Gan nad oedd gallu yn cydfyned â'i gyfundrefn i adferu natur dyn, nid oedd ei hegwyddorion amgen na llythyren farw. Y dedwyddwch a geisiai ei ganlynwyr ar ol ei oes ef, oedd boddhad y nwydau anifeilaidd. Ystyrient nad oedd y duwiau yn talu sylw i amgylchiadau dynion, ac nad oes Rhagluniaeth yn goruwchlywodraethu dyn, na barn o'i flaen. Nid oedd llawer o lwydd i'w ddysgwyl ar yr efengyl yn mhlith y trythyllwyr anffyddol hyn. Nid yw Luc yn cofnodi hanes dychweliad neb o'r Epicureaid a'r Stoiciaid. (Act. xvii. 18, 32.)

Y GNOSTICIAID.—Nid ydym yn cyfarfod â'r enw yma yn y Testament Newydd; y mae er hyny gyfeiriadau mynych a diamheuol at yr hereticiaid a elwir mewn hanesiaeth eglwysig y Gnosticiaid. Ystyr y gair yw y *Rhai Gwybodus*, am y proffesent eu bod yn ddoethach nag ereill, ac wedi cyrhaedd gwybodaeth ag oedd i'w dyrchafu i ddedwyddwch pur. Deillia'r gair o'r ferf Roegaidd *γινώσκω—ginôskô=gwybod;* o hwn cawn yr enwau *gnsôis=gwybodaeth*, a *gnôstês=dyn yn gwybod yn dda* (Act. xxvi. 3); a'r ansoddair *gnôstikos=gwybodus; hoi gnôstikoi=y rhai gwybodus, y rhai a honent eu bod yn ddoethach nag ereill*, y *Gnosticiaid.* Cyfeirir at yr ymffrost hwn o'u heiddo yn Col. ii. 8. 1 Tim. vi. 20.

Mae yn anhawdd gwybod yn sicr pa fodd i gyfrif am olygiadau y Gnosticiaid, a pha bryd y dechreuasant. Fe fernir fod eu golygiadau i'w priodoli i dair ffynnonell, sef i olygiadau Plato a'r athronwyr Groegaidd, y Cabbaliaid * Iuddewig, a Christionogaeth, a'u bod yn dechreu ymddangos o dan un ffurf neu'r llall cyn genedigaeth Crist, ac mai Simon Magus

* Deillia y gair Cabbala (קבלה) o'r ferf Hebraeg *cabal* (קבל), yr hon yn y Piel a olyga *derbyn, derbyn addysg er mwyn cydffurfio â hi* (Diar xix. 20): ac mewn hanesiaeth Iuddewig ddiweddar a olyga *derbyn trwy draddodiad.* Golyga y gair Cabbala yn gyffredin y crynhodeb o draddodiadau a dderbyniai yr Iuddewon yn nghylch dehongliadau cyfriniol a dirgelaidd o bethau Duw, a dychymmygion athronyddol yn nghylch y Bôd o Dduw a gwrthddrychau ereill, y rhai, meddent hwy, a drosglwyddwyd i lawr o'r oesau boreuaf. Honai yr Iuddewon fod Duw wedi dysgu gwahanol bethau i Adda, Abraham, a Moses, y rhai a drosglwyddwyd o un oes i'r llall, trwy draddodiadau anysgrifenedig, hyd nes y darfu i Ezra eu dwyn i ffurf ysgrifenedig. Er nad oes sail i gredu y fath beth am Ezra, a *bod* sail i gredu mai Rabbi Jehuda, tua'r flwyddyn A.D. 220, ar ol deugain mlynedd o lafur yn eu casglu, a gyhoeddodd y traddodiadau gyntaf mewn llyfr, eto mae'n amlwg fod traddodiadau lawer yn mhlith yr Iuddewon ugeiniau o flynyddau cyn geni Crist; ymddengys hefyd eu bod yn cynnwys llawer o syniadau wedi eu cael mewn rhan oddiwrth y Caldeaid yn ystod caethiwed Babilon ac ar ol hyny, ac mewn rhan oddiwrth y Groegiaid trwy gyssylltiad yr Iuddewon â hwynt yn ysgolion athronyddol Alexandria.

Mae y llythyrenau Hebraeg yn golygu rhif neillduol; os dygwydda geiriau mewn gwahanol leoedd a'u llythyrenau wedi eu rhifo i fyny yn gwneyd yr un cyfanrif, dysgai y Cabbaliaid y gellid cymmeryd y naill am y llall; a thrwy ffyrdd ereill cyffelyb, dirdynent yr Ysgrythyrau i olygu unrhyw beth a ewyllysient, ac i ddysgu pethau hollol groes i'w meddwl priodol, gan eu "gwyrdroi i'w dinystr eu hunain:" gwel *Eadie's Ecclesiastical Cyclopædia,* "Cabbala;" *Jennings's Jewish Antiquities*, p. 277; a *Burton's Bampton Lectures,* Note 14.

oedd yr arch heretic a'u dygodd i gyhoeddusrwydd neillduol, ac a barodd y fath lwydd a gwasgariad iddynt yn yr oes apostolaidd, a'r oes 'ganlynol.

*Egwyddor sylfaenol* cyfundrefn y Gnosticiaid oedd fod defnydd (*matter*) *yn hanfodol ddrwg*, ac amcan y gyfundrefn oedd *puro dynion oddiwrth halogrwydd defnydd, a'u dyrchafu i raddfa uwch o fodolaeth, yr hon a berthyn yn unig i'r rhai perffaith mewn gwybodaeth.* Gan fod defnydd yn hanfodol ddrwg, nis gallai Duw (meddent hwy), fod yn Greawdwr iddo, ac felly mai nid yr un bôd oedd Creawdwr y byd a'r gwir Dduw, a Thad Crist; ac mai y bôd yma, yr hwn a greodd y byd oedd Duw yr Iuddewon, ac Awdwr yr hen oruchwyliaeth. Yr oedd y Duw Goruchaf, trwy ei weithrediadau meddyliol, yn cynnyrchu bodau ereill îs nag ef ei hun, y rhai a elwid *Æons=oesau*, oddiwrth gyfnodau eu bodolaeth cyn dechreu amser. Dau o'r Æoniaid diweddaf oedd Crist a'r Ysbryd Glân. Gan fod defnydd yn hanfodol ddrwg, dywedai y Gnosticiaid na ddarfu i Grist ymgnawdoli yn wirioneddol, ond mewn ymddangosiad yn unig; neu os oedd y fath ddyn a elwid Iesu yn bodoli, na ddisgynodd Crist arno hyd ei fedydd; ac na ddyoddefodd mewn gwirionedd ei hun, neu fod Crist wed gadael y dyn Iesu pan oedd ar y groes, neu mai Simon o Cyrene a groeshoeliwyd yn lle y Gwaredwr. Parai y golygiad yma ar ddefnydd iddynt hefyd o anghenrheidrwydd wadu adgyfodiad Crist, ac adgyfodiad y meirw yn gyffredinol; a chan mai y corph, yn ol eu tyb hwy, ydyw eisteddle llygredd a drygioni mewn dyn, barnent mai y ffordd i buro dyn ydoedd trwy wasgu ar y corph a'i gadw i lawr; tra y dysgai ereill ei fod yn hollol gyfreithlon i feithrin y nwydau a'r chwantau, gan nas gallai chwantau y cnawd effeithio dim ar yr ysbryd. Gwnaeth eu golygiad am Dduw yr Iuddewon a Phen yr hen oruchwyliaeth iddynt wadu Dwyfoldeb Ysgrythyrau yr Hen Destament. Dysgent fod dæmoniaid Plato ac angylion y Beibl yr un bodau, a phriodolent greadigaeth y byd i angylion drwg, y rhai wrth wneuthur hyny a weithredent yn groes i ewyllys y Goruchaf. Dysgai y Cabbaliaid Iuddewig fod deg math o urddau o angylion, y rhai (ebe Tertullian, a Chlement o Alexandria), a addolai y Gnosticiaid. Dyna sylwedd eu daliadau. Gwahaniaethent ychydig ar ryw bwyntiau oddiwrth eu gilydd; ond gellir ystyried y pethau uchod, ar y cyfan, fel pwyntiau ar ba rai yr oedd cydgordiad lled gyffredinol yn eu plith.

Yn awr, edrychwn fel y mae amryw ranau o'r Testament Newydd wedi eu bwriadu i wrthweithio gwenwyn y gyfundrefn hon, a throi yn ol ei chyfeiliornadau. Yr oedd, fel y gwelir, yn myned o dan sylfaen athrawiaethau hanfodol yr efengyl.

(1,) *Gwirioneddolrwydd ymgnawdoliad Crist.*

Fel y sylwyd, gwadai yr holl Gnosticiaid fod Duw wedi ymddangos yn y cnawd. Dywed Ignatius (yr hwn fu farw A.D. 116), yn ei Epistol at Eglwys Smyrna, fel y canlyn gyda golwg ar yr heresi hon:—"Oblegyd os mewn ymddangosiad yn unig y gwnaed y pethau hyn gan ein Harglwydd, nid wyf finau ond carcharor mewn ymddangosiad yn unig. Pa leshad i

mi, os bydd i ddyn fy nghanmol i, tra yn cablu fy Arglwydd, *heb gydnabod fod ganddo gorph gwirioneddol ?*" Yn ngwyneb yr heresi hon, y mae grym ac ystyr neillduol yn yr adnodau canlynol:—

"A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd, ac a drigodd yn ein plith ni (ac ni a welsom ei ogoniant ef, gogoniant megys yr Uniganedig oddiwrth y Tad), yn llawn gras a gwirionedd." (Ioan i. 14.)

"Wedi hyny y dywedodd efe wrth Thomas, Moes yma dy fys, a gwel fy nwylaw; ac estyn dy law, a dod yn fy ystlys: ac na fydd annghredadyn, ond credadyn. A Thomas a atebodd ac a ddywedodd wrtho, Fy Arglwydd, a'm Duw." (Ioan xx. 27, 28.)

"Yr hyn oedd o'r dechreuad, yr hyn a glywsom, yr hyn a welsom â'n llygaid, yr hyn a edrychasom arno, ac a deimlodd ein dwylaw am Air y bywyd; (canys y bywyd a eglurhawyd, ac ni a welsom, ac ydym yn tystiolaethu, ac yn mynegi i chwi y bywyd tragywyddol, yr hwn oedd gyda'r Tad, ac a eglurhawyd i ni)." (1 Ioan i. 1, 2.)

"Anwylyd na chredwch bob ysbryd, eithr profwch yr ysbrydion ai o Dduw y maent: oblegyd y mae gau brophwydi lawer wedi myned allan i'r byd. Wrth hyn adnabyddwch Ysbryd Duw: Pob ysbryd a'r sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw y mae. A phob ysbryd a'r nid yw yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, nid yw o Dduw: eithr hwn yw *ysbryd* annghrist, yr hwn a glywsoch ei fod yn dyfod, a'r awrhon y mae *efe* yn y byd eisioes." (1 Ioan iv. 1—3.)

"Oblegyd y mae twyllwyr lawer wedi dyfod i mewn i'r byd, y rhai nid ydynt yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd. Hwn yw y twyllwr a'r annghrist." (2 Ioan 7.)

(2,) *Gwirioneddolrwydd dyoddefiadau Crist.*

Dywed Ignatius ar hyn hefyd fel y canlyn:—"Fe ddaeth efe *yn wirioneddol* o linach Dafydd; fe'i ganwyd ef *yn wirioneddol* o forwyn; fe'i hoeliwyd ef *yn wirioneddol* ar y groes *yn y cnawd* drosom ni, yn amser Pontius Pilat a Herod y Tetrarch,—oblegyd efe a ddyoddefodd yr holl bethau hyn, fel y byddem gadwedig; ac fe ddyoddefodd *mewn gwirionedd*, ac fe adgyfododd ei hun *mewn gwirionedd;* nid fel y dywed rhai annghredinwyr mai *mewn ymddangosiad* y dyoddefodd, am mai (Cristionogion) mewn ymddangosiad ydynt hwy eu hunain."

Yn gyffelyb y dywed Irenæus (yr hwn a fu farw A.D. 202):—"Gan fod yr Arglwydd (eb efe) wedi ein prynu ni â'i waed, a rhoddi ei fywyd dros ein bywydau ni, a'i gnawd ei hun dros ein cnawd ni, y mae holl athrawiaethau yr hereticiaid yn cael eu dymchwelyd. Oblegid ynfyd ydynt hwy, y rhai a ddywedant mai mewn ymddangosiad yn unig y dyoddefodd; canys nid mewn ymddangosiad y cymmerodd y pethau hyn le, ond *mewn gwirionedd.*"

Cawn gyfeiriad at y cyfeiliornad hwn, mae'n debyg, yn y lleoedd canlynol:—

"A chwithau, y rhai oeddych ddyeithriaid, a gelynion mewn meddwl trwy weithredoedd drwg, yr awrhon hefyd a gymmododd efe, yn nghorph ei gnawd ef trwy farwolaeth," &c. (Col. i. 21, 22.)

"Eithr bu gau brophwydi hefyd yn mhlith y bobl, megys ag y bydd gau athrawon yn eich plith chwithau; y rhai yn ddirgel a ddygant i mewn heresiau dinystriol, a chan wadu yr Arglwydd yr hwn a'u prynodd hwynt, ydynt yn tynu arnynt eu hunain ddinystr buan." (2 Pedr ii. 1.)

"Dyma yr hwn a ddaeth trwy ddwfr a gwaed, *sef* Iesu Grist; nid trwy ddwfr yn unig, ond trwy ddwfr a gwaed. A'r Ysbryd yw yr hwn sydd yn tystiolaethu, oblegyd yr Ysbryd sydd wirionedd." (1 Ioan v. 6.)

(3,) *Gwirioneddolrwydd adgyfodiad Crist a'r adgyfodiad cyffredinol.*

Ceisient esbonio athrawiaeth yr adgyfodiad ymaith, gan haeru mai iaith ffugyrol ydyw, fel yr awgrymir yn y lleoedd canlynol:—

"Cofia gyfodi Iesu Grist o hâd Dafydd, o feirw, yn ol fy efengyl i. Y rhai o ran y gwirionedd a gyfeiliornasant, gan ddywedyd ddarfod yr adgyfodiad eisioes; ac y maent yn dadymchwelyd ffydd rhai." (2 Tim. ii. 8, 18.)

"Ac os pregethir Crist, ei gyfodi ef o feirw; pa fodd y dywed rhai yn eich plith chwi, nad oes adgyfodiad y meirw?" (1 Cor. xv. 12.)

(4,) *Addoliad angylion.*

Dywedwyd eisioes fod y Gnosticiaid yn rhoddi addoliad i angylion; cyfeirir at hyn yn Col. ii. 18:—"Na thwylled neb chwi am eich gwobr, wrth ei ewyllys, mewn gostyngeiddrwydd, ac addoliad angylion, gan ruthro i bethau nis gwelodd, wedi ymchwyddo yn ofer gan ei feddwl cnawdol ei hun."

(5,) *Unoliaeth Person Crist, a'i berthynas a'r Tad.*

Ceisiai y Gnosticiaid wahaniaethu rhwng Iesu a Christ, fel pe buasent ddau berson, weithiau mewn undeb â'u gilydd, ac weithiau ar wahan; gwadent ei Dduwdod priodol, a gwadent safle Duw fel Creawdwr a Llywydd y bydoedd; mae'n ymddangos fod cyfeiriad at y syniadau hyn yn y lleoedd canlynol:—

"Pwy yw y celwyddog, ond yr hwn sydd yn gwadu nad Iesu yw y Crist? Efe yw yr anghrist, yr hwn sydd yn gwadu y Tad a'r Mab." (1 Ioan ii. 22.)

"Wrth hyn adnabyddwch Ysbryd Duw: Pob ysbryd a'r sydd yn cyffesu ddyfod Iesu Grist yn y cnawd, o Dduw y mae." (1 Ioan iv. 2.)

"Pwy bynag a gyffeso fod Iesu Grist yn Fab Duw, y mae Duw yn aros ynddo ef, ac yntau yn Nuw." (1 Ioan iv. 15.)

"Pob un a'r sydd yn credu mai Iesu yw y Crist, o Dduw y ganed ef: a phob un a'r sydd yn caru yr hwn a genedlodd, sydd yn caru hefyd yr hwn a genedlwyd o hono." (1 Ioan v. 1.)

"Pwy yw yr hwn sydd yn gorchfygu y byd, ond yr hwn sydd yn credu mai Iesu yw mab Duw?" (1 Ioan v. 5.)

(6,) *Ysbrydoliaeth yr Hen Destament.*

Awgrymwyd yn barod fod y Gnosticiaid yn diystyru Ysgrythyrau yr Hen Destament; dichon fod Paul a Phedr yn golygu gwrthweithio eu syniadau hwy, yn ogystal a dwyn tystiolaeth i Ddwyfoldeb yr Hen Destament, yn yr adnodau canlynol:—

"Yr holl Ysgrythyr *sydd* wedi ei rhoddi gan ysbrydoliaeth Duw, ac *sydd* fuddiol i athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder; fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda." (2 Tim. iii. 16, 17.)

"Ac y mae genym air sicrach y prophwydi; yr hwn da y gwnewch fod yn dal arno, megys ar ganwyll yn llewyrchu mewn lle tywyll, hyd oni wawrio y dydd, ac oni chodo y seren ddydd yn eich calonau chwi: gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr o ddeongliad priod. Canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth; eithr dynion santaidd Duw a lefarasant *megys* y cynhyrfwyd *hwy* gan yr Ysbryd Glân." (2 Pedr i. 19—21.)

(7,) *Achau anorphen.*

Yn ol cyfundrefn y Gnosticiaid, yr oedd y Goruchaf yn cynnyrchu bodau ereill fel îs-dduwiau, y rhai a elwid *Æoniaid*, o ba rai y ddau ddiweddaf oedd Crist a'r Ysbryd Glân; gelwid y cynnyrchiadau hyn yn ddeilliadau *(emanations)* o'r Goruchaf, a thybir gan rai beirniaid fod Paul yn cyfeirio atynt yn y lleoedd canlynol pan yn defnyddio y gair *achau*:—

"Ac na ddaliont ar chwedlau, ac achau anorphen, y rhai sydd yn peri cwestiynau yn hytrach nag adeiladaeth dduwiol, yr hon sydd trwy ffydd." (1 Tim. i. 4.)

"Eithr gochel gwestiynau ffol, ac achau, a chynnenau, ac ymrysonau yn nghylch y ddeddf: canys anfuddiol ydynt ac ofer." (Tit. iii. 9.)

Dywed Dr. Burton nad ydyw yn debygol mai at achau Iuddewig y cyfeirir, gan na fuasai i'r rhai hyny achosi llawer o gyffro yn mhlith credinwyr Ephesus, yn mhlith pa rai yr oedd Timotheus (1 Tim. i. 3), na gwneuthur llawer o niwaid iddynt; nad oedd yr achau Iuddewig ychwaith uwchlaw eu dirnadaeth fel yr oedd yr achau hyn (1 Tim. i. 7); a'i fod yn amheus hefyd a fuasai Paul yn dynodi gwybodaeth gywir am achyddiaeth Iuddewig yn *gwestiynau ffol*, gan mai ar y rhai hyn y gorphwysai achyddiaeth Crist. (Act. xiii. 23. 2 Tim. ii. 8.) Ond (fel y sylwa Ellicott) gan fod yr heresiau a'r cyfeiliornadau a wrthwynebir yn Epistolau Paul at Timotheus a Titus, yn ymddangos yn dra thebyg i'w gilydd, a bod y "chwedlau" (1 Tim. i. 4) yn un yn cael eu neillduoli fel rhai "Iuddewaidd" yn y llall (Tit. i. 14) a bod yr "achau" yn cael eu cyssylltu âg

"ymrysonau yn nghylch y ddeddf" (Tit. iii. 9), mae yn ymddangos fod yn rhaid i ni ddeall y cyferiad at ddysgawdwyr Iuddewig ;* ond o'r ochr arall, ymddengys fod y dysgawdwyr hyn eu hunain wedi cael eu gwenwyno â'r heresi Gnosticaidd, ac yn dysgu rhyw gymmysgedd o chwedlau Iuddewig, dychymmygion gwylltion y Gnosticiaid, ac athrawiaethau yr efengyl. Dysgent barhad diddiwedd deddf Moses, heb ddeall ei bod wedi ei diddymu yn Nghrist (1 Tim. i. 7) ; yr anghenrheidrwydd i ymattal oddiwrth fwydydd, a pheidio priodi, a meudwyaeth (1 Tim. iv. 1—3), yn unol âg egwyddor sylfaenol Gnosticiaeth yn nghylch drygedd hanfodol defnydd, a natur santeiddrwydd; ac fel hyn ymffrostient eu bod hwy yn feddiannol ar philosophi a gwybodaeth *(gnôsis)* yr hon oedd yn gallu treiddio trwy ddirgelion (Col. ii. 8. 1 Tim. vi. 20), a diystyrent ffydd *(pistis)* ddiysgog gwir blant Duw yn ngwirioneddau dadguddiedig y Beibl, fel ynfydrwydd plentynaidd.

(8,) *Dylanwad Moesol Gnosticiaeth.*

Sylwyd fod y gyfundrefn yn arwain rhai o'i chofleidwyr i boenydio a chosbi eu cyrph, ac ymattal oddiwrth bethau cyfreithlon, er mwyn cyrhaedd perffeithrwydd trwy hyny; gwneir cyfeiriad amlwg at hyn yn y lleoedd canlynol :—

"Yr hyn bethau sydd ganddynt rith doethineb mewn ewyllys-grefydd, a gostyngeiddrwydd, a bod heb arbed y corph, nid mewn bri i ddigoni y cnawd." (Col. ii. 23.)

"Ac y mae yr Ysbryd yn eglur yn dywedyd yr ymedy rhai yn yr amseroedd diweddaf oddiwrth y ffydd, gan roddi coel i ysbrydion cyfeiliornus, ac i athrawiaethau cythreuliaid; yn dywedyd celwydd mewn rhagrith, a'u cydwybod eu hunain wedi ei serio â haiarn poeth; yn gwahardd priodi, *ac yn erchi* ymattal oddiwrth fwydydd, y rhai a greodd Duw i'w derbyn, trwy roddi diolch, gan y ffyddloniaid a'r rhai a adwaenant y gwirionedd. Oblegyd *y mae* pob peth a greodd Duw yn dda, ac nid *oes* dim i'w wrthod, os cymmerir trwy dalu diolch. Canys y mae wedi ei santeiddio gan air Duw a gweddi." (1 Tim. iv. 1—5.)

Hyn oedd dechreuad monachaeth, ag sydd hyd heddyw yn cael y fath fri mewn cyfundebau crefyddol dirywiedig; proffesa geisio santeiddio natur dyn trwy gosbi y corph yn hytrach na thrwy ddylanwad gair y gwirionedd ac Ysbryd Duw ar y galon, yn ol yr efengyl.

Yr oedd ereill o'r Gnosticiaid yn myned i'r eithafoedd gwrthgyferbyniol, ac yn ymwerthu bechod *oddiar egwyddor* ac *yn fwriadol.* Ni allai chwantau y cnawd effeithio dim ar yr enaid, meddent hwy. Gwawdient y ddeddf foesol, gan haeru mai un o'r îs-dduwiau a'i rhoddasai. Bernir fod cyfeiriad neillduol at eu bywyd annuwiol ac aflan yn y lleoedd canlynol :— 2 Tim. iii. 1—7. 1 Ioan ii. 4. Tit i. 10—16. 1 Pedr ii. 16. 2 Pedr xviii. 19. Judas 4.

* Gellid galw yr "achau" Iuddewig yn rhai "anorphen," mewn gormodiaith gyffredin am feithder poenus y cyfryw, fel y sylwa Alford ; neu gall y gair a gyfieithir "anorphen" olygu *difudd, diles,* fel y sylwa Rose, golygydd Geiriadur Groeg Parkhurst.

Ymddengys mai math o Gnosticiaid oedd y Nicolaiaid y cyfeirir atynt yn Dad. ii. 6, 15. Dysgent nad oedd niwaid yn y byd i fwyta o bethau wedi eu haberthu i eilunod, ac felly ymddangos i ereill fel eilunaddolwyr, a thrwy hyny ochelyd erlidigaeth, a phorthi eu llygredd trwy buteinio a godinebu; dysgent y pethau hyn er ennill proselytiaid, a gochelyd cynddaredd gelynion achos Crist. Yn ol eu barn hwy nid oedd Duw yn casbau rhagrith a phechod, ac yn caru santeiddrwydd a rhinwedd, ac yn galw ar ei ganlynwyr i'w arddel ef trwy bob tywydd, a chadw eu gwisgoedd yn lân rhag pob halogrwydd hyd angeu; ond codent y llif-ddorau i ffrydiau llygredigaeth a chnawdolrwydd i orlifo y byd ag aflendid, euogrwydd, a gwae!

Gwel ar y *Sectau a Hynafiaethau Iuddewig,—Josephus; Jennings's Jewish Antiquities; Jahn's Bibl. Antiquities; Horne's Introd.* vol. iii; *Robinson's Greek Lexicon; Bible Hand-Book;* a'r gwahanol Eiriaduron Duwinyddol.—Ar yr *Epicureaid a'r Stoiciaid,—Dr. W. Smith's Classical Dictionary.*—Ar y *Gnosticiaid,—Kurtz a Neander's Church Histories;* a *Dr. Burton's Bampton Lectures on the Heresies of the Apostolic Age.*

## PENNOD IV.

### IEITHWEDD, FFUGYRAU YMADRODD, A BARDDONIAETH Y BEIBL.

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Ieithwedd Hebreig—Ffugyrau Ymadrodd, Cymhariaethau, a Dammegion—Barddoniaeth y Beibl—Y Salmau—Dosraniadau o Farddoniaeth y Beibl—Amrywiol fathau o Gyfochraeth—Manylion ereill perthynol i Farddoniaeth y Beibl.*

MAE adnabyddiaeth o deithi meddyliol Dwyreinwyr yn dra anghenrheidiol er deall y Beibl, gan eu bod yn gosod eu meddyliau allan mewn modd tra gwahanol, ar amryw ystyriaethau, i'r ffordd a fabwysiadwn ni. Ni chawn yma ond cyfeirio at ychydig o engreifftiau er egluro hyn.

I. FFORDD NEILLDUOL YR IUDDEWON I OSOD EU MEDDYLIAU ALLAN.

(1.) *Nodweddau Gwrthddrychau.*

Nid oeddynt yn gwneyd defnydd mor helaeth o ansoddeiriau a chenedloedd ereill, ond yn gyffredin defnyddient ddau enw, yn lle enw ac ansoddair; a defnyddient hefyd y gair "mab" i osod allan nodwedd. Er engraifft:—

Cawn "air ei nerth" am *ei air nerthol.* (Heb. i. 3.)

,, "mynydd dy santeiddrwydd" am *dy fynydd santaidd.* (Salm xv. 1.)

,, "gwisgoedd dy ogoniant" am *dy wisgoedd gogoneddus.* (Esai. lii. 1.)

Felly hefyd gyda'r gair "mab:"—

Cawn "meibion anghall" am *ddynion ffol.* (Jer. iv. 22.)

Cawn (yn Hebraeg) "mewn bryn mab yr olew" am *mewn bryn tra ffrwythlawn.* (Esai. v. 1.)

,, "meibion y daran" am *ddynion taranllyd.* (Marc iii. 17.)

,, "meibion yr Ethiopiaid" am *yr Ethiopiaid eu hunain.* (Amos ix. 7.)

,, "mab pum' can' mlwydd" am *ddyn pum' cant oed.* (Gen. v. 32.)

,, "plant y goleuni" am *ddynion goleuedig.* (Ioan xii. 36.)

,, "plant y byd hwn" am *ddynion bydol-frydig.* (Luc xvi. 8.)

Bryd arall defnyddir y gair "mab" i osod allan gyssylltiad o fath arall:—

Cawn "mab uffern" am un yn *haeddu uffern*, un yn perthyn i uffern, un o dan ddylanwad uffern, ac i gael ei gosbi yn uffern. (Mat. xxiii. 15.)

,, (yn Hebraeg) "mab angeu" am *un euog o farwolaeth.* (2 Sam. xii. 15.)

,, "mab y golledigaeth" am *un wedi ei gondemnio i ddinystr.* (2 Thes. ii. 3.)

,, "plant digofaint" am *rai wedi eu dedfrydu i oddef digofaint* o herwydd eu pechodau. (Eph. ii. 3.)

Defnyddiai yr Iuddewon y geiriau "tad" a "brawd" mewn modd ëang ac anmhennodol yn fynych.

Dywedir yn Exod. ii. 18, 19, fod Reuel yn dad i wraig Moses, tra y dengys Num. x. 29, mai ei thaid ydoedd. Yn Gen. xiv. 16, gelwir Lot yn frawd i Abraham, ond yn Gen. xi. 31, dywedir mai nai i Abraham ydoedd. Yn Gen. xxix. 12, cawn Jacob yn mynegi i Rahel "mai brawd ei thad oedd efe;" ond yn Gen. xxviii. 5, dywedir fod Laban yn ewythr iddo, "brawd Rebeccah, mam Jacob ac Esau." Weithiau golyga "brawd" un o'r un llwyth (2 Sam. xix. 12), bryd arall un o'r un wlad (Barn. xiv. 3), ac weithiau cyfaill (Job vi. 15). Gwna cofio hyn gyssoni amryw adnodau â'u gilydd, megys y rhai uchod, 2 Bren. viii. 26 â'r 18 adnod o'r un bennod, yn nghydag engreifftiau ereill cyffelyb.

Dywed teithwyr fod preswylwyr Palestina a Syria yn defnyddio y geiriau hyn yr un mor anmhennodol yn awr ag yn y cyfnodau y cyfeiria y Beibl atynt. (*Dr. Hackett's Illustrations of Scripture*, pp. 118, 119.)

(2,) *Arddull orlawn a diffygiol.*

Weithiau y mae arddull y Beibl yn orlawn:—

"Efe a *agorodd* ei enau, ac a'u dysgodd hwynt." (Mat. v. 1.)

"Efe a *gododd*, ac a aeth at ei dad." (Luc xv. 20.)

"Efe a *gyfododd*, ac a fedyddiwyd." (Act. ix. 18.)

Ystyria Grammadegwyr y geiriau "agorodd" a "chyfododd" yn yr adnodau uchod yn engreifftiau o arddull orlawn, gan nad oes eu heisieu er gwneyd y synwyr yn eglur.

Weithiau, o'r ochr arall, mae'r arddull yn ddiffygiol, yr hyn sydd yn gwneyd rhai brawddegau yn aneglur:—

Luc xix. 42, "Gan ddywedyd, Pe gwybuaist dithau, ïe, yn dy ddydd hwn, y pethau *a berthynent* i'th heddwch! eithr y maent yn awr yn guddiedig oddiwrth dy lygaid."

Mae teimlad a chynhyrfiadau ymysgaroedd yr Iesu yn ei attal i fyned yn mlaen i draethu am wynfyd Jerusalem! "Pe gwybuasit dithau"—*O! mor ddedwydd fuasit; ni fuasai y Rhufeiniaid yu dyfod i drochi eu cleddyfau yn dy waed, ac ni fuasai phiolau llidiowgrwydd y nefoedd yn cael eu tywallt arnat!*

Rhuf. ix. 22, 23, "*Beth* os Duw, yn ewyllysio dangos *ei* ddigofaint, a pheri adnabod ei allu, a oddefodd trwy hirymaros lestri digofaint, wedi eu cymhwyso i golledigaeth: ac i beri gwybod golud ei ogoniant ar lestri trugaredd, y rhai a ragbarotôdd efe i ogoniant,"—*beth am hyny? onid oes ganddo hawl? pwy all ei feio? pa annghyfiawnder a wneir?*

Gwelir fod y frawddeg yn anorphenol o herwydd dwysder teimlad yr apostol, a'r llu o feddylddrychau a ymdyrent i'w feddwl wrth ymresymu ar ddyfnion bethau Duw.

Mat. xxv. 9, "A'r rhai call a atebasant—Rhag na byddo digon i ni ac i chwithau: ond ewch yn hytrach at y rhai sydd yn gwerthu, a phrynwch i chwi eich hunain."

Gwelir fod colliaith bwysig yn yr adnod hon; mae cyffroad grymus teimlad y morwynion doeth yn eu hattal i siarad, ond

ysgydwant eu penau, neu codant eu dwylaw, i ddangos eu bod yn gwrthod cydsynio. Cyflea y geiriau "*Nid felly*," yr ystyr, ond fod bywiogrwydd yr olygfa, a difrifoldeb yr amgylchiad, i raddau yn cael eu colli.

Heb. iv. 3, "Fel y tyngais yn fy llid, Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i." (Salm xcv. 11.)

Mae y geiriau hyn yn cynnwys colliaith; weithiau yn nglyn â'r gair *os*, cawn y rhan ddealladwy yn dilyn, neu yn rhagflaenu:—"Fel hyn y gwnelo Duw i mi, ac fel hyn y chwanego, os archwaethaf fara, na dim oll, cyn machludo haul." (2 Sam. iii. 35.) "Fel hyn y gwnelo Duw i mi, ac fel hyn y chwanego, os saif pen Eliseus, mab Saphat, arno ef heddyw." (2 Bren. vi. 31.) Yn yr adnod dan sylw, nid ydyw y syniad yn cael ei osod allan yn gyflawn; golyga y geiriau rywbeth fel y canlyn (er ein bod yn amheus am briodoldeb rhoddi ymadroddion yn ngenau y Duw mawr):—"Os ânt i mewn i'm gorphwysfa i" —*yna bydd fy awdurdod ar ben, a'r deyrnwialen wedi syrthio o'm llaw; bydd fy zel dros burdeb santeiddrwydd wedi darfod, a'r Anfeidrol wedi myned yn analluog i gyflawni ei air!* (Cymharer Salm vii. 4, 5, "Os telais ddrwg i'r neb oedd heddychol â mi—erlidied y gelyn fy enaid," &c.) Ond fe ateba mynwes pob un, a pherffeithderau y Goruchaf, fod hyny yn anmhossibl, ac na fydd hyny byth; gan hyny, mae y geiriau yn gyfystyr â'r cyfieithiad yn Salm xcv. 11, "Wrth y rhai y tyngais yn fy llid, na ddelent i'm gorphwysfa:" gwel *Gesenius's Heb. Gram.* § 155. 2. f. Ed. 1869.

Ioan v. 36, "Y mae genyf fi dystiolaeth fwy nag Ioan," hyny yw, fwy na *thystiolaeth* Ioan.

1 Cor. i. 25, "Canys y mae ffolineb Duw yn ddoethach na dynion; a gwendid Duw yn gryfach na dynion:" hyny yw, y mae ffolineb Duw yn ddoethach na *doethineb* dynion, a gwendid Duw yn gryfach na *nerth* dynion.

Gal. vi. 15, "Canys yn Nghrist Iesu ni ddichon enwaediad ddim, na dienwaediad, ond creadur newydd"—*sydd bob peth.*

Nid yw enwaediad o un fantais yn eglwys Dduw, na dienwaediad o un anfantais; nid pethau allanol a defodau cnawdol sydd yn rhoddi safle i ddyn yn nheyrnas Mab Duw, ond

adnewyddiad natur trwy ras, ac undeb â Christ trwy ffydd. Heb hyn, nid all dim lesoli dyn; ond trwy hyn y mae yn dyfod yn etifedd bywyd a hedd.

Esai. lii. 4, "Fy mhobl a aeth i waered i'r Aifft yn y dechreuad, i ymdaith yno; a'r Assyriaid a'u gorthrymodd yn ddiachos:" hyny yw, "A'r Assyriaid a'u gorthrymodd yn ddiachos" *yn awr;* cawsant eu gorthrymu yn awr gan yr Assyriaid fel y cawsant yn y dechreuad gan yr Aifftiaid.

1 Pedr iii. 19, 20, "Trwy yr hwn yr aeth efe hefyd ac a bregethodd i'r ysbrydion yn ngharchar; y rhai a fu gynt anufydd:" hyny yw, "Yr ysbrydion" *ag sydd yn awr* yn ngharchar, y rhai oeddynt gynt, pan mewn undeb â'u cyrph yn nyddiau Noah, yn anufydd.

2 Pedr iii. 13, "Eithr nefoedd newydd, a daear newydd, yr ydym *ni*, yn ol ei addewid ef, yn eu dysgwyl *(yn gyntaf)*, yn y rhai y mae cyfiawnder yn cartrefu."

Ymddengys fod colliaith cyffelyb i hyn yn yr adnod ddiweddaf, oblegyd y mae y nefoedd newydd a'r ddaear newydd yn gyfryw ag sydd "yn ol ei addewid ef;" yr addewid mae'n ddiau yw yr hon a geir yn Esai. lxv. 17; rhaid i'r nefoedd newydd a'r ddaear newydd yma olygu yr un peth ag yn Esaiah, neu ni fyddai y dysgwyliad "*yn ol* ei addewid ef." Mae yr addewid yn Esaiah yn cyfeirio at ogoniant crefydd ar y ddaear. Ymddengys fod y gair "*eithr*" yn cael ei ddefnyddio yma er rhoddi math o sicrwydd o'r hyn sydd i gymmeryd lle cyn y golosgiad, ac fe ddichon i ragflaenu camgymmeriad a allasai gyfodi yn meddyliau y darllenwyr oddiwrth yr hyn a ddywedasai Pedr am ddyfodiad sicr, diymaros, a disymmwth dydd yr Arglwydd. (adn. 9, 10.) Cymharer 2 Thes. ii. 1—3.

Barnai y cyfieithwyr weithiau fod diffygiaith pryd nad oedd, ac felly rhoddent ystyr amheus i rai adnodau; er engraifft:—

Heb. vii. 18, 19, "Canys yn ddiau y mae dirymiad i'r gorchymyn sydd yn myned o'r blaen, o herwydd ei lesgedd a'i afles. Oblegyd ni pherffeithiodd y gyfraith ddim, namyn dwyn gobaith gwell i mewn *a berffeithiodd;* trwy yr hwn yr ydym yn neshau at Dduw."

Mae y darlleniad canlynol yn gywirach ac eglurach: — "Oblegyd y mae, ar un llaw, ddiddymiad i'r gorchymyn

blaenorol, o herwydd ei wendid a'i aflesiant (canys ni wnaeth y gyfraith ddim yn berffaith); ac ar y llaw arall, ddygiad gobaith gwell i mewn, trwy yr hwn yr ydym yn agoshau at Dduw."

Y "gobaith gwell" ydyw yr efengyl, canys saif yn wrthgyferbyniol i'r gorchymyn a ddirymwyd.

(3,) *Eu dull yn cymharu gwahanol bethau.*

Pan y byddai yr Iuddewon yn dewis un peth o flaen y llall, dywedent eu bod yn caru y gwrthddrych a ddewisent yn flaenaf, ac yn cashau y llall, pryd na olygir yn llythyrenol eu bod yn ei gashau, ond yn hytrach eu bod yn dewis y llall o'i flaen.

Luc xiv. 26, "Os daw neb ataf fi, ac ni chashao ei dad, a'i fam, a'i wraig, a'i blant, a'i frodyr, a'i chwiorydd, ïe, a'i einioes ei hun hefyd, ni all efe fod yn ddysgybl i mi."

Pe deallai darllenydd y Beibl yr adnod hon yn llythyrenol, byddai yn rhwym o ystyried Crist yn ddysgawdwr annghysson âg ef ei hun, ac yn gwrthddweyd rhanau ereill o'r Beibl. Ceir Crist yn dysgu dynion i garu hyd y nod eu gelynion; y gorchymyn cyntaf mewn addewid ydyw yr hwn sydd yn gorchymyn anrhydeddu tad a mam; a ydyw yn bossibl fod Crist Iesu, Mab Duw, yn gorchymyn i'w ddysgyblion gashau eu hanwyliaid penaf ar y ddaear? Dim o'r fath beth. Dullwedd Hebreig yw yr ymadrodd, yn gosod allan *fod eisieu caru Crist yn fwy na phawb a phob peth.* Ceir *caru* a *chashau* yn y Beibl am *ddewis un peth o flaen y llall.* Cymharer Gen. xxix. 30, "Efe a hoffodd Rahel yn fwy na Leah;" â'r adnod ganlynol, lle y dywedir fod Leah yn "gas" gan Jacob, pryd na olygir ond ei fod yn hoffach o'r llall. Yn Mat. x. 37, gosodir yr un meddylddrych allan mewn ffordd wahanol.

"Yr hwn sydd yn caru tad neu fam yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi: a'r neb sydd yn caru mab neu ferch yn fwy na myfi, nid yw deilwng o honof fi."

Ceir yr un ieithwedd hefyd yn Rhuf. x. 11.

Ffordd arall o gymharu *ydoedd trwy wneyd gosodiad nacaol gyda golwg ar un gwrthddrych, a chadarnhaol gyda golwg ar y llall.*

Gen. xlv. 8, "Nid chwi a'm hebryngodd i yma, ond Duw," hyny yw, Duw a wnaeth yn hytrach na chwi.

Exod. xvi. 8, "Nid yn ein herbyn ni y mae eich tuchan, ond yn erbyn yr Arglwydd," hyny yw, yn ei erbyn ef yn fwy arbenig nag yn ein herbyn ni.

Ioan vi. 27, "Llafuriwch nid am y bwyd a dderfydd, ond am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol," hyny yw, am y diweddaf yn fwy dyfal ac ymdrechol nag am y blaenaf.

Gwel hefyd Hos. vi. 6. 1 Sam. viii. 7. Marc ix. 37. Act. v. 4. 1 Cor. i. 17.

(4,) *Eu dull yn gwadu gosodaeth.*

Dad. xxii. 3, "A phob melldith ni bydd mwyach."

Gellid meddwl ar yr olwg gyntaf, o ran a ddywed y geiriau hyn, y gallai ambell felldith barhau; ond camsyniad fyddai hyny. Hebreigiaeth wedi llusgo i mewn i'r Beibl Cymraeg yw y frawddeg. Yn debyg i hyna y gosodai yr Hebreaid y nacâol allan. Yr Hebraeg llythyrenol am "Na wna *ynddo* ddim gwaith" (Exod. xx. 10), fyddai, "Ni chei di wneyd pob gwaith *ynddo*." Ceir yr un ieithwedd Hebreig yn 1 Cor. i. 29:—"Fel na orfoleddai pob cnawd ger ei fron ef." Golygir, "Na wna ynddo ddim gwaith," ac "Fel na orfoleddai neb ger ei fron ef;" ac felly yn Dad. xxii. 3, "Ac ni fydd yr un felldith mwyach."

(5.) *Y modd y defnyddient enwau priodol a chyffredinol, a rhifnodau.*

(*a*,) Weithiau ceir yr un enwau ar leoedd a phersonau. Gelwir un o feibion Cham yn *Canaan* (Gen. ix. 18), a gelwir Palestina hefyd ar yr un enw. (Gen. xii. 5. Act. vii. 11.)

(*b*,) Gelwir gwahanol bersonau a lleoedd wrth yr un enwau. Dygai gwahanol freninoedd yr Aifft yr enw neu yn hytrach y teitl *Pharaoh* (y brenin), breninoedd Media a Phersia y teitl *Darius* (y diogelwr), breninoedd y Philistiaid *Abimelech* (fy nhad y brenin), ac ymerawdwyr Rhufain y teitl *Cæsar*.

Cyfeirir yn y Testament Newydd at amryw freninoedd yn dwyn yr enw *Herod;* sef,

1. *Herod*, yr hwn a elwir *Herod Fawr*, llofrudd babanod Bethlehem (Mat. ii. 16).

Mab ydoedd i Antipater, yr hwn oedd Idumead o genedl, ac mewn ffafr gyda Julius Cæsar. Tua'r flwyddyn 37 C.C. llwyddodd Herod i ddiwreiddio olynwyr y Maccabeaid, a daeth yn frenin Judea o dan nodded y Rhufeiniaid. Ail-adeiladodd ac addurnodd y deml er cymmodi yr Iuddewon â'i deyrnasiad. Yr oedd yn ddiarhebol am ei greulondeb, fel y sylwyd yn nhudalen 122. Ganwyd yr Arglwydd Iesu ychydig cyn diwedd ei deyrnasiad.

2. *Herod Antipas*, yr hwn a elwir yn y Testament Newydd *Herod y Tetrarch.*

Yr oedd hwn yn fab i'r un blaenorol, ac efe a laddodd Ioan Fedyddiwr. Ar ol marwolaeth ei dad, rhoddodd Augustus Cæsar Galilea a Pherea iddo, gyda'r urddenw Tetrarch. Wedi iddo fyw am dymhor gyda Herodias yn Lyons, Ffrainc, mewn alltudiaeth, anfonwyd ef i'r Yspaen, lle y bu farw o dan anfoddlonrwydd yr ymerawdwr Rhufeinig Caligula. Cyfeirir ato yn Mat. xiv. 1—6. Marc vi., viii. 15. Luc iii. 1, 19: viii. 3: ix. 7, 9: xiii. 31: xxiii. 7—15, Act. iv. 27.

3. *Herod Agrippa*, yr hynaf, yr hwn a elwir Herod yn unig yn y Testament Newydd.

Yr oedd efe yn ŵyr i Herod Fawr, ac yn Fab i Aristobulus. Ar adeg dyrchafiad Caligula i'r orsedd ymerodrol yn Rhufain, gwnaed yr Herod hwn yn frenin ar Batanea, Trachonitis, Auranitis, ac Abiline; a chafodd gan Claudius ar ol hyny Judea a Samaria i fod o dan ei awdurdod. Dyma yr Herod a laddodd Iago â'r cleddyf, ac a fu farw o dan farn Duw (Act. xii).

4. *Herod Agrippa*, yr ieuengaf, yr hwn a elwir Agrippa yn unig yn y Testament Newydd.

Mab oedd hwn i Herod Agrippa yr hynaf, y cyfeiriwyd ato yn flaenorol. Yn y flwyddyn 48 A.D., derbyniodd gan yr ymerawdwr Claudius deyrnas Chalcis o dan Libanus. Yn y flwyddyn 52 A.D., cafodd ei symmud i fod yn frenin ar dalaethau blaenaf ei dad, sef Batanea, Trachonitis, Auranitis, ac Abilene.

O flaen hwn y dygwyd Paul gan Ffestus (Act. xxv., xxvi).

Felly hefyd ceir *Cæsarea* ac *Antiochia* yn golygu gwahanol leoedd. Yn Mat. xvi. 13, golyga Cæsarea y ddinas o'r enw hwnw yn Ngogledd Canaan, tra y golyga y Cæsarea y cyfeirir ati yn Act. viii. 40, a xii. 19, y ddinas a safai ar làn Môr y Canoldir. Yn Act. xi. 22, golyga Antiochia brif ddinas Syria; tra y cyfeiria Act. xiii. 14, at Antiochia yn Asia Leiaf.

(*c*,) Weithiau ceir gwahanol enwau ar yr un personau a lleoedd. Gelwir tad yn nghyfraith Moses yn Hobab (Barn. iv. 11), a Jethro (Exod. iii. 1). Dywedir yn Exod. ii. 18, 19, fod Reuel yn dad i wraig Moses; ond ymddengys oddiwrth Num. x. 29, mai tad Hobab oedd Reuel,* ac felly taid i Sephorah gwraig Moses. Felly hefyd ceir Saul a Phaul, Bartholomew a Nathanael, Silas a Silvanus, &c., am yr un personau; a Môr Galilea, Môr Tiberias, Môr Cinnereth (Deut. iii. 17), a Llyn Gennesaret (Luc v. 1), am yr un môr; a Môr y Rhos, Môr Heli (Deut. iii. 17), a Môr y Dwyrain (Joel ii. 20), am y Môr Marw; a'r Môr Eithaf (Deut. xi. 24), Môr y Philistiaid (Exod. xxiii. 31), a'r Môr Mawr (Num. xxxiv. 6. Jos. i. 4), am Fôr y Canoldir.

(*d*,) Cyssylltir ystyron neillduol âg enwau y Beibl. Gelwir y dyn cyntaf yn Adda, Heb. *Addam*, yr hyn a olyga yn llythyrenol, *un coch*, a hyny, fe ddichon, am fod lliw ei groen a'i wynebpryd fel lliw daear goch.

Gelwir y wraig gyntaf yn Efa, Heb. *Chavvah*, yr hyn a olyga *bywyd*, "oblegyd hi oedd fam pob dyn byw." (Gen. iii. 20.)

Galwai Lamech un o'i feibion yn Noah, sef *gorphwysfa*, gan ddywedyd, "Hwn a'n cysura ni am ein gwaith, a llafur ein dwylaw." Gen. v. 29.)

* Yn Num. x. 29, gelwir Reuel yn *Reguel*. Diofalwch y cyfieithwyr a achosodd hyn, oblegyd yr un ffurf yn hollol sydd i'r gair yn y ddau le yn y Beibl Hebraeg, sef רעואל. Dygwyddodd hyn fe ddichon am fod ע weithiau yn cael ei hystyried yn ddisain, a phryd arall fel cydseiniad yn debyg i *g* neu *ng*. Mae orgraff yr un enwau yn gwahaniaethu hefyd trwy fod yr ysgrifenwyr weithiau yn dilyn y ffurf Hebreig, a phryd arall y ffurf Roegaidd, o'r un geiriau, megys :—

| *Yn ol y ffurf Hebreig.* | *Yn ol y ffurf Roegaidd.* |
|---|---|
| Simeon | Simon. |
| Esaiah | Esaias. |
| Messiah | Messïas. |

Galwyd Jacob yn *Israel* (rhyfelwr Duw), am ei fod wedi cael nerth gyda Duw fel tywysog, yn lle wrth yr hen enw anmharchus, Jacob (*disodlwr*. Gen. xxxii. 28.) Cyfeirir at yr ystyr yma o'r gair yn y Testament Newydd, pan y sonir am *Israeliad yn wir*, teilwng o'r enw anrhydeddus hwn (Ioan i. 48), ac nid rhai yn dwyn dim ond yr enw allanol yn unig. (Rhuf. ix. 6.)

Golyga y gair Naomi *Prydferth*, a'r gair Mara *Chwerw;* am hyny y dywedodd gwraig Elimelech, "Na elwch fi Naomi; gelwch fi Mara: canys yr Hollalluog a wnaeth yn chwerw iawn â mi." (Ruth i. 20.)

Golyga y gair Joseph, *cynnydd*, neu, *boed iddo gynnyddu.* Cyfeiria Jacob at ystyr ei enw pan y dywed, "Joseph fydd ganghen ffrwythlawn, canghen ffrwythlawn wrth ffynnon, ceinciau yn cerdded ar hyd y mur." (Gen. xlix. 22.)

Felly hefyd fe gyssylltir ystyron neillduol â'r gair Groeg *Pedr*, neu y gair Syriaeg *Cephas*, yr hwn a olyga *careg*, ac weithiau *craig* (Ioan i. 42), ac âg enwau neu deitlau y Gwaredwr, megys *Immanuel*, *Iesu*, a *Christ*, y rhai a olygant. Duw gyda ni, Gwaredwr, ac Eneiniog.

Mae i enwau Duw ystyron neillduol yn y Beibl.

JEHOFAH.—Deillia Jehofah o'r fert Hebraeg, היה *haiah*, am *fod*, a gesyd Duw allan fel bôd ag *sydd yn bodoli o anghenrheidrwydd*, ac yn *annghyfnewidiol* yn ei natur. Ymddengys ei fod weithiau yn cyfeirio at y dyfodol, gan olygu, yn ol ffurf y gair, *yr hwn a ddaw*,* gan gyfeirio, mae'n debygol, at y Gwaredwr, yr hwn oedd, yr hwn sydd, a'r hwn sydd ar ddyfod. Defnyddir ef yn fynych i olygu *Duw mewn cyfammod â'i bobl.* Dichon mai yn y goleuni yma yr edrychir arno yn Exod. vi. 2, 3. Nid yw Jah ond talfyriad o Jehofah.

EL.—Ceir El yn nherfyniad geiriau, megys yn Israel. Golyga yr un Cadarn, sef Duw, ffynnonell pob gallu a nerth.

ELOHIM.—Deillia hwn o'r ferf *alah=ofni*, *anrhydeddu*, a golyga y *Duw sydd i'w ofni a'i barchu.*

JEHOFAH SABAOTH.—Arglwydd y Lluoedd, Llywydd mawr

* Dylai y geiriau, "Cefais ŵr gan yr Arglwydd" (Gen. iv. 1), gael eu cyfieithu "Cefais ddyn y Jehofah"=*cefais ddyn yr hwn oedd i ddyfod*, gan olygu, mae yn ymddangos, fod hâd y wraig wedi dyfod. Buan y gwelodd Efa ei chamsyniad!

y bydysawd, yr hwn y mae y bydoedd oll o dan ei reolaeth, ac engyl y nef yn ufydd i'w orchymyn.

YSBRYD.—Gelwir Duw yn *Ysbryd*, er dangos nad bôd materol ydyw, fel duwiau gweledig y Cenedloedd, neu sêr y nen, ac mai addoliad ffyddiog a chariadus yn ol ei ewyllys ei hun, sydd yn dderbyniol ganddo, ac nid defodau allanol yn ol dychymmyg dyn.

Mae amryw o enwau neu deitlau ereill yn perthyn i'r Duw byw, er ei wahaniaethu oddiwrth dduwiau gweigion y paganiaid, ac er gosod allan ei weithrediadau a'i berthynas â'i greaduriaid.

(*e*,) Defnyddir rhifnodau, rhagenwau annherfynol, &c., yn y Beibl mewn modd anmhennodol. Weithiau rhoddir math o gyfanrif *(round number)* pryd na olygir hyny yn llythyrenol. Yn 1 Cor. x. 8, dywedir fod *tair mil ar hugain* o'r Israeliaid wedi cwympo; tra y dywedir yn Num. xxv. 9, fod *pedair mil ar hugain* wedi marw. Mae'n debyg fod rhwng tair a phedair mil ar hugain wedi syrthio, a bod Moses yn rhoddi ychydig dros ben y rhif, a Phaul ychydig o dano, heb ddodi y manylion i lawr.

Weithiau defnyddir y cyfan am ran, neu ran am y cyfan, trwy droellymadrodd a elwir cyforddwyn *(synecdoche)*.

Dywedir fod Jerusalem a holl Judea wedi myned allan at Ioan (Mat. iii. 5), pryd na olygir ond fod llawer o'r trigolion wedi myned. Yr un modd yr ydym i ddeall Ioan iii. 26.

Dywedir fod "y dysgyblion" wedi sorri am i'r wraig dywallt enaint ar ben yr Iesu (Mat. xxvi. 8); ond yn Ioan xii. 4, cawn mai *un* o'r dysgyblion oedd wedi digio, sef y bradychwr.

Ymddengys mai ar yr un egwyddor y defnyddir yr ymadrodd "*tridiau a theirnos*" (Mat. xii. 40), i olygu un diwrnod cyfan a rhan o ddau ddiwrnod arall. Yr oedd yr Iuddewon yn arfer â chyfrif eu dyddiau yn y dull hwn. Dyfyna Grotius y sylw canlynol o waith Aben Ezra, Rabbi enwog yn y deuddegfed ganrif, ar Lef. xii. 3:—"Pe buasai y baban wedi ei eni, ond awr cyn i'r dydd cyntaf ddarfod, cyfrifid ef fel diwrnod cyfan; a phe na buasai ond awr o'r diwrnod ar yr hwn yr enwaedwyd ef wedi myned heibio, yr oedd hyny i gael ei gyfrif fel diwrnod cyfan." Dywed y Ceidwad weithiau ei fod i gyfodi "wedi tridiau" (Mat. xxvii. 63. Marc viii. 31), a phryd arall ei fod i

adgyfodi "ar y trydydd dydd" (Mat. xv. 21. Marc x. 34. Luc xviii. 33); yr hyn a ddengys fod y gwahanol ymadroddion yn gyfystyr.

Felly hefyd fe ddywedir fod y "lladron" wedi cablu (Mat. xxvii. 44), tra mae Luc yn rhoddi y manylion i ni, ac yn dweyd mai *un* o honynt a gablodd, ond fod y llall wedi ei amddiffyn. (Luc xxiii. 39, 40.)

O'r ochr arall, ceir *rhan*, weithiau, *am y cyfan*. "Mor weddaidd ar y mynyddoedd yw traed yr hwn sydd yn efengylu" (Esai. lii. 7), lle y ceir traed am yr efengylwr ei hunan. Crybwyllir am y traed gan ei fod yn teithio o fan i fan. Yr un modd ceir llygaid am y dyn yn Mat. xiii. 16. Luc ii. 30. Mat. xx. 15.

Sonia Matthew (viii. 28), am ddau o rai dieflig, tra na chrybwylla Marc (v. 1—20), a Luc (viii. 26—36), ond am un. Mae y rhifedi mwyaf yn cynnwys y lleiaf, ac nid yw dystawrwydd un efengylwr yn dirymu tystiolaeth y llall. Dichon fod Marc a Luc yn peidio nodi ond un, oblegyd (fel yr awgryma yr archesgob Newcome), mai un o honynt yn unig a amlygodd ei ddiolchgarwch i'r Iesu am ei waredigaeth; neu (fel y barna Dr. Wordsworth), o herwydd fod Marc a Luc yn ysgrifenu eu Hefengylau er budd y Rhufeinwyr a'r Groegiaid, eu bod yn nodi iachâd y Gadareniad yn unig er dangos cariad Crist trwy y wyrth at y byd *cenedlig*, i ba un y perthynai y Gadareniad hwn. Yn gyffelyb yr ydym i gyssoni Mathew (xx. 30—34), yr hwn a grybwylla am ddau ddyn dall, â Marc (x. 45—52), a Luc (xviii. 35—43), y rhai ni soniant ond am un. Diau mai Bartimëus oedd y mwyaf hynod o'r ddau, a'r mwyaf enwog am ei ffydd yn yr Iesu. Tybia Dr. Wordsworth fod Bartimëus (*Mab Timëus*) hefyd yn genedl-ddyn, gan mai enw Groegaidd yw Timëus; a bod Marc a Luc yn cyfeirio at hwn er dangos fod y Cenedloedd i gael cyfranogi o fendithion y prynedigaeth.*

* Gellir cyssoni yr anhawsdra arall yn nglyn â'r hanesion hyn, sef gwaith Marc (x. 46), yn dweyd fod yr Iesu "yn myned allan o Jericho," a Luc (xviii. 35), ei fod "yn neshau at Jericho," pan yr agorwyd llygaid y deillion, trwy un o'r ffyrdd canlynol. (1.) Gellir deall, gyda Trench, Webster & Wilkinson, Wordsworth, ac ereill, fod un o'r deillion wedi llefain am ei olwg pan oedd y Ceidwad yn myned i mewn i Jericho, ond na chafodd ei olwg y pryd hyny, er fod un efengylwr trwy ragflaeniad *(by anticipation)* yn cofnodi hyny. Cafodd ddysgwyl hyd dranoeth er profi ei ffydd. Erbyn dranoeth yr oedd Bartimëus wedi cael gafael ar un dall arall, a'i ddwyn i'r man y dysgwyliai gael cyfarfod â'r Iesu; a darfu i'r Iesu wrth

(6.) *Defnyddir ymadroddion cyffredin, weithiau, mewn ystyr neillduol.*

Er engraifft, defnyddir y gair *ateb* yn fynych, am waith un *yn traethu ei feddwl gyda golwg ar unrhyw bwnc neu syniad,* pryd na fydd y cyfryw bwnc neu syniad wedi cael ei wisgo mewn geiriau.

Job iii. 2:—"A Job a lefarodd (Heb. *atebodd*), ac a ddywedodd."

Mat. xi. 25:—"Yr amser hwnw yr atebodd yr Iesu, ac y dywedodd," &c.

Luc xiv. 3:—"A'r Iesu gan ateb a lefarodd," &c.

Act. iii. 12:—"A phan welodd Pedr, efe a atebodd i'r bobl," &c.

Os collir golwg ar y defnydd neillduol hwn o'r gair *ateb,* bydd amryw ranau o'r Ysgrythyr yn aneglur i ni.

Ceir y gair *chwareu* yn Exod. xxxii. 6, a 1 Cor. x. 6, am ganu, neidio, a dawnsio mewn cyssylltiad ag eilunaddoliaeth, fel yr eglurir yn Exod xxxii. 17—19.

## II. Ffugyrau Ymadrodd.

Mae y Beibl yn orlawn o'r cymhariaethau tlysaf, ac o'r dammegion mwyaf swynol ac addysgiadol. Eglura ei gynnwysiad â goleuni dysglaer yr haul, a thywyllwch dudew y nos; â gwlith tyner ac adfywiol y nefoedd, â ffrwythlondeb y gwlaw, â rhyferthwy y llif ddyfroedd, ac âg ymchwydd tònau y môr; â phrydferthwch y lili, ac â mawrhydi y cedrwydd; â defodau y cyssegr, ac â gorchwylion yr amaethwr; â chynddaredd y corwynt, ac â chadernid y mynyddau oesol, &c.; a thra byddo nef, daear, a dyn, yr hyn ydynt, bydd naturioldeb, symledd, ac arucheledd, a dyddordeb ac addysg ffugyrau a dammegion y Beibl yn meddu swyn a hyfrydwch angerddol i'r efrydydd bywiog ac ymroddgar.

---

fyned o'r dref iachau y ddau yr un pryd. (2.) Neu gellir deall, gyda Doddridge, Robinson, ac ereill, fod y geiriau,—"A bu, ac efe yn neshau at Jericho," yn golygu,—"*A bu, ac efe yn agos i Jericho.*" Ymddengys nad yw hyn yn drais ar y geiriau, yn ol ieithwedd Groeg y Testament Newydd a'r Septuagint. Cymharer Luc xix. 37. Phil. ii. 30. LXX. 1 Bren. xx. 2. Deut xxi. 3, 6.

Wrth iaith ffugyrol, yr hon, ebe Dr. Blair, a gynnyrchir gan y dychymmyg a'r teimladau, y golygir iaith yn yr hon y gosodir un peth allan o dan ffurf neu gysgod rhywbeth arall; mae *gair* yn ffugyrol pan y defnyddir ef o'i ystyr arferol a llythyrenol, megys y geiriau *haul* a *tharian*, pan ddywedir "Haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw" (Salm lxxxiv. 11); a'r *meddyliau* i'w deall felly pan fydd rhyw wersi neu egwyddorion moesol ac ysbrydol yn cael eu dysgu trwy ymadroddion a gyfeiriant yn llythyrenol at ddygwyddiadau yn mhlith dynion, megys yn nammeg y mab afradlon, neu ddammeg y ddafad golledig.

Y term grammadegol a ddefnyddir i osod allan y defnydd ffugyrol yma o eiriau ac ymadroddion ydyw troellymadrodd, neu drofeg; pan na olygir ond troad *geiriau* neu *ymadroddion byrion*, gelwir y cyfnewidiad yn y gwaith hwn yn *droelliaith;* * ond pan ddefnyddir lliaws o ymadroddion cyssylltiedig â'u gilydd ar ffurf hanesiaeth mewn modd ffugyrol, gelwir y cyfnewidiad yn *alegori* neu *ddammeg.*

TROELLIAITH.—Troelliaith *(metaphor)* sydd gymhariaeth yn yr hon y troir gair o'i ystyr briodol i ystyr arall gyffelyb, o herwydd y tebygolrwydd rhyngddynt, ac ar *debygolrwydd* gwrthddrychau i'w gilydd y sylfaenir hi. Fel mae yr haul yn goleuo a sirioli y byd, a tharian yn diogelu y milwr yn nydd y frwydr, felly y mae Duw yn cyfarwyddo a dyddanu ei bobl, a'u diogelu rhag ymosodiadau eu gelynion; o ganlyniad dywedir, "Haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw." Megys ag y gwna tân bethau o'i amgylch yn fflam, oddi eithr i ofal neillduol gael ei gymmeryd gydag ef, felly fe wna tafod dyn roddi cymdeithas ar dân, a chynhyrfu nwydau dynion, oddi eithr i'w berchenog ofalu am ei lywodraethu yn briodol; o ganlyniad dywedir, "A'r tafod tân ydyw." (Iago iii. 6.) Fe welir, gan hyny, fod troelliaith yn cael ei sefydlu ar debygol-

* Mae Grammadegwyr yn adranu troellymadrodd i amryw ddosbarthiadau, megys trawsenwad *(metonymy)*, pan y defnyddir yr arwydd am yr hyn a arwydda, megys "Hwn yw fy nghorph" (Mat. xxvi. 26); cyforddwyn *(synecdoche)*, pan y cymmerir rhan am y cyfan, neu y cyfan am ran, megys y traed am yr holl ddyn (Esai. lii. 7), neu yr holl ddyn pan na olygir ond ei gorph yn unig (Gen. xxv. 10); neu pan y mae perthynas heb debygolrwydd, megys pan y defnyddir cwpan am yr hyn a gynnwysa (1 Cor. xi. 27), neu awdwr am ei ysgrifau, &c. (Luc xvi. 31); ond nid ydyw y gwahaniaeth yn ddigon pwysig i gadw ato mewn gwaith fel hwn; a rhag dyrysu y darllenydd, defnyddir "troelliaith" am y naill fel y llall.

rwydd gwrthddrychau i'w gilydd. Y mae, modd bynag (fel y sylwir yn y nodiad ar waelod y ddalen), rai engreifftiau o droelliaith yn mha rai nad oes tebygolrwydd, megys, "Hwn yw fy nghorph" (Mat. xxvi. 26); "Y saith o wartheg têg, saith mlynedd ydynt; a'r saith dywysen deg, saith mlynedd ydynt" (Gen. xli. 26); ond yn gyffredin, sail troelliaith yw tebygolrwydd.

Cyffelybiaeth. — Nid oes gwahaniaeth hanfodol rhwng cyffelybiaeth *(comparison)*, a throelliaith; yr un peth ydynt ond fod y geiriau cymharol *fel* a *megys* yn cael eu defnyddio gyda chyffelybiaeth: er engraifft,—

> "Fel oen yr arweinid ef i'r lladdfa." (Esai. liii. 7.)
>
> "Megys finegr i'r dannedd, a mwg i'r llygaid,
> Felly y bydd y diog i'r neb a'i gyrant." (Diar. x. 26.)
>
> "Byddaf fel gwlith i Israel." (Hos. xiv. 5.)
>
> "Ac a ymlawenha fel cawr i redeg gyrfa." (Salm xix. 5.)

Mae yr ymadrodd yn fwy bywiog a chyffrous mewn troelliaith nag mewn cyffelybiaeth; mae

> "Llew wyt ti, Judah." (Gen. xlix. 9.)
>
> "Haul a tharian yw yr Arglwydd Dduw." (Salm lxxxiv. 11.)
>
> "A'r tafod tân ydyw." (Iago iii. 6.)
>
> "Oddi mewn bleiddiaid rheibus ydynt hwy." (Mat. vii. 15.)

yn ddesgrifiad mwy hyf a chyffrous na phe defnyddid y geiriau *fel* a *megys* gyda'r enwau a gymherir.

Alegori.—Ystyr llythyrenol y gair alegori (Groeg, *allêgoria*), neu aralleg, yw *desgrifiad o un peth o dan ffurf peth arall;* y mae, o ganlyniad, fel y sylwa Lowth ac ereill, yn fath o droelliaith barhaol, neu gyfres o droellymadroddion yn dilyn eu gilydd mewn ffurf o ddesgrifiad hanesyddol o unrhyw drafodaeth ddaearol, er gosod allan rhyw wirionedd ysbrydol. Ystyrir dammeg y winllan (Esai. v.), dammeg yr hauwr (Marc iv.), a dammeg y mab afradlon (Luc xv.), yn alegoriau. Dywedir fod alegori yn *bur*, pryd na ddyry yr allwedd i'w hystyr, ac yn *anmhur* pryd y cynnwysa yr allwedd ynddi ei hun, megys Salm lxxx. 2, 3, 17, 18. Esai. v. 7.

Ymddengys nad oes alegori briodol yn Gal. iv. 24, fel y gellid meddwl ar yr olwg gyntaf. Y rhangymmeriad (*allêgoroumena*) a ddefnyddia yr apostol, ac nid yr enw alegori:—"Canys y mae yn ysgrifenedig fod i Abraham ddau fab; un o'r wasanaethferch, ac un o'r wraig rydd. Eithr yr hwn oedd o'r wasanaethferch, a aned yn ol y cnawd; a'r hwn oedd o'r wraig rydd, trwy yr addewid. Mae y pethau hyn yn arallegol (ἀλληγορούμενα, yn arwyddo pethau ysbrydol o dan y darlun yma), canys y rhai hyn yw y ddau destament," &c. (Gal. iv. 22—24.) Dichon mai yr ystyr yw, fel yr awgryma Dr. Eadie:—"Mae y pethau hyn yn cael eu harallegu," hyny yw, gan Esai. liv. 1, fel y dyfyna yr apostol yn adn 27, ac yr esbonia wrth fyned yn mlaen: neu gan yr apostol ei hun, fel y tybia Dr. Marsh, gan arddangos fod y ddwy wraig a'u plant yn gysgodau, a'r ddau gyfammod yn wrthluniau o honynt.

Dammeg.—Golyga y gair dammeg (*parable*, Groeg, *parabolê*), yn llythyrenol, *dodiad gwrthddrychau wrth ochrau eu gilydd*, fel llongau mewn brwydr, yna *cymhariaeth*, lle y gosodir dygwyddiadau hanesyddol (neu yr hyn a ystyrir yn gyfryw), a gwirioneddau moesol ac ysbrydol wrth ochrau eu gilydd, y naill i egluro y llall. Mae yn anhawdd gwahaniaethu dammeg oddiwrth alegori; maent yn fynych yn rhedeg i'w gilydd. Mewn alegori mae mwy o ystyr yn perthyn i'r hyn a ddefnyddir fel cymhariaeth, a rhywbeth yn ystyr ysbrydol yr alegori yn ateb i'r pwyntiau yn y desgrifiad; tra mai *egluriadaeth*, y rhan fynychaf, yw dyben penaf dammeg, ac mai egluro rhyw un neu ddau bwynt neillduol yw yr amcan mewn rhai engreifftiau.

Ffug-chwedl.—Math o ddesgrifiad hanesyddol dychymmygol, o'r hyn nad allai, yn ol natur pethau, gymmeryd lle yw ffug-chwedl (*fable*, Barn. ix. 6—2i. 2 Bren. xiv. 2. 2 Chron. xxv. 18.) Ni ddefnyddiodd yr Arglwydd Iesu ffugchwedlau er dysgu dynion, ac nid prophwydi yr Arglwydd a lefarodd y rhai a gofnodir yn yr Hen Destament.

Dychymmyg.—Dychymmyg (*riddle*) oedd fath o ddyrysbwnc er profi cywreinrwydd dynion. (Barn. xiv. 14. Diar. xxx. 15—21.)

DIARHEB.—Math o arwireb byr, yn dwyn cyssylltiad â bywyd ymarferol dyn, yw diarheb. Gall fod mewn iaith ffugyrol neu lythyrenol; ond yn mha un bynag y byddo, rhaid iddo gynnwys gwirionedd cyffredinol.

CYSGOD. — Cysgod *(type)* oedd arwydd neu gysgodlun appwyntiedig gan Dduw i osod allan rhywbeth uwch a rhagorach yn y dyfodol, yr hwn a elwir y gwrthlun. Sylwer, rhaid ei fod wedi ei *appwyntio* a'i *fwriadu* gan Dduw i raggysgodi rhywbeth o dan yr efengyl, cyn y gellir ei ystyried yn gysgod. Nid yw *tebygolrwydd* rhwng gwrthddrychau yn ddigon; canfyddodd llawer debygolrwydd rhwng Joseph a Samson, a Christ, ac am hyny casglasant fod Joseph a Samson yn gysgodau o Grist—fel pe buasai pawb yn gysgodau o Grist, os oedd unrhyw beth yn eu hanes yn debyg i'r eiddo ef!

Hysbysir ni fod Elias yn gysgod o Ioan Fedyddiwr (Marc ix. 13), a Jonah (Luc xi. 30), Adda (Rhuf. v. 14), Melchizedec (Heb. vi. 20), Moses (Deut. xviii. 15. Act. iii. 22), Dafydd (Salm xvi. 8. Act. ii. 25—31), a Solomon (2 Sam. vii. 14. Heb. i. 5), yn gysgodau o Grist; a bod oen y pasg (Exod. xii. 46. Ioan xix. 36), dyrchafiad y sarph bres (Ioan iii. 14), a llifiad y dwfr o'r graig (1 Cor. x. 4), yn gysgodau o hono ef yn ei farwolaeth a'i fendithion. Yn Heb. ix. 9, dywedir fod y tabernacl yn fath o gysgod neu gyffelybiaeth o dabernacl rhagorach o dan yr efengyl: ac yn Col. ii. 17. Heb. x. 1, fod yr holl drefniant Iuddewig yn gysgod o ddaionus bethau i ddyfod.

Mae yn amheus a ddylem ni fyned yn mhellach i egluro cysgodau y Beibl nag y mae y Testament Newydd yn ein cyfarwyddo; dyma ein hunig awdurdod ddiogel i ysbrydoli yr Hen Destament; er y dywedir fod y gyfraith yn y cyfanswm o honi yn gysgod daionus bethau i ddyfod, eto nid diogel i ni yw cymmeryd ein rhyddid oddiwrth hyn, a myned i ysbrydoli mwy o bethau nag a eglurir yn y Testament Newydd, rhag ofn i ni gamgymhwyso pethau, a chamddarlunio meddwl yr Ysbryd Glân. Dichon, ac y mae yn dra thebygol, fod mwy o bethau yn gysgodau o dan y ddeddf nag a eglurir i ni;* ond

* Gwna Dr. Angus y sylw canlynol ar hyn yn ei Ragarweiniad i'r Epistol at yr Hebreaid:—"Yr oedd y *cyfan* yn gysgod o ddaionus bethau i ddyfod (x. 1): ond ni eglurir arwyddocâd ond rhanau neillduol yn unig. Gall y cyssegr santeiddiolaf,

nid yw o bwys i ni eu gwybod, neu fe fuasai yr apostolion wedi eu dehongli i ni. Gellir tynu addysgiadau neu wersi moesol gwerthfawr oddiwrth lawer o hanesion (Rhuf. xv. 4), heb geisio gwneyd y gwrthddrychau yn gysgodau o Grist.

ARWYDDLUN.—Arwyddlun *(symbol)* yw rhyw wrthddrych sylweddol, neu weithred, er gosod allan rhyw ddygwyddiad dyfodol pwysig, neu rhyw wirionedd ysbrydol. Mae bedydd yn arwyddlun, er gosod allan farwolaeth dyn i bechod, a'i adgyfodiad i fuchedd newydd, ac o gladdedigaeth ac adgyfodiad Crist; a swper yr Arglwydd o ddrylliad corph a thywalltiad gwaed Crist. Yr oedd blodeuad gwialen Aaron yn arwyddlun y blodeuai ei offeiriadaeth; yr oedd gweledigaeth yr ysgol yn mreuddwyd Jacob yn arwyddlun o gyfryngwriaeth Crist; yr oedd y gwartheg a welsai Pharaoh yn ei freuddwyd yn arwyddluniau o'r blynyddau ag oedd ar ddyfod. Yr oedd gwaith Ezeciel yn bwyta y llyfr (iii. 1), ac yn tynu darlun gwarchaead Jerusalem ar bridd-lech (iv. 1, 2); a gwaith Esaiah yn ymddiosg ac yn rhodio yn hanner-noeth a throednoeth (xx. 2), yn arwyddluniau o'r hyn oedd ar gymmeryd lle. Yr oedd rhoddiad oen y Pasg i farwolaeth er arbed Israel, yn arwyddlun o farwolaeth Crist, er arbed y rhai a ymddiriedant ynddo, &c. Yr oedd Duw trwy arwyddluniau mewn gwrthddrychau a thrafodaethau fel hyn, yn rhagamlygu dygwyddiadau y dyfodiant, ac yn dysgu dynion, mewn modd bywiog ac argraffiadol, egwyddorion ei lywodraeth a bwriadau ei galon.

Mae ffugyrau fel hyn yn bywiogi y cyfansoddiad, ac yn ei wneyd yn fwy dyddorol i'w ddarllen, ac yn fynych yn fwy

---

fel yr eid i mewn iddo gan yr archoffeiriad, osod allan y nef i'r hon yr aeth Crist i mewn (ix. 1—14, 21. Lef. xvi.) Gall y cyssegr, fel preswylfod Duw, osod allan ein Harglwydd (Ioan ii. 21. Col. ii. 9), neu yr eglwys (Eph. ii. 19—22. 1 Pedr ii. 5, 9); y canwyllbren aur, yr eglwys fel y goleuir hi gan air ac Ysbryd Duw (Dad. i. 20, iv. 5. Phil. ii. 15, 16. Mat v. 14—16); yr arogldarth, gweddïau a moliant y saint (Heb. xiii. 15. Dad. viii. 3, 4. Exod. xxx. 1—8, 34—36); yr ail len, gnawd Crist, yr hwn a rwygwyd er mwyn i ni gael dyfodfa at Dduw (x. 19, 20. Marc xv. 37, 38. Exod. xxvi. 31—33); y crochan a'r manna, y gwir fara (Dad. ii. 17. Ioan vi. 48—51. Exod. xvi. 32—34); a'r drugareddfa, gorseddfainc y gras, at yr hon y mae i'r edifeiriol ryddid i agoshau trwy waed Crist yr hwn yw yr iawn dros bechod (ix. 5, iv. 16 Col. ii. 10—17. Rhuf. iii. 25. Salm xl. 6—8. Exod. xxv. 10—22.)"

eglur, addysgiadol, a dylanwadol, gan y dysgir pethau ysbrydol a Dwyfol i ddyn ynddynt trwy gyfrwng pethau daearol ac adnabyddus.*

## III. Barddoniaeth y Beibl.

Mae rhanau helaeth o'r Beibl yn farddoniaeth. Amcan barddoniaeth, ebe'r esgob Lowth, yw llesoli dyn, a phleser yw moddion barddoniaeth i gyrhaedd yr amcan yna; ac y mae defnyddioldeb barddoniaeth yn gynnwysedig yn ei gwaith yn gweinyddu mwynhad i ddyn tra wrth y gorchwyl o'i addysgu. Mae yr athronydd a'r bardd yn ymestyn at yr un amcan, ond eu bod yn gwahaniaethu yn y moddion trwy yr hwn y maent yn ymgyrhaedd ato; appelia yr athronydd at reswm dyn yn annibynol ar ei nwydau a'i deimladau; cyfarcha y bardd ei reswm yn y fath fodd ag i ennill ei deimlad hefyd; gesyd un ei achos allan gyda'r ymresymiad cywiraf, a'r ystyriaethau pwysicaf; addurna y llall ef â'r prydferthion mwyaf deniadol, nes ennill ei farn a swyno ei galon. Gesyd barddoniaeth bur y meddylddrychau o flaen dyn wedi eu paentio yn yr iaith fwyaf hyfryd, a'u gwisgo â'r egluriadau a'r cymhariaethau mwyaf prydferth, tarawiadol, a dedwydd ag sydd i'w cael yn nghyfrol gyfoethog hanesyddiaeth, ac yn ngogoniannau amryfal y cread, ac yn maesydd rhamantol dychymmyg, nes gorchfygu ei deimlad ac ennill ei serch. Felly y mae barddoniaeth y Beibl wedi ei bwriadu i ddwyn enaid dyn i amgyffred urddas, a theimlo gwerth, a chanfod prydferthwch rhinwedd, ac i blygu mewn parch addoliadol ger bron yr uchel Dduw, ac mewn llesmair o hyfrydwch nefol i ddyrchafu ei foliant ef.

Pan yr ydys yn son am farddoniaeth, yr ydys yn meddwl, nid yn unig am feddylddrychau goruchel, a chymhariaethau tarawiadol, a throellymadroddion hyfion a chyffrous, a desgrifiadau naturiol a bywiog, a thynerwch drylliog a thoddiadol, ond hefyd am fesur o ryw fath, o fesurau caethion y prif feirdd Cymreig, hyd emynau mawl Seion a'r odlau gwaladgarol a byncia ein llanciau a'n gwyryfon; ond nis gellir bod yn sicr pa un a oedd mesur neillduol yn perthyn i farddoniaeth yr

* Gwel *Horne's Introduction*, vol. ii.; *Barrows's Introduction; Bible Hand-Book*; *Seiler's Biblical Hermeneutics; Ernesti's Principles of Biblical Interpretation and Criticism*, &c.

Hebreaid. Dadleua rhai beirniaid Hebreig yn selog fod, a chreda ereill mor benderfynol nad oedd. Gan mai ychwanegiad diweddar mewn cymhariaeth yw nodau llafar yr iaith Hebraeg, nis gellir cael sicrwydd ar y pwnc hwn. Barna awdwr y gyfrol hon fod y farddoniaeth Hebreig weithiau yn dilyn rhyw fesur neu fesurau, o herwydd yr ystyriaethau canlynol:—

1. Mae y geiriau yn ymddangos fel wedi eu cyfaddasu i ryw hyd ac odl neillduol. Mae y brawddegau yn aml yn lled debyg i'w gilydd o ran eu hyd; nis gellir bod yn sicr, yn awr, pa faint o sillau oedd ynddynt, gan y gallai gair fod yn ddau neu dri sill, yn ol natur a rhif y nodau llafar a ddefnyddid gydag ef; ond y mae ffurfiau y geiriau a'r rhagenwau a ddefnyddir mewn barddoniaeth, fel pe byddent wedi eu llunio i ateb i'r mesur,—weithiau i wneyd brawddeg sill neu ddau yn hŵy, neu yn fyrach, yn ol yr amgylchiad.* Byddai weithiau hefyd fath o odl rhwng y llinellau cyfochrol, fel y gwelir yn Gen. iv. 23. Job vi. 4, 7, 9, 13, 22, 29.†

2. Y ffaith fod llawer o ranau barddonol y Beibl yn cael eu canu gydag offerynau cerdd. Enw un offeryn oedd *Gittith* (Salm viii., lxxxi., lxxxiv.); enwau offerynau ereill oedd *Sosannim* (Salm lxix); *Neginoth* (Salm vi., liv., lv., lxxvi.); *Nehiloth* (Salm v.), &c. Bernir fod yr ysgrifen uwchben amryw o'r Salmau yn dynodi y dôn ar ba rai yr oeddynt i gael eu canu: megys, AL AI-IELETH HASH-SHACHAR=*Ar Ewig y Boreu* (Salm xxii.); AL TASH-CHETH=*Na Ddistrywia* (Salm lvii., lviii., &c.); AL IONATH ELEM RECHOCIM=*Ar Golomen y Prenau Terebinth Pell* (Salm lvi.), &c. Mae ystyron enwau amryw o'r Salmau yn rhagdybied y cenid hwy gydag offerynau; megys, MIZMOR=*cân*, gydag offeryn cerdd (Groeg, ψαλμός Salm iii.—ix., &c.); MASCHIL=*cân*, ar y MACHALATH=y *bibell* neu y *delyn* (Salm liii., lxxxviii.), &c.

Arwydd cerddorol oedd *Selah*. Deillia o'r ferf SHALAH=*gorphwyso*, a golyga fod y cerddorion i orphwyso am ychydig; neu o'r ferf SALAH=*cyfodi*, a dynoda fod y cerddorion i gyfodi eu llais, neu ail fyned dros y gân gyda llais uwch a chryfach; neu (yn ol yr *ail* ystyr i'r un ferf)=*bod yn ddystaw*, ac felly

* *Lowth's Sacred Poetry of the Hebrew*, Lect. iii.

† Gwel *Dr. B. Davies's Hebrew Reading Book*, yn niwedd Grammadeg Hebraeg Gesenius.

mai term cerddorol, yn galw am i'r llais neu yr offeryn i fod yn ddystaw, oedd Selah.* Yn Salm ix. 16, defnyddir ef mewn cyssylltiad â gair arall, "*Higgaion; Selah.*" Golyga y ddau air fel hyn gyda'u gilydd, yn ol barn Tholuck a Hengstenberg, *myfyrdod, gorphwyso;* hyny yw, boed i'r cerddor fyfyrio tra byddo y beroriaeth yn ddystaw.

Y casgliad naturiol oddiwrth y pethau hyn yw fod y geiriau a ddefnyddid wedi eu cyfaddasu i wahanol dônau a mesurau a arferid.

Dosrenir barddoniaeth y Beibl weithiau fel y canlyn:—

1. BARDDONIAETH DELYNOL (*Lyric Poetry*), yn cynnwys emynau o fawl, orlawn o deimladau diolchgar i'r Goruchaf.

2. BARDDONIAETH HANESIOL NEU ARWROL (*Epic Poetry*), fel Llyfr Job.

3. BARDDONIAETH ADDYSGIADOL NEU ARWIREDDOL (*Didactic or Gnomic Poetry*), fel yr hyn a geir yn y Diarhebion a Galarnad Jeremiah.

4. BARDDONIAETH FUGEILAIDD NEU FUGEILGAN (*Pastoral Poetry or Idyls*), megys Caniadau Solomon.

Mae y dosraniad hwn yn ymwneyd yn benaf, fel y gwelir, â natur cynnwysiad y farddoniaeth, yn hytrach nag â nodweddau neillduol y cyfansoddiad; ymddengys fod neillduolrwydd barddoniaeth y Beibl, fel cyfansoddiad, yn gyfansoddedig yn benaf mewn cyfochraeth (*parallelism*) o dan ei gwahanol agweddau. Wrth gyfochraeth y deallir cyfatebiaeth gwahanol ranau brawddeg, neu wahanol freichiau prydyddiaeth i'w gilydd; megys y ddwy linnell:—

> "Ceisiwch yr Arglwydd, tra y galler ei gael ef;
> Gelwch arno tra fyddo yn agos." (Esai. lv. 6.)

Mae y gyfochraeth dan sylw yn dra phwysig a gwerthfawr; y mae yn prydferthu y cyfansoddiad, ac yn disgyn yn hyfryd ar y glust; weithiau y mae un llinnell yn esbonio ac yn egluro llinnell arall; gellir cyfieithu y breichiau cyfochrog hyn i ieithoedd ereill hefyd heb eu hymddifadu o'u nherth na'u

* Gwel y Geiriaduron Hebraeg gan Dr. Davies a Gesenius, a *Kitto's Cyclopædia.*

diosg o'u prydferthwch, yr hyn sydd yn gwneyd barddoniaeth yr Hebreaid yn wahanol i farddoniaeth cenedloedd ereill, ac yn un o'r elfenau ag sydd yn addasu y Beibl fel llyfr i'r holl fyd. Mae y gyfochraeth weithiau yn eglur a phendant; bryd arall ceir ymëangiad y syniad yn hytrach na chyfochraeth gyfatebol; mewn engreifftiau ereill, ceir y cyfansoddiad yn ymblethu trwy ei gilydd gyda llawer o gywreinrwydd a phrydferthwch. Crefwn sylw yr efrydydd at y manylion a'r engreifftiau canlynol:—

1. *Cyfochraeth Gyfystyrol.*

Wrth hyn y golygir fod y syniad yr un, ond fod yr adran o'r frawddeg, neu y fraich o'r gân, yn wahanol:—

"Pa beth yw dyn, i ti ei gofio?
A mab dyn, i ti ymweled âg ef?" (Salm viii. 4.)

"Fy enaid, bendithia yr Arglwydd;
A chwbl sydd ynof, ei enw santaidd ef." (Salm ciii. 1.)

"Efe a wna afonydd yn ddiffaethwch,
A ffynnonau dyfroedd yn sychdir." (Salm cvii. 33.)

"Er na ddaw cystudd allan o'r pridd,
Ac na flagura gofid allan o'r ddaear." (Job v. 6.)

2. *Ymëangiad ac ail adroddiad y syniad.*

Yn y Salm gyntaf, cawn engraifft o ymëangiad y syniad:—

"Gwyn fyd y gŵr,
Yr hwn ni rodia yn nghynghor yr annuwiolion;
Ac ni saif yn ffordd pechaduriaid;
Ac nid eistedd yn eisteddfa gwatwarwyr." (adn. 1.)

Mae dadganiad y gwynfyd yn y llinell gyntaf, yn dwyn yr un cyssylltiad â phob un o'r tair llinell ganlynol: ac y mae yr ymadroddion yn y llinellau canlynol yn dyfod yn gryfach wrth i'r Salmydd fyned yn mlaen. "Nid yw *rhodio*," ebe'r esgob Jebb, "yn cynnwys mwy na chymdeithas ddamweiniol; ond golyga *sefyll*, gyfeillgarwch agosach; ac *eistedd*, gyssylltiad sefydlog a pharhaus: golyga y *cynghor*, y man arferol i

gyfarfod, cyrchfa gyhoeddus; y *ffordd*, y llwybr dewisol a detholedig; yr *eisteddfa*, yr orphwysfa arferol a therfynol: arwydda yr *annuwiolion*, y rhai nacaol ddrwg; *pechaduriaid*, y rhai gweithredol ddrwg; y *gwatwarwyr*, y rhai a ddirmygant hyd y nod enw neu y syniad am dduwioldeb a daioni."* Mae yma, gan hyny, raddfa fel y canlyn, fel y sylwa Dr. Jebb, a'r holl brif esboniadau gan Iuddewon a Christionogion:—

*Rhodio*............*Cynghor*........*Annuwiolion.*
SEFYLL ..........FFORDD........PECHADURIAID.
EISTEDD........EISTEDDFA..GWATWARWYR.

Felly hefyd yn yr adnodau canlynol; mae y syniad yn ymëangu; mae serch at gyfraith Duw yn dwyn y duwiol i fyfyrio ynddi ddydd a nos; mae hyny yn peri iddo ffrwytho, a bod yn hardd yr olwg arno, a theimlo yn ddedwydd yn ei holl ymdrechion, fel pren ffrwythlawn, ar làn y ffrydiau dyfroedd, a'i ddail yn wyrddion, a'i ffrwyth yn beraidd.

Felly hefyd yn Job vi. 15—20:—

"Fy mrodyr a'm twyllasant megys afon,
Aethant heibio fel llifeiriant afonydd;
Y rhai a dduasant gan rew,
Ac yr ymguddiodd yr eira ynddynt:
Yr amser y cynhesant, hwy a dorir ymaith;
Pan wresogo *yr hin*, hwy a ddarfyddant allan o'u lle.
Llwybrau eu ffordd hwy a giliant;
Hwy a ânt yn ddiddym, ac a gollir.
Byddinoedd Tema a edrychant,
Minteioedd Seba a ddysgwyliant am danynt:
Hwy a gywilyddiant, am iddynt obeithio:
Hwy a ddaethant hyd yno, ac a frawychwyd!" †

Ceir ëangiad y syniad hefyd yn Salm xix. 8—11, cxxix. 6—8. Esai. xl. 12, 26, lv. 10, 11. Job xxxviii. 4—11. Deut. xxxii. 11.

Canfyddir hyn hefyd yn nghân Deborah, pan yn desgrifio dysgwyliadau hyfryd mam Sisera; disgwyliai hi am anrhaith

* *Jebb's Sacred Literature*, § 3. p. 41. Gwel hefyd y *Bible Hand-Book*, § 286.

† Yr ydym wedi cyfnewid ychydig ar y cyfieithiad yn rhai o'r dyfyniadau yn yr adran hon.

—anrhaith o gaethion—anrhaith o wisgoedd—o wisgoedd symmudliw—o wnïadwaith symmudliw—anrhaith symmudliw o wnïadwaith o'r deutu, cymmwys i yddfau y gorchfygwyr. (Barn. v. 30.)

Yn hytrach na defnyddio y rhagenw, cawn y bardd ysbrydoledig weithiau yn ail adrodd yr enw ei hun :—

"Dy ddeheulaw, Arglwydd, sydd ardderchog o nerth,
A'th ddeheulaw, Arglwydd, a ddrylliodd y gelyn."
(Exod. xv. 6.)

"Deheulaw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur grymusder;
Deheulaw yr Arglwydd a ddyrchafwyd :
Deheulaw yr Arglwydd sydd yn gwneuthur grymusder."
(Salm cxviii. 15, 16.)

Gwel hefyd Salm xxix. 3—9, lxxvii. 1, 11, 16.

Weithiau ymeflir mewn gair neu syniad yn y llinell flaenorol, er dilyn y meddylddrych yn mhellach yn y llinellau canlynol :—

1 "Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd,
O'r lle y *daw fy nghymhorth.*
2 Fy *nghymhorth a ddaw* oddiwrth yr Arglwydd,
Yr hwn a wnaeth nefoedd a daear.
3 Ni âd efe i'th droed lithro :
Ac ni *huna* dy geidwad.
4 Wele, ni *huna* ac ni chwsg
*Ceidwad* Israel.
5 Yr *Arglwydd* yw dy *geidwad*,
Yr *Arglwydd* yw dy gysgod ar dy ddeheulaw.
6 Ni'th dery yr haul y dydd,
Na'r lleuad y nos.
7 Yr Arglwydd a'th *geidw* rhag pob drwg,
Efe a *geidw* dy enaid.
8 Yr Arglwydd a *geidw* dy fynediad a'th ddyfodiad,
O'r pryd hwn hyd yn dragywydd." (Salm cxxi.)

Cymharer Esai. xxvi. 5, 6. Nahum i. 2; â'r 2 Cor. i. 4—7, lle y dygir yn mlaen y syniad o *ddyddanu*, crybwylledig yn adn. 4.*

* Gwel hefyd *Paley's Horæ Paulinæ*, Epistle to the Ephes. No. III.

3. *Cyfochraeth Wrthgyferbyniol.*

Yn yr engreifftiau hyn, ceir yr ymadroddion yn cyfateb, ond y syniad yn newid:—

"Mab doeth a wna dad llawen;
Ond enw y drygionus a bydra." (Diar. x. 1.)

"Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig;
A mab ffol a dristâ ei fam." (Diar. x. 7.)

"Y dyn llawen a fathra y dil mêl;
Ond i'r newynog, pob peth chwerw sydd felus." (Diar. xxvii. 7.)

"Dros enyd fechan y'th adewais:
Ond â mawr drugareddau y'th gasglaf." (Esai. liv. 7, 8.)

Weithiau ceir cyfochraeth gyfystyrol a gwrthgyferbyniol yn nglyn â'u gilydd, fel math o gyfochraeth ddwbl. (Esai. li. 7, 8.)

4. *Cyfochraeth Gymhlethedig.*

Gwelir fod y llinnellau canlynol yn ateb i'w gilydd, y 1 i'r 3, a'r 2 i'r 4:—

"Canys cyfuwch ag yw y nefoedd uwchlaw y ddaear
Y rhagorodd ei drugaredd ef ar y rhai a'i hofnant ef:
Cyn belled ag yw y Dwyrain oddiwrth y Gorllewin,
Y pellhaodd efe ein camweddau oddi wrthym."
(Salm ciii. 11, 12.)

"Eithr dywedasoch, Na, canys ni a ffown ar feirch;
Am hyny y ffowch:
A marchogwn ar feirch buain;
Am hyny y bydd buan y rhai a'ch erlidio." (Esai. xxx. 16.)

"Meddwaf fy saethau â gwaed;
A'm cleddyf a fwyty gig:
A gwaed y lladdedig a'r caeth,
O ben blaenoriaid y gelyn." (Deut. xxxii. 42.)

Mae yr esgob Jebb yn cyfeirio at gymhlethiad neillduol yr hon a eilw efe yn gyfochraeth fewndroawl (*introverted parallelism*), a hona mai efe ydyw darganfyddwr y math yma o gyfochraeth. Mae y darnau barddonol hyn wedi eu cyfansoddi y fath, ebe'r Esgob, fel, gan nad beth fyddo rhifedi y llinnellau, y mae y gyntaf yn ateb i'r olaf, a'r ail i'r olaf ond un, ac felly yn mlaen trwy y cyfansoddiad, fel y canlyn:—

"Fy mab, os dy galon di fydd ddoeth,
Fy nghalon inau a lawenycha;
Ië, fy arenau a grychneidiant,
Pan dractho dy wefusau di gyfiawnder." (Diar. xxiii. 15, 16.)

"Delwau y Cenedloedd ydynt arian ac aur:
Gwaith dwylaw dyn;
Genau sydd iddynt, ond ni lefarant;
Llygaid sydd ganddynt, ond ni welant;
Y mae clustiau iddynt, ond ni chlywant;
Nid oes ychwaith anadl yn eu genau:
Fel hwynt y mae y rhai a'u gwnant;
A phob un a ymddiriedo ynddynt." (Salm cxxxv. 15–18.)

"Gwelais hefyd megys lliw ambr;
Fel gwelediad tân o'i fewn o amgylch;
O welediad ei lwynau ac uchod;
Ac o welediad ei lwynau ac isod;
Y gwelais megys gwelediad tân,
A dysgleirdeb iddo oddi amgylch." (Ezec. i. 27.)

Ystyrir fod Salm lxxxiv. 5—7, cxxiii. 1, 2. Hosea xiii. 14. Esai. xxvii. 12, 13, &c., yn engreifftiau cyffelyb. Yr ydym wedi cyssylltu y llinnellau a ystyrir yn gyfystyr â'u gilydd, er i'r darllenydd ganfod ar unwaith yr hyn yr ymdrechir ei egluro.

Er i'r darllenydd allu canfod y math yma o gyfochraeth (ac yn wir pob math o gyfochraeth), dylai y geiriau fod wedi eu trefnu fel llinnellau barddoniaeth, fel y gwneir mewn rhai Beiblau Hebraeg, ac yn yr *Annotated Paragraph Bible.* Wedi'r cyfan, mae'n amheus a fwriedid y fath gywreinrwydd gan yr ysgrifenwyr ag a briodola Dr. Jebb iddynt pan yn traethu ar gyfochraeth fewndroawl.

5. *Dosbarthiadau Cydganiadol.*

Ymddengys fod amryw o'r Salmau wedi cael eu cyfansoddi yn y fath fodd ag i gael eu canu gan wahanol gorau yn olynol, y naill yn ateb y llall; ac fe fydd cofio hyn yn eu gwneyd yn fwy dealladwy, a'u gwisgo â mwy o brydferthwch yn ein golwg. Dodwn engraifft neu ddwy o'r modd, yn ol Tholuck, y byddai yr Israeliaid yn pyncio y Salmau yn nghyssegr Duw.

SALM XX.

*Y Lefiaid yn canu.*

1 Gwrandawed yr Arglwydd arnat yn nydd cyfyngder:
Enw Duw Jacob a'th ddiffyno.

2 Anfoned i ti gymhorth o'r cyssegr,
A nerthed di o Seion.

3 Cofied dy holl offrymau,
A bydded foddlawn i'th boeth-offrwm. Selah.

4 Rhodded i ti wrth *fodd* dy galon;
A chyflawned dy holl gynghor.

5 Gorfoleddwn yn dy iachawdwriaeth di,
A dyrchafwn faner yn enw ein Duw:
Cyflawned yr Arglwydd dy holl ddymuniadau.

*Dafydd yn canu.*

6 Yr awr hon y gwn y gwared yr Arglwydd ei eneiniog:
Efe a wrendy arno o nefoedd ei santeiddrwydd,
Yn nerth iechyd ei ddeheulaw ef.

7 *Ymddiried* rhai mewn cerbydau, a rhai mewn meirch:
Ond nyni a gofiwn enw yr Arglwydd ein Duw.

8 Hwy a gwympasant, ac a syrthiasant;
Ond nyni a gyfodasom, ac a safasom.

*Y Lefiaid yn canu.*

9 Achub, Arglwydd:
Gwrandawed y Brenin arnom yn y dydd y llefom.

SALM XLVI.

*Cydgan (Chorus).*

1 Duw *sydd* noddfa a nerth i ni,
Cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder.

2 Am hyny nid ofnwn pe symmudai y ddaear,
A phe treiglid y mynyddoedd i ganol y môr:

3 *Er* rhuo *a* therfysgu o'i ddyfroedd,
*Er* crynu o'r mynyddoedd gan ei ymchwydd ef. Selah.

4 *Y mae* afon,
A'i ffrydiau a lawenhant ddinas Duw;
Cyssegr preswylfeydd y Goruchaf.

5 Duw *sydd* yn ei chanol;
Nid ysgog hi:
Duw a'i cynnorthwya yn foreu iawn.

6 Y Cenedloedd a derfysgasant,
Y teyrnasoedd a ysgogasant:
Efe a roddes ei lef, toddodd y ddaear.

*Y Bobl.*

7 *Y mae* Arglwydd y lluoedd gyda ni;
*Y mae* Duw Jacob yn ymddiffynfa i ni. Selah.

*Cydgan.*

8 Deuwch, gwelwch weithredoedd yr Arglwydd:
Pa annghyfanedd-dra a wnaeth efe ar y ddaear.

9 Gwna i ryfeloedd beidio hyd eithaf y ddaear;
Efe a ddryllia y bwa, ac a dyr y waywffon,
Efe a lysg y cerbydau â thân.

10 Peidiwch, a gwybyddwch mai myfi *sydd* Dduw:
Dyrchefir fi yn mysg y Cenedloedd,
Dyrchefir fi ar y ddaear.

*Y Bobl.*

11 *Y mae* Arglwydd y lluoedd gyda ni;
Ymddiffynfa i ni *yw* Duw Jacob. Selah.

## SALM CXXXII.

*Y Côr Cyntaf.*

1 O Arglwydd, cofia Dafydd,
*A*'i holl flinder:

2 Y modd y tyngodd efe wrth yr Arglwydd,
*Ac* yr addunodd i rymus *Dduw* Jacob.

3 Ni ddeuaf i fewn pabell fy nhŷ,
Ni ddringaf ar erchwyn fy ngwely;

4 Ni roddaf gwsg i'm llygaid,
*Na* hûn i'm hamrantau,

5 Hyd oni chaffwyf le i'r Arglwydd,
Preswylfod i rymus *Dduw* Jacob.

*Yr Ail Gôr.*

6 Wele, clywsom am dani yn Ephratah:
Cawsom hi yn meusydd y coed.

7 Awn i'w bebyll ef;
Ymgrymwn o flaen ei fainc-draed ef.

*Y Côr Cyntaf.*

8 Cyfod, Arglwydd, i'th orphwysfa;
Ti, ac arch dy gadernid.

9 Gwisged dy offeiriaid gyfiawnder:
A gorfoledded dy saint.

10 Er mwyn Dafydd dy was,
Na thro ymaith wyneb dy Eneiniog.

*Yr Ail Gôr.*

11 Tyngodd yr Arglwydd *mewn* gwirionedd i Dafydd;
Ni thry efe oddiwrth hyny;
O ffrwyth dy gorph y gosodaf ar dy orseddfainc.

12 Os ceidw dy feibion fy nghyfammod a'm tystiolaeth,
Y rhai a ddysgwyf iddynt;
Eu meibion hwythau
Yn dragywydd a eisteddant ar dy orseddfainc.

*Y Ddau Gôr.*

13 Canys dewisodd yr Arglwydd Seion:
*Ac a'i* chwenychodd yn drigfa iddo ei hun.

14 Dyma fy ngorphwysfa yn dragywydd:
Yma y trigaf; canys chwenychais hi.

15 Gan fendithio y bendithiaf ei lluniaeth:
Diwallaf ei thlodion â bara.

16 Ei hoffeiriaid hefyd a wisgaf âg iachawdwriaeth:
A'i saint dan ganu a ganant.

17 Yna y paraf i gorn Dafydd flaguro:
Darperais lamp i'm Heneiniog.

18 Ei elynion ef a wisgaf â chywilydd:
Arno yntau y blodeua ei goron.

Dosrana Esgob Horsley yr ail Salm yn y drefn ganlynol:—

*Rhan I.—Y Salmydd.*

1 Paham y terfysga y Cenedloedd,
Ac y myfyria y bobloedd beth ofer?

2 Y mae breninoedd y ddaear yn ymosod,
A'r penaethiaid yn ymgynghori yn nghyd,
Yn erbyn yr Arglwydd, ac yn erbyn ei Grist ef, *gan ddywedyd*,

3 Drylliwn eu rhwymau hwy,
A thaflwn eu rheffynau oddi wrthym.

4 Yr hwn sydd yn preswylio yn y nefoedd a chwardd:
Yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt.

5 Yna y llefara efe wrthynt yn ei lid,
Ac yn ei ddigllonrwydd y dychryna efe hwynt.

6 Minau a osodais fy Mrenin
Ar Seion fy mynydd santaidd.

*Rhan II.—Y Messiah.*

7 Mynegaf y ddeddf:
Dywedodd yr Arglwydd wrthyf,
Fy Mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genedlais.

8 Gofyn i mi, a rhoddaf y Cenedloedd yn etifeddiaeth i ti,
A therfynau y ddaear i'th feddiant.

9 Drylli hwynt â gwialen haiarn;
Maluri hwynt fel llestr pridd.

*Rhan III.—Y Salmydd.*

10 Gan hyny yr awr hon, freninoedd, byddwch synwyrol:
Barnwyr y ddaear, cymmerwch ddysg.

11 Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn ofn,
Ac ymlawenhewch mewn dychryn.

12 Cusenwch y Mab, rhag iddo ddigio,
A'ch difetha chwi *o*'r ffordd,
Pan gyneuo ei lid ef, ond ychydig.
Gwyn eu byd pawb a ymddiriedant ynddo ef.

Mae neillduolion ereill yn perthyn i farddoniaeth Hebreig. Un ydyw y cyfansoddiad rhestr-lythyrenol *(alphabetical)*, yn yr hwn y dechreuir y brawddegau yn olynol â geiriau gyda

llythyrenau yr egwyddor Hebraeg yn eu dechreu, yn ol trefn yr egwyddor, sef gair yn dechreu gydag א *(Aleph)* yn nechreu y frawddeg gyntaf, ב *(Beth)* yn nechreu yr ail frawddeg, &c., fel y canlyn :—

1 (א A.) Clodforaf yr Arglwydd â'm holl galon ;
(ב B.) Yn nghymmanfa y rhai uniawn, ac yn y gynnulleidfa.

2 (ג G.) Mawr yw gweithredoedd yr Arglwydd ;
(ד D.) Wedi eu ceisio gan bawb a'u hoffant.

3 (ה H.) Gogoniant a harddwch yw ei waith ef,
(ו F.) A'i gyfiawnder sydd yn parhau byth.

Ac fel yna yn mlaen drwy y Salm hyd ddiwedd yr egwyddor Hebraeg. Cofier fod y llythyrenau hyn yn yr Hebraeg yn rhan o'r geiriau a ddechreuant. Dilynir yr un drefn yn Salm cxii. Yn Salm cxix. ceir y llythyren א *(Aleph)*, yn dechreu pob un o'r wyth adnod gyntaf; ב *(Beth)*, yn nechreu pob adnod yn yr ail adran o'r wythfed i'r unfed ar bymtheg; ג *(Gimel)*, yn nechreu pob adnod yn y drydedd adran o'r unfed ar bymtheg hyd y bedwaredd ar hugain; ac felly yn mlaen, trwy y Salm hyd ddiwedd yr egwyddor Hebraeg. Ceir llythyrenau yr egwyddor Hebraeg yn dechreu yr adnodau yn Salm cxlv. yn rheolaidd, gyda'r eithriad o'r llythyren נ (N); dichon, fel yr awgryma Phillips,* fod brawddeg wedi colli o'r Salm fel yr ysgrifenwyd hi ar y cyntaf. Yn Ngalarnad Jeremiah y mae cywreinwaith tra chelfydd o'r natur yma yn y cyfansoddiad, a'r llythyrenau wedi eu trefnu yn y modd mwyaf rheolaidd, fel y gwel yr efrydydd, ond iddo droi i'w Feibl Hebraeg.† Mae rhai engreifftiau ereill i'w cael o'r math yma o gyfansoddiad.

Mae troellymadroddion hyfion ac arucheledd mawreddog barddoniaeth y Beibl wedi tynu sylw neillduol efrydwyr Beiblaidd yn mhob oes. Mae dychymmyg bywiog y bardd ysbrydoledig yn personoli natur, ac yn galw ar wrthddrychau difywyd i ddadgan eu llawenydd a phyncio mawl o flaen Duw; bryd arall, desgrifia hwynt mewn braw a dychryn yn ngwyneb yr arddangosiad o'i ddigter :—

* *The Psalms in Hebrew, &c.* By the Rev. George Phillips, B.D.

† Gwel *Lowth's Sacred Poetry of the Hebrews*, Lect. XXII.

"Rhued y môr, a'i gyflawnder;
Y byd, a'r rhai a drigant o'i fewn:
Cured y llifeiriant eu dwylaw;
Cydganed y mynyddoedd, o flaen yr Arglwydd;
Canys y mae yn dyfod i farnu y ddaear."
(Salm xcviii. 7—9.)

"Y môr a welodd hyn, ac a giliodd:
Yr Iorddonen a drodd yn ol:
Y mynyddoedd a neidiasant fel hyrddod,
A'r bryniau fel ŵyn defaid.
Beth ddarfu i ti, O fôr, pan giliaist?
Tithau Iorddonen, paham y troaist yn ol?
Paham, fynyddoedd, y neidiech fel hyrddod?
A chwi, fryniau, fel ŵyn defaid."
(Salm cxiv. 3—6.)

"Yr haul a'r lloer a dywyllant,
A'r sêr a attaliant eu llewyrch.
A'r Arglwydd a rua o Seion,
Ac a rydd ei lef o Jerusalem;
Y nefoedd hefyd a'r ddaear a grynant."
(Joel iii. 15, 16.)

Gwel hefyd Esai. xxxiv. 4, xxxv. 1, 2. Nah. i. 3—6. Mae arucheledd y Beibl yn cyffroi ein natur, ac yn ein dwyn i ymostwng gydag ofn santaidd a pharch duwiol o flaen Tad y trugareddau.*

* Gwel yn ychwanegol at y gweithiau y cyfeiriwyd atynt yn barod ar bwnc yr adran hon. *De Wette's Introduction to the Psalms,* American Biblical Repository, vol. iii. 1833, pp. 445—460; Erthyglau ar *Hebrew Poetry*, yn Ngeiriaduron Kitto a Dr. W. Smith; a'r Erthygl ragorol ar *Farddoniaeth Hebreig* yn Ngeiriadur y Parch. J. Jones *(Mathetes).*




HUGHES & SON, WREXHAM.

# PENNOD V.

## RHEOLAU DEHONGLIAD Y BEIBL.

---

## Y CYNNWYSIAD.

*Gwerth a phwysigrwydd Rheolau cywir—Y Tadau fel esbonwyr—* RHEOL I. *Geiriau y Beibl i'w deall yn eu hystyron arferol—Cyfarwyddiadau ac egluriadau—Cymhwysiad a therfynau y Rheol—* RHEOL II. *Y pryd y mae y geiriau i'w deall yn Ffugyrol—Egluriadau—*RHEOL III. *Ymadroddion aneglur i'w hegluro ag ymadroddion eglurach a helaethach ag fyddont yn traethu am yr un pethau—Engreifftiau—*RHEOL IV. *Y pwys o sylwi ar amcan llefariad neu ysgrifeniad gwahanol ranau o'r Beibl—Egluriadau—*RHEOL V. *Y pwys o esbonio yn ol rhediad yr Ysgrythyrau—Ystyr y Rheol —Egluriadau o'i phwysigrwydd—"Yr ysbrydion yn ngharchar"— "Llestri digofaint"—Impio yr Iuddewon i mewn i'w holewydden eu hun—Desgrifiad y Beibl o Grist a'r Tad—"Yr annuwiol yn iawn dros y cyfiawn"—Gorchymynion moesol a phendant—*RHEOL VI. *—Yr anghenrheidrwydd i amgyffred y geiriau dan sylw, deall eu neillduolrwydd, a dwyn allan eu cynnwysiad—Gwahanol engreifftiau er egluro y Rheol—Gocheliadau wrth weithio y Rheol allan.*

MAE o bwys neillduol i ni ymgadw o fewn terfynau priodol, a glynu wrth egwyddorion safadwy, pan yn ceisio dehongli y gyfrol Ddwyfol. O ddiffyg hyn, mae yr hanesiaeth egluraf wedi cael ei dirdynu i olygu y pethau mwyaf dyeithr ac anmherthynasol; y dammegion prydferthaf i ddysgu dychymmygion gwylltion a gwrthun; a'r ymresymiad cadarnaf yn cael ei wyrdroi i ddysgu pethau perffaith groes i feddwl yr Ysbryd. Fel hyn cawn *Hippolytus* yn y drydedd ganrif, wrth esbonio hanes Isaac, yn dweyd fod Isaac yn golygu Duw; Rebecca, yr Ysbryd Glân; Esau, y genedl Iuddewig; a Jacob, yn golygu Crist; esboniai henaint Isaac, i olygu cyflawnder yr amser; a'i ddallineb i olygu tywyllwch ysbrydol. Esbonia

*Hilary*, yn y bedwaredd ganrif, ehediaid y nef, i olygu ysbrydion aflan; y lili, i olygu yr angylion; a'r glaswellt, y paganiaid. Dysgai *Ambrose*, yn y bedwaredd ganrif, wrth esbonio Mat. xvii. 24, fod y pysgodyn yn golygu y merthyr cyntaf, a'r arian a gaed yn ei safn yn golygu Crist; a bod Stephan, y merthyr cyntaf, â'r trysor yn ei enau pan oedd yn nghanol ei ingoedd yn cyffesu Crist. Yr oedd llawer o'r rhai a elwir y Tadau a'u holynwyr yn fynych yn diystyru, ac weithiau yn gwadu yr ystyr lythyrenol, ac yn myned i ddychymmygu ac ysbrydoli mwy nag yr oedd yr Ysbryd Glân erioed wedi ei fwriadu. Gyda chyfundrefn o'r fath yna o ddehongli, ni ellid bod yn sicr am ystyr unrhyw ran o'r Beibl, a gellid gwneyd i'r Beibl olygu unrhyw beth a ddygwyddai penboethiaid ddychymmygu.

Ffordd mor gyfeiliornus a hona, drachefn, yw y ffordd o esbonio ymadroddion ffugyrol a chymhariaethol i olygu cyflawniad llythyrenol, fel y gwna y milflwyddiaid gyda theyrnasiad Crist a'r adgyfodiad cyntaf; a'r ffordd o gymmeryd brawddeg o'i chyssylltiadau, a sefydlu athrawiaethau arni, hollol annghydweddol â rhediad yr ymresymiad, megys adferiad y colledigion ar y geiriau "adferiad pob peth" yn Act. iii. 21, tra mae yr apostol yn cyfyngu y "pob peth" i "*y rhai a ddywedodd Duw trwy enau ei holl santaidd brophwydi erioed.*" Nid ydyw y prophwydi yn dysgu y fath beth ag adferiad yr annuwiol o drueni yn y byd arall; ond y maent yn dysgu y bendithir "holl dylwythau y ddaear" yn Nghrist, ac yr adferir y byd trwy Gyfryngwr i'r fath raddau ag i ymddangos fel pe buasai "nefoedd newydd a daear newydd" wedi cael eu creu. (Esai. lxv. 17.)

Dengys yr ystyriaethau hyn y pwys i ni feddu nifer o reolau safadwy, sylfaenedig ar feirniadaeth deg, hanesiaeth gywir, ac adnabyddiaeth ëang â chynnwysiad y Beibl.

Cyn i ni fyned at reolau neillduol Dehongliad y Beibl, y mae o bwys mawr cofio mai AMCAN GORUCHEL Y BEIBL YW DYSGU CREFYDD I'R BYD. Os na chedwir hyn mewn cof, ni wna y rheolau cywiraf ein dysgu i ymwneyd â'r Beibl mewn ysbryd priodol, a'i ddeall yn gywir; tra y gwna cofio y ffaith hon daflu goleuni ar amryw bwyntiau dyrus, a symmud ymaith amryw anhawsderau pwysig. Yn wir, gellir ystyried yr osodaeth hon ei hunan yn reol hanfodol i iawn ddehongliad y Beibl.

Gan ein bod wedi cyfeirio sylw y darllenydd at hyn o'r blaen (tudal. 211), ni wnawn yn bresennol ond nodi fel y mae y ffaith yn cyfrif am wahanol nodweddau y Beibl, ac yn egluro rhai o'i neillduolion :—

1. Rhydd hyn gyfrif am y ffaith *nad ydyw y Beibl yn arddangos ac yn egluro gweithrediadau natur gyda manylrwydd gwyddonol, ond yn hytrach fel yr ymddangosant i'r edrychydd diddysg.* Sonia am godiad a machludiad yr haul, gan ei fod yn ymddangos i'r llygad noeth fel yn codi a machlud. Sonia am "golofnau" a "chonglau" y ddaear, gan y barnai dynion mai gwastadedd ëang ydyw, a bod colofnau yn ei chynnal; gan mai nid dysgu gwyddoniaeth yw amcan y Beibl, nid ydyw yn ymaros i gywiro y syniadau hyn.

Ond ar rai adegau, ceir awgrymiadau am wir safle y ddaear :—"Y mae efe yn crogi y ddaear ar ddiddym." (Job xxvi. 7.) Er nad yw y Beibl yn dysgu y gwyddorau, dylid cofio nad yw efe yn dysgu dim ag sydd yn groes i wir athroniaeth. Mewn modd cyffelyb y mae athronwyr yn son am bethau, pan yn traethu ar olygfeydd, rhyfeddodau, a deddfau y cread.

2. Mae yr ystyriaeth yma hefyd yn dangos y rheswm dros *y pwysigrwydd a roddir i hanes Israel ac amgylchiadau neillduol*, pan, o'r ochr arall, y mae hanes teyrnasoedd yn cael ei grynhoi mewn ychydig frawddegau.

3. *Eglura hefyd lymder y gosb am droseddu gosodiadau Duw.* Cawn fod cosbedigaethau llymion yn cymmeryd lle am drosеddiadau yn erbyn gosodiadau pendant Duw; tarawyd gwraig Lot yn golofn halen am anufyddhau i orchymyn pendant Duw (Gen. xix. 17, 26); lleddid yr hwn a droseddai ddeddf bendant y Sabbath (Exod xxxi. 14, 15. Num. xv. 32—36); dinystrwyd Achan am droseddu deddf bendant Duw gyda golwg ar y diofrydbeth (Jos. vi. 18, vii. 11, 25). Y dyben mawr yn yr holl lymder hwn oedd *dysgu i ddyn y pwys o roddi ufydd-dod trylwyr i Dduw yn mhob peth.*

Yr un modd y cawn hefyd fod troseddau yn erbyn gorchymynion moesol yn cael eu cosbi gyda llymder. Er engraifft, nid oedd diangfa i'w chael i'r llofrudd bwriadol yn y ddinas noddfa (Deut. xix. 11, 12); wrth gyrn yr allor (Exod. xxi. 14); nac yn un man arall. (Num. xxxv. 31.) Yr amcan trwy gosbedig-

aethau chwerwon fel hyn oedd *dysgu ufydd-dod i Dduw, a chyfiawnder a thynerwch brawdol a chariadus tuag at ddyn.*

4. Dengys yr ystyriaeth yma hefyd *paham y rhoddir y fath bwys ar feddu egwyddor gywir pan yn ymwneyd â gwaith Duw.* Cael dyn o ran ei enaid i'w le, i barchu Duw, ac ymhyfrydu yn ardderchowgrwydd ei gymmeriad, yw yr amcan; gan hyny rhoddir y pwys mwyaf ar fod dyn yn meddu y cywirdeb a'r parch hwnw i'r Goruchaf ag sydd yn gymmeradwy yn ngolwg yr Hollwybodol; a chondemnir pob peth ag sydd yn syrthio yn fyr o hyn fel ffieidd-beth yn ngolwg y Duw santaidd.

5. Rhydd hyn gyfrif hefyd *paham y mae y Beibl yn edrych ar bob peth yn eu cyssylltiad â Duw, ac yn dyrchafu meddyliau dynion oddiwrth y daearol at yr ysbrydol.*

(1,) Gesyd natur allan o dan reolaeth Duw. Efe sydd yn peri i'r haul godi, ac i'r cymmylau wlawio (Mat. v. 45); efe sydd yn bwrw iâ ar y ddaear (Salm clxvii. 16, 17); efe sydd yn gollwng y gwynt o'i law, ac yn cyfodi yr ystorm (Jonah i. 4); a'i fendithion ef yw gogoniant y tymhorau, a holl drysorau y ddaear. (Salm lxv. 9—13.)

(2,) Edrycha ar amgylchiadau dynion o dan reolaeth Duw. Dywed "nad eiddo dyn ei ffordd" (Jer. x. 23), a bod Duw yn gosod terfynau i'w einioes (Job xiv. 5); dysga mai Duw sydd yn gwaredu o gystudd, ac yn achub rhag angeu. (Phil. ii. 27. Salm xxxiii. 19.) Dywed yr hanesydd Josephus fod Herod wedi cael ei daro yn angeuol pan yn derbyn gweniaith y bobl, ond ychwanega y Beibl mai cenad Duw a'i tarawodd, o herwydd na roddasai y gogoniant i Dduw. (Act. xii. 19—23. Gwel tudal. 123.)

(3,) Yn unol â'r amcan yma, mae Crist a'i apostolion yn dyrchafu meddyliau eu gwrandawyr oddiwrth bethau daearol at bethau ysbrydol a Dwyfol.

Pan oedd Martha yn gordrafferthu i barotoi ymborth, cymmerodd yr Iesu achlysur, oddiwrth hyny, i son am yr un peth angenrheidiol, y rhan oreu o bob rhan, yr hon a fydd yn eiddo dyn yn dragywydd. (Luc x. 38—42.) Cyfodai feddwl y wraig o Samaria oddiwrth ddwfr ffynnon Jacob at "y dwfr bywiol" (Ioan iv. 10): a chyfeiriai sylw y dysgyblion oddiwrth y cynhauaf naturiol at y gwaith o gasglu ffrwyth i fywyd tragywyddol. (Ioan iv. 35—38.)

Pan y synai y bobl o herwydd iachâd y dyn cloff, cyfeiriai Pedr eu sylw at iechyd uwch a phwysicach—iechyd enaid oddiwrth effeithiau dinystriol gwenwyn pechod, yr iachawdwriaeth ysbrydol yr hon sydd yn Nghrist yn unig. (Act. iii. 12—20, iv. 9—12.)*

(4,) Felly hefyd mae y Beibl yn dysgu pob dyledswydd gymdeithasol oddiar safle grefyddol. Dysga ufydd-dod i'r brenin a'r awdurdodau gwladol megys i Dduw (Rhuf. xiv. 2. 1 Pedr ii. 13); i rieni, am fod Duw yn gorchymyn (Eph. vi. 1, 2); ac i feistriaid, er anrhydeddu Crist trwy hyny (Eph. vi. 5—7.)

Mewn gair, gesyd y Beibl allan holl ymddygiad dyn yn ei gyssylltiad â Duw ac â'r byd a ddaw: "Canys Duw a ddwg bob gweithred i farn, a phob peth dirgel, pa un bynag fyddo ai da ai drwg." (Preg. xii. 14. 2 Cor. v. 10. Gal. vi. 7, 8.)

Gan hyny, fe fydd i'r ystyriaeth o amcan goruchel y Beibl daflu goleuni gwerthfawr arno, a'n cynnysgaethu â'r allwedd i fyned i mewn i'w drysorau.

Ond bellach, deuwn at y Rheolau. Nid oes llawer o newydd-deb i'w ddysgwyl yn nhrafodaeth y pwnc hwn. Yr ydym wedi darllen gweithiau gwahanol awdwyr ar y ganghen hon, a'r un cyfarwyddiadau o ran sylwedd a geir ynddynt bron i gyd, ond fod rhai o honynt yn crynhoi y rheolau i lai o rifedi, a'u gosod allan mewn gwahanol ymadroddion. Yr ydym wedi ffurfio y rheolau canlynol, heb geisio ar un llaw ddilyn y naill na'r llall o honynt, nac ar y llaw arall osgoi tebygolrwydd iddynt er mwyn newydd-deb, ond gyda'r amcan neillduol i gael allan y cyfarwyddiadau goreu, a'r rheolau mwyaf anghenrheidiol a phwrpasol.

RHEOL I.—*Fod geiriau y Beibl i'w deall yn gyffredin yn eu hystyron arferol.*

Mae dwy ffordd i gael hyn allan, sef (1,) oddiwrth arferiad, ac (2,) oddiwrth y cyssylltiad.

* Yr un ferf σώζω (sôzô) a ddefnyddir am *iachau* yn Act. iv. 9, ac am *fod yn gadwedig* yn Act. iv. 12, ond fod y cyfeiriad yn y lle cyntaf at waredigaeth oddiwrth afiechyd naturiol, ac yn yr ail at ddiangfa ysbrydol.

Mae arferiad cyffredin yn sefydlu ystyron geiriau, ac os ydyw yr ystyr arferol yn gwneyd yr ymadrodd yn ddealladwy ynddo ei hun, ac yn y cyssylltiadau, dylid deall yr ymadrodd yn ei ystyr arferol. Pan yr ydys yn darllen y Beibl, dylem ddeall ei ymadroddion yn gyffredin, fel y deallem yr un ymadroddion pe cyfarfyddem â hwynt mewn llyfr arall.

Pan y darllenwn am "bysgodyn" yn llyncu Jonah, dylem ystyried mai pysgodyn a olygir, ac nid *llong*, a llun morfil wedi ei baentio arni, fel y barnai Godfrey Less; neu *dafarndý*, gyda llun pysgodyn ar yr arwydd-fwrdd *(sign)*, i'r hwn y derbyniwyd Jonah ar ol ei longddrylliad (?), fel y dysgai Von der Hardt;* neu fod yr hyn a adroddir i'w ddeall fel gweledigaeth Jonah, neu yr holl lyfr fel dammeg, fel y dysga ereill. Felly hefyd pan y dysga Crist i'w ddysgyblion beidio cyfarch gwell i neb ar y ffordd (Luc x. 4), yr ydym i ddeall y cyfarwyddyd yn llythyrenol, ac nid ei ysbrydoli fel y cawn Origen yn gwneyd: cymharer tudal. 257, 258. Lle y goddef y synwyr, dylid deall y geiriau yn yr ystyr arferol.

Mae y *cyssylltiad* hefyd yn gymhorth i ddeall ystyron geiriau. Mae yr un geiriau mewn ymddyddan cyffredin yr un modd ag yn yr Ysgrythyr, yn meddu ystyron gwahanol mewn gwahanol gyssylltiadau. Gwelir hyn oddiwrth y defnydd a wneir o'r ymadrodd *gair* (Groeg, *logos*), yn y Testament Newydd. Golyga wahanol bethau mewn gwahanol leoedd; megys,—

(1,) Crist: "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd." (Ioan i. 14.)

(2,) Yr efengyl: "Pregetha y gair." (2 Tim. iv. 2.)

(3,) Dywediad: "Am hyny yr aeth y gair yma allan yn mhlith y brodyr," &c. (Ioan xxi. 23.)

(4,) Proffes arwynebol o unrhyw beth: "Na charwn ar air nac ar dafod yn unig." (1 Ioan iii. 18.)

(5,) Addewid Duw: "Oblegyd ti a fawrheaist dy air uwchlaw dy enw oll" (Salm cxxxviii. 2),—gan gyfeirio yn benaf at yr addewid a roddwyd i Dafydd am y Messiah. (2 Sam. vii.)

Yr un modd y gellir dweyd am y gair *gras* (Groeg, *charis*). Defnyddir ef er gosod allan,—

(1,) Hawddgarwch a dymunoldeb,—mewn geiriau neu ymddygiad. "Tywalltwyd gras ar dy wefusau." (Salm xlv. 2. Luc iv. 22. Ephes iv. 29. Col. iv. 6.)

* Gwel *Stuart on the Old Test. Canon*, § 4. *Dr. Jahn's Introd. to the Old Testament*, §§ 124—129.

(2,) Teimlad neu dueddiad caredig tuag at arall. Megys eiddo dyn tuag ddyn (Luc ii. 52. Act. ii. 47, iii. 33, vii. 10); ac eiddo Duw tuag ato. (Rhuf. i. 7, xi. 6. Act. xv. 11. Tit. ii. 11. 1 Pedr i. 10.)

(3,) Ffafr, yn cael ei dangos mewn gweithred garedig. (Rhuf. iv. 4). Megys, mewn elusen (1 Cor. xvi. 3. 2 Cor. viii. 6, 19), —yn mendithion yr efengyl (Ioan i. 14. Act. xi. 23. Rhuf. v. 2, vi. 14. 1 Pedr v. 12),—yn y swydd apostolaidd (Rhuf. xii. 3. Ephes. iii. 8),—mewn cymhorth Dwyfol i fyw yn ol yr efengyl (2 Cor. i. 12, xii. 9. Heb. iv. 16),—ac yn arddeliad Duw o'r saint yn y farn. (1 Pedr i. 13.)

(4,) Diolchgarwch, yn ngwyneb ffafrau Dwyfol. "Bydded genym ras." (Heb. xii. 28).

Felly hefyd gyda'r geiriau *gwaed*, *cnawd*, *ysbryd*, *gwirionedd*, *goleuni*, &c.

Mae y cyssylltiadau hefyd yn gymhorth i ddeall brawddegau; er engraifft:—

"Yr ydym ni gan hyny yn cyfrif mai trwy ffydd y cyfiawnheir dyn, heb weithredoedd y ddeddf." (Rhuf. iii. 28.)

"Chwi a welwch gan hyny mai o weithredoedd y cyfiawnheir dyn, ac nid o ffydd yn unig." (Iago ii. 24.)

Dengys y cyssylltiadau nad yn yr un ystyr y llefara Paul a Iago am ffydd a gweithredoedd; son am ffydd fel moddion ein cyfiawnhad gerbron Duw y mae Paul, son am weithredoedd i brofi didwylledd y ffydd hono ger bron dynion y mae Iago; eglura Paul ei bwnc trwy gyfeirio at waith Abraham yn credu yn Nuw cyn ei enwaediad, eglura Iago ei bwnc trwy gyfeirio at ufydd-dod Abraham yn offrymu Isaac yn mhen mwy nag ugain mlynedd ar ol hyny.

Gyda golwg ar iachawdwriaeth dyn trwy ras yn unig, yr oedd Iago yn dysgu yr un athrawiaeth a Phaul, oblegyd priodola iachawdwriaeth pechadur i *ewyllys da Duw*. (Iago i. 18.)

"Wele, myfi Paul wyf yn dywedyd wrthych, Os enwaedir chwi, ni lesha Crist ddim i chwi." (Gal. v. 2.)

"Paul a fynai i hwn fyned allan gydag ef; ac *efe* a'i cymherth ac a'i henwaedodd ef, o achos yr Iuddewon oedd yn y lleoedd hyny: canys hwy a wyddent bawb mai Groegwr oedd ei dad ef." (Act. xvi. 3.)

"A alwyd neb wedi ei enwaedu? nac adgeisied *ddienwaediad*. A alwyd neb mewn dienwaediad? nac enwaeder arno. Enwaediad nid yw ddim, a dienwaediad nid yw ddim, ond cadw gorchymynion Duw." (1 Cor. vii. 18, 19.)

Rhaid ystyried y cyssylltiadau er deall yr ymadroddion hyn. Yr oedd y Galatiaid yn myned i ymddiried mewn enwaediad a defodau Iuddewig am gyfiawnhad, ac felly yn gwrthod yr efengyl yn ei hanfod a'i graslonrwydd; yr oedd enwaedu ar Timotheus yn symmud rhwystrau oddiar ffordd ei ddefnyddioldeb, heb fradychu yr un egwyddor; tra y dywedir wrth y Corinthiaid ag oedd mewn pryder yn nghylch eu dyledswydd gyda golwg ar enwaediad, am fod yn dawel yn ei gylch, a pheidio pryderu mwy o barthed iddo—nad oedd enwaediad o un fantais, na dienwaediad yn un anfantais, yn nheyrnas Dduw.

"Ond yn awr ni saif dy freniniaeth di: yr Arglwydd a geisiodd iddo ŵr wrth *fodd* ei galon ei hun: yr Arglwydd hefyd a orchymynodd iddo fod yn flaenor ar ei bobl; o herwydd na chedwaist ti yr hyn a orchymynodd yr Arglwydd i ti." (1 Sam. xiii. 14. Act. xiii. 22.)

Cyfeiria y geiriau hyn at gymmeriad swyddol Dafydd fel brenin yn wrthgyferbyniol i ymddygiad anufydd Saul, ac nid at ei berffeithrwydd dibechod, fel y gwelir yn y cyssylltiadau. Cymharer 2 Sam. xii. 9.

NODIAD I.—

Weithiau mae ystyr ffugyrol yn dyfod trwy arferiad yn ystyr arferol gair. Er engraifft: ystyr lythyrenol y gair Hebraeg CHARAH yw *llosgi;* ond defnyddir ef yn wastad am *fod yn ddigllawn.* Ystyr lythyrenol y geiriau a gyfieithir "hwyrfrydig i ddig" (Exod. xxxiv. 6) yw *hir o ffroenau;* a'r geiriau "gŵr digllawn" (Diar. xiv. 17), yw *byr ei ffroenau* gan gyfeirio at waith dyn yn anadlu yn gyflym pan wedi ei gynhyrfu, ac yn araf pan na fydd dan gyffroad; ond gyda'r ymadroddion hyn, a rhai ereill o gyffelyb natur, mae yr ystyr ffugyrol wedi dyfod trwy arferiad yr ystyr briodol.

NODIAD II.—

Tra mae geiriau yn gyffredin i'w ddeall yn yr ystyr lythyrenol ac arferol, mae amryw engreifftiau yn dygwydd pryd mae'n anghenrheidiol i'r efrydydd arfer ei ddoethineb wrth gymhwyso y Rheol. Dywedir fod Crist yn esiampl i ni; mae hyny yn wirionedd eglur a phwysig, a'r ymadroddion a'i desgrifiant ef fel y cyfryw i'w deall yn llythyrenol; ond rhaid i'r efrydydd ymofyn yn mha ystyriaethau ac i ba raddau y mae Iesu Grist yn esiampl i'w bobl. Gan ei fod o gymmeriad neillduol, nis gallasai fod yn esiampl i ni yn mhob peth; yr oedd efe yn Fab Duw, yn Frenin Seion, ac yn Waredwr, ac o herwydd hyny yn honi cydraddoldeb â Duw, yn derbyn addoliad, yn sefydlu crefydd newydd yn y byd, yn galw ar ddynion i gredu ynddo, gan gyffesu ei hun yn alluog i'w hachub, a'u hadgyfodi yn y dydd diweddaf; byddai yn gabledd, a rhyfyg mawr i neb feddwl ei efelychu yn y pethau hyn. O'r ochr arall, gan ei fod yn ddyn perffaith, yr oedd yn esiampl i ni yn y rhinweddau a ofynir gan gyfraith Duw;

megys ei burdeb dihalog, ei ymroddiad i wneuthur ewyllys ei Dad, ei dosturi tuag at y byd euog a damniol, ei gariad at ei ddysgyblion, ei hunan-ymwadiad—mewn gair, yr holl rinweddau ag sydd yn nodweddu ac yn cyfansoddi y cymmeriad Cristionogol. Yr oedd duwioldeb, llarieidddra, maddeugarwch, dyfalbarhad yn llwybr rhinwedd, &c., yn addurno ei gymmeriad ef, ac yn peri i engyl y nef ei fawrygu, ac i'r Tad ymhyfrydu ynddo gyda hyfrydwch annhraethadwy a Dwyfol. Y mae yn esiampl i ni yn yr ystyriaethau hyn, a desgrifir ei ddysgyblion fel rhai sydd yn ei ddilyn i ba le bynag yr elo.

NODIAD III.—

Mae rhai o'r geiriau a ddefnyddir yn y Beibl yn cael eu defnyddio i ddybenion newyddion, ac yn meddu ystyron neillduol; megys y geiriau am *gyfiawnder*, *ffydd*, *cyfammod*, *angel*, *apostol*, *pregethu*, &c. Ni ddylid cymhwyso y rheol yn rhy gaeth pan yn esbonio geiriau o'r natur yma.

NODIAD IV.—

Mae rhai geiriau ac ymadroddion yn y Beibl yn cyfeirio at yr ystyr lythyrenol a'r weithred naturiol, a'r amcan mewn golwg, ac at y cymhwysderau moesol hefyd yr un pryd, fel y maent mewn rhan i'w deall yn llythyrenol, ac mewn rhan yn ffugyrol; megys *bedydd*, *swper yr Arglwydd*, a *chanu mawl*. Wrth gyfeirio atynt cymmerir i ystyriaeth y weithred ei hun, yr arwyddocâd, a'r cymhwysderau moesol gofynol i wneyd y gwasanaeth yn dderbyniol gan Dduw.

NODIAD V.—

Tra mae y Rheol i'w dilyn gyda'r mwyafrif o ymadroddion, gydag ymadroddion ereill mae ychydig o gyfyngiad *(modification)* yn ofynol. Yn 2 Cor. iv. 6, dywedir fod "y llythyren yn lladd," hyny yw, yn cyhoeddi marwolaeth uwchben y troseddwr heb estyn ymwared iddo; ond fod "yr ysbryd yn bywhau," hyny yw, fod yr efengyl yr hon yw deddf Ysbryd y bywyd yn Nghrist Iesu yn cyhoeddi bywyd i'r byd, ac yn achub dyn rhag yr ail farwolaeth.

Priodolir gweithred neu weithredoedd i un yn fynych, pryd na olygir ond (1,) Caniatâu neu oddef hyny; (2,) Trefnu i arall weithredu dros un; (3,) Rhagfynegi unrhyw brophwydoliaeth. Dywedir fod Duw yn caledu calon Pharaoh (Exod. x. 27), a rhoddi Israel yn llaw Midian (Barn. vi. 2), pryd na olygir ond *caniatâu* hyny: dywedir fod Dafydd wedi lladd Urias (2 Sam. xii. 9), a Nebuchodonosor wedi adeiladu Babilon (Dan. iv. 30), a bod Herod wedi tori pen Ioan Fedyddiwr (Luc ix. 7), pryd na olygir ond *achosi i ereill wneyd hyny drostynt*: a dywedir hefyd yn iaith prophwydoliaeth fod y *prophwyd yn gwneyd yr hyn a ragfynega*, megys Jeremiah yn planu a diwreiddio teyrnasoedd (Jer. i. 10), ac Esaiah yn trymhau clustiau a chau llygaid yr Iuddewon (Esai. vi. 10.) Gwel hefyd Ezec. xliii. 3. Hos. vi. 5.

NODIAD VI.—

Cofier hefyd, er fod geiriau y Beibl y rhan fynychaf i'w deall yn llythyrenol, nad ydyw yr ysgrifenwyr santaidd bob amser yn dilyn trefniad amserol *(order of time)*. Yn 1 Tim. ii. 4, dywedir fod Duw "yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig, a'u dyfod i wybodaeth y gwirionedd;" y mae dyfod i wybodaeth y gwirionedd i ragflaenu bod yn gadwedig, canys moddion yw y naill i gyrhaedd y llall. Yn 1 Tim. iii. 16, dywedir fod Crist wedi ei bregethu i'r Cenedloedd, fel pe byddai hyny wedi cymmeryd lle cyn ei esgyniad, tra y dengys yr Actau mai ar ol ei ddyrchafiad y cymmerodd hyny le. Yn 1 Pedr i. 2, dywedir fod y saint wedi eu hethol "i ufydd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist," tra nad ydyw yr ufydd-dod ond effaith cymmod â Duw trwy groes Crist. Yn Tit. iii. 5, dywedir fod Duw wedi achub Paul a'i frodyr "trwy olchiad yr adenedigaeth ac adnewyddiad yr Ysbryd Glân," tra mae yn eglur fod adnewyddiad yr Ysbryd Glân i flaenori y golchiad sydd yn dilyn ac yn arwyddlun o hyny. Gwna cofio y ffaith nad ydyw yr ysgrifenwyr santaidd yn wastad yn dilyn trefn amser symmud amryw anhawsderau ac annghyssonderau ymddangosiadol.

RHEOL II.—*Pan y bydd yr ystyr lythyrenol yn anmhossibl, neu yn anmhriodol, neu pan fydd y geiriau yn cyfeirio at bethau ysbrydol, y maent i'w deall y pryd hyny mewn modd ffugyrol.*

Pan y dywedir, "Gâd i'r *meirw* gladdu eu mheirw" (Mat. viii. 22), mae'n amlwg fod y gair meirw yn y lle cyntaf o anghenrheidrwydd yn ffugyrol, gan fod yn anmhossibl i'r meirw yn yr ystyr arferol i wneyd yr hyn a ddywedir.

Pan y sonir am y saint fel "meini bywiol" (1 Pedr ii. 5), ac am "y mynyddoedd a'r bryniau yn bloeddio canu," a "holl goed y maes yn curo dwylaw" (Esai. lv. 12), mae anmhriodoldeb ac anmhossibilrwydd naturiol yn y desgrifiad, ac felly mae'n eglur ei fod yn ffugyrol.

Wrth i'r Iesu ddysgu yr anghenrheidrwydd i "fwyta ei gnawd ac yfed ei waed ef" (Ioan vi. 53, 54), y mae yn cyfeirio at yr hyn sydd ynddo ei hun yn anweddus, ac yn son am bethau ysbrydol, yr hyn a ddengys fod y geiriau i'w deall mewn modd ffugyrol.

Pan y gosodir Duw allan fel "goleuni" (1 Ioan i. 5), a Christ fel "sylfaen" (1 Cor. iii. 11); pan y dysgir yr anghenrheidrwydd am "ailenedigaeth" (Ioan iii. 3), a'r ddyledswydd i "redeg yr yrfa" (Heb. xii. 1), ac i "gymmeryd gafael ar y bywyd tragywyddol" (1 Tim. vi. 12), fe gyfeirir at bethau ysbrydol a moesol, ac o ganlyniad mae yr ymadroddion i'w deall yn gymhariaethol, ac nid yn llythyrenol.

Weithiau defnyddir yr un ymadroddion mewn modd ffugyrol a llythyrenol; er engraifft:—

"Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwyta." (Ioan vi. 31.)

"Hwn yw y bara sydd yn dyfod i waered o'r nef, fel y bwyttao dyn o hono, ac na byddo marw." (Ioan vi. 50.)

Desgrifiad llythyrenol o ffaith bwysig yn hanes Israel yw yr adnod gyntaf o'r ddwy uchod; a iaith ffugyrol yn dysgu gwirioneddau ysbrydol yw yr olaf.

Defnyddir y geiriau "adgyfodi" a "bywhau" yn fynych yn yr ystyr lythyrenol, gan eu bod yn cyfeirio at adgyfodiad y meirw yn niwedd y byd (Ioan v. 29, vi. 39, 40. Act. xxiv. 15. 1 Cor. xv. 52. 1 Thes. iv. 16, &c.), neu at adgyfodiad Crist ei hun; defnyddir hwynt hefyd i osod allan fywhad ysbrydol y rhai oedd yn feirw mewn drygioni, a'u dygiad i rodio llwybrau santeiddrwydd (Ephes. ii. 1, 5, 6), ac adferiad Israel o brofedigaethau a gwaradwydd y caethiwed i'w gwlad eu hunain. (Ezec. xxxvii. 11—14.)

Gosodir yr un gwirionedd allan yn fynych mewn iaith briodol a ffugyrol:—

"Yr hwn sydd yn dyfod ataf fi, ni newyna; a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser." (Ioan vi. 35.)

Yma mae *dyfod at Grist* a *chredu ynddo* yn golygu yr un peth.

"Cymmerwch fy iau arnoch, a dysgwch genyf." (Mat. xi. 29.)

Mae *dysgu gan Grist* bron yr un peth a *chymmeryd ei iau ef arnom*, gan mai cydffurfio â'i eiriau yw y ffordd i gydnabod ei awdurdod.

Pan y sonir fod Duw yn "edifarhau" (Gen. vi. 6), dywedir hyny mewn modd ffugyrol o herwydd gwendid ein hamgyffredion ni, i osod allan gyfnewidiad yn ei ymddygiad at y byd, fel y dywedir fod yr Arglwydd yn disgyn i weled Babel ac i gymmysgu iaith plant dynion (Gen. xi. 5—7), er dangos ei waith yn diddymu cynlluniau meibion dynion; mai hyn yw yr ystyr sydd amlwg oddiwrth ranau ereill o'r Beibl, yn y rhai y dywedir nad ydyw Duw yn edifarhau (1 Sam. xv. 29. Esai. xlvi. 10. Mal. iii. 6), a'i fod yn holl bresennol. (Salm cxxxix. 1—10. Jer. xxiii. 23, 24.)

RHEOL III.—*Fod geiriau ac ymadroddion aneglur i gael eu hegluro âg ymadroddion eglurach a helaethach, y rhai a fyddant yn traethu am yr un pethau.*

Mae llawer o ymadroddion y Beibl yn cynnwys ac yn rhagdybied gwirioneddau ereill, fel y canfyddir yn ngoleuni eglurhad helaethach ar yr un pynciau. Dywed Paul yn Rhuf. xiv. 9, "Er mwyn hyn y bu farw Crist, ac yr adgyfododd, ac y bu fyw drachefn hefyd, fel yr arglwyddiaethai ar y byw a'r meirw hefyd." Ni fyddai yn iawn casglu oddiwrth hyn mai *unig* amcan ei farwolaeth oedd cyrhaedd awdurdod gyffredinol fel Cyfryngwr; yr amcan uniongyrchol oedd rhoddi iawn dros bechod fel y cymmodai ni â Duw (Mat. xxvi. 28. Ioan iii. 14—16. Rhuf. iii. 25. 2 Cor. v. 21. 1 Tim. i. 15, ii. 6. Heb. ix. 12. 1 Pedr iii. 18); ac un o'r canlyniadau o hyn, a'r wobr am ei ufydd-dod, oedd ei awdurdod gyffredinol fel Cyfryngwr. (Ioan iii. 35, xvii. 1—5. Phil. ii. 9. Heb. ii. 9.)

Yn 1 Pedr iii. 21, dywedir fod "bedydd yn achub;" ni wiw casglu oddiwrth hyn nad oes eisieu dim yn ychwaneg nag ymostwng i fedydd er sicrhau iachawdwriaeth. Wrth ymgynghori â rhanau ereill o air Duw, cawn fod eisieu amgyffred cenadwri yr efengyl, a chredu yn Nghrist, ac edifarhau am bechod, a galw ar enw yr Arglwydd; oblegyd y mae yr holl bethau hyn yn cael eu dysgu mewn lleoedd ereill ag sydd yn traethu yn helaethach am delerau yr iachawdwriaeth.

Dysgir ni yn Ioan iii. 5, am ailenedigaeth o ddwfr ac o'r Ysbryd; nid ydym i gasglu oddiwrth hyn nad oes eisieu y gair fel moddion, a'r ymarferiad o ffydd ar ran y dyn: wrth chwilio lleoedd ereill ag sydd yn traethu yn eglurach ar droedigaeth ac adferiad dyn, yr ydym yn canfod fod ffydd yn ofynol, yr hon sydd yn dyfod trwy glywed gair Duw (Rhuf. x. 17), ac mai trwy air y gwirionedd y mae Ysbryd Duw yn aileni dynion, a'u hennill, a'u symmud o deyrnas y tywyllwch i deyrnas ei anwyl Fab ef. (Iago i. 18. Col. i. 13.)

Sonia Pedr (1 Pedr iv. 6), am "efengylu i'r meirw;" dysgir ni mewn rhanau ereill o'r Beibl fod tymhor prawf dyn yn darfod yn angeu, ac nad yw yr efengyl yn cael ei phregethu yn y byd arall (Luc xvi. 22, 23. Heb. ix. 27. 2 Cor. v. 10); rhaid fod y geiriau gan hyny yn cyfeirio at rai ag oedd yn feirw yr adeg yr ysgrifenai Pedr, ond y rhai oeddynt yn fyw

pan yr efengylwyd iddynt; neu eu bod i'w deall yn ffugyrol am rai meirw mewn camweddau a phechodau.

Yn Mat. xvi. 18, dywedir wrth Simon y gelwid ef Pedr, yr hyn a arwydda *careg* neu *graig*, ac mai ar y graig hon yr adeiladai Crist ei eglwys; dadleua llawer mai Pedr yw y graig hon, tra y tybia ereill mai Crist ei hun a olygir wrth y graig (cymharer Ioan ii. 19); ac ereill drachefn mai cyffes Pedr a olygir. Wrth ymgynghori â lleoedd ereill, fe welir mai Crist ydyw sylfaen yr eglwys yn yr ystyr o fod yn sail cymmeradwyaeth dyn gerbron Duw, ac yn ddiogelwch i'r rhai sydd yn ymddiried ynddo (Ioan iii. 36. 1 Cor. iii. 11. Ephes ii. 20—22), ac felly nis gall Pedr fod yn sylfaen yn yr ystyr yma: ond fel un o brif sylfaenwyr achos Crist ar y ddaear, ac un o ddeddfroddwyr a dysgawdwyr anffaeledig yr eglwys, gellir ei ystyried, ar un olwg, yn sylfaen yr eglwys, fel un o'r meini isaf yn yr adeilad ar graig yr oesoedd. (Gal. ii. 9. Dad. xxi. 14.) Ond os hyn ydyw y meddwl, mae yn anhawdd gwybod pa fodd y mae diogelwch yr eglwys yn gyssylltiedig â'i sylfaeniad ar ddyn, ac ar Pedr yn fwy na'i frodyr; y syniad mwyaf cysson, mae'n ddiau, ydyw mai *yr athrawiaeth gynnwysedig yn nghyffes Pedr, sef Duwdod Crist, a olygir wrth y graig;* oblegyd (1,) Cyffes Pedr oedd testyn yr ymddyddan. (2,) Duwdod Crist sydd yn rhoddi gwerth ar bob athrawiaeth arall, a dyma sail cyssondeb holl athrawiaethau yr efengyl. Ni fyddai gwerth na gwirionedd yn yr athrawiaeth am ei iawn, ei eiriolaeth, a'i lywodraeth, nac ymddiried i'w roddi yn ei addewidion, oni buasai ei Dduwdod. (3,) Trwy ymddiried yn y gwirionedd yma, mae yr eglwys yn ddiogel, a'i llwyddiant yn sicr.

Wrth son am ei weledigaethau, dywed Paul ei fod ef wedi cael "swmbwl yn y cnawd," sef cenad Satan i'w gernodio, rhag iddo ymffrostio. (2 Cor. xii. 7.) Wrth ymgynghori â'r cyssylltiadau, yn y rhai y mae Paul yn traethu yn helaethach ar yr hyn a olyga, mae'n ymddangos mai yr un peth a olyga wrth y "swmbwl yn y cnawd" ag wrth "wendid, anmharch, anghenion, erlidiau, a chyfyngderau" (adn. 9, 10), yr hyn a ddygid arno trwy fod Satan yn cynhyrfu dynion i'w erlid o herwydd ei ymroddiad gyda gwaith Crist.

Diau fod llawer o engreifftiau cyffelyb i'r rhai uchod yn ymgynnyg i feddwl yr efrydydd, y rhai y bydd ymgynghori â rhanau ereill o'r Beibl yn gymhorth pwysig i'w deall a'u hamgyffred.

RHEOL IV.—*Fod sylw neillduol i gael ei dalu i amgylchiadau ac amcan llefariad neu ysgrifeniad gwahanol ranau o'r Beibl.*

Wrth ddarllen llyfr Job, rhaid cofio ei fod yn cynnwys areithiau gwahanol bersonau mewn atebiad i'w gilydd, ac felly nas gellir dysgwyl fod eu holl syniadau i'w cymmeryd fel gwirionedd. Mae Duw ei hun yn condemnio syniadau cyfeillion Job. (xlii. 7.)

Mae ystyried yr amgylchiadau o dan ba rai y cyfansoddwyd amryw o'r Salmau, yn ychwanegu at rym a phriodoldeb yr ymadroddion a ddefnyddir ynddynt; megys y darluniad o drallod ac eto o hyder Dafydd, pan oedd Absalom wedi codi yn ei erbyn (Salm iii.); a'i ddiolchgarwch pan oedd wedi ei waredu o law ei holl elynion (Salm xviii.); a'i edifeirwch dwys ar ol ei gwymp gwaradwyddus (Salm li.)

Mae y tri efengylwr blaenaf yn cofnodi yn benaf anerchiadau Crist i'r bobl gyffredin yn Galilea, a rhanau ereill o'r wlad, heb ond ychydig o'i ymddyddanion gyda'i ddysgyblion; tra mae Ioan yn cofnodi yn benaf areithiau Crist wrth y dysgedigion Iuddewig gan mwyaf yn Judea a Jerusalem, a'i ymddyddanion â hwynt ac â'i ddysgyblion, a hyny yn fwyaf neillduol am dano ei hun, ei Berson, ei gymmeriad, a'i waith. Mae yn naturiol dysgwyl fod ei arddull yn wahanol wrth annerch y werin, i'r hyn ydoedd wrth annerch y dysgedigion, ac y mae hyn yn cyfrif, mewn rhan, am y gwahaniaeth rhwng efengyl Ioan a'r efengylau ereill.

Ystyrir fod Matthew wedi ysgrifenu ei efengyl er adeiladaeth credinwyr o'r Iuddewon, a Luc er dangos agwedd gyffredinol yr efengyl fel cyfundrefn i bob cenedl yn ddiwahaniaeth; am hyny, ceir Matthew yn olrhain achau Crist i Abraham, ac yn profi fod y prophwydoliaethau am y Messiah yn cael eu cyflawni ynddo ef; a Luc yn olrhain ei achau i Adda, ac yn cofnodi llawer o bethau ag sydd yn dangos mewn modd neillduol fod Crist yn "oleuni i oleuo y Cenedloedd," yn ogystal ag yn ogoniant i'w bobl Israel. Ysgrifenai Marc ei efengyl er addysg y dychweledigion o'r Rhufeiniaid; am hyny ceir crynhodeb ynddi o hanes gweithredoedd nerthol Crist, ac o'i bregethau dylanwadol, ac eglurhad achlysurol ar arferion Iuddewig, er cyfarwyddo deall a nerthu ffydd y dychweledigion Rhufeinig.

Mae Paul yn ei dduwinyddiaeth yn cymmeryd *dyn*, fel ei safle gychwynol. Dyn ar ddelw Duw—wedi syrthio—yn analluog i achub ei hun—yn cael ei gyfiawnhau trwy ffydd—yn arwain bywyd santaidd—yn cael ei ogoneddu gyda Christ, ac yn dwyn gogoniant tragywyddol i Dduw a'r Oen—ydyw baich ei lythyr mawreddog at y Rhufeiniaid. Y Gair, o'r ochr arall, yw safle gychwynol Ioan; y Gair yn ei dragywyddol a'i Ddwyfol hanfod—ei gyssylltiad â'r greadigaeth—ei ymgnawdoliad—ei ddadguddiad o Dduw—ei weithredoedd nerthol a'i athrawiaethau Dwyfol—ac yn ei farwolaeth iawnol ar y groes, a'i eiriolaeth lwyddiannus yn y nef—ydyw sylwedd tystiolaeth efengyl Ioan; a dymchweliad yr heresi Gnosticaidd a gwrthweithiad ei dylanwad llygredig, oedd ei amcan penaf yn ei epistolau, yn neillduol yr epistol cyntaf.

Amcan mawr ysgrifeniad y llythyr at yr Hebreaid oedd cryfhau ffydd y credinwyr o'r Iuddewon yn yr efengyl, a'u rhwystro i fyned yn ol at egwyddorion llesg a thlodion Iuddewiaeth. Mae ymresymiad y llythyr, ei rybuddion a'i ocheliadau, ei gymhellion a'i addewidion, ei appeliadau a'i esiamplau, oll yn îs-wasanaethgar er cyrhaedd yr amcan pwysig uchod.

Mae y fath eiriau ag "*am hyny*," neu "*gan hyny*," neu'r cyffelyb, yn awgrymu yr amcan at yr hwn y cyfeirir yn flaenorol; dengys y geiriau hyn yn Rhuf. iii. 20, 28, mai amcan Paul yn y rhanau blaenorol o'r llythyr oedd profi na ddichon dyn gael ei gyfiawnhau trwy weithredoedd, ac mai trwy ras yn unig y mae modd iddo gael ei gyfiawnhau.

Yn Gal. v. 1, golyga "*gan hyny*," mai amcan Paul yn ei lythyr oedd dwyn y Galatiaid i beidio cymmeryd eu caethiwo gan y gau athrawon Iuddewig, ac i ymarfer eu rhagorfreintiau fel plant Duw.

Mae yn dra anghenrheidiol ystyried sefyllfa yr oes yn yr hon y cynnyrchwyd y cyfansoddiad. Cawn y gwahanol brophwydi yn cyfeirio at sefyllfa gwladwriaeth Israel yn eu dyddiau neillduol eu hunain: *Esaiah* yn son am bechodau a rhagrith y bobl cyn y caethiwed Babilonaidd, ac amgylchiadau y genedl y pryd hyny; *Jeremiah*, am bethau cyn, ac ar adeg goresgyniad Jerusalem gan y Babiloniaid, a'r difrod canlynol; *Ezeciel*, am amgylchiadau meibion y gaethglud yn Babilon; *Haggai* a

*Zechariah*, am amgylchiadau yr Iuddewon ar ol eu dychweliad o Babilon, &c.

Cyfeiria yr efengylwyr at bleidiau Iuddewig yn amser ymddangosiad Crist ar y ddaear; a'r apostolion yn eu pregethau a'u hepistolau at y gau athrawon Iuddewig a Chenedlig y rhai oeddynt ar ol esgyniad Crist yn amcanu llygru y gwirionedd, cymmylu gogoniant yr efengyl, a throi gras Duw yn drythyllwch.

Dylid bod yn ofalus i gymhwyso gwahanol ranau y Beibl at y pethau y bwriedid hwynt gan yr ysgrifenwyr santaidd a'r Ysbryd Glân, ac nid at bethau ereill anmherthynasol.

Rheol V.—Gan fod y Beibl yn un cyfangorph o egwyddorion, a'i holl ranau mewn cydgordiad hanfodol â'u gilydd, *mae ei ddysgeidiaeth mewn rhanau neillduol i gael eu hegluro yn y fath fodd ag i fod mewn cydgordiad â'r holl ranau ereill o hono.*

Dysga yr apostol Paul y rhai oedd yn llefaru dros Dduw i brophwydo yn ol cyssondeb y ffydd (Rhuf. xii. 6), a iawn gyfranu gair y gwirionedd (2 Tim. ii. 15), gan ddysgu yn unol â geiriau yr Arglwydd Iesu a'r athrawiaeth sydd yn ol duwioldeb. (1 Tim. vi. 3. 1 Cor. xiv. 37.) Yr oedd yr Arglwydd Iesu a'i apostolion yn dysgu y bobl yn ol yr egwyddorion a geir yn y prophwydi, ac yn appelio at y ddeddf a'r prophwydi am gadarnhad i'w hathrawiaeth. (Mat. xii. 7, xv. 4, xxii. 37—40. Luc xxiv. 44—46. Ioan v. 39, x. 35. Rhuf. iv. 3. 1 Cor. xv. 3, 4.) Mae y cyfarwyddiadau uchod, a'r ffaith fod Crist a'i apostolion yn appelio at Ysgrythyrau yr Hen Destament, ac yn sylfaenu eu hathrawiaethau arnynt, yn awgrymu ac yn dysgu y pethau canlynol:—

1. Fod yr holl Ysgrythyrau yn gysson â'u gilydd.

2. Eu bod oll o Ddwyfol awdurdod.

3. Fod myfyrdod manwl o'r Beibl, ac adnabyddiaeth drwyadl âg ef, yn anghenrheidiol i'r hwn sydd yn dehongli y Beibl, ac yn dysgu ewyllys Duw i'r byd. Os nad yw yn gyfarwydd â'r Beibl, pa fodd y gall brophwydo yn ol cyssondeb y ffydd?

4. Y gall y rhai sydd yn proffesu dysgu ewyllys Duw gamddarlunio ei ewyllys; yr hyn a ddengys bwysigrwydd cyfarwyddiadau yr apostol Paul i ddysgawdwyr crefyddol gyfranu addysg mewn cydgordiad â'r holl Ysgrythyrau.

Mae pwys mawr yn y rheol hon. Weithiau cyfarfyddir â brawddegau dyrus ag nas gellir eu hegluro i foddlonrwydd drwy y cyssylltiadau, nac ychwaith trwy edrych ar amcan y llefarwr neu yr ysgrifenydd. Nodwn ychydig o engreifftiau.

Yn 1 Pedr iii. 18, 19, dywedir fod Crist "wedi ei farwolaethu yn y cnawd, eithr ei fywhau yn yr Ysbryd, trwy yr hwn yr aeth efe ac a bregethodd i'r ysbrydion yn ngharchar." O ran yr ymadroddion eu hunain, gall y geiriau olygu naill ai *fod Crist o ran ei enaid wedi pregethu i eneidiau y colledigion yn y cyfwng rhwng ei farwolaeth a'i adgyfodiad*, neu ei *fod trwy ei natur Ddwyfol yn ngweinidogaeth Noah wedi pregethu i'r cynddiluwiaid, y rhai o ran eu heneidiau oeddynt yn ysbrydion yn ngharchar pan ysgrifenai Pedr y llythyr.* Gallem betruso wrth edrych ar y geiriau eu hunain beth ydyw yr ystyr, ond wrth edrych ar yr adnod hon yn ngoleuni yr Ysgrythyrau ereill, nid ydym i betruso am funyd i dderbyn y syniad diweddaf o'r ddau uchod fel yr unig syniad cywir.

1. Nid at eneidiau y colledigion yr aeth Crist pan y bu farw, ond i baradwys i bresennoldeb ei Dad. (Luc xxiii. 43, 46.)

2. Nid enaid Crist a olygir wrth "Ysbryd" yn y 18fed adnod, ond ei natur Ddwyfol, yn wrthgyferbyniol i'r natur ddynol a elwir "cnawd," yn gyffelyb i Rhuf. i. 3, 4. Ioan i. 14.

3. Mae dyn yn myned i gyflwr digyfnewid pan yn marw, ac nid oes sail i ddysgwyl ymwared i elynion Duw yn y byd arall. (Luc xvi. 23—26. Heb. ix. 27. 2 Cor. v. 10.) Awgrymir y byddai gwaith Duw yn ceisio darbwyllo y cynddiluwiaid ar ben cyn hir, ac wedi hyny y byddai raid iddynt oddef y canlyniad. (Gen. vi. 3. Gal. vi. 7, 8.)

Sylfaena y Pabyddion athrawiaeth y purdan ar 1 Cor. iii. 15:—"Os gwaith neb a losgir, efe a gaiff golled: eithr efe ei hun a fydd cadwedig; eto felly, megys trwy dân." Dysga duwinyddion Pabaidd fod lle yn nghanol y ddaear a elwir

purdan, yn yr hwn y mae eneidiau y rhai nad oeddynt wedi eu llwyr lanhau cyn marw, yn cael eu puro trwy dân naturiol, fel y byddont yn cael eu parotoi i wynfyd y nef; gan sylfaenu eu tyb ar yr adnod hon yn mhlith adnodau ereill. Ond nis gall y syniad hwn fod yn gywir, oblegyd,—

1. Y mae yn groes i rediad ymresymiad yr apostol.

Soniant hwy am ddyn yn cael ei buro oddiwrth ei bechodau; traetha Paul am waith gweinidog yr efengyl yn cael ei brofi; soniant hwy am brawf cyn y farn, cyfeiria Paul at brawf y farn ei hun.

2. Priodolant hwy ystyr lythyrenol i'r gair tân, tra mae Paul yn ei ddefnyddio mewn modd ffugyrol, fel y mae yn amlwg oddiwrth y gair "*megys*."

Os dylid deall y gair "tân" yn yr ystyr lythyrenol, felly hefyd y dylid deall y geiriau "aur, arian, meini gwerthfawr, coed, gwair, sofl," yr hyn a arweiniai i wrthuni perffaith, pa un bynag a olygwn yr adeilad i fod yn gynnwysedig o bersonau neu athrawiaethau.

Mae yn ddirgelwch hefyd pa fodd y gallai tân naturiol boenydio ysbryd dyn, a'i buro oddiwrth aflendid moesol.

3. Mae y fath esboniad yn groes i ddysgeidiaeth yr holl Feibl.

Nis gellir sylfaenu athrawiaeth y purdan "yn ol cyssondeb y ffydd:" dengys cyssondeb y ffydd fod tymhor prawf dyn ar ben yn angeu, a bod ei dynged yn nhragywyddoldeb yn ymddibynu ar ei ymddygiad yn y corph, megys y sylwyd yn flaenorol.

Mae "cyssondeb y ffydd" yn gymhorth i ni benderfynu pa un ai *athrawiaethau* ai *personau* a olygir yn 1 Cor. iii. 12:—"Eithr os goruwch-adeilada neb ar y sylfaen hon aur, arian, meini gwerthfawr, coed, gwair, sofl," &c. Wrth edrych ar y geiriau ynddynt eu hunain, gallant olygu y naill neu y llall; ni arddelir gwaith yr athraw crefyddol ag sydd yn dysgu cyfeiliornadau; ni arddelir ychwaith ragrithwyr a ddichon y gweinidog dderbyn i'r eglwys; collfernir dysgeidiaeth y naill, a gwrthodir gwaith y llall—"llosgir gwaith" y ddau. Ond pan gofir (1,) nad yw adnodau 10—15 ond ymëangiad o'r syniad yn adnod 9fed, "Adeiladaeth Duw ydych chwi;" (2,) mai person, sef Crist Iesu, yw sylfaen yr adeiladaeth dan sylw, ac

nid yr athrawiaeth am dano yn unig; (3,) fod plant Duw yn fynych yn cael eu cyffelybu i deml Duw, tra, o'r ochr arall, na sonir byth am egwyddorion fel yn cyfansoddi ei breswylfod ef; a phan ystyrir (4,) fod y dysgawdwr y cyfeiria Paul ato i fod yn gadwedig, er i'w lafur fyned yn ofer, ac nas gellir tybied y dianga gau athrawon ag sydd yn dysgu cyfeiliornadau y rhai a beryglant iachawdwriaeth dynion, ac a ysbeiliant Dduw o'i ogoniant, ymddengys yn fwy cysson â rhediad y Beibl i ddeall fod y geiriau yn cyfeirio at ychwanegiad personau at yr eglwys, y rhai (o herwydd anallu y gweinidog i ddarllen yr egwyddor) a droant allan weithiau i fod yn ddyeithriaid i waith gras ar y galon, neu yn iaith Paul, yn "goed, gwair, a sofl;" tra y bydd gwir gredinwyr, fel "aur, arian, a meini gwerthfawr," yn dal y prawf heb golli eu gwerth, na chywilyddio yr hwn a fydd wedi bod yn llafurio gyda hwynt.

Sonia Paul yn Rhuf. ix. 22, am "lestri digofaint wedi eu cymhwyso i golledigaeth." Yr anhawsdra ydyw cael sicrwydd *pwy a'u cymhwysodd?* Ni wna y geiriau eu hunain ein cynnorthwyo ond ychydig. Gall y gair a ddefnyddia yr apostol (Groeg, *katêrtismena*), o ran ei ffurf fod yn Rhangymmeriad Goddefol (*Passive Voice*), a golygu "*wedi cael eu cymhwyso,*" neu yn Rhangymmeriad Ad-droadol (*Middle Voice*), a golygu "*wedi cymhwyso eu hunain.*"

Ceir ychwaneg o gymhorth i ddeall y gofyniad yn y cyssylltiadau. Pan yn son am lestri trugaredd, dywed yr apostol mai Duw a gymhwysodd y rhai hyny i ogoniant: "y rhai a ragbarotôdd efe i ogoniant" (adn. 23), yr hyn a awgryma nad efe a gymhwysodd y lleill i golledigaeth.

Ond y mae "cyssondeb y ffydd" yn symmud ymaith yr anhawsdra.

1. Os rhaid deall fod y geiriau yn dysgu mai Duw a'u cymhwysodd i golledigaeth, gwnaeth hyny yn un o'r ddwy ffordd ganlynol:—

(1,) Trwy *ganiatâu* iddynt fyned yn mlaen yn eu ffyrdd eu hunain heb eu hattal â'i ras (gwel Rheol I. Nodiad V.), neu

(2,) Trwy ymweled â hwy â *chaledwch barnol* fel cosb am wrthod ei Fab, a diystyru goludoedd ei ras.

2. Tystia yr Ysgrythyrau yn eglur nad Duw yw awdwr

pechod a thrueni dyn. Nid yw efe yn temtio neb i bechu, nac yn cefnogi dyn mewn pechod; yn hytrach na hyny, y mae efe yn gwahardd pechod—yn rhybuddio dyn o'r canlyniad o bechu—yn galw ar ddyn i adael pechod, ac yn addaw maddeu iddo—desgrifir ef fel yn deisyf ar ddyn i ddyfod i gymmod âg ef, ac yn tyngu iddo ei hun nad ydyw yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol, ond dychwelyd o hono a byw! Os edrychir ar ei ymddygiadau, fe welir yn amlwg nad chwerwi dynion ydyw eu tuedd, ond eu tywys i edifeirwch, a'u dwyn i'w garu ef am iddo ef yn gyntaf ein caru ni. Duw yn achub ydyw Jehofah, ac nid Duw yn cymhwyso i golledigaeth. Y casgliad gan hyny oddiwrth "gyssondeb y ffydd" yw, mai cymhwyso eu hunain i golledigaeth y mae llestri digofaint. (Diar. viii. 36. Rhuf. ii. 5.)

Nid yw y gymhariaeth oddiwrth y pridd-lestr yn adn. 21 yn dirymu yr ymresymiad hwn, oblegyd son y mae Paul am ddynion *ag ydynt oll wedi pechu a haeddu eu colli*, y rhai y gall Duw yn unol â'i hawl a'i awdurdod gyfiawn gosbi y neb a fyno o honynt, ac arbed y neb a ewyllysio o honynt, fel y gall y crochenydd drefnu o'r un telpyn pridd un llestr i anrhydedd, ac un arall i anmharch. Rhaid cofio mai ymddygiad Duw at ddynion fel *pechaduriaid* a olygir, ac nid fel *creaduriaid yn unig;* ac mai gras i gyd yw ei ymddygiad yn achub un dosbarth, ac mai cyfiawnder, ac nid trais, a ddangosir tuag at y dosbarth arall, y rhai a gymhwysasant eu hunain i golledigaeth.

Yn Rhuf. xi. 24, sonir am "impio" yr Iuddewon "i mewn yn eu holewydden eu hun." Dywedir mai wrth yr olewydden hon y golygir eglwys Dduw, a bod yr Iuddew i gael ei ddychwelyd iddi i fwynhau ei freintiau cyntefig; ac mai wrth wreiddyn y wir olewydden, ar yr hwn yr ymddibyna y canghenau impiedig, y golygir Abraham a'r patriarchiaid Iuddewig (adn. 17, 18.)

Y mae "cyssondeb y ffydd," modd bynag, yn galw arnom i ystyried mai Crist y Gwaredwr a olygir wrth y wir olewydden, yn yr hon yr impiwyd y canghenau o'r Cenedloedd "yn mhlith" y dychweledigion Iuddewig (adn. 17), yn yr hon hefyd yr impir yr Iuddewon dychweledig yn y dyfodol, fel y dengys yr ystyriaethau canlynol:—

1. Desgrifia Crist ei hun mewn iaith gyffelyb yn yr efengylau. (Ioan xv. 1, 4, 5.)

2. Crist yw unig rwymyn undeb rhwng Iuddewon a Chenedloedd. Y mae undeb yma; mae y Cenedloedd fel canghenau gwylltion wedi cael eu himpio yn mhlith yr Iuddewon crediniol yn yr olewydden; a beth all yr olewydden hono fod ond Crist ei hun? (Eph. ii. 14, 15.)
Ar wahan oddiwrth Grist, rhaid edrych ar wahaniad yr Iuddew a'r Cenedlddyn o hyd mewn grym, a'r Cenedloedd yn wrthodedig; ond darfu i'r Gwaredwr dynu i lawr ganolfur y gwahaniaeth, a gwneyd yr Iuddew a'r Cenedlddyn yn un dyn newydd ynddo ei hun, gan ddileu yn dragywydd y gwahaniaeth rhwng un genedl a'r llall.

3. Mae yr impiad i mewn yn cymmeryd lle trwy ffydd. "Trwy annghrediniaeth y torwyd hwynt ymaith, a thithau sydd yn sefyll trwy ffydd." (Rhuf. xi. 20.) Trwy ffydd yr unir dynion â Christ.

4. Mae yn rhaid i'r nerth a'r cynnaliaeth ag sydd ar y Cenedlddyn crediniol eu heisieu, ddyfod oddiwrth Grist. Rhaid fod "bod yn gyfranog o'r gwreiddyn ac o frasder yr olewydden" yn adn. 17, yn golygu y gras a'r nerth a ddeillia trwy undeb ffydd â Christ. Nid oes nerth ysbrydol i'w gael oddiwrth Abraham nac unrhyw sant arall.

5. Yr oedd Crist, ar un olwg, yn olewydden yr Iuddewon mewn modd neillduol. O honynt hwy yr hanodd Crist yn ol y cnawd; yr oedd yr holl brophwydi a'r aberthau yn cyfeirio at Grist, a'r genedl yn hiraethu am y Messiah, er nad oeddynt yn adnabod ei gymmeriad, nac yn deall natur ei deyrnas. Yr oedd holl hanes yr Israeliaid o'r dechreuad yn dwyn cyssylltiad âg ef, ac o'i herwydd ef y neillduwyd hwynt o blith cenedloedd y ddaear; am hyny ystyriai Moses ei helynt gyda hwynt, a'r gwawd a dderbyniai gan yr Aifftiaid o herwydd ymgymmeryd âg achos cenedl o gaethion, fel "dirmyg Crist" (Heb. xi. 26); am hyny hefyd gelwir ef yn "wreiddyn Jesse" (Rhuf. xv. 12), gan mai trwyddo ac o'i herwydd ef y cyfodwyd ac y cynnalwyd teulu Jesse a Dafydd. Pan gredant yn Nghrist, fe'u himpir hwy i mewn i Grist, yr hwn yw eu holewydden hwy eu hunain mewn modd neillduol, yr hwn ydoedd gwrthddrych

mawr tystiolaeth eu prophwydi, testyn cân eu beirdd ysbrydoledig, gobaith hyfryd yr holl rai ffyddiog yn eu plith, a dyddanwch y gwir Israeliaid yn mhob cyfnod o'u hanes.

6. Nid oes unrhyw ddychweliad arall yn cael ei addaw iddynt. Mae y rhai a esboniant yr adnodau hyn i arwyddo y bydd i'r Iuddewon ddychwelyd eto i Ganaan, a dyfod yn genedl flodeuog yno o dan deyrnasiad y Messiah (pa un bynag a fydd efe yn bersonol gyda hwynt ai peidio), yn edrych ar Gristionogaeth o safle yr Iuddew, ac nid o safle yr apostol Paul. Nid ydyw Paul yn son am adferiad ond at Dduw trwy ffydd yn ei Fab; ac i gredinwyr yn unig y mae bendithion teyrnas Crist, ac nid i had Abraham yn ol y cnawd. Nid yw yr efengyl yn son am fendithion gwladol a chymdeithasol, ond am fendithion ysbrydol; dysga yr Iuddew a'r Cenedlddyn i roddi eu serchiadau ar bethau sydd uchod, a dyfod yn ddinesyddion o deyrnas nefoedd, a cheisio gwlad well na'r un baradwys ddaearol o dan haul. Bydd bendithion gwladol a chymdeithasol yn canlyn fel ffrwyth teyrnasiad gras ar y ddaear (Mat. vi. 33.)

Weithiau sonir am Iesu Grist yn blino wrth deithio (Ioan iv. 6), ac yn teimlo awydd cael ymborth naturiol (Mat. iv. 2), ac yn ymollwng i gysgu (Mat. viii. 24); ni fyddai yn iawn sylfaenu athrawiaeth ar hyn nad oedd Iesu Grist ond dyn yn unig, oblegyd mae yr Ysgrythyrau ereill ag sydd yn traethu am dano yn ei osod allan yn Dduw gwirioneddol hefyd, yr hwn oedd yn meddu pob gallu ac awdurdod yn y nef a'r ddaear.

Gosodir Duw allan fel Bôd ysbrydol, anfeidrol, tragywyddol, hollwybodol, a hollbresennol, Creawdwr a Chynnaliwr y bydoedd; dylid esbonio yr adnodau ag sydd yn son am dano yn cyfodi, eistedd, edrych, dynoethi ei fraich, &c., mewn cydgordiad â'r adnodau ag sydd yn son am dano yn gwisgo y cymmeriad perffaith uchod, gan mai iaith gymhariaethol, er cyfarfod â gwendid amgyffrediadau dynion, ydyw y desgrifiad o hono yn gweithredu yn debyg i feibion dynion.

Yn Diar. xxi. 18, dywedir fod "yr annuwiol yn cael ei roddi yn iawn dros y cyfiawn;" rhaid esbonio y fath ymadroddion a'r rhai hyn, fel ag i beidio gwrthdaraw yn erbyn yr adnodau sydd yn dysgu mai Iesu Grist yw yr iawn. Yn yr ystyr o fod yn foddion iachawdwriaeth a sail cyfiawnhad i

ddyn, yr Arglwydd Iesu yn unig yw yr iawn, ac nid oes iachawdwriaeth yn neb arall (Rhuf. iii. 25. 1 Ioan ii. 2. Act. iv. 12); ond mewn ystyr îs-raddol, gellir dweyd fod yr annuwiol yn cael ei roddi yn iawn dros y cyfiawn, yn un o'r ddwy ffordd ganlynol:—

1. Trwy fod y rhai drygionus yn fynych yn dwyn arnynt eu hunain, fel y gwnaeth Haman (Esther vii. 10), a chyhuddwyr Daniel (Dan. vi. 24), y drwg a fwriadent i'r cyfiawn; ac felly eu bod hwy eu hunain yn myned i'r ddalfa yn eu lle. "Y cyfiawn a waredir o gyfyngder, a'r drygionus a ddaw yn ei le ef." (Diar. xi. 8.)

2. Neu trwy fod Duw yn dinystrio y gelynion, pan y maent yn sefyll ar ffordd gwaredigaeth ei bobl. Gwnaeth hyny â'r Aifftiaid, trwy eu boddi yn y Môr Coch; â'r Canaaneaid, y rhai a wrthwynebent i Israel gael Palestina; ac â'r Babiloniaid, y rhai na ollyngent y gaethglud yn rhydd; a gwna hyny eto, os na chilia y gelynion oddiar ffordd llwyddiant ei deyrnas. (Esai. xliii. 3, 4.)

Mae y geiriau yn y goleuni yma yn hollol gysson â dysgeidiaeth yr holl Feibl.

Nodiad I.—

Mae gosodiadau a gorchymynion moesol i'w deall o ran eu hysbryd yn ogystal ag yn ol y llythyren. Mae y gorchymyn i beidio lladd yn gwahardd digio hefyd; y gorchymyn i beidio godinebu yn gwahardd chwenychiad annghyfreithlon hefyd. (Mat. v. 21, 22, 27, 28.)

Cadw at *ysbryd* y cyfarwyddyd ydyw y pwynt gyda rhai dyledswyddau, gan na ddygwydd yr hyn a dybir yn y geiriau ond anfynych, os byth, tra y ceir cyfleusdra bob dydd i weithio allan ysbryd y gorchymyn. (Mat. v. 39, 40.)

Nodiad II.—

Tra mae cyssondeb y ffydd yn dysgu fod gorchymynion moesol yn fwy pwysig na gorchymynion pendant, a bod rhai pendant i roddi ffordd i rai moesol fel *rheol* (Hos. vi. 6. Mat. xii. 17); eto mewn rhai engreifftiau cawn fod gorchymynion moesol i roddi ffordd i rai pendant, megys yn aberthiad Isaac (Gen. xxii. 2), ac yn ninystr y Canaaneaid. (Deut. xx. 16—18.) Dylid cofio, modd bynag, mai *eithriadau tra neillduol* oedd y rhai hyn, ac fod rhediad dysgeidiaeth y Beibl yn rhoddi y flaenoriaeth i'r gorchymynion moesol, fel pethau pwysicaf cyfraith y nef.

Rheol VI.—*Ymdrecher amgyffred y geiriau, deall eu neillduolrwydd, a dwyn allan eu cynnwysiad.*

O'r braidd, fe ddichon, y dylem alw hon yn rheol: ac eto

mae yn gymhwysiadol at lawer o leoedd ag nad ydyw y rheolau blaenorol yn ymwneyd yn uniongyrchol â hwynt. Traethir yn gyffredin ar bwnc y rheol hon gan wahanol ysgrifenwyr o dan y penawd "Myfyrdod Casgliadol" *(Inferential Study)* o'r Ysgrythyrau Santaidd.

Bydd deall y testyn gwreiddiol weithiau yn gymhorth arbenig i gael allan feddwl yr Ysbryd Glân yn y gair, fel y dengys yr engreifftiau canlynol:—

Mat. vi. 2, "Y maent yn derbyn eu gwobr," Groeg, *apechousi*, "y maent yn dyhysbyddu eu gwobr." Nid oes ganddynt ddim cysur yn eu haros erbyn y byd a ddaw, y maent yn cael yr hyn oll a geisiant yn y byd hwn.

Luc xvi. 25, "Coffa i ti dderbyn dy wynfyd yn dy fywyd," Groeg, *apelabes*, "i ti *lwyr dderbyn*." Yr oedd wedi cael yr holl ddedwyddwch a geisiai yn y fuchedd hon, ac nid oedd ychwaneg o'i flaen.

Act. xvi. 25, "Ac ar hanner nos Paul a Silas wrth weddïo a foliannasant Dduw; ac yr oedd y carcharorion yn gwrando arnynt." Mae yr amserau a ddefnyddir, a chystrawen yr adnod, yn galw am gyfieithiad fel hyn, er dwyn allan y syniad. Awgryma y geiriau y pethau canlynol:—

1. Nad oedd arnynt gywilydd o'u crefydd.

2. Eu bod yn mwynhau cysur oddiwrth eu crefydd yn y cyfyngder mwyaf.

3. Fod eu brwdfrydedd yn hawlio sylw, ac yn swyno calon y carcharorion.

4. Fod Duw yn gwenu ar eu heneidiau ac yn eu bendithio pan oeddynt yn gweddïo, nes iddynt dori allan i foliannu. (*προσευχόμενοι ὕμνουν.*) Trodd y weddi yn orfoledd o dan wenau y nef.

Mae y testyn gwreiddiol weithiau yn rhoddi *sicrwydd* i ni gyda golwg ar ystyr adnodau, ag nas gallem ei gyrhaedd trwy y cyfieithiad arferol. "A chwi a wyddoch mai trwy wendid y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf. (Gal. iv. 13.) Mae y gair "*trwy*" yn amwysol, ac nid ydyw yn cyfleu ystyr eglur a sicr. Wrth sylwi ar y geiriau a ddefnyddiodd yr apostol, nid ydym yn cael ein gadael mewn petrusder. Iaith Paul ydyw, "A chwi a wyddoch mai o herwydd gwendid (*δἰ ἀσθένειαν**) y cnawd yr efengylais i chwi y waith gyntaf." Yr

*Διὰ, with the accusative, *because of, on account of, by reason of.* Felly Alford, Ellicott, Webster & Wilkinson, Conybeare & Howson, &c., ar y lle.

eglurhad tebygol yw nad oedd Paul pan ar ei daith gyntaf trwy Galatia yn bwriadu aros yno ond ychydig, ond myned rhagddo i Pontus, lle yr oedd llawer o Iuddewon wedi ymsefydlu (Act. ii. 9, xviii. 2. 1 Pedr i. 1), a pharthau ereill o Asia Leiaf; ond iddo gael ei gymmeryd yn glaf, ac felly ei gadw yn Galatia yn hwy nag y bwriadasai: rhoddodd hyn iddo gyfleusdra i draethu mwy am ras Duw i'r Galatiaid na'i fwriad ar y cyntaf, ac mae'n debyg iddo (wrth weled eu parodrwydd i dderbyn yr efengyl) benderfynu aros yno am dymhor helaethach i lafurio yn eu plith. Mae yr adnod yn ymddangos yn dra dyddorol yn y goleuni yma, ac yn awgrymu amryw wersi buddiol:—

1. Nad meddyliau dyn yw meddyliau Duw. Cynllun Paul oedd myned rhagddo tua Phontus heb aros ond ychydig yn Galatia, ond yr oedd Duw wedi arfaethu yn wahanol.

2. Fod ffordd Duw yn aml yn dywyll i ddyn. Mae ei ffordd ef yn y môr, a'i lwybrau yn y dyfroedd dyfnion (Salm lxxvii. 19), a'i weithrediadau yn aml uwchlaw dirnadaeth dyn (Rhuf. xi. 33.) Ni wyddai Paul ar y pryd, mae'n ddiau, beth oedd amcan Duw yn peri iddo gael ei gystuddio; ond deallodd ar ol hyny mai yr amcan oedd efengyleiddio Galatia.

3. Fod Duw yn gallu goruwchlywodraethu profedigaethau ei bobl i hyrwyddo llwyddiant ei achos. Bu cystudd Paul yn achlysur o lwyddiant yr efengyl yn Galatia. Bu ei garchariad yn achlysur i amryw o'i epistolau gael eu hysgrifenu, y rhai a fyddant yn ystorfa addysg a ffynnonell cysur i blant Duw hyd ddiwedd amser. Yr un modd y gellir dweyd am lawer o amgylchiadau ereill; megys caethiwed Babilon, a phrofedigaethau y tri llanc a Daniel yn foddion i ledaenu y wybodaeth am y gwir Dduw yn ymerodraeth Caldea; a chaethiwed John Bunyan yn achlysur i fendithio y byd â "Thaith y Pererin."

4. Fod Duw yn arddel ymdrechion ei genadon yn eu llesgedd a'u gwendid, yn ogystal a phan y byddant yn nghyflawnder eu nerth.

5. Fod caredigrwydd at weision Duw yn eu cystudd yn cynnyrchu adgofion hyfryd a diolchgarwch gwresog. (Gal. ix. 13—15.)

NODIAD I.—

Dylai y nodiadau a wneir fod yn sylfaenedig ar iawn-ddealltwriaeth o'r geiriau a fyddont dan sylw. Ni ddylid dwyn yn mlaen adnodau fel profion

o unrhyw bwnc ag mae amheuaeth am ystyr yr adnodau hyny eu hunain, megys, "Y mae gan hyny orphwysfa eto yn ol i bobl Dduw" (Heb. iv. 9), i brofi y Sabbath Cristionogol, gan fod lle cryf i gredu fod y geiriau yn cyfeirio at yr orphwysfa nefol yn mhresennoldeb Duw: neu, "Ni fydd arnynt na newyn mwyach, na syched mwyach; ac ni ddisgyn arnynt na haul na dim gwres. Oblegyd yr Oen, yr hwn sydd yn nghanol yr orseddfainc, a'u bugeilia hwynt, ac a'u harwain hwynt at ffynnonau bywiol o ddyfroedd: a Duw a sych ymaith bod deigr oddiwrth eu llygaid hwynt" (Dad. vii. 16, 17), i ddesgrifio dedwyddwch y nef, gan y dichon mai darluniad ffugyrol sydd yn y geiriau o waredigaethau a diogelwch yr eglwys ar y ddaear ar ol "cystudd mawr" yr erlidiau a'r merthyrdod: neu "Pwy a oddef ddydd ei ddyfodiad ef?" (Mal. iii. 2), i brofi arswydolrwydd y farn, tra mae'n amlwg oddiwrth y cyssylltiadau mai at ymddangosiad cyntaf Crist, ac at lymder a gonestrwydd ei weinidogaeth, y cyfeirir.

Defnyddir Rhuf viii. 11, yn fynych i brofi fod adgyfodiad Crist yn cael ei briodoli i'r Ysbryd Glân; nid yw yr adnod hon yn profi y fath beth. Pe buasai, buasai y cyfieithiad fel y canlyn: —"Ac os (yr) Ysbryd yr hwn a gyfododd Iesu o feirw sydd yn trigo ynoch," &c.: ond gan nad beth am y cyfieithiad, y mae y testyn gwreiddiol yn dangos fod y syniad yn anmhossibl yma *(to pneuma tou egeirantos Iesoun)*.

NODIAD II.—

Dylid cofio nad yw y Beibl yn wastad yn cymmeradwyo yr hyn, fel llyfr hanesyddol, a gofnoda fel golygiadau dynion.

Dichon fod y geiriau canlynol yn cyfeirio at *draws-symmudiad eneidiol:* —"A'i ddisgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rieni, fel y genid ef yn ddall?" (Ioan ix. 2.) Os ydynt, nid yw cofnodiad y Beibl o'r geiriau mewn un modd yn cynnwys ei fod ef yn cymmeradwyo y fath syniad.

"Ac yn y bedwaredd wylfa o'r nos yr aeth yr Iesu atynt, gan rodio ar y môr. A phan welodd y dysgyblion ef yn rhodio ar y môr, dychrynasant, gan ddywedyd, Drychiolaeth ydyw. A hwy a waeddasant rhag ofn." (Mat. xiv. 25, 26.)

Nid yw y geiriau hyn yn cynnwys fod yr Ysbryd Glân yn cefnogi y grediniaeth mewn ysbrydion a drychiolaethau, ond yn unig yn cofnodi y ffaith fod y fath grediniaeth yn bodoli yn mhlith y bobl, o'r hon yr oedd y dysgyblion ar hyn o bryd yn gyfranog.

Yn gyffelyb hefyd y rhaid i ni ddeall cais Zalome ar ran ei meibion (Mat. xx. 21), a gofyniad y dysgyblion i Grist (Act. i. 6): cyfeiriant at freniniaeth dymhorol y Messiah; ni wnaeth yr Iesu gywiro eu syniadau y pryd hyny, ond gadawodd iddynt hyd nes y darfu i'w esgyniad, a goleuni ei Ysbryd symmud ymaith y syniadau daearol o'u credo, a'u dwyn i roddi eu serch ar y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. Y mae yn hollol groes i holl rediad ei athrawiaeth i gasglu oddiwrth ei waith yn peidio gwrthwynebu eu syniadau ei fod yn eu cymmeradwyo.

Nid ydym i gasglu oddiwrth ofyniad Crist i'r Phariseaid, "Os trwy Beelzebub yr wyf fi yn bwrw allan gythreuliaid, trwy bwy y mae eich plant chwi yn eu bwrw hwynt allan?" (Mat. xii. 27), neu oddiwrth y

geiriau yn nghylch "yr ysbryd aflan yn rhodio ar hyd lleoedd sychion" (Mat. xii. 43), fod Crist ei hun yn cydnabod gwirioneddolrwydd gwyrthiau dysgyblion y Phariseaid, a chywirdeb syniad y bobl yn nghylch ysbrydion aflan yn mynychu lleoedd neillduol, ond yn unig mai dyna oedd syniad y werin; cyfeirir at y pethau hyn fel syniadau y bobl heb eu cyfiawnhau na'u condemnio.

Felly hefyd gyda'r ymadroddion yn nghylch codiad a machludiad yr haul, a'r cyffelyb. Nid ydyw y Beibl yn proffesu dysgu ffeithiau gwyddonol, ond yn unig cofnodi pethau fel yr ymddangosant i ddynion, ac fel y deallir hwynt gan ddynion.

NODIAD III.—

Nid ydym i fod yn rhy hyderus yn nghywirdeb y casgliadau a dynwn oddiwrth leferydd yr Ysgrythyr, oddi eithr fod y casgliadau eu hunain yn cael eu cadarnhau a'u dysgu mewn iaith eglur yn rhanau ereill y Beibl.

Dywed Paul, "Beth bynag nid yw o ffydd, pechod yw." (Rhuf. xiv. 23.) Wrth "ffydd" yma y golygir *argyhoeddiad o gyfreithlondeb a rhwymedigaeth gweithred grefyddol.* Gellid casglu ar yr olwg gyntaf oddiwrth hyn, fod *argyhoeddiad o gyfreithlondeb a rhwymedigaeth unrhyw weithred fel dyledswydd grefyddol* yn ei chyfreithloni; ond ni fyddai hyny yn gasgliad cywir a chysson â'r Ysgrythyrau. Er fod eisieu argyhoeddiad o gyfreithlondeb gweithred grefyddol yn yr addolwr cyn y bydd y weithred yn dderbyniol, eto gall fod argyhoeddiad o hyn pryd mae y weithred yn hollol wrthodedig. Yr oedd Paul yn gydwybodol pan yn erlid eglwys Dduw, ond yr oedd ei ymddygiad yn bechadurus, ac yn ei lenwi â phrudd-der pan y meddyliai am dano hyd ddiwedd ei oes.

Yn Mat. xxv. 41—43, cawn fod dynion yn cael eu gyru i'r tân tragywyddol am eu bod wedi esgeuluso anghenion y claf, y dyeithr, a'r carcharor. Ni ddygir un cyhuddiad arall yn eu herbyn. Ond byddai yn gyfeiliornad dinystriol i neb gasglu oddiwrth hyn *fod elusengarwch yn ddigon i sicrhau cadwedigaeth dyn.* Gall elusengarwch darddu oddiar hynawsedd naturiol dyn, heb fod un elfen grefyddol ynddo o gwbl, tra y rhaid iddo fod yn ffrwyth parch i'r Gwaredwr a diolchgarwch i Dduw, a chael ei ymarfer am fod Crist yn ei orchymyn, mewn trefn i fod yn gymmeradwy fel gwasanaeth crefyddol (Mat. x. 42, xxv. 40. Act. xx. 35. Iago i. 27).

Nid elusengarwch, neu dosturi tuag at yr anghenus a'r trallodedig, yw ammod iachawdwriaeth, ond ffydd yn Nghrist (Ioan iii. 36). Mae y tosturi dan sylw, gan hyny, yn rhagdybied bodolaeth ffydd yn y Cyfryngwr, ac yn un o'i ffrwythau gweledig; a'r diffyg o hono, o'r ochr arall, yn profi ei habsennoldeb (Iago ii. 14—17. 1 Ioan iii. 16—18).

Gwel ar gynnwysiad y bennod hon, *Dr. Planck's Introduction to Sacred Philology and Interpretation; Dr. Angus's Bible Hand-Book; Dr. Davidson's Sacred Hermeneutics; Dr. Doedes's Hermeneutics of the New Test.; Dr. Seiler's Biblical Hermeneutics; Dr. Fairbairn's Hermeneutical Manual; Dr. Barrows's New Introduction to the Study of the Bible; Ernesti's Elements of Biblical Criticism and Interpretation; Dr. Ellicott's Essay in Aids to Faith; Horne's Introduction*, vol. ii.; a *Carpenter's Lectures on Biblical Criticism and Interpretation.*

# PENNOD VI.

## FFUGYRAU AC ARWYDDLUNIAU Y BEIBL A'U DEHONGLIAD.

---

## Y CYNNWYSIAD.

*Y rheswm paham y defnyddir Iaith Ffugyrol—Sail Ffugyrau—Rheolau i ddehongli Ymadroddion Ffugyrol—Taflen o Brif Ymadroddion Ffugyrol y Beibl a'u Heglurhad.*

MAE Dwyreinwyr yn dra hoff o osod eu meddyliau allan mewn iaith ffugyrol, ac felly yr oedd yr Iuddewon; a chawn fod llawer iawn o wirioneddau ac addysgiadau y Beibl wedi eu gwisgo mewn ffugyrau a chymhariaethau. Mae dau reswm yn cyfrif am liosogrwydd termau ffugyrol ac arwyddluniol y Beibl, sef o herwydd *tlodi iaith* plant dynion, ac er mwyn rhoddi mwy o *fywiogrwydd yn y cyfansoddiad.* Os meddyliwn am y geiriau a ddefnyddiwn, y synhwyrau corphorol, ymsyniad meddyliol, ac ymwybyddiaeth *(sensation, reflection, and consciousness)*, ydyw y ffynnonellau o ba rai y deilliant.* Felly, gyda phethau o'r tu allan i gylch ein sylw a'n hymwybyddiaeth, rhaid i ni arfer ymadroddion a ddefnyddir gyda golwg ar wrthddrychau agos atom, a'u cymhwyso at bethau dyeithr i ni. Ni welsom, ac ni theimlasom Dduw erioed, na gwrthddrychau ysbrydol ereill; ond soniwn am ddwylaw, llygaid, a chalon Duw, ac am dano yn edifarhau, gofidio, a llawenychu, mewn modd ffugyrol, er gosod allan ei berffeithderau a'i weithrediadau. Defnyddir y gair *gwynt* yn yr Ysgrythyrau i osod allan *ysbryd;* y gair *maes* neu *feusydd hyfryd* (canys dyna ystyr paradwys) i osod allan *orphwysfa ysbrydoedd y cyfiawn* yn y byd arall; y gair *tân* i osod allan erwindeb *cosb*

* Gwel Moses Stuart ar Natur Iaith Ffugyrol. *Biblical Cabinet,* vol. xxxvii pp. 280—287.

*yr annuwiol;* y *dyfnder* i osod allan eu *carchar* o dan lid Duw; *bywyd* i osod allan *ddedwyddwch;* a *marwolaeth* i osod allan *drueni* dynion yn y byd arall. Yr oedd *tlodi iaith* dynion i osod allan bethau Dwyfol ac ysbrydol, o anghenrheidrwydd yn galw am i'r ysgrifenwyr santaidd wneyd defnydd helaeth o iaith ffugyrol.

Mae y math yma o gyfansoddiad hefyd yn fwy bywiog, argraffiadol, ac addysgiadol, na iaith hollol syml a diaddurn. Mae llawer iawn o brydferthwch yn y ffugyrau a ddefnyddir yn y Beibl. Gosodir allan y meddylddrych o *wahardd* a *chaniatâu* unrhyw beth o dan y ffugyr o *rwymo* a *rhyddhau* (Mat. xvi. 19, xviii. 18); *awydd angerddol* am rywbeth fel *newyn* a *syched* (Mat. v. 6. Salm lxiii. 1); darlunir *goddiweddiad dynion gan brofedigaethau* mawrion a chwerwon fel *llifogydd cryfion* neu *ddiluw gorchuddiol* (Salm xlii. 7, lxix. 1, 2), neu fel *nos dywell* ddigysur wedi eu dal (Esai. xxi. 11. Job xxxv. 10); desgrifir *pleser adfywiol bendithion efengyl Crist* fel *effaith ffrydiau dyfroedd* i enaid sychedig, neu *effaith gwlaw a gwlith* Dwyreiniol ar laswellt (Esai. lv. 1, 10, 11. Hos. xiv. 5); a gosodir allan *chwyldroadau* gwladol, a dymchweliad deddfau, sefydliadau, a gorseddau, fel *daeargryn*, yn yr hon y dymchwelir mynyddau, ac y cyfodir y dyffrynoedd, ac y symmudir gwelyau afonydd i gyfeiriadau gwahanol. (Joel ii. 10. Hag. ii. 21, 22. Jer. iv. 23—25. Esai. xxiv. 19—23. Dad. vi. 12, xi. 13, xvi. 18, 19.)

Sylfaenir ffugyrau y Beibl, y rhan fynychaf, fel y sylwa Syr Isaac Newton, Dr. Angus, Esgob Lowth, Dr. Davidson, &c., ar yr egwyddor o *debygoliaeth;* defnyddir gwrthddrychau mawreddog natur i osod allan yr hyn sydd bwysig yn mhlith dynion, megys y cyrph nefol, cedrwydd, mynyddau, &c., i osod allan freninoedd, tywysogion, gorseddau, &c.: gwrthddrychau dymunol mewn natur, megys gwlaw, gwlith, goleuni, &c., i osod allan hyfrydwch llwyddiant a bendithion ysbrydol: a thywyllwch, tymhestl, &c., bethau anhyfryd a gofidiau. Defnyddir enwau adar a bwystfilod ysglyfaethus ag sydd yn byw trwy ysbeilio a dinystrio creaduriaid ereill, megys llewod, llewpardiaid, eryrod, &c., i osod allan freninoedd a gelynion gormesol, &c.: a defnyddir y geiriau defaid, colomenod, &c., i osod allan ddynion addfwyn a diniwaid.

Rhaid cadw at yr un Rheolau wrth esbonio iaith ffugyrol y Beibl ag wrth ddehongli ymadroddion ereill; ac er dehongli ffugyrau y Beibl yn briodol, y mae llawer iawn yn ymddibynu ar adnabyddiaeth yr esboniwr â chynnwysiad y Beibl yn gyffredinol, ac ar fywiogrwydd a chraffder ei feddwl ei hun.

RHEOL I.—*Pan nad ydyw ystyron arferol a llythyrenol y geiriau yn gwneyd y frawddeg yn ddealladwy, neu pan y sonia y geiriau am bethau ysbrydol, gellir penderfynu fod y geiriau yn ffugyrol.*

Gellir canfod hyn mewn dwy ffordd:—

1. Trwy ystyried natur y pwnc dan sylw.

"Canys sylfaen arall nis gall neb ei osod, heblaw yr un a osodwyd, yr hwn yw Iesu Grist. Eithr os goruwchadeilada neb ar y sylfaen hon, aur, arian, meini gwerthfawr, coed, gwair, sofl; gwaith pob dyn a wneir yn amlwg: canys y dydd a'i dengys, oblegyd trwy dân y dadguddir ef: a'r tân a brawf waith pawb, pa fath ydyw. Os gwaith neb a erys, yr hwn a oruwchadeiladodd ef, efe a dderbyn wobr. Os gwaith neb a losgir, efe a gaiff golled: eithr efe ei hun a fydd cadwedig; eto felly, megys trwy dân." (1 Cor. iii. 11–15.)

Mae Crist yn fôd deallol, ac yn awr yn y nef, felly rhaid deall y gair "sylfaen" yn ffugyrol: a dengys natur y pwnc fod y geiriau "coed, gwair, sofl," i'w deall yn ffugyrol hefyd.

"Yr hwn sydd yn bwyta fy nghnawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragywyddol." (Ioan vi. 54.)

Mae Crist wedi esgyn i'r nef, ond y mae y geiriau hyn o hyd mewn grym; mae natur y pwnc, gan hyny, yn dangos fod yn rhaid i ni eu deall mewn modd ffugyrol. Dysgir yr un meddylddrych mewn iaith eglur yn adnod 47: "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, sydd ganddo fywyd tragywyddol."

2. Trwy y cyssylltiadau.

Yn gyffredin, pan ddefnyddir geiriau mewn modd ffugyrol, defnyddir ansoddeiriau mewn cyssylltiad â hwynt, neu ychwanegir ymadroddion ereill atynt, y rhai a'n galluogant i ganfod mai mewn ffordd ffugyrol y defnyddir hwynt.

Fel hyn yn Rhuf. xii. 1, dangosir fod y gair "aberth" i'w ddeall yn ffugyrol trwy yr ansoddair "*byw*" a ddefnyddir gydag ef, natur y cymhelliad, a'r ymadroddion ychwanegol a ddefnyddir yn yr adnod ganlynol.

Dengys y gair "*pechodau*" yn Eph. ii. 1, mai marwolaeth ysbrydol a olygir.

Wrth i'r Salmydd ddweyd (xxiii. 2), "Efe a wna i mi orwedd mewn porfeydd gwelltog, efe a'm tywys gerllaw y dyfroedd tawel," canfyddir ar unwaith oddiwrth y ffaith mai *dyn* sydd yn llefaru, ac mai am Dduw y lleferir, ac mai yr "enaid" yw y gwrthddrych a arweinir, a hyny ar hyd llwybrau cyfiawnder —fod y Salm i'w deall yn ffugyrol am ofal Duw am ei bobl, a'i dynerwch tuag atynt.

"A'r blaidd a drig gyda'r oen, a'r llewpard a orwedd gyda'r myn; y llo hefyd, a chenau y llew, a'r anifail bras, fyddant yn nghyd, a bachgen bychan a'u harwain. Y fuwch hefyd a'r arth a borant yn nghyd; eu llydnod a *gyd*-orweddant: y llew, fel yr ŷch, a bawr wellt. A'r plentyn sugno a chwery wrth dwll yr asp; ac ar ffau y wiber yr estyn yr hwn a ddiddyfnwyd ei law." (Esai. xi. 6—8.)

O'u rhan eu hunain, gall y geiriau hyn fod i'w deall yn llythyrenol neu yn ffugyrol; ond y mae yr ychwanegiad yn adnod 9, "Ni ddrygant ac ni ddifethant yn holl fynydd fy santeiddrwydd;" a'r rheswm a roddir dros fod y blaidd yn trigo gyda'r oen, sef, "Canys y ddaear a fydd llawn o wybodaeth yr Arglwydd," yn dangos fod yn rhaid deall y geiriau mewn modd ffugyrol am ddylanwad efengyl gras yn trawsnewid calonau a chymmeriadau dynion.

Dengys y gair "cyfiawnder" yn Mal. iv. 2, mai mewn modd ffugyrol y defnyddir y gair "Haul" yn y frawddeg, "Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi."

"Ac yr ydwyf yn dywedyd i chwi, nad yfaf o hyn allan o ffrwyth hwn y winwydden, hyd y dydd hwnw, pan yfwyf ef gyda chwi yn newydd yn nheyrnas fy Nhad." (Mat. xxvi. 29.)

Mae yr ychwanegiad, "yn nheyrnas fy Nhad," yn awgrymu mai iaith ffugyrol am gymmundeb nefol Crist a'i ganlynwyr, pan y bydd trefn yr iachawdwriaeth wedi gorphen ei gwaith, a dwyn yr holl deulu adref, yw yr ymadroddion uchod.

Yn Luc xvi. 24, gofyna y goludog annuwiol am ddyferyn o ddwfr "i oeri ei dafod;" yn adnod 22, dywedir ei fod "wedi ei gladdu;" mae yn amlwg gan hyny mai iaith ffugyrol yw yr hon a ddefnyddir yn adnod 24, yn yr hon y gosodir allan boenau ysbrydoedd dynion annuwiol mewn ymadroddion wedi eu benthyca oddiwrth boenau corphorol.

Er deall beth a olygir wrth "buteinio" yn Jer. iii. 8, darllener y nawfed adnod, lle y dywedir fod Judah wedi puteinio "gyda'r maen a'r pren," a cheir gweled mai ymadrodd ffugyrol yw puteinio am eilunaddoli.

Yn Jer. iv. 7, dywedir fod llew yn dyfod i fyny o'r dyrysni yn erbyn Seion; ac yn adnod 11, dywedir fod gwynt yn chwythu yn ei herbyn; yn y cyssylltiadau fe ddywedir fod y llew yn "ddifethwr y Cenedloedd" (adn. 7), a bod gan y gwynt ei "gerbydau" a'i "feirch" (adn 13), y rhai sydd yn gyfystyr â "gwylwyr o wlad bell" (adn. 16), yr hyn a ddengys fod y llew a'r gwynt yn golygu brenin Babilon, yn dyfod gyda'i fyddin i oresgyn y wlad.

Wrth i'r apostol ddweyd wrth yr Hebreaid, "Y mae yn rhaid i chwi wrth laeth" (v. 12), fe welir ar unwaith oddiwrth y cyssylltiad ei fod yn defnyddio iaith ffugyrol.

RHEOL II.—*Gan fod mwy nag un ystyr ffugyrol i eiriau, rhaid ymgynghori â'r cyssylltiadau a rhediad yr ymresymiad, er canfod beth yw ystyr neillduol gwahanol eiriau mewn gwahanol leoedd.*

Er engraifft, defnyddir y gair "dyfroedd" mewn modd ffugyrol; ond ni ateba *trallodion*—ei ystyr yn Salm lxix. 1, 2. Esai xliii. 2,—i osod allan ei ystyr yn Esai. lv. 1, lle y golyga y gair dyfroedd gyflawnder, rhadlonrwydd, a dylanwad adfywiol bendithion yr iachawdwriaeth. Felly hefyd gyda golwg ar y gair 'cnawd;" ni ateba *dynoliaeth lygredig*—ei ystyr yn Rhuf. vii. 18, 25, viii. 1,—i osod allan ystyr y gair yn Ioan i. 14, lle y dywedir, "A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd," gan y golyga y gair yn y lle olaf y *natur ddynol yn unig*, heb un cyfeiriad at ei llygredd.

Yr un modd gyda llawer o ymadroddion ereill, y rhai a ymgynnygiant yn naturiol i feddwl y darllenydd.

RHEOL III.—*Rhaid esbonio termau ffugyrol mewn cydgordiad â ffeithiau hanesyddol, ac â chyssondeb y ffydd.*

Ni fyddai yn iawn esbonio y gair "annghrist" yn 1 Ioan ii. 18, iv. 3, i olygu Pabyddiaeth, oblegyd,

1 Nid oedd Pabyddiaeth eto wedi ei sefydlu.

2. Nid prophwydoliaeth ydyw geiriau Ioan, ond darluniad o gyfeiliornad ag oedd y pryd hwnw yn uchel ei ben.

3. Nid ydyw Pabyddiaeth yn gwadu mewn proffes ddyfod Crist yn y cnawd. Ond dylid ei gymhwyso naill ai at y gwrthwynebwyr Iuddewig y rhai wadent mai Iesu o Nazareth oedd y gwir Fessiah (1 Ioan ii. 22), neu at yr hereticiaid Gnosticaidd, y rhai fe y syiwy' yn y drydedd bennod, a wadent wirioneddolrwydd ymgnawdoliad Crist.

Ond am 2 Thes ii. 1- 10, mae yn naturiol i ni gymhwyso y dyn pechod,' a'r ' anwir" at Babyddiaeth, o herwydd mai prophwydoliaeth ydyw y geiriau ag sydd yn cytuno yn well â hanes Pabyddiaeth nag dim arall a wyddis am dano.

1. Yr oedd yma allu yn attal am dymhor cyn ymddangosiad cyflawn yr ' anwir' (adn 7). Felly yr oedd gallu gwladol yr ymerodraeth Rufeinig yn attal i Babyddiaeth gael ei rhwysg; ond wedi symmud eisteddle y llywodraeth i Gaercystenyn, ac i'r ymerodraeth Rufeinig syrthio, cafodd y Pab y ffordd yn rhydd i weithio allan ei uchelgais

2. Un fel y desgrifir yma yw Pab—cynnrychiolydd y gyfundrefn (adn 4). Y mae wedi gwrthwynebu trefn Duw o'r dechreuad ac y mae yn myned rhagddo trwy dwyll a rhyfeddodau gau o dan ysbrydoliaeth Satan; ac yn 1870 fe'i cyhoeddwyd yn anffaeledig, a chymmerodd arno ei hun yr anrhydedd a berthyn i Dduw yn unig!

3. Yn y ffordd a ddesgrifir yma y mae Pabyddiaeth i gael ei dinystrio (adn. 8). Y gwirionedd yn y purdeb o hono, a phresennoldeb neillduol Duw gyda'i saint a'i waith, sydd i ddymchwelyd y gyfundrefn, a rhyddhau dynion odditan ei dylanwad.

Wrth egluro arwyddluniau y Beibl, mae eisieu cadw golwg ar ffeithiau hanesyddol, mewn crefydd a gwladyddiaeth.

Yn Dan. vii. 1—7, cawn hanes pedwar o fwystfilod, y rhai a olygant bedwar o freninoedd (adn. 17). Gwna ffeithiau hanesyddol daflu goleuni ar y weledigaeth ryfedd hon; cyfeiria y *llew* at Nebuchodonosor, brenin Babilon, a'i helyntion ef a'i ganlynwyr: yr *arth*, at ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid, yr hon oedd i gael cenad i "gyfodi, a bwyta cig lawer," neu i ddinystrio yr ymerodraeth Fabilonaidd: a'r *llewpard*, gyda phedair aden aderyn ar ei gefn, at ymerodraeth Macedonia, o dan Alexander Fawr, er gosod allan yrfa ddinystriol Alexander, a chyflymder ei symmudiadau: cyfeiria y pedwar pen, mae'n debyg, at raniad yr ymerodraeth Facedonaidd ar ol marwolaeth Alexander rhwng pedwar o'i gadfridogion, sef Thracia a Bithynia i Lysimachus; Syria a'r Dwyrain i Seleucus; yr Aifft i Ptolemy Soter; a Macedonia i Cassander. Cymharer Dan. vii. 18—22. Dywedir fod y pedwerydd bwystfil yn golygu y bedwaredd freniniaeth, a'r deg corn yn golygu deg brenin (adn. 23, 24), gan gyfeirio, mae'n ymddangos, at yr ymerodraeth Rufeinig, yr hon a ymranodd i ddeg o fân freniniaethau, er fod gwahaniaeth barn pa enwau i'w rhoddi arnynt. With y "corn bychan," yr hwn a gyfododd yn mysg y deg corn arall, mae'n ymddangos fod yn rhaid i ni ddeall Pabyddiaeth, yr hon a ddiddymodd rai o'r teyrnasoedd ereill er cyssylltu y gallu tymhorol ac ysbrydol â'u gilydd; ac a erlidiodd saint y Goruchaf, ac a newidiodd gyfreithiau y nef (adn. 24, 25.)*

Mae cadw golwg ar gadwyn hanesyddiaeth yn gymhorth hefyd i ddeall ymadroddion yr Arglwydd Iesu. Ni fyddai yn briodol esbonio y geiriau, "Y mae genyf fedydd i'm bedyddio âg ef," i olygu ei fedydd yn yr Iorddonen, oblegyd yr oedd hwnw wedi cymmeryd lle, ond yn hytrach ei ddyoddefiadau dirfawr, y rhai a gymhara i ddiluw i'r hwn y suddai (Salm lxix. 1, 2): ac ni fyddai yn iawn esbonio y geiriau, "Oni fwytewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes genych fywyd ynoch" (Ioan vi. 53), i olygu swper yr Arglwydd, oblegyd nid oedd hwnw wedi ei sefydlu pan lefarwyd y geiriau.

Sonia y Rheol hefyd am esbonio ffugyrau *yn ol cyssondeb y*

* Gwel Barnes ar Daniel, *Calmet's Dictionary,* a'r esgob Newton ar y Prophwydoliaethau. Gwel hefyd Moses Stuart ar Daniel, yr hwn a wahaniaetha mewn rhai pethau oddiwrth yr awdwyr crybwylledig.

*ffydd*, neu mewn cydgordiad â'r holl Ysgrythyrau Santaidd. Mae hyn yn dra phwysig; o herwydd diffyg cadw at y rheol bwysig hon, mae y damcaniaethau gwylltaf wedi cael eu coleddu. Sonir yn Dad. xx. 5, am "yr adgyfodiad cyntaf," yn nechreu y mil blynyddoedd; o ganlyniad dysga llawer fod y saint i gyfodi o'u beddau yn nechreu y mil blynyddoedd, er mwyn teyrnasu gyda Christ ar y ddaear yn ystod y cyfnod dedwydd hwnw: ond nid yw hyn yn gysson â'r Ysgrythyrau ereill, oblegyd yn mhob man arall sonir am adgyfodiad y meirw fel un adgyfodiad cyffredinol yn niwedd y byd, pryd y bydd y duwiol a'r annuwiol yn cydgyfodi, y naill i fywyd ac anrhydedd, y llall i gosbedigaeth a gwarth. Rhaid i ni ddeall yr adgyfodiad yma, gan hyny, fel *adgyfodiad moesol*—adgyfodiad y merthyron o ran eu hegwyddorion, eu dylanwad, a'u parch ar y ddaear, oblegyd fel ail fywhad *eneidiau y merthyron* y desgrifir ef yn Dad. xx. 4, yn debyg i adgyfodiad y tystion yn Dad. xi. 11.

Nid ydyw yr ymadrodd, "teyrnasu gyda Christ" yn cynnwys ychwaith y bydd Crist *yn bersonol gyda hwynt mewn ffurf weledig*, mwy nag mae y geiriau "claddu gydag ef trwy fedydd," "croeshoelio gydag ef," yn cynnwys ei fod ef yn bersonol gyda ni mewn ffurf weledig pan yr ydym yn ymwneyd â'i waith, a byw er ei glod; ymadroddion yw y naill a'r llall ag sydd yn gosod allan *gymdeithas â Christ*, ac *anrhydedd y saint*, ac nid y syniadau Iuddewig am bresennoldeb y Messiah ar y ddaear.

Terfynwn y bennod hon trwy roddi llechres o'r prif ymadroddion ffugyrol a ddefnyddir yn y Beibl, yn nghyda'u heglurhad, mor bell ag y deallwn hwynt; mae amryw o honynt, megys y geiriau a ddefnyddir yn y Dadguddiad, yn gyfryw ag nas gall neb fod yn benderfynol ac anffaeledig iawn yn eu cylch.

## TAFLEN O BRIF YMADRODDION FFUGYROL Y BEIBL, A'U HEGLURHAD.

*Adenydd*,—1. Amddiffyniad Duw. (Ruth ii. 12. Salm xvii. 8. Exod. xix. 4. Deut. xxxii. 11, 12.)

2. Cyrion byddinoedd. (Esai. viii. 8. Jer. xlviii. 40.)

3. Pelydrau yr haul. (Mal. iv. 2.)

*Aderyn ysglyfaethus*,—Byddin elynol yn ymosod ar wlad. (Esai. xlvi. 11. Luc xvii. 37.)

*Agoriad*,—1. Awdurdod a gallu. (Dad. i. 18, iii. 7.)

2. Rhagorfraint swyddol, i fod yn gyntaf i arwain Iuddewon a Chenedloedd i fwynhau bendithion yr efengyl. (Mat. xvi. 19.)

*Ailenedigaeth*,—1. Adferiad y byd i drefn trwy yr efengyl. (Mat. xix. 28.)

2. Adferiad dyn at Dduw, ac adnewyddiad ei natur trwy ras. (Tit. iii. 5.)

*Aifft*,—Rhufain Babaidd. (Dad. vi. 12, xi. 8. Wemyss), neu enw arwyddluniol ar yr Iuddewon. (Dr. E. Robinson.)

*Allor*,—1. Aberth Crist a'i effeithiau. (Heb. xiii. 10.)

2. Gwasanaeth eglwys Crist o dan y Testament Newydd. (Dad. xi. 1.)

*Annghrist*,—Y gau athrawon Iuddewig y rhai a wadent mai Iesu o Nazareth oedd y Messiah, neu yr hereticiaid Gnosticaidd, y rhai a wadent wirioneddolrwydd ymgnawdoliad Crist, neu y gyfundrefn a ddysgent. (1 Ioan ii. 22, iv. 3.)

*Anwir*,—Y gyfundrefn Babaidd wedi ei phersonoli, neu ei chynnrychiolydd. (2 Thes. ii. 8.)

*Arfogaeth*,—Grasusau a rhinweddau Cristionogol. (Rhuf. xiii. 12. Eph. vi. 11.)

*Arogldarth*,—Gweddi. (Dad. v. 8. Salm cxli. 2.)

*Aur*,—1. Ymerodraeth Caldea. (Dan. ii. 32, 38.)

2. Y gras a rydd oruchafiaeth. (Dad. iii. 18.)

3. Y gwir gredinwyr. (1 Cor. iii. 12.)

*Babilon*,—Rhufain Babaidd a'i defodau eilunaddolgar. (Dad. xiv. 8, xvii. 18.

*Balaam*,—Gair yn cael ei ddefnyddio i osod allan athrawon gau a thwyllodrus, yn hudo dynion oddiwrth y gwirionedd at arferion anfoesol a ffiaidd, fel Balaam gynt. (Judas 11. Dad. ii. 14. 2 Pedr ii. 15.)

*Bara*,—1. Crist. (Ioan vi. 50.)

2. Cristionogion. (1 Cor. x. 17.)

*Blaguryn*,—Crist. (Zech. iii. 8.)

*Blaidd*,—1. Dynion creulon. (Esai. xi. 6. Luc x. 3.)

2. Erlidwyr neu dwyllwyr crefyddol. (Ioan x. 12.)

*Brwmstan*,—1. Dinystr. (Job xviii. 15.)

2. Athrawiaethau dinystriol. (Dad. ix. 17, 18.)

*Bugail*,—1. Crist. (Ioan x. 11. Heb. xiii. 20.)

2. Gweinidogion yr efengyl. (Eph. iv. 11.)

*Bwa*,—1. Nerth. (Job xxix. 20. Jer. xlix. 35. Hos. i. 5.)

2. Buddygoliaeth. (Dad. vi. 2.)

*Bwystfil*,—1. Teyrnas baganaidd, er gosod allan ei daearoldeb yn ei thueddiadau cnawdol a bydol. (Dan. vii. 17.)

2. Y Babaeth, neu grefyddau gwladol. (Dad. xiii. 2, 12.)

*Careg neu Faen*,—1. Crist. (1 Pedr ii. 7.)

2. Credinwyr. (1 Pedr ii. 5. 1 Cor. iii. 12.)

3. Calon annghrediniol. (Ezec. xxxvi. 26.)

4. *Careg wen*,—Maddeuant cyflawn a rhyddhad. (Dad. ii. 17.) Yn mhlith y Groegiaid, pleidleisid yn erbyn dynion ar a leg eu prawf trwy fwrw *careg ddu* i'r gist (neu y *ballot-box*), ac o'u plaid trwy fwrw *careg wen* iddi.

*Cedrwydd*—1. Dynion mewn swyddi pwysig. (Ezec. xvii. 3. Zech. xi. 2.)

2. Cedrwydd Libanus,—Breninoedd, tywysogion, a mawrion Judah (Esai. ii. 13.)

*Cenllysg*.—Caledi a dychrynfeydd rhyfel. (Esai. xxviii. 2. Dad. viii. 7.)

*Cleddyf*,—1. Ing angerddol y meddwl. (Luc ii. 35.)

2. Angeu a dinystr. (Ezec. xxi.)

3. Gair Duw. (Eph. vi. 17.)

4. Arwyddlun o awdurdod. (Rhuf. xiii. 4.)

*Corn*,—1. Breniniaeth. (Jer. xlviii. 25. Zech. i. 18, 21. Dan. viii. 20–22.)

2. Nerth a gallu. (Dad. v. 6. Salm xviii. 2.)

3. Corn yr allor,—Amddiffyniad Dwyfol. (Amos. iii. 14.)

*Craig*,—1. Amddiffyniad a noddfa. (Esai. xvii. 10. Salm xviii. 2.)

2. Patriarch, neu dad cyntaf cenedl. (Esai. li. 1.)

3. Gwrandawyr anffrwythlon yr efengyl. (Luc viii. 6, 13.)

4. Crist. (1 Cor. x. 4.)

*Cusan*,—1. Arwydd o addoliad eilunod. (Hos. xiii. 2. 1 Bren. xix. 18. Job xxxi. 27.)

2. Arwydd o gyfarchiad a serch rhwng brodyr. (Rhuf. xvi. 16.)

3. Ymadrodd yn golygu parch i Fab Duw. (Salm ii. 12.)

*Cŵn*,—1. Cenedloedd. (Mat. xv. 26.)

2. Gwylwyr. (Esai. lvi. 10.)

3. Dynion haerllug a gau athrawon. (Dad. xxii. 15. Phil. iii. 2.)

*Cwpan neu Phiol*,—1. Bendithion a ffafr Duw. (Salm xxiii. 5.)

2. Dyoddefiadau a thrallodion mewn canlyniad i lid Duw. (Esai. li. 17. Dad. xiv. 10.)

3. Ing a chyfyngder dirfawr. (Mat. xxvi. 39, 42.)

4. Hudoliaethau twyllodrus yr eglwys syrthiedig. (Dad. xvii. 4.)

*Cymmylau,*—1. Torfeydd lliosog. (Jer. iv. 13. Esai. xlix. 8. Heb. xii. 1.)
2. Bendithion Duw. (Esai v. 6.)
3. Gau athrawon ansefydlog a thwyllodrus. (2 Pedr ii. 17. Judas 12.)
4. Gwendidau henaint. (Preg. xii. 2.)
5. Dirgeledigaethau gweithrediadau y Duwdod. (Salm xcvii. 2.)
6. Diwrnod cymmylog yw dydd trallod a gofid. (Exec. xxx. 3. Joel ii. 2.)

*Daeargryn,*—Chwyldroadau a chyfnewidiadau pwysig mewn gwledydd a theyrnasoedd. (Joel ii. 10. Hag. ii. 21, 22. Jer. iv. 23–25. Esai. xxiv. 19—23.) Golyga symmudiad ymaith yr hen oruchwyliaeth er rhoddi lle i oruchwyliaeth ysbrydol y Messiah. (Hag. ii. 21. Heb. xii. 26.)

*Dallineb,*—Diffyg dealltwriaeth yn mhethau Duw. (Esai. vi. 9, xxix. 18.)

*Defaid,*—1. Dysgyblion Crist. (Ioan x.)
2. Meibion Israel. (Mat. x. 6.)

*Derw,*—Derw Basan y gelwir tywysogion a mawrion Judah. (Esai. ii. 13. Zech. xi. 2.) Cyflawnid defodau eilunaddolgar o dan y coed derw gan feibion Israel. (Esai. lvii. 5. Ezec. xx. 28. Hos. iv. 13.)

*Diwrnod,*—1. Cyfnod anmhennodol. (Heb. iv. 8. 2 Cor. vi. 2.)
2. Adeg tywalltiad barnau Duw ar ei elynion. (Joel ii. 11. Esai. ii. 12.)
3. Dydd mawr y farn. (Mat. vii. 22. 2 Thes. i. 10.)
4. Cyfnod prophwydol. (Dad. xi. 3.) Blwyddyn. (Num. xiv. 34. Ezec. iv. 4, 6.)

*Draig,*—1. Brenin gwrthwynebol. (Ezec. xxix. 3. Salm lxxiv. 13.)
2. Satan. (Dad. xii. 9.)
3. Yr hyn sydd yn niweidiol. (Salm xci. 13.)

*Drain,*—1. Gofalon a hudoliaethau y byd hwn. (Luc viii. 7, 14.)
2. Dynion drygionus. (Ezec. ii. 6. Esai. lv. 13.)

*Dwfr,*—1. Bendith Duw, a dylanwad ei Ysbryd. (Esai. xliv. 3. Ezec. xxxvi. 25.)
2. Helbulon a phrofedigaethau. (Salm lxix. 1.)
3. Rhifedi dirfawr o bobl. (Esai. viii. 7. Dad. xvii. 15.)

*Dyn,*—1. Yr hen ddyn,—Ymadrodd yn gosod allan lygredd y natur ddynol, yr hwn a arglwyddiaethai ar ddyn cyn ei ddychweliad. (Eph. iv. 22. Col. ii. 9.)
2. Y dyn newydd,—Ymadrodd yn gosod allan natur dyn wedi ei hadnewyddu a'i chyfnewid trwy ras. (Eph. iv. 24. Col. ii. 10.)
3. Y dyn pechod,—Ymgorphoriad o bechod, fel yr arddangosir ef mewn cyfundraethau crefyddol twyllodrus, yn neillduol yn y gyfundrefn Babaidd. (2 Thes. ii. 3.)

*Dyrnu*,—Dinystrio. (Jer. li. 33. Esai. xli. 15. Amos i. 3.)

*Efrau*,—Dynion drygionus a rhagrithiol. (Mat. xiii. 38.)

*Eryr*,—1. Brenin. (Ezec. xvii.)

2. Y fyddin Rufeinig. (Mat. xxiv. 28.)

3. Adenydd eryrod,—Amddiffyniad a gwaredigaethau Dwyfol. (Exod. xix. 4. Dad. xii. 14.)

*Esgidiau*,—Parodrwydd meddwl o dan ddylanwad efengyl. (Eph. vi. 15.)

*Ffrwyth*,—1. Canlyniad ymddygiad. (Diar. i. 31. Rhuf. vi. 21.)

2. Gweithredoedd da. (Salm i. 3. Mat. iii. 8.)

*Ffwrn*,—1. Caethiwed caled. (Deut. iv. 20.)

2. Cystuddiau, yn y rhai y purir y saint. (Jer. ix. 7.)

*Geifr*,—1. Dynion drygionus. (Mat. xxv. 33.)

2. Bwch gafr,—Brenin Macedonia. (Dan. viii. 21.) Bychod,—tywysogion. (Zech. x. 3.)

*Godineb*,—Eilunaddoliaeth ac anffyddlondeb i Dduw. (Jer. iii. 8. Esai. i. 21. Dad. xvii. 1—5.)

*Goleuni*,—1. Cysur. (Esth. viii. 16.)

2. Addysg a hyfforddiant. (Salm cxix. 105.)

3. Dynion wedi eu goleuo gan ras (Eph. v. 8. 1 Thes. v. 5), a chyfranwyr goleuni moesol a chrefyddol i ereill. (Mat. v. 14. Ioan v. 35.)

4. Y gogoniant sydd yn amgylchu gorsedd Duw. (Salm civ. 2. 1 Tim. vi. 16.)

5. Santeiddrwydd a phurdeb. (1 Ioan i. 5.)

*Gwely*,—Gofid a helbul mawr. (Dad. ii. 22.)

*Gwellt*,—Dynion o herwydd breuolder eu natur. (Esai. xl. 6, 7.)

*Gwenith*,—Gwir blant Duw. (Mat. iii. 12.)

*Gwenwyn*,—Celwydd, cyfeiliornad, melldith. (Rhuf. iii. 13.)

*Gwialen*,—1. Gallu i lywodraethu. (Salm ii. 9.)

2. Cerydd. (2 Sam. vii. 14. Job ix. 34. Ezec. xx. 37.)

*Gwin*,—Barnedigaeth. (Salm lxxv. 8. Jer. xxv. 15. Dad. xiv. 10, xvi 19.)

*Gwinllan*,—1. Y genedl Iuddewig yn Nghanaan. (Esai. v. Marc xii. 1—12.)

2. Cylch dyledswyddau y Cristion. (Mat. xx. 1—16.)

*Gwinwydden*,—1. Y genedl Iuddewig. (Salm lxxx. 8.)

2. Crist. (Ioan xv. 1.)

*Gwlaw*,—Daioni Dwyfol. (Esai. v. 6, xxvii. 3, xliv. 3.) Cymherir dysgeidiaeth y Beibl i wlaw. (Deut. xxxii. 2. Esai. lv. 10, 11.)

*Gwlith*,—1. Bendith adfywiol y nefoedd. (Hos. xiv. 5.)
2. Tyrfa liosog neu rifedi aruthrol. (Salm cx. 3.)

*Gwraig neu Ferch*,—1. Dinas, gwlad, neu ei phreswylwyr. (Salm xlv. 12, cxxxvii. 8. 2 Bren. xix. 21.)
2. Eglwys Crist. (Dad. xii. 1.)
3. Yr eglwys syrthiedig wedi ei hieuo â'r gallu gwladol (Dad. xvii. 1—3), trwy gyfrwng yr hwn yr erlidia saint Duw. (Dad. xvii. 7.)

*Had*,—1. Gair Duw. (Luc. viii. 11.)
2. Hiliogaeth. (Gen. xv. 18.)
3. Dynion duwiol ac annuwiol. (Gen. iii. 15.)
4. Yr anian dduwiol. (1 Ioan iii. 9.)
5. Goroeswyr barnedigaethau. (Rhuf. ix. 29. Esai. i. 9.)

*Haul*,—1. Duw. (Salm lxxxiv. 11.)
2. Y Messiah. (Mal. iv. 2.)
3. Haul a lloer yn tywyllu,—Cwymp y wladwriaeth Iuddewig. (Joel ii. 31. Act. ii. 20.)

*Henuriaid*,—Cynnrychiolwyr pobl Dduw o dan y ddeddf a'r efengyl. (Dad. iv. 10.)

*Iau*,—1. Caethiwed poenus. (Deut. xxviii. 48. Gal. v. 1.)
2. Cosb am bechod. (Galar. i. 14.)
3. Awdurdod grefyddol y gwir Dduw a'i Fab. (Galar. iii. 27. Mat. xi. 29, 30.)

*Jerusalem*,—1. Y grefydd Iuddewig. (Gal. iv. 25.)
2. Yr oruchwyliaeth Gristionogol. (Gal. iv. 26.)

*Lamp neu Lusern*,—1. Cyfarwyddyd. (Salm cxix. 105.)
2. Llywodraeth, neu olynwyr breninol. (1 Bren. xi. 36. Salm cxxxii. 17.)
3. Yr eglwys Gristionogol. (Dad. i. 12, 20.)

*Lefain neu Surdoes*,—Athrawiaethau ac arferion llygredig. (Mat. xvi. 6, 12. 1 Cor. v. 6—8.)

*Libanus*,—Y deml yn Jerusalem. (Zech. xi. 1.)

*Locustiaid*,—Llygrwyr efengyl Crist. (Dad. ix. 1.)

*Llaw*,—1. Gweithredoedd dyn: dwylaw glân = gweithredoedd canmoladwy; dwylaw gwaedlyd=gweithredoedd wedi eu nodweddu â chreulondeb, &c. (Salm xc. 17. Job. ix. 30. 1 Tim. ii. 8. Esai. i. 15.)
2. Gallu. (Act. xi. 21. Salm lxxi. 4. Exod. xv. 12.)

*Lleuad*,—1. Swyddogion gwladol. (Esai. xiii. 10, 11. Ezec. xxxii. 7, 8.)
2. Yr hen oruchwyliaeth. (Act. ii. 20. Dad. xii. 1.)

*Llew*,—Arwyddlun o wroldeb a nerth. (Dad. v. 5)

*Llewpard*,—1. Gelyn creulon a chyflym, megys Alexander Fawr. (Dan. vii. 6.)

2. Dynion creulon. (Esai. xi. 6.)

*Llif-ddyfroedd*,—1. Perygl mawr. (Salm lxix. 14, 15, xviii. 16.)

2. Profedigaethau chwerwon. (Esai. xliii. 2.)

*Llyfr-seliedig*,—Arwyddlun o'r llywodraeth Ddwyfol ar y byd, yr hon a roddwyd i'r Mab. (Dad. v. Dr. Fairbairn, a Williams, Amlwch.)

*Llwynog*,—Dyn cyfrwys a thwyllodrus. (Luc xiii. 32. Ezec. xiii. 4.)

*Manna*,—1. Crist, bara y bywyd. (Ioan vi. 49, 50, 58.)

2. Mwynhad o lawenydd y nef. (Dad. ii. 17.)

*March*,—Arwyddlun o ryfel a buddygoliaeth. (Zech. x. 3.)

*Y march gwyn*,—Crefydd y Testament Newydd yn ei hegwyddorion tangnefeddus a santeiddiol.

*Y march coch*,—Gau grefydd yn ei nhatur waedlyd ac erlidgar.

*Y march du*,—Gau grefydd yn ei thuedd dywyll a gorthrymus.

*Y march gwelwlas*,—Gau grefydd yn ei chanlyniadau dinystriol a marwol. (Dad. vi. 1—8. Gwel Esboniad Williams, Amlwch.)

*Meddwdod*,—1. Ynfydrwydd pechadurus. (Esai. xxviii. 1, 3.)

2. Y dyryswch a'r cyfyng-gynghor ag sydd yn goddiweddyd dynion mewn canlyniad i farnau Duw. (Esai. xxix. 9, li. 21. Jer. xiii. 13, 14.)

*Mieri*,—Dynion drwg ac anhywaith. (Esai. lv. 13.)

*Moch*,—Dynion drygionus ac aflan. (Mat. vii. 6.)

*Moelni*,—Dinystr. (Jer. xlvii. 5.)

*Môr*,—1. Yr ynysoedd a'r arfordiroedd lle y preswyliai y Cenedloedd (Esai. lx. 5.)

2. Yr Euphrates (Esai. xxi. 1), a'r Nilus. (Ezec. xxxii. 2.)

3. Goresgyniad a gorchfygiad gwlad. (Jer. li. 42.)

4. Y môr gwydr—ymadrodd barddonol yn gosod allan y palmant dysglaer ëangfawr o flaen gorsedd Duw. Yn ol rhai, modd bynag, golyga waed Crist, yr hwn yn unig a lanhâ ddyn oddiwrth ei bechod; a gelwir ef yn fôr mewn cyfeiriad at y bâdd yn y deml (1 Bren. vii. 23): ac yn ol ereill, arwydda y purdeb hwnw heb yr hwn ni chaiff neb agoshau i'r presennoldeb Dwyfol. (Dad. iv. 61.) Barna Mills fod Dad. xv. 2, yn cyfeirio at y Môr Coch, trwy yr hwn yr aeth Moses a meibion Israel yn ddiangol.

*Mur*,—Diogelwch ac amddiffyniad. (Zech. ii. 5.)

*Mynyddau,*—1. Teyrnasoedd a gwladwriaethau. (Esai. ii. 14. Jer. li. 25. Dad. xvi. 20. Salm xxx. 7.)

2. Teyrnas Crist. (Esai. ii. 2, xi. 9. Dan. ii. 34, 35.)

3. Rhwystrau ar ffordd llwyddiant yr efengyl. (Esai. xl. 4. Zech. iv. 7.)

4. Helbulon y dyfodiant. (Jer. xiii. 16.)

*Nos,*—1. Anwybodaeth, rhwysg, a llygredd. (Rhuf. xiii. 12. 1 Thes. v. 7.)

2. Helbulon gofidus. (Dad. xxi. 25, xxii. 5. Esai. xxi. 12.)

3. Angau. (Ioan ix. 4.)

*Olewydden,*—1. Olewydden wyllt—cenedl-ddyn heb freintiau crefydd y Beibl. (Rhuf. xi. 17.)

2. Y wir Olewydden—Crist. (Rhuf. xi. 24.)

*Paradwys,*—Trigfa ysbrydoedd y gwaredigion yn y byd arall. (Dad. ii. 7. Luc xxiii. 43.)

*Priodfab,*—Crist (Ioan iii. 29), y briodferch yw ei eglwys. (Dad. xxi. 9.)

*Saethau*—1. Cystuddiau neu farnedigaethau. (Job. vi. 4. 2 Sam. xxii. 14, 15. Salm xxxviii. 2, 3.)

2. Geiriau chwerwon. (Salm lxiv. 3.)

3. Plant. (Salm cxxvii. 4, 5.)

*Saith,*—Rhif perffaith, ond anmhennodol. (Dad. i. 4.)

*Sarph,*—Satan, Diafol. (Dad. xii. 9. 2 Cor. xi. 3.)

*Seren,*—1. Llywodraethwr neu orchfygwr. (Num. xxiv. 17. Dan. viii. 10.)

2. Gweinidogion yr efengyl. (Dad. i. 20.)

3. Sêr gwibiog—gau athrawon a rhagrithwyr annuwiol a chableddus. (Judas 13.)

*Tad,*—1. Awdwr, achos, neu ffynnonell. (Ioan viii. 44. Iago i. 17.)

2. Esiampl neu gynllun. (Ioan viii. 44. Rhuf. iv. 11, 12. Gen. iv. 20, 21.)

*Talent,*—Rhoddion Duw, cyfleusderau a galluoedd i weithio gyda'i achos. (Mat. xxv. 14—30.)

*Tân,*—1. Dinystr. (Esai. xlii. 25, lxvi. 15.)

2. Llid Duw. (Ezec. xxii. 31. Salm xviii. 8, 12, 13. Mat. iii. 12.)

3. Cystuddiau neu erlidigaeth. (Esai. xliii. 2.)

4. Ymchwiliad a phrawf y farn. (1 Cor. iii. 13.)

*Tarian,*—1. Amddiffyniad. (Salm xviii. 2, lxxxix. 18.)

2. Ffydd. (Eph. vi. 16.)

*Teirw,*—1. Dynion drygionus creulon. (Salm xxii. 12.)

2. Tywysogion. (Ezec. xxix. 18.)

*Tyrau,*—Amddiffynwyr. (Esai. ii. 12, 15.)

*Tywyllwch*,—1. Pechod ac anwybodaeth. (Esai. ix. 2. Rhuf. xiii. 12. Eph. v. 11.)

2. Cystudd, trallod, a chyfyngder. (Jer. xiii. 16. Esai. xlvii. 5.)

3. Dyryswch ac annhrefn mewn llywodraeth wladol. (Esai. xiii. 10. Ezec. xxxii. 7. Joel ii. 10, 31.)

4. Sefyllfa y meirw. (Job xvii. 13.)

*Us*,—Dynion diegwyddor ac annuwiol. (Mat. iii. 12.)

*Ymysgaroedd*,—Tosturi, tynerwch. (Luc i. 78. Phil. i. 8.)

Gwel ar bwnc y bennod hon *Davidson's Sacred Hermeneutics; Horne's Introduction; Barrows's Introduction; Angus's Bible Hand-Book;* ac ar yr "Ymadroddion Ffugyrol," *Mills' Sacred Symbology; Wemyss's Clavis Symbolica; Horne's Concise Dictionary of the Symbolical Language of Scripture* (Introd. vol. iii.); *Carpenter's Vocabulary of Scripture Symbols (Appendix to Lectures on Biblical Criticism & Interpretation);* yn nghyda Geiriaduron Charles, Jones *(Mathetes)*, Eadie, Kitto, Smith, Fairbairn, &c.

# PENNOD VII.

## DAMMEGION Y BEIBL A'U DEHONGLIAD.

---

## Y CYNNWYSIAD.

*Dyddordeb llefaru trwy Ddammegion, yn neillduol i Ddwyreinwyr—Araeth y Parch. Thomas Evans, y Cenadwr—Yr egwyddor ar yr hon y sylfaenir Dammegion y Beibl—Cyfres o Ddammegion yr Hen Destament a'r Newydd—Testyn Dammegion Crist—Dosbarthiad o Ddammegion Crist—Amcan llefaru â Dammegion—Dehongliad Dammegion.*

MAE dammegion y Beibl yn nodedig o ddyddorol ac addysgiadol. Maent yn hawlio sylw ac yn ennill edmygedd pob efrydydd, ac yn cyfranu addysg a phleser i bob darllenydd ystyriol. Mae cymhariaeth ynddi ei hun, yn enwedig os defnyddir hi i egluro pethau pwysig, yn codi dysgwyliad yn y gwrandawr neu y darllenydd, ac yn deffroi ei sylw at yr hyn sydd yn canlyn, fel y mae y dull o ddysgu trwy ddammegion yn rhwym o fod yn ddull tra dyddorol ac argraffiadol.

Ymddengys fod rhai cenedloedd yn fwy hoff o'r dull yma nag ereill. Yr oedd yr Iuddewon wedi ymarfer â dammegion a chyffelybiaethau yn eu Hysgrythyrau er dyddiau Moses. Mae'n debyg fod ansawdd, natur, a theithi meddyliol Dwyreinwyr yn eu gwneyd yn fwy anghenrheidiol iddynt hwy nag i drigolion Ewrop. Dywedai y Parch. Thomas Evans, Delhi, yn ei araeth Genadol yn *Exeter Hall*, Llundain, yn 1864, fod yn rhaid i'r Cenadon wisgo gwirioneddau yr efengyl mewn cymhariaethau cyn y gadawant argraffiad ar feddwl yr Indiaid. "Y mae eu llyfrau," ebe Mr. Evans, "yn llawn o ffugyrau, ac y mae hyd y nod eu hymddyddanion cyffredin yn llawn o gyffelybiaethau. Nid oes dim yn eu boddhau gymmaint ag egluriadau pwrpasol, ac nid oes un math o bregethu yn rhoddi y fath ddyddordeb iddynt a'r desgrifiadol a'r dammegol.

Dywedant fod y dyn anwybodus yn ddall, a bod gan y dyn dysgedig gant o lygaid. Os byddant am ddesgrifio dyn o ymddangosiad allanol hardd, gyda chalon ddrwg, hwy a'i galwant yn gwpan aur lawn o wenwyn, tra y galwant ddyn o ymddangosiad allanol tlawd gyda chalon dda, yn llestr pridd llawn o feluswin *(nectar)*. Mae y dyn haelfrydig yn ffynnon o fewn cyrhaedd pob teithiwr sychedig. Mae y dyn gwir gymmwynasgar yn bren ag sydd yn gollwng ei ffrwythau i'r rhai sydd yn lluchio ceryg ato. Mae y dyn drwg yn neidr ag sydd yn brathu hyd y nod y rhai sydd yn ei phorthi a'i thewhau. Mae y dyn diog yn fegin ag sydd yn chwythu heb fywyd. Môr yw pechod, i'r hwn y sudda y drygionus, a chwch yw crefydd i gludo y rhai rhinweddol drosto. Ac fel hyn y lliwiant neu y desgrifiant braidd bob gwrthddrych neu ddygwyddiad y soniant am dano." *

Defnyddir y gair dammeg yn y Beibl mewn gwahanol ystyron; megys,—

1. *Diarheb.* "Yn hollawl y dywedwch y ddiarheb (Groeg, *parabolê*, dammeg) hon wrthyf, Y meddyg, iachâ di dy hun." (Luc iv. 23.)

2. *Barddoniaeth ddyrchafedig ac athrawiaethol,* "Ac efe a gymmerodd ei ddammeg, ac a ddywedodd" (Num. xxiii. 7). "Fy nammeg a ddadguddiaf gyda'r delyn." (Salm xlix. 4.) "Agoraf fy ngenau mewn diarheb; traethaf ddammegion o'r cynfyd." (Salm lxxviii. 2.) O'r arferiad hwn daeth y gair i olygu *athrawiaeth ddyfnddysg doethineb*, mewn modd cyffredinol, heb addurniadau barddoniaeth: "Agoraf fy ngenau mewn dammegion; mynegaf bethau cuddiedig er pan seiliwyd y byd." (Mat. xiii. 35.)

3. *Cyffelybiaeth*, a hyny mewn dwy ystyr.

(1,) Cyffelybiaeth arwyddluniol. "Yr hwn ydoedd gyffelybiaeth (Groeg, *parabolê*, dammeg=*ffugyr*, *arwyddlun*, *cysgodlun*) dros yr amser presennol, yn yr hwn yr offrymid rhoddion ac aberthau." (Heb. ix. 9.) "O ba le y cawsai efe ef hefyd mewn cyffelybiaeth (Groeg, *en parabolê*, mewn dammeg,=*mewn arwyddlun*). Heb. xi. 19.

* Gwel yr araeth ragorol uchod yn y *Freeman*, April 29th, 1864.

(2,) Cyffelybiaeth hanesyddol, er dysgu gwirioneddau moesol ac ysbrydol. Dammegion o'r fath yma oedd dammegion yr Arglwydd Iesu, er dysgu y Dwyfol a'r dyrchafedig trwy gyfrwng yr hyn oedd agos ac adnabyddus. Mae y gyffelybiaeth weithiau yn cael ei gosod allan mewn byr eiriau, megys dammeg yr hedyn mwstard, y perl gwerthfawr, a'r llain brethyn; bryd arall yn cynnwys desgrifiad hanesyddol manwl a maith, megys dammeg yr hauwr, dammeg y mab afradlon, a dammeg y talentau. Gwel y darnodiad o ddammeg ac alegori, yn nhudalenau 343, 344.

Yr egwyddor ar yr hon y sylfaenir dammegion yw *y tebygolrwydd neu y gyfatebiaeth ag sydd rhwng natur a theyrnas Dduw.* Fel y mae y naill, felly hefyd y mae y llall mewn amryw ystyriaethau, oblegyd yr un Bôd yw Duw natur a Brenin teyrnas nefoedd. Megys y mae cyssylltiad rhwng achos ac effaith mewn natur, felly hefyd y mae cyssylltiad rhyngddynt yn nheyrnas nefoedd; fel y mae offerynoliaeth dyn a bendith Duw yn ofynol i gynnyrchu effeithiau neillduol mewn natur, felly hefyd yn nheyrnas y Messiah; fel y mae diwygiad mewn buchedd yn adferiad i safle mewn cymdeithas yn mhlith dynion, felly y mae troedigaeth at Dduw yn dderbyniad i mewn i deyrnas nefoedd; ac fel y mae tad naturiol yn tosturio wrth ei blant, a brenin daearol yn anrhydeddu ei fab a'i etifedd, felly y mae Duw yn tosturio wrth ei blant yntau, ac yn anrhydeddu ei Fab Iesu uwchlaw pawb yn y nef a'r ddaear. Dull o ddysgu yw llefaru mewn dammegion a chyffelybiaethau, yr hyn sydd nefol ac ysbrydol trwy gyfrwng yr hyn sydd ddaearol ac adnabyddus, fel yr ydym trwy y byd gweledig yn cael golwg ar y byd anweledig,—trwy y daearol yn canfod y nefol,—trwy y presennol yn cael trem ar y dyfodol,—a thrwy yr amserol yn rhagweled yr hyn sydd dragywyddol. Mae dammegion Crist yn dangos y byd hwn i ni fel adlewyrchiad o'r byd ysbrydol, yr un Duw yn ei arolygu, a'r un deddfau yn ei lywodraethu, ag sydd yn arolygu a llywodraethu y byd anweledig.

Wele gyfres o ddammegion yr Hen Destament:—

Dammeg Nathan yn nghylch oenig y dyn tlawd. (2 Sam. xii. 1.)

Dammeg y wraig o Tecoah yn nghylch ymrysonfa ei dau fab. (2 Sam. xiv. 6.)

Dammeg y prophwyd wrth Ahab yn nghylch rhyddhad Benhadad. (1 Bren. xx. 39.)

Dammeg neu weledigaeth Micheah. (1 Bren. xxii. 19–23.)

At yr hyn yr ychwanega rhai Preg. xii. 1—7.

Nid ydyw gwahanol awdwyr yn cytuno yn nghylch rhif dammegion y Testament Newydd; yn ol Greswell, 27 ydynt; yn ol Trench, 30; tra yr ystyria rhai awdwyr hwynt yn 50. Cawn Lisco yn ystyried y cyffelybiaethau canlynol yn mhlith dammegion Crist:—

Y ddau adeiladydd. (Mat. vii. 24—29.)

Y tŷ-ddaliwr. (Mat. xiii. 52.)

Y darn newydd ar yr hen ddilledyn. } (Luc v. 36—39. Mat. ix. 16, 17.
Y gwin newydd a'r hen gostrelau. } Marc ii. 21, 22.)

Y gwas ffyddlawn a doeth. (Mat. xxiv. 42–51. Luc xii. 35—48.)

Ac ychwanega rhai y gyffelybiaeth yn nghylch y defaid a'r geifr. (Mat. xxv. 31—33.)

Nid ydyw yr archesgob Trench yn cymmeryd i mewn y cyffelybiaethau uchod yn ei gyfres ef o ddammegion Crist, gan eu hystyried, mae'n debygol, yn fwy o *egluriadau* nag o ddammegion. Y rhestr ganlynol ydyw dammegion Crist yn ol Dr. Trench:—

Yr Hauwr. (Mat. xiii. 1—23. Marc iv. 1—21. Luc viii. 5—15.)

Yr Efrau. (Mat. xiii. 24—43.)

Y Pren Mwstard. (Mat. xiii. 31, 32. Marc iv. 30—32. Luc xiii. 18, 19.)

Y Lefain yn y blawd. (Mat. xiii. 33. Luc xiii. 20, 21.)

Y Trysor cuddiedig. (Mat. xiii. 44.)

Y Perl gwerthfawr. (Mat. xiii. 45, 46.)

Y Rhwyd. (Mat. xiii. 47—50.)

Y Gwas annhrugarog. (Mat. xviii. 23—35.)

Y Gweithwyr yn y Winllan. (Mat. xx. 1—16.)

Y ddau Fab. (Mat. xxi. 28—32.)

Y Gwinllanwyr drygionus. (Mat. xxi. 33—44. Marc xii. 1—12. Luc xx. 9—18.)

Priodas Mab y Brenin. (Mat. xxii. 1—14.)

Y deng Morwyn. (Mat. xxv. 1—13.)

Y Talentau. (Mat. xxv. 14—30.)
Yr Had yn tyfu mewn modd dirgelaidd. (Marc iv. 26—29.)
Y ddau Ddyledwr. (Luc vii. 41—43.)
Y Samaritan trugarog. (Luc x. 30—37.)
Y Cyfaill ganol nos. (Luc xi. 5—8.)
Y Goludog ynfyd. (Luc xii. 16—21.)
Y Ffigysbren ddiffrwyth. (Luc. xiii. 6—9.)
Y Swper mawr. (Luc xiv. 15—24.)
Y Ddafad golledig. (Mat. xviii. 12—14. Luc xv. 3—7.)
Y darn Arian colledig. (Luc xv. 8—10.)
Y Mab Afradlon. (Luc xv. 11—32.)
Y Goruchwyliwr annghyfiawn. (Luc xvi. 1—9.)
Y Glwth goludog a Lazarus. (Luc xvi. 19—31.)
Y Gweision anfuddiol. (Luc xvii. 7—10.)
Y Barnwr annghyfiawn. (Luc xviii. 1—8.)
Y Pharisead a'r Publican. (Luc xviii. 9—14.)
Y Punnoedd. (Luc xix. 11—27.)

## I. Testyn Dammegion Crist—Teyrnas Nefoedd.

Mae y dywediad mynych, â'r hwn y dechreua yr Arglwydd Iesu lawer o'i ddammegion, "*Cyffelyb yw teyrnas nefoedd,*" yn dangos mai TEYRNAS NEFOEDD yn ei gwahanol agweddau yw testyn mawr ei ddammegion. Pregethu teyrnas nefoedd oedd baich gweinidogaeth Crist. "O'r pryd hwnw y dechreuodd yr Iesu bregethu, a dywedyd, Edifarhewch: *canys neshaodd teyrnas nefoedd.*" (Mat. iv. 17.) "A'r Iesu a aeth o amgylch holl Galilea, gan ddysgu yn eu synagogau, a *phregethu efengyl y deyrnas.*" (Mat. iv. 23.) Yn nechreuad ei bregeth ar y mynydd, cawn nodweddau a rhagorfreintiau deiliaid teyrnas nefoedd. (Mat. v. 1—16.) "Gair y deyrnas" yw yr enw sydd ganddo ar yr efengyl. (Mat. xiii. 19.) "Y gyfraith a'r prophwydi oedd hyd Ioan: *er y pryd hwnw y pregethir teyrnas Dduw.*" (Luc xvi. 16.) "O ddyddiau Ioan Fedyddiwr hyd yn awr, *yr ydys yn treisio teyrnas nefoedd.*" (Mat. xi. 12.) Ac yn ei brawf diweddaf, dygai dystiolaeth i natur a phurdeb y deyrnas yr hon a gyhoeddasai ac a eglurasai trwy ei bregethau a'i ddammegion. (Ioan xviii. 36, 37.)

Rhaid cofio y ffaith bwysig hon, gan hyny, wrth i ni ymdrechu deall ac egluro dammegion Crist; a rhaid i ni esbonio ei ddammegion mewn cyd-gordiad â'r egwyddor hon.

Yr ydym wedi ymdrechu edrych ar y gwahanol ddammegion yn ol eu perthynas â gwahanol agweddau teyrnas nefoedd, ac wedi eu dosbarthu *(classify)* fel y canlyn. Gellir gweled dosbarthiadau *(classifications)* ereill o honynt yn ngwaith Lisco, ac yn *Westcott's Introduction to the Gospels*; ceir dau neu dri o wahanol ddosbarthiadau o honynt gan wahanol awdwyr yn Llaw-lyfr y Beibl gan Dr. Angus, er nad yw y Doctor parchus yn cynnyg yr un o'i waith ei hun. Pa ddosbarthiad bynag a ddewisir, fe fydd rhai anhawsderau yn nglyn âg ef, yn ol yr ystyr a briodolir i'r gwahanol ddammegion; efryded y darllenydd y pwnc, a barned drosto ei hun.

### *Testyn—Teyrnas Nefoedd.*

I. Dammegion yn gosod allan gymmeriad ei Brenin.

1. Fel un yn ceisio ac yn cadw y colledig. Dammeg y ddafad a gollasid, a'r darn arian. (Luc xv. 1—11.)

2. Fel un yn croesawu yr edifeiriol ar ei ddychweliad. (Luc xv. 11—32.)

3. Fel un yn gweithredu yn benarglwyddiaethol, yn gyfiawn, a thrugarog. Dammeg y gweithwyr yn y winllan: gwel Mat. xx. 1—16, mewn cyssylltiad â gofyniad Pedr yn Mat. xix. 27.

4. Fel un yn gwahodd pechaduriaid i gyfranogi o ddarpariadau ei ras. Dammeg y swper mawr (Luc xiv. 66—24); a phriodas mab y brenin. (Mat. xxii. 1—10.)

II. Dammegion yn gosod allan gymmeriad a nodweddau ei Deiliaid.

1. Fel rhai gostyngedig ac edifeiriol. Dammeg y Pharisead a'r publican. (Luc xviii. 9—14.)

2. Fel rhai yn caru Duw ac yn ufydd iddo. Dammeg y ddau ddyledwr (Luc vii. 41—47); a dammeg y ddau fab. (Mat. xxi. 28—32.)

3. Fel rhai taer a ffyddiog mewn gweddi. Dammeg y weddw daer (Luc xviii. 1—8); a dammeg yr echwynwr taer. (Luc xi. 5—10.)

4. Fel rhai yn bwrw'r draul, ac yn gwasanaethu Duw oddiar argyhoeddiad. Dammeg y tŵr, a'r brenin yn myned i ryfel. (Luc xiv. 25—33.)

5. Fel rhai gweithgar a ffyddlon yn ei wasanaeth. Dammeg y goruchwyliwr ffyddlon (Luc xii. 41—48); dammeg y talentau (Mat. xxv. 14—30. Luc xix. 12—27); a dammeg y winwydden. (Ioan xv. 1—7.)

6. Fel rhai yn ystyried bendithion teyrnas nefoedd eu trysor penaf, pa un bynag ai wedi eu darganfod yn ddamweiniol, ai ar ol ymchwiliad dyfal. Dammeg y trysor cuddiedig, a'r perl gwerthfawr. (Mat. xiii. 44-46.)

III. Dammegion yn gosod allan natur a llwyddiant teyrnas nefoedd.

1. Y moddion ydyw gair Duw, yr hwn a elwir oblegyd hyny, "gair y deyrnas." Dammeg yr hauwr. (Mat. xiii. 1—23. Marc iv. 4—21. Luc viii. 5—15.)

2. Offerynoliaeth dyn a bendith Duw yn ofynol er sicrhau ei llwyddiant yn y byd. Dammeg yr had yn tyfu mewn modd ag sydd uwchlaw dirnadaeth dyn. (Marc iv. 26—29.)

3. Ei llwyddiant graddol a sicr. Dammeg y pren mwstard. (Mat. xiii. 31, 32. Marc iv. 30—32.)

4. Ei dylanwad mewnol, dirgelaidd, a threiddiol, yn puro natur dyn a thrawsnewid cymdeithas. Dammeg y lefain yn y blawd. (Mat. xiii. 33.)

IV. Dammegion yn gosod allan ddyledswyddau moesol a chymdeithasol teyrnas nefoedd.

1. Gwyleidd-dra. Dammeg yn nghylch y prif eisteddleoedd. (Luc xiv. 7—11.)

2. Ffyddlondeb mewn swyddi o ymddiried. Dammeg y goruchwyliwr annghyfiawn.* (Luc xvi. 1—12.)

* Llefarwyd y ddammeg hon wrth *ddysgyblion* Crist yn gyffredinol, ac nid wrth y deuddeg yn unig. Yr oedd ei ddysgyblion yn cynnwys amryw bublicanod. Gwaith Crist yn derbyn publicanod a achlysurodd lefariad y dammegion yn y bennod flaenorol; a llefarwyd dammegion y bennod hon yr un pryd; ac ymddengys mai *dysgu gonestrwydd a ffyddlondeb i'r publicanod* oedd ei ddyben uniongyrchol wrth lefaru y ddammeg hon.

Swyddog annghyfiawn sydd yma yn cael ei gosbi o herwydd ei anonestrwydd. Yr oedd wedi bod yn anonest tra yn ei swydd, ac y mae yn dangos yr un anonestrwydd wrth ymadael, ond ei fod yn rhoddi y fantais y tro hwn i ddeiliaid ei feistr, ac nid yn ei chadw iddo ei hun. Y mae trwy hyny yn gwneyd dyled y deiliaid i'r meistr yn llai, ac yn eu gwneyd oll yn gyfranogion ag ef yn y twyll, ac felly yn ennill hyfdra arnynt; tra ar yr un pryd y mae yn sicrhau eu diolchgarwch, fel y caffai dderbyniad ganddynt yn ol llaw.

Yr oedd un peth yn ei ymddygiad yn werth ei efelychu—sef ei *waith yn gofalu am y dyfodol.* Nid y *modd* y darparodd, ond y *ffaith* ei fod wedi gwneyd. Cynghora Crist ei ganlynwyr i ddefnyddio eu meddiannau, nid i adeiladu tai a phrynu tiroedd, ond i *wneyd cyfeillion* trwy ofalu am saint tlodion Duw, ac anfon yr efengyl i baganiaid y byd; fel pan y byddont yn marw, y byddo y cyfeillion hyn (cynnifer o honynt ag fydd wedi marw o'u blaen) yn eu croesawu i'r trigfanau nefol, fel eu cynnorthwywyr ar ffordd y bywyd.

3. Cymmwynasgarwch. Dammeg y Samaritan trugarog. (Luc x. 30–37.)

4. Maddeugarwch. Dammeg y gwas dyledog. (Mat. xviii. 23—35.)

V. Dammegion yn gosod allan gyflwr presennol pethau yn nheyrnas nefoedd, a'i phurdeb dyfodol.

Mae rhagrithwyr yn bresennol yn mysg ei deiliaid; ond y mae didoliad i gymmeryd lle. Dammeg yr efrau (Mat. xiii. 24—30, 36—43): dammeg y rhwyd a'r pysgod (Mat. xiii. 47—50); a dammeg y deng morwyn. (Mat. xxv. 1—13.)

VI. Dammegion yn gosod allan gosb y rhai a ddibrisiant ac a gamddefnyddiant ei rhagorfreintiau.

Dammeg y ffigysbren ddiffrwyth. (Luc xiii. 6—9.)

Dammeg y glwth goludog a Lazarus. (Luc xvi. 19–31.)

Dammeg y gwinllanwyr. (Mat. xxi. 33—46.)

Dammeg y gŵr goludog ynfyd. (Luc xii. 16–21.)

## II. Amcan llefaru a dammegion.

Ymddengys fod y dull yma wedi cael ei fabwysiadu o herwydd amryw resymau, ac i ateb gwahanol ddybenion, heblaw ei ddyddordeb cyffredinol fel ffordd o gyfranu addysg ar ffurf hanesiaeth, a thrwy gyfrwng gwahanol ddelweddau.

1. *Yr oedd yn ddull effeithiol i argyhoeddi o bechod.*

Darfu i Nathan trwy ddammeg argyhoeddi Dafydd, a'i ddwyn i gondemnio ei hun yn ddiarwybod iddo ei hun.

---

Yn y ddegfed adnod, dychwela yr Iesu at y prif bwnc—*ffyddlondeb mewn swydd o ymddiried;* ac mae hyn o bwys dirfawr; mae diffyg ffyddlondeb mewn pethau bychain yn bradychu egwyddor a fyddai yn anffyddlon mewn pethau o annhraethol bwys; os na wna dyn gyfiawnder â golud y byd hwn, pa fodd y gall Duw ddysgwyl iddo wneyd cyfiawnder â'r "gwir olud"—"yr aur wedi ei buro trwy dân?" Mae ffyddlondeb trwyadl mewn pethau bychain yn meithrin a chryfhau cymmeriad da a diysgog, ac yn addasu dyn i fwynhau ffafrau y nefoedd. Cymharer Mat. xxiv. 45, â xxv. 21–23.

O dan y cyfan, fe orwedd y gwirionedd mawr nad yw dyn ond goruchwyliwr yn y byd hwn ar bethau Duw;—fod ganddo Feistr yn y nef, i'r hwn y mae yn gyfrifol;—ac nas gall ddysgwyl ei gymmeradwyaeth ef heb ffyddlondeb a didwylledd yn ei wasanaeth; ac fod Duw yn gofyn holl galon dyn, ac nid gwasanaeth rhanol ganddo (adn. 13). Gwel Alford, a Webster a Wilkinson, ar y lle.

(2 Sam. xii. 1—14.) Felly hefyd y darfu i un o feibion y prophwydi arwain Ahab i gondemnio ei ymddygiad ei hun. (1 Bren. xx. 35—43.) Yr un modd, dygodd yr Iesu yr Iuddewon i gollfarnu eu hunain. (Mat. xxi. 41.)*

2. *Yr oedd yn ddull manteisiol i lefaru gwirionedd annerbyniol.*

Yr oedd gan yr Iesu wirioneddau i'w traddodi yn nghylch galwad y Cenedloedd a gwrthodiad yr Iuddewon, y rhai na allasai y bobl eu goddef pe traethasid hwy mewn iaith syml a diaddurn. Gan hyny llefarodd wrthynt ddammeg y ffigysbren ddiffrwyth, dammeg y swper mawr, a dammeg y gwinllanwyr drygionus, y rhai a ragfynegent, ac ar yr un pryd a ddarnguddient y pethau hyn, a hyny mewn ffordd ag y gallai y gwrandawyr oddef, ac wedi hyny yn eu hunigedd a'u horiau hamddenol eu troi yn eu myfyrdodau, a deall yn fwy cywir natur goruchwyliaethau Duw tuag at y byd.

Pan oedd Iesu Grist yn rhybuddio ei wrandawyr nad allent wasanaethu Duw a mammon, darfu i'r Phariseaid *ariangar* ei watwar (Luc xvi. 13, 14); traethodd yntau ddammeg y glwth goludog a Lazarus iddynt, er dangos i ba le y mae bywyd o ymroddiad i mammon a'i bleserau, ac o ddirmyg ar air Duw, yn arwain. (Luc xvi. 19—31.)

Yr oedd dammeg y Pharisead a'r publican, er ei bod yn gerydd llym i'r rhai hunangyfiawn a diystyrllyd o ereill, yn cael gwrandawiad parod; pan na fuasai cyhuddiad personol o'r pechod ond cyffroi digofaint y gwrandawyr, os nad eu cynhyrfu i erlid. (Luc xviii. 9—14.) Yr oedd yr Arglwydd Iesu, fel hyn yn llefaru wrth y bobl ar ddammegion yn ol ansawdd calonau ei wrandawyr—"hyd y gallent wrando." (Marc iv. 33.)

* Matthew yn unig sydd yn priodoli yr ateb, "Efe a ddyfetha yn llwyr y dynion drwg hyny," &c., i'r Iuddewon. Mae Marc xii. 9, a Luc xx. 16, yn eu priodoli i Grist. Gellir cyssoni y gwrthddywediad ymddangosiadol trwy ystyried fod yr Arglwydd Iesu, ar ol i'r Iuddewon gyhoeddi y gosb ddyledus i'r gwinllanwyr drygionus, yn ail adrodd eu geiriau, "Efe a ddaw, ac a ddifetha y llafurwyr, ac a rydd y winllan i ereill" (Marc xii. 9), gan ychwanegu y cymhwysiad, "Am hyny meddaf i chwi, y dygir teyrnas Dduw oddi arnoch chwi," &c. (adn. 43), yr hyn a barodd iddynt ddweyd, "Na ato Duw." (Luc xx. 16.) Dyna olygiad Doddridge, Webster a Wilkinson, Trollope, a Ripley.

3. *Yr oedd y dull hwn hefyd yn profi dynion pa un a oeddynt yn deall ac yn caru y gwirionedd.*

Yr oedd y dammegion yn brawf ar ddynion, ac yn fath o gosb ar wrthwynebwyr y gwirionedd. Yr oedd ynddynt ddigon o oleuni i oleuo y rhai gostyngedig, didwyll, a diragfarn, a digon o orchudd dros y gwirionedd i'w gadw rhag gwawd gwatwarwyr, a rhag cael ei amgyffred gan y rhai na edrychent yn mhellach na'r gorchudd allanol; fel yr oedd y rhai addfwyn a llariaidd naill ai yn amgyffred yr addysg a fwriedid gyfranu trwyddynt, neu yn chwilio am yr Athraw, ac yn ymholi yn nghylch y ddammeg (Mat. xiii. 36. Marc iv. 10): tra, o'r ochr arall, yr oedd y rhai cyndyn ac annghrediniol yn myned yn fwy cyndyn a chalongaled. Yn y goleu yma yr ydym i ddeall Mat. xiii. 10—13: "A daeth y dysgyblion, ac a ddywedasant wrtho, Paham yr wyt ti yn llefaru wrthynt trwy ddammegion? Ac efe a atebodd ac a ddywedodd wrthynt, Am roddi i chwi (y rhai sydd yn caru y gwirionedd) wybod dirgelion teyrnas nefoedd (fel na raid llefaru ar ddammegion wrthych chwi er mwyn darn-gelu y gwirionedd i'ch profi chwi), ac ni roddwyd iddynt hwy. Oblegyd pwy bynag sydd ganddo (galon ac awydd i ddysgu ewyllys Duw) i hwnw y rhoddir (mwy o oleuni a chysur), ac efe a gaiff helaethrwydd; eithr pwy bynag nid oes ganddo (y galon addfwyn i dderbyn yr addysg nefol, a'r treiddgarwch ysbrydol ag sydd yn canfod meddwl Duw yn ei air), oddi arno ef y dygir, ïe, yr hyn sydd ganddo (y mae y gair a'r manteision ag y mae efe yn eu dibrisio i gael eu cymmeryd oddi arno cyn hir). Am hyny yr ydwyf yn llefaru wrthynt hwy ar ddammegion (er eu profi a'u cosbi o herwydd dallineb eu calonau); canys a hwy yn gweled (y gwyrthiau) nid ydynt yn gweled (y prawf o Ddwyfoldeb teyrnas nefoedd trwyddynt); ac yn clywed (y dammegion) nid ydynt yn clywed nac yn deall (ond i ychydig ddefnydd)."

Mae gofyniad y dysgyblion, "Paham yr wyt ti yn llefaru wrthynt ar ddammegion?" yn awgrymu mai newydd ddechreu arfer y dull yma yr oedd yr Iesu. Ymddengys na wnaethai ddysgu y bobl trwy ddammegion cyn iddo edliw i'r dinasoedd eu camddefnydd o'u breintiau (Mat. xi. 20—24), ac i'r Phariseaid ddweyd mai trwy Beelzebub yr oedd efe yn bwrw allan gythreuliaid (Mat. xii. 24); a dichon fod y Phariseaid hyn ag

oeddynt newydd ei gyhuddo o fod mewn cyngrhair â'r diafol wedi anfon ysbïwyr at Grist i'r dyben i geisio ei faglu yn ei ymadroddion; ac iddo yntau, mewn rhan fel cosb ar ei wrthwynebwyr, lefaru mewn dammegion wrth y bobl, ac mewn rhan i'r dyben i'w profi pa un a oedd eu calon yn uniawn ger bron Duw.

Yr oedd gwaith yr Iesu yn ymddwyn fel hyn yn berffaith gysson ag ymddygiad Duw tuag at y byd. Wedi'r cwymp, ni chafodd Adda fwynhau y fath amlygiadau o Dduw, a'r fath gymdeithas ag ef, ag a gawsai yn ei ddiniweidrwydd. Ni allodd yr Iesu gyflawni y gwyrthiau yn Nazareth a wnaethai yn mharthau ereill Galilea, o herwydd annghrediniaeth ei gydwladwyr, gan mai ei reol ef oedd iachau y rhai a gredent yn ei allu a'i barodrwydd i'w gwaredu (Marc vi. 5, 6.) Barnai yr archesgob Newcome mai y prif reswm paham na fuasai yr Arglwydd Iesu yn ymddangos yn bersonol ac mewn modd diamheuol i'r Iuddewon ar ol ei adgyfodiad (Act. x. 40, 41), ydoedd, am eu bod yn flaenorol wedi gwrthod cynnifer o brofion o'i Ddwyfol anfoniad.*

Mae geiriau y Salmydd yn wir yn mhob oes: "Y rhai llariaidd a hyfforddia efe mewn barn: a'i ffordd a ddysg efe i'r rhai gostyngedig." "A'r glân y gwnai lendid; ac â'r cyndyn yr ymgyndyni." (Salm xxv. 9, xviii. 26.)

Mae yr efengylwr yn awgrymu fod y dammegion yn profi y gwrandawyr:—"Dammeg arall a *osododd* (παρέθηκεν=*parethêken*) efe iddynt." (Mat. xiii. 24.) Golyga y ferf *gosod o'u blaen* fel cwlwm i'w ddatod, neu ddychymyg i'w egluro, er ymarfer eu treiddgarwch ysbrydol, a phrofi ansawdd eu calonau.

Er y pethau hyn, gallasai y dull hwn ag oedd ar un olwg yn gosb ar elynion y gwirionedd, droi allan yn fendith i lawer o honynt. Gwnelai y ddammeg lynu yn eu cof, a chadw y gwirionedd yn eu gafael, fel y cadwa y plisgyn y cnewyllyn, neu y blwch y perl, er na ddeallent ef ar y pryd; a gallent hwythau, ar ol i ystormydd nwydau leddfu, a dallineb rhagfarn gilio, adfyfyrio ar y ddammeg, a chanfod a theimlo yr addysg ynddi, ac edifarhau. Diau fod hyn wedi dygwydd gyda llawer o wrandawyr yr Arglwydd Iesu.

* Gwel *Archbishop Newcome's Observations on our Lord's conduct as a Divine Instructor, and on the Excellence of his Moral Character:* p. 149, Edition 1795.

4. *Yr oedd llefaru ar ddammegion yn cynnorthwyo deall dyn i amgyffred pethau Dwyfol.*

Yr oedd dammeg y surdoes yn cynnorthwyo dyn i ddeall *dylanwad mewnol a threiddiadol* y gwirionedd; dammeg y gronyn o had mwstard yn dangos *dechreuad bychan* teyrnas nefoedd, ei *chynnydd araf*, a'i *llwyddiant mawr* yn y dyfodol; dammeg yr helfa bysgod yn dangos *nad yw pawb ag sydd yn cael eu dal gan rwyd efengyl yn blant Duw mewn gwirionedd;* dammeg y wir winwydden yn dangos *ymddibyniad hollol y saint ar Grist* am eu bywyd a'u gweithgarwch ysbrydol; a dammeg y Samaritan trugarog yn egluro *pwy ydyw ein cymmydog.* Ac felly amryw o'r dammegion ereill; gyda'r allwedd y mae Crist yn ei rhoddi i ni i'w deall, sef, "*Cyffelyb yw teyrnas nefoedd,*" y mae y dammegion yn gymhorth pwysig i ni i ddeall ei nhatur, ei nhodweddau, a'i thynged yn y byd. Yr oedd dammegion y Gwaredwr, gan hyny, yn ateb gwahanol ddybenion, ac yn bwysig a gwerthfawr ar amrywiol ystyriaethau.

## III. Dehongliad Dammegion.

Mae edrych ar ddammegion Crist yn eu cyssylltiad â'u testyn goruchel — Teyrnas Nefoedd, yn gymhorth pwysig i'w deall; gwel y dosbarthiad blaenorol. Mewn traethawd o fath hwn, ni chawn ond nodi ychydig grybwyllion fel cymhorth i'w dehongli.

1. *Yn gyffredin mewn dammeg un neu ddau brif beth a ddysgir.*

Ni wiw manylu ar bob peth, a thynu casgliadau oddiwrth bob ymadrodd mewn dammeg; er engraifft, ni wiw casglu oddiwrth ddammeg y glwth goludog a Lazarus fod eneidiau y duwiolion a'r annuwiolion yn gallu ymddyddan â'u gilydd yn y byd arall, neu ei fod yn iawn i weddïo ar seintiau yn y nef; y prif bwnc ydyw dangos diwedd truenus bywyd o ymroddiad i mammon a'i bleserau, digonolrwydd yr Ysgrythyrau, a'r perygl o'u dibrisio.

Nid ydym i gasglu oddiwrth ddammeg y deng morwyn fod yr un faint o ragrithwyr ag o wir blant Duw yn proffesu crefydd; y pwnc yw, nid dysgu rhifedi cymharol y saint a'r

rhagrithwyr, ond y pwysigrwydd o fod yn barod, a'r ffaith os byddwn ar ol yn nyfodiad Mab y dyn nas gall dynion ein cynnorthwyo.

Nid ydym i ddysgu oddiwrth ddammeg y mab afradlon fod Duw yn trugarhau heb Iawn; dangos mae y ddammeg y *croesaw* a ga yr edifeiriol ar ei ddychweliad at Dduw, yn hytrach na *sail* y croesaw. Ni wiw i ni ddysgwyl i bob dammeg neu ymadrodd ddysgu *pob peth* yn nghylch y gwirioneddau a grybwyllir; mae dammeg y mab afradlon mor bell o wadu yr Iawn, fel y mae, o'r ochr arall, fel y sylwa Neander, yn rhagdybied yr Iawn. Duw yn Nghrist yn unig sydd yn gallu croesawu yr edifeiriol yn ol; yn Nghrist y mae Duw yn cymmodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau; a thrwy waed Crist y mae i ni brynedigaeth, sef maddeuant pechodau yn ol cyfoeth ei ras ef. Y prif bethau yn y ddammeg yw trueni dyn trwy bechod, a'i dderbyniad gan Dduw ar ei edifeirwch, yn nghyda cherydd i gulni a rhagfarn y Phariseaid.

2. *Weithiau, modd bynnag, y mae Iesu Grist ei hun yn dysgu y manylion trwy ei ddammegion.*

Gwna hyn yn nammeg yr hauwr, yn yr hon y cawn y gyferbyniaeth ganlynol:—

| | |
|---|---|
| Yr hauwr ........................ | Crist a gweinidogion y gair. |
| Yr had ........................ | Gair Duw. |
| Y gwahanol diroedd.............. | Gwahanol fathau o wrandawyr. |
| Yr adar ........................ | Diafol. |
| Y drain ........................ | Gofalon bydol, &c. |

Gwel Marc iv. 1—20. Mat. xiii. 1—18. Felly hefyd yn nammeg y wir winwydden:—

| | |
|---|---|
| Y winwydden .................. | Crist. |
| Y llafurwr ...................... | Y Tad. |
| Y canghenau .................... | Y dysgyblion. |
| Y ffrwyth ...................... | Ufydd-dod. |
| Ymddibyniad y canghenau ar y winwydden.................. | Ymddibyniad y dysgyblion ar Grist. |
| Y ganghen ddiffrwyth yn cael ei bwrw ymaith................ | Y dysgybl diffrwyth yn cael ei fwrw ymaith. |

Ioan xv. Gwel hefyd ddammeg yr efrau. (Mat. xiii. 24—43.)

Dylid bod yn ochelgar rhag ysbrydoli mwy o bethau yn y ddammeg nag y mae yr Iesu ei hun, neu y cyssylltiad yn rhoddi yr allwedd i ni, gan fod yn debyg fod rhai ymadroddion yn y dammegion yn gwasanaethu yn fwy er gwneyd i fyny y darlun, nag er cyfleu gwirioneddau ysbrydol.

Gwel Trench a Lisco ar y Dammegion; *Dr. Angus's Bible Hand-Book; Esboniad ar Ddammegion Crist*, gan y Parch. E. Evans, Llangollen; *Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible;* a *Dammegion Crist*, gan y Parch. O. Evans, Llanbrynmair.

# PENNOD VIII.

## ANHAWSDERAU Y BEIBL A'U DEHONGLIAD.

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Yr achosion o Anhawsderau—Cyfansoddiad ac Amcan rhoddiad y Beibl—Gwahanol Ddarlleniadau a Dulliau o Gyfrif—Cyfieithiad Aneglur (Daeareg, Seryddiaeth, Claddedigaeth Crist—Y Nôd ar Cain, En-haccore)—Byrdra yr Hanesiaeth Ysgrythyrol—Gosodiad gwirioneddau allan o dan wahanol Agweddau—Hynafiaeth y Beibl a Dyeithrwch yr hyn a gofnoda (Moses a Josua yn annerch holl Israel, Attaliad yr haul yn ol gweddi Josua, Adduned Jephthah, Gwallgofrwydd Nebuchodonosor)—Defnyddioldeb Anhawsderau.*

MAE pob darllenydd ystyriol wedi cyfarfod droiau â gwahanol anhawsderau wrth ddarllen y gyfrol santaidd; yn y bennod hon ymdrechwn sylwi ar yr achos o'r anhawsderau, a'r ffordd i'w deall a'u dehongli.

Mae'r anhawsderau ag mae dynion yn eu teimlo yn nglyn â'r Beibl yn tarddu o wahanol ffynnonellau, ac yn cael eu hachosi gan wahanol bethau; nodwn rai o'r prif bethau :—

I. NATUR CYFANSODDIAD, AC AMCAN MAWR RHODDIAD Y BEIBL I'R BYD.

Ysgrifenwyd ef mewn iaith henafol, a gwisgwyd ei wirioneddau mewn dullwedd a ffugyrau gwahanol i eiddo cenedloedd ereill; cyfeiria at arferion a defodau dyeithr i ni yn y wlad hon; y mae yn ymwneyd â gwahanol oesau a gwledydd, ac âg amrywiaeth digyffelyb o bynciau, yn wladol a chrefyddol, yn ddyledswyddau ac athrawiaethau, yn hanesion a phrophwydoliaethau, a phethau ysbrydol a Dwyfol uwchlaw dirnadaeth dyn, yn ogystal ag â dynion â'u helyntion ar y ddaear.

Ac heblaw hyn oll, y mae ei duedd santaidd yn ei wneyd yn ddirgelwch i'r dyn digrefydd; ni all y dyn anianol dderbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw, nac amgyffred amryw o wirioneddau y Beibl, gan nad oes ganddo gydymdeimlad â'r purdeb sydd yn anadlu ynddo. (1 Cor. ii. 14.)

Y mae annghofio hefyd yr amcan mawr oedd gan Dduw wrth roddi y Beibl i ni, yn achosi rhwystr. Llyfr i ddysgu crefydd i'r byd ydyw y Beibl, ac nid i egluro deddfau gwyddoreg; llyfr i'r byd ydyw, i'r werin yn ogystal a'r athronydd, gan hyny gesyd olygfeydd natur allan fel yr ymddangosant i lygad dyn, ac nid yn ol rheolau caethaf y gwyddorau; ond o ddiffyg cofio hyn, mae ffugddoethwyr y byd yn tramgwyddo wrtho, gan haeru ei fod yn gyfeiliornus yn ei athroniaeth!

## II. Gwahanol Ddarlleniadau, neu Ddulliau o Gyfrif.

Rhoddwyd y Beibl ar y cyntaf trwy ysbrydoliaeth Duw; ond wedi iddo gael ei roddi i ddynion, yr oeddynt hwy i ofalu am dano, a'i drosglwyddo i'r oesau dilynol. Wrth liosogi copiau, nid oedd Ysbryd Duw yn eu diogelu rhag gwneyd camgymmeriad achlysurol, megys cymmeryd un lythyren neu air yn lle'r llall; megys "*deugain*" yn lle "*pedair*" yn 2 Sam. xv. 7, "Ac yn mhen deugain mlynedd y dywedodd Absalom wrth y brenin," &c., oblegyd ni theyrnasodd Dafydd am fwy na deugain mlynedd. (1 Bren. ii. 11.) Hawdd y gallasai y camgymmeriad ddygwydd, oblegyd yr un gair (ארבע) a geir am *bedair* ac am *ddeugain*, ond yn unig ei fod yn y ffurf liosog (ארבעים), pan y defnyddir ef am ddeugain.*

* Ymddengys mai trwy lythyrenau y gosodid allan rifnodau yn y Beibl yn y dechreu; os felly, hawdd iawn y gallasai camgymmeriadau gymmeryd lle o herwydd tebygolrwydd y llythyrenau, fel y dengys yr engreifftiau canlynol:—

| | | |
|---|---|---|
| ב = 2 | ג = 3 | ח = 8 |
| כ = 20 | נ = 50 | ה = 5 |
| ד = 4 | ע = 70 | ט = 9 |
| ר = 200 | צ = 90 | מ = 40 |

"Discrepancies, however, of ancient date occur, arising from the change of letters which are now similar. From this source have flowed many and great errors in numbers, which were formerly expressed by letters, a commutation of which might easily produce those immense numbers which are so often to be met with in the historical books. Thus in 2 Chron. xxii. 2, כב 22, has been changed into מב 42, as is evident from 2 Kings viii. 26."—*Dr. Jahn's Introduction to the Old Testament,* § 130.

Trwy gymmeryd y naill air am y llall, mae'n ddiau y dygwyddodd y gwrthdarawiad rhifyddol yn yr adnodau canlynol:—

| | |
|---|---|
| "Mab dwy flwydd a deugain *oedd* Ahaziah pan ddechreuodd efe deyrnasu; ac un flwyddyn y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Athaliah, merch Omri." (2 Chron. xxii. 2.) | "Mab dwy flwydd ar hugain *oedd* Ahaziah pan aeth efe yn frenin; ac un flwyddyn y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Athaliah, merch Omri brenin Israel." (2 Bren. viii. 26.) |
| "Mab deunaw mlwydd *oedd* Joachin pan aeth efe yn frenin: a thri mis y teyrnasodd efe yn Jerusalem: ac enw ei fam ef *oedd* Nehusta, merch Elnathan o Jerusalem." (2 Bren. xxiv. 8.) | "Mab wyth mlwydd *oedd* Joachin pan ddechreuodd efe deyrnasu, a thri mis a deng niwrnod y teyrnasodd efe yn Jerusalem; ac efe a wnaeth yr hyn *oedd* ddrwg yn ngolwg yr Arglwydd." (2 Chron. xxxvi. 9.) |

Mae lle i gredu fod y testyn yn 1 Sam. vi. 19, wedi cael ei lygru:—"Tarawodd o'r bobl ddeng ŵr a thrigain a deng mil a deugain o wŷr." Y cyfieithiad llythyrenol yw, "Ac efe a darawodd o'r bobl ddeg a thrigain o ddynion; hanner can' mil o ddynion." Awgryma Dr. Wenger, y Cenadwr dysgedig yn India, mai y meddwl yw,—"O'r bobl, o hanner can' mil o ddynion, efe a darawodd ddeg a thrigain." Ond ystyria Keil a Delitzsch ac ereill mai nodyn eglurhaol o eiddo rhyw adysgrifenydd ar fin y ddalen wedi llusgo i mewn i'r adnod, yw y geiriau "hanner can' mil o ddynion," o herwydd y rhesymau canlynol:—(1,) Buasai y cyssylltiad *faf* yn yr Hebraeg, pe buasai y geiriau yn rhan briodol o'r adnod. (2,) Nid yw yn debygol fod pentref Bethsemes yn cynnwys hanner can' mil o ddynion. (3,) Mae amryw o hen ysgrif-lyfrau Hebraeg, a Josephus, yn gadael allan y geiriau am yr hanner can' mil o ddynion. Ni sonia Josephus ond am 70 wedi cael eu lladd. (*Antiquities*, vi. 1, 4.)

Nid ydym i ryfeddu at anhawsderau o'r fath yma, y rhai sydd i'w priodoli i ddiffyg gofal ac esgeulusdod y copïwyr wrth adysgrifenu y Beibl; ond nid oes ond ychydig o gyfnewidiadau wedi dygwydd fel hyn, ac nid ydyw y gwahanol ddarlleniadau yn effeithio ar gymmaint ag un ddyledswydd neu athrawiaeth trwy yr holl Feibl.

Weithiau rhoddir cyfrif anmhennodol *(round number)* a phennodol am yr un peth; diau mai dyna y rheswm am y

gwahaniaeth rhwng Act. vii. 6, "Dy had di a fydd ymdeithydd mewn gwlad ddyeithr, a hwy a'i caethiwant ef, ac a'i drygant bedwar can' mlynedd," ac Exod. xii. 40, "A phreswyliad meibion Israel, tra y trigasant yn yr Aifft, oedd ddeng mlynedd ar hugain, a phedwar can' mlynedd." Y gwir gyfrif oedd 430. Darllena y LXX a'r Pum' Llyfr Samaritaidd Exod. xii. 40 fel hyn:—"Ac ymdeithiad meibion Israel yn ngwlad Canaan, ac yn ngwlad yr Aifft, oedd bedwar cant a deng mlynedd ar hugain." Mae yn debyg fod y cyfnod i'w ddeall o ddyfodiad Abraham i Ganaan hyd ymadawiad Israel o'r Aifft (Gal. iii. 17), ond fod yr Aifft yn cael ei nhodi, gan mai y caethiwed yno oedd y peth penaf a'i nodweddai. Gwneir y cyfrif i fyny fel y canlyn:—

| | Blwyddyn. |
|---|---|
| O ddyfodiad Abraham i Ganaan hyd enedigaeth Isaac (Gen. xii. 4, xxi. 5) | 25 |
| O enedigaeth Isaac hyd enedigaeth Jacob (Gen. xxv. 26) | 60 |
| Oedran Jacob yn myned i drigo yn yr Aifft (Gen. xlvii. 9) | 130 |
| Arosiad yn yr Aifft (Cymharer Gal. iii. 16, 17) | 215 |
| | 430 |

Dyry Josephus hefyd y cyfrif yn 430 yn un lle (*Antiq.* ii. 15, 2), a phedwar cant mewn lle arall. (*Wars of the Jews*, v. 9, 4.)

Mae gwrthdarawiad ymddangosiadol rhwng Act. vii. 14, "Yna yr anfonodd Joseph, ac a gyrchodd ei dad Jacob, a'i holl genedl, pymtheg enaid a thrigain," a Gen. xlvi. 27, a Deut. x. 22, lle ni cheir rhifedi y personau ond deg a thrigain. Yn y LXX ceir pymtheg a thrigain yn Gen. xlvi. 27, a dichon fod Stephan yn dilyn y LXX, gan ei fod mewn arferiad cyffredin gan yr Iuddewon, a'r rhif yna yn cael ei dderbyn ganddynt. Mae'n ymddangos fod y LXX yn cyfrif meibion Manasseh ac Ephraim er gwneyd y 70 yn 75. Darllena y LXX Gen. xlvi. 20, gyda'r ychwanegiad a geir rhwng cromfachau:—"A ganwyd meibion i Joseph yn ngwlad yr Aifft, y rhai a blantodd Aseneth, merch Petephres, offeiriad Heliopolis, iddo, ef, *sef* Manasses ac Ephraim. (A ganwyd meibion i Manasses, y rhai a ddygodd yr ordderchwraig Syriaidd iddo ef, *sef* Machir. A Machir a genedlodd Galaad. A meibion Ephraim brawd Manasses, oedd Sutalaam, a Taam. A meibion Sutalaam oedd Edom.)" Dyna bump ychwanegol at y 70, ac mae'n bossibl mai dyna yr unig eglurhad boddhaol. Ymddengys fod y LXX wedi cymmeryd 1 Chron. vii. 14, 20; a thraddodiad, er gwneyd i fyny yr hyn a ystyrient hwy yn

ddiffygiol yn Gen. xlvi. 20, a newid Gen. xlvi. 27, i ateb hyny drachefn; a bod Stephan yn nodi yr hyn a dderbynid yn gyffredin gan yr Iuddewon heb fanylu arno yn ei annerchiad. Nid oedd y rhif pump yn effeithio ar ymresymiad Stephan, gan mai ei amcan ydoedd dangos fod Duw wedi gwneyd cenedl liosog ac enwog o ychydig unigolion.

Cyfyd anhawsdra hefyd oddiwrth y *gwahaniaeth sydd rhwng amseryddiaeth y Beibl a chofnodion hanesyddol gwahanol genedloedd.*

Dywed Bunsen fod cofnodion hanesyddol yr Aifft yn cyrhaedd yn ol i'r flwyddyn 9085 cyn Crist. Ei sail dros ddweyd hyn yw y chroniclau a gadwai yr Aifftiaid, a chofgolofnau y wlad. Ond nid oes restrau didor o gofgolofnau wedi cael eu darganfod, ac y mae yr holl gofnodion Aifftaidd i'w cael yn ngwaith Manetho. Mae y gwaith hwn wedi cael ei gadw mewn dau gyfieithiad, a cheir dyfyniadau o hono yn ysgrifeniadau Josephus. Dysga y cofnodion hyn fod 30 o freninachau o Menes, brenin cyntaf yr Aifft, hyd Alexander Fawr, yn llenwi y cyfnod o 5000 o flynyddoedd. Ond y mae hyn yn gyfrif rhy ansicr i ni ymddiried yn ei gywirdeb: oblegyd,—

(1,) Fod amheuaeth o barthed i gywirdeb y cyfieithiad o gyfrif Manetho am Menes.

(2,) Ymddengys yn ol Syr G. Wilkinson a Mr. Stuart Poole fod amryw o'r breninoedd a'r breninachau yn gydamserol.

(3,) Fod goresgyniad yr Aifft gan yr Hyksos, neu y Breninoedd Bugeilaidd, wedi taflu pob cofnodion a chyfrifon i ddyryswch anfeddyginiaethol.

(4,) Barna amryw ysgolheigion Aifftaidd enwog, nas gallasai Menes deyrnasu 3000 o flynyddau cyn Crist. Syr G. Wilkinson a noda 2690 C.C., a Mr. Stuart Poole 2717 C.C., fel adeg dechreuad ei deyrnasiad.

(5,) Nis gall hanesiaeth Manetho fod yn gywir yn y manylion, gan ei bod yn gwneyd Joseph a Moses yn gydoeswyr, er ei bod yn gredadwy, y rhan fynychaf, o ran y ffeithiau.*

* "There is a great want of the particulars of time, place, and persons, in Manetho's account of the Egyptian Dynasties, Etesias's of the Assyrian Kings, and those which the technical chronologers have given of the ancient kingdoms of Greece; and, agreeably thereto, these accounts have much fiction and falsehood, with some truth."—*Hartley*, vol. ii. p. 109.

Cyfrif cyffelyb sydd i'w rhoddi am amseryddiaeth Berosus, yr hanesydd Babilonaidd. Dywed efe fod yr hil ddynol wedi dechreu 466,000 o flynyddoedd cyn ei amser ef; ond nid yw yn gallu eu holrhain yn mhellach yn ol na 2637 cyn Crist.

Dylid cofio fod y beirniaid goreu yn awr yn ystyried nad yw 2348 C.C. fel amseriad y diluw yn ddigon boreu, ac y dylai fod yn 3099 neu 3159 C.C., yr hyn a gadarnheir gan amseryddiaeth y LXX, a'r Pum' Llyfr Samaritaidd. "Ymddengys ar y cyfan,' ebe y Parch. G. Rawlinson, M.A., "nad oes un math o hanesiaeth gyffredin o ymddiried ag sydd yn cyrhaedd yn mhellach yn ol na'r 27ain neu'r 28ain ganrif cyn Crist. Dechreua hanesiaeth yr Aifft tua 2700 C.C.; China, fe ddichon, yn y flwyddyn 2637 C.C.; Babilon, yn 2458 C.C.; Groeg, gyda Rhyfel Caerdroia, C.C. 1250, neu fe allai ganrif yn nghynt gyda Hercules; Lydia, yn 1229 C.C.; Phœnicia, tua'r un adeg; Carthage, 880 C.C.; Macedonia, tua 720 C.C.; Media, heb fod o flaen y flwyddyn 708 C.C.; Rhufain, yn nghanol yr un ganrif; Persia, yn 558 C.C.; ac India, tua 350 C.C." (Gwel *Aids to Faith*," Essay vi.; *Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible*, Article "*Chronology;*" a *Hengstenberg's Egypt and the Books of Moses.*)

## III. Diffygion neu aneglurdeb yn y cyfieithiad.

Yn Gen. i. 16, dywedir fod Duw wedi gwneyd dau oleuad mawrion; casgla rhai oddiwrth hyn fod y Beibl yn dysgu mai ar y pedwerydd dydd y creodd Duw yr haul a'r lloer, tra y dysga seryddiaeth eu bod wedi eu creu mor foreu a'r ddaear beth bynag, gan fod bodolaeth llysiau a'r awyrgylch, a dydd a nos, y rhai a grybwyllir yn flaenorol, yn rhagdybied bodolaeth ac effeithiau yr haul.* Ond nid ydyw y Beibl yn gwrthddweyd hyn; oblegyd golyga y ferf עשה *(asah)*, yr hon a gyfieithir, "gwnaeth," weithiau gwneyd yn yr ystyr o gyfnewid, a phryd arall appwyntio. Awgryma Dr. Conant† y gallai fod yn ofynol gwneyd rhyw gyfnewidiad yn yr haul ar ol ei greu mewn trefn i'w gyfaddasu i fod yn oleuad i'n byd ni, ac yn yr awyrgylch fel y gallai ei belydrau lewyrchu

* *Pye Smith's Scripture and Geology*, Lecture iii.

† *Book of Genesis:* American Bible Union.

trwyddi. Neu gall y ferf olygu *appwyntio;* dyna ei hystyr yn 1 Bren. xii. 31. 1 Sam. xii. 6. Job xiv. 5, a Salm civ. 19. Mae'n ymddangos yn debygol mai appwyntio ydyw yr ystyr yn Gen. i. 16, "A Duw a appwyntiodd ddau oleuad mawrion; y goleuad mwyaf i lywodraethu y dydd, a'r goleuad lleiaf i lywodraethu y nos, a'r ser." Dysgir eu cread a'u dygiad i fodolaeth yn Gen. i. 1, ond yn Gen. i. 14—18, eu happwyntiad i ddybenion neillduol, gyda golwg ar y ddaear.

Yn gyffelyb, mae'n ddiau yr ydym i ddeall Gen. ix. 13, lle y dywedir fod Duw wedi rhoddi ei fwa yn y cwmmwl fel arwydd o'i gyfammod â dyn, na wna efe ddinystrio y byd mwy â diluw. Gan mai gwrthdroad ac adlewyrchiad pelydrau yr haul yn disgyn ar ronynau y gwlaw sydd yn achosi yr enfys, mae yn debygol ei bod yn weledig cyn y diluw; ond fod yr Arglwydd yn awr yn appwyntio y bwa i amcan neillduol, fel yr appwyntiodd y Sabbath i ateb dyben newydd yn ychwanegol at ei amcan gwreiddiol, sef i gofio am waredigaeth Israel o'r Aifft. Cymharer Gen. ii. 2, 3, â Deut. v. 15. Y ferf *nathan* yw yr un a ddefnyddir yn Gen. ix. 13, a golyga yn fynych *appwyntio*, megys yn Exod. vii. 1. Gen. xvii. 5. 1 Bren. ii. 35. Esai. liii. 9, &c.

Mae y cyfieithiad cyffredin yn tywyllu meddwl y geiriau yn Esai. liii. 9:—"Ac efe a wnaeth ei fedd gyda'r rhai anwir, a chyda'r cyfoethog yn ei farwolaeth." Cywirach fyddai, "A hwy a appwyntiasant* ei fedd ef gyda'r rhai anwir, ond gyda'r cyfoethog yr oedd yn ei farwolaeth." Bwriadasai blaenoriaid yr Iuddewon i'r Iesu gael claddedigaeth gwarthus fel drwg-weithredwr dienyddiedig; ond gofalodd Rhagluniaeth am i foneddwr cyfrifol ei anrhydeddu â chladdedigaeth urddasol. (Mat. xxvii. 57—61.) Defnyddir y ferf *nathan* (נתן) yr hon a gyfieithir "gwnaeth" yn y Beibl Cymraeg am *appwyntio* yn Exod. vii. 1. Gen. xvii. 5. 1 Bren. ii. 35, &c., megys ag y sylwyd eisioes.

* Cystrawiad a elwir, "the indeterminate third person," lle y defnyddir y ferf weithredol unigol neu'r ferf weithredol gyda'r trydydd person anmhennodol lliosog am y ferf oddefol, "*ac appwyntiwyd.*" Felly hefyd y dylid deall "gofynant" yn Luc xii. 20, yn gyfystyr â "*gofynir;*" a "rhoddant" yn Luc vi. 38, yn gyfystyr âg a "*roddir.*" Ac felly mewn llawer o leoedd ereill: gwel *Gesenius's Hebrew Gram.* § 137. 3. *Stuart's Gram. of New Test. Dialect*, § 174. *Dr. S. G. Green s Hand-Book to the Gram. of the Greek Test.* § 170.

Mae Gen. iv. 15, "A'r Arglwydd a osododd nôd ar Cain," wedi achosi dyryswch i lawer. Dilynodd cyfieithwyr y Beibl Cymraeg a'r Beibl Saesonaeg y *Vulgate* yn y darlleniad uchod, ac nid yr Hebraeg. O herwydd y cyfieithiad annghywir uchod, fe gasglodd rhai fod corn yn nhalcen Cain, ereill fod gwahanglwyf yn ei wyneb, ereill fod edrychiad gwyllt a gwrthun yn perthyn iddo, ereill fod cryndod yn ei holl aelodau, ereill fod daeargryn yn mha le bynag y safai, ereill fod y ci a wyliasai ddiadell Abel yn ei ganlyn i bob man, ac ereill fod rhyw lythyren wedi ei hargraffu ar ei dalcen;* tra y buasai trem ar yr adnod yn yr Hebraeg yn dangos ar unwaith mai yr ystyr briodol a'r gwir gyfieithiad yw, "*A Jehofah a roddodd arwydd i Cain.*"†

Barn. xv. 19, "Ond Duw a holltodd y cil-ddant oedd yn yr ên, fel y daeth allan ddwfr o hono:—am hyny y galwodd efe ei henw En-haccore, yr hon sydd yn Lehi hyd y dydd hwn." Gwna dwy ystyriaeth daflu goleuni ar yr adnod hon:—

1. Mai yr un gair a geir yn yr Hebraeg, am "ên," ac am y lle a elwir Lehi.

2. Gellir cyfieithu y gair *mactesh*, yr hwn a geir am "gil-ddant," yn "geudwll;" ac felly cawn y darlleniad canlynol:—"Ond Duw a holltodd y ceudwll oedd yn Lehi, fel y daeth allan ddwfr o hono." Cytuna hyn yn well â'r hanes am barhad arosol y ffynnon yn y lle.

Dad. x. 11, "Rhaid i ti drachefn brophwydo i (Beibl Saesonaeg, *before*) bobloedd, a chenedloedd, a ieithoedd, a breninoedd lawer." Yn ol y darlleniad yma, awgrymir fod Ioan i ymweled â gwahanol deyrnasoedd, ac ymddangos o flaen gwahanol freninoedd, er trosglwyddo iddynt ei genadwri Ddwyfol, yr hyn na chymmerodd le erioed; ond pan gofir mai ystyr yr arddoddiad ἐπὶ (*epi*) yn yr adnod hon ydyw *yn nghylch, gyda golwg ar*, neu *o barthed*, mae yr anhawsderau yn diflanu:—"Rhaid i ti drachefn brophwydo yn nghylch pobloedd, a chenedloedd, a ieithoedd, a breninoedd lawer," Felly hefyd

* Gwel Gill ar y lle.

† Fe sylwa yr efrydydd mai על קין neu בקין a fuasai y cystrawiad pe mai nôd ar Cain a olygid, ac nid לקין. Fe gofia hefyd fod אות yn cael ei ddefnyddio yn fynych am *arwydd* neu *wyrth*. (Exod. iii. 12, iv. 8, 9. Deut. iv. 34, vi. 22, vii. 19. 1 Sam. ii. 34, &c.)

Dad. xii. 16, "Myfi Iesu a ddanfonais fy angel i dystiolaethu i chwi y pethau hyn yn (ἐπὶ *epi*, yn nghylch) yr eglwysi."

1 Tim. ii. 15, "Eto cadwedig fydd wrth ddwyn plant, os arhosant hwy mewn ffydd, a chariad, a santeiddrwydd, yn nghyda sobrwydd."

Mae meddwl y geiriau hyn yn dywyll, er fod y cyfieithiad awdurdodedig yn lled eglur a llythyrenol. Yr anhawsdra yw gwybod beth a olygir wrth yr ymadrodd "*bod yn gadwedig.*" Yn ol rhai esbonwyr, golyga fod y wraig i gael ei chadw yn fyw wrth roddi genedigaeth i blant, er fod poen esgoriad yn ffrwyth anfoddlonrwydd Duw mewn canlyniad i'w phechod yn Eden, os bydd iddi ymroddi i wasanaethu Duw. Nis gellir derbyn y golygiad hwn fel un cywir, gan fod llawer o wragedd duwiol yn marw, a llawer o rai annuwiol yn byw wrth ddwyn plant i'r byd.

Ereill a'i deallant i olygu y gall gwraig fod yn gadwedig, ond iddi arfer ffydd a gweithredoedd da, er ei bod yn euog o bechu yn gyntaf, ac o hudo ei gŵr hefyd i bechu; ac er ei bod yn dyoddef anfoddlonrwydd Duw fel y dangosir ef yn ei gofid a'i blinder wrth ddwyn plant i'r byd. Credwn nad yw hyn eto yn dwyn allan ystyr gyflawn y geiriau. Diau fod cyfeiriad ynddynt at ddwyn plant, *fel yr hyn ag oedd yn nghyflawnder yr amser i fod yn foddion i ddwyn y Gwaredwr i'r byd.* Rhydd y rhydd-gyfieithiad canlynol y meddylddrych allan yn fwy eglur, gan ei fod yn dwyn allan rym y fannod o flaen y gair *teknogonias*=plant-ddygiad:—"Eto hi a fydd gadwedig trwy gyfrwng yr ordinhad o ddwyn plant i'r byd, os arosant mewn ffydd, a chariad, a phurdeb, yn cael eu dilyn gyda sobrwydd meddyliol." Bydd ei gwaith yn dwyn plant i'r byd, o herwydd cyssylltiad hyn ag Ymgnawdoliad y Gair, yn foddion iachawdwriaeth iddi, os arosant (h.y. gwragedd yn gyffredinol) yn rhinweddau yr efengyl—yr Arglwydd fel hyn yn defnyddio gwraig i orchfygu Satan, yr hon a ddefnyddiasai Satan i dwyllo a gorchfygu dyn (Gen. iii. 15. Esai. vii. 14, ix. 6, 7. Gal. iv. 4, 5.) Dyry yr esgob Ellicott y rhesymau canlynol dros fabwysiadu y golygiad hwn ar y geiriau:—

1. Ei briodoldeb tra nodedig.

2. Y tebygolrwydd mawr na f[illegible]ai yr apostol, wrth son am bechod y wraig, yn peidio cyfeirio at y brophwydoliaeth gysur-

lawn, yr hon a roddasid hyd y nod cyn cyhoeddiad y ddedfryd ar y wraig.

3. Fod y golygiad hwn yn rhoddi ystyr foddhaol i'r arddodiad *dia*, yr hon a gyfieithir "wrth" yn y cyfieithiad awdurdodedig.

4. Ystyr annghyfyngedig yr ymadrodd "bod yn gadwedig" (Groeg, *sôthêsetai*).

5. Grym y fannod o flaen y gair "dwyn plant," yr hon a annghydnabyddir gan y rhan fwyaf o esbonwyr.

6. Yn olaf, wrth ystyried oerder ac eiddilwch yr esboniadau ereill, mae yn anhawdd peidio penderfynu yn ffafr yr un sydd yn cyfeirio at y Messiah.

Dyma y golygiad hefyd a amddiffyna Dr. Hammond, Trollope, a Dr. Wordsworth yn eu hesboniadau.

## IV. BYRDRA GWAHANOL RANAU O'R HANESIAETH YSGRYTHYROL.

Mae crybwyllion byrion am wahanol bersonau ac amgylchiadau wedi achosi dyryswch ac anhawsdra. Fel hyn darfu i fyrdra yr hanes am Melchisedec beri i rai ddychymmygu mai Mab Duw ei hun ydoedd, heb gofio nad cofnodi hanes bywyd Melchisedec oedd amcan ysgrifeniad llyfr Genesis. Mae cyfarwyddyd Paul i'r chwiorydd yn Nghorinth feddu awdurdod ar eu penau o herwydd yr angylion,* wedi arwain llawer i

* Yn ol Dr. Thomson, yr "awdurdod" ydyw y gorchudd dros wyneb y fenyw, yr hyn sydd iddi hi yn y Dwyrain yn ddiogelwch rhag anmharch a hyfdra dynion, tra, o'r ochr arall, os bydd heb y gorchudd, y mae at drugaredd pob anifeil-ddyn a ddewiso ei diystyru. Wrth yr "angylion" y dealla efe weinidogion a phregethwyr, y rhai a deimlent yn anhyfryd yn mhresennoldeb llu o ferched heb orchudd ar eu gwynebau, gan fod merched yn y Dwyrain yn cael eu neillduo oddiwrth bawb ond eu perthynasau agosaf. Buasai dyeithrwch yr olygfa yn fagl iddynt. (*Land an l the Book*, p. 31.)

Wrth yr "awdurdod" y golyga Doddridge, Hammond, Burton, Alford, *Cynddelw*, ac amryw ereill, orchudd yr hwn oedd y wraig i'w wisgo er dangos ei bod o dan awdurdod ei gŵr, er mwyn ymddangos yn weddus ger bron angylion Duw y rhai sydd bresennol yn yr addoliad. Dr. Whitby a ddealla y geiriau yn dysgu y dylai y wraig wisgo gorchudd ar ei phen o herwydd yr angylion drwg, y rhai a'i temtiasant i bechu, ac a'i dodasant yn fwy llwyr o dan awdurdod ei gŵr, yr hyn a arwydda y gorchudd. Ereill, drachefn, a ystyrient fod y gair "angylion" yn golygu ysbïwyr neu genadon y gelynion yn mhlith y saint, er chwilio am feiau arnynt. Nis gellir, bellach, gael sicrwydd beth a olyga y geiriau.

ddychymmygu llawer o bethau am yr hyn a olyga; yr oedd y cyfeiriad yn berffaith ddealladwy i'w ddarllenwyr yn Nghorinth, tra mae byrdra y crybwylliad, a dyeithrwch yr arferiad, yn ei wneyd yn dywyll ac ansicr i ni.

Gan na chrybwyllir am holl blant Adda a'u lliosogiad, mae rhai yn methu deall yn mha le y cafodd Cain wraig, a pha le y caed gweithwyr a phreswylwyr i adeiladu a phoblogi ei ddinas; ond dylid cofio nad ydyw y Beibl yn proffesu rhoddi hanes holl blant ein rhieni cyntaf, a'u cynnydd ar y ddaear, ond yn unig hanes y rhai hyny ag sydd yn gwasanaethu i egluro amcan ei roddiad i'r byd, a dangos y gwahanol egwyddorion ag sydd yn perthyn i deyrnas y goleuni a theyrnas y tywyllwch.

Ni sonir am sefydliad cyntaf aberthau, yr hyn sydd i lawer yn anhawsdra; ond mae'n debygol, gan nad ydyw Duw yn derbyn gwasanaeth dychymmygol dyn, a'i fod gynt yn derbyn aberthau, eu bod wedi cael eu sefydlu gan Dduw ei hun yn ddioed wedi'r cwymp, ac mai o grwyn aberthau y gwnaeth Duw wisgoedd i guddio gwarth Adda ac Efa. Mae yr ystyriaeth nad oedd dynion yn defnyddio cig-fwyd hyd ar ol y diluw yn cadarnhau y syniad yma yn mhellach. Cymharer Gen. i. 29, â ix. 3, 4.

Mae y gair "Barachias" yn yr adnod ganlynol yn achosi anhawsdra:—"Fel y delo arnoch chwi yr holl waed cyfiawn a'r a ollyngwyd ar y ddaear, o waed Abel gyfiawn hyd waed Zacharias fab Barachias, yr hwn a laddasoch rhwng y deml a'r allor." (Mat. xxiii. 35.) O herwydd byrdra yr hanes, nis gallwn gyfrif yn foddhaol am yr enw. Mab Jehoiada oedd y Zachariah ag mae genym hanes am ei labyddiad yn nghyntedd tŷ yr Arglwydd. (2 Chron. xxiv. 19—22.) Bernir gan Dr. Paley, Dr. Robinson, ac ereill, mai at hwn y cyfeirir, ac na ysgrifenodd Matthew y geiriau "fab Barachias," ond yn unig "gwaed Zacharias," fel yn Luc xi. 51, ac mai rhyw adysgrifenydd boreu a ychwanegodd y ddau air yna; oddi eithr fod Jehoiadah *(yr hwn y mae Jehofah yn ei adnabod)*, yn cael ei alw hefyd Barachiah *(yr hwn y mae Jehofah yn ei fendithio)*, fel y gelwir Uzziah *(nerth Jehofah)* yn Azariah *(yr hwn y mae Jehofah yn gynnorthwyo)*. Yn gyffelyb gelwir Judas yn Lebbeus a Thaddeus, Matthew yn Lefi, a Nathanael yn Bartholomew. Barna ereill mai Zachariah mab Barachiah (Zech. i. 1), a olygir, a bod yr Iuddewon wedi ei lofruddio,

er nad oes genym hanes am hyny. Mae llawer i'w ddweyd dros bob un o'r golygiadau hyn; ond o herwydd ein hanwybodaeth, nis gellir byth gael sicrwydd diamheuol ar bwyntiau fel hyn.

Mae y fath adnodau a Rhuf. v. 12, wedi achosi anhawsdra yn meddyliau rhai, yn ngwyneb ffeithiau diymwad Daeareg. *Dengys y wyddor hon fod marwolaeth yn y byd cyn cwymp dyn.* Mae y creigiau yn dryfrith o weddillion creaduriaid a fu unwaith yn ymddigrifo yn llywodraeth bywyd. Mae deddf y greadigaeth a Rhagluniaeth hefyd y fath, fel ag y mae bywyd yn ymborthi ar farwolaeth; ac ni allai fod yn wahanol cyn y cwymp. Mae yr holl anhawsdra, modd bynag, yn cael ei symmud pan gofiom mai sôn am ddygiad marwolaeth i mewn i blith y teulu dynol yn unig y mae y Beibl, ac nid i fysg creaduriaid ereill.

Os oedd tuedd naturiol yn nghorph dyn i dreulio ymaith a dadfeilio pa un bynag ai pechu ai peidio a wnelai, fel yr haerir gan rai naturiaethwyr, mae y Beibl yn dysgu y buasai Duw yn ei gadw trwy ryw foddion rhag pob math o ddadfeiliad, pe buasai efe yn ymgadw oddiwrth bechod. Dichon fod ffrwyth pren y bywyd yn gwrthweithio pob lludded a blinder, a phob tuedd at ddadfeiliad, fel na fuasai dyn, hyd y nod o ran ei gorph, yn ddeiliad marwolaeth, pe buasai heb golli delw Duw; ac ar ddiwedd ei brawf, diau y cawsai ei ddyrchafu fel Enoch, heb brofi marwolaeth, i wlad anfarwoldeb.

Cyfodwyd gwrthddadl yn erbyn gwirionedd y Beibl oddiwrth *wasgariad y teulu dynol i gyfandiroedd ac ynysoedd y ddaear, ac oddiwrth y gwahaniaeth mawr a ganfyddir rhwng y gwahanol lwythau dynol.*

Haerir fod y ddwy ffaith uchod yn annghysson â'r Beibl, yr hwn sydd yn dysgu fod Duw wedi gwneyd o un gwaed bob cenedl o ddynion.

Gyda golwg ar wasgariad y teulu dynol ar hyd a lled y ddaear, ni ddylai hyny achosi rhwystr. Nid yw y culfor sydd yn ysgaru gogledd America oddiwrth Asia ond o ychydig led, fel mai gwaith hawdd oedd myned o un cyfandir i'r llall. Dichon hefyd fod gwddf-dir yn eu huno unwaith â'u gilydd, fel nad oedd angen morio o gwbl. Mae yr anhawsdra yn fwy pan feddylir am ynysoedd fel Awstralia, ac ynysoedd y Môr Tawelog. Ond gallasid cyrhaedd y rhai hyn i gyd, naill ai yn

fwriadol, wrth chwilio am diriogaethau newyddion, neu yn ddamweiniol, trwy gael eu gyru pan yn pysgotta neu forio oddeutu y glanau gan wyntoedd a'u cludo gan lifiadau y moroedd, i'r gwahanol ynysoedd. Credai y Parch. John Williams, apostol ynysoedd y Môr Tawelog, a hyny, debygem, oddiar seiliau cedyrn, fod preswylwyr yr ynysoedd hyny o darddiad Asiaidd, a'u bod wedi dyfod o ynys i ynys, nes preswylio y cyfan. Tybia iddynt ddyfod ar y cyntaf o Sumatra i Borneo — o Borneo i Celebes — o Celebes i New Guinea, gan orphwys yn ynysoedd Besey a Cheram ar y ffordd; yna o New Guinea i New Hebrides, gan alw yn y mân ynysoedd rhyngddynt:—ac oddi yno i Ynysoedd Fiji, ac yn mlaen o radd i radd nes cyrhaedd yr holl ynysoedd. Dywed fod ei gwch ef ei hun ar un achlysur wedi cael ei yru 1500 o filltiroedd o'i lwybr gan wynt gwrthwynebus; a'i fod wedi cludo i'w cartref ar un adeg frodorion ag oeddynt wedi cael eu gyru gan nerth y dyfroedd mewn cwch unpren (*canoe*) dros fil o filltiroedd o'u cyrchfa briodol. (Gwel *John Williams's Narrative of Missionary Enterprises in the South Sea Islands*, chap. xxix.)

O berthynas i'r gwahaniaeth mawr sydd rhwng y gwahanol lwythau o'r teulu dynol, creda y rhai sydd wedi talu ystyriaeth ddyladwy i'r pwnc, fod *amser*, *hinsawdd*, *ymborth*, ac *arferion gwahanol*, yn ddigon i gyfrif am yr anhebygolrwydd hwn. Mae trefedigaeth o Iuddewon yn Cochin, Malabar, India, y rhai sydd wedi myned mor dduon a'r Malabariaid eu hunain. Mae y Portuguaid, y rhai a ymsefydlasant yn Ceylon ychydig ganrifoedd yn ol, wedi myned yn dduach na hen breswylwyr yr ynys. Mae dyn wedi ei gyfaddasu i bob hinsawdd. Ac er ei fod yn wŷn yn Ewrop, yn ddu yn Affrica, yn felyn yn Asia, ac yn goch yn America, eto yr un creadur yw efe yn mhob parth o'r byd. Medda yr un teimladau, ofnau, a gobeithion; yr un gallu i dderbyn argraffiadau crefyddol, ac i ddyfod rhagddo, mewn diwylliad. Mae traddodiadau cyffelyb am hanesiaeth foreuol y byd a'r diluw yn mhlith gwahanol genedlöedd; a rhyw neillduolion yn rhedeg trwy eu hieithoedd ag sydd yn awgrymu fod y cyfan wedi tarddu o'r un gwreiddyn ar y dechreu. Mae yr ystyriaethau hyn yn hollol annghysson â'r dyb o wahanol darddellau i'r hil ddynol, ond yn berffaith gysson â dysgeidiaeth y Beibl.

Mae cyfreithlondeb "bwyta gwaed" yn bwynt ag sydd wedi ei adael i raddau yn aneglur (Act. xv. 20—29). Barna rhai esbonwyr, megys Doddridge a Bloomfield, mai gwaharddiad dros amser oedd eiddo yr apostolion, yn gyfyngedig i'r dychweledigion yn Syria a Phalestina, a gwledydd ereill lle y dygwyddai Iuddewon fod yn preswylio; tra mae ereill, megys Barnes a Ripley, yn dysgu fod y gorchymyn yn meddu grym parhaol, ac yn rhwymedig ar ddyn yn mhob man. Ymddengys mai y diweddaf yw y golygiad cywiraf, o herwydd yr ystyriaethau canlynol:—

1. Fe roddwyd y gwaharddiad i fwyta gwaed yn nyddiau Noah, cyn sefydliad yr hen oruchwyliaeth; a thrachefn gan yr Ysbryd Glân trwy yr apostolion, ar ol ei diddymiad. Dengys hyn nad peth Iuddewig hollol ydoedd. (Gen. ix. 4. Act. xv. 28, 29.)

2. Nid yw gwaed yn ymborth addas i ddyn. Dywedir nad ydyw yn faethlon, ond ei fod, o'r ochr arall, yn anhawdd ei dreulio ac yn niweidiol. Mae ei yfed yn gynhes, yn enwedig gwaed tarw, yn beryglus, ac yn fynych yn angeuol. Mae defnyddio gwaed fel ymborth yn meithrin tuedd greulon, ffyrnig, a dialgar mewn dyn; naill ai trwy ddylanwadu ar ei natur anifeilaidd, neu trwy ei fod yn ymarfer â'r hyn sydd a thuedd ynddo i galedu y galon.* Mae y Creawdwr wedi cymmeryd llesiant naturiol dyn i ystyriaeth wrth roddi y gwaharddiad dan sylw, fel y gwnaeth wrth roddi llawer o gyfarwyddiadau ereill iddo.

3. Dylid ymattal oddiwrth fwyta gwaed fel math o deyrnged i Dduw fel Awdwr bywyd, neu gydnabyddiaeth mai efe yw Creawdwr ein heinioes. Dyma un o'r rhesymau a ddyry Duw ei hun dros y gwaharddiad. (Gen. ix. 4. Lef. xvii. 10—14. Deut. xii. 23—25.)

4. Mae math o gyssegredigrwydd yn perthyn i waed, ebe y Deddfroddwr Dwyfol, am mai trwy waed y gwneid iawn dros bechod. "O herwydd y gwaed hwn a wna gymmod dros yr enaid." (Lef. xvii. 11.) Gwnai hyny yn gysgodol yn offrymiad yr aberthau o dan y ddeddf, a gwnaeth hyny yn weithredol a gwirioneddol yn marwolaeth Iesu Grist.

* Gwel Esboniad Dr. H. J. Ripley ar yr Actau; *Maimonides's Reasons of the Law of Moses*, by James Townley, D.D., pp. 77—86, Edition. 1827: a *Sir J. D. Michaelis's Commentaries on the Laws of Moses*, vol. iii. p. 252, Edition, 1814.

Mae y gwaharddiad i fwyta gwaed, gan hyny, yn sylfaenedig mewn rhan ar yr hyn sydd fanteisiol i ddyn mewn ystyr naturiol, ac mewn rhan ar yr hyn sydd briodol mewn ystyr foesol—yn ngwyneb perthynas dyn â Duw fel ei Greawdwr, a'r ystyriaeth ei fod yn bechadur ag sydd wedi ei brynu trwy waed.

Nid yw geiriau yr Arglwydd Iesu yn Marc vii. 15, sef, "Nid oes dim allan o ddyn yn myned i mewn iddo, a ddichon ei halogi ef,"—yn dirymu y nodiadau uchod, oblegyd nid ar y dyb fod halogrwydd moesol mewn un math o ymborth y sylfaenwyd hwynt, ond ar ystyriaethau cyffredinol, perthynol i'r naill oes fel y llall.

Mae rhai wedi bod yn tramgwyddo wrth fanylion yr hen oruchwyliaeth, fel pe buasai y gorchymynion yn ddibwys ynddynt eu hunain, ac yn annheilwng o Ddeddfroddwr Dwyfol. Ond fe wna ystyriaeth neu ddwy symmud ymaith yr anhawsdra hwn :—

1. Dichon mai prif amcan rhoddiad rhai o orchymynion y ddeddf oedd profi ufydd-dod dyn.

Nid yw Duw wedi ymostwng i roddi y rheswm paham y mae wedi eu sefydlu, gan y buasai nodi hyny yn dinystrio amcan eu rhoddiad.

2. Mae amcan rhoddiad amryw o honynt yn dyfod i'r golwg wrth dalu ystyriaeth ddyladwy iddynt.

Crynhoa Maimonides amcan mawr rhoddiad y gyfraith i fyny mewn dau air—*Iechyd y Meddwl*, a *Iechyd y Corph—Perffeithrwydd yr holl ddyn;* a diau fod ei ddarnodiad yn gywir a chyflawn, mor bell ag y mae a fyno hi â dyn. Gall y crybwyllion canlynol o barthed amryw o ordeiniadau y gyfraith, amcan *uniongyrchol* pa rai na amlygwyd yn eglur mewn geiriau, fod o gymhorth i'r darllenydd.

Dichon mai amcan cadw y canwyllbren aur yn wastad yn oleu ydoedd,* dangos fod cyssegr Duw yn wastad yn drigfa goleuni a chysur :—mai amcan cadw y bara gosod yn wastad yn y cyssegr, oedd adgofio† yr addolwyr fod Duw, bob amser

* Hyny yw, yn y nos. Ymddengys ei fod yn cael ei oleuo yn y cyfnos, a'i ddiffodd yn y boreu. (Exod. xxvii. 21, xxx. 8. Lef. xxiv. 3. 1 Sam. iii. 3. 2 Chron. xiii. 11.)

† Awgrymir hyn yn yr enw a roddir ar y bara. Hebraeg, לחם פנים, *bara y gwynebpryd, bara y presennoldeb,* "ger bron yr Arglwydd." (Exod. xxv. 30. Lef. xxiv. 5—8. 1 Sam. xxi. 7.) Groeg, οἱ ἄρτοι τῆς προθέσεως, *bara y gosod ger bron, bara y presennoldeb,* h.y. presennoldeb Duw. Ni thywelltid y thus neu y perarogldarth ar y bara, fel y gellid casglu ar yr olwg gyntaf oddiwrth Lef. xxiv. 7,

yn bresennol yn ei lys a'i deml:—mai amcan rhoddiad y cerubiaid ar y drugareddfa oedd arwyddo bod yr angylion yn trigo yn mhresennoldeb Duw yn y nef, yn dysgwyl ei orchymyn, ac yn syllu gyda hyfrydwch annhraethol ar ei gynllun achubol trwy Gyfryngwr:—mai amcan offrymiad a llosgiad cymmaint o arogldarth oedd rhwystro yr arogl anhyfryd a allasai, oni buasai y rhagocheliad hwn, lenwi y cyssegr, oddiwrth dywalltiad gwaed a llosgiad cynnifer o aberthau, ac ymlid y gwybed a'r ednogion o'r lle, ac er arwyddo derbyniad y gweddïau a offrymid gyda'r aberthau:—mai amcan dosbarthiad yr anifeiliaid i lân ac aflan, heblaw er ateb gwasanaeth y cyssegr, oedd iechyd a chysur dyn, gan mai y rhai glân o dan y ddeddf a ystyrir yn awr gan brif ddysgedigion y byd y rhai goreu fel ymborth, y rhai hawddaf eu meithrin a'u llywodraethu, a'r rhai mwyaf gwasanaethgar i ddyn:—ac mai amcan y defodau gyda gwahanol buredigaethau personau ac anneddau, oedd sicrhau iechyd y bobl, yn ogystal a throsglwyddo iddynt y syniad am santeiddrwydd Duw, a phurdeb ei wasanaeth ef. Yr oedd un dyben mawr arall yn myned o dan wraidd y cyfan, sef er mwyn neillduo y genedl Israelaidd o ran ei harferion oddiwrth y Cenedloedd a'i chadw ar wahan, hyd nes yr ymddangosai y Messiah, yr hwn oedd i lyncu y cysgodau ynddo ei hun, a sefydlu goruchwyliaeth ysbrydol, yr hon sydd i wneyd y Cenedloedd yn had Abraham, ac yn feibion Duw. Gwel "*Athroniaeth Trefn Iachawdwriaeth*," "*Graves on the Pentateuch*," a gweithiau Maimonides a Michaelis y cyfeiriwyd atynt yn barod ar waelod y ddalen. Am *arwyddocâd prophwydol* possibl amryw o'r pethau hyn, gwel y Nodiad ar waelod tudalenau 345, 346.

## V. Y FFAITH FOD PETHAU YN CAEL EU GOSOD ALLAN MEWN GWAHANOL DDULLIAU, AC O DAN WAHANOL AGWEDDAU.

Yn hanes troedigaeth Paul, ceir dau neu dri o wrthddywediadau ymddangosiadol:—

| | |
|---|---|
| "A'r gwŷr oedd yn cyd-deithio ag ef a safasant yn fud, gan glywed y llais, ac heb weled neb."—Act. ix. 7. | "Hefyd y rhai oedd gyda myfi a welsant y goleuni yn ddiau, ac a ofnasant, ond ni chlywsant hwy lais yr hwn oedd yn llefaru wrthyf."—Act. xxii. 9. |

ond dodid ef mewn dau gawg aur, un ar bob twr o'r torthau. Ar y Sabbath cymmerid y bara i ffwrdd a rhenid ef rhwng meibion Aaron, a dodid torthau newyddion ar y bwrdd; a llosgid y thus "yn aberth tanllyd i'r Arglwydd."

Ymddengys oddiwrth Act. xxvi. 14, fod Paul a'i gymdeithion ar y dechreu wedi syrthio ar y ddaear, o dan effeithiau yr ymweliad goruwchnaturiol; yna eu bod wedi cyfodi, ac i gymdeithion Paul sefyll yn fud wedi eu llwyr orchfygu gan syndod a braw. Mae Saul a'i gymdeithion yn gweled y goleuni goruwchnaturiol, ond ni welodd neb ond Saul ei hun berson yr Arglwydd Iesu. Mae ei gymdeithion yn clywed y llais, ond nid ydynt yn deall lleferydd yr Iesu. Ystyr y gair "clywed" yn Act. xxii. 9, yw *amgyffred.* Gwel hanes cyffelyb yn Ioan xii. 28, 29, lle y dywedir fod y dyrfa wedi clywed y llef o'r nef, ond na ddeallasant y geiriau.

Gellid tybied ar yr olwg gyntaf fod yr adnodau canlynol yn gwrthddweyd eu gilydd o barthed person Crist, a'i gydraddoldeb â'r Tad:—

"Yr hwn ac efe yn ffurf Duw, ni thybiodd yn drais fod yn ogyfuwch â Duw."—Phil. ii. 6.

"Yr hwn, ac efe yn ddisgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn wir lun ei berson ef."—Heb. i. 3.

"Pe carech fi, chwi a lawenhaech, am i mi ddywedyd, Yr wyf yn myned at y Tad: canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi."—Ioan xiv. 28.

Ond nid cymharu ei *natur* ag eiddo y Tad y mae yr Iesu yn Ioan xiv. 28, ond ei *sefyllfa.* Dywed y buasai y dysgyblion, pe yn amgyffred pethau yn gywir, yn lle galaru, yn mawr lawenhau am ei fod ef yn gadael sefyllfa ei ddarostyngiad a'i ddyoddefiadau ar y ddaear, i fyned at y Tad, i fwynhau y gogoniant a feddai gyda'r Tad cyn bôd y byd. Dyna olygiad Andrew Fuller, Barnes, Alford, Stuart, Tholuck, a'r mwyafrif o esbonwyr a beirniaid. O ran ei natur Ddwyfol, yr oedd y Mab yn gydradd â'r Tab, ac yn ddelw y Duw anweledig.

*Defnyddir ymadroddion gwahanol am yr un gwrthddrychau weithiau, pan y cyfeirir atynt ar wahanol adegau yn eu hanes.*

Dywedir yn Gen. i. 31, "A gwelodd Duw yr hyn oll a wnaethai, ac wele da iawn ydoedd;"—yr oedd dyn yr adeg hono yn ei ddiniweidrwydd, a'r Creawdwr yn ymbleseru yn ngwaith ei ddwylaw. Ond pan ddywedir yn Gen. vi. 6, fod Duw yn edifarhau o herwydd iddo wneuthur dyn, dylid cofio fod dyn erbyn hyn wedi ymwerthu i bechu yn erbyn yr Arglwydd.

Yn 1 Bren. viii. 9, dywedir, "Nid oedd dim yn yr arch ond y ddwy lech faen a osodasai Moses yno yn Horeb;" ond yn Heb. ix. 4, darllenwn, "Yn yr hon yr oedd y crochan aur a'r

manna ynddo, a gwialen Aaron, yr hon a flagurasai, a llechau y cyfammod." Sonia Paul am yr hyn oedd yn yr arch yn y tabernacl, yn nyddiau Moses; cyfeiria 1 Bren. viii. 9, at yr hyn oedd ynddi yn nyddiau Solomon, dros 400 o flynyddau ar ol dyddiau Moses. Erbyn yr adeg hono, mae'n debyg fod y crochan aur a'r manna ynddo, a gwialen Aaron, naill ai wedi cael eu colli neu eu dinystrio, yn ystod gwahanol grwydriadau yr arch.

Desgrifir ailenedigaeth yn cymmeryd lle trwy adgyfodiad Crist (1 Pedr i. 3), a thrwy air Duw (1 Pedr i. 23); golyga y ddwy adnod yr un peth, oblegyd tystiolaeth am Grist yw y gair, a Christ a'i aberth, haeddiant iawnol yr hwn a ddangoswyd yn yr adgyfodiad o feirw, sydd yn gwneyd yr efengyl yn air y bywyd a moddion ailenedigaeth.

Mae y gwahaniaeth yn achau Crist, fel y cofnodir hwynt gan Matthew a Luc, wedi cael ei deimlo yn anhawsdra gan lawer. Ond ni theimlid un anhawsdra o barthed iddynt ar y cyntaf. Yr oedd cofrestri cyhoeddus o achau y trigolion yn cael eu cadw yn mhlith yr Iuddewon, fel y tystiolaetha Josephus (*Life*, § 1; *Against Apion*, Book i. § 7), ac y sicrha y Rabbiniaid (*Kitto's Cycl.*, Art. Genealogy). Cymharer Philip. iii. 5. Pe buasai unrhyw wendid yn rhestrau achyddiaeth yr Iesu, neu annhegwch yn y cofnodiad o honynt, gallem fod yn sicr y buasai yr Iuddewon yn nodi hyny allan a'i ddynoethi. Gan na wnaethant, gallwn gymmeryd yn ganiataol nas gallasent. Cawn yr Apostol Paul yn cyfeirio at gyssylltiad achyddol Crist â llwyth Juda fel ffaith adnabyddus a chydnabyddedig: "Canys hysbys yw mai o lwyth Juda y cododd ein Harglwydd ni" (Heb. vii. 14. 2 Tim. ii. 8). Ni theimlid un anhawsdra gyda'r pwnc, gan hyny, yn ystod y ganrif gyntaf, yn mhlith y rhai cyfarwydd â'r llinachau Iuddewig.

Coleddir dwy dybiaeth yn nghylch y ddwy restr o achau yr Arglwydd Iesu.

1. Barna rhai mai llinachau Joseph ei hun yw y ddwy restr. Fod y gofrestr yn Matthew yn gosod allan y llinach freninol, neu etifeddion cyfreithlon gorsedd Dafydd; a'r un yn Luc y llinach naturiol, yn olrhain hynafiaid naturiol Joseph i fyny i Dafydd. Dyma farn Alford, Ellicott, Delitzsch, Fairbairn, Grotius, &c., a'r farn gyffredin yn yr eglwys gyntefig.

2. Y dybiaeth arall, a'r un fwyaf cyffredin er amser y

Diwygiad Protestanaidd, yw,—fod Matthew, er boddlonrwydd yr Iuddewon, yn rhoddi achyddiaeth Crist trwy ei dad tybiedig i fyny i Abraham; a Luc, er boddlonrwydd dynolryw yn gyffredinol, yn olrhain ei achyddiaeth trwy ei unig riant gwirioneddol, i fyny trwy Dafydd ac Abraham i Adda; er dangos ei fod, nid yn unig yn *Fab Dafydd*, a *Had Abraham*, ond yn *Had y Wraig*, yr hwn oedd i ysigo pen y Sarph. Cawn yr archesgob Newcome, Robinson, Neander, Lange, a'r mwyafrif o esbonwyr yn coleddu y dyb hon. Gellir nodi y rhesymau canlynol dros goleddu y golygiad diweddaf:—

(1,) Mae'n anhawdd amgyffred pa ddyben a fyddai yn cael ei ateb trwy roddi i ni linach naturiol îs-raddol Joseph i fyny i Dafydd ac Abraham, yn ychwanegol at y llinach freninol a chyfreithlon.

(2,) Mae amcan pwysig yn cael ei ateb trwy waith yr Ysbryd Glàn yn rhoddi i ni linachyddiaeth Crist o'r ddwy ochr—sef trwy ei dad tybiedig, a thrwy ei fam wirioneddol, i Dafydd. Profa y fath gofrestri fod Crist yn fab i Dafydd mewn ystyr ddwbl—trwy ei dad tybiedig Joseph, a thrwy Mair.

(3,) Mae traddodiad Iuddewig yn cadarnhau y syniad fod Mair yn ferch i Eli (Luc iii. 23). "Merch Eli" yw yr enw a ddyry y Talmud ar Mair, mam yr Iesu. Mae'n debyg nad oedd gan Mair frodyr, ac felly ei bod yn etifeddes; yn ol y gyfraith Iuddewig, ystyrid ei gŵr yn perthyn i deulu ei thad, a gelwid ef yn fab iddo; ac fel yna deuai Joseph, trwy ei briodas â Mair, yn fab i Eli. Cymharer Ruth i. 8—12, lle y gelwir Ruth yn "ferch" i Naomi, tra nad ydoedd ond ei merch yn nghyfraith; a Num. xxxii. 40, 41, lle y gelwir Jair yn "fab Manasseh," tra mai un o "feibion Judah" ydoedd (1 Chron. ii. 2, 22). Gelwir ef yn "fab Manasseh," am fod Hesron, ei daid, wedi priodi merch i Machir o lwyth Manassah.

Yr oedd Joseph ei hun "o dŷ a thylwyth Dafydd" (Mat i. 20. Luc i. 27, ii. 4). Gan fod yr Iuddewon yr arfer priodi rhai perthynol i'w llwythau eu hunain, ac yn fynych i'w teuluoedd eu hunain, yr oedd olrhain achau Joseph i fyny i Dafydd yn profi yn sylweddol yr un peth am achau Mair. Ond yr oedd Mair ei hun yn perthyn i dŷ Dafydd yn ogystal a Joseph (Luc i. 32, ii. 4, 5. Mat. ix. 27. Rhuf. i. 3, &c.); a diau mai ei hachau hi a geir yn Luc.

Er fod y ddau efengylwr yn rhoddi y manylion yn nghylch achau Iesu Grist o ran y cnawd, maent yr un pryd yn nodi allan yn eglur ei Ddwyfol genedliad (Mat. i. 20, 23. Luc i. 30—35). "A'r Iesu ei hun oedd yn nghylch deg ar hugain oed pan yn dechreu (h.y. ei weinidogaeth—*Alford*, *Fairbairn*, &c.), gan fod yn fab, fel y tybid, i Joseph, fab Eli." (Luc. iii. 23.) Awgrymir yma Dduwdod yr Arglwydd Iesu, a chenedliad goruwchnaturiol ei natur ddynol. Yr oedd efe, "fel y tybid" gan yr Iuddewon yn gyffredinol,—fel yr ymddangosai i'w gymmydogion, yn "fab i Joseph;" tra nad oedd, mewn gwirionedd, yn fab naturiol iddo ef. Gelwir yr Iesu yn fab Joseph, mewn canlyniad i'r dadguddiad Dwyfol a roddasid i Joseph, a'i gydsyniad hollol yntau â threfniadau y nefoedd. Yr oedd yr Iesu yn anedig o Mair, gwraig Joseph, yn ei sefyllfa briodasol, er nad adnabuasai hi ŵr (Mat. i. 25. Luc i. 34—37); ac yr oedd Joseph wedi ei fabwysiadu cyn iddo gael ei eni; ac, fel y cyfryw, yr oedd yn fab iddo. Yr oedd Joseph yn cydnabod y plentyn fel ei eiddo ei hun; nid, mae'n wir, fel un wedi cael ei genhedlu ganddo ef, ond fel rhodd santaidd, yr hon a roddasai Duw iddo mewn modd rhyfeddol a gwyrthiol trwy ei wraig. Mae pob plant, mewn un ystyr, yn roddion Duw; ond yr oedd y baban Iesu felly mewn modd mwy arbenig na neb, gan ei fod wedi cael ei roddi trwy gyfryngiad uniongyrchol yr Ysbryd Glân.

Gwna y naill neu y llall o'r ystyriaethau canlynol symmud ymaith anhawsderau ereill perthynol i'r gwahanol linachau dan sylw:—

(1,) Fod bylchau yn dygwydd nid yn anfynych yn nghofrestri achyddol y Beibl. Gwna Ezra adael allan chwech o ddolenau yn nghadwyn ei achyddiaeth ei hun, fel y gwelir wrth gymharu Ezra vii. 1—5, â 1 Chron. vi. 3—15. Yn Mat. i. 8, lle y dywedir fod "Joram wedi cenhedlu Ozias" (Uzziah), gadewir tri o enwau allan, sef Azarïah, Joas, ac Amazïah* (2 Bren. viii. 24. 1 Chron. iii. 11. 2 Chron. xxii. 1, 11, xxiv. 27). Mae yn debyg ei fod yn arferiad gan yr Iuddewon, o herwydd

* Barnai yr archesgob Newcome mai yr achos o hyn oedd camsyniad rhyw adysgrifenydd yn un o'r canrifoedd cyntaf yn myned heibio i Ahazïah, Joas, ac Amazïah, gan gymmeryd Ozias ('Οζίας) yn lle Ahazïah ('Οχοζίας), o herwydd tebygolrwydd yr enwau i'w gilydd yn y Groeg. Tybiai efe a'r esgob Pearce mai nodiad minddalenol boreuol wedi llusgo i mewn i'r testun, yw Mat. i. 17. Ychydig, modd bynag, sydd yn coleddu y syniad hwn.

rhyw reswm neu gilydd, i adael yr enwau yna allan o'r llinachau, ac mai dyna yw yr achos eu bod yn cael eu hanghydnabod yn y gofrestr yn Matthew.

(2,) Fod gwahanol bersonau o'r un enwau yn gydoeswyr; a'r un personau, o'r ochr arall, yn meddu gwahanol enwau.

(3,) Yn yr amgylchiad o farwolaeth personau heb adael etifeddion, yr oedd yr hawl i'r etifeddiaeth neu i'r orsedd, yn disgyn i'r cyfathrachwr agosaf. (Num. xxvii. 1—12, xxxvi. 2 Bren. i. 17).*

Mae ychydig o wahaniaeth rhwng cyfarwyddiadau y Gwaredwr i'r deuddeg dysgybl, yn ol y gwahanol Efengylwyr. Yn ol Mat. x. 10, nid oeddynt i gael "Nac esgidiau, na ffon." Yn ol Marc vi. 8, 9, yr oeddynt i gael "llaw-ffon," ac i fod "â sandalau am eu traed;" tra y ceir y gair "ffon" yn y lliosog yn Luc ix. 3. Sylwedd y cyfarwyddiadau yw hyn:—Yr oeddynt i fyned fel yr oeddynt, gan ymddiried yn Rhagluniaeth Duw am ymborth a gwisgoedd. Nid oeddynt i ddarparu esgidiau, na ffyn, na dim arall yn bwrpasol erbyn y daith, ond cymmeryd y rhai a ddygwyddent fod yn eu meddiant ar y pryd. Os oedd rhai yn meddu ffon, yr oeddynt at eu rhyddid i'w chymmeryd gyda hwynt; os nad oedd ganddynt un, nid oeddynt i brynu un ar gyfer y daith. Yr un modd gyda golwg ar esgidiau, a phob peth arall.

Mae amrywiaethau fel hyn yn yr Efengylau yn dangos i ni na fu un cynghrair rhwng yr ysgrifenwyr i dwyllo, ond fod pob un, oddiar ei safle annibynol ei hun, yn cofnodi geiriau a symmudiadau Emmanuel. Dichon fod yr Iesu yn ystod yr ymddyddan wedi defnyddio y geiriau sydd yn y naill a'r llall o'r Efengylau.

Yn Act. xxvi. 23, dywedir mai Crist yw "y cyntaf o adgyfodiad y meirw;" ac eto yr ydym yn cael fod amryw wedi eu hadgyfodi cyn iddo ef farw. Ond Crist oedd y cyntaf a gyfododd i beidio marw drachefn, tra yr oedd Lazarus, merch Jairus, a mab y wraig weddw o Nain, i farw eilwaith, a huno yn y bedd hyd yr adgyfodiad cyffredinol.

Wrth ddarllen hanes adgyfodiad Crist yn Matthew, gellid

* Gwel *Fairbairn's Hermeneutical Manual*, pp. 181—199; *Dr. Edward Robinson's Harmony of the Gospels, Appendix: A Harmony in Greek of the Gospels, with Notes*, by William Newcome, D.D.

meddwl nad ymddangosodd i'r dysgyblion ond yn Galilea, a hyny ar adeg ei ymadawiad; ond nid yw hyn yn gwrthddweyd yr efengylau ereill, yr Actau, a'r Llythyr cyntaf at y Corinthiaid. Dangos cyflawniad ei addewid (Mat. xxvi. 32) ydyw amcan Matthew, ac nid ydyw ei gynllun yn gofyn iddo gofnodi holl fanylion ymddangosiadau Crist ar ol ei adgyfodiad.

Ar yr olwg gyntaf, ymddengys y gwahanol efengylwyr fel pe byddent yn gwrthddweyd eu gilydd gyda golwg ar adeg ymweliad y gwragedd â bedd yr Iesu. "Ac yn niwedd y Sabbath, a hi yn dyddhau i'r dydd cyntaf o'r wythnos." (Mat. xxviii. 1.) "A'r dydd cyntaf o'r wythnos, ar y cynddydd." (Luc xxiv. 1.) "Y dydd cyntaf o'r wythnos, Mair Magdalen a ddaeth y boreu, a hi eto yn dywyll, at y bedd." (Ioan xx. 1.)

Mae y tri efengylwr yma yn cytuno yn eu desgrifiad o'r amser; ond y mae Marc fel pe byddai yn awgrymu ei bod yn ddiweddarach, "Ac yn foreu iawn, y dydd cyntaf o'r wythnos, y daethant at y bedd, *a'r haul wedi codi*." (Marc. xvi. 2.) Pa fodd y cyssonir hyn â'r ymadroddion, "a hi yn dyddhau," "a hi eto yn dywyll?" Cyfrifir am y gwahaniaeth mewn dwy ffordd:—

(1,) Ystyria Grotius, West, a Benson, fod Marc yn son am y gwragedd ar adeg eu dyfodiad at y bedd, a'r efengylwyr ereill yn son am danynt pan yn cychwyn i'w taith; a'i bod yn dywyll pan oeddynt yn cychwyn, a'r haul wedi codi erbyn iddynt gyrhaedd y bedd.

(2,) Dealla Dr. Robinson fod y gair "haul" yn Marc xvi. 2, yn cael ei ddefnyddio trwy drawsenwad am *oleuni*, a chyfieitha y frawddeg, "*daylight having arisen*," hyny yw, fod y wawr wedi tori, ac felly yn gyfystyr â'r ymadrodd blaenorol "yn foreu iawn." Diau mai hwn ydyw y syniad priodol, oblegyd arferai yr Iuddewon y dywediad, "a'r haul wedi codi," pryd na olygent hyny yn llythyrenol, ond *yn unig fod y wawr wedi tori.* Sonir am Zebul yn cynghori Abimelech i wylied Sichem yn y maes liw nos; *a chodi yn foreu ar godiad yr haul*, a rhuthro yn erbyn y ddinas. (Barn. ix. 30—33.) Nid ydym i feddwl fod Abimelech i aros heb ymosod ar y ddinas hyd nes y cyfodai yr haul; buasai hyny yn peryglu ei lwyddiant. Awgrymir yn

adn. 36, "cysgod y mynyddoedd yr ydwyt ti yn ei weled fel dynion," nad ydoedd wedi cyflawn oleuo pan yr aeth Abimelech yn mlaen i'r ymgyrch.

Dywed y Salmydd fod y llewod yn ymgasglu at eu gilydd pan godo haul, ac yna yn ymgilio i'w llochesau (Salm civ. 22); ond nid ydyw bwystfilod ysglyfaethus yn aros hyd godiad yr haul cyn cilio i'w llochesau: diflanant o'r golwg ar doriad y wawr: gwel *Harmony of the Gospels*, gan Gymdeithas y Traethodau Crefyddol.

Wrth son am yr ymwelwyr â'r bedd, ni sonia Ioan ond am Mair Magdalen yn unig o'r gwragedd, tra y sonia Matthew, Marc, a Luc, am wragedd ereill. Mae'n debyg fod rhywbeth mwy neillduol yn nghyssylltiad Mair Magdalen âg adgyfodiad y Gwaredwr nag yn eiddo y lleill, fel ag i alw am yr anrhydedd hon. Pan ddywed Mair Magdalen (Ioan xx. 2), "*Ni wyddom ni* pa le y dodasant ef," llefara drosti hi ei hun a'r gwragedd ereill, fel nad ydyw Ioan, mewn un modd, yn gwrthddweyd yr efengylwyr ereill. Felly hefyd, sonia un efengylwr am un angel, a'r llall am ddau. Mewn engreifftiau fel hyn, mae *y rhifedi mwyaf yn cynnwys y lleiaf.* Cymharer Mat. viii. 28. Marc v. 2. Luc viii. 27, â Mat. xx. 30. Marc x. 46. Luc xviii. 35. Dichon fod rhywbeth mwy neillduol yn un o'r personau, yr hyn a barai i un efengylwr dalu mwy o sylw iddo na'r llall.

Dywedir fod Duw wedi caledu calon Pharaoh, a bod Pharaoh wedi caledu ei galon ei hun. Y mae y naill ddywediad yn hollol gysson â'r llall. Yr oedd Pharaoh yn caledu ei galon ei hun trwy beidio ymostwng i Dduw y nefoedd; ac yr oedd Duw yn caledu ei galon hefyd, yn yr ystyr o'i adael i fyned yn mlaen yn ei ddallineb a'i wallgofrwydd, hyd nes y dinystriwyd ef. Dywedir mewn lleoedd ereill fod Duw yn gwneyd unrhyw beth, pryd na olygir mwy na'i fod yn caniatâu hyny. (2 Sam. xii. 11. Esai. lxiii. 17. Deut. ii. 30. 1 Bren. xi. 23. Salm cv. 25.) Dichon, modd bynag, fod caledwch Pharaoh yn galedwch barnol: gwel y nodiadau o dan Rheolau IV. a V. Pennod V. Rhan II.

Ar y dybiaeth mai at yr un traddodiad o bregeth Crist y cyfeiria Luc vi. 17—49, a Mat. v.—vii., y mae dau anhawsdra yn ein cyfarfod :—

1. *Gwrthdarawiad iaith.* Dywed Mat. v. 1, mai yn "y

mynydd" y traddododd Crist y bregeth, tra y dywed Luc vi. 17, mai "mewn gwastattir" y llefarodd. Gall yr ymadrodd "mewn gwastattir" *(epi topou pedinou)*, modd bynag, olygu lle gwastad ar ben mynydd neu ucheldir, a diau mai hyny ydyw yr ystyr yma. Wedi ymneillduo i'r mynydd, y mae yr Iesu yn galw y deuddeg ato; yna mae yn disgyn gyda'r deuddeg at y dorf ag oedd ar wastad-le y mynydd ger llaw; ac felly, nid yw Mat. v. 1, ond talfyriad o'r hanes: gwel *Newcome and Robinson's Harmonies.*

2. *Gwahaniaeth cyfansoddiad.* Ceir amryw bethau yn y bregeth yn Matthew ag nad ydynt i'w cael yn Luc, a rhai pethau yn y bregeth yn Luc ag nad ydynt i'w canfod yn y bregeth yn Matthew. Ond fe symmudir yr anhawsdra pan gofir amcan neillduol y ddau efengylwr. Ysgrifenai Matthew yn benaf er hyfforddiant y credinwyr o'r Iuddewon; felly cofnoda yn helaeth y modd yr esboniai Crist y ddeddf a natur gwasanaeth Duw, yn wrthgyferbyniol i esboniadau cyfeiliornus yr ysgrifenyddion a'r Phariseaid: ond yr oedd Luc yn ysgrifenu i'r credinwyr o'r Cenedloedd, ac y mae efe yn gadael allan y manylion uchod, ac yn cofnodi y pethau ag sydd yn bwysig i ddyn fel dyn eu gwybod a'u deall. (*Harmony of the Gospels*, R. T. S. pp. 200, 201.)

Gwel, modd bynag, sylw Dr. Seiler yn tudalen 159, yn yr hwn yr awgrymir y gallai mai ei chofnodi a wnaeth Luc yn ol fel yr ail draddodwyd hi mewn lle gwahanol i'r mynydd a grybwylla Matthew.

## VI. Hynafiaeth y llyfr, ac annghyffredinolrwydd yr hyn a gofnoda.

Awgrymwyd hyn eisioes fel un achos o anhawsderau. Yn wir, y mae amheuwyr yn myned mor bell a gwadu ei wyrthiau a'i ryfeddodau oll, neu geisio eu hymresymu ymaith, am nad ydynt hwy wedi gweled neu brofi eu cyffelyb! Er fod ei hynafiaeth a'i gynnwysiad yn achosi anhawsdra i gredinwyr diysgog yn ei Ddwyfoldeb; eto nid ydynt hwy yn tramgwyddo wrthynt, ond yn dysgwyl yn dawel am oleuni ychwanegol, neu yn ymdawelu yn yr ystyriaeth nad ydyw Duw yn bwriadu iddynt gael goleuni ar bob anhawsdra yn y fuchedd hon.

1. *Darganfyddiadau Daeareg.*

Bernid gynt fod Gen. i. 1, 2, yn dysgu mai tua chwe' mil o flynyddau yn ol y crewyd y ddaear, a'i bod yr adeg yna yn dryblith annhrefnus, tra y dengys daeareg fod ei sylwedd yn haenu rheolaidd (oddigerth lle mae effeithiau tân-gynhyrfiadau tanddaearol), y rhai a gymmerasant filoedd afrifed o flynyddau yn eu ffurfiad. Ond nid yw y geiriau yn Genesis yn gwrthdaro yn erbyn hyn. Cyhoeddiad annibynol yw yr adnod gyntaf mai Duw yw Creawdwr y nef a'r ddaear. Dysgai y paganiaid dragywyddolrwydd defnydd; lleferydd cyntaf y Beibl ydyw mai Duw ydyw Creawdwr y bydoedd. Creodd bob peth yn "y dechreuad;" nid dechreuad chwe' mil o flynyddoedd, ond dechreuad pob peth creuedig, adeg genedigaeth amser. Gellir darllen yr ail adnod fel hyn:—"Ond y ddaear a ddaeth yn afluniaidd a gwag." Golyga y cyssylltiad ו (faf) *ond*, *eto*, *er hyny*, &c., yn ogystal ag "*ac*." Nid ydyw y geiriau, "afluniaidd a gwag," *tohw fafohw* (תהו ובהו), yn golygu o anghenrheidrwydd fod y ddaear yn rhyw dryblith annhrefnus o ran ei sylwedd; yn Jer. iv. 23, defnyddir hwynt i osod allan alanasdra rhyfel ar ei harwynebedd. Cyfieithiad y LXX ydyw, "A'r ddaear oedd yn anolygus ac annodrefnedig."

Gellir deall y "dyddiau" y cyfeirir atynt yn *gyfnodau* anmhennodol; megys "dydd yr iachawdwriaeth" (2 Cor. vi. 2), a "dydd" gweinidogaeth yr Arglwydd Iesu (Ioan ix. 4.) Yn Gen. ii. 4, crynhoir yr holl ddyddiau i un "dydd;" ac y mae "seithfed dydd" gorphwysfa Duw heb ddyfod i ben eto. Y mae mil o flynyddoedd gyda'r Arglwydd megys un dydd, ac un dydd megys mil o flynyddoedd (Salm xc. 4. 2 Pedr iii. 8). Os yw y "dyddiau" hyn yn y bennod gyntaf o Genesis yn golygu cyfnodau anmhennodol, mae y Beibl yn rhagflaenu y wyddor o ddaeareg, ac yn caniatau digon o amser i ffurfiad graddol y creigiau, ac ymddangosiad a diflaniad gwahanol greaduriaid y naill gyfnod ar ol y llall. Mae y gwahanol ymadroddion a ddefnyddir gan Moses yn dysgu nad oedd Duw yn cyfyngu ei hun i'r un dull o weithredu wrth greu pob math o lysiau a chreaduriaid; tra y priodolant ddechreuad bywyd i'w allu a'i ewyllys ef. Cytuna y Beibl a daeareg i osod bywyd allan fel yn ymddyrchafu o ris i ris yn ngraddfa bodolaeth —y gwahanol greaduriaid byw yn ymgodi yn uwch uwch o'r

creaduriaid ceuledig *(gelatinous animals)* ag oeddynt yn ymylu ar ddefnydd difywyd, gweddillion pa rai a geir yn y creigiau hynaf adnabyddus, y *Lower Laurentian*, hyd y creadur o ddyn, brenin y greadigaeth isod. Dengys y naill a'r llall fod dyn wedi cael ei greu yn niwedd y cyfnod yn yr hwn y crewyd anifeiliaid a bwystfilod y maes, a bod y bywyd daearol wedi cyrhaedd ei uchafnod yn y dyn, ar ol creu yr hwn y mae y Creawdwr yn gorphwyso.

Darfu i Syr Charles Lyell, yn ei waith ar "Hynafiaeth Dyn," ac yn "Elfenau Daeareg," ymdrechu dangos fod dyn yn bodoli o flaen y cyfnod hanesyddol, gan fod ei weddillion i'w cael yn gymmysgedig â gweddillion cawrfilod ac anifeiliaid, y rhai nad ydynt yn awr ar gael. Ond ni ddylai hyn siglo ein ffydd yn yr hanesiaeth ysgrythyrol, oblegyd—

(1,) Nid oes sicrwydd perffaith mai gweddillion dynol yw y rhai y cyfeirir atynt.

Gallant fod yn weddillion rhyw greadur tebyg i'r *gorilla*, gan y dywedir fod y talcen yn annaturiol o isel i fod yn eiddo dyn, tra yr oedd rhanau ereill o'r corph yn llawer cryfach nag eiddo dynion yn gyffredin.

(2,) Mewn ogofeydd, ac agenau creigiau, a dyffrynoedd, y ceir y gweddillion hyn, gan mwyaf, yr hyn a awgryma y dichon, os gweddillion dynol ydynt, mai ffoi am noddfa a wnaeth dynion i'r ogofeydd a'r agenau hyn, a cholli eu bywyd neu farw ynddynt, neu gael eu claddu o'u mewn; ac yna i'w gweddillion ymgymmysgu â gweddillion creaduriaid ereill y rhai a allent fod yno oesoedd dirif o'u blaen. Tra mewn amgylchiadau ereill y byddai i gynhyrfiadau tanddaearol chwilfriwio arwynebedd y ddaear mewn ambell i fan, a dwyn gweddillion caregog creaduriaid diflanedig i'r golwg, y rhai a gludid ymaith i'r dyffrynoedd gan lifogydd, ac a waelodid yn yr haenau dwfrbriddol *(alluvium)*, a gweddillion dyn yn gymmysgedig â hwynt. Dywed Dr. Dawson, Montreal, fod henafiaeth hanfodol y gweddillion dan sylw heb ei brofi, ac y gall nad yw yr hynaf o honynt yn hynach na chwe' mil o flynyddoedd. "Yn y graian arwynebol (ebe Proffesswr Sedgwick), yr hwn sydd yn cynnwys talpiau o geryg wedi eu symmud o bellder mawr, yr ydym yn canfod esgyrn yr elephant, yr anifail trwyngorniog, yr afonfarch, &c. &c., ac eiddo rhywogaethau *diflanedig*, yn gymmysgedig âg esgyrn anifeiliaid tethog

ag sydd yn awr yn adnabyddus; ond nid ydyw yn cynnwys un dernyn o asgwrn dynol, nac unrhyw arwydd o waith dyn." (*Pye Smith's Scripture & Geology*, pp. 296, 297, 321, Edition 1848.) "O'r deng mil rhywogaethau o anifeiliaid a gloddiwyd allan o'r creigiau islaw yr haenau dwfr-briddol (ebe Dr. Hitchcock), ni chanfyddwyd un gweddillyn o gorph dyn; a pha fodd y gellir esbonio y fath ffaith, ond ar yr ystyriaeth nad oedd dyn yn gydoeswr â hwynt?" (*Religion of Geology*, p. 74).

(3,) Gyda golwg ar ddiflaniad anifeiliaid, dichon fod mwy yn cael ei wneyd o hyny nag y caniatâ y ffeithiau. Dywed Dr. Dawson, fod amryw anifeiliaid ag sydd yn awr wedi diflanu ar gael yn Ewrop hyd gyfodiad yr ymerodraeth Rufeinig; ac, o ran dim a wyddom ni i'r gwrthwyneb, y gallai y cawrfilod a'r bwystfilod ag y cyfeiria Syr Charles Lyell atynt fodoli hyd adeg diluw y Beibl.*

Mae yr hyn a ddywedir am weddillion arfau ac offerynau dynol yr un mor anmhenderfynol, a'r casgliadau a dynir oddi wrthynt yr un mor ddisail.

Yr unig wrthdarawiad o bwys rhwng daeareg a'r Beibl (ebe Dr. Dawson), yw fod y Beibl yn dysgu creadigaeth llysiau o flaen creadigaeth anifeiliaid, tra mai y bywyd cyntaf yn llyfr daeareg yw y bywyd anifeilaidd. Ond dichon fod gweddillion hâd-lysiau a phlanhigion yn llechu yn mynwes haenau henafol y ddaear ag nad ydyw daeareg eto wedi eu darganfod; neu eu bod o natur fwy darfodedig na gweddillion cyfnodau diweddarach. Ac nid oes dim yn afresymol yn y dyb hon, gan fod y bywyd llysieuol yn rhwym o fodoli o flaen y bywyd anifeilaidd, er cynnaliaeth y cyfryw; ac nid yw daeareg eto ond gwyddor gymharol ieuanc. Mae'n bossibl fod y Beibl yn hyn, fel mewn llawer engraifft arall, yn rhagflaenu darganfyddiadau gwyddonol, ac yn awgrymu yn mha gyfeiriad y maent i'w cael.

* "Some species of animals (says the Professor of Geology in Yale College, U.S.), have become extinct since the Age of Man began, and through Man's agency. The *Dodo*, a large bird looking like an overgrown chicken in its plumage and wings, was abundant in the island of Mauritius until early in the commencement of the 18th century. The same may be said of the *Moa*, of New Zeland, and the *Aepiornis*, of Madagascar. The progress of civilization tends to restrict forests and forest-life to narrower and narrower limits....The beaver, wolf, bear, and wild-boar were formerly common in Britain, but are now wholly exterminated."—*Dr. James D. Dana's Text-Book of Geology*, p. 241.

Yn ol Dr. Zockler, cawn fod awgrymiad a dysgwyliad Dr. Dawson wedi cael eu gwireddu a'u sylweddoli trwy ddarganfyddiadau diweddar yn Sweden a Bohemia o dalpiau anferth o fôr-lysiau wedi eu maeneiddio *(petrified)* yn nghanol haenau hynaf y creigiau cloddelddwyn *(fossiliferous)*, yr hyn a brofa (eb efe), fod y deyrnas lysieuol wedi cael ei bodolaeth o flaen yr un anifeilaidd. (Gwel *Dickinson's Theological Quarterly*, vol. i. p. 16; vol. iv. pp. 321—339; *The Bible and Science*, by J. W. Dawson, LL. D.; *Scripture and Geology*, by Dr. Pye Smith; *The Antiquity of Man*, by S. R. Pattison, F. G. S.; *The Religion of Geology*, by Dr. Hitchcock.)

NODIAD I.—*Henafiaeth y ddaear.*

Profir henafiaeth dirfawr y ddaear â'r ystyriaethau canlynol:—

1. *Tewder y creigiau haenedig (stratified rocks).*

Ffurfiwyd y rhai hyn yn raddol,—trwy fod tywod, llaid, a graian yn gwaelodi mewn dwfr. Ffurfir creigiau cyffelyb iddynt yn awr yn ngwaelod y môr, trwy fod y tonau yn treulio y glanau, a'r môr-lifogydd a'r afonydd yn cludo pridd a llaid i'r môr, yr hyn a waeloda yn y dyfnder. Tua throedfedd o graig mewn can' mlynedd a ffurfir yn awr yn y dull hwn, neu tua thrigain troedfedd mewn chwe' mil o flynyddoedd. Yr ydys yn adnabyddus â'r creigiau haenedig, yn y naill ffordd a'r llall, am tua deng milltir o drwch. Os ydyw yn rhesymol casglu, fel y gwna Dr. Pye Smith a daearegwyr enwog ereill, fod y creigiau haenedig wedi cymmeryd amser cyffelyb yn eu ffurfiad i'r hyn a gymmer creigiau o'r un natur yn awr, fe fuont am filiynau o flynyddau yn dyfod i'w tewder a'u ffurf bresennol. Tybier fod can' troedfedd o ddefnydd wedi cael ei waelodi a'i ffurfio yn graig fel hyn yn ngwaelod y môr yn ystod y chwe' mil blynyddoedd diweddaf, buasai yn cymmeryd yn ol y cyfartaledd hwn 3,168,000 o flynyddau i ffurfio y creigiau haenedig am y trwch o ddeng milltir.

Ond os na ellir ffurfio meddylddrych am amser ffurfiad y creigiau hyn oddiwrth yr hyn sydd yn cymmeryd lle yn awr, fel y dadleua Dr. Zockler (Dickinson's *Theological Quarterly*, vol. i. pp. 10—17), mae yn amlwg oddiwrth agwedd yr haenau fod eu ffurfiad yn cymmeryd lle gyda'r arafwch mwyaf, a bod eu twf i'w maintioli a'u ffurf bresennol wedi cymmeryd amser anhygoel.

Cofier hefyd fod y creigiau haenedig wedi cael eu ffurfio o falurion creigiau ereill. Cymmerodd y creigiau hyny eu hunain oesau dirif yn eu ffurfiad; drylliwyd hwynt drachefn; cludwyd y darnau yn ol ac yn mlaen gan y dyfroedd nes yr aethant yn grynion; yna gwaelodasant mewn llaid, a daethant yn rhanau o'r creigiau haenaidd dan sylw.

Cyfeirir yn mhellach at waith dwfr yn treulio y graig fel prawf o henafiaeth annirnadwy y ddaear. Dywedir fod y Niagara yn treulio y graig

islaw y dyfrgwymp yn ol y cyfartaledd o droedfedd mewn blwyddyn; cymmerai felly dros 30,000 o flynyddau i ffurfio y ceunant sydd yn y graig yn bresennol: tra yn ol y cyfartaledd o fodfedd yn y flwyddyn, yr hyn yn ol rhai daearegwyr sydd gywirach, fe gymmerai yn agos i 380,000 o flynyddau i'w ffurfio.

2. *Gweddillion llysiau ac anifeiliaid yn y creigiau haenedig.*

Dywedir fod gweddillion yn agos i 30,000 o wahanol rywogaethau o greaduriaid wedi cael eu darganfod yn mynwes y creigiau haenedig trwy y trwch o ddeng milltir, y rhai a fodolent cyn ac yn amser ffurfiad y creigiau. Mae y gweddillion hyn hefyd yn dynodi gweddillion gwahanol gyfnodau, wedi eu lleoli yn haenau pob cyfnod, ac nid gweddillion yr holl gyfnodau wedi eu gwasgaru yma a thraw yn annhrefnus. Ceir gweddillion creaduriaid un cyfnod mewn un dosparth o haenau, a chreaduriaid cyfnodau ereill mewn haenau gwahanol. Rhaid fod y cyfnodau hyn o fywyd o barhad hirfaith, gan nad oes ond ychydig o gyfnewidiad wedi cymmeryd lle yn rhywogaethau creaduriaid y ddaear yn ystod y chwe' mil blynyddoedd diweddaf.

3. *Darganfyddiadau Seryddol.*

Dengys y pellwelyr *(telescope)* bellder annrhaethol y sêr, a thrwy hyny henafiaeth y bydysawd. Ystyrir fod goleuni yn teithio 192,000 milltir mewn eiliad, a'i fod yn cymmeryd deng mlynedd i gyrhaedd y ddaear o un o'r sêr sefydlog agosaf; ond fe gymmerai, yn ol cyfrif Syr W. Herschell, yn agos i ddwy filiwn o flynyddau iddo deithio i'r ddaear o un o sêr y sêr-luoedd pellaf! Os crewyd y ddaear yr un pryd a'r nef serenog, fel y dysga Gen. i. 1, dengys seryddiaeth fod y ddaear o leiaf yn ddwy filiwn o flynyddau o oedran.

Er na ellir gwybod rhifedi blynyddoedd y ddaear, mae yn hollol eglur fod ei henafiaeth yn aruthrol, ac yn ddigon i'n brawychu wrth geisio plymio ei ddyfnderoedd. Ond gan nad beth yw oedran y ddaear, yn ymyl tragywyddolrwydd Duw, nid ydyw ond megys munyd awr! Salm xc. 2. (Gwel *Dr. Gloag's Primeval World*, chap. ii.; *Dr. Pye Smiths' Scripture and Geology*, Lectures ii. & iii., and *Supplementary Notes; Dr. Dana's Text-Book of Geology*, pp. 244, 245.)

Nodiad II.—*Creadigaeth a Dadblygiad.*

Mae rhai awdwyr, megys Lamarck yn Ffrainc, a Darwin yn Lloegr, yn dysgu dadblygiad y naill rywogaeth o greaduriaid o'r llall, yn hytrach na chyfryngiad uniongyrchol y Creawdwr yn nygiad pob rhywogaeth i fodolaeth. Yn ol y dyb o ddadblygiad fe gynnysgaethwyd rhyw fân ronynau a ystyria coleddwyr y dyb hon yn wreiddiau bodolaeth â bywyd, trwy ryw ffordd anhysbys i ni;—gan y Creawdwr, ebe Darwin, gan fath o enyniad yr elfenau, yn ol ereill. Darfu i'r bywyd cyntefig hwn ymddadblygu i fywyd uwch, a'r gronynau gynnyddu mewn nifer a maintioli; o

radd i radd fe ymddadblygodd y meddalogion i bysgod, a physgod i ymlusgiaid, ac ymlusgiaid i dethogion; ac felly yn mlaen, hyd nes yr ymddangosodd preswylyddion presennol y ddaear; gan derfynu gyda dyn, yr hwn a ymddadblygodd ar ryw foreu-ddydd o fod yn epa blewog mewn coedwig, i'r creadur hardd ag sydd yn llywodraethu y byd!

Mae amryw o ystyriaethau yn dangos gwendid y ddamcaniaeth hon:—

1. *Nid oes un engraifft erioed wedi ei chael o'r dadblygiad dan sylw.*

Dychymmyg yw y cyfan. Ni welodd neb erioed bysgodyn wedi dyfod yn anifail, neu epa wedi dyfod yn ddyn.

2. *Nid oes un arwydd o ddadblygiad yn y gweddillion creigiol.*

Yr oedd pysgod y cyfnod cyntefig mor gywrain eu gwneuthuriad a physgod yr oes hon. Yr oedd ymlusgiaid y cyfnodau daearegol yn rhagori ar ymlusgiaid presennol y ddaear. Yn hytrach nag arwyddion o ddadblygiad i raddau perffeithiach, dengys daeareg fod creaduriaid cyfnodau daearegol yn berffaith yn ol eu rhyw, ac os oes gwahaniaeth yn bod, fod y rhai cyntefig yn rhagori ar y rhywogaethau presennol.

3. *Awgryma Daeareg ddechreuad bodolaeth newydd ar wawriad y gwahanol gyfnodau.*

Dysga fod y cyfnewidiadau a gymmerasant le yn arwynebedd y ddaear ar adeg ffurfiad y creigiau, trwy chwyldroadau tanddaearol yn peri i'r sychdir suddo i fod yn waelod môr, ac i waelod y môr fod yn sychdir, ac achosion ereill,—wedi achosi dinystr a diflaniad creaduriaid rhai cyfnodau, a galw am gyfryngiad uniongyrchol Duw i ail-lenwi y ddaear â phreswylyddion newyddion.

4. *Mae damcaniaeth dadblygiad yn groes i'r Beibl.*

(*a*,) Priodola y Beibl ddechreuad bywyd a chreadigaeth dyn i gyfryngiad uniongyrchol Duw; ond alltudia hon Dduw oddiwrth waith ei ddwylaw (Gen. i. 1, 21, 26, ii. 7. Act. xvii. 25—28. Heb. xi. 3).

(*b*,) Desgrifia y Beibl ddyn wedi syrthio a dirywio, ac mewn angen iachawdwriaeth; yn ol hon, mae dyn yn ddadblygiad o berffeithrwydd, ac ni wyr am ddirywiad.

(*c*,) Annghydnabydda hon fodolaeth gyfansawdd dyn fel un yn meddu corph ac enaid, a chaua ei llygad ar ei anfarwoldeb.

Nis gallwn gofleidio y ddamcaniaeth hon a chredu y Beibl yr un pryd; rhaid i'r naill roddi ffordd i'r llall. Iaith doethineb yw, "Bydded Duw yn eirwir," hyd y nod pe yr ymddangosai hyny i wneyd "pob dyn yn gelwyddog!" Rhuf. iii. 4. (Gwel *Dr. Dana's Text-Book of Geology*, pp. 93, 255—260; *Dr. Gloag's Primeval World*, chap. iii.)

2. *Daearyddiaeth y Beibl ac arwynebedd presennol y ddaear.*

"Ac afon a aeth allan o Eden, i ddyfrhau yr ardd, ac oddi yno hi a ranwyd, ac a aeth yn bedwar pen," sef Pison, Gihon, Hidecel (Tigris), a'r Euphrates. (Gen. ii. 10—14.) Dywedir nad oes un man adnabyddus ag sydd yn ateb i'r desgrifiad hwn. Mae'n bossibl i hyny fod, ac eto i'r desgrifiad hwn fod yn wirionedd. Pwy a wyr pa faint o gyfnewidiadau a effeithiodd y diluw a daeargrynfeydd oesoedd ar arwynebedd y ddaear yn y parthau crybwylledig? Mae cyfnewidiadau mawrion yn rhediad afonydd wedi cymmeryd lle yn ystod yr oes hon, fel y dengys yr engreifftiau canlynol:—Yn y *Morning Star*, am Ionawr 11eg, 1869, ceir y *telegram* ganlynol:—

"Switzerland, Berne, Ion. 10fed,—Mae tir-lithriadau anferth wedi cymmeryd lle yn Ragatz, yn nghantref St. Gall, y rhai sydd wedi llwyr gau i fyny y dyffryn, ac fel hyn wedi attal llifiad yr afon Tamina, a ffurfio llyn mawr."

Ceir a ganlyn hefyd yn y *National Baptist*, Philadelphia, U.S., am Mawrth 18fed, 1869:—

"Darfu i'r Hwangho, un o'r afonydd mwyaf yn China, yn ddiweddar newid neu y mae yn awr yn newid ei haber, ac y mae yn bresennol yn disgyn i'r môr mewn lle ag sydd bum' can' milltir i'r Gogledd o'i disgynfa ddiweddar. Darfu i'r Dr. Martin, un o athrawon y brif athrofa newydd yn Pekin, yn ddiweddar rodio yn droedsych dros y fan lle y gorweddai afonlongau *(junks)* Arglwydd Amherst, pan oedd y brodorion yn llosgi arogldarth er sicrhau mordaith lwyddiannus. Ymddengys fod lle i gredu nad yw yr afon yn y gwyriad hwn ond dychwelyd i wely i'r ochr Ogleddol i ucheldiroedd Shantung ar hyd pa un y rhedasai o'r blaen; ac yn ol cofnodion Chiniaidd, darfu iddi droiau newid ei rhedle, weithiau yn disgyn i'r môr trwy wahanol aberoedd, bryd arall trwy un yn unig."

Gellid dwyn yn mlaen engreifftiau ereill o gyffelyb natur; ond gwasanaetha y rhai hyn i ddangos y gall y desgrifiad yn Gen. ii. fod yn gywir am bethau fel yr oeddynt ar y cyntaf, er nad ydyw yn ddesgrifiad cywir o arwynebedd y ddaear fel y mae yn bresennol yn y parthau hyny o'r byd.

Mae hanes temtiad Crist hefyd yn cynnwys anhawsdra, gan y dywedir i Satan ddangos iddo holl deyrnasoedd y byd (Mat. iv. 8). Dichon mai yr ymerodraeth Rufeinig a olygir wrth y

gair "byd" (cymharer Luc ii. 1. Act. xi. 28), ac mai y mân deyrnasoedd o amgylch Canaan, y rhai oeddynt o dan deyrnged i Cæsar, a olygir wrth y teyrnasoedd crybwylledig. (Luc iii. 1.) Gellid gweled amryw o'r rhai hyn o ben un o fynyddau Palestina neu rai o'r gwledydd cyfagos. (Deut. xxxiv. 1.) Mae gwrthddrychau i'w gweled yn eglur yn Nghanaan a'r Dwyrain o bellafoedd anhygoel i ni yn y wlad hon, a siomir teithwyr yn ddirfawr gan bellder mawr lleoedd a ymddengys yn ymyl. Maent bron fel yr hud-ddwfr *(mirage)*, yn ymddangos fel pe yn cadw yr un pellder oddiwrthynt o hyd. (Gwel *Dr. Thomson's Land and the Book*, pp. 19, 20; *Dr. Robinson's Physical Geography of the Holy Land*, p. 281; a *Dr. Barclay's City of the Great King*, p. 414.)

Neu fe allai mai dangos trwy ddesgrifio a olygir; neu trwy gyfeirio atynt â'i law, fel y dywed Polybius fod Hannibal wedi dangos Rhufain i'w fyddin o ben yr Alpau, pryd nad oedd yn wyddfodol i'r llygad.

Gan fod y cyfan wedi cymmeryd lle yn ol Luc "mewn munyd awr" (Luc iv. 5), mae'n bossibl mai math o gylch-arlunfa *(panorama)* o deyrnasoedd y byd, wedi ei thynu ar yr awyr-gylch, a ddangosodd Satan i'r Iesu. Gall dynion wneyd peth cyffelyb ar raddfa fechan, fel y profa golygfeydd y cuddwelyr *(camera obscura)*; a diau fod Satan, tywysog llywodraeth yr awyr, yn deall natur a deddfau yr elfenau yn well na dynion, ac y gallasai efe gynnyrchu cylcholygfa ysblenydd o wledydd a threfi a phorthladdoedd y ddaear yn gywir fel yr oeddynt, i'r dyben i geisio codi awydd yn mynwes yr Iesu i'w meddiannu. (Cymharer Job i. 16, 18.) I'w gynnorthwyo yn y demtasiwn, byddai cymmeryd yr Iesu i fynydd uchel yn fanteisiol, er ceisio peri iddo feddwl ei fod yn cael golwg ar y gwledydd eu hunain.

3. *Eangder terfynau y Diluw.*

Gosodir y diluw allan yn y Beibl fel gwyrth. Dygwyd ef oddiamgylch gan achosion naturiol yn cael eu dwyn i weithrediad mewn modd gwyrthiol (Gen. vii. 11, 12). Yr oedd eu dwyn i weithrediad ar yr amser ac am y cyfnod a nodasid, ac i ateb dyben arbenig, yn wyrthiol (Gen. vii. 4). Er mai dros ddeugain niwrnod a deugain nos y parhaodd y gwlaw llifeiriol, eto fe barhaodd y dyfroedd i godi ac ymchwyddo am 150 o

ddyddiau, hyd nes y cyfodasant tua 23 troedfedd uwchlaw y mynyddau uchaf (Gen. vii. 24). Fe rwygwyd cronfaoedd y dyfnder mawr (Heb. *tehom*, y môr), a berwodd y dyfroedd a lechent yn ffynnonau cuddiedig y ddaear allan, nes peri i'r môr chwyddo a llamu dros ei derfynau, ac i'r afonydd godi, a gorchuddio yr holl wledydd.

Mae y pwnc o *gyffredinolrwydd y diluw* wedi achosi anhawsdra i lawer; ond nid yw yr Ysgrythyrau o angheurheidrwydd yn galw am i ni ei ystyried fel wedi amgylchu yr holl belen ddaearol, *ond yn unig y rhanau a breswylid gan ddyn.* Dinystrio dyn oedd yr amcan, ac yr oedd y diluw yn cyrhaedd i bob man lle yr oedd dyn yn trigiannu. Dwg y diweddar Ddr. Pye Smith y rhesymau canlynol yn mlaen dros y dyb nad oedd y diluw yn fwy cyffredinol na phreswylfa plant dynion:—

(1,) Y gellir deall ymadroddion y Beibl am ei gyffredinolrwydd mewn ystyr gyfyngedig. Cymharer Gen. xli. 57. Deut. ii. 25. 1 Bren. x. 24. Col. i. 23, lle y rhaid deall y fath ymadroddion a'r "holl ddaear," a'r cyffelyb, am wledydd cymmydogaethol.

(2,) Mae yn amheus a fuasai yr arch yn ddigon eang i gynnwys cynnrychiolwyr pob math o greaduriaid. Er fod yr arch tua 525 troedfedd o hyd, 87 troedfedd o led, ac yn 52 troedfedd a 6 modfedd o uchder, eto ni fuasai yn gallu cynnwys dau o bob creadur a fuasent yn cael eu dinystrio pe buasai y diluw yn gyffredinol. Dywedir fod yr amrywiaethau canlynol yn y byd:—

| (Enwau) | (Rhywogaethau) |
|---|---|
| *Tethogion (mammalia)* | o 1,000 i 2,000. |
| *Ymlusgiaid*, neu anifeiliad dwy-elfenol | 1,500. |
| *Trychfilod* | miloedd o filoedd. |

Heb son am yr anhawsdra i gasglu y rhai hyn i gyd o bob gwlad a hinsawdd at Noah.

(3,) Mae yn Ffrainc, yn mharthau Auvergne a Languedoc, domenau o ludw o fynyddau tanllyd hŷn na'r diluw, y rhai na allasent wrthsefyll dylanwad dwfr y diluw pe buasai yn eu gorchuddio.

(4,) Mae llawer o rywogaethau o bysgod y rhai na allant fyw mewn dwfr hallt, ac ereill na allant fyw mewn dwfr croyw; ac ystyrir y buasai cymmysgiad y dyfroedd mewn diluw cyffredinol yn ddinystr iddynt.

(5,) Ni wnaeth Duw erioed gyflawni gwyrthiau dianghenrhaid.

Dywed Dr. Pye Smith na wnelai dyfroedd y byd guddio yr holl ddaear ond i'r dyfnder o tua saith modfedd. Byddai eisieu llu o wyrthiau i attegu y syniad o ddiluw cyffredinol, y rhai nad oes genym hawl i gredu yn eu bodolaeth heb brawf. Fel gwyrth yn wir y mae y Beibl yn desgrifio y diluw; ond yr oedd ei ddyben yn cael ei ateb os oedd mor gyffredinol a dyn yr hwn oedd wedi cyffroi dialedd ei Arglwydd.

(Gwel *Dr. Pye Smith's Scripture and Geology*, Lectures iv. & v.

4. Mae *dyeithrwch y pethau a gofnodir yn y Beibl i ni*, a'u *annghyffredinolrwydd*, yn peri i ni deimlo anhawsdra gyda hwynt.

(1,) Gwaith Moses a'r Lefiaid yn annerch holl Israel. (Deut. xxvii. 1, 9—14. Jos. viii. 33—35.) Yr anhawsdra a deimlir yma ydyw, pa fodd y gallai Moses a'r Lefiaid lefaru yn ddigon uchel i'r bobl allu eu clywed. Mae Colenso wedi ymhyfhau yn fawr uwchben yr anhawsdra hwn. Dichon na olygir fod Moses wedi gwneyd yr hyn a briodolir iddo yn bersonol, ond trwy gymhorth henuriaid Israel; mae'n bossibl hefyd nad ydyw y geiriau "holl Israel" yn golygu holl unigolion y genedl, ond eu cynnrychiolwyr o bob llwyth, adran, a theulu, gan fod y geiriau "oll" a "phawb" yn y Beibl yn sefyll weithiau am "lawer," neu y mwyafrif; ond nid oedd yn anmhossibl iddo allu eu cyfarch oll, fel y dengys y llinnellau canlynol.

Mae yn amlwg oddiwrth yr hanes fod yr holl bobl yn yr ystyr lythyrenol yn gwrando y bendithion a'r melldithion, oddiar lethrau mynyddau Ebal a Gerazim. Nid ydyw gwaelod y dyffryn rhwng y ddau hyn ond yr wythfed ran o filltir *(a furlong)*, neu ddau gant ac ugain o latheni o led, ebe Maundrell (*Journey from Aleppo to Jerusalem*, March 24th,

p. 53);* yr oedd y bobl wedi eu trefnu ar lechweddau y ddau fynydd, a'r Lefiaid yn y canol yn darllen neu gyhoeddi y ddeddf â *llef uchel* (Deut. xxvii. 14. Jos. viii. 33); a'r fath oedd y dystawrwydd yn y dyffryn, a threiddgarwch lleisiau y Lefiaid trwy awyrgylch deneu Palestina, fel y clywai y gynnulleidfa anferth yr holl ymadroddion Dwyfol. Clywsom deithwyr yn tystio eu bod hwy wedi bod yn sefyll ar un mynydd, ac yn ymddyddan oddi arno â dynion a safent ar y mynydd arall. Dywed Dr. Thomson mai peth hawdd i Jotham oedd annerch y bobl yn y dyffryn oddiar glogwyni Gerazim (Barn. ix. 7), fel y gwyr pawb ag sydd wedi clywed y *public crier* yn mhentrefi Libanus. Darfu iddo ef ei hun floeddio oddiar y dyffryn er clywed ei lais yn adseinio yn y mynyddau o bob tu, a gwireddu y dystiolaeth ysgrythyrol. "Yn wir," ychwanega Dr. Thomson (*The Land and the Book*, pp. 473, 474), "y mae y bobl yn y parthau mynyddig hyn yn alluog, o herwydd hir ymarferiad, i godi eu llais i'r fath raddau ag i gael eu clywed yn eglur o bellafoedd braidd anhygoel. Ymddyddanant â phersonau dros geunentydd anferth, a rhoddant y cyfarwyddiadau mwyaf manwl, y rhai a ddeallir yn berffaith; ac wrth wneyd hyn nid ymddangosant i lefaru ond ychydig iawn uwch nag yn eu hymddyddanion cyffredin."

"Y mae rhywbeth," ebe Dr. Hackett (*Illustration of Scripture*, p. 198), wrth gyfeirio at y pwnc dan sylw, "yn awyrgylch ystwyth (*elastic*) hinsawdd Ddwyreiniol ag sydd yn peri iddi drosglwyddo sŵn gyda chyflymdra ac eglurdeb synfawr."

Nid oes neb ag sydd yn adnabyddus â'r parthau lle y cymmerodd hyn le yn amheu possibilrwydd yr hyn a adroddir yn y Beibl. Gwel hefyd *Dr. Robinson's Physical Geography of the Holy Land*, p. 33.

(2,) Attaliad yr haul yn ei yrfa yn ol gweddi Josua. (Jos. x. 12—14.) Pan oedd Josua wedi bod am oriau yn ymladd, ac yn pryderu rhag ofn i'r nos ei oddiweddyd cyn iddo lwyr

* Ystyria Dr. Robinson, modd bynag, fod y dyffryn yn lletach na hyn :—"The valley itself, from the foot of Gerizim to that of Ebal, is here not more than some five hundred yards wide, extending from S.E. to N. W." (*Bibl. Researches*, vol. iii. p. 96.) Dichon nad am yr un man yn hollol y sonia efe a Maundrell, neu fod gwaelod y dyffryn, yn ol Robinson, yn dringo yn uwch i'w lethrau nag y golygai Maundrell iddo wneyd yn ol ei fesuriad ef.

ddarostwng y gelynion, y mae yn anfon gweddi hyderus at Dduw am i'r haul a'r lleuad beidio prysuro yn eu gyrfa. Mae Duw yn caniatâu ei gais. Cafodd y dydd ei estyn yn agos i ddiwrnod, ac ymsymmudai yr haul yn araf tua'i wely hwyrol yn mynwes Môr y Canoldir; a chofnodwyd y wyrth yn llyfr Jaser—yn mhlith caniadau gwladgarol y genedl Israelaidd, ac yn mysg oraclau Duw. Dyna yr hanes. Dywed amheuwyr ei fod yn anhygoel, gan y buasai attal y ddaear yn ei chylchdro yn dinystrio mewn eiliad y coedwigoedd a'r llysiau, a holl gynnyrch celfyddyd yn mhob man, ac yn hyrddio y ddaear ei hun a'r lleuad o'u cylchlwybrau. Ond mae'r gwrthddadleuwr yn anghofio mai gwrandawr gweddi Josua oedd Creawdwr a Chynnaliwr y ddaear, ac y gallasai efe beri i'r ddaear arafu yn ei chylchdro heb i ddim gael niwaid, a thrwy hyny beri i'r haul ymddangos fe pe buasai yn sefyll yn y nefoedd, ac nid prysuro fel ar ddyddiau ereill i fachlud.

Fel gwyrth mae y Beibl yn gosod hyn allan; ac nid oes mwy o anhawsdra yn nglyn â'r hanes nag â hanes agoriad y Môr Coch, neu doriad ymaith ddyfroedd yr Iorddonen, oblegyd yr un peth oedd y naill a'r llall i Dduw, ac yr oedd y naill a'r llall yn anmhossibl i ddyn. Cofier hefyd ein bod i esbonio hanes Israel yn ngoleuni iachawdwriaeth y byd; yr oedd eu lleoliad yn Nghanaan yn parotoi y ffordd i Fab Duw wneyd ei ymddangosiad er dwyn oddi amgylch iachawdwriaeth i'r holl ddaear. Oddi eithr i ni gofio hyn, mae yn anhawdd cyfrif am y fath urddas a phwysigrwydd ag a roddir ar symmudiadau Israel.

Mae rhai beirniaid yn awgrymu esboniad arall, sef fod Duw wedi dylanwadu ar yr awyrgylch fel ag i beri i'r haul ymddangos uwchlaw y terfyngylch am amser hir ar ol adeg ei fachludiad, a bod o'r un gwasanaeth i Israel a phe buasai cylchdro y ddaear wedi cael ei arafu am amryw oriau. Barned y darllenydd drosto ei hun. Mae yn amlwg, beth bynag, fod yr hanesydd yn cofnodi yr amgylchiad fel gwyrth, ac nid oes unrhyw esboniad ag sydd yn gwadu hyny yn rhoddi cyfrif teg o'r hanes.

(3,) Adduned Jephthah. (Barn. xi. 29—40.) Yn ei bryder i orchfygu meibion Ammon, a'i deimlad o ymddibyniaeth ar Dduw, y mae Jephthah yn gwneyd yr adduned ddifrifol ganlynol:—" Os gan roddi y rhoddi di feibion Ammon yn fy llaw

i; yna yr hwn a ddelo allan o ddrysau fy nhŷ i'm cyfarfod, pan ddychwelwyf mewn heddwch oddiwrth feibion Ammon, a fydd eiddo yr Arglwydd, a mi a'i hoffrymaf ef yn boethoffrwm." Ni oddef ein terfynau i ni olrhain yr holl olygiadau a goleddir ar y geiriau hyn, a'r rhesymau drostynt ac yn eu herbyn: dodwn ger bron y darllenydd mewn ychydig eiriau yr hyn a ymddengys i ni i fod y gwirionedd. Yn gyntaf oll, gosodwn gyfieithiad diwygiedig o'r adduned o flaen y darllenydd, yr hwn a fabwysiedir gan amryw feirniaid:—"Yna yr hyn a ddelo allan o ddrysau fy nhŷ, pan ddychwelwyf mewn heddwch oddiwrth feibion Ammon, naill ai efe a fydd yn eiddo yr Arglwydd, neu mi a'i hoffrymaf ef yn boethoffrwm." Pe buasai bôd dynol (un o'i gaethweision neu ryw un arall) yn ei gyfarfod, yr oedd i fod yn eiddo yr Arglwydd, i gael ei gyssegru i wasanaeth y cyssegr am ei oes; ond pe buasai yr anifail goreu yn ei feddiant yn dyfod allan o byrth ei breswylfod i'w gyfarfod * pan y dychwelai, yr oedd i gael ei offrymu yn boeth-offrwm; ond er mai ei ferch a'i unig blentyn a'i cyfarfyddodd, teimlai nad allai dynu ei adduned yn ol, ond fod yn rhaid iddo ei hoffrymu yn aberth byw i Jehofah. Ymddengys mai hyn ydyw y syniad priodol, o herwydd y rhesymau canlynol:—

1. Yr oedd aberthau dynol yn ffieidd-dra yn ngolwg Duw: gwel Deut. xii. 30, 31, xviii. 10. Lef. xviii. 21. Salm cvi. 36—38. Nis gellir tybied i Jephthah, yr hwn oedd yn ddyn pwyllog, meddylgar, ac ystyriol, fel y dengys ei gyflafareddiad â brenin yr Ammoniaid, a'r hwn oedd hefyd o dan ddylanwad Ysbryd Duw, wneyd adduned fyrbwyll i offrymu pa greadur bynag a'i cyfarfyddai yn boeth-offrwm; gallasai creadur annghyfaddas i'w offrymu ei gyfarfod, megys ci neu gamel, neu fôd dynol; buasai offrymu y cyfryw yn groes i orchymyn pendant Duw; mae yn ymddangos yn rhesymol, gan hyny, i ystyried fod Jephthah wedi gwneyd adduned yn y dull a awgrymwyd. Os bôd dynol a'i cyfarfyddai, yr oedd i fod yn eiddo yr Arglwydd trwy gael ei neillduo am ei oes i wasanaeth y cyssegr; os creadur annghyfaddas i fod yn aberth a ddeuai

* Dywedir nad ydyw yr ymadrodd, "myned allan i gyfarfod," yn cael ei ddefnyddio ond mewn cyssylltiad â bodau rhesymol; ond gellir ei ddeall am anifail hefyd yn ol y ffugyr grammadegol a elwir *Zeugma*: gwel *Stuart's Hebrew Grammar*, § 567.

i'w gyfarfod, buasai yn offrymu creadur glân yn ei le yn boeth-offrwm, ac felly ei brynu, yn ol Exod xiii. 13. Lef. xxvii. 11—13; ond os creadur glân a'i cyfarfyddai, yr oedd i offrymu hwnw ei hunan yn boeth-offrwm i'r Arglwydd. (Lef. xxvii. 9, 10.)

Nid oes grym yn yr wrthddadl y buasai addunedu buwch neu ddafad yn annheilwng o'r amgylchiad, ac yn adduned rhy ddistadl, oblegyd nid ar *werth* yr adduned yr oedd Duw yn edrych, ond ar *galon* yr addunedwr. Dichon nad oedd gan Jephthah laweroedd o anifeiliaid fel ag i addunedu canych-aberth *(hecatomb)*, fel yr awgryma rhai doethion y dylasai wneyd os oedd yn cyfeirio o gwbl at aberthiad anifail yn boeth-offrwm.

2. Yr oedd cyssegriad neu ymgyssegriad dynion i wasanaeth y cyssegr yn beth cyfreithlon, ac o dan rai amgylchiadau yn gymmeradwy. Darllener Lef. xvii. 1—8. Num. vi. 1—21. Exod. xxxviii. 8. 1 Sam. i. 11, 24—28, ii. 22.

Golyga y ferf *tsaba* (צבא) yr hon a gyfieithir "*ymgasglu yn finteioedd*" yn Exod. xxxviii. 8, a 1 Sam. ii. 22, *myned allan i wasanaeth y tabernacl* neu y *deml*, fel math o fyddin gyssegredig, a chyfeirir, mae'n debygol, at rai wedi ymgyssegru dros eu bywyd i wasanaeth Duw yn y dull hwn: gwel Num. iv. 23, viii. 24, lle y ceir yr un ferf. Gwnelai y dynion waith priodol i ddynion, megys cludo beichiau, gwylio, &c., a'r merched y gwaith priodol iddynt hwythau, megys golchi, glanhau, gwnïo, &c., yn ogystal a dysgwyl wrth yr Arglwydd mewn gweddi, a myfyrio yn ei gyfraith. Cymharer Num. iv. 1 Sam. ii. 13—16, 18, iii. 1. Luc ii. 37.

3. Ni sonir fod merch Jephthah wedi cael ei rhoddi i farwolaeth, ond yn hytrach i fywyd o forwyndod. Galar o herwydd ei morwyndod oedd ei galar; a dywedir fod Jephthah wedi cyflawni ei adduned gyda golwg arni hi, ac ychwanegir, "a hi nid adnabuasai ŵr," neu "a hi nid adnabyddodd ŵr,"—yr hyn a fuasai yn berffaith ddiystyr pe buasai wedi ei rhoddi i farwolaeth, ond yr hyn a ddysgwylid yn naturiol ar y dyb ei bod wedi ei diofrydu i fywyd o forwyndod. Dywedir fod merched Israel bob blwyddyn yn cadw gwyl * er mawrygu merch

* Barn. xi. 40. Nid "galaru" ydyw ystyr y ferf *tanah* (תנה) ond *rhoddi anrhegion* (Hos. viii. 10, "cyflogi"); *mawrygu, canmol, clodfori.* (Barn. v. 11.) Gwel y Geiriaduron Hebraeg.

Jephthah o herwydd ei hymgyssegriad gwirfoddol i Dduw yn ol adduned ei thad.

4. Gellir cyfrif am alar Jephthah ar ol ei ferch, ar yr ystyriaeth ei bod ei unig blentyn, ac o herwydd y byddai cyflawniad yr adduned yn ei amddifadu ef a hithau o hiliogaeth. Yr oedd cael hiliogaeth yn destyn llawenydd, ac yn goron o anrhydedd yn Israel (1 Sam. i. 11); yn neillduol fel yr oedd y prophwydoliaethau am y Gwaredwr yn dyfod yn fwy eglur, gan fod dysgwyliad am y Messiah i wneyd ei ymddangosiad yn eu plith: ond ymostyngodd merch Jephthah yn dawel i gyflwni adduned ei thad.*

Pa farn bynag a goleddir, nid yw y Beibl ond cofnodi yr amgylchiad fel ffaith hanesyddol, fel amryw ffeithiau ereill, heb roddi barn gymmeradwyol arno.

(4,) Gwallgofrwydd Nebuchodonosor. Dywedir fod hanes gwallgofrwydd Nebuchodonosor yn cynnwys amryw bethau ag sydd yn annhebyg iawn i wirionedd, os nad yn anmhossibl. Dywedir ei fod yn anhygoel fod dyn ag oedd wedi arfer â moethau y palas yn pori gwellt, a byw yn yr awyr agored am saith mlynedd; ac na fuasai ei deulu a'i weinidogion byth yn goddef y fath beth. Neu pe buasai hyn wedi cymmeryd lle, na fuasent byth yn cadw ei orsedd iddo, ac na allesid ei chadw tra y byddai cynnifer o ddynion uchelgeisiol yn sychedu am yr anrhydedd o eistedd arni. Mewn atebiad i hyn, nodwn,—

1. Nad ydyw y gair Caldeaeg, *idan*, yr hwn a gyfieithir *amser* (Dan. iv. 16, 23, 25, 32), o anghenrheidrwydd yn golygu *blwyddyn*, ond unrhyw gyfnod o amser, megys *diwrnod neillduol*, neu *fis;* ac felly gall " saith amser" olygu *saith mis*, fel y tybia Dr. Pye Smith, neu (gan fod y Dwyreinwyr yn arfer dosbarthu y flwyddyn i chwe' chyfnod o'r un hyd), *bedwar mis ar ddeg*, fel y barna Dr. Jahn. Dengys yr hanes fod gwallgofrwydd Nebuchodonosor wedi cymmeryd lle ar ol ei fuddygoliaethau, a'i waith yn defnyddio ei ysbail oddiar deyrnasoedd ereill i helaethu, cadarnhau, ac addurno ei brif ddinas a'i balas (Dan. iv. 30); a bernir fod hyn wedi cymmeryd lle tua'r

* Gall y darllenydd a ewyllysia chwilio y pwnc yn mhellach weled ymchwiliad i'r gwahanol farnau ar adduned Jephthah yn *Dr. Jennings's Jewish Antiquities; The Christian Review*, July, 1862, ac yn y gwahanol Esboniadau a'r Geiriaduron Duwinyddol.

ddeugeinfed flwyddyn, neu yr unfed a deugain o'i deyrnasiad, ac iddo farw yn y drydedd a deugain o'i deyrnasiad, fel nas gallai ei wallgofrwydd barhau yn hwy na thua blwyddyn.

2. Mae'n debyg i Nebuchodonosor yn ei wallgofrwydd dybied fod bradwriaeth yn ei erbyn i'w ladd, ac iddo ymdrechu celu ei hun oddiwrth bawb; wrth iddo gael ei wylio, yr oedd ei argyhoeddiad yn cryfhau fod y bobl am ei ladd; parai hyn iddo chwilio am gyfleusdra i ffoi, a darfu iddo o'r diwedd lwyddo i ddianc ac ymguddio yn nghanol llwyni a llysiau y gerddi a'r maesydd ëang a lliosog a berthynent i'r palas, ac ymborthi* ar lysiau (oblegyd golyga y gair Caldeaeg lysiau yn hytrach na "gwellt"), y rhai fe ddichon a brofasant yn feddyginiaeth iddo. Dichon ei fod ar yr adeg hon yn ystyried ei fod wedi ei drawsnewid i anifail, ac yn ceisio cymdeithas anifeiliaid; a'i fod wedi treulio amryw ddyddiau yn ffoadur fel hyn cyn i'w weision ei ddarganfod. Yr oedd hinsawdd Babilon y fath o ran tynerwch fel y gallasai fyw fel hyn heb dderbyn niwaid angeuol. Nid oedd gymmaint o berygl iddo gael ei ddinystrio gan fwystfilod rheibus, gan nad oedd llawer o'r rhai hyny i'w cael yn nghymmydogaeth trefi poblog; a diau i Nebuchodonosor guddio ei hun yn maesydd y palas yn Babilon, i'r rhai nad oedd y fath fwystfilod yn gallu myned. Yn y cyflwr yma, er y dichon fod gormodiaith i raddau yn y desgrifiad, yr oedd ei wallt a'i farf yn gydynau dyryslyd, ac ewinedd ei ddwylaw a'i draed, drwy fod heb eu tori ei dechreuad ei afiechyd, wedi myned yn hirion, ceimion, a miniog. O'r diwedd, wedi i'w weision ei ddarganfod, daeth ato ei hun, ac anfonodd gyhoeddiad allan i hysbysu ei ddeiliaid ei fod wedi ail ymaflyd yn awenau y llywodraeth trwy dirionddeb y Goruchaf. Yr oedd yn naturiol i'w weinidogion a'i bendefigion ymdrechu cadw yr orsedd iddo, mewn rhan o gydymdeimlad âg ef, ac mewn rhan o herwydd na wyddent beth fyddai eu tynged o dan olynydd iddo.

* Nid yw y ffaith fod y berfau "gyrant," "porthant," &c., yn y rhif liosog yn gwrthddweyd hyn, gan mai y trydydd person anmhennodol ydyw, yn lle y ferf oddefol unigol. (*Winer's Chaldee Grammar*, § 49. 3. b.) Cymharer *Gesenius's Hebrew Gram.* § 137, 3, a'r Nodiad ar waelod y ddalen yn tudal. 424 o'r gwaith hwn. Dengys y ferf "*gwlychant*" yn yr ymadrodd, "ac a'th wlychant â gwlith y nefoedd," fod yn rhaid deall hon yn oddefol am *ti a wlychir;* yr un modd yr ydys i ddeall y lleill.

Mae yr holl hanes am ei wallgofrwydd mor naturiol a manwl, fel y mae braidd yn annichonadwy iddo fod yn dwyll. *Amcan* y cyfan oedd dwyn Nebuchodonosor i gydnabod awdurdod y Goruchaf (Dan iv. 17, 26), a'r *canlyniad* oedd dyrchafiad enw yr Arglwydd yn mhlith eilunaddolwyr Babilon (iv. 34—37). (Gwel *Dr. Jahn's Introduction to the Old Testament*, § 152; *Dr. Pye Smith's Principles of Interpretation as applied to the Prophecies*, pp. 62—64.)

Dylid cofio nad yw anhawsderau y Beibl yn fwy na'r rhai a geir mewn natur. Mae y greadigaeth yn orlawn o brofion o ddaioni, doethineb, a gallu Duw. Pan y meddyliom am brydferthwch y ffurfafen, rheoleidd-dra y tymhorau, ac am y flwyddyn wedi ei choroni â daioni Duw mewn miloedd o ffyrdd, ac y canfyddwn ôl ei law yn nghyfaddasiad y naill beth i'r llall, yr ydym yn canfod profion o ddoethineb a daioni y Creawdwr. Ond o'r ochr arall mae dyoddefiadau a gofidiau yn uchel eu pen yn y byd. Mae newyn a heintiau, daeargrynfeydd a thân-lifiadau, rhyfeloedd a damweiniau, tlodi a chystudd, yn gwneyd galanasdra ofnadwy, a hyny mewn byd ag sydd o dan reolaeth Duw, yr hwn y mae ei enw yn gariad, a'i galon yn drigfa doethineb! Mae yr anhawsdra yma yn fwy na'r un a geir yn y Beibl, ac ni ellir ei symmud yn llwyr hyd nes y cawn oleuni byd arall arno. Dywedai Origen yn y drydedd ganrif "y gall yr hwn sydd yn credu fod yr Ysgrythyrau wedi deilliaw oddiwrth Awdwr natur, ddysgwyl canfod anhawsderau cyffelyb ynddynt hwy i'r rhai a geir yn nghyfundrefn natur." Ond nid ydym yn gadael i ddirgelion ac anhawsderau natur ein dallu rhag gweled llaw ddaionus Duw ynddi hi; ac ni ddylai anhawsderau dadguddiad ein hattal rhag gweled gras Duw ynddo yntau. Mae eisieu goleuni dau fyd i lwyr esbonio gweithredoedd a goruchwyliaethau Duw.

Wedi'r cyfan, mae anhawsderau y Beibl yn werthfawr, ac yn ateb dybenion pwysig. Gwasanaethant fel *cynhyrfiad i fyfyrdod*, er dwyn dyn i efrydu yr Ysgrythyrau yn fwy trwyadl a gofalus. Bydd y Beibl yn fwy anwyl yn ei olwg ar ol llafur ac ymroddiad i'w ddeall. Dangosant hefyd *wirionedd a dilysrwydd yr Ysgrythyrau*. Pe na buasai yr un anhawsdra yn y Beibl, a phe buasem yn ei ddeall yn berffaith a'i amgyffred yn gyflawn, buasai ein ffydd yn ei Ddwyfol darddiad yn cael ei siglo; ond yr ydym yn ei gael yn cynnwys "dyfnion bethau Duw," ac yn gronfa ddihysbydd o hyfforddiant a chysur. Pe

buasai cyngrhair i dwyllo wedi bod yn mhlith yr ysgrifenwyr, ni fuasai y gwrthdarawiad lleiaf i'w ganfod yn eu hysgrifeniadau, mewn moesoldeb, athrawiaeth, na hanesiaeth, ond buasai y cyfan yn cyd-gordio i'r llythyren, nes creu amheuaeth; ond y mae gwrthdarawiadau ymddangosiadol yn un amgylchiad ag sydd yn cadarnhau gwirionedd y cyfan, gan fod pob ysgrifenydd yn cofnodi pethau o'i safle neillduol ei hun. Maent hefyd yn ateb dyben pwysig fel *moddion dysgyblaeth dyn.* Profant ei ddidwylledd a'i barch i wirionedd. Os bydd dyn â'i fryd ar ganfod anhawsderau yn y Beibl, er cael esgus dros fyw mewn anufydd-dod i'r Arglwydd Iesu, fe lwydda yn ei amcan; fe fydd i'r anhawsderau ei rwystro, gan ei fod yn wirfoddol ddall! Bydd yr efengyl yn *achlysur* o galedwch barnol iddo; rhoddir ef i fyny i gyndynrwydd ei galon. Cymharer Ioan vi. 53—66, ix. 39. Ond os bydd dyn yn ymofynydd didwyll am y gwirionedd *er mwyn ei wneuthur*, fe ga yntau ei ddymuniad; yr Arglwydd a'i hyfforddia ef mewn barn, ac a'i dysga yn ffordd doethineb. Gwna anhawsderau y Beibl iddo ef ganfod ei anwybodaeth, a'i lenwi â gostyngeiddrwydd, gan nad ydyw ond anifail o flaen Duw (Salm lxxiii. 22); tra, o'r ochr arall, y bydd i athrawiaeth, dysgeidiaeth, ac addewidion y Beibl lenwi ei galon â llawenydd, a'i enau â chân. (Salm xviii. 26, xxv. 9.)

Gwel yn mhellach ar bwnc y bennod hon, Pen. VII. Rhan I., *Horne's Introduction*, vol. i.; *Bible Hand-Book; Davidson's Sacred Hermeneutics; Seiler's Biblical Hermeneutics; Benson's Hulsean Lectures*, 1822; a *Discrepancies of the Bible*, by J. W. Haley, M.A., London, 1875.

## PENNOD IX.

### DYFYNIADAU O'R HEN DESTAMENT YN Y NEWYDD, A'U DEHONGLIAD.

---

### Y CYNNWYSIAD.

*Nifer y Dyfyniadau—Gwahanol Ddosbarthiadau o honynt—Yr Achos o'r Gwahaniaeth rhyngddynt a'r Hen Destament — Dehongliad Dyfyniadau — Ystyriaethau Rhagarweiniol — Y Dyb yn nghylch Cyfaddasiad (Accommodation), a'i gwrthuni—Gwahanol Ddybenion ysgrifenwyr y Testament Newydd wrth ddyfynu o'r Hen Destament—Casgliadau oddiwrth waith ysgrifenwyr y Testament Newydd yn dyfynu Ysgrythyrau yr Hen Destament.*

Mae y dyfyniadau o'r Hen Destament yn y Testament Newydd yn dra lliosog; dywed y rhai ag sydd wedi chwilio y pwnc hwn yn fanwl eu bod yn rhifo 263, a bod cyfeiriadau at 376 o leoedd ereill y rhai na ddyfynir yn llythyrenol.

#### GWAHANOL FATHAU O DDYFYNIADAU.

Mae Dr. S. Davidson yn ei "*Sacred Hermeneutics*" yn rhoddi tafleni o'r holl ddyfyniadau o'r Hen Destament y rhai a geir yn y Testament Newydd, gan drefnu y LXX, y dyfyniadau fel y maent yn Ngroeg y Testament Newydd, yr Hebraeg, a'r Saesonaeg, mewn colofnau cyfochrog. Mae Dr. Fairbairn, Dr. W. Lee, ac awdwr diweddar o'r enw Turpie, yn eu rhestru yn ol graddau eu cydgordiad â'r Hebraeg a'r LXX fel y canlyn:—

I. Y dyfyniadau yn mha rai y mae Groeg y Testament Newydd yn cydgordio yn llythyrenol â'r Hebraeg.

II. Y dyfyniadau yn y rhai y mae Groeg y Testament Newydd yn cyduno â'r Hebraeg o ran yr ystyr, ond nid yn llythyrenol.

III. Y dyfyniadau yn mha rai y dilynir y LXX, er ei fod yn gwahaniaethu i raddau oddiwrth yr Hebraeg.

IV. Y dyfyniadau yn y rhai na ddilynir yn gaeth na'r Hebraeg na'r LXX.

Ni a ddilynwn y drefn yma yn ein sylwadau ar y Dyfyniadau o'r Hen Destament yn y Newydd.

I. Y DYFYNIADAU YN MHA RAI Y MAE GROEG Y TESTAMENT NEWYDD YN CYDGORDIO YN LLYTHYRENOL A'R HEBRAEG.

Mae y dyfyniadau canlynol yn gyfieithiadau llythyrenol o'r Hebraeg, ac yn gwahaniaethu oddiwrth y Deg a Thrigain.

1. "O'r Aifft y gelwais fy mab." (Mat. ii. 15. Hos. xi. 1.)

Cyfieithiad y LXX ydyw, "O'r Aifft y gelwais ei blant ef." *

2. "Hwy a edrychant ar yr hwn a wanasant." (Ioan xix. 37. Zech. xii. 10.)

Cyfieitha y LXX, "Hwy a edrychant arnaf fi, oblegyd iddynt fy niystyru." Gan fod cyfieithiad y LXX yma yn annghywir, y mae Ioan yn cyfieithu yn uniongyrchol o'r Hebraeg, gyda'r gwahaniaethiad yn y person: Jehofah sydd yn llefaru yn Zechariah, am hyny dywed "*fi;*" "Hwy a edrychant arnaf *fi:*" mae Ioan wrth gymhwyso y brophwydol-

* Gwna Dr. Henry Owen y sylw canlynol ar y gwahaniaeth hwn rhwng y LXX a'r Hebraeg gwreiddiol a Matthew :—" Os cyfieithiwyd llyfr Hosea yn fuan ar ol Pum' Llyfr Moses (cofier mai am y Septuagint y llefara), ac os oes unrhyw wirionedd yn yr hyn a ddywed Aristeas am ryddhad 198,000 o gaethion Iuddewig gan Ptolemy Philadelphus (brenin yr Aipht), ychydig cyn i'r cyfieithiad hwnw gael ei wneyd, nid ydyw yn annhebyg nad allai cof am y fath weithred effeithio ar feddyliau y cyfieithwyr i'r fath raddau nes peri iddynt ddychymmygu fod cyfeiriad at hyny yn y lle hwn, ac o ganlyniad eu tueddu i gyfieithu y geiriau fel y gwnaethant. Mai rhywbeth o'r natur yma oedd yr achos a ymddengys i mi yn fwy eglur fyth pan ystyriwyf fod Aquila, Symmachus, a Theodotion, yn dilyn y testyn Hebraeg, ac yn cadarnhau y dyfyniad a wneir gan yr efengylwr."—*The Modes of Quotation used by the Evangelical Writers Explained and Vindicated.* **By the Rev. Dr. Henry Owen. London, 1789.**

iaeth at Grist yn defnyddio y trydydd person, "Hwy a edrychant *ar yr hwn* a wanasant."

Y mae tua 72 o ddyfyniadau — heb son am y mynych ddefnydd a wneir o'r un ymadroddion — yn perthyn i'r dosbarth hwn.

II. Y DYFYNIADAU YN Y RHAI Y MAE GROEG Y TESTAMENT NEWYDD YN CYDUNO A'R HEBRAEG O RAN YR YSTYR, OND NID YN LLYTHYRENOL.

1. "Efe a roddodd iddynt fara o'r nef i'w fwyta." (Ioan vi. 31.)

Hebraeg, "Yd y nefoedd." Salm lxxviii. 24.

2. "A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw." (Ioan vi. 45.)

Hebraeg, "A'th holl feibion fyddant wedi eu dysgu gan Jehofah." (Esai. liv. 13.)

3. "Hwy a'm casasant yn ddiachos." (Ioan xv. 25.)

Hebraeg, "Ymladdasant â mi heb achos." (Salm cix. 3.) Yr oedd yr ymladd yn rhagdybied yr elyniaeth, a'r elyniaeth yn dangos ei hun mewn ymladd yn erbyn Duw. Mae yr ystyr yr un yn y ddau le.

4. "Ac yn dy had di y bendithir holl dylwythau y ddaear." (Act. iii. 25.)

Defnyddia yr apostol yma y gair PATRIAI, *teuluoedd*, ac nid ETHNE, *cenedloedd*, fel y LXX a'r Hebraeg (Gen. xxii. 18), er dysgu yr Iuddewon rhagfarnllyd fod holl Genedloedd y ddaear yn frodyr iddynt, a bod Iuddewon a Chenedloedd yn aelodau o'r un teulu. Yn yr addewid wreiddiol i Abraham, y gair arferol am "deuluoedd" (Heb., *mishpachôth*) a ddefnyddir: "A holl deuluoedd y ddaear a fendithir ynot ti." (Gen. xii. 3.)

5, "I mi y mae dial, myfi a dalaf, medd yr Arglwydd." (Rhuf. xii. 19.)

Hebraeg, "I mi (y perthyn) dial ac ad-daledigaeth." (Deut. xxxii. 35.) Mae yr ystyr yr un, ond fod y geiriad yn gwahaniaethu ychydig. Y mae tua deg ar hugain o ddyfyniadau o'r fath yma.

III. Y DYFYNIADAU YN MHA RAI Y DILYNIR Y LXX ER EI FOD YN GWAHANIAETHU I RADDAU ODDIWRTH YR HEBRAEG.

"Eithr yn ofer y'm hanrhydeddant i, gan ddysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth." (Mat. xv. 9.)

Hebraeg, "A'u hofn tuag ataf fi a ddaeth yn orchymyn dynion (peth) wedi ei ddysgu" hyny yw, gan ddynion, ac nid gan Dduw, ac felly o anghenrheidrwydd yn ofer a gwrthodedig. (Esai. xxix. 13.)

"Bydded eu bord hwy yn rhwyd, ac yn fagl, ac yn dramgwydd, ac yn daledigaeth iddynt. Tywyller eu llygaid hwy, fel na welont, a chydgryma di eu cefnau hwy bob amser." (Rhuf. xi. 9, 10.)

Hebraeg, "Bydded eu bwrdd yn fagl ger eu bron, a'u llwyddiant yn dramgwydd. Tywyller eu llygaid hwy, fel na welont; a gwna i'w lwynau grynu bob amser." (Salm lxix. 22, 23.)

Yn y LXX a'r Testament Newydd, mae y geiriau, "Ac yn fagl, ac yn dramgwydd, ac yn daledigaeth iddynt," yn cael eu hychwanegu fel dadblygiad o ystyr y gair Hebraeg, *pach*, yr hwn a gyfieithir yn y Salm "magl" (adn. 22), tra y gadewir y geiriau "a'u llwyddiant yn dramgwydd" heb eu cyfieithu. Mae ychydig o wahaniaeth hefyd yn niwedd y geiriau: am yr Hebraeg, "a gwna i'w lwynau grynu bob amser," iaith Paul yw, "a chydgryma di eu cefnau bob amser."

"Aberth ac offrwm nis mynaist, eithr corph a gymhwysaist i mi." (Heb. x. 5.)

Yr Hebraeg yw, "Aberth ac offrwm nid ewyllysiaist; clustiau a agoraist i mi." (Salm xl. 7.)

Yr oedd "*agor y glust*" yn ymadrodd cyffredin yn mhlith yr Iuddewon am ddadguddio unrhyw beth i un, yr hwn a wrandawai arno, ac a ufyddhäai yn ddioed. "Yr Arglwydd Dduw a agorodd fy nghlust, a minau ni wrthwynebais, ac ni chiliais yn fy ol." (Esai. l. 5.) Dywedodd Jonathan wrth Dafydd, "Ni wna fy nhad ddim, na mawr na bach, heb ei

fynegi i mi:" Hebraeg, "*heb agor fy nghlust i.*" (1 Sam. xx. 2.) Ymddengys fod geiriau y Salmydd yn gyfystyr a phe dywedasai, "*Tydi a roddaist i mi fodd i ufyddhau i ti.*" Dengys y cyssylltiadau mai a ganlyn ydyw syniad y Salmydd:—"Nid ymhyfrydaist mewn defodau allanol fel yn ymostyngiad y galon; ac yr wyt wedi agor fy nghlust i beri i mi ddeall hyn, ac i fod yn ewyllysgar i wrandaw ar dy lais a chydymffurfio â'th ewyllys." Dilyna yr apostol y LXX; ystyr y geiriau fel y ceir hwynt yn y Deg a Thrigain ydyw hyn:—"Nid ymhyfrydaist yn aberthau anifeiliaid, ond yn aberth byw dynion ffyddlawn; a thi a ddarperaist gorph i mi, yr hwn a gyssegraf i dy wasanaeth." Felly y gwnaeth Dafydd; defnyddiodd ei *lygaid* i ddarllen oraclau Duw, a'i *draed* i fynychu ei gyssegr, a'i *dafod* i ganu am ei iachawdwriaeth. Cymhwysa yr apostol y geiriau at Grist, fel rhai yn awgrymu fod ei ymgnawdoliad i ragflaenu ei ufydd-dod a'i farwolaeth.

Mae tua 17 o engreifftiau o ddyfyniadau o'r un natur a'r rhai a grybwyllir yn yr adran hon.

## IV. Y DYFYNIADAU YN Y RHAI NA DDILYNIR YN GAETH NA'R HEBRAEG NA CHYFIEITHIAD Y DEG A THRIGAIN.

1. "A thithau Bethlehem, tir Juda, nid lleiaf wyt (mewn un modd) yn mhlith tywysogion Juda: canys o honot ti y daw Tywysog yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel." (Mat. ii. 6. Michah v. 2.)

LXX:—"A thithau Bethlehem, tŷ Ephratah, wyt i fod yn fechan iawn yn mhlith miloedd Juda: (*eto*) o honot ti yr â un allan i mi, i fod yn Llywodraethwr Israel."

Hebraeg:—"A thithau, Bethlehem Ephratah, wyt i fod yn fechan yn mhlith miloedd Juda (*eto*) o honot ti y daw allan i mi un ag sydd i fod yn Llywodraethwr yn Israel."

Cawn Juda yn Matthew yn lle Ephratah, a'r rhagferf nacâol OUDAMOS=*by no means*=*nid mewn un modd*, yr hon na cheir yn yr Hebraeg na'r LXX.

Nid ydyw yr efengylwr, modd bynag, yn dyfynu ei hunan, ond yn unig yn cofnodi yr atebiad a roddodd yr archoffeiriaid a'r ysgrifenyddion i Herod.

2. "Nid ymryson efe, ac ni lefain, ac ni chlyw neb ei lais ef yn yr heolydd. Corsen ysig nis tyr, a llin yn mygu nis diffydd, hyd oni ddygo efe allan farn i fuddygoliaeth. Ac yn ei enw ef y gobeithia y Cenedloedd." (Mat. xii. 18—21.)

Hebraeg:—"Ni waedda, ac ni ddyrchafa, ac ni phair glywed ei lef yn yr heol. Ni ddryllia gorsen ysig, ac ni ddiffydd lin yn mygu; efe a ddwg allan farn at wirionedd. Ni phalla efe, ac ni ddigalona, hyd oni osoda farn ar y ddaear; yr ynysoedd hefyd a ddysgwyliant am ei gyfraith ef." (Esai. xlii. 2—4.)

Gwahaniaetha Matthew oddiwrth Esaiah:—

1. Yn nghystrawiad y geiriau.

2. Yn rhai o'r ymadroddion, megys, trwy ddefnyddio y gair "buddygoliaeth" yn lle "gwirionedd."

3. Yn rhoddi yr ystyr yn hytrach na chyfieithiad llythyrenol o'r Hebraeg; megys, "ac yn ei enw ef y gobeithia y Cenedloedd," am "yr ynysoedd a ddysgwyliant am ei gyfraith ef."

Yn y geiriau o flaen y dyfyniad yn Esaiah (xlii. 1), mae y LXX yn gwyro oddiwrth yr Hebraeg, ac yn myned i esbonio yn lle cyfieithu, a hyny mewn modd hollol gyfeiliornus, yn ol eu syniadau Iuddewig a chulion eu hunain: yn lle, "Wele fy ngwas, yr hwn yr ydwyf yn ei gynnal; fy etholedig, i'r hwn y mae fy enaid yn foddlawn: rhoddais fy ysbryd arno; efe a ddwg allan farn i'r Cenedloedd:" cawn yn y LXX, "Jacob yw fy ngwas, myfi a'i cynnorthwyaf; Israel yw fy etholedig, fy enaid a'i derbyniodd ef; rhoddais fy ysbryd arno ef; efe a ddwg allan farn i'r Cenedloedd." Nid dyma yr unig engraifft o waith y LXX yn gwyrdroi meddwl yr Ysbryd.

3. "Tarawaf y bugail, a defaid y praidd a wasgerir." (Mat. xxvi. 31.)

Hebraeg:—"Taraw y bugail, a'r defaid a wasgerir." (Zech. xiii. 7.)

LXX:—"Taraw y bugeiliaid, a dwg allan y defaid."

4. "Pan ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion." (Eph. iv. 8.)

Darllena yr Hebraeg a'r LXX, "Ti a *dderbyniaist* roddion i ddynion." (Salm lxviii. 18.) Yr oedd y *derbyn*, modd bynag, i flaenori y *cyfranu;* a dynoda y gwahanol ymadroddion wahanol agweddau yr un peth, fel y dywed Pedr:—"Wedi iddo dderbyn gan y Tad yr addewid o'r Ysbryd Glân, efe a dywalltodd y peth yma yr ydych chwi yr awrhon yn ei weled ac yn ei glywed." (Act. ii. 33.)

Ceir tua 17 o ddyfyniadau o'r natur yma yn y Testament Newydd: gwel Mat. xxi. 5. Luc vii. 27. Act. xiii. 41. Rhuf. x. 6, xv. 12. 1 Cor. xv. 55. 2 Cor. ix. 7, &c.

Achoswyd y gwahaniaeth rhwng y rhanau a ddyfynir, fel y maent yn Hebraeg yr Hen Destament ac yn Ngroeg y Testament Newydd, gan y pethau canlynol:—

1. *Oblegyd y gwahaniaeth yn yr ysgriflyfrau gwreiddiol.* Mae yr ysgriflyfrau Hebreig yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd: felly hefyd ysgriflyfrau y LXX a'r Testament Newydd. Pan y gwahaniaetha dyfyniad yn y Testament Newydd oddiwrth yr Hebraeg, dichon fod y copi o'r Beibl Hebraeg a ddefnyddiai ysgrifenwyr y Testament Newydd, yn gwahaniaethu mewn rhyw bethau oddiwrth y Beibl Hebraeg fel y mae genym ni yn awr. Mae gwahanol ddarlleniadau hefyd wedi llusgo i mewn i ysgriflyfrau y Testament Newydd, fel y gall gwahaniaeth rhwng y dyfyniad a'r Hebraeg gwreiddiol ymddangos yn awr, yr hwn na fodolai ar y cyntaf. Credwn fod yr ystyriaeth yma yn cyfrif am y gwahaniaeth mewn rhai engreifftiau.

2. Rheswm arall dros y gwahaniaeth ydyw, *amcan neillduol ysgrifenwyr y Testament Newydd pan yn dyfynu o'r Hen Destament.*

Dywed Jehofah trwy Malachi, "Wele fi yn anfon fy nghenad, ac efe a arloesa y ffordd o'm blaen i." (Mal. iii. 1.) Dywed Crist pan wedi ei anfon i'r byd, er awgrymu i'w wrandawyr fod y Duw ymgnawdoledig yn eu plith, "Hwn ydyw efe am yr hwn yr ysgrifenwyd, Wele yr ydwyf fi yn anfon fy nghenad o flaen dy wyneb, yr hwn a barotoa dy ffordd o'th flaen." (Mat. xi. 10.)

Felly hefyd newidia yr apostol yn Eph. iv. 8, y frawddeg, "*derbyniaist* roddion i ddynion," i "efe a *roddes* roddion i

ddynion, gan fod hyny yn cael ei gynnwys yn y geiriau, ac yn gosod allan yn fwy effeithiol yr hyn oedd gan yr apostol mewn golwg.

Weithiau y mae ysgrifenwyr y Testament Newydd yn helaethu ar y dyfyniad a wneir, neu yn dwyn allan feddylddrych newydd o hono, yr hwn na fuasai ysgrifenydd anysbrydoledig byth yn gallu ei ganfod; er engraifft, esbonia Paul eiriau Moses yn Deut. xxx. 12, 13, "Pwy a ddring drosom i'r nefoedd?" i olygu, "dwyn Crist i waered oddi uchod" (Rhuf. x. 6); a'r gofyniad, "Pwy a dramwya drosom ni i'r tu hwnt i'r môr,"* neu "Pwy a ddisgyn i'r dyfnder," i olygu "dwyn Crist drachefn i fyny oddiwrth y meirw." Mae y geiriau yn Deuteronomium yn gymhwysiadol at sefyllfa Israel yn nyddiau Moses; nid oedd eisieu iddynt wneyd yr hyn oedd anmhossibl er gallu gwybod ewyllys Duw, yr oedd y wybodaeth hono eisioes ganddynt; ond nid ydyw y cymhwysiad yma yn dyhysbyddu eu hystyr; cynnwysant gyfeiriad hefyd at Grist a'i waith, yr hyn y mae yr apostol ysbrydoledig yn ei ddwyn allan a'i egluro.

Gyda golwg ar y gwahaniaeth rhwng yr Hebraeg gwreiddiol a'r dyfyniadau yn y Testament Newydd, cofier *mai yr un Ysbryd santaidd ag a ysbrydolasai y prophwydi a ysbrydolodd ysgrifenwyr y Testament Newydd hefyd, a bod gan ysgrifenwyr y Testament Newydd gan hyny, o dan gyfarwyddyd yr Ysbryd, hawl i dalfyru neu gyfnewid iaith yr Hen Destament.* Pan yr ymddibynai yr ystyr ar *eiriau neillduol*, y mae y pwys mwyaf yn cael ei roddi ar *eiriau:* gwel Mat. xxii. 32, 45. Ioan x. 34. Gal. iii. 16. Heb. i. 5, ii. 12, v. 10, vii. 11. Ond pan nad ydyw yr ymresymiad yn ymddibynu ar ymlyniad caeth wrth y geiriau, fe dalfyrir, neu fe gyfnewidir yr ymadroddion,

* Dywed y Proffeswr Michaelis fod y geiriau hyn, ac esboniad Paul arnynt, wedi peri anhawsdra mawr iddo ef, hyd nes yr awgrymodd un o'i fyfyrwyr iddo "y gallai fod Moses yn cyfeirio at arferiad yr Aifftiaid o gladdu y meirw yr ochr arall i lyn," &c., yr hyn a barodd iddo lyncu y syniad, ac aralleirio ymadroddion Moses fel hyn;—"Nid yw y gorchymmyn (ebe Moses), yr hwn a ddysgaf fi yn awr (sef i garu ac addoli yr unig wir Dduw, yr hyn mewn gwirionedd yw euwaediad y galon), fel rhai o'm gorchymynion, y rhai sydd yn meddu ystyr ddirgelaidd, ac yn anhawdd i'w deall. Nid oes eisieu un o ddysgeidiaeth annghyffredin i ddyfod i lawr o'r nefoedd i'ch hyfforddi ynddo; nid oes eisieu i neb groesi y llyn i *Ynysoedd y Gwynfydedigion*, ac ymofyn â'r meirw beth sydd yn gorwedd yn mynwes y gorchymyn. Mae y cyfan yn hawdd ac yn eglur, 'Canys y gair sydd agos iawn attat,'" &c.—*Lowth's Lectures on Hebrew Poetry*, Ed. 1847, p. 110.

ac fe roddir pwysigrwydd ar *ystyr* neu *sylwedd* y rhanau a ddyfynir.

Yr ydym wedi sylwi yn y Rhan Gyntaf ar Ysbrydoliaeth y Beibl, ac wedi dwyn ein rhesymau yn mlaen dros yr hyn a elwir, "Ysbrydoliaeth Eiriol." Credwn fod y cyfnewidiadau yn y dyfyniadau wedi cael eu gwneuthur yn ol cyfarwyddyd ac arweiniad yr Ysbryd Glân, ac na fuasai yr apostolion byth yn meiddio cyfnewid yr ymadroddion Dwyfol ond trwy yr un awdurdod ag y rhoddasid hwynt ar y cyntaf.

## DEHONGLIAD DYFYNIADAU.

Awn yn awr yn mlaen i sylwi ar natur y dyfyniadau dan sylw, a'r amcanion mewn golwg wrth eu dyfynu.

*Dyfynir yr ymadroddion o'r Hen Destament ar yr egwyddor o'i Ddwyfol awdurdod a'i gymmeriad prophwydol.*

Weithiau dyfynir amryw ymadroddion a chyssylltir hwynt â'u gilydd er profi athrawiaeth, neu egluro gwirionedd, yn yr hyn y rhagdybir eu Dwyfol awdurdod (Rhuf. iii. Heb. ii.); bryd arall, dyfynir geiriau fel yn cael, neu wedi cael eu cyflawni yn Nghrist, yr hyn a brofa fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn ystyried fod yr Hen Destament yn meddu agwedd brophwydol.

*Er deall y dyfyniadau yn briodol, rhaid i ni ystyried fod yr apostolion yn esbonwyr awdurdodedig ar yr Hen Destament.*

Addawodd Crist yr Ysbryd Glân i'w apostolion, yr hwn oedd i'w tywys i bob gwirionedd; yr apostolion oedd cynnrychiolwyr Iesu Grist ar y ddaear, yr unig ddysgawdwyr awdurdodedig ac anffaeledig o'i ewyllys; rhaid i ni eu hystyried, gan hyny, yn esbonwyr anffaeledig o'r Hen Destament, yn ogystal ag yn ddysgawdwyr anffaeledig o athrawiaethau a dyledswyddau yr oruchwyliaeth Gristionogol.

Nid ydym, gan hyny, i ystyried gwaith ysgrifenwyr y Testament Newydd yn dyfynu yr Hen Destament, *fel math o gyfaddasiad* (accommodation) *o'r iaith yn unig i osod allan eu meddyliau eu hunain.* Yn y goleuni yma yr edrycha y rhan fwyaf o ysgrifenwyr ar y dyfyniadau, heb ystyried fod ysgrifenwyr y Testament Newydd yn edrych ar y dyfyniadau fel *prophwydoliaethau* neu *awdurdodau* yn nghylch y pynciau o dan

sylw, ac nid fel brawddegau er mwyn gosod allan eu meddyliau eu hunain mewn modd deheuig neu effeithiol. Gwnawn ddau sylw er dangos gwrthuni y dyb mai dyfynu mewn ffordd o gyfaddasu yr iaith i osod allan eu meddyliau eu hunain yr oeddynt :—

1. Ni fuasai gwaith yr ysgrifenwyr yn dyfynu yn ateb un dyben, oddi eithr fod y geiriau a ddyfynent yn cyfeirio at y pynciau dan sylw.

Dyfynir ganddynt er mwyn *awdurdod* i gadarnhau yr ymresymiad, ac nid er mwyn *desgrifiad.* Dyfynai yr apostolion yr Hen Destament er mwyn profi i'r Iuddewon, o'u Hysgrythyrau eu hunain, wirionedd athrawiaethau mawrion Cristionogaeth.

2. Yn ol y dyb am ddyfynu o'r Hen Destament er mwyn yr iaith yn unig, ni wyddom yn mha ystyr yr ydym i ddeall y Testament Newydd.

Dyfynir o'r Hen Destament mewn modd syml a phendant; nid oes unrhyw gyfyngiad (*modification*) yn cael ei ychwanegu; cyhoedda yr efengylwyr a'r apostolion, ar sail eu hawdurdod fel ysgrifenwyr ysbrydoledig, fod yr ymadroddion a ddyfynir yn dysgu yr hyn a briodolant iddynt. Os ydyw y rhai sydd yn credu mewn cyfaddasiad yn gywir, y mae yn canlyn fod ysgrifenwyr y Testament Newydd wedi camgymhwyso ymadroddion o'r Hen Destament, a'u bod trwy hyny yn camarwain eu darllenwyr, gan nad ydynt byth yn awgrymu mai dyfynu mewn ffordd o gyfaddasiad y maent, ond yn hytrach yn eu sicrhau eu bod yn eu dyfynu naill ai fel *prophwydoliaethau* ag oeddynt yn cael eu cyflawni, neu fel *awdurdod* i gadarnhau yr athrawiaethau, neu i rymusoli y gwersi a ddysgent i'r byd.

Yn awr, ni a geisiwn ddangos i'r darllenydd fel yr ymddengys pethau i ni gyda golwg ar y dyfyniadau o'r Hen Destament, a'r ffordd i'w deall. Mae gwahanol fathau o ddyfyniadau, a dyfynid hwy i wahanol ddybenion.

## I. Dyfyniadau yn profi athrawiaethau, neu yn cadarnhau dyledswyddau.

1. "Credodd Abraham i Dduw, a chyfrifwyd iddo yn gyfiawnder." (Rhuf. iv. 3.)

Dyfynir y geiriau hyn o Gen. xv. 6, er cadarnhau yr athrawiaeth am gyfiawnhad trwy ffydd.

2. "Y cyfiawn a fydd byw trwy ffydd." (Rhuf. i. 17.)

Dyfynir y rhai hyn o Hab. ii. 4, i'r un dyben.

3. "Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd? neu pwy a fu gynghorwr iddo ef?" (Rhuf. xi. 34.)

Cymmerir y geiriau hyn o Esai. xl. 13, er profi yr hyn a ddywed yr apostol am ddirgelwch annhreiddiol Rhagluniaeth Duw.

4. "Yr hwn sydd yn ymffrostio, ymffrostied yn yr Arglwydd." (1 Cor. i. 31.)

Yma crynhoir geiriau Jeremiah (ix. 24), a chyfeirir atynt er profi ac egluro y pwynt ag oedd gan yr apostol mewn golwg, sef annigonolrwydd doethineb ddynol, ac mai yn Nuw yn unig y dylai dynion ymhyfrydu.

5. "Canys Crist nis boddhaodd ef ei hun; eithr megys y mae yn ysgrifenedig, Gwaradwyddiadau y rhai a'th waradwyddent di, a syrthiasant arnaf fi." (Rhuf. xv. 3.)

Dyfynir y geiriau hyn o Salm lxix. 9, er cadarnhau y ddyledswydd o hunanymwadiad a thynerwch tuag at y rhai a wahaniaethant oddi wrthym; nid ydym i fynu cael ein ffordd ein hunain pan y gall hyny dramgwyddo ereill, ond yn hytrach ymdrechu ymddwyn fel ag i beri adeiladaeth iddynt. Nid ceisio ei bleser a'i hawddfyd ei hun yr oedd Crist pan yn y byd hwn, ond lles ereill, hyd y nod pan oedd hyny, yn ol y brophwydoliaeth, yn dwyn gwaradwydd a dyoddefiadau arno ef.

Gellir ystyried rhai o'r ymadroddion a ddyfynir er profi athrawiaeth neu gadarnhau dyledswydd, yn brophwydoliaeth hefyd am yr hyn a drafodir, fel y dengys yr engreifftiau canlynol:—

"Ar ol hyn y dychwelaf ac yr adeiladaf drachefn dabernacl Dafydd, yr hwn sydd wedi syrthio; a'i fylchau ef a adeiladaf drachefn, ac a'i cyfodaf eilchwyl. Fel y byddo i hyn a weddiller o ddynion geisio yr Arglwydd, ac i'r holl Genedloedd, y rhai y gelwir fy enw i arnynt, medd yr Arglwydd, yr hwn sydd yn gwneuthur yr holl bethau hyn." (Act. xv. 16, 17. Amos ix. 11, 12.)

"Oblegyd y mae yr Ysgrythyr yn dywedyd, Pwy bynag sydd yn credu ynddo ef, ni chywilyddir. Canys pwy bynag a alwo ar enw yr Arglwydd, cadwedig fydd." (Rhuf. x. 11, 13. Esai. xxvi. 16. Joel ii. 32.)

"Ac fel y byddai i'r Cenedloedd ogoneddu Duw am *ei* drugaredd; fel y mae yn ysgrifenedig, Am hyn y cyffesaf i ti yn mhlith y Cenedloedd, ac y canaf i'th enw. A thrachefn y mae yn dywedyd, Ymlawenhewch, Genedloedd, gyda'i bobl ef. A thrachefn, Molwch yr Arglwydd, yr holl Genedloedd; a chlodforwch ef, yr holl bobloedd. A thrachefn y mae Esaias yn dywedyd, Fe fydd gwreiddyn Jesse, yr hwn a gyfyd i lywodraethu y Cenedloedd: ynddo ef y gobeithia y Cenedloedd." (Rhuf. xv. 9—12. Salm xviii. 49. Deut. xxxii. 43. Salm cxvii. 1. Esai. xi. 10.)

Mae yr ymadroddion hyn yn profi agwedd gyffredinol yr efengyl, a hawl credinwyr o'r Cenedloedd i ragorfreintiau teyrnas nefoedd, ac y maent hefyd yn brophwydoliaethau mai fel yna y byddai pethau o dan deyrnasiad Emmanuel.

## II. Dyfyniadau o Brophwydoliaethau er profi Dwyfoldeb yr Oruchwyliaeth Gristionogol.

Mae y rhai hyn o ddau fath:—

1. *Prophwydoliaethau neillduol am Grist, y rhai a gyflawnwyd ynddo ef.*

"A thithau, Bethlehem, tir Juda, nid lleiaf wyt yn mhlith tywysogion Juda: canys o honot ti y daw Tywysog, yr hwn a fugeilia fy mhobl Israel." (Mat. ii. 6. Michah v. 2.)

"Fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy Esaias y prophwyd, gan ddywedyd, Tir Zabulon, a thir Naphthali, *wrth* ffordd y môr, tu hwnt i'r Iorddonen, Galilea y Cenedloedd: y bobl oedd yn eistedd mewn tywyllwch, a welodd oleuni mawr; ac i'r rhai a eisteddent yn mro a chysgod angeu, y cyfododd goleuni iddynt." (Mat. iv. 14—16. Esai. ix. 1, 2.)

"(Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedwyd trwy Jeremias y prophwyd, gan ddywedyd, A hwy a gymmerasant y deg ar hugain arian, pris y prisiedig, yr hwn a brynasant gan feibion Israel; ac a'u rhoisant hwy am faes y crochenydd, megys y gosododd yr Arglwydd i mi." (Mat. xxvii. 9, 10. Zech. xi. 12, 13.)

"A'r Ysgrythyr a gyflawnwyd, yr hon a ddywed, Ac efe a gyfrifwyd gyda'r rhai anwir." (Marc xv. 28. Esai. liii. 12.)

Mae yr ail Salm yn perthyn i'r dosbarth hwn, ac fe'i hesbonir felly yn y Testament Newydd. (Act. iv. 25, 26, xiii. 33.

Heb. i. 5, v. 5.) Felly hefyd Salm cx. 1, 4, fel y gwelir yn Heb. i. 13, v. 6, 10, vi. 20. Ystyriwn y rhai hyn yn *brophwydoliaethau neillduol ac arbenig* am Grist, gan eu bod yn cyfeirio at Grist a'i efengyl, ac yn cael eu dyfynu er profi mai Crist oedd gwrthddrych mawr tystiolaeth y prophwydi.

2. *Ymadroddion yn meddu cyfeiriad dwbl, un at wrthddrychau neu ddygwyddiadau o dan yr Hen Destament, a'r llall at Grist a dygwyddiadau o dan y Testament Newydd.*

Gellir ystyried y gwrthddrychau neu y dygwyddiadau ag y mae y geiriau yn cyfeirio yn uniongyrchol atynt, ar sail awdurdod y Testament Newydd, yn gysgodol neu arwyddluniol o bersonau neu ddygwyddiadau o dan yr efengyl. Ystyriwn fod y dyfyniadau canlynol yn perthyn i'r dosbarth hwn:—

"O'r Aifft y gelwais fy mab." (Mat. ii. 15. Hos. xi. 1.)

Cyfeiria y geiriau yn mlaenaf oll at Israel yn yr Aifft; ond gan fod Israel yn yr Aifft yn wrthddrych gofal neillduol Duw, fel ei blentyn mabwysiedig, yr oeddynt yn cysgodi Mab Duw yn yr ystyr yma, ac felly mae y geiriau yn cynnwys cyfeiriad hefyd at Iesu Grist. Israel hefyd oedd hynafiaid y Messiah, yn y rhai y trysorwyd yr addewid am dano; fel, wrth eu galw hwynt o'r Aifft, yr oedd Duw yn galw ei Fab. Cymharer Heb. vii. 9.

"Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedasid gan Jeremias y prophwyd, gan ddywedyd, Llef a glybuwyd yn Rama, galar, ac wylofain, ac ochain mawr, Rachel yn wylo *am* ei phlant; ac ni fynai ei chysuro am nad oeddynt." (Mat. ii. 17, 18. Jer xxxi. 15.)

Er fod y geiriau yn cyfeirio yn wreiddiol at gaethgludiad y deg llwyth, a Rachel yn cael ei desgrifio fel yn wylo o herwydd eu hadfyd, eto, mewn un ystyr, y maent yn gymhwysiadol at amgylchiad llofruddiaeth babanod Bethlehem, a'r galar a achosodd. Y pwynt mawr yn Jeremiah a Matthew ydyw "AM NAD OEDDYNT." Yn yr amgylchiad blaenaf, *nid oeddynt yn eu gwlad eu hunain;* yn yr olaf *nid oeddynt ar dir y rhai byw!*

Yr oedd geiriau Jeremiah yn ddesgrifiad arwyddluniol, ac yn meddu cyfeiriad at y ddau amgylchiad.

"Ac wedi iddynt ei groeshoelio ef, hwy a ranasant ei ddillad, gan fwrw coelbren: er cyflawni y peth a ddywedwyd trwy y proffwyd, Hwy a ranasant fy nillad yn eu plith, ac ar fy ngwisg y bwriasant goelbren." (Mat. xxvii. 35. Salm xxii. 18.)

Testyn y Salm ydyw un cyfiawn yn dyoddef, a'i waredigaeth gan Dduw; at y dyn duwiol y cyfeiria yn mlaenaf, ond cyfeiria at Grist hefyd, fel y mae yn amlwg oddiwrth y defnydd mynych a wneir o honi, ac ynddo ef yn unig y derbyniodd y geiriau eu llawn gyflawniad.

"Canys y pethau hyn a wnaethpwyd, fel y cyflawnid yr Ysgrythyr, Ni thorir asgwrn o hono." (Ioan xix 36. Exod. xii. 46.)

Yr oedd oen y pasg o dan y ddeddf yn gysgod o Grist, ac felly meddai y geiriau gyfeiriad at Grist, yn ogystal ag at aberth y pasg.

"Canys ysgrifenwyd yn llyfr y Salmau, Bydded ei drigfan ef yn ddiffaethwch, ac na bydded a drigo ynddi: a chymmered arall ei esgobaeth ef." (Act. i. 20. Salm lxix. 25, cix. 8.)

Yr oedd Dafydd a'i elynion yn gysgodau arwyddluniol o Grist a'i elynion ef: gan hyny mae y geiriau a ddesgrifiant amserau a helyntion Dafydd, yn cyfeirio hefyd at Grist a'i wrthwynebwyr: ond fod yr hyn a ddywedid yn nghylch gelynion Dafydd yn cael eu cymhwyso yma at Judas yn bersonol, am mai efe ydoedd bradychwr y Messiah, ac arweinydd a phenaeth ei elynion. Mae y geiriau yn ddesgrifiad hefyd o dynged yr Iuddewon fel cenedl. Wedi iddynt groeshoelio yr Arglwydd Iesu, fe gollasant eu gwlad; bwriwyd hwynt ymaith o fod yn bobl i Dduw, a derbyniwyd y Cenedloedd (Mat. xxi. 43); diddymwyd offeiriadaeth Aaron, a sefydlwyd offeiriadaeth annghyfnewidiol Mab Duw. (Heb. vii.)

"Canys wrth bwy o'r angylion y dywedodd efe un amser, Fy mab ydwyt ti; myfi heddyw a'th genedlais di? A thrachefn, Myfi a fyddaf iddo ef yn Dad, ac efe a fydd i mi yn Fab?" (Heb. i. 5. 2 Sam. vii. 14.)

Am Solomon y llefara y geiriau hyn yn mlaenaf; ond y mae ymadroddion yn yr addewid i Solomon, ac yn y brophwydoliaeth am dano, y rhai nad ydynt yn gymhwysiadol at Solomon

ei hun, a'r rhai a lwyr gyflawnir yn Nghrist yn unig; megys, "A'th dŷ di a sicrheir, a'th freniniaeth, yn dragywydd o'th flaen di; dy orseddfainc a sicrheir byth." (2 Sam. vii. 16.) "Bydd ei had ef yn dragywydd, a'i orseddfainc fel yr haul ger fy mron i." (Salm lxxxix. 36.)

Mae gan yr addewid a ddyfyna yr apostol gyfeiriad dwbl, un at Solomon, a'r llall at Grist, o'r hwn yr oedd Solomon yn gysgod.

"Eithr un mewn rhyw fan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Pa beth yw dyn, i ti i feddwl am dano? neu fab dyn, i ti i ymweled âg ef? Ti a'i gwnaethost ef ychydig îs na'r angylion; â gogoniant ac anrhydedd y coronaist ti ef, ac a'i gosodaist ef ar weithredoedd dy ddwylaw; ti a ddarostyngaist bob peth dan ei draed ef. Canys wrth ddarostwng pob peth iddo, ni adawodd efe ddim heb ddarostwng iddo. Ond yr awr hon nid ydym ni eto yn gweled pob peth wedi eu darostwng iddo." (Heb. ii. 6—8. Salm viii.)

Traetha y Salmydd am yr awdurdod wreiddiol, â'r hon y cynnysgaethodd Duw ddyn ar y cyntaf; ond ni chafodd geiriau y Salmydd eu cyflawni yn hanes dynion yn gyffredin; edrycha yr apostol gan hyny ar y Salm fel desgrifiad arwyddluniol a phrophwydoliaethol, yn cyfeirio mae'n wir at awdurdod Adda ar y greadigaeth isod, ond i gael ei gyflawni yn llythyrenol yn yr Adda diweddaf, yr hwn yw Arglwydd pawb oll.

"Hyn oll a lefarodd yr Iesu trwy ddammegion wrth y torfeydd; ac heb ddammeg ni lefarodd efe wrthynt: fel y cyflawnid yr hyn a ddywedwyd trwy y prophwyd, gan ddywedyd, Agoraf fy ngenau mewn dammegion; mynegaf bethau cuddiedig er pan seiliwyd y byd." (Mat. xiii. 34, 35. Salm lxxviii. 2.)

Yr oedd y prophwydi o dan yr Hen Destament yn gysgodau o Grist; ac yr oedd gwaith Asaph yn llefaru mewn cymhariaethau yn amser Dafydd yn amgylchiad arwyddluniol a chysgodol o Grist yn llefaru mewn dammegion yn nghyflawnder yr amser, yr hyn a rydd gyfrif am eiriau yr efengylwr.

"O herwydd paham y mae efe yn dywedyd, Pan ddyrchafodd i'r uchelder, efe a gaethiwodd gaethiwed, ac a roddes roddion i ddynion." (Ephes. iv. 8. Salm lxviii. 18.)

Gweddi neu fawl-gân yw y Salm o'r hon y dyfynir y geiriau hyn, ar yr achlysur o symmudiad arch Duw i fynydd Seion. Barna Dr. Pye Smith fod cyfeiriad yn ngeiriau y Salmydd at y

daith o'r Aifft i Ganaan, yr hon oedd yn fath o "esgyniad" i fyny, ac yn neillduol at hanes Israel wrth fynydd Sinai, pryd y dyrchafodd y golofn niwl a thân (yr hon oedd yn arwyddlun o bresennoldeb arbenig y Jehofah), i fyny i'r awyr, ac y gorphwysodd ar glogwyn uchaf y mynydd, lle, yn nghanol y cymmylau duon a'r mellt ofnadwy, y derbyniodd Moses y gyfraith oddiwrth Dduw. Dealla efe wrth y geiriau "caethgludo caethiwed" fuddygoliaeth Duw ar yr Aifftiaid, y rhai a gadwasent Israel mewn caethiwed; ac wrth y "rhoddion" yr anrhegion a dderbyniasai Israel gan yr Aifftiaid, y rhai a "dderbyniodd" Duw mewn offrymau tuag at wneuthur y tabernacl, yn yr hwn ar ol hyny y "preswyliodd" yn eu plith; a bod y cyfan yn arwydd-lun rhag-gysgodol o waredigaeth dynolryw trwy y Cyfryngwr.

Tueddir ni gyda Hengstenberg, Barnes, ac ereill, i dybied fod y geiriau yn cyfeirio at ddygiad yr arch i fyny i fynydd Seion, ar ol darostyngiad holl elynion Dafydd, y rhai, fel gelynion y Ddwyf-lywodraeth Iuddewig, a ystyrid hefyd yn elynion Duw; a bod y geiriau "caethgludaist gaethiwed" yn golygu eu darostyngiad hwy, gyda chyfeiriad pellach at fuddygoliaeth ac esgyniad Mab Duw. (2 Sam. vi. 12—19. 1 Chron. xv. xvi.)

Gellir aralleirio geiriau y Salmydd fel y canlyn:—"Dyrchefaist i'r uchelder"—sefydlaist dy breswylfa yn Seion, i deyrnasu yno mewn heddwch; "caethgludaist gaethiwed"—yr oedd dy fuddygoliaeth ar dy elynion mor gyflawn a phe buasai byddin o garcharorion mewn cadwynau yn dy ddilyn; tydi a ail-osodaist anrhydedd ar dy addoliad, ac a gymmeraist ymaith warthrudd dy bobl; tydi a adferaist gyfrwng cyfathrach rhwng nefoedd a daear, oblegyd oddiar y drugareddfa yr oeddit wedi addaw cymdeithasu â dyn; gan wneyd mynydd Seion yn eisteddle dy drugaredd, o ba le y bendithi dy bobl, ïe, y rhai mwyaf "cyndyn" ac annheilwng o honynt, â bendithion dy iachawdwriaeth.

Dysgir ni gan yr apostol yn ei waith yn dyfynu y geiriau dan sylw, fod esgyniad yr arch i fynydd Seion yn arwyddlun o esgyniad buddygoliaethus a gorfoleddus Mab Duw i'r nefoedd, i deyrnasu yno mewn heddwch a gogoniant, ac oddi yno i fendithio plant dynion â rhoddion ei ras, fel y cymhwysid hwynt i fwynhau cymdeithas y Duw byw yn dragywydd.

Nid oes eisieu i ni ddwyn ychwaneg o engreifftiau o'r natur uchod: y mae un dyfyniad, modd bynag, ag y dylem sylwi arno, yr hwn a gymmer pob esboniwr o'r bron fel engraifft eglur o *gyfaddasiad er mwyn yr iaith*, er cynnorthwyo yr apostol i osod ei feddwl allan mewn modd grymus a dedwydd. Cyfeiriwn at Rhuf. x. 18, "Eithr meddaf, Oni chlywsant hwy? Yn ddiau i'r holl ddaear yr aeth eu sŵn hwy, a'u geiriau hyd derfynau y byd." (Salm xix. 4.) Dysga yr apostol yn yr adnod hon fod yr efengyl wedi ei phregethu mewn llawer o wledydd, i'r naill genedl fel y llall, fel y mae bodolaeth a pherffeithderau Duw wedi cael eu cyhoeddi i'r holl greadigaeth. Nid yw yr apostol yn cyfeirio cymmaint at ëangder terfynau *(extent)*, ag at gyffredinolrwydd agwedd *(universal aspect)* pregethiad yr efengyl. Ymddengys oddiwrth y defnydd a wna Paul o eiriau y Salmydd, fod cyfeiriad dwbl ynddynt,—y naill at y greadigaeth gyntaf, gyda'i chyhoeddwyr lliosog yn dadgan gogoniant, ac yn dyrchafu moliant Duw; y llall at eglwys Crist, fel creadigaeth newydd, gyda'r apostolion fel cenadon cariad a hedd, yn dadblygu gogoniannau y cymmeriad Dwyfol yn nhrefn gras, a galw ar bawb i foliannu Duw fel Awdwr iachawdwriaeth.

Ymddengys i ni, gan hyny, y gellir ystyried yr holl ddyfyniadau yn y Testament Newydd fel yn perthyn i'r naill neu'r llall o'r dosbarthiadau uchod, *a bod yn rhaid i ni eu deall felly*, neu edrych ar ysgrifenwyr y Testament Newydd yn dyfynu heb un amcan o bwys ganddynt wrth wneyd, a bod mewn penbleth barhaus yn nghylch ystyr eu hymadroddion.*

* Mae un anhawsdra ag sydd yn dwyn cyssylltiad â chywirdeb ysgriflyfrau y Testament Newydd, yn perthyn i'r dyfyniadau dan sylw. Yn Mat. xxvii. 9, ceir y gair Jeremiah, tra yr ystyrir mai Zechariah a ddylai fod. "Yna y cyflawnwyd yr hyn a ddywedwyd trwy Jeremias y prophwyd, gan ddywedyd, A hwy a gymmerasant y deg ar hugain arian, pris y prisiedig, yr hwn a brynasant gan feibion Israel; ac a'u rhoisant hwy am faes y crochenydd, megys y gosododd yr Arglwydd i mi." (Zech xi. 13) Pa fodd y mae cyfrif am enw Jeremiah yn lle Zechariah yn y lle hwn? Rhoddwyd yr atebion canlynol i'r gofyniad:—

1. Dyfynai Matthew o'i gof, ebe Alford, ac felly camgymmerodd y naill brophwyd am y llall. Nis gallwn dderbyn yr esboniad hwn heb roddi i fyny y pwnc o ysbrydoliaeth annghyfeiliorn yr ysgrifenwyr santaidd.

2. Enwir Jeremiah, ebe Dr. Lightfoot, am fod Jeremiah gynt yn mhlith yr Iuddewon yn sefyll yn mlaenaf yn nghyfres y prophwydi, fel yr enwir y Salmau yn Luc xxiv. 44, am mai hwy oedd yn sefyll yn mlaenaf yn yr adran o'r Ysgrythyrau a elwir Yr Ysgrifeniadau Santaidd *(Hagiographa)*. Ymddengys mai hyn

Fel casgliadau oddiwrth y cyfan, sylwn

1. *Fod y dyfyniadau o'r Hen Destament yn y Newydd, yn dysgu ysbrydoliaeth yr holl Feibl.*

Hona ysgrifenwyr y Testament Newydd ysbrydoliaeth Ddwyfol iddynt eu hunain; dyfynant wahanol lyfrau yr Hen Destament fel gair Duw; appeliant ato am awdurdod a chymmeradwyaeth i'r hyn a ddysgant; tra, o'r ochr arall, nad ydynt yn dyfynu o gwbl o lyfrau yr Apocrypha.

2. *Dysgant unoliaeth hanfodol a chydgordiad athrawiaethau yr holl Feibl.*

Dyfynir o'r Hen Destament er profi pechadurusrwydd holl ddynolryw (Rhuf. iii.); Duwdod Crist (Heb. i.); cyfiawnhad trwy ffydd (Rhuf. iv.); galwad y Cenedloedd (Rhuf. xv.), &c.

3. *Dysgant gyflawnder anhysbyddadwy y gair Dwyfol.*

Mae y dyfyniadau, wrth i Grist a'i apostolion eu hegluro, yn dadlenu gwirioneddau a meddylddrychau newyddion i ni; yr oedd y geiriau yn eu cynnwys o'r blaen, ond ni chanfyddai

---

ydyw syniad Dr. Payne Smith hefyd:—"In Mat. xxvii. 9, Jeremiah's name is used as equivalent to the whole circle of the prophets." (*Prophecy a Preparation for Christ*, p. 243.) Dywed Dr. Davidson, modd bynag, nad oes prawf boddhaol dros haeriad Dr. Lightfoot o barthed Jeremiah a'r llyfrau prophwydol.

3. Barna Dr. Fairbairn (*Hermeneutical Manual*, p. 444), fod yr efengylwr yn ystyried fod cyssylltiad anwahanadwy rhwng rhagfynegiad Zechariah a geiriau Jeremiah (xviii. 2, xxxii. 6), ac nad ydyw geiriau Zechariah ond cymhwysiad mwy diweddar a phendant o eiriau Jeremiah, ac o herwydd hyny fod Matthew yn enwi Jeremiah yn hytrach na'i olynydd.

4. Dr. S. Davidson a greda mai Jeremiah a ysgrifenodd y nawfed, y ddegfed, a'r unfedarddeg o bennodau yn Zechariah, y rhai a gyssylltwyd rywfodd â gwaith Zechariah, ac mai dyna y rheswm dros ddygwyddiad y gair Jeremiah yn Mat. xxvii. 9. (*Sacred Hermeneutics*, pp. 464, 465.)

5. Ereill a farnant mai camgymmeriad rhyw adysgrifenydd ydoedd, gan mai darnau o eiriau a ysgrifenid, a bod rhywun wrth weled ζριου *(Zriou)* wedi ei gymmeryd am Ιριου *(Iriou)*, ac felly fod Jeremiah wedi llusgo i mewn yn lle Zechariah.

6. Barna y Parch. John Williams, Rhos, cyfieithydd yr "*Oraclau Bywiol*," a Dr. Robinson, awdwr y Geiriadur Groeg i'r Testament Newydd, na ysgrifenodd Mathew ond *δια του προφητου trwy y prophwyd*, ac i ryw adysgrifenydd boreuol ychwanegu Jeremiah, gan gyfeirio at Jer. xviii. 2, ac i adysgrifenydd boreuol arall (yn ol Dr. Robinson, gan y ceir Zechariah mewn rhai copïau), ysgrifenu Zechariah, gan gyfeirio at Zech. xi. 12, 13. Ymddengys i'r awdwr mai y syniad diweddaf yma yw y cywiraf, yr hyn a gadarnheir hefyd gan y ffaith nad oes yn y Testament Syriaeg ond yn unig *trwy y prophwyd*, heb enw neb.

y darllenydd hyny. Er engraifft, "Myfi yw Duw Abraham, Duw Isaac, a Duw Jacob:" "Yn dy had di y bendithir yr holl Genedloedd:" "Pwy a ddisgyn i'r dyfnder?" "Ni oddefi i'th Sant weled llygredigaeth:" yr oedd y brawddegau hyn yn dysgu anfarwoldeb yr enaid, cyfryngwriaeth ac adgyfodiad Crist, er pan y llefarwyd hwy gyntaf: ond yr oedd yn ofynol i Fab Duw neu ei apostolion ysbrydoledig eu hagor, a dwyn allan eu trysorau a'u cyfoeth, a'u cymhwyso er gosod allan dynged dyn, a ffeithiau gogoneddus y prynedigaeth, cyn y gallasai preswylwyr y ddaear hon eu hamgyffred yn briodol.

4. *Dysgant hefyd fod y Testament Newydd yn gyflawniad o'r Hen Destament.*

Mae y dyfyniadau yn ein hargyhoeddi o hyn. Dygir hwynt yn mlaen er dangos i'r darllenydd eu bod wedi cael eu cyflawni. Nid oedd yr hen oruchwyliaeth ond sefydliad rhagbarotoawl, i barotoi y ffordd i Gristionogaeth. Nid oedd defodau ac aberthau y ddeddf ond cysgod o ddaionus bethau i ddyfod. Rhagfynegodd y prophwydi am ymddangosiad, darluniasant hanes, a desgrifiasant gymmeriad y Messiah; dengys y Testament Newydd sylweddoliad y cysgodau, cyflawniad y rhagfynegiadau, ac ymddangosiad gwirioneddol y Duw-ddyn. Cyfrifa hyn am ddadganiad cysson yr efengylwyr fod ymadroddion y prophwydi wedi cael eu cyflawni yn Nghrist a'i hanes. Yn yr Hen Destament, cawn Grist yn yr addewid; yn y Testament Newydd, cawn ef yn y cyflawniad o honi wedi gwneyd ei ymddangosiad fel Emmanuel; mae y ddau Destament, yn gyffelyb i'r ddau gerub yn edrych ar y drugareddfa, yn syllu ar y Cyfryngwr, fel delw y Duw anweledig, Creawdwr ac Arglwydd y bydysawd, Gorchfygwr uffern a'r bedd, a Dysgawdwr a Phryniawdwr dyn.

Gwel *Dr. S. Davidson's Sacred Hermeneutics; Horne's Introd.* vol. ii.; *Dr. Angus's Bible Hand-Book; Fairbairn's Hermeneutical Manual; Barrows's Introduction to the Study of the Bible; Tholuck's Appendix to his Commentary on Hebrews; Turpie's Old Testament in the New; Dr. W. L. Alexander's Connexion between the Old and New Testament;* a *Dr. W. Lee's Inspiration of Holy Scripture.*

# PENNOD X.

## PROPHWYDOLIAETH, A'I DEHONGLIAD.

## Y CYNNWYSIAD.

*Ystyr y geiriau prophwyd a phrophwydo*—I. DAWN PROPHWYDOLIAETH YN ISRAEL—*Dewiniaeth—Yr addewid am brophwydi yn cynnwys addewid o Grist—Hanes y prophwydi—Eu galwad, dull o fyw, eu hysgolion, eu cymmeriad, cofrestr o honynt—Eu gweledigaethau a'u gweinidogaeth — Eu gweithrediadau arwyddluniol (symbolical actions).* II. RHEOLAU DEHONGLIAD PROPHWYDOLIAETH — *Credиniaeth yn ei Dwyfoldeb—Adnabyddiaeth â'i hieithwedd — Dirnadaeth o'i hamcan — Dealltwriaeth o gyssylltiad y dygwyddiadau a ddadguddia â'u gilydd—Dehongli yn ol "cyssondeb y ffydd," ac mewn cydgordiad â ffeithiau hanesyddol—Mai Emmanuel ydyw prif destyn Prophwydoliaeth.*

YSTYR briodol y gair Hebraeg *Nabbi*, yr hwn a gyfieithir prophwyd, pan y defnyddir ef am genad y Jehofah, yw *un sydd yn llefaru dros Dduw, fel ei gynnrychiolydd, a dehonglydd ei ewyllys.* (Barn. vi. 8. 2 Sam. vii. 2.) Ceir engraifft o'i ystyr fel un yn llefaru dros arall yn Exod. vii. 1:—"A'r Arglwydd a ddywedodd wrth Moses, Gwel, mi a'th wnaethum yn Dduw i Pharaoh; ac Aaron dy frawd fydd yn brophwyd i tithau." Yn yr ystyr yma hefyd y defnyddir y ferf *prophwydo* yn Mat. xi. 13:—"Canys yr holl brophwydi a'r gyfraith a brophwydasant hyd Ioan:" hwy oeddynt ddehonglwyr awdurdodedig yr ewyllys Ddwyfol hyd Ioan; ond pan ymddangosodd efe, yr oedd ganddo genadwri newydd oddiwrth Dduw at y byd.

Ymddengys fod y gair prophwyd mewn engraifft neu ddwy yn golygu *cyfaill neillduol i Dduw,* megys pan y defnyddir ef

am Abraham a'r patriarchiaid (Gen. xx. 7. Salm cv. 15); ond defnyddir ef fynychaf i osod allan *un wedi ei ysbrydoli gan Dduw i ragfynegi dygwyddiadau y dyfodiant.* (Deut. xiii. 1, xviii. 22. 1 Bren. xxii. 7. 2 Bren. iii. 11.) Cymhwysir y gair hefyd mewn modd anmhriodol at brophwydi twyllodrus, o herwydd eu bod hwy yn ffugio eu bod yn ysbrydoledig. (1 Bren. xviii. 19, 40, xxii. 6.) Ni a edrychwn ar ddawn prophwydoliaeth yn ngoleuni yr Ysgrythyr, ac wedi hyny ni a wnawn rai crybwyllion gyda golwg ar ddehongli prophwydoliaeth.

## I. Dawn Prophwydoliaeth yn Israel.

Cawn hanes yr amgylchiadau o dan ba rai yr addawyd ac y rhoddwyd y ddawn brophwydol i Israel yn y ddeunawfed bennod o lyfr Deuteronomium.

1. *Yr amgylchiadau o dan ba rai yr addawyd y ddawn brophwydol.*

1. Yr achlysur oedd y pryder sydd mewn dyn am wybod y dyfodol. Mae rhywbeth mewn dyn ag sydd yn ei wneyd yn awyddus i gael goleuni ar y dyfodiant; adsain anfarwoldeb o'i fewn ydyw; y mae yn ymwybodol ei fod i fyw ar ol hyn, ac y mae yn naturiol iddo ddymuno goleuni ar ei yrfa yn y dyfodol. Teimla dyn felly yn awr; os teimla fel hyn pryd y mae goleuni y Dadguddiad Dwyfol yn llewyrchu arno, llawer mwy y teimlai plant dynion hyn yn oesau boreuol y byd, pan nad oedd goleuni y Beibl ond yn dechreu dysgleirio, a hanes dyfodol y ddaear, a sefyllfaoedd dynion yn y byd arall, wedi eu dadguddio ond i raddau tra chyfyng ac anmherffaith. Cydnabyddai Duw resymoldeb y teimlad yma yn yr Israeliaid, ac addawai o fewn terfynau rhesymol ei foddhau, trwy anfon ei brophwydi atynt i'w goleuo am y dyfodiant, a'u haddysgu yn ewyllys y nef.

2. Yr oedd ffordd y Cenedloedd i foddloni y teimlad yma yn cael ei gwahardd i Israel, a'i chollfarnu. Dywedodd yr Arglwydd nad oedd Israel i ymarfer â ffieidd-dra y Canaaneaid, o herwydd pa rai yr oedd efe yn eu bwrw hwynt allan o Ganaan; un o honynt oedd dewiniaeth. Defnyddir wyth o wahanol ymadroddion yn Deut xviii. i osod hyn allan:—

(1,) *Arfer dewiniaeth.* (Deut. xviii. 10.) Ymadrodd cyffredin

yw hwn, yn cynnwys gwahanol ganghenau o'r gyfundrefn dwyllodrus. Yr oeddynt yn dewino trwy gyfrwng saethau, neu edrych i ranau tufewnol aberth, neu trwy ddelwau bychain ar ffurf ddynol o'r enw Teraphim. Cyfeirir at yr arferion hyn yn Ezeciel xxi. 19—22, lle y dysgir y prophwyd i gyflawni gweithred arwyddluniol, mae'n debyg, trwy dynu ar lech (cymharer Ezec. iv. 1), neu ar y ddaear, ddarlun o ffordd yn dyfod o gyfeiriad Babilon tua Chanaan, yr hon ychydig i'r Dwyrain o Palestina a ymagorai yn ddwy ffordd, tua'r llaw ddeheu a'r llaw aswy:—"Tithau, fab dyn, gosod i ti ddwy ffordd, fel y delo cleddyf brenin Babilon; o un tir y deuant ill dwy: a dewis le, yn mhen ffordd y ddinas y dewisi *ef*. Gosod ffordd i ddyfod o'r cleddyf tua Rabbath meibion Ammon, a thua Judah yn erbyn Jerusalem gaerog. Canys brenin Babilon a saif ar y groes-ffordd, yn mhen y ddwy-ffordd, i ddewino dewiniaeth: efe a loywa ei saethau, efe a ymofyna â delwau, efe a edrych mewn afu. Yn ei law ddeheu y bydd dewiniaeth Jerusalem," &c. Byddai y Caldeaid, ebe Jerome, cyn cychwyn i ryfelgyrch, yn ysgrifenu enwau gwahanol ddinasoedd ar rai o'u saethau, yna yn eu dodi yn y cawell a'u hysgwyd; ac ar ol hyny yn eu tynu allan; a pha ddinas bynag a ddeuai i fyny gyntaf, ar hono yr oedd yr ymosodiad i gael ei wneyd.

Ymddengys oddiwrth y dyfyniad uchod o Ezeciel y byddai i frenin Babilon wrth fyned rhagddo tua therfynau Canaan, ddyfod i fan lle yr oedd y brif-ffordd yn ymagor i ddau gyfeiriad, y naill ar y llaw ddeheu tua Jerusalem, y llall ar y llaw aswy tua Rabbath, ac y byddai yn y fan hono yn petruso pa ffordd i'w chymmeryd; desgrifir ef yn ymofyn â'r Teraphim, ac yn chwilio oddiwrth liw neu ansawdd iechyd rhanau tufewnol y creaduriaid a offrymai, ac yn defnyddio ei saethau, er cael allan beth oedd ewyllys ei dduwiau: darlunir ef yn ergydio ei saethau rhwng y ddwy ffordd er gweled pa ochr y disgynai y rhifedi mwyaf, a chan y byddai i'r mwyafrif o honynt ddisgyn ar y llaw ddeheu, penderfynai fyned rhagddo tua Jerusalem; gwnai hefyd ysgwyd ei gawell saethau, i edrych enw pa dref a ddeuai i fyny gyntaf, a chan mai y saeth gyda'r gair JERUSALEM wedi ei ysgrifenu arno a godai gyntaf, desgrifir ef yn adnod 22ain yn dal "dewiniaeth Jerusalem yn

ei law ddeheu," er calonogi ei filwyr i fyned yn mlaen yn wrol i'r ymgyrch yn erbyn y ddinas hono.*

(2,) *Planedydd*, Hebraeg, *meonen*, un yn dewino trwy edrych ar y cymmylau, gan ffugio casglu gwybodaeth am ddygwyddiadau y dyfodiant oddiwrth ymddangosiad y cymmylau. (Deut. xviii. 10.)

(3,) *Daroganwr*, Hebraeg, *menachesh*, un yn dewino trwy wylio symmudiadau ac ymddangosiadau seirph, gan ffugio egluro dirgelion trwy y moddion yna. (Deut. xviii. 10.)

(4,) *Hudol*, Hebraeg, *mechash-sheph*, un yn proffesu amlygu dirgelion yr amser dyfodol trwy swyngyfaredd, un yn defnyddio cyfferi *(drugs)* i ddybenion dewinol. (Deut. xviii. 10.)

(5,) *Swynwr swynion*, Hebraeg, *chober chaber*, un yn ceisio ymlid drwg ymaith, neu ddadguddio dirgelion, trwy gydio yn nghyd wahanol gylymau, neu uno nifer o eiriau â'u gilydd. (Deut. xviii. 11.)

(6,) *Ymofyn â chonsuriwr*, Hebraeg, *shoel ob*, ymofyn âg un sydd yn proffesu galw i fyny y meirw trwy ddewiniaeth er mwyn iddynt ateb ei ofyniadau yn nghylch dygwyddiadau yr amser dyfodol, neu bethau dirgel, megys eiddo wedi ei ladrata a'r cyffelyb; tybid y byddai ysbryd y marw ar y pryd yn trigo yn nghorph y consuriwr, am hyny dywedir fod gan (Hebraeg, *yn*) y cyfryw "ysbryd dewiniaeth." (Lef. xx. 27. Deut. xviii. 11.)

(7,) *Brudiwr*, Hebraeg, *yid-deoni*, un gwybodus, un yn ffugio gwybod amgylchiadau dyfodol trwy gyfrwng ysbryd y marw, neu ryw foddion arall. (Deut. xviii. 11.)

(8,) *Ymofyn â'r marw*, Hebraeg, *doresh hammethim*, un yn myned at y beddau er ymofyn â'r meirw trwy rwbio y dwylaw, a churo y traed, a lleisio fel cyw iar, er gallu dewino. (Deut xviii. 11. Esai. viii. 19, xxix. 4, lxv. 4.)

Yr oedd yr arferion hyn yn bechadurus i'r graddau eithaf, oblegyd nid oeddynt yn cydnabod Duw, ond yn tynu meddwl dyn oddi wrtho ef at wagedd a thwyll; yr oeddynt yn denu

* Gwel yr *Annotated Paragraph Bible*, ac Esboniadau Henderson a Gill ar Ezeciel. Yr ydym wedi dilyn Henderson wrth droi y berfau yn adnodau 21, 22, i'r dyfodol; y dyfodol a olygir, ond fod prophwydoliaeth yn son am y dyfodol fel pe wedi myned heibio.

dyn i ymddiried mewn celwydd ac ynfydrwydd (Preg. ix. 6, xi. 2. Diar. xxvii. 1. Eph. v. 16); yr oeddynt yn bytholi teyrnasiad anwybodaeth, ofergoeledd, a thwyll; yr oeddynt yn bradychu ar ran yr ymofynwyr anesmwythder pechadurus yn nghylch y dyfodol, a diffyg ymddiried yn naioni, doethineb, a gallu Duw (Mat. vi. 34); ac yr oeddynt yn wastad yn gyssylltiedig âg eilunaddoliaeth, ac yn cynnwys dirmyg a gwawd o Jehofah a'i ffyrdd; ac o ganlyniad, y maent yn cael eu gwahardd yn y modd mwyaf pendant, a'u collfarnu yn y modd mwyaf llym. (Lef. xx. 27. Deut. xviii. 10—14.)

Fe gofir fod dewiniaeth yn hollol wahanol i efrydiaeth o seryddiaeth ac elfenau natur, er *deall deddfau y greadigaeth;* nid yw rhagfynegi diffyg ar yr haul, a dynesiad ystorm, fel y gwna seryddwyr a Bwrdd y Morlys yn ein gwlad ni, ond casgliad gwyddonol wedi ei dynu o astudiaeth ddyfal o ddeddfau y Creawdwr; mae cywirdeb a chyfreithlondeb rhagwybodaeth o'r fath yma yn cael eu cydnabod gan yr Arglwydd Iesu (Luc xii. 54—56); ond pan yr â dynion i ffugio esbonio trefn Rhagluniaeth yn mlaen llaw, neu ragfynegi helyntion bywyd dyn trwy y ffyrdd hyn, neu unrhyw ffordd arall, y maent yn cael eu desgrifio fel twyllwyr, a'u collfarnu fel gelynion y Jehofah.

3. Addawa Duw amlygu y dyfodol i Israel trwy ei brophwydi. Yn nghysswllt y gwaharddiad i Israel ymwneyd â dewiniaeth er rhagweled y dyfodol, y mae yr addewid am y ddawn brophwydol yn cael ei rhoddi:—"Nid felly y caniatàodd yr Arglwydd i ti: yr Arglwydd dy Dduw a gyfyd i ti, o'th blith dy hun, o'th frodyr dy hun, Brophwyd megys finau; arno ef y gwrandewch." (Deut. xviii. 14, 15.) Fel pe dywedasai Moses: Ni raid i ti ymofyn â dewiniaid er gwybod y dyfodol, yr Arglwydd dy Dduw a enfyn i ti brophwydi, y rhai a rhagfynegant y dyfodol i ti am bob peth ag y bydd dy les di a gogoniant Duw yn galw am i ti ei wybod.

Ac felly y gwnaeth: fe anfonodd yr Arglwydd atynt lu o brophwydi, y rhai a ragfynegasant y dyfodol iddynt; rhybuddiasant hwynt o'u peryglon, rhagfynegasant am eu gorthrymderau a'u gwaredigaethau, prophwydasant am ddarostyngiad a chwymp eu gelynion, ac yn neillduol am gyfodiad y Messiah o'u mysg, yr hwn oedd i fod yn iachawdwriaeth yr holl ddaear. Ar adegau neillduol, amlygai Duw ei ewyllys iddynt trwy yr

Urim a'r Thummim, ac ni adawodd i'w bobl ymbalfalu yn y tywyllwch, na myned i guro wrth borth dewiniaid. Yr oedd Israel i foddloni ar y goleuni a welai Duw yn dda ei roddi trwy ei weision, ac nid aflonyddu eu hunain â chywreinrwydd pechadurus i dreiddio i bethau ag nad oedd y Duw doeth welai gweled yn dda eu dadguddio.

4. Graslonrwydd Duw yn amlygu ei ewyllys trwy y prophwydi. Mae'n amlwg fod anfoniad prophwydi at Israel, nid yn unig yn ddarpariaeth i gyfarfod yr awydd sydd mewn dyn i wybod y dyfodol, ond hefyd yn ymddarostyngiad grasol o eiddo Duw i gyfarfod â llesgedd y natur ddynol. Fe allasai efe amlygu y dyfodol trwy lefaru ei hunan yn ddigyfrwng o'r nef; ond ni fuasai dyn halogedig yn y corph yn gallu dal ei leferydd :—" Yn ol yr hyn oll a geisiaist gan yr Arglwydd dy Dduw yn Horeb, yn nydd y gymmanfa, gan ddywedyd, Na chlywyf mwyach lais yr Arglwydd fy Nuw, ac na welwyf y tân mawr hwn mwyach, rhag fy marw. A dywedodd yr Arglwydd wrthyf, Da *y dywedasant yr* hyn a ddywedasant. Codaf Brophwyd iddynt o fysg eu brodyr, fel tithau, a rhoddaf fy ngeiriau yn ei enau ef; ac efe a lefara wrthynt yr hyn oll a orchymynwyf iddo." (Deut. xviii. 16—18. Gwel Exod. xx. 18, 19.) Fe dosturiodd Duw wrth wendid dyn, ac fe ysbrydolodd ddynion i fod yn gyfryngau trosglwyddiad ei ewyllys i'r byd ; a phan yr ymddangosodd ei Fab, fe ymddangosodd yn natur dyn, mor addfwyn a llariaidd a'r oen, a gras wedi ei dywallt ar ei wefusau, fel na fyddai i'r rhai drylliedig o galon frawychu yn ei bresennoldeb. Ond och! mor gyfnewidiol a dall ydyw dyn; darfu i'r bobl a weddïent am i Moses gael llefaru wrthynt, yn fuan rwgnach yn ei erbyn ; a chyda golwg ar ymddygiad dynion at Emmanuel, dywedir, "At ei eiddo ei hun y daeth, a'i eiddo ei hun nis derbyniasant ef!"

NODIAD.—*Yr addewid o brophwydi i Israel yn cynnwys addewid o Grist.*

Yr ydym wedi nodi yr amgylchiadau o dan ba rai yr addawyd prophwydi i Israel; ond yr oedd yr addewid, er ei bod yn cyfeirio yn uniongyrchol at anfoniad prophwydi at genedl Israel, yn cynnwys cyfeiriad pellach at Iesu Grist, y Prophwyd Dwyfol, yn yr hwn yr oedd holl drysorau doethineb yn preswylio. Mae yr ystyriaethau canlynol yn profi hyn :—

1. *Mae yn naturiol i ni ddysgwyl fod cyfeiriad yn y geiriau at Grist.* Mae yn afresymol tybied fod geiriau yn mha rai y mae Duw yn addaw

dadguddiad Dwyfol i'r byd yn lle ofergoeledd paganaidd, a phrophwydi o'i anfoniad ei hun yn lle twyllwyr dewinol, yn amddifad o gyfeiriad at Grist, y mwyaf gogoneddus o'r holl brophwydi, er mwyn yr hwn y sefydlwyd yr hen oruchwyliaeth, ac yr anfonwyd y prophwydi ereill oll; byddai coleddu y fath syniad yn cynnwys tybiaeth fod Duw wedi sefydlu moddion heb yr un amcan teilwng mewn golwg!

2. *Yn Nghrist yn unig y ca'r geiriau eu llwyr gyflawni.*

1. Yr oedd y prophwyd addawedig i fod yn Gyfryngwr. Yr oedd Duw yn llefaru trwy y prophwydi wrth ddynion, a'r prophwyd yn eiriol dros ddynion gyda Duw; ond cyfryngwr mewn ystyr gyfyngedig oedd y prophwyd yn Israel; nid oedd yn gydradd â Duw, ac nid oedd ganddo iawn dros bechod; cyfyngid ei gyfryngwriaeth i eiriolaeth dros ddynion, a throsglwyddiad i ddynion o feddwl y Goruchaf. Ond y mae Crist yn Gyfryngwr mawr, yn Dduw a dyn, yn Iawn ac Eiriolwr, yn uno nef a daear â'u gilydd, trwy ei berson a'i haeddiant ei hun.

2. Yr oedd y prophwyd addawedig i fod fel Moses. Yr oedd i fod *yn Israeliad fel efe*. Dysgai yr Herodianiaid, yn ol rhai ysgrifenwyr, mai Herod oedd y Messiah; ond nis gallai hyny fod, oblegyd Idumead oedd Herod; a dywedai Josephus mai Vespasian oedd y Messiah, yr hyn hefyd oedd gyfeiliornus, oblegyd Rhufeinwr oedd Vespasian. (*Gill on the Prophecies*, pp. 84, 85.) Yr oedd Crist i fod yn had Abraham, o lwyth Juda, ac o dŷ Dafydd, o ran ei natur ddynol. Yr oedd gael ei *Ddwyfol awdurdodi i'w swydd* fel Moses. Yr Arglwydd oedd i'w anfon. Ac felly'n dysgir yn y Testament Newydd am Grist. Y Tad a'i hanfonodd, ac a'i heneiniodd â'r Ysbryd Glân, fel y pregethai yr efengyl i feibion dynion. (Luc iv. 18, 19.) Ond yr oedd dau beth arbenig yn nodweddu Moses, ag nad oeddynt yn perthyn i'r prophwydi ereill yn y rhai nid oedd neb yn debyg iddo ond yr Arglwydd Iesu; sef, *agosrwydd a thynerwch ei gymdeithas â Duw* (Exod. xxxiii. 11 Num. xii. 6—9. Deut. xxxiv. 10), a'i waith *yn dwyn i mewn oruchwyliaeth grefyddol newydd i'r byd*. (Mal. iv. 4. Ioan i. 17.) Ni chyfododd neb ond Iesu Grist ag oedd yn gyffelyb i Moses yn y ddwy ystyr yma. Ond yr oedd cymdeithas Iesu Grist â Duw yn agosach, anwylach, purach, a Dwyfolach nag y gallai eiddo Moses fod; yr oedd hwn "yn mynwes y Tad" ac "yn y nef" hyd y nod pan oedd ar y ddaear yn llefaru wrth ddynion (Ioan i. 18, iii. 13); ac fe ddiddymodd yr hen gyfammod a sefydlasai Moses, er dwyn i mewn y cyfammod newydd disigl, grasol a chyffredinol, o dan yr hwn y mae y byd oll i gael ei ddychwelyd at yr Arglwydd. (2 Cor. iii. 11. Eph. ii. 15, 17. Heb. vii. 12, viii. 6—13.)

3. *Mae y bygythiad yn erbyn y rhai anufydd i'r Prophwyd yma, yn galw arnom i ddeall fod y geiriau yn cyfeirio at y Messiah.*

Er fod cosb i ddilyn y rhai anufydd i leferydd Duw trwy y prophwydi yn Israel, eto am wrthod Crist y mae y gosb benaf. Y mae uwchafiaeth yr Iesu ar ddynion ac angylion yn galw am gosb fwy dychrynllyd am ei

wrthod nag am ddirmygu y ddeddf. (Heb. ii. 1—3, x. 28, 29.) Cosbwyd y genedl Iuddewig mewn modd ofnadwy am ei wrthod ef trwy ddinystr eu teml a'u dinas, a chwymp eu gwladwriaeth (Luc xix. 41—44. Mat. xxi. 33—46. 1 Thes. ii. 14—16); a bydd digofaint Duw yn aros yn dragywydd ar yr hwn na chreda ynddo. (Ioan iii. 36. Act. iii. 23.)

4. *Mae y Testament Newydd yn cymhwyso geiriau Moses at Grist.*

Mae'n debygol fod Phylip (Ioan i. 45), a'r bobl (Ioan. vi. 14), yn cyfeirio at yr addewid dan sylw, pan yn son am yr Iesu fel yr hwn yr ysgrifenodd Moses am dano; dywedir nad oedd gan y Samariaid ond llyfrau Moses, ac eto dysgwylient y Messiah yn y cymmeriad o brophwyd (Ioan iv. 25), yr hyn mae'n debygol a ddysgasant oddiwrth Deut. xviii. 15: dywed Crist ei hun fod Moses wedi ysgrifenu am dano ef, a dichon ei fod yn cyfeirio at y geiriau dan sylw (Ioan v. 46): a chawn Pedr a Stephan yn eu dyfynu fel rhai wedi eu cyflawni yn ymddangosiad Crist. (Act. iii. 22, 23, vii. 37.)

Yr Arglwydd Iesu oedd gwrthddrych mawr yr addewidion, sylwedd gogoneddus y cysgodau, a thestyn goruchel prophwydoliaeth; os collir golwg ar hyny, fe gollir yr allwedd i ddeall yr Hen Destament, ac fe ddeuir i wrthdarawiad parhaus â'r Testament Newydd.

2. *Braslun o hanes y prophwydi.*

Ni chawn ond gwneyd ychydig grybwyllion; chwilied y darllenydd yr Ysgrythyrau am wybodaeth helaethach a manylach.

1. Eu galwad. Nid yr un modd y galwai Duw ei holl brophwydi. Galwyd *Moses* gan angel Duw o'r berth, a gorchymynwyd iddo fyned at Pharaoh, a gwnaed gwyrthiau er ei foddloni mai o Dduw yr oedd yr alwad. (Exod. iii. 1—4, iv. 17.) Cafodd *Samuel* ei alw gan yr Arglwydd i fod yn brophwyd iddo pan yn dra ieuanc, pan yr ydoedd yn gwasanaethu yn y tabernacl yn Siloh; galwai Duw arno fel y galwa gŵr ar ei gyfaill. (1 Sam. iii.) Appwyntiwyd *Jeremiah* hefyd i fod yn brophwyd pan ydoedd yn ieuanc, a phan y crynai wrth feddwl am gyfrifoldeb ac anhawsderau ei swydd o herwydd ei ieuengtyd a'i deimlad o'i annheilyngdod. (Jer. i. 4—6.) Cyssegrwyd *Eliseus* i fod yn brophwyd trwy waith Elias yn bwrw ei fantell arno, i arwyddo ei wisgiad â'r swydd brophwydol, pan y gwnaeth rhyw ddylanwad anorchfygol iddo adael pob peth a dilyn Elias. (1 Bren. xix. 19—21.) Gwel hefyd Amos vii. 14, 15.

Trwy ryw foddion neu gilydd, yr oedd y gwir brophwyd yn cael ei lwyr argyhoeddi mai Duw oedd yn ei alw; yr oedd rhyw ddylanwad anwrthwynebol yn peri iddo lefaru dros Dduw, a gwireddai Duw ei ymadrodd naill ai trwy wyrth, neu trwy gyflawni ei ragfynegiad gyda golwg ar ddygwyddiad ag oedd i gymmeryd lle yn fuan, yr hyn a fyddai yn brawf y cyflawnid ei brophwydoliaethau am adegau diweddarach. Felly gyda Moses; cyflawnwyd gwyrthiau o'i flaen ef a'r bobl er profi ei Ddwyfol neillduad i fod yn brophwyd i'r Arglwydd (Exod. iv. 4—9, 30); ni adawodd yr Arglwydd i un o eiriau Samuel syrthio i'r ddaear, er dangos mai yr Arglwydd ei hun a'i hanfonasai (1 Sam. iii. 19); dywed Jeremiah mai "pan ddel gair y prophwyd i ben, yr adnabyddir y prophwyd, mai yr Arglwydd a'i hanfonodd ef mewn gwirionedd" (Jer. xxviii. 9), yr hyn o ganlyniad a gymmerodd le gyda golwg arno ef ei hun, er rhoddi safle iddo fel prophwyd yr Arglwydd; ac am Ezeciel, dywedir, "daeth gair yr Arglwydd yn eglur * at Ezeciel yr offeiriad, mab Buzi, yn nhir y Caldeaid" (Ezec. i. 3), hyny yw, gyda phrofion sicr mai oddiwrth Dduw y deilliodd.

2. Eu dull o fyw. Nid oedd y prophwydi yn gyffredin yn cael eu hamgylchu â chyfoeth a llawnder; yr ydym yn darllen am anrhegion o ymborth yn cael eu hanfon iddynt (1 Bren. xiv. 3. 2 Bren. iv. 42—44), a llety yn cael ei barotoi iddynt ar eu teithiau (2 Bren. iv. 8—10), ac am hyd y nod wragedd gweddwon yn darparu gogyfer â'u hanghenrheidiau. (1 Bren. xvii. 9.) Ni dderbynient wobrau am eu rhagfynegiadau, fel dewiniaid a'r offeiriaid paganaidd, ond traddodent eu prophwydoliaethau, y rhan fynychaf, pryd na ofynid am danynt, a hyny yn aml yn erbyn ewyllys a theimlad breninoedd, a phendefigion, a'r werin, yr hyn a'u dygodd yn fynych i gyfyngder a pherygl, ac a gynhyrfai erlidigaeth yn eu herbyn. (1 Bren. xiii. 7—10.) Sonir am waith y penaethiaid yn barnu er gwobr, a'r offeiriaid yn dysgu er cyflog, a'r prophwydi yn dewino er arian, fel arwydd o ddirywiad ofnadwy. (Michah iii. 11.) Mae'n debygol fod y mwyafrif o honynt yn dilyn rhyw alwedigaeth er gallu cynnal eu hunain; tra yr oedd

* היה היה דבר יהוה. "The infinitive absolute before a finite verb to intensify the meaning."—*Gesenius's Heb. Grammar*, § 131. 3. a.

ereill, fel Elias ac Eliseus, yn teithio oddi amgylch fel diwygwyr, gan draethu oraclau y Jehofah, ac arolygu gwahanol ysgolion y prophwydi.

Nid oeddynt yn arwain bywyd dibriod, canys darllenwn am wragedd Esaiah (Esai. viii. 3), ac Ezeciel (Ezec. xxiv. 18), ac am wragedd meibion y prophwydi. (2 Bren. iv. 1—7.) Arferent wisgo math o fantell neillduol, wedi ei gweu o flew camel neu afr, neu o ryw ddefnydd garw arall, yr hon a rwymid am y lwynau â gwregys o groen. (1 Bren. xix. 19. 2 Bren. i. 8. Mat. iii. 4.) Yr oedd twyllwyr yn ceisio eu hefelychu yn eu gwisgoedd. (Zech. xiii. 4.*)

3. Eu hysgolion. Mae y cyfeiriad at ysgolion y prophwydi yn y Beibl yn hollol ddamweiniol, ac felly nid oes genym hanes cyflawn am danynt. Darllenwn am yr ysgolion hyn yn Ramah, Bethel, Jericho, a Gilgal. (1 Sam. xix. 19, 20. 2 Bren. ii. 3, 5, iv. 38.) Ymddengys oddiwrth eiriau Amos, sef nad oedd ef yn "fab i brophwyd" (Amos vii. 14), hyny yw, wedi bod yn ddysgybl yn un o ysgolion y prophwydi, fod yr ysgolion hyn wedi parhau am tua thri chant o flynyddau ar ol adeg eu sefydliad gan Samuel.

Ymddengys, yn ol fel y gallwn gasglu oddiwrth yr hanes, mai Samuel a ddechreuodd yr ysgolion hyn. Nid oedd yr offeiriaid a'r Lefiaid, y rhai a wasgaresid trwy Israel er addysgu y genedl yn nghyfraith yr Arglwydd a llwybrau rhinwedd, wedi llwyddo i wneyd hyny yn effeithiol; teimlai Samuel fod eisieu rhywbeth yn ychwanegol; wedi iddo gael ei ryddhau o'r cyfrifoldeb o farnu Israel, ymosododd ar y gwaith o drefnu mesurau er addysgu y genedl yn fwy trwyadl yn ewyllys Duw; ac wedi casglu dynion ieuainc duwiol, cymhwys i ddysgu ereill, yn neillduol y rhai yr oedd lle i obeithio fod Duw wedi eu bwriadu i fod yn brophwydi iddo ef, efe a ymosododd ar y gwaith o'u dysgu yn ei dŷ ei hun yn Ramah. Dyma yr ysgol gyntaf y darllenwn am dani, a dywedir yn bendant fod Samuel yn llywydd arni. "A Saul a anfonodd genhadau i ddala Dafydd. A phan welsant gynnulleidfa y prophwydi yn prophwydo, a Samuel yn sefyll wedi ei osod arnynt hwy, yr oedd ar genhadau Saul Ysbryd Duw, fel y

* Yr un gair (Hebraeg אדרת *ad-dereth*) a gyfieithir yn Zech. xiii. 4, "crys" ag a gyfieithir "mantell" yn 1 Bren. xix. 19.

prophwydasant hwythau hefyd." (1 Sam. xix. 20.) Cawn fod Dafydd gyda Samuel yn Ramah (1 Sam. xix. 18—20); dichon mai yn ysgol Samuel y dysgodd Dafydd ysgrifenu a deall cerddoriaeth, a chyfansoddi ei ganiadau anfarwol. Mae yn amlwg eu bod yn myfyrio cerddoriaeth yn ysgol Samuel, oblegyd byddai "tyrfa o brophwydi yn disgyn o'r uchelfa, ac o'u blaen hwynt nabl, a thympan, a thelyn; a hwythau yn prophwydo" (neu *ganu mawl i Dduw*, 1 Sam. x. 5, xix. 19, 20). Yn fuan ar ol hyn, trwy orchymyn Dafydd a'r prophwydi ereill, dygwyd canu mawl i mewn i wasanaeth y cyssegr, fel elfen newydd ynddo (1 Chron. xxv. 1—6); a phan y darfu i Hezeciah adferu gwasanaeth y deml, "Efe a osododd y Lefiaid yn nhŷ yr Arglwydd, â symbalau, ac â nablau, ac â thelynau, yn ol gorchymyn Dafydd, a Gad gweledydd y brenin, a Nathan y prophwyd: canys y gorchymyn *oedd* oddiwrth yr Arglwydd, trwy law ei brophwydi ef." (2 Chron. xxix. 25.)

Diau fod y myfyrwyr ag oeddynt yn brophwydi yn cyfansoddi emynau o fawl i Dduw i'w canu yn ngwasanaeth y tabernacl a'r deml, o ba rai mae'n ddiau fod rhyw nifer eto ar gael yn wasgaredig trwy lyfr y Salmau.

Mae'n debygol fod amryw yn yr ysgolion hyn ag nad oeddynt yn brophwydi yn yr ystyr uchaf; yr oedd yno rai, fel Gad a Nathan, y rhai a ddaethant yn brophwydi yn ol ystyr arferol y gair; ereill a ddychwelent at eu gwahanol alwedigaethau; ereill, fel y Lefiaid, a dderbynid i wasanaeth y cyssegr fel cerddorion, tra yr oedd ereill o dan yr enw prophwydi, yn myned allan i bregethu yn erbyn llygredigaethau yr oes, ac i ddysgu moesoldeb a rhinwedd, a galw ar eu cymmydogion i edifarhau a diwygio, er yn amddifad o ysbrydoliaeth y gradd uchaf o brophwydi.

Yr oedd y gwyr ieuainc yn yr ysgolion hyn yn lliosog, oblegyd fe ddarfu i Obadiah ar un amgylchiad amddiffyn cant o honynt (1 Bren xviii. 4); ac yr oedd cant o honynt yn Gilgal (2 Bren. iv. 38, 43); ac yn Jericho, yr oeddynt mor lliosog fel yr oedd yn anghenrheidiol helaethu yr ysgoldŷ. (2 Bren. vi. 2.) O blith y rhai hyn, fynychaf, ond nid bob amser, y dewisai Duw ei genadon ysbrydoledig, y rhai a anfonai i ddwyn cenadwriaethau neillduol at eu cyd-oeswyr, ac i ddadguddio iddynt ddygwyddiadau y dyfodiant. (Amos vii. 14.)

Sylwasom mai Samuel oedd penaeth yr athrofa yn Ramah (1 Sam. xix. 20); a chawn feibion y prophwydi yn Jericho yn cydnabod Eliseus fel eu llywydd, pan y cawsant brawf fod ysbryd Elias wedi gorphwys arno. (2 Bren. ii. 15.)

Fe welir mai yn nheyrnas Israel yn unig yr oedd yr ysgolion hyn ar ol rhwygiad y freniniaeth, sef yn Bethel, Jericho, a Gilgal: wedi i Jeroboam ymlid ymaith yr offeiriaid a'r Lefiaid duwiol o Israel (2 Chron. xi. 13, 14), nid oedd neb mwyach yn nheyrnas y deg llwyth i ofalu am addysg grefyddol y bobl yn nghyfraith Jehofah, ond y rhai a hyfforddid yn yr ysgolion hyn, a'r prophwydi a ysbrydolai Duw fel ei gynnrychiolwyr. Gwnelai yr offeiriaid a'r Lefiaid y gwaith yn Judah, yr hwn a gyflawnai ysgolion y prophwydi yn Israel; wedi caethiwed Babilon, dygid y gwaith yn mlaen trwy gyfrwng y synagogau.

Ymddengys i'r ysgolion dan sylw, yn rhedfa amser, fyned yn ddirywiedig, ac i anfon allan ddynion o dan yr enw prophwydi, y rhai nad ofnent yr Arglwydd: mae yn dra thebygol mai yn erbyn y dosbarth yma y llefarai Jeremiah (Jer. vi. 13, xiv. 13—16), Michah (Mich. iii. 11), a Zephaniah (Zeph. iii. 4), mor llym, ac nid yn erbyn prophwydi Baal ac eilunod ereill. Gwareder athrofeydd duwinyddol Cymru rhag dyfod yn fagl i grefydd yr Oen, trwy lochesu ac anfon allan brophwydi dyeithr i ddylanwad Ysbryd Duw ar eu heneidiau!

4. Eu cymmeriad. Wrth ddarllen eu hanes, nis gallwn beidio edmygu ardderchowgrwydd eu cymmeriad; yr oeddynt yn ddynion gonest, uniawn, gwrol, annibynol, cyfeillion y gwirionedd, a chashawyr pechod yn ei holl agweddau; y gwladgarwyr cywiraf, a'r cynghorwyr doethaf, heb ddim mewn golwg ganddynt ond gogoniant Duw, a lles y wladwriaeth.

Ni chymmerent eu hudo â llwgrwobrwyon, ac ni dderbynient daledigaeth am eu rhagfynegiadau. (1 Bren. xiii. 7—9. 2 Bren. v. 15, 16. Dan. v. 17.)

Yr oeddynt mor wrol a diduedd pan yn cyfarch breninoedd a thywysogion ag yr oeddynt wrth lefaru wrth y bobl gyffredin. (1 Sam. xii. 25, xiii. 13, 14, xv. 26. 2 Sam. xii. 7—12. 2 Chron. xviii. 13—24, xix. 2. Jer. xxxii. 1—5, xxxvii. 6—10, xliv. 20—23. Dan. v. 22—28.)

Parhaent i ddwyn tystiolaeth i wirionedd eu cenadwri, hyd y nod pan y bygythid hwynt â marwolaeth. (2 Chron. xviii. 26, 27. Jer. xxvi. 10—15. Heb. xi. 37.)

Llefarent gyda'r hyfder, a'r digllonedd, a'r gofid mwyaf yn erbyn halogrwydd yr offeiriaid, bradwriaeth y ffug-brophwydi, a rhagrith y bobl. (Jer. xxiii. 11. Mich. iii. 11. Ezec. xxxiii. 31, 32. Esai. i. 10—15.)

Ymdrechent feithrin duwioldeb yn mhawb, dygent y cymhellion cryfaf yn mlaen er dwyn dynion i edifarhau, ac annogent yr edifeiriol i ymddiried yn yr Arglwydd â'i holl galon. (Esai. i. 18—20. lv. 1—7. Jer. xxvi. 13. Ezec. xviii. 31, 32. Hos. xiv. Zech. xiii. 1.)

Gyda golwg ar Balaam, caethwas trachwant ydoedd efe, er fod Duw wedi ei ddefnyddio ar un adeg i ddwyn oddi amgylch ei amcanion Dwyfol ei hun: nid oedd efe yn engraifft deg o brophwydi yr Arglwydd, y rhai fel rheol oeddynt yn "ddynion santaidd;" ond yn hytrach yn eithriad i drefn arferol Duw. (Num. xxii.—xxiv. Dad. ii. 14.) Sonir hefyd am hen brophwyd yn Bethel, yr hwn a dwyllodd brophwyd arall, a thrwy hyny a achosodd ei farwolaeth; ymddengys naill ai nad oedd efe yn ddyn duwiol, er ei fod yn cydnabod Jehofah, ac weithiau yn meddu y ddawn brophwydol, neu ei fod yn dra diffygiol yn y grasusau a nodweddent brophwydi yr Arglwydd yn gyffredin. (1 Bren. xiii. 11—32.)*

Yr oedd y prophwydi, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, yn ddynion santaidd, ymroddgar i anrhydeddu Duw a gwasanaethu eu gwlad, yn esbonwyr awdurdodedig o gyfreithiau yr Arglwydd, a chyhoeddwyr ysbrydoledig ei ewyllys gyda golwg ar eu cydoeswyr a phreswylwyr y ddaear mewn oesau diweddarach. (Heb. i. 1. 2 Pedr i. 21.)

5. Cofrestr o honynt.

### PROPHWYDI ANADNABYDDUS.

Mae genym hanes am dri o brophwydi, y rhai na chofnodir eu henwau:—

1. Yr hwn a geryddodd Israel yn amser y Barnwyr. (Barn. vi. 8.)

* "Many passages of Scripture show that sometimes God uses for his purposes, and therefore qualifies with special gifts, persons of whom, nevertheless, he does not approve."—*Annotated Paragraph Bible*, on Num. xxii. 18.

2. Un o Judah, yr hwn a geryddodd Jeroboam I. (1 Bren. xiii. 1—10.)

3. Hen brophwyd yr hwn a drigai yn Bethel. (1 Bren. xiii. 11.)

## PROPHWYDI HEB ADAEL YR HYN A ELWIR LLYFRAU PROPHWYDOL.

Cawn ugain o'r dosbarth yma:—

Moses. (Num. xii. 6—8.)

Samuel. (1 Sam. iii. 19—21.)

Gad.<br>Nathan. } (1 Chron. xxix. 29.)

Iddo.<br>Ahïah. } (2 Chron. ix. 29. 1 Bren. xiv. 2, 3.)

Dafydd. (2 Sam. xxiii. 2. Act. ii. 30, iv. 25.)

Semaiah. (1 Bren. xii. 22.)

Azariah, mab Oded. (2 Chron. xv. 1, 8.)*

Hanani. (2 Chron. xvi. 7.)

Jehu, mab Hanani. (1 Bren. xvi. 1.)

Elias. (1 Bren. xvii.)

Eliseus. (2 Bren. ii. 15.)

Micheah. (1 Bren. xxii. 8—28.)

Jahazïel. (2 Chron. xx. 14—18.)

Eliezer. (2 Chron. xx. 37.)

Zechariah, merthyr i'r Arglwydd. (2 Chron, xxiv. 20—22.)

Urïah, merthyr i'r Arglwydd. (Jer. xxvi. 20—23.)

Iddo, taid neu dadcu Zechariah y prophwyd. (Zech. i. 1.)

Simeon. (Luc ii. 25—35.)

* Mae yn debygol fod rhyw adysgrifenydd wedi gadael allan y geiriau "*Azariah mab,*" yn adn. 8 o'r lle uchod.

NODIAD.—

Darfu i rai o'r rhai hyn, modd bynag, ysgrifenu cofnodion o'u hamserau eu hunain, y rhai sydd yn awr ar goll: gwel tudal. 37—40. Mae Pum' llyfr Moses, llyfrau Samuel, a'r Salmau, yn cynnwys llawer o brophwydoliaethau. Cyfeirir hefyd at amryw yn meddu y ddawn brophwydol yn y Testament Newydd, ond nid â'r rhai hyny y mae a fynom yn awr.

## PROPHWYDESAU.

Cawn hanes am chwech o'r rhai hyn, o dan yr Hen Destament:—

Miriam. (Exod. xv. 20.)

Deborah. (Barn. iv. 4.)

Hannah. (1 Sam. ii. 1—10.)

Huldah. (2 Bren. xxii. 14.)

Noadiah. (Neh. vi. 14.)

Anna. (Luc ii. 36.)

NODIAD.—

Mae yn ymddangos mai gwraig Esaiah oedd y brophwydes y cyfeirir ati yn Esai. viii. 3, ac na olyga y gair yno ond *gwraig y prophwyd.*

---

## YSGRIFENWYR Y LLYFRAU PROPHWYDOL, A'U HAMSERAU.

Mae y Doctoriaid Jahn, Davidson, Pye Smith, Eadie, a gwahanol esbonwyr yn gwahaniaethu ychydig flynyddau oddiwrth eu gilydd, o barthed i amser ymddangosiad a pharhad gweinidogaeth y gwahanol brophwydi; ond gellir ystyried y tafleni canlynol yn lled agos i fod yn gywir:—

| Prophwydi. | Adeg eu Gweinidogaeth. | Lle eu Gweinidogaeth. | Breninoedd Judah ar y pryd. | Breninoedd Israel ar y pryd. | Dygwyddiadau Cyfamserol. |
|---|---|---|---|---|---|
| | *(Dechreu prophwydo tua'r fl. C.C.)* | | *(Dechreu teyrnasu tua'r flwyddyn a nodir).* | *(Dechreu teyrnasu tua'r flwyddyn a nodir).* | |
| Jonah .. .. | .. 825 .. | Israel a Nineftah .. | .. .. .. .. | Jeroboam II.: teyrnasiad 41 mlynedd. | Oes Homer, sylfaenydd llenyddiaeth Groeg, tua'r fl. 850 cyn Crist. |
| Amos .. .. | .. 811 .. | Israel .. .. .. | Uzzïah, yr hwn hefyd a elwir Azarïah: teyrnasiad 52 mlynedd .. | | |
| Joel .. .. | .. 810 .. | Judah .. .. | | | |
| Hosea: proph. am 40 ml. .. | .. 784 .. | Israel .. .. .. | .. .. .. .. | Cyfwng dideyrn am 12 ml. | Dechreuad cyfnod amseryddol y Groegiaid, a elwir yr Olympiad, C.C. 776. |
| | .. 773 .. | .. .. .. .. | .. .. .. .. | Zecharïah: teyrn. 6 mis .. | Yn y flwyddyn 774 C.C., dechreuodd Pul lywodraethu ar Assyria, a theyrnasodd am 21 mlynedd. |
| | .. 773 .. | .. .. .. .. | .. .. .. .. | Salum: teyrn. 1 mis. | |
| Esaiah: proph. am 48 ml. .. | .. 773 .. | Jerusalem .. .. | .. .. .. .. | Menahem: teyrn. 12 ml. .. | Teyrnasai Rezin ar Syria Damascus. |
| | .. 761 .. | .. .. .. .. | .. .. .. .. | Pecahïah: teyrn. 2 fl. | |
| Michah: proph. am 40 ml. .. | .. 759 .. | Judah ac Israel .. | Jotham: teyrn. 16 ml... | Pecah: teyrn. 20. ml. | Adeiladu Rhufain, C.C. 753. |
| | .. 743 .. | .. .. .. .. | Ahaz: teyrn. 16 ml. | | |
| | .. 740 .. | .. .. .. .. | .. .. .. .. | Cyfwng dideyrn am 8 ml. | |
| Nahum .. .. | .. 728 .. | Judah .. .. .. | Hezecïah: teyrn. 29 ml. | .. .. .. .. .. | Diddymwyd teyrnas Syria Damascus gan Tiglath-Pileser, yn y flwyddyn 724 C.C., ar ol bodoli am 244 ml. |
| | .. 721 .. | .. .. .. .. | .. .. .. .. | Hosea, brenin diweddaf Israel: teyrn. 9 ml. .. .. | |
| | .. 699 .. | .. .. .. .. | Manasseh: teyrn. 55 ml. | Dinystriwyd teyrnas y Deg Llwyth ar ol bodoli am 253 mlynedd, gan Salmaneser, brenin Assyria. (2 Bren. xvii.) | Sylfaenu Byzantium, neu Gaercystenyn, C.C. 658. |
| | .. 644 .. | .. .. .. .. | Amon: teyrn. 2 fl. .. | .. .. .. .. .. | Nebuchodonosor I., yr hwn a elwir hefyd Nabopolassar, yn teyrnasu am 20 mlynedd yn Babilon. |

| PROPHWYDI. | ADEG EU GWEINIDOGAETH. | LLE EU GWEINIDOGAETH. | BRENINOEDD JUDAH AR Y PRYD. | BRENINOEDD ISRAEL AR Y PRYD. | DYGWYDDIADAU CYFAMSEROL. |
|---|---|---|---|---|---|
| | *(Dechreu prophwydo tua'r fl. C.C.)* | | *(Dechreu teyrnasu tua'r flwyddyn a nodir.* | *(Dechreu teyrnasu tua'r flwyddyn a nodir.)* | |
| Zephaniah | 642 | Judah | Josïah : teyrn. 31 ml. | | |
| | 611 | | Joahaz : teyrn. 3 mis. | | |
| Jeremiah: proph. am 31 ml. | 611 | Judah a'r Aifft | Joacim : teyrn. 11 ml. | | Nebuchodonosor II. yn esgyn gorsedd Babilon yn y flwyddyn 606 C.C.; yn gorchfygu Judea ; yn teyrnasu am 43 mlynedd. |
| Habacuc | 600 | Judah | Joachin : teryn. 3 mis. | | |
| | 600 | | Sedecïah : teyrn. 11 ml. | | |
| Daniel : proph. am 70 ml. | 606 | Babilon a Phersia | | | Ninefeh yn cael ei chymmeryd gan y Mediaid a'r Babiloniaid, C.C. 606. |
| Ezeciel : proph. am 22 ml. | 594 | Caldea ar lanau yr afon Chebar | Yn y flwyddyn 587, cymmerodd llwyr ddinystr Jerusalem le, a thrydydd caethgludiad yr Iuddewon i Babilon | | Evil-Merodach yn teyrnasu 2 fl.<br>Neriglissar " " 4 bl.<br>Laborosoarchod am naw mis.<br>Belsassar, yr hwn a elwir hefyd Nabonnedus, yn teyrn. am 12 mlynedd. } Yn Babilon.<br>Solon yn Athen, C.C. 594. |
| Obadiah | 585 | Judah neu Babilon | Yn y flwyddyn 536, anfonodd Cyrus allan Gyhoeddiad Rhyddhad yr Iuddewon. | | Genedigaeth Pythagoras, C.C. 570. |
| Haggai | 521 | Judea | | | |
| Zechariah | 521 | Judea | | | Yn adeg gweinidogaeth Haggai a Zechariah yr adeiladwyd yr ail d ml yn Jerusalem.<br>Blodeuai yr hanesydd Herodotus, tua'r fl. 440 C.C., a Socrates, Xenophon, a Thucydides tua'r fl 420 C.C. |
| Malachi | 430 | Judea | | | Prophwydai Malachi yn ystod gweinyddiaeth Nehemiah, neu yn fuan wedi hyny. |

NODIAD.—

Dichon y byddai yn ddoeth gwneyd y gofrestr flaenorol o freninoedd Judah ac Israel yn gyflawn: wele yn canlyn lechres o enwau y breninoedd blaenorol i Uzzïah a Jeroboam II.

BRENINOEDD ISRAEL CYN YR YMRANIAD.

| Dechreu teyrnasu tua'r flwyddyn cyn Crist. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1095.. .. .. .. | Saul: teyrnasiad | 40 mlynedd. | | |
| 1055.. .. .. .. | Dafydd: | ,, | 40½ | ,, |
| 1015.. .. .. .. | Solomon | ,, | 40 | ,, |

BRENINOEDD ISRAEL A JUDAH AR OL YR YMRANIAD.

| Dechreu teyrnasu tua'r fl. C.C. | BRENINOEDD JUDAH. | BRENINOEDD ISRAEL. |
|---|---|---|
| 975 .. | Rehoboam: teyrnasiad 16 ml. .. | Jeroboam: teyrn. 22 mlynedd. |
| 958 .. | Abïam: teyrn. 3 bl. .. .. | |
| 955 .. | Asa: teyrn. 41 ml... .. .. | |
| 954 .. | .. .. .. .. .. .. | Nadab: teyrn. 2 fl. |
| 952 .. | .. .. .. .. .. .. | Baasa: teyrn. 24 ml. |
| 930 .. | .. .. .. .. .. .. | Elah: teyrn. 2 fl. |
| 929 .. | .. .. .. .. .. .. | Zimri: teyrn. 7 niwrnod. |
| 929 .. | .. .. .. .. .. .. | Omri: teyrn. 12 ml. |
| 918 .. | .. .. .. .. .. .. | Ahab: teyrn. 22 ml. |
| 914 .. | Jehosaphat: teyrn. 25 ml. .. | |
| 897 .. | .. .. .. .. .. .. | Ahazïah: teyrn. 2 fl. |
| 896 .. | .. .. .. .. .. .. | Jehoram: teyrn. 12 ml. |
| 891 .. | Jehoram: teyrn. 4 bl. .. .. | |
| 884 .. | Ahazïah: teyrn. 1 fl. .. .. | |
| 884 .. | Athaliah: teyrn. 6 ml. .. .. | Jehu: teyrn. 28 ml. |
| 877 .. | Joas: teyrn. 40 ml. .. .. | |
| 856 .. | .. .. .. .. .. .. | Joahaz: teyrn. 17 ml. |
| 840 .. | .. .. .. .. .. .. | Joas: teyrn. 16 ml. |
| 838 .. | Amazïah: teyrn. 29 ml. .. .. | |

3. *Eu gweledigaethau a'u gweinidogaeth.*

Yr ydym wedi cyfeirio at natur prophwydoliaeth, a gweledigaethau y prophwydi, yn tudalenau 104—106, 137, 138; ond rhaid i ni fanylu ychydig eto ar yr un pethau yn yr adran hon. Yr oedd Duw weithiau yn *llefaru* ei feddwl wrth ei weision (Num. xii. 8); bryd arall yn ei *ddadguddio mewn modd digyfrwng i'w meddyliau*, pan y teimlai y prophwyd mewn

modd sicr ac annghyfeiliorn mai Duw oedd yn ymwneyd âg ef,—megys pan amlygodd Duw ei feddwl i Ahïah yn nghylch gwraig Jeroboam (1 Bren. xiv. 5), ac i Jeremiah ar wahanol adegau (Jer. xxxix. 15, xlii. 7), ac i Nathan yn nghylch awydd Dafydd i adeiladu teml i'r Arglwydd (2 Sam. vii. 4), ac i Pedr yn nghylch rhagrith Ananias a Sapphira (Act. v. 3, 4): ac ar adegau ereill, amlygai Duw ei ewyllys trwy *freuddwydion a gweledigaethau.* (Num. xii. 6.) Mae yn anhawdd nodi y gwahaniaeth rhwng breuddwydion a gweledigaethau, heblaw fod dyn yn cysgu ac yn anymwybodol pan y derbyniai ddadguddiad Dwyfol trwy freuddwyd, tra y gallai fod yn effro ac yn ymwybodol pan yn cael gweledigaeth.

Pan yn derbyn gweledigaeth, gorchfygid y prophwyd weithiau gan y dylanwad Dwyfol, fel y syrthiai i lesmair neu lewyg, yn yr hon y byddai Yspryd Duw yn dadguddio i'w feddwl ddygwyddiadau y dyfodiant. Yn y weledigaeth, ymddangosai y prophwyd weithiau iddo ei hun fel pe buasai yn cael ei godi i ben mynydd neu rhyw le uchel arall, o'r lle y cai olwg ar ddygwyddiadau a helyntion yr amserau dyfodol, naill ai ynddynt eu hunain neu trwy arwyddluniau, fel pe buasent yn cymmeryd lle o flaen ei lygaid. "Yn ngweledigaethau Duw y dug efe fi i dir Israel, ac a'm gosododd ar fynydd uchel iawn, ac arno *yr oedd* megys adail dinas o du y deheu." (Ezec. xl. 2.) "Ac efe a'm dug i ymaith yn yr ysbryd i fynydd mawr ac uchel, ac a ddangosodd i mi y ddinas fawr, Jerusalem santaidd, yn disgyn allan o'r nef oddiwrth Dduw." (Dad. xxi. 10.)

Ymagorai y golygfeydd o flaen eu meddwl mewn modd bywiog ac argraffiadol; megys arddangosfa y bwystfilod yn ngweledigaeth Daniel (Dan. viii. 1—10); yr esgyrn sychion yn ngweledigaeth Ezeciel (Ezec. xxxvii. 1—10); y meirch yn ngweledigaeth Zechariah (Zech. vi. 1—8); y crochan berwedig, a'r pren almon yn ngweledigaeth Jeremiah (Jer. i. 11—13); a'r gwahanol arwyddluniau yn ngweledigaethau mawreddog Llyfr y Dadguddiad.

Ymddangosai yr arwyddluniau i feddwl y prophwyd yn y weledigaeth, fel yr ymddengys gwrthddrychau naturiol i lygad dyn. Fel hyn, cafodd Esaiah olwg ar gyflwr isel eglwys Dduw fel nifer o ddynion yn eistedd yn dorcalonus o dan gysgodion pruddaidd nos hirfaith; ond edrychai arno ei hun fel gwylied-

ydd ar y mynyddau neu ryw uchelfa, ac wrth ganfod toriad y wawr a dynesiad y dydd, bloeddiai arnynt, "Cyfod, llewyrcha; canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat." (Esai lx. 1.) Arferai gyssylltu y deml yn ei feddwl â mynydd Moriah; a chan mai trwy ddelweddau Iuddewig y gwelai ac y darluniai lwyddiant teyrnas Crist (gwel Rheol II. i ddehongli prophwydoliaeth), yn ei weledigaeth gwelai fynydd Moriah wedi ei ddyrchafu yn uwch na mynyddau ereill, a holl genedloedd y ddaear yn dylifo i'r deml oedd wedi ei hadeiladu arno. (Esai. ii. 2, 3.) Gan mai fel hyn yr ymddangosai pethau i'r prophwydi, tynid eu sylw at y gwrthddrychau mwyaf amlwg neu hynod yn y weledigaeth, ac am y rhai hyny y traethent wrth eu cydwladwyr: o herwydd hyn, nid ydym i ddysgwyl yn wastad mewn prophwydoliaeth *fod y pethau a draethir yn olynol i gael eu cyflawni yn olynol;* (gwel Rheol IV. i ddehongli prophwydoliaeth): a chan fod rhai pethau mewn gweledigaeth yn ymddangos fel pe byddent yn agosach at y gweledydd na phethau ereill, byddai ei argraffiad a'i ddirnadaeth am danynt yn fwy bywiog ac eglur, nag am y pethau a welai yn aneglur yn y pellafoedd; o herwydd hyn, *nid ydym i ddysgwyl cael yr un eglurder a helaethrwydd yn y cofnodiad o bob gweledigaeth, ac o wahanol ranau y gwahanol weledigaethau.* Pan yr agorwyd llygaid Balaam, ac y gwelodd weledigaethau Duw, dywedodd, "Llongau hefyd o derfynau Cittim a orthrymant Assur, ac a ddarostyngant Eber: ac yntau a dderfydd am dano byth." (Num. xxiv. 24.) Yr oedd Balaam yn ei weledigaeth yn gweled y llongau yn dyfod o ranau Gorllewinol Môr y Canoldir i lanio milwyr er ymosod ar Assyria, ac ar yr Hebreaid, ac yn gweled hefyd y gorchfygwyr hyn eu hunain yn cael eu darostwng yn y diwedd; ond mae'n debyg na ddeallai o ba wlad y deuent, gan fod y gair "Cittim" yn enw cyffredinol ar wledydd arforol Deheubarth Ewrop, ac ar ynysoedd Môr y Canoldir. Ond yr oedd Jerome yn y bedwaredd ganrif, ar ol i'r brophwydoliaeth gael ei chyflawni, yn medru ei hamgyffred, ac yn y Vulgate rhoddodd y cyfieithiad canlynol, yr hwn sydd hefyd yn esboniad arni heb ddirdynu yr ymadroddion: "Hwy a ddeuant mewn rhwyflongau o Itali, ac a orchfygant Assyria, ac a annrheithiant yr Hebreaid, a hwythau hefyd yn y diwedd a ddifethir." * Yr oedd y

* *Dr. Payne Smith's Prophecy*, p. 296.

brophwydoliaeth yn ddigon tywyll fel nad allai fod yn achlysur o'i chyflawniad ei hun, ac yn ddigon pendant ac eglur fel ag i fod yn hawdd i'w deall yn ngoleuni y cyflawniad.

Ni fwriadwyd yr holl weledigaethau, modd bynag, i ragamlygu y dyfodiant. Gwelodd Esaiah yr Arglwydd o dan y gyffelybiaeth o frenin Dwyreiniol, yn eistedd ar ei orsedd yn y deml, a seraphiaid yn ei amgylchu fel gweinidogion y llys (Esai. vi.): darfu i Ezeciel pan mewn gweledigaeth weled gogoniant Duw fel gorsedd o faen saphir, wedi ei chodi uwchlaw ffurfafen y nefoedd ac yn uwch na phenau y cerubiaid, ar yr hon yr eisteddai un yn dwyn cyffelybrwydd i ddyn, ond wedi ei orchuddio megys â gogoniant tanllyd, ac fel pe buasai yr enfys oddi amgylch iddo (Ezec. i. 26—28); ymddengys fod y gweledigaethau hyn wedi eu bwriadu iddynt fel math o urddfreiniad *(inauguration)* difrifol i'r swydd brophwydol, er argraffu yn briodol ar eu meddyliau urddas a phwysigrwydd eu swydd. Felly hefyd yr oedd gweledigaeth Pedr wedi ei bwriadu i'w addysgu am gyffredinolrwydd Cristionogaeth, yn hytrach nag fel prophwydoliaeth. (Act. x.)

Ond rhaid i ni sylwi ar y modd y cyflawnai y prophwydi eu gweinidogaeth, ac y dadguddient eu cenadwri.

1. Gwnaent hyn yn y gwasanaeth crefyddol a gynnalient. Ymddengys oddiwrth ofyniad priod y Sunamees yn nghylch Eliseus, y byddai y prophwydi yn arfer cynnal gwasanaeth crefyddol yn wythnosol a misol:—"Paham yr ai di ato ef heddyw? nid yw hi na newydd-loer na Sabbath." (2 Bren. iv. 23.) Felly cawn hanes Eliseus "yn eistedd yn ei dŷ yn cyflawni ei weinidogaeth," "a'r henuriaid yn eistedd gydag ef" (2 Bren. vi. 32); ac Ezeciel, yr un modd, pan yr oedd henuriaid Israel yn eistedd o'i flaen, gan ymofyn â'r Arglwydd trwyddo. (Ezec. viii. 1, xiv. 1, xx. 1.) Yn y cyfarfodydd hyn, byddai y prophwydi yn rhybuddio a hyfforddi y bobl, ac yn dadlenu dirgelion yr oesau dyfodol.

2. Weithiau ymddangosent yn bersonol o flaen dynion i draethu eu cenadwri iddynt. Cawn hanes am brophwyd yn dyfod at feibion Israel yn amser y Barnwyr, a'u ceryddu o herwydd eu gwrthgiliad oddiwrth yr Arglwydd (Barn. vi. 8—10), am Samuel yn ceryddu Saul oblegyd iddo arbed yr ysbail oddiar yr Amaleciaid (1 Sam. xv. 10—23), am Nathan

yn ceryddu Dafydd o herwydd godineb a llofruddiaeth (2 Sam. xii. 1—14), am Semaiah yn rhwystro i Rehoboam ymladd yn erbyn Israel (1 Bren. xii. 21—24), am brophwyd yn ymddangos o flaen Jeroboam a'i geryddu o herwydd ei eilunaddoliaeth (1 Bren. xiii. 1—10), am Elias yn ymddangos o flaen Ahab a'i geryddu (1 Bren. xviii. 17—20), ac am amryw brophwydi ereill yn ymddwyn yn gyffelyb.

3. Byddent rai prydiau yn ysgrifenu eu prophwydoliaethau a'u cenadwriaethau, er rhybudd a hyfforddiant y bobl. Ysgrifenent hwynt naill ai mewn rhol neillduol, neu yn nghyfrol santaidd yr Ysgrythyr, yr hon a gedwid yn y cyssegr yn ymyl arch y cyfammod, ac o fewn cyrhaedd y bobl: gwel tudalenau 42—44. Cawn hanes yn Jer. xxxvi. am Baruch yn ysgrifenu prophwydoliaeth o enau Jeremiah, ac yn ei ddarllen yn y deml yn nghlyw yr holl bobl, ac yna yn gadael y plyglyfr ar yr hwn yr ysgrifenasid hi yn ngofal ysgrifenyddion y deml. Yr oedd manteision pwysig yn deilliaw o'r arferiad o ymddiried yr ysgrifeniadau cyssegredig i ofal yr offeiriaid a'r Lefiaid yn y deml:—

(1,) Cedwid hwy felly rhag cael eu colli neu eu dinystrio.

(2,) Cedwid hwy rhag cael eu cyfnewid a'u llygru.

(3,) Trwy hyn hefyd byddent yn ffynnonell ddihysbydd o addysg i'r bobl. Yr oeddynt yn gyrhaeddadwy i'r bobl trwy ymofyn â'r offeiriaid, a thrwy amlhad copïau o honynt. Gorchwyl neillduol yr ysgrifenyddion oedd esbonio yr ysgrifeniadau santaidd, a'u hadysgrifenu er lliosogi y copïau. (2 Bren. xxii. 8, xxiii. 1—3. Ezra vi. 18, vii. 6, 11, 12, 21. Neh. viii. 1.)

4. Ar rai achlysuron amlygent arwyddocâd eu gweledigaethau a'u prophwydoliaethau trwy weithrediadau arwyddluniol (*symbolical actions*). Dysgid y prophwydi, er mwyn iddynt arddangos arwyddocâd eu rhagfynegiadau mewn dull bywiog ac argraffiadol, i gyflawni gweithredoedd arwyddluniol. Darfu i Esaiah, er arwyddocâu i'r Iuddewon, a chenadau y gwledydd y rhai a allent fod ar y pryd yn Jerusalem, ddiraddiad yr Aifft ac Ethiopia, rodio yn noeth (hyny ydyw, heb ei amwisg), ac heb esgidiau ar wahanol adegau am dair blynedd. (Esai xx.)

Gorchymynwyd i Ezeciel ar adeg marwolaeth ei wraig i beidio galaru nac wylo am dani, er arwyddo i'r Iuddewon na chaent hamdden i alaru am eu meirw ar adeg dinystr Jerusalem.* (Ezec. xxiv. 15—27.) Ar adeg arall, gorchymynwyd iddo gymmeryd dwy ffon, ac ysgrifenu enw Judah ar un, ac enw Joseph ar y llall, ac yna eu huno yn nghyd fel un ffon, er arwyddo uniad holl lwythau Israel ar ol caethiwed Babilon yn un genedl, ac yn neillduol undeb y credinwyr â'u gilydd o dan deyrnasiad y Messiah. (Ezec. xxxvii. 15—28.)

Dywedir fod y prophwydi weithiau yn cyflawni gweithredoedd arwyddluniol, y rhai a ymddangosant naill ai yn anmhossibl neu yn aumhriodol; megys gwaith Jeremiah yn myned i guddio ei wregys i'r Euphrates, pellder o 400 milltir, ac ar ol hyny yn cymmeryd yr un daith i'w gyrchu oddi yno (Jer. xiii. 1—8); a gwaith Ezeciel yn bwyta y plyglyfr (Ezec. iii. 1—3), ac yn tynu darlun o warchaead Jerusalem ar briddlech, ac yn gorwedd ar ei ochr aswy am 390 o ddyddiau, ac ar ei ochr ddeheu am 40 niwrnod (Ezec. iv. 1—8); a gwaith Hosea yn priodi godinebwraig. (Hos. i. 2, 3, iii. 1—3.) Ymddengys fod yr hyn a briodolir uchod i Jeremiah ac Ezeciel yn dra annhebygol, os nad yn anmhossibl; a buasai gwaith Hosea yn gwneyd yr hyn a briodolir iddo yn ei ddarostwng a'i wneyd yn ddirmygedig yn ngolwg y rhai y prophwydai iddynt. Mae yn debygol gan hyny fod y desgrifiadau hyn i'w deall fel *wedi cymmeryd lle yn ngweledigaethau y prophwydi* ac nid yn weithredol, neu *wedi cael eu traethu fel dammegion;* ac wedi cael eu traddodi fel hyn i'r bobl *er mwyn trosglwyddo iddynt y gwersi moesol mewn golwg.* Nid desgrifiadau er difyru y bobl oedd y rhai hyn, ond er eu dysgu a'u hargyhoeddi. Yr oedd pydredd a breuoldeb y gwregys yn ngweledigaeth Jeremiah, yn arwyddlun o gyflwr llygredig yr Iuddewon, ac o'u gwrthodiad canlynol gan Dduw (Jer. xiii. 10, 11); yr oedd gwaith Ezeciel yn bwyta y llyfr yn arwyddlun o'r gweledigaethau a dderbyniai (Ezec. ii. 6—10, iii. 1—3: cymharer Dad x. 10, 11); a'i waith yn gorwedd ar ei ochrau yn ngolwg Jerusalem wedi ei thynu ar ei argraff-lech yn arwyddlun o warchaead y ddinas; a'i waith yn byw ar ychydig ymborth yn gosod allan y newyn ar adeg y gwarchae, a modd crasiad y bara a fwytâi yn arwyddlun o'r ymborth halogedig a gai yr Iuddewon yn

* Fe gaethgludasid Ezeciel tua deuddeg mlynedd cyn dinystr Jerusalem.

ngwlad eu halltudiaeth. (Ezec. iv. 1—15.) Yr oedd priodas Hosea â'r wraig odinebus yn arwyddlun o waith Duw yn dyweddio teyrnas Israel iddo ei hun, yr hon oedd yn barhaus yn puteinio oddi wrtho, neu eilunaddoli (Hos. i. 2, 3); ond fel y mae y wraig odinebus i gael ei rhoddi i farwolaeth, felly yr oedd dinystr yn aros Israel. Gorchymynwyd i'r prophwyd alw y mab cyntaf Jezreel, yr hyn a olyga, *Duw a wasgara* neu *a ddistrywia*, i arwyddocâu fod Duw am ddinystrio breniniaeth Israel. (Hos. i. 4, 5.) Merch oedd yr ail blentyn, yr hon a alwyd Lo-ruhamah, yr hyn a arwydda, *Yr hon ni cha drugaredd*, er dangos nad oedd gobaith mwyach i Israel, a bod penderfyniad Duw yn ddialw yn ol. Mab oedd y trydydd plentyn, yr hwn a alwyd Lo-ammi = *Nid fy mhobl i*, i arwyddocâu fod Israel fel cenedl i gael ei bwrw ymaith o fod yn bobl neillduol i'r Arglwydd.

Fel hyn, llefarai Duw lawer gwaith, ac mewn llawer modd, wrth y tadau trwy y prophwydi (Heb. i. 1); a'i amcan grasol yn y cyfan ydoedd, dwyn dyn i gydnabod ei awdurdod, a rhodio yn ei lwybrau, a thrwy hyny ddyfod yn etifedd dedwyddwch amserol a thragywyddol.

## II. Rheolau Dehongliad Prophwydoliaeth.

Rheol I. *Rhaid meddu crediniaeth galonog yn Nwyfoldeb Prophwydoliaeth.*

"Gan wybod hyn yn gyntaf, nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr o ddehongliad priod." (2 Pedr i. 20.) Bydd y meddwl yn fwy eglur os cyfnewidir ychydig ar y cyfieithiad fel y canlyn, yr hyn a'i gwna hefyd yn fwy llythyrenol a chywir:—"Gan ystyried hyn o flaen pob peth nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr yn dyfod o ddadleniad dyn ei hun." Y graig ar yr hon y gwna rhesymolwyr ac amheuwyr longddrylliad gyda golwg ar y ffydd, yw tarddiad Dwyfol prophwydoliaeth; dechreuant trwy wadu y goruwchnaturiol mewn crefydd, ac o ganlyniad nad oedd rhagfynegiadau y prophwydi ond crybwyllion dedwydd o'u heiddo, y rhai oeddynt i'w priodoli i'w craffder yn gallu treiddio i mewn i amgylchiadau a deall eu heffeithiau; a gwnant y gwyrthiau hefyd yn ffrwyth dychymmygion cyfeiliornus y werin, neu yn gynnyrch eu hofnau

disail. Y mae Pedr yn dysgu ei ddarllenwyr o flaen pob peth i ystyried Dwyfoldeb tarddiad prophwydoliaeth; os nad ydyw yn Ddwyfol, nid yw Cristionogaeth ond ffug, na'r Beibl ond chwedl, gan nad ydyw Cristionogaeth yn proffesu bod yn ddim amgen na chyflawniad prophwydoliaeth.

Y pwynt mawr o dan sylw yr apostol yw cymhwysder i fyned i mewn i deyrnas Dduw (adn. 11); bydd y mynediad gweledig a chyhoeddus i mewn yn cymmeryd lle yn nydd y farn (cymharer adn 16); y mae Pedr yn penderfynu gwneyd ei oreu tra byddai byw, ac ar ol ei farwolaeth trwy ei epistolau, i gyffroi ei ddarllenwyr i ymbarotoi erbyn ail ymddangosiad Crist (adn. 12—15.) Mae pwysigrwydd ei waith yn eu cynhyrfu fel hyn yn ymddibynu ar wirionedd y gyfundrefn ag sydd yn dysgu ail ddyfodiad Crist (adn. 16). Un prawf o'i gwirionedd, ac felly o sicrwydd y farn, yw gweddnewidiad Crist:—

1. Rhoddodd y gweddnewidiad gipolwg i'r apostolion ar ogoniant dyfodol a gallu Crist.

2. Dygodd y Tad dystiolaeth i Dduwdod Crist trwy ei gyhoeddi yn Fab iddo.

3. Dygodd dystiolaeth i'w gymmeriad prophwydol a gwirionedd ei athrawiaeth, trwy orchymyn i'r apostolion wrandaw arno. (Mat. xvii. 5.)

Prawf arall sicrach* yn marn y rhai nad oeddynt yn wyddfodol ar adeg gweddnewidiad Crist, yw gair prophwydoliaeth, gan ei fod yn dystiolaeth unol llawer o dystion mewn amryw oesau dilynol, ac yn brawf cynnyddol yn dyfod yn gryfach ac eglurach i'r graddau ag y mae prophwydoliaeth yn cael ei chyflawni. Trwy dalu sylw i hyn, yn ol fel yr oeddynt yn gwneyd, fe ddeuent yn fwy deallus, a'u hargyhoeddiadau yn fwy cryfion, a'u profiad yn fwy ysbrydol, a'u ffydd yn fwy diysgog, ac fel hyn fe "wawriai y dydd" arnynt, ac fe "godai

* Dealla rhai y geiriau, "Y mae genym y gair prophwydol yn fwy sicr." Yr oedd prophwydoliaeth wedi cael ei chyflawni eisioes yn ymgnawdoliad Crist a'i ymddangosiad ar y ddaear, ac yr oedd yr apostolion yn credu hyn; ond yr oedd gweddnewidiad Crist, a thystiolaeth y Tad i'w Ddwyfoldeb, yn ei chadarnhau yn fwy fyth yn eu golwg, a'i gwneyd "yn fwy sicr" nag o'r blaen. Dichon mai hyn ydyw y syniad. Fe oddef y cystrawiad (cymharer yn y Groeg Rhuf iv. 16. Heb. xi. 11, 23, 26. 1 Pedr i. 18, ii. 3. 2 Pedr i. 10), y naill ddarlleniad neu y llall.

y seren ddydd yn eu calonau." Ac i'w hadgofio yn mhellach o wirionedd prophwydoliaeth, cyfeiria Pedr at ei Dwyfol darddiad, oblegyd y mae yn rhaid i'r hyn sydd yn dyfod oddiwrth Dduw fod yn wirionedd :—" Gan ystyried hyn o flaen pob peth, nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr yn dyfod o ddadleniad dyn ei hun: canys nid trwy ewyllys dyn y daeth gynt brophwydoliaeth ; eithr dynion santaidd Duw a lefarasant *megys* y cynhyrfwyd *hwy* gan yr Ysbryd Glân." (2 Pedr i. 20, 21.)

Dywedir gan rai beirniaid mai ystyr geiriau Pedr yw, "Nad oes un brophwydoliaeth o'r Ysgrythyr o hunan-ddehongliad ;" hyny ydyw, nas gellir eu deall ond yn ngoleuni y cyflawniad. Dywed ereill mai yr ystyr ydyw, "Nad oes un brophwydoliaeth i gael ei dehongli ar ei phen ei hun, ond fod pob prophwydoliaeth unigol i gael ei hesbonio yn ngoleuni prophwydoliaethau ereill, fel rhan o'r gyfundrefn Ddwyfol, ac mewn cydgordiad â'r rhagfynegiadau ereill oll." Diffyg talu sylw priodol i'r cyssylltiadau a barodd i ddynion esbonio fel hyn, oblegyd y pwnc yw, nid *pa fodd i esbonio prophwydoliaeth*, ond *pa fodd y cynnyrchwyd* (γίνεται) *prophwydoliaeth ;* a bod ei Dwyfol darddiad yn brawf o'i gwirionedd, ac felly o ail ddyfodiad Crist, gan fod cyflawniad y prophwydoliaethau gynt yn brawf y cyflawnir y brophwydoliaeth am ei ail ddyfodiad ef.

Nid yw pob prophwydoliaeth ychwaith mor aneglur fel nas gellir ei deall ond yn ngoleuni y cyflawniad; er engraifft, y prophwydoliaethau yn nghylch caethiwed Babilon (Esai. xlvi. 6, 7), meithder y caethiwed (Jer. xxv. 12, xxix. 10. Dan. ix. 2), lle genedigaeth Crist (Mich. v. 2. Mat. ii. 5, 6), a llawer ereill; dywed Paul hefyd fod yr Ysbryd yn rhagfynegi yn eglur lygriad Cristionogaeth. (1 Tim. iv. 1.) Pe buasai Pedr yn golygu fod prophwydoliaeth mor aneglur ag y myn yr esbonwyr dan sylw, ni fuasai na grym na chyssondeb yn ei annogaeth i syllu ar Ysgrythyrau y prophwydi, y rhai a ddesgrifia efe fel lamp yn taflu goleuni mewn lle tywyll, er rhoddi gwybodaeth i'r efrydydd am ddadblygiadau y cynlluniau Dwyfol; ac nid meddwl goleuedig yn mwynhau pethau Duw fuasai y canlyniad o gydffurfio â'i annogaeth.

Gan nad ydoedd y Testament Newydd oll wedi ei ysgrifenu a'i gasglu yn nghyd yn un gyfrol ar adeg ysgrifeniad epistol Pedr, yr oedd pwys neillduol yn y cynghor dan sylw ; yr oedd

ei ddarllenwyr i efrydu yr Hen Destament yn fwy dwys a llwyr nag erioed, er gweled fel yr oedd y prophwydoliaethau wedi cael eu sylweddoli yn ffeithiau mawreddog a Dwyfol hanes y Duw-ddyn.

Yr ystyr gan hyny yw Dwyfoldeb prophwydoliaeth. Dysga Pedr ni fod hyn i'w ystyried o flaen pob peth arall; bydd i ystyriaeth o'i Dwyfoldeb beri i ni ei chwilio gyda gostyngeiddrwydd a pharch, derbyn ei dadguddiad fel llewyrch oddiwrth Dad y Goleuni ar helyntion y ddaear, cymhwyso ei moes-wersi a'i rhybuddion atom ein hunain, a chredu yn fwy calonog ac ymddiried yn fwy trylwyr yn yr Arglwydd Iesu, gwrthddrych mawr y prophwydoliaethau, a sylwedd y cysgodau.

Os gwadwn Ddwyfoldeb prophwydoliaeth, yr ydym mewn anhawsderau diddarfod; ac nis gallwn roddi cyfrif boddhaol am ieithwedd a chynnwysiad llyfrau y prophwydi.

Nis gallem gyfrif am fodolaeth llyfr Jonah, ond ar dir ei wirionedd, a Dwyfoldeb anfoniad y prophwyd; oblegyd nid oedd digon o haelfrydedd yn Jonah ei hun, nac yn yr Israeliaid yn gyffredinol, yn yr oes hono tuag at y Cenedloedd, i beri iddynt o honynt eu hunain osod Duw allan mor dosturiol tuag at baganiaid edifeiriol ag y gwna y llyfr hwn. Yr oedd anmhossibilrwydd moesol i gynnyrchu ei fath yn annibynol ar y ffeithiau hanesyddol.

Prophwydai Hosea i'r deg llwyth; nid yw yn debygol y buasai efe, pe buasai yn llefaru o hono ei hun yn unig, yn dyrchafu Judah yn fwy nag Israel; eto, yr ydym yn ei gael yn son am y Messiah o dan yr enw Dafydd, ac yn dweyd y byddai i Israel ei wasanaethu. (Hos. iii. 4, 5.)

I'r deg llwyth y prophwydai Amos hefyd; ac eto y mae efe yn cyssylltu iachawdwriaeth Israel â dyrchafiad tŷ Dafydd. (Amos ix. 9—12.) Sylwer ar neillduolrwydd y brophwydoliaeth:—

1. Yr oedd Judah mewn cyflwr blodeuog a llwyddiannus ar yr adeg hon. Yn awr y teyrnasai Uzziah, yr hwn a lywodraethodd am 52 o flynyddau gyda llwyddiant mawr (2 Chron. 26); ac eto sonia y prophwyd am y llinach freninol, nid fel palas gorwych, ond fel tabernacl, bwthyn bychan* dinod, neu dŷ adfeiliedig. (Amos ix. 11.)

* סכה=*a booth, tent, tabernacle* (Amos ix. 11), by way of contempt for *a smal house.*—Gesenius.

2. Mae son am ei godi i fyny yn rhagdybied cwymp blaenorol, a diraddiad llinach freninol Judah i sefyllfa isel.

3. Fod rhyw neillduolrwydd arbenig yn perthyn i lwyth Judah a thŷ Dafydd, cyn y buasai y prophwyd yn cyfeirio atynt fel hyn. Pa ddyddordeb a allasai Israel deimlo yn y rhagfynegiad y buasai Judah yn syrthio, ac y dyrchefid ef wed'yn? Yr oedd cenfigen ac eiddigedd yn bodoli rhyngddynt, ac ni fuasai Amos yn eu cynhyrfu yn ddiachos.

4. Mae yr apostol Iago yn cymhwyso y brophwydoliaeth at Grist a'i achos. O deulu Dafydd yr hanodd Crist yn ol y cnawd; codi ei dabernacl ac adeiladu ei fylchau yw yr enwogrwydd a roddwyd arno trwy fod y Messiah yn fab Dafydd, a bod achos y Goruchaf yn llaw Crist i fyned yn brif achos y byd. (Act. xv. 13—17.)

Prophwydai Esaiah mewn iaith hedegog a barddonol am ddarostyngiad Sennacherib (x. 33, 34); ac yn y frawddeg nesaf dywed, "Yna y daw allan wialen o gyff Jesse, a Blaguryn a dyf o'i wraidd ef" (xi. 1). Pe buasai Esaiah yn llefaru o hono ei hun, mae'n debyg y buasai ar ol cyhoeddi barn ar Senacherib yn myned yn mlaen i gefnogi a gwroli Hezecïah, a'i ganmol am ei ymdrechion i adferu crefydd i'w phurdeb cyntefig; ond yn lle hyny, dyma brophwydoliaeth yn cynnwys darostyngiad hollol y llinach freninol, nes y byddai fel boncyff pren wedi ei dori i lawr,* o'r hwn y byddai y Gwaredwr fel blaguryn i darddu allan. Ac ni chyfeirir ychwaith mwyach at y *llinach freninol*, ond eir heibio Dafydd at Jesse, yr amaethwr syml yn Bethlehem, er gosod allan ddarostyngiad trwyadl y llinach freiniol, a tharddiad dinod Iesu o Nazareth.†

Sonia y prophwydi am y Messiah fel gwreiddyn o dir sych, fel un dirmygedig a diystyraf o'r gwyr, un yn dyoddef a marw; ac ar yr un pryd, fel Jehofah yn llywodraethu yn y nef ac yn cael ei addoli ar y ddaear, fel Brenin yn teyrnasu o godiad hyd fachludiad haul, fel y Duw tragywyddol, a diddymwr angeu; fel mab Dafydd ac Arglwydd Dafydd.

* גזע=the stump of a tree that hath been cut down.—*Gesenius.*

† Gwel Ddarlithiau Dr. Payne Smith, yn y rhai yr ymhelaethir ar yr ystyriaethau uchod, am nodwedd prophwydoliaethau Esaiah, Amos, Hosea, a Jonah.

Nis gallai yr Iuddewon cnawdol eu syniadau ddeall hyn (Ioan xii. 34. Mat. xxii. 41—46), oblegyd nid oeddynt yn ystyried fod yr hwn a anwyd yn Bethlehem â'i fynediad allan er dyddiau tragywyddoldeb. (Mich. v. 2.) Mae yr annghyssondeb a'r annaturioldeb ymddangosiadol ag sydd yn nodweddu llawer o'r prophwydoliaethau yn brawf o'u Dwyfoldeb; ni fuasai y prophwydi yn llefaru fel y gwnaethant, pe buasent yn llefaru o honynt eu hunain; ac nid oes modd deall eu hymadroddion, na chyfrif i'w roddi am danynt, ond ar yr ystyriaeth mai dynion santaidd Duw a'u llefarasant, megys ag y cynhyrfwyd hwynt gan yr Ysbryd Glân.

RHEOL II.—*Fod o bwys deall Ieithwedd neillduol Prophwydoliaeth.*

1. *Gosodir allan ddygwyddiadau dyfodol yn yr amser gorphenol.*

"Y bobl a rodiasant mewn tywyllwch, a welsant oleuni mawr: y rhai sydd yn aros yn nhir cysgod angeu, y llewyrchodd goleuni arnynt. Canys Bachgen a aned i ni, Mab a roddwyd i ni, a bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd ef: a gelwir ei enw ef, Rhyfeddol, Cynghorwr, y Duw cadarn, Tad tragywyddoldeb, Tywysog tangnefedd." (Esai. ix. 2, 6.)

"Ond efe a archollwyd am ein camweddau ni, efe a ddrylliwyd am ein hanwireddau ni, cosbedigaeth ein heddwch ni *oedd* arno ef: a thrwy ei gleisiau ef yr iachâwyd ni. Nyni oll a grwydrasom fel defaid; troisom bawb i'w ffordd ei hun: a'r Arglwydd a roddes arno ef ein hanwiredd ni i gyd." (Esai. liii. 5, 6.)

Gwel hefyd y brophwydoliaeth am waredigaeth yr Iuddewon o Babilon. (Esai xlviii. 20, 21.)

2. *Defnyddir iaith anmhennodol ac arwyddluniol yn fynych i osod allan brophwydoliaeth.*

Defnyddir "diwrnod," "wythnos," ac "amser," mewn modd ag nad ellir bod yn sicr pa ystyr i'w briodoli iddynt. (Dan. iv. 23, vii. 25, ix. 24, xii. 7. Dad. xi. 2, 3, 11.) Yn gyffredin, deallir blwyddyn am ddiwrnod yn iaith prophwydoliaeth; ond y mae Moses Stuart yn dadleu y dylid cymmeryd "blwyddyn," ac "wythnos," a "diwrnod," i olygu hyny yn llythyrenol, *os nad oes rhywbeth yn y cyssylltiadau yn dangos yn amgen* (Ezec. iv. 5, 6. Num. xiv. 33, 34); ac felly fod "amser,

amseroedd, a rhan amser" yn Dan. vii. 25, gan mai wrth "amser" y golygir fynychaf "blwyddyn," yn golygu tair blynedd a hanner, sef o Mai, 168 C.C. hyd Rhagfyr, 165 C.C., yr adeg y bu Antiochus Epiphanes yn anrheithio Jerusalem a'r deml. Yr un modd hefyd gyda'r "ddau fis a deugain," yn Dad. xi. 2, yr hyn sydd 1,260 o ddyddiau, neu dair blynedd a hanner; dealla efe hwynt yn llythyrenol am adeg y gwarchae ar Jerusalem, a'i dinystr gan y Rhufeiniaid, o Chwefror, 67 O.C. hyd Awst, 70 O.C. Y ddau dyst, eb efe, oedd y Cristionogion a arosasant yn Mhalestina a Jerusalem yn ystod y rhyfel (Dad. xi. 3); y "mab gwryw," yr hwn a gymmerwyd i'r nef, yw y Messiah dyrchafedig (Dad. xii. 5); "y wraig" yn "ffoi i'r diffaethwch," oedd y Cristionogion yn ffoi i Pella yn yr anialwch o'r tu dwyreiniol i'r Iorddonen, lle y cawsant nodded am y tair blynedd a hanner, yn ystod y rhyfelgyrch Rhufeinaidd yn Mhalestina. Nid yw Stuart yn ystyried fod y gair "wythnos" yn Dan. ix. 24, yn milwrio yn erbyn hyn, gan fod yn amlwg oddiwrth y cyssylltiadau yno, eb efe, fod wythnos yn golygu *cyfnod o saith mlynedd:* yr oedd Daniel wedi bod yn son am saith deg o flynyddau yn Babilon; ond cyn dyfodiad y Messiah (ebe'r angel), fe fydd nid saith deg o flynyddau o "amseroedd blinion," ond "saith deg o seithiau,"* neu 490 o flynyddau. Ar yr un egwyddor y dealla Stuart yr ymadroddion "dinas santaidd," a'r "lle y croeshoeliwyd ein Harglwydd ni" (Dad. xi. 2, 8), fel prawf diymwad mai Jerusalem a olygir. Ond nis gallwn gydnabod cywirdeb y rheol yma; mae prophwydoliaeth yn fynych, fel y cawn ddangos eto, yn gosod pethau ysbrydol allan mewn diwyg a ieithwedd Iuddewig, pan yn cyfeirio at ddygwyddiadau o dan yr efengyl. Ofnwn hefyd nad oes sail ddigonol i'r saint longyfarch eu gilydd fod lladdiad y tystion wedi cymmeryd lle ar adeg dinystr Jerusalem. Tueddir ni i gredu nad ydyw yr ymadroddion a ddefnyddir am wahanol gyfnodau amser mor syml a diamwys ag y myn Stuart; ac fod yr eglurhad a roddir yn Ezec. iv. 5, 6, a Num. xiv. 33, 34, yn awgrymiad mai felly y defnyddir ymadroddion prophwydol yn fynych† mewn lleoedd ereill. Gellir dewyd eu bod yn galluogi

* Gwel *Stuart's Hints on Prophecy.*

† Dywedwn "yn fynych," yn hytrach nag yn ddieithriad. Yn Jer. xxv. 12, defnyddir "blwyddyn" yn yr ystyr arferol; yn Dad. xi., ymddengys fod diwrnod yn golygu blwyddyn. Rhaid i'r darllenydd arfer ei ddoethineb wrth efrydu oraclau y nef.

efrydwyr y Beibl *i ddeall i raddau* oddiwrth arwyddion yr amserau yn ngoleuni y rhagfynegiadau, pa bryd y cyflawnir y brophwydoliaeth, a beth fydd diwedd yr ymdrech rhwng goleuni a thywyllwch. Dywedwn *i raddau*, canys "ni pherthyn i ni wybod yr amseroedd a'r prydiau, y rhai a osododd y Tad yn ei feddiant ei hun." (Act. i. 7.)

Ystyriwn weledigaethau prophwydol llyfr y Dadguddiad yn fath o gylch-olygfa *(panorama)* o helyntion teyrnas Iesu Grist hyd ddiwedd amser, yn hytrach nag o'r hyn oedd i gael ei lwyr gwblhau yn fuan wedi dyddiau Ioan.* Gan y dywedir fod y pethau a ddangosir yn llyfr y Dadguddiad i gymmeryd lle *ar frys*, ystyria Stuart eu bod i gymmeryd lle yn ddioed ar ol rhoddiad y weledigaeth i Ioan; nid ydym ni, modd bynag, yn teimlo grym hyn; dywedir fod yr Arglwydd yn agos, a'i ddyfodiad yn ymyl (Phil. iv. 5. Iago v. 8, 9. Heb. x. 37. Luc xviii. 8. 2 Pedr iii. 8), er ein cadw ar ein dysgwyliad parhaus, ac er calondid i'w eglwys yn ei thrallodion; ond pe casglem oddiwrth ymadroddion fel hyn ei fod i ddyfod yn mhen ychydig flynyddau ar ol ysgrifeniad y geiriau, ni a syrthiem i'r un camgymmeriad a'r Thessaloniaid. (2 Thes. ii. 1—3.) †

Ni ddylid bod yn rhy hyderus ein bod yn sicr o feddwl yr Ysbryd o barthed i gyfnodau prophwydoliaeth, o herwydd (1,) fod y geiriau a ddefnyddir i raddau yn aneglur; (2,) o herwydd pe byddem yn sicr o'u hystyr a'u harwyddocâd, nas gallwn wybod yn ddiamheuol pa bryd y mae y cyfnodau yn dechreu; ac (3,) am nad ydyw trefn amser ac amgylchiadau ond yn anfynych yn cael ei chadw mewn prophwydoliaeth. Mae'n debygol hefyd fod amryw o'r dygwyddiadau a gofnodir yn y Dadguddiad fel rhai gwahanol ac yn cymmeryd lle mewn gwahanol amserau, megys o dan udganiad yr udgyrn ac agoriad y seliau, yn cymmeryd lle yr un pryd, fel yr awgrymir yn yr erlidigaeth o dan agoriad y bummed sel (Dad. vi. 9), ac o dan udganiad y chweched udgorn (Dad. xi. 7); a llwyddiant teyrnas Crist o dan agoriad y chweched sel, fel y canfyddir yn mraw y gwrthwynebwyr (Dad. vi. 12—17), ac o

* Gwel Esboniad godidog y Parch. Hugh Williams, Amlwch, ar y Dadguddiad; a *Fairbairn on Prophecy,* Part. ii. chap. iii.

† Golyga "ar frys" weithiau sydynrwydd goruchwyliaethau Duw pan y deuant. Gwel *Dr. Burton's Greek Testament* ar Luc xviii. 7.

dan udganiad y seithfed udgorn, pan y bu llefau yn y nef, "Aeth teyrnasoedd y byd yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist ef." (Dad. xi. 15.) Wrth geisio agor dirgelion y dyfodiant, nid oes dim yn gweddu yn well i greaduriaid munyd awr na gwyleidd-dra; rhodier yn ostyngedig ar hyd y llwybrau lle mae yr Ysbryd yn arwain, ymdrecher deall yn drwyadl yr ymadroddion a'r arwyddluniau a ddefnyddiodd efe er desgrifio y dyfodiant, ond na ryfyger myned yn mhellach na'i arweiniad ef, a bod yn ddoeth uwchlaw yr hyn a ysgrifenwyd.*

Defnyddir hefyd eiriau ffugyrol, er gosod allan wahanol wrthddrychau, megys "corn" i arwyddo "gallu;" "cedrwydd Libanus" a "derw Basan," i osod allan benaethiaid y bobl; "daeargryn" a "thymhestl" i osod allan chwyldroadau a chyffroadau, &c.: gwel y Bennod ar Ffugyrau ac Arwyddluniau y Beibl. Mae o bwys neillduol cofio fod prophwydoliaeth yn fynych yn llefaru mewn iaith ffugyrol ac arwyddluniol; ni fu yn y byd erioed, ac ni fydd byth, y fath fyddin a'r un a ddesgrifir yn Dad. ix. 16—19, yn yr ystyr lythyrenol.

3. *Gosodir y prophwyd allan fel yn gwneuthur yr hyn a ragfynega yn unig.*

"Brasâ galon y bobl hyn, a thrymhâ eu clustiau, a chau eu llygaid; rhag iddynt weled â'u llygaid, a chlywed â'u clustiau, deall â'u calon, a dychwelyd, a'u meddyginiaethu." (Esai. vi. 10.)

"Gwel, heddyw y'th osodais ar y Cenedloedd, ac ar y teyrnasoedd, i ddiwreiddio, ac i dynu i lawr, i ddifetha, ac i ddistrywio, i adeiladu, ac i blanu." (Jer. i. 10.)

"Canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, Duw Israel, wrthyf fi, Cymmer phïol win y digofaint yma o'm llaw, a dod hi i'w hyfed i'r holl Genedloedd y rhai yr wyf yn dy anfon atynt. A hwy a yfant, ac a frawychant, ac a wallgofant, o herwydd y cleddyf yr hwn a anfonaf yn eu plith. Yna mi a gymmerais y phïol o law yr Arglwydd, ac a'i rhoddais i'w hyfed i'r holl Genedloedd y rhai yr anfonasai yr Arglwydd fi atynt." (Jer. xxv. 15–17.)

* "It seems to be the plan of God to throw such a veil over exact dates of prophecy, that their place in a chronological chart of history cannot be accurately marked out beforehand. Either the time from which the reckoning is to proceed, or the symbolism of the dates, or the place which the old series holds in relation to other prophecies, is left in obscurity."—*Dr. Barrows's Introduction*, p. 527.

"Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrthyf, Gwna i ti rwymau a gefynau, a dod hwynt am dy wddf; ac anfon hwynt at frenin Edom, ac at frenin Moab, ac at frenin meibion Ammon, ac at frenin Tyrus, ac at frenin Sidon, yn llaw y cenadau a ddelo i Jerusalem at Zedecïah brenin Judah." (Jer. xxvii. 2, 3.) Cymharer Ioan xx. 23.

4. *Mewn rhai engreifftiau, dylid talu mwy o sylw i'r meddwl nag i'r iaith yn yr hon y gwisgir ef.*

Mae rhai prophwydoliaethau, fel dammegion, yn dysgu rhyw un gwirionedd mawr, ac nid ydyw yr iaith o ran ei manylion ond fel math o addurnwisg am dano. Er engraifft, wrth osod allan gwymp Babilon, dywedir,—

"Canys ser y nefoedd, a'u planedau
Ni roddant eu llewyrch;
Yr haul a dywyllir yn ei godiad,
A'r lloer ni oleua â'i llewyrch.
A mi a ymwelaf â'r byd am ei ddrygioni,
Ac â'r annuwiolion am eu hanwiredd.
A gwnaf i falchder y rhai rhyfygus beidio,
Gostyngaf hefyd uchder y rhai ofnadwy.
Gwnaf ddyn yn werthfawrocach (yn brinach) nag aur coeth,
Ië, dyn, na chŷn o aur Ophir.
Am hyny yr ysgydwaf y nefoedd,
A'r ddaear a gryn o'i lle;
Yn nigofaint Arglwydd y lluoedd,
Yn nydd llid ei ddigter ef." (Esai. xiii. 10—13.)

Nid ydys i feddwl fod pob ymadrodd yn y desgrifiad yma wedi cael ei wireddu yn llythyrenol yn nghwymp Babilon; iaith rymus, gyffrous, a barddonol ydyw, i osod allan fawredd digyffelyb y trychineb.

Cawn y desgrifiad grymus a chyffrous canlynol am gwymp Edom:—

"A'i hafonydd a droir yn bŷg,
A'i llwch yn frwmstan,
A'i daear yn bŷg llosgedig:
Nis diffoddir nos na dydd;
Ei mwg a ddring byth:
O genedlaeth i genedlaeth y diffaethir hi;
Ni bydd cynniweirydd trwyddi byth bythoedd."
(Esai. xxxiv. 9, 10. Ezec. xxxv. 7.)

Nid ydys i edrych am gyflawniad llythyrenol i'r desgrifiad bywiog hwn. Cyfeirir yn y brawddegau cyntaf at ddinystr Sodom; ond nid oes sail i ddweyd fod Edom fel daear frwmstanaidd ar dân ddydd a nos, ac i fod felly byth. Dywedir hefyd "na bydd cynniweirydd trwyddi byth bythoedd," ac y bydd "i'r hwn a elo allan, a'r hwn a ddychwelo," gael ei dori ymaith. (Ezec. xxxv. 7.) Darfu i Dr. Keith, yn ei bryder i esbonio manylion prophwydoliaeth yn llythyrenol, haeru nad aeth neb erioed trwy y wlad, a dychwelyd yn llwyddiannus, ar ol tywalltiad y farn arni; er i Seetzen a Burckardt fyned trwy y wlad, eto ni ddychwelasant yn fyw i Ewrop!* Ond ffordd gyfeiliornus o esbonio prophwydoliaeth yw ffordd Dr. Keith, gan nad ydys bob amser i edrych am gyflawniad llythyrenol i bob rhagfynegiad. Aeth Dr. Robinson trwy y wlad yn llwyddiannus, a dychwelodd yn ddiogel yn 1838; aeth Deon Stanley a'i gymdeithion trwyddi yn ddiogel yn 1852—3; ac y mae yr Arabiaid yn crwydro trwyddi yn barhaus. Ni olyga y geiriau ond cwymp Edom fel teyrnas, a'i darostyngiad i gyflwr o dlodi a dinystr: gwel ymadroddion cyffelyb yn Esai. lx. 15. Jer. ix. 10, 11. Ezec. xxiii. 28. *Preswylwyr Edom*, fel gelynion Israel a'u Duw, oedd gwrthddrychau priodol y brophwydoliaeth, ac yn eu llwyr ddinystr hwy, fe wireddwyd y rhagfynegiad; a hyny er fod rhai "rhanau o'r wlad yn cael eu llafurio yn helaeth, ac yn dwyn ffrwythau toreithiog."† Dylid gofalu am seiliau safadwy er sylfaenu ein hesboniadau arnynt, onide fe glwyfir gwirionedd wrth geisio ei amddiffyn.

5. *Mewn prophwydoliaeth defnyddir yn fynych ieithwedd a hanesiaeth Iuddewig i osod allan feddylddrychau ysbrydol.*

Yr oedd hanesiaeth cenedl Israel a'i chrefydd yn cynnysgaethu y prophwydi â geiriau priodol ac egluriadau, er gosod allan feddylddrychau ysbrydol, a gwirioneddau Cristionogol o dan oruchwyliaeth y Messiah.

1. Defnyddir enw Dafydd *(yr anwylyd)* i osod allan y Messiah.

"Eithr hwy a wasanaethant yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd eu brenin, yr hwn a godaf fi iddynt." (Jer. xxx. 9.)

* *Keith's Evidence of Prophecy*, p. 180, edition 1834.

† *Robinson's Researches in Palestine*, vol. ii. p. 552. *Turner's Discourses on Prophecy*, pp. 131, 206—209. *Fairbairn on Prophecy*, pp. 214—216.

"A minau yr Arglwydd a fyddaf yn Dduw iddynt, a'm gwas Dafydd yn dywysog yn eu mysg: myfi yr Arglwydd a lefarais *hyn*." (Ezec. xxxiv. 24.)

"Wedi hyny y dychwel meibion Israel, ac y ceisiant yr Arglwydd eu Duw, a Dafydd eu brenin; ac a barchant yr Arglwydd a'i ddaioni yn y dyddiau diweddaf." (Hos. iii. 5.)

2. Defnyddir Seion a Jerusalem i osod allan eglwys Dduw, am mai Jerusalem oedd eisteddle addoliad Duw o dan y ddeddf.

"A phobloedd lawer a ânt ac a ddywedant, Deuwch, ac esgynwn i fynydd yr Arglwydd, i dŷ Duw Jacob; ac efe a'n dysg ni yn ei ffyrdd, a ni a rodiwn yn ei lwybrau ef: canys y gyfraith a â allan o Seion, a gair yr Arglwydd o Jerusalem." (Esai. ii. 3.)

"A meibion dy gystuddwyr a ddeuant atat yn ostyngedig: a'r rhai oll a'th ddiystyrasant a ymostyngant wrth wadnau dy draed, ac a'th alwant yn Ddinas yr Arglwydd, yn Seion Sant Israel." (Esai. lx. 14.)

"I osod i alarwyr Seion, *ac* i roddi iddynt ogoniant yn lle lludw, olew llawenydd yn lle galar, gwisg moliant yn lle ysbryd cystuddiedig; fel y gelwid hwynt yn Brenau cyfiawnder, yn Blanhigyn yr ARGLWYDD, fel y gogonedder ef." (Esai. lxi. 3.)

"Pwy a glybu y fath beth a hyn? pwy a welodd y fath bethau a hyn? A wneir i'r ddaear dyfu mewn un dydd? a enir cenedl *ar* unwaith? Pan glafychodd Seion, yr esgorodd hefyd ar ei meibion." (Esai. lxvi. 8.)

"Hwy a ofynant y ffordd i Seion, tuag yno *y bydd* eu hwynebau hwynt: Deuwch, *meddant*, a glynwn wrth yr ARGLWYDD *trwy* gyfammod tragywyddol *yr hwn* nid annghofir." (Jer. l. 5.)

Cymharer Rhuf. ix. 33. Heb. xii. 22. 1 Pedr ii. 6. Dad. xiv. 1. Desgrifir y Cenedloedd fel yn dyfod i fynydd Duw yn Jerusalem, o blith pa rai y mae Duw yn ethol offeiriaid a Lefiaid iddo ei hun, yr hyn ar unwaith a ddengys mai ymadroddion ffugyrol ydynt, gan nad oedd neb ond hiliogaeth Aaron i fod yn offeiriaid o dan y ddeddf, ac yr oedd anmhossibilrwydd naturiol i bob cnawd ymgasglu i'r Jerusalem ddaearol, o flwyddyn i flwyddyn i gadw gwyl y pebyll, ac i addoli Duw yno o'r naill newydd-loer i'r llall. (Esai. lvi. 18—23. Zech. xiv. 16—19.) Ymadroddion ffugyrol ydynt i osod allan lwyddiant yr efengyl yn y dyddiau diweddaf, a hyny trwy ddefodau Iuddewig, yn gyffelyb fel y dywed Paul, "Am hyny certhwch allan yr hen lefain" (1 Cor. v. 7), pryd na olyga hyny yn llythyrenol ond yn gymhariaethol.

3. Defnyddir undeb teyrnas Israel a theyrnas Judah i osod allan yr heddwch a deyrnasa yn mhlith dynion o dan ddylanwad gras Duw.

"Cenfigen Ephraim a ymedy hefyd, a gwrthwynebwyr Judah a dorir ymaith: ni chenfigena Ephraim wrth Judah, ac ni chyfynga Judah ar Ephraim." (Esai. xi. 13.)

"Yna meibion Judah a meibion Israel a gesglir yn nghyd, a hwy a osodant iddynt un pen; a deuant i fyny o'r tir: canys mawr *fydd* dydd Jezreel." (Hos. i. 11.)

"Yn y dyddiau hyny, ac yn yr amser hwnw, medd yr ARGLWYDD, meibion Israel a ddeuant, hwy a meibion Judah yn nghyd, dan gerdded ac wylo yr ânt, ac y ceisiant yr ARGLWYDD eu Duw. Hwy a ofynant y ffordd i Seion, tuag yno *y bydd* eu hwynebau hwynt: Deuwch, *meddant*, a glynwn wrth yr ARGLWYDD, *trwy* gyfammod tragywyddol *yr hwn* nid annghofir." (Jer. l. 4, 5.)

4. Gosodir gelynion teyrnas y Messiah allan o dan enwau y rhai oeddynt yn elynol i Israel; megys Moab, Edom, Ammon, a'r Philistiaid.

"Ond hwy a ehedant ar ysgwyddau y Philistiaid tua'r gorllewin; yn nghyd yr ysbeiliant feibion y dwyrain: hwy a osodant eu llaw ar Edom a Moab, a meibion Ammon fydd *mewn* ufydd-dod iddynt." (Esai. xi. 14.)

5. Defnyddir gwaredigaethau blaenorol Israel i osod allan y meddylddrych o symmudiad ymaith anhawsderau. Gan hyny dywedir fod Duw, pan yn gwaredu ei bobl, yn myned i sychu môr yr Aifft, a dosbarthu naill ai y Nilus neu yr Euphrates i saith o ffrydiau bas, fel na byddai i'w dyfnder rwystro gwaredigion yr Arglwydd i fyned yn mlaen. (Esai. xi. 15.) Defnyddir ffrydiad gwyrthiol y dwfr o'r graig yn yr anialwch i ddisychedu Israel (Exod. xvii. 6. Num. xx. 11. Salm lxxviii. 15), fel desgrifiad o ddychweliad llwyddiannus yr Iuddewon o gaethiwed Babilon:—"Ewch allan o Babilon, ffowch oddiwrth y Caldeaid, â llef gorfoledd mynegwch *ac* adroddwch hyn, traethwch ef hyd eithafoedd y ddaear; dywedwch, Gwaredodd yr Arglwydd ei was Jacob. Ac ni sychedasant *pan* arweiniodd hwynt yn yr anialwch: gwnaeth i ddwfr bistillio iddynt o'r graig: holltodd y graig hefyd, a'r dwfr a ddylifodd." (Esai. xlviii. 20, 21.)

Yn Hosea, addawa Duw wneuthur i Israel yn ol ei hen drugareddau.

"Am hyny wele, mi a'i denaf hi, ac a'i dygaf i'r anialwch, ac a ddywedaf wrth *fodd* ei chalon. A mi a roddaf iddi ei gwinllanoedd o'r fan hono, a dyffryn Achor yn ddrws gobaith; ac yno y cân hi fel yn nyddiau ei hieuenctyd, ac megys *yn* y dydd y daeth hi i fyny o wlad yr Aifft." (Hos. ii. 14, 15.)

Edrycha Duw ar Israel fel gwraig anffyddlon; yr oedd wedi myned ar ol eilunod, a gadael Jehofah ei phriod; yn y geiriau uchod, yn y rhai y parhëir i edrych ar Israel fel gwraig, y mae Jehofah ei phriod yn addaw adferu Israel anffyddlon, a'i bendithio. Mae yr *anialwch* yn cyfeirio yn amlwg at yr anialwch i'r hwn yr aeth Israel wrth adael yr Aifft am Ganaan; *dywedyd wrth fodd ei chalon*, a gyfeiria at addewidion Duw i Israel yn eu crwydriadau, a'i amddiffyniad iddynt; y *gwinllanoedd* a awgrymant adnewyddiad nerth, ac o ganlyniad, lawenydd a boddlonrwydd; a *dyffryn Achor*, a gyfeiria at yr hanes yn llyfr Josua (vii.) Ystyr y gair Achor yw *trallod;* galwyd y dyffryn felly o herwydd y trallod a ddygasai Achan ar Israel. Ond nid cyhoeddi trallod y mae y prophwyd, ond cysur; addawa i Israel fendithion grasol Duw, y rhai a foddhant y galon edifeiriol; a nerth a llawenydd, y rhai fel gwinllanoedd a barant iddynt ymadfywio a llawenychu yn yr anialwch; ac hyd y nod yn Nyffryn Trallod fe egyr ddrws ymwared iddynt.* Mewn iaith ffugyrol, mae Duw yn addaw ail gyflawni ei hen ryfeddodau, ac ail ddangos ei hen drugareddau ar ran ei bobl, y rhai a ymddiriedant ynddo.

6. Gwneir defnydd o adfyd a chyfyngderau blaenorol er gosod allan farnedigaethau dyfodol. Dywed Hosea, wrth ragfynegi caethiwed y deg llwyth yn Assyria, "Dychwelant i'r Aifft" (viii. 13); ond er dangos mai caethiwed tebyg i'r hwn a oddefasant yn yr Aifft a olygir, ac nid dychweliad llythyrenol yno, ychwanega y prophwyd mai *Assyria* oedd y wlad i'r hon y caethgludid hwynt:—"Ni thrigant yn ngwlad yr Arglwydd; ond Ephraim a ddychwel i'r Aifft, ac yn Assyria y bwytânt beth aflan." (Hos. ix. 3.) "Ni ddychwel efe i wlad yr Aifft;

* *Turner's Discourses on Prophecy*, pp. 109, 110.

ond yr Assyriad fydd ei frenin, am iddynt wrthod troi." (Hos. xi. 5.) Cyflwr Aifftaidd, a sefyllfa gaethiwus yn Assyria, fel eiddo Israel gynt yn yr Aifft, a olygir.

Fel hyn gyda golwg ar amryw o bethau ereill, gosodir hwy allan mewn ieithwedd Iuddewig ac ymadroddion ffugyrol: dywedir fod Crist wedi cael ei eneinio (Esai. lxi. 1), ond nid yn llythyrenol, ond yn ysbrydol; dywedir y byddai efe yn frenin yn Seion, ac yn eistedd ar orseddfa Dafydd (Zech. ix. 9. Mat. xxi. 5. Luc i. 32), ac yn adeiladu teml yr Arglwydd (Zech. vi. 12, 13), ond mewn ystyr ffugyrol ac ysbrydol; felly hefyd y dywedir y byddai i'r mynyddau gael eu darostwng a'r dyffrynoedd gael eu cyfodi (Esai. xl. 3), ac ymadroddion cyffelyb, y rhai sydd i'w deall mewn ystyr ffugyrol, ac nid yn ol y llythyren.

Yn gyffelyb cawn y Testament Newydd yn gosod allan bethau ysbrydol trwy wasanaeth y deml. Sonir am ein hymgyssegriad i wasanaeth Duw fel "aberth byw" (Rhuf. xii. 1), a'n diolchgarwch fel "aberth moliant" (Heb. xiii. 15), ac am danom ni ein hunain fel "offeiriadaeth santaidd i offrymu aberthau ysbrydol." (1 Pedr ii. 5.) Darlunir iawn Crist a'i effeithiau fel "allor," o'r hon nid oedd rhyddid i'r Iuddewon annghrediniol fwyta (Heb. xiii. 10); ac eglwys Dduw o dan y Testament Newydd fel "teml Duw," a gwasanaeth eglwys Crist fel "allor," ac aelodau gwirioneddol ei eglwys fel "y rhai sydd yn addoli yn nheml Duw." (Dad. xi. 1.) Mae cydgordiad hollol yn ieithwedd prophwydoliaeth ac ymadroddion y Testament Newydd yn yr ystyr yma.

RHEOL III.—*Fod amryw Brophwydoliaethau yn meddu Amcan Moesol, a'u Cyflawniad, o ganlyniad, yn ymddibynu ar Ymddygiad dynion.*

Gan mai amcan mawr Duw yn ei holl ymwneyd â dyn, pa un bynag ai trwy brophwydoliaeth ai trwy yr efengyl, yw ei adferiad i heddwch a ffafr ei Greawdwr, yr oedd elfen foesol mewn prophwydoliaeth pan oedd yn cael ei thraddodi i ddyn mewn ffordd o fygythiad neu addewid, ac amcan crefyddol mewn golwg; ac os cyfnewidiai dynion yn eu hymddygiad ar ol ei chyhoeddiad, ni fyddai iddi ddyfod i ben; ond os na wnaent, yr oedd mor sicr o gael ei chyflawni a bod Duw y nefoedd yn Dduw y gwirionedd. Nodir hyn gan Dduw ei hun

fel rheol i esbonio prophwydoliaethau o'r natur yma:—"Pa bryd bynag y dywedwyf am ddiwreiddio, a thynu i lawr, a difetha cenedl neu freniniaeth; os y genedl hono y dywedais yn ei herbyn a dry oddiwrth ei drygioni, myfi a edifarhaf am y drwg a amcenais ei wneuthur iddi. *A pha* bryd bynag y dywedwyf am adeiladu, ac am blanu cenedl neu freniniaeth; os hi a wna ddrygioni yn fy ngolwg, heb wrando ar fy llais, minau a edifarhaf am y daioni â'r hwn y dywedais y gwnawn les iddi." (Jer. xviii. 7—10.)

Cawn eglurhad o hyn yn hanes ymweliad Jonah â Ninefeh. Er na fynegir yr arbedid y Ninefeaid os edifarhaent, eto gan fod elfen foesol yn y brophwydoliaeth, yr oedd Duw yn bwriadu trugarhau wrthynt ar eu hedifeirwch; ond os na edifarhaent, yr oedd y ddinas i gael ei dinystrio.

Dywedwyd wrth Hezeciah ei fod i farw; ond gan iddo ymostwng ger bron Duw gyda chalon ddidwyll ac athrist, galwyd y genadwri yn ol, ac estynwyd ei einioes. (Esai. xxxviii.)

O'r ochr arall cawn Zedeciah yn cael ei gaethiwo, a Jerusalem yn cael ei dinystrio gan y Caldeaid, o herwydd anufydddod Zedeciah i air Jeremiah; pe buasai efe yn myned allan at y Caldeaid, a rhoddi ei hunan i fyny iddynt, fe fuasai y Caldeaid yn ymddwyn tuag ato gyda thynerwch, ac yn arbed Jerusalem; ond gan na wnaeth hyny, cymmerwyd ef yn garcharor, lladdwyd ei feibion yn ei bresennoldeb, tynwyd ei lygaid, a dygwyd ef i Babilon mewn cadwynau, a llosgwyd Jerusalem â thàn. (Jer. xxxviii. 17, 18, xxxix. 1—8.)

Felly hefyd gydag Israel:—"Yn awr, gan hyny, os gan wrando y gwrandewch ar fy llais, a chadw fy nghyfammod; chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloedd." (Exod. xix. 5.) Gwelir fod yr addewid am amddiffyniad Duw i Israel yn ammodol, yn ymddibynu ar eu ffyddlondeb hwy iddo ef; gan na fuont ffyddlawn i'r Goruchaf, mae Duw yn dweyd wrthynt na fyddai iddo gadw ei addewid iddynt:—"Yn ol rhifedi y dyddiau y chwiliasoch y tir, *sef* deugain niwrnod (pob diwrnod am flwyddyn) y dygwch eich hanwireddau, *sef* deugain mlynedd; a chewch wybod toriad fy ngair i." (Num. xiv. 34.) Yr oedd eu hanghrediniaeth a'u grwgnachrwydd yn peri i Dduw eu cosbi yn y diffaethwch, a'u hattal rhag myned i Ganaan; ond gan fod y Messiah i ddyfod

o had Abraham, a'r holl Genedloedd i gael eu bendithio ynddo ef, a bod yn anmhossibl i air Duw yn yr ystyr yma fyned yn ddirym,—y mae yr Arglwydd yn diogelu cyflawniad y brophwydoliaeth trwy ddwyn plant y grwgnachwyr i Ganaan, a thaenu ei aden amddiffynol drostynt. (Num. xiv. 30, 31.) Cymharer 1 Bren. ii. 4, xi. 9—13. Joel ii. 14.)

Ceir yr un egwyddor yn rhedeg trwy y Testament Newydd. Mae yr edifeiriol i gael ei arbed, a'r anedifeiriol i gael ei ddifetha (Luc xv. 7. Act. iii. 19. Luc xiii. 3); mae yr hwn sydd yn credu ac yn ufyddhau i Grist i fod yn gadwedig, ond yr hwn sydd yn annghredu i gael ei gondemnio. Marc xvi. 16. Ioan iii. 36.) "Gwel am hyny ddaioni a thoster Duw: *sef* i'r rhai a gwympasant, toster; eithr daioni i ti, os arosi yn *ei* ddaioni *ef*. *Os* amgen, torir dithau hefyd ymaith." (Rhuf. xi. 22.)

Nid oedd prophwydoliaeth gan hyny, pan yn ymwneyd â dynion mewn ffordd o fygythiad neu addewid, yn ddedfryd annghyfnewidiol neu dynged ddall; ond yr oedd yn deillio oddiwrth Dduw santaidd Rhagluniaeth, gyda'r amcan i gael dyn i adael ei bechod; yr oedd yn dyfod oddiwrth Lywydd moesol y byd, yr hwn sydd gyfiawn a thrugarog, a'r hwn nad ydyw mewn un modd yn ymhoffi yn marwolaeth yr annuwiol.

Mae dosbarth arall o brophwydoliaethau ag sydd yn dwyn cyssylltiad â'r bwriadau Dwyfol, y rhai sydd yn ddiammodol, megys y prophwydoliaethau am y Messiah a llwyddiant ei deyrnas, ac am ddymchweliad teyrnas Satan; gyda golwg ar y rhai hyn, nid oes un ystyriaeth a wna i Dduw beidio eu cyflawni; mae eu cyflawniad yn anwahanol gyssylltiedig â gogoniant ei gymmeriad ac awdurdod ei orsedd; mae wedi rhwymo ei hun â llw seiliedig ar ei hanfod anfeidrol, mai iddo ef y plyga pob glin, ac y twng pob tafod. (Esai. xlv. 23.) Gyda golwg ar y dosbarth yma o ragfynegiadau, dywed y Jehofah, "Fy nghynghor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf" (Esai. xlvi. 10); a sicrhëir ni mai "Nid dyn *yw* Duw, i ddywedyd celwydd; na mab dyn, i edifarhau: a ddywedodd efe, ac nis cyflawna? a lefarodd efe, ac oni chywira?" (Num. xxiii. 19.) "Ac hefyd Cadernid Israel ni ddywed gelwydd, ac nid edifarha: canys nid dyn *yw* efe, i edifarhau" (1 Sam. xv. 29.)

RHEOL IV.—*Nad ydyw Trefn Amser ac Amgylchiadau yn cael ei chadw mewn Prophwydoliaeth.*

Gan fod yr Arglwydd yn dadlenu dygwyddiadau y dyfodiant i'r prophwydi trwy weledigaethau, nid ydyw trefn amser yn cael ei chadw yn y cofnodiad ; fel wrth edrych ar y wlad o'n hamgylch, na chanfyddir ond y gwrthddrychau mwyaf, megys yr adeiladau uchaf, a'r coedydd, a'r bryniau, er y gall fod dyffrynoedd llydain ac afonydd mawrion rhwng y gwahanol fryniau yn guddiedig oddi wrthym ; felly mewn gweledigaeth, yr oedd y prophwyd yn cael golwg ar bethau megys mewn cylch-arlunfa *(panorama)*, a thynid ei sylw gan y gwrthddrychau mwyaf amlwg yn y weledigaeth, ac am y rhai hyny y traetha; dichon fod cyfnodau meithion rhyngddynt, ond nid fel y cymmerant le mewn amser, ond fel yr ymddangosant mewn lle *(space)*, y canfyddodd efe hwynt, a thraetha am danynt yn ol fel yr ymddangosasant iddo. O herwydd hyn, dichon i gannoedd a miloedd o flynyddau gymmeryd lle rhwng gwahanol ddygwyddiadau, y rhai a gofnodir fel i gymmeryd lle yn olynol i'w gilydd.

Fel hyn cawn Esaiah yn diweddu y ddegfed bennod gyda phrophwydoliaeth am gwymp Senacherib a'i fyddin; ond yn y frawddeg nesaf, prophwyda am ymddangosiad Crist, fel pe buasai i gymmeryd lle yn ddioed ar ol dinystr Senacherib :— "Yna y daw allan wialen o gyff Jesse," &c. (Esai. xi. 1.)

Mae Jeremiah yn pennod xxxiii. 5, 6, yn cyssylltu dychweliad yr Iuddewon âg ymddangosiad Crist, heb gyfeirio at eu syrthiad ymaith am lawer o oesau yn flaenorol i'w dychweliad.

Dechreuodd dinas Babilon ag adfeilio pan y cymmerwyd hi gan y Persiaid, ond ni lwyr ddinystrwyd hi am fil o flynyddau; eto, mae Jeremiah yn cyssylltu ei chwymp o flaen gallu y Persiaid â'i llwyr ddinystr fel pe buasent yn cymmeryd lle yr un pryd. (Jer. l., li.)

Desgrifia Zechariah lywodraeth gyffredinol Crist ar y ddaear fel yn canlyn ei ymgnawdoliad yn ddioed (ix. 9, 10.)

Yn Esai. lii. 1—12, ceir prophwydoliaeth am ddychweliad yr Iuddewon o Babilon; yn yr adnod nesaf, â y prophwyd yn mlaen oddiwrth y waredigaeth trwy Cyrus, at waredigaeth

anfeidrol fwy gogoneddus trwy y Messiah, yr hon oedd i gael ei dwyn oddi amgylch, nid trwy fuddygoliaeth, ond trwy ddyoddefiadau.

Mae y prophwyd Michah v. 1—6, yn cyssylltu amseroedd y Messiah â'r tywysogion Maccabeaidd, yn ol yr olwg a gafodd ar bethau yn ei weledigaeth. Gosodir allan enedigaeth y Messiah, a'i lywodraeth heddychol, a'i awdurdod gyffredinol yn adn. 2—5; ond yn y chweched adnod, desgrifir buddugoliaethau y tywysogion Maccabeaidd ar y Syriaid yn amser Antiochus Epiphanes.*

Cyfrifa'r ffaith mai trwy weledigaethau yr oedd Duw yn fynych yn dadguddio ei fwriadau i'r prophwydi, am *gymmysgedd y dadguddiadau*, fel yn yr engreifftiau uchod, ac yn ngwaith Crist yn cyd-ddesgrifio dinystr Jerusalem a dychrynfeydd y farn ddiweddaf. Ystyria Dr. Hengstenberg fod yr ymadrodd "yn y fan" (εὐθέως), (Mat. xxiv. 29), yn cyfeirio at bethau fel yr ymddangosent i Grist yn y weledigaeth brophwydol, ac nid er gosod allan bethau fel yr oeddynt i gymmeryd lle yn weithredol. Gyda golwg ar ddinystr Jerusalem, dywed Crist, "Nid â y genedlaeth hon heibio, hyd oni wneler hyn oll" (Mat. xxiv. 34); ond gyda golwg ar y farn ddiweddaf, dywed, "Ond am y dydd hwnw a'r awr nis gwyr neb, nac angylion y nefoedd, ond fy Nhad yn unig." (Mat. xxiv. 36.)

Mewn rhai gweledigaethau, modd bynag, yr oedd pethau yn ymddangos yn ol fel yr oedd y dygwyddiadau i gymmeryd lle, megys yn Dan. vii. a'r viii.

RHEOL V.—*Fod Prophwydoliaeth i gael ei dehongli yn ol Cyssondeb y Ffydd, ac mewn cydgordiad â Ffeithiau Hanesyddol.*

Yr ydym wedi nodi hyn eisioes o dan agweddau ereill: gwel Pennod V., Rheol V., tudal. 376, a Phennod VI. Rheol III., tudal. 393. Ni wnawn ond cyfeirio at y prophwydoliaethau yn nghylch dychweliad yr Iuddewon, er egluro y Rheol. Cymhwysir prophwydoliaethau yn nghylch dychweliad yr Iuddewon o Babilon yn fynych at eu dychweliad at Dduw trwy yr efengyl, a deallir ieithwedd ffugyrol prophwydoliaeth (gwel Rheol II. 5, o'r Bennod hon) mewn modd llythyrenol, ac felly

* Gwel Esboniad Henderson, a *Jahn's Introduction to Michah.*

coleddir syniadau ag sydd yn cynnwys adferiad gwasanaeth y deml fel cynt. Clywsom rai breuddwydwyr yn dweyd y bydd y gwasanaeth aberthol yn cael ei sefydlu yn Jerusalem eto fel cynt, ond fod yr aberthau o hyn allan i gyfeirio *yn ol* at Grist fel Swper yr Arglwydd, ac nid *yn mlaen*, megys o dan yr hen oruchwyliaeth. Cynnwysa hyn ddiddymiad Cristionogaeth, ac ail sefydliad Iuddewiaeth! "Fy meddwl i ydyw," ebe Edward Irving, "mai nid goruchwyliaeth yr Hen Destament, ond goruchwyliaeth y Testament Newydd, sydd i derfynu; ac yna bydd i'r llall ail gymmeryd ei safle o dan Grist a'i briodasferch, yr hon ydyw ei eglwys!"* fel pe na buasai erioed wedi darllen 2 Cor. iii. 11, 13. Heb viii. 13, xii. 27, 28.

Ond creda llawer o dduwinyddion uniongred a dysgedig y bydd i had Abraham gael eu hadferyd i'r Ganaan ddaearol, a ffurfio eto wladwriaeth Israel. Y ddau brif reswm a ddygir yn mlaen dros gredu hyn ydyw y rhai canlynol:—

1. Fod Duw wedi addaw eu casglu o blith pob cenedl, a'u dychwelyd i Ganaan.

2. Fod Duw wedi addaw y wlad i had Abraham o'r Euphrates i Fôr y Canoldir; dywedir na feddiannodd Israel erioed mo'r wlad o fewn y terfynau yna, ac o ganlyniad fod yn rhaid eu dychwelyd er amddiffyn geirwiredd Duw.

Er fod y rhesymau hyn yn ymddangos yn deg, eto nid ydynt mewn un modd yn argyhoeddiadol.

1. Yr oedd yr addewid am Ganaan i Israel i raddau yn ammodol. Mewn trefn i etifeddu y wlad, yr oeddynt i anrhydeddu Duw, a chymmeryd meddiant o honi; os na wnaent, yr oeddynt yn colli eu hawl iddi. Er fod y wlad i gyd wedi ei rhoddi iddynt, eto yr oeddynt yn rhy ofnus i ddarostwng y Canaaneaid; ni yrasant allan y Philistiaid a phreswylwyr Tyrus a Sidon, ac ni feddiannasant eu gwlad; ac ni chymmerasant feddiant o Jerusalem hyd ddyddiau Dafydd. Yr oedd Josua yn eu beio am na fuasent yn meddiannu y wlad a roddasai Duw iddynt. (Jos. xviii. 3.) Mae llawer o ymadroddion yn

* Dyfynedig gan *Fairbairn on Prophecy*, p. 154; a *Dr. Turner on Prophecy*, p. 199.

dangos mai yn ammodol y rhoddasid Canaan iddynt. (Exod. xix 5. Num. xiv. 34. Jos. xxiii. 12, 13, 15.) Gwel Rheol III. o'r Bennod hon.

2. Fe gafodd Israel yn rhinweddol feddiant o'r wlad o'r Euphrates i Fôr y Canoldir yn nyddiau Solomon. "A Solomon oedd yn llywodraethu ar yr holl deyrnasoedd, o'r afon hyd wlad y Philistiaid, ac hyd derfyn yr Aifft: yr oeddynt hwy yn dwyn anrhegion, ac yn gwasanaethu Solomon holl ddyddiau ei einioes ef." (1 Bren. iv. 21.) Yr oedd y breninoedd cymmydogaethol yn talu teyrnged i Solomon, ac yntau yn teyrnasu fel "brenin y breninoedd" yn eu plith.

3. Fe gyflawnwyd yr amcan neillduol ag oedd gan Dduw mewn golwg yn lleoliad yr Israeliaid yn Nghanaan, pan oeddynt yn eu gwlad. Cawsant eu neillduo oddiwrth genedloedd ereill, a'u lleoli yn Nghanaan, i'r dyben (mor bell ag y gallwn ddeall amcanion y Goruchaf), o gadw y wybodaeth am y gwir Dduw ar y ddaear, a pharotoi y byd erbyn ymddangosiad y Messiah. Sicrhaodd eu sefydliad yn Nghanaan gyflawniad yr addewid am y Messiah i Abraham. Dywedwyd na wasgerid Judah *cyn i'r Siloh ymddangos*, yr hyn a awgryma y gallai Judah gael ei wasgaru ar ol ei ymddangosiad. Pan y caethgludwyd y deg llwyth i Assyria, nid oedd o bwys iddynt hwy ddychwelyd, ac i'w llywodraeth gael ei hail sefydlu, oblegyd nid oedd y Messiah i ddyfod o honynt hwy; ond pan y caethgludwyd Judah i Babilon, yr oedd yn rhaid iddo ef gael ei adferyd i'w wlad, oblegyd yr oedd Gwaredwr y byd i ddyfod o Judah; ond wedi i'r Gwaredwr ddyfod, ac i drefn yr iachawdwriaeth gael ei dwyn oddi amgylch, a'r oruchwyliaeth rasol, ysbrydol, a chyffredinol gael ei sefydlu yn y byd, gellid gwasgaru Judah hefyd, gan fod bwriadau Duw gyda golwg ar leoliad y genedl yn Nghanaan wedi cael eu sylweddoli. Yn y flwyddyn O.C. 70, dinystrwyd Jerusalem a'r deml, a chwalwyd y genedl i bedwar parth y byd.

4. Mae yr addewidion gyda golwg ar ddychweliad llythyrenol y bobl i Ganaan wedi cael eu cyflawni. Mae yr addewidion yn nghylch dychweliad y bobl i'w gwlad i'w canfod, gan mwyaf, yn llyfrau Moses, neu yn ysgrifeniadau Esaiah, Jeremiah, ac Ezeciel; ond yr oedd Moses yn byw yn nechreuad yr oruchwyliaeth Iuddewig, ac Esaiah o flaen caethiwed

Babilon, a Jeremiah o'i flaen ac yn adeg ei ddechreuad, ac Ezeciel yn un o blant y gaethglud; ac ymddengys i'r awdwr fod y prophwydoliaethau am eu dychweliad naill ai *wedi cael eu cyflawni yn llythyrenol yn eu dychweliad o Babilon*, neu *i'w deall mewn modd ffugyrol am fuddygoliaethau yr efengyl o dan deyrnasiad y Messiah*, fel yn Jer. xxx. 9. Ezec. xxxiv. 23, 24. Hos. iii. 5: gwel Rheol II. 5, o'r Bennod hon.

Os dywedir nad yw y nodiadau uchod yn gymhwysiadol ond at Judah a Benjamin yn unig, a bod yr addewid i gasglu Israel hefyd, yr ateb i hyny ydyw a ganlyn:—Fe gaethgludwyd y deg llwyth i Assyria tua'r flwyddyn 719 C.C. (2 Bren. xvii. 6); yr oedd Assyria yn ymerodraeth fawr iawn yr adeg hono, a Babilon yn dalaeth o honi. Yn mhen rhyw gan' mlynedd ar ol hyn, tua'r flwyddyn 606 C.C., fe orchfygwyd Assyria, ac fe'i gwnaed yn dalaeth o Media. Yn mhen rhyw gan' mlynedd drachefn, tua'r flwyddyn 539 C.C., fe gymmerodd Cyrus Babilon, ac y mae Assyria a Babilonia erbyn hyn wedi eu llyncu i fyny gan lywodraeth ëangfawr y Mediaid a'r Persiaid. Gan fod Assyria, gwlad y deg llwyth, yn rhan o ymerodraeth y Mediaid a'r Persiaid, gelwir brenin Persia yn "frenin Assyria." (Ezra vi. 22.) Yn awr, dyma wlad y deg llwyth, a Babilon, i'r lle y caethgludasid Judah a Benjamin, o dan awdurdod Cyrus; a chawn ef yn anfon cyhoeddiad allan, fod *rhyddid i'r holl Iuddewon trwy ei holl daleithiau i ddychwelyd i'w gwlad*, ac nad oedd neb i'w luddias, ond fod pawb i estyn pob cymhorth galluadwy iddynt. "Yn y flwyddyn gyntaf i Cyrus brenin Persia (i gyflawni gair yr Arglwydd o enau Jeremiah) cyffrôdd yr Arglwydd ysbryd Cyrus brenin Persia, fel y cyhoeddodd efe trwy ei holl deyrnas, a *hyny* hefyd mewn ysgrifen, gan ddywedyd, Fel hyn y dywed Cyrus brenin Persia, Arglwydd Dduw y nefoedd a roddes i mi holl deyrnasoedd y ddaear, ac efe a orchymynodd i mi adeiladu iddo ef dŷ yn Jerusalem, yr hon *sydd* yn Judah. Pwy *sydd* o honoch o'i holl bobl ef? bydded ei Dduw gydag ef, ac eled i fyny i Jerusalem, yr hon *sydd* yn Judah, ac adeiladed dŷ Arglwydd Dduw Israel (dyna y Duw) yr hwn *sydd* yn Jerusalem. A phwy bynag a adawyd mewn un man lle y mae efe yn ymdeithio, cynnorthwyed gwŷr ei wlad ef âg arian, ac âg aur, ac â golud, ac âg anifeiliaid, gydag ewyllysgar offrwm tŷ Dduw yr hwn *sydd* yn Jerusalem." (Ezra. i. 1—4.)

Dyma ryddid i'r holl lwythau i ddychwelyd; ni chymmerodd ond ychydig o honynt fantais arno; ond yn mhlith yr Iuddewon a ddychwelasant, yr ydym yn cael rhai o bob llwyth; pan chwiliwyd am achau y dychweledigion, y pwnc oedd gweled a oeddynt yn *hanu o Israel*, ac nid o Judah yn unig (Ezra ii. 59); pan orphenasid y deml, yr oedd cynnrychiolwyr y deuddeg llwyth yn bresennol ar adeg ei chyssegriad, a deuddeg aberth yn cael eu haberthu "dros Israel, yn ol rhifedi llwythau Israel." (Ezra vi. 15—22, vii. 7, 13, viii. 35, ix. 1, x. 1, 25.)

Ar ol hyn, yr oedd gweddillion y deuddeg llwyth yn ffurfio un weriniaeth neu deyrnas, ac nid dwy deyrnas fel cynt. Yr oedd teyrnas Israel i ddarfod am byth ar ol caethgludiad y deg llwyth (Hos. i. 4, 5); ond yr oedd Duw wedi rhagfynegi y byddai i'r dychweledigion o'r deuddeg llwyth uno â'u gilydd er ffurfio un deyrnas, yr hyn a arddangosai Ezeciel trwy y weithred arwyddluniol o uno dwy ffon â'u gilydd fel y byddent un. (Hos. i. 11. Ezec. xxxvii. 21, 22.)

5. Mae anhawsdra hefyd i gredu dychweliad yr Iuddewon i'w gwlad, wrth ystyried eu rhifedi. Yn amser Solomon y bu Israel fwyaf blodeuog a lliosog o un adeg yn ei hanes; bernir fod y genedl y pryd hyny yn rhifo tua phum' miliwn;* ond dyna y rhifedi lleiaf a briodolir i Iuddewon yr oes hon, tra yr ystyria ereill eu bod yn naw miliwn; ac y maent ar gynnydd parhaus. Mae yn amheus a oes yn Nghanaan ddigon o le i gynnwys Iuddewon y dyddiau hyn, heb i ni fyned i chwilio am wyrthiau i'n tynu o'r dyryswch.

6. Nid ydyw yr efengyl yn cydnabod gwahaniaeth cenedlaethol, nac yn dal allan lwyddiant a gwynfyd daearol o'r fath yma o flaen dynion. Mae y gwahaniaeth a fodolai gynt rhwng yr Iuddew a'r Cenedlddyn wedi cael ei ddileu; nid ydyw yr hyn a roddai fodolaeth i'r Iuddew fel Iuddew ar gael mwyach, ac yn ngoleuni efengyl y mae pob gwahaniaeth cenedlaethol wedi diflanu. "Nid oes nac Iuddew na Groegwr, nid oes na chaeth na rhydd, nid oes na gwryw na benyw: canys chwi oll un ydych yn Nghrist Iesu." (Gal. iii. 28.)

* *Angus's Christ our Life*, p. 28.

Yr oedd y ffafrau a ddangosid i'r Iuddew gynt yn fwy nag i'r Cenedlddyn yn achlysur o elyniaeth rhyngddynt; yr oeddynt, ar un llaw, yn peri i'r Iuddew edrych i lawr yn ddirmygus ar y Cenedlddyn, ac ar y llaw arall, yn peri i'r Cenedlddyn ystyried yr Iuddew yn benboethyn ffroenuchel a thrahaus; ac felly o herwydd llygredd y natur ddynol, fe ddaeth yr hen gyfammod, er wedi ei sefydlu i fod yn fendith i'r byd, yn achlysur o "elyniaeth" rhwng Iuddewon a Chenedloedd: ond fe ddarfu i Grist wrth farw symmud ymaith yr achlysur o'r elyniaeth trwy ddiddymu y grefydd leol a chenedlaethol a'i manteision cyfyngedig i had Abraham, a sefydlu crefydd ysbrydol a chyffredinol ag sydd yn cynnyg iachawdwriaeth i bawb ar yr un telerau. (Eph. ii. 14—16.) Pe dychwelid yr Iuddewon i'w gwlad, fe adgyfodid yr hen "elyniaeth" eto, ac fe fytholid y gwahaniaeth cenedlaethol, yr hwn yn ol Paul, a ddiddymwyd trwy angeu Crist.

Na, na, nid Canaan, ond "gwlad well" yw gorphwysfa yr efengyl; nid dysgu dynion i "synied pethau daearol" fel y gau athrawon Iuddewig y mae yr efengyl, ond i ymofyn "dinasyddiaeth yn y nefoedd," a "rhoddi eu serch ar bethau sydd uchod" (Phil. iii. 19, 20. Col. iii. 1, 2), a "thrysori trysorau yn y nef." (Mat. vi. 20.)

Fe ddysgodd Iesu Grist lawer o bethau i'w ddysgyblion, ac fe ragfynegodd lawer o bethau iddynt, ond ni ddysgodd ac ni ragfynegodd ddychweliad yr Iuddewon i'w gwlad; ac er cymmaint a draethodd yr apostolion am ddychweliad yr Iuddewon, nid ydynt yn rhoddi yr awgrymiad lleiaf yr adferid yr Iuddewon i'w safle wladwriaethol yn Nghanaan fel cynt. Yr oedd yr Iuddew i gael y flaenoriaeth i wrandaw a derbyn cynnygion grasol yr efengyl, ond nid mewn un ystyr arall. Yn hytrach na dysgu dychweliad yr Iuddewon yn ol i'w gwlad, i ffurfio teyrnas Israel o dan y brenin Messiah ar orsedd Dafydd yn Jerusalem, dysga Pedr fod Crist eisioes trwy ei esgyniad i'r nef wedi "eistedd ar orseddfa ei dad Dafydd" (Act. ii. 30), a'i wneyd yn "Arglwydd pawb oll." (Act. x. 36.)

Nid ydyw geiriau yr Arglwydd Iesu, "A Jerusalem a fydd wedi ei mathru gan y Cenedloedd, hyd oni chyflawner amser y Cenedloedd" (Luc xxi. 24), yn dysgu adferiad gwladol i had Abraham: oblegyd y mae y gair Jerusalem yma yn cael ei

ddefnyddio trwy drawsenwad am yr Iuddewon,* (megys ag yn Jer. i. 3. Mat. ii. 3, iii. 5, xxiii. 37. Luc xiii. 34), ac yn dysgu yn benaf fod *terfyn* i gael ei osod ar orthrwm y Cenedloedd ar y genedl Iuddewig. Bydd hyny ar ben, pan "gyflawnir amser y Cenedloedd," pan y daw y Cenedlddyn a'r Iuddew yn un mewn cariad a theimlad o dan ddylanwad croes Crist, ac i ymhyfrydu yn yr Arglwydd Iesu fel gogoniant Israel a gobaith y Cenedloedd.

RHEOL VI.—*Mai Emmanuel yw prif destyn Prophwydoliaeth.*

Os collwn olwg ar hyn, ni a gollwn enaid prophwydoliaeth. Crist yn ei berson, ei gymmeriad, ei swydd, a'i deyrnas, ydyw testyn goruchel prophwydoliaeth. I'w gyhoeddi ef y llefarodd gyntaf; ni chyfeiriai at wrthddrychau ereill, ond yn unig yn eu cyssylltiad âg ef—megys *Israel*, fel ceidwad yr oraclau a'i cyhoeddent ef, ac arloeswyr y ffordd erbyn ei ymddangosiad; a'r *Cenedloedd*, naill ai fel poenydwyr ei bobl ef, neu fel y rhai yn y dyddiau diweddaf a ddeuant i obeithio ynddo. Wrth osod allan ei ddarostyngiad a'i ddyoddefiadau, wrth ddesgrifio gogoniant ei berson, a helaethder ei awdurdod, trethai prophwydoliaeth ogoniant natur, dyhysbyddai arferion cymdeithas, ac ymaflai yn ëangderau y bydysawd; ac wedi'r cyfan, nid oedd ganddi ond galw sylw'r byd ato fel canolbwynt pob gogoniant, ac ymgorpholiad o bob perffeithrwydd, y rhai nad ellid eu gwisgo yn iaith y ddaear, a bloeddio, "Gelwir ei enw ef RHYFEDDOL!" (Esai. ix. 6.) Tystiolaeth Iesu yw ysbryd y brophwydoliaeth" (Dad. xix. 10); dyma ei swm a'i sylwedd trwy yr oesau; "Iddo ef mae yr holl brophwydi yn dwyn tystiolaeth" (Act. x. 43, xxvi. 22. Luc xxiv. 44—46. Ioan i. 45); ac nid ydyw Cristionogaeth ond cyflawniad y brophwydoliaeth am dano ef. Gyda golwg ar y prophwydoliaethau sydd eto heb eu cyflawni, prophwydoliaethau am dano ef ydynt; naill ai am y gwrthwynebiad a ga oddiar law ei elynion, neu am ddyoddefiadau ei ganlynwyr, neu am ei fuddygoliaethau a'i anrhydedd; ac wedi ei ddilyn trwy ei frwydrau a'i fuddygoliaethau, trwy yr adgyfodiad a'r farn, y mae prophwydoliaeth o'r diwedd yn ei adael ar ei

* *Fairbairn on Prophecy,* p. 242.

orsedd ddyrchafedig yn y nef, a'i ddyweddi gydag ef, a holl lu y nef yn llefain, "TEILWNG YW'R OEN! I'R HWN SYDD YN EISTEDD AR YR ORSEDDFAINC, AC I'R OEN, Y BYDDO Y FENDITH, A'R ANRHYDEDD, A'R GOGONIANT, A'R GALLU, YN OES OESOEDD. AMEN."

Gwel yn mhellach y gweithiau y cyfeiriwyd atynt ar waelod y ddalen, sef gweithiau Jahn, Dr. Payne Smith, Dr. Fairbairn, Dr. Samuel H. Turner, a Dr. Barrows; a *Dr. Pye Smith's Principles of Interpretation as Applied to the Prophecies; Hengstenberg's Christology*, vol. i. chap. v.; a *Dr. W. Smith's Dictionary of the Bible*, Art. "Prophet."

# ATTODIAD.

## I. LLYFRAU APOCRYPHAIDD Y TESTAMENT NEWYDD.

Gwnaed cyfeiriad byr at y rhai hyn yn y Bennod ar y Canon, tudalen 59. Ar ryw olwg, nid ydym i ryfeddu fod amryw lyfrau yn cael eu lledaenu yn oesoedd boreuaf yr eglwys, er rhoddi ychwaneg o hanes y Ceidwad nag a geir yn y Testament Newydd. Amcan mawr rhoddiad y Testament Newydd i ni oedd ein hachub: y mae, gan hyny, yn traethu yn helaeth ar ymgnawdoliad, bywyd santaidd, angeu iawnol, adgyfodiad buddygoliaethus, esgyniad gorfoleddus, a Duwdod diamheuol Crist Iesu ein Harglwydd, yn nghyda'r anghenrheidrwydd am ffydd ynddo: ond nid ydyw yn sôn gair am ei ymddangosiad personol, na dygwyddiadau y ffoedigaeth i'r Aifft, nac am helyntion ei ieuenctyd ef, oddi eithr rhyw amgylchiad neu ddau. (Luc ii. 46, 47, 51, 52, iv. 16.) Bwriadwyd llyfrau Apocryphaidd y Testament Newydd i wneyd i fyny y diffyg hwn, a rhoddi goleuni ar y pethau y mae yr Efengylwyr yn eu gadael allan. Eu hamcan yw boddhau cywreinrwydd aflonydd a phechadurus y meddwl dynol, yr hwn sydd yn anfoddlon i'r Gair Dwyfol yn y ffurf y darfu i ddoethineb Duw weled bod yn dda i'w foddi i'r byd.

Cawn y Testament Newydd yn parotoi ei ddarllenwyr i ddysgwyl ymddangosiad Ysgrythyrau gau. (Luc i. 1, 2. Gal. i. 7. 2 Thes. ii. 2.) Dichon fod amcan da gan rai o'r ysgrifenwyr, a'u bod yn ystyried y dylasent gofnodi er budd oesau diweddarach hanesynau a thraddodiadau a glywsent am Waredwr dyn; tra y barnai ereill y gallasent wella ychydig ar yr Efengylau trwy gymmysgu eu dychymmygion eu hunain â'r gwirionedd; ac amcan ereill, mae'n eglur, oedd ffugio awdurdod Ddwyfol i'w heresiau a'u llygriadau eu hunain.

Fe sylwir nad yw llyfrau Apocryphaidd y Testament Newydd yn *gwrthddweyd* yr hanes ysgrythyrol; math o ychwanegiad dynòl a diawdurdod ydynt, yn hytrach na gwrth-dystiolaeth.

Mae prawf *nad* oedd y llyfrau hyn ar gael yn ystod y ganrif gyntaf; mae yn anhawdd profi eu bod wedi eu hysgrifenu cyn y drydedd neu y bedwaredd ganrif; tra mae eu cynnwysiad yn profi mai ar ol llygriad Cristionogaeth y cyfansoddwyd hwynt, er cadarnhau athrawiaethau cyfeiliornus.

## § I. Dosraniad byr o Lyfrau Apocryphaidd y Testament Newydd.

Cyfyngwn ein sylwadau i'r gyfrol a gyhoeddodd William Hone, yn Llundain, yn y flwyddyn 1820, ac a elwir "*The Apocryphal New Testament*," heb gymmeryd i mewn ysgrifeniadau Clement o Rufain, Hermas, Ignatius, Barnabas, a Polycarp, gan fod y rhai hyn yn gynnyrchion gwerthfawr o eiddo dynion da. At y llyfrau fel y maent yn yr argraffiad hwn o eiddo W. Hone, y mae y cyfeiriadau yn y llinnellau canlynol, ac nid at argraffiadau diweddarach Clark a B. H. Cowper. Cynnwysa cyfrol Clark amryw lyfrau Apocryphaidd ereill; ond gwasanaetha y rhai sydd yn Hone i ddangos beth yw ansawdd y cyfan.

1. *Efengyl Genedigaeth Mair.*—Sylwedd hon yw hanes rhieni Mair, y rhai a elwid Joachin ac Anna, yn hiraethu am gael plentyn, ac yn addunedu os caent un, y cyssegrent ef i wasanaeth yr Arglwydd. Cyn hir, y mae angel yn hysbysu Joachin fod ei wraig i'w anrhegu â merch, yr hon oedd i gael ei dwyn i fyny yn y deml yn Jerusalem. Pan yn dair oed, y mae yr eneth yn cael ei dwyn i'r deml, ac mae angylion yn dyfod oddiwrth Dduw bob dydd i edrych am dani. Yna cawn hanes ei dyweddiad i Joseph, a genedigaeth Crist.

2. *Y Protevangelion*: *neu Hanes Genedigaeth Crist, a'r Forwyn Fair, ei Fam, gan Iago Leiaf.*—Mae yr wyth bennod gyntaf o hon yr un peth o ran sylwedd ag Efengyl Genedigaeth Mair. Yn y rhanau ereill, cawn hanes y trethiad a ddygodd Joseph a Mair i Bethlehem. Pan aeth Joseph allan i chwilio am fyd-wraig, yr oedd yn gweled cymmylau y nef ac adar yr awyr yn sefyll yn eu gyrfa; gwelai ddynion wrth ymborthi yn ymattal oddiwrth fwyta a'r bwyd yn eu genau; a geifr a'u geneuau yn cyffwrdd â'r afon heb yfed dim, &c. Pan y daeth y fyd-wraig i'r ogof, yr oedd wedi ei goleuo mor ogoneddus fel nas gallent ddal yr olygfa. Yna cawn hanes y doethion o'r Dwyrain, a llofruddiaeth Zecharias gan Herod am beidio dweyd pa le yr oedd Ioan, er mwyn iddo gael ei ladd gyda'r plant ereill, &c.

3. *Efengyl Gyntaf Babandod Iesu Grist.*—Hanes yw hwn tebyg i'r rhai blaenorol, ond fod y gwyrthiau yn dyfod yn fwy lliosog a synfawr, a Mair yn cael ei galw St. Mary, Lady Mary, a Lady St. Mary. Cawn hen wraig glaf yn cael ei hiachâu trwy osod ei dwylaw ar y baban Iesu, yn ol awgrymiad "Lady St. Mary." Yr oedd y bugeiliaid a'r angylion yn cyduno i foliannu Duw yn ogof genedigaeth Crist. Pan yr enwaedwyd Crist, fe gadwodd yr hen fyd-wraig Hebreig y blaengroen, ac a'i dododd mewn blwch o enaint gwerthfawr; yr oedd ganddi fab yn fferyllydd, yr hwn oedd i ofalu am y blwch. Y blwch hwn a dorodd Mair y bechadures fawr ar ben Crist. Rhoddodd Lady St. Mary un o'r cadachau â pha rai y

gwisgai y baban Iesu i'r doethion o'r Dwyrain yn lle bendith: wedi eu dychweliad, maent yn gwneyd gwledd er anrhydedd i'r dilledyn, yr hwn sydd yn gwneyd gwyrthiau ac yn cael ei addoli yn y wlad bell (pen iii.) Yn yr Aifft yr oedd yr eilunod yn dweyd y fath fraw oeddynt wedi ei gael trwy fod Iesu yn y wlad. Yr oedd dillad y baban Iesu trwy gyffwrdd â dynion yn peri i gythreuliaid fyned allan o honynt, gan ehedeg o'u geneuau fel brain a seirph. Ceir hanes amryw o ffugwyrthiau ereill cyffelyb yn yr efengyl uchod.

4. *Efengyl Babandod Iesu Grist gan Thomas:* sef "Hanes Gweithredoedd a Gwyrthiau ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist," gan Thomas, Israeliad. Pan yn bump oed, ceir yr Iesu yn gwneyd dwfr cymmysglyd yn lân. Wrth chwareu gyda'r plant, yr oedd y bachgen Iesu yn gallu gwneyd i adar o glai ehedeg. Lladdai y plant a ddygwyddent redeg yn ei erbyn ar y ffordd. Hyfforddai ei athraw pan gydag ef yn yr ysgol.

5. *Epistolau Iesu Grist ac Abgarus, Brenin Edessa.*—Yn y llyfr hwn ceir llythyr oddiwrth Abgarus at yr Iesu yn dymuno arno ddyfod i'w wlad ef i'w iachâu ef o afiechyd, ac yn sicrhau iddo y cawsai bob parch yn ei ddinas ef: ysgrifena yr Iesu nas gallai fyned, ond yr anfonai un o'i ddysgyblion ato ar ol ei esgyniad.

6. *Efengyl Nicodemus, yr hon a elwid gynt Actau Pilat.*—Cynnwysa hon 22ain o bennodau, ac y mae mor hir ag efengyl Matthew. Rhyw gymmysgedd o'r hanes ysgrythyrol ydyw, gyda llawer o bethau gweigion a disail. Dechreua gyda gwaith yr Iuddewon yn cyhuddo Crist o flaen Pilat am iachâu ar y Sabbath; mae llu o'r rhai a iachasai Crist yn ei ganmol; ond y mae Pilat, er yn beio yr Iuddewon, yn condemnio Crist. Ond fe gyfododd Crist o feirw, ac fe gyfodwyd ereill ganddo. Mae dau o'r rhai hyny—Charinus a Lenthius, dau fab i'r hen Simeon—yn dweyd y fath gyffro oedd yn ngwlad angeu ac uffern pan ddisgynodd Crist yno ar ol marw ar y groes, i waredu y carcharorion.

7. *Credo'r Apostolion.*—Yr un yw hwn a'r Credo a geir o dan yr un enw yn y Llyfr Gweddi Cyffredin. Dywedai Ambrose mai yr apostolion a'i cyfansoddasant, ac ychwanegai Awstin fod pob un o honynt wedi adrodd brawddeg o hono, nes iddynt gyrhaedd yr Amen gyda Matthias.

8. *Epistol Paul yr Apostol at y Laodiceaid.*—Llythyr byr yw hwn, wedi ei wneyd i fyny o wahanol frawddegau yma a thraw yn epistolau Paul, er ffugio y llythyr y cyfeirir ato yn Col. iv. 16.

9. *Epistolau Paul yr Apostol at Seneca, gyda Llythyrau Seneca at Paul.*—Cynnwysa y llyfr hwn bedwar ar ddeg o ffug-lythyrau rhwng yr apostol a'r athronydd, y rhai a gynnwysant gyfarchiadau parchus oddiwrth y naill at y llall.

10. *Actau Paul a Thecla.*—Ceir hanes Paul yn pregethu yn Iconium yn y llyfr hwn, pryd y dywedai,—"Gwyn fyd y rhai sydd yn gadael eu mwyniannau bydol, oblegyd hwy a dderbynir gan Dduw. Gwyn fyd cyrph ac eneidiau gwyryfon; oblegyd hwy a dderbynir gan Dduw, ac ni chollant wobr eu morwyndod." Fe glywodd rhyw wyryf o'r enw Thecla y geiriau hyn, ac yn y fan tynodd yn ol ei haddewid i briodi, a phenderfynodd fyw yn wyryf. Cawn hi yn dilyn Paul o fan i fan, ac yn diweddu ei hoes fel monaches mewn ogof.

Arlwy o'r natur yna a ddyry yr ysbrydoliaeth Apocryphaidd ar ein bwrdd. Mae y llyfrau yn llawn o bethau ynfyd, plentynaidd, a niweidiol.

## § II. Y Rhesymau dros eu gwrthod fel rhan o air Duw.

1. *Y Prawf Allanol yn eu herbyn.*—Yr ydym wedi rhoddi talfyriad o hwn eisioes yn nhudalen 59. Cyfaddefwyd y twyll gyda chyfansoddiad rhai o honynt gan eu hysgrifenwyr. Dywed Tertullian (*De Baptismo*, § 17), fod rhyw henadur yn Asia wedi cydnabod mai efe a ffugiodd "Actau Paul a Thecla" o gariad at Paul; a'i fod mewn canlyniad wedi cael ei ddiswyddo. Ceir rhai o'r Tadau yn dyfynu o honynt weithiau er dangos i'w gwrthwynebwyr eu bod yn gyfarwydd â'r ysgrifau hyn, ac er mwyn ymresymu â hwynt ar eu tir eu hunain; ond ni chydnabyddent hwynt fel cynnyrchion anffaeledig ysbrydoliaeth Duw.

2. *Y Prawf Mewnol yn eu herbyn.*—Weithiau bradychant anwybodaeth anesgusodol yn yr ysgrifenwyr, megys cymmeryd "canwriad" *(centurio)* i fod yn enw priodol. (Nicod. v. 34.) Gwrthddywedant eu hunain rai prydiau. Yn Nicod. ii. 13, 14, gwrthoda yr Iuddewon dyngu trwy fywyd Cæsar; ond yn Nicod. iv. 7, tyngant felly heb yr un gwrthdystiad. Mewn un lle beia Pilat yr Iuddewon yn fawr, gan ddannod iddynt eu hanes yn yr Hen Destament, a'u dirmyg o'r prophwydi; ond yn yr un efengyl (Nicod. xxii. 2), desgrifir Pilat yn gofyn i'r Iuddewon a ydoedd yr hanes yn wir fod ganddynt y fath lyfr a'r Hen Destament. Weithiau erys yr ysgrifenwyr uwch ben yr hyn a gofnodant i wneyd nodiadau. "Mae yn beth rhyfedd yn wir, ei fod ef, yr hwn sydd yn Arglwydd yr holl wledydd, yn cael ei gludo yn ol ac yn mlaen fel hyn trwy gynnifer o wledydd." (1 Infancy viii. 17.) Nid yw y Testament Newydd yn aros i esbonio fel hyn, wrth gofnodi symmudiadau Mab Duw, ond yn gadael i'r hanes yn ei symledd Dwyfol ei hun ymwneyd â chalon y darllenydd.

Ond, i fod yn fwy neillduol, nodwn (1,) fod y llyfrau hyn yn syrthio yn annhraethol islaw urddas yr Ysgrythyrau yn eu hanesiaeth; (2,) yn groes i'r Ysgrythyrau yn eu desgrifiad o Grist; ac (3), yn eu manylion a'u gwaith yn dehongli prophwydoliaethau yr Hen Destament; ac (4,) eu bod yn sylfaenedig ar dduwinyddiaeth gyfeiliornus yr eglwys gyntefig, ac wedi eu hysgrifenu i awdurdodi ei llygriadau a'i newyddiannau.

1. Fod y llyfrau Apocryphaidd yn syrthio yn annhraethol islaw urddas a lledneisrwydd yr Ysgrythyrau yn eu hanesiaeth.

(*a*,) Y maent yn llawn o wrthuni a haeriadau plentynaidd.

Dywedant fod y baban Iesu yn ymddyddan â'i rieni pan yn ei gryd (1 Infancy i. 2); y gallai estyn neu fyrhau unrhyw ddodrefnyn yn ngweithdy Joseph yn ol fel y byddai eisieu (1 Inf. xvi. 2, 3), yn nghyda phethau ereill cyffelyb, fel y sylwyd yn barod.

Mae eu rhyfeddodau yn wrthun. Soniant am y mynydd yn hollti i wneyd ffordd i Elizabeth a Ioan Fedyddiwr, gan na fedrai y chwaer ddringo. (Protev. xvi. 7.) Pan aeth yr offeiriaid i'r deml ar ol i Zecharias gael ei lofruddio, crochlefodd tô y deml. (Prot. xvi. 23.) Pan oedd y bachgen Iesu unwaith yn cyrchu dwfr torodd y llestr; ond fe gasglodd yr Iesu y dwfr yn nghyd i'w fantell, a chludodd ef adref felly. (1 Inf. xix. 12--14.) Wrth chwareu ar un achlysur, fe newidiodd blant i fynod geifr, a thrawsnewidiodd hwynt drachefn i blant. (1 Inf. xvii.)

(*b*,) Bradychant awydd mawr i foddhau gwag gywreinrwydd dyn.

Mae profion poenus o hyn i'w cael yn mhob tudalen o honynt.

(*c*,) Maent yn amddifad o ledneisrwydd iaith yn eu cofnodion.

Ni chlwyfwn deimlad a chwaeth dda y darllenydd trwy ddwyn engreifftiau yn mlaen; gall efe droi i 1 Infancy vii. 2. 3. Protev. xiv. 18, 19. Paul a Thecla, ix. 25. (Deut. xxii. 5); *The Gospel of the Birth of Mary*, i. 7—10.

2. Eu bod yn groes i'r Ysgrythyrau yn eu desgrifiad o Grist. Yn yr Ysgrythyr, desgrifir Crist yn ei faboed yn cynnyddu mewn corpholaeth, a ffafr gyda Duw a dynion (Luc ii. 52); gosoda y llyfrau Apocryphaidd ef allan yn cyflawni gwyrthiau dialeddol, ac yn wrthddrych dychryn i bawb o'i amgylch. (1 Infancy viii. 8, xix. 18—24, xx. 15, 16. 2 Infancy ii. 7—16.)

3. Eu bod yn groes i'r Ysgrythyr yn eu manylion, ac yn eu gwaith yn dehongli prophwydoliaethau yr Hen Destament.

(*a*,) Gyda golwg ar ffeithiau.

Dysgant fod Iesu Grist wedi cael ei eni mewn ogof (1 Inf. i.), tra y dywed y Testament Newydd mai yn un o'r anifeil-dai perthynol i'r llety neu y *caravanserai*, y ganwyd ef. (Luc ii. 7.) Desgrifiant Mair yn rhwymo Crist mewn cadachau a'i ddodi yn y preseb, rhag ofn llid Herod (Protev. xvi. 2), tra y priodola y Testament Newydd ei gwaith yn gwneyd hyny i'w thynerwch a'i gofal mamaidd am dano. Yn ol y rhai hyn, yr oedd Crist yn gwneyd gwyrthiau pan yn faban; yn ol Ioan, yn Nghana Galilea y dechreuodd. (Ioan ii. 11.) Yn ol y rhai hyn, Solomon oedd wedi adeiladu y deml ag oedd yn sefyll yn adeg gweinyddiaeth Pilat (Nicod. iv. 4); ni fuasai yr un Iuddew yn bradychu y fath anwybodaeth. Desgrifiant Satan a Beelzebub yn ddau berson gwahanol (Nicod. xv. xviii. 14), yn groes i Marc iii. 22, 23. Dywedant fod Crist i gael ei groeshoelio

yn yr adeg lle y daliesid ef, a'i fod wedi cael ei fflangellu ar ol iddo gael ei gondemnio (Nic. vi. 23), a bod y milwyr wedi gwanu ei ystlys, pryd y daeth allan waed a dwfr, *cyn iddo farw* (Nic. vii. 8), yn yr hyn y maent yn gwrthddweyd yr Efengylwyr.

(*b*,) Gyda golwg ar foesoldeb.

Cofnodant gyda chymmeradwyaeth waith Joseph o Arimathea yn offrymu gweddi ddialgar yn erbyn yr Iuddewon. (Nic. ix. 11.) Cymmeradwyant dwyll (1 Inf. v. 6. Paul a Thecla vii. 3), ac ofergoeledd, a dewiniaeth. (1 Inf. vii. 11, 14, 15, 24—26.)

(*c*,) Gyda golwg ar ddehongliad prophwydoliaeth.

Deallai yr eglwys gyntefig fod "uffern" yn Act. ii. 27, yn golygu uffern yn ystyr arferol y gair gyda ni yn awr, a bod Crist wedi myned yno i bregethu i'r carcharorion yn y cyfwng rhwng ei angeu a'i adgyfodiad; ac yn unol â'r syniad hwn, mae y llyfrau hyn yn esbonio prophwydoliaeth. Pan aeth Crist i uffern, fe oleuwyd y lle i gyd; "Dyna gyflawniad fy mhrophwydoliaeth i (bloeddiai Esaiah), fod y rhai a eisteddent yn mro a chysgod angeu i gael goleuni." (Nicod. xiii. 5, 6.) Yn y Testament Newydd, cymhwysir hi at weinidogaeth Crist yn Mhalestina. (Mat. iv. 16.) Cymhwysir Salm xxiv., "O byrth, dyrchefwch eich penau," at fynediad Crist i uffern (Nic. xvi. 1, 2), yn lle at ei esgyniad i'r nef. Yn gyffelyb y deallir ac y cymhwysir Salm cii. 19, 20. Habac. iii. 13. (Nic. xvi. 16, xix. 16.)

4. Eu bod yn sylfaenedig ar dduwinyddiaeth gyfeiliornus yr eglwys gyntefig, ac wedi eu hysgrifenu i awdurdodi ei llygriadau a'i nhewyddiannau.

Mae amryw ystyriaethau yn profi hyn:—

(*a*,) Y mae yn unol â'i syniad hi am angylion a chythreuliaid.

Credai y Tadau fod angylion wedi syrthio trwy ymgyfathrachu â merched dynion, gan ddeall Gen. vi. 2 yn y goleuni yna: a chynnyrch yr undeb yna oedd y demoniaid neu y cythreuliaid. Nid oeddynt (gyda dwy eithriad) yn deall Hebraeg, ac nid oedd ganddynt ond dilyn y LXX, lle y ceir mewn rhai copïau "angylion Duw" yn y lle uchod. Ceir y syniad yna, neu un cyffelyb iddo, yn y llyfrau hyn yn Protev. x. 15, lle y ceir Joseph yn dadgan ei ofn fod Mair yn feichiog o angel.

(*b*,) Bwriedid hwynt i awdurdodi llygriadau yr eglwys gyntefig.

1. *Eiriolaeth angylion.* "Myfi yw yr angel hwnw a offrymodd eich gweddïau a'ch elusenau ger bron Duw," &c. (Efeng. Genedigaeth Mair, iii. 2.)

2. *Purdan.* Ceir merch Trifina, yr hon a fuasai farw, yn ymddangos, ac yn erfyn gweddïau Thecla drosti, er mwyn iddi gael ei symmud i le dedwydd. (Paul a Thecla viii. 5.) Mae yr un syniad yn gorwedd o dan holl hanes disgyniad Crist i uffern i waredu y carcharorion oddi yno.

3. *Dwyfoliad Mair.* Porthid hi gan angel (Prot. viii. 2); gwnai wyrthiau (1 Inf. vi. 3, 4); derbyniai addoliad (1 Inf. vii. 26, 27, x. 11); a phlygai y nef a'r ddaear iddi.

4. *Rhinwedd tlodi fel sail cyfiawnhad.* (Prot. i. 1, xiv. 24.)

5. *Gwyryfdod a gweddwdod.* (Paul a Thecla i. 22, ii. 14—16.)

6. *Meudwyaeth ac ymprydiau.* (Paul a Thecla i. 15, vi. 1, 2, x. 15, xi. 15.)

7. *Santeiddrwydd creiriau* (relics) *a dwfr santaidd.* Yr oedd y dwfr â'r hwn y golchasai Mair y bachgen Iesu, yn iachâu yr holl gleifion; ac felly y cadachau a wisgasai. (1 Inf. iii. 2, 5—10, iv. 15, 16, vi. x.—xiii.)

8. *Gwyliau a lleoedd cyssegredig.* Cedwid y 24ain o Fedi er cof am Thecla; a bendithiai y fan lle yr achubwyd hi. (Paul a Thecla x. 7, xi. 17. Nic. xxi. 5.)

9. *Arwydd y groes.* Yr oedd meibion Simeon (Nic. xii. 24), a Christ ei hun (Nic. xix. 12), yn gwneyd arwydd y groes. Yr oedd arwydd y groes ar gefn y lleidr edifeiriol, yr hyn a daflodd ddorau paradwys yn agored o'i flaen. (Nic. xx. 5, 11. Paul a Thecla v. 14, x. 10.)

Nid yw yr engreifftiau uchod ond ychydig o'r pethau ynfyd, disail, a chableddus sydd i'w cael yn llyfrau Apocryphaidd y Testament Newydd; ni all neb ag sydd wedi eu darllen yn fanwl betruso am eiliad i'w gwrthod gyda dirmyg fel cynnyrchion ffug-ysbrydoledig. Mae yr ysgrifau dirmygus hyn yn peri i ni deimlo fod pellder anfeidrol rhyngddynt a safle Testament Newydd ein Harglwydd; ac y mae eu darlleniad hwy yn peri i ni droi at Feibl Duw gyda serch ac anwyldeb mwy nag erioed. Gwel *Horne's Introduction*, vol. i. Edition 1856, pp. 513—515. *B. H. Cowper's Apocryphal Gospels*, xviii., xix.

---

## II. GAU WYRTHIAU.

Ceisiwyd troi yn ol y prawf dros Ddwyfoldeb y Beibl oddiwrth y gwyrthiau mewn gwahanol ffyrdd; weithiau trwy wadu y possibilrwydd o wyrthiau,—bryd arall trwy haeru na chymmerodd gwir wyrthiau le ar yr achlysuron y sonir am danynt yn y Beibl,—ac ar adegau ereill trwy ddwyn yn mlaen engreifftiau cyffelyb o ryfeddodau o blith paganiaid a Phabyddion, er darostwng gwyrthiau y Beibl i raddfa ffol-bethau eilunaddolwyr ac ofergoelwyr.

Cyn sylwi ar yr engreifftiau a ddygir yn mlaen o wyrthiau paganaidd a Phabaidd, sylwn ar ganonau Esgob Douglas o barthed i wyrthiau.

### Canonau i ganfod Gwir Wyrthiau.

1. Mae y ffeithiau yn gyfryw ag nas gallant o dan yr amgylchiadau fod yn dwyllodrus.

2. Y maent yn gyfryw ag y rhaid iddynt o anghenrheidrwydd fod yn wyrthiol.

### Canonau er darganfod Gau Wyrthiau.

Rheol I.—Yr ydym yn amheu cywirdeb yr hanesion am danynt, pan na chyhoeddir hwynt i'r byd am ysbaid maith ar ol i'r hyn a fynegir gymmeryd lle.

Rheol II.—Yr ydym yn amheu eu cywirdeb pan na chyhoeddir hwynt yn y man lle y dywedir fod y ffeithiau wedi dygwydd, ond pan y cyhoeddir hwynt bellder mawr o'r cyfryw le.

Rheol III.—Os bydd yr hanesion wedi cael eu cyhoeddi yn y man lle y cymmerodd yr amgylchiadau le, ac yn ddioed ar ol adeg eu cyflawniad, eto gallwn amheu eu cywirdeb, os caniatâwyd iddynt fyned heibio ar y pryd ac yn y cyfryw le heb eu chwilio a'u profi.

Fe geir gweled fod y ffug wyrthiau canlynol yn cael eu condemnio yn ngwyneb y naill neu y llall o'r Rheolau uchod.

### § I. Ffug Wyrthiau Paganaidd.

1. *Y rhyfeddodau a gofnodir gan Livy.*

Cofnoda Livy yn ei Hanes amryw chwedlau rhyfedd a dyeithr, megys ŷch yn siarad, plentyn yn llefain o groth ei fam, gwraig yn cael ei thrawsnewid yn ddyn, pryd nad ellid cael allan pa un ai gwir ai anwir oedd y fath haeriadau; ac ychwanega fod *y fath chwedlau yn cael eu hychwanegu mewn cyfartaledd i ofergoeledd y bobl.* (B. 24. chap. x.)

Dywedir fod y duwiau, *Castor a Pholux*, yn marchogaeth ar feirch gwynion, wedi ymddangos i'r Rhufeiniaid yn Regillus, C.C. 498, pan oeddynt yn rhyfela â'r Lladinwyr, a'u bod trwy eu cymhorth wedi gorchfygu y Lladinwyr,—fod y Cadfridog Posthumius wedi addunedu adeiladu teml i Castor a Pholux er cof am yr amgylchiad,—a bod ol traed yr anifeiliaid ar y graig ar yr hon yr ymddangosasant gyntaf, i'w ganfod yn nyddiau Cicero, C.C. 70. Nid oedd yr hanes am ymddangosiad y duwiau hyn, mae'n ddiau (a chaniatâu nad chwedl oes ddiweddarach ydyw), ond dyfais o eiddo y Cadfridog yn ystod y frwydr, er tanio ei filwyr â brwdfrydedd; ac nid oedd cyfleusdra iddynt, na thuedd ynddynt, i edrych i mewn eu hunain i wirionedd tystiolaeth eu Cadfridog, a dynoethi twyll ag oedd yn gwenieithio i'w huchelgais. Yr oedd y Cadfridog Posthumius yn cyflawni ei adduned trwy adeiladu teml i Castor a Pholux, mewn rhan

er clod iddo ei hun, ac mewn rhan er cryfhau ffydd y milwyr yn y weledigaeth, gan y byddai arno eisieu gweledigaethau o'r fath yn y dyfodol. Gyda golwg ar fod ol traed y meirch yn y graig yn mhen tri chan' mlynedd ar ol hyny, rhaid rhestru y fath ddywediad gyda rhai cyffelyb am ol traed y cawr ar greigiau Cymru!

2. *Rhyfeddodau cyssylltiedig âg Aristeas o Proconnesus.*

Ganwyd Aristeas tuag 800 mlynedd C.C. yn Proconnesus, ynys yn Môr Marmara. Dywedir y gallai ei enaid fyned i mewn i'w gorph, a'i adael yn ol ei ddewisiad. Yn mhen 400 mlynedd ar ei ol, ceir Herodotus yn cofnodi am y waith gyntaf rhyw chwedlau yn ei gylch, yr hyn a glywsai gan y bobl. Dywedai ei fod wedi ymddangos 340 mlynedd ar ol ei farwolaeth, mewn tref yn neheubarth Itali o'r enw Metapontum, lle y cyfododd deml i Apollo a delw iddo ei hun, ac mai efe oedd y frân a ganlynasai Apollo i Itali. Fe sylwir fod 400 mlynedd wedi myned heibio cyn i Herodotus ysgrifenu yn ei gylch; a phwy o bobl Metapontum a fuasai yn gallu adnabod dyn ag oedd wedi byw rhyw 400 mlynedd cyn hyny? Eto, cymharai Celsus adgyfodiad y dyn hwn i adgyfodiad Crist!

3. *Gwyrthiau a briodolid i Pythagoras.*

Athronydd Groegaidd oedd hwn, yr hwn a flodeuodd yn y chweched ganrif cyn Crist. Ysgrifenwyd hanes ei fywyd yn mhen rhyw 700 mlynedd ar ol ei farwolaeth, gan Porphyry a Jamblichus, y rhai a briodolent iddo y gwyrthiau canlynol, sef,—

1. Dweyd rhifedi y pysgod oedd rhyw bysgotwyr wedi eu dal, a gwneyd iddynt eu dychwelyd yn fyw i'r môr.

2. Rhwystro i arth ymborthi ar gigfwyd.

3. Rhwystro i ŷch ymborthi ar ffa gleision.

4. Dangos ei glun aur i athronydd o'r enw Abaris, a dweyd ei fod wedi dyfod o'r nefoedd, a gwisgo ffurf ddynol, er llesoli plant dynion.

Gwna Horne y nodiadau canlynol ar y gwyrthiau eiddil hyn:—

1. Fod tuag 800 mlynedd wedi myned heibio cyn i'r rhai hyn ysgrifenu hanes Pythagoras.

2. Eu bod yn ysgrifenu pan oedd gwyrthiau Cristionogaeth yn hysbys trwy yr ymerodraeth Rufeinig, a phryd yr appelid atynt yn mhob man fel prawf o Ddwyfoldeb y grefydd Gristionogol.

3. Fod Porphyry a Jamblichus eu hunain yn cymmeryd rhan yn y ddadl yn erbyn Cristionogaeth.

4. Mai eu hamcan penaf wrth ysgrifenu hanes bywyd Pythagoras oedd taflu anmharch ar wyrthiau yr efengyl, trwy ddwyn rhai ereill cyffelyb iddynt yn mlaen o faes paganiaeth.

5. Nad oedd y gallu gwyrthiol y proffesai Pythagoras ei drosglwyddo i ereill yn ddim amgen na dirgelion swynyddiaeth a dewiniaeth.

4. *Gwyrthiau Alexander o Pontus.*

Cyfeiria Hume at hwn, er ceisio dirymu gwyrthiau y Beibl. Ganwyd ef yn y ganrif gyntaf, yn Pontus, Asia Leiaf. Geilw Lucian ef yn hudol a *fortune-teller*. Cymhara Hume ef i Paul yr apostol. Gwrthgyferbyna Dr. G. Campbell hwynt fel y canlyn:—

1. Arferai Alexander ei dwyll gyntaf yn mhlith pobl anwybodus ac ofergoelus Paphlagonia; ond pregethai Paul yn Athen, Corinth, a Rhufain, o flaen dynion doethaf yr oes.

2. Ni chynnygiodd Alexander ddwyn yr un grefydd newydd i mewn, ond cydffurfiai â rhagfarnau crefyddol ei oes; pregethai Paul grefydd newydd i'r byd, yr hon oedd yn groes i farn a theimlad Iuddewon a Chenedloedd.

3. Ymgyfoethogodd Alexander wrth adrodd bywyd dyfodol ei gyfeillion; aberthodd Paul ei ragolygon daearol er mwyn Crist a'i groes.

4. Yr oedd Paul yn pregethu Crist croeshoeliedig, ac yn gwneyd gwyrthiau yn mhresennoldeb gwrthwynebwyr yr efengyl, llawer o ba rai oeddynt yn ddynion craffus a dysgedig; ni chynnygiai Alexander fyned trwy ei gampau ond yn y nos yn mhresennoldeb ei gyfeillion a'i edmygwyr.

5. Ni thynodd Alexander yr un perygl arno ei hun wrth ddwyn ei ffugbethau yn mlaen; gosododd Paul ei hun yn agored i bob perygl wrth bregethu Crist, a chollodd ei fywyd yn y diwedd o herwydd ei ffyddlondeb i Fab Duw.

5. *Gwyrthiau a gyflawnodd yr Ymerawdwr Vespasian yn Alexandria, yr Aifft, tua'r flwyddyn* 73, *A.D.*

Dywed yr hanesydd Tacitus, fod dyn â llygaid dolurus ganddo yn Alexandria, yn ol cyfarwyddyd y duw Serapis, wedi deisyf ar yr Ymerawdwr Vespasian i roddi meddyginiaeth iddo at ei lygaid; a bod un arall â dolur ei law arno, wedi cael ei gyfarwyddo gan yr un duw, yn erfyn cael cyffwrdd â throed yr Ymerawdwr. O'r diwedd, gorchymynodd yr Ymerawdwr i'r meddygon i edrych a oedd dim modd eu hiachâu â moddion dynol. Dywedai y meddygon nad oedd y gallu i weled wedi cael ei ddinystrio yn y dyn â llygaid clwyfus, ac y dychwelai ei olwg, ond i'r rhwystrau gael eu symmud; ac y gellid adferyd aelod y llall, ond cym-

hwyso meddyginiaeth: ac fod yn bossibl fod y duwiau yn golygu gwneyd hyn, ac mai yr Ymerawdwr a ddewiswyd i hyny; ac os iachëid hwy mai yr Ymerawdwr a gai y clod, ac os na wneid, mai ar y dyoddefwyr y disgynai y gwawd. Modd bynag, cydsyniodd yr Ymerawdwr â'u dymuniad, a iachâwyd y ddau. Dyna sylwedd tystiolaeth Tacitus. Sylwa Dr. Paley ar hyn,—

1. Fod Tacitus wedi ysgrifenu 27 mlynedd ar ol yr adeg y dywedir i hyn gael ei gyflawni.

2. Mai yn Rhufain yr ysgrifenodd am yr hyn y dywedwyd ei fod wedi dygwydd yn Alexandria.

3. Ei fod yn ysgrifenu yr hanes oddiar chwedl gwlad *(from report)*, heb well seiliau na hyny iddo.

Ymddengys mai cynllun wedi ei ddyfeisio gan ddosbarth o bobl Alexandria ydoedd, er gwenieithio i'r Ymerawdwr, a dyrchafu urddas eu heilun-dduw, er dangos y gallai duwiau yr Aifft gyflawni gwyrthiau yn ogystal a Duw Cristionogaeth. Hawdd y gallasent gael dynion i ffugio afiechyd fel hyn, a ffugio iechyd ar ol ymweliad yr Ymerawdwr. Nid ymddengys ychwaith fod llawer o bwys yn yr afiechyd yn ol tystiolaeth y meddygon, nac fod Tacitus ei hun yn credu yr hanes. Yr oedd y cyfan hefyd yn cymmeryd lle o flaen cyfeillion a gwenieithwyr yr Ymerawdwr, a chredinwyr yn eilunod yr Aifft, ac nid fel gwyrthiau Crist a'i apostolion yn cael eu cyflawni yn mhresennoldeb gwrthwynebwyr a gelynion.

6. *Gwyrthiau Appollonius o Tyana.*

Weithiau cyfeirir at Apollonius o Tyana yn Cappadocia, fel gwneuthurwr gwyrthiau. Ganwyd ef yn y flwyddyn 4, C.C. Gelwir ef gan Lucian ac Apulejus, a chan ei fywgraffydd Maeragenes, yn swynwr a hudolydd, a phroffesai fod yn deall iaith yr anifeiliaid. Tua diwedd yr ail ganrif, ac yn nechreu y drydedd, wrth ganfod llwyddiant a dylanwad Cristionogaeth yn y byd, a diflaniad paganiaeth o'i blaen, gwnaed ymdrech egniol gan amryw athronwyr i adfywio paganiaeth a gwrthweithio dylanwad Cristionogaeth. Cais o'r fath yna oedd bywgraffiad Apollonius gan Philostratus, proffeswr rheitheg yn Athen a Rhufain, tua'r flwyddyn 230, A.D. Ysgrifenwyd ef i'r dyben o ddangos fod gan baganiaeth ei gwyrthiau yn ogystal a Christionogaeth, ac i geisio trwy hyny ddiddymu y prawf o Ddwyfoldeb y grefydd Gristionogol trwy y gwyrthiau. Y mae lle i amheu yr hanes, yn ol y Rheol I. a grybwyllwyd. Ni chyhoeddodd Philostratus ef am dros gan' mlynedd ar ol marwolaeth y gwrthddrych; a sylfaenai ef ar draddodiadau y werin, ac ar yr hyn a glywsai gan yr Ymerodres Julia, gwraig Severus, yr Ymerawdwr Rhufeinig. Ond y mae

lle cryf i gredu mai ffugio gorchestion i Apollonius a wnaeth ei fywgraffydd, er eu cystadlu â gwyrthiau y Testament Newydd. Noda Douglas yr engreifftiau canlynol er dangos hyn:—

| | |
|---|---|
| 1. Gosodir Crist allan yn Fab Duw. | 1. Gosodir Apollonius allan yn fab Jupiter. |
| 2. Ymddangosai angel a seren ar adeg genedigaeth Crist. | 2. Rhagfynegodd y duwiau i fam Apollonius ei enedigaeth, a fflachiodd mellt allan o'r nef pan y ganwyd ef. |
| 3. Fe gyfododd Crist ferch Jairus o farw yn fyw. | 3. Adgyfododd Apollonius ferch ieuanc yn Rhufain i fywyd. |
| 4. Fe fwriodd Crist y cythreuliaid allan o ddynion. | 4. Fe wnaeth Apollonius yr un peth.* |
| 5. Gwaredwyd Paul a Silas o'r carchar, a datodwyd eu rhwymau. | 5. Gallai Apollonius ysgwyd ymaith ei gadwynau pan y mynai. |
| 6. Cynnysgaethwyd yr apostolion â dawn i lefaru â thafodau. | 6. Yr oedd Apollonius hefyd yn feddiannol ar y ddawn hon; er nad bob amser. |
| 7. Fe gyfododd Crist o feirw. | 7. Fe gyfododd Apollonius o feirw, ac fe ymddangosodd i un person, yr hwn a hyfforddodd yn nghylch anfarwoldeb yr enaid. |

Cawn Hierocles, Rhaglaw Bithynia, yn nechreu y bedwaredd ganrif, yr hwn a ysgrifenodd yn erbyn y Cristionogion, yn ceisio diddymu y prawf dros Ddwyfoldeb yr efengyl oddiwrth y gwyrthiau, trwy ddyrchafu y chwedlau am Apollonius:—"Nid ydym ni yn ystyried fod yr hwn a gyflawnodd y fath bethau," eb efe, "yn dduw, ond dyn wedi ei ffafrio gan y duwiau; ond y maent hwy yn cyhoeddi yr Iesu, o herwydd rhyw ychydig o ryfeddodau, yn Dduw." (*Douglas's Criterion*, p. 296.) Mae yn amlwg fod y gelynion yn teimlo nerth anorchfygol y prawf gwyrthiol, ac yn ceisio ffugio ei gyffelyb yn nglyn â phaganiaeth.

## § II. Ffug Wyrthiau Pabaidd.

Ni oddef ein terfynau i ni sylwi ar y filfed ran o'r ffug wyrthiau y cyfeirir atynt mewn hanesyddiaeth eglwysig; cyfyngwn ein hunain at wyrthiau diweddar Eglwys Rhufain.

* Bernir y rhaid fod Efengyl Luc gan Philostratus o'i flaen wrth ddesgrifio hyn, gan ei fod yn defnyddio yr un frawddeg ag a geir yn Luc:—"Yr wyf yn attolwg i ti na'm poenech" (*δέομαί σου, μή με βασανίσης.*) (Luc viii. 28.) Felly y dywed yr awdwr dan sylw, "Dymunodd yr ysbryd arno i beidio ei boeni" (*ἐδειτο μὴ βασανίζειν ἀυτὸ*).

1. *Gwyrthiau yn amser y Diwygiad Protestanaidd.*

Yn yr unfed ganrif ar bymtheg, yr oedd gwahanol urddau a seintiau Eglwys Rhufain yn ymladd am yr oruchafiaeth: ac er mwyn ennill y dydd, yr oeddynt yn cynnyrchu gwyrthiau. Ond yr oedd y gwyrthiau yn ddieithriad yn cymmeryd lle yn y nos, mewn eglwys neu fonachdy, neu yn ystafell wely rhyw ddyn diniwaid newydd gael ei dderbyn i urddau cyssegredig. Felly cawn hanes y Dominiciaid yn Berne, Switzerland, yn cynllunio gwyrth, er dwyn y bobl oddiar y Francisciaid. Yn Ionawr, 1507, y noswaith gyntaf ar ol ei dderbyniad i'r monachdy, dychrynwyd un o'r enw John Jetzer â rhyw swn rhyfedd yn ei gell; erbyn iddo edrych, yr oedd rhyw ddrychiolaeth mawr gwyn yn sefyll yn ymyl ei wely, yn ochain, "Enaid wyf fi wedi dianc o fflamiau y purdan." "Duw a'th gynnorthwyo, druan," ebe Jetzer, "ni allaf fi wneyd dim i ti." Ar hyn rhuthrodd yr ysbryd i'w wddf, am ei fod yn gwrthod. "Be', be', beth fedraf fi wneyd i'th achub?" ebe Jetzer mewn ofn a dychryn. "Fflangella dy hun am wyth niwrnod, hyd nes y byddi yn gwaedu, ac yna gorwedd ar lawr capel St. John," ebe yr ymwelydd o'r purdan, ac ymaith ag ef. Cydsyniai Jetzer â hyn, yn ol cynghor yr awdurdodau eglwysig. Llenwid yr eglwys â dynion awyddus i weled dyn ag oedd yn cael gweledigaethau o fyd arall, a chollodd y Francisciaid ffafr yn ngolwg y bobl. Cyn hir ymddangosodd Mair iddo yn ei gell, gan roddi iddo dri deigryn a wylasai yr Iesu, tri dyferyn o'i waed, a chroeslun, a llythyr at y Pab Julius II.; ac yna trywanodd ei law â hoelen, a rhwymodd hi i fyny â darn o lian a wisgasai y baban Iesu pan yn yr Aifft. Caed gwyrthiau ereill cyffelyb. O'r diwedd canfyddodd John Jetzer y twyll; a'r diwedd fu i bedwar o'r Dominiciaid gael eu llosgi yn fyw, Mai laf, 1509, yn ngwydd mwy na deng mil ar hugain o edrychwyr. (*Daubigne's History of the Reformation*, B. viii. chap. ii.)

Gwyrthiau o'r natur yna oedd gwyrthiau yr Eglwys Babaidd yn y canol oesoedd, a thuag adeg y Diwygiad Protestanaidd.

2. *Y gwyrthiau a gyflawnwyd gan Ignatius Loyola a Francis Xavier.*

Ganwyd Ignatius Loyola yn Yspaen yn y flwyddyn 1491, a bu farw yn Rhufain yn 1558. Efe oedd sylfaenydd urdd y Jesuitiaid. Ribadaneira, Jesuitiad Yspaenaidd, oedd y cyntaf i ysgrifenu cofiant iddo, yr hwn a ymddangosodd yn 1572. Nid oedd gair o son am wyrthiau yn hwn. Cyhoeddodd ail argraffiad o hono yn 1587, gydag ychwanegiadau; ond nid oes crybwylliad am wyrthiau Ignatius yn hwn ychwaith. Mewn talfyriad o'r gwaith hwn, a gyhoeddwyd yn 1612, priodolir gwyrthiau i Ignatius. Pa fodd y cadwodd yr awdwr hwynt am 54 o flynyddoedd heb eu cyhoeddi? Yr oedd yn awr yn rhy ddiweddar i neb allu chwilio *pa un a oeddynt yn rhai gwirioneddol ai peidio.*

Yn gyffelyb yr oedd gyda Francis Xavier, dysgybl Ignatius. Ganwyd Xavier yn Yspaen, yn 1506, a bu farw yn Asia yn 1552. Ysgrifenodd un Tursellinus, Jesuitiad, gofiant iddo yn mhen 35 mlynedd ar ol ei farwolaeth, yn yr hwn y priodolai wyrthiau iddo. Ond ni chlywsai neb am danynt cyn cyhoeddiad y cofiant. Yr oedd amryw bethau hefyd yn profi na chyflawnodd Xavier yr un wyrth; oblegyd yn ei lythyrau yn rhoddi hanes y Genadaeth yn Asia, ni soniodd erioed am wyrth: a dywedai y cenadwr Jesuitaidd Acosta, yr hwn a fuasai ei hun yn India, na allai y cenadon wneyd gwyrthiau fel yr apostolion, ac felly fod eu rhwystrau yn fwy. Hefyd yr oedd y gwyrthiau a briodolid iddo wedi cael eu cyflawni yn China a Japan; ac nid oedd neb yn teimlo digon o ddyddordeb yn y pwnc i fyned yno i chwilio i mewn i'w gwirionedd ugeiniau o flynyddoedd ar ol iddynt gymmeryd lle.

3. *Y wyrth a grybwyllir gan Cardinal de Retz.*

Crybwylla Hume am y wyrth a gofnoda Cardinal de Retz (yr hwn a fu farw yn 1679, mewn Cofiant a ysgrifenodd iddo ei hun), yr hon a gymmerodd le yn Saragossa, Yspaen. A ganlyn yw geiriau y Cardinal:— "Yn yr eglwys yna hwy a ddangosasant ddyn i mi, gwaith yr hwn oedd goleuo y lampau, o ba rai y mae ganddynt rifedi aruthrol, gan fy hysbysu ei fod wedi bod am saith mlynedd wrth y porth gydag un goes yn unig. Yr oedd ganddo ddwy pan welais i ef yno." Pe buasai y fath ddyn wedi cael coes gorcyn, buasai y rhai na welsent y fath beth erioed o'r blaen yn ystyried yr amgylchiad fel gwyrth, ac ni fuasai swyddogion yr eglwys mewn un modd yn awyddus i symmud y fath argraffiad oddiar eu meddwl, gan y buasai son am wyrth mewn cyssylltiad â'r eglwys yn ychwanegu at ei hurddas.

4. *Y gwyrthiau a gyflawnwyd wrth fedd Abbe de Paris.*

Mab i gyfreithiwr Senedd Paris oedd Abbe de Paris. Ymgyflwynodd i wasanaeth yr Eglwys Babaidd, gan gystuddio ei hunan trwy ymprydiau a phenydiau, a chadw y croeslun *(crucifix)* yn ddibaid o flaen ei lygaid. Cafodd y gair cyn hir o fod yn nodedig o santaidd. Bu farw Mai 1af, 1727, a chladdwyd ef yn mynwent Eglwys St. Medard, Paris. Ymwelwyd â'i fedd gan ei edmygwyr; cyn hir barnwyd fod addoli wrth ei fedd yn fwy effeithiol nag mewn lleoedd ereill. Aeth y gair allan fod y cleifion trwy weddïo wrth ei fedd yn cael eu hiachâu. Erbyn y flwyddyn 1731, yr oedd y son yma wedi gwneyd Paris yn ferw gwyllt trwyddi oll, a lluoedd dirif yn cyrchu at y bedd. Cafodd llu eu hiachâu yno, medd yr hanes. Ond y mae hyn i'w nodi gyda golwg ar yr adferiadau a gymmerasant le yno, sef, *fod amryw o honynt yn ffugiol*, ac y *gellir cyfrif am iachâd y lleill ar dir achosion naturiol.*

1. Fe brofwyd mai ffugiol oedd amryw o honynt. Cyhoeddodd Archesgob Sens gylchlythyr er eu dynoethi, a rhybuddio ei braidd rhag y twyll

a'r ofergoeledd. Yn hwnw dywed fod un Jean Nivet wedi cael ei gyhoeddi fel un wedi ei iachâu yn 1728, ond ei fod yn 1732, mor gloff a dall ag erioed. Dywedid fod un Sieur le Doulx wedi cael ei iachâu o glefyd, trwy fod rhai o greiriau *(relics)* Abbe de Paris wedi cael eu dodi o dan ei ben pan oedd yn ymyl marw, ac yn derbyn ei gymmundeb. Ychydig ar ol hyny ysgrifenodd y dyn at Esgob Laon mai twyll oedd y cyfan, nad oedd efe wedi bod yn beryglus o glaf, a bod yr offeiriaid wedi ei orfodi i gymmeryd cyffeswr a chymmundeb er gwneyd gwyrth o'r amgylchiad. Cyhoeddwyd fod un Anne Coulon wedi cael ei geni yn fud a byddar, ac wedi cael ei hiachâu wrth fedd yr Abbe: profwyd ar ol hyny nad oedd hi erioed wedi bod yn fud na byddar. Dywedwyd fod Anne le France, yr hon yr oedd ei llygaid yn ddrwg, ac un arall o'r enw De Lorne, yr hon oedd wedi cael y parlys, wedi cael eu hiachâu wrth y bedd: tystiai perthynasau y gyntaf, a'r olaf ei hun, mai anwiredd oedd y cwbl.

2. Gellir cyfrif am iachâd ereill ar dir achosion naturiol. O'r miloedd a gyrchasant at y bedd, ni cheir ond wyth neu naw y rhai y gellir credu eu bod wedi cael lles. Un o honynt oedd Don Antonio de Pelachios, dyn un llygeidiog, a'r llygad arall yn ddolurus ganddo; fe symmudwyd yr ennynfa o hono, ond ni adferwyd golwg y llall. Ond dichon y buasai yr ennynfa yn cael ei symmud, pe na buasai yn myned yn agos i'r bedd. Yr oedd merch ieuanc arall yn afiach, o herwydd nad oedd ei chyfansoddiad yn gweithredu yn rheolaidd; a thair arall yn dyoddef yn gyffelyb: nid oedd eisieu ond cael y cyfansoddiad i weithredu yn rymus a rheolaidd er eu hiachâu. Mae'n debyg i'r cyffroad meddyliol, a'r bywiogrwydd cyfansoddiadol a gawsant trwy fynychu y bedd, eu gwellhau i raddau helaeth. Yr oedd dau ereill, Peter Gautier a Don Alphonso, a llygaid dolurus ganddynt; yr oedd un llygad i'r cyntaf wedi cael ei drywanu â mynawyd, ac ennynfa yn llygad y llall. Trwy y cornbilion *(cornea)* yn unig y trywanwyd llygad y cyntaf; ni chyffyrddwyd â'r rhanau hanfodol i'r golwg, fel y profa gwaith meddygon yn gyru nodwydd ddur i'r *cornea* pan y gwnant yr hyn a elwir *couching a cataract*, a gallasai y llygad ddyfod ato ei hun mewn amser; ac am y llall, yr oedd efe ar y pryd yn defnyddio meddygolch *(lotion)*.

Cawn hanes hefyd am un cloff o'r enw De la Salle, yn cael ei iachâu yn y weithred o blygu ar ei liniau wrth y bedd, trwy fod yr ymdrech i blygu wedi ysgaru llinynau y gewyn, y rhai oeddynt wedi glynu yn eu gilydd er pan y torasai ei glun.

Nid oedd yr iachâd *yn gyflawn* ychwaith,—un llygad a iachesid i'r dyn unllygeidiog; nid oedd ond *dros amser*,—dychwelodd yr ennynfa i lygad Don Alphonso drachefn; nid oedd *yn cymmeryd lle ar unwaith* ychwaith,—sonir am rai yn gweddïo wrth y bedd am chwe' mis cyn cael iachâd! Dywedir hefyd fod yr ymgrymiadau wrth y bedd wedi *cynnyrchu* mwy o ddoluriau nag a iachasant! Nid yw pethau fel hyn i'w cyffelybu am funyd i wyrthiau y Beibl.

(1,) *Ni chaed un twyll erioed yn nglyn â gwyrthiau y Beibl.*

Ni chofnodir am neb yn yr holl Feibl wedi cael ei iachâu, neu ei adgyfodi o feirw, neu wedi cael ei olwg, ac i hyny droi allan yn dwyll o eiddo y rhai a gyflawnent y gwyrthiau.

(2,) *Cyflawnwyd hwynt yn gyhoeddus.*

Mae'n wir fod yr Iesu ar rai amgylchiadau fel yn gwahardd cyhoeddusrwydd i'w wyrthiau, naill ai (1,) o herwydd rhagfarn yr Iuddewon yn ei erbyn ef, gan y dichon na fuasai yr offeiriad yn cyhoeddi yr hwn a fuasai yn wahanglwyfus yn lân, pe deallasai mai yr Iesu a'i glanhasai (Mat. viii. 4); neu (2,) rhag cyffroi y werin, a pheri iddynt dybied ei fod yn Fessiah daearol, a chyfodi gwrthryfel yn erbyn Cæsar. (Mat. ix. 30, xii. 16. Ioan vi. 14, 15.) Ond tra yr oedd efe, ar un llaw, am beidio cyffroi dysgwyliadau cnawdol yr Iuddewon am deyrnas daearol, yr oedd ar y llaw arall yn cyflawni ei wyrthiau yn ngwydd digon o dystion i brofi eu bod o Dduw, ac nad oedd twyll yn bossibl yn yr amgylchiadau.

(3,) *Yr oeddynt o effaith barhaol.*

"Yr oedd gweithredoedd ein Hiachawdwr (ebe Quadratus, yr hwn a flodeuodd tua diwedd y ganrif gyntaf) bob amser yn amlwg, gan eu bod yn rhai gwirioneddol; yr oedd y rhai a iachesid a'r rhai a adgyfodasid o feirw i'w gweled, nid yn unig pan yr iachâwyd neu yr adgyfodwyd hwynt, ond am amser maith ar ol hyny; nid yn unig tra yr oedd efe yn trigo ar y ddaear, ond ar ol ei ymadawiad, ac am amser lled faith ar ol hyny; yn gymmaint a bod rhai o honynt wedi byw hyd ein hamser ni." (*Paley's Evidences*, p. 345.) Gwel tudal. 89.

(4,) *Yr oedd Crist yn gallu iachâu pawb.*

O'r miloedd a ymgynnullasent at fedd Abbe de Paris, ni cheir fod mwy na naw wedi cael eu hiachâu, a gellir cyfrif am iachâd y rhai hyny, fel y daugoswyd, ar dir achosion naturiol. Ond yr oedd Iesu Grist a'i apostolion yn iachâu *pawb*. (Mat. iv. 23, ix. 35, x. 1, xi. 12, xii. 15, xiv. 35, 36. Act. v. 14—16, viii. 7, xix. 11, 12.) Pan y sonir am Grist fel yn analluog i wneyd gwyrthiau, neu yn pallu, ysbryd annghrediniol neu gableddus y gwyddfodolion oedd yr achos ac nid diffyg gallu ynddo ef; yr oedd yn peidio er ceryddu eu cyndynrwydd hwy, i edrych a fuasai hyny yn eu dwyn i ystyried eu ffyrdd. (Marc vi. 5, 6, viii. 11, 12. Mat. xii. 39. Luc xxiii. 8.) Ni chyflawnid gwyrthiau y Beibl i foddhau cywreinrwydd dyn, ond i ateb amcanion Duw.

(5,) *Ni allesid cyfrif am wyrthiau Crist ar dir achosion naturiol.*

Yr oedd yn iachâu dynion o bellder o ffordd oddi wrthynt, ac heb gyffwrdd â hwynt (Mat. viii. 13. Luc xviii. 42); iachëid y gwahangleifion

â'i air ef (Mat viii. 3. Luc xvii. 14), ereill â chyffyrddiad â'i wisg ef (Marc iii. 10, v. 27—29. Luc vi. 19), cyfodid y meirw â'i orchymyn ef. (Marc v. 41, 42. Luc vii. 14, 15. Ioan xi. 43, 44.) Nid oedd lle i achosion naturiol o un math weithredu mewn engreifftiau fel hyn. Ac felly y gellir dweyd am ei waith yn troi y dwfr yn win (Ioan ii. 1—11); yn iachâu y llaw oedd wedi gwywo o'r parlys (Mat. xii. 13, ix. 6); rhodio ar y môr a thawelu yr ystorm (Mat. viii. 26, xiv. 25); a phorthi y miloedd yn yr anialwch. (Ioan vi. 1—14.)

Fe welir nad gwyrthiau o iachâd oedd holl wyrthiau Crist, ond gwyrthiau ar natur yn ogystal ag ar ddyn, ac yn arddangos fod ganddo awdurdod ar y byd ysbrydol yn ogystal ag ar y byd hwn.

(6,) *Ni allasai y gelynion attal gwyrthiau y Beibl.*

Pan y gorchymynodd Brenin Ffrainc amgau bedd Abbe de Paris â mur, er attal y bobl i fyned ato, fe ddarfyddodd y gwyrthiau: ond ni allodd Pharaoh a'r swynwyr attal gwyrthiau Moses, na'r ysgrifenyddion a'r penaethiaid attal gwyrthiau Crist a'r apostolion. Gan fod gwyrthiau Abbe de Paris o ddynion, fe ddarfyddasant mewn gwarth; gan fod gwyrthiau y Beibl o Dduw, ni allasai y byd nac uffern eu rhoddi i lawr. (Act. v. 38, 39.)

5. *Toddiad gwaed St. Januarius.*

Sant gwarcheidwadol Naples yw St. Januarius, lle y cludir ei ben, weithiau, mewn gorymdaith, er attal ffrwydriadau y mynydd tanllyd Vesuvius. Mae toddiad ei waed yn cael ei ystyried yn wyrth fawr yn Naples. Dyoddefodd Januarius ferthyrdod tua diwedd y drydedd ganrif. Pan y torwyd ei ben, darfu i foneddiges dduwiol lwyddo i ddal tuag wns o'i waed, yr hwn sydd wedi cael ei gadw er hyny heb ballu na lleihau dim. Pan yn cael ei gadw, mae y gwaed yn galed a sych; pan y dygir ef at ben y sant, y mae yn dechreu toddi. Mae hyn yn cymmeryd lle dair gwaith bob blwyddyn. Diau fod y gwaed, neu beth bynag ydyw, yn teneuo a rhedeg yn y gostrel wydr, naill ai trwy wres dwylaw yr offeiriad, neu o herwydd gwres y canwyllau cwyr anferth sydd ar yr allor ar y pryd, neu, fel yr awgryma yr esgob Douglas, trwy ddefnyddio cyfferïau meddygol, megys *aqua-fortis*, yn cael ei ddyferu o un pen i'r gostrel i gymmysgedd o *Cocus Martis* a *Cochineal* yn y pen arall, yr hyn a gynnyrchai beth hollol yr un fath a gwaed rhedegog. Ymddengys fod ffurf y gostrel yn caniatâu hyn, gan ei bod yn gyffelyb i awr-wydr *(hour-glass)*.

Nid oedd y pethau hyn oll ond rhyfeddodau gau, er tynhau cadwynau teyrnas y tywyllwch am ddynion, a'u dyrysu yn eu hymchwiliad am y gwirionedd.

Gwel weithiau Campbell, Douglas, Horne, a Trench ar y Gwyrthiau.

## III. ANGEL JEHOFAH.

Yr ydym wedi sylwi yn nhudalen 143 fod Mab Duw yn gwneyd ei ymddangosiad weithiau o dan yr Hen Destament o dan yr enw Angel yr Arglwydd, neu Angel Jehofah. Dodwn yma o flaen y darllenydd seiliau y golygiad hwn. Dichon y dylem yn gyntaf oll wneyd rhai nodiadau rhagarweiniol:—

1. Ni olygir ein bod i ddeall y Gair Dwyfol bob amser y cyfarfyddwn â'r geiriad "Angel yr Arglwydd." Dichon fod yr enwawd yna yn 2 Bren. xix. 35, ac Act. xii. 23, yn golygu *haint angeuol.* Bryd arall, dichon nad yw yr ymadrodd yn golygu dim mwy nag un o angylion Duw. (Mat. xxviii. 2. Act. v. 19, xii. 7.) Yr hyn a olygwn yw, *fod cyfeiriadau yn cael eu gwneyd yn yr Hen Destament at Berson urddasol o dan yr enw Angel Jehofah, yr hwn y mae y cyssylltiadau a rhanau ereill o'r Ysgrythyr yn ein rhwymo, ar dir beirniadaeth deg, ac yn ol rheolau safadwy Dehonglyddiaeth Feiblaidd, i'w ystyried yn Berson Dwyfol.* Nid oes mwy o anghenrheidrwydd i ni ddeall mai Mab Duw a olygir bob tro y cyfarfyddir â'r enwawd Angel yr Arglwydd, nag sydd i ddeall fod Elohim a Theos yn golygu y gwir Dduw yn mhob man y dygwyddant, am eu bod yn golygu hyny mewn rhai lleoedd.

2. Cadnabyddir fod y gair Elohim (y gair Hebraeg am Dduw), yn cael ei ddefnyddio weithiau mewn modd ffugyrol am ddynion ac angylion. Ond pan y defnyddir ef felly, mae rhywbeth yn wastad yn y cyssylltiadau ag sydd yn dangos yn egluro mai at fodau îsraddol y cymhwysir ef. Fel hyn, cawn ef yn Exod. xxi. 6, a xxii. 8, 9, am "farnwyr," lle y cyfeiria at yr offeiriaid a henuriaid y bobl, y rhai a weithredent fel cynnrychiolwyr Duw. Felly hefyd y gelwir hwy yn Salm lxxxii. Weithiau golyga Elohim angylion (Salm viii. 5. Heb. ii. 7, 8), o herwydd, mae'n bossibl, eu hymddangosiad dysglaer a goruwchnaturiol. Cymharer 1 Sam. xxviii. 13, lle y defnyddir Elohim am ryw ymddangosiadau dyeithr a goruwchddynol.

3. Mae y pwnc hwn i gael ei benderfynu yn ol lleferydd yr Ysgrythyr, ac nid yn ol casgliadau a ellir eu tynu oddiwrth eu dystawrwydd. Dichon y dywedir y gellid dysgwyl i Stephan a Phaul lefaru yn fwy helaeth ar hyn, os Mab Duw oedd Angel Jehofah. Paham na fuasai Stephan yn dweyd wrth yr Iuddewon mai Iesu Grist oedd yr Angel a lefarodd wrth Moses yn Seinai, os oedd yn credu hyny? (Act. vii. 30.) A pha fodd na fuasai Paul wrth nodi ei gymhellion i letygarwch yn dweyd fod Abraham wedi cael y fraint o letya Mab y Goruchaf? Fel atebiad i hyn, nodwn,

(1,) Nad ydym ni yn ddigon o feirniaid i eistedd mewn barn ar Stephan a Phaul, beth a ddylasent ddysgu, a beth a ddylasent ei attal. Dichon y

buasem ni yn barnu y dylasai Stephan yn ei amddiffyniad gyfeirio at y "rhyfeddodau a'r arwyddion mawrion" a wnaethai Duw trwyddo fel prawf o darddiad Dwyfol Cristionogaeth (Act. vi. 8); ond ni chyfeiriodd atynt o gwbl. Eto, byddai yn gyfeiliornus ynom i feddwl ei fod yn eu hannghydnabod neu eu diystyru.

(2,) Y mae Stephan yn llefaru am Dduw ac Angel yr Arglwydd fel yr un person. Mae y geiriau yn gylchgyfnewidiol ganddo, ac yn golygu yr un Bôd. (Act. vii. 30—34.) Gallasai yr Iuddewon gydnabod fod Angel yr Arglwydd yn Berson Dwyfol, tra yn gwrthod cydnabod mai hwnw wedi ymgnawdoli oedd Iesu o Nazareth.

(3,) Mae y fath dyb yn sylfaenedig ar gamddealltwriaeth yn nghylch natur annerchiad Stephan.

*Amddiffyn ei hun yr oedd Stephan, yn hytrach nag egluro egwyddorion Cristionogaeth*, yn yr annerchiad a gofnodir yn Act. vii. Cyn yr ymddiffyniad hwn o flaen y Sanhedrim Iuddewig, yr oedd efe wedi bod yn pregethu yr efengyl, ac yn dadblygu egwyddorion Cristionogaeth; a llefarai gyda'r fath nerth anorchfygol, fel na allai yr Iuddewon wrthsefyll ei resymau. "Ac ni allent wrthwynebu y doethineb a'r ysbryd trwy yr hwn yr oedd efe yn llefaru." (Act. vi. 10.) Yn ei waith yn pregethu ar yr adeg yna y gosodai allan ei olygiadau am Grist, ac y profai mai yr Iesu oedd y gwir Fessiah, yn hytrach nag yn ei waith yn amddiffyn ei hun o flaen y cynghor. Yn lle ateb ei resymau, mae yr Iuddewon yn cyflogi gau dystion yn ei erbyn, y rhai a ddywedent ei fod yn cablu yn erbyn Duw, Moses, a'r deml. (Act. vi. 11, 13.) Gorfodir Stephan i amddiffyn ei hun yn ngwyneb y cyhuddiadau hyn, yn hytrach nag ymresymu allan y pwnc mewn dadl rhyngddo â'r Iuddewon.

*Ni wnaeth gablu Duw*,—yr oedd yn ei addoli, a galwai ef "Duw y gogoniant." (Act. vii. 2.)

*Ni wnaeth gablu Moses*,—yr oedd yn ei anrhydeddu, a dyfyna ei ysgrifeniadau fel y Dwyfol oraclau. (Act. vii. 39.)

*Ni wnaeth gablu y Deml*,—ond llefarai fel gwladgarwr am awyddfryd Dafydd i adeiladu tŷ i'r Arglwydd, yr hyn a sylweddolwyd yn nyddiau Solomon. (Act. vii. 45—47.)

Yn nglyn â'r pethau hyn, awgrymai:—

(*a*,) Nad Duw yr enwaediad yn unig oedd y Duw a anrhydeddai ef, ond Duw credinwyr o'r dienwaediad hefyd, megys ag y galwasai Abraham cyn iddo gael ei enwaedu.

(*b*,) Fod Moses wedi prophwydo am Brophwyd mawr arall, yr hwn oedd i ddwyn goruchwyliaeth newydd i mewn. (Act. vii. 37.)

(*c*,) Er fod Duw wedi anrhydeddu y Deml ddaearol, eto nad mewn temlau o waith dwylaw dynion y mae ei hyfrydwch a'i breswylfa, ond yn y galon grediniol ac yn mhlith ei blant. (Act. vii. 48, 49.) Wrth amddiffyn ei hun fel hyn, mae zel santaidd yn ennyn yn ei enaid, nes peri iddo ymosod ar ragrith a chalongaledwch ei erlidwyr. (Act. vii. 51—53.) Darfu i'w cynddaredd ei rwystro i orphen yr hyn a fwriadai lefaru, neu, fe ddichon, y buasai yn ail drefnu ger eu bron seiliau y ffydd yn Nghrist. Mae tynu casgliad oddiwrth amddiffyniad Stephan, gan hyny, yn anmherthynasol. (Gwel *Dr. Hessey's Boyle Lectures, for* 1873. Lect. viii.) Nid oedd angen ychwaith i Paul hysbysu yr Hebreaid fod un o'r angylion a letyasai Abraham yn Berson Dwyfol, gan fod y syniad hwnw yn cael ei goleddu yn mhlith yr Iuddewon; ac y mae y Beibl yn fynych mor addysgiadol yn ei awgrymiadau ag ydyw o hyawdl yn ei leferydd.

Y gosodiad yr ymdrechwn ei brofi ydyw,—FOD YR ARGLWYDD IESU WEDI YMDDANGOS O DAN YR HEN DESTAMEMT O DAN YR ENWAWD ANGEL JEHOFAH.

1. *Ni ymddangosodd Duw y Tad erioed mewn ffurf deimladwy a gweledig.*

Dywedai Duw wrth Moses, "Ni'm gwel dyn, a byw." (Exod. xxxiii. 20.) Am hyny dywedir yn fynych fod Duw yn anweledig. (Ioan i. 18, v. 37. 1 Tim. vi. 16. Heb. xi. 27. 1 Ioan iv. 12.) Dywed y Testament Newydd, mai Iesu Grist yw Dadguddiwr y Tad, y *Logos* neu y Gair, yr hwn a fodolai er tragywyddoldeb, trwy yr hwn yr amlygai Duw ei ewyllys; yr hwn sydd yn ddysgleirdeb ei ogoniant ef, ac yn adlewyrchu perffeithderau Dwyfol y Tad. (Ioan i. 1—3, 18. Heb. i. 3.) Gan hyny, os dywedir fod Duw wedi ymddangos i ddynion, ac os na welodd neb erioed y Tad, mae'n canlyn mai y Mab a ymddangosodd o dan yr Hen Destament cyn ei ymgnawdoliad.

Dywedir fod Abraham wedi sefyll o flaen Jehofah, yr hwn a ymddyddanodd âg ef. (Gen. xviii. 22, 26.) Gwelodd Moses a henuriaid Israel "Dduw Israel." (Exod. xxiv. 10.) Cafodd Esaiah olwg ar Jehofah fel brenin dwyreiniol mawreddog ar ei orsedd, yn cael ei amgylchynu gan ei weision angylaidd. (Esai. vi. 1, 5.) Yr oedd y Bôd goruchel a elwir Jehofah, pan yn ymddangos mewn ffurf weledig i ddynion, yn cael ei alw yn fynych Angel yr Arglwydd, מלאך יהוה, Angel Jehofah=CENAD NEU GYNNRYCHIOLYDD JEHOFAH. Yn Gen. xvi. 7, dywedir fod Angel Jehofah wedi gweled Hagar: yn y 10fed adnod addawa amlhau ei hâd, yr hyn yw gwaith Duw: yn adn. 11 dywed fod Jehofah wedi gwrando ar ei chystudd, gan gyfeirio, mae'n debygol, ato ei hun. (Gwel hefyd Gen. xxi. 17, 18.)

Yn Gen. xviii., sonir am dri o wŷr (adn. 2), y rhai a elwir hefyd "angylion" (adn. 22, xix. 1). Y mae yn ymddangos fod un o honynt yn uwch na'r lleill, oblegyd y mae Abraham yn cyfarch un o honynt yn fwy neillduol (xviii. 3), yr hwn ar ol hyny a elwir Jehofah (adn. 13, 17, 20, 22, 23.)

Yn Gen. xxii. 1, mae Duw yn gorchymyn i Abraham aberthu ei fab; pan yn y weithred o ufyddhau, mae Angel Jehofah yn ei attal (adn. 11). Yn adn. 12, y mae yr Angel hwn yn gwneyd ei hun yr un peth â Duw. "Gwn weithian i ti ofni Duw, gan nad atteliaist dy fab, dy unig *fab*, oddi wrthyf FI." Galwodd Abraham enw y lle hwnw JEHOFAH-JIREH=*Jehofah a edrych.*

Yn Gen. xxxi. 11, ymddangosodd Angel Duw i Jacob mewn breuddwyd. Dywedodd yr Angel hwnw wrtho, "Myfi yw Duw Bethel" (adn. 13), gan gyfeirio at y weledigaeth yn Gen. xxviii. 13.

Yn Gen. xxxii. 25, cawn hanes Jacob yn ymdrechu gyda rhyw berson dyeithr, yr hwn ar ol hyny sydd yn awgrymu mai Bôd Dwyfol ydoedd trwy yr enw newydd a roddodd ar Jacob, sef *Israel*=YMDRECHWR GYDA DUW. Galwodd Jacob enw y lle *Peniel*=GWYNEB DUW: "Oblegyd gwelais Dduw wyneb yn wyneb." (Gen. xxxii. 28, 30.) Cyfeirir at yr un amgylchiad yn Hosea xii. 3—5, lle y gelwir yr un person yn Dduw—Angel—a Jehofah, Duw y lluoedd.

Yn Exod. iii. 2, darllenwn am Angel Jehofah yn ymddangos i Moses mewn fflam dân: yn adn. 4, dywedir fod Jehofah yn edrych arno, ac y mae Elohim yn galw arno o ganol y berth, gan gyhoeddi ei hun yn Dduw Abraham, Isaac, a Jacob; ac y mae Moses mewn canlyniad yn cuddio ei wyneb, ac yn ofni edrych ar Dduw (adn. 4—16).

Yn Exod. xiv. 19, yr ydym yn dysgu fod Angel Duw yn canlyn Israel ar eu taith o'r Aifft, a bod y golofn niwl yn arwyddlun o'i bresenoldeb. Yr un angel, mae'n debyg, yw yr un y cyfeirir ato yn Exod. xxiii. 20—23, "Wele fi yn anfon angel o'th flaen i'th gadw ar y ffordd, ac i'th arwain i'r man a barotöais. Gwylia rhagddo, a gwrando ar ei lais ef; na chyffroa ef: canys ni ddyoddef eich anwiredd: oblegyd *y mae* fy enw ynddo ef. Os gan wrando y gwrandewi ar ei lais ef, a gwneuthur y cwbl a lefarwyf; mi a fyddaf elyn i'th elynion, ac a wrthwynebaf dy wrthwynebwyr. O herwydd fy angel a â o'th flaen di, ac a'th ddwg di i mewn at yr Amoriaid, a'r Hethiaid, a'r Phereziaid, a'r Canaaneaid, yr Hefiaid, a'r Jebusiaid; a mi a'u difethaf hwynt." Nid angel cyffredin oedd hwn, oblegyd yr oedd enw Duw ynddo. Nid yw Num. xx. 16, yn dinystrio'r golygiad hwn, gan ei fod yn beth ofer i Moses roddi y manylion mewn cenadwri at estron i'w grefydd a'u trefniadau.

Yn Josua v. 14, darllenwn am "Dywysog llu yr Arglwydd," Arglwydd yr angylion ac Amddiffynydd Israel, yr hwn a hawliai barch Dwyfol iddo ei hun trwy orchymyn i Josua ddiosg ei esgidiau oddi am ei draed, gan fod y lle y safai arno yn santaidd (adn. 15). Yn Jos. vi. 2, geilw yr ysgrifenydd santaidd ef Jehofah.

Gan fod yr enwau "Angel Jehofah," "Jehofah," ac "Elohim," yn cael eu cymhwyso at y Bôd urddasol hwn, rhaid ei fod yn Dduw. Yr oedd yn

berffaith briodol ei alw ef yn "Angel" fel cenad neu was y Tad (Esai. liii. 13); ond nid yw yn canlyn y byddai yn briodol galw yr un angel arall yn "Jehofah." Mae yn briodol galw *y* Frenines yn *wraig*; ond ni atebai i alw unrhyw wraig arall y *Frenines*.

Pan y llefarai angel cyffredin neu brophwyd yn enw yr Arglwydd, yr oeddynt yn gofalu ychwanegu nad hwy eu hunain oedd awdwyr y genadwri; felly y cawn Gabriel yn Dan. x. 11. Luc i. 19, a Ioan yn Dad. i. 8, a'r prophwydi yr un modd. Dichon yr ystyrir yr ymadrodd "medd yr Arglwydd" yn Gen. xxii. 16, yn dinystrio grym y sylw blaenorol; ond gellir deall yr ymadrodd yma naill ai fel sylw yr ysgrifenydd santaidd, neu fel math o lŵ difrifol yr hwn oedd yn llefaru. Mae yr hanes yn annealladwy ac yn camarwain, oddi eithr i ni ddeall mai Jehofah ei hun yw yr angel. Y casgliad oddiwrth y cyfan yw—gan y dywedir fod Duw wedi ymddangos i ddynion o dan yr Hen Destament, a chan y sicrhëir ni na welodd neb mo Dduw y Tad erioed, rhaid mai yr ail Berson yn y Drindod a ymddangosodd, yr hwn a elwid yn fynych Angel Jehofah.

2. *Mae Angel Jehofah yn cael ei wahaniaethu oddiwrth bob angel arall.*

Sonir am dano fel Bôd anfeidrol a Dwyfol, heb ei gyffelyb yn mhlith angylion Duw. Yn Exod. xxiii. 20, 21, ceir Duw yn addaw anfon ei Angel i arwain ac amddiffyn Israel; hawlir parch neillduol iddo, am fod *enw* Duw ynddo. Yn yr ieithwedd Hebreig, mae enw Duw yn sefyll yn fynych am Dduw ei hun: gwel Mat. vi. 9. Luc i. 49. Ioan xii. 28, xvii. 6, 11, 12. Act. ii. 21, ix. 14. Rhuf. ii. 24. Heb. ii. 12, &c. Dyna ei ystyr yma hefyd. Yr oedd Duw ei hun ynddo; yr oedd yn gyfranog o'i natur, yn dwyn ei ddelw, ac yn adlewyrchu ei berffeithderau; yn gyffelyb i'r syniad yn Col. ii. 9, lle y dywedir fod holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol yn Nghrist. Yr oedd gan yr Angel hwn allu ac awdurdod i fendithio a chosbi plant Israel, i ddileu eu hanwiredd, neu i attal maddeuant. Yn Exod xxxii., ceir hanes eilunaddoliaeth meibion Israel, yr hyn a barodd i Dduw fygwth eu dinystrio (adn. 10); ar eiriolaeth Moses, y mae yr Arglwydd yn peidio eu dinystrio, ond yn cadw ei lid hyd ddydd dial, ac yn addaw anfon arweinydd gwahanol iddo ef ei hun neu Angel Jehofah iddynt. (Exod. xxxii. 34, xxxiii. 2, 3.) Yn ngwyneb y newydd galarus hwn, y mae y bobl wedi eu llwyr orchfygu gan dristwch (xxxiii. 4); cwyna Moses nad ydoedd yn adnabod yr angel diweddaf hwn, yr hwn a addawasai Duw iddynt: "Ni ddangosaist i mi yr hwn a anfoni gyda mi" (xxxiii. 12). Ar ail eiriolaeth Moses, dywedodd yr Arglwydd, "Fy wyneb a gaiff fyned gyda thi, a rhoddaf orphwysdra i ti;" (adn. 14), hyny yw, "fy wyneb," yn lle yr angel dyeithr yr hwn oedd efe wedi bygwth ei anfon gyda hwynt. Ymadrodd byr-ieithol yw "fy wyneb" neu fy "mhresennoldeb" mae'n debygol, am "Angel fy Mhresennoldeb," yn golygu, nid un yn sefyll gerbron Duw i dderbyn ei orchymynion ac i weithredu fel ei genad, ond y Bôd trwy yr hwn yr oedd

y Duwdod yn cael ei amlygu i Israel—y Cynnrychiolydd Dwyfol. "Yn eu holl gystudd hwynt efe a gystuddiwyd, ac Angel ei Gynddrychioldeb a'u hachubodd hwynt; yn ei gariad, ac yn ei drugaredd y gwaredodd efe hwynt." (Esai. lxiii. 9.) Y casgliad yw fod Angel Jehofah yn fôd mwy urddasol nag angylion ereill; a chan fod enw Duw ynddo, rhaid ei fod yn Berson Dwyfol, cydradd â Duw ei hun.

3. *Y mae priodoleddau a rhagorfreintiau Dwyfol yn annhrosglwyddadwy.*

Y mae tri pheth ag y byddai yn anmhriodol neu yn anmhossibl i greadur eu cymmeryd arno, sef, 1. Honi perffeithderau Dwyfol. 2. Derbyn anrhydedd Dwyfol. 3. Cyflawni gweithredoedd Dwyfol.

1. Honi perffeithderau Dwyfol. Ni allai yr un creadur wneyd hyn heb fod yn dwyllwr, ac ni ellid llefaru am greadur fel yn eu meddu: ond yr oedd "ENW" Duw yn yr Angel a arweiniai Israel, yr hyn a brawf ei fod yn Berson Dwyfol.

2. Derbyn anrhydedd Dwyfol. "Myfi yw yr Arglwydd; dyma fy enw; a'm gogoniant ni roddaf i arall, na'm mawl i ddelwau cerfiedig." (Esai. xlii. 8.) Nid oes genym hanes fod yr un o'r angylion da yn derbyn addoliad gan ddynion. Darfu i Ioan unwaith, mewn camgymmeriad, fwriadu addoli angel, gan dybied mai y Meistr ydoedd; ond ni feiddiodd yr angel dderbyn y fath anrhydedd. (Dad. xxi. 8, 9.) Ystyrir addoliad angylion yn heresi yn y Beibl. (Col. ii. 18.) Yr oedd Angel Jehofah yn hawlio anrhydedd fel person Dwyfol, trwy orchymyn i Moses a Josua ddiosg eu hesgidiau oddiam eu traed. (Exod. iii. 5. Jos. v. 15.) Sonia am ufydd-dod Abraham fel ufydd-dod iddo ef. (Gen. xxii. 12.) Gweddïai Jacob am ei fendith ar Joseph a'i blant. (Gen. xlviii. 15, 16.) A hawliai Duw anrhydedd Dwyfol iddo oddiar law y bobl. (Exod. xxiii. 21.)

3. Cyflawni gweithredoedd Dwyfol. "Ni all Duw (ebe Dr. South), roddi ei allu yn fwy na'i ogoniant i arall; ni all braich un bôd meidrol dynu yn ei fwa ef." Nis gellir dodi hollalluogrwydd o dan reoleiddiad creadur, na hawl-freintiau Dwyfol yn nwylaw angel na dyn. Dywed yr Ysgrythyr nad all neb faddeu pechodau ond Duw yn unig. (Esai xliii. 25. Marc ii. 7.) Yn ol natur pethau, ni all neb faddeu, ond yr hwn y pechwyd yn ei erbyn. Yr oedd gan Angel Jehofah awdurdod i faddeu pechodau. "Ni ddyoddef eich anwiredd." Saesonaeg, "*He will not pardon your transgressions.*" (Exod. xxiii. 21.) Fe oddef yr Hebraeg y naill neu y llall. Ni ŵyr y Beibl ddim am yr hyn a elwir *delegated worship,*—fod un yn derbyn addoliad dyledus i Dduw yn unig yn y cymmeriad o ddirprwywr drosto. Gan nad ellir trosglwyddo priodoleddau a hawlfreintiau Dwyfol i greadur, a bod Angel Jehofah yn meddu y rhai cyntaf, ac yn ymarfer y rhai olaf, rhaid ei fod yn Berson Dwyfol.

4. *Crist oedd Gweinyddydd amgylchiadau y byd hwn o'r dechreuad.*

Y Tad oedd wedi tynu cynllun mawr pob peth mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a phrynedigaeth; mae pob peth yn cymmeryd lle "yn ol cynghor ei ewyllys ef." (Eph. i. 11.) Ond Crist oedd y Gweithredydd Hollalluog i sylweddoli y cynllun. Efe a greodd bob peth. (Ioan i. 3. Heb. i. 2.) Trwyddo ef hefyd yr oedd Duw yn dwyn yn mlaen lywodraethiad y byd, ac amgylchiadau yr hen gyfammod. Wrth gymharu y ddau Destament â'u gilydd, gwelwn fod yr hyn a briodolir i Dduw yn yr Hen Destament yn cael ei briodoli i Grist yn y Testament Newydd:—

1 *Pedr* iii. 18—20.—Dywed Pedr mai Crist trwy ei Ysbryd a bregethai i'r cynddiluwiaid trwy gyfrwng gweinidogaeth Noah; ond yn yr Hen Destament, Jehofah sydd yn dweyd, "Nid ymrysona fy Ysbryd â dyn yn dragywydd." (Gen. vi. 3.)

*Ioan* i. 11.—Dywedir fod Crist wedi dyfod i'w etifeddiaeth ei hun, ond na ddarfu i'w bobl ei hun ei dderbyn, gan gyfeirio at y genedl Iuddewig: ond yn yr Hen Destament, desgrifir y genedl Israelaidd bob amser fel *etifeddiaeth Jehofah*. (Exod. xix. 5. Deut. iv. 20. Esai xix. 25.)

*Ioan* xii. 41.—Dywed Ioan fod Esaiah wedi gweled gogoniant Crist, a llefaru am dano; ond yn ol Esai. vi., gogoniant Jehofah ei hun a welodd efe.

1 *Cor*. x. 9.—"Na themtiwn Grist, megys ag y temtiodd rhai o honynt hwy (ef), ac a'u dinystrwyd gan y seirph." Yn ol Paul yn y geiriau hyn, Crist oedd arweinydd Israel yn yr anialwch, ac felly yn ateb i Angel Jehofah yn Exod. xxiii. 20, 21, yr hwn yr oedd Israel yn ei dristâu a'i demtio. Yn Num. xxi. 5—7, Jehofah yw yr hwn y pechir yn ei erbyn.

1 *Pedr* i. 10.—Dywed Pedr mai Ysbryd Crist a lefarai yn y prophwydi; priodolai y prophwydi eu hunain eu hysbrydoliaeth i Ysbryd Jehofah. (2 Sam. xxiii. 2. Jer. xvi. 1.)

*Heb*. xi. 26.—Dywedir fod Moses wedi dewis dirmyg Crist o flaen trysorau yr Aifft; ond dywedir yn Exodus mai i wasanaeth Jehofah yr ymgyssegrodd, a hyny mewn ufydd-dod i alwad Angel Jehofah, yr hwn a alwai ei hun yn Dduw Abraham, Isaac, a Jacob. (Exod. iii., iv.)

Gwna cofio y ffaith, mai Crist oedd Gweinyddydd mawr amgylchiadau y byd hwn o'r dechreuad, ac yn enwedig y Ddwyflywodraeth Iuddewig, daflu goleuni, o bossibl, ar rai ysgrythyrau aneglur. Yn Mal. iii. 1, gelwir ef Angel y Cyfammod, o bossibl i ddynodi (er y gall y geiriau gyfeirio ato fel Cyfryngwr neu Ben y Cyfammod Newydd, Heb. viii. 6, ix. 15, xii. 24) mai efe oedd Cenadydd neu Gyfryngwr pob cyfammod (Heb. *Berith*), neu ymrwymiad rhwng Duw a dynion, ac yn neillduol cyfammod Seinai. O herwydd ei ymddangosiadau fel y crybwyllwyd ar wahanol

adegau ac achlysuron, y llefarwyd, fe ddichon, y geiriau canlynol:—"Yr hwn yr oedd ei fynediad (Heb. fynediadau), allan o'r dechreuad, er dyddiau tragywyddoldeb." (Mic. v. 2.) Yr oedd wedi myned allan fel Dadguddiwr y Duwdod, a Sylweddolwr ei gynlluniau yn nghreadigaeth y byd, ac yn ei ymddangosiadau i Moses a'r patriarchiaid o dan yr Hen Destament. Pan yr ymddangosai o dan yr Hen Destament, urddasolid yr amgylchiad gan daranau a mellt, a chwmmwl, a byddin o angylion, a goleuni dysglaer ac ysblenydd. Dichon mai ei ym ddangosiad yn nghanol urddas a mawrhydi fel hyn a olygai Paul wrth son am dano "yn ffurf Duw," pan nad ydoedd yn anweddus ynddo i ymddangos fel un cydradd â Duw, gan dderbyn addoliad, o herwydd ei fod ef ei hun yn wir Dduw; ond yn ei ymgnawdoliad fe ddiosgodd ei hun o'r arwyddion allanol hyn o fawredd a gogoniant, ac a ymddangosodd "mewn dull fel dyn," heb fod yn wahanol i ereill o feibion dynion. (Phil. ii. 6—8.)

5. *Os nad oedd Angel Jehofah yn Berson Dwyfol, y mae y Beibl yn annghysson âg ef ei hun, ac yn cefnogi eilunaddoliaeth.*

Yr ydym wedi sylwi fod Duw yn hawlio parch Dwyfol iddo (Exod. xxiii. 20—23); fod Abraham a Jacob yn gweddïo arno (Gen. xviii. 23—32, xlviii. 15, 16); a bod Moses a Josua yn talu parch addoliadol iddo. (Exod. iii. 1—6. Jos. v. 13—15.) Cymharer â hyn yr hyn a ddywedir yn Col. ii. 18, lle y condemnir addoliad angylion,—yn Heb, i. 6, lle y gorchymynir i'r holl angylion ei addoli ef,—yn Dad. xxii. 9, lle y ceir angel urddasol yn gwrthod addoliad,—ac yn Deut. vi. 13, 14, x. 20, 21. Mat. iv. 10, lle y ceir yn ysgrifenedig, "Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi." Dengys yr Ysgrythyrau hyn, fod Duw yn gwahardd y parch a delid i Angel Jehofah i angylion creuedig, ac nad oedd angylion y nef yn ystyried eu hunain yn deilwng o'r fath anrhydedd.

## Adolygiad ar Ddamcaniaethau Ereill.

1. *Mai bôd creuedig oedd Angel Jehofah, yn cynnrychioli Duw, trwy yr hwn yr oedd Duw yn gweithredu a llefaru; a'i fod fel cenad Duw yn derbyn parch addoliadol.*

Dyma oedd golygiad Origen, Awstin, a Jerome, yn mhlith y Tadau; Abenezra, ac ereill, yn mysg ysgrifenwyr Iuddewig; Grotius, Vater, Gesenius, Maclean, ac ereill, yn mhlith esbonwyr a beirniaid diweddarach. "Tueddid gwahanol amddiffynwyr y ddamcaniaeth hon i ddadleu drosti," ebe Hengstenberg, "oddiar ystyriaethau tra gwahanol. Credai y Tadau, at ba rai y cyfeiriwyd, eu bod yn cael eu gorfodi i'w mabwysiadu gan amryw ranau o'r Testament Newydd. (Felly y credai Maclean, ac felly y credir eto gan amryw o weinidogion mwyaf uniongred y dyddiau hyn). Effeithid ar y Pabyddion gan yr awydd i gael awdurdod Ddwyfol dros addoli angylion; dylanwadid ar y Sociniaid gan eu hatgasrwydd o'r

athrawiaeth uniongred yn nghylch y Drindod; a thueddid y rhesymolwyr i'w phleidio o herwydd eu hofn i gyfarfod yma â dirgelwch, ac â'r hyn oedd yn cynnwys parotôad erbyn yr athrawiaeth Gristionogol am y Drindod."

Ar ol rhoddi yr ystyriaeth fwyaf manwl, pwyllog, a diduedd i'r ddamcaniaeth dan sylw, nis gallwn ei derbyn, o herwydd yr ystyriaethau a ddygwyd yn mlaen yn y tudalenau blaenorol. Mae yr ymchwiliad yn ein hargyhoeddi ni fod Angel Jehofah yn Berson Dwyfol. Yn yr hanesiaeth ysgrythyrol, fe sonir am dano fel bôd uwch nag angylion ereill (Gen. xviii.), ac yn gweithredu yn ei enw ei hun fel Person Dwyfol, ac yn cael ei gyhoeddi gan Dduw ei hun fel ei gydradd. (Exod. xxiii. 20.) Gan fod y perffeithderau Dwyfol yn annhrosglwyddadwy, credwn fod y bôd a'u meddiannai ac a arferai hawlfreintiau Dwyfol, ei hunan yn Berson Dwyfol.

2. *Nad oedd Angel Jehofah ond yr arwyddlun allanol gweledig o bresennoldeb Duw.*

Yn ol y dyb hon, Angel Jehofah oedd y berth losgedig a'r golofn niwl; ond yn ol y Beibl, y mae Angel Jehofah yn cael ei wahaniaethu oddiwrth yr arwyddion hyn, oblegyd yr oedd yr angel yn ymddangos i Moses *yn* y fflam dân, allan o ganol y berth. (Exod. iii. 4.) Yr oedd bodolaeth yr angel yn barhaol a gwastadol, ac nid yn funydol ac anarosol, fel yr awgryma y ddamcaniaeth hon; oblegyd yr oedd Jacob, wrth weddïo arno dros feibion Joseph, yn cyfeirio ato fel bôd annghyfnewidiol, yr hwn oedd wedi bod yn dŵr o amddiffynfa ac yn ffynnonell benedithion i Jacob ei hun yn mlynyddau boreuol ei einioes. (Gen. xliii. 16.)

## GWRTHDDADLEUON.

1. *Fod y golygiad a amddiffynwn yn dinystrio gwrthgyferbyniaeth yr apostol yn y llythyr at yr Hebreaid.*

Yr ydym wedi gwneyd nodiadau ar yr wrthddadl hon eisioes, yn nhudalen 144, i ba le y cyfeiriwn y darllenydd.

2. *Fod Duw Abraham, Isaac, a Jacob, yr hwn a ymddangosodd i Moses yn y berth, yn cael ei wahaniaethu oddiwrth yr Arglwydd Iesu Grist.*

Gwel Act. iii. 13, lle y sonir am Iesu Grist fel Mab i Dduw y patriarchiaid. Ni all yr wrthddadl hon achosi yr un gwir anhawsdra i'r rhai sydd yn credu athrawiaeth y Drindod.

1. Yr oedd athrawiaeth y Drindod o dan y ddeddf, yn cael ei chuddio i raddau helaeth, yn hytrach na'i dwyn i oleuni, yn unol âg amcan yr Hen Destament i ddysgu undduwiaeth *(monotheism)* i'r byd.

2. Mae yr un gweithredoedd yn cael eu priodoli yn y Beibl i'r Tad a'r Mab.

Duw yn y dechreuad a greodd y nefoedd a'r ddaear (Gen. i. 1), ond trwy y Mab y gwnai hyn (Ioan i. 3), ac y creai y bydoedd oll. (Heb. i. 2.) Y Tad a gyfododd Grist o feirw (Act. ii. 24, 32, iii. 15, x. 40. Eph. i. 20); ond sonir am ei adgyfodiad hefyd fel ei waith ef ei hun. (Ioan ii. 19, 21. 1 Cor. xv. 4.) Nid yw fod Pedr yn galw y Tad yn Dduw Abraham, Isaac, a Jacob, mewn un modd yn dinystrio y prawf fod Angel Jehofah, yr hwn a ymddangosodd i Moses, yn Berson Dwyfol.

3. *Anweledigrwydd Duw.*

Dywedir na allai dyn weled Duw, a byw; ond fod dynion wedi gweled Angel Jehofah, a byw; o ganlyniad nad oedd Angel Jehofah yn Berson Dwyfol. Ond y mae yr ymresymiad yma yn annghydnabod gwahaniaeth personau yn y Duwdod, ac yn gwadu swydd Crist yn mhob oes fel Dadguddiwr y Tad. Mae yr ystyriaethau hyn, o'r ochr arall, mewn gwirionedd *yn profi fod Angel Jehofah yn Berson Dwyfol*, fel y sylwasom o dan yr adran 1. Gan y dywedir yn bendant na welodd neb Dduw y Tad erioed, a chan y dywedir yn yr Hen Destament fod dynion wedi gweled Duw pan welsant Angel Jehofah, y casgliad naturiol yw fod y person yma ei hun yn Dduw.

Gwel *Hengstenberg's Christology*, vol. i.; *Dr. Pye Smith's Scripture Testimony to the Messiah*, vol. i.; *Liddon's Bampton Lectures on the Divinity of Christ*, for 1866; *Dr. S. H. Turner's Notes on Genesis; Henderson's Commentaries; Maclean's Commentary on Hebrews*, vol. i., Appendix; ac erthyglau dyddorol yn y "*Greal*" am 1874.

---

## IV. EILUNADDOLIAETH Y BEIBL.

Er ei gwymp, ni all dyn ymryddhau oddiwrth ei duedd addolgar. Byth ar ol iddo adael y gwir Dduw, y mae yn teimlo ei fod wedi colli rhywbeth, ac o dan deimlad o'i dlodi a'i wendid, addola wrthddrychau creuedig er ceisio cyrhaedd dedwyddwch. Pa le bynag mae dyn, fe'i ceir yn talu parch addoliadol i ryw wrthddrych a ystyria yn dduw iddo. Ni chanfyddodd na morwyr na theithwyr erioed unrhyw lwyth na chenedl, mewn unrhyw ynys na gwlad, ag oeddynt wedi colli y syniad am Dduw.

Pa fodd bynag y mae cyfrif am hyn,—pa un a ystyrir y tueddiad yma fel math o reddf wedi ei phlanu yn ein natur gan y Creawdwr, neu fel casgliad rheswm a thystiolaeth cydwybod, neu fel effaith traddodiad, y mae y ffaith yr un, sef fod dyn yn fôd addolgar; er ei fod yn fynych yn cyfeiliorni yn alaethus o barthed gwrthddrych ei addoliad.

## § I. Ystyr y gair Eilunaddoliaeth.

Ystyr lythyrenol y gair eilunaddoliaeth ydyw *addoliad pethau gweledig fel gwrthddrychau Dwyfol*, neu y *gyfundrefn sydd yn dysgu hyny*. Yn yr un ystyr y defnyddir y gair *idolatry*, yr hwn a ddeillia o EIDOLON (ειδωλον), *delw*, neu *ffurf weledig*, a LATREIA (λατρεια), *gwasanaeth*, *gwasanaeth i Dduw*, *addoliad*.

Gall y gwrthddrych gweledig fod yr hyn a ystyrir yn ddelw, eilun, arwyddlun, neu arddangosiad o'r gwrthddrych anweledig neu absennol y proffesir ei addoli, er cyfodi meddwl yr addolwr at y Duw a addolir; neu dichon nad yw yr addolwr yn meddwl am ddim ag sydd uwch a rhagorach na'r eilun ger ei fron. Dywed offeiriaid eilunaddolgar y byd paganaidd wrth ein Cenadon, nad ydynt hwy yn addoli y ffurfiau gweledig eu hunain, ond y duwiau trwy eu cyfrwng hwynt; dichon mai fel arwyddlun o Jehofah y golygai Aaron i'r llo aur fod, gan ei fod ar ol ei wneyd, wrth gyhoeddi gwyl er anrhydedd iddo, yn dweyd, "Y mae gwyl i'r Arglwydd y fory." (Exod. xxxii. 5.) Ond os felly yr edrycha dysgawdwyr eilunaddolgar ar eu heilunod pan yn eu ffurfio, mae'n amlwg mai peth anmhossibl fyddai cadw y werin anwybodus i barhau i'w hystyried felly, a pheidio ag addoli y delwau eu hunain. Ni ellid ychwaith ffurfio delw o'r gwir Dduw. Ysbryd anfeidrol, hollbresennol, hollalluog, ac anweledig yw efe; ac ni ellir gwneuthur delw o'i hanfod na'i bresennoldeb. (Ioan i. 18.) Dywed Moses wrth Israel, na welsent na ffurf na llun o un math o'r Duw byw, pan y rhoddai y ddeddf iddynt oddiar Seinai, ond clywsent lais y Duw anweledig, a gwelsent arwyddion o'i bresennoldeb; ac oblegyd hyny nad oedd Duw yn caniatâu iddynt wneuthur un math o ddelw o hono ef. (Deut. iv. 15, 16.) Mae delwau o Dduw, gan hyny, yn cael eu condemnio yn y Beibl yn hollol a dieithriad; ac nid oes eisieu delw i'n hadgofio am y Duwdod; mae y greadigaeth yn ei hamrywiol agweddau yn ddigon i'n hadgofio am ei fodolaeth fel Duw hollalluog, hollddoeth, a llawn o ewyllys da tuag at ei greaduriaid—tra mae y Beibl yn ei osod allan yn ei gymmeriad moesol fel "Duw cyfiawn ac achubydd.' Nid yw dyn, gan hyny, i wneyd delw o Dduw; cofgolofn i'w fodolaeth a'i berffeithderau ef yw y bydysawd, ac arweinydd i'w gyssegr yw y Beibl.

## § II. Dechreuad Eilunaddoliaeth.

Mae'n debygol mai y gwyriad cyntaf oddiwrth addoliad y gwir Dduw ydoedd addoliad yr haul, a'r lloer, a sêr y nef. Addolid yr haul yn foreu, fel y gwrthddrych mwyaf mawreddog ac ysblenydd yn y greadigaeth, ac

fel adfywiwr y tymhorau, a chynnyrchydd ffrwythau y ddaear. Dichon mai gwaith Duw yn derbyn aberth ei blant trwy beri i dân ddisgyn arno a'i ddifa, a roddodd achlysur i ddynion ar y cyntaf ddychymmygu mai yr haul yw Duw, a myned i addoli yr haul, ac wedi hyny yr elfen dân, fel arwyddlun o'r Duwdod, neu ei drigfa, fel y gwna y Parsees yn India a Phersia hyd y dydd hwn. Cawn hanes am addoliad llu y nef mor foreu ag amser Job. (Job xxx. 26—28.) Fe briododd Joseph ferch i offeiriad a arogldarthai i'r haul yn ninas On. Golyga y gair On yn y Coptaeg yr *haul;* am hyny geilw yr Hebreaid y ddinas yn Bethshemesh, a'r Groegiaid yn Heliopolis, sef *Tŷ neu Ddinas yr haul.* (Gen. xli. 50. Jer. xliii. 13.) Fe fernir fod y math yma o addoliad (gydag ychydig o wahaniaeth allanol), wedi ymledu i bob gwlad o'r bron, a bod yr haul yn cael ei addoli o dan wahanol enwau mewn gwahanol wledydd. Addolid ef yn yr Aifft, fel y crybwyllwyd eisioes o dan yr enw On; addolai y Phœniciaid ef o dan yr enw *Baal* neb *Baal-Shamaim*, "Arglwydd y nef;" a'r Ammoniaid o dan yr enw *Moloch;* a'r Moabiaid o dan yr enw *Chemos.* Cyfeirir ato fel gwrthddrych addoliad yn mhlith yr Assyriaid o dan yr enw *Hadad* (Benhadad, &c.); ac yn mhlith yr Assyriaid o dan yr enw *Bel* neu *Belus.* Cedwid meirch a cherbydau cyssegredig i'r haul gan freninoedd Judah (2 Bren. xxiii. 11); a chan y Persiaid, y rhai hefyd a offryment feirch iddo. (*Xenophon's Cyropœdia*, Book viii. Chap. iii.) Yn gyssylltiedig âg addoliad yr haul, yr oedd addoliad y lloer a'r sêr, y rhai a ymddangosant yn fwy ysblenydd a mawreddog mewn hinsoddau Dwyreiniol. Addolai y Phœniciaid y lloer o dan yr enw Astoreth (1 Bren. xi. 5), ac addolid y blaned Sadwrn o dan yr enw Chïwn neu Remphan. (Amos v. 26. Act. vii. 42, 43.) Dywed Cæsar y byddai Derwyddon Ffrainc (y rhai, eb efe, a ddilynent yr un arferion a Derwyddon Prydain), yn addoli Mercher, Mawrth, Iau, a phlanedau ereill; a chawn yn yr enwau Seis'nig *Sunday* a *Monday*, a'r enwau Cymreig am ddyddiau yr wythnos, brawf fod y Cymry a'r Saeson gynt wedi bod yn addoli llu y nefoedd. Dywed Moses fod Duw wedi rhoddi llu y nef i'r Cenedloedd, hyny yw, fel yr ymddengys, *i'w haddoli*, tra yr oedd Israel i'w addoli ef yn unig. (Deut. iv. 19.) Rhaid i ni ddeall gwaith Duw yn gwneyd hyn yn yr ystyr o *ganiatâu* iddynt eu haddoli, fel y sylwa Jahn a Keil, megys ag y dywedir ei fod yn gwneyd gweithredoedd ereill: gwel tudal. 369.

O radd i radd, aeth dynion yn fwy llygredig ac ynfyd, ac amlhasant eu duwiau yn ol eu dychymmyg; wedi colli golwg ar ysbrydolrwydd a hollbresennoldeb Duw, appwyntiasant dduwiau fel gwarcheidwaid i'r mynyddoedd a'r afonydd, y coedwigoedd a'r anialdiroedd, ac i arolygu gwahanol orchwylion dynol, megys gwinllanu, hela, rhyfela, masnachu, gan o'r diwedd dduweiddio unrhyw greadur neu wrthddrych a ddygwyddai daro eu meddyliau.

## § III. Creulondeb a Ffieidd-dra Eilunaddoliaeth.

Duwiau creulon ac aflan yw duwiau y Cenedloedd. Sonir am dynu plant trwy y tân i Moloch. Bernir fod Moloch yn cynnyrchioli yr elfen

dân, fel arwyddlun o'r haul-dduw. Yr oedd mewn modd neillduol yn dduw i'r Ammoniaid, a dygwyd ei addoliad ef i Israel gan Solomon. (1 Bren. xi. 5, 7.) Yr oedd delw Moloch wedi ei gwneyd o bres, ar ffurf dyn o ran y corph, gyda phen ych. Yr oedd ganddi freichiau yn gogwyddo i lawr; dodid babanod ar y breichiau hyn yn aberth i Moloch, y rhai a lithrent i lawr i ffwrnes o dân o dan y ddelw, neu o'i mhewn, ac a losgid yn ysglyfaeth i ofergoeledd y bobl. (Deut. xii. 31, xviii. 10. 2 Bren. xvi. 3, xviii. 10. 2 Bren. xvi. 3, xxi. 6. 2 Chron. xxviii. 3, xxxiii. 6.) Fe dybia rhai beirniaid mai yr un peth yn sylweddol oedd Moloch yr Ammoniaid a Sadwrn y Canaaneaid, y Phœniciaid, a'r Carthaginiaid, i'r hon yr offryment aberthau dynol. Offrymodd y Carthaginiaid, ebe Diodorus Siculus, ar un achlysur ddau gant o'u bechgyn mwyaf urddasol i Sadwrn, gyda deg ar hugain o bersonau a roddent eu hunain yn wirfoddol i farwolaeth. Dygid gwasanaeth Moloch yn mlaen yn agos i Jerusalem yn *Nyffryn Hinnom*, mewn lle o'r enw *Tophet*, yr hwn a elwir felly naill ai oddiwrth y tabyrddau *(twphim)* a gurid yno i foddi sŵn y plant a aberthid, neu o herwydd y dirmyg a ddangosid tuag ato trwy boeri ar y lle, neu am fod aberthau Moloch yn cael eu llosgi ynddo, yn ol fel y deallir y gair a'i darddiad. Darfu i Josiah daflu Tophet i warth diddiwedd, trwy fwrw ysgerbydau anifeiliaid a budreddi Jerusalem iddo; a chan i'r arferiad yma barhau, cedwid tân parhaus i losgi ynddo er difa y carthion crybwylledig, ac attal y sawyr afiach i heintio yr awyrgylch; o herwydd hyn gelwid y lle *Gehenna o dân*, a daeth yn arwyddlun o fangre cosbedigaeth yr annuwiol. (2 Bren. xxiii. 10. Jer. xix. 13. Mat. v. 22, 29, 30. Marc ix. 44.)

Mae aflendid yn wastad yn gyssylltiedig âg eilunaddoliaeth. Awgrymir hyny yn iaith lednais y Beibl, lle na nodir hyny yn bendant. "Brwnt yw adrodd y pethau a wneir ganddynt hwy yn ddirgel." (Eph. v. 12. Rhuf. i. 24—32.) Yr oedd mwy na mil o buteiniaid yn perthyn i deml Gwener *(Venus)* yn Nghorinth; ac yr oedd yr un dosbarth i'w cael yn gyssylltiedig â gwasanaeth eilunod yn mhlith y Phœniciaid, yr Armeniaid, y Lydiaid, y Babiloniaid, a'r Aifftiaid. Cyssegrent wobr eu hanwiredd i drysorfa teml yr eilun-dduw, yr hyn a waherddir i'r Hebreaid. (Deut. xxiii. 18.)

Nid yw eilunaddoliaeth ronyn rhagorach yn yr oes hon nag yr oedd yn yr oesoedd gynt. Nid oes ond efengyl Crist a ddaw a'r byd i roddi y gogoniant i'r gwir Dduw, ac i rodio llwybrau santeiddrwydd ac anrhydedd.

## § IV. Eilunaddoliaeth Israel.

Ymddengys oddiwrth Jos. xxiv. 2, fod hynafiaid Abraham, os nad Abraham ei hun hefyd unwaith, wedi bod yn eilunaddolwyr. Cawn olion yr eilunaddoliaeth yma yn ymddygiad Rahel a Laban. (Gen. xxxi. 19.) Arferent gadw delwau, sef y Teraphim, fel math o *dduwiau teuluaidd*, y rhai a gludent gyda hwynt yn eu teithiau, er ymgynghori â hwynt a'u

dirgel addoli, tra ar yr un pryd y cymmerent arnynt barchu Jehofah fel y Duw Goruchaf. (Gen. xxx. 27, xxxi. 53, xxxv. 2, 4.) Syrthiodd Israel i eilunaddoli pan oeddynt yn yr Aifft (Jos. xxiv. 14. Ezec. xx. 7), ac wedi hyny yn yr anialwch. (Exod. xxii. 1—5. Amos v. 26.) Wedi marwolaeth Josua, yr ydym yn eu cael yn syrthio drachefn i'r pechod hwn, ac yn cael eu cosbi mewn canlyniad. (Barn. ii. 11—15, vi. 25—32, viii. 27, 33, x. 6.)

Mae'n debyg mai delw o'r gwir Dduw y golygai Micah i'w eilun fod, gan ei bod wedi ei gwneyd o arian a gyssegrasid i'r Arglwydd (Barn. xvii. 3), a chan y tybiai Micah y buasai Duw yn dda wrtho o herwydd yr hyn a wnaethai. (Barn. xvii. 13.) Cawn fod yr offeiriad yn proffesu ymgynghori â Duw trwyddi. (Barn. xviii. 5, 31.)

Mae'n bossibl nad ydym i ystyried yr "ephod" yn Barn. viii. 27, fel eilun neu ddelw, ond yn hytrach fel efelychiad o wisg yr archoffeiriad. Dichon mai camgymmeriad Gideon oedd barnu y gwnelai Duw amlygu ei ewyllys trwyddo ef, ac nad oedd eisieu iddo ymgynghori â'r Arglwydd trwy yr archoffeiriad priodol ar y pryd; ac i hyn fod yn achlysur i ddenu y bobl oddiwrth gyssegr Duw, a dinystrio unoliaeth Israel, a pharotoi y ffordd i addoliad Baal: gwel Keil a Delitzsch ar y lle.

Llwyddodd Samuel i gael gan y bobl buro eu hunain oddiwrth eilunaddoliaeth (1 Sam. vii. 3—6); ond bu Solomon yn achlysur o adfywiad eilunaddoliaeth trwy briodi gwragedd eilunaddolgar, y rhai a ddygasant eu duwiau eu hunain gyda hwynt i Israel; ac yn ei henaint aeth Solomon hefyd yn eilunaddolwr am dymhor. (1 Bren. xi. 1—13. 2 Bren. xxiii. 13.) Yr oedd Rehoboam yn fab i un o'r rhai hyn, sef Naamah, Ammonees, ac o dan ei deyrnasiad aeth Judah yn ynfyd ar ol eilunod. (1 Bren. xiv. 21—24.) O herwydd eilunaddoliaeth Solomon, ac annoethineb Rehoboam, rhwygwyd teyrnas Israel yn ddwy, a daeth Jeroboam yn frenin ar y deg llwyth. Ofnodd Jeroboam y buasai y deg llwyth yn ymgymmodi â gwyr Judah wrth ymgymmysgu â hwynt yn y gwyliau blynyddol, a threfnodd i'w rhwystro i fyned i Jerusalem, gan neillduo Dan a Bethel iddynt yn fanau i ymgyfarfod; ac i wneyd i fyny am y diffyg o Dduw, yr hwn oedd wedi addaw bendithio ei bobl yn Jerusalem, gwnaeth ddau lô aur yn dduwiau i'r bobl, mewn efelychiad o'r ddau darw byw y rhai a addolid yn yr Aifft, un o'r enw *Apis* yn Memphis, a'r llall o'r enw *Mnevis* yn On, neu Heliopolis. Gan yr ystyriai yr Aifftiaid fod y Duwdod yn trigo yn y teirw hyn, mae'n bossibl mai fel cynnrychiolwyr o Jehofah y gosodai Jeroboam y lloi allan; mae hyn yn ymddangos yn debygol o herwydd ei fod yn priodoli gwaredigaeth Israel o'r Aifft iddynt, ac o herwydd cydsyniad parod y bobl.* (1 Bren. xii. 26—33.)

* Fel y canlyn y geiria Josephus araeth Jeroboam i'r bobl:—"Yr wyf yn tybied, fy nghydwladwyr, eich bod yn gwybod hyn, fod Duw yn mhob lle; ac nid oes unrhyw le pennodol yn yr hwn y mae efe, ond ei fod ef yn mhob man yn gwrando ar, ac yn gweled y rhai sydd yn ei addoli; o herwydd hyn nid wyf yn ystyried ei fod yn iawn i chwi fyned mor bell a Jerusalem, yr hon sydd yn dref berthynol i'r gelyn, i'w addoli ef. Dyn a adeiladodd y deml: yr wyf finau hefyd

Ond magl ofnadwy ydoedd, yr hyn a ddygodd Israel yn y diwedd i ddinystr. Darfu i olynwyr Jeroboam ddilyn ei gamrau, hyd nes yr esgynodd Ahab i'r orsedd. Fe briododd Ahab ferch Ethbaal, brenin Tyrus a Sidon, o'r enw Jezebel; yr oedd Ethbaal wedi bod yn offeiriad i Baal, ac wedi magu ei ferch yn ffydd ei rhieni; wrth briodi Ahab, penderfynai ddwyn addoliad Baal, duw ei gwlad enedigol, i Israel. (1 Bren. xvi. 31, 32, xxi. 25). Ni chafodd yr un rhwystr oddiar law Ahab i weithio allan ei bwriad; ac aeth yn mlaen i erlid prophwydi yr Arglwydd, a noddi prophwydi eilunaddolgar. (1 Bren. xviii. 13, 19.) Llwyddodd Athaliah, merch Ahab a Jezebel, i ddwyn addoliad Baal i Judah hefyd. (2 Bren. viii. 18, 26, xi. 18.) Er i Jehu ddifodi addoliad Baal o Israel, eto anrhydeddai y lloi aur, er holl drwst ei zel dros Jehofah. (2 Bren. x. 28—31.) Ni ymlanhaodd y deg llwyth oddiwrth eu heilunaddoliaeth hyd eu caethgludiad i Assyria (2 Bren. xvii. 1—23), na Judah ychwaith, ond i raddau ar wahanol adegau, hyd ei gaethgludiad i Babilon. (2 Bren. xviv. 17—20. Jer. xxxii. 26 36.) Mor bell y gall cenedl fawr ei breintiau wrthgilio oddiwrth Dduw! ac i'r fath eithafoedd o ynfydrwydd a thrueni yr â dyn ar ol gadael y Goruchaf!

## § V. COSBEDIGAETH EILUNADDOLIAETH YN ISRAEL.

Yr oedd yr hen gyfammod yn sefydliad gwladol-grefyddol, mewn rhan yn wladol, ac mewn rhan yn grefyddol; Jehofah oedd Llywydd a Brenin y wlad mewn ystyr wladol a daearol, ac efe oedd Deddfroddwr crefyddol y bobl, ac Arglwydd cydwybod. Yr oedd eilunaddoliaeth gan hyny yn myned o dan wraidd cyfansoddiad y wladwriaeth, ac yn tori y cyfammod yn ol yr hwn y rhoddasid Canaan i Israel, fel yr oeddynt mewn canlyniad i'w heilunaddoliaeth yn colli eu gwlad. (Exod. xix. 3—5. Deut. xxix. 24—28.) Yr oedd eilunaddoli yn Israel yr hyn a elwir *high treason*, yn deyrnfradwriaeth yn erbyn gorsedd Duw fel Brenin y wlad, ac yn "troseddu ei gyfammod ef,"—*y cytundeb rhyngddo a'r genedl*, fel yr oedd yr eilunaddolwr o dan y ddeddf i gael ei labyddio i farwolaeth. (Exod. xxii. 20. Lef. xx. 2, 5. Num. xxv. 4, 5. Deut. xiii. 6—15, xvii. 2—7.) Gwel tudal. 173.

---

wedi gwneyd dwy anner euraidd, cyssegredig i'r un Duw; ac un o honynt a gyssegrais yn ninas Bethel, a'r llall yn Dan, fel y gall y rhai agosaf i'r dinasoedd hyny fyned iddynt, ac addoli Duw yno: a mi a ordeiniaf i chwi offeiriaid a Lefiaid o'ch plith eich hunain, fel na byddo arnoch eisieu llwyth Lefi na theulu Aaron; a boed i'r hwn sydd yn awyddus i fod yn offeiriad yn eich mysg chwi, ddwyn i Dduw ŷch neu hwrdd, fel y dywedir fod Aaron yr offeiriad cyntaf wedi gwneyd."—*Antiquities of the Jews*, Book viii. chap. viii. § 4.

## § VI. Rhestr o'r Eilunod a'r Duwiau gau y cyfeirir atynt yn y Beibl.

Adrammelech, *mawredd y brenin*, yn ol Gesenius a Dr. Davies, ond *tân y brenin*, yn ol Winer, yn golygu yr *Haul-dduw*. Un o dduwiau y Sepharfiaid, trefedigwyr Samaria. (2 Bren. xvii. 31.)

Anammelech, *oracl y brenin* (Dr. Davies), *delw y brenin* (Gesenius), un arall o dduwiau y Sepharfiaid. (2 Bren. xvii. 31.) Yn ol Syr H. Rawlinson, golyga Adrammelech allu gwrywaidd yr haul, ac Anammelech ei gyd-dduw, neu allu benywaidd yr haul. (*Rawlinson's Herodotus*, vol. i. p. 611.)

Asima, *uchel* neu *nefol*, duw teuluaidd gwyr Hamath. (2 Bren. xvii. 30.)

Asherah, *dedwyddwch*, enw duwies dedwyddwch neu lwyddiant y Phœniciaid a'r Syriaid. (1 Bren. xv. 13, xviii. 19.) Yn y Beibl Cymraeg, dilynir y LXX a'r Vulgate, a chyfieithir y gair yma "llwyn" neu "lwyni:" ystyrir yn awr mai camgymmeriad oedd hyn. Dylai "delw mewn llwyn," yn 1 Bren. xv. 13, fod "delw i Asherah;" a "phrophwydi y llwyni," yn 1 Bren. xviii. 19, fod "prophwydi Asherah." Cyssylltir ei gwasanaeth yn fynych âg eiddo Baal, a barna llawer ei bod yr un peth ag Astoreth. Golyga y gair Asherah yn y rhif liosog ("llwyni," yn y Beibl Cymraeg) ddelwau o Asherah, neu golofnau iddi, (1 Bren. xiv. 23.)

Astoreth, *yr un brydferth*, neu *seren*, prif dduwies y Sidoniaid, yn golygu y lloer, yn ol Dr. Jahn, neu Venus, *duwies cariad*, yn ol Dr. Davies a Gesenius. (1 Bren. xi. 33.) Golyga y gair yn y ffurf liosog Astaroth, ddelwau i Astoreth. (Barn. x. 6.) Ystyrid hi fel cymhares i Baal, sef yr haul.

Baal, *arglwydd*, *meddiannydd*, duw goruchaf gwrywaidd y Phœniciaid a'r Canaaneaid, yn golygu yr haul, neu yn ol ereill, y blaned Jupiter. (1 Bren. xvi. 31.) Golyga y gair yn y rhif liosog Baalim, *ddelwau o Baal.* (Barn. ii. 11. 1 Bren. xviii. 18.) Gan fod Baal yn golygu *arglwydd*, cawn ef mewn amryw o eiriau cyfansawdd:—

1. *Baal-Berith*, duw-cyfammod, arolygwr cyfammodau yn mhlith dynion, neu un yn ymgyfammodi â'i addolwyr. (Barn. viii. 33, ix. 4, 46.)
2. *Baal-Zebub*, duw gwybed, yr hwn a addolai y Philistiaid, er mwyn iddo eu hamddiffyn rhag pla y gwybed. (2 Bren. i. 2, 3, 16)
3. *Baal-Peor*, duw y Moabiaid, er anrhydedd pa un yr oedd menywod yn ymadael â'u rhinwedd. (Num. xxv. 3.)

Felly hefyd mewn gwahanol enwau lleoedd, megys Baal-Gad, Baal-Sephon, Baal-Hazor, &c.

Bel (y ffurf Arameaidd o *Baal*), duw y Babiloniaid, yr hwn a addolid yn nhwr Babel, ac a olyga yr haul, neu y blaned Jupiter. (Esai xlvi. 1. Jer. l. 2, li. 44.)

Castor a Pholux, duwiau gwarcheidwadol morwyr. (Act. xxviii. 11.) Sonir am danynt yn chwedloniaeth genedlig fel arwyr a meibion i Jupiter. Addolid hwy fel amddiffynwyr y morwyr. Bernid eu bod yn agos atynt oddiwrth fath o oleuni y tybid ei fod yn chwareu oddeutu yr hwylbrenau a'r hwyliau. Pan yr ymddangosent i ddynion, dywedir eu bod yn ymddangos fel dynion ieuainc arfog, gyda seren uwch ben pob un o honynt, ac yn marchogaeth ar feirch gwynion ysblenydd. Yr oedd llun y rhai hyn wedi ei baentio ar y llong yn yr hon yr oedd Paul, neu delw o honynt wedi ei dodi ar y pen blaen iddi.

Cythreuliaid, Hebraeg, שעירים *Seirim* (Lef. xvii. 7. 2 Cron. xi. 15), *eilunod ar lun bychod geifr blewog ;* a שדים *Sheddim* (Deut. xxxii. 17), *eilunod* a addolid fel cynnrychiolwyr ysbrydion drwg.

Chemos, *llosgi*, eilun y Moabiaid (1 Bren. xi. 11, 33), delw, fe ddichon, o'r haul.

Chiwn, y blaned Sadwrn, yr hon a addolai yr Israeliaid anufydd, gan gludo ei delw gyda hwynt yn yr anialwch. (Amos v. 26.)

Dagon, delw ar ffurf pysgodyn yn y corph, a phen a breichiau merch iddi, yr hon a addolid gan y Philistiaid. (1 Sam. v. 2, 4. Barn. xvi. 23.) Deillia yr enw o'r gair Hebraeg דג, dag=pysgodyn.

Diana, duwies warcheidwadol Ephesus, a duwies helwriaeth yn ffugchwedlau y paganiaid. (Act. xix. 24, 27, 28, 34, 35.) Ystyrid ei theml yn Ephesus yn un o saith ryfeddod y byd.

Gad a Meni, *damwain* a *thynged.* "Ond chwi y rhai a wrthodwch yr Arglwydd, y rhai a annghofiwch fy mynydd santaidd, y rhai a arlwywch fwrdd i Gad, ac a lenwch ddiod-offrwm i Meni." (Esai. lxv. 11.) Byddai yr Aifftiaid ar ddydd diweddaf y flwyddyn yn hulio bwrdd llawn o ddanteithion, ac yn rhoddi cwpan lawn o win a dwfr arno, fel cydnabyddiaeth i'w duwiau am ffrwythlondeb y flwyddyn, neu i erfyn am ffrwythlondeb y flwyddyn ddyfodol. Golyga Gad a Meni, *dduwiau damwain* a *thynged*, y rhai a addolai yr Iuddewon, gan droi eu cefnau ar Jehofah, gwir Dduw Rhagluniaeth. Barna Gesenius fod Gad a Meni yn cynnrychioli Jupiter a Gwener, y rhai a ystyrid yn sêr o ddygwyddiad da.

Jupiter, neu Iau, penaeth y duwiau oll yn y ffugchwedlau cenedlig, a duw cenedlaethol y Groegiaid, a noddwr neillduol Rhufain. Safai teml a delw iddo o flaen dinas Lystra. (Act. xiv. 13.)

Mercurius, neu Mercher, negesydd y duwiau, noddwr hyawdledd, dysgeidiaeth, a masnach. (Act. xiv. 12.)

MERODACH, un o dduwiau Babilon. (Jer. l. 2.) Golyga ei enw, fe fernir, *rhyfelgar*, ac ystyrir ef yn arwyddlun o'r blaned Mawrth, yn y cymmeriad o dduw cyflafan a thywallt gwaed, yr hwn a ddyhuddid âg aberthau dynol. Ceir ei enw mewn cyssylltiad âg enwau personau, megys Efil-Merodach, Merodach-Baladan, ac feallai Mordecai.

MOLOCH, neu *Milcom* (1 Bren. xi. 5, 33. 2 Bren. xxiii. 13), *brenin*, eilunddduw yr Ammoniaid, ag y cyfeiriwyd ato eisioes. Gwel yr adran ar GREULONDEB EILUNADDOLIAETH. (Lef. xviii. 21, xx. 2. 1 Bren. xi. 7. 2 Bren. xxiii. 10.)

NEBO, y blaned Mercuri, yr hon a addolid gan y Caldeaid fel yr ysgrifenydd neu y dehonglydd nefol. (Esai. xlvi. 1.) Dygwydda yr enw yn y geiriau Nebu-chodonosor, Nebu-zaradan (2 Bren. xxv. 8), a Nebusasban. (Jer. xxxix. 13.)

NERGAL, yr un, fe dybir, a'r blaned Mawrth, o'r hon y gwnaeth y Cuthiaid ddelw i'w haddoli. (2 Bren. xvii. 30.) Ceir yr enw yn Nergal-Sareser. (Jer. xxxix. 3.)

NIBHAZ, eilun ar lun ci, yr hwn a addolai yr Afiaid. (2 Bren. xvii. 31.)

NISROC, un o eilunod Ninefeh, yn nheml pa un y lladdwyd Senacherib. (2 Bren. xix. 37. Esai. xxxvii. 38.) Golyga y gair, "Yr eryr mawr."

REMPHAN, yr un peth, mae'n debyg, a Chiwn. Cymharer Act. vii. 43, âg Amos v. 26.

RIMMON, duw gwarcheidwadol grawnafalau *(pomgranates)*, un o eilunod y Syriaid. (2 Bren. v. 18.)

SUCCOTH—BENOTH, *bythod y merched*, y rhai a wnaeth y Babiloniaid i'w heilunod. (2 Bren. xvii. 30.) Fe fernir mai pabellau oedd y rhai hyn, yn y rhai yr ymwerthai merched i buteinio, er anrhydedd rhyw dduwies serch a chwant, cyffelyb i Gwener *(Venus.)*

TAMMUZ, duw Syriaidd, o herwydd tynged yr hwn yr wylai merched Syria. (Ezec. viii. 14.) Dywedir mewn chwedloniaeth henafol mai gŵr ieuanc prydferth oedd Tammuz, yn byw yn mynyddau Libanus, yr hwn a laddwyd pan oedd yn hela. Wedi iddo farw, cafodd ei dduweiddio, a chedwid gwyl flynyddol gan ferched Syria yn mis Tammuz neu Orphenaf, er cof am ei farwolaeth. Wrth alaru am dano, dysgwylid i'r gwragedd eillio eu gwallt; ac os na wnaent, yr oeddynt i halogi eu hunain trwy buteinio â rhyw un dyeithr, a rhoddi gwobr eu hanwiredd i deml Gwener. Galara y prophwyd fod merched yr Iuddewon yn eilunaddoli a halogi eu hunain yn y dull hwn.

TARTAC, *arwr tywyllwch*, rhyw seren o ddygwyddiad drwg, fe ddichon fel Mawrth neu Sadwrn: un o eilunod yr Afiaid. (2 Bren. xvii. 31.)

Ar ol anadlu awyr lygredig, a syllu ar ofergoeledd, ffieidd-dra, a chreulonderau eilunaddoliaeth, a rhyfeddu mor fawr yw dirywiad a thrueni dyn, yr ydym yn teimlo grym geiriau y Salmydd yn fwy nag erioed:—"Gwyn ei byd y genedl y mae yr Arglwydd yn Dduw iddi." (Salm xxxiii. 12.) Pan y câ yr efengyl ei dylanwad priodol ar y byd, fe burir y ddaear oddiwrth halogrwydd eilunaddoliaeth, ac fe ddygir pawb yn mhob man i garu Duw ac anrhydeddu ei Fab; yna fe glywir "megys llef tyrfa fawr, ac megys llef dyfroedd lawer, ac megys llef taranau cryfion, yn dywedyd Aleliwia; oblegyd teyrnasodd yr Arglwydd Dduw Hollalluog." (Dad. xix. 6.) "Yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant ef." (Esai. vi. 3.) Amen.

Gwel *Dr. Jahn's Biblical Antiquities; Dr. Barrows's Biblical Geography and Antiquities; Dr. W. Smith's Classical Dictionary, and Dictionary of the Bible; Dr. B. Davies and Gesenius's Hebrew Lexicons; Dr. Robinson's Greek Lexicon; W. Jones's Biblical Cyclopædia; Dr. Jesse Appleton's Lectures on the Necessity of Revelation;* a *Leland's Advantage and Necessity of the Christian Revelation.*

DIWEDD.

# TAFLEN O YSGRYTHYRAU.

*(Y rhai yr ymdrechir eu hegluro, neu y cyfeirir yn neillduol atynt).*


### Genesis.

| | Tudal. |
|---|---|
| i. 1, 2, 4 | 442, 446 |
| 16 | 423 |
| 21 | 434 |
| ii. 10–14 | 448 |
| iii. 9–19 | 135 |
| iv. 1 | 338 |
| 15 | 425 |
| vi. 6 | 371, 434 |
| vii. 11, 12 | 449 |
| ix. 13 | 424 |
| xviii. 2, 10 | 136 |
| 13 | 143 |
| xix. 1, 13 | 136 |
| xxiii. 16 | 312 |
| xxiv. 32 | 266 |
| xxix. 9 | 256 |
| xxxi. 40 | 256 |
| xxxv. 31 | 254 |
| xxxvi. 31—43 | 46 |
| xlvi. 20, 27 | 421, 422 |
| 34 | 256 |
| xlviii. 15, 16 | 144 |
| xlix. 29 | 260 |
| l. 26 | 260 |

### Exodus.

| | |
|---|---|
| i. 15—20 | 174 |
| ii. 18, 19 | 330 |
| iii. 1–16 | 144, 236, 267 |
| iv. 1–8 | 90 |
| 4–9, 30 | 487 |
| vii. 1 | 479 |
| 11 | 91 |
| 22, 24 | 93 |
| viii. 6, 18, 19 | 91—94 |
| ix. 19, 25 | 246 |
| xi. 2, 3 | 175 |
| xii. 27 | 286 |
| 40 | 421 |
| xv. 11 | 90 |
| xvi. 36 | 46 |
| xvii. 14 | 156 |
| xxviii. 30 | 139 |

### Lefiticus.

| | Tudal. |
|---|---|
| viii. 8 | 139 |
| xvii. 11 | 431 |
| xx. 27 | 483 |

### Numeri.

| | |
|---|---|
| vii. 89 | 135 |
| x. 29 | 337 |
| xi. 8 | 280 |
| xii. 6 | 137 |
| xiv. 34 | 517 |
| xxi. 14 | 37 |
| xxii. 18 | 491 |
| xxiv. 14 | 498 |
| xxv. 9 | 339 |
| xxxiii. 2 | 156 |

### Deuteronomium.

| | |
|---|---|
| viii. 15 | 236 |
| x. 22 | 421 |
| xi. 22—24 | 233, 235 |
| xii. 31 | 68, 172 |
| xviii. 10–19 | 480—486 |
| 22 | 480 |
| xix. 14 | 279 |
| xx. 10 | 171 |
| xxii. 8 | 271 |
| xxiv. 6 | 282 |
| xxv. 4 | 253, 254 |
| xxvii. 1, 9–14 | 451 |
| 17 | 279 |
| xxx. 12, 13 | 467 |
| xxxi. 9, 24–26 | 42 |
| 26 | 43 |
| xxxii. 35 | 277 |

### Josua.

| | Tudal. |
|---|---|
| ii. 2–6 | 177 |
| 15 | 274 |
| vii. | 515 |
| viii. 33–35 | 451 |
| x. 12, 13 | 37, 452 |
| xv. 61 | 236 |
| xxiv. 26 | 43 |
| 29, 30 | 46 |

### Barnwyr.

| | |
|---|---|
| v. 30 | 352 |
| ix. 7 | 452 |
| xi. 29—40 | 453 |
| xiv. 11, 17 | 269 |
| xv. 19. | 425 |

### Ruth.

| | |
|---|---|
| i. 20 | 338 |
| ii. 14 | 280 |
| 17 | 253 |
| iv. 7, 8. | 267 |

### 1 Samuel.

| | |
|---|---|
| iii. 4–11 | 136 |
| 19 | 487 |
| x. 25 | 43 |
| xiii. 14 | 368 |
| xix. 20 | 488—490 |
| xxv. 1 | 262 |
| xxviii. | 146 |

### 2 Samuel.

| | |
|---|---|
| xi. 2 | 271 |
| xii. 9 | 368 |
| xv. 7 | 419 |
| 30 | 267 |
| xvii. 18 | 273 |

### 1 Breninoedd.

| | |
|---|---|
| ii. 11 | 419 |
| iv. 21 | 233, 522 |
| 32, 33 | 37 |
| vi. 5 | 136 |
| viii. 9 | 42, 434 |
| ix. 26 | 233 |

TUDAL.

x. 1 .. .. 235, 236
xviii. 18, 19 .. .. 560
xix. 19 .. .. 488
xxii. 6 .. .. 113

2 BRENINOEDD.

i. 2 .. .. .. 271
iv. 23 .. .. .. 499
vi. 32 .. .. .. 499
viii. 36 .. .. 420
ix. 11 .. .. .. 152
x. 22 .. .. .. 270
xviii. 13—16 .. 85
xx. 7 .. .. .. 239
xxii. 8 .. .. 43
xxiii. 16 .. .. 260
xxiv. 8 .. .. 420

1 CHRONICL.

xxix. 29 .. .. 38

2 CHRONICL.

v. 10 .. .. .. 42
ix. 29 .. .. .. 39
xxii. 2 .. .. 419
xxxii. 22, 23 .. .. 86
xxxvi. 9 .. .. 420
22, 23 .. .. 109

EZRA.

i. 4 .. .. .. 109
iv. 12 .. .. .. 109
vi. 1—13 .. .. 109
16 .. .. .. 296

NEHEMIAH.

viii. 1—8 .. .. 45

ESTHER.

viii. .. .. .. 295
ix. .. .. .. 295

JOB.

i. 19 .. .. .. 249
v. 6 .. .. .. 350
vi. 15—20 .. .. 351
xxx. 1 .. .. 255
xlii. 7 .. .. 374

SALMAU.

i. 1 .. .. 350, 351
ii. .. .. .. 358
viii. .. .. .. 474
xix. 4 .. .. .. 476
xx. .. .. .. 355
xxiii. 2 .. .. 391
xlvi. .. .. .. 355

TUDAL.

lx. 8 .. .. .. 267
lxvi. 9 .. .. 277
lxviii. 18 .. .. 474
lxxxii. 13 .. .. 273
lxxxiv. 11 .. .. 342
cxxi. .. .. .. 352
3 .. .. .. 277
6 .. .. .. 245
cxxvi. 6, 7 .. .. 273
cxxxii. .. .. 356

DIARHEBION.

iii. 23 .. .. .. 277
xvii. 23 .. .. 266
xxi. 18 .. .. 382
xxvii. 22 .. .. 289
xxix. 18 .. .. 30

ESAIAH.

ii. 3 .. .. .. 513
v. 1 .. .. .. 330
ix. 2, 6 .. .. 507
x. 33, 34 .. .. 506
xi. 1 .. .. 506, 519
6—8 .. .. 391
13 .. .. .. 514
14 .. .. .. 514
15 .. .. .. 514
xiii. 10—13 .. .. 511
xiv. 9—17 .. .. 261
xx. 2 .. .. .. 265
xxii. 16 .. .. 260
xxviii. 27, 28 .. 253
xxxiv. 9, 10 .. .. 511
xxxv. 7 .. .. 279
xxxviii. 12 .. .. 276
xxxix. 1, 2 .. .. 85
xliv. 28. .. .. 115
xlviii. 20, 21 .. 514
lii. 1 .. .. .. 329
4 .. .. .. 333
7 .. .. .. 340
10 .. .. .. 266
12 .. .. .. 519
liii. 4 . .. .. 164
5, 6 .. .. 507
9 .. .. .. 424
lvi. 18—23 .. .. 513
lix. 19 .. .. 248
lxii. 10 .. .. 277
lxiii. 1—3 .. .. 241
lxv. 17 .. .. 362

JEREMIAH.

i. 10 .. .. .. 510
iv. 7 .. .. .. 392
23 .. .. .. 442
x. 11 .. .. .. 72
xviii. 7—10 .. .. 517
xix. 5 .. .. .. 68
13 .. .. 557
xx. 9 .. .. .. 152
xxv. 15—17 .. .. 510

TUDAL.

xxvi. 15 .. .. 167
xxvii. 2, 8 .. .. 511
xxx. 9 .. .. 512
xxxii. 6, 8 .. .. 167
li. 11 .. .. .. 109

EZECIEL.

i. 3 .. .. .. 487
viii. 1 .. .. .. 499
xvi. 21 .. .. 68
xxi. 19—22 .. .. 481
xxxiv. 24 .. .. 513
xxxv. 7 .. .. 512
xxxvii. 11—14 .. 371

DANIEL.

iv. 16—32 .. .. 456
v. 2—6 .. .. 109
30 .. .. 108, 109, 129
vii. 1—7 .. .. 394
1 .. .. .. 137
ix. 2 .. .. .. 43
24 .. .. .. 507
xii. 8—13 .. .. 161

HOSEA.

i. 11 .. .. .. 514
ii. 14, 15 .. .. 515
iii. 4, 5 .. 505, 513
viii. 13 .. .. 515
ix. 3 .. .. .. 515
xi 1 .. .. .. 461
5 .. .. .. 516
xiv. 5 .. .. .. 250

JOEL.

ii. 20 .. .. .. 236
23 .. .. .. 245
iii. 6 .. .. .. 71

AMOS.

v. 19 .. .. .. 274
vii. 14 .. .. 488
ix. 11 .. .. .. 505

MICHAH.

iii. 11 .. .. .. 487
v. 1—6 .. .. 520
2 .. .. .. 507

ZECHARIAH.

xi. 13 .. .. .. 476
xii. 10 .. .. 233, 461
11 .. .. 262
xiii. 4 .. .. 488
xiv. 16—19 .. .. 513
20 .. .. 276

MALACHI.

iii. 1 .. .. .. 466
2 .. .. .. 386
iv. 2 .. .. .. 391

**Matthew.**

TUDAL.
ii. 1 .. .. .. 235
6 .. .. 464, 471
15 .. .. 461, 472
17, 18 .. .. 472
22 .. .. .. 122
iii. 12 .. .. .. 254
17 .. .. .. 136
iv. 8 .. .. .. 448
14—16 .. 471
v. 1 .. .. 331, 440
13 .. .. .. 250
21—28, 39, 40 .. 383
21, 32 .. .. 70
vi. 2 .. .. .. 384
19 .. .. .. 274
vii. 24—27 .. .. 247
viii. 14, 16 .. .. 83
17 .. .. .. 164
22 .. .. .. 370
23—26 .. .. 246
28 .. .. .. 340
ix. 6, 23 .. .. 262
17 .. .. .. 263
x. 10 .. .. .. 438
19, 20 .. 154, 159
27 .. .. .. 272
37 .. .. .. 334
xi. 4, 5 .. .. 156
13 .. .. 33, 479
25 .. .. .. 229
29 .. .. .. 371
xii. 17 .. .. 383
18—21 .. .. 465
27—43 .. 386, 387
40 .. .. 339
xiii. 31, 32 .. 243, 244
34, 35 .. .. 474
xiv. 25, 26 .. .. 386
xv. 9 .. .. .. 463
xvi. 18 .. .. 373
xvii. 24 .. 382, 362
xix. 28 .. .. 396
xx. 21 .. .. 386
xxii. 11 .. .. 269
41—46 .. .. 507
xxiii. 5 .. .. 266
15 .. .. .. 330
35 .. .. .. 428
xxiv. 17 .. .. 273
24 .. .. .. 109
29 .. .. .. 520
34 .. .. .. 520
36 .. .. .. 520
xxv. 9 .. .. 331
41—43 .. .. 387
xxvi. 23 .. .. 280
29 .. .. .. 391
31 .. .. 465
67, 68 .. .. 84
xxvii. 9, 10 .. 471, 476
35 .. .. .. 473
xxviii. 1 .. .. 439

**Marc.**

TUDAL.
i. 3, 4, 13 .. .. 236
21, 23 .. .. 83
ii. 4 .. .. 273
v. 2—5 .. .. 261
vi. 5 .. .. .. 81
8 .. .. .. 265
17 .. .. .. 122
22 .. .. .. 123
vii. 2, 3 .. .. 280
4 .. .. .. 263
x. 46 .. .. .. 340
xi. 13 .. .. .. 239
xv. 28 .. .. 471
45 .. .. .. 84
xvi. 2 .. .. .. 439

**Luc.**

i. 3 .. .. .. 149
ii. 7 .. .. .. 268
41—45 .. .. 275
iv. 5 .. .. .. 449
v. 19 .. .. .. 273
vi. 17 .. .. .. 440
38 .. .. .. 424
vii. 14 .. .. 260
36—38 .. .. 280
44 .. .. .. 266
ix. 52, 53 .. .. 268
62 ... .. .. 252
x. 4 .. .. .. 257
xii. 20 .. .. 424
54—56 .. .. 483
xiv. 26 .. .. 334
xv. 20 .. .. 331
xvi. 8 .. .. .. 330
24 .. .. .. 392
25 .. .. .. 384
29, 31 .. .. 33
xix. 42 .. .. 331
43, 44 .. .. 109
xxii. 51 .. .. 84
64 .. .. .. 84
xxiii. 39, 40 .. .. 340
xxiv. 21 .. .. 80
24 .. .. .. 32
42 .. .. .. 33

**Ioan.**

i. 14 .. .. .. 324
46 .. .. .. 80
iii. 5 .. .. .. 372
v. 13 .. .. .. 83
36 .. .. .. 332
39 .. .. .. 46
vi. 27 .. .. .. 335
31, 35, 39, 40, 45 370, 371.
31, 45 .. .. 462
53 .. .. .. 394
54 .. .. .. 390
vii. 17 .. .. 229
ix. 2 .. .. .. 386

TUDAL.
x. 22 .. .. 282, 296
34, 35 .. ..1 62
37 .. .. ..2 23
xii. 28 .. .. 136
34 .. .. .. 507
xiii. 23, 26 .. .. 280
xiv. 38 .. .. 434
xv. 25 .. .. 462
xviii. 10, 36 .. .. 84
xix. 36 .. .. 473
37 .. .. .. 461
38 .. .. .. 84
xx. 27, 28 .. .. 324
30 .. .. .. 149
xxi. 7 .. .. 265
25 .. .. 40, 149
27, 28 .. .. 234

**Actau.**

i. 6 .. .. .. 386
20 .. .. .. 473
ii. 22 .. .. .. 98
iii. 16 .. .. 99
21 .. .. .. 362
25 .. .. .. 462
iv. 13 .. .. 79
v. 17 .. .. .. 123
vii. 6, 14 .. .. 421
30—38 .. .. 144
ix. 18 .. .. .. 331
25 .. .. .. 274
x. 14, 28 .. .. 80
19 .. .. .. 167
xi. 2, 19 .. .. 80
xii. 19—23 .. .. 123
xiii. 22 .. .. 368
xv. 16, 17 .. .. 470
39 .. .. .. 80
xvi. 1 .. .. 85
3 .. .. .. 367
25 .. .. .. 384
xx. 1—3 .. .. 85
xxi. 23, 24 .. .. 124
xxiii. 4 .. .. 123
xxiv. 17 .. .. 85
xxvi. 14 .. .. 434
23 .. .. .. 438

**Rhufeiniaid.**

i. 17 .. .. .. 470
iii. 2 .. .. .. 47
28 .. .. .. 367
iv. 3 .. .. 46, 469
viii. 11 .. .. 386
ix. 22, 23 .. 331, 379
x. 6 .. .. .. 467
11, 13 .. .. 471
18 .. .. .. 476
xi. 9, 10 .. .. 463
22 .. .. .. 518
24 .. .. .. 389
34 .. .. .. 470

TUDAL.
xii. 1 .. .. .. 391
6 .. .. .. 376
19 .. .. .. 462
xiii. 1 .. .. 81
xiv 9.. .. .. 372
23 .. .. .. 387
xv. 3 .. .. .. 470
9–12 .. .. 471
25, 26 .. .. 85

1 CORINTHIAID.
i. 25 .. .. .. 332
31 .. .. .. 470
ii. 13 .. .. .. 154
14 .. .. .. 229
iii. 11–15 .. 370. 377, 378, 390.
vi. 9–11 .. .. 26
vii. 18, 19 .. .. 367
25 .. .. .. 181
40 .. .. .. 167
ix. 5 .. .. .. 83
12, 22 .. .. 81
x. 5 .. .. .. 83
8 .. .. .. 339
xi. 10 .. .. 427
xv. 12 .. .. 325
45 .. .. .. 163

2 CORINTHIAID.
iv. 6 .. .. .. 369
xi. 23.. .. .. 274
xii. 7.. .. .. 373

GALATIAID.
i. 8 .. .. .. 150
ii. 10–14 .. .. 80
iii. 16 .. .. 162
17 .. .. .. 421
iv. 13 .. .. 384
v. 2 .. .. .. 367
vi. 15.. .. .. 332
16 .. .. .. 31

EPHESIAID.
ii. 1 .. .. .. 391
3 .. .. .. 330
iv. 8 .. .. 465, 474
17–19 .. .. 26
25 .. .. .. 70

TUDAL.
v. 12 .. .. .. 26

PHILIPPIAID.
ii. 6 .. .. 434

COLOSSIAID.
i. 21, 22 .. .. 324
ii. 23 .. .. .. 327

2 THESSALONIAID.
ii. 1, 2 .. .. 42
1–10 .. .. 393
3 .. .. .. 330

1 TIMOTHEUS.
i. 4 .. .. .. 326
ii. 4 .. .. .. 370
15 .. .. .. 426
iii. 15 .. .. 85
16 .. .. .. 390
iv. 1–5 .. .. 327
v. 23 .. .. .. 169

2 TIMOTHEUS.
ii. 8, 18 .. .. 325
iii. 16 .. 151–154, 326
iv. 13 .. .. 169

TITUS.
iii. 5 .. .. 370, 396
9 .. .. 326

HEBREAID.
i. 3 .. .. .. 434
5 .. .. .. 473
5, 6, 8 .. .. 162
ii. 6–8 .. .. 474
13 .. .. .. 162
iii. 7, 13 .. .. 163
iv. 3 .. .. .. 332
9 .. .. .. 386
vii. 18, 19 .. .. 333
ix. 4.. .. .. 434
x. 5 .. .. .. 463
xii. 2 .. .. .. 266
26 .. .. .. 146
xiii. 2 .. .. 136

IAGO.
TUDAL.
ii. 24 .. .. .. 367

1 PEDR.
i. 2 .. .. .. 370
3, 23 .. .. 435
10–12 .. .. 161
ii. 5 .. .. .. 370
13, 14 .. .. 81
24 .. .. .. 164
iii. 19, 20 .. 333, 377
21 .. .. .. 372
iv. 3, 4 .. .. 26
6 .. .. .. 372

2 PEDR.
i. 20 .. .. .. 502
21 .. 151, 152, 154, 326
ii. 1 .. .. .. 325
iii. 2, 15, 16.. .. 148
13 .. .. .. 333

1 IOAN.
i. 1, 2 .. .. 324
ii. 22 .. .. .. 325
18 .. .. .. 393
iv. 1 .. .. .. 42
1–3 ..324, 325, 393
15 .. .. .. 325
v. 1, 5 .. 325, 326
6 .. .. .. 325

2 IOAN.
7 .. .. .. 324
10 .. .. .. 150

DADGUDDIAD.
i. 18 .. .. .. 396
ii. 6, 15 .. .. 328
17 .. .. .. 397
vii. 16, 17 .. .. 386
x. 11 .. .. .. 425
xi. 1 .. .. .. 516
3 .. .. .. 507
11 .. .. .. 395
xx. 4, 5 .. .. 395
xxii. 3 .. .. 335

*Mewn lledr, gilt edges, a chlasp, pris 10/6.*

# BIBL YR ATHRAW,

SEF

## YR HEN DESTAMENT

A'R

## NEWYDD,

GYDA

## CHYFEIRIADAU A MYNEGAIR:

CYNNWYSA HEFYD

DDETHOLIAD HELAETH O WYBODAETH ANHEBGOROL I DDEILIAID YR YSGOL SABBATHOL.

Addurnedig a Deuddeg o Fapiau.

CYHOEDDEDIG GAN

HUGHES A'I FAB,

56, HOPE STREET, WREXHAM.

ARGRAPHEDIG GAN GEORGE E. EYRE A WILLIAM SPOTTISWOODE,

ARGRAPHWYR I ARDDERCHOCCAF FAWRHYDI Y FRENHINES.

M.DCCC.LXXVII.

# RHAGDRAETH I'R ATTODIAD.

CYFERFYDD yr Athraw Beiblaidd yn gyffredin â *dau* anhawsder mawr—sef yn newisiad ei bwnc ac mewn diffyg amser. Hyd yn oed pan y bydd y pwnc wedi ei ddethol, bydd yn rhaid treulio cryn amser a llafur drachefn i'w weithio allan, ac i ddewis profion Ysgrythyrol, tuag at wneyd yr hyn y teimlir angen am lyfrau eraill. Y mae y rhai hyn yn gostus a thrafferthus yn gyffredin, ac yn anhawdd eu defnyddio tra yn addysgu; ac heblaw hyn, gan mai yr Athraw llafurus mewn rhagbarotoi ydyw yr un a all gyfranu fwyaf yn yr amser byraf, y mae yn rhaid bod yn ddiwyd i feistroli a dosranu y manylion, ac i gael allan y dull goreu i osod gwahanol ranau y wers, y naill ar ol y llall, mor naturiol fel ag i barotoi meddyliau y dysgyblion i'w derbyn yn mlaenllaw.

Amcan y Llawlyfr hwn ydyw awgrymu pynciau, cynilo amser, a hyrwyddo trefn, drwy restriad dosparthus o fanylion; ac yn mhellach, drwy gyfeiriadau, drwy restr o brif enwau, geiriau, ac ymadroddion, ac yn neillduol drwy Fynegair cynnwysfawr—i alluogi Athrawon ac eraill i beri i'r Beibl esbonio ei hun. Fe ganfyddir mai dyma ydyw y dull mwyaf dyddorol i gyrhaedd gwybodaeth grefyddol, a'r unig safon ddiogel: "Chwiliwch yr Ysgrythyrau," drwy gymharu eu gwahanol ranau.

Wrth gasglu a threfnu y Llawlyfr hwn, darganfyddodd y golygydd fod y Mynegeiriau sydd eisioes yn yr iaith Gymraeg yn dra anghywir. Y mae hyd yn oed y goreu yn cynnwys amryw ganoedd o feiau cyfeiriadol, ereill yn wallus mewn trefniant—rai o honynt, fel y mae yn hynod, yn dilyn yr egwyddor Saesonig yn lle y Gymraeg; a'r oll o honynt yn rhy drwchus a thrafferthus i'w defnyddio ar yr un pryd gyda'r Beibl yn y dosparth. Fe gynnwys y gwaith hwn, gan hyny, y Mynegair cywiraf (a dweyd y lleiaf) mewn trefniant, ac yn ddigon cynnwysfawr i'w gydrwymo âg argraffiad o'r Beibl, er ffurfio un gyfrol gyfleus. Y mae y Crynodeb o'r Ysgrythyrau sydd yn dilyn y Mynegair wedi ei gyfansoddi gan un o ysgolheigion *Hebraeg* goreu ac un o dduwinyddion iachaf yr oes, ac wedi ei gyfieithu, trwy ganiatâd argraffwyr ei Mawrhydi, o'r Attodiad i'r llyfr rhagorol, *Sunday School Teacher's Bible.* Y mae y bennod ar Ddaearyddiaeth wedi ei hysgrifenu yn neillduol i'r gwaith hwn, ar gynllun newydd a syml.

Dysgrifir prif wledydd y Beibl yn eu hagwedd naturiol, a'r adranau yn eu trefn ddaearyddol, o'r gogledd i'r deau, i gyfateb â'r mapiau, y rhai sydd wedi eu dethol yn fanwl. Cynnwysa y bennod hon, a'r taflenau cysylltiedig, yn nghyd â'r mapiau, y wybodaeth gywiraf hyd adeg cyhoeddiad y llyfr. Cynnwysa y taflenau dilynol amrywiaeth mawr o fanylion gwerthfawr.

Amcan y golygydd yn y gwaith oedd crynhoi ynghyd y swm helaethaf o wybodaeth Feiblaidd a gyhoeddwyd erioed o fewn terfynau cyffelyb; a hyderir fel y deuir i adnabod y llyfr, y teimla, nid yn unig bob athraw, ond pob dysgybl, y dylai ei feddiannu.

Y GOLYGYDD.

*Rhagfyr*, 1876.

# Y CYNNWYSIAD.

1. Mynegair cyflawn (PETER WILLIAMS), wedi ei *ddiwygio gyda'r gofal mwyaf.*
2. Dangoseg egwyddorol o Enwau Priodol yn yr Hen Destament a'r Newydd ; gydag arwyddocâd y geiriau yn yr ieithoedd gwreiddiol.
3. Y tri Herod y sonir am danynt yn y Testament Newydd.
4. Y chwe' Mair y sonir am danynt yn y Testament Newydd.
5. Ymddangosiadau yr Iesu wedi adgyfodi.
6. Cyfnodau Hanesyddiaeth Ysgrythyrol.
7. Casgliad o'r holl Enwau a'r Teitlau a roddir i Iesu Grist yn yr Ysgrythyrau.
8. Enwau a Theitlau yr Yspryd Glân.
9. Casgliad o'r Enwau a'r Teitlau a roddir ar y Saint, y Wir Eglwys, Gweinidogion Ffyddlon, ac ar Ras Cadwedigol, a'r pethau y cyffelybir hwy iddynt yn yr Ysgrythyrau.
10. Gwyrthiau Crist, a'r lleoedd eu cyflawnwyd.
11. Crynodeb o Lyfrau yr Hen Destament a'r Newydd, yn cynwys eu Dilysrwydd, eu Hawduriaeth, a'u Hamcan, yn ol yr awdurdodau diweddaraf.
12. Golwg Daflenol ar Lyfrau y Beibl, a'u Testynau.
13. Dysgrifiad cyffredinol o Wledydd y Beibl, neu Syria.
14. Calaniadur Biblaidd, wedi ei drefnu mor gywir ac mor agos i iaith yr Ysgrythyr ag y mae yn bosibl.
15. Yr afonydd a grybwyllir yn y Beibl.
16. Llynau nodedig y Beibl.
17. Y Mynyddoedd a'r Bryniau a grybwyllir yn y Beibl, wedi eu trefnu yn ddaearyddol o'r Gogledd i'r Dehau.
18. Dammegion yr Hen Destament.
19. Prif Ddammegion y Testament Newydd.
20. Digwyddiadau hynod a gofnodir yn yr Ysgrythyr.
21. Dechreuad Cenhedloedd.
22. Barnwyr Israel.
23. Brenhinoedd Juda cyn y rhaniad.
24. Brenhinoedd cydamserol Israel a Judah.
25. Brwydrau y Beibl.
26. Gwarchaeoedd Jerusalem fel y coffeir hwynt yn yr Ysgrythyrau.
27. Barnedigaethau Dwyfol.
28. Gweddïau hynod.
29. Y Prophwydi yn eu trefn amseryddol.
30. Teithiau yr Apostol Paul.
31. Areithiau ac Ymddiddanion hynod yn yr Hen Destament.
32. Archoffeiriaid yr Hebreaid.

*Ynghyda Deuddeg o Fapiau Lliwiedig.*

Cyn CRIST 1491.

15 Pan welodd meibion Israel *hynny,* hwy a ddywedasant wrth eu gilydd, ‖ Manna *yw:* canys ni wyddent beth *ydoedd.* A dywedodd Moses wrthynt, [m] Hwn *yw* y bara a roddodd yr ARGLWYDD i chwi i'w fwytta.

16 ¶ Hyn yw y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD; Cesglwch o hono bob un yn ol ei fwytta: omer i bob † un yn ol rhifedi eich eneidiau; cymmerwch bob un i'r rhai fyddant yn ei bebyll.

17 A meibion Israel a wnaethant felly; ac a gasglasant, rhai fwy, a rhai lai.

18 A phan fesurasant wrth yr omer, [n] nid oedd gweddill i'r hwn a gasglasai lawer, ac nid oedd eisieu ar yr hwn a gasglasai ychydig: casglasant bob un yn ol ei fwytta.

19 A dywedodd Moses wrthynt, Na weddilled neb ddim o hono hyd y bore.

20 Er hynny ni wrandawsant ar Moses, onid gadaw a wnaeth rhai o hono hyd y bore; ac efe a fagodd bryfed, ac a ddrewodd: am hynny Moses a ddigiodd wrthynt.

21 A hwy a'i casglasant ef bob bore, pob un yn ol ei fwytta: a phan wresogai yr haul, efe a doddai.

22 ¶ Ac ar y chweched dydd y casglent ddau cymmaint o fara, dau omer i un: a holl bennaethiaid y gynnulleidfa a ddaethant ac a fynegasant i Moses.

23 Ac efe a ddywedodd wrthynt, Hyn yw y peth a lefarodd yr ARGLWYDD; Y fory *y mae* [o] gorphwysfa Sabboth sanctaidd i'r ARGLWYDD: pobwch *heddyw* yr hyn a boboch, a berwch yr hyn a ferwoch; a'r holl weddill, rhoddwch i gadw i chwi hyd y bore.

24 A hwy a'i cadwasant hyd y bore, fel y gorchymynasai Moses: ac ni ddrewodd, ac nid oedd pryf ynddo.

25 A dywedodd Moses, Bwyttêwch hwn heddyw; oblegid Sabboth *yw* heddyw i'r ARGLWYDD: ni chewch hwn yn y maes heddyw.

26 Chwe diwrnod y cesglwch chwi ef; ond ar y seithfed dydd, yr hwn *yw* y Sabboth, ni bydd efe.

27 ¶ Etto *rhai* o'r bobl a aethant allan ar y seithfed dydd, i gasglu; ond ni chawsant ddim.

28 A'r ARGLWYDD a ddywedodd wrth Moses, Pa hŷd y gwrthodwch gadw fy ngorchymynion a'm cyfreithiau?

29 Gwelwch mai yr ARGLWYDD a roddodd i chwi y Sabboth; am hynny efe a roddodd i chwi y chweched dydd fara dros ddau ddydd: arhoswch bawb gartref; nac aed un o'i le y seithfed dydd.

30 Felly y bobl a orphwysasant y seithfed dydd.

31 A thŷ Israel a alwasant ei enw ef Manna: ac [p] yr oedd efe fel had coriander, yn wyn, a'i flas fel afrllad o fêl.

32 ¶ A Moses a ddywedodd, Dyma y peth a orchymynodd yr ARGLWYDD; Llanw omer o hono i'w gadw i'ch cenhedlaethau; fel y gwelont y bara y porthais chwi âg ef yn yr anialwch, pan y'ch dygais allan o wlad yr Aipht.

33 A Moses a ddywedodd wrth Aaron, [q] Cymmer grochan, a dod ynddo lonaid omer o'r manna; a gosod ef ger bron yr ARGLWYDD y'nghadw i'ch cenhedlaethau.

34 Megis y gorchymynodd yr ARGLWYDD i Moses, felly y gosododd Aaron ef i gadw ger bron y dystiolaeth.

35 A meibion Israel a fwyttasant y manna ddeugain mlynedd, [r] nes eu dyfod i dir cyfanneddol: manna a fwyttasant nes eu dyfod i gwrr gwlad Canaan.

36 A'r omer ydoedd ddegfed ran ephah.

## PENNOD XVII.

1 *Y bobl yn tuchan am ddwfr yn Rephidim.* 5 *Duw yn eu hanfon hwy am ddwfr i'r graig yn Horeb.* 8 *Gorchfygu Amalec trwy ddal dwylaw Moses i fynu.* 15 *Moses yn adeiladu yr allor JEHOFAH-Nissi.*

A [a] HOLL gynnulleidfa meibion Israel a aethant o anialwch Sin, wrth eu teithiau, yn ol gorchymyn yr ARGLWYDD; ac a wersyllasant yn Rephidim: ac nid oedd dwfr i'r bobl i yfed.

2 [b] Am hynny y bobl a ymgynhennasant â Moses, ac a ddywedasant, Rhoddwch i ni ddwfr i yfed. A dywedodd Moses wrthynt, Paham yr ymgynhennwch â mi? Paham [c] y temtiwch yr ARGLWYDD?

3 A'r bobl a sychedodd yno am ddwfr; a thuchanodd y bobl yn erbyn Moses, ac a ddywedodd, Paham y peraist i ni ddyfod i fynu o'r Aipht, i'n lladd ni, a'n plant, a'n hanifeiliaid, â syched?

4 A Moses a lefodd ar yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, Beth a wnaf i'r bobl hyn? ar ben ychydig etto hwy a'm llabyddiant i.

5 A dywedodd yr ARGLWYDD wrth Moses, Cerdda o flaen y bobl, a chymmer gyd â thi o henuriaid Israel: cymmer hefyd dy wialen yn dy law, yr hon [d] y tarewaist yr afon â hi, a cherdda.

6 [e] Wele, mi a safaf o'th flaen yno ar y graig yn Horeb; taro dithau y graig, a daw dwfr allan o honi, fel y gallo y bobl yfed. A Moses a wnaeth felly y'ngolwg henuriaid Israel.

7 Ac efe a alwodd enw y lle [f] ‖ Massah, a ‖ Meribah; o achos cynnen meibion Israel, ac am iddynt demtio yr ARGLWYDD, gan ddywedyd, A ydyw yr ARGLWYDD yn ein plith, ai nid *yw?*

8 ¶ [g] Yna y daeth Amalec, ac a ymladdodd âg Israel yn Rephidim.

9 A dywedodd Moses wrth [h] Josua, Dewis i ni wŷr, a dos allan ac ymladd âg Amalec: y fory mi a safaf ar ben y bryn, â [i] gwialen DUW yn fy llaw.

10 Felly Josua a wnaeth fel y dywedodd Moses wrtho; ac a ymladdodd âg Amalec: a Moses, Aaron, a Hur, a aethant i fynu i ben y bryn.

11 A phan godai Moses ei law, y

---

‖ Neu, *Beth yw hwn?* neu, *Rhan yw.*
m Ioan 6. 31. 1 Cor. 10. 3.
† Heb. *pen.*
n 2 Cor. 8. 15.
o Gen. 2. 3.
p Num. 11. 7.

Cyn CRIST 1491.
q 1 Bren. 8, 9. Heb. 9. 4.
r Jos. 5. 12. Neh. 9. 15.
a Num. 33. 12, 14.
b Num. 20. 3, 4.
c Ps. 78. 41. 1 Cor. 10. 9.
d pen. 7. 20.
e Num. 20. 10. Ps. 78. 15. a 105. 41. a 114. 8. 1 Cor. 10. 4.
f Num. 20. 13 Ps. 81. 7. a 95. 8. Heb. 3. 8.
‖ *Profedigaeth.*
‖ *Cynnen.*
g Deut. 25. 17. 1 Sam. 15. 2.
h A elwir *Iesu.* Act. 7. 45.
i pen. 4. 20.

*Mewn 4 Cyfrol, Croen Llo, pris 14s. y Gyfrol.*

Y

# DEONGLYDD BERNIADOL

SEF

EGLURHAD MANWL AR EIRIAU, BRAWDDEGAU, AC ATHRAWIAETHAU DWYFOL

## YR HEN DESTAMENT,

WEDI EI GASGLU

## O Weithiau oddeutu 250 o Brif Ferniaid y byd.

ER GWASANAETH

## TEULUOEDD A'R YSGOLION SABBOTHOL.

GAN Y

## PARCH. J. JONES (IDRISYN).

Golygydd a Chasglydd yr "*Esboniad Berniadol.*"

---

*Hefyd, yn un Gyfrol, Croen Llo, pris 17s., y*

# DEONGLYDD BERNIADOL

AR Y

## TESTAMENT NEWYDD,

GAN YR UN AWDWR.

---

WREXHAM: HUGHES & SON, CYHOEDDWYR.

Mewn Llian hardd, Pris 2s. 6c.

Y

# COFIADUR YSGRYTHYROL:

SEF

## Dosraniad Manwl o'r Holl Feibl.

THE LIBRARY OF THE
MAR 25 1930
UNIVERSITY OF ILLINOIS

### Y CYNNWYSIAD.

| | TUDAL. |
|---|---|
| RHAGYMADRODD | 5 |
| Y Llyfrau Cyssegredig—nifer eu pennodau | 7 |
| Gwyrthiau Crist a'r lleoedd eu cyflawnwyd | 8 |
| Golwg Daflenol o'r Llyfrau Cysegr Lân a'u Testynau | 9 |
| Teithi y Llyfrau Cysegr Lân | 10 |
| DOSRANIAD O BENNODAU Y BEIBL | 12 |
| Neillduolrwydd yr Efengylwyr | 64 |
| Dygwyddiadau hynod wedi eu gosod yn ol y drefn Ysgrythyrol | 65 |
| Dechreuad Cenedloedd | 68 |
| Archoffeiriaid yr Hebreaid | 69 |
| Barnwyr Israel | 71 |
| Breninoedd Judah cyn y rhaniad | 72 |
| Mamau Breninoedd | 75 |
| Breninoedd Paganaidd y sonir am danynt yn yr Ysgrythyr | 76 |
| Gwledydd a Lleoedd o Enwogrwydd a enwir yn y Beibl | 79 |
| Brwydrau | 89 |
| Gwarchaeoedd Jerusalem | 91 |
| Llofruddiaethau, hunan-laddiadau, cyflafanau, a dienyddiadau | 92 |
| Barnedigaethau Dwyfol | 95 |
| Hen Eilunod | 96 |
| Areithiau ac Ymddyddan hynod | 97 |
| Pregethau, Areithiau, ac Atebion Crist | 99 |
| Gweddiau | 101 |
| Y Prophwydi yn eu trefn amseryddol | 102 |
| *Rhifyddiaeth Ysgrythyrol* | 103 |
| Lleoedd a Gwledydd yr ymwelodd yr Apostol Paul â hwynt | 111 |
| Teithiau yr Apostol Paul | 112 |
| Eto, gan HENRY WILBUR, M.A. | 115 |
| Eto, gan y Parch. J. C. CROSTHWAITE, M.A. | 116 |
| Pethau neillduol am yr Epistolau | 117 |
| Enwau anghyfieithiedig | 118 |
| Iaith gysgodol y prophwydi | 120 |
| Esboniad ar adnodau tywyll | 123 |
| Diarhebion detholedig | 126 |
| *Agoriad i'r Addewidion* | 127 |
| Bygythion a rhybyddion | 135 |
| Athrawiaethau y Beibl | 139 |
| Cyfarwyddiadau byrion | 142 |
| Cynorthwyon Ysgrythyrol i weddi gymdeithasol a dirgel | 144 |
| Crynodeb o hanes personau crefyddol | 147 |
| Enwau a theitlau Crist | 163 |
| Enwau a theitlau yr Ysbryd Glân | 164 |
| Dammegion yr Hen Destament a'r Newydd | 165 |
| Amrywiaethau | *ib.* |
| Adchwanegol | 171 |
| Cyfnodau yn Hanesyddiaeth Ysgrythyrol | 172 |

*CYHOEDDEDIG GAN HUGHES & SON, WREXHAM.*

208 - 280 - 360

UNIVERSITY OF ILLINOIS-URBANA
220.7 J71B C001
Beibl a'i ddehongliad : neu Arweiniad i
3 0112 087614365